Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

# Y Cymro 1932-45: Hanes sefydlu Y Cymro, ei ddatblygiad a'i gynnwys hyd ddiwedd yr ail ryfel byd.

Tudud, Rhys

*Award date:*
2000

*Awarding institution:*
Prifysgol Bangor

Link to publication

**General rights**
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

**Take down policy**
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 29. Apr. 2024

# *Pennod 3:*
# *Ysgrifau Blaen*
# *Y Cymro*

I'W DDEFNYDDIO YN Y
LLYFRGELL YN UNIG

TO BE CONSULTED IN THE
LIBRARY ONLY

P.C.B LLYFRGELL U.W.B LIBRARY

*Llosgi Ysgol Fomio Penyberth*

Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf bod holl achos llosgi ysgol fomio Penyberth wedi derbyn sylw helaeth iawn yn Y Cymro a bod adroddiadau'r papur a ymdriniai â'r achos nid yn unig yn dda ond mewn gwirionedd yn rhagorol. Diddorol eithriadol yw darllen ysgrifau blaen y papur a ymdriniai â'r achos a chadarnhau bod Y Cymro, fel 'Papur Cenedlaethol Cymru', er nad yn cefnogi gweithred y llosgi fel y cyfryw, yn cydymdeimlo â'r tri gŵr a'i chyflawnodd ac yn eu hedmygu am eu safiad dewr.

Ymdrinir â helynt yr ysgol fomio am y tro cyntaf yn ysgrif flaen rhifyn 7 Mawrth 1936 o'r Cymro, yn dilyn cyffro a fu ym Mhwllheli y nos Sadwrn flaenorol pryd y bu i nifer o derfysgwyr rwystro Saunders Lewis, arweinydd Plaid Genedlaethol Cymru, rhag siarad mewn cyfarfod a drefnwyd gan arweinwyr y Blaid fel protest yn erbyn sefydlu'r ysgol. Pan geisiodd yntau siarad o flaen y gynulleidfa yn ysgoldy un o gapeli'r dref, dechreuodd nifer o'r 'gwrandawyr' oedd yno godi ar eu traed gan weiddi a rhegi, gydag eraill yn canu ac yn ysgwyd eu dyrnau'n ffyrnig.

Yr oedd y mwyafrif helaeth o'r gwrthwynebwyr hyn yn ddi-waith ac felly'n wallgof bod rhywun megis Saunders Lewis, a oedd mewn swydd ac yn derbyn cyflog nid ansylweddol, yn meiddio siarad yn erbyn unrhyw siawns o waith i'r ardal. Gwaeddent bethau megis, "Ewch yn ôl i Dde Cymru", "Nid oes arnom eisiau neb fel chi i fradychu ein gwlad", "Pam na ofynnwch i'r Pab pam na wnaiff rwystro'r rhyfel yn Abysinia?", "Rydych chi yma i geisio'n rhwystro i gael gwaith", "Eisiau gwaith sydd arnom ni; y mae'n cypyrddau ni'n wag a'ch rhai chi'n ddigon sicr o fod yn llawn", gan lwyddo i rwystro Saunders Lewis rhag annerch y cyfarfod ac felly ennill y dydd o'u safbwynt hwy. O dan y pennawd **RHYDDID** gwelir nad yw'r Cymro yn cefnogi gweithrediadau'r protestwyr fel y cyfryw; serch hynny nid yw'n eu condemnio ychwaith gan ei fod yn medru cydymdeimlo â hwy yn eu sefyllfa anobeithiol:

> *Y MAE'R terfysg a fu ym Mhwllheli, pan rwystrwyd yr Athro Saunders Lewis, arweinydd y Blaid Genedlaethol, i annerch cyfarfod mewn ysgoldy capel, yn dangos fel y mae diffyg gwaith yn andwyo dynion a pheri iddynt weithredu mewn modd cwbl annheilwng o werinwyr rhydd.*
>
> *Osgoi gwir achos y digwyddiad annymunol a fyddai sôn am bwysigrwydd rhyddid barn a llafar. Er mai'r siaradwyr a rwystrwyd i ddatgan eu barn yn y cyfarfod, y terfysgwyr sydd fwyaf dan ormes creulon ar farn a*

*meddwl. Fe'u gwasgwyd gan amgylchiadau i edrych ar ddogn o waith yng ngwasanaeth Duw Mawrth fel bendith o'r nef, ac yn y cyflwr trist hwnnw yr oedd unrhyw brotest yn enw delfrydau heddwch a chenedlaetholdeb amgenach yn ymddangos fel gwadiad ar wladgarwch ac yn rhwystr iddynt gael gwaith, sydd heddiw'n amod byw.*

*Oherwydd na ddysgasom droi'r llawnder sy'n bosibl yn safon resymol o fyw i bob teulu adeg heddwch, fe groesewir paratoadau rhyfel fel bendith am eu bod yn golygu gwaith a bywoliaeth i filoedd nad oes dim ond tlodi a phryder iddynt amser heddwch. Un o'r digwyddiadau sy'n gondemniad ar ein camdrefn oedd terfysg Pwllheli.*

Ymhelaethir ar yr un safbwynt yn rhifyn 4 Ebrill 1936 o'r papur dan y pennawd CYMRU AC ARFAU. Yn yr ysgrif flaen hon gwelir bod Y Cymro yn erbyn egwyddor sylfaenol sefydlu'r ysgol fomio gan ei bod yn cynrychioli rhyfel a lladd, dau beth cwbl wrthun yng ngolwg y papur ar y pryd, a hefyd yn cynrychioli gorthrymder cenedl fwy yn erbyn cenedl fechan sydd â'i hiaith a'i thraddodiadau a'i diwylliant ei hunan, rhywbeth arall yr un mor wrthun i'r papur. Unwaith eto, fodd bynnag, nid yw'r Cymro yn beio'r bobl ddi-waith sydd mor barod i 'lyncu'r abwyd', yng ngeiriau'r papur, hyd yn oed os nad yw'r abwyd hwnnw mor iach ag yr ymddengys yn allanol:

*FE ddibynna grym gwrthwynebiad dynion i fwriadau Llywodraeth Prydain i sefydlu gorsafoedd rhyfel a ffatrïoedd arfau yng Nghymru ar natur eu cenedlaetholdeb a dyfnder eu hargyhoeddiad yn erbyn rhyfel.*

*Os credwn fod rhyfel yn beth i'w gymeradwyo, ac fod eisiau byddin a llynges, ac nad oes gan Gymru ddim hawl i fod yn gwbl annibynnol ar Loegr, yna y mae'n anodd canfod un rheswm cryf dros brotestio yn erbyn ysgol fomio yn Llŷn neu orsaf lyngesol ym Mhenfro. Os cyfiawn neu anorfod rhyfel, yna rhesymol yw paratoi ar ei chyfer, ac os mai un yw Cymru a Lloegr diflanna pob dadl gadarn yn erbyn i'r Swyddfa Ryfel wneud fel y gwêl orau ynglŷn â dewis rhannau addas o'n Tywysogaeth i wneuthur y deyrnas yn gref i wrthsefyll pob gelyn.*

*Y mae i'r brotest a wneir yn erbyn codi ysgol fomio ym Mhorth Neigwl ddwy sail gadarn. Un yw fod rhyfel yn ddrwg, ac fod Prydain wrth ymuno yn yr ymryson arfogi yn troseddu yn erbyn ei delfrydau uchaf hi ei hun ac yn erbyn gwareiddiad. Y llall yw fod Cymru'n wlad gyda'i hiaith, ei thraddodiadau, a'i hawliau arbennig ei hunan, ac nad oes gan Loegr ddim hawl foesol i sathru ar y rheini hyd yn oed er mwyn ei diogelwch ei hun.*

*Os cymerir yr agwedd yma, yn sicr nid ysbryd gwrth-wlatgar sydd tu ôl i'r brotest. Ond yn rhyfedd fe geir rhai sy'n canmol y duedd naturiol i hunan-amddiffyn pan gymer y ffurf o gryfhau arfogaeth Prydain yn condemnio'r un duedd yn union mewn Cymro na fynn weled sarnu ar ddiwylliant a thraddodiadau ei genedl er mwyn cryfhau amddiffyn yr Ymerodraeth.*

*Diamau y dywaid rhai nad oes gennym fel Cymry ddim cweryl yn erbyn Lloegr, ac yn hytrach na'n gorthrymu fod Llywodraeth yr Ymerodraeth wedi parchu'n hawliau fel cenedl fechan. Atebwn mai teg mesur y parch hwnnw wrth ateb y Llywodraeth ei hun i'r brotest, canys fe ŵyr y*

*Llywodraeth gystal â neb ei bod yn rhoi dyrnod i'n hiaith a'n traddodiad wrth estyn cortynnau'i gwersyll arfog i'r ardaloedd tawel sy'n galon ein bywyd cenedlaethol.*

*Ofnai un o'r siaradwyr yng nghyfarfod Urdd y Graddedigion fod Cymru'n croesawu polisi'r ail-arfogi. Diamau fod miloedd lawer o rai sydd wedi bod yn hir ar domen anghyflogaeth, ac yn gweled eu meibion a'u merched yn tyfu i fyny heb erioed gael cyfle i ddysgu gwaith nac ennill dim cyflog, a fuasai'n curo dwylo wrth glywed am agor ffatri er iddi fod yn ffatri arfau. Ond a ellir ystyried hynny'n farn Cymry rhydd?*

*Na, nid dynion rhydd mohonynt, ac nid gwir farn Cymru mo'u croeso i ffatri offer lladd. Yn hytrach trueiniad ydynt a wasgwyd gan amgylchiadau i edrych ar ddogn o waith yng ngwasanaeth Duw Rhyfel fel bendith o'r nef. Yn ei newyn y mae dyn yn llyncu'r abwyd sy'n cuddio'r bach, ond nid wrth yr abwyd y neidia ato yn y cyflwr hwnnw y mae barnu ei chwaeth.*

*Y peth mwyaf arwynebol yn yr holl siarad yw awgrymu mai helpu Cymru yw'r amcan. Ei natur a benderfyna ai lles ai drwg yw diwydiant newydd a ddygir i wlad. Ni ychwanega diwydiant arfau rhyfel werth un geiniog at wir olud gwlad, eithr fe wna'r dinistr ar olud a bywydau'n fwy sicr. Gwir y daw manteision lu yn sgil cynlluniau o'r fath, ond dim cymaint ag un fantais na ellid ei chael hefyd pe mentrid er mwyn gwella bywyd adeg heddwch yr hyn a fentrir i baratoi ar gyfer lladd a dinistrio.*

Cafodd adeiladau'r ysgol fomio eu llosgi yn hwyr nos Lun 7 Medi 1936 ond yn rhyfeddol, ar yr olwg gyntaf o leiaf, ni soniwyd gair am y weithred yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos o'r Cymro, er bod y digwyddiad wedi derbyn sylw helaeth ar ddwy dudalen gyntaf y papur; yn wir, yn fwy rhyfeddol byth ni soniwyd gair am y weithred yn un o ysgrifau blaen Y Cymro am rai wythnosau wedyn. Yn ysgrif flaen rhifyn 17 Hydref 1936 fodd bynnag, a'r achos cyntaf ym mrawdlys Caernarfon wedi bod ar y dydd Mawrth blaenorol, ceir eglurhad ar hyn, sef nad lle na hawl y papur oedd barnu hyd nes y câi'r achos ei derfynu a'r ddedfryd ei chlywed. Gwelwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf fod y rheithwyr wedi anghytuno yn y prawf cyntaf yng Nghaernarfon gan olygu nad hyn oedd diwedd achos llosgi'r ysgol fomio: o'r herwydd, nid oedd Y Cymro hyd yma yn rhydd i leisio'i farn ar y mater, er ei fod serch hynny'n siarad yn gryf ynglŷn â phwnc yn deillio'n uniongyrchol o'r achos, sef lle'r iaith Gymraeg yn y llysoedd:

LLE'R IAITH

*AMLYGU mewn modd arbennig yr hyn sy'n amlwg mewn aml i achos cyfreithiol a wnaeth praw y tri chenedlaetholwr ym Mrawdlys Caernarfon, sef nad yw'n rhesymol na bai'r Gymraeg ar yr un tir yn hollol â'r Saesneg mewn llys barn.*

*Ar yr achos neilltuol oedd gerbron y llys ni allwn, ac ni fynnem,*

*ddywedyd dim, canys rhaid fydd iddo ddyfod gerbron barnwr a rheithwyr mewn brawdlys arall.*

*Ni ofyn rheolau cyfraith nac egwyddorion tegwch, fodd bynnag, i ni fod yn fud ar y pwnc cyffredinol o le'r iaith Gymraeg mewn llys barn. Y mae'n bwnc pwysig i'n cenedl, ac yn fater hefyd y byddai ei ddatrys yn hwyluso gwaith ein llysoedd. Dadleuodd 'Y Cymro' mewn ysgrifau blaen, ac mewn deiseb a arwyddwyd gan ragor na naw mil o bobl, y byddai rhoddi'r iaith Gymraeg ar yr un tir â'r Saesneg yn ein llysoedd barn yn hwyluso gwaith y llysoedd hynny, yn rhoddi gwell sicrwydd cyfiawnder i'r parteion, yn ogystal â bod yn gyfiawnder â chenedl.*

*Amlhau y mae'r achosion sy'n cadarnhau'r ddadl honno, ac nid eithriad mo'r praw yng Nghaernarfon.*

*Bu achosion yng Nghymru lle bu gofyn i Gymry adael mainc y rheithwyr oherwydd na ddeallent Saesneg, ond y tro hwn i nifer o rai na ddeallent Gymraeg y gwrthwynebwyd. Pan fo tystiolaethau'n cael eu rhoddi yn Gymraeg, neu'n debyg o gael eu rhoddi yn Gymraeg, ystyriwn ni y dylai pob rheithiwr ddeall ein hiaith. Pa mor fedrus bynnag fo cyfieithydd, y mae'n gwbl amhosibl iddo bob amser wneuthur perffaith chwarae teg â'r hyn a gyfieithir, canys y mae yna idiomau a geiriau sy'n herio pob cyfieithiad. Nid "ffars" na mympwy yw gofyn am symud ymaith bob perygl i reithwyr gamddeall yr iod lleiaf mewn dadl neu dystiolaeth. Fe gydlawenha'r rhai sy'n eiddigus dros yr iaith â'r rhai sy'n eiddigus am berffeithrwydd cyfiawnder llys oherwydd cydnabod mewn brawdlys yng Nghymru yr egwyddor bwysig y dylai'r rheithwyr fedru Cymraeg, os y gelwir am hynny gan ddiffynydd neu erlynydd.*

*Er hynny, ni olyga cydnabod yr egwyddor yma, er ei phwysiced, osod y Gymraeg ar yr un tir â'r Saesneg yn ein llysoedd. Oni wneir hynny, dywedwn yn bendant fod hwylustod gweinyddiad y gyfraith yn cael ei lesteirio ac un o hawliau naturiol cenedl yn cael ei gwadu.*

*Nid yn unig y mae cyfieithu tystiolaeth neu ddatganiad yn straen drom ar fedr cyfieithydd, ac yn peri oedi'r gwaith yn y llys, ond y mae hefyd yn straen ar amynedd, fel y pwysleisiodd Mr. Moelwyn Hughes pan dderbyniwyd dirprwyaeth 'Y Cymro' gan y Comisiwn Brenhinol ar Hwyluso Gwaith y Llysoedd.*

*Er cael cyfieithwyr medrus, ac er pob parodrwydd o du barnwyr i alw am gyfieithu pob brawddeg os bydd galw am hynny, ni allwn fodloni. Nid digon cydnabod ein hanwybodaeth - canys dyna yn unig a wneir heddiw - heb gydnabod ein hawl fel cenedl i gydraddoldeb perffaith rhwng y ddwy iaith yn ein llysoedd.*

Ar ddydd Mawrth 19 Ionawr 1937 dedfrydwyd y tri gŵr gan ddeuddeg o reithwyr o Saeson, yn yr Old Bailey yn Llundain, i gael eu carcharu am naw mis. Golyga hyn bod yr achos ar ben a bod Y Cymro felly o'r diwedd yn rhydd i leisio'i farn. Fodd bynnag, o ddarllen ysgrif flaen rhifyn yr wythnos o'r papur gwelir nad yw eto fyth yn barod i leisio barn uniongyrchol ar ddoethineb llosgi'r ysgol fomio ond ei fod unwaith yn rhagor yn siarad yn gryf ynglŷn â sefyllfa annheg yr iaith Gymraeg yn y llysoedd ac yn llwyr gondemnio'r penderfyniad o symud yr achos i Lundain o gwbl; serch hynny, sylwer yn fanwl ar y trydydd paragraff isod o ysgrif flaen PWNC YR IAITH sy'n rhoddi'r awgrym lleiaf posibl, a hynny'n unig, nad oedd Y Cymro yn cefnogi gweithred y llosgi.

Diddorol iawn yw'r paragraffau clo isod yn dweud beth yw nod perchenogion Y Cymro, 'sef bod o werth i'n cadw'n genedl gyda'i hiaith a'i nodweddion ei hun', a'r modd yr apelia am gefnogaeth gan ei ddarllenwyr:

> *ERBYN hyn y mae cyfraith Lloegr wedi cymryd ei chwrs yn achos y tri Chymro ac yr ydym yn awr yn rhydd i ddatgan barn ar y mater hwn yn ei brif oblygiadau.*
>
> *Yr oedd yn berffaith eglur o'r cychwyn fod y tri Chymro'n sylweddoli eu bod, trwy roddi adeiladau'r Ysgol Fomio ar dân, yn cymryd y ddeddf i'w dwylo eu hunain. Sylweddolent ar y dechrau beth fyddai'r canlyniadau i hwy'n bersonol. Ond parod oeddynt i aberthu llawer er mwyn achos, a gredent hwy, oedd yn werth aberthu drosto.*
>
> *Ym mhlith Cymry mor eiddgar â hwythau yr oedd, ac y mae gwahaniaeth barn ar briodoldeb y weithred ei hun. Ond nid oes amheuaeth o gwbl nad yw gwaith yr awdurdodau yn symud y praw i Lundain wedi cynhyrchu teimlad o ddicter dwfn yng Nghymru ac ym mhlith Cymry ym mhobman.*
>
> *I ychwanegu at y dicter hwn, pan ymddangosodd y tri gerbron Barnwr mewn gwlad estron, fe wrthodwyd i ddau ohonynt ofyn yr un cwestiwn nac i annerch y rheithwyr yn Gymraeg. Petai'r Barnwr wedi llwyddo i gael tystiolaeth fod y trydydd yn gallu siarad a deall Saesneg ni chawsai yntau, chwaith, ddweud gair yn ei iaith ei hun.*
>
> *Credwn fod yr ymddygiad hwn tuag at dri oedd yn ceisio eu amddiffyn eu hunain mewn llys barn wedi creu ysbryd Cenedlaethol newydd na welwyd ei debyg ers llawer dydd.*
>
> *Hyd yn hyn, bu'n anodd darganfod beth oedd y Cymro'n barod i ymladd drosto a sut yr oedd ei anghenion i'w sicrhau. Ar y materion hyn yr oedd gwahaniaeth barn, ac, oherwydd hynny, nid oeddem yn abl i sicrhau yr un o'n hawliau, ac yr oedd Cymru ei hun fel uned cenedlaethol yn cyflym ddiflannu.*
>
> *Cyfyd profiad y tri Chymro yn Llundain broblem anoddach a phwysicach na sefydlu'r Ysgol Fomio yn Llŷn efallai, - lle'r Gymraeg ym mywyd ein gwlad a chyflwr ein sefydliadau cenedlaethol. Dyma broblem y gall pob Cymro a Chymraes uno i'w datrys.*
>
> *Y mae hwn, yn anad un achos, yn un y gall pob Cymro uno i sicrhau eu hawliau.*
>
> *Amcan perchenogion 'Y Cymro' - tŷ cyhoeddi adnabyddus Hughes a'i Fab - oedd darparu papur newydd cenedlaethol ar gyfer ein gwlad. Y mae ei nod heddiw yr un ag y bu o'i gychwyn sef bod o werth i'n cadw'n genedl gyda'i hiaith a'i nodweddion ei hun. Canys pe collem ein hiaith fe beidiem â bod yn genedl.*
>
> *Y mae wedi brwydro ar hyd y blynyddoedd dros ein hiaith a'n sefydliadau cenedlaethol, ac y mae'n barod ac yn awyddus i barhau i daflu ei holl adnoddau o blaid y pethau hyn.*
>
> *Ond dibynna rhan 'Y Cymro' yn yr ymdrech hon yn llwyr ar faint y gefnogaeth a dderbynia ar law ei ddarllenwyr.*

Ymddangosodd ysgrif flaen ddiddorol a phwysig yn y rhifyn dilynol o'r Cymro, sef 30 Ionawr 1937. Unwaith eto ymdrinir ag un o oblygiadau achos yr ysgol fomio, y tro hwn nid pwnc yr iaith yn y llysoedd ond yn hytrach y posibilrwydd cryf na fyddai Saunders Lewis a D. J. Williams yn cael dychwelyd i'w swyddi

blaenorol yn dilyn eu cyfnod yn y carchar. O ddarllen rhwng llinellau'r ysgrif hon yn ogystal ceir yr argraff gyffredinol nad yw'r Cymro yn cytuno â'r weithred o losgi (ffaith a gadarnheir ar dudalen flaen yr un rhifyn pan ddywedir yn blaen 'ein bod yn amau'n fawr ddoethineb y weithred ei hun') ond gwelir yn y pumed paragraff isod bod y papur yn gefnogol i amcanion y tri gŵr ac yn cydnabod eu bod wedi aberthu llawer 'dros eu delfrydau ac er mwyn Cymru.' Yn sgîl hyn gwelir yn yr ysgrif, sydd dan y teitl arwyddocaol **CYFIAWNDER**, bod y papur gant y cant dros gynnig eu swyddi'n ôl i'r ddau ŵr, yn union fel yr ymddengys y gwnâi eglwysi Lewis Valentine ynglŷn â'i swydd yntau. Hynny yw, y pwynt pwysig yma yw bod Y Cymro, er yn anghytuno â gweithred y tri, yn gwbl deg â hwynt ac yn cydymdeimlo â'r rhesymau dros ei chyflawni, gan farnu'n wrthrychol ar benderfyniad yr awdurdodau yn Abertawe ac Abergwaun a gweld bod egwyddor sylfaenol hanfodol bwysig i bob unigolyn y dylid sefyll yn gadarn o'i phlaid. Diddorol iawn yw arwyddocâd y ffaith bod "trosedd" mewn dyfynodau yn y nawfed paragraff sy'n awgrymu bod Y Cymro, fel y tri gŵr, o'r farn bod cyfraith uwch yn bodoli na chyfraith gwlad:

> *EISOES y mae cymdeithasau, enwadau a chynghorau wedi dechrau pasio penderfyniadau ynglŷn â phrawf y tri Chenedlaetholwr, a phrotestir yn erbyn camwri symud y prawf i Lundain, a gelwir am ryddhad y tri charcharor.*
>
> *Y mae yna agwedd fwy personol i'r pwnc sydd wedi cynhyrfu'r wlad, ac fe gyffwrdd honno ddyletswydd Cymru ei hun yn y mater hwn. Ac y mae perygl ei hanghofio yn y brys i ddeisebu at y Llywodraeth Ymerodrol i ollwng y triwŷr hyn yn rhydd.*
>
> *Dywedwn yn bendant mai dyletswydd Cymru at y gwŷr hyn yw gofalu eu bod yn cael eu lleoedd yn ôl pan ryddheir hwy. A dyma ddyletswydd Cymru ati ei hunan hefyd.*
>
> *Y mae Mr. Saunders Lewis, Mr. Valentine a Mr. D. J. Williams yn dwyn eu penyd am eu trosedd yng ngolwg y gyfraith. Pan ddônt allan fe ddylent ddod allan i fwynhau'r un safleoedd yn union ag oedd iddynt cyn rhoddi eu hunain yn nwylo'r gyfraith.*
>
> *Beth bynnag a gredir am ddoethineb eu gweithred, nid oes ddwy farn ar eu hamcanion, ac nid oes ddwy farn chwaith ynghylch maint eu haberth dros eu delfrydau ac er mwyn Cymru.*
>
> *Y maent yn ddynion o gymeriad ac o allu, ac nid yw eu gweithred mewn un modd wedi amharu ar eu henw da na'u hanghymwyso i wasanaethu Cymru yn y safleoedd lle y rhoddasant eu gorau i'w cenedl.*
>
> *Y mae pob arwydd y gofala eglwysi Mr. Valentine am roddi iddo ef yr un safle â chynt. Yn wir ni ellid meddwl amdanynt yn gwneud dim arall. A bydd eu hagwedd yn gymeradwy yng ngolwg y wlad.*
>
> *Yn ôl a ddeallwn, safle Mr. Saunders Lewis a Mr. D. J. Williams yw eu bod wedi "eu hatal". Y mae Cymru'n disgwyl y penderfynir yn ddioed y bydd yr 'atal' yma drosodd cyn gynted ag y daw'r ddau athro hyn yn rhydd. Yr unig gwrs anrhydeddus i awdurdodau'r Brifysgol a'r awdurdod*

*sy'n rheoli ysgol Abergwaun yw cynnig iddynt eu lleoedd yn ôl. Ni byddai'r un cwrs arall yn gyson â thraddodiadau gorau Cymru.*

*Anfri ar genedl a fyddai i'n sefydliadau ni'n hunain ail gosbi'r ddau ŵr yma ar ôl iddynt ddwyn penyd cyfraith y deyrnas a thalu'r iawn a ofynnai'r ddeddf am y "trosedd".*

*Ystyriwn fod datgan barn ar yr agwedd hon i'r mater mor bwysig, ac yn bwysicach i'n hunan-barch ni'n hunain fel cenedl na chrefu ar y Llywodraeth am friwsion trugaredd. Rhaid i ni weithredu cyfiawnder ein hunain, canys wrth wneuthur hynny y bydd Cymru yn ei hachub ei hun.*

Yn rhifyn 13 Chwefror 1937 o'r Cymro adroddwyd ar y dudalen flaen bod aelodau Eglwys y Bedyddwyr Cymraeg yn Llandudno wedi penderfynu cefnogi Lewis Valentine a'i fod i barhau'n weinidog arnynt wedi iddo ddychwelyd o'r carchar; yr oedd sefyllfa'r ddau arall, fodd bynnag, yn edrych yn hynod o ansicr, yn enwedig Saunders Lewis gan nad ymddangosai fod ganddo unrhyw obaith o gael ei swydd yn ôl fel darlithydd yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe. Yn ysgrif flaen Y Cymro yr wythnos honno, dan y teitl **EU DYFODOL**, dywed y papur y 'byddai gwrthod [cynnig eu swyddi'n ôl i Saunders Lewis a D. J. Williams] yn gymaint, os nad yn fwy o sarhad ar Gymru, na dim a wna'r awdurdodau yn Llundain':

*RHAID i Gymru, wrth alw ar yr awdurdodau yn Llundain i ryddhau'r tri Chenedlaetholwr sy'n dwyn eu penyd am losgi'r ysgol fomio yn Llŷn, beidio ag anghofio ei dyletswydd ei hun yn y mater hwn, canys llawer pwysicach yw gwneuthur cyfiawnder na chrefu am degwch oddi ar law arall. Wrth wneuthur y cyntaf yr ydym yn ychwanegu at ein hurddas ein hunain, ond y mae perygl bod rhyw gymaint o daeogrwydd mewn crefu am ffafrau, er teced y cais a wneir ynddo ei hun.*

*Llawenhawn fod eglwys y Parch. L. E. Valentine wedi penderfynu ei fod ef yn parhau i gael ei ystyried fel ei gweinidog er iddo fod yng ngharchar, ac iddi wneuthur hynny heb gondemnio ei weithred. Golyga hyn fod ei safle ef a'i deulu yn ddiogel, ac na ychwanegir at gosb y gyfraith arno gosb arall, waeth efallai, trwy ei fwrw allan o gylch ei waith arbennig ymysg ei bobl ei hun.*

*Ni allwn fodloni hyd nes y gellir dywedyd fod yr un peth yn wir am ei ddau gyfaill, Mr. Saunders Lewis a Mr. D. J. Williams. Rhaid mynnu eu bod yn cael eu safleoedd yn ôl, neu o leiaf yn cael eu cynnig, canys byddai gwrthod hynny yn gymaint, os nad yn fwy o sarhad ar Gymru na dim a wna'r awdurdodau yn Llundain.*

*Fe adroddir na fwriedir rhoddi i Mr. Saunders Lewis ei le yn ôl fel darlithydd yng Ngholeg Abertawe, a bod y myfyrwyr eisoes yn trefnu deiseb at awdurdodau'r Coleg ar y mater. Os yw'r adroddiad hwn yn wir, y mae'n gymaint o sarhad ar Gymru ag oedd symud y praw i Lundain. Heblaw hynny, byddai gwrthod ei le yn ôl iddo yn golygu cosb ar ben cosb am yr un trosedd, peth sydd nid yn unig yn groes i bob delfryd Cymreig, ond sydd hefyd yn groes i egwyddor cyfraith Prydain.*

*Pa olwg bynnag a gymerir ar ei "drosedd", nid oes undyn yng Nghymru a faidd haeru ei fod mewn un modd wedi ei anghymwyso i wneuthur ei waith fel darlithydd mewn cangen o wybodaeth y mae'n awdurdod arni. Ac nid oes gan awdurdodau'r Coleg hawl foesol i wrthod na dewis neb i*

*wasanaeth y Brifysgol ar unrhyw dir ond ei gymwysterau arbennig i'w waith. Hyd yn oed yn y llys gwlad, ni feiddiwyd awgrymu bod trosedd y tri gŵr hyn yn adlewyrchu mewn un modd ar eu cymeriadau personol. Rhagfarn a chwerwedd pleidiol, dialgar, yn unig a all beri gwrthod adfer y gwŷr hyn yn ôl i'w swyddi. Ac os amlygir hynny, bydd y rhai sy'n gyfrifol yn dangos i'r wlad nad ydynt hwy deilwng o'r ymddiriedaeth a roddwyd iddynt wrth eu codi ar Gyngor Prifysgol Cymru.*

*Awn ymhellach, a dywedwn mai ein hyder yw na cheir yr un Cymro'n barod i dderbyn y swydd wag os mynn awdurdodau'r Coleg anwybyddu egwyddor a barn orau gwlad gan ufuddhau'n hytrach i'w hysbryd dialgar eu hunain.*

*Y mae'n bosibl nad yw llwybr dyletswydd rheolwyr Ysgol Sir Abergwaun, ynglŷn â Mr. D. J. Williams, lawn mor rwydd, er fod eu dyletswydd yr un mor glir. Bydd gan y Bwrdd Addysg yn Llundain eu bys yn y brwes, ac os gweithreda'r Bwrdd hwnnw fel y gwnaeth pan ataliwyd cyflog Mr. Williams, ni chaiff yr Adran Gymreig ei phig i mewn o gwbl. Ond fe all rheolwyr yr ysgol honno ddangos yn eglur beth yw eu hagwedd, ac osgoi bod yn gochl dros draha'r Bwrdd Addysg.*

*Dangosed Cymru ei barn ar y mater hwn.*

Erbyn rhifyn yr wythnos ddilynol o'r Cymro yr oedd Cyngor Coleg y Brifysgol yn Abertawe wedi penderfynu'n bendant anfon at Saunders Lewis yn y carchar i'w hysbysu na châi ei swydd yn ôl, penderfyniad a esgorodd ar brotestiadau cryfion gan athrawon a myfyrwyr y Coleg a llu o bobl eraill ar hyd a lled Cymru, a GWARTH o beth yn ôl pennawd ysgrif flaen Y Cymro sy'n siarad yn gryf iawn ar y mater. Sylwer isod ar y modd cwbl agored bellach y dywed yr ysgrif nad oedd llosgi'r ysgol fomio yn "drosedd" yn ystyr gonfensiynol y gair, sy'n awgrymu bod y papur yn cydymdeimlo fwyfwy â'r weithred a'r rhesymau dros ei chyflawni. Mae'n ddiddorol hefyd sylwi ar deyrnged Y Cymro i Saunders Lewis yn y paragraff agoriadol, gŵr sy'n aml yn dod dan lach y papur yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd y Blaid Genedlaethol:

*ERBYN hyn y mae Cyngor Coleg y Brifysgol, Abertawe, wedi dangos i'r hollfyd beth yw ei agwedd at ŵr a wasanaethodd y genedl Gymreig mewn modd arbennig iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond sy'n awr yng ngharchar am iddo gymryd rhan yn llosgi'r Ysgol Fomio yn Llŷn.*

*Y mae'n anodd deall paham y daeth y Cyngor i'r penderfyniad fod yn rhaid symud ar unwaith i lanw swydd Mr. Saunders Lewis ar wahân i'r ffaith fod mwyafrif aelodau'r Cyngor yn caniatáu i'w gogwydd gwleidyddol ddylanwadu ar eu rheswm. Nid oes undyn a all yn rhesymol ddadlau fod gweithred Mr. Saunders Lewis mewn unrhyw fodd wedi ei anghymwyso i gario allan ei ddyletswyddau fel Darlithydd yng Ngholeg Abertawe. Ac, o edrych ar y weithred fel trosedd yn erbyn Cyfraith Lloegr, y mae ysgafnder y gosb a roddwyd yn profi fod y gyfraith yn sylweddoli mai "trosedd" ag amcan gwleidyddol ydoedd. Ni ellir gosod achos Mr. Saunders Lewis ar yr un tir â throsedd gwas ariandy a ladratodd arian, neu ar yr un tir ag athro ysgol a ymddug yn ddrwg tuag at ei ddisgyblion. Edrychir i fyny gan awdurdodau'r Brifysgol at lawer*

*o bersonau oedd, flynyddoedd yn ôl, yn gwneud popeth yn eu gallu i andwyo ymdrech Prydain Fawr yn y Rhyfel, a rhoddir y cyfryw bersonau mewn safleoedd o anrhydedd heddiw. A oedd ymddygiadau'r bobl hynny yn llai difrifol yng ngolwg Cyngor y Brifysgol nag yw gweithred Mr. Saunders Lewis?*

*Y mae penderfyniad Cyngor Coleg Aberatwe yn ein sarhau fel cenedl - os yw Cyngor o'r fath, sy'n hunan-lywodraethol ynglŷn â'r mater dan sylw, yn ymddwyn fel hyn tuag at un o'i weision, sut y gellir disgwyl i Loegr ymddwyn yn well tuag at Gymru nag y mae? Gorau po gyntaf i'r Cyngor ail-ystyried y penderfyniad a diddymu un mor warthus o'i gofnodion.*

*Da gennym weled fod Cyngor Bwrdeisdref Abertawe wedi datgan barn mor bendant ar ymddygiad Cyngor y Coleg. Hyderwn y bydd i gynghorau eraill ddilyn yr arweiniad hwn a chreu'r fath farn gyhoeddus fel ag i orfodi'r Cyngor i roddi ei swydd yn ôl i Mr. Saunders Lewis.*

*Da gennym hefyd gael cyhoeddi barn cyd-ddarlithydd Mr. Saunders Lewis yn Adran Gymraeg y Coleg. Dengys Mr. Stephen J. Williams beth a ddisgwyliai i'r Cyngor ei wneuthur a chyfeiria at y siom a gafodd Athrawon y Coleg pan ddeallwyd bwriad y Cyngor. A yw'n ormod disgwyl i'r Athrawon hyn weithredu ar unwaith mewn modd ymarferol i geisio cael gan y Cyngor newid ei agwedd?*

*Gwyliwn symudiadau'r Cyngor yn ofalus, ac os yr â'r Cyngor ymlaen i benodi arall i lanw swydd Mr. Saunders Lewis gobeithiwn y gellir dylanwadu ar yr ychydig sy'n gymwys i lanw'r swydd i beidio â cheisio amdani. Ni ddylai'r un Cymro sy'n werth ei halen geisio swydd a gymerwyd oddi ar ddyn mewn modd mor anghyfiawn.*

Cydnabyddir yn gyffredinol bod gweithred llosgi'r ysgol fomio yn un o weithredoedd pwysicaf hanes diweddar gwleidyddiaeth Cymru ac nid oes amheuaeth ychwaith na chafodd effaith ddofn ar feddylfryd gwleidyddol llawer iawn o Gymry'r oes. Yn ysgrif flaen Y Cymro 27 Chwefror 1937, ar drothwy Mawrth y cyntaf, gwelir y papur yn teimlo bod yr aelodau seneddol Cymreig, a'r holl genedl yn wir, yn dechrau 'deffro' o'r diwedd:

## YSTYR SYMBOL

*DDYGWYL Dewi bydd Cymry, ym mha le bynnag y bônt, yn cofio Nawddsant eu cenedl, a bydd llawer cynulliad wrth fwrdd gwledd yn ymfalchïo eu bod yn Gymry ac yn cydnabod gwerth eu gwlad fach hwy ym mhatrwm eang cenhedloedd y byd.*

*Dewi yw symbol ein gwahaniaeth, am fod esgobaeth Tyddewi, rai canrifoedd ar ôl marw Dewi ei hun, wedi dod yn symbol o annibyniaeth Cymru. I geisio cadw Eglwys y Cymry rhag cael ei llyncu gan archesgobion Caergaint y mynnai Rhygyfarch brofi i Ddewi gael ei urddo gan Batriarch Caersalem a'i ethol yn Brif Esgob Cymru ar ôl y wyrth yn Llanddewibrefi.*

*Ni phoenodd Dewi ei hun erioed am genedlaetholdeb, ac, yn ôl rhai awdurdodau, yr oedd yn llawn cymaint o Wyddel ag ydoedd o Gymro. Yn ei ddyddiau ef nid oedd bron ddim gwrthdaro rhwng Cymro a Sais, ac yr oedd cyfathrach llawer iawn agosach rhwng Cymru a'r Iwerddon nag oedd rhyngddi a Lloegr.*

*Y mae cryn newid wedi bod ar fyd er yr adeg honno. Aeth gafael cyfraith Lloegr yn llawer mwy tyn ar Gymru, a bellach y mae gafael trefniadau economaidd bron yn bygwth ein bod cenedlaethol.*

*Peryglon sy'n creu cenedlaetholdeb, ac yn peri prisio'r hyn na welem werth ynddo pe na bai achos pryder. Yr afiach sy'n holi am feddyg a'r wlad a fo'n pryderu sy'n chwilio am ffordd o ymwared ac yn dyheu am weledigaeth glir. Sylweddoli'r peryglon sydd yn ein bygwth a bair fod ton newydd o genedlaetholdeb wedi torri dros Gymru heddiw. Yr oedd llosgi'r ysgol fomio yn arwydd ac yn rhybudd. A'r arwydd a'r rhybudd sydd yn y weithred honno sy'n bwysig, nid y weithred ei hun. Cymharol ddibwys oedd y weithred, ac yr ydym yn ei chyfiawnhau neu ei chondemnio yn ôl ein gogwydd.*

*Gwelwn argoelion nad yw'r rhybudd yn cael ei anwybyddu, a llawenhawn am hynny. Y mae Mesur yn cael ei gynnig i'r Senedd a olygai, pe pesid ef, symud pob amheuaeth ynghylch hawl Cymro i siarad ei iaith ei hun mewn llys barn, a'i hawl hefyd i gael ei brofi yn ei wlad ei hun.*

*Ar ôl hun hir, y mae ein cynrychiolwyr yn y Senedd yn dechrau ymysgwyd. Pe baent wedi ymysgwyd yn gynt gall na buasai Llywodraeth Lloegr wedi sathru ar bob teimlad o wrthwynebiad trwy fynnu gosod ysgol ryfel yn un o'i broydd tawelaf a Chymreiciaf. Onid arwydd o gywilydd am ei gweithred yw gohirio agor yr ysgol fomio? Cyfaddefir nad gweddus agor ysgol fomio yng Nghymru ar Ddydd Gŵyl Dewi. Nid cyson â neges Dewi yw ei hagor o gwbl yng ngwlad y genedl a wnaeth Dewi yn nawddsant iddi ei hun.*

*Yr ydym yn falch am bob arwydd fod hawliau arbennig Cymru yn cael eu cydnabod, ac yn falchach am bob ymdrech i sicrhau fod yr hawliau hynny yn cael eu hennill. Nid dibwys y datganiad swyddogol fod y Ddraig Goch i chwifio ddydd Llun nesaf oddi ar bob adeilad sy'n perthyn i'r Llywodraeth yng Nghymru, ac ar rai o brif swyddfeydd y Llywodraeth yn Llundain. Bodloni ar hynny a wneiff y peth yn ddibwys.*

*Symbol yw baner, a ffars noeth yw cydnabod y symbol a diystyrru'r hyn a arwyddir ganddo.*

*Da y gwnaeth rhai o'n gwŷr blaen alw sylw at le'r symbol, ond nid yw hynny ond y cam cyntaf mewn ymgyrch i fynnu i'r genedl ei hawliau llawn i fod yn gyfartal â chenhedloedd eraill yn y gymdeithas Brydeinig.*

*Os y gwrthyd Senedd Lloegr basio'r Mesur i sicrhau i'r iaith ei lle yn y llysoedd, a hawl Cymro i braw yn ei wlad ei hun, fe fydd yn cyhoeddi'r Llywodraeth a gydnebydd symbol y Ddraig Goch ar Wyl Ddewi yn gelwyddog. A bydd pob mesur arall a besir, oni fo'n cydnabod gofynion arbennig Cymru, yn gwneuthur y Llywodraeth yn gelwyddog. Wrth gyhwfanu'r Ddraig Goch ar adeiladau'r Llywodraeth ar Ddygwyl Dewi codir mwy na darn o gadach; fe godir safon i farnu gweithredoedd Llywodraeth a Senedd wrthi.*

# *Ymgyrch Cymreigio'r Llysoedd*

Bu papur newydd Y Cymro yn flaenllaw iawn yn yr ymgyrch i Gymreigio llysoedd Cymru, nid yn unig trwy roi sylw helaeth iawn i'r mater ar dudalennau blaen y papur ond hefyd trwy drefnu 'Deiseb Genedlaethol Cymru i'w chyflwyno, drwy gyfrwng 'Y Cymro', i'r Comisiwn Brenhinol sy'n ystyried y modd y gellir prysuro a hwyluso gwaith y llysoedd ym Mhrydain Fawr', deiseb a gynrychiolai tua naw mil o unigolion ac a gynrychiolai ddegau o filoedd eraill mewn Awdurdodau Lleol, cymdeithasau, eglwysi, llysoedd eglwysig ac ati, ac a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn Llundain gan Ddirprwyaeth o chwech yn cynnwys Einion Evans, Golygydd Y Cymro, ac R. F. Watkins, Gohebydd Amaethyddiaeth y papur. Ym 1942 pasiwyd Deddf yn y Senedd a âi gam ymlaen i wneud y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg yn llysoedd y wlad, ac er bod darpariadau'r Ddeddf hon dipyn yn fyr o'r hyn yr oedd y papur wedi ymgyrchu amdano, nid yw hynny'n tynnu dim oddi ar y ffaith bod Y Cymro wedi gwneud ymdrech bersonol fawr i'w chael.

Yn naturiol, oherwydd bod y papur yn ystyried pwnc y llysoedd yn un o bwys mawr i Gymry ac i Gymru, rhoddwyd sylw cyson iddo yn ei ysgrifau blaen; dyfynnaf yn gyntaf ddetholiad o ysgrifau blaen o ddwy flynedd gyntaf y papur sy'n dangos yn eglur bod Y Cymro ers y cychwyn cyntaf wedi bod yn grediniwr cryf iawn mewn tegwch a chyfiawnder i'r Cymry yn llysoedd barn y wlad:

SENNU GWLAD (4 Chwefror 1933)

*FE ddywedodd y Barnwr Goddard wrth un o'r rheithwyr ym Mrawdlys Caerfyrddin y gellid gwneud hebddo, am na fedrai ddigon o Saesneg.*

*Yr oedd Saesneg y rheithwyr braidd yn gloff wrth iddo egluro i'r barnwr paham y daeth i'r llys yn hwyr.*

*Y mae'n lled sicr ei fod yn deall Saesneg yn llawer gwell nag y mae'r barnwyr a ddaw i Gymru'n deall Cymraeg.*

*Os yw'n bwysig i reithwyr ddeall Saesneg, er mwyn i'r gyfraith gael ei gweinyddu'n deg, pa faint pwysicach ydyw i'r barnwyr ddeall Cymraeg?*

*Ystyr geiriau'r Barnwr Goddard yw nad oes gan Gymro hawl i holl freintiau dinesydd yn ei wlad ei hun heb iddo'n gyntaf fedru siarad Saesneg yn rhwydd. Wrth ddywedyd hynny yr oedd yn sennu cenedl.*

HAWL CYMRO (25 Mawrth 1933)

*FE ddatganodd y Barnwr Syr Artemus Jones yn glir yn llys mân-ddyledion Wrecsam fod gan Gymro yr un hawl i roddi ei dystiolaeth yn Gymraeg yng Nghymru ag sydd gan Sais i'w rhoddi yn Saesneg yn Lloegr.*

*Yn rhy fynych fe glywir sôn am ein hawliau fel Cymry fel pe bai rhyw awdurdod gormesol yn ein hamddifadu ohonynt. Y rhan amlaf nid oes dim yn sefyll rhyngom â'n hawliau ond ein gwendid ni ein hunain yn ymddwyn fel pe baem yn eu hamau, neu fod arnom gywilydd o'n hiaith neu ofn i rhywun dybio bod glynu wrthi'n bradychu anwybodaeth o Saesneg.*

*Fel Cymry, yr ydym yn teimlo i'r byw pan fo rhyw Gymro yn cael ei sarhau am ddangos ei fod bron yn uniaith. Fe ddylem gofio mai nid gwaith i'r Cymry uniaith yw sefyll dros yr hawl i siarad Cymraeg, mewn llys na chyngor, ond gwaith i bob Cymro. Y mae'r hawl yn un y rhaid dal gafael ynddi pan fydd pob Cymro'n ddwyieithog. Os na wnawn hynny, nid cydnabod hawl cenedl i'w hiaith yr ydym, ond cydnabod anwybodaeth, yn union fel y gwna rhai o swyddogion y Llywodraeth pan ddadleuant nad yw gwrthod ffurflenni neu ymchwiliad Cymraeg yn annheg â Chymry sy'n deall Saesneg.*

## <u>LLYSOEDD I GYMRU</u> (30 Medi 1933)

*Y MAE gohebydd a chanddo brofiad maith fel cyfieithydd a chofnodydd llaw-fer yn dangos ar dudalen arall, yr anhawster ynglŷn â rhoi ei lle i'r iaith Gymraeg yn y llysoedd cyfraith, ac yn awgrymu'r ffordd a sicrhai degwch pan fo'r dystiolaeth yn cael ei rhoddi yn Gymraeg.*

*Fe gytuna pawb ei bod yr un mor bwysig bod troseddwr yn cael chwarae teg ag ydyw i'r iaith gael ei lle.*

*Nid digon dadlau bod eisiau i'r iaith gael ei lle yn llysoedd Cymru, heb wynebu'r broblem ymarferol o'r ffordd i wneud hynny heb y perygl lleiaf i neb gael cam yng ngweinyddiad y gyfraith.*

*Fe ddylai Cymru nid yn unig gael llys apêl iddi ei hun, ond fe ddylai fod ganddi hefyd uchel lys, fel na bo raid i'r un achos fyned allan o Gymru i gael ei drin.*

*Y mae gan Ogledd Iwerddon a Sgotland eu llysoedd hwy, lle y gellir trin pob apêl. Cymru yn unig sydd heb ei llysoedd ei hun, er mai ganddi hi, ar dir iaith, y mae'r ddadl gryfaf dros gael ei threfn gyfreithiol ei hun.*

*Ac y mae gan y Cymro ddawn arbennig i ddeall a gweinyddu'r gyfraith. Ni byddai Cymru byth mewn perygl o fod yn brin o gyfreithwyr cyfarwydd i ddatrys y pwyntiau mwyaf dyrys mewn cyfraith ac i eistedd mewn barn yn yr achosion mwyaf anodd. Y mae Cymry, cyfarwydd â'r iaith, bob amser wedi bod yn rheng flaenaf y gyfraith yn Lloegr. Cymry sydd heddiw'n dysgu'r gyfraith ym Mhrifysgol Llundain.*

*Ni ddylai bod dim angen o gwbl i neb o Gymru orfod mynd â'i achos i lysoedd Llundain. Fe ddylai fod gan Gymru ei llysoedd ei hun.*

## <u>Y GYFRAITH A'R CYMRO</u> (6 Ionawr 1934)

*Y MAE ym mwriad yr awdurdodau sy'n trefnu gweinyddiaeth cyfraith Prydain ymyrryd â chyfundrefn y gyfraith yng Nghymru, ac fel llawer tro o'r blaen, y mae'n debyg y daw rheolau newydd i rym cyn i neb sylweddoli amcanion ac effeithiau y rheolau hynny.*

*Felly y bu ar ddydd Calan eleni. Fe ddaeth y wlad i sylweddoli bod Llysoedd Chwarterol yr ynadon i raddau helaeth, wedi peidio â bod, ac yr ystyrrir pob apêl yn erbyn dyfarniad llys lleol o hyn allan, nid gan fainc o holl ynadon y sir, ond gan nifer penodedig o ynadon, heb fod yn llai na thri nac yn fwy na deuddeg.*

*Felly y bu, hefyd, ychydig flynyddoedd yn ôl pan roddwyd caniatâd i'r Arglwydd Ganghellor ddileu brawdlysoedd sirol yng Nghymru, a'u*

*cysylltu â rhai siroedd cyfagos pan deimlai nad oedd y gwaith yn cyfreithloni anfon barnwr yno. Fe brotestiodd rhai awdurdodau yng Nghymru yn erbyn y fath gyfnewid, ond yr oedd y trefniadau wedi eu cwblhau, ac fe ddaeth y trefniant newydd i rym yn sydyn.*

*Bu pwyllgor, dan lywyddiaeth Arglwydd Howarth, yn ystyried pa gyfnewidiadau a ddylai fod yn nhrefn y brawdlysoedd ym Mhrydain, ac y mae'r trefniadau a awgrymir yn effeithio'n fawr ar Gymru. Y mae'r llysoedd sefydlog i'w cynnal yng Nghaernarfon, Rhuthun, Caer, Caerfyrddin, Caerdydd, ac Abertawe. Ymwelir weithiau hefyd â Dolgellau ym Meirionnydd, y Trallwng yn sir Drefaldwyn, a Llanbedr-pont-Stephan neu Hwlffordd yn siroedd Aberteifi a Phenfro. Dilëir llysoedd Beaumaris ym Môn, yr Wyddgrug yn sir Fflint, Aberhonddu yn sir Frycheiniog, a Llanandras yn sir Faesyfed.*

*Fe awgryma'r pwyllgor, hefyd, fod cylch Gogledd Cymru a Chaer i'w uno â chylch De Cymru. Effeithia hyn ar y bargyfreithwyr yn fwy nag ar neb arall. Nid yw'n amhosibl, er hynny, mai cam yw hwn tuag at ganoli llysoedd y Gogledd yng Nghaer, a rhai'r De yng Nghaerdydd ac Abertawe.*

*Fe ymddengys i ni y dylid ystyried un neu ddwy o egwyddorion pwysig cyn cyffwrdd â threfniadau llysoedd Cymru, sef*

> *Y dylid dyfod â'r gyfraith i gyrraedd y bobl, yn hytrach na gorfodi'r bobl i deithio tuag at y gyfraith;*
>
> *Y dylid dal at yr hawl sydd gan bob dyn i gael ei farnu'n euog neu'n ddi-euog gan ei gyd-ddynion;*
>
> *Y dylid parhau i gynnal y llysoedd uwch yn awyrgylch sy'n gyffredin i'r un a gyhuddir;*
>
> *Y dylid rhoddi pob hwylustod ar y ffordd i gario'r llysoedd ymlaen yn Gymraeg pan fo'r dyn a gyhuddir yn Gymro;*
>
> *Y dylid gwneuthur costau cyfraith cyn rhated ag sy'n bosibl, yn enwedig pan gofir bod rhaid i'r un a gyhuddir, er yn hollol ddi-euog, dalu costau ei ddiffyniad.*

*Y mae'r awgrymiadau newydd yn torri pob un o'r egwyddorion hyn, ac ymddengys i ni y dylai Cymru eu gwrthsefyll nid yn unig o safbwynt cenedlaethol, ond oherwydd ei hawydd i ddelio'n deg â'i thrigolion pan orfodir hwynt i ymddangos ger bron ei brawdlys.*

## IAITH A THEGWCH (25 Awst 1934)

*NID oes ym Malta ddim ond y nawfed ran o'r nifer o bobl sy'n byw yng Nghymru, ond o hyn allan y mae Maltaeg i fod yn iaith swyddogol llysoedd barn yr ynys. Dyna iaith y bobl, ac fe gydnabyddir yn y datganiad a wnaeth y Llywodraethwr yr wythnos hon fod gan y bobl hawl i gael trin eu hachosion yn y llysoedd yn yr iaith a ddeëllir ganddynt.*

*Fe drinir achosion y bobl na fedrant iaith Malta yn Saesneg, ac ynglŷn â'r rhai sy'n siarad Eidaleg, Eidaleg fydd iaith lafar y llysoedd.*

*Y mae cyfreithiau'r ynys hefyd i gael eu cyfieithu i hen iaith yr ynys, ond bydd Saesneg o hyd yn parhau'n iaith y weinyddiaeth.*

*Dyma egwyddor a ddylai gael ei chydnabod yn achos Cymru, canys y mae'n gwbl wrthun bod iaith ein llysoedd yn Saesneg, a bod gofyn i Gymry dystiolaethu mewn iaith estron. Ar wahân i resymau cenedlaethol, na ddylid ar unrhyw gyfrif eu hanwybyddu, o safbwynt tegwch a chyfiawnder fe ddylai pobl gael trin eu hachos yn yr iaith a ddeëllir orau ganddynt. Ac ni ddylai'r un barnwr gael gwrando achosion yng Nghymru heb iddo ddeall Cymraeg, canys heb hynny nid yw'r wybodaeth lwyraf o'r gyfraith a'r agwedd meddwl decaf yn ddigon.*

Dwysáodd ymgyrch y llysoedd yn sylweddol ym 1935 ac ar dudalen flaen Y Cymro, 30 Mawrth y flwyddyn honno, cafwyd adroddiad dan y pennawd BARNWR YN HAWLIO I'R IAITH EI LLE YN Y LLYSOEDD, a ddyfynnwyd yn y bennod flaenorol, lle gwelir y Barnwr Syr Thomas Artemus Jones, Cownsler y Brenin, yn galw am ddiddymu'r sefyllfa hollol annheg a fodolai yn llysoedd Cymru a gwneud yr iaith Gymraeg yn gwbl gyfartal â'r Saesneg; dywedodd fod y sefyllfa fel yr oedd hi'n gwneud cam mawr â'r Cymro, ac y dylai fod â'r un hawliau'n union â'r Sais i gael tystio yn ei iaith ei hun yn ei wlad ei hun. Wrth ymateb i sylwadau'r Barnwr yn ysgrif flaen y rhifyn hwnnw o'r Cymro gwelir bod y papur, yn naturiol, yn gefnogol iawn i'w sylwadau ac yn mynnu tegwch a chydraddoldeb llawn i'r iaith Gymraeg yn y llysoedd, a dim gronyn yn llai na hynny; mae hyn yn rhywbeth sy'n nodweddiadol o ysgrifau blaen Y Cymro yn gyffredinol a gwelir ei fod mewn sawl maes arall yn mynnu yr hyn y gofynna amdano yn ei gyflawnder. Ychwanega hefyd bod yn rhaid i'r Cymry eu hunain ofalu y byddai hawl o'r fath yn cael ei gweithredu'n ymarferol; yng ngeiriau'r papur 'y bobl eu hunain a all ei gwneud yn iaith [Gymraeg] fyw':

## IAITH Y LLYSOEDD

*YR oedd y Barnwr Syr Thomas Artemus Jones wrth roddi ei dystiolaeth o flaen y Comisiwn Brenhinol sy'n ystyried a ellir hwyluso gwaith y llysoedd barn yn mynegi barn a theimlad ei genedl.*

*Ni ddylem fodloni ar ddim byd llai na gosod yr iaith Gymraeg ar yr un tir yn hollol â'r Saesneg yn ein llysoedd, ac wedi sicrhau hynny gofalu na bo'r hawl a enillwyd yn cael bod yn llythyren farw.*

*Yn ein brawdlysoedd heddiw nid yw'r Gymraeg yn ddim amgen nag iaith estron, megis Eidaleg neu Sbaeneg, ac nid oes i'r Cymro ond yr un safle â negro o bellafoedd byd, sef yr hawl i gyfieithydd. Y mae hyn yn sarhad ar genedl ac yn groes i elfennau symlaf gweinyddiad cyfiawnder.*

*Oni bo llysoedd barn gwlad yn cydnabod yn swyddogol iaith y bobl y gweinyddir y gyfraith yn eu mysg, yna y mae'r bobl yn cael eu sarhau, ac ni ellir ystyried y llysoedd, er gwaethaf tegwch y barnwyr, yn ddim amgen nac offerynnau gormes estron.*

*Ni fynnem haeru mai dyna fwriad Llywodraeth na Senedd, ac fe ddisgwyliwn y bydd i'r Comisiwn Brenhinol gydnabod dadl Syr Artemus Jones ac awgrymu cyfnewidiad a fydd yn symud ymaith bob rhithyn o sail dros dybio mai bwriad Llywodraeth Prydain yw sarhau ein cenedl, a pheri tan-seilio'n parch i'r drefn gyfraith.*

*Fe ddylai pobl Cymru ddatgan yn groyw eu bod yn cymeradwyo'r Barnwr Artemus Jones am ddangos ohono mor glir beth yw'r safle anfoddhaol sy'n bod heddiw. Hynny a brofai fod llais y wlad yn y dystiolaeth a roddodd o flaen y Comisiwn.*

*Y mae gan Gymru ei gweision yn y Senedd, ac fe ddylid dywedyd wrthynt am ofalu bod llais y wlad yn cael ei ystyried mewn unrhyw newid*

*deddfwrol neu weinyddol a all ddilyn argymhellion y Comisiwn hwn.*

*Yn araf, yr ydym yn symud ymlaen i geisio adferyd ein hunanbarch fel cenedl. Y mae cymeradwyo'r cynllun i sefydlu Cyngor Addysg i Gymru yn dangos hynny. Dyma un diwygiad bychan y dylasem fod wedi ei gael ers llawer dydd, canys rhy hir y goddefwyd cyfundrefn addysg na ellid disgwyl iddi hyrwyddo dim ar ein gwir ddiwylliant Cymreig.*

*Ond wrth groesawu'r cynllun a hyderu ei weled yn cael ei roddi mewn grym, rhaid gwylio mai nid cneuen wag a estynnir inni. Fe fyddai Cyngor Addysg i Gymru o werth i'n diwylliant os bydd ei aelodau yn ddynion wedi eu trwytho yn y diwylliant Cymreig ac yn coleddu delfrydau cenedlaethol iach. Heb hynny ni bydd yr hyn a gawn yn ddim ond cneuen goeg.*

*Ac y mae'r un peth yn wir ynglŷn â chydnabod yr iaith Gymraeg mewn llysoedd barn. Y mae yn hyn egwyddor lawer pwysicach nag osgoi cyfieithiadau anghywir o eiriau tystion mewn cynghaws neu brawf. Y mae'n fater o anrhydedd cenedlaethol.*

*Y mae modd i'r Gymraeg fod yn iaith swyddogol llys barn, ar yr un tir yn gyfreithiol â'r Saesneg, ond er hynny barhau'n iaith farw yno. Fe all deddfwriaeth wneud iaith yn swyddogol, ond y bobl eu hunain yn unig a all ei gwneud yn iaith fyw.*

Erbyn yr wythnos ganlynol yr oedd barnwr arall, sef y Barnwr Samuel, Cownsler y Brenin, yn hawlio chwarae teg i'r iaith yn llysoedd y wlad ac yn mynnu bod barnwyr, cyfreithwyr a swyddogion y llysoedd yn medru cyfathrebu â thystion Cymraeg yn eu hiaith eu hunain. Yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos, o dan y teitl CYFLE CYMRU, mae'r Cymro yn clodfori arweiniad y Barnwyr hyn sydd yng ngeiriau'r papur yn 'iach ar bwnc yr iaith'; mae'r papur hefyd yn apelio ar i'r darllenwyr ddangos eu teimladau hwythau yn y mater. Fodd bynnag, yr hyn sy'n fwyaf arwyddocaol am yr ysgrif flaen hon yw bod Y Cymro ei hunan yn rhag-hysbysu ei fod, ymhen wythnos, ac yn rhinwedd ei statws fel 'Papur Newydd Cenedlaethol Cymru', am 'wneud ei ran ynglŷn â hyn' ac am gyhoeddi deiseb bwysig ynglŷn â'r Gymraeg yn y llysoedd:

*NID yw'r 'Cymro' yn ymddiheuro am roddi sylw eto yr wythnos hon i'n hawl fel cenedl i'n hiaith gael ei chydnabod yn llysoedd barn y wlad yn hollol ar yr un tir â'r Saesneg.*

*Y mae'r ymchwil a wneir gan y Comisiwn Brenhinol ar hyn o bryd ynglŷn â hwyluso gwaith y llysoedd yn rhoi i ni gyfle na ddigwydd yn aml i fynnu ein hawliau fel cenedl a gosod urddas ar ein hiaith. Os collir y cyfle hwn, fe all y bydd yn rhaid aros am flynyddoedd lawer cyn cael cyfle tebyg.*

*Fel y dengys ein newyddion yr wythnos hon (gwêl tudalen 1) y mae Barnwr arall wedi ategu'r hyn a hawliai'r Barnwr Syr Artemus Jones yr wythnos cynt, a diamau y bydd diolch cenedl i'r Barnwr Samuel am ei eiriau o flaen y Comisiwn.*

*Yr ydym yn ffodus fod Barnwyr ein llysoedd sirol mor iach ar bwnc yr iaith, ac yn falch am yr arweiniad a roed ganddynt ynglŷn â mynegi barn eu cenedl ar fater mor bwysig.*

*Ni ddylem adael i'r mater aros ar hyn, eithr symud ymlaen heb oedi i ddangos i'r Comisiwn mai lleisio barn y wlad yr oedd y Barnwr Syr Thomas Artemus Jones a'r Barnwr Samuel wrth ddatgan fod eisiau cydnabod Cymraeg yn gydradd â Saesneg yn y llysoedd.*

*Y mae un Cymro ar y Comisiwn hwnnw, sef Mr. Clement Davies, K.C., A.S., ac y mae hynny'n sicrwydd y caiff tystiolaethau Cymry bob sylw cyn i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad.*

*Yr ydym wedi cael barn amryw o Aelodau Seneddol Cymru ar bwnc yr iaith yn y llysoedd, ac y mae pob un o'r rhai a atebodd yn amlygu eu cymeradwyaeth o'r dystiolaeth a roddodd Syr Artemus Jones. Da yw deall, ar dystiolaeth un ohonynt, na bu erioed fwy o Gymraeg yn y Senedd nag sydd heddiw, ac fe gredwn ni fod y ffaith fod pob un o'r aelodau hyn wedi ysgrifennu atom mewn Cymraeg glân gloyw yn dangos nad honiad gwag mo hyn.*

*Tra'n llawenhau am fod ein haelodau Seneddol yn gadarn dros yr iaith, a bod Barnwyr yn cymryd yr agwedd a wnânt, y mae'n rhaid i'r genedl hefyd fynegi ei barn ar y mater hwn.*

*Y mae'r 'Cymro' yn deall, ar awdurdod dda, y bydd y Comisiwn yn falch o wrando tystiolaethau lleygwyr yn ogystal â gwŷr y gyfraith. Rhoddwn gyfle i'r Comisiwn wybod ein meddwl fel cenedl.*

*Y mae'r 'Cymro', fel papur cenedlaethol, am wneud ei ran ynglŷn â hyn. Yr wythnos nesaf byddwn yn cyhoeddi deiseb fel y gallo'r rhai na chânt gyfle i fynd eu hunain o flaen y Comisiwn ddatgan eu barn.*

*Bydd i'r 'Cymro' hefyd awgrymu penderfyniad unffurf fel y gall gwahanol gymdeithasau a chyfarfodydd a chynadleddau yng Nghymru ddatgan eu hunain o blaid mynnu lle cydradd i'r Gymraeg yn y llysoedd.*

*Heblaw'r ddau beth hyn, fe drefna'r 'Cymro' fod tystiolaethau ynglŷn â'r mater hwn yn cael eu gosod gerbron y Comisiwn.*

*Fe eglurir hyn ymhellach yn ein rhifyn nesaf, am ein bod yn ffyddiog na bydd i'r cyfle gwych hwn fyned heibio heb i'r genedl wneud yn hysbys i'r Comisiwn, a thrwyddo i'r Llywodraeth, nad oes a'i bodlona ond fod ein hiaith yn cael ei chydnabod yn swyddogol yn llysoedd barn y wlad.*

Ar dudalen 8 rhifyn 13 Ebrill 1935 o'r Cymro felly cyhoeddwyd 'Deiseb Genedlaethol Cymru', a ddyfynnwyd yn llawn yn y bennod flaenorol, gyda lle i ddeg o wahanol bobl ei harwyddo er mwyn dangos eu bod yn hawlio tegwch i'r iaith Gymraeg yn llysoedd barn y wlad. Ochr yn ochr â'r Ddeiseb ymddangosodd ysgrif flaen faith dan y teitl arwyddocaol **CYFLE'R GENEDL** lle gesyd y papur yr achos yn glir gerbron ei ddarllenwyr ac apelio'n gryf iawn arnynt i 'wneuthur rhywbeth ymarferol o blaid yr iaith' a manteisio ar gyfle na ellir, efallai, ei gael eto am flynyddoedd lawer:

*YR wythnos hon y mae 'Y Cymro' yn cyhoeddi'r Ddeiseb y dywedasom amdani yr wythnos ddiwethaf, er mwyn rhoddi cyfle i bob Cymro selog i ddatgan barn bendant dros i'r Gymraeg gael ei gosod ar yr un tir â Saesneg yn ein llysoedd barn.*

*Yr ydym hefyd yn cyhoeddi penderfyniad fel y gallo gwahanol gyfarfodydd neu gynadleddau ei fabwysiadu er mwyn hyrwyddo'r ymgyrch hon, a gadael i'r Comisiwn Brenhinol wybod ein dymuniad fel cenedl.*

*Fel yr adroddwyd yn barod, y mae dau o farnwyr Cymru wedi tystio o*

*flaen y Comisiwn hwn, a hawlio yr hyn y gofynnir amdano yn y ddeiseb. Y mae'r ddau farnwr hyn, yn ogystal ag amryw o aelodau Seneddol, wedi cymeradwyo ymgyrch 'Y Cymro' ynglŷn â hyn.*

*Wrth roddi ei dystiolaeth o flaen y Comisiwn, dywedodd y Barnwr Syr T. Artemus Jones fod yr anwybyddu bwriadol sydd ar y Gymraeg yn llysoedd barn Cymru yn gamwri, a'i bod yn bryd rhoddi terfyn arno, a chael cyfundrefn llysoedd lle byddai'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un tir.*

*"Yn gyfansoddiadol," meddai Syr Thomas, "y mae gan Gymro yr un hawl â Sais i dystio yn ei iaith ei hun yn ei wlad ei hun, ond yn nhrefn y brawdlysoedd nid oes gydnabyddiaeth swyddogol o iaith y genedl y gweinyddir cyfiawnder y Brenin yn ei mysg."*

*Cyfeiriodd Syr Thomas hefyd at y ffaith fod costau uchel cyfreithiol yn peri cryn anfodlonrwydd yng Nghymru.*

*"Mewn rhai achosion," meddai, "y mae anghyfiawnder yn rhatach na chyfiawnder."*

*Awgrymai ehangu awdurdod y llysoedd sirol fel y gallont ddelio ag achosion neilltuol a dyfarnu mewn achosion hyd £500 o iawn.*

*Awgrymodd, hefyd, fod Cymru i'w gwneud yn un Cylch Brawdlys. Ar hyn o bryd y mae Gogledd Cymru'n gysylltiedig â Chaer, a Sir Fynwy yn gysylltiedig â Rhydychen. Yr awgrym yw tynnu Sir Fynwy o gylch Rhydychen, a'i rhoi ynghlwm wrth Gymru, a bod Sir Gaer yn cael ei hychwanegu at gylch Rhydychen, yn lle Sir Fynwy. Buasai pob ardal Gymreig wedyn o dan Gylch Cymru.*

*Un o effeithiau gosod y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un tir yn llysoedd barn Cymru fuasai fod Barnwyr yr Uchel Lys, Swyddogion y Brawdlysoedd, Barnwyr y Llysoedd Sir, Cadeiryddion y Llysoedd Chwarter a Chofnodwyr Llaw-fer yn medru'r ddwy iaith. Er hynny, priodol fyddai sicrhau gwasanaeth cyfieithwyr cymwys yn y llysoedd i gyfarfod ag unrhyw anhawster a allai godi.*

*Fe roddodd y Barnwr H. W. Samuel dystiolaeth o flaen y Comisiwn ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, a chytunodd yn hollol â barn Syr Artemus Jones.*

*"Y mae medru Cymraeg yn hollol angenrheidiol mewn rhai siroedd yng Nghymru", meddai'r Barnwr Samuel.*

*Ychwanegodd y dylai llawer o'r achosion sydd ar hyn o bryd yn cael eu hanfon i'r brawdlysoedd gael eu trin gan y llysoedd chwarter, ac y dylai cadeiryddion y llysoedd hynny fod yn fargyfreithwyr o brofiad.*

*"Dylid trefnu", meddai, "i farnwyr y llysoedd sir wrth fyned ar gylch wrando ar achosion o droseddau sydd ar hyn o bryd yn cael eu hanfon i'r llysoedd chwarter, rhag cadw neb yng ngharchar yn hir i ddisgwyl ei brawf."*

*Teimlwn fod y ddau Farnwr yn mynegi barn a theimlad y genedl.*

*Fe rydd y Comisiwn Brenhinol hwn gyfle i Gymru fynnu ei hawliau fel cenedl a gosod urddas ar ein hiaith. Os collir y cyfle hwn, fe all y bydd yn rhaid aros am flynyddoedd lawer cyn cael cyfle tebyg.*

*Y mae 'Y Cymro' am geisio gofalu fod Cymry yn cael cyfle i fynegi eu barn yn bendant ger bron y Comisiwn.*

*Gyda'r amcan hwn mewn golwg ceisir:-*

*(1) Casglu tystiolaeth i'w roddi ger bron y Comisiwn ynghylch anghyfiawnderau a ddioddefwyd gan Gymry (a) oherwydd eu hanallu i roddi eu hachosion yn glir gerbron Llysoedd Barn am nad oeddent yn gwbl gyfarwydd â Saesneg, a (b) oherwydd eu hanallu i sicrhau cyfiawnder am y buasai hynny'n costio mwy nag y gallent ei dalu.*

*(2) Casglu llawnodau'r rhai sy'n cytuno â'r Ddeiseb Genedlaethol.*

*(3) Casglu penderfyniadau, yn cynnwys hawliau'r Ddeiseb, gan gymdeithasau, eglwysi, a sefydliadau o bob math.*

*Trefnir i gyflwyno'r tystiolaethau, y penderfyniadau a'r Ddeiseb yn*

*ffurfiol i'r Comisiwn Brenhinol ar ran Cymru.*

*Gofynnwn i bob Cymro wneud ei ran dros yr ymgyrch hon:*
*drwy arwyddo'r Ddeiseb, a cheisio gan eraill wneud hynny;*
*drwy anfon pob tystiolaeth sydd ganddo am unrhyw anghyfiawnderau a ddioddefwyd (fe gedwir enwau'r personau'n hollol gyfrinachol);*
*a thrwy ofalu fod pob sefydliad yn ei gylch yn pasio'r penderfyniad a gyhoeddir ar dudalen 2 heb oedi, a'i anfon i Swyddfa'r 'Cymro'.*

*Dyma gyfle gwych inni wneuthur rhywbeth ymarferol o blaid yr iaith. Na fydded i'r cyfle gael ei golli oherwydd difaterwch.*

Buasid yn disgwyl i apêl mor daer fod yn ddigon o ysbrydoliaeth i fwyafrif helaeth o ddarllenwyr Y Cymro, a'u perthnasau a'u cyfeillion, i arwyddo'r Ddeiseb; wedi'r cyfan, nid oedd hi'n ddeiseb 'wleidyddol' yn yr ystyr ei bod yn gogwyddo tuag at ddaliadau un blaid benodol ond yn hytrach yn ddeiseb yn ymwneud â mater a ddylai fod yn agos iawn at galon holl ddarllenwyr Y Cymro, sef eu hawl sylfaenol i gael tegwch yn llysoedd eu gwlad. Pa ryfedd felly fod y papur yn ei ysgrif flaen rai wythnosau'n ddiweddarach yn mynegi siomiant, os nad dicter yn wir, ynghylch niferoedd isel y Deisebau a arwyddwyd ac a ddychwelwyd i'w Swyddfa, ac yn holi'r darllenwyr yn blaen pam eu bod mor ddifater a pham na fuasent yn ymateb yn fwy cadarnhaol:

COLLI CYFLE? (25 Mai 1935)

*Y MAE'N achos llawenydd i bob un a gâr yr iaith wybod fod amryw o Lysoedd Eglwysig ac Awdurdodau Lleol Cymru wedi mabwysiadu penderfyniad 'Y Cymro' ynglŷn â safle'r Gymraeg yn Llysoedd Barn y wlad, a bod dros dair mil a hanner o bersonau unigol wedi arwyddo'r Ddeiseb.*

*Eithr fe ddylai'r nifer fod yn llawer iawn mwy. Fe ddylai'r mwyafrif mawr o'r Llysoedd Eglwysig, yr Eglwysi unigol, y cymdeithasau dirif sy'n bod yn y gwahanol ardaloedd, a'r Awdurdodau Lleol hyrwyddo'r ymgais drwy ddatgan o blaid y penderfyniad.*

*Fe ddylai pob darllenydd o'r 'Cymro' wneud ymdrech i lenwi un o leiaf o'r ffurflenni a gyhoeddir yn y papur; nid yw un o bob cant ohonynt wedi gwneuthur hynny eto.*

*Onid oes gormod o ddifaterwch yn bod ynglŷn â'r iaith yng Nghymru? Y mae'n wir y telir mwy o wasanaeth llafar i'r Gymraeg heddiw nag erioed o'r blaen, eithr y mae'n amheus gennym a ddangoswyd mwy o ddifrawder nag a wneir y dyddiau hyn, pan roddwyd i ni gyfle i wneud rhywbeth ymarferol dros y Gymraeg. Fe welwyd llawer enghraifft o hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nes peri inni gredu mai cyhyd ag y gall barhau heb unrhyw weithred ymarferol o'i phlaid gan Gymry Cymru yn unig y bydd y Gymraeg yn aros yn iaith fyw.*

*Rhaid inni gyfaddef mai siomedig yw'r gefnogaeth a roddwyd i Ddeiseb 'Y Cymro', a dengys hyn fod trigolion Cymru un ai'n amharod i frwydro dros eu haith, neu eu bod yn ddifeddwl ac yn ddiystyr o'u cyfle.*

*Clywsom rai'n dadlau mai "stynt" newyddiadurol yn unig yw'r ddeiseb, ac nad oes grym ynddi.*

*Cychwynwyd y mudiad hwn ar ôl cael sicrwydd y buasai'r Comisiwn Brenhinol yn barod iawn i dderbyn Deiseb o'r fath; y buasai prif wleidyddwyr Cymru yn falch o wybod fod y mwyafrif o'u cydwladwyr y tu ôl iddynt yn y frwydr sy'n sicr o fod ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Gwelwyd yma gyfle i'n cydwladwyr uno yn yr ymgyrch, canys y mae'r 'Cymro' mewn safle ddi-ail i gyrraedd cartrefi'r wlad.*

*Buasai'r 'Cymro' yn euog o esgeuluso'i ddyletswydd amlwg pe na roddasai gyfle i'w ddarllenwyr ym mhob cwr o'r wlad i ddatgan eu barn trwy arwyddo'r Ddeiseb, ac y mae'r diolchiadau a dderbyniasom eisoes wedi ein hargyhoeddi inni gymryd y cam iawn drwy gychwyn yr ymgyrch hon.*

*Dadleua eraill nad oes a fynnont hwy â Llysoedd Barn, yr hyn sy'n profi fod llawer na chymerant ddiddordeb yn nhrefn y gyfraith hyd nes y byddant eu hunain yn ymgyfreithio. Agwedd hunanol yw hon - yn enwedig pan y cydnabyddir ar bob llaw fod cannoedd o Gymry wedi dioddef ac yn dioddef anghyfiawnder oherwydd nad yw eu mam-iaith ar yr un tir â Saesneg yn y Llysoedd Barn.*

*Bydd yn rhaid cyflwyno'r Ddeiseb a'r Penderfyniad i'r Comisiwn Brenhinol ymhen ychydig wythnosau. Nid oes amser i'w golli. Gofynnwn i bob darllenydd wneud ei ran drwy arwyddo'r Ddeiseb ei hun, gofalu fod ei berthnasau a'i gyfeillion yn gwneud hynny, a thrwy ofalu fod pob sefydliad y mae ynglŷn ag ef yn pasio'r penderfyniad yn ffurfiol. Dylid anfon y deisebau a'r penderfyniadau, wedi eu harwyddo, i Swyddfa'r 'Cymro', yn ddiymdroi.*

Ar brynhawn Gwener 28 Mehefin 1935 cyflwynwyd Deiseb Genedlaethol i'r Comisiwn Brenhinol yn Llundain wedi ei harwyddo gan naw mil o bobl, a'r penderfyniad a basiwyd gan Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau, Eglwysi, Llysoedd Eglwysig ac ati yn cynrychioli degau o filoedd o bobl eraill. Yn ogystal, cafodd y Ddeiseb gefnogaeth lwyr gan y mwyafrif o'r aelodau Cymreig yn y Senedd, ac yn is-ysgrif flaen Y Cymro 13 Gorffennaf 1935 mae'r papur yn talu teyrnged i brysurdeb yr aelodau hyn yn eu hymwneuthuriad â materion ieithyddol megis ymgyrch y llysoedd:

*WYTHNOS neu ragor yn ôl, cyfeiriasom at barodrwydd y Blaid Gymreig yn y Senedd i weithio dros fuddiannau Cymru, ac yr ydym eto'r wythnos hon yn diolch iddynt am gyflwyno tystiolaeth mor ragorol i Gomisiwn y Llysoedd.*

*Fe ddilynodd y siaradwyr yr un llwybr bron ag a gymerwyd wrth gyflwyno'r Ddeiseb Genedlaethol trwy gyfrwng 'Y Cymro', a diolchwn i'r Seneddwyr hyn am gadarnhau'r dystiolaeth a roddwyd eisoes ger bron y Comisiwn.*

*Deëllir bod Cymro neu ddau eto i gyflwyno tystiolaeth ar ran Cymru a'i hiaith, ac yna bydd yn rhaid aros yn amyneddgar am adroddiad y Comisiwn.*

*Dichon y bydd yn rhaid cario'r ddadl i Dŷ'r Cyffredin, a bydd Cymru'n disgwyl i'r Aelodau sy'n ei chynrychioli yn San Steffan ymladd yn egnïol dros ddadwneud yr hyn a wnaed gan y Cymro hwnnw - Harri'r VIII - bedwar can mlynedd yn ôl.*

Ar dudalen flaen Y Cymro 8 Chwefror 1936 rhoddwyd manylion

yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Brenhinol, adroddiad oedd yn cydnabod lle'r iaith Gymraeg yn y llysoedd ac a âi'n bell i ganiatáu i Gymru lawer o'r hyn y gofynnwyd amdanynt yn y Ddeiseb. Ar ddiwedd yr adroddiad blaen hwn gwelir bod Y Cymro â theimladau cymysg:

> *NID yw adroddiad y Comisiwn yn mynd llawn mor bell ag y gofynnid iddo yn Neiseb Genedlaethol 'Y Cymro', ond y mae'r hyn a ganiateir ac a gydnabyddir yn cyfiawnhau'r ymgyrch a wnaed gan 'Y Cymro', ac yn brawf amlwg fod y gefnogaeth a gafodd yr ymgyrch gan bersonau unigol a chan gymdeithasau ac eglwysi wedi dwyn ffrwyth....*

Yn ysgrif flaen y rhifyn hwnnw o'r Cymro gwelir bod y papur yn fwy cadarnhaol ynghylch adroddiad y Comisiwn Brenhinol ac yn mynegi'i lawenydd 'bod y Comisiwn Brenhinol wedi myned yn lled bell i roddi'r iaith Gymraeg ar dir mwy cydradd â'r Saesneg yn ein llysoedd.' Ond tra'n llawenhau fel hyn dros gynnwys yr adroddiad, pwysleisia ar yr un pryd mai argymhellion yn unig ydynt ar hyn o bryd a bod angen i'r aelodau seneddol Cymreig wneud eu gorau glas i sicrhau na wastreffir cyfle mor rhagorol i gael tegwch i Gymry yn y llysoedd:

Y LLYSOEDD

> *O SAFBWYNT y rhai a arwyddodd ddeiseb 'Y Cymro', y cyfeiriadau at yr iaith, a'r materion sy'n cyffwrdd yr iaith mewn rhyw fodd, yw'r pwysicaf o ddigon yn adroddiad y Comisiwn a fu'n chwilio pa fodd i hwyluso gwaith y llysoedd.*
>
> *O'r safbwynt honno, ni allwn lai na bod yn llawen, canys cyndynrwydd a barai i ni haeru nad aeth y Comisiwn cyn belled ag y gallem ddisgwyl, er efallai nid cyn belled ag y buasem yn dymuno, i gyfarfod cais ein deisebwyr.*
>
> *Y mae'n hawdd i gyfreithwyr ganfod digon o achos cwyn yn erbyn yr adroddiad, ond agweddau arbennig nad oes â fynnont rhyw lawer â'r iaith yn naturiol a gaiff sylw'r cyfreithiwr. Fodd bynnag, ni ddylai eu beirniadaeth hwy, pa mor deg bynnag ydyw a pha mor angenrheidiol bynnag yw'r gwelliannau pellach yr hoffesid eu cael, gymylu'r ffaith bod y Comisiwn Brenhinol wedi myned yn lled bell i roddi'r iaith Gymraeg ar dir mwy cydradd â'r Saesneg yn ein llysoedd.*
>
> *Y mae'r ffaith yna yn amlwg, nid yn unig yn llythyren yr argymhellion a'r sylwadau, eithr yn yr ysbryd a amlygir yn yr adroddiad, ond ei ddarllen gyda'r gofal a haedda.*
>
> *Mynegi'r ysbryd hwnnw a wna'r datganiad croyw fod y Comisiwn yn "gwerthfawrogi'r ffaith fod y Cymry yn falch o'u cenedlaetholdeb gwahanol, eu hen gysylltiadau hanesyddol, eu diwylliant, eu llenyddiaeth a'u hiaith." Nid yw ond teg barnu argymhellion a sylwadau eraill yr adroddiad yng ngoleuni'r datganiad yna.*
>
> *Y mae hyn yn gryn newid yn agwedd Comisiynau a Llysoedd Lloegr at*

*Gymru. A rhaid cofio nad Comisiwn i ystyried perthynas Cymru â Lloegr, na hawliau cenedlaethol Cymru, oedd y Comisiwn hwn o gwbl, eithr Comisiwn i ystyried pa fodd i hwyluso gwaith llysoedd Prydain.*

*Y mae'n wir nad yw'r adroddiad yn argymell penodi rhai fo'n medru Cymraeg yn farnwyr yr Uchel Lys, ond y mae'n dywedyd yn glir y dylai barnwr a fo wedi ei benodi am ei gymwysterau cyfreithiol, a hwnnw'n medru Cymraeg, fe ddylai hwnnw, meddai'r adroddiad, gael ei anfon yn amlach na'i frodyr i Gymru. Sylwir, mewn ffordd sy'n awgrymu cymeradwyaeth, fod yr Arglwydd Ganghellor yn y gorffennol wedi penodi Cymry yn farnwyr Uchel Lys am eu cymwysterau cyfreithiol, a datgenir yr hyder y bydd i Gymru godi cyfreithwyr o'r radd flaenaf eto fydd yn hawlio cael eu codi'n farnwyr yr Uchel Lys. Ac y mae'r rhai hynny i gael eu hanfon i frawdlysoedd Cymru. Tra pery Cymru yn rhan o Loegr, dan yr un Llywodraeth a Senedd, go brin y gallwn ddisgwyl rhagor yn ein llysoedd barn.*

*Mewn memorandum y mae Mr. Clement Davies yn bur gadarn dros fod cadeiryddion y llysoedd chwarter yn medru'r ddwy iaith, ac os y caniateir i siroedd gael cadeiryddion cyflogedig, yn wŷr hyddysg yn y gyfraith, prin y gall yr Arglwydd Ganghellor, wrth benodi, anghofio bod medru Cymraeg yn gymhwyster. Ystyr ddiamheuol y cyfeiriad at farnwyr yr Uchel Lys ydyw fod medru Cymraeg yn ychwanegu at eu cymhwyster i ymweled â Chymru (pe amgen, ni fuasid yn argymell eu hanfon yma), ac ni ellir, a bod yn gyson, anwybyddu'r un cymhwyster mewn cadeirydd mainc llys chwarter.*

*Ymddengys i ni mai ystyr yr adroddiad yw fod yr iaith yn cael ei chydnabod. Felly fe gerddwyd ymhell oddi wrth ddyfarniad y barnwyr yn 1732, na ellid defnyddio dim ond Saesneg yn y Llysoedd yng Nghymru.*

*Y mae'n rhaid i'n Seneddwyr fod yn effro i weled bod y dehongliad mwyaf ffafriol i Gymru yn cael ei roddi arno pan fo unrhyw ddeddfwriaeth ar dro i weithredu ei argymhellion. Fe ymladdodd rhai o aelodau Cymru fel llewod yn erbyn colli llysoedd arbennig Cymru yn 1830, fel un cam arall at ddifodi Cymru'n llwyr fel gwlad wahanol. Bydd eisiau sêl tebyg eto, dan amgylchiadau mwy ffafriol, a chefnogaeth drwyadl y wlad i fynnu'r gorau o'r hyn a gydnabyddir.*

Yn dilyn hyn ni roddwyd sylw yn ysgrifau blaen Y Cymro i bwnc yr iaith Gymraeg yn y llysoedd hyd 1942, er bod y mater, fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, wedi parhau i dderbyn cryn sylw ar dudalennau blaen y papur. Yn ysgrif flaen Y Cymro 17 Ionawr 1942 gofynnwyd beth oedd hanes y ddeiseb ddiweddaraf ynglŷn â'r iaith Gymraeg yn y llysoedd, deiseb a baratowyd ers 1938 ond a amharwyd gan doriad yr Ail Ryfel Byd, ac a gyflwynwyd i'r llywodraeth yn y diwedd ym 1941 ac arni dri chan mil o enwau:

BETH SY'N DOD O'R DDEISEB?

*GAN ein bod, yn ôl pob golwg, i gael Pwyllgor Ymgynghori i Gymru, carem wybod beth sydd yn debyg o ddod o'r Ddeiseb sydd wedi ei chyflwyno i'r Senedd ac i'r Ysgrifennydd Cartref. Fel y cofir, Deiseb yw hon yn erfyn am i'r iaith Gymraeg gael ei lle priod yn llysoedd barn Cymru. Y mae perygl i'r mater hwn gael ei ollwng dros gof os na elwir sylw ato. Beunydd fe geir hanes am annhegwch ac anghyfiawnder yn cael ei*

*weithredu yn y cyfeiriad hwn yn y llysoedd yng Nghymru. Da y gwnaeth aelodau o Bwyllgor Heddlu Sir Gaerfyrddin wrth alw sylw at y cam a honnir a wnaed mewn ynadlys yn ddiweddar yn y sir. Dirwywyd dau ffermwr am fethu cydsynio ag archeb y Llywodraeth ynglŷn â thrin eu tir. Ar ben hyn gorfodwyd hwy, meddir, gan iddynt ddewis rhoi eu tystiolaeth yn Gymraeg, dalu'r tâl i'r cyfieithydd a alwyd at eu gwasanaeth. Addefodd cadeirydd y pwyllgor heddlu mai'r arfer oedd talu tâl cyfieithydd o'r gronfa sirol. Paham y bu'r dull gwahanol yn yr achos hwn? Fe welir gan hynny pa mor bwysig yw bod y Ddeiseb a arwyddwyd gan gynifer o drigolion y wlad yn cael ei hystyried yn ddiymdroi gan y Llywodraeth. Disgwyliwn i'r Aelodau Seneddol ddal i guro wrth ddrws yr Ysgrifennydd Cartref hyd oni cheir bodlonrwydd yn y mater hwn.*

Ail-ofynnwyd ynghylch hynt y Ddeiseb yn ysgrif flaen Y Cymro bedair wythnos yn ddiweddarach:

BETH AM Y DDEISEB? (14 Chwefror 1942)

*DARFU eto sôn am Ddeiseb yr Iaith Gymraeg. Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd ers peth amser bellach. Gwrthododd y Prif Weinidog, oherwydd pwysau gwaith arall â derbyn dirprwyaeth ar y mater. Parodd i'r ddirprwyaeth fynd i weld yr Ysgrifennydd Cartref. Bellach er ei fod yn dangos rhyw fath ar gydymdeimlad â neges y ddeiseb, awgrymodd yr Ysgrifennydd Cartref mai at yr Arglwydd Ganghellor y dylid mynd i'w thrafod. Awgrymodd Undeb Cymru Fydd mai hynny a ddylesid ei wneud ar y cyntaf. Fodd bynnag, cymerwyd y mater mewn llaw gan yr Aelodau Seneddol ac nid oes ar hyn o bryd fawr argoel y ceir sylw buan iawn i'r mater sydd wedi ei gadw a'i oedi'n llawer hwy nag y dylai. Gobeithio y bydd i'r is-bwyllgor o'r Aelodau Seneddol a benodwyd i drafod y mater mewn modd ymarferol gyda'r Arglwydd Ganghellor fod yn fyw llwyddiannus yn eu hymdrech hwy.*

Ym mis Hydref 1942, wedi blynyddoedd o ddisgwyl yn eiddgar amdani, pasiodd Tŷ'r Cyffredin Ddeddf a roddai hawl gyfreithiol i Gymro siarad Cymraeg yn llysoedd Cymru, ac er nad âi darpariadau'r Ddeddf hon mor bell â'r hyn yr ymgyrchwyd amdano gan Y Cymro, yr oedd yr achlysur serch hynny'n garreg filltir yn hanes yr iaith. Yn ysgrif flaen yr wythnos ymfalchïa'r Cymro, yn naturiol, am unrhyw fath o Ddeddf a roddai fwy o hawl i siaradwyr Cymraeg yn y llysoedd ond pwysleisia'r papur unwaith eto mai ar y Cymry eu hunain, yn y pen draw, yr oedd y cyfrifoldeb ynghylch yr iaith:

PASIO MESUR YR IAITH (17 Hydref 1942)

*PWY a gredasai mai yng nghanol rhyfel mwya'r byd y ceid amser yn y Senedd i gywiro hen gam â'r iaith Gymraeg? Ond, gan feddwl, milwrio yn erbyn yr anghyfiawnder a'r anghyfraith yr ydym ni a'n cyd-wledydd ar*

*hyn o bryd, a pheth cymwys ydyw ceisio symud o'n tir ein hunain hen gam fel hyn, er lleied ydyw wrth y pethau sydd yn y byd heddiw.*

*Ni wyddom am neb a gafodd anghyfiawnder yn llysoedd Cymru oherwydd nad oedd yn gwybod Saesneg - yn wir, Cymreigaidd iawn ydyw awyrgylch y mân lysoedd mewn llawer bro wir Gymreig. Ond braint ac nid hawl oedd hyn, ac yr oedd yr egwyddor, felly, yn anunion. Da gweld ei chywiro, a diolchwn i Aelodau Cymreig y Senedd am eu hymdrechion ac i'r amryw Gymry fu'n gweithio'n selog i ddwyn y mater i sylw.*

*Yn awr fe ddiddymir y Ddeddf a wnaeth y Brenin Harri VIII yn y flwyddyn 1536. Yr oedd honno'n ergyd lem i'r iaith ar y pryd. Collodd ei bri a'i hurddas, ond daeth hwnnw'n ôl iddi pan gyfieithwyd y Beibl a'r Llyfr Gweddi Cyffredin gan ddiwinyddion oedd yn feistri ar yr iaith. Yr eglwys ydyw prif swcwr yr iaith o hyd. Onibai am yr eglwysi, buan y collem olwg ar ei harddwch hi, gan mai carpiog iawn y saif hi ar wefusau'r rhan fwyaf ohonom.*

*Yn ôl rhai o'r Aelodau Cymreig, cael Ysgrifennydd dros Gymru fydd y peth nesaf y gweithir tuag ato.*

*Er cystal egwyddor ydyw cael cyfartal hawl i'r ddwy iaith yn y llysoedd, rhaid inni ofalu peidio â gadael i "lythyren y ddeddf" dynnu'n sylw oddi wrth y pethau trymach. Nid ar Lundain y mae'r bai os nad ydyw'r plant yn ei dysgu'n dda, na ninnau'n ei siarad hi'n bur â'n gilydd. Yn wir, y mae pob arwydd fod Llundain yn awyddus iawn inni siarad mwy arni, a'i meithrin. Yr wythnos hon, gofynnodd y Bwrdd Addysg i'r holl awdurdodau addysg yng Nghymru a Mynwy holi stad dysgu Cymraeg yn eu hysgolion. "Nid mater ysgol yn unig ydyw'r iaith Gymraeg", ebe Llundain, "ond mater sydd o bwys i fywyd cymdeithas a chrefydd a gwlad." Ac nid peth newydd ydyw'r safbwynt hwn yn y Bwrdd Addysg. Y mae'r Bwrdd ers cenhedlaeth neu ddwy yn gyfaill i'r iaith Gymraeg, a'r gallu yn nwylo Cymru. Ewyllys Cymru ei hun sy'n araf.*

*Pob parch i lys a chyngor, ond gan dri lle yn unig y mae'r gallu i godi neu i ladd yr iaith Gymraeg. Yn gyntaf ac yn bwysicaf, y cartref. Yn ail, yr eglwys. Yn drydydd, yr ysgol.*

Llai na deuddeng mis yn ddiweddarach, fodd bynnag, ymddangosodd yr ysgrif flaen isod yn mynegi pryder na châi'r ddeddf ei gweinyddu'n ddigonol yn llysoedd barn y wlad, gan ddangos nad oedd brwydr yr iaith yn y llysoedd ar ben o bell ffordd:

<u>YR IAITH YN Y LLYSOEDD</u> (25 Medi 1943)

*PASIWYD Deddf y Llysoedd flwyddyn yn ôl ac y mae safle'r iaith Gymraeg yn llysoedd Cymru yn dal yn anfoddhaol. Ac wythnos yn ôl daeth ynadon Llandudno i benderfyniad a wna'r Ddeddf ei hun yn hollol ddiwerth os yw'r penderfyniad hwnnw'n gywir.*

*Pan basiwyd y Ddeddf cymerwyd yn ganiataol yn y wlad y rhoddid cyfle yn awr i bwy bynnag a dystiai mewn llys barn yng Nghymru ddewis yr iaith y gallai wneud y cyfiawnder helaethaf ag ef ei hun ynddi. Cyn y Ddeddf hon byddai ynadon yn dewis gweinyddu cyfiawnder helaethach drwy ganiatáu i dyst roi ei achos gerbron mewn Cymraeg. Mewn rhai achosion, yn wir, nid oedd ddewis arall i'r ynadon.*

*Ond pwysleisiwyd a phwysleisiwyd yn y wlad ac yn y Senedd ei hun fis Hydref diwethaf fod yna bobl sy'n dal i feddwl mewn Cymraeg serch*

*eu bod yn medru Saesneg, a bod y Ddeddf newydd hon yn mynd i wneud chwarae teg â'r rhain.*

*O ganlyniad, fe ddywed y Ddeddf ei hun y "gellir defnyddio'r iaith Gymraeg mewn unrhyw lys yng Nghymru gan unrhyw un gerbron neu unrhyw dyst sy'n ystyried y buasai fel arall dan anfantais oherwydd mai ei iaith naturiol yw'r Gymraeg."*

*"Any party or witness who considers", meddai'r Ddeddf. Os golyga Saesneg yr hyn a ddywed Saesneg, ac os golyga Deddf yr hyn a ddywed Deddf, yna fe ymddengys mai mater i'r tyst ei hun yw penderfynu a ystyriai ei hun dan anfantais trwy orfod defnyddio Saesneg, ac nid mater i'r ynadon. Os yw'r Ddeddf yn golygu rhywbeth amgen nag yr ymddengys - i leygwr a ddwed, yna mae'n hanfodol cael y safle'n berffaith glir ar unwaith.*

*Dylai gwaith ynadon Llandudno yr wythnos diwethaf yn cymryd arnynt eu hunain benderfynu, yn groes i ddymuniad diffynnydd, mai mewn Saesneg y gwrandewid ei achos ddod â'r mater yma i ben.*

*Ni ddangosir digon o gydymdeimlad yn gyffredinol ychwaith gan ynadon a chlercod ynadon at dystion prin eu Saesneg. Y duedd yw cynnal pob achos yn Saesneg os gellir cario ymlaen rywfodd gan fod rhai o'r ynadon, neu'r clerc neu'r cyfreithwyr yn ddi-Gymraeg neu'n anfedrus eu Cymraeg. Ac ychydig iawn o lysoedd Seisnigaidd a fanteisiodd ar drefniadau'r Ddeddf i sicrhau cyfieithydd swyddogol i'r llys.*

*Mae'n wir nad yw pob Sais anghelfydd o Gymro yn galw am ei achos yn Gymraeg. Fe ddigwydd hyn, yn bennaf, am nad oes gan neb ddigon o ddiddordeb yn y mater i ofyn iddo ar y dechrau.*

*Y mae eithriadau, wrth gwrs - ond dyna'r safle'n gyffredinol, ac nid yw'n ddigon da.*

# *Ymgyrch Sefydlu Ysgrifennydd i Gymru*

Yn ogystal â'r ymgyrch i Gymreigio llysoedd Cymru, a fu'n eithaf llwyddiannus, un arall o brif ymgyrchoedd Y Cymro oedd yr un i sefydlu Ysgrifennydd Gwladol i Gymru. Gwelir ym Mhennod y Tudalennau Blaen bod y pwnc wedi dod i sylw'r darllenwyr am y tro cyntaf ar dudalen flaen rhifyn 8 Mehefin 1935 wedi i Aelodau Seneddol Cymru basio'n unfrydol y dylai Cymru gael ei Hysgrifennydd ei hun; yn ysgrif flaen yr un rhifyn, wedi i'r papur fynnu Cyngor Addysg Cenedlaethol i Gymru, gwelir ei fod hefyd yn mynnu Ysgrifennydd i Gymru, a fyddai yng ngeiriau'r papur yn 'peri bod y Llywodraeth yn edrych ar Gymru fel un':

HAWLIAU CYMRU

> *....Cyson â'r hawl hon, er nad yn rhan ohoni, yw gofyn am Ysgrifennydd i Gymru, ac yr ydym yn llawen fod Aelodau Seneddol Cymru fel un gŵr wedi datgan o blaid hyn. Nid oedd wahaniaeth rhwng Llafur na Rhyddfrydwr na Cheidwadwr, cytunai pob un oedd yn cynrychioli etholaeth yng Nghymru ei bod yn bryd i ni gael bod ar yr un tir â Sgotland, a chael Aelod o Gymru yn y Cabinet i ofalu am Gymru yn gyntaf peth.*
>
> *Gwir fod un o'r aelodau ar hyn o bryd yn dal swydd yn y Llywodraeth ac un arall yn chwip, a gwir hefyd bod Cymru yn fwy nag unwaith wedi ethol Aelod Seneddol a ddyrchafwyd i'r Cabinet, ac i'r brif swydd yno. Ond nid am eu bod o Gymru y bu iddynt gael yr anrhydedd, ac nid oeddynt yn gyfrifol am Gymru mewn un modd. I'r Senedd ac i'w plaid yr oeddynt yn gyfrifol.*
>
> *Ond fe fydd Ysgrifennydd i Gymru yn gyfrifol i'r Senedd am weinyddiad y Llywodraeth yng Nghymru, a bydd yn siarad dros Gymru yn y cynghorau cyfrin. Bydd yn gyfrifol am lunio cynlluniau a llywio gweinyddiad er lles Cymru.*
>
> *Y mae hyn yn eithriadol bwysig heddiw, yn arbennig ynglŷn â mesurau a chynlluniau sy'n ymwneud â materion diwydiannol. Mewn materion o'r fath, dim ond am rannau o Gymru, fel "ardaloedd arbennig", y mae'r Llywodraeth yn meddwl wrth drafod deddfwriaeth a chynlluniau diwydiannol. Os oes ystyr o gwbl i sefydlu Swyddfa Cymru, fe olyga roddi osgo newydd i ddeddfwriaeth sef peri bod y Llywodraeth yn edrych ar Gymru fel un.*
>
> *A yw Cymru'n un? Daeth cyfle i'n hawdurdodau lleol ateb.*

Ceir ysgrif flaen ddiddorol yn Y Cymro 18 Ionawr 1936 yn dilyn sylwadau Dai Grenfell, A.S. Gŵyr, a ddywedodd ei bod hi'n hen bryd i Gymru sicrhau "mesur helaethach o hunan-lywodraeth." Ym marn Mr. Grenfell byddai sicrhau Ysgrifennydd Gwladol y cam cyntaf tuag at wneud hynny, ac yn yr ysgrif flaen hon, o dan y teitl **GEFYNNAU**, gwelir bod Y Cymro yn cytuno ag ef. Yr hyn sy'n gwneud yr ysgrif flaen hon yn un ddiddorol yw'r awgrym yn y pedwerydd a'r pumed paragraff bod Y Cymro yn cytuno â Dai Grenfell bod yn 'rhaid....i ni ddatgysylltu ein hunain oddi wrth

y Sais a rhyddhau ein hunain o'r llyffetheiriau sydd wedi ein hatal yn rhy hir i ddatblygu'n llawn fel cenedl', geiriau sy'n cyfeirio at annibyniaeth efallai (rhywbeth na fyddid yn disgwyl i'r Cymro ei gefnogi), neu o leiaf, geiriau sy'n cyfeirio at ryw fath o hunan-lywodraeth:

> *FE fynegodd Mr. D. R. Grenfell farn pob Cymro cywir, i ba blaid bynnag y perthyn, pan ddywedodd yng nghyfarfod Cymrodorion Caerdydd fod yn rhaid torri'r llyffetheiriau sydd wedi ein hatal yn rhy hir i ddatblygu'n llawn fel cenedl.*
>
> *Ac y mae mwy nag un llyffethair yn ein cadw'n ôl. Gresyn gan hynny yw bod rhai sy'n brysur yn ceisio torri un llyffethair yn arafu yn eu hymdrechion eu hunain i feio eraill am ymroddi ohonynt i ddryllio rhyw lyffethair arall.*
>
> *Fe all mai cywir y ddadl na all Cymru gael ei hawliau llawn heb ymreolaeth, ond ni olyga ymladd am hynny esgeuluso pethau eraill sy'n gamre pwysig tuag at y delfryd hwnnw, ac yn bwysicach fyth i lwyddiant ymreolaeth pan y'i ceir. Nid tarfu'r sêl o blaid ymreolaeth yw dywedyd y gall ymreolaeth brofi'n gneuen wag oni feithrinir y gydwybod genedlaethol y rhaid wrthi os yw ymreolaeth i fod yn rhywbeth amgenach na diwygiad gweinyddol yn dosbarthu'r pethau a berthyn i lywodraeth gwlad yn fwy lleol.*
>
> *Gwyddom yn dda nad yw cael Ysgrifennydd i Gymru yn ddigon, a gwyddom hefyd fod gwerth Ysgrifennydd i fesur helaeth yn dibynnu ar y gŵr a benodir ac ar ansawdd cynrychiolaeth Cymru yn y Senedd i fod yn gefn ac yn sbardun iddo i sefyll dros hawliau arbennig Cymru. Ond fe gytunwn â Mr. Grenfell y byddai cael Ysgrifennydd i Gymru yn gam pwysig yn y cyfeiriad iawn.*
>
> *Arwydd calonogol yw nad yw Mr. Grenfell a'r rhai sy'n gweithio gydag ef yn ystyried mai nod a gobaith uchaf Cymru yw cael Ysgrifennydd. Rhaid, meddai, i ni ddatgysylltu ein hunain oddi wrth y Sais a rhyddhau ein hunain o'r llyffetheiriau sydd wedi ein hatal yn rhy hir i ddatblygu'n llawn fel cenedl.*
>
> *Mwy na hynny, y mae'n rhaid i ni wylio na bo gefynnau newydd yn cael eu gosod arnom. Nid materion gweinyddol a gwleidyddol yn unig sy'n cyffwrdd bywyd ein cenedl. Y mae'r bywyd economaidd yn fwy cymhleth nag erioed, a'r trefniadau ynglŷn ag ef yn aml yn torri ar draws yr hen sefydliadau gwladol. Nid y cynghorau lleol, a'r llysoedd gwlad, yw unig offerynnau llywodraeth. Bellach sefydlwyd gwahanol fyrddau i ymdrin â materion, megis marchnata cynnyrch y tir a rheoli trafnidiaeth, ac y mae'r rhai hyn llawn cyn bwysiced â'r cynghorau lleol.*
>
> *Diamau y cytunir yn lled gyffredinol fod cyfraith gwlad sy'n peri troi o'r neilltu weithwyr am na fedrant Saesneg, fel y gwnaed yn llys chwarterol Caernarfon ychydig ddyddiau'n ôl, ac y gwnaed yn y Bala hefyd ym mis Hydref, yn sarhad ar genedl gyfan ac yn anfri ar Ymerodraeth sy'n caniatáu'r fath gamwri. Dyma lyffethair y rhaid ei thorri. Ond yng ngweithrediadau'r Bwrdd Llaeth, er enghraifft, y mae llyffethair arall debyg wedi ei gefynnu ar amaethwyr Cymru, er nad yw hon wedi torri i'r byw eto.*
>
> *Geilw rhai amaethwyr am dorri pob cysylltiad â'r Undeb Cenedlaethol, am y teimlir nad yw'r Undeb hwnnw yn fyw i hawliau ac anghenion arbennig Cymru, sydd i fesur mor helaeth yn wlad o dyddynwyr bychain. Am y dosbarth pwysig hwn y dywedodd Mr. Grenfell eu bod yn rhy werthfawr i'w colli. Ni fynnem ddadlau y dylid torri pob cysylltiad â'r Undeb eang ar hyn o bryd, ond fe ddywedwn yn bendant fod lles yr*

*amaethwyr fel dosbarth, yn ogystal â'r hawliau cenedlaethol, yn galw am i amaethwyr Cymru gael adran ag awdurdod ganddi ar y pethau a berthyn i Gymru.*

*Dywedwn yr un peth am y pleidiau gwleidyddol, gan wybod mai dyna deimlad llu mawr o'u haelodau, canys deallwn fod symudiad ar droed i sicrhau i'r Blaid Lafur, er enghraifft, ei Chyngor Cymreig.*

*Da yw canfod pob arwydd o wingo yn erbyn y llyffetheiriau, ond mynnwn eu torri hefyd. Y mae pob llyffethair a dorrir yn ein dwyn yn nes i ryddid.*

Wrth siarad unwaith eto ynglŷn â HAWLIAU CYMRU yn ysgrif flaen rhifyn 27 Mawrth 1937 mae'r Cymro yn ategu pwynt Dai Grenfell nad y nod uchaf yn y pen draw oedd sicrhau Ysgrifennydd a bod profiad yr Alban yn y mater yn profi hynny'n ddiamheuol. Ond er bod y papur yn ailadrodd y gri am fwy o hunan-lywodraeth i Gymru, pwysleisia hefyd na all y wlad ei chynnal ei hunan yn hollol annibynnol, sy'n profi nad oedd y papur yn cefnogi annibyniaeth lwyr:

*Y MAE'R aelodau Seneddol o'r diwedd yn symud i geisio cael Ysgrifennydd i Gymru, a byddant yn gweled y Prif Weinidog ar y mater yn union wedi'r Pasg. Beth bynnag a gredwn am werth Ysgrifennydd i Gymru, da yw gweled arwyddion deffroad ymhlith ein Seneddwyr ar hawliau ein cenedl, canys yn ddiddadl y mae yna amryw faterion sy'n cyffwrdd Cymru y dylai ein cynrychiolwyr yn y Senedd, heb wahaniaeth plaid, fod yn gwbl unol arnynt, ac yn ddigon eiddgar i fynnu cael eu gwrando.*

*Yr wythnos hon fe ddatganodd yr amaethwyr, drwy Bwyllgor Cymreig eu Hundeb Cenedlaethol, a'r Rhyddfrydwyr, yn eu Cynghrair ym Mangor, o blaid cael Ysgrifennydd i Gymru.*

*Ni ellir, wrth gwrs, gelu'r dadleuon yn erbyn Ysgrifennydd, ac amrywiant o'r rhai a awgrymwyd gan Dr. Llewellyn Jones yng nghyfarfod y Rhyddfrydwyr i'r rhai a godir gan aelodau'r Blaid Genedlaethol. Sylwodd Y CYMRO dro'n ôl mai un fantais o gael Ysgrifennydd fuasai sicrhau fod yna glust yn y Llywodraeth i wrando cwynion Cymru, ond mantais ofer a fuasai hynny pe golygai ei chael dawelu'r ymdeimlad cenedlaethol a pheri tybio ohonom fod y nod uchaf wedi ei gyrraedd. Nid yw pobl yr Alban yn credu hynny, canys dysgodd eu profiad hwy nad digon yw cael Ysgrifennydd.*

*Yr un pryd, fe all cael Ysgrifennydd fod yn gam i gyfeiriad mesur llawnach o hunan-reolaeth. Os mai rhwystr fydd, yna bydd y bai am hynny i fesur helaeth ar Gymru ei hun. Y mae edrych gyda dirmyg ar yr awgrym yn gymaint o gamgymeriad ag yw tybio mai dyma borth ein mil blynyddoedd fel cenedl. Rhesymol yw mynnu heb oedi yr hyn y cytunir arno gan y mwyafrif. Ar ôl cael y briwsionyn y sylweddolir eisiau pryd.*

*Y mae grym yn sylw'r Athro Archer, yng nghyfarfod Bangor, nad yw Cymru eto ond yn stad gyntaf deffroad cenedlaethol ac fod yn "rhaid i'r dyfodol ofalu amdano ei hun." Heddiw, meddai'r Athro, "cred y Cymro cyffredin na all Cymru gynnal ei hun yn economaidd, ar hyn o bryd nac yn y dyfodol agos." Y mae'r sylw hwn yn mynd at wreiddyn y mater, canys rhaid i wladwriaeth fod ar sylfeini economaidd cadarn. Hyd yn oed ymhlith rhai a dybiant eu hunain yn Genedlaetholwyr cadarn, fe geir amheuon ac ansicrwydd ar allu Cymru i fedru ei chynnal ei hun. Yn rhy gyffredin credir nad yw dyn ond truan diymadferth yng ngafaelion*

*deddfau economaidd anorfod, pryd mai mympwyon a chredoau dynion yn aml sy'n cyfrif am ddeddfau economaidd. Ewyllys a chred a wnelai'n ymarferol bethau a gyhoeddir yn anymarferol gan rai a seiliant bob dadl ar bethau fel y maent. A'r ewyllys a wnelai Gymru'n barod i ymreolaeth.*

*Os cywir yr Athro Archer mai yn stad gyntaf deffroad cenedlaethol yr ydym, gellir symud rhagom yn bwyllog ond yn eofn, gan ddysgu gwersi profiad yn ogystal â meithrin yr ewyllys a wnelai freuddwyd delfrydwyr yn ymarferol. Cyfle a moddion addas i hynny a fyddai cael nifer o gynghorau Cymreig arbennig ynglŷn ag addysg, iechyd, llywodraeth leol, ac yn bwysicaf oll, amaethyddiaeth. Dyna, yn ôl Dr. Llewellyn Jones, a ddileai rai o beryglon cael Ysgrifennydd yn unig. Ac wrth hawlio'r rhain fe ddylem fod yn un.*

Gwelodd y cyfnod hwn yng Nghymru adfywiad rhyfeddol yn yr ymwybyddiaeth genedlaethol ac yr oedd yr aelodau Cymreig i bob pwrpas yn unfrydol gytûn o'u nod ynghylch sicrhau Ysgrifennydd i Gymru. Yr oeddynt fel petaent wedi sylweddoli o'r diwedd eu bod yn cynrychioli gwlad yn ogystal â'u hetholaethau personol a chydweithient yn hynod o egnïol i geisio mynd â'r maen i'r wal. Dyma a ddywedodd ysgrif flaen ganmoliaethus Y Cymro, 30 Hydref 1937 wedi i'r Aelodau Seneddol Cymreig gynnig gwelliant i araith y Brenin yn y Senedd:

AELODAU CYMRU YN DEFFRO

*DA gan Y Cymro allu llongyfarch Aelodau Seneddol Cymru ar gam pendant i gyfeiriad chwarae teg iddi hi a'i buddiannau yn Senedd Prydain Fawr.*

*Yn araith y Brenin ar ddechrau'r tymor cyfeirir y tro hwn, fel arfer, at Sgotland. "Pery buddiannau Sgotland i gael sylw manwl fy Ngweinidogion", ac addo mesurau yn ymwneud â thai yn yr ardaloedd gwledig, a materion eraill o bwys i'r Alban. Ond ni soniwyd gair am Gymru a'i chyni yn araith ei Fawrhydi o gwbl.*

*Protest yn erbyn y diystyrwch hwn ydoedd y gwelliant swyddogol a gyflwynodd Mr. Ernest Evans, cadeirydd Plaid Cymru yn y Senedd. Arwyddwyd ef gan y cwbl bron o gynrychiolwyr Cymru; a datgan "gofid nad oes dim yn yr Araith yn rhag-arwyddo unrhyw ddeddfwriaeth o bwys i fuddiannau Cymru, na'r un Mesur i benodi Ysgrifennydd i Gymru a Mynwy."*

*Dyma'r tro cyntaf i Aelodau Cymru gynnig gwelliant fel un gŵr ar araith y Brenin, a pharodd y peth gryn ddiddordeb, fel argoel bod Cymru yn ymdeimlo â'i hawl i gyd-raddoldeb â Lloegr a Sgotland yn undeb Prydain Fawr. Y mae ysgwyd mymryn ar ein cymdogion o'u cysgadrwydd yn arwydd rhagorol ein bod ni fel cenedl ar ddihun. Gellir anwybyddu baban cyhyd ag y bo mewn trwmgwsg, ond unwaith y pair glywed ei lef, rhaid gwneud rhywbeth, ei ddigoni, neu ei guro, neu ei dawelu i gwsg drachefn. Amheuwn a ellir rhoi Cymru i gysgu'n ôl heddiw ar chwarae bach; a theimlwn yn sicr na faidd y Sais, hyd yn oed pe mynnai, ein curo. Felly ni erys ond i'r Senedd ymysgwyd, a gwneud rhywbeth i ddigoni Cymru, a chyfarfod ei gofynion.*

*Byddai penodiad Ysgrifennydd swyddogol i ni, ar yr un tir â Sgotland, yn gam yn y cyfeiriad hwnnw; ond ni theimla'r Cymro y gwnâi hynny ddigoni gofyn Cymru. Nid un person a all gynrychioli delfrydau a*

*llunio polisi cenedl; nid yw ond offeryn i gadw ei hawliau gerbron y Senedd. Rhaid cael corff cynrychioliadol i ddwyn ynghyd a diogelu buddiannau pob adran o'r bywyd cenedlaethol. Hyd oni lunir corff o'r fath nid oes llawer o obaith i ysbryd Cymru allu mynegi ei hun yn glir a chroyw.*

*Tra'n llongyfarch yr aelodau seneddol yn galonnog ar y symudiad hwn, a gobeithio y rhoddir cyfle i drafodaeth arno yn y Tŷ, hydera'r Cymro y sylweddolant hwy, a'r wlad yn gyffredinol, mai'r cam cyntaf ydyw tuag at rywbeth mwy sylweddol. Ac yn y dyddiau hyn y sylweddol a'r effeithiol mewn byd ac eglwys yw corff, a chynrychiolaeth deg a byw o bob adran o fywyd gwlad. Dywedwn wrth Aelodau Cymru am gerdded rhagddynt.*

Ychydig wythnosau yn ddiweddarach, ar ddydd Gwener 3 Rhagfyr 1937, cyflwynwyd Mesur i sefydlu Ysgrifennydd i Gymru i Dŷ'r Cyffredin gan Clement Davies, A.S. sir Drefaldwyn; er mawr siom iddo ef a gweddill yr aelodau Cymreig, fodd bynnag, a nifer o Gymry ar hyd a lled y wlad, cafodd y Mesur ymateb llugoer. Yn ysgrif flaen ddi-flewyn-ar-dafod rhifyn yr wythnos ganlynol o'r Cymro mae'r papur yn feirniadol tu hwnt o'r 'Sais Toriaidd' am ddangos y fath anghydymdeimlad â Chymru ac am ei thrin mor israddol, ac yn cynnig y dylai'r Cymry wrthod cefnogi Lloegr pe deuai'n fater o ryfel:

SARHAU CYMRU

*NODWEDDIADOL o agwedd Lloegr a'r Llywodraeth Doriaidd bresennol tuag at Gymru oedd y derbyniad oeraidd a gadd y Mesur i benodi Ysgrifennydd Seneddol dros Gymru, ar yr un tir ag Ysgrifennydd Sgotland. Dangoswyd unwaith eto nad oes i fuddiannau ein gwlad le o gwbl ym meddwl y Sais; ni thâl ef sylw i neb na all sefyll yn ei wyneb a mynnu ei hawliau. Gŵr fel Mussolini yw'r teip i ddelio â'r Sais, heb falio mymryn am ei uwchraddoldeb.*

*Gresyn na allem ni yng Nghymru wneud rhywbeth ymarferol i ddangos y gallwn ninnau fyw ein bywyd heb dalu mwy o sylw i Loegr nag a dâl hi i ni. Pe deuai rhyfel, ac nid yw hynny yn amhosibl o lawer, yn wyneb polisi tramor diweledigaeth y Llywodraeth, byddai'n gyfle ardderchog i feibion a merched Cymru sefyll o'r neilltu fel un gŵr, a dweud wrth Lywodraeth Lloegr, "Ewch ymlaen â'ch rhyfel. Ni fynnwn ni ran na chyfran yng nghanlyniadau eich uwchraddoldeb hunanol a'ch tyb ffôl mai chwi yw halen y ddaear a goleuni'r byd."*

*Un o gamsyniadau'r Sais yw credu y gall wneud fel y myn â phawb, a chario'r blyff gyda geiriau pwysig a chwarae-teg enwog John Bull. Fel mater o ffaith y mae'n amhoblogaidd drwy'r gwledydd oll; ei unig gyfaill ar hyn o bryd yw'r Ffrancwr, a chariad cwpwrdd yw ei ymlyniad yntau. Gŵyr ei fod mewn lle twym rhwng yr Almaen a'r Eidal a Sbaen, a'r Sais yw'r unig gyfaill y gall droi ato. Rhyngddynt gwnaeth y Ffrancwr a'r Sais un o gamgymeriadau mwyaf hanes yn nhelerau "heddwch" 1919; y mae Ewrob wedi talu am y bwnglera hwnnw byth oddi ar hynny, ac nid yw'r llech wedi ei chlirio o lawer eto. Ni all y Sais fforddio chwarae â'r Cymro; a'i ddiffyg dychymyg a'i ystyfnigrwydd traddodiadol yn unig a*

*wnaeth yn bosibl y diystyrwch di-alw-amdano hwn o hawliau rhesymol ei gymydog agosaf. Y mae i'r Prif Weinidog ei rinweddau, yn ddiau; dywedir bod ganddo gof aruthrol, a bod manylion pob adran ar flaenau'i fysedd. Ond dengys ei agwedd yn yr achos hwn yr hyn, yn wir, a wyddem o'r blaen, - ei fod yn Sais trwyadl yn ei amddifadrwydd llwyr o ddychymyg, heb sôn am gydymdeimlad.*

*Pe deuai rhyfel, meddem eto, byddai'n gyfle arbennig i daro dau aderyn ag un garreg, i ddangos i'r Sais y gallwn ninnau ei anwybyddu ef a'i adael i'w ddyfeisiau hunanol, ac ar yr un pryd sefyll ar farn a chydwybod dros egwyddor fawr ein crefydd, heddwch a llonyddwch. Ni ddymuna undyn weled rhyfel, bid sicr, ond purion i ni fel Cymry ddiffinio'n hagwedd mewn pryd, a gadael i'r Sais wybod ymlaen llaw pa le y safwn, a pheth yw ein hateb i'w ddiystyrwch cyson a digywilydd.*

*Yn y cyfamser, oni all Aelodau Seneddol Cymru wneuthur rhywbeth pendant fel protest yn erbyn y Prif Weinidog a'i Lywodraeth Doriaidd? Pe bwrient eu pleidlais unol yn erbyn pob mesur a ddygir ger bron, o bosibl y treiddiai i ben gor-lwythog y Prif Weinidog ei hun nad yw popeth yng ngardd "Prydain Fawr" mor hyfryd a thawel ag y carai'r Sais Toriaidd gredu.*

Ar 30 Mehefin 1938 ymwelodd Dirprwyaeth, yn cynnwys aelodau seneddol Cymreig, â'r Prif Weinidog i geisio ganddo sefydlu Ysgrifennydd i Gymru ac egluro iddo mor unfrydol oedd y teimlad Cymreig ynglŷn â'r mater; er llawenydd i'r Cymro yr oedd y croeso a'r derbyniad a gafodd y Ddirprwyaeth gan Neville Chamberlain yn argoeli'n bur dda ar gyfer y dyfodol, er bod y papur yn rhybuddio rhag gor-obeithio yn rhy fuan:

## CYDYMDEIMLO Â CHYMRU

*CALONOGOL oedd y derbyniad a roed gan y Prif Weinidog i'r Blaid Seneddol Gymreig yr wythnos ddiwethaf. Aethant ato yn gryno i ofyn iddo ystyried cael Ysgrifennydd Swyddogol i Gymru, fel i Sgotland, gyda sedd yn y Cyfrin Gyngor i wylio buddiannau arbennig Cymru.*

*Gosodwyd yr achos ger bron gan Mr. Morgan Jones, Caerffili, Cadeirydd y Blaid Gymreig. Cynrychiolai'r ddirprwyaeth hon, meddai Mr. Jones, Gymru gyfan; ac yr oedd y wlad yn unfryd, unfarn yn ei dymuniad am gynrychiolydd swyddogol yn y Senedd. Y mae i Gymru ei anghenion arbennig ei hun, a dylai bod rhywun wrth law pan lunid polisi'r Llywodraeth, â gwybodaeth uniongyrchol o safle Cymru ar wahanol faterion.*

*Datganodd Capten Arthur Evans, De Caerdydd, safle Ceidwadwyr Cymru, - fod gan Gymru ei hagwedd ei hun at broblemau'r dydd, ac y dylai'r Llywodraeth gael ei barn a'i chymryd i ystyriaeth.*

*Ymresymai Mr. Clement Davies, K.C., sir Drefaldwyn, a ddug fesur ar y mater ymlaen eisoes fel aelod preifat, nad oedd dim yn afresymol yn y cais. Yr oedd y Senedd eisoes wedi cydnabod bod i Gymru ei thraddodiad a'i diwylliant priod ei hun, drwy ganiatáu iddi ddeddfwriaeth arbennig, megis mesur cau tafarnau ar y Sul, Datgysylltiad a'r mesur Addysg i Gymru. Pa reswm sydd mewn rhoi Ysgrifennydd i Sgotland, lle na siaredir heniaith y bobl ond gan saith mil o'r trigolion, a gwrthod cais Cymru, sydd â thros wyth gant o filoedd yn siarad Cymraeg ac yn meddwl fel*

*cenedl arbennig?*

*Ychwanegodd Mr. Davies fod mwy o Aelodau Seneddol Cymru yn gallu siarad Cymraeg heddiw nag erioed o'r blaen yn hanes y Senedd.*

*Atebodd Mr. Chamberlain ei fod yn fyw i bwysigrwydd y ddirprwyaeth genedlaethol ac i resymolder y cais. Gwyddai yn dda fod gan genedl y Cymry ddelfrydau pendant a hawliau teg. Nid un o deulu "John Bull", y Sais na sylweddolai fod neb arall mewn bod, yw ef. Ar ochr ei fam etifeddai waed Cymreig ei hun, a safai cartref ei hynafiaid ger Rhiwabon hyd heddiw. Cytunai ag egwyddor y cais, a rhoddai ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd ymarferol cyn ateb yn derfynol. Ar hyn o bryd y mae rhai anawsterau oherwydd bod nifer o swyddogion Seisnig yn delio â chwestiynau cyffredin i Gymru a Lloegr; ond sicrhai'r ddirprwyaeth y rhoddai ei sylw personol i'r mater ar unwaith. Diolchodd Mr. Lloyd George i'r Prif Weinidog am ei dderbyniad croesawus a'i gydymdeimlad hynod garedig â'r cais.*

*Tybed a ydym yn or-obeithiol wrth gredu bod y cyfryw yn onest a didwyll, ac mai pelydr blaen y wawr i Gymru yw agwedd y Prif Weinidog? Nid oes un da mewn amau cyn pryd, a chryfhau ein penderfyniad cenedlaethol a wna hyder rhesymol. Ond ni ddylem fodloni ar gael Ysgrifennydd i Gymru. Y mae'n gam yn yr iawn gyfeiriad, ond rhaid dal i gerdded at nod uwch.*

*Beth yw hwnnw ar hyn o bryd? Cred 'Y Cymro' ei fod wedi taro'r hoel ar ei phen yn y Maniffesto. Cyngor Cenedlaethol i gynrychioli pob rhan a phob dosbarth yn ein gwlad, i ddelio â materion Cymreig gyda'r graddau helaethaf posibl o allu gweinyddol, ac i dderbyn hawliau ehangach gyda threigliad amser a phrofiad ymarferol, nes bod o'r diwedd yn Is-senedd daleithiol i Gymru, - dyna'r nod mwyaf ymarferol, a mwyaf derbyniol hefyd i fwyafrif mawr ein pobl.*

*At hyn y mae gogwydd pethau ym mhob rhan o'r Ymerodraeth, ac oddi mewn i Brydain ei hun. Ac nid oes un rhan o'r wlad, yr Alban na Chernyw na rhanbarth y Tyne, â mwy o hawl na gwell achos i gael Is-senedd i ddelio â materion arbennig.*

*Hyderwn y bydd ateb Mr. Chamberlain yn gadarnhaol, ac yr â'r wawr rhagddi hyd hanner dydd. Unwn i baratoi'r ffordd, gan roddi ymaith fân wahaniaethau barn ac ystyriaethau ail-raddol.*

Rhai wythnosau'n ddiweddarach atebodd Mr. Chamberlain y cais am Ysgrifennydd i Gymru yn swyddogol, ond er gwaethaf y derbyniad 'calonogol' a roddodd i ymweliad y Ddirprwyaeth Gymreig, derbyniad a gododd obeithion y Cymry, yr oedd cynnwys y llythyr a anfonodd at Morgan Jones, Cadeirydd y Blaid Gymreig, yn siomedig a dweud y lleiaf; dywedodd ei fod yn 'cydymdeimlo' â dyheadau'r Cymry ond na fedrai, am wahanol resymau, gydymffurfio â'u cais i sefydlu Ysgrifennydd Gwladol i Gymru. Beirniadwyd y penderfyniad hwn yn bur hallt mewn ysgrif flaen ddi-flewyn-ar-dafod arall o'r Cymro 30 Gorffennaf 1938 ac yn ôl teitl yr ysgrif yr oedd y penderfyniad wedi **BRADYCHU CYMRU**, ond oherwydd record y llywodraeth yn y gorffennol mae'r papur yn cyfaddef nad yw'r dyfarniad 'yn peri syndod na braw inni.' Ond er ei fod yn hynod o siomedig na chafwyd ateb mwy cadarnhaol gan Mr. Chamberlain, yn

nodweddiadol ohono nid yw'r Cymro am un eiliad am roi'r gorau i ymgyrchu dros Ysgrifennydd Gwladol i Gymru; i'r gwrthwyneb yn llwyr gan ei fod, fel y gwelir isod, yn fwy penderfynol nag erioed o fynd â'r maen i'r wal:

*YR wythnos hon, ar drothwy ei gŵyl fawr genedlaethol, cyflwynwyd i Gymru ddau ddyfarniad o bwys a barodd siomiant cyffredinol.*

*Y cyntaf yw'r neges a anfonwyd gan y Prif Weinidog i Mr. Morgan Jones, Aelod Seneddol Caerffili, a Chadeirydd y Blaid Gymreig yn y Senedd, ei fod yn anabl i gymeradwyo penodiad Ysgrifennydd Swyddogol i Gymru. Y llall yw methiant Cyngor Coleg Llanbedr-pont-Steffan i benodi Cymro yn bennaeth hen sefydliad Cymreig o'r pwysigrwydd mwyaf i fywyd y genedl....*

*....Nid oedd ateb y Prif Weinidog ond yr hyn a ddisgwylid yn gyffredinol ar hyn o bryd. Eto, dengys y rhesymau a rydd dros ei benderfyniad yn glir a digamsyniol mor llwyr y mae yntau allan o gyffyrddiad â maint a grym y teimlad cenedlaethol; er proffesu ohono nad yw'n "fyr o gydymdeimlo" ag ef. Cyffelyb yw cydymdeimlad Mr. Chamberlain â Chymru a'i dyheadau i gydymdeimlad trefnydd angladd â pherthynasau'r corff yr arolyga ei gladdedigaeth! Dyma'n hollol y math ar deimlad a ddisgwyliem yn yr achos hwn. Ond bydded hysbys i'r Prif Weinidog na chwennych Gymru y math yma ar gydymdeimlad. Y mae'r gymhariaeth rhwng Cymru, lle mae heniaith y bobol yn fyw a gloyw, a Sgotland, lle mae'r iaith i bob pwrpas wedi marw, yn chwerthinllyd o ofer.*

*Gallwn sicrhau Mr. Chamberlain o un peth, - ni adewir y mater hwn fel y mae gan Gymru. Mynnwn, ar dir teg a chyfiawn, nid yn unig Ysgrifennydd swyddogol, ond Cyngor Cenedlaethol i Gymru hefyd. Atgofiwn ef o'r ffaith nad oes ond un ffordd o lywodraethu'r wlad hon, ar waethaf Ffasgaeth ac Unbennaeth; a Chyfiawnder a Chwarae teg yw'r ffordd honno. Pe cawsai Iwerddon y driniaeth gywir hon yn y gorffennol, ni buasai ar enw da Prydain y smotiau tywyll sydd arno. Cais Cymru heddiw weled ei delfrydau a'i dyheadau cyfreithlon wedi eu sylweddoli ar linellau priodol a chyfansoddiadol.*

*Canlyniad difeth y ffordd yr anwybyddwyd yr achos hwn fydd gwneud mwy na dim arall i gryfhau a chanolbwyntio barn yng Nghymru ar beth a fynnwn gael mewn gwirionedd. Traddodwn ni drachefn y bregeth a draddodwyd droeon o'r blaen, - ym marn 'Y Cymro' rhaid gofyn am, a chael, Cyngor Cenedlaethol o gyfansoddiad boddhaol a chyda chynrychiolaeth eang a chref, i weithio mewn cysylltiad agos ag Ysgrifennydd swyddogol. Y mae'r ddeubeth hyn, o leiaf, yn anhepgorol i ddyfodol yr iaith a'r llu pethau sylfaenol eraill a berthyn i galon bywyd Cymru.*

*Nid yw'r dyfarniad hwn o eiddo'r Prif Weinidog yn peri syndod na braw inni. Ni wna'r llythyr hwn ond ychwanegu camgymeriad arall at y rhestr faith, - y cytundebau rhwng boneddigion, fel y'u gelwid; bradychiad Mr. Eden; ei agwedd at y Cynghrair Cenhedloedd; a'i gred mai cyfoeth cenedl yw ei hiechydwriaeth. Yn hwyr neu'n hwyrach bydd yn rhaid wynebu'r rhestr, a thalu'r bil.*

*Yn y cyfamser rhaid i Gymru ddeffro. Y mae galw am rywbeth i'n cynhyrfu i fywyd a gweithrediad yn wyneb un dyrnod ar ôl y llall a roddwyd i'r iaith gan ddatblygiadau rhyfedd y misoedd diwethaf, - y penodiadau Seisnig yn sir Gaerfyrddin ac yng ngoleg Llanbedr, a nifer o achosion eraill ar hyd a lled y wlad. O bosibl y llwydda "cydymdeimlad" y Prif Weinidog i daro'r wreichionen a gyn yr oddaith.*

Gwelir ym Mhennod y Tudalennau Blaen fel y tawelodd yr ymgyrch Ysgrifennydd i Gymru am dros dair blynedd ar ôl hyn ac yn naturiol felly ni roddwyd sylw i'r mater yn ysgrifau blaen Y Cymro. Ail-daniwyd yr ymgyrch ym 1942 wedi i Dŷ'r Cyffredin basio Mesur y Llysoedd Cymreig: teimlai'r Aelodau Seneddol, ac eraill ledled Cymru yn cynnwys papur Y Cymro, mai un cam yn unig oedd hwnnw, serch y ffaith ei fod yn gam mor bwysig, ym mrwydr Cymru a'r Gymraeg, a'i fod yn ddilyniant cwbl naturiol i ymgyrchu dros rywbeth lawn cyn bwysiced er lles y genedl, sef sefydlu Ysgrifennydd Gwladol a fyddai'n delio â materion penodol Gymreig. Gwelir o'r ysgrif flaen YSGRIFENNYDD DROS GYMRU o'r Cymro 24 Hydref 1942 bod y pwnc yn ôl unwaith eto ar yr agenda wleidyddol:

*GELLIR barnu bod y symud tuag at gael Ysgrifennydd dros Gymru i fod yn symud goleuedig a chadarn. Teimlir bod yr amser yn aeddfedu, ac y mae'n dda deall bod ein Cyngor Cymreig Atrefnu yn cysylltu'r pwnc â'u hymdrechion hwythau. Gan mai ceisio gosod seiliau i fywyd Cymru wedi'r rhyfel y maent, buddiol yn wir fyddai gweled Swyddfa Gymreig wedi ei sefydlu yn y Llywodraeth - wedi ei sefydlu ac ar waith - cyn diwedd y rhyfel.*

*Y mae'n amlwg fod yr Aelodau Seneddol Cymreig yn bwriadu mynd ati'n egnïol i wthio'r cwch i'r dwfr. Byddant yn y man yn penodi Pwyllgor Paratoi, ac nid bychan o waith fydd gan hwnnw i'w wneuthur. Gobeithlon, fodd bynnag, ydyw gweled y gwahaniaeth mawr sydd rhwng naws y wlad heddiw, a naws y llywodraeth heddiw, â'r hyn ydoedd yn 1938 pan aeth rhai o'r Aelodau Seneddol Cymreig at y Prif Weinidog, Mr. Chamberlain, i siarad am Ysgrifennydd dros Gymru. Dywedasant wrtho y dylai fod gan Gymru ei Swyddfa fel y mae gan yr Alban ei Swyddfa, ond dywedodd Mr. Chamberlain na welai ef fod dim tebygrwydd rhwng y ddwy wlad. Am ryw reswm neu'i gilydd, nid oedd yn dda gan Mr. Chamberlain Gymru.*

*Ysbryd gwahanol iawn oedd yn y Senedd yr wythnos ddiwethaf pan basiwyd Mesur Llysoedd Cymru. Heddiw y mae gwaith da a diwyd dros flynyddoedd yn dechrau dwyn ffrwyth. Y mae cyfraniad cyfreithwyr a gwleidyddion Cymreig tuag at lywodraeth Prydain; cyfraniad ei diwydianwyr mawr at ei hadnoddau a'i nerth; sêl a ffyddlondeb ei gweithwyr; ymddygiad gwych y glowyr ar ddyddiau du, annheg, dewrder ei phlant ar dir a môr; enw da ei meibion trwy gydol y byd; a'r marc a wnaeth ei llenorion a'i dramawyr ar lenyddiaeth a llwyfan a llun yn y blynyddoedd diwethaf - oll wedi dangos i Brydain benbaladr ac i'r byd bwy'i gilydd fod yng Nghymru ddawn a bonedd a grym.*

*Hyd yn hyn, gallwn ddiolch na ddioddefodd Cymru ddim oddi wrth fyrbwylltra neb. Gan bwyll y mae cerdded o hyd. Hyd yn oed pan soniwn am Ysgrifennydd dros Gymru, nid pawb sy'n deall ei gyflawn ystyr, ac y mae'n dda gennym fod ein Gohebydd Gwleidyddol yr wythnos hon yn dangos mai Gweinidog Materion Cymreig, ar yr un tir ag unrhyw Weinidog arall yn Llywodraeth Prydain Fawr, ydyw'r Ysgrifennydd dros Gymru i fod. Y mae'r un pwnc yn un mawr, ac angen am ei ddatrys a'i osod gerbron yn ei gyflawnder. Ni byddai dim yn fwy o nerth i'n cynrychiolwyr, wrth weithio'n daer tua'r nod, na gwybod bod y wlad yn dilyn y cyfan gyda gwir ddeall.*

Yn ysgrif flaen gyntaf 1943 cyfeiriwyd at un LLAIS ETO O BLAID Ysgrifennydd, y tro hwn gan fwrdd arholi'r ysgolion canolradd. Gwelir o'r ysgrif fel y proffwydodd Y Cymro mai hwn fyddai un o bynciau mawr y flwyddyn yng Nghymru, proffwydoliaeth lled gywir gan fod bron i chwarter ysgrifau blaen y papur ym 1943 yn ymdrin ag ef:

> *LLAIS Addysg yw'r diweddaraf i'w godi o blaid cael Ysgrifennydd dros Gymru. Derbyniodd y Central Welsh Board (bwrdd arholi'r ysgolion canolradd) adroddiad ei bwyllgor gwaith yn cymeradwyo penodi Ysgrifennydd Llywodraeth dros Gymru. Yr Henadur William George oedd yn y gadair. Gofynnai'r Bwrdd hefyd am gael Cyngor Addysg dros Gymru, i ofalu am bob math o addysg. Dywedodd y Prifathro R. Thomas, Bangor, ei fod yn edrych ymlaen at addysg wedi ei thrwytho â'r delfrydau Cristnogol. Credai ef y caent lawer o'r hyn a ddymunent o ganlyniad i Fesur y gobeithid ei ddwyn ger bron y Senedd yn ystod y flwyddyn sydd i ddyfod.*
>
> *Dichon mai cymysgu pethau oedd gofyn am Gyngor Addysg ar yr un pryd â chefnogi'r symudiad i gael Gweinidog Cymreig. Ond y mae'n dda gweled y gefnogaeth. Y mae'n un llais yn ychwaneg dros y symudiad, ac yn dangos bod gobaith am unfrydedd ar y pwnc yn y cylchoedd cyhoeddus. Gwyddom eisoes fod Cymdeithas yr Awdurdodau Lleol yn ystyried y mater yn un sylfaenol, ac edrychwn ymlaen at gynllun yr is-bwyllgor sy'n awr yn ystyried dyfodol cynghorau'r ardaloedd. Y mae'n hynod bwysig sut y byddant hwy'n ymrengu y tu ôl i egwyddor yr Ysgrifenyddiaeth. Safiad cadarn a deallus ar ran y cynghorau hyn fyddai'r grym gorau wrth gefn yr Aelodau Seneddol yn eu hymdrechion i bwyso'r Ysgrifenyddiaeth yn llwyddiannus trwy byrth y Senedd a'r Gweinyddiaethau.*
>
> *Y mae'n dda deall bod yr Aelodau Seneddol yn gweithio mor wyliadwrus a manwl. Bu gormod brys yn angau i lawer ymdrech dda yn y Senedd yn y dyddiau a fu. Yn awr y mae'r Aelodau'n cael y cyngor a'r arweiniad gorau ar holl agweddau cyfreithiol a chyfansoddiadol y Mesur, er mwyn gosod wrth ei gilydd gynllun gorffenedig y gellid ei gynnig yn syth i'r Llywodraeth cyn ei ddwyn i'r Senedd i drafod ei egwyddorion cyffredinol. Y maent hefyd yn holi'n fanwl sut y mae Adran yr Alban yn gweithio, er mwyn dysgu popeth a ellir o brofiad honno. Hwn, yn ddiamau, fydd un o bynciau mawr Cymru yn ystod y flwyddyn sy'n dyfod. Y mae'n syndod ein bod yn gallu meddwl o ddifrif am ei ddwyn ger bron yng nghanol rhyfel enbyd. Ond Prydain ydyw Prydain, ac nid oes teyrnas debyg iddi. Disgwyliwn y ceir newyddion o bwys am y Mesur newydd yn fuan wedi i'r Senedd gyfarfod am ei thymor newydd y mis hwn.*

Un peth amlwg o'r ysgrifau blaen hyn yw fod Y Cymro yn talu clod uchel i'r Aelodau Seneddol Cymreig am eu gwaith prysur, diflino a di-ildio yn ceisio cael y maen i'r wal yn ymgyrch yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ddangos unwaith eto bod y papur, ar y cyfan, yn lleisio'i farn yn deg a chytbwys: wedi'r cwbl, gwelir enghreifftiau lu o'r Cymro yn beirniadu gwahanol bobl a sefydliadau, a hynny'n aml â geiriau cryfion, pan deimla'n anfodlon â rhyw sefyllfa neu'i gilydd; da gweld felly bod y papur

yr un mor barod i ganmol pan fo hynny'n haeddiannol ac yn briodol:

<u>"GWEINIDOG CYMRU"</u> (27 Chwefror 1943)

*FEL y cyhoeddwyd eisoes yn 'Y Cymro', disgwylir i'r Mesur newydd ynglŷn â chael Gweinidog Cymreig (Ysgrifennydd Cymru) fod yn barod i'w gyflwyno i'r Llywodraeth yn fuan wedi'r Pasg, ac efallai cyn hynny. Dengys hyn waith diwyd iawn ar ran yr Aelodau Seneddol Cymreig. Gwyddant yn dda nad "ar chwarae bach" y ceir cymaint Mesur â hwn trwy byrth y Llywodraeth a'r Senedd, ac am hynny yr oedd angen am y gofal a'r manyldra mwyaf wrth ei baratoi.*

*Ni wyddom hyd yn hyn beth ydyw cynnwys y Mesur, ar wahân i'w brif amcanion, sef sicrhau Gweinidog Materion Cymreig yn Llywodraeth Prydain Fawr, gyda Swyddfa Gymreig i uno amryw adrannau Cymreig, megis iechyd, amaethyddiaeth ac addysg. Bydd rhaid aros rhai wythnosau cyn gwybod y manylion, a gwybod y modd yr ymaflodd yr Aelodau yn y gwaith. Yn ystod y dyddiau pan oeddynt yn paratoi, dywedwyd eu bod wedi ystyried cyfundrefn Scotland yn fanwl iawn. Y mae'n werth i ninnau edrych ar hon.*

*Y mae'n hysbys fod gan Scotland ei Swyddfa a'i Hysgrifennydd ers blynyddoedd, ac amryw adrannau llywodraeth yn gweithio danynt ac iddynt. Ond nid trwy un Mesur y cafodd yr Alban y breintiau hyn. Tyfu a wnaethant.*

*Mor bell yn ôl â'r flwyddyn 1885 fe ganiatawyd i awdurdodau'r Alban rai o'r dyletswyddau llywodraethu a wneid cyn hynny gan y Trysorlys, Swyddfa Materion Cartref, Bwrdd Llywodraeth Leol, a'r Cyngor Addysg. Trwy Ordr Dros Dro y caniatawyd y pethau hyn i gychwyn, ac yn ddiweddarach trwy Fesur. Hefyd fe gydnabuwyd i'r Alban ei chyfraith a'i swyddogion cyfraith ei hun. Y mae Lord Advocate yr Alban ar yr un tir â Thwrnai Cyffredinol. Nid ydym yn disgwyl y bydd y Mesur Cymreig yn cyffwrdd â phwnc y gyfraith mewn dull mor hanfodol â hyn - yr iaith ydyw'r prif rwystr.*

*Yn 1926 yr unwyd yr awdurdodau hyn yn Scotland yn Weinyddiaeth yn Llywodraeth Prydain Fawr. Ad-drefnwyd tipyn arnynt yn 1928. Gwnaethpwyd Byrddau'r Alban (iechyd, amaethyddiaeth, etc.) yn Adrannau, ar ddull Whitehall, dan Ysgrifennydd yr Alban, gyda swyddogion gwladol yn bennau arnynt yn lle eu bod yn benodiadau gwleidyddol.*

*Ynglŷn â Chymru, y tebyg ydyw y bydd yr Aelodau Cymreig, drwy'r mesur newydd, yn ceisio cyrraedd y nod ar un naid. Pa un fyddai orau i ni - cael y cyfan gyda'i gilydd, ynteu adeiladu fesul tipyn fel y gwnaeth yr Alban - nid hawdd dywedyd. Ond ni ddaw drwg o anelu'n uchel.*

*Digwyddiad ffortunus iawn ydyw bod ein cynghorau sir, tref a dosbarth, hefyd yn edrych o'r newydd arnynt eu hunain ac yn ceisio sicrhau cywirach llywodraeth i'r ardaloedd. Y mae'r naill symudiad cyn bwysiced â'r llall. Yn wir, tueddwn ar hyn o bryd i roddi mwy o bwys ar y gwaith o fewn ein cyffiniau nag ar hyd yn oed y Mesur mawr oddi uchod. Ein gobaith ydyw y bydd y ddau'n cyd-asio er ein lles ni oll.*

Ym mis Mehefin 1943 gofynnodd S. O. Davies, A.S. Merthyr Tydfil, i'r Dirprwy-Brif Weinidog, Clement Attlee, ddwyn ymlaen ddeddf ar unwaith i benodi Gweinidog Materion Cymreig, sef Ysgrifennydd dros Gymru; ei ateb syml ef, fodd bynnag, oedd na

wnâi hynny am 'na wyddai ef ddim' fod awydd cyffredinol yn y wlad am Ysgrifennydd o'r fath. Yn ysgrif flaen Y Cymro 19 Mehefin 1943 gwelir bod y papur, fel y disgwylid, yn anfodlon iawn â'r sefyllfa:

YSGRIFENNYDD I GYMRU

*MAE'R datganiad o eiddo'r Llywodraeth, drwy enau y Dirprwy Brif Weinidog, wrth ateb cwestiwn yn y Senedd, nad ydyw'n barod i drefnu ar gyfer penodi Ysgrifennydd i Gymru yn wir yn gyfystyr â gwrthod caniatáu hynny.*

*Gofidiwn nid yn unig am y penderfyniad hwn ond am y rheswm a roddodd Mr. Attlee dros ateb fel y gwnaeth, sef gwadu nad oes ddymuniad cyffredinol am Ysgrifennydd i Gymru.*

*Nid ydym yn fodlon o gwbl ar yr ateb hwn. Hyderwn y darbwyllir Mr. Attlee a'r Llywodraeth fod Cymru'n bwriadu bellach sicrhau cydnabyddiaeth swyddogol gan Senedd Prydain i raddau cyfartal os nad yn fwy na Sgotland.*

*Nid yw anwybodaeth o'r dymuniad cyffredinol onid hugan. Y mae teimlad cryf o bob cyfeiriad y dylid cydnabod hawliau Cymru. Y mae'r mater wedi ei wthio o'r neilltu oherwydd y rhyfel nes agor seddau i swyddogion y Llywodraeth yng Nghymru i sicrhau iddynt le yn y Cabinet. Po gyntaf yn y byd y symuda Cymru ymlaen i ddangos yn glir i Whitehall nad ydym yn fodlon ar eu hanwybodaeth o'n hawliau cyntaf oll y cymerant sylw o'n ceisiadau.*

Ar dudalen flaen y papur yr wythnos ganlynol, sef un o rifynnau mwyaf trawiadol Y Cymro yn y cyfnod dan sylw, cafwyd llythyr agored uniaith Saesneg at y Prif Weinidog, Mr. Churchill, yn apelio'n uniongyrchol ar iddo ail-ystyried y mater pwysig hwn ac anwybyddu'r 'unfortunate blunder' a wnaeth ei ddirprwy, Mr. Attlee. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod flaenorol at hynodrwydd y llythyr hwn am nifer o resymau, nid y lleiaf ohonynt y ffaith ei fod wedi ei ysgrifennu'n uniongyrchol at y Prif Weinidog trwy gyfrwng y Saesneg. Diddorol eithriadol felly yw gweld bod ysgrif flaen y rhifyn hwnnw o'r Cymro hefyd yn uniaith Saesneg fel y medrai Mr. Churchill a gweddill ei lywodraeth ei darllen a'i deall. O dan y teitl trawiadol THE MOTHER OF PARLIAMENTS - AND WALES gwelir papur newydd Y Cymro unwaith eto yn gosod yr achos gerbron y Prif Weinidog yn yr iaith y medrai ef a'i lywodraeth ei darllen, ac er nad yw tôn yr ysgrif hon cyn gryfed â'r OPEN LETTER TO THE PREMIER, nid yw serch hynny'n gadael unrhyw gamargraff ynglŷn â dyheadau pobl Cymru ynglŷn â sefydlu Ysgrifennydd i Gymru:

*WE have to apologise to our readers for the fact that 'Y Cymro' has to-day been forced to write in the English language. We do not apologise because we have any objection to the English language, and we only adopt this course because it is useless dealing with the issue in our own language which is not understood in Parliament or Whitehall. In this matter, therefore, and in any matter which, in our opinion, it is essential that the views of Wales should be expressed in the English language and so reach with due weight Government and Whitehall circles, we reserve the right to publish our views on those matters in English. And so in this issue, we publish an open letter to Mr. Winston Churchill on the appointment of a Secretary of State for Wales.*

*If evidence as to the existence of a Welsh nation within the confines of the Principality is really required, then such can easily be stated. At any rate, unlike Scotland, which has been granted a Secretary of State, Wales has a language of its own, not a mere academic language, not a dying language, but a living language of the home, a language of the people, a language of the market place, the churches and chaples, and a language, which, strange as it may seem to Whitehall and Parliament, can be heard to predominate in the streets of the towns and villages throughout Wales. We can assure the Government and Parliament that Wales still possesses its own language, and that it is being served in it by very extensive Welsh publications - weekly newspapers, magazines and books. A glance through the columns of this paper alone will at least show that the Welsh language is a live factor in present-day affairs in Wales.*

*As a Welsh nation we intend to secure that recognition by the Government and Parliament to which we are entitled. That recognition must, in the first instance, be granted by the appointment of a Secretary of State for Wales.*

*This recognition is long overdue. The reason upon which Mr. Attlee based his refusal was in fact begging the issue. For the fact is that Welshmen, and those large and friendly English interests in Wales, have subordinated all other considerations to the war effort. We can hardly believe that Mr. Attlee deliberately took advantage of this to cover up his professed belief that there was no general desire for such an appointment. This demand has been "stilled" in the war effort. Wales has freely given its blood and its service. Our inalienable right of effective recognition as a nation is emerging all the stronger for this, in the belief that the Government will not penalise the Welsh nation because of it, but rather will the Government be the readier to grant a right which means so much to Wales.*

*We therefore wish to make it clear to both Mr. Attlee and the Government that there is a solid demand throughout Wales for the appointment of a Secretary of State for Wales in Parliament, that it is the general hope and belief that the reconstruction which is bound to follow Victory Wales would be granted this measure of justice in any event, and it is the knowledge that such an appointment is essential NOW if Wales is not only to have the inspiration of such recognition, but if her legitimate rights in the post-war reconstruction are to be secured.*

*We therefore call upon the Government to review the whole matter and to have a new vision. For without it a new factor will have entered the Welsh nation - the knowledge that during the fight for freedom and the rights of small nations, the Government and the Mother of Parliaments will not grant the elemental right of a Secretary of State to a small nation on its own doorstep.*

*It is in order that the Government may have no illusions on the matter we have taken the course of publishing our protest in a language*

*which the Government and Whitehall can read.*

*Cymru am Byth!*

Cafodd YSRIFENNYDD CYMRU sylw eto fyth yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos ganlynol:

*YR oedd y gynhadledd yng Nghastell Amwythig ddydd Mercher, adroddiad o'r hon a welir ar ein tudalen flaen, yn un neilltuol iawn.*

*Yn y lle cyntaf dyma'r gynhadledd fwyaf cynrychioliadol o unrhyw fath yn ein cof i ddelio â materion Cymru.*

*Yr oedd oddeutu tri chant o gynrychiolwyr yn bresennol, pob un ohonynt wedi ei benodi'n swyddogol gan awdurdodau lleol drwy Gymru benbaladr.*

*Yr oedd y gynhadledd felly'n cynrychioli'n sylweddol awdurdodau lleol yng Nghymru, ac yn wahanol iawn i'r cynadleddau o gynrychiolwyr hunan-apwyntiedig. Yr oedd ganddi awdurdod a chaffai unrhyw beth a gymeradwyai sylw dyladwy. Dangosai'n glir y dylai barn gyhoeddus yng Nghymru wedi ei asio'n glós yn un symudiad effeithiol, wneud gwaith gwych ym mywyd Cymru.*

*Y mae gennym yng Nghymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru gnewyllyn sefydliad a all ddod yn elfen rymus i uno nid yn unig llywodraeth leol yng Nghymru, ac yng nghylchoedd y Llywodraeth ac yn Whitehall, ond hefyd yr Aelodau Seneddol.*

*Nodwedd neilltuol arall yn y gynhadledd oedd y sylw a roddodd i bwnc Ysgrifennydd Cymru, a chaed ei bod yn gwbl unfryd ei barn o blaid hynny.*

*Credem ni'n gyson ei bod yn hen bryd penodi Ysgrifennydd Cymru, a hynny ar y tir os yw'r genedl i fyw, i gadw, ac i adennill ei balchder cenedl, iaith a diwylliant, rhaid ei chydnabod fel cenedl yn Senedd Prydain. Y mae materion pwysig eraill a rydd hawl gyfiawn i Gymru i hyn.*

*Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r corff mawr o bobl a sieryd Saesneg sydd yn byw yng Nghymru, y cyfeiriodd yr Henadur T. Waterhouse atynt, am ddangos eu bod hwythau yr un mor bryderus yng nghylch ffyniant Cymru.*

*Llawenhawn hefyd i'r gynhadledd gydnabod mor barod yr arweiniad a roddodd 'Y Cymro' yn y mater hwn.*

*Hyderwn fodd bynnag na fydd i Gymdeithas yr Awdurdodau Lleol fodloni ar basio penderfyniad ac anfon teligram, ac y cymerir mesurau pellach i hysbysu'r Aelodau Seneddol Cymreig a mudiadau ffafriol eraill yn y Senedd am y penderfyniad. Os y digwydd nad yw rhai Cynghorau yng Nghymru wedi gwneud hynny eisoes gobeithio y bydd iddynt ddangos eu cefnogaeth yn ddigamsyniol.*

*Ystyriwn beth bynnag fo'r anghydweld ar fesurau ail-drefnu na all fod unrhyw amheuaeth y bydd cael Ysgrifennydd i Gymru yn foddion effeithiol i gyfuno cynlluniau cyson ag amodau neilltuol Cymru a'r genedl Gymreig.*

Er y cafwyd cyfnod 'tawel' wedyn yng nghyswllt ymgyrch yr Ysgrifennydd Gwladol, buan iawn yr adnewyddodd y gri'n gyson yn ysgrifau blaen Y Cymro, a hynny'n fwy pendant nag erioed. Dyfynnaf isod ddwy ysgrif flaen ddilynol o'r Cymro ym misoedd

Hydref a Thachwedd 1943, a diddorol yw eu cymharu. Ysgrifennwyd y gyntaf ohonynt cyn i'r Aelodau Seneddol Cymreig gyflwyno'u hachos i'r Prif Weinidog unwaith eto ynglŷn â sefydlu Ysgrifennydd i Gymru; mae hi'n ysgrif bendant iawn ei naws ond serch hynny'n lled-obeithiol y bydd y cais y tro hwn yn dwyn ffrwyth o'r diwedd. Ysgrifennwyd yr ail ysgrif flaen wedi i Mr. Churchill ateb na fyddai'n cydymffurfio â'r cais, ateb a siomodd Y Cymro i'r eithaf ac a ysgogodd y papur unwaith yn rhagor i apelio'n uniongyrchol at y Prif Weinidog yn Saesneg:

PARATOI ACHOS CYMRU (30 Hydref 1943)

*MAE'R Aelodau Seneddol Cymreig yn trafod manylion cynllun i sicrhau Ysgrifennydd i Gymru, ac y mae'n newydd da bod y broblem hon yn cael ei thrin o ddifrif ac yn cael y sylw manwl a haedda.*

*Y mae'n bwysicach nag erioed fod yr ymgais yn llwyddo'r tro hwn, canys gyda'r holl ddiddordeb a'r holl gefnogaeth a roddir i'r cynllun, bydd yr adwaith yng Nghymru'n anffodus iawn os try'n aflwyddiant.*

*Ddwywaith fe ddaeth atebion anffafriol ar y cwestiwn hwn oddi wrth aelodau'r Llywodraeth, ac os pwyswyd y cwestiynau braidd yn frysiog ar y Llywodraeth bryd hynny, dylid symud ymlaen yn bwyllog, ond yn weithgar, y tro hwn.*

*Helpodd Mr. Clement Davies, K.C., A.S., yn helaeth gyda'r memorandwm y bwriada'r Aelodau Seneddol ei gyflwyno i Mr. Churchill. Eisoes, chwe blynedd union i ddoe, cyflwynodd Mr. Clement Davies fesur i'r Senedd yn galw am Ysgrifennydd Cymru ar linellau Ysgrifennydd Sgotland. Dyma'r ymgais olaf, a'r symlaf, i sicrhau triniaeth arbennig i Gymru.*

*Ond erbyn hyn rhaid gwylio paratoadau a threfniadau'r Llywodraeth ei hun ar gyfer cyfnod heddwch fel y gwelir sut mae'r Ysgrifennydd i gymryd ei le ym mheirianwaith llywodraeth y wlad, a sut y gall effeithiolaf ymwrando ar lais Cymru mewn gwahanol faterion sy'n cyffwrdd â gwahanol Weinyddiaethau'r Llywodraeth.*

*Y mae'n rhesymol credu y bydd rhyw gyfnewidiadau ym mheirianwaith Llywodraeth Prydain wedi'r rhyfel ac fe ddewiswyd Pwyllgor gan y Cabinet i ystyried y safle ac i awgrymu gwelliannau. Gan mai cyfansoddiad a dyfodd ac nid a grewyd sydd gennym yr ydym yn wyneb cymhlethdod bywyd modern yn cael ein rheoli gan gynllun a fwriadwyd ar gyfer byd llawer symlach na hwn ac o ganlyniad y mae'n rhaid, i bob pwrpas, i'r Llywodraeth gyfaddasu ei hun ar gyfer y byd sydd ohoni. Mewn gwirionedd dylai'r cyfaddasu hwn fod wedi dechrau wedi cyhoeddi Adroddiad Haldane ar beirianwaith y Llywodraeth chwarter canrif yn ôl.*

*Bydd rhai o'r Gweinyddiaethau newydd a sefydlwyd yn ystod y rhyfel yn sicr o aros gyda ni a dyma'r rhai o bosibl, a ddylanwada fwyaf ar ein bywyd wrth gynllunio'r dyfodol. Y mae'n hanfodol bod llais Cymru'n cael ei godi'n eglur yn eu clyw hwy a'r llais effeithiolaf fuasai llais Gweinidog Cymreig.*

*Y mae'n bosibl cymryd agwedd eang yma a phwyso am adrannau Cymreig cryfion i'r prif Weinyddiaethau ar y naill law, ac ar y llaw arall pwyso am gyngor neu bwyllgor cenedlaethol cynrychioliadol cynghorol yng Nghymru ei hun fel y buasai'r cymundeb rhwng Cymru, yr Ysgrifennydd a'r Llywodraeth yn llwyrach. Rhyw ddydd bydd yn rhaid penderfynu onid oes*

*lle i'r Pwyllgor Ymgynghorol Cymreig presennol yng Nghymru'r dyfodol.*

*Os yw Cymru i ennill yr heddwch y mae'n rhaid iddi wrth Ysgrifennydd ac ofer yw'r ofn sy'n dal i lechu mewn ambell i fynwes - yn y Senedd, hyd yn oed, fe ymddengys - y gall Llywodraethau Ceidwadol fod mewn grym ac mai Ceidwadwr, o ganlyniad, fuasai Ysgrifennydd Cymru radicalaidd yn y Llywodraethau hyn.*

*Nid yw Llywodraeth yn peidio â llywodraethu Cymru am ei bod yn Llywodraeth Geidwadol ac os rhywbeth y mae'n fwy gofynnol mewn Llywodraeth o'r fath fod rhywun o'i mewn sydd gyfrifol am ei hagwedd at Gymru. Onide, gallasai anhrefn economaidd a gwleidyddol hefyd ymledu yng Nghymru.*

*Bu llawer o drafod a llawer o ymrannu yng Nghymru ar gwestiwn effeithiolrwydd gwahanol gynlluniau na roddwyd mohonynt mewn grym erioed. Bellach daeth y dydd, nid i freuddwydio breuddwydion, ond i gynllunio cynlluniau a rhoddi grym ynddynt. Yr unig feddyginiaeth yw rhoi un cynllun ar waith. Cawn weld wedyn; heb fenter, heb ddim.*

## <u>THE PREMIER'S REFUSAL</u> (6 Tachwedd 1943)

*WE publish in our columns to-day the full text of the Memorandum drawn up by the Welsh Parliamentary Party setting out the claim of the Principality for the appointment of a Secretary of State for Wales and the creation of a Welsh Office. We also publish the Prime Minister's reply, and we have done so in the English language for obvious and sound reasons.*

*We have no desire to harass the Prime Minister. We made this clear in our Open Letter which we addressed to him in our issue of June 26th. But we must also make it quite clear that we deeply regret the reply, because, in our opinion, the main ground on which this decision was arrived at by the Premier - that the matter is highly controversial - is, to say the least, a terminological inexactitude, and so far as Wales is concerned, simply untrue. We therefore cannot allow a reason so readily given to appear unchallenged. We do not, of course, impugn Mr. Churchill's good faith. It is quite clear that in a matter of this character, relatively unimportant in the mass of world affairs which press so heavily upon him, he has had to reply upon any clue to give a reply which would dispose of or postpone the matter. If the claim that it is controversial is based purely on the attitude of Government circles that such an appointment is unnecessary and therefore controversial, then this should have been made clear, and at the same time some indication given as to the reason why what is good for Scotland is not good for Wales.*

*We therefore resent the implication that the Welsh Parliamentary Party has submitted a petition which was controversial so far as Wales is concerned. It would appear that a few civil servants and ex-civil servants quietly circulated a document calculated to create an impression of controversy, well knowing that such an impression would be fatal at this stage, having regard to the load which the Premier is carrying with such indomitable pluck and great-heartedness. We are surprised that this document was supported by Sir Percy Watkins amongst other Welsh Civil and ex-Civil servants. These officials are entitled to their views, but we do suggest that the duty of ex-Civil Servants and particularly Welsh ex-Civil Servants was to come out into the open. <u>The fact remains that by far the overwhelming opinion in Wales is behind this demand, and the fact that every Member of Parliament from Wales, irrespective of politics, signed the petition, is all the proof</u>*

*necessary.*

*Nevertheless, we can still be thankful that at long last we have a Petition unanimously approved and signed by every Member of Parliament from Wales supporting this demand, and surely this fact will not be lost on Mr. Churchill when he comes to shoulder the further burden of leading a Democracy at home in the transition stage he refers to - a stage full of immense problems as well as immense possibilities, national and international. But if Wales is to be under the dead hand of Whitehall officialdom without a Secretary of State who can lead as well as co-ordinate, who can reason with Whitehall as well as with Wales, who can see that Wales secures a fair deal and not a foul one, then Wales will inevitably be a source of trouble and unhappiness. In this matter we are content that the Welsh Members see further than a few civil servants, those self-satisfied mandarins and ex-mandarins of Whitehall and Cardiff, who are always opposed to any extension of democratic powers, and to whom Wales is either a distant land, from Whitehall, just the same say as Yorkshire - with a peculiar language of its own, dying but not yet dead, - or a nation on which to climb up the ladder and then forget. We should like to assure these mandarins that if in fact any such document was signed and passed to influence the Government in this matter, we would have been quite ready to give it the light of day. It is going to be a sorry day for England and Wales when the united views of a group of Members representing a particular area, expressed openly and above board, can be sabotaged in this manner.*

*The matter now lies with the Welsh Parliamentary Party, and its duty is to continue to strive for full recognition of Wales, its culture and its industry, by the appointment of a Secretary of State for Wales.*

*For our part, we trust that the Party will seek every legitimate means of impressing on the Government the real state of public opinion on this matter in Wales. The Memorandum should, in our opinion, be followed with another, setting out the grounds which in the immediate future will accentuate the urgency of the matter. Bitterness can rise rapidly, and much more so when under the stress of a war effort second to none, a sense of frustration in a demand signed by the whole of its representatives is so tersely turned down.*

*CYMRU AM BYTH*

Mae'r trydydd paragraff o'r ail ysgrif flaen uchod yn cyfeirio mewn modd beirniadol iawn at ddeiseb honedig a gylchynnwyd gan weision sifil a chyn-weision sifil yn fwriadol ac yn faleisus er mwyn creu'r argraff i'r Prif Weinidog bod y cais am Ysgrifennydd yn un dadleuol a diangen; yn fwy penodol na hynny, mae'r Cymro yn enwi Syr Percy Watkins fel gŵr a gefnogodd y ddogfen hon. Fodd bynnag, ar dudalen flaen y rhifyn dilynol o'r papur cyhoeddwyd llythyr gan Syr Percy, a ddyfynnwyd yn y bennod ddiwethaf, yn gwadu'n llwyr yr honiadau hyn amdano; o dan y llythyr mae golygydd Y Cymro yn ymddiheuro am ei sylwadau anghywir yr wythnos flaenorol ond mae ar yr un pryd yn amau doethineb cadw memorandwm o'r fath yn gyfrinachol gan greu'r

argraff, o leiaf, bod rhywbeth yn amheus ynddo. Ond nid dyna ddiwedd y mater, fel y gwelir o ysgrif flaen Y Cymro 20 Tachwedd 1943:

YSGRIFENNYDD I GYMRU

*DYWEDASOM, yn y nodyn a gyhoeddwyd gennym ar ddiwedd llythyr Syr Percy Watkins yn 'Y Cymro' yr wythnos diwethaf fod y memorandwm a luniodd ef wedi ei amgylchu ag amheuaeth.*

*Yn "Llythyr Llundain", un o'r papurau dyddiol, dywedir i Syr Percy fwriadu cyhoeddi'r memorandwm. Hyd yn hyn nid yw Syr Percy wedi ateb 'Y Cymro'.*

*Ymddengys gan hynny fod Syr Percy cyn belled ag y mae a wnelo'r 'Cymro' â'r mater yn anwybyddu'r cwestiynau a ganlyn:*

*1. A gyflwynwyd y Memorandwm i Fwrdd Arolwg Cymru ar gais y Bwrdd ynteu Syr Percy a'i cyflwynodd o'i wirfodd ei hun?*

*2. A ddywed Syr Percy paham yr ymosodwyd ar femorandwm a fabwysiadwyd yn unfrydol gan bob Aelod Seneddol Cymreig, gan femorandwm wedi ei lunio gan un person unigol?*

*3. Awgrymasom i Syr Percy fel gweithred rasol tuag at Gymru dynnu'n ôl yn swyddogol y memorandwm o silffoedd y Bwrdd Arolwg.*

*Gan nad yw Syr Percy wedi gweld ei ffordd yn glir i ateb nac mewn unrhyw fodd ddelio â'r cwestiynau hyn yr ydym yn eu hail adrodd yn Gymraeg.*

*Ein barn ni yw y bu gan y Memorandwm hwn a gafodd ei anfon allan drwy Fwrdd Arolwg Cymru ryw ran yng nghynghori'r Prif Weinidog fod y mater yn un dadleuol iawn ac nid yw hyd yn hyn wedi newid ei feddwl oherwydd dim a ddywedodd Syr Percy. Hyd oni fodlona Syr Percy ni gydag atebion uniongyrchol i'r cwestiynau hyn rhaid inni barhau i gredu - a gweithredu'n unol â hynny, - fod y memorandwm â'i amcan i rwystro'r cais am Ysgrifennydd Cymru a'i fod wedi cynorthwyo i fesur helaeth i wneud hynny.*

*Ni ddymunwn gredu hyn; dyna paham y pwyswn am ateb i'r cwestiynau hyn.*

Ar ddydd Mercher, 24 Tachwedd 1943, agorwyd tymor newydd yn y Senedd ond ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at Gymru yn araith y Brenin; yn dilyn hyn cynigiodd Clement Davies, A.S. Maldwyn, welliant ar yr araith, gwelliant a gefnogwyd gan nifer o'r aelodau Cymreig eraill, ac yn ysgrif flaen yr wythnos geilw'r Cymro ar y Blaid Seneddol Gymreig i ddangos i Mr. Churchill 'eu bod yn unol ac yn ddidroi'n ôl yn eu hagwedd' ynghylch sicrhau Ysgrifennydd i Gymru:

YSGRIFENNYDD CYMRU (27 Tachwedd 1943)

*NI wnaed cyfeiriad at Gymru o gwbl yn Araith y Brenin ar agor tymor newydd y Senedd, ddydd Mercher, mewn perthynas ag Ysgrifennydd Cymru, nag yn wir, ag unrhyw fater arall.*

*Ymddengys i ni'n od iawn fod mater a godwyd fel hyn gan holl Aelodau Seneddol Cymru yn cael ei roi o'r neilltu gan y Llywodraeth. Petae cynrychiolwyr Seneddol 13 o siroedd Seisnig neu Ysgotaidd, wedi anfon deiseb mor unfrydol am ddatblygiad a ystyrient yn hanfodol i'r ardaloedd hynny y mae'n amheus gennym a ysgubid ef o'r neilltu fel peth "trwyadl ddadleuol".*

*Fodd bynnag, fe gawn ddigon o brawf, cyn hir, fod Cymru yn un ar y mater hwn. Wrth gwrs fe geir adran o bobl y rhai oni chânt hwy yr hyn a ddeisyfant a fyddant yn erbyn popeth arall.*

*Eisoes y mae Mr. Clement Davies, A.S. Maldwyn, wedi rhoi ar y bwrdd welliant i Araith y Brenin ac edrychwn at y Blaid Seneddol Gymreig i'w wneud yn hollol glir yn ystod y drafodaeth, eu bod yn unol ac yn ddidroi'n ôl yn eu hagwedd, ac na fyn Cymru ei throi draw yn rhagor. Gorau po gyntaf y gwneir hyn yn hollol glir i Mr. Churchill.*

Adroddodd tudalen flaen Y Cymro 4 Rhagfyr 1943 bod Y PRIF WEINIDOG YN EGLURO EI AGWEDD ynglŷn â phwnc yr Ysgrifennydd mewn llythyr at y Blaid Seneddol Gymreig a'i fod ym meddiant eu cadeirydd, y Capten Arthur Evans, A.S. Caerdydd, ond bod ei gynnwys hyd yn hyn heb gael ei ddatgelu. Mae ysgrif flaen Y Cymro yr wythnos honno â'r pennawd gobeithiol **SYMUD PETH YMLAEN** ond nid yw'r papur serch hynny'n credu bod Mr. Churchill am ufuddhau i'r cais am Ysgrifennydd am gryn amser eto, yn sicr nid cyn diwedd y rhyfel; yng ngeiriau'r papur ei hunan, 'nid ydyw hyn yn ddigon da', gan fod angen i'r Ysgrifennydd newydd fod wedi ymsefydlu'i hunan yn ei swyddfa cyn diwedd y rhyfel fel y gall ymdrin ar unwaith â'r holl faterion a gyfyd pan ddaw'r heddwch:

*ADRODDIR ar dudalen cyntaf 'Y Cymro' heddiw fod y Prif Weinidog wedi anfon llythyr eto at gadeirydd Aelodau Seneddol Cymru ynglŷn â'u cais unfryd am i'r Llywodraeth sefydlu Swyddfa Gymreig gyda Gweinidog dros Gymru yn y Cabinet. Nid ydym yn disgwyl y bydd ynddo ddim cadarn iawn, er ei bod yn amlwg fod Mr. Churchill o ddifrif pan ddywedodd fod y mater yn un cymwys i'w drafod ar ôl y rhyfel. Yn wir, y mae gennym le i gredu bod y cais yn ffitio'n hwylus iawn i syniadau sy gan Mr. Churchill am well llywodraeth i Brydain Fawr.*

*Ar hyn o bryd nid yw Mr. Churchill yn dangos bod ganddo na barn na bwriad ar y pethau hyn, ond rai blynyddoedd yn ôl fe gyhoeddodd rai o'i syniadau am drefn y Senedd a ffurf ein llywodraeth. Yr oeddynt yn syniadau beiddgar a byw, a chredwn mai tynnu'r rhain allan o'i gawell fydd un o'r pethau cyntaf a wna pan fydd y rhyfel ar ben. Ni'n synnid ni felly pe bai Mr. Churchill yn dymuno gohirio trafod Ysgrifennydd Cymru hyd yr adeg honno.*

*Ond nid yw hyn yn ddigon da. Y mae gormod yn dibynnu ar yr Ysgrifenyddiaeth i ganiatáu ei gohirio heb well achos na hynny. Fe ddylai Gweinidog Cymru fod wedi ymsefydlu cyn diwedd y rhyfel er mwyn bod yn barod i ymdrin â'r holl faterion taer a gyfyd yr adeg honno. Fel y mae pethau, pa les ydyw i wahanol fyrddau a phwyllgorau gynnig cynlluniau i wella Cymru wedi'r rhyfel? Fe gaiff Sgotland y blaen arnom bob tro am nad oes gennym un o'n meibion ein hunain yn Weinidog dros ei Wlad, ac yn y Cabinet. Nid oes yno neb â'i fryd ar les Cymru.*

*Fe ddylai'r ffaith bod holl Aelodau Cymru yn y Senedd yn unfryd wrth alw am Ysgrifennydd fod yn ddigon i ddangos i Mr. Churchill nad ydyw Cymru'n dymuno aros hyd ddiwedd y rhyfel cyn cael ei Swyddfa ei hun. Deallwn fod hyd yn oed Syr Percy Watkins yn awr yn gweled nad gwiw ar ei ran ydyw tynnu'n groes, yn wyneb yr undod sydd yng Nghymru ar y pwnc. Deallwn na fwriedir, wedi'r cwbl, gyhoeddi ei bapur (a ddadlennwyd yn 'Y Cymro', Tachwedd 6) - papur oedd yn ceisio gwrthwynebu'r cais am Ysgrifennydd, ac nad ydyw'n debyg y clywir rhagor o sôn amdano.*

Yr oedd y papur yn fwy llawen yn ysgrif flaen rhifyn 29 Ionawr 1944 pan atebodd y Prif Weinidog mewn llythyr at yr Aelodau Cymreig ei fod yn barod i ystyried mater Ysgrifennydd Cymru 'pan fydd yr amser yn gymeradwy', geiriau braidd yn amhenodol mae'n rhaid cyfaddef ond o leiaf yr oeddynt yn cynnig rhyw fath o obaith ynghylch y dyfodol:

YSGRIFENNYDD CYMRU

*LLAWENHAWN am eiriau Mr. Churchill yn ei ateb i'r Aelodau Seneddol Cymreig: "Pan fydd yr amser yn gymeradwy", meddai, "byddaf yn sicr yn barod i dderbyn dirprwyaeth." Cadarnhau yr oedd y Prif Weinidog fod mater Ysgrifennydd Cymru wedi ei drosglwyddo i ystyriaeth un o bwyllgorau'r Cabinet - cwrs a awgrymwyd i'r Aelodau Cymreig ac a dderbyniwyd ganddynt (gydag un eithriad) wedi i Mr. Churchill wrthod derbyn dirprwyaeth pan ofynnid am hynny'n unig.*

*Gobeithiwn nad oedd gan Mr. Clement Davies (yr eithriad) ddim tir dan yr ofnau oedd ganddo pan safodd yn erbyn hyn. Ond os dwyn dedfryd yn erbyn y cynllun a wna'r pwyllgor, nid hynny fydd y diwedd. Y mae unfrydedd mawr trwy Gymru gyfan dros y cais - fe adlewyrchwyd hyn gan unfrydedd yr Aelodau Seneddol - ac os gosodir rhwystrau di-sail yn ei erbyn gallwn fod yn sicr y cyfyd tymestl o wrthdystio trwy gydol Cymru, ac y gwneir y pwnc yn destun blaenaf yr etholiadau nesaf....*

Ceir ysgrif flaen ddiddorol yn Y Cymro 25 Mawrth 1944 sydd unwaith eto'n trafod y priodoldeb o sefydlu Ysgrifennydd i Gymru ond sydd y tro hwn yn crybwyll y mater o safbwynt ei fanteision i Loegr. Yn ôl y papur, o dan y pennawd CYMRU A'R SENEDD, buasai Ysgrifennydd Cymreig yn golygu lleihad sylweddol yn y gwaith blynyddol yr ymdrinid ag ef yn Whitehall, Llundain:

*ANGHENRAID mawr ein hoes ni yw newid trefnus ac adeiladol, meddai Mr. Herbert Morrison pan osododd ei syniadau personol gerbron cyfarfod o'r Blaid Lafur yn Plymouth ddydd Sul wrth drafod ymhellach un o'r problemau mawr a'n hwyneba wedi'r rhyfel - problem ein sefydliad Seneddol a'r galwadau mawr sydd ar ei amser.*

*Yng Nghaernarfon, mewn ysgol W.E.A. y diwrnod cynt, cafwyd trafodaeth gan unigolion, sy'n gwahaniaethu yn eu gwleidyddiaeth, ar faterion y credent hwy y buasai'n fanteisiol i Gymru pe tynnid y baich*

*o'u trafod oddi ar y sefydliad Seneddol presennol.*

*Yn wyliadwrus iawn y nesha Mr. Morrison at ei broblem ef, ac awgryma, heb or-fanylu, y gallasai rhyw fath o sefydliad Gweithredol dan reolaeth werinol briodol helpu'r Senedd i gael yr amser i roddi'r ystyriaeth ddigonol i'r Mesurau a ddeuai ger ei bron.*

*Yn Lloegr mae'r ymdeimlad ar gynnydd fod y pwysau ar amser y Senedd eisoes wedi mynd yn rhy drwm. Mewn gwirionedd fe aeth yn rhy drwm cyn y rhyfel, ac wedi'r rhyfel wrth drafod problemau adrefnu, bydd y straen ar y gyfundrefn bresennol mor aruthrol â'r problemau eu hunain.*

*Yn y dyfodol bydd y prinder amser yma'n sicr o effeithio'n anffafriol ar Gymru. Sylweddololdd y wlad hyn, a dyna yw hanfod y cais mwyaf unol a ddaeth o Gymru eto - y cais am Ysgrifennydd i ofalu am ei buddiannau.*

*Y mae rhai pobl dan yr argraff, fel y gwelwyd yng Nghaernarfon, fod holl gefnogwyr Ysgrifennydd i Gymru yn credu nad oes ar Gymru angen dim arall i sicrhau ei hiachawdwriaeth lawn. Dan glog y cam-argraff hwn fe â dyrnaid o bobl o gwmpas i ymosod yn ddi-ddychymyg ac yn anwasanaethgar iawn ar y syniad.*

*Cymerodd a chymer 'Y Cymro' ei safiad yn gadarn ac yn bendant o blaid cael Ysgrifennydd, a dyna safiad mwy na naw deg y cant o'r genedl, ac ni bydd taw ar y galw amdano hyd nes ceir.*

*Ond, cyn i'r galw hwn ddod yn gyffredinol yr oedd 'Y Cymro', ddeunaw mis yn ôl, yn galw am ffurfio siarter i Gymru - am gynllun a roddai i ni'r rheolaeth angenrheidiol ar ein gwasanaethau cymdeithasol ac addysgol ein hunain fel y manteisia'r genedl yn helaethach arnynt.*

*Pan gyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Addysg galwodd 'Y Cymro' ar i'r Mesur Addysg ychwanegu at awdurdod y Pwyllgor Ymgynghorol a awgrymid i Gymru a rhoddi i ni hunan-lywodraeth ar yr elfen bwysig hon yn ein bywyd cenedlaethol.*

*Ni saif 'Y Cymro' dros genedlaetholdeb economaidd na thros godi muriau rhwng Cymru ag unrhyw wlad. Ond fe ddaw'r dydd pan lwyr sylweddola Lloegr ei hun y bydd hithau ar ei mantais o gael ymwared â chyfran o'r gwaith a wneir yn Whitehall yn awr.*

*O ganlyniad, mae'r syniad o Gyngor Cymreig a awgrymwyd yng Nghaernarfon o gryn ddiddordeb er na ellir pasio barn arno yn awr cyn ei ddatblygu'n fanylach.*

Fel yr oedd terfyn y rhyfel yn agosáu edrychai'r Cymro yn gynyddol at y cyfnod newydd o heddwch a'i dilynai a'r gobeithion mawr a ddeuai yn ei sgîl, ac un o'r gobeithion niferus hyn oedd y mater o sefydlu Ysgrifennydd i Gymru. Isod dyfynnaf ddwy o ysgrifau blaen 1945, y naill ohonynt oddeutu pum mis cyn diwedd y rhyfel yn erbyn Japan, a'r llall ychydig ddyddiau'n unig wedi'r fuddugoliaeth hanesyddol, ac ychydig ddyddiau hefyd ar ôl Araith y Brenin ar gychwyn y Senedd Lafur newydd, araith a gyfeiriodd yn benodol at Gymru. Ni wyddai'r Cymro, na neb arall ar y pryd, y byddai Cymru mewn gwirionedd yn gorfod disgwyl hyd 1964 i gael ei Hysgrifennydd Gwladol hir-ddisgwyliedig

**Y DYFODOL** (2 Mawrth 1945)

*MEWN sgwrs ar y radio wedi'r newyddion un o'r gloch, ddydd Llun, datganodd y Prifathro D. Emrys Evans, Coleg y Brifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ei syniadau ar gwestiwn sydd yn cyffwrdd calon pob Cymro cywir, sef, beth ddeil y dyfodol i Gymru?*

*Y mae diwedd y rhyfel yn y golwg - rhyfel, gallwn ein hatgofio'n hunain - dros hawliau cenhedloedd bychain yn ogystal ag eiddo'r pwerau mawr.*

*Yn wleidyddol ymddengys bod penderfyniad na fydd yn digwydd eto ar ôl y rhyfel hwn y diweithdra a ysodd fywyd Cymru, yn enwedig yn Ne Cymru, wedi'r rhyfel mawr. Y mae lle i ofni y dibynna'r cynlluniau ar amodau'r byd yn y pen draw.*

*Cyn belled ag y mae a wnelo â Chymru dangosodd y Prifathro Emrys Evans fod daearyddiaeth Cymru o safbwynt gweinyddu yn Whitehall yn cyfeirio at dri chanolfan yn y Gorllewin - Caerdydd, Birmingham a Lerpwl. Ni all ac ni fyn Cymru gytuno â hyn.*

*Gwir yw y dibynna popeth ar gymeriad ein dynion a'n merched yn y pen draw, ond y mae'n hanfodol i'n cenedligrwydd fod ynghlwm nid yn unig wrth ein hiaith a'n ffordd o fyw, ond ein gwlad hefyd. Y mae'n llawn bryd, - ac ni ddylid gadael i'r cyfle fynd i golli i sicrhau i Gymru y gydnabyddiaeth honno o'n cenedl a ofynnwyd amdano gyda phendantrwydd - drwy benodi Ysgrifennydd i Gymru. Yn sicr nid hyn yw'r diwedd oll i'n dyheadau ond bydd ei gael yn gychwyn gwirioneddol ffordd newydd mewn oes newydd sydd yn llawn o bosibiliadau ac hefyd â llawer o beryglon yn ei hamgylchu.*

## <u>DYMA'R CYFLE MAWR I GYMRU</u> (24 Awst 1945)

*EISOES fe gododd y Llywodraeth newydd obeithion yng Nghymru. Cydnabuwyd o gychwyn cyntaf y Senedd fod yna'r fath wlad â Chymru a bod ei phroblemau ganddi, a llawenhawn i'r Aelod Cymreig cyntaf a gafodd y cyfle i siarad ar araith y Brenin fanteisio ar ei gyfle i sôn am Gymru.*

*Bu'r ymgyrchu yn hir a diffrwyth am beiriant gwleidyddol arbennig i Gymru a allasai roi'r sylw dyladwy i anghenion economaidd Cymru, gan gofio am ei diwylliant arbennig ar yr un pryd.*

*Crynhodd yr ymgyrch ar un nod arbennig - cael Ysgrifennydd i Gymru.*

*Yr oedd hynny'n hanfodol. Canys yn y gorffennol bu gormod o alw niwlog am ormod o wahanol bethau - penodol ac amhenodol. Ni wnâi hynny ddim ond gwanhau'r ymgyrch. Yr oedd yr ymosod yn un ar ffrynt rhy eang gan rhy ychydig o ymgyrchwyr.*

*Ond pan grisialwyd a phan ganolbwyntiwyd yr ymosod ar un fangre, daeth gobaith o dorri drwodd.*

*Erbyn hyn y mae gweinyddiaeth Churchill wedi mynd heb adael yr un diwygiad gwleidyddol arbennig i Gymru ar ôl. Erys, pa fodd bynnag, yr argyhoeddiad Cymreig ei bod yn rhaid cael diwygiad.*

*Heddiw mae'n bwysig atgoffa'r Llywodraeth newydd o'r unfrydedd sydd yng Nghymru ar gwestiwn Ysgrifennydd, ac y mae'n bwysig chwalu unrhyw syniadau a ledaenir fod rhai o Aelodau Seneddol Cymru yn erbyn y syniad. Y mae Cymru mor unfryd ag y gall unrhyw genedl fod ar unrhyw gwestiwn ar y cwestiwn hwn.*

*Y mae yn y Senedd heddiw Aelodau Cymreig o bob plaid - gan gynnwys y blaid Geidwadol - a osododd Ysgrifennydd i Gymru ar eu rhaglen yn blaen a diymwad yn eu hanerchiadau argraffedig i'r etholwyr.*

*Cyn hyn cododd unoliaeth llwyr ymysg awdurdodau lleol Cymru. O Gaergybi i Gaerdydd - neb yn erbyn. Cynhadledd o'r awdurdodau lleol Cymreig yn unfryd unfarn ar y mater.*

*Yr Aelodau Seneddol Cymreig yn cyfarfod ac yn darparu memorandwm*

*helaeth ac unfryd ar y sefyllfa ac yn ei gyflwyno i Brif Weinidog y dydd fisoedd yn ôl. A hyd yn oed Churchill yn gorfod cydnabod ei fod "yn ymwybodol o'n dyheadau".*

*Dyna'r safle. Mae'n berffaith glir.*

*Mae'n bwysig i'r Llywodraeth ddeall hynny. Canys ni ellir disgwyl i'r Llywodraeth symud ymlaen ynghanol ei holl waith mawr i drefnu deddfwriaeth arbennig ar gyfer Cymru heb ddeall yn gyntaf ei bod yn darparu'r hyn sydd dderbyniol.*

*Gwaith y Cymry sy'n amlwg yn y Llywodraeth yw pwyso ar y Saeson sy'n amlwg ynddi mai dyna ddymuniad Cymru.*

*Gwaith yr Aelodau Seneddol Cymreig yw pwyso ar eu cymheiriaid sydd yn y Llywodraeth ac ennill ewyllys da aelodau dros rannau eraill o'r deyrnas.*

*Gwaith Cymru yw pwyso ar ei Haelodau Seneddol i yrru'r cwch i'r dŵr.*

*Hyderwn na fydd yn rhaid i Gymru barhau i wario ei hynni i ail-ymladd y frwydr hon unwaith eto ar raddfa fawr.*

*Hyderwn hefyd fod digon o ddoethineb a synnwyr cyffredin gan rai a allasai gredu y dylai Cymru gael mwy nag Ysgrifennydd yn awr, i beidio â chodi unrhyw ysgyfarnogod chwimwth a diflanedig eraill na ddelir mohonynt heddiw, beth bynnag am yfory.*

*Y mae gan Gymru gyfle pendant yn awr i sicrhau Ysgrifennydd. Dyna'r gwirionedd syml am y safle wleidyddol. Awn amdano â'n holl galon a'i gael, rhag chwalu pob gobaith unwaith eto.*

*Edrycher arno, os mynner, fel cam - fel cam tua sicrhau awdurdod cynllunio ac awdurdod economaidd i Gymru. Ond gadewch i ni gymryd y cam cyntaf hwn efo'n gilydd.*

*Apeliwn at ein cydwladwyr i helpu i ddwyn barn i fuddugoliaeth y tro hwn. Mae'r cyfle yma heddiw.*

*Darlledu*

Yn sgîl ei statws fel Papur Newydd Cenedlaethol yr oedd Y Cymro yn medru ymgyrchu'n frwd dros fuddiannau cenedl y Cymry, ac un o'r meysydd y bu'n ymgyrchu'n frwd ynddo oedd maes darlledu. Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf fel y bu'r Cymro yn flaenllaw yn y frwydr i sicrhau rhaglenni radio Cymraeg digonol ar donnau'r awyr, a'r frwydr honno'n un gwbl gyfiawn gan bod darpariaeth yr oes ar gyfer y gwrandawyr Cymraeg yn warthus o annigonol. Ond tra'r oedd y Cymry â lle i gwyno ynghylch gwasanaeth a oedd mor ddiffygiol, dangosodd rhai o'r adroddiadau blaen nad oedd y Cymry'n fodlon gwerthfawrogi hynny o wasanaeth a fodolai o gwbl, yn arbennig felly yng nghyswllt y rhaglenni radio i ysgolion. Yn ysgrif flaen Y Cymro 20 Ionawr 1934 apelia'r papur ar i athrawon Cymru gefnogi'r gwersi Cymraeg a ddarlledid ar y radio oblegid pe na dangosid i'r B.B.C. bod diddordeb yn bodoli mewn darlledu Cymraeg yna byddai'n annhebygol iawn y caniateid gorsaf Gymreig i'r Cymry:

Y GWERSI RADIO

*Y MAE llawer iawn o anfoddogrwydd yng Nghymru ynglŷn â'r driniaeth a gaiff ein cenedl gan awdurdodau'r radio. Yn ddios, yr unig ateb i hawl cenedl ydyw gorsaf Gymreig. Ar hyn o bryd y mae gorsafoedd ar hyd y gororau, pob un yn Lloegr - ym Manceinion, yn Birmingham ac yn Watchet - yn taflu eu tonnau cryf i bob parth o Gymru. Yna fe ddaw'r orsaf fawr yn llawer nes, yn Droitwich, cyn bo hir - i foddi Cymru oll.*

*Ond a allwn ni hawlio gorsaf Gymreig os gellir dangos nad ydym yn defnyddio'r darlledu Cymraeg a gawn eisoes? Fe ddylai athrawon Cymru fod yn deyrngar hollol i'r darlledu Cymraeg, a danfon at y B.B.C. gan feirniadu neu ganmol, i brofi bod diddordeb yn y darlledu Cymraeg.*

*Bydd tymor newydd y cyrsiau ysgol yn dechrau ddydd Llun nesaf, a dyma'r cyrsiau a geir:*

*Alawon Gwerin Cymru, gan Mrs. Herbert Jones;*
*Tonau Cynulleidfaol, gan Mr. D. E. Parry-Williams;*
*Plant Cymru trwy'r Oesoedd, gan Mrs. Myrddin Davies.*

*Cynhwysir braslun o'r gwersi hyn mewn llyfryn bychan llawn darluniau a gyhoeddir gan y B.B.C. am ddwy geiniog.*

Un peth a welir dro ar ôl tro yn ysgrifau blaen Y Cymro yw bod y papur, os yw'n teimlo'n ddigon cryf ynglŷn â rhyw fater, yn medru mynegi'i farn yn eofn a di-flewyn-ar-dafod ar y mater hwnnw, ac nid yw maes darlledu yn eithriad. Yn y ddwy ysgrif flaen isod, yr ail yn arbennig, mae'r papur yn feirniadol iawn o'r B.B.C. am ei amharodrwydd i sicrhau tegwch i'r Gymraeg ar donnau'r awyr ond mae'n fwy beirniadol byth o Bwyllgor Radio'r

Brifysgol, pwyllgor a benodwyd yn benodol i wylio buddiannau Cymru, am dderbyn agwedd y B.B.C. mor dawel a gwasaidd:

RADIO CYMRU (21 Ebrill 1934)

*MEWN ateb a anfonwyd i Gyngor Tre Machynlleth, fe ddywed y B.B.C. fod rhaid cwblhau llawer o ragbrofion cyn y gellir penderfynu codi gorsaf darlledu i Ogledd a Chanol Cymru.*

*Fe ddisgyn problem radio Cymru i ddwy ran, fel y cyfeiriwyd gennym lawer tro, sef -*

*Yr angen am orsaf neu orsafoedd y gellir eu clywed ymhob rhan o Gymru; yr angen am fwy o Gymraeg yn y rhaglenni a ddarlledir.*

*Bu sefydliadau addysg a chrefydd yng Nghymru, a'r wasg hefyd, yn galw'n daer am gyfiawnder, ond y mae awdurdodau'r B.B.C. yn gwrthod gweithredu.*

*Bychan iawn, fe ymddengys, yw dylanwad ein Haelodau Seneddol Cymreig a Phwyllgor Radio'r Brifysgol.*

Y B.B.C. A CHYMRU (8 Rhagfyr 1934)

*Y MAE aelodau'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn flin iawn wrth y B.B.C. oherwydd agwedd y sefydliad autocrataidd hwnnw tuag at Gymru. Nid hwynthwy yw'r unig rai sy'n teimlo felly.*

*Y mae miloedd lawer o Gymry, yng Nghymru ac o'r tu allan iddi, yn barod i ymuno mewn ymgyrch ymarferol er sicrhau tegwch i'w gwlad a'u hiaith.*

*Nid yw'r penderfyniad i agor ystafell ddarlledu ym Mangor ond megis taflu llwch i'n llygaid ac nid yw hysbysu penodiad y swyddog Cymraeg hwn a'r swyddog Cymraeg arall yn debyg o dwyllo'r rhai sydd â chŵyn yn erbyn agwedd y Gorfforaeth.*

*Pa ddiben agor ystafell ym Mangor oni cheir ychwaneg o ddarlledu Cymraeg? Y mae'n wir y golyga sefydlu'r gangen ym Mangor lai o deithio i'r ychydig ddarlledwyr o'r Gogledd. Eithr ni fydd Cymru na'r Gymraeg ronyn gwell allan, ac fe ŵyr awdurdodau'r B.B.C. hynny'n dda.*

*Pa ddiben penodi is-swyddogion Cymraeg a phenaethiaid y sefydliad mor hollol wrth-Gymreig eu meddwl a'u hysbryd? Pa ddylanwad a fydd gan yr is-swyddogion hyn ar gynlluniau'r gwŷr mawr yn y Tŷ Darlledu yn Llundain?*

*Fe benodwyd pwyllgor arbennig gan y Brifysgol i wylio buddiannau Cymru, a mawr oedd ein gobaith am chwarae teg i Gymru, eithr y mae'r pwyllgor eisoes wedi dangos ei hun yn barod i dderbyn dyfarniadau'r Gorfforaeth yn dawel ac heb wrthdystio o gwbl.*

*Os yw Cymru am sicrhau ei hawliau yn y cyfeiriad hwn, fel mewn cyfeiriadau eraill, y mae'n rhaid wrth ddynion sy'n barod i wneud eu hunain yn amhoblogaidd ym mysg y penaethiaid yn Llundain. Y mae'n rhaid wrth ddynion sy'n barod i wneud eu hunain yn ddraen yn ystlys pawb er mwyn tynnu sylw at eu gofynion.*

*A yw Pwyllgor Radio'r Brifysgol am symud yn y mater? Os na, fe ofala Cymru fod eraill heb fod mor wasaidd â hwy yn barod i frwydro hyd yr eithaf dros iawnderau eu gwlad.*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 9 Chwefror 1935 ymhelaethir ar yr hyn a awgrymwyd eisoes yn yr ysgrif flaen gyntaf uchod, sef nad

oedd athrawon Cymru, na'r awdurdodau addysg, yn rhoi cefnogaeth ddigonol i'r gwersi Cymraeg a ddarlledid i'r ysgolion, er bod y Cymry fel arfer yn ddigon parod i gwyno ynghylch amharodrwydd y B.B.C. i ddarparu ar eu cyfer. Ar dudalen flaen y rhifyn hwnnw o'r papur cyhoeddwyd adroddiad, a ddyfynnwyd yn y bennod flaenorol, yn datgelu mai nifer siomedig iawn o ysgolion Cymru a wrandawai ar y rhaglenni Cymraeg a ddarperid iddynt, a hefyd mai ychydig iawn o awdurdodau a chyfarwyddwyr addysg y wlad a drafferthodd i ateb llythyr yn gofyn eu barn am y rhaglenni Cymraeg.

Yn sgîl y fath ddifaterwch ar ran athrawon a phenaethiaid addysg Cymru dywedodd Y Cymro na allai neb feio'r B.B.C. pe penderfynai'r Gorfforaeth beidio parhau â'r gwersi radio Cymraeg hyn, a dyma enghraifft arall o degwch cyffredinol y papur: er ei fod yn fwy na pharod dro ar ôl tro i feirniadu'r B.B.C. yn llym pan oedd angen hynny, a'r feirniadaeth honno'n gwbl gyfiawnadwy, yn nodweddiadol o'r papur yr oedd yr un mor barod i ganmol y B.B.C. a rhoi hwb iddo pan wnâi ymdrech o ddifri i ddiwallu'r anghenion. ANFFYDDLON I'R IAITH yw pennawd yr ysgrif flaen hon, ond am unwaith mae'r Cymro yn cyfeirio at y Cymry eu hunain, nid y B.B.C.:

> *YR ydym fel Cymry'n barod iawn i feio'r B.B.C. am ei agwedd tuag at y Gymraeg, eithr oni ddylem geisio hyrwyddo gwaith y B.B.C. pan fydd yn ceisio gwasanaethu ein gwlad, pa mor anaml bynnag y mae hynny'n digwydd.*
>
> *Bu darlledu gwersi i'r ysgolion dyddiol yn rhan bwysig o raglenni Saesneg y Gorfforaeth ers rhai blynyddoedd bellach, a barn llawer o'r athrawon yw fod y gwersi wedi bod o wasanaeth mawr iddynt hwy a'r disgyblion.*
>
> *Ceisiwyd gan y Gorfforaeth drefnu gwersi arbennig i ysgolion Cymru, a llwyddwyd i'w darbwyllo y byddai cyfres o wersi yn sicr o dderbyniad gwresog. Rhyw flwyddyn yn ôl fe gychwynnwyd y gyfres newydd hon a cheisiwyd rhoddi pob cyfarwyddyd i'r athrawon ynglŷn â phwrcasu setiau cymwys. Fe ofynnwyd i'r awdurdodau addysg gymeradwyo'r cynllun a chaniatáu i'r ysgolion brynu setiau gwrando. Yr oedd y gwersi'n gymwys a'r darlledwyr yn wŷr amlwg ym myd addysg.*
>
> *Yn wyneb yr adroddiad a gyhoeddir ar dudalen arall ni allwn lai na theimlo'n anesmwyth oherwydd difrawder ein hawdurdodau addysg a'r athrawon ynghylch gwasanaeth y mae perthynas agos rhyngddo â dyfodol y Gymraeg.*
>
> *Fe anfonodd 114 o ysgolion Cymru at y B.B.C. i ddweud eu bod yn gwrando'r sgyrsiau a drefnir ar gyfer yr ysgolion, eithr dim ond 55 o'r ysgolion hyn a ddywedent eu bod yn gwrando ar y sgyrsiau Cymraeg.*
>
> *Fe anfonodd cadeirydd y pwyllgor sy'n arolygu'r sgyrsiau Cymraeg at*

*yr awdurdodau a'r cyfarwyddwyr addysg yn gofyn am eu barn, eithr ni welodd ond pump ohonynt yn dda i ateb y llythyr!*

*A yw'n syndod clywed fod y B.B.C. yn amau a yw'n werth parhau'r sgyrsiau hyn?*

*Fe ddywedir yn blaen nad oes llawer o obaith y llwyddir i gael rhagor o Gymraeg, ac y mae perygl y collir y gwersi Cymraeg a geir eisoes, oni ddyry'r awdurdodau addysg fwy o gefnogaeth i'r gwersi. Ni all neb feio'r B.B.C. am wneud y datganiad hwn.*

*Pan hysbyswyd am benodiad Mr. Owen Parry yn Gyfarwyddwr Addysg dros Gymru i'r B.B.C. edrychwyd ymlaen at ddatblygiadau pwysig yn yr adran hon. Yr oedd gallu a phrofiad Mr. Parry yn ddigon o sail i'r disgwyliad hwn. Ond rhaid cofio na ddaw'r ffrwyth a ddisgwyliwn oddi wrth y penodiad hwn oni fydd ein hawdurdodau addysg a'n hathrawon yn fyw i bob cyfle i gael gwasanaeth helaethach i hyrwyddo diwylliant Cymru. Rhaid dal yn well ar y pethau a gafwyd yn ogystal â hawlio rhagor.*

*Y mae cyfrifoldeb ein hawdurdodau addysg, y cyfarwyddwyr addysg a'r athrawon yn fawr ynglŷn â'r mater hwn.*

*Hyderwn y bydd y ffeithiau a amlygwyd gan awdurdodau'r B.B.C. yr wythnos hon, nid yn esgusion dros y B.B.C. nac yn gerydd ar y rhai sy'n rheoli ein haddysg, eithr yn symbyliad i symud o'r difrawder sy'n bod hyd yn hyn.*

Fel y B.B.C., deuai'r Aelodau Seneddol Cymreig yn aml iawn dan lach Y Cymro, ond fel y B.B.C. hefyd, pan oedd lle i ganmol yr Aelodau Cymreig yr oedd y papur yn barod iawn i wneud hynny. Yn yr ysgrif flaen isod mae'r Cymro yn canmol eu hymdrechion 'dros y pethau a berthyn i les uchaf Cymru', a darlledu yn benodol yn yr ysgrif hon, wedi i ddirprwyaeth ohonynt bwyso achos Cymru ger bron y Pwyllgor Seneddol a ystyriai pa newidiadau fyddai yn Siarter y B.B.C. ar adeg ei hadnewyddu. Gwelai'r papur 'arwydd calonogol iawn' yn undod yr aelodau Cymreig ar faterion a oedd o bwys i'r wlad:

GWASANAETHU CYMRU (6 Gorffennaf 1935)

*NI bu'r Blaid Gymreig yn y Senedd erioed yn fwy unol nac yn fwy eiddgar dros y pethau a berthyn i les uchaf Cymru. Bellach y mae'n dal ar bob cyfle i fynegi ei hun yn eofn ar faterion pwysig i'n cenedl, gan brofi ei bod yn meddwl am werth ein traddodiadau a'n diwylliant, a gwna bob ymdrech i'w diogelu.*

*Yr wythnos hon bu dirprwyaeth oddi wrthi gerbron y Pwyllgor Seneddol sy'n ystyried pa newid a fydd yn Siarter y B.B.C., sydd i'w hadnewyddu ar ôl deng mlynedd o brawf. Datganodd yn groyw mai'r delfryd yw Corfforaeth Ddarlledu annibynnol i Gymru a dadleuodd fod gan Gymru hawl i gystal gwasanaeth o'i gorsaf ei hun ag a roddir o orsaf Llundain. Ni ellir hynny heb adnoddau digonol, yn ogystal â gwasanaeth y dynion cymhwysaf i ddarparu ar gyfer gwlad sydd ganddi ei hiaith a'i diwylliant arbennig ei hun.*

*Y mae'r memorandum a gyflwynwyd yn enw'r Blaid Genedlaethol yn pwysleisio'r un delfryd, ac, fel y Blaid Gymreig yn y Senedd, yn galw*

*sylw at y perygl sydd yn nhwf gorsafoedd derbyn sy'n ail ddosbarthu rhaglenni i danysgrifwyr wythnosol. Daeth amryw o'r gorsafoedd hyn, sy'n cael eu rhedeg er mwyn elw, i fod yn Neheudir Cymru.*

*Y mae'r datblygiad hwn yn un â pherygl mawr ynddo, yn arbennig yng Nghymru, canys gall twf anturiaethau o'r fath drwy'r wlad ddirymu holl werth pa ddarpariaeth bynnag a wneir gan y Gorfforaeth Ddarlledu ar gyfer anghenion arbennig Cymru. Ni byddai dim llawer o werth mewn cael rhaglenni Cymraeg da o orsaf Cymru pe bai anturiaethau preifat yn llwyddo i sicrhau'r afael ar wrandawyr i ail-dderbyn yr hyn y carai'r dosbarthwyr hyn ei ddewis iddynt. Siawns go wael a fyddai i raglenni Cymraeg gyrraedd gwrandawyr a fyddai at drugaredd ail-ddosbarthwyr.*

*Gellir bod yn lled sicr na bydd y Pwyllgor Seneddol yn ddiystyr o fuddiannau arbennig y Gorfforaeth yn y mater hwn, ond yr oedd gwir angen galw eu sylw at y peryglon a welir gan y rhai sy'n meddwl am les Cymru.*

*Arwydd calonogol iawn yw'r sêl a ddengys yr aelodau Seneddol o bob plaid dros y pethau sy'n cyffwrdd Cymru. Y maent wedi datgan o blaid ysgrifennydd i Gymru, Cyngor Addysg i Gymru, a chafodd 'Y Cymro' gefnogaeth lwyraf y rhan fwyaf o'r aelodau Cymreig i'r Ddeiseb yn hawlio i'r iaith gael ei chydnabod yn gydradd â'r Saesneg yn y llysoedd cyfraith.*

*Hyderwn fod yr unoliaeth a'r eiddgarwch a ddangoswyd gan seneddwyr Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf yn argoel o gydweithrediad llwyrach a phenderfyniad cadarnach yn y dyfodol i sefyll dros hawliau'n cenedl a bod yn aelodau Cymru yn ogystal â dynion eu pleidiau. Ac y mae eisiau'r un ysbryd yn ein cynghorau lleol.*

Dychwelir at bwnc y gwersi radio yn ysgrif flaen Y Cymro 13 Mehefin 1936, ond mae'r papur y tro hwn yn edrych ar y pwnc o safbwynt ychydig yn wahanol gan ddweud bod defnyddio Cymraeg gwallus, sathredig, yr un mor ddirmygus o'r iaith ag yw ei hanwybyddu'n gyfan gwbl; mae hefyd o'r farn bod yn rhaid i'r gwersi radio addysgu'r plant ynglŷn â thraddodiadau a diwylliant eu cenedl:

EISIAU'R GORAU

*Y MAE darlledu wedi dod i aros, nid fel adloniant ar yr aelwyd yn unig ond fel un o gyfryngau addysg ein plant yn yr ysgolion. Y mae set radio eisoes mewn cannoedd o ysgolion, ac yn fuan iawn ni bydd ysgol yn cael ei hystyried yn gyflawn heb fod ynddi'r offeryn i wrando ar wersi a ddaw drwy'r awyr. Yr wythnos hon adroddir am gynnig hael Syr Howell J. Williams i roddi i fyny i gant o offerynnau gwrando i ysgolion sydd heb yr un yn Sir Feirionnydd, ac nid oes amheuaeth na fanteisir ar haelfrydedd y cymwynaswr.*

*Ond os yw'r ddyfais newydd hon i droi'n fantais i ddiwylliant plant Cymru y mae'n rhaid i'r athrawon a'r awdurdodau darlledu sylweddoli'r cyfrifoldeb newydd sydd arnynt. Y mae ysgol o addysgwyr a ddywedant yn bur groyw na all y wers a ddaw drwy'r awyr byth gymryd lle gwers lafar yr athro profedig, oherwydd fod presenoldeb yr athro yn elfen bwysig yn nylanwad a gwerth gwers.*

*Y mae hyn yn wir, ond ymddengys ei bod yr un mor wir fod plant*

*megis yn magu cyneddfau newydd i dynnu oddi wrth ddyfais ddiweddar lawer iawn mwy nag a all rhai hŷn. Fel y mae'r neb sy'n gyfarwydd â darllen dramâu yn medru dychmygu'r olygfa bron mor eglur â phe yn eu gweled wedi eu llwyfannu, felly y mae plant a fegir yn awyrgylch y radio yn medru gwerthfawrogi i fesur helaeth iawn yr hyn a ddarlledir heb gymorth y cyfryngau personol.*

*Rhaid i athrawon ystyried y darlledu nid fel rhywbeth sydd yn eu disodli, ac nid chwaith fel gwers barod i'w harbed hwy am hanner awr, eithr fel cyfraniad ychwanegol at gwrs addysg yr ysgol. A rhaid i'r rhai sy'n penderfynu'r rhaglenni i ysgolion gymryd yr un safbwynt. Oni bydd yr athrawon yn yr ysgolion, yr athrawon a ddewisir i ddarlledu, a'r rhai fo'n penderfynu'r wers yn synio'n gywir am le darlledu fel llawforwyn addysg a diwylliant, yna drwg ac nid lles a wna'r ddyfais newydd hon.*

*Y mae'r iaith yn gwneud y mater yn un pwysig i Gymru. Nid unrhyw Gymraeg a wna'r tro, ond y Gymraeg yn ei gorau, gyda phob gair wedi ei ddewis a'i ynganu'n gywir.*

*Yn Sasiwn M.C. y Gogledd soniodd y Parch. D. Francis Roberts am athrawon oedd yn ddirmygus o'r iaith Gymraeg. Nid troi at iaith arall yw'r unig ddirmyg ar ein hiaith bersain; y mae bod yn ddiofal am ei chywirdeb yn dangos llawn cymaint o amharch â hi.*

*Nid cyflawn addysg yr un plentyn oni byddo'n cynnwys traddodiadau a diwylliant ei genedl ei hun. Nid cydnabod iaith yw neilltuo nifer arbennig o oriau iddi mewn rhaglen radio oni bo'r darlledu mewn iaith raenus a ddyry hyfrydwch i'r glust. Daw'r pwnc hwn yn bwysicach fel y cynydda nifer yr ysgolion sy'n gwrando ar Gymraeg y radio.*

*Nid hawlio digon o Gymraeg i ddiddori ychydig o Gymry nad oes ganddynt lawer o Saesneg yw brwydr yr iaith, ond mynnu i'n diwylliant arbennig ei le priodol. Credwn gydag Esgob Llandâf fod "rhywbeth ynghlwm wrth draddodiadau a diwylliant Cymru sy'n golygu mwy na bywyd ei hun."*

Yn ysgrif flaen <u>Y Cymro</u> 24 Hydref 1936 gwelir y papur yn estyn cefnogaeth ddiffuant i Rhys Hopkin Morris, Cyfarwyddwr newydd Rhanbarth Darlledu Cymru, ac ar yr un pryd yn diolch i E. R. Appleton, yr hen Gyfarwyddwr, am gyflawni llawer dan 'anawsterau bron yn anorchfygol':

<u>DYMUNO'N DDA</u>

*ARWYDDOCAOL iawn oedd i Mr. Rhys Hopkin Morris, Cyfarwyddwr Rhanbarth Darlledu Cymru, wrth annerch gwrandawyr Gorsaf Cymru am y tro cyntaf nos Lun, wneuthur hynny mewn Cymraeg. Er mai Sais a'i cyflwynodd ac mai Sais a siaradodd air o ffarwel o'i flaen, yr oedd anerchiad Mr. Hopkin Morris yn Gymraeg o'i dechrau i'w diwedd.*

*Diolchwn iddo am gyfarch ei wrandawyr fel hyn a rhoddi amlygrwydd mor bendant i'w farn ar le'r Gymraeg yn y gyfundrefn ddarlledu.*

*Nid gwaith hawdd sydd gan Mr. Hopkin Morris i'w gyflawni; gŵyr ef cystal â neb pa mor anodd fydd, eithr y mae'n ysbrydiaeth nid bychan iddo wybod fod Cymru gyfan yn dymuno'n dda iddo ac yn barod i gydweithredu ag ef i wneuthur Gorsaf Cymru yn golofn gadarn i iaith a diwylliant ein gwlad.*

*Ni fu'r 'Cymro' yn amharod i feirniadu gwaith Gorsaf Caerdydd yn y*

*gorffennol, ac os cyfyd yr angen inni wneuthur hynny yn y dyfodol, ni phetruswn. Eithr gall Mr. Hopkin Morris a'i swyddogion deimlo'n sicr y bydd holl adnoddau a chydymdeimlad 'Y Cymro' y tu ôl iddynt yn eu hymdrechion.*

*Nid oes neb yn dymuno eu llwyddiant yn fwy na'r 'Cymro', oherwydd sylweddolwn y gall Gorsaf Radio Cymru wneuthur llawer i hyrwyddo dyfodol iaith a diwylliant Cymru, a phopeth sydd wrth fodd calon Cymry ym mhobman.*

*Wrth ffarwelio â Mr. E. R. Appleton, a fu'n rheoli Gorsaf Cymru a'r Gorllewin am dros ddeuddeng mlynedd, dymunwn ddiolch iddo am yr hyn a wnaeth dros ein gwlad a'n hiaith. Yr oedd ei anawsterau bron yn anorchfygol, ond fe wnaeth lawer i ddylanwadu ar awdurdodau'r B.B.C. yn Llundain i roddi i Gymru ei gorsaf arbennig ei hun. Bydd gan wrandawyr Cymru lawer atgof melys am gysylltiad Mr. Appleton â hwynt, a diau nad yw yntau heb atgofion dymunol am ei gysylltiad agos â'r wlad a'i thrigolion.*

Diddorol eithriadol yw'r ysgrif flaen Y CYMRO A'R RADIO o rifyn 10 Gorffennaf 1937, teitl camarweiniol ar yr olwg gyntaf gan nad sôn am y papur newydd a wna'r ysgrif hon ond sôn am y Cymro ei hunan, a'r modd yr oedd mor swil a di-hyder o flaen meicroffon y radio o'i gymharu â'r Sais. Yn ôl Y Cymro yr oedd y diffyg hyder hwn yn 'un o'n gwendidau amlwg fel cenedl' ond yr oedd hefyd i'w briodoli i raddau helaeth i newydd-deb y cyfrwng a'r ffaith nad oedd y Cymro wedi cynefino ag ef; dyma ysgrif felly sy'n dangos mor aruthrol y datblygodd darlledu yng Nghymru ar hyd y blynyddoedd gan fod gennym bellach ddarlledwyr sy'n cystadlu â'r goreuon mewn unrhyw iaith:

*DYWEDODD yr Archdderwydd y Parchedig J. J. Williams, eiriau gwerth sylw yn ei araith ar achlysur sefydlu Rhanbarth newydd Cymru.*

*"Llawenychwn", meddai, "y cyfrifir ni o heddiw allan yn genedl ar wahân. Ni olyga hynny ein bod yn well na gwaeth na rhyw genedl arall. Mewn gwirionedd dangosodd y diwifr inni eisoes fod gennym lawer i'w ddysgu oddi wrth y genedl nesaf atom, a chenhedloedd pellach hefyd. Ai rhyw yswildod, neu waseidd-dra, neu ymdeimlad o israddoldeb, neu beth a bair inni fod mor llwfr ac ansicr o flaen y meicroffôn? Sieryd Sais fel pe bai'n berchen yr holl fyd; sieryd Cymro fel pe bai'n gwneuthur ymddiheuriad am ei fodolaeth. Y mae eisiau dysgu'r Cymro i roddi ei ddwy droed yn gadarn ar y ddaear, gwthio allan ei frest, a siarad fel dyn, nid fel caethwas. Ac y mae'n cymydog mewn ffordd i'n dysgu yn hyn o beth. Gwrandawer arno'n cyhoeddi: "This is the Regional Programme", a gorau po gyntaf y dysger ei efelychu. Y fendith hon, a llawer bendith arall a ddilyno osod Cymru ar ei thonfedd ei hun."*

*Yn sicr, gesyd yr Archdderwydd ei fys yn ddifeth ar un o'n gwendidau amlwg fel cenedl. Gydag eithriadau nodedig, fel Mr. Lloyd George, a sieryd bob amser heb ias o ofn Sais nac un creadur arall, swil ac ymesgusodol ydym wrth siarad o'n cynefin. Dyna, y mae'n debyg, pam y daw nodyn y "caethwas" i'n llais o flaen y meicroffôn. Y mae hwnnw yn beth newydd a dieithr, a phair i'r mwyafrif ohonom deimlo'n anesmwyth a hunan-ymwybodol. Ac unwaith yr ymdeimla dyn â'i hunan wrth*

*ei waith, yn hytrach nag ymgolli yn y gwaith ei hun, y mae ar ben. Yn gyffredinol, pregethwyr yw'r darlledwyr gorau yng Nghymru, unwaith yr ymgollant yn eu pregeth; y mae'n haws, bid sicr, ymgolli mewn pregeth nag mewn anerchiad neu sgwrs.*

*O bosibl hefyd bod gan ddychymyg byw y Cymro gryn lawer i'w wneud â'r swildod hwn. Gwêl dyrfa fawr na ddichon neb ei rhifo yn gwrando arno yn feirniadol, a bron na all glywed ambell un yn troi botwm ei set a'i dorri allan, gan ddywedyd "sothach, sothach!"*

*Teimlwn yn sicr y dwg y ffaith fod gan Gymru yn awr "ei thonfedd ei hun" "y fendith hon" o naturioldeb a phendantrwydd i'n darlledu. Nid ar unwaith, y mae'n debyg, ond yn raddol, fel y deuwn i sylweddoli mai ein tonfedd ni ydyw bellach, ac y gallwn siarad yn rhydd ac eofn ar ein haelwyd ein hunain.*

*Daw cynefindra cyffredinol â'r radio hefyd o dipyn i beth, fel y caiff rhagor ohonom gyfle i fod "ar yr awyr". Y mae'r Cymro yn greadur teimladwy, a chas ganddo geisio gwneud dim oni theimla'n hyderus y gall ei wneud yn dda a graenus. Ymarfer cyson yw amod meistrolaeth ar bob gwaith, a phroffwydwn y bydd gwelliant mawr yn narlledu'r Cymro cyn pen blwyddyn.*

*Cawsom o'r diwedd Ranbarth arbennig i Gymru ei hun, a rhaid inni yn awr ddefnyddio'n hawlfraint yn eofn a chartrefol. Disgwyliwn i bob llefarwr "roddi ei ddwy droed yn gadarn ar ddaear" ei Ranbarth ei hun, a siarad "fel dyn" wrth ei frodyr, gan roddi heibio swildod ac ansicrwydd bachgennaidd.*

Yn ysgrif flaen Y B.B.C. A CHYMRU o rifyn 10 Medi 1938 dywed Y Cymro bod yr Orsaf Gymreig yn dod 'yn allu mawr er daioni i'r wlad a phopeth a berthyn iddi', geiriau gobeithiol iawn; mae'r papur serch hynny'n rhybuddio'r B.B.C. rhag bod yn rhy hunanfodlon gan ddweud bod cyfrifoldeb mawr ar ei hysgwyddau, ac unwaith eto'n ychwanegu bod yn rhaid i'r Cymry eu hunain gynorthwyo'r penaethiaid i wneud yr Orsaf Gymreig yn un y gellid ymfalchïo ynddi:

*HYD yn hyn, bu Cymru'n llym yn ei beirniadaeth o'r darpariadau a wnaed i gyflenwi rhaglenni cymwys o Orsaf Radio'r B.B.C. yng Nghymru. Pa un a ellid cyfreithloni'r beirniadaethau hyn ai peidio, ni wyddai'r beirniaid, - yn wir, ni allasai'r beirniaid wybod - anawsterau swyddogion yr Orsaf. Pan benodwyd Mr. Hopkin Morris yn Gyfarwyddwr, yn agos i ddwy flynedd yn ôl, tybiwyd y gwneid rhywbeth i roddi i Gymru yr hyn a alwai amdano. Ond bu'n rhaid chwilio i anghenion Cymru a chwilio i'r anawsterau cyn y gellid disgwyl gwelliant, a dengys yr adroddiad a gyhoeddir, ar y dudalen gyntaf o'r rhifyn hwn, gymaint oedd raid ei wneuthur ynglŷn â'r adran Gerdd yn unig. Yr oedd angen casglu ynghyd staff cymwys i wasanaethu'r Orsaf Gymreig, staff a allasai gyfarfod â'r anawsterau a'u goresgyn. Fe berthyn i Orsaf Cymru broblemau na pherthynant i'r Gorsafoedd eraill, ond, erbyn hyn, y mae gennym le i gredu nad yw'r dydd ymhell pan fydd pob anhawster wedi ei symud a'r staff yn alluog i fyned ymlaen â'i waith priod. Yn wir, y mae arwyddion i'w gweled yn awr fod staff Gorsaf Radio Cymru i fod yn allu mawr er daioni i'r wlad a phopeth a berthyn iddi. A chofier nad mantais i Gymru'n unig fydd hyn, eithr mantais i'r Gorfforaeth yn gyffredinol.*

*Eithr dylem ni yng Nghymru gofio nad oes obaith i gynlluniau'r*

*staff Cymreig gael eu sylweddoli ond i'r graddau hynny y mae'r diddordebau arbennig yng Nghymru yn barod i'w cynorthwyo. Fe ddylai pawb sylweddoli nad yw mor hawdd cadw safon uchel adloniant a sgyrsiau yn Gymraeg ag yw yn Saesneg.*

*Y mae cyfnod newydd yn dechrau yn hanes y B.B.C. yng Nghymru, a dymuna'r 'Cymro' yn dda i bawb sy'n gysylltiedig â'r Orsaf Gymreig. Hyderwn y sylweddola'r cyfeillion hyn gymaint yw eu cyfrifoldeb; nid dyma'r tro cyntaf i'r 'Cymro' ddweud y gall Gorsaf Radio Cymru wneuthur llawer i roddi'r Gymraeg ar seiliau sicr, neu fe all wneuthur llawer i sicrhau tranc yr iaith.*

*Yr oedd y Gynhadledd a fu rhwng awdurdodau'r Orsaf a'r cyfansoddwyr Cymreig yn gam i'r iawn gyfeiriad, a hyderwn y bydd i'r B.B.C. ymgynghori â chynrychiolwyr adrannau eraill o'n bywyd cenedlaethol. Y mae gan awdurdodau'r radio lawer i'w ennill drwy'r cynadleddau hyn, a dim i'w golli. Edrychwn ymlaen yn ffyddiog at ganlyniadau'r gynhadledd sydd i fod gyda'r arweinyddion a hyderwn yr eir ymlaen â'r bwriad i sefydlu'r Ysgol Gerdd Genedlaethol y soniwyd amdani.*

*Dylai Cymru gynorthwyo'r mudiadau hyn. Gwerthfawrogir beirniadaeth ond iddi fod yn feirniadaeth adeiladol. Bydd 'Y Cymro' bob amser yn barod i dderbyn ac i roddi cyhoeddusrwydd i feirniadaeth o'r fath.*

*Gallwn sicrhau swyddogion yr Orsaf Radio bod Cymry ym mhobman yn disgwyl rhaglenni Cymreig y gallant deimlo'n falch ohonynt ac y bydd pawb yn troi i'w gwrando yn hytrach na throi i wrando ar orsafoedd eraill fel y gwneir mor fynych yn awr.*

*Mater arall yw'r anhawster a geir mewn llawer ardal i glywed cynhyrchion yr Orsaf Gymreig. Problem i'r peirianwyr yw hon, ond y mae'n rhaid ei datrys, ond ni fydd Cymru'n fodlon hyd nes y gall pawb yng Nghymru glywed rhaglenni ein gorsaf.*

*Byddwn yn ceisio gwybodaeth ein darllenwyr cyn bo hir ynghylch safon y derbyniad yn y gwahanol gylchoedd. Ond, hyd nes y bydd y rhaglenni Cymraeg o safon sy'n gymeradwy i'r gwrandawyr, ofer gwneuthur llawer. Gall awdurdodau'r Orsaf deimlo'n dawel y daw digon o gwynion am dderbyniad gwael pan fydd y gwrandawyr yn awyddus i wrando'r rhaglenni.*

*Fe dderbyniodd y Gymraeg aml gnoc galed yn ystod y misoedd diwethaf. Gall aelodau'r Orsaf Gymreig, dan arweiniad Mr. Hopkin Morris, wneuthur llawer i'w hadfer i'w hen safle. A gallant edrych ar 'Y Cymro' fel papur cenedlaethol sy'n barod i'w helpu ym mhob modd.*

Erbyn 22 Gorffennaf 1939 yr oedd Y Cymro yn fwy beirniadol eto o swyddogion Gorsaf Cymru ac yn cydnabod nad oedd safon y rhaglenni a ddarlledid o'r orsaf yn ddigon uchel, gan beri bod plant yn rhai o gartrefi mwyaf Cymreig Cymru'n cael eu magu yn sŵn radio Saesneg:

RADIO CYMRU

*SYNIAD hapus o eiddo Adran Cymru o'r B.B.C. oedd cynnal ysgol i'r rhai a gymerant ddiddordeb mewn llunio rhaglenni ac sy'n darlledu eu hunain. Ac, yn ôl yr adroddiadau a dderbyniwyd, bu'r cwrs yn un buddiol iawn.*

*Ni amheua neb awydd swyddogion y B.B.C. i gyfarfod â dymuniadau'r gwrandawyr Cymreig, a rhaid sylweddoli eu bod yn ceisio dal y ddysgl yn wastad rhwng y gwrandawyr Cymreig a'r rhai Seisnig. Ond fe gydnebu pawb ond y darlledwyr rheolaidd nad yw'r rhaglenni a ddarlledwyd o Orsaf*

*Cymru o'r safon uchel a ddisgwylid pan benodwyd cymaint o swyddogion Cymreig i'r gwahanol swyddi.*

*A chofio bod adnoddau cenedl gyfan wrth law, a safon isel y rhaglenni presennol, rhaid dod i'r penderfyniad fod ein hadnoddau'n brin iawn fel cenedl neu fod y swyddogion presennol yn methu â dod â'r darlledwyr a'r meicroffôn at ei gilydd.*

*Petai dim yn dioddef ond mwynhad ychydig filoedd o wrandawyr, ni fyddai llawer i'w golli, ond effaith y rhaglenni anfoddhaol hyn yw bod gwrandawyr o Gymry yn troi i wrando darllediadau o orsafoedd Lloegr. Ffrydia Saesneg i gartrefi gwir Gymreig, a megir y plant yn awyrgylch rhaglenni radio Saesneg.*

*A phwy a all fesur effaith niweidiol y fath raglenni ar ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg? Mawr yw cyfrifoldeb swyddogion Gorsaf Cymru, ac ni allwn ond gobeithio y deillio budd o'r Ysgol Haf. Petai rhagor o'r "ysgolheigion" yn Gymry a llai ohonynt yn Saeson ni fyddai cymaint o le i ddigalondid.*

Gwelwyd yn y bennod ddiwethaf fel yr effeithiodd toriad y Rhyfel ar ddarlledu yng Nghymru yn yr un modd ag yr effeithiodd ar bron bob agwedd arall ar fywyd, gan achosi i wasanaeth a oedd eisoes yn annigonol, ddirywio i'r fath raddau fel bod pobl yn dechrau hiraethu am y ddarpariaeth cyn y Rhyfel! Meddai ysgrif flaen Y Cymro 7 Hydref 1939:

DARLLEDIADAU CYMRAEG

*Y MAE'N dda deall bod gobaith am gael darllediadau Cymraeg. Ni wyddom faint. Os un rhaglen sydd i fod i'r deyrnas tra pery'r rhyfel, y mae'n debyg na ellir disgwyl llawer o Gymraeg. Ond fe ddywedodd Mr. Ogilvie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y B.B.C., mewn cinio gyda rhai o'r Aelodau Seneddol Cymreig yr wythnos hon, y câi Cymru ei lle yn y rhaglen. Rhaid diolch i'r Aelodau Seneddol Cymreig, ac i Mr. Lloyd George yn arbennig, am weithredu mor fuan, a mynegi barn Cymru wrth Mr. Ogilvie ei hun.*

*Y mae'n rhyfedd fel yr ydym yn gweld yn awr mai moethau yw llawer o'r pethau yr oeddym yn arfer credu eu bod yn angenrheidiau. Y mae mudandod sydyn Radio Cymru yn sicr yn peri inni sychedu am y llawnder a gaem gynt. Gallwn ddeall fod y rhyfel yn gosod y B.B.C. mewn safle anodd iawn, ond tybed fod rhaid peidio â chael dim ond un rhaglen? A yw atyniad radio i awyrlongau'r gelyn mor gryf na ellid defnyddio tonfedd arall neu ddwy at raglenni? Byddai'n dda gennym glywed barn swyddogol am hyn. Yn y cyfamser, boed nerth ym mhenelin Aelodau'r Senedd a staff y B.B.C. yng Nghymru yn eu hymdrech i gael cynrychiolaeth deg o raglenni Cymraeg a Chymreig ar yr awyr.*

Mae'r ddwy ysgrif flaen isod yn enghreifftiau o'r modd yr oedd Y Cymro yn amyneddgar iawn â'r B.B.C. er gwaethaf ei ffaeleddau: yn yr un gyntaf mae'r papur yn rhoi mantais yr amheuaeth i'r Gorfforaeth gan ddweud, yn naïf bron, mai 'amgylchiadau anodd y byd' oedd wrth wraidd y diffygion presennol ac y 'daw pethau i drefn eto'; mae'r ail ysgrif yn gofyn am

adroddiad gan y B.B.C. yn egluro safbwynt y Gorfforaeth paham na ellid darlledu mwy o Gymraeg ar amser o ryfel:

CYMRU A'R RADIO (7 Mawrth 1942)

*DA yw deall oddi wrth y drafodaeth a fu rhwng Mr. Hopkin Morris, pennaeth radio Cymru, ac adran dwyrain sir Gaerfyrddin o Undeb Cymru Fydd, y cydnebydd y B.B.C. fod Cymru'n genedl ac mai amgylchiadau dyrys y dydd yw'r unig reswm na cheir ychwaneg o Gymraeg ar y radio. Y mae hwn yn rhoi gobaith inni pan ddaw pethau i drefn eto y bydd Cymru yn cael ei chydnabod yn deilwng. Nid anwybyddu Cymru sydd wrth wraidd achos anfodlonrwydd ond amgylchiadau anodd y byd. Dyma ateb i'r cwynion a wneir o lawer cyfeiriad ac hefyd dengys fod Undeb Cymru Fydd yn effro i fater sydd o bwys cenedlaethol i Gymru.*

Y B.B.C. A CHYMRU (3 Ebrill 1943)

*PAN na bydd dim arall o bwys i ymosod arno y mae tuedd yng Nghymru, fel yn Lloegr, i droi tu min at y B.B.C. Ond y mae'n deg sylwi bu anfoddogrwydd yng Nghymru er dechrau'r rhyfel oherwydd prinder darllediadau Cymraeg. Fe gwynwyd hefyd fod y darlledu Cymraeg a geir ar amser anhwylus gan amlaf i fwyafrif y bobl. Yn ddiweddar cryfhaodd cwyn ychwanegol yn erbyn y Saesneg "Cymreig" a ddarlledir ar brydiau.*

*Cwynodd rhai cyrff cyhoeddus yn swyddogol a daeth rhai atebion iddynt ar ran y B.B.C. Ond nid ydym fawr elwach, a pharha'r anfoddogrwydd.*

*Fel y cyfeiriodd ein gohebydd gwleidyddol yn ein rhifyn diwethaf, digon aneglur a fu llawer o'r penderfyniadau a basiwyd ac a anfonwyd i'r Aelodau Seneddol ac i eraill. Ac y mae tuedd ymysg y cyhoedd i feio swyddogion y B.B.C. a phobl nad ydynt euog o ddim gwaeth na gwneud eu gorau dan amodau digon anodd yn aml.*

*Ar y llaw arall y mae'n sicr fod anfodlonrwydd ar yr amser a ganiateir i Gymru ar y radio. Ac y mae'n sicr bod anawsterau arbennig yn wynebu'r B.B.C. amser rhyfel.*

*Y mae'r cyhoedd, pa fodd bynnag, dan yr argraff - yn gam neu gymwys - y gallasai'r B.B.C. roddi mwy o oriau i Gymru ar amser mwy cymeradwy. A gosod y mater yn blaen - y mae'r B.B.C. yn gwneud cam â Chymru, neu y mae Cymru'n gwneud cam â'r B.B.C.*

*Ni ellir disgwyl i'r cyhoedd fod yn gydnabyddus â holl ddirgelion technegol darlledu ac wrth alw am ychwaneg o Gymraeg, cymerir yn ganiataol yn aml mai "ystyfnigrwydd" y B.B.C. yn unig a gyfrif am y ffaith na ddaw wedi galw amdano. Ysywaeth, rhaid cydnabod nad yw'r broblem mor syml. Pa faint bynnag o Gymraeg a ddarlledir dan y cynllun presennol, y mae'r Saeson yn mynd i gwyno bod gormod, neu mae'r Cymry'n mynd i gwyno bod rhy ychydig.*

*Bellach, dylid clirio'r awyr. Dylid darparu adroddiad swyddogol mewn termau y gall y cyhoedd ei ddeall ar ddarllediadau Cymraeg, yn egluro anawsterau darlledu amser rhyfel, yn dangos paham na ellir darlledu mwy o Gymraeg ac yn amlinellu polisi'r B.B.C. tuag at ddarllediadau Cymraeg o hyn ymlaen. Dylai'r fath adroddiad gael y cyhoeddusrwydd mwyaf yng Nghymru ac yn Lloegr.*

*Os ceir, o'i archwilio, fod yr adroddiad hwn yn dangos na all y B.B.C. yn ymarferol nac yn deg ychwanegu na newid oriau darlledu Cymraeg derbynnir y sefyllfa fel un anorfod. Hyd oni ddaw datganiad fel*

*hyn, aros a wna'r anfodlonrwydd yn y wlad.*

Yn rhifyn 21 Gorffennaf 1944 o'r Cymro trafodwyd corfforaeth ddarlledu annibynnol i Gymru wedi'r Rhyfel ond yn ôl y papur yr oedd rhesymau ariannol ynghyd â rhesymau eraill yn ei wneud yn ddewis anymarferol. Yn hytrach, dywed y papur mai'r 'trefniant mwyaf bendithiol i Gymru fuasai cael ei gorsaf a'i thonfedd ei hun fel rhan o'r B.B.C., a'r annibyniaeth fwyaf posibl i'r orsaf honno....ar y llaw arall gallai Cymru ddatblygu ei gorsaf ei hun hyd yr eithaf, gan roddi'r gwasanaeth gorau posibl mewn Cymraeg yn gyffredinol ac am Gymru mewn Saesneg.' Dyma eiriau o broffwydoliaeth a gweledigaeth gan Y Cymro ymhell cyn i'r B.B.C. sefydlu Radio Cymru a Radio Wales:

## RADIO CYMRU

*CODWYD rhai pynciau diddorol yng Nghynhadledd Undeb Cymru Fydd yn yr Amwythig ddydd Sadwrn.*

*Yr oedd y penderfyniad yn galw am waith i Gymry yng Nghymru wedi'r rhyfel yn un amserol a rhesymol. Nid yw'n rhy fuan i bwyso, ac i bwyso'n drwm, yr egwyddor hon ar y Llywodraeth ac nid oes reswm paham na all aelodau pob plaid wleidyddol yng Nghymru ei chefnogi.*

*Ond pan aed i alw am gorfforaeth ddarlledu ar wahân i Gymru nid oedd y Gynhadledd ar dir mor gadarn. Ar egwyddor ni ellir gwrthwynebu Corfforaeth Ddarlledu i Gymru fwy nag a ellid gwrthwynebu papur dyddiol mewn Cymraeg i Gymru. Yn ymarferol nid yw'r naill na'r llall yn ymddangos yn bosibl ar hyn o bryd.*

*Yn gyffredinol iawn y soniwyd am Gorfforaeth Ddarlledu i Gymru. Ond nid hawl, ond gallu Cymru sydd yn y cwestiwn.*

*Ac wrth osod materion fel hyn gerbron cynhadledd a gwlad, dylid delio'n fanylach â ffeithiau'r mater fel y gwêl cynadleddwyr ac eraill dros ba beth yn union y pleidleisir.*

*Beth a gostiai Corfforaeth o'r fath? Beth a gostiai ei pheiriannau? Sut wasanaeth a roddai i'r gwrandawyr? A fuasai ei thelerau yn cadw'r darlledwyr a'r cyfansoddwyr radio gorau yng Nghymru?*

*Y mae'n wir bod arian o Gymru'n mynd i gynnal y B.B.C. ond wrth drafod yr arian yma rhaid cofio ei bod yn amheus a yw'r cyfraniadau o Gymru yn ddigon i dalu am yr hyn a ddarlledir i Gymru o gorfforaeth mor eang â hon hyd yn oed. Ofer yw beirniadu ansawdd y darllediadau hyn, canys yr unig gasgliad i'w dynnu ydyw na allai Cymru ei hun wneud cystal.*

*Y mae gan Eire, cofier, ei threfniant darlledu ei hun, ond tybed mewn difrif y dewisai'r Cymro cyffredin wasanaeth radio felly?*

*Y trefniant mwyaf bendithiol i Gymru fuasai cael ei gorsaf a'i thonfedd ei hun fel rhan o'r B.B.C., a'r annibyniaeth fwyaf posibl i'r orsaf honno. Felly, manteisid ar adnoddau eang - yn ariannol ac fel arall - y B.B.C., ar y naill law, ac ar y llaw arall gallai Cymru ddatblygu ei gorsaf ei hun hyd yr eithaf, gan roddi'r gwasanaeth gorau posibl mewn Cymraeg yn gyffredinol ac am Gymru mewn Saesneg.*

*Ceisiwyd gwneud "cwestiwn politicaidd" o hyn yn yr Amwythig. Ond*

*nid mater politicaidd o gwbl ydyw, eithr mater o synnwyr cyffredin.*

Diddorol iawn o'r safbwynt hanesyddol yw ysgrif flaen Y Cymro 3 Tachwedd 1944 yn apelio ar y B.B.C. i ddarparu rhaglenni Cymraeg ar Donfedd y Lluoedd i'r bechgyn o Gymru oedd yn byw yn y Dwyrain Canol. Yr oedd y ffaith bod y Cymry hyn wedi ffurfio cymdeithasau Cymraeg ffyniannus ac yn cyhoeddi'r papur Cymraeg Seren y Dwyrain mor bell o'u cartrefi, yn brawf pendant o ba mor bwysig oedd eu Cymreictod iddynt ac nid oes unrhyw amheuaeth na fyddent wedi gwerthfawrogi'n fawr cael gwrando ar raglenni radio Cymraeg. Yn ôl Y Cymro yr oedd y mater hwn 'yr un mor bwysig - yn bwysicach yn wir' na chael mwy o Gymraeg ar yr awyr yng Nghymru, a go brin y gallai unrhyw un anghytuno â geiriau'r papur:

## TONFEDD Y LLUOEDD

*BYDDWN bob amser yn croesawu'r copïau o 'Seren y Dwyrain' a ddaw atom, am amryw resymau.*

*Y mae'r ffaith bod y cylchgrawn Cymraeg hwn yn bod o gwbl yn deyrnged i Gymreigrwydd y bechgyn sy'n ymladd ymhell o'u gwlad, ac yn dangos yn eglur iawn agosed yw Cymru at eu calonnau.*

*Ar hyd a lled y Dwyrain Canol sefydlwyd cymdeithasau Cymraeg blodeuog, ac yno, mewn atgof y gwela'r bechgyn hen wlad eu tadau a chlywant yr acenion a oedd mor felys ar yr aelwyd bell. I'r rhain y mae'r 'Seren' yn ysbrydoliaeth ac yn ddolen gysylltiol, a thalwn ninnau ein teyrnged haelaf i olygydd ac i gynhyrchwyr y papur hwn am y gwaith da a wnânt, mor fyw ac mor gartrefol.*

*Fe â llawer o lenyddiaeth a llawer o bapurau Cymraeg - miloedd o gopïau o'r 'Cymro' yn unig, - dros y môr bob wythnos. Ond nid oes ddigon yn mynd eto i gyfarfod â'r holl alw, ac apeliwn at ein darllenydd i anfon mwy a mwy.*

*Wedi i chwi orffen gyda'r copi hwn o'r 'Cymro', anfonwch ef i Gymro sydd o'i gyrraedd. Gwnewch yr un peth gydag unrhyw bapurau Cymraeg eraill a ddaw i'ch cartrefi, a'r un peth gyda llyfrau a cherddoriaeth na theimlwch eu bod yn rhaid i chwi eu cadw.*

*Nid yw hyn, hyd yn oed, yn ddigon. Y mae ar y bechgyn eisiau clywed Cymraeg ac eisiau clywed yr iaith yn llifo'n syth o Gymru atynt fel y gwelir yn eglur iawn mewn erthygl yn rhifyn diwethaf y 'Seren'.*

*Diolch i wyddoniaeth, y mae hyn yn bosibl heddiw. Daeth y radio. Ond nid yw'r Cymro alltud yn cael y gorau ohoni.*

*Ar Donfedd y Lluoedd y dibynna'r rhain, ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael chwarae teg ar y donfedd honno. Yr ydym ni wedi mynnu ychydig mwy o Gymraeg ar y donfedd gartref. Y mae'r un mor bwysig - yn bwysicach yn wir - cael mwy o Gymraeg i'n bechgyn ar y donfedd arall.*

*Mae'n ddyletswydd ar Gymru, ac ar ei holl fudiadau cenedlaethol, ac ar ei Haelodau Seneddol, i ystyried y mater hwn o ddifri yn awr. Ein dyletswydd cyntaf yw gofalu am ein meibion a'n merched sydd oddi cartref, ac nid yw'n mynd i wneud dim cam â'r Saeson os neilltuir cyfran bob wythnos o donfedd y lluoedd i raglenni o Gymru, am Gymru ac mewn Cymraeg. Nid yw'r rhaglenni Saesneg am Gymry yn ateb y pwrpas, er*

*y dylid parhau i roi cyfran o'r rhain hefyd.*

*Nid oes yr amheuaeth leiaf nad yw'r bechgyn yn dyheu am Gymraeg a mwy o Gymraeg, a dylai copi o 'Seren y Dwyrain' ynddo ei hun fod yn ddigon i argyhoeddi penaethiaid y B.B.C. mai eu dyletswydd hwy yw cofio am y bechgyn hyn.*

*Gyda'r holl bethau a fu yn y rhyfel hwn, ni ddylid ofni aberthu mymryn o Saesneg ar y radio er mwyn cymrodyr.*

Un o bynciau mawr y dydd oedd ad-drefnu wedi'r Rhyfel, gan gynnwys ad-drefnu'r gyfundrefn radio yng Nghymru. Wrth drafod **DYFODOL Y RADIO** yn ysgrif flaen Y Cymro 15 Rhagfyr 1944 dywed y papur yn bendant mai'r 'lleiaf a ddisgwylia Cymru yw ei rhanbarth ei hun, lle ceir digonedd o raglenni Cymraeg cyson da, a rhaglenni Cymreig yn Saesneg, a hunan-lywodraeth pur lwyr ar y rhanbarth':

*Y MAE siarter y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig - y B.B.C. - yn dirwyn i ben ac eisoes fe gymerir cryn ddiddordeb yn y ffurf a fydd ar ddarlledu wedi'r rhyfel.*

*Cododd Mr. W. J. Haley, Cyfarwyddwr Cyffredinol y B.B.C., ychydig o gwr y llen ar gynlluniau darlledu wedi'r rhyfel mewn araith ddiweddar.*

*Awgrymodd y byddai tri math o raglen i wrandawyr gartref - yn gyntaf, rhaglen y gellid ei rhanbarthu fel y rhanberthid rhaglenni cyn y rhyfel; yn ail, rhaglen i'r deyrnas ar donfedd hir; yn drydydd, rhaglen newydd arall i'r holl deyrnas.*

*Amlinelliad bras yn unig a roddodd Mr. Haley a cheir llawer iawn o drafod, bid siŵr, cyn y gosodir unrhyw gynlluniau gorffenedig gerbron y wlad.*

*Yn y rhaglen yna a ranberthir y bydd prif ddiddordeb Cymru. Ynglŷn â'r rhaglenni rhanbarthol hyn, rhybuddiodd Mr. Haley mai eu natur yn unig a sicrhâi lwyddiant y rhain. Byddai'n rhaid iddynt fod o'r radd flaenaf. Byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar dalent leol hyd y gellid, ond byddai'n rhaid i'r dalent honno fod yn y dosbarth cyntaf. Ni oddefai'r gwrandawyr y darlledu trydedd-radd.*

*Fe ddylai Cymru sylwi'n arbennig ar hyn. Pa faint o dalent ddarlledu o'r radd flaenaf sydd gennym yn Gymraeg? Ychydig iawn, - difrifol ychydig yn wir. Ac y mae'r talentau newydd sy'n dod i'r amlwg yn brinnach na'r rhaglenni Cymraeg eu hunain.*

*Oherwydd hyn fe roddir llawer o fai ar swyddogion Cymreig y B.B.C., lle dylid anfon cydymdeimlad. Ond ar y llaw arall, dylent hwythau fod yn fwy mentrus. "Gormod o'r un rhai - a'r rheini heb fod yn rhy dda", yw'r gŵyn.*

*Y lleiaf a ddisgwylia Cymru yw ei rhanbarth ei hun, lle ceir digonedd o raglenni Cymraeg cyson da, a rhaglenni Cymreig yn Saesneg, a hunan-lywodraeth pur lwyr ar y rhanbarth.*

*Ond rhaid cael talentau. Ni allasai Corfforaeth Ddarlledu Gymreig, hyd yn oed, weithredu heb dalentau. Nid sut reolaeth sydd ar y radio, ond sut raglenni sydd ar y radio sy'n poeni'r bobl.*

*Plediodd rhai o gyrddau Undeb Cymru Fydd am Gorfforaeth Radio i Gymru. Ond sut y gallasant bleidio cynllun na roddwyd y manylion o'i gost, ei weithrediad, ei sefydliad, ei gyfansoddiad sydd ddirgelwch.*

*Ar y llaw arall, bydd yn rhaid setlo'n gyffredinol gwestiwn y "darlledu busnes". A ganiateir i wŷr busnes brynu amser ar radio'r wlad*

*hon er mwyn cael hysbysebu eu nwyddau?*

*Ac os gwrthodir, beth sydd i rwystro'r rhain rhag gwneud hynny o wlad gyfagos arall - fel y gwneid cyn y rhyfel? A beth fuasai effaith hyn ar ein darllediadau ni?*

*Y mae'n gwestiwn a fuasai rhywfaint o'r gwneuthurwyr yn dewis darlledu mewn Cymraeg, pa'r un bynnag.*

*Nid yw tonnau'r awyr yn adnabod ffiniau gwledydd, ac nid yw pobl yn gwrando ar ddim ond ar yr hyn a ddymunant ei glywed. Nid yw unrhyw drefn radio sy'n anghofio'r pethau hyn yn mynd i lwyddo.*

Dychwelir at bwnc Tonfedd y Lluoedd yn ysgrif flaen rhifyn 2 Chwefror 1945 er mwyn gwneud un peth yn gwbl glir i ddarllenwyr Y Cymro, sef mai ar benaethiaid y B.B.C. yn Llundain, nid ar reolwyr y B.B.C. yng Nghymru, yr oedd y bai am ddiffyg darpariaeth Gymraeg i'r bechgyn a wasanaethai oddi cartref:

GWAITH I'R B.B.C.

*BU llawer iawn o gwyno ac o brotestio ynghylch prinder Cymraeg ar raglenni radio'r Lluoedd. Wrth wneud protest o'r fath y mae'n bwysig cael dau beth yn glir - pwy sy'n gyfrifol, a sut y dylid gwella'r sefyllfa.*

*Yn ôl adroddiadau dibynnol iawn y mae'n amlwg erbyn hyn mai yn Llundain y mae'r bai yn gyfan gwbl am brinder Cymraeg, ac y mae digon o awgrymiadau ar gael i ddangos na freuddwydiodd Llundain am roi chwarae teg i'r bechgyn Cymreig ac na chafwyd hynny o chwarae teg a gafwyd heb gryn stormydd. Hyd yn oed yn awr nid yw agwedd pencadlys y B.B.C. yn Llundain at yr iaith Gymraeg yr hyn a ddylai fod.*

*Teg yw rhoi'r cyhoeddusrwydd mwyaf i'r ffeithiau hyn rhag gwneud bwch dihangol o swyddogion adran Cymru o'r B.B.C. Y mae pob lle i gredu iddynt hwy wneud eu gorau, a'u bod yn dal i wneud hynny.*

*Yn awr y mae sôn bod un o benaethiaid y B.B.C. - y pennaeth ei hun yn ôl rhai adroddiadau, â'i fryd ar ddod i Gymru i weld pethau drosto ei hun. Nid yw'n rhy fuan iddo ddod ac ni raid iddo ofni holi arweinwyr Cymreig, ac ni raid i'r arweinwyr Cymreig ofni ei ateb. Ond ateber ef yn greadigol.*

Ar ôl hir ymaros cychwynnodd Gorsaf Cymru ailddarlledu ar ddydd Sul, 29 Gorffennaf 1945, ac yn ysgrif flaen Y Cymro ddeuddydd ynghynt apeliodd y papur ar i'r B.B.C. fod yn fentrus a darparu rhychwant eang o raglenni a fyddai'n apelio at sawl chwaeth. Yr oedd hyn ym marn y papur i gynnwys rhaglenni ysgafn, doniol, na fentrwyd eu cynhyrchu erioed o'r blaen, ond dywed na ddylid cynhyrchu rhaglenni o'r fath 'o gwbl ar y Sul', gan ddangos eto mor sanctaidd yr arferai'r Sul Cymreig fod. Nid am y tro cyntaf, apeliodd Y Cymro hefyd am ddychweliad y Gerddorfa Gymreig:

# DYFODOL RADIO CYMRU

BYDD Gorsaf Cymru o'r B.B.C. yn darlledu unwaith yn rhagor yr wythnos nesaf, a wynebwn ar gyfnod "heddwch" o wasanaeth radio. Dychwelodd y Rhanbarth Cymreig gyda'r rhanbarthau eraill ac arbedwyd i Gymru, am unwaith, orfod ymegnïo mewn protestio i sicrhau yr eiddo ei hun. Byddwn ddiolchgar am hynny bach.

Ni ellir disgwyl rhyw newid mawr iawn am dipyn. Fe gymer beth amser i bethau ddod atynt eu hunain ac i aelodau o staff Cymreig y B.B.C. a aeth i'r Lluoedd neu a fenthyciwyd i Brydain ddychwelyd at eu priod waith.

Ond ysgafnheir peth ar bryder swyddogion Cymreig presennol y B.B.C. Gyda'r amser byr iawn at eu gwasanaeth cawsant dasg anodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ychydig a ellid ei wneud mewn rhyw chwarter awr y dydd. Anodd yw darparu ar gyfer cynifer mewn cyn lleied o amser, ac o ganlyniad ni bu llawer o ddogni ar y feirniadaeth a gawsant.

Ac ofnwn i flas ry academaidd fod ar y beirniadaethau weithiau. Nid yw cyfangorff y bobl mor academaidd o bell ffordd â rhai o'r beirniaid, ac ychydig iawn o "for y cyffredin mind" a roddodd gyfle i neb gyhoeddi ar bapur y pethau a ddywedent ar lafar.

Er mor groendew y gall y B.B.C. fod, gall fod yn groendenau iawn hefyd, ac y mae yna bobl angharedig yn y wlad sy'n barod i daenu bod y B.B.C. yn hoffi distewi neu gornelu beirniaid tebygol trwy gynnig darllediadau iddynt.

Nid bob amser y cynigiwyd beirniadaethau creadigol ar y rhaglenni Cymreig ychwaith. Collfarnwyd heb awgrymu nac ymresymu ar adegau. Aed i wneud cocyn hitio ysbeidiol o'r B.B.C. yng Nghymru, ac ni allasai hynny ychwanegu at esmwythyd meddwl y swyddogion.

Ar y cyfan, gyda'r adnoddau a oedd ganddynt, gwnaethant eithaf gwaith ohoni hi, a gosodwyd mwy nag un bai y dylid ei osod wrth draed y swyddogion Llundeinig wrth draed y swyddogion Cymreig.

Beth am y dyfodol?

Awgrymwn mai trwy anturio mwy y poblogeiddir rhaglenni Cymreig y dyfodol.

Y mae rhaglenni Saesneg poblogaidd na feiddiodd Cymru roi eu tebyg ar yr awyr, nid am eu bod yn ddi-chwaeth, ond am eu bod yn bethau newydd mewn Cymraeg.

Pe rhoddid rhaglen o natur 'Itma' yn Gymraeg, diau y protestid rhag ei "gwiriondeb" gan gyrff sydd â'u haelodau yn mwynhau 'Itma' yn Saesneg ac yn mynd mor bell â gwrando heb droi blewyn ar 'Happidrome' - a hynny ar nos Sul!

Prin y gallasai Cymru gynhyrchu rhaglen ysgafn cystal ag 'Itma' ac ni ddylai gynhyrchu rhaglen ysgafn o gwbl ar y Sul. Ond y mae'n rhaid cynhyrchu rhaglenni ysgafn a rheini'n rhai modern os yw nifer mawr o Gymry i wrando o gwbl. Rhaid anturio a chlustfeinio ar sylwadau'r bobl gyffredin, gan droi'n glust fyddar, weithiau, i rai o sensoriaid hunanbenodedig y genedl.

Rhaid anturio i chwilio am dalentau newydd hefyd. Dibynnwyd gormod ar yr un rhai eisoes. Ymddengys fod gan y B.B.C. yng Nghymru eu panel, a hwnnw'n un difrifol o fach, o ddarlledwyr ar rai pynciau. Y swyddogion Cymreig eu hunain, trwy wahodd tipyn o waed ifanc, yn unig, a all unioni'r camwedd hwn.

Gofidiwn hefyd na wêl y B.B.C. yn dda i'w swyddogion sefyll wrth y meic bob hyn a hyn i wahodd darllediadau oddi wrth wrandawyr ac i egluro iddynt beth a ddymunir. Onid yw'n ffordd ddemocrataidd a theg a ffordd sy'n dangos yr ysbryd iawn?

*A dyna gwestiwn y gerddorfa. Nid dyma'r tro cyntaf na'r tro olaf i'r 'Cymro' drafod y cwestiwn hwn. Yr ydym am gael y gerddorfa'n ôl. Yr ydym am i Lundain ofalu ei bod yn dod yn ôl.*

*Ar wahân i'w gwerth cynhenid a'r gefnogaeth uniongyrchol a all ei roi i gyfansoddwyr ac offerynwyr Cymreig defnyddir y gerddorfa mewn darlledu modern i roddi cefndir cerddorol i raglenni eraill. Dyma bellach un o hanfodion gorsaf ddarlledu. Ac y mae Cymru heb yr un.*

*Mae'n anfri ar ein traddodiad cerddorol ein bod heb yr un a chyhyd ag y bydd yn absennol fe effeithir ar addysg gerddorol ein cenedl ac ar ddatblygiad cyfansoddwyr Cymreig yng Nghymru.*

*Y mae'n fater teilwng i Undeb Cymru Fydd a'r Awdurdodau Lleol a phob corff cenedlaethol a cherddorol ymddiddori ynddo nes ei setlo.*

*Diwydiant a'r Dirwasgiad*

Sefydlwyd Y Cymro ar adeg o Ddirwasgiad mawr ym Mhrydain pan ddioddefodd diwydiannau trymion Cymru, megis y diwydiant llechi a'r diwydiant glo, yn enbyd, a phan welodd y gymdeithas ddiweithdra, tlodi a chaledi ar raddfa enfawr; adlewyrchwyd hynny dro ar ôl tro ar dudalennau blaen Y Cymro ac un o'r prif resymau am hynny oedd y ffaith bod llawer o'r darllenwyr yn chwarelwyr neu'n lowyr eu hunain. Yn naturiol, byddai pwnc diwydiant a dirwasgiad hefyd yn cael sylw rheolaidd yn ysgrifau blaen Y Cymro, ac yn union fel yr oedd y papur bob amser yn gefnogol i'r ffermwyr, yr oedd yr un mor gefnogol i'r chwarelwyr a'r glowyr a ddioddefai'n enbyd yn y sefyllfa oedd ohoni.

Yn y bôn yr oedd problemau'r chwarelwyr a'r glowyr, a phroblemau'r amaethwyr, serch eu bod yn ddau fath cwbl wahanol o alwedigaeth, yn debyg iawn i'w gilydd, a hynny i raddau helaeth yn deillio o wendidau trefn economaidd yr oes. Am y rheswm hwn felly gwelir mai'r un oedd cri Y Cymro wrth drafod diwydiant ag oedd wrth drafod amaethyddiaeth, sef bod yn rhaid dibynnu mwy ar y farchnad gartref yn hytrach na throi mor aml at y gwledydd tramor:

"DIM GALW" (4 Mawrth 1933)

> *"NID yw ffigyrau masnach dramor yn dangos arwydd o godi yn unman", medd ein Golygydd Masnach heddiw.*
>
> *Y mae hynny'n wir. Myn rhai fod hyn yn beth i ofidio amdano, ac yn ddiamau y mae os na cheir ffordd i ddefnyddio'n diwydiannau i borthi ein hanghenion ni'n hunain.*
>
> *Dengys ein Gohebydd Dulyn nad yw Iwerddon ddim yn ystyried bod y byd ar ben am fod ei ffigyrau masnach dramor wedi mynd i lawr. Yn hytrach, fe groesawa ei Gweinidog Diwydiant hynny fel cychwyn cyfnod newydd o ffyniant cenedlaethol. Ei obaith ef yw gweled ei wlad yn ei chynnal ei hun, ei thir yn cael ei drin a'i diwydiannau'n brysur yn cynhyrchu'r pethau a geid gynt o wledydd eraill.*
>
> *Fe sylweddolir ei freuddwyd os gellir dosbarthu cynnyrch fferm a ffactri i ddiwallu angen y bobl.*
>
> *Dyry ein Golygydd Masnach ei fys ar y drwg pan ddywed mai "dim galw yw'r gri ym mhob diwydiant o'r bron."*
>
> *Y galw sy'n bwysig, ac nid yw'n rhaid i'r galw hwnnw ddod o wledydd eraill. Gall ddod o blith ein pobl ni ein hunain.*
>
> *Y mae'r angen yma. Fe fedrai'r bobl wneud â rhagor o fwyd a dillad, â chartrefi gwell, ac â'r moethau a wnaed yn bosibl gan ddulliau cyflym o gynhyrchu.*
>
> *Rhaid troi'r angen yn alw effeithiol. Ac fe ddylid gwneuthur hynny heb ddisgwyl wrth wledydd y byd i fod yn unfarn ynghylch y cynllun.*
>
> *Y wlad a all yn gyntaf osod trefn ar ei thŷ ei hun a arwain y byd.*

*Nid wrth aros y naill wrth y llall y symudir byth.*

*Y mae bywyd gwell yn bosibl i bob teulu yn ein gwlad. Dyna fydd rhan pawb pan ddysgwn ddosbarthu'r hyn a allwn gynhyrchu, pan fydd arian yn gwasanaethu diwydiant ac nid yn ei reoli, a dynion yn gweithio i ddiwallu angen ac nid am fod elw i arall ar eu llafur.*

Yn Y Cymro 15 Ebrill 1933 datgelwyd bod bwriad ar droed i sefydlu Cyngor Datblygu Diwydiannau Cymreig wrth i bobl ddechrau 'deffro i'r perygl yr ydym ynddo' ynglŷn â sefyllfa diwydiannau yng Nghymru. Wrth groesawu'r datblygiad hwn yn ysgrif flaen yr wythnos, GOGLEDD A DE A GWAITH, dywed y papur mai Cymru ei hunan yn unig a all ddatrys ei phroblemau diwydiannol ac apelia ar i drigolion y wlad gydweithio â'i gilydd i sicrhau hynny yn hytrach na checru a gofalu am eu buddiannau hunanol hwy eu hunain drwy'r amser.

Yr hyn sy'n ddiddorol, a rhyfeddol mewn gwirionedd, yn yr ysgrif isod yw nodi mor llugoer oedd y Gogledd a'r De tuag at ei gilydd, bron iawn i'r graddau eu bod yn elyniaethus felly; yn wir, mae'r Cymro ei hunan yn cyfeirio at y Gogledd a'r De fel 'y ddwy dalaith', rhywbeth sydd i ni heddiw'n ymddangos yn rhyfedd a chwithig. Er bod nifer o wahanol ffactorau a gyfrannai at y diffyg cydweithrediad hwn rhwng y Gogleddwyr a'r Deheuwyr, gan gynnwys ffyrdd blinderus a wnâi deithio'n anghyfleus, y ffaith mai llechi oedd prif ddiwydiant y Gogledd tra mai glo oedd prif ddiwydiant y De, heb sôn am y rheswm elfennol nad oedd pobl y ddwy ardal prin yn deall ei gilydd yn siarad mewn oes cyn dyfodiad y cyfryngau Cymraeg, y trueni mawr oedd na sylweddolent mor fanteisiol oedd cydweithio i ddatrys problemau oedd yn y bôn yn hynod o debyg yn y Gogledd a'r De:

*RHODDWYD sylw yr wythnos ddiwethaf i fudiad sydd ar droed, meddir, i alw cynhadledd o gynrychiolwyr gwaith, gwlad ac addysg i weld beth y gellir ei wneud i achub Cymru rhag "perygl cymdeithasol a diwydiannol."*

*Bwriedir, mae'n debyg, osod ar ei draed Gyngor Datblygu Diwydiannau Cymreig i wneuthur dros Gymru gyfan yr hyn y ceisir ei wneuthur eisoes ar ran y deheubarth gan Gyngor Datblygu Diwydiannau Deheudir Cymru a Mynwy.*

*Da gweld bod cyflwr difrifol pethau, o dipyn i beth yn deffro rhywrai i'r perygl yr ydym ynddo. Y mae eu hymdrechion yn haeddu pob cydymdeimlad a chynhorthwy.*

*Ofer i Gymru ddisgwyl am waredigaeth o'r tu allan iddi hi ei hun. Ofnir mai ychydig o glust a roddir i'w chri dros Glawdd Offa, ac eithrio'r ychydig a wnaethpwyd eisoes gan Gymdeithas y Crynwyr a'r Pererinion Glas ym Mrynmawr, Trealaw, Blaina, ac un neu ddau o leoedd*

*eraill. Ni fynnem er dim fychanu ymdrechion y bobl dda hyn. Pob clod iddynt, ond y gwir yw - a hwynthwy eu hunain fyddai'r cyntaf i'w gydnabod - ni wnânt ond megis cyffwrdd â'r wyneb. Y mae'r broblem yn rhy fawr a dwfn i'w meistroli gan fesurau o'r fath, er cystal ydynt.*

*Y mae'r perygl sy'n codi o ddiffyg gwaith i'w weld ymhob tref a llan yng Nghymru. Y mae mor eang â Chymru gyfan; y cwestiwn yw a ellir ei wynebu yr un mor eang? A oes gobaith y gwelir ffrynt unedig rhwng Gogledd a De i'w goncro? A anghofir "canolfur y gwahaniaeth" yn wyneb tasg mor fawr, neu a barlysir ein hegnïon eto gan yr hen ymraniadau fu'n fagl inni erioed?*

*Un ffordd o ateb y cwestiynau hyn yw gofyn cwestiwn arall. Ar wahân i amaethyddiaeth (a chrefydd, wrth gwrs), a oes "tir cyffredin" rhwng y ddwy dalaith? Ai yr un yw buddiannau'r gogleddwr a buddiannau'r deheuwr?*

*Onid yw'n wir mai chwaraele i bobl Sir Gaerhirfryn a Chanoldiroedd Lloegr yw glannau môr y Gogledd, ac mai Saeson yw mwyafrif preswylwyr y trefi mwyaf? A ellir disgwyl cydymdeimlad a chydweithio ar ran pobl o'r fath â glowyr a gweithwyr dur ac alcan y De?*

*Ar wahân i Gymdeithas Cofeb Cenedlaethol y Brenin Iorwerth Saith, sy'n gwneuthur gwaith mor ardderchog ynglŷn â'r darfodedigaeth, a ellir gosod bys ar unrhyw beth o wir werth i fywyd y genedl sy'n ffrwyth cydweithio rhwng y ddwy dalaith?*

*Nid dadlau yr ydym fod y peth yn amhosibl, ond ei fod yn anhepgor os yw'r mudiad y sonnir amdano i gyrraedd ei amcan. Rhaid lladd y rhagfarn rhwng y de a'r gogledd cyn y gwelir un math o "beiriant cenedlaethol" yn rhedeg yn hwylus.*

*Yn wir, oddi ar blwyfoldeb ein golygiadau y cyfyd ein gwendidau fel cenedl. Fe welwyd hyn eisoes yn ymdrech Cyngor Datblygu Diwydiannau'r De i gychwyn anturiaethau newydd yno. Fe wrthyd rhai awdurdodau gydweithio â'r Cyngor (a thalu tuag ato) oherwydd culni lleol a diffyg gweledigaeth i sylweddoli y byddai ffatri newydd neu ddwy yng Nghaerdydd, dyweder, yn sicr o ddwyn bendith i ardaloedd eraill. Oni ellir sicrhau undeb a chydweithio mewn ardaloedd cyfagos a thebyg eu hamgylchiadau, a oes lle i gredu y llwyddir yn y pethau hyn rhwng pellafion de a gogledd?*

*Ond y mae perygl rhoddi gormod o ffydd mewn cynhadledd. Cynhelir digon o gynadleddau bob blwyddyn yng Nghymru, ond yr un bobl fydd yno bron byth a beunydd (ar gost rhywrai eraill), a braidd na thybiwn mai dyma'r dull mwyaf poblogaidd a rhataf o dreulio gwyliau'r haf.*

*Areithiau hir-wyntog, di-bwrpas, ac, fel rheol, cwbl anymarferol a geir ynddynt fynychaf. O'r braidd y bydd gan neb gynllun o un math i'w osod gerbron ei wrandawyr, ac os bu gweledigaeth rywbryd gan y sawl a alwodd y gynhadledd fe'i collir hi mewn mwg ymhell cyn y diwedd.*

*Y mae hen ddigon o siarad wedi bod ar broblem y di-waith yng Nghymru; fe ŵyr pawb mor ddifrifol yw'r sefyllfa, a'r mawr angen am waredigaeth. Onid oes gan rywun neu rywrai gynllun ymarferol at hynny, ofer galw'r llwythau ynghyd, ac oferach fyth fydd siarad gwag.*

A FYDD STREIC? yw pennawd ysgrif flaen Y Cymro 18 Tachwedd 1933, gyda'r glowyr yn teimlo'n chwerw am na wnaed dim i gael cytundeb cenedlaethol ar bwnc eu cyflogau, a'r cytundeb lleol (h.y. ar gyfer De Cymru), a fodolai ar y pryd, i ddod i ben ar ddiwedd Ionawr 1934. Yn yr ysgrif flaen hon gwelir mor druenus oedd sefyllfa'r glowyr, gyda rhai ohonynt yn derbyn cyflogau a

oedd hyd yn oed yn is na budd-dal y dôl; gwelir hefyd mor ystyfnig oedd meistri'r pyllau yn eu gwrthwynebiad i gytundeb cenedlaethol:

*YMHEN ychydig dros ddeufis, sef Ionawr 31, 1934, y mae'r cytundeb sy'n rheoli cyflogau yn y pyllau glo yn Ne Cymru yn dyfod i ben. Ar ôl hynny bydd rhyddid i'r naill ochr neu'r llall roddi mis o rybudd yn galw am gyfnewidiad.*

*Fel y dengys hanes, y mae adegau fel hyn yn fynych yn arwain i streic neu gloi allan a helynt dianghenraid, yn unig o eisiau penderfynu mewn pryd ar gwrs boddhaol i'r ddwyblaid.*

*Eisoes y mae rhai pobl yn pryderu, a chan fod cymaint o fusnes yn dibynnu ar fod prynwyr glo (mewn gwledydd tramor yn arbennig) yn weddol sicr yn eu meddyliau am gwrs prisiau ymlaen llaw, fe deimlir ei bod yn hen bryd i gwestiwn cyflogau'r flwyddyn nesaf gael ei setlo.*

*Nid yw'r ffaith fod heddwch wedi teyrnasu yn y maes glo eleni yn profi bod y glowyr yn fodlon ar eu henillion a'r dull presennol o'u penderfynu.*

*Ar hyn o bryd, dibynna'r cyflog ar yr 'audit' ar werthiant ac elw'r glo. Yn lle hynny, deisyfiad yr Undeb ydyw i isrif cyflog gael ei sefydlu ar sylfaen costau byw.*

*Nid De Cymru'n unig sy'n galw am y cyfnewidiad, ond cyfundeb y glowyr drwy Brydain.*

*Siaradwyd yn gryf iawn dros hyn, ar ran glowyr y wlad gan ddau Gymro - Mr. J. Griffiths a Mr. Gordon Macdonald, A.S. (brodor o Waenysgor, Sir Fflint) - gerbron cynhadledd y Blaid Lafur yn Hastings eleni, ac fe basiwyd i gefnogi'r cynigiad i osod yr isrif cyflog fel yr oedd yn 1914 gyda'r codiad yng nghostau byw er hynny ato.*

*Rhoddodd Mr. Griffiths a Mr. Macdonald enghreifftiau o lowyr yn y De ac yn Lancashire oedd yn gweithio ac yn derbyn llai na phe baent ar y 'dole'.*

*Efallai y cytunai'r meistri glo i gyfnewidiad yn y dull o sylfaenu'r cyflog, ond ar gwestiwn arall, yr un mor hanfodol, y maent hyd yn hyn drwy'r wlad i gyd o'r bron fel adamant.*

*Ar hyn o bryd y mae gan bob maes glo - De Cymru, Sir Efrog, Sgotland, ac felly'n y blaen - ei gytundeb ei hun - dyna'r hen arfer. Ond y mae Cynghrair Glowyr Prydain, sydd â phob undeb lleol yn perthyn iddo - wedi penderfynu cael un cytundeb cyflog i'r holl feysydd, ac ers blwyddyn a rhagor y mae wedi bod yn gweithio tuag at fod y glowyr ymhob man yn mynnu cytundeb cenedlaethol fel hyn i gymryd lle'r cytundebau lleol sy'n diweddu mis Ionawr nesaf.*

*Mae prif wŷr yr Undeb eisoes wedi cael ymgom â Gweinidog y Mwnfeydd, Mr. Ernest Brown. Fe adroddodd Mr. Oliver Harris, ysgrifennydd Undeb De Cymru a'u cynrychiolydd ar y ddirprwyaeth, wrth gyfarfod o'i bwyllgor gweithiol, bod agwedd y Gweinidog yn bur anfoddhaol.*

*Cais y mwnwyr ydoedd bod bwrdd cenedlaethol yn cael ei greu i drafod a setlo cwestiynau cyflog ac amodau gweithio dros yr holl wlad, ac ateb y gweinidog ydoedd y byddai'n anodd gorfodi'r meistri i ddyfod i mewn i gynllun felly heb hefyd fabwysiadu egwyddor cyflafareddiad gorfodol.*

*Y mae'r mwnwyr yn erbyn, a daliant y gellid sefydlu bwrdd effeithiol i drin cyflogau heb hynny.*

*Y maent yn awr yn ceisio gair â'r Prif Weinidog ei hun, i'w atgofio ei fod ef wedi pleidio'r syniad o gytundeb cenedlaethol lawer gwaith. Os bydd ef yn rhy brysur gyda Genefa a hyn a'r llall, y mae perygl i*

*Ionawr 31 wawrio heb ddim wedi cael ei wneud i gyfarfod deisyfiad y mwnwyr.*

*Un peth yn unig sy'n ymddangos yn sicr, sef na syfl y meistri ddim modfedd oddi wrth eu gwrthsafiad cadarn yn erbyn cytundeb cenedlaethol.*

*Tua 126,000 ydyw rhif y glowyr yn Ne Cymru ar hyn o bryd, ac y mae tua'r hanner yn aelodau o'r Undeb. Ddechrau 1933 yr oedd gan yr Undeb gronfa o £84,000.*

Ymddangosodd ysgrif flaen yn Y Cymro 3 Mawrth 1934 yn dangos unwaith eto mor debyg oedd sefyllfa druenus yr amaethwyr a'r glowyr ac mor anobeithiol oedd sefyllfa economaidd a diwydiannol yr oes, gyda pherchenogion y pyllau glo, fel arfer, yn dweud na allent fforddio talu cyflogau uwch. Mae hi hefyd yn dangos fel yr oedd un broblem bob amser yn effeithio ar un arall mewn cylch mawr dieflig, a gwelir bod y papur o'r farn mai'r unig ateb i'r broblem o geisio sicrhau **PRISIAU TEG** i'r gwahanol weithwyr oedd drwy chwyddo eu gallu i brynu cynnyrch ei gilydd:

*Y MAE prisiau nwyddau yn bwnc sydd yn cyffwrdd pawb, - ac yn bwnc sydd o bwys mawr i lowyr a ffermwyr Cymru ar hyn o bryd.*

*Y mae'r amaethwr sy'n gorfod gwerthu ei laeth a'i ymenyn am bris isel yn yr un ffos yn union â'r glowr sy'n cael llai na digon i fyw er gweithio'n galed o dan y ddaear i godi glo ar gyfer ein diwydiannau ac i gynhesu'n cartrefi.*

*Dylid croesawu pob ymdrech i sicrhau prisiau teg i amaethwyr am eu cynnyrch, canys yr hyn yw ei lafur i'r gweithiwr, dyna yw ei gynnyrch i'r amaethwr. Yr un egwyddor sydd i is-safon cyflog ag sydd i is-safon pris.*

*Yn rhy aml o lawer fe feddylir am brisiau yn nhermau ein manteision ein hunain, gan anghofio eu bod yn dermau bywoliaeth rhyw ddosbarth arall o bobl. Fe ddigwydd yn aml fod dywedyd bod rhyw nwydd yn rhy ddrud yn hollol yr un peth â phe haerid bod safon byw ei gynhyrchydd yn rhy uchel. Pe eid i'r drafferth i chwilio, odid na cheid bod y cwynwr yn mwynhau safon uwch o fywyd na'r un y dywed fod ei gynnyrch yn rhy ddrud.*

*Un o anawsterau'r ffermwyr heddiw yw bod gorlawnder o laeth yn peryglu'r pris, ac am hynny y mae'r Llywodraeth yn dod i'r adwy i warantu is-safon pris y llaeth nad oes alw amdano i'w yfed. Fe â'r llaeth yma i'r ffatrïoedd i'w droi'n ymenyn ac yn gaws.*

*Hyd yn hyn ni wnaed dim i sicrhau is-safon pris am ymenyn a wneir gartref, yr hyn yw ffon bara miloedd o dyddynwyr Cymru, a gwlad o dyddynwyr yw Cymru amaethyddol.*

*Nid oes dim amheuaeth nad yw hi'n bur gyfyng ar filoedd o dyddynwyr Cymru i gael y ddeupen ynghyd heddiw. Nid yw'r prisiau a gânt am eu cynnyrch yn fywoliaeth.*

*Dosbarth lluosog arall yng Nghymru yw'r glowyr, sydd ar hyn o bryd yn ceisio cytundeb i sicrhau cyflog gwell. Dywedant yn bendant na allant ddal ymlaen ar y cyflogau a delir ar hyn o bryd. Ac ateb y perchenogion yw na all y diwydiant fforddio i dalu rhagor, er cydnabod eu bod yn cydymdeimlo â chais rhesymol y gweithwyr.*

*Ym mhob diwydiant dyna'r ateb i bob sôn am gyflog uwch: "Ni ellir ei fforddio." A hanes pob diwydiant yw ei fod yn abl i gynhyrchu llawer*

*iawn mwy. Y mae gweithwyr pob diwydiant yn gwario eu cyflogau am gynhyrchion diwydiannau eraill. Yn y pen draw, dyna yw eu cyflog, eu safon byw. Y mae'n canlyn, felly, pe buasai pob diwydiant ar ei orau yn cynhyrchu, a'r cynnyrch hwnnw'n cyrraedd rhai ymhob diwydiant arall, y buasai safon byw pawb yn llawer iawn uwch na'r hyn ydyw. Fe fuasai digon o laeth ac ymenyn cartref yn cyrraedd bwrdd y glowr, ac ni buasai'r un tyddynnwr dan orfod cynilo ar y glo.*

*Ond am nad yw hynny'n digwydd y mae angen mawr mewn miloedd o gartrefi. Cerdda'r di-waith o gyrrau pellaf y wlad i Lundain i geisio sylw'r Llywodraeth. Ac yn ôl ffigurau'r Bwrdd Iechyd, a gyhoeddwyd yr wythnos hon, yr oedd 1,368,972 yn cael cymorth cyhoeddus ar y Sadwrn olaf yn Rhagfyr.*

*Nid yn unig y mae safon byw y miliynau sy'n cael tâl y di-waith a chymorth cyhoeddus yn warthus o isel, ond y mae eu cynnal yn gostwng safon byw y rhai sydd mewn gwaith. Ni raid i hynny fod.*

*Fe allai byddin fawr o ddynion parod i weithio fod yn ffynhonnell cyfoeth i wlad, yn lle bod yn faich arni. Fe ellid diwallu eu holl anghenion. Dyma'r farchnad, a'r unig farchnad, y mae gobaith ei hennill pan y mae marchnadoedd tramor yn diflannu.*

*Arwydd iach yw fod Undeb Cenedlaethol y Gwneuthurwyr yn sylweddoli hyn. "Y mae'n rhaid gofalu bod pobl Prydain yn cael y gallu i brynu y pethau y gall gwneuthurwyr Prydain eu gwneud", meddai Mr. T. H. Redfern wrth annerch cangen Manceinion o'r Undeb yn ddiweddar.*

Yr un yw cri Y Cymro yn ysgrif flaen rhifyn 2 Chwefror 1935, sy'n hynod feirniadol o'r mesur newydd a geisiai sicrhau fwy o gymorthdaliadau i'r di-waith, mesur oedd â'i amcanion yn ddigon teilwng ond a oedd yn ymarferol annheg ac yn un na chychwynnai ateb gwraidd y broblem, sef nad trwy roi iddynt fwy o fudd-daliadau, ond yn hytrach trwy chwyddo eu gallu i brynu pethau sylfaenol bywyd, yr oedd helpu'r anghenus. Sylwer ar arddull di-flewyn-ar-dafod yr ysgrif, yn enwedig erbyn y paragraffau clo:

Y DI-WAITH

*NI feirniadwyd yr un Mesur arall o eiddo'r Llywodraeth bresennol mor llym ag y beirniadwyd y Mesur newydd ynglŷn â chymorth y di-waith. Er nad oes ond rhyw dair wythnos er pan ddaeth y ddeddf newydd i rym, y mae aelodau o bob plaid a sect, yn y Senedd, yn yr Eglwysi, ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus, wedi beirniadu'r rheolau newydd yn llym.*

*Fe ddywedir gan awdurdodau'r Weinyddiaeth Lafur y golyga'r rheolau newydd ychwanegiad o dros £3,000,000 y flwyddyn yn nhâl y di-waith.*

*Nid oes le i amau'r amcangyfrif hwn, ond er hynny, y mae'n hollol eglur y bydd llawer mwy o deuluoedd yn dioddef oherwydd lleihau eu derbyniadau nag a fydd ar eu mantais oherwydd derbyn buddion uwch.*

*"Rhoddwch chwarae teg i'r rheolau newydd", meddai cynrychiolwyr y Llywodraeth, "ac aros nes gweled beth fydd eu heffeithiau cyn eu beirniadu."*

*Ni raid i deulu'r dyn di-waith wrth amser i ystyried effeithiau lleihau yr arian a roddir i'r penteulu tuag at fyw, a gwybod am y cyni sy'n bod, ac a waethygir bellach mewn miloedd o achosion, sy'n symbylu aelodau eraill o Gymdeithas i alw am ddiddymiad rheolau sy'n taro mor*

*drwm ar lawer aelwyd.*

*Fe geir manylion am y ddeddf ar dudalen arall, a gwelir oddi wrthynt pa mor warthus o isel yw'r safon byw a osodir gan y rheolau.*

*Fe ddywedir bod sefyllfa'r wlad yn gwella - fe ddywedwyd hynny yn gyson yn ystod y tair blynedd diwethaf. Os cywir hyn, onid rheswm yw dros beidio gwasgu cymaint ar anffodusion y dirwasgiad, canys fe ddisgwylir i'r rhan fwyaf ohonynt fyw ar safon is nag yng nghyfnod argyfwng 1931?*

*Fe ddywedir bod masnach yn dioddef oherwydd nad oes digon o brynu. Ai trwy leihau gallu 3,000,000 a mwy o drigolion Prydain i brynu angenrheidiau bywyd y mae gwella masnach?*

*Nid oes brinder arian pan fydd eisiau adeiladu llong neu dwnel. Ond pan y mae galw am roddi help i ddynion a merched fyw, buan iawn y gwelir cwyno a grwgnach yng nghylchoedd swyddogol Llundain.*

*Hyderwn y bydd i'r wlad ddefnyddio pob mesur cyfreithlon i orfodi'r Llywodraeth ddelio â'r di-waith mewn dull anrhydeddus a Christnogol.*

Yn anffodus nid yr oedolion yn unig a ddioddefai effeithiau'r Dirwasgiad oblegid yr oedd miloedd ar filoedd o fechgyn a merched a adawai yr ysgol yn darganfod ei bod bron yn amhosibl cael gwaith parhaol. Y rheswm pennaf am hyn oedd diffyg unrhyw fath o waith addas ar eu cyfer yn lleol, gydag unrhyw obaith am gyflogaeth fel arfer rai cannoedd o filltiroedd i ffwrdd: yn naturiol, nid oedd rhieni'r bobl ifainc hyn yn awyddus i'w gweld yn gadael eu broydd am ardaloedd cwbl wahanol a dieithr; yr oedd y ffaith bod y rhieni eu hunain mor dlawd hefyd yn golygu na allent yn aml iawn fforddio talu i'w plant deithio i weld cyflogwyr posibl hyd yn oed, heb sôn am eu cynorthwyo yn ystod eu misoedd cyntaf oddi cartref pe llwyddent i gael gwaith:

<u>**PROBLEM Y PLANT**</u> (18 Mai 1935)

*ADRODDIADAU pwysig yw'r rhai a gyflwynir i'r Weinyddiaeth Lafur gan y pwyllgorau lleol sy'n ceisio cael gwaith i'r bechgyn a'r genethod sy'n gadael yr ysgolion.*

*Y mae'r crynodeb a gyhoeddwn o'r adroddiadau am 1934 yn dangos beth yw rhai o'r problemau sy'n wynebu'r pwyllgorau hyn, ac yn bennaf oll yn wynebu'r rhieni.*

*Ymddengys mai problem y plant a gafodd fanteision addysg ganolradd yw'r anhawddaf, canys ni all y pwyllgorau hyn yn eu byw gael gafael ar waith addas iddynt, gwaith a roddai gyfle i'w talentau a'r addysg a gawsant brofi'n fuddiol. Canlyniad hyn yw bod plant wedi cael addysg dda yn gorfod cymryd gwaith nad yw'n arwain i unman.*

*Fel rheol ni ellir cael gwaith i'r dosbarth hwn yn eu tref eu hunain, ac er bod cyfle'n aml am waith addas mewn tref neu ddinas bell, ni ellir dal arno oherwydd nad yw'r cyflog ar y cychwyn yn ddigon i gadw'r plant. Oherwydd nad all y rhieni fforddio i helpu cadw eu plant ar gychwyn eu gyrfa oddi cartref, nac hyd yn oed dalu costau teithio ôl a blaen i dref ychydig filltiroedd i ffwrdd, rhaid gadael i'r cyfle fyned i'w golli.*

> *Yn wir, mewn llu o achosion, ni all rhieni fforddio talu treuliau eu bechgyn i fyned ymhell i weled a siarad â chyflogwyr tebygol.*
>
> *Awgryma pwyllgor sir Gaernarfon mai bendith fyddai cael Cronfa Gymorth ar gyfair yr achosion hyn, ac y mae adroddiadau pob pwyllgor bron yn cadarnhau'r angen am ryw drefniant o'r fath.*
>
> *Dengys yr adroddiadau hefyd fod plant sy'n byw mewn cartrefi anhygyrch dan anfantais arbennig, a'r canlyniad mewn rhai parthau yw na ellir rhoddi dim sylw o gwbl i dueddiadau naturiol y plant eu hunain, gan nad oes iddynt ond un neu ddau ddewis.*
>
> *Ymddengys bod nifer o blant yn cael lle yn weddol hawdd wrth adael yr ysgol, ond dim ond lle dros dymor, a phan ddaw'r bachgen yn 16 oed rhaid iddo gilio o'r neilltu a chymer bachgen ieuengach ei le, am gyflog is. Y mae hyn yn gamwri diwydiannol y dylid ei unioni er mwyn lles y genedl.*
>
> *Arwydd da yw bod y rhagfarn yn erbyn gweini mewn llawer ardal yn cilio, ond er hynny y mae'n aros o hyd yn anhawster i'r pwyllgorau hyn. Da y gwna'r pwyllgorau rybuddio rhieni rhag anfon eu genethod ar antur i dai dieithr, ac y mae rhieni'r cymoedd glo yn canfod mai diogelach yw i'w genethod fyned i gartrefi da na myned i ffatri oddi cartref a byw mewn llety.*
>
> *Ni raid synnu fod bechgyn rhai ardaloedd gwledig yn anhueddol i fyned ar y tir, a bechgyn ardaloedd glofaol am osgoi'r pwll glo.*
>
> *Y mae cysylltiad agos rhwng cyflogau ac amodau teg mewn diwydiant â phroblem gwaith i'r ifanc. Y mae'r broblem yn un ddiwydiannol, yn un wleidyddol, ac yn un gymdeithasol.*
>
> *Ni chaiff yr ifanc chwarae teg oni bo enillion eu rhieni yn rhesymol, a rhaid adferyd i waith ei urddas a'i wobr deilwng os ydym am i'r ifanc beidio â'i osgoi.*
>
> *Fe gredwn ni y dylai helpu'r ifanc i gychwyn eu gyrfa mewn gwaith â rhyw ragolwg ynglŷn ag ef ddod o flaen adloniant a phleserau, ac yn sicr dyma bwrpas addas i'r Gronfa Jiwbili a godwyd yn ateb i apêl Tywysog Cymru.*

Penderfyniad a ysgytwodd Dde Cymru ac a achosodd sioc a chwerwedd drwy'r ardal oedd un y Mri. Richard Thomas a'u Cwmni i symud eu gweithfeydd tunplat a dur o Lanelli, Gorseinon, a Threforus. Yr oedd y ffaith bod De Cymru i ddioddef hyd yn oed mwy o ddiweithdra a thlodi mewn ardal oedd eisoes yn hynod ddirwasgedig yn ddigon drwg ynddo'i hun, ond yr hyn a chwerwai'r sefyllfa ymhellach oedd y teimlad cyffredinol a fodolai bod y cwmni wedi gwneud elw anferthol yng Nghymru ac yna wedi bradychu'r union bobl hynny a'i cynorthwyodd i wneud yr elw hwnnw. Meddai Gohebydd Diwydiannol Y Cymro wrth gloi ei adroddiad (a ddyfynnir yn llawn yn y bennod flaenorol) ar dudalen flaen rhifyn 20 Gorffennaf 1935 o'r papur, CYMRY'N UNO I ATAL SYMUD GWEITHFEYDD I LOEGR:

> *....Enillodd Mri. Richard Thomas a'u Cwmni arian mawr yng Nghymru a heddiw, pan y mae ganddynt filiwn o bunnau i'w gwario ar godi gweithfeydd newydd, y maent yn trefnu i wneuthur hynny yn Lloegr! Paham*

*na chedwir yr arian hyn yng Nghymru a chodi gweithfeydd modern yma?*
*Dywedir mai mantais codi'r gweithfeydd yn Redbourne yw fod digon o fwn haearn wrth law yno. Fe ellid cludo hwnnw i Gymru ar anhraethol lai o gost na'r hyn a achosa'r difrod o symud i swydd Lincoln.*
*Er mai cyfran yn unig o gynnyrch Cymru a fygythir ei ddwyn oddi arni ar hyn o bryd y mae'n eithaf posibl y symudir y cyfan os try'r anturiaeth yn llwyddiant. Bwriedir gwneuthur hyn heb roddi unrhyw ystyriaeth i fuddiannau ardaloedd pwysig fel hyn. Fe welir cwmnïau cyfoethog yn cau gweithfeydd ac yn gorfodi'r awdurdodau lleol ddwyn y beichiau enfawr o estyn cymorth i deuluoedd a adawyd heb unrhyw obaith bywoliaeth.*

Ategir y teimladau cryfion hyn yn ysgrif flaen yr wythnos, BRWYDR ARALL:

*FE wnaeth y Prif Weinidog apêl ychydig ddyddiau'n ôl at berchenogion gweithfeydd i'w datblygu yn yr ardaloedd hynny sy'n dioddef fwyaf oddi wrth brinder gwaith.*
*Yn fuan wedi i Mr. Baldwin draddodi'r araith ym mha un y gwnaed yr apêl hon, fe gyhoeddodd cadeirydd Mri. Richard Thomas a'i Gwmni fod y cwmni'n bwriadu adeiladu gweithfeydd alcan newydd yn Redbourne, swydd Lincoln. Bwriedid gwario miliwn o bunnau ar y gweithfeydd hyn, a chau wyth gwaith yn Neheudir Cymru sy'n cyflogi dros bedair mil o ddynion yn uniongyrchol, heblaw rhoddi gwaith yn anuniongyrchol i filoedd eraill.*
*"Gallwn gynhyrchu mwy o blatiau tun yno", meddai cadeirydd y cwmni, "a chynilo £200,000 y flwyddyn."*
*Ni roddodd y cwmni'r ystyriaeth leiaf i effaith y penderfyniad hwn ar fywyd miloedd o drigolion De Cymru. Gwneud elw yw amcan y cwmni, ac amlwg yw nad yw'n cydnabod unrhyw ymrwymiad moesol i gadw'r gweithfeydd yn agored yng Nghymru.*
*Ond bydd gan drigolion y wlad lawer i'w ddweud ar y mater, a da yw gweled fod awdurdodau lleol ac Aelodau Seneddol Cymru wedi symud yn y mater ar unwaith.*
*Y mae dweud nad oes gan y Llywodraeth hawl i gyffwrdd ag amcanion y cwmni yn hollol anghywir. Fe roddwyd tollau ar nwyddau tramor i amddiffyn, ym mysg gweithfeydd eraill, y rhai a berthyn i'r cwmni hwn. Os dyma yw effaith amddiffyniad o'r fath buasai'r wlad yn unol tu ôl i'r Llywodraeth pe dywedai wrth y cwmni hwn nad yw i fanteisio ar yr amgylchiadau i'r graddau y bwriada.*
*Y mae effeithiau symud gweithfeydd Merthyr a Dowlais i Gaerdydd i'w gweld yn amlwg heddiw yng nghylch Merthyr, a'r un a fyddai effeithiau symud gweithfeydd Mri. Richard Thomas a'i Gwmni o Abertawe a'r cylch i ddwyrain Lloegr.*
*Fe ddaeth yr adeg pan y dylai'r Llywodraeth reoli lleoliad gweithfeydd newydd, a da fyddai pe rhoddid mewn gweithrediad reolau fyddai'n bendant ar y mater hwn. Nid oes gan yr un perchennog hawl i ddefnyddio amgylchiadau a grewyd iddo gan Lywodraeth y wlad i'w fanteision ei hun, ac fe ddylai'r egwyddor hon gael ei sefydlu ar unwaith.*
*"Fe ddylai diwydiannau newydd, yn enwedig y rhai sy'n manteisio oddi wrth dollau, gael trwydded gan awdurdod a benodwyd gan y Gweinidog Llafur cyn y gellir cychwyn sefydlu gwaith newydd", meddai Mr. Malcolm Stewart, Dirprwywr yr Ardaloedd Dirwasgedig, mewn adroddiad a gyflwynodd i'r Llywodraeth ddydd Iau. Pe mabwysiedid cynllun o'r fath, ni fyddai angen i lawer ardal yn Neheudir Cymru bryderu oherwydd tuedd perchenogion gweithfeydd i'w symud oddi yno.*

*Hyderwn y bydd y rhai sy'n brwydro dros fuddiannau ardaloedd yn Neheudir Cymru yn llwyddiannus yn eu hymdrech i sicrhau tegwch i'r gweithwyr a'u teuluoedd.*

Gwelir effaith y symud hwn yn yr ysgrif flaen <u>YSTYR SYMUD</u> o'r <u>Cymro</u> 24 Awst 1935, ac fel y dywedir isod, nid bywydau unigolion yn unig sydd yn y fantol pan fo dynion yn gorfod symud o froydd eu mebyd i chwilio am waith; i genedl fechan megis Cymru mae ei holl galon a'i bodolaeth mewn perygl o gael eu dinistrio am byth:

*PRAWF o fethiant gwlad i drefnu ei thŷ ei hun yn briodol yw bod eisiau meddwl am symud dynion er mwyn rhoi gwaith iddynt. Yr oedd yn naturiol ac yn anghenraid ar lwythau bugeiliol yr hen fyd symud o fan i fan ar ôl y borfa, a rhaid i'r heliwr yntau gyrchu ar ôl ei fwyd. Ond ar ôl dysgu trin y tir a dyblu a threblu ei gynnyrch, ar ôl canfod y ffordd i droi nwyddau crai yn foddion bywyd helaethach, a medru symud cynnyrch o bob math yn rhwydd ac yn fuan o le i le, gwnaethpwyd bywyd sefydlog, addas i dwf diwylliant, yn bosibl.*

*Ond yr hyn a welwn heddiw yw bod datblygiadau diwydiannol diweddar yn ansefydlogi bywyd dynion. Myn diwydiant symud, nid oherwydd dim rhaid er mwyn na marchnad na chyflenwad o ddefnyddiau crai, ond am mai elw yw unig nod diwydiant. Ni adnebydd ac ni chydnebydd diwydiannaeth mo'r gwerthoedd cymdeithasol.*

*Hwyrach y dadlau rhai nad yw ddim gwahaniaeth yn y byd ymha le y bydd dyn ond iddo fedru ennill ei fywoliaeth yno. Gwell i'r Cymro gael gwaith a chyflog yn Dagenham na dirywio mewn seguryd a thlodi yn y Rhondda. Tuedd diwydiant heddiw yw symud i siroedd de Lloegr, a'r unig beth, meddir, yw i'r gweithwyr ddilyn yno hefyd.*

*Fe olyga hyn lawer mwy i'r Cymro nag a olyga i weithwyr diwydiannol Lloegr. Y mae ynddo berygl dinistrio cenedl, a hynny, o gario'r cynlluniau symud i'w heithafion, yn fwy llwyr nag y dinistrir cenedl wan gan wlad gref a ymosodo arni gyda byddinoedd arfog. Fe all diwydiannaeth mewn heddwch andwyo cenedl mor wir ag y gwna milwriaeth trwy ryfel.*

*Fe siaradodd Mr. Elffin Rees, ysgrifennydd Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru, wrth annerch ysgol haf yr wythnos hon, yn bur blaen ar y pwnc hwn. Dangosodd mai ystyr symud dynion yw mynd â'r ifanc a'r gorau ymaith, mynd â'r rhai â deunydd arweinwyr ymhob cylch ynddynt a gadael yr ardaloedd i edwino'n araf, ond sicr.*

*Nid oes ar ddiwydianwyr Lloegr eisiau'r rhai sydd ymhell yn y canol oed, dim ond yr ifanc a'r cryf a'r medrus sydd eisiau i wylio peiriannau'r gweithfeydd newydd yn Lloegr.*

*Y mae yn y cynlluniau hyn i symud dynion lawn mwy o berygl i'n cenedl nag oedd yn nylifiad yr estron i'n gwlad pan oedd angen diwydiannaeth y cyfnod hwnnw'n galw amdanynt.*

*Odid na buasai'n haws dygymod â'r symud hwn pe bai'n golygu dychwelyd i'w gwlad eu hunain y rhai y dywedodd Mr. Rees amdanynt "na buont erioed yn perthyn i ni, rhai a ddinistriodd ein hiaith a gwanhau'n diwylliant."*

*Ond ar wahân i ystyriaethau cenedlaethol, polisi anobaith yw symud dynion wrth y miloedd o'u gwlad eu hunain. Fe all olygu datrys problem economaidd, ond dim ond dros dro y gwna hynny. Cwbl ansicr yw seiliau diwydiannaeth oni byddo diwydiannau yn hollol gytbwys ag*

*amaethyddiaeth. Dim ond gohirio'r dydd drwg - neu brysuro dydd gwaeth - yw heidio miloedd ynghyd mewn canolfan diwydiannol mawr. Felly, nid yn unig y mae traul gymdeithasol y fantais economaidd yn rhy fawr, ond y mae'r fantais economaidd ei hun yn debyg o brofi'n fantais ddigon diwerth, os nad yn anfantais, yn y pen draw.*

*Y mae'n hen bryd dod i ddeall mai nid da i genedl na chymdeithas yw meddwl yn unig am y manteision a elwir yn economaidd. Y mae yna werthoedd eraill yn perthyn i fywyd dyn a chymdeithas. Cofio hynny a roddai i ni economeg newydd a gwell na'r un sydd ynghlwm wrth fuddiannau'r ychydig ar y pryd.*

Ysgrif flaen sy'n dangos mor wirioneddol druenus oedd cyflogau rhai o lowyr y cyfnod yw'r un a ymddangosodd yn Y Cymro 28 Medi 1935 dan y pennawd **EDRYCHWN GARTREF**. Ynddi dangosir fod rhai'n derbyn cyn lleied â 15/1 am weithio pedwar diwrnod yr wythnos, cyflog gwarthus o isel, serch y ffaith fod y cyhoedd yn talu pris uchel am eu glo hwythau:

*DIAU y bydd cydymdeimlad y mwyafrif mawr o drigolion Cymru gyda'r glowyr yn eu cais am gyflogau gwell. Ar hyn o bryd ymddengys nad yw'r meistri'n barod i dalu llawer o sylw i'w cais, ac eisoes fe glywir sôn am ddefnyddio'r streic fel offeryn i sicrhau cyflogau rhesymol.*

*Fe ddywedodd un o swyddogion Undeb y Glowyr mai 42/- yr wythnos oedd cyfartaledd cyflogau glowyr De Cymru a bod yn amhosibl i lawer ennill mwy na 33/- yr wythnos.*

*Fe ddywedwyd gan swyddog glowyr y Gogledd mai 25/11 yw cyflog rhai o'r gweithwyr yn sir Ddinbych ac fod llawer yn gweithio pedwar diwrnod yr wythnos am gyflog o 15/1.*

*Cytunwn yn hollol â'r swyddog a ddywedodd fod amgylchiadau o'r fath yn "warth ar wareiddiad."*

*Rhaid i'r cyhoedd dalu pris uchel am lo - pris sy'n gwbl anghymesur â'r cyflog a delir i'r glowr ac â'r pris a dderbynia'r cwmnïau am y glo. Dan y gyfundrefn bresennol y mae llawer gweithiwr yn derbyn llai nag a ddylai am ei lafur caled. A hyn pan y mae llawer na ofynnir iddynt weithio ond ychydig iawn, os o gwbl, yn manteisio ar lafur eraill.*

*Nid yn unig ynglŷn â glo y mae agendor anodd i'w esbonio ac anoddach i'w gyfiawnhau rhwng y tâl a dderbyn y cynhyrchydd a'r pris a delir gan y cyhoedd. Ac nid bob amser y cofir am yr agendor hwn pan elwir ar y Llywodraeth i estyn cymorth o bwrs y wlad i geisio hybu diwydiannau.*

*Cyfeiriwn yr wythnos hon at yr ymgais a wneir i ail-agor gwaith glo a dur Glyn Ebwy - gwaith sydd wedi dioddef yn enbyd yn ystod y chwe mlynedd diwethaf. Adroddir y byddai'n bosibl rhoddi gwaith i filoedd o drigolion y cylch pe rhoddai'r Llywodraeth ychydig o gymorth ariannol i'r perchnogion. Dyma ardal lle y mae tri o bob pedwar o'r dynion allan o waith, ac y mae hyn yn effeithio, nid yn unig ar y cylch cyfagos, ond ar sir Fynwy yn gyffredinol.*

*"Pe deuai rhyfel," meddai aelod o Gyngor Casnewydd, "buasai mynd ar weithfeydd Glyn Ebwy, a buasai arian yn rhedeg fel dŵr."*

*Dengys y ffeithiau uchod fod llawer i'w wneud cyn y bydd gobaith dyddiau gwell ym mywyd glowyr a gweithwyr eraill Cymru. Credwn mai'r unig ffordd i newid y gyfundrefn anfoddhaol sy'n bod ar hyn o bryd yw trwy i werin Cymru orfodi pa Lywodraeth bynnag a fo mewn awdurdod i*

*wynebu'r ffeithiau a gweithredu heb ymboeni am fuddiannau y dosbarth sydd wedi manteisio cymaint yn y gorffennol ar lafur eraill.*

*Os yw'r Cyngor Gweithredu, yr hysbyswyd ei ffurfio yn y rhifyn diwethaf o'r 'Cymro' i wasnaethu ein hoes ni, byddai'n dda iddo ganolbwyntio ar y rhan honno o'r rhaglen sy'n ymwneud â'r angen i adfywio diwydiannau Cymru a cheisio gwaith parhaol i weithwyr ein gwlad a chyflog teg am eu llafur.*

Ymddangosodd ysgrif flaen drist ac eironig yn Y Cymro 11 Gorffennaf 1936, er gwaethaf y pennawd CODI'R WLAD a'r paragraff agoriadol gobeithiol, yn dangos fel yr oedd y Llywodraeth yn anwybyddu Cymru ar y naill law ond eto'n fodlon manteisio arni pan oedd hynny'n fuddiol iddi. Ynglŷn â mater y Dirwasgiad, a phroblemau diweithdra yn Ne Cymru, nid oedd y Llywodraeth wedi gwneud unrhyw ymdrech wirioneddol i geisio lliniaru rhywfaint ar y sefyllfa, a'r tristwch mawr amdani, fel y dywed y gŵr yn yr ysgrif isod, oedd y buasai arweinwyr gwledydd Prydain wedi hen wneud rhywbeth petai'r broblem rywfaint yn nes at Lundain. Fodd bynnag, ar yr un pryd yr oedd Cymru'n gyfleus iawn fel lle i'r Llywodraeth ei ddefnyddio i baratoi ar gyfer rhyfel ac felly gwelir unwaith eto nad oedd Cymru'n ddim ond darn o dir i'r Llywodraeth ei ddefnyddio yn ôl ei mympwyon hunanol eu hunan, heb boeni dim mewn gwirionedd ynghylch lles ei phobl:

CODI'R WLAD

*BU dwy ymdrech neilltuol yr wythnos ddiwethaf i geisio codi'r hen wlad yn ei hôl ac achos llawenydd i bawb fydd gweled cynrychiolwyr awdurdodau cyhoeddus ar y naill law, a chynrychiolwyr y gwahanol ddiwydiannau ar y llaw arall, yn cyfarfod i ystyried beth a ddylid ei wneuthur i fywiogi masnach Cymru ac i godi'r miloedd gweithwyr o ddyffrynnoedd cyni ac eisiau a'u gosod ar ucheldir hapusrwydd a llawnder.*

*"Petasai Deheudir Cymru o fewn ugain milltir i Lundain, buasai'r broblem wedi ei setlo flynyddoedd yn ôl", meddai Arglwydd Portal, a bydd pawb sy'n gwybod tueddiadau awdurdodau'r Llywodraeth yn barod i gadarnhau'r farn hon. Ein hanfantais ni yng Nghymru yw ein bod allan o'r cyrraedd, a bod ein harweinwyr mor amharod i gydweithredu gyda'r amcan o orfodi'r Llywodraeth i weinyddu cyfiawnder tuag at ran o'r wlad sydd wedi dioddef mwy nag unrhyw ran arall oddi wrth y dirwasgiad cyffredinol.*

*Gadawyd i'r naill waith ar ôl y llall symud o Gymru i Loegr, a phwy all ddychmygu tristwch y gweithwyr a'u gwragedd wrth weled moddion eu cynhaliaeth yn cael eu cludo i ffwrdd tra y gadewir hwynt i dderbyn cardod oddi ar law rhyw bwyllgor neu gymdeithas?*

*A beth a gynigir i Gymru yn lle'r gweithfeydd cynhyrchu hyn? Dim ond ffatri arfau neu ddwy, ac ysgol fomio, a phethau o'r fath. Anfantais i Gymru yw ei bod mor bell ag y mae o ganolbwynt y*

*Llywodraeth, eithr mantais i'r Llywodraeth yw fod ganddi Gymru i'w defnyddio fel maes i baratoi ar gyfer rhyfel - lle sydd yn ddigon pell o wledydd y Cyfandir iddi ofni llawer oddi wrth ymosodiadau arni ar adeg rhyfel.*

*Nid oedd gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ynglŷn â bwriad y Llywodraeth ddim i'w gynnig ond addewid y byddai i sefyllfa diwydiannau Cymru gael ei hystyried pan ddeuai cyfle.*

*Bydd Cymru'n disgwyl llawer oddi wrth y pwyllgor a benodwyd yn y Gynhadledd a fu yn Llundain dydd Mercher. Arno fe welir cynrychiolwyr perchenogion y gweithfeydd a'r gweithwyr, a phe gellid sicrhau'r cydweithrediad a amlygwyd yn y Gynhadledd hon, ni fyddai'n hir cyn y gwelid effaith gwaith y pwyllgor.*

*Mudiad arall sy'n debyg o wneuthur llawer i hyrwyddo masnach Cymru yw'r Cyngor Datblygu Diwydiannau Cymru. Cytunodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol Môn ac Arfon mewn cyfarfod a fu yng Nghaernarfon, i gymeradwyo amcanion y Cyngor hwn i'r gwahanol awdurdodau, a hyderwn y gwelir y Cyngor hwn yn cynrychioli Cymru gyfan yn y dyfodol agos.*

*Y mae gwir angen rhoddi o'r neilltu bob ystyriaeth blwyfol, a sicrhau cydweithrediad cyffredinol, er sicrhau manteision i'r wlad yn gyffredinol. Un ffordd i sicrhau hynny yw drwy gael trafnid rhwydd rhwng De a Gogledd. Yn y cynllun a gyhoeddwyd yr wythnos hon ynglŷn â chenedlaetholi'r ffyrdd, hysbyswyd fod y Llywodraeth o ddechrau Ebrill nesaf i gymryd gofal y ffordd o Gasgwent i Abergwaun, a'r ffordd o'r Waun i Gaergybi. Y cam nesaf fydd sicrhau Ffordd Genedlaethol o Landudno i Gaerdydd, ac felly hyrwyddo trafnidiaeth rhwng y naill ran o Gymru a'r llall.*

Heb os, un o rifynnau mwyaf cofiadwy Y Cymro o'r cyfnod dan sylw yw un 21 Tachwedd 1936 yn dilyn ymweliad y Brenin Edward VIII â rhai o ardaloedd mwyaf dirwasgedig De Cymru, ymweliad a groesewid gan filoedd lawer o drigolion mwyaf difreintiedig gwledydd Prydain ac ymweliad hynod boblogaidd hefyd am fod y Brenin wedi dangos ei fod yn cydymdeimlo â'u sefyllfa. Nid yn unig hynny, yr oedd hefyd yn ymweliad a gododd gryn obaith y gwneid rhywbeth cadarnhaol, o'r diwedd, ynghylch yr holl dlodi a dioddefaint, wedi i'r Brenin fynd yn ôl i Lundain i adrodd am yr hyn a welodd, ond yr eironi mawr yw'r ffaith i'r newydd am ei berthynas â Mrs. Simpson dorri ychydig ddyddiau'n diweddarach gan arwain at ei ddadorseddiad yn fuan wedyn: i bob pwrpas felly yr oedd ei ymweliad â De Cymru yn ofer.

Yn ysgrif flaen yr wythnos, NEGES Y BRENIN (a ddyfynnir yn llawn yn yr adran o'r bennod hon sy'n ymwneud â'r Frenhiniaeth), a ysgrifennwyd cyn y torrodd y newydd am Mrs. Simpson, gwelir Y Cymro yn mynegi'r un gobaith a deimlid gan bawb yn Ne Cymru yn dilyn yr ymweliad hanesyddol hwn; meddai'r paragraff clo:

*....Ni haerai neb y gall ymweliad y Brenin ynddo'i hun leddfu'r cyni. Gwaith y gwladweinwyr a'r diwydianwyr, ie, gwaith cenedl yw hynny. Os bydd yr ymweliad yn symbyliad i ddeffro'n gwladweinwyr ac ennyn yr ysbryd y gofynnai Mr. Malcolm Stewart amdano, yna nid ofer fydd tro'r Brenin i'r De.*

Y dydd Iau canlynol, 26 Tachwedd, cyflwynwyd 'y ddeiseb fwyaf cynrychioladol a roddwyd erioed gerbron y Senedd' yn Nhŷ'r Cyffredin, gan Syr William Jenkins A.S. ar ran ardaloedd dirwasgedig y De; meddai'r Cymro yn ysgrif flaen yr wythnos dan y pennawd arwyddocaol ACHUB CYMRU:

*NID maint y cyni yn ardaloedd y cysgodion yn Neheudir Cymru yw mesur llawn y trychineb a olyga esgeuluso cymryd camau eofn i symud y cymylau a dwyn heulwen i fywyd y miloedd o deuluoedd sy'n gobeithio yn erbyn gobaith am waredigaeth. Y mae symud darn o genedl yn rhywbeth llawer mwy difrifol na symud teuluoedd o fewn cyffiniau cenedl.*

*Fe bwysleisir hyn yn glir yn y ddeiseb sydd wedi ei chyflwyno i'r Senedd yn galw sylw at gyflwr arbennig Deheudir Cymru. Ni ellid cael deiseb fwy cynrychioliadol, canys ciliodd y rhagfur rhwng Eglwyswr ac Ymneilltuwr, trefwr a gwladwr, ac unodd gwŷr amlwg ym mhob cylch ar fywyd, yn faerod a gwŷr busnes, ynghyd â chynrychiolwyr pob awdurdod cyhoeddus, a phob aelod Seneddol o'r Deheudir i bwyso ar y Llywodraeth i symud heb oedi i waredu'r cymoedd trist o'r adwyth a ddaeth arnynt.*

*Ffaith ddigalon yw meddwl bod 280,000 wedi eu symud o Gymru yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf, canys y mae hyn yn ddyrnod i genedl heb fod gymaint â mantais gymesur yn lleihad y di-waith yn dilyn fel esgus o iawn am hynny.*

*Bellach, y mae Cymru yn dysgu siarad ag un llais, ac i'r graddau y gwna hynny y caiff ei hawliau a'i hanghenion sylw'r Llywodraeth.*

*Y mae aelodau Cymru hefyd yn symud i adnewyddu'r ymdrech am Ysgrifennydd i Gymru. Rhaid i'r ymdrech hon gael cefnogaeth unol. Gall na bydd Ysgrifennydd yn waredwr i'n cenedl, ond fe fydd o leiaf yn glust i wrando'n cwynion rhesymol, ac yn symbyliad, efallai, i ni siarad ag un llais yn amlach.*

COLLI'R IFANC yw pennawd gor-gyfarwydd ysgrif flaen Y Cymro 1 Mai 1937, ac er ei bod, fel yr awgryma'r teitl, yn ymdrin â phwnc a gafodd ei drin yn helaeth eisoes yn yr enghreifftiau uchod, sef yr ieuenctid yn symud o'u broydd genedigol i chwilio am waith, credaf ei bod yn werth ei dyfynnu am ei bod yn dangos yn well na'r un arall mor eang a phellgyrhaeddol oedd effeithiau hyn ar y cymunedau a adawyd ar ôl, a hynny ym mhob agwedd ar fywyd:

*AGWEDD dristaf adwyth anghyflogaeth yng Nghymru yw symud o'r ifanc o'u broydd eu hunain i ardaloedd diwydiannol yn Lloegr. Nid oes gan y Llywodraeth ddim arall i'w gynnig, ac ni fedd Cymru mo'r reolaeth ar ei bywyd ei hun a'i galluogai i lunio amgenach trefn.*

*Geilw gweinidogion y Deheudir sylw at y cyni mawr sy'n bod yn ardaloedd y dirwasgiad, gan ddangos effeithiau hynny ar y bywyd cymdeithasol a chrefyddol. Nid yn unig y mae'r wasgfa yn peri bod baich dyledion yn gorwedd yn drwm ar lawer o eglwysi, llu ohonynt heb fanteision gweinidogaeth gyson, ond y mae'r defnyddiau gwerthfawrocaf yn cael eu cymryd ymaith pan symudir yr ifanc o'u hardaloedd eu hunain.*

*Fe ddibynna parhad pob cymdeithas ar fod to newydd yn codi i gario ymlaen draddodiadau eu tadau mewn diwydrwydd gwaith ac amrywiaeth gwasanaeth. Y mae i gymdeithas golli ei phobl ifanc mewn rhyfel neu trwy iddynt gael eu gorfodi i symud ymaith yn drychineb y cymer genedlaethau i ddifa ei effeithiau dinistriol, a bydd perygl colli rhai pethau nas adferir byth. Y mae'r perygl hwn yn fwy pan y mae torri ar y parhad a'r traddodiad yn golygu dyrnod i fywyd cenedl fechan. Dyna yw yn hanes Cymru.*

*Ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd heddiw, nid oes chwaith mo'r cysur fod colled gymdeithasol ardaloedd y wasgfa yng Nghymru yn rhoddi ennill cyfartal i froydd mwy llewyrchus Lloegr, lle y mae'r ifanc yn cael eu symud. Nid yw amgylchiadau'r symud yn fanteisiol i'r rhai a symudir fod ar eu gorau yn eu cylchoedd newydd. Y maent yn symud o raid, ac nid o ddewis, a chollant fanteision dylanwadau'r cartref a'u cymdeithas gynefin; fe'u diwreiddir yn rhy fuan ac yn rhy sydyn a'u dodi'n aml mewn tir estron digon oer. Mewn llawer achos tueddir i edrych arnynt megis disodlwyr yn yr ornest am waith, ac oer yw croeso'r disodlwr erioed. Yr wythnos hon amlygwyd peth o'r teimlad hwn yn erbyn bechgyn ifanc a gyrchwyd o'r Deheudir gan gyflogwyr melinau cotwm swydd Gaerhirfryn.*

*Agwedd arall ar bwnc symud yr ifanc yw fod ansawdd iechyd y gymdeithas a adawyd yn cael ei gostwng. Dangosir hyn gan ystadegwr yn y 'British Medical Journal', y cyfeirir at ei sylwadau ar dudalen arall. Yr esboniad a ddyry ef ar y ffaith fod marwolaethau merched ym Merthyr Tydfil 45 y cant yn uwch na chyn y rhyfel yw fod merched ifanc iach rhwng 15 a 24 oed yn gadael eu tref eu hunain. Gadewir y rhai gwannaf ar ôl i syrthio'n aberth i'r afiechydon sy'n dal eu gafael mor dynn ar ardaloedd diwydiannol.*

*Achos llawenydd yw cael sicrwydd ystadegau nad yw'r dirwasgiad, a chymryd y wlad yn gyffredinol, wedi peri i raddfa'r marwolaethau godi. Ond yn yr ystadegau hyn y mae rhai o ardaloedd Cymru yn llecyn pur ddu. Erys y ffaith fod marwolaethau yn uchel yn yr ardaloedd diwydiannol ers ugain mlynedd, ac awgryma hynny fod yna ddrwg dyfnach na dirwasgiad tymhorol. Nid llai trychinebus amodau drwg oherwydd iddynt fod erioed yn ddrwg. Geilw'r cyflwr am ymchwiliad trylwyr, ac o ganfod yr achosion, rhaid eu symud. Anodd osgoi'r casgliad bod a fynno diwydiannaeth anghytbwys gryn lawer â chyflwr yr ardaloedd sy'n cael sylw. Y mae'n eglur hefyd fod yr amodau sy'n drygu moes a diwylliant, ac yn tanseilio traddodiadau, yn andwyo iechyd cymdeithas hefyd. Ac yng Nghymru y mae pob gwall ar gymdeithas yn glais ar genedl hefyd.*

Yn ysgrif flaen Y Cymro ARFOGI A'R DIWAITH o rifyn 11 Mawrth 1939 gwelir eto fyth mor wyrdroëdig oedd blaenoriaethau'r Llywodraeth: yr oedd yn ddigon parod i wario miliynau ar bentyrru arfau i'w defnyddio i ladd a dinistrio mewn rhyfel, ond eto'n gyndyn iawn o estyn cymorth i bobl a ddioddefai'n enbyd yn yr ardaloedd dirwasgedig, sefyllfa sy'n dod dan lach yr eglwysi, a'r Cymro ei hunan:

*Y MAE rhif uchel y di-waith ym Mhrydain, er bod symiau aruthrol a chynyddol yn cael eu gwario ar arfogaeth, yn peri pryder nawr, ac nid heb sail. Gwir fod rhif y di-waith yn dangos gostyngiad a bod y ffigur 2,000,000 wedi colli ychydig o'i hagrwch ond erys y ffaith fod yr "ardaloedd arbennig" yng Nghymru yn dioddef o hyd ac na fydd gobaith am ddiwygiad tra y gedy'r Llywodraeth yr ardaloedd hyn, fel y dywedodd Miss Megan Lloyd George yng Nghaergybi, i fyw ar ei gilydd. Sylwodd Miss Lloyd George hefyd nad oedd sail i'r gred y dychwelai'r drafnidiaeth â'r Iwerddon i'w hen rym, yr hyn a fyddai'n rhyw gymorth cyfamserol. Yn Neheudir Cymru y mae'r bobl bron ar newynu, ac yn ôl pob golwg nid ydyw'r Llywodraeth yn gwneud dim ond datgan ei gofid dyfnaf a gwneuthur addewidion. Hefyd y mae amaethyddiaeth mewn cyflwr enbyd.*

*Y mae adran budd cymdeithasol yr Eglwys Fethodistaidd wedi anfon apêl daer at y Llywodraeth i fynd i'r afael â phroblem y di-waith o ddifrif. "Gorfodir ni", meddant, "gan yr ymdeimlad Cristnogol sy'n nodweddu cymdeithas heddiw i alw ar y Llywodraeth a'r genedl i gymryd mesurau i ddelio'n fwy effeithiol â'r broblem." Ymysg mesurau a gymhellir yn yr apêl y mae darpariaeth gweithfeydd cyhoeddus angenrheidiol, megis tai, ffyrdd, pontydd, carthffosydd, cyflenwadau dŵr i leoedd gwledig, coedwigaeth, adnewyddiad ysgolion a gwelliannau ym mhorthladdoedd y deyrnas. Cymeradwyir sefydlu byrddau trafnid neu foddion eraill i godi cyflogau, swyddogion a gweithwyr i ymddiswyddo yn gynharach ac i dderbyn mwy at eu cadw wedi rhoddi eu gwaith heibio. Awgrymir ymhellach ymchwiliad i'r cwestiwn o gyfraniadau ariannol i deuluoedd.*

*"Gan gydnabod fod gwelliant yn dibynnu i fesur ar ddiwygiad yn nhrafnid y byd yn gyffredinol, a chan groesawu pob ymdrech i wneud trefniadau trafnid teg â chenhedloedd eraill, yr ydym yn ail-apelio am fyd-gynhadledd economaidd a threfniadau gwir ddigonol ar ei chyfer. Dyletswydd yr holl genedl i'r di-waith ydyw mabwysiadu polisi meddyginiaethol beiddgar a'i gario allan yn benderfynol. Ni ddylid cymryd y gwario am arfogi yn esgus dros barhad yr amodau cywilyddus ac annioddefol presennol. Tra na allwn gefnogi mesurau'r gwledydd totalitaraidd i ddelio â'r di-waith yr ydym yn sicr y gall gweriniaeth fel yr eiddom ni, gyda'i hadnoddau helaeth, ddatrys y broblem hon, os myn."*

*A'n ffydd yn y Llywodraeth mor wan o'r braidd y disgwyliwn iddynt sylweddoli grym moesol apêl yr Eglwysi. Ond y mae'n hen bryd i Gymru ddeffro a thrwy ymdrech gyd-drefnol gan y trefnyddion crefyddol, y cynghorau sirol, a phob mudiad da arall fynnu cael diwedd ar yr amodau sy'n difetha'r genedl.*

Mae'r papur yn fwy beirniadol nag erioed o'r Llywodraeth rai misoedd wedi toriad yr Ail Ryfel Byd, â chyflwr y diwydiant llechi erbyn hynny'n bur druenus. Meddai ysgrif flaen Y Cymro 17 Chwefror 1940, rhifyn sy'n rhoi cryn sylw i ddirywiad y fasnach lechi:

Y DIWYDIANT LLECHI

*DEALLWN yn dda yr anawsterau y mae'r diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru yn gorfod ei wynebu ac ni ymddiheurwn i'n darllenwyr am roddi cymaint o'n gofod yn y rhifyn hwn i ddangos yn glir y safle y mae'r*

*diwydiant ynddi.*

*Y mae'r llechi a gynhyrchir yn chwarelau Gogledd Cymru yn fyd-adnabyddus, ac y mae'r ergydion a rydd y Llywodraeth bresennol yn hollol gyson â'r driniaeth a roddodd i'r ffermwr a'r diwydiant yn gyffredinol, drwy flerwch a diffyg gweledigad ei hadrannau, a chydsyniad bodlon y gwŷr a'i dall-bleidia.*

*Rhoddir i'r cyllidwyr gynnydd anferth mewn llog ar arian a fenthycir i'r Llywodraeth mewn nodau'r Trysorlys. Caiff y ffermwyr lai o dâl am eu cig, ac y mae'r Llywodraeth yn rhoi cymorth-rodd o £16,000,000, er mwyn sefydlu prisiau, a thâl y cwsmer 4c. y pwys ychwaneg am lai o gig. Nid yw'r ffermwr yn cael y gwahaniaeth hwn, ei dalu a wna'r cyhoedd, a'r cyllidwyr a'u buddiannau yn ymfrashau.*

*Yn y cyfamser trywana'r Llywodraeth y diwydiant llechi yn ei chefn pryd y byddai'n fwy darbodus iddi roi cymorth sylweddol i'r diwydiant pwysig.*

*Nid anghofir y pethau hyn ac eisoes y mae'r cymylau'n crynhoi a hyderwn na fydd Cymru'n amharod pan ddelo'i hawr.*

Ysgrif flaen hynod ddiddorol yw'r un a ymddangosodd yn Y Cymro 9 Mawrth 1940: unwaith eto, SYMUD EIN GWEITHWYR yw'r testun, ac yn ôl ei arfer gwelir y papur yn gofidio bod cymaint o weithwyr Cymru yn gorfod ymfudo i Loegr i chwilio am waith; mae yn ôl ei arfer hefyd yn mynegi pryder ynghylch effeithiau niweidiol hyn ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac yn hyderu y gwneid popeth posibl i'w cadw'n fyw 'er gwaethaf effeithiau drwg diwreiddio'n dynion o'u cartrefi fel yna.'

Y gwahaniaeth mawr yn yr ysgrif flaen hon, fodd bynnag, o'i chymharu â'r rhai blaenorol, yw bod Cymru a Phrydain bellach yng nghanol rhyfel, ac oherwydd hynny nid yw'r Cymro yn condemnio'r symud gweithwyr hwn mor ddigyfaddawd ag y gwnâi ynghynt. Yn wir, mae'r papur ei hunan yn cyfaddef hynny: 'buasem yn condemnio'r trawsgludiad yma'n ddigyfaddawd [mewn amgylchiadau arferol]' meddai 'ond rhaid cael terfyn ar Hitler' ac mae felly'n fodlon 'derbyn', am y tro, sgîl-effeithiau annymunol megis bod gweithwyr Cymru'n cael eu symud o'u cartrefi:

*Y MAE'R newyddion a roddwn heddiw ynglŷn â phroblem y di-waith yn y Gogledd a symud miloedd o weithwyr Cymreig o dan y cynlluniau yn sicr o gael ei dderbyn gyda theimladau cymysg.*

*Yn yr argyfwng cenedlaethol y mae'n amlwg y bydd yn rhaid wynebu amgylchiadau cyfnewidiol. Ond yr unig agwedd foddhaol i'r cynlluniau hyn (ar wahân i'r ffaith fod y di-waith yn cael rhywbeth i'w wneud), yw'r gobaith y gellir cadw draw effeithiau sicr y fath ecsodus drwy adeiladu pentrefi cysurus a fydd yn gymdeithasau ar wahân i'r Cymry Cymreig.*

*Hyderwn y rhydd yr awdurdodau gefnogaeth ymarferol i arweinwyr a gweithwyr ac y gwneir pob ymdrech i gadw'r iaith a'r diwylliant yn fyw*

*er gwaethaf effeithiau drwg diwreiddio'n dynion o'u cartrefi fel yna.*

*Ychydig ffydd sydd gennym yn y Llywodraeth yn y cyswllt yma ac ychydig o sylw i hyn a dalant hwy os na fydd y Blaid Seneddol Gymreig yn bendant wrth gefn yr arweinwyr Cymreig.*

*Pe na buasai miloedd lawer allan o waith yng Ngogledd Cymru a mawr angen gwaith arnynt, a'r ffaith bod y rhyfel yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i roddi terfyn ar Hitleriaeth oddi cartref cyn ei ymladd gartref buasem yn condemnio'r trawsgludiad yma'n ddigyfaddawd.*

*Mae adar duon y Llywodraeth yn parhau i ddod adref i nythu.*

*Ond rhaid cael terfyn ar Hitler, neu fe welir diwedd ar Brydain Fawr a Chymru.*

Yn y bennod flaenorol dyfynnir yr adroddiad rhagorol WYNEBU ARGYFWNG Y GLO HEB DDOGNU o'r Cymro 10 Hydref 1942, yn dilyn y ddadl fawr ar y fasnach lo a fu yn Nhŷ'r Cyffredin yr wythnos flaenorol pan siaradodd tri Chymro yn flaenllaw iawn ynddi, ond â gwahanol safbwyntiau yn rhinwedd eu gwahanol swyddi. Yn ysgrif flaen yr wythnos, o dan y pennawd syml GLO, nid yw'r Cymro yn ochri'n gryf ag un o'r safbwyntiau fel y cyfryw; yn hytrach mae'n atseinio geiriau Major Gwilym Lloyd George, y Gweinidog Tân-ddefnyddiau, sy'n galw am weithio [caled] ar ran y glowyr a chynilo ar ran y defnyddwyr, fel bo Prydain â digon o lo ar gyfer ei hymgyrch ryfel yn erbyn yr Almaen:

*DYMA ni'n cychwyn ar bedwerydd gaeaf y rhyfel. Yn ôl yr arwyddion, bydd y rhan fwyaf ohonom yn rhynnu cyn y diwedd. Y bobl sy'n cael cant o lo yr wythnos, neu lai, a gaiff y sylw cyntaf, ebe Major Gwilym Lloyd George, ac fe anfonir gwaelach glo i'r tai. Y mae'n amlwg fod cynilo pob tanwydd yn rhwymedigaeth arnom oll.*

*Da a chalonogol oedd gweld y busnes glo yn cael ei wynebu o ddifrif gan Aelodau'r Senedd. Fe welwyd yn glir mai cael dynion yn y pyllau ydyw'r prif angen, ac mai help dros dro yn unig a fyddai dognu. Sut i gael digon o lo i'r ffatrïoedd sy'n gwneuthur arfau i orchfygu'r Almaen - dyna'r pwnc. Y mae digon o lo yn naear Cymru a Lloegr a'r Alban: ei gael allan ac i'r ffwrneisi ydyw'r dasg.*

*Gofynnai Mr. Grenfell am ddychwelyd ugain mil o ddynion i'r pyllau - byddai hynny'n ddigon i wneud popeth yn iawn. Ond yn ôl Major Gwilym Lloyd George, ni ellir cael cynifer â hyn o bobl allan o'r fyddin a'r gwasanaethau eraill. Fe ddychwelwyd hanner can mil yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio, ac o'r rhain nid oedd ond pum mil yn hyfedr gymwynwyr glo. A oes sicrwydd yn awr y gellir cael y nifer angenrheidiol allan o'r byddinoedd a'r ffatrïoedd? Onid oes, beth a wneir? Sonnir am ddognu, ond byddai hyn yn llafur mawr, golygai lenwi ffurflenni di-ri, rhagor o fân swyddogion, ac efallai fethu yn y diwedd oherwydd anawsterau cludo.*

*Deuir yn ôl felly at gynigion Major Gwilym Lloyd George ei hun, sef Gweithio a Chynilo: llafur diymarbed yn y pyllau, a gofal ac aberth gan bawb sy'n defnyddio glo. Trwy ewyllys da a synnwyr cadarn y daeth Prydain yn ddihangol trwy dreialon y tair blynedd diwethaf. Yr un modd y ceir y gorau ar argyfwng y glo. Gwarth, yn wir, fyddai i Ynys Brydain - y sefydlwyd ei nerth presennol ar lo - ffaelu yn ei dycnaf dydd*

*oherwydd bod glo yn brin.*

*Bydd arnom rwymau eraill hefyd y gaeaf hwn - sef cadw yn iach a gwneuthur y gorau o'n bwyd. Wedi tri gaeaf heb haint, mwyaf oll ydyw'r perygl eleni. Da bod gennym gystal bwyd. Byw'n galed a byw'n iach, dyna'r arwyddair, ac nid oes gan neb ddim i'w ddysgu i Gymru am hynny.*

Un ysgrif flaen yr un o 1943 a 1944 sy'n werth eu dyfynnu, sef CYMRO A'I WAITH o'r Cymro 1 Mai 1934 a DIWYDIANNAU NEWYDD I GYMRU o'r Cymro 14 Gorffennaf 1944. Nid yw testun y gyntaf yn newydd o gwbl mewn gwirionedd ond mae'n dangos yn eglur fel y newidiodd holl batrwm diwydiant pan dorrodd y Rhyfel, gyda dyfodiad ffatrïoedd lu ar hyd a lled y wlad, yn aml iawn yn Lloegr, yn rhoi gwaith i nifer o Gymry a oedd gynt yn segur; y trueni mawr, wrth gwrs, oedd fod y gwaith hwn mor bell o'u hardaloedd genedigol. Y broblem fawr oedd angen ei hwynebu'n awr oedd pa fodd i gynnal yr un lefel o gyflogaeth ar ôl y rhyfel, ac a ellid ei gynnal yng Nghymru ei hunan; mae'r ail ysgrif flaen isod yn mynegi anfodlonrwydd nad oedd mwy o sicrwydd ynglŷn â diwydiant a masnach ddigonol i Gymru wedi'r rhyfel:

CYMRO A'I WAITH (1 Mai 1943)

*UNODD Gorllewin Cymru i brotestio yn erbyn y polisi o symud dynion a diwydiannau oddi yno i Loegr, ac y mae Cymru gyfan yn cymryd y diddordeb mwyaf yn y datblygiadau.*

*Yn y blynyddoedd diffaith rhwng rhyfeloedd sylwyd yn bryderus ar ddiwydiannau yn crynhoi yn Neheudir Lloegr ac oddi amgylch ychydig ddinasoedd mawrion. Nid yn unig fe ddiboblogwyd cefn gwlad, eithr diboblogwyd ardaloedd diwydiannol hefyd. Effeithiodd y duedd ddi-lywodraeth hon ar deuluoedd Sgotland, Lloegr a Chymru.*

*Pan ddaeth y rhyfel a'r peryglon i'r wladwriaeth dangoswyd beth a allesid ei wneud. Adeiladwyd y ffatrïoedd angenrheidiol a'u llanw â gweithwyr heb gyfri'r gost. A lleolwyd y ffatrïoedd hyn yn ôl dymuniad y Llywodraeth. Diau y cofir am hyn pan gyfyd y drychiolaethau sydd waethed â rhyfel - segurdod a thlodi - eu pennau wedi'r heddwch.*

*Yn awr teimlir nad yw'n angenrheidiol dinistrio darn o Gymru. Teimlir y dylid dod â mwy o waith at y bobl a llai o bobl at y gwaith. Canys gellir dilyn polisi yn awr a dynn y gweithiwr o froydd cyfoethog eu diwydiant a'u diwylliant - bro yr alcan a'r glo carreg, fel enghraifft, sy'n golygu rhywbeth mwy na gwaith a chyflog, hyd yn oed, i Gymro - gan adael y fro yn dir anobaith gyda'r hen ddiwydiannau wedi colli tir a diwydiannau newydd heb ddod yn eu lle. Ac, yn bendifaddau, bydd yn rhaid i Gymru wrth ddiwydiannau newydd wedi'r rhyfel.*

*Cwestiwn i'r Gweinidog Cyflenwi yn hytrach nag i'r Gweinidog Llafur yw hwn, gan y dibynna symud llafur ar leoliad diwydiant. Methwn â gweld paham na ddefnyddir y cyfleusterau sydd eisoes yng Nghymru ar gyfer diwydiannau rhyfel, yn hytrach na'u crynhoi yn Lloegr.*

*Nid mater o genedlaetholdeb, ond mater o ddynoliaeth ac o synnwyr cyffredin yw hwn. Canys oni iawn gynllunir yn awr sut heddwch a fydd*

*hwnnw pan dawo'r gynnau?*

<u>DIWYDIANNAU NEWYDD I GYMRU</u> (14 Gorffennaf 1944)

*DYWEDWYD yng Nghyngor Caerdydd dydd Llun yr adroddir bod naw cwmni yn barod i fuddsoddi deng miliwn o bunnau o gyfalaf diwydiannol yn yr Alban a bod deg cwmni a thrigain wedi addo cychwyn ar waith yn yr Alban wedi'r rhyfel.*

*Yn naturiol, gofynnwyd y cwestiwn - beth am Gymru?*

*Yng Nghymru gwnaed argymhelliadau gan wahanol sefydliadau a rhai addewidion gan wahanol gwmnïau. Gellir bod yn sicr y bydd diwydiannau newydd yng Nghymru wedi'r rhyfel, ond nis gellir bod mor sicr y bydd digon ohonynt. Ac y mae'r rhagolygon, yn y cyfeiriad hwn, yn well yn y De nag yn y Gogledd.*

*Nid yw'r oedi yn y Llywodraeth ar benderfynu'n gliriach ac yn derfynol ar eu syniadau ynglŷn â lleoli diwydiannau yn help ychwaith. Ai drwy berswâd ynteu drwy orchymyn y pennir safleoedd y rhain? Hyd oni ddaw goleuni pendant ar hyn anodd iawn yw dewis y llwybr cywir i'w ddilyn yng Nghymru.*

*Dywedir bod rhagolygon da, a dywedir bod y Bwrdd Masnach a'r Weinyddiaeth Gynllunio Gwlad a Thref yn cydweithredu mewn ymgeisiadau ymarferol i sicrhau mwy o ddiwydiannau a mwy o fasnach i wahanol rannau o Gymru.*

*Hyderwn nad oes dim sy'n gamarweiniol yn yr adroddiadau hyn. Y peth pwysig yw sicrwydd bod rhywbeth yn cael ei wneud. Ond mae'n bwysig hefyd i'r wlad gael mwy o fanylion ynghylch yr hyn, mewn gwirionedd, a wneir.*

*Mae'n llawer rhatach clywed y gwir heddiw na'i ddioddef ddyddiau a ddaw.*

*Mae gweithwyr, a medr ac adnoddau naturiol yng Nghymru. Nid oes reswm paham y dylai gwlad fel hyn fod yn dlawd os yw'r gyfundrefn yr hyn a ddylai fod.*

Yn gynnar yn y flwyddyn 1945 cafodd De Cymru y newyddion gorau a gawsai ers amser maith ynglŷn â rhagolygon gwaith, a hynny er mawr lawenydd i'r <u>Cymro</u> fel pawb arall:

<u>GWAITH I'R DE</u> (2 Chwefror 1945)

*CAFODD De Cymru newydd da ddechrau'r wythnos pan hysbysodd Mr. Hugh Dalton, Llywydd y Bwrdd Masnach, fod cynlluniau ar dro i godi melin dunplat fodern ym Mhorth Talbot a melin arall lai gysylltiedig â hi yn Llanelli.*

*Hysbysodd fod cwmnïau tunplat mwyaf y De yn cydweithredu i sylweddoli'r cynlluniau, - cwmnïau Richard Thomas, Baldwins, Guest, Keen, Nettlefolds, Briton Ferry Steel a Llanelly Steel.*

*Achosodd dyfodol y diwydiant hwn bryder mawr yn Ne Cymru gan i gynifer o bobl ddibynnu arno yn y gorffennol a chan fod y dyfodol mor ansicr oherwydd y moderneiddio a oedd yn hanfodol yn y diwydiant. Ofnwyd yn fawr y gellid sefydlu'r ffatrïoedd newydd o'r tu allan i Dde Cymru lle daliwyd pwys a gwres y dydd dan yr hen drefn.*

*Ond yn newydd Mr. Dalton fe welwn beth o ffrwyth adroddiad Cyngor Cynghorol Cymru a'r drafodaeth a fu ar y dydd Cymreig yn y Senedd ar*

*Hydref 17 y llynedd.*

*Calonogol iawn yw gweld cam pendant fel hyn, a chalonogol yw datganiad Mr. Dalton fod "llawer yn cael ei wneud a mwy o gynlluniau ar dro gogyfer â dod â diwydiannau newydd i'r rhanbarth hwn" yn ogystal â chefnogi'r diwydiannau a oedd yn y De cyn y rhyfel.*

*Lle mae gweithredoedd yn dod gyda'r addewidion, fel yn yr achos hwn, y mae lle arbennig i lawenhau, ac y mae cryn glod yn ddyledus i Aelodau Seneddol gweithgar a byw y De am ofalu bod eu rhan hwy o Gymru, lle dioddefwyd gymaint, yn cael chwarae teg.*

*Diau y buasai'n well gan Lanelli weld y brif felin yno, ond hyderir y deuir â diwydiannau eraill i'r cylch hwn i bontio'r diffyg mewn ardal sydd â chyfartaledd ei diwaith yn uwch nag odid unman ym Mhrydain Fawr.*

*Edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau hyn sydd ar droed yn cael eu sylweddoli.*

Ar 16 Mawrth 1945, dim ond mis a hanner wedi'r adroddiad calonogol hwn, ymddangosodd yr ysgrif flaen ganlynol yn Y Cymro yn trafod Y "POCEDI" yng Ngogledd Cymru, sef yr ardaloedd bychain hynny, gan amlaf yn ddim ond pentrefi, a ddioddefai waethaf gan effeithiau'r Dirwasgiad. Yn wahanol i Dde Cymru ni châi'r Gogledd ei hystyried yn "ardal arbennig" oedd angen sylw penodol, er gwaethaf y ffaith ei bod hithau hefyd yn parhau i ddioddef yn enbyd gan ddiweithdra a thlodi, ond fel y dywed Y Cymro isod, nid oedd llawer o synnwyr mewn edrych ar Ogledd Cymru fel un ardal benodol gan fod cyflwr ei diwydiant a'i masnach yn amrywio cymaint rhwng y gwahanol bentrefi a threfi; mae'r papur hefyd yn gwneud pwynt dilys ynghylch priodolrwydd gwahaniaethu rhwng y Gogledd a'r De o gwbl mewn Cymru sydd i fod yn wlad ynddi'i hun:

*PLESER oedd cael sylwi yn ein rhifyn diwethaf ar ddiwydiannau newydd sydd i ddod i'r Deheudir, ond rhaid dychwelyd heddiw i sôn am hawliau'r Gogledd. Ni fynnem mewn un modd awgrymu bod un math o gystadleuaeth am ddiwydiannau rhwng Gogledd a De. Ni allasai, ac ni ddylai hynny fod, canys un Gymru sydd yna, ac anffawd mewn gwirionedd yw bod y termau "Gogledd" a "De" mewn bod o gwbl.*

*Ond yn Ogledd a De y dewisodd y Llywodraeth drafod hawliau diwydiannol Cymru, a thra'r ymddengys heddiw fod gwell rhagolwg i'r De ni allwn, wrth lawenhau oherwydd hynny, beidio ag ail-ddatgan cryn anesmwythyd ynglŷn â dyfodol y Gogledd.*

*Nid yw'r Gogledd yn cael ei ystyried yn "ardal arbennig" a methwyd â chael cydnabod y Gogledd yn gyffredinol yn "ardal ddatblygu".*

*Ond galwodd Pwyllgor Datblygu'r Gogledd Wedi'r Rhyfel, ddydd Sadwrn, am i rannau o'r Gogledd gael eu hystyried yn adrannau datblygu.*

*Y mae'r cais hwn yn un rhesymol dros ben. Yn wir, bydd yn rhaid caniatáu'r cais neu edrych ymlaen at weld y bobl yn cael eu symud o'u cartrefi mewn rhai ardaloedd i ardaloedd eraill lle bydd gwaith - neu gael eu gadael heb un gobaith am waith yn eu cartrefi.*

*Enghraifft o'r "pocedi" hyn sy'n wynebu dirwasgiad am yr ail dro yw Dyffryn Nantlle - dyffryn o 10,000 o boblogaeth a arferodd ddibynnu ar*

*y chwareli llechi yn unig, dyffryn na all obeithio ddod yn llewyrchus o gwbl eto ar bwys y chwareli, a dyffryn heb ddiwydiant arall o'i fewn.*

*Y mae ardaloedd, neu "bocedi", eraill na ddaw llewyrch mwy iddynt o hen ddiwydiannau (os oes rhai yno) ac na sicrhaodd ddiwydiannau newydd parhaol ychwaith. Ac y mae'n amlwg nad yw pob diwydiant a gododd efo'r rhyfel yn mynd i aros.*

*Bu llawer o sôn am "ddiwydiannau ysgafn" yn y blynyddoedd diwethaf. Y rhain, meddid, a ddaw i roi taw ar ein holl amheuon ac i symud ein pryder. Ond camgymeriad yw meddwl y bydd y rhain yn codi fel madarch ble bynnag y bydd diffyg gwaith wedi'r rhyfel. Ni ellir eu codi ymhobman, ac nid yw'n glir iawn sut yn union y maent i ddod yn unman lle mae'r galw'n fawr amdanynt.*

*Y mae yna ddegau o "ardaloedd" arbennig yng Nghymru, ac y mae yna rai ohonynt yn nythu yng nghanol ardaloedd eraill a all fod fwy neu lai yn llewyrchus. Ffolineb o'r mwyaf yw ystyried Gogledd Cymru drwodd a thro a throi a dweud - nid yw'r darn mawr yma o'r wlad yn galw am driniaeth arbennig.*

*Yn ôl ei hangen y mae'n rhaid darparu ar gyfer ardal, ac nid ar gyfer rhanbarth. Ymddengys mai'r lleiaf peth y dylid ei wneud yw rhoi ystyriaeth unigol i'r ardaloedd hynny yn y Gogledd a ddifodir gan dlodi oni wneir hynny. Ac yn awr y mae rhoi'r ystyriaeth; nid wedi i'r dirwasgiadau ddod.*

*Canys nid yw dirwasgiadau yn mynd i gadw draw am fod y Llywodraeth yn cydnabod bod ardal yn un "arbennig".*

Ymhelaethir ar yr un testun yn ysgrif flaen Y Cymro 23 Tachwedd 1945:

DIWYDIANT GOGLEDD CYMRU

*ERBYN heddiw fe sylweddolir peth mor ddoeth oedd sefydlu Cyngor Datblygu Gogledd Cymru pan wnaed hynny. Am unwaith dangoswyd peth gweledigaeth yng Ngogledd Cymru. Ffurfiwyd y Cyngor Datblygu mewn pryd. Heddiw daeth yr angen am gorff o'r fath, ac y mae wrth law.*

*Mae'n arwyddocaol bod Syr Stafford Cripps, Llywydd y Bwrdd Masnach, wedi derbyn dirprwyaeth o'r Cyngor Datblygu ac o Aelodau Seneddol y Gogledd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol i drafod dyfodol diwydiannol y rhanbarth.*

*Bu cryn bryder yn y Gogledd. Da y gwyddai'r bobl mai rhywbeth tros dro oedd y llewyrch diwydiannol a ddaeth yno yn sgîl rhyfel. Gyda dyfodiad yr heddwch ni arosai llawer ar ôl. Ond arosai'r profiad diwydiannol newydd a ddaeth i filoedd o ddwylo medrus. Yr hyder heddiw yw y cedwir y dwylo hynny'n brysur.*

*Gwelwyd ers rhai misoedd bellach mai gorchwyl anodd iawn yw perswadio'r awdurdodau i restru'r Gogledd i gyd yn rhanbarth i'w datblygu, ac o ganlyniad, ymosodwyd ar ffrynt gyfyngach, gan alw am i rai o'r pocedi gwaethaf yn y Gogledd gael ystyriaeth arbennig. Mannau fel Dyffryn Nantlle, Ffestiniog a Chaergybi, er enghraifft.*

*Y mae'n amlwg bod Syr Stafford Cripps yn edrych yn ffafriol ar y ddadl yna ac yn cydnabod bod y fath bocedi gwag yn y Gogledd, ac y mae'n dda clywed bod ei adran ef o'r Llywodraeth yn chwilio am rywbeth i'w roi yn y pocedi hynny.*

*Llawenhawn hefyd bod Syr Stafford yn edrych gyda chryn ddealltwriaeth a chydymdeimlad ar gefndir y broydd Cymreig, yn ddiwydiannol yn ogystal ag yn ddiwylliannol. Dyna gynllunio a*

*dynoliaeth yn cydgerdded.*

*Yn sicr fe groesewir ei ddymuniad yr hoffai weld hen ddiwydiant tebyg i'r diwydiant gwlân yn ail-godi ei ben a'i ddymuniad ar i ddiwydiannau newydd fod yn gysylltiedig â'r hen.*

*Da hefyd oedd clywed ei broffwydoliaeth y bydd galw am lechi'n parhau am flynyddoedd ac y bydd gweithio llawn yn y chwareli llechi.*

*Ond, o bosibl, yn y ffatrïoedd a'r diwydiannau newydd ac angenrheidiol mae'r diddordeb mwyaf, a bydd yr arian a'r help a ddaw o'r Llywodraeth tuag at gael y rhain ar eu traed yn gyfraniad gwirioneddol.*

*Purion hefyd yw sylwi ar ei gyngor i'r ardaloedd sy'n deisyfu diwydiannau newydd. Byrdwn ei rybudd oedd - Fe helpa'r Llywodraeth y rheini a helpant eu hunain.*

# *Amaethyddiaeth*

Yr oedd materion amaethyddol yn aml yn derbyn sylw cynhwysfawr ar dudalennau blaen Y Cymro am y rheswm syml bod y diwydiant yn rhan mor ganolog o fywyd Cymry'r oes ac felly o ddiddordeb mawr i nifer helaeth o ddarllenwyr y papur; yn yr un modd rhoddai'r ysgrifau blaen gryn sylw i amaethyddiaeth a byddai'r papur yn lleisio'i farn yn rheolaidd ar unrhyw bwnc amaethyddol o bwys. Dyfynnwyd eisoes yr adroddiad blaen rhagorol ynglŷn â METHIANT YR OCSIWN DDEGWM ar fferm Gwersyllt Hall, Wrecsam, wrth i filoedd o ffermwyr wneud safiad cadarn yn erbyn trefn a ystyrid yn gwbl anghyfiawn; dyma a ddywed Y Cymro yn ysgrif flaen yr wythnos dan bennawd syml sy'n dweud y cwbl:

ANNHEGWCH (25 Chwefror 1933)

> *FE aeth yr ocsiwn ddegwm gyntaf a fu yng Nghymru ers deugain mlynedd yn fethiant, ac fe addefodd yr arwerthwr ei fod yntau'n credu y gwnâi protest gref yr amaethwyr, yn erbyn baich y degwm, fwy o les na dadleuon.*
>
> *Y mae hyn yn gondemniad llym ar yr awdurdodau. Yr ydym yn ymffrostio bod gennym weriniaeth, ac eto i gyd wele gynrychiolwyr yr awdurdodau'n cydnabod bod clust Llywodraeth y wlad yn fyddar i ddadleuon.*
>
> *Pan yw deddf anghyfiawn yn gofyn degwm yn ôl safon tymor o brisiau uchel, nid arwydd o awydd bod yn deg ydyw sôn am "ganiatáu amser rhesymol i dalu", ond rhagrith noeth. Osgoi'r cwestiwn yw sôn am gasglu pob ceiniog o'r degwm pan yw'r geiniog a ofynnir yn golygu cyfran fwy o gynnyrch y tir nag a olygai'r geiniog honno pan bennwyd swm y degwm. Y mae modd torri ysbryd cyfraith wrth lynnu'n rhy dynn wrth y llythyren. Ond, yn ddieithriad bron, y mae gwneud hynny'n rhoddi mwy o rym i'r ymgyrch dros ei newid.*
>
> *Ynglŷn â'r holl helynt hwn, fe wnaethpwyd yn glir mai nid deddf y degwm yn unig sydd yn annheg. Y mae holl drefn y llysoedd yn hollol annheg â Chymru. Yn erbyn Deddf yr Eglwys yng Nghymru y mae'r amaethwyr yn cwyno. Dirprwywyr Meddiannau Eglwysig yng Nghymru sydd yn gweinyddu'r ddeddf honno.*
>
> *Ond i lysoedd Llundain yr eir i geisio rhwystro personau a phapurau newydd rhag dywedyd pethau a ystyrrir yn beryglus neu'n annoeth. Paham y mae'n rhaid i Gymry eu hamddiffyn eu hunain yn Llundain?*
>
> *Fe gredwn ni mai llysoedd yng Nghymru a ddylai drin pob achos sy'n ymwneud â phobl Cymru.*

Nid oedd y Degwm ond un o nifer o ffactorau a wnâi fywydau'r amaethwyr yn anodd ac yn ogystal â hynny yr oedd holl wendidau trefn fasnachol yr oes hefyd yn golygu nad tasg hawdd o gwbl oedd gwneud bywoliaeth o'r tir. Mewn gwirionedd yr oedd problemau enfawr yn wynebu diwydiant amaethyddiaeth y cyfnod, megis diwydiant yn gyffredinol, ac nid oedd amaethyddiaeth ond un

'claf' mewn cyfundrefn hynod o afiach a chymhleth a oedd i bob pwrpas bron yn sefyllfa hollol ddiddatrys *(stalemate)* gan fod cymaint o ffactorau'n effeithio ar ei gilydd ynddi.

Mewn gwirionedd nid oedd bai o gwbl ar y ffermwyr eu hunain a oedd trwy waith caled ac â chymorth y dechnoleg a'r wyddoniaeth ddiweddaraf wedi cynyddu eu cynnyrch yn sylweddol yn y blynyddoedd blaenorol. Un o'r prif broblemau oedd bod Prydain yn dibynnu llawer gormod ar y farchnad dramor ac yn prynu swm helaeth iawn o fwyd ei phobl o wledydd eraill; o ganlyniad nid oedd llawer o farchnad i gynnyrch y ffermwyr Prydeinig ac felly yr oeddynt mewn gwirionedd yn cynhyrchu 'gormod' o fwyd, gair hynod eironig mewn cyfnod lle roedd cymaint o dlodi ac angen.

Y tlodi hwn, yn y bôn, oedd holl wraidd y broblem, a gwelwyd yn y bennod flaenorol fel yr oedd y bobl gyffredin, a oedd yn dyheu am fwy o fwyd maethlon ffres, yn rhy dlawd i'w brynu, gyda'r ffermwyr eu hunain mor dlawd â neb ac felly'n gorfod gwerthu eu cynnyrch i geisio codi ceiniog neu ddwy! O ganlyniad, yr oedd y sefyllfa gwbl hurt yn bodoli lle'r oedd teuluoedd fferm yn dioddef cymaint â theuluoedd pobl o ddiwydiannau eraill o ddiffyg maeth a gwendidau corfforol, am nad oeddynt â'r moddion i brynu digon o fwyd maethlon, er mai hwy eu hunain oedd yn cynhyrchu'r bwyd maethlon hwnnw! Ac oherwydd eu bod mor dlawd, ni allai'r ffermwyr fforddio talu cyflogau teg i weision weithio ar eu tir, gan ychwanegu at y broblem gan fod pobl wedyn yn gorfod troi at ddiwydiannau eraill am fywoliaeth; mewn llawer achos yr oedd budd-dal anghyflogaeth yn talu'n well na bod yn was fferm!

Petai hyn oll ddim yn ddigon i'r amaethwyr, problem enfawr arall oedd cyflwr yr economi'n gyffredinol. Wedi'r cyfan, prin yr oedd pobl yn medru fforddio prynu angenrheidiau cwbl hanfodol bywyd megis bwyd a dillad, heb sôn am unrhyw 'foethau' eraill, y pethau yr ydym ni heddiw'n eu cymryd yn gwbl ganiataol, ac o ganlyniad yr oedd diwydiannau eraill yn dioddef am nad oedd pobl â'r moddion i brynu eu cynnyrch; yr oedd hyn yn ei dro'n creu mwy o ddiweithdra yn y diwydiannau hynny gan waethygu'r sefyllfa eto fyth. Ac i gwblhau'r cylch dieflig yn llawn, yr oedd y bobl, oherwydd diffyg maeth priodol, yn aml yn rhy wan neu'n rhy sâl i

weithio o gwbl!

Ym marn Y Cymro, nid oedd ond un ateb ymarferol i'r broblem, sef bod gwledydd Prydain yn mynd i orfod dibynnu llawer iawn mwy ar ei chynnyrch hi ei hunan yn hytrach na dibynnu ar y farchnad dramor yn ormodol; wele dair o enghreifftiau o ysgrifau blaen o'r fath a ymddangosodd o fewn chwe wythnos i'w gilydd ym 1933:

GWENITH (26 Awst 1933)

*GWENITH fu pwnc mawr yr wythnos hon.*

*Llawnder sy'n blino gwledydd heddiw, nid tlodi. Yn 1898 yr oedd dynion cyfarwydd fel Syr William Crookes (wrth annerch y Gymdeithas Brydeinig) yn dweud bod "Prydain a phob gwlad wareiddiedig mewn perygl difrifol bod heb ddigon i'w fwyta."*

*Ond un o'r pethau cyntaf a ddaeth yn amlwg ar derfyn y rhyfel oedd bod gallu'r byd i dyfu bwyd yn llawer iawn mwy na'i allu i'w ddefnyddio.*

*Fe amlhaodd y bobl ond fe gynyddodd y gallu i gynhyrchu yn fwy. Dywed adroddiad Pwyllgor Macmillan ar Arian a Diwydiant fod poblogaeth y byd wedi codi 10 y cant rhwng 1913 a 1928, a bod cynnyrch bwyd wedi codi 16 y cant.*

*Fe berffeithiwyd dulliau amaethu gymaint fel na raid pryderu dim yr â pobl y byd yn brin o fwyd. Y pwnc bellach yw pa le i dyfu'r bwyd y rhaid wrtho - ai gartref ai mewn gwlad arall?*

*Dysg un ysgol, a ddaeth i gryn fri yn ystod y ganrif o'r blaen, nad yw ddim gwahaniaeth ym mha le y tyfir ein bwyd, am y gallwn bob amser gael digon ohono'n gyfnewid am nwyddau ein ffactrïoedd.*

*Ond y mae dyddiau Prydain fel gweithdy'r byd drosodd. Y mae pob gwlad yn datblygu ei diwydiannau ei hun. Nid oes i Brydain ddim dyfodol o gwbl oni all gael cydbwysedd rhwng ei ffermydd a'i ffactrïoedd.*

*Am eu bod ar hyn o bryd mewn penbleth oherwydd gor-lawnder o wenith y mae Argentina, Australia, Canada a'r Taleithiau Unedig am i ni ymrwymo i beidio â rhoddi dim mwy o dir dan wenith.*

*Y mae'r rhai sydd â'u bryd ar "chwyddo'r fasnach wenith ryngwladol" (a phob masnach ryngwladol, o ran hynny) yn ofni i'r un wlad fedru ei chynnal ei hun. Dyna'r ofn a barodd i'r arianwyr cydwladol alw am y Gynhadledd Economaidd a fu yn Llundain yn ddiweddar, cynhadledd a fu, trwy drugaredd, yn gymaint o fethiant.*

*Y mae Prydain heddiw'n dibynnu llawer gormod ar wledydd eraill am ei bwyd. Ychydig dros un rhan o dair y mae yn ei godi o'i thir ei hun. Fe aberthwyd ein hamaethyddiaeth er mwyn masnach dramor.*

*Ond y mae amaethyddiaeth o hyd yn un o'n prif ddiwydiannau. Y mae iddi'r trydydd lle o ran y bobl a gyflogir, a'r pedwerydd lle o ran gwerth y cynnyrch. A dyma'r unig ddiwydiant lle y mae gobaith gwaith parhaol i filoedd o bobl nad oes dim gobaith byth i ddiwydiannau'r trefi allu eu cymryd i mewn.*

*Fe fyddai amaethyddiaeth lewyrchus yn sicr o wneud lles i'n diwydiannau ni'n hunain, canys mwyaf yn y byd a fo'n cael bywoliaeth ar ein tir mwyaf yn y byd fydd y galw am gynnyrch y ffactri i ddiwallu eu hangen. Y farchnad gartref bob amser yw'r farchnad sicraf.*

*Heblaw hynny, y wlad sydd yn ei chynnal ei hun yn unig sy'n ddiogel mewn argyfwng. Nid yw ei hamaethwyr at drugaredd hapchwaraewyr*

*rhyngwladol, nad yw gwerthu bwyd yn ddim ond ffynhonnell elw iddynt, na'i threfwyr at drugaredd hap a damwain neu fympwy tramorwyr am gyflenwad o fwyd ffres a maethlon.*

FFERMIO ER MWYN Y GENEDL (9 Medi 1933)

*FE gyfeiriwyd at Denmarc yn aml fel patrwm o'r hyn y gellid ei wneud o'n tir a'n hamaethyddiaeth ni yn y wlad hon. Y wlad fach honno oedd paradwys y tyddynnwr a phrawf o werth cydweithredu.*

*Ond y mae gan hyd yn oed ffermwyr y wlad fach ddiwyd honno eu helbulon. Bu Comisiwn Amaethyddol yno'n ystyried pa fodd y gellid gwella ychydig ar amgylchiadau'r rhai sydd ynglŷn ag amaethu. Y maent yn argymell gosod toll fwy ar wenith tramor, ac ar rawn eraill, pennu is-safon pris ar ymenyn, a rheoli'r cynnyrch uwch.*

*Wrth gwrs, nid yw'r angen am hyn yn ddim prawf o fethiant cydweithredu, ond y mae'n dangos yn berffaith glir nad yw cynlluniau cydweithredu ynddynt eu hunain yn ddigon i gadw ffermwyr a thyddynwyr gwlad uwchlaw anawsterau byw.*

*Y mae lle i gydweithredu wrth gynhyrchu, ac y mae'n rhaid wrth gynlluniau i roi'r cynnyrch ar y farchnad. Ond y mae'n rhaid edrych ar amaethyddiaeth nid fel diwydiant ag angen ad-drefnu arno, eithr fel sail pob diwydiant arall ac fel ffynhonnell bwyd gwlad.*

*"Yn y gorffennol fe'n dysgwyd i feddwl yn ymerodrol, ond yn y dyfodol bydd yn rhaid i ni feddwl yn amaethyddol", meddai Dr. Arbour Stephens, Abertawe, yng Nghymdeithas Amaethyddol Gŵyr dydd Iau.*

*Y mae hynny'n wir. Y mae amaethyddiaeth yn fwy na diwydiant sy'n rhoi (neu a ddylasai roi) bywoliaeth i ffermwyr a'u gweision. Nid er eu mwyn hwy y mae eisiau meddwl yn amaethyddol, ond er mwyn yr holl genedl, canys o'r tir y daw bwyd pob un.*

*Fe all amaethyddiaeth gwlad, fel unrhyw ddiwydiant arall, ffynnu dros dro wrth yrru'r cynnyrch i wlad arall. Ond dros dro'n unig y mae marchnad dramor. Y farchnad gartref yw'r un sy'n aros o oes i oes.*

*Yr ydym yn croesawu pob cynllun i gael gwell trefn ar farchnata cynnyrch ffermydd ein gwlad, ac i gynhyrchu mwy o'n bwyd ar ein herwau ni'n hunain. Da y gwna'r ffermwyr eu cefnogi. Ond oni bydd gallu'r bobl i brynu yn gymesur â gallu'r fferm i dyfu bwyd, ni wna'r cynlluniau gorau ddim ond gohirio argyfwng arall, ac un gwaeth efallai.*

*Dengys Mr. J. R. Owen ar dudalen arall fod marchnad dda wrth ddrws ffermwyr Cymru, yn nhrefi glannau'r môr. Yn sicr dyna alw a ddylai gael ei ddiwallu o'n ffermydd a'n gerddi ni yng Nghymru. Wrth ddywedyd hyn, purion yw cofio bod yn bosibl i farchnad cyrchfannau ymwelwyr brofi bron mor ansicr â marchnad dramor - fe all flodeuo dros dro, ac yna darfod amdani.*

*Y mae gwledydd y byd heddiw, o raid, yn symud i gyfeiriad trin eu tir a gweithio eu ffactrïoedd i ddiwallu eu pobl eu hunain.*

*Wrth gwrs, y mae dylanwadau cryfion yn ceisio atal y duedd yna. Llaw'r arianwyr, nad ydynt yn adnabod gwlad nac yn meddwl am bobl, oedd yn arwain dwylo'r rhai fu'n arwyddo'r cytundeb gwenith a feirniadwyd gan 'Y Cymro' bythefnos yn ôl. Ond fe fydd pob ymgais o'r fath yn ofer.*

YR ATHRO ASHBY A'R TIR (7 Hydref 1933)

*FE ddywedir yn aml mai'r amaethwyr yw'r dosbarth mwyaf ceidwadol dan haul, ac y mae rhai yn barod i gredu mai ar y ffermwyr eu hunain y*

*mae'r bai am nad yw'r diwydiant yn llewyrchus.*

*Fe ddylai'r hyn a ddywedodd yr Athro A. W. Ashby, Aberystwyth, yn Buxton, symud pob camsyniad o'r fath.*

*Y mae amaethyddiaeth, meddai ef, wedi gwneud mwy o gynnydd yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf na phob diwydiant arall gyda'i gilydd, ac eithrio'r diwydiannau newydd sbon.*

*Fe all amaethyddiaeth heddiw gynhyrchu mwy o'r hanner na 50 mlynedd yn ôl, ac fe'n sicrheir gan yr Athro Ashby nad yw tyddynwyr bychain Cymru ar ôl gwledydd eraill am amaethu'n effeithiol.*

*Er hynny i gyd, nid yw cyfartaledd eu hincwm ddim mwy na £100 y flwyddyn, ac y mae llawer teulu'n waeth eu byd na rhai sy'n derbyn budd anghyflogaeth.*

*Y mae'n rhaid gwneud dau beth os yw amaethyddiaeth i ffynnu. Y mae'n rhaid i'r bobl i gyd fedru prynu mwy, ac y mae'n rhaid codi safon byw pobl y parthau gwledig.*

*Y mae'r 'Cymro' o'r cychwyn wedi pwysleisio hyn, ac yn croesawu siarad plaen yr Athro Ashby.*

*Peth cwbl ofer yw sôn am roddi'r di-waith ar y tir oni roddir bywoliaeth deilwng i'r rhai sydd eisoes ar y tir.*

*'Does dim amheuaeth o gwbl na allem godi gwerth £200,000,000 arall o gynnyrch o'n tir, a rhoi bywoliaeth i chwarter miliwn o leiaf o deuluoedd yn rhagor.*

*Y mae synnwyr cyffredin yn dweud wrthym y dylai'n gwlad ni ddibynnu llawer llai ar wledydd eraill am ei bwyd.*

*Ac nid bwyd yn unig. Y mae Mr. Frank Hodges yn proffwydo y byddwn cyn pen deng mlynedd yn medru cael olew o'n glo ni'n hunain. Dyna'r unig obaith i'r miloedd sydd mewn tlodi yn ardaloedd ein glofeydd.*

*Y mae dau beth y mae'n rhaid i'n gwlad ni (a phob gwlad arall) eu gwneud: gwneud y gorau o'i hadnoddau naturiol hi ei hun, a chael trefn arian a ddosbarthai bob cynnyrch i ddiwallu angen y bobl amdano.*

Un peth sy'n werth tynnu sylw ato yw'r modd y mae'r Cymro yn yr ysgrif flaen ddiwethaf uchod yn pwysleisio nad ar y ffermwyr eu hunain y mae'r bai nad yw'r diwydiant mewn cyflwr llewyrchus: hynny yw mae'r papur yn ochri â'r ffermwyr ac nid â'r rhai sy'n eu beirniadu. Fe welir mai dyma yw patrwm cyffredinol ysgrifau blaen Y Cymro ac nid yw hyn yn annisgwyl o gwbl o gofio bod cynifer o'i ddarllenwyr yn ffermwyr; yn yr un modd mae'r papur yn ochri â'r glowyr a'r chwarelwyr am y rheswm syml bod y darllenwyr angen safbwynt i uniaethu ag ef a llais i siarad ar eu rhan.

Mae'n gwestiwn mawr i ba raddau y gall barn o'r fath fod yn gwbl wrthrychol a diffuant, ac i ba raddau y teimla'r golygydd ei fod yn rhaid iddo siarad o safbwynt darllenwyr ei bapur bob amser pe na bai ond er mwyn cynnal ffigyrau cylchrediad y papur; o fod yn deg, fodd bynnag, nid yw barn Y Cymro yn ymddangos yn anniffuant ac mae'n rhaid cydnabod bod y papur yn aml yn dweud llawer o wirioneddau a oedd â mawr angen eu dweud ac yn siarad dros weithwyr a oedd yn dioddef cam dybryd dan y drefn oedd

ohoni. Dyma enghraifft arall o'r papur yn siarad o safbwynt y ffermwyr, o rifyn 14 Ebrill 1934, y tro hwn gan ddychwelyd at bwnc Y DEGWM ETO:

*BYDD cynrychiolwyr cynghorau sir Cymru yn cyfarfod ein haelodau Seneddol ar Ebrill 25 i drafod pwnc y degwm.*

*Fe gydnebydd pawb fod y degwm heddiw'n faich afresymol o drwm ar ffermwyr ein gwlad, yn arbennig ar y rhai y bu'n rhaid iddynt brynu eu lleoedd yn ddrud gydag arian benthyg rhag cael eu troi o'u cartrefi.*

*Trwy i brisiau anifeiliaid a chynnyrch y tir ddisgyn, aeth toll y gellid ei thalu trwy ymdrech ar adeg well yn faich llethol. Rhaid i'r amaethwr heddiw werthu cynnyrch dwy fuwch i glirio dyled y gallai, dro'n ôl, ei chlirio â chynnyrch un, neu gynnyrch dwy acer o dir i dalu swm y gellid ei dalu â chnwd un cae. Y mae hynny'n anghyfiawnder ac yn ysbail.*

*Nid yw'n rhyfedd felly bod yr amaethwyr yn codi mewn gwrthryfel yn erbyn y degwm, a bod yr awdurdodau'n cael trafferth i gasglu symiau nad oes ganddynt ddim hawl i'w maddau na'u gostwng.*

*Y mae'r deddfau presennol yn galw am eu newid yn llwyr, ac nid yw'r mesur a gynigir yn awr yn y Senedd yn ddim ond chwarae â'r cwestiwn. Ac y mae'n gwbl ddiwerth i Gymru.*

*Y mae'r gwahanol gynghorau sir yn cael cyfle i anfon cynrychiolwyr i drafod y mater gyda'u haelodau Seneddol. Yr ydym yn croesawu'r gynhadledd yma am y credwn y dylai'n haelodau Seneddol fod mewn cyffyrddiad agos â'n cynghorau lleol ac â'n diwydiannau. Ac yn sicr fe ddylai'r cynghorau ddal ar y cyfle i anfon y cynrychiolwyr cymhwysaf y gellir cael gafael arnynt i drafod y pwnc pwysig hwn gyda'r dynion y disgwylir iddynt roddi llais i farn y wlad yn y Senedd.*

*Nid oes neb yn tybio mai baich y degwm yw'r unig faich anghyfiawn y mae amaethwyr a thyddynwyr ein gwlad dan orfod i'w ddwyn heddiw. Y mae miloedd wedi gorfod prynu eu cartrefi'n ddrud gydag arian benthyg, ac y mae'r llogau a hawlir yn gwasgu'n drymach na'r rhenti a delid gynt - gyda llawer llai o obaith gostyngiad. Ni ellir cyfiawnhau llogau o 5 y cant (a rhagor) heddiw.*

*Sonia'r gwleidyddwyr yn aml am wneud gwell defnydd o'n tir, fel un peth a liniarai ychydig ar ddrwg anghyflogaeth. Ac y mae'n gwbl eglur y gellid cael gwaith i filoedd yn rhagor ar y tir i dyfu'r bwydydd y mae ein gwlad heddiw yn eu prynu mewn gwledydd eraill.*

*Ond ofer fydd pob ymgais i osod mwy o deuluoedd ar ein tir os na sicrheir eu bod yn cael mwynhau ffrwyth eu llafur eu hunain, yn lle bod fflangell gofynion o'r tu allan, a phrisiau isel, yn eu cadw'n waeth eu cyflwr na chaethion, ac yn dlotach ar derfyn blwyddyn o ychwanegu at wir gyfoeth gwlad nag oeddynt ar ei dechrau.*

Ymddangosodd ysgrif flaen arall o dan y teitl Y DEGWM ETO yn Y Cymro bythefnos yn ddiweddarach, a gwelir y papur unwaith yn rhagor yn cydnabod bod y Degwm yn 'faich llethol' ar ffermwyr:

*GO brin y bydd y rhai sy'n talu degwm yng Nghymru yn fodlon ar unrhyw gynllun y gall y pwyllgor a benodwyd yn y gynhadledd ddydd Mawrth daro arno i leihau baich y degwm.*

*Fe'u cyfarwyddwyd i dynnu allan gynllun i leihau'r llog sy'n cael ei dalu ar ddyled Dirprwywyr y Meddiannau Eglwysig i'r Trysorlys. Y*

*mae'r llog hwnnw yn 5½ y cant, ac i'w dalu hyd 1954, pan fydd y degwm yn dod yn eiddo i'r cynghorau sir a'r brifysgol, fel canlyniad datgysylltu a dadwaddoli'r Eglwys yng Nghymru.*

*Fe gytuna pawb fod y llog yn llawer rhy uchel heddiw, ac yn golygu baich llethol ar filoedd o amaethwyr sydd wedi prynu eu ffermydd yn ddrud rhag cael eu troi o'u cartrefi a cholli unig foddion eu cynhaliaeth.*

*Ni ddaw'r Mesur sydd ar hyn o bryd gerbron y Senedd â dim mantais i Gymru, achos ni cheid budd oddi wrtho heb i'r degwm fod tua wyth swllt yr acer.*

*Er bod y degwm yn llai yng Nghymru nag yw yn Lloegr, y mae gan ffermwyr Lloegr y cysur y byddant hwy, ym mhen rhyw drigain mlynedd, wedi clirio'r degwm allan o fod. Ond yng Nghymru, os na cheir deddfwriaeth arbennig i'w ddiddymu, fe fydd y degwm yn parhau tra rhedo dŵr.*

*Prisiau isel pob cynnyrch tir sydd yn gwneud y degwm yn faich mor llethol ar amaethwyr heddiw, ac fe obeithia pawb sy'n meddwl am les amaethyddiaeth y bydd i'r pwyllgor gael gafael ar gynllun ymarferol a leddfa beth ar y baich trwm sy'n gwasgu'n hamaethwyr.*

Yn ôl y brawddegau a danlinellwyd uchod, 'os na cheir deddfwriaeth arbennig i'w ddiddymu, fe fydd y degwm yn parhau tra rhedo dŵr'; ym 1936 fodd bynnag cafwyd deddfwriaeth o'r fath, y bu cymaint o ddisgwyl amdani, gan wneud i ffwrdd o'r diwedd â threfn a achosodd gymaint o boen i ffermwyr Cymru.

Yn ystod y misoedd a ddilynodd yr adroddiad uchod gwelwyd bod barn Y Cymro ynglŷn â sut i geisio datrys problemau'r diwydiant amaethyddol mor gadarn ag erioed, ac yn y tair enghraifft ganlynol, dwy ohonynt o fis Mehefin 1934 ac un o fis Chwefror 1936, pwysleisir unwaith eto, ymysg rhai eraill, y pwyntiau canlynol:

1. Bod mwy o blant ac oedolion y wlad yn dioddef am nad ydynt yn cael digon o laeth yn hytrach na'u bod wedi yfed llaeth gwartheg afiach;
2. Nad llaeth yw'r unig beth y maent yn brin ohono;
3. Na fydd sefyllfa'r diwydiant amaethyddol yn gwella hyd nes y bydd pobl gyffredin â'r moddion i brynu'r cynnyrch;
4. Bod yn rhaid i'r rhai sy'n gweithio ar y tir gael bywoliaeth deilwng;
5. Ei bod hi'n well o lawer i bob gwlad fyw hyd y gall ar gynnyrch ei thir ei hun yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar y farchnad dramor:

AMAETHU'N NEWID (2 Mehefin 1934)

*Y MAE amaethu, a ystyrrid gyda'r mwyaf ceidwadol o'r crefftau, yn newid yn gyflym, a bydd ffermio cyn bo hir yn bur wahanol i'r hyn ydoedd i'n tadau. Y mae peiriannau, gwyddoniaeth, ac ymyriad y Wladwriaeth, gyda llu o wahanol gynlluniau, wedi peri chwyldro yn holl waith y fferm.*

*Nid oes neb yn berffaith fodlon ar y cynlluniau a gafwyd eto, a'r gorau, hwyrach, ellir ei ddweud amdanynt yw y buasai pethau'n waeth hebddynt.*

*Nid helpu'r amaethwyr yw amcan pennaf y cynllun a awgrymwyd yr wythnos hon, eithr diogelu iechyd y wlad, trwy sicrhau iddi gyflenwad o laeth glân a phur.*

*Wrth gwrs, fe ddylai hynny droi'n fantais fawr i'r amaethwyr eu hunain, trwy estyn oes gwartheg godro a symud pob amheuaeth ym meddwl y cyhoedd am ansawdd y llaeth a brynir ganddynt.*

*Barn y pwyllgor a fu'n ystyried y pwnc yw bod tua 40 y cant o wartheg godro'r wlad yn dioddef i ryw fesur oddi wrth y darfodedigaeth. Ni olyga hyn wrth gwrs bod cymaint â hynny'n dioddef digon i'w llaeth effeithio dim ar iechyd y rhai a'i hyfo. A rhaid cofio hefyd na wnaed erioed ymchwiliad digon llwyr i neb fedru dweud faint o wartheg sy'n dioddef, ac mai dim ond amcangyfrif, heb ddim sail bendant, yw unrhyw ffigur a nodir gan bwyllgorau ymchwil ar hyn o bryd.*

*Beth bynnag yw'r gwir ffeithiau, fe ellir bod yn lled sicr bod mwy o blant yn ein gwlad yn dioddef am nad ydynt yn cael digon o laeth nag sy'n dioddef oherwydd eu bod wedi yfed llaeth gwartheg afiach.*

*Yr un pryd, petai dim ond un o bob cant o wartheg yn afiach, y mae hynny'n ormod, ac fe gytuna pawb bod eisiau cael buchesau cwbl iach. Nid digon yw diheintio llaeth afiach. Rhaid symud achosion afiechyd ar anifeiliaid, ac i'r amcan hwnnw y mae pwnc porthiant yn galw am fwy o sylw nag a gafodd eto.*

*Barn bendant rhai yw mai bwydydd cartref, cynnyrch naturiol ein tir ni ein hunain, a roddai i ni wartheg iach. Ac ni ellir anwybyddu'r farn yma fel mympwy. Hawlia'r pwnc ystyriaeth ofalus.*

*Gyda'r fath newid yn nulliau amaethu, fe fydd yn rhaid i amaethwyr y genhedlaeth nesaf ddysgu mwy na chrefft eu tadau, ac y mae hynny'n cael ei sylweddoli bellach gan ffermwyr ymarferol. Yn un o bwyllgorau sir Undeb yr Amaethwyr yng Nghymru fe gymharwyd y symiau bychain a werir ar ysgoloriaethau i feibion a merched ffermydd i berffeithio'u hunain ar gyfer cael y gorau o'r tir rhagor yr hyn a werir ar addysg athrawon. Arwydd iach yw gweled ein ffermwyr yn deffro ac yn hawlio gwell manteision addysg amaethyddol.*

*Ond pa mor dda bynnag yw'r gwahanol gynlluniau a gynigir i wella marchnadoedd, sicrhau prisiau uwch, gwella'r cynnyrch, a pherffeithio addysg y rhai sydd ar y tir, ni ddaw amaethyddiaeth allan o'r gors anobaith y mae ynddi tra y bydd pobl gwlad a thref heb foddion i brynu.*

*Nid damcaniaeth mo hyn, ond ffaith a ddylai fod mor eglur â bod dŵr yn rhedeg i'r pant. Ac fe'i pwysleisiwyd yn glir gan Mr. Arthur Jones, o Goleg Amaethyddol y Canolbarth, wrth siarad yng Nghynhadledd Cymdeithas Trefnu Amaethyddiaeth Cymru yn Aberystwyth. "Y broblem fwyaf heddiw", meddai, "yw anallu y wlad i brynu."*

## CYNI POBL Y TIR (16 Mehefin 1934)

*YN un o bwyllgorau lleol Awdurdodau Cymorth Cyhoeddus Sir Feirionnydd fe gyfeiriwyd at y symiau a delir yn gymorth byw i weithwyr y tir. Yn y cylch hwnnw, yr oedd £1,000 wedi eu talu gan y pwyllgor cymorth.*

*Hanes tebyg sydd mewn rhannau eraill o'r wlad - pobl wedi eu dwyn i fyny i weithio ar y tir yn methu cael gwaith arno, ac yn uno yn yr*

*ysgarmes am waith mewn diwydiannau neu wasanaethau sy'n barod yn orlawn, neu yn gorfod gofyn cymorth yr awdurdodau elusen.*

*Tra yr erys pethau fel hyn, cwbl ofer yw annog cynlluniau i sefydlu'r di-waith ar y tir. Y mae'n berffaith wir y gellid gwneud gyda miloedd yn rhagor yn trin ein tir a chodi bwyd i'r genedl ohono. Ond y cam cyntaf at wneud hynny yw gweled bod y rhai sydd ar hyn o bryd ar y tir yn cael bywoliaeth deilwng, ac na bo'r rhai sy'n gyfarwydd â'r gwaith yn gorfod segura a chardota help awdurdodau cyhoeddus neu waith ynglŷn â rhyw orchwyl arall.*

*Yn ystod yr hanner canrif diwethaf y mae 650,000 wedi gorfod cefnu ar waith amaethyddol. Yr oedd y lleihad yn y gweithwyr amaethyddol yn 160,000 rhwng 1920 a 1932.*

*Nid o'i fodd y mae'r un amaethwr cyfrifol yn gwneud ar lai o ddynion. Ac nid am nad oes waith i'w wneud chwaith. Ychydig iawn yw nifer y ffermydd nad oes modd gwella llawer arnynt.*

*Y gwir reswm yw na ellir talu i'r rhai sy'n gweithio ar y tir heb i'r pris a geir am gynnyrch fod yn ddigon i dalu holl gostau cynhyrchu. Ac ni all y prynwyr ddim talu prisiau teg heb fod ganddynt y moddion angenrheidiol i hynny.*

*Y mae'r wlad heddiw'n disgwyl am wladweinwyr digon eofn i symud y rhwystrau sydd wrth wraidd y drwg. Ac y mae'n rhaid hefyd wrth chwyldro meddwl trwyadl a ryddhai'r bobl oddi wrth gyfeiliornadau ynghylch gwir werthoedd bywyd a gwaith.*

*Yn y pen draw nid yw'n talu i bobl brynu'r nwyddau rhataf, a gwell o lawer fuasai i bob gwlad fyw hyd y gall ar gynnyrch ei thir ei hun.*

## NEWID AGWEDD (22 Chwefror 1936)

*AMLYGIR agwedd sy'n newydd ac yn chwyldroadol bron yn y datganiadau a wneir ar bwnc amaethyddiaeth y dyddiau hyn. Wedi esgeuluso'r diwydiant pwysig yma am ganrif a hanner, canfyddir bellach fod yn rhaid edrych arno o safbwynt y genedl.*

*Arwydd dda yw'r osgo newydd a amlygir. Dechreuir canfod mai'r tir yw trysordy ein hiechyd, a bod yn rhaid i ni, os ydym am godi cenedl iach, ofalu bod cynnyrch gorau'n tir yn cyrraedd cylla'r anghenus.*

*Cam pwysig i'r cyfeiriad hwn yw rhoddi llaeth rhad i blant ysgol, ac fe gytunai Seneddwyr o bob plaid pan fu trafodaeth ar y cynllun llaeth mai da yw gadael i'r plant gael digon o laeth. Pleidiai Mr. Clement Davies a Mr. Daniel Hopkin roddi llaeth rhad i blant ysgol. Dadlenodd Mr. Robert Richards gyflwr truenus pan gyfeiriodd at anhawster ysgol wledig i gael llaeth. Un o wendidau'r cynllun presennol yw ei fod mewn rhai amgylchiadau yn dihysbyddu ardaloedd gwledig o'u llaeth a pheri bod teuluoedd sy'n byw bob dydd yng ngolwg buchesi llaethog yn gorfod mynd heb laeth ffres tra y mae miliynau o alwyni'n cael eu hanfon i'r trefi nes rhoddi'r Bwrdd Llaeth mewn penbleth pa beth i'w wneud â'r "gormodedd".*

*Prin y buasai barn y wlad mor aeddfed o blaid rhoddi llaeth rhad i blant ysgol oni bai am anawsterau'r Bwrdd Llaeth. Rhybudd addas oedd eiddo Mr. Walter Elliott na ddylid edrych ar y plant fel llestri i dywallt iddynt y "gormodedd" presennol. Hawdd wrth drafod y pwnc yw rhoddi'r drol o flaen y ceffyl. Y mae'n rhaid ystyried y plant fel dinasyddion y dyfodol, ac y mae rhoddi cychwyn priodol iddynt hwy yn bwysig ynddo'i hun, ac nid am fod hynny'n digwydd hwyluso tasgau'r Bwrdd Llaeth ar hyn o bryd.*

*Y mae'r un mor rhesymol rhoddi llaeth rhad i'r plant er mwyn codi dinasyddion iach ag ydyw rhoddi addysg rad iddynt.*

> *Ond nid y plant yn unig sy'n dioddef o ddiffyg bwyd maethlon, ac nid llaeth yw'r unig beth y mae rhai miloedd yn cael rhy fychan ohono. Wrth wrthod awgrym i roddi llaeth rhad i ysbytai, amlygodd Mr. Elliott ei fod yn canfod nad teg rhoddi llaeth rhad heb fabwysiadu cynllun ehangach a gynhwysai fwydydd eraill.*
>
> *Bron bob tro y sonnir am gynlluniau a fuasai'n hybu amaethyddiaeth, fe feirniedir egwyddor estyn cymorth o bwrs y wlad. Purion fyddai i'r beirniaid hyn sylweddoli bod y wlad yn ddwfn yn nyled amaethyddiaeth a phobl y wlad, sydd ers amser maith wedi bod yn cynorthwyo y wlad i gyd drwy weithio'n galed i'w chyfoethogi tra'n gorfod byw eu hunain ar dâl digon bychan.*
>
> *Heblaw hynny, nid yw pob elw a mantais genedlaethol yn gyfryw ag y gellir eu mesur yn nhermau £.s.d. nac wrth safonau'r cyfrifydd. Cyfaddefwn hynny yn ein gwasanaethau cyhoeddus - ynglŷn ag addysg, y galluoedd amddiffyn, swyddogion y Llywodraeth a'r cynghorau lleol.*
>
> *Geilw angen miloedd o deuluoedd am ragor o fwydydd maethlon, a geilw'r rhai sy'n cynhyrchu'r bwydydd hynny yn daer am gwsmeriaid. Ni ddiwellir mo'r anghenus na symud pryder y cynhyrchydd, heb un ai roddi bwyd rhad i'r anghenus a thalu drosto i'r cynhyrchydd, neu roddi i'r anghenus foddion prynu fel y gallo ei ddigoni ei hun wrth ei ddewis.*
>
> *Yn y pen draw, un broblem ydyw dwyn y cynhyrchwyr allan o'u hanawsterau a digoni'r bobl, a phroblem dosbarthu ydyw honno'n bennaf. Ac mewn cymdeithas gymhleth arian yw'r moddion dosbarthu. Y mae'n gwbl amhosibl cael cydbwysedd rhwng cynhyrchu a defnyddio heb drefn arian amgenach na'r un sydd gennym heddiw, trefn sy'n gloffrwm ar gynnydd ac yn rhwystr i gyfiawnder.*

Wrth gwrs, digon hawdd i'r Cymro ddweud yr holl bethau uchod, a wnâi lawer o synnwyr; yn achos amaethyddiaeth fodd bynnag (fel yn achos llawer o ddiwydiannau eraill megis glo a llechi) yr oedd 'Haws dweud na gwneud' yn ddywediad llawer rhy addas gan mai amhosibl, bron, oedd torri'r cylch dieflig a wnâi fywydau miliynau o bobl mor galed.

Yn Y Cymro 27 Mehefin 1936 ymddangosodd yr ysgrif flaen ganlynol sy'n llawer mwy 'ymarferol' ac yn annog ffermwyr Cymru i gydweithio â'i gilydd a pheidio bod mor hunanol. Ym marn y papur ni allai'r ffermwr cyffredin 'fforddio gloddesta'i falchder hunanol ar y pleser gau o fod ychydig ar y blaen i'w gymydog' am y rheswm syml bod cydweithio yn y pen draw yn llesol i bawb. Yr oedd y ffermwyr, megis gweithwyr yn gyffredinol, yn meddwl yn gwbl hunanol gan roi eu lles hwy eu hunain yn gyntaf, a chredent na ddeuai unrhyw fanteision o gydweithio â ffermwyr eraill; yr eironi mawr, fodd bynnag, fel y dywed Y Cymro isod, oedd y buasai manteision mawr o gydweithio â'i gilydd, ac felly trwy fod yn hunanol yr oedd y ffermwyr mewn gwirionedd yn dad-wneud yr union fwriad yr oeddynt yn ceisio'i gyflawni:

CYDWEITHIO

*ER y cwynid yn aml ei bod bron yn amhosibl cael amaethwyr i gydweithio â'i gilydd, diddorol yw deall fod cyfanrif aelodau'r gwahanol gymdeithasau cydweithredu yng Nghymru bron yn hanner cyfanrif yr holl ffermwyr mawr a bach.*

*Fe bwysleisiwyd yng nghynhadledd Cymdeithas Trefnu Amaethyddiaeth Cymru mai nid wrth nifer yr aelodau y mae mesur nerth Mudiad Cydweithredu, ac fod modd i ffigurau'r fasnach dyfu heb i'r ysbryd cydweithio gynyddu'n gymesur â hynny. Twf afiach yw'r twf na bo'r ysbryd yn cynyddu yr un pryd, a bydd yr awel lem gyntaf yn sicr o beri iddo edwino.*

*Nid oes iechydwriaeth i amaethwyr ond ar linellau cydweithredu, canys ar ei ben ei hun y mae'r ffermwr yn llawer iawn rhy wan i ddal ei dir yn y gystadleuaeth ffyrnig sy'n nodweddu'n trefn economaidd heddiw. Yn wyneb amodau heddiw ni all y ffermwr fforddio gloddesta'i falchder hunanol ar y pleser gau o fod ychydig ar y blaen i'w gymydog. Y mae'n geidwad i'w gymydog, a'i gymdogion yw ei geidwaid ef.*

*Soniwyd yn y gynhadledd yn Aberystwyth am aelodau amlwg pwyllgorau'r Mudiad yn gwsmeriaid sâl, ac am y duedd i ddefnyddio prisiau'r Gymdeithas Gydweithredu fel ffon bargen i gael nwyddau am brisiau is gan ffyrmiau cystadleuol. Ni ddeallodd y rhai sydd yn y camwedd hwn ystyr cydweithredu, ac y mae'n rhaid eu trwytho â'r ysbryd sy'n hanfodol i lwyddiant y Mudiad cyn y daw gobaith gwelliant parhaol ar eu hamgylchiadau. Unwaith y deëllir mor hanfodol yw cydweithio er mwyn sicrhau i'r rhai sy'n trin y tir fesur helaethach o gynnyrch eu llafur, nid ag abwyd y temtiwr y denir yr un ffermwr i gefnu ar ei fudiad ei hun. Nid ag us y mae dal hen adar.*

*Diddorol yw sylwi mai'r cymdeithasau sy'n prynu nwyddau i'w hail ddosbarthu ymysg yr aelodau sydd wedi llwyddo mwyaf. Yn wir, y mae'r amaethwyr i'w llongyfarch am y llwyddiant a fu ar y rhain. Ond y mae'r maes sy'n debyg o roddi'r cnwd mwyaf eto heb ei fraenaru; prin y gwnaed dim mwy na thorri ychydig ar y drain a'r mieri wrth y porth. Maes cydweithredu i osod y cynnyrch ar y farchnad yw'r maes sy'n galw am ei drin bellach. Dyna'r maes y mae mwyaf o chwyn iddo. Y mae'r gwastraff sydd ynglŷn â dosbarthu yn rhwystro'r cynhyrchydd rhag cael pris teg, er fod y prynwr efallai'n talu'n ddrud am ei angenrheidiau.*

*Dengys adroddiad y Gymdeithas Drefnu fod ardaloedd gwasgaredig Deheudir Cymru yn farchnad i werth hanner miliwn o bunnau bob blwyddyn o bytatw o'r Iwerddon a siroedd dwyreiniol Lloegr. Cyrchu dŵr dros afon yw hyn. Rhaid i amaethwyr Cymru fynnu'r afael ar y farchnad sydd yng Nghymru, yn yr ardaloedd diwydiannol ac yn y trefi gwyliau. Ar ei ben ei hun y mae'r amaethwr bron yn ddiymadferth, ac at drugaredd galluoedd cryfach o lawer nag ef ei hun. Cydweithredu yw'r unig obaith, ac y mae'n rhaid wrth weledigaeth, argyhoeddiad, a theyrngarwch i'w gilydd.*

Un o benawdau amaethyddol mwyaf cofiadwy'r Cymro yw'r un a ymddangosodd ar dudalen flaen rhifyn 2 Gorffennaf 1938:

LLAETH: PRIS GORFFENNAF I'R YFWR 7g. Y CHWART

CAIFF Y FFERMWR - 3c. " "

PWY GAIFF Y GWEDDILL? 4c. " "

Yn yr adroddiad hwn, a ddyfynnwyd yn llawn yn y bennod flaenorol, dywed Gohebydd Amaethyddol y papur fod y Golygydd 'wedi caniatáu

imi, ar ran y ffermwr sydd yn cynhyrchu llaeth, egluro yn fyr beth yw'r rhesymau a fynegir i gyfiawnhau'r codiad yn y pris [o 6c i 7c]'. Wedi egluro hynny mae'n cloi â'r geiriau canlynol:

> *....Yr wyf yn gadael y mater yn y fan yna, gan hyderu y gwêl y cyhoedd a ddarllen yr eglurhad yma nad yw'r ffermwr yn derbyn pris annheg am y llaeth a gynhyrchir ar ei fferm drwy lawer o lafur, gofal a chost.*

Unwaith eto felly gwelir bod Gohebydd Y Cymro yn siarad o safbwynt y ffermwr, yn union fel y gwna'r papur ei hunan yn ysgrif flaen yr un rhifyn, sy'n pwysleisio'n glir mai ar y cwmnïau mawr a oedd â'u bryd ar wneud yr elw mwyaf posibl, ac yn y pen draw ar y Llywodraeth ei hunan, yr oedd y bai am bris uchel y llaeth, nid y ffermwyr:

LLAETH - Y CYHOEDD A'R FFERMWR

> *CYHOEDDWN yn y rhifyn hwn ddatganiad gan ein Gohebydd Amaethyddiaeth yn rhoddi'r rhesymau am y codiad o geiniog y chwart ym mhris llaeth yng Ngorffennaf. Credwn y sylweddola'r cyhoedd yn rhwydd ddarfod i'r sychder anghyffredin a gawsom y gwanwyn diwethaf olygu costau ychwanegol nid bychan i'r amaethwr er cadw'r cyflenwad o laeth i fyny â'r galw. Ond credwn y cyfyd ei ddatganiad gwestiwn lletach o lawer na hwn. Y mae pris llaeth eisoes yn rhy uchel, a chyn bo hir cynhyrchir safle anodd a thost gan gyfartaledd enfawr costau dosbarthu llaeth, treuliau'r Bwrdd Marchnata, heb sôn am yr elw a wna'r dosbarthwr iddo'i hun.*
>
> *Nid yw'r Bwrdd Marchnata Llaeth wedi bod yn gwbl ddiwerth i'r amaethwr. O leiaf, y mae ei elw, oedd gynt mewn perygl ar brydiau, yn awr yn ddiogel a phrydlon. Ond, ar y llaw arall, y mae'r buddiannau neilltuol yn y dosbarthiad yn aruthrol, a'r canlyniad yw y rhaid i'r amaethwr grefu am ragor o arian i gyfarfod â chostau cynhyrchu newydd ac annisgwyliadwy. Ar gefn y cyhoedd y bwrir y baich gan y dosbarthwyr ar unwaith. Godra'r ffermwr y fuwch, bid siŵr, ond yn ôl y ffigurau a ddangosir nid efe a odra'r cyhoedd. Ond hyn sydd sicr, y mae rhywun yn godro'r cyhoedd.*
>
> *Y ffaith amdani yw bod effeithiau cwmnïau cyfunol, siopau-cadwyn, a'r math yna ar gyfundrefnau masnachol a dyfodd mor gyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fel cyllell-fôr, octopus anferth a'i linynnau yn ymestyn i bob congl o'n bywyd masnachol, gan wasgu a thorfynyglu pob masnachwr bach, annibynnol, a saif ar lwybr y cwmnïau mawr. Nid yw bywoliaeth y siopwr bach, na buddiannau'r cyhoedd, yn ddim yn ymyl elw anferth yr octopus. Yn wir, amheuwn weithiau a gofiant fod y fath beth â chwarae teg i'r cyhoedd a mân-fasnachwyr.*
>
> *Pan ddeffry'r genedl i'r ffaith fod bwyd anhepgorol a gynhyrchir gartref yn cael ei wneud yn gyfrwng i ffurfio cwmnïau cyfunol, a gwneud elw aruthrol i ychydig bersonau mewn clymblaid, bydd helynt nid bychan.*
>
> *Nid oes gennym ffydd o gwbl mewn rheolaeth ar ddiwydiant gan y Llywodraeth. Cyn y gall ofyn am ein ffydd yn ei gallu a'i hewyllys da yn rheolaeth diwydiant Prydain, rhaid iddi brofi medr na welwyd hyd yma i gadw gwastraff cenedlaethol i lawr, cwtogi elw ar arfau rhyfel,*

*rheoli'r arian a werir am fetio a gamblo, nid yn unig yn y Cronfeydd Pêl-droed, ond hefyd ar Gyfnewidfa Stociau, rhoi terfyn ar wastraff afresymol llywodraeth leol a gwasanaethau cenedlaethol eraill. Ond ni ddengys ein Llywodraeth y duedd leiaf i ymboeni ynghylch iawnder a chwarae teg, rhyddid a gweriniaeth ymarferol, ond offrymu'r cwbl ar allor Busnes Mawr a buddiannau Cyllid. Pen draw'r llwybr hwn fydd ffurf ar Ffasgaeth, ffieidd-beth corff mawr ein pobl.*

*Creadur goddefgar ryfeddol yw cyhoedd Prydain, ond unwaith y try, try o ddifrif, a rhwygo'r rhai sy'n gyfrifol am y safle bresennol ynglŷn â llaeth. Bwrir y Llywodraeth sydd gennym o'r neilltu, a gosod mewn awdurdod rai a ddefnyddiant eu gallu yn unol â'r egwyddorion a wnaeth Brydain ddoe ac adeilada Brydain newydd yfory.*

Gyda dyfodiad yr Ail Ryfel Byd yr oedd y diwydiant amaethyddol yn bwysicach nag erioed ac unwaith eto, megis yn y Rhyfel Mawr, sylweddolodd y Llywodraeth fod manteision lu mewn tyfu cynnyrch ar diroedd cartref yn hytrach na dibynnu'n ormodol ar wledydd tramor. Cafwyd ymgyrch aredig arbennig gan y Llywodraeth yn apelio ar i ffermwyr droi mwy o'u tir pori ar gyfer tyfu cnydau megis gwenith, haidd, ceirch, pys, ffa, ŷd cymysg a thatws, ond fel y dywed Y Cymro yn y ddwy ysgrif flaen isod a ymddangosodd yn wythnosau cyntaf y Rhyfel, yr eironi mawr oedd bod yn rhaid cael argyfwng rhyfel o gwbl i sylweddoli gwerth cynnyrch cartref:

AREDIG A PHLANNU (23 Medi 1939)

*Y MAE'N ymddangos bod rhaid cael hergwd rhyfel a pherygl y swbmarîn i ysgwyd y wlad hon i feddwl o ddifrif am amaethyddiaeth ac i weled y tir yn ei iawn oleuni. Gan fod gennym ffatrïoedd, y mae hi'n haws gwneud pethau a'u hanfon i ffwrdd, a dyfod â'n bwyd dros y môr yn eu lle, na thyfu'r bwyd hwnnw gartref. Felly yr esgeulusir llawer o gyfoeth naturiol y wlad, ac y'n gwanheir ni ar gyfer rhyfel. Yn awr y mae ymdrech o'n blaen, a pherygl i'n bwyd fynd i waelod y môr. Felly dyma ni'n troi'n sylw at ein tir ein hunain. Fe wnaethom hyn yn y rhyfel mawr o'r blaen hefyd, ond mynd yn ôl at ein hen arferion a wnaethom wedi hynny. Gobeithiwn bod yr ymdrech newydd hwn yn rhywbeth sydd i barhau. Wrth edrych dros yr ugain mlynedd diwethaf ar fethiant cynlluniau tir trwy ddiffyg cefnogaeth, teimlwn fod ein ffolineb yn haeddu cosb. Ond yn awr, cawn anghofio pob cwyn, a gweithio o ddifri, palu a phlannu, aredig a hau a medi. Gobeithiwn mai mewn heddwch y cawn fedi. Oherwydd, er ein bod yn paratoi at ryfel hir, rhaid ymbil am heddwch.*

DYSGER Y WERS (21 Hydref 1939)

*Y MAE cardiau rasiwn - cardiau dogni bwydydd - i gael eu rhoddi inni unwaith eto. Unwaith eto y mae'r ffolineb o ddibynnu ar wledydd eraill am brif angenrheidiau bywyd yn cael ei ddangos yn eglur inni. Fe ârwyd*

*llawer o dir newydd rhwng 1914 a 1918, ond wedi hynny fe adawyd iddo droi'n dir glas drachefn, a gadael i'n ffermwyr wynebu caledi a dyled. Yn lle cael help gan y Llywodraeth, cael eu llesteirio y byddai pob symudiad i roi bywyd newydd yn y wlad. Pan eid â dynion di-waith i ffermydd dysgu, gydag anawsterau mawr y byddent yn cael eu tâl anghyflogaeth.*

*Dysger y wers, a phenderfynu, pan fydd y rhyfel hwn heibio, na wnawn ni ddim wynebu dirwasgiad a diffyg gwaith tra bo'r tir yn gorwedd yn segur. Fe ddylem ymdrechu tuag at wir lawnder, gan fedi rhoddion natur - yr unig wir gyfoeth sydd gan unrhyw wlad. Y mae'r pridd ar gael, bydd y dynion ar gael; os deuir â hwy at ei gilydd, fe gawn nid yn unig lawnder, ond byddwn hefyd wedi dileu un o achosion rhyfeloedd yr oes hon.*

Fodd bynnag, ychydig fisoedd wedi toriad y Rhyfel fe ddaeth hi'n amlwg nad oedd trefniadau ymborth y Llywodraeth yn ddigonol, ac ar ddydd Iau 25 Ionawr 1940 bu 'un o'r trafodaethau pwysicaf yn y Senedd er pan ddechreuodd rhyfel', yn ôl is-adroddiad blaen yn Y Cymro, pan godwyd cwestiwn amaethyddiaeth ac ymborth gan y Blaid Ryddfrydol Annibynnol. Siaradodd Aelodau Seneddol Cymreig yn amlwg iawn yn y drafodaeth hon, a'r prif siaradwr, heb os, oedd Lloyd George, a draddododd araith gofiadwy am dri chwarter awr yn pwysleisio mor hanfodol oedd bwyd digonol mewn unrhyw ymgyrch ryfel ac mor bwysig oedd cael cynllun o gydweithio effeithiol ar ran y Llywodraeth a fyddai'n hyrwyddo ymgyrch ryfel Prydain trwy sicrhau bod ei thrigolion yn derbyn ymborth ddigonol, yn union fel y gwnaed adeg y Rhyfel Mawr pan oedd ef yn Brif Weinidog; dywedodd fod canlyniad y rhyfel hwnnw wedi dibynnu ar y cynlluniau bwyd digonol.

Wrth ymateb i'w sylwadau yn ysgrif flaen rhifyn 3 Chwefror 1940 mae'r Cymro, yn ôl ei arfer, yn llwyr gefnogi Lloyd George ac yn beirniadu 'aneffeithiolrwydd ffiaidd' y Llywodraeth yn llym. Sylwer hefyd ei fod unwaith eto o'r farn bod yn bryd i amaethwyr Cymru gael eu Hundeb eu hunain a fyddai yn ôl y papur 'eu hunig obaith am chwarae teg':

BWYD Y BOBL

*BU trafodaeth ar gyflwr Amaethyddiaeth a galanastra'r Weinyddiaeth Ymborth yn Nhŷ'r Cyffredin ddiwedd yr wythnos a daeth areithiau o bob rhan o'r Tŷ i ddangos yn eglur ddigon i'r Llywodraeth fel yr oedd pethau.*

*Ymysg yr areithiau hyn yr oedd pedair araith amlwg gan aelodau Cymreig - gan Mr. Lloyd George, Mr. Jackson, Mr. Clement Davies (a*

*dynnodd yn ôl o fod yn gefnogwr i'r Llywodraeth) a Mr. D. Owen Evans.*

*Ni raid ond darllen araith Mr. Clement Davies, lle dadleuodd y safle ym Maldwyn, i sylweddoli bod y Llywodraeth wedi methu'n druenus yn ei chynlluniau ymborth - cynlluniau, yng ngeiriau Mr. Lloyd George - y mae buddugoliaeth yn dibynnu arnynt i raddau helaeth.*

*Y mae cyflwr Maldwyn yn wir ddifrifol ac os yw'r cyflwr yma'n gyffredinol yng ngweddill y wlad - ac ymddengys ei fod oddi wrth yr areithiau - cafwyd darlun gresynus o analluogrwydd y Cabinet ac adrannau'r Llywodraeth.*

*Dylid cofio bod y Llywodraeth mewn grym ers 1931. Yn 1936 a 1938 rhybuddiwyd hwy gan Mr. Lloyd George i'r wlad hon fod yn nes i golli'r rhyfel o'r blaen drwy brinder bwyd na thrwy ddim arall, a sylwodd fel yr oedd y wlad hon yn hwylio i ryfel ym Mawrth diwethaf hyd yn oed pan aeth yr Almaen i Sieco Slofacia. Eto nid oedd fwydydd i'r cynhyrchwyr ym Medi, a'r amaethwyr yn mynd â'u da i'r lladd-dy.*

*Gorffennodd Mr. Lloyd George ei araith gydag apêl am i'r Cabinet roddi ei holl adnoddau ar waith i wella'r drefn. Amheuwn allu'r Llywodraeth a ddaeth â'r fath anhrefn ar ein cefnau i gael y drefn yn ôl. Mae'n ymddangos o hyd fod y Prif Weinidog yn hollol fodlon i ddiswyddo Gweinidog Rhyfel a wnaeth waith anodd yn dda, a gosod yn ei le Weinidog nad oes rhyw lawer i'w gasglu oddi wrth hanes ei waith. Ond wrth gwrs y mae o hen deulu anrhydeddus. Ac y mae hyn yn cael blaenoriaeth ar athrylith o hyd.*

*Ofnwn nad oes gan y Llywodraeth y gwroldeb i wneud yr atdrefniant sy'n angenrheidiol os yw'r rhyfel i'w ennill yn yr amser byrraf posibl. Rhaid ysgubo o'r neilltu y buddiannau mawr sydd yng nghylchoedd y Llywodraeth a thrwy'r wlad. Fe flinwn ar weld yr holl wastraffu sydd yn y wlad ar adeg pryd nad oes gan y wlad ddim i'w wastraffu.*

*Yr oedd Mr. Lloyd George yn ei le'n beirniadu'r areithiau gan Weinidogion a geisiai ymesgusodi drwy ddweud fod ffordd yr Unben yn llai caled am y gallant weithredu heb y Senedd. Ai'r gred yma sy'n dal i rwystro'r Llywodraeth rhag wynebu'r rhaglen o atdrefniant a chael ymddiriedaeth y wlad? Ai dyma paham y rhoddwyd y fath awdurdod ar fywyd y wlad i'r mân-swyddogion?*

*A wrendy'r Llywodraeth ar eiriau Mr. Lloyd George a'r siaradwyr eraill? Fe ddaw yr amser yn gynt nag y tybia rhai pryd yr ysguba'r wlad rydd hon yr ofn yna sy'n cadw'r drefn bresennol i ffwrdd. Y mae gennym arweinwyr o hyd yng Nghymru nad ofnant dynnu'n ôl eu cefnogaeth i'r Llywodraeth a beirniadu ei haneffeithiolrwydd ffiaidd.*

*Protestiodd Mr. D. Owen Evans yn erbyn anghyfiawnder arall at Gymru. Yn 1938 câi ffermwyr Cymru 1/5 y pwys am eu gwlân. Pennwyd y pris yn 11½c yn awr am y gwlân Cymreig sydd cystal â dim yn y wlad, ond rhoddir 10½c y pwys i ffermwyr Sgotland am wlân nad yw'n dda i ddim ond i wneud carpedi, yn ôl Mr. Evans.*

*Y mae'r anghyfiawnderau yma tuag at Gymru yn cynyddu ac nis anghofir pan ddaw'r amser. Onid yw'n amser i amaethwyr Cymru gael eu Hundeb eu hunain? Dylasai'r prisiau a gawsant am lefrith, ac a gânt yn awr am wlân wneud iddynt feddwl yn ddwys. Dyma eu hunig obaith am chwarae teg.*

CYFIAWNDER yw pennawd ysgrif flaen Y Cymro 22 Tachwedd 1941 yn dilyn penderfyniad unfrydol y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol y dydd Mawrth blaenorol i godi'r isafswm cyflog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr gwrywaidd rheolaidd o 48/- yr wythnos i 60/-. Heb os, dyma'r newydd gorau i weithwyr amaethyddol, a ddioddefodd

dlodi enbyd ar hyd y blynyddoedd, ers amser maith, a newydd fel y disgwylir a groesewid yn wresog gan Y Cymro; fodd bynnag, mae'r papur ar yr un pryd yn mynnu bod yn rhaid gofalu nad datblygiad dros dro oedd y codiad cyflog teilwng hwn, hyd yn oed os y golygai hynny y byddai'n rhaid i'r cyhoedd, oedd eu hunain dan bwysau ariannol enbyd, dalu mwy am eu nwyddau:

> *O'R diwedd y mae'r gweithiwr amaethyddol i gael y cyfiawnder a'r chwarae teg a deilynga.*
>
> *Cydsyniodd Bwrdd Canol y Cyflogau ei fod i gael codiad yn ei gyflog i £3 yr wythnos o ddiwedd Rhagfyr nesaf.*
>
> *Pan gofir nad oedd ei gyflog, pan dorrodd y rhyfel allan ddwy flynedd yn ôl, ond 36/- yr wythnos, dengys y codiad sylweddol hwn pa mor dra phwysig a hanfodol yw'r diwydiant y mae ynddi.*
>
> *Perthyn y gweithiwr amaethyddol i ddosbarth neilltuol ym myd llafur, oherwydd yr angen mawr sydd am gynhyrchu ymborth i'r wlad.*
>
> *Ni chafodd erioed o'r blaen, er caleted ei lafur, ddigon ar gyfer cadw safon deilwng o fywyd. Ni chaniatâi yr hyn a enillai iddo fyw ond mewn bwthyn llwm, a cheisio ychwanegu at ei gynhaliaeth drwy lafurio'i ardd ei hun, ar ben y gwaith trwm a gyflawnai yn ystod ei ddydd gwaith i'w feistr. Yn wir yr oedd amodau byw y dosbarth hwn yn llawer is nag eiddo'r gweithwyr mewn trefi.*
>
> *Canlyniad hynny oedd i'r gweithwyr ar y tir gael eu denu i'r trefi. Bydd i'r codiad galonogi'r gweithwyr amaethyddol i aros yn yr ardaloedd gwledig.*
>
> *Nid anghofir ychwaith ddarfod i'r ffermwyr gael cymorth hael gan y Wladwriaeth drwy warantu iddynt eu prisiau a rhoi cynhorthwy sylweddol mewn arian i'r diwydiant o dro i dro.*
>
> *Nid hawdd yw penderfynu yn awr beth fydd amodau a pherthynas y gweithwyr â'u cyflogwyr wedi'r rhyfel, ond rhaid gofalu na fydd raid i'r gweithwyr hyn ddychwelyd i'r cyflwr y buont ynddo a dioddef y cam a fu'n rhan iddynt yn y gorffennol.*
>
> *Pwysodd amryw adrannau o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr am gael codi prisiau eu cynnyrch er mwyn cyfarfod y gofyn ychwanegol yn y cyflogau. Hyderwn na fydd yr ychwanegu hwn yn y prisiau i'r ffermwyr yn angenrheidiol yn wyneb y beichiau trymion a osodir ar y cyhoedd eisoes a chyfraniad hael y bobl drwy ofynion y Wladwriaeth.*
>
> *Fodd bynnag, os bydd hynny'n angenrheidiol ni fydd i'r cyhoedd rwgnach rhoi'r cymorth er mwyn gwella amgylchiadau'r gweithiwr amaethyddol.*

Un arall o ysgrifau blaen Y Cymro sy'n dangos mor hanfodol bwysig oedd y diwydiant amaethyddol i'r ymdrech ryfel yw'r un a ymddangosodd yn rhifyn 24 Ionawr 1942 yn dilyn **APÊL AT YR AMAETHWYR** gan Weinidog Amaethyddiaeth y dydd, R. S. Hudson. Apeliodd arnynt i wneud eu gorau glas i gynhyrchu cymaint o fwyd ag oedd yn bosibl yn y sefyllfa argyfyngus oedd ohoni, gan fod poblogaeth o tua 40 miliwn o bobl yn dibynnu'n llwyr arnynt am eu nerth a'u cynhaliaeth; yn ogystal rhybuddiodd hwy bod amserau caled iawn o'u blaenau gan fod cymaint o alw am ddynion ieuainc i

fynd o'r ffermydd i ymuno â'r lluoedd. Gwelir isod bod Y Cymro yn cytuno â sylwadau Mr. Hudson ond ar yr un pryd nid yw'n deall pam fod cymaint o alw ar weithwyr amaethyddol i fynd i'r lluoedd, yn hytrach na gweithwyr sydd ym marn y papur mewn swyddi 'heb fod mor bwysig o lawer iawn':

> *GWNAETH Mr. R. S. Hudson, Gweinidog Amaethyddiaeth, apêl at yr amaethwyr i beidio llaesu dwylo yn yr argyfwng presennol, yn ei araith i ffermwyr yn Newcastle-on-Tyne y dydd o'r blaen.*
>
> *Nid oedd rhediad ei araith yn rhy gysurlawn o gryn dipyn a da oedd iddo fod felly oblegid y mae ar y mwyaf o deimlo'n fodlon ar bethau fel y maent yn y wlad mewn amryw gyfeiriadau. Y mae hyn mor wir ym myd amaethu ag a yw mewn cylchoedd eraill yn y wlad.*
>
> *Wrth ofyn i'r ffermwyr ymegnïo fwy-fwy dywedodd Mr. Hudson na allai ef orliwio'r safle ynglŷn ag ymborth. Ychwanegodd lledaenu'r rhyfel i'r Môr Tawel lawer iawn at broblemau'r wlad ac ni ddylai bod unrhyw laesu dwylo ar ran y ffermwyr, oblegid atynt hwy yr edrych 40 miliwn o drigolion y wlad i'w cynnal yn yr ymdrech neilltuol am eu bodolaeth eu hunain a bodolaeth y ffermwyr.*
>
> *Ni allai ef (Mr. Hudson) yn hollol blaen obeithio am unrhyw gynnydd yn y peiriannau na'r moddion cynhyrchu, na llafur medrus i gwrdd â'r sefyllfa. Yr unig ffordd i dyfu mwy o ymborth yw drwy wneud defnydd gwell o'r hyn sydd ganddynt eisoes. Yn wyneb y galw mawr am ddynion ieuainc o'r ffermydd i ymuno â'r lluoedd y mae rhagolygon amser pur ddifrifol ymlaen i ffermwyr ac oni wnânt hwy eu gorau â'r hyn sydd ganddynt, anodd fydd gweld ar ôl cyfyngu arnynt gyda golwg ar lafur a phethau eraill pa fodd y gellid disgwyl ychwaneg oddi ar eu llaw. Y mae ffermio heddiw yn un o'r moddion amddiffyn pwysicaf oherwydd y rheidrwydd am gynilo ar ofod yn y llongau i gludo bwydydd. Rhaid felly i'r ffermwyr ymroi ati o ddifrif i gynhyrchu mwy o ymborth neu fynd yn brin ohono.*
>
> *Cydolygwn â'r hyn a ddywed Mr. Hudson, er ei bod yn anodd cysoni â hyn galw'r bechgyn oddi ar y tir i'r lluoedd a chynifer o rai mewn swyddi heb fod mor bwysig o lawer iawn sy'n cael eu cadw o'r lluoedd.*

Ar ddydd Sadwrn 28 Mawrth 1942 ymgasglodd cannoedd o ffermwyr sir Gaernarfon mewn cyfarfod mawr yn nhref Caernarfon i glywed nifer o anerchiadau gan arbenigwyr ac eraill yn trafod amaethu amser rhyfel. Unwaith eto, yr un oedd y neges i'r amaethwyr, sef bod y pwysau ar eu hysgwyddau'n cynyddol ddwysáu wrth i argyfwng y rhyfel waethygu, a bod canlyniad y rhyfel, ac felly holl ddyfodol gwledydd Prydain, yn dibynnu ar eu hymdrechion.

Yn ysgrif flaen rhifyn 4 Ebrill 1942 o'r Cymro isod mae'n ddiddorol sylwi bod y cyhoedd yn gweld y ffermwyr yn 'rwgnachwyr crintachlyd', a hefyd yn cymryd y ffermwyr yn gwbl ganiataol heb ystyried yr holl waith caled a wnaent cyn y câi'r bobl gyffredin

eu 'bara beunyddiol'; nid yn unig hynny, teimlai'r ffermwyr bod pobl wedi bod yn hynod anniolchgar o'u hymdrechion rhagorol yn y Rhyfel Mawr, ac ofnent mai'r un fyddai'r hanes eto wedi'u hymdrechion yn y rhyfel mawr presennol. Sylwer eto fel y mae'r Cymro yn canmol y ffermwyr ac yn dweud ei fod â 'phob ffydd' ynddynt; sylwer fel yr ail-adroddir yr apêl ar i'r ffermwyr Cymreig ffurfio'u Hundeb eu hunain; sylwer hefyd ar y clod uchel a delir i R. F. Watkins, Gohebydd Amaethyddiaeth Y Cymro, gan awdur yr ysgrif olygyddol, sy'n mynd mor bell â'i osod 'ymysg y gwŷr a wnaeth fwyaf dros amaethyddiaeth Cymru':

PROBLEMAU FFERMWYR

*WEDI ugain mlynedd anniolchgar ac esgeulus, fe dry'r wlad heddiw at y bobl a alwyd yn rwgnachwyr crintachlyd - yr amaethwyr. A dyma a wna'r amaethwyr, yng ngeiriau Dr. Alun Roberts wrth amaethwyr y sir yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn:-*

*"Safwch yn eich rhych ac arddwch y tir yn nannedd gwynt y dwyrain, heb gwyn ac mewn prinder, yn ddinasyddion gorau'r wlad, yn ddilys eich hamcanion ac yn galed eich gwaith."*

*Dyna deyrnged eithriadol a haeddiannol gan ŵr sydd nid yn unig yn un o brif arbenigwyr amaethyddol y wlad, ond yn bennaeth Pwyllgor Amaethyddol Rhyfel Sir hefyd - y Pwyllgor sy'n gwybod am bob symudiad o eiddo'r ffermwyr.*

*Y mae'n bwysig i'r cyhoedd ddarllen hanes y cyfarfod nodedig o arbenigwyr a gynhaliwyd yng Nghaernarfon ddydd Sadwrn. Y mae'n bwysig i'r cyhoedd astudio a deall problemau'r amaethwyr, canys aethant yn broblemau pawb bellach. Dibynna eich bwyd a'ch iechyd a buddugoliaeth hefyd ar ymdrechion ein hamaethwyr y flwyddyn hon.*

*Cymerodd y cyhoedd ormod o bethau'n ganiataol. Ni feddyliasent ymhellach na'r dosbarthwr am eu llefrith, ymhellach na'r siopwr am eu llysiau, na'r pobydd am eu bara. Anghofiwyd y bobl a'u bwydodd yn y rhyfel o'r blaen. Ni allai'r amaethwyr eu hunain ymladd gwallgofrwydd anghyfartal diwydiant rhwng y ddau ryfel. Sarnwyd yr amaethwyr gan y wanc am fwyd rhad - y wanc a all gostio mor ddrud i ni. Chwarddwyd uwch rhybuddion yr hen weledydd clir, Mr. Lloyd George, yn y blynyddoedd diwethaf.*

*Ac y mae cof amaethwyr yn hir. Gofynnant heddiw iddynt eu hunain ai'r un anniolchgarwch a ddaw wedi eu hymdrech hon eto. Y mae ganddynt amheuaeth bendant nad oes iddynt hyd yn oed yn awr y cydymdeimlad angenrheidiol yn y lleoedd uchaf. Sylwant y dyddiau hyn yn fanwl ar y datblygiadau ynglŷn â'u Bwrdd Marchnata Llaeth, a beiant y dosbarthwyr am geisio ei ddiddymu.*

*Condemniodd Major Goronwy Owen yr ymgais, a bu Major Owen yn un o gyfeillion gorau'r amaethwyr yn y Senedd. Tynnodd ein Gohebydd Amaethyddol (Mr. R. F. Watkins) sylw at y peth, ac y mae Mr. Watkins yntau ymysg y gwŷr a wnaeth fwyaf dros amaethyddiaeth Cymru drwy dynnu sylw wythnos ar ôl wythnos at broblemau'r amaethwyr.*

*Dylid ysgubo o'r ffordd yn ddi-drugaredd unrhyw fuddiannau a all fod yn rhwystr i amaethyddiaeth. Dylai'r cyhoedd eu haddysgu eu hunain yn y materion hyn er eu budd eu hunain fel y gallant sefyll y tu ôl i'r*

*amaethwyr yn awr ac ar ôl y rhyfel.*

*Y mae gennym ni bob ffydd yn amaethwyr Cymru. Cynildeb a chaledwaith a fu eu rhan erioed, a chodi pob ceiniog bosibl o'r tir a fu eu nod erioed. Yn anffodus, amodau'r amserau a benderfynodd yn rhy hir pa sawl ceiniog a pha fodd i'w chael.*

*Bwyd, bwyd a mwy o fwyd i'r bobl heddiw. Bwyd yn awr, trefnu yn awr, symud y rhwystrau yn awr.*

*Uned yr amaethwyr hwythau. Hwy a'u gweision a fu fwyaf ar ôl yn hyn. Heddiw rhaid cael eu llais yn hyglyw, a thrwy Undeb yn unig y cânt unrhyw fantais. Ac adran Gymreig gref i'w Hundeb hefyd, gan mai un yw amaethyddiaeth Lloegr ac arall amaethyddiaeth Cymru.*

*Manteisied yr amaethwyr ar y cyfleusterau wrth eu llaw. Gan y Brifysgol a'r sir cânt gyfarwyddiadau ymarferol. Ni fanteisir yn llawn ar y rhain. Profi a thrin yr hadyd i gael y gorau ohono; ystyried yr arbrofion a wnaed gyda llwch a chalch, torri gwair cynnar, gwneud silage, codi cropiau gleision a chropiau newydd. Ymysgwyd o'r ychydig geidwadaeth sy'n aros a chofio y dylai'r diwydiant hynaf yn y byd fod heddiw y mwyaf modern yn y byd.*

Flwyddyn a hanner a mwy yn ddiweddarach, yn ysgrifau blaen Y Cymro o rifynnau 2 Hydref 1943 a 15 Ionawr 1944, gwelir mai'r un oedd cred gyffredinol y cyhoedd ynghylch y ffermwyr, sef eu bod yn gysurus eu byd ac yn gwneud arian da, er nad oedd hynny'n wir am fwyafrif helaeth ffermwyr Cymru (80% ohonynt yn ôl yr ysgrif gyntaf isod), rhywbeth yr oedd Y Cymro yn barod iawn i'w bwysleisio. Yr hyn y teimlai'r amaethwyr yn flin yn ei gylch oedd bod pobl gyffredin yn amlwg o'r farn bod pob amaethwr mor llewyrchus ei fyd â'r rhai a amaethai ffermydd mawr yn Lloegr, er bod byd o wahaniaeth mewn gwirionedd rhwng y ffermydd hynod broffidiol hynny a'r ffermydd nodweddiadol yng Nghymru, nifer ohonynt yn fach o ran maint ac yn gorfod gwneud y gorau o dir mynydd nad oedd yr hawddaf i'w drin; gwelir o'r ail ysgrif isod mor druenus oedd cyflwr nifer o'r ffermydd hyn.

Ysgrifennwyd yr ysgrif gyntaf yn dilyn dau benderfyniad pwysig gan adran Cymru o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn eu cyfarfod blynyddol yn yr Amwythig: yn gyntaf, i bwyso am Ysgrifennydd i Gymru er mwyn sicrhau tegwch i amaethyddiaeth Cymru a chael 'yr hyn sy'n hanfodol i ddyfodol amaethyddiaeth ein gwlad', ac yn ail i symud ymlaen i gael Ysgrifennydd dros Gymru i Undeb yr Amaethwyr ei hun (bu'r swydd yn wag ers dwy flynedd), datblygiad a groesewir gan Y Cymro; ysgrifennwyd yr ail ysgrif ychydig ddyddiau cyn cynhadledd flynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn Llundain pan ddisgwylid amaethwyr i brotestio'n groch iawn yno yn erbyn yr hyn a welent fel brad y Llywodraeth:

AMAETHYDDIAETH CYMRU (2 Hydref 1943)

*FE ddaw cynrychiolwyr amaethwyr o bob rhan o Gymru ynghyd unwaith y flwyddyn i wrando ar areithiau arweinwyr yr Undeb Cenedlaethol ac i ddweud gair neu ddau am eu problemau arbennig eu hunain mewn trafodaeth. Daethant ynghyd i'r Amwythig ddydd Gwener.*

*Yr oedd yn amlwg oddi wrth yr areithiau y blinid yr amaethwyr yn arbennig gan y gred sydd yn y wlad, ac mewn lleoedd o awdurdod hefyd, ei bod hi'n fyd da ar y ffermwyr. Yn erbyn hyn, dywedwyd ei bod hi'n fyw digon main ar bedwar ugain y cant o'r ffermydd.*

*Y diwrnod wedyn yr oedd Llywydd Undeb y Gweithwyr Amaethyddol yn dweud y gallai'r ffermwr dalu £4 i'w was "pe teimlai felly."*

*Anodd yw cysoni pethau fel hyn, ond cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn y mae'n sicr y gwneir cam â'n hamaethwyr drwy roddi'r un driniaeth iddynt ag i amaethwyr mawr llewyrchus - ac y mae llawer o rai felly - sydd yn Lloegr.*

*Da gan hynny oedd clywed bod Undeb yr Amaethwyr i dalu - neu yn gorfod talu - mwy o sylw i Gymru a bod trefniadau ar droed i gael Ysgrifennydd Cymreig i'r Undeb unwaith eto.*

*Nid yw Undeb yr Amaethwyr, hyd yn oed, o angenrheidrwydd yn mynd i achub amaethyddiaeth Cymru oni chyfyd Cymru ei llais yn gryf yn yr Undeb gan ddangos nad yr un yw'r broblem na'r meddyginiaethau yng Nghymru a Lloegr.*

*Y mae'r amaethwyr yn llawn sylweddoli hefyd na ellir dechrau yng Nghymru ar gyfnewidiadau o bwys - na chael cynrychiolaeth ar gomisiynau fel y Comisiwn Coedwigaeth, hyd yn oed - cyn cael Ysgrifennydd i Gymru yn y Senedd.*

*Gyda phwyslais cyffredinol Undeb yr Amaethwyr yn mynd yn fwy cydwladol a phwyslais arbennig ein ffermwyr ni yn mynd yn fwy Cymreig gall yr Undeb, ar y llinellau hyn, ei gwneud yn wirionedd bod yr amaethwyr yn dda eu byd.*

YR AMAETHWYR (15 Ionawr 1944)

*YR wythnos nesaf bydd cynrychiolaeth o amaethwyr tymherus yn mynd o bob sir yng Nghymru i Lundain i gynhadledd flynyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, a bydd pob un ohonynt yn cofio ar y ffordd i'r Gweinidog Amaethyddiaeth yn y lle cyntaf addo'n gyhoeddus yn 1940 a 1941 y codid prisiau i gyfarfod â chostau ychwanegol, ac iddo yn yr ail le osod £15,000,000 y flwyddyn yn ychwanegol ar gefn yr amaethwyr pan godwyd yr isrif cyflog amaethyddol o £3 i £3/5/- yn 1943, gan ganiatáu dim ond rhyw £4,000,000 o godiadau i'r amaethwyr i gyfarfod â'r costau newydd.*

*Cythruddwyd yr amaethwyr ymhellach gan y dull a ddewisodd Mr. R. S. Hudson i egluro'r cam. Ceisiodd gymylu â geiriau yr addewidion pendant a wnaed ac aeth ymlaen i ddweud iddo ar ddau achlysur gam-amcangyfrif y costau cynhyrchu.*

*Cysylltodd yr amaethwyr y naill ran o amddiffyniad Mr. Hudson â'r hyn a ddigwyddodd i amaethyddiaeth wedi'r rhyfel o'r blaen ac â methiant y Llywodraeth hyd yma i drafod lle amaethyddiaeth yng nghyfundrefn y wlad wedi'r rhyfel hwn, a synhwyrasant fradychiad arall. Cymerwyd addefiad Mr. Hudson ynglŷn â chamgyfri'r gost naill ai fel condemniad ar ei effeithiolrwydd neu fel ymgais ar ei ran i roi llwch yn eu llygaid; canys, fe ddadleuwyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth sydd yn y safle fwyaf manteisiol i wneud pob cyfrif o'r fath.*

*Daeth cyffredinolrwydd cwyn yr amaethwyr i'r amlwg yn etholiad*

*Skipton wythnos yn ôl pan drodd yr amaethwyr yno y fantol yn erbyn ymgeisydd Ceidwadol y Llywodraeth ac o blaid ymgeisydd 'Commonwealth'. A diddorol yw sylwi i'r gweithwyr amaethyddol - yn ôl yr adroddiadau - bleidleisio gyda'r amaethwyr yn erbyn y Llywodraeth.*

*Fe â rhyw £600,000,000 y flwyddyn drwy ddwylo amaethwyr Cymru a Lloegr, a dadleuir mai diferyn yn y môr yw'r £11,000,000 ychwanegol y mae'n rhaid iddynt ei ganfod. Y mae yna syniad hefyd fod amaethwyr yn gwneud eu ffortiwn y dyddiau hyn, ac y mae i'w gofio bod amaethwyr, erbyn hyn, yn talu treth incwm, a diau i Mr. Hudson ymgynghori â'r ffigurau sydd gan y Trysorlys ar yr ochr yna.*

*Y mae rhai amaethwyr ar ffermydd breision yn gwneud arian da, ond y mae pob fferm sy'n cyflogi gwas yn gorfod codi coron yr wythnos yn y cyflog. Ac nid amaethwyr mawr ar ffermydd bras sydd yng Nghymru ac y mae llawer iawn ohonynt yn gorfod byw ar lai na £3/5/- yr wythnos, yn gorfod gweithio'n galed dros ben, yn gorfod ymdrechu ar gyfalaf bychan iawn ac mewn llawer achos yn gorfod gweithio'r wraig a'r plant ar y tir yn y cynhaeaf am na ellir fforddio gwas. Y mae'r tai yn aml mewn cyflwr waethed â'r beudai bron a llawer o'r landlordiaid heb fedru fforddio i wario ar welliannau angenrheidiol. Erys y mwyafrif o'n ffermydd heb ddŵr na thrydan.*

*Anghydfod rhwng yr amaethwyr a'r Llywodraeth yw hwn, nid rhwng y ffermwr a'r gwas, canys yr un yw eu diddordebau hwy a dymuniad y naill yw medru talu cyflog byw i'r llall - y cyflog byw cyntaf a gafodd y gwas erioed.*

*Dylai Undeb yr Amaethwyr ymdrechu mwy i sicrhau ffigurau sy'n dangos faint yw incwm yr amaethwyr bychain Cymreig ar raddfa eang, a dylai'r amaethwyr fod yn fwy unol ac yn barotach i helpu'r Undeb i gael y wybodaeth angenrheidiol. Ni ddylai'r Llywodraeth, hithau, oedi'n hwy cyn trafod lle amaethyddiaeth a chyfleusterau amaethwyr yn y cyfnod wedi'r rhyfel.*

*Heddiw cynhyrchir 60 y cant o'r dorth gartref ac ni raid pryderu na ddeil yr amaethwyr i wneud eu rhan. Ni olyga hyn na ddylid gwneud chwarae teg â hwy.*

Ymddangosodd ysgrif flaen yn <u>Y Cymro</u> 12 Chwefror 1944 dan y pennawd syml <u>**Y FFERMWR**</u> sy'n ddigon tebyg i nifer o rai eraill yn yr ystyr ei bod yn dymuno gweld mwy o chwarae teg i ffermwyr a mwy o 'wobr' iddynt am yr holl gyfrifoldeb a ddisgynnai ar eu hysgwyddau. Fe'i dyfynnaf, fodd bynnag, oherwydd un sylw penodol a wneir yn y pedwerydd paragraff isod, sef: 'nid oes gan y glowyr gymaint o gyfrifoldeb â'r ffermwyr, ac os ydynt hwy yn haeddu pumpunt yr wythnos, mae'r ffermwr bach yn haeddu mwy o gryn dipyn.' Dyma sylw dadleuol, a dweud y lleiaf, a sylw y gellid yn hawdd ddadlau ei fod yn un annheg o gofio bod glo mor hanfodol bwysig i ddiwydiannau a chartrefi gwledydd Prydain yr oes ac o gofio hefyd bod y glowyr yn gweithio mewn amgylchiadau anodd a pheryglus dros ben, a hynny'n aml heb weld golau dydd am ddyddiau ar y tro. Nid yn unig hynny, yr oedd nifer o ddarllenwyr <u>Y Cymro</u> yn lowyr eu hunain, ac anghyffredin iawn yw gweld y papur yn 'cymryd ochr' un garfan o'i ddarllenwyr ar draul un arall; polisi

arferol Y Cymro yw ceisio bod yn deg â phawb a siarad dros y mwyafrif mwyaf posibl o'i ddarllenwyr:

*RHAID cydnabod mai buddugoliaeth i'r Gweinidog, Mr. Hudson, fu'r drafodaeth ddiweddar ar amaethyddiaeth yn Nhŷ'r Cyffredin. Yr oedd y Tŷ'n llawn, a dyna ddigon o arwydd bod y rhyfel wedi dwyn y ffermwr i ganol y llwyfan. Ond a ydyw'r ffermwr i gael aros yng nghanol y llwyfan? Dyna un o'r pethau pwysicaf y gellir eu gofyn ynglŷn â'r byd sydd i fod ar ôl y rhyfel. Ni chafwyd dim ateb clir iddo yn y drafodaeth, ac fe erys yr ansicrwydd o dan bob dadl a all godi ar hyn o bryd.*

*Ond ar fater y prisiau fe lwyddodd Mr. Hudson i roddi ffigurau oedd yn argyhoeddi, a thrwy ddangos yr help a gawsai'r ffermwyr gan y Llywodraeth, a'r dystiolaeth oedd ganddo fod y farn swyddogol am yr "addewid" yn ddigon eglur i bawb, dangosodd fod dadl y Weinyddiaeth yn un gref.*

*Er hynny, y mae'n wir, fel y cydnabu Mr. Hudson ei hun, fod llawer ffermwr bach yn cael gwobr rhy fechan am y cyfrifoldeb mawr sy ganddynt a'u llafur trwm wrth y gwaith o godi ymborth inni drwy'r rhyfel. Dywedodd Mr. Hudson fod pethau wedi gwella, a bod llu mawr o ffermwyr bychain oedd yn 1939 yn ennill teirpunt yr wythnos yn derbyn rhwng chwephunt a seithbunt yn 1940-41.*

*Ond o hyn yr oedd yn rhaid iddynt dalu costau byw, trethi, yswiriant, a llog ar arian a fenthyciwyd. Nid oes gan y glowyr gymaint o gyfrifoldeb â'r ffermwr, ac os ydynt hwy yn haeddu pumpunt yr wythnos, mae'r ffermwr bach yn haeddu mwy o gryn dipyn.*

*Os ydym i gymell ein ffermwyr ni (gyda'r lleill) i godi digon o fwyd i ddiwallu anghenion Ewrop anghenus, a chael mwy i ni'n hunain hefyd, rhaid gwneud amaethyddiaeth yn fwy atyniadol nag yr awgryma'r ffigurau uchod ei fod. Y mae'r newid yn stad y byd, a'r effaith a gaiff hyn ar ein cynlluniau economaidd, yn peri bod rhaid trin amaethyddiaeth â dychymyg a haelioni.*

Yn ysgrif flaen rhifyn 14 Medi 1945 o'r Cymro, a'r Ail Ryfel Byd wedi dod i ben erbyn hynny, mae'r papur yn bwrw golwg yn ôl ar flynyddoedd y rhyfel ac yn dweud mai 'gwell ac nid gwaeth byw a fu hi ar yr amaethwyr at ei gilydd yn nhymor y rhyfel', sylw annisgwyl efallai o gofio mor aml y pwysleisiodd y papur ym mlynyddoedd y rhyfel ei bod hi'n galed iawn ar yr amaethwyr. Mae hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac yn awgrymu dau beth y gellid eu gwneud i geisio atal diboblogi pellach o'r ardaloedd gwledig:

CEFN GWLAD

*UN o'r pethau a ddywedwyd ac a gredwyd goruwch popeth ym mlynyddoedd y rhyfel oedd bod llewyrch newydd wedi dod i gefn gwlad.*

*Gwelwyd mwy o lewyrch ar ddiwydiant cefn gwlad - amaethyddiaeth; gwelwyd hefyd eisteddfodau newydd a chyrddau newydd a chymdeithasau newydd i'r ifainc, megis Clybiau'r Amaethwyr Ifainc yn codi o amgylch y pentrefi Cymreig.*

*Aeth Cymru'n wlad a lifeiriai o laeth, a lle na ellid cael y llaeth i lifo, yr oedd codi stoc yn broffidiol dros ben.*

*Bu cryn dipyn o gwyno, wrth gwrs. Cwynwyd llawer ynghylch ffurflenni a anfonwyd i amaethwyr. Eto gwyddai'r amaethwr yn ei galon mai chwilio am wybodaeth sicr i'w helpu i drefnu byd y ffermwr a'r wlad a wnâi'r rhai a anfonai'r ffurflenni, er y gellid gwneud y tro heb i bob un o'r ffurflenni gael eu hanfon mae'n wir.*

*Cwynwyd mwy ynglŷn â'r cwota aredig. Ofnwn i amaethwyr Cymru orfod cochi gormod o'u tir trwy'r rhyfel, ond sylweddolwn ei bod yn rhaid aredig yn drwm neu adael i'r wlad newynu.*

*Cwynwyd drachefn ynglŷn â "swyddogaeth" y Pwyllgorau Amaethu Adeg Rhyfel. Diau bod digon o enghreifftiau digon teg o ormod swyddogaeth, ond ni chyfiawnhaed amryw alwad a wnaed am ddiddymu'n llwyr bob Pwyllgor o'r fath.*

*Mae angen ehangu sylfeini'r Pwyllgorau a'u cael yn fwy cynrychioliadol a chael mwy o ethol a llai o ddethol arnynt, mae'n wir. Ond os daw'r dydd pan dynnir pob trefniant sirol neu ranbarthol ar gyfer amaethyddiaeth i ben - yna gall yr amaethwr ddweud nad oes gan y Llywodraeth ddiddordeb ynddo mwyach. Gŵyr y rhai a rygnodd fyw ar dir Cymru cyn y rhyfel ystyr hynny.*

*Wedi pwyso a mesur popeth, gwell ac nid gwaeth byw a fu hi ar yr amaethwyr at ei gilydd yn nhymor y rhyfel.*

*Bydd yn rhaid iddi barhau'n well byw ar yr amaethwr am flynyddoedd lawer. Hyd yn oed pe na ddaethai cynllun benthyg America i ben mor ddi-daro, buasai galw mawr am gynnyrch Prydain. Yn awr mae'r galw'n fawr ym Mhrydain ei hun hefyd, ac er bod galw am rai cyfnewidiadau pwysig yn y polisi amaethu i gyfarfod â'r sefyllfa newydd, mater o drefnu'n unig yw hynny. Mae'r galw yna o hyd, ac wedi cynhyddu.*

*Eto i gyd - a ellir dweud bod cefn gwlad yn llewyrchus am fod yr amaethwr wedi cael modur?*

*Ystyriwn ffigurau diweddaraf y Weinyddiaeth. Dyma a ddengys y rheini - bod llai o weithwyr amser llawn ar y tir heddiw nag yn 1939. Mae'r bobl, ysywaeth, yn dal i adael y wlad, rhyfel neu heddwch. Ni chadwodd cyflogau uwch na dim y bobl ar y tir.*

*A pharheir heddiw i alw gweithwyr oddi ar y tir i'r Lluoedd.*

*Ymddengys bod dau beth yn angenrheidiol i'w wneud yn awr i geisio atal diboblogi cefn gwlad ymhellach.*

*Yn gyntaf, peidio â galw ychwaneg o'r diwydiant amaethyddol i'r flwyddyn.*

*Yn ail, ceisio datrys problem llafur y ffermydd sy'n cynhyrchu llaeth. Yma mae'r gweithwyr ynghlwm wrth adegau godro, a rhaid godro yn ei bryd Sul, gŵyl a gwaith, a rhaid i'r llafur fod wrth law, y duedd bresennol i ddatrys y broblem hon yw i amaethu fynd yn rhywbeth teuluol, ac i'r amaethwr fynd i ddibynnu arno ei hun, ei wraig a'i blant yn unig. Y mae llawer o rinweddau yn hynny, ond nid yw'n ychwanegu at rif y rhai sy'n dibynnu ar gefn gwlad am eu cynhaliaeth.*

# *Iechyd*

Yr oedd iechyd yn bwnc eithriadol o bwysig yng ngolwg Y Cymro, i'r graddau ei fod yn grwsâd ar ran y papur i hysbysu ei ddarllenwyr ynglŷn ag unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd ac i geisio newid eu ffordd o fyw fel eu bod yn iachach pobl. Targedwyd yn benodol y darfodedigaeth, sef y twbercwlosis, a elwid yn gyffredin y 'pla gwyn', afiechyd creulon a didrugaredd a oedd yn gyfrifol am ganran uchel iawn o farwolaethau'r oes a hynny ymysg pobl ifainc yn gymaint â neb; daeth ymgyrch Y Cymro ynglŷn â'r pla i'w huchafbwynt yn rhifyn 18 Mawrth 1939 pan gyhoeddwyd atodiad Saesneg 8-tudalen rhagorol, **THE T.B. SCOURGE IN WALES**, yn croniclo adroddiad grymus Clement Davies ar ddarfodedigaeth yng Nghymru.

Gwelir ar dudalennau blaen y papur bod nifer o resymau a gyfrannai at ffyniant yr afiechyd hwn, ac un o'r prif resymau oedd y ffaith bod pobl, oherwydd tlodi, yn dioddef o ddiffyg maeth priodol. Y sefyllfa druenus a chwbl hurt ohoni oedd bod cynhyrchwyr bwyd Cymru, a gynhyrchai fwydydd iach megis llaeth, caws, llysiau ffres ac ati, yn gorfod gwerthu eu cynnyrch eu hunain i geisio cael dau ben llinyn ynghyd ac felly gwneud ar fwydydd llawer salach; oherwydd hyn yr oedd eu cyrff yn wannach i wrthsefyll dinistr y pla. Yn ysgrif flaen Y Cymro 29 Ebrill 1933, dan y pennawd syml **BWYD A BYW**, ymdrinir â'r cylch cwbl ddieflig hwn ac yn ôl y papur yr unig ateb oedd i bobl ddefnyddio'u cynnyrch maethlon hwy eu hunain yn hytrach na'i werthu i farchnadoedd eraill:

> *Y MAE'N syn meddwl bod plant yn dioddef oddi wrth ddiffyg maeth mewn ardaloedd sy'n codi digonedd o'r bwyd gorau.*
>
> *Ond dyma ydyw hanes pethau yn ôl adroddiad meddyg ysgol Sir Gaerfyrddin, a geir ar dudalen arall. Er bod cyflawnder o laeth, wyau, ymenyn, caws, a llysiau ffres yn cael eu cynhyrchu, nid yw'r plant yn cael digon o fwyd maethlon. Pam?*
>
> *Un rheswm, efallai, yw na feithrinwyd y "gydwybod iechyd" y sonia Dr. Lloyd amdani, a bod bwyd, oherwydd anwybodaeth, yn cael ei farnu'n rhy aml wrth ei bris yn hytrach nag o safbwynt maeth.*
>
> *Daw deunydd iechyd llawn o'r tir o'n hamgylch, o ffrwyth llafur y ffermwr a'r garddwr. Y rhain, ac nid y marsiandwyr, sy'n rhoddi inni anhepgorion bywyd iach. Ond yn fynych, fe ddewisir y pethau a aeth trwy ddwylo llawer o wŷr canol o flaen cynnyrch ein pobl ni'n hunain.*
>
> *Ac ambell waith, fe werir arian ardaloedd gwledig gan eu cynghorau hwy eu hunain am laeth powdr, - a hyn pan yw'n buchesau ni'n hunain yn rhoddi digon o laeth pur a maethlon a fyddai'n foddion i fagu tô o blant cryf ac iach!*

*Ac nid dieuog ein cynghorwyr meddygol am y ffolineb hwn.*

*Y mae rheswm arall am y cyflwr y gofidia meddyg ysgol Sir Gaerfyrddin amdano. Nid yw cyflogau wythnosol miloedd o deuluoedd yn ddigon i gael bwyd priodol, ac y mae hyd yn oed y cynhyrchydd ei hun, er mwyn cael arian i gael y ddau ben llinyn ynghyd, yn gwerthu cymaint ag a all o ffrwyth ei dir. Ei nod yw troi'r cwbl yn bres, yn hytrach na'i fwydo'i hun a'i deulu yn dda yn gyntaf.*

*Er mor amherffaith yw'r drefn sy'n gadael y cynhyrchydd heb bris teg am ffrwyth ei lafur, a'r gweithiwr heb ddigon o gyflog i brynu digon o luniaeth iawn i'w deulu, fe gredwn ni y gallai pob ardal wledig fwynhau bywyd llawer iawn helaethach pe sylweddolai bod ffrwyth y tir yn foddion byw heb ei droi'n bres.*

*Fe ddylai ardal, yn ogystal â gwlad, ddibynnu mwy arni hi ei hun, a llai ar fyd masnach mewn lleoedd eraill.*

*Arwydd da yw bod dynion sydd heb waith yn manteisio ar gynlluniau i'w helpu i drin gerddi a chodi bwyd i'w byrddau eu hunain. I fwrdd y cynhyrchydd y dylai ffrwyth gorau'r tyddynnwr a'r garddwr fyned, ac nid i siopau'r masnachwyr.*

*Pe gofelid am wneud hynny, ni chawsai'r un meddyg ysgol gyfle i sôn am beth mor wrthun â phlant ardal wledig yn dioddef oddi wrth ddiffyg maeth.*

Ategir yr un gri yn ysgrif flaen Y Cymro 22 Gorffennaf 1933 a sonnir hefyd am y gred gan rai arbenigwyr bod y pla yn ffynnu yn benodol ymysg siaradwyr Cymraeg, rhywbeth a ddiystyrir yn llwyr gan y papur:

PWNC Y "PLA"

*Y MAE cynhadledd yn rhoddi cyfle gwych i ddynion mwy neu lai cyfarwydd â phwnc i siarad. Ni wna ddim rhagor, heblaw dangos, efallai, fod yr holl bwnc yn gymaint o ddirgelwch i'r gwŷr cyfarwydd eu hunain ag ydyw i'r anghyfarwydd.*

*Fe welwyd hyn yng nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Atal y Darfodedigaeth, a gyfarfu yng Nghaerdydd.*

*Fe gyfeiriwyd at ardaloedd lle y mae tri chwarter y bobl yn siarad Cymraeg, a rhoddwyd ffigyrau'n dangos bod mwy yn marw o'r pla gwyn yno nag yn yr ardaloedd lle y mae llai na hanner y bobl yn siarad Cymraeg.*

*Wrth gwrs, ni ddywedwyd yn bendant mai ar yr iaith y mae'r bai - ond fe gyplyswyd ffigyrau'r iaith â ffigyrau'r afiechyd mewn ffordd a awgrymai fod rhyw ddiffyg arbennig ar y bobl sy'n byw yn y rhannau mwyaf Cymreig.*

*Yr oedd cwestiynau Mr. Tomley, clerc Pwyllgor Yswiriant Sir Drefaldwyn, yn awgrymu bod y rhai sy'n siarad Cymraeg yn fwy bodlon i fyw mewn amgylchiadau afiach, y gall eu bod yn byw ar fwydydd anghyfaddas, yn priodi tu fewn i'w tylwyth eu hunain, neu'n fwy tueddol i gredu yn eu tynged a pheidio ceisio meddyginiaeth.*

*Ni chredwn fod dim sail o gwbl i'r un o'r awgrymiadau hyn fel esboniad ar ffigyrau'r meddygon.*

*Y mae trigolion y rhannau Cymreig o'r wlad yn gwerthfawrogi amgylchoedd glân ac iach gystal ag unrhyw bobl yn y deyrnas, ac nid oes rithyn o sail dros awgrymu eu bod yn fwy anwybodus ac anfedrus ynglŷn â bwydydd.*

*Y mae mor afresymol cyplysu ystadegau iaith â ffigurau afiechyd ag*

*a fyddai cyplysu ystadegau enwadol â hwy.*

*Wrth gwrs, fe ddaeth y fuwch druan dan fflangell y meddygon, ac fe haerai Dr. Raw fod o 40 i 50 y cant o wartheg godro'r wlad yn dioddef oddi wrth y pla gwyn, a dywedodd fod y safle'n waeth yng Nghymru.*

*Y mae Mr. J. C. Hill, meddyg anifeiliaid Cyngor Sir Gaerfyrddin, wedi rhoi sialens i'r haeriad yma, ac ysgrifennu at y meddyg i ddweud bod ymchwil 33 mlynedd wedi ei arwain ef i'r casgliad mai 20 y cant o'r gwartheg sy'n dioddef, ac nad oes ond un o bob cant o'r rhai hyn yn rhoddi llaeth afiach.*

*Mynnai rhai o'r meddygon fod yn rhaid pastiwreiddio'r llaeth. Ond fe gymer y meddygon sy'n dadlau dros hynny ofal na ddywedant fod rhai o elfennau gwerthfawrocaf llaeth yn cael eu handwyo wrth bastiwreiddio, a bod plant a fwydir â llaeth felly'n fwy tueddol i'r clefri poeth.*

*Ni wna pastiwreiddio llaeth ddim i gael buchesau iach.*

*Y mae bwyd yn bwysig, wrth reswm, ond ni wnaeth meddygon y darfodedigaeth fawr ddim i wella bwyd y bobl, na'u cynghori, os yn mawrhau iechyd, i fwyta bwydydd ein tir ni'n hunain. Pe bai ein gwartheg a'n pobl yn cael eu bwydo â'n cynnyrch ni'n hunain, nid oes dim amheuaeth na byddai llawer iawn llai o'r pla gwyn yn ein mysg.*

Gwelir uchod bod Y Cymro yn 'cadw ochr' y gwartheg godro a gwna hynny hefyd yn ysgrif flaen rhifyn 19 Awst 1933; yn yr ysgrif dywed bod yn rhaid gofalu bod plant Cymru'n cael cyflenwad digonol o laeth iach, maethlon:

LLAETH, DŴR AC IECHYD

*Y MAE adroddiad swyddog meddygol Sir Aberteifi yn bur galonogol, canys dengys nad yw'r sir honno mwyach ymhlith y rhai gwaethaf am y "pla gwyn".*

*Dau lecyn du'r Sir yw ardaloedd yr hen weithydd plwm yn nosbarthiadau gwledig Tregaron ac Aberystwyth.*

*Dyry meddyg y sir gryn bwys ar gyflenwi digon o ddŵr i'r pentrefi, rhoddi bwyd maethlon i'r plant, a gofalu am dai sych a phriodol i deuluoedd fyw ynddynt.*

*"Dylai pob plentyn gael o leiaf beint y dydd o laeth", meddai Dr. Ernest Jones yn ei adroddiad.*

*Y mae pwysigrwydd hyn wedi ei ddangos dro ar ôl tro yn 'Y Cymro'. Ond y mae lle i ofni bod rhai meddygon yn dychryn rhieni wrth sôn byth a hefyd am wartheg godro'n dioddef oddi wrth ddarfodedigaeth, a haeru bod eisiau pastiwreiddio'r cwbl a yfir. Y mae mwy'n dioddef oherwydd nad ydynt yn cael digon o laeth, nag sy'n dioddef oherwydd yfed llaeth afiach.*

*Llawer pwysicach yw cael buchesau iach na cheisio gwneuthur llaeth afiach yn ddiogel wrth ei bastiwreiddio, a thrwy hynny andwyo rhai o'i elfennau mwyaf gwerthfawr.*

*Ac y mae'n llawn mor bwysig gofalu bod beudai'r wlad yn cael eu hawyro'n briodol ag ydyw chwilio'r gwartheg.*

*Tystia'r adroddiad ar Sir Aberteifi hefyd i werth prydau canol dydd i blant ysgol, a gofidir bod dau gynllun rhoi prydau mewn perygl oherwydd anawsterau ariannol.*

*Y mae'n hollol wrthun bod prinder arian yn cadw plant rhag cael digon o fwyd maethlon. Sonia gwŷr masnach na bu arian erioed mor rhad, fel y dengys ein Golygydd Masnach heddiw. I rai yn unig y mae'n rhad.*

*Rhaid i'r dyn cyffredin weithio'n hir neu grefu'n daer wrth ddrws rhyw bwyllgor elusen, am ddogn digon bychan o'r hyn y rhaid wrtho i gael angenrheidiau byw yn ôl trefn heddiw. A rhaid i'r amaethwr dalu llogau uchel ar ddyled degwm neu ddyled ar ei dir.*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 20 Ionawr 1934 crybwyllir agwedd eironig arall ar y broblem o dlodi a iechyd, sef bod pobl o gael eu symud i dai gwell yn fwy tebygol o ddioddef o ddiffyg maeth:

BWYD A THAI

*Y MAE bwyd da yn bwysicach na thai da, ac fe bwysleisiwyd hyn gan Dr. Morris, Aberystwyth, wrth annerch yn Nhowyn, Meirionnydd.*

*"O'r ddau ddewis - tai da a bwyd sâl ynteu tai sâl a bwyd da a maethlon - rhowch i mi y diwethaf", meddai'r meddyg, ac y mae ystadegau am gyflwr iechyd pobl a symudwyd o slymiau i dai gwell mewn gwahanol rannau o'r wlad wedi profi bod yr hyn a ddywed Dr. Morris yn wir.*

*Y peth sy'n digwydd wrth symud pobl i dai gwell a drutach, os na bydd eu henillion yn ddigon, yw eu bod yn gorfod gwneud ar fwyd salach am fod y rhenti uwch yn llyncu peth o'r arian a ddylai fynd am fwyd.*

*Nid dadl o blaid tai sâl am bris isel yw hyn, ond dadl dros chwyddo gallu'r bobl i brynu. Ond os na chaiff y bobl ddigon i brynu bwyd iach a maethlon, peth cwbl ofer yw eu symud i dai gwell pan fo hynny'n golygu cynilo ar ymborth.*

*Fe roddodd y meddyg bwys ar werth bwyd y llaethdy a'r ardd. Yn sicr dyma ffynhonnell iechyd cenedl, ac y mae'n anhraethol bwysicach na ffigurau anferth am fasnach dramor.*

Mae'r ddwy ysgrif flaen isod o fisoedd Mawrth a Mehefin 1934 yn ymdrin â nifer o'r pynciau y soniwyd amdanynt yn yr ysgrifau uchod: yr angen am laeth, yr angen am i bobl ddefnyddio'u cynnyrch eu hunain, ac ati, ond fe'u dyfynnaf yn fwriadol er mwyn dangos fel yr oedd Y Cymro, pan goleddai ryw farn arbennig, yn fodlon lleisio'r farn honno dro ar ôl tro i'w ddarllenwyr. Mae'r ailadrodd hwn yn rhywbeth sy'n nodweddiadol ohono yn gyffredinol, nid dim ond ym maes iechyd yn unig, a theg yw dweud bod Y Cymro ar brydiau yn rhagweladwy ac yn undonog hyd yn oed, ond o leiaf nid oedd unrhyw gamdybiaeth ymysg darllenwyr y papur ynglŷn â'i farn:

URDDAS BYWYD CYMRU (10 Mawrth 1934)

*"Y MAE cymaint o glefyd y galon ymhlith plant y wlad ag sydd ymhlith plant slymiau Llundain", meddai Dr. Arbour Stephens yn ei ysgrif ar dudalen 15.*

*Y rheswm am hyn, yn ôl y meddyg, yw bod y llaeth yn cael ei glirio'n llwyr o'r wlad er mwyn ei werthu yn y trefi mawr.*

*Anodd fyddai meddwl am gondemniad mwy llym na hyn ar holl drefn gwaith a masnach. Er mwyn troi cynnyrch y wlad yn arian fe'i hanfonir bron i gyd i'r trefi, a hynny cyn diwallu angen pobl y wlad. Dros dymor byr, ac i gynhyrchwyr unigol, dichon fod hyn wedi talu. Ond yn y pen draw, ac i'r diwydiant amaethu i gyd, ni olyga ddim ond colled.*

*Onid cwyn yr amaethwyr heddiw yw bod y gormod llaeth sydd ar farchnadoedd y trefi yn peryglu'r diwydiant i gyd? Ac y mae'r Llywodraeth wedi gorfod dod i'r adwy, a'r Gweinidog Amaethyddiaeth yn addo cymorth tuag at roddi llaeth yn rhad i blant ysgol.*

*Os yw'n wir nad yw plant y wlad yn cael digon o laeth, yna ni ddylai'r gormod ar farchnad y trefi fod yn peri cymaint pryder i amaethwyr. Fe ddiflannai'r gormod yna, meddai Dr. Arbour Stephens, pe diwellid plant y wlad â'r llaeth sy'n gwbl angenrheidiol i'w hiechyd. Ac am y gweddill fe hoffai'r meddyg weled ei roddi i'r lloi er mwyn iddynt gael digon o egni i wrthsefyll pla'r darfodedigaeth.*

*Fe brofodd arbrawf a wnaed yn ysgolion Pwllheli mor llesol yw rhoi llaeth ffres, iach, i'r plant.*

*Y mae'n amlwg nad eisiau cyfyngu ar gynnyrch sydd, eithr ei ddosbarthu i'r rhai sydd â'i angen arnynt. Fe bwysleisia'r Dr. Gwenan Jones hyn mewn llythyr i'r 'Cymro' yr wythnos hon, pan ddywed:*

*'Ni allwn barhau i ddifetha cyfoeth y byd neu gyfyngu ar ein cynnyrch, a'r un pryd adael miliynau ar eu cythlwng, heb orfod talu yn y man, neu ffeindio ffordd o'r drysni.'*

*Pan oedd yr ardaloedd gwledig yn diwallu eu hanghenion eu hunain yn gyntaf, nid oedd neb yn dioddef eisiau yn y wlad. Pe bai Gerallt Gymro yn myned ar daith trwy Gymru heddiw ni fedrai ddywedyd nad oes dim un o'r genedl byth yn cardota, fod pob tŷ yn agored i bawb, a bod y bobl yn byw'n dda ar gynnyrch eu hanifeiliaid, ceirch, llaeth, caws, ac bymenyn, ac yn cael mwy o gig nac o fara.*

*Wrth ofyn am gyflog byw, yr hyn a wna'r glowyr yw gofyn am fwy o laeth, caws, ymenyn, cig a bara. Dyna wna'r di-waith, hwythau, wrth ofyn am adferyd yr hen dâl yn ôl.*

*"Y mae'n bur ddrwg gennym, ond nid oes modd fforddio hyn", meddai'r cyflogwyr a'r Llywodraeth. Ond y mae'r bobl sy'n cynhyrchu yn methu gwybod beth i'w wneud â'u llaeth, caws, ymenyn, bara a chig. Dim ond dryswch a ddaeth o droi i gynhyrchu ar gyfer marchnad yn lle i ddiwallu angen.*

## FFEUAU ANGAU (23 Mehefin 1934)

*ONID oes perygl tynnu darluniau rhy ddu o gyflwr iechyd y wlad pan sonnir am y difrod a wna'r pla gwyn, yn arbennig mewn rhai ardaloedd?*

*Fe aeth un cynghorydd o Gymru, yng nghynhadledd y Gymdeithas Genedlaethol i atal y Pla Gwyn, mor bell â galw rhai o bentrefi tlysion ein gwlad yn "ffeuau angau", ac awgrymwyd nad oedd ein cynghorau yn gwneud a ddylent i rwystro'r pla dinistriol hwn.*

*Ond purion yw edrych ar yr ochr arall, a chofio bod y frwydr yn erbyn y darfodedigaeth yn cael ei hennill. Fe brofir hynny gan y ffigurau a roes y Gweinidog Iechyd, Syr E. Hilton Young, wrth agor y gynhadledd yn Llundain.*

*Yn 1911 bu 39,232 farw oddi wrth y mathau anadlol o'r afiechyd hwn, a 13,388 oddi wrth fathau eraill o'r pla. Erbyn 1933 yr oedd y ffigurau wedi dod i lawr i 27,855 a 5,405.*

*Ni ddylem fodloni ar y ffigurau hyn, ond fe ddylem fod yn llawen amdanynt a chymryd ein dysgu oddi wrthynt.*

*Dywedodd Syr Hilton yn blaen fod safon uwch o fyw, cyflogau gwell,*

*ac amgenach mesurau iechyd yn cyfrif am y lleihad yn y nifer sy'n marw o'r darfodedigaeth. Magwrfa'r afiechyd, meddai'r Gweinidog Iechyd, yw slymiau a thai sâl.*

*A phetae eisiau prawf pellach, fe'i cafwyd yn y ffigurau a roed gan Syr John Robertson, athro ym Mhrifysgol Birmingham. Yr oeddynt yn dangos fod agos i gymaint ddwywaith yn marw o blith dosbarth y crefftwyr a'r gweithwyr medrus ag oedd o blith y dosbarth uchaf a'r dosbarth canol, a bod mwy o ragor na'r drydedd ran yn marw o blith y gweithwyr difedr ac isaf eu cyflogau.*

*Ni byddai'n annheg gofyn i'r rhai sydd byth a beunydd yn rhoi'r bai ar y gwartheg godro ac yn galw am bastiwreiddio pob llaeth, gofio'r ffigurau a roddodd Syr John Robertson.*

*Cyhyd ag y bo rhai'n syrthio i afaelion yr haint hon, gwych yw darparu ar eu cyfer. Ac er bod yn y wlad liaws o sefydliadau gwerthfawr, ni wneir agos gymaint ag a ellid i gadw'r rhai sy'n gadael y sefydliadau hyn, nid yn unig rhag syrthio'n ôl i'w cyflwr cyn cael triniaeth, ond i ddal i wella a chryfhau ar ôl dychwelyd i gylch eu bywyd arferol. Oni byddo ganddynt ystafelloedd addas i fyw ynddynt, fe ddylid darparu cabanau ar eu cyfer.*

*Ond y peth pwysicaf i gymdeithas yw fod achosion y drwg yn cael eu symud ymaith. Rhaid chwalu llochesfeydd y pla andwyol a rhoi i'r bobl dai iach i fyw ynddynt, a hynny heb fod ar draul cynilo ar fwydydd maethlon er mwyn fforddio byw mewn tai gwell.*

*Fe all cynghorau lleol wneud llawer, y maent eisoes wedi gwneud llawer, ynglŷn â rhai agweddau i'r ymdrech i ddifa'r pla, ond y wlad i gyd, drwy ei Llywodraeth, a all fynnu bod y cyfoeth mawr sy'n bosibl heddiw, trwy help y peiriannydd a'r gwyddonydd, yn cael ei droi'n safon resymol o fyw i bob teulu yn y deyrnas.*

*I ba raddau bynnag y gellir cyfiawnhau galw rhai o'n pentrefi'n "ffeuau angau", ni ellir gwadu nad yw llawer o gartrefi heddiw yn ffeuau angau.*

Yn y misoedd a'r blynyddoedd dilynol cafwyd sawl ysgrif flaen arall yn ymdrin â phwnc iechyd yng Nghymru ond maent oll i bob pwrpas yn cylchdroi o amgylch yr un safbwyntiau ag a fynegir uchod ac felly ofer yw eu dyfynnu; enghreifftiau o ysgrifau blaen o'r fath yw ARBED BYWYD (27 Gorffennaf 1935), BYW'N IACH (17 Awst 1935), NEWID AGWEDD (22 Chwefror 1936), UN BROBLEM (18 Ebrill 1936), BWYD A BYW (15 Awst 1936), BWYDO'R BOBL (3 Ebrill 1937), a LLAETH (17 Ebrill 1937). Wrth gwrs, maent oll yn gwahaniaethu rhywfaint ac yn naturiol nid oes yr un ohonynt sydd yn union yr un fath â'i gilydd ond maent oll yn dweud yr un peth yn y bôn, sy'n cadarnhau dau beth:

(1) mor bwysig yr ystyriai'r Cymro bwnc iechyd;

(2) bod Y Cymro yn fodlon ailadrodd ei safbwynt dro ar ôl tro er mwyn pwysleisio ei farn ar bwnc pwysig o'r fath.

Yn ysgrif flaen Y Cymro 9 Hydref 1937, ychydig dros dri mis cyn agor yr ymchwiliad mawr i'r darfodedigaeth yng Nghymru dan

lywyddiaeth Clement Davies, geilw'r papur am 'ddeffro barn gyhoeddus gwerin Cymru' ar y pwnc er mwyn gwaredu'r wlad o'r pla creulon hwn:

<u>IECHYD CENEDL</u>

> *PENNAF peth, medd un o ddiarhebion yr Iddew, yw doethineb. Annhueddol iawn yw pob dyn o synnwyr i anghytuno â'r Beibl, ond tybed nad oes un peth a ddaw o flaen doethineb ei hun? Y peth hwnnw yw iechyd. Heb iechyd, pa les i'r gŵr doeth yw'r wybodaeth sydd ganddo; ac heb nerth i draethu ei ddoethineb, a dysgu eraill, pa lesâd a fydd i gymdeithas o'i ddysg?*
>
> *Amheuwn a brisir iechyd a hoywder corfforol yng Nghymru fel y dylid. Ein traddodiad Piwritanaidd a gyfrif am hynny i raddau helaeth. Credasom mai dyletswydd dyn da yw anwybyddu'r corff, onid yn wir ei gystuddio, a byw i'r ysbryd a phethau byd arall. Ond dysgasom bellach nad carchar yr ysbryd yw'r corff, ond ei wisg gynnes a chyfeillgar; ac o ddibrisio'r corff gwnawn gam â'r ysbryd. Cyll ei fin a'i fywyd; ymlusga 'mlaen ar ei daith hir fel cardotyn mewn carpiau.*
>
> *Medodd y darfodedigaeth gynhaeaf mawr a blin yng nghartrefi Cymru dros flynyddoedd lawer. Mewn bythynod gwyngalchog, heb ffenestr a agorid haf na gaeaf, cipiodd fechgyn hawddgar a genethod mwyn i'w fedel cyn pryd. Mewn llan a chapel diawyr gweithiodd yn ddistaw a chyson i wasgaru hadau marwolaeth. Ac ychydig a wnaethom i ymladd â'r gelyn, ond galaru a sôn am fywyd arall heb boen na chlwy.*
>
> *Yna daeth Cymdeithas Goffa Iorwerth VII i godi iechydfeydd a darparu ymgeledd, i ymladd brwydr galed am fywyd ambell un cyn i'r pla gael gafael farwol. Gwnaed gwaith rhagorol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a mawr iawn yw ein dyled fel cenedl i ymroad meddygon a gweinyddesau.*
>
> *Yn awr penodwyd pwyllgor bychan gan y Gweinidog Iechyd i wneud ymchwiliad i waith y crwsâd yn erbyn y darfodedigaeth yng Nghymru, a chwilio am ffyrdd i estyn y frwydr.*
>
> *Diau y bydd ffrwyth o'r ymchwil; ond yr angen mawr yw deffro barn gyhoeddus gwerin Cymru. Ni all pwyllgor nac ysbyty wneud llawer heb gydweithrediad y bobl. Celir llawer oddi wrth feddygon. Caniateir i ddioddefwyr ledaenu hadau'r haint mewn cartref a gwaith. Anwybyddir yr arwyddion cyntaf a cheisio cario ymlaen, gan ddibynnu ar ryw feddyginiaeth gartrefol ddi-werth, heb gael barn meddyg.*
>
> *"Tuberculosis", meddai'r Prifweinidog, "is an eminently curable disease", clefyd y gellir ei wella'n llwyr, ond cael gafael arno mewn pryd a'i drin yn briodol. Dyma gyfle gwerin Cymru i gyd-weithio â'r ysbytai er mwyn amddiffyn iechyd y genedl, ac ychwanegu at ei chysur a'i defnyddioldeb.*

Yn rhifyn 23 Ebrill 1938 o'r <u>Cymro</u>, y 'Rhifyn Iechyd' arbennig a roddai lawer o sylw i bwnc y darfodedigaeth, ceir ysgrif flaen ddiddorol yn trafod perthynas <u>CREFYDD A IECHYD</u> lle geilw'r papur ar i'r eglwysi newid eu hagwedd at y pwnc. Gwelir uchod bod <u>Y Cymro</u> yn ysgrif flaen rhifyn 22 Gorffennaf 1933 wedi llwyr ddiystyru'r gred a goleddai rhai arbenigwyr bod rhywbeth yn

y ffordd Gymreig, neu'n hytrach, y ffordd Gymraeg o fyw, a hyrwyddai ffyniant y pla yn y wlad ond isod mae'r Cymro yn gofyn yr un cwestiwn ei hunan ac yn gwneud hynny'n bur argyhoeddiadol!

Dadleua'r papur, yn gyfiawnadwy, y 'bu crefydd y Cymro yn ddrws i'r darfodedigaeth', a hynny mewn mwy nag un modd: nid yn unig yr oedd dull y Cymry o grefydda, sef y modd y closient at ei gilydd mewn awyrgylch amhur, ddi-awyr-iach, yn uniongyrchol gyfrifol am ledaenu'r pla, ond hefyd yr oedd holl ddysgeidiaeth y grefydd, fel y dywedir yn yr ysgrif flaen ddiwethaf, wedi cyflyru'r bobl i feddwl na allai rhywun fod yn wir dduwiol ac ysbrydol mewn corff glân, cryf ac iach. Unwaith eto dyma enghraifft arall o grefyddolder yr oes; erbyn heddiw cymharol ychydig o bobl fuasai'n gyfarwydd â dysgeidiaeth grefyddol o'r fath:

> *GELLIR galw'r rhifyn hwn o'r 'Cymro' yn Rhifyn Iechyd. Gwnaed ymdrech arbennig i gasglu ffeithiau sicr a golygiadau gwŷr cyfarwydd ynglŷn ag ymgyrch Cymdeithas y Cofeb Genedlaethol i atal rhwysg pla dinistriol y Darfodedigaeth yng Nghymru.*
>
> *Darllenir yr ysgrifau pwysig hyn gyda diddordeb gan filoedd lawer. Prin y gallwn ychwanegu - gyda blas. Ond rhaid wynebu bywyd yn ei ffeithiau celyd, a darllen a myfyrio ar lawer peth na chaiff neb yn ei bwyll flas arno, ond ymdeimlo â'i gyfrifoldeb personol yn ei wyneb.*
>
> *Y mae'r ffaith fod yr haint ofnadwy hwn yn medi cynhaeaf mwy toreithiog yng Nghymru nag yn un rhan arall o ynys Prydain, yn ffaith i'w hwynebu'n ddifrifol, a chydag ymdeimlad o gyfrifoldeb personol.*
>
> *Ac yn y rhannau mwyaf Cymreig o Gymru, Môn, Gwyrfai, Aberteifi, y mae'r doll drymaf. Pair hyn i ddyn feddwl. Tybed a oes rhywbeth yn y ffordd drwyadl Gymreig o fyw a rydd gyfle i hadau marwolaeth?*
>
> *Sonia un meddyg am fyw mewn ystafelloedd bychain mewn tai yn yr ardaloedd gweithfaol nad ydynt ronyn gwell na bwthyn gwlad. Gwyddom oll am y rhai hyn, a'r modd y daw deg neu ddwsin ynghyd i ganu emynau ac alawon mewn ystafell nad yw'n ddigon helaeth i ddau anadlu ynddi yn iach a diberygl.*
>
> *Cariad at emyn a chân yn ddrws i'r darfodedigaeth? Tybed? Ac eto rhaid wynebu ffeithiau; nid yw'r ffaith mai emyn a genir yn unrhyw ddiogelwch i'r cantorion, os canant mewn awyrgylch afiach.*
>
> *Pobl yn byw yn ofalus - wedi gorfod byw'n ddarbodus a chynnil, gynnil - yw Cymry'r parthau Cymreig, y chwarelwr, y tyddynwr, y saer coed a'r saer maen. Gwelsom droeon wraig y tŷ'n dod i'r drws ar ôl golchi'r llawr yn lân, a'r cerrig eto'n llaith, yn nhraed ei sanau, rhag baeddu'r llawr drachefn. Ac yna, - annwyd, peswch....*
>
> *Gofal a darbodaeth yn ddrws i'r darfodedigaeth? Tybed? Eto, rhaid wynebu ffeithiau; ni pharcha'r hadau marwol ragoroldeb moesol neb.*
>
> *Soniodd y meddyg am ysgoldai heb eu hawyru'n addas. Yno y tyrra'r bobl, - i bregeth a chwrdd gweddi, cyngerdd a drama; yn enw crefydd a diwylliant gorau Cymru.*
>
> *Eto, gwyddom oll drwy brofiad am yr awyr amhur, yr arogl ffiaidd, yr ager ar y ffenestri, ymhell cyn diwedd y cynulliadau hyn. Rhaid*

*wynebu ffeithiau. Bu crefydd y Cymro yn ddrws i'r darfodedigaeth. Gall pregeth, o bosibl, ladd hadau ysbrydol, ond nid hadau afiechyd; a gweddi glirio'r awyr foesol, ond nid yr awyr a anadla ffroenau'r gweddïwyr.*

*Ni roddodd crefydd ddoe yng Nghymru ei le i iechyd corff. Amheuid a allai dyn o gorff iach, cryf, fod yn ysbrydol ei fryd.*

*Y mae'r Eglwys wedi symud ymlaen gryn lawer erbyn heddiw, a hydera'r 'Cymro' y cefnoga'r ymgyrch hon yn unol a chalonnog.*

Ymdrinwyd eisoes yn y bennod ddiwethaf â'r rhifyn o'r Cymro sy'n dynodi 'uchafbwynt' ei ymgyrch yn erbyn y darfodedigaeth, sef rhifyn 18 Mawrth 1939 a gynhwysai'r atodiad arbennig **THE T.B. SCOURGE IN WALES**; ni ymdrinwyd â'r mater yn ysgrif flaen yr wythnos, fodd bynnag, nac yn ysgrifau blaen yr wythnosau dilynol gan bod y papur yn ystyried y mater yn un digon pwysig i fynegi barn arno ar ei dudalennau blaen.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn ychydig o sylw a roddwyd i bwnc darfodedigaeth, a iechyd yn gyffredinol, yn ysgrifau blaen Y Cymro, ar wahân i rifyn 2 Mawrth 1940 lle gwelir y papur yn apelio ar rieni Cymru, yn ogystal â'r Wladwriaeth, i wneud eu dyletswydd yng nghyd-destun y pla. Diddorol yw cychwyn yr ysgrif hon lle ategir unwaith eto eiriau'r ysgrif flaen uchod ynglŷn â'r ffaith bod y Cymry yn y gorffennol wedi arfer rhoi mwy o sylw i faterion ysbrydol yn hytrach na materion corfforol:

## IECHYD CYMRU

*MANTEISIWN ar wythnos Gŵyl Ddewi fel hyn, nid i ymfflamychu'n farddonol ond i dynnu sylw'n ddigon rhyddieithol a thaer at iechyd ein pobl.*

*Aeth llawer o nerth ac ynni ein cyndadau at achub enaid ein cenedl. Ac y mae llawer yn cario'r gwaith da hwnnw ymlaen yn y dyddiau hyn.*

*Y duedd, fodd bynnag, a fu i anghofio bod gan y genedl gorff hefyd. Ac fel y mae'n beth annaturiol i ddisgwyl gwin da mewn costrelau hen y mae'r un mor annaturiol disgwyl gweled cenedl â'i hysbryd yn gryf ond sydd a'i chorff yn aflan a drylliedig.*

*Diwygiadau'n hymneilltuwyr ein hunain a'n deffrodd i ystyried ein cyflwr ysbrydol yn y gorffennol, ond bu raid cael Llyfrau Gleision ac Adroddiad Comisiynau o Lundain i'n hysgwyd yn faterol. A thudalennau du yn hanes Cymru a fu'r rheini a ymdriniai â'n hiechyd yn y gorffennol. Fe gofiwch yr Adroddiad ar y Pla Gwyn, a ymgartrefodd megis ar ein haelwydydd.*

*Ceisiwyd gweled mewn mwy nag un adroddiad ymgais gan y Sais i'n bychanu a'n gwaradwyddo a bodlonwyd ar geisio dangos bod pobl eraill cyn waethed os nad gwaeth, yn hytrach na wynebu'r ffeithiau yn ddewr a gwneud ein gorau i'w gwella. Cysur digon dibwrpas i glaf yw eglurhad bod rhywun arall cyn waeled ag ef.*

*Ar ein tudalen flaen fe gewch rhyw syniad am gyflwr iechyd ein*

*siroedd. Efallai nad ydych yn sylweddoli'r gwaith mawr a wna adran iechyd eich Cyngor Sir drosoch. Ac y mae'n amlwg nad yw'r penteuluoedd i gyd wedi deffro i'w dyletswyddau eto a deall cyn lleied mewn gwirionedd a all y meddygon wneud iddynt hwy a'u plant os na cheir gwell cydweithrediad.*

*Pa sawl gwaith y bu'r meddyg yn eich tŷ chwi eleni a'r llynedd? A pha sawl gwaith y daeth i wella afiechyd a ddatblygodd oherwydd diffyg gofal priodol neu anwybodaeth ar ran rhywun neu'i gilydd?*

*Nid yn ôl y nifer o boteleidiau o feddyginiaethau a yfwn y mae mesur ein hiechyd, ond yn ôl y gofal a gymer awdurdodau cyhoeddus a rhieni.*

*Tai addas, ysgolion addas, dŵr addas, llefrith addas, a gwasanaeth meddygol addas - dyna, yn fyr, ddyletswydd yr awdurdodau cyhoeddus yn y cyswllt yma. Fe'u deffrowyd i'r dyletswyddau hyn gan Mr. Clement Davies, ac un o drychinebau'r rhyfel yw bod llawer o'u cynlluniau wedi eu llesteirio. Er hyn i gyd dylai siroedd heblaw Meirion gyhoeddi adroddiadau Cymraeg a'u rhannu i'r bobl.*

*Eto, y mae gwasanaeth meddygol y siroedd yn gweithredu a dylid manteisio arnynt yn llawn yn enwedig gan famau gyda babanod neu yn disgwyl babanod. Un o nodweddion y blynyddoedd diwethaf yw'r sylw mwy a roddwyd i blant bach a mamau. A'r canlyniad a fu lleihad yng ngraddfa marw mamau a phlant.*

*Y mae'n bryd i famau Cymreig ymddiosg o'u swildod pechadurus a manteisio ar y cyfleusterau meddygol sydd yn eu cyrraedd. Dengys yr adroddiadau fel y mae sir Fflint Seisnig ar y blaen i Feirion Gymreig yn hyn o beth.*

*Y mae hi'n rhyfel yn awr; nid yw pob bwyd mor hawdd i'w gael; y mae clwy'r ymennydd, dolur gwddf a'r frech goch wedi dilyn yr eira a'r rhew. A phurion yw cofio bod y pymtheg miliwn a fu farw o effeithiau inffliwensa wedi'r rhyfel diwethaf yn fwy o bum miliwn na nifer y colledigion rhyfel.*

*Fe orwedd y cyfrifoldeb am iechyd Cymru yfory ar ysgwydd rhieni heddiw. Ac ni ddylai rhieni heddiw fod heb wybod am bwysigrwydd cyrff a thai glân i'w plant, ac iddynt eu hunain, bwyd maethlon, cymaint o lefrith ag a ellir ei gael, digon o ymarferiad ac awyr iach - a digon o haul, pan ddaw.*

*A dyletswydd y Wladwriaeth yw gofalu nad oes deulu yng Nghymru mewn angen.*

*Y mae'n wythnos Gŵyl Ddewi. Tynner y cennin o'r cap a rhodder ef yn y cawl. Bydd yn fwy bendithiol yno.*

*Addysg*

Bu'r Cymro yn ymgyrchu'n frwd dros y gyfundrefn addysg yn gyffredinol ond yr oedd, yn rhinwedd ei statws fel 'Papur Newydd Cenedlaethol Cymru', yn ymgyrchu'n benodol dros addysg Gymraeg ac yn ceisio sicrhau bod yr iaith yn derbyn tegwch yn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill Cymru. Un o nodweddion Y Cymro oedd ei fod yn bapur a geisiai sicrhau tegwch i bawb, ar y cyfan, rhywbeth a welir dro ar ôl tro ar ei dudalennau blaen ac yn ei ysgrifau blaen, ac yn ysgrif flaen y papur o rifyn 4 Tachwedd 1933 pwysleisia'r papur mor bwysig yw **ADDYSG YR YSGOL ELFENNOL**. Dywed bod angen gofalu am les y disgyblion oll yn hytrach na dim ond 'yr ychydig ddisgyblion disglair sy'n cipio ysgoloriaethau ac yn myned ymlaen i ennill graddau' yn unig; yn ngeiriau'r papur, 'brad noeth yw aberthu'r lliaws er mwyn yr ychydig':

> *FE feirniadwyd y drefn addysg yn bur llym yr wythnos hon gan ddarlithydd ar addysg yn un o golegau'r brifysgol a chan gadeirydd pwyllgor addysg.*
>
> *Dywedodd Mr. E. J. Jones, o Goleg Caerdydd, wrth annerch athrawon yn Aberdâr, fod addysg yn cael ei gwneud yn beth rhy rwydd, a'i throi'n foddion cynhyrchu clercod, yn hytrach na bod yn gymhwyster i wynebu anawsterau bywyd ac i ddysgu rhai i feddwl drostynt eu hunain.*
>
> *Fe ddywedodd hefyd fod perygl bod yn rhy barod i dderbyn syniadau newydd heb roddi digon o brawf ar yr hen.*
>
> *Beirniadaeth Mr. R. T. Jones, cadeirydd pwyllgor addysg Meirionnydd, wrth annerch athrawon y sir, oedd fod "wyth o bob deg o blant ein hysgolion elfennol yn cael eu haberthu er mwyn yr ychydig sy'n cael eu hanfon i'r ysgolion sir."*
>
> *A daeth yr ysgolion canol dan feirniadaeth Dr. Tom Richards, Llyfrgellydd Coleg Bangor, yn yr un cyfarfod, oherwydd eu bod "yn lladd hunaniaeth yr ysgol wledig ac yn dwyn plentyn y wlad o'i awyrgylch naturiol i awyrgylch sy'n ei ddifetha."*
>
> *Y mae beirniadaeth y tri wŷr hyn yn hawlio sylw pob pwyllgor addysg drwy'r wlad. Y mae Cymru heddiw'n gwario swm mawr o arian ar addysgu ei phlant. Ac nid yw'n gwario gormod. Nid maint y swm a werir ar addysg sydd yn ei wneuthur yn wastraff, ond y modd y mae'n cael ei wario.*
>
> *Fe ddywedodd 'Y Cymro' ym mis Chwefror diwethaf:-*
>
> *'Ein perygl heddiw yw rhoddi llawer gormod o bwys ar yr ysgolion canol a chanolradd, ar draul esgeuluso'r ysgolion elfennol.*
>
> *Ar addysg elfennol y mae seilio diwylliant gwlad. Os esgeulusir honno, ni bydd gobaith cael cenhedlaeth ddeallus, er i ychydig o'r plant mwyaf talentog, trwy ffawd teulu a moddion ganddynt, neu gymorth ysgoloriaeth, ddringo pinaclau uchaf byd addysg.*
>
> *Yr ysgol elfennol a ddylai fod y sefydliad pwysicaf ym mhob plwy neu bentref, ac ni ddylai ei gwasanaeth i'r plentyn ddarfod pan fyddo ef wedi gorfod cefnu arni i ddechrau gweithio.'*
>
> *Fe all bod y gri am addysg uwchraddol i bob plentyn wedi gwneud mwy o ddrwg nag o les, canys fe aed i gredu bod addysg felly'n well ac yn bwysicach nag addysg yr ysgol elfennol. Galwyd am ysgolion canol ym mhob lle cyfleus, a dadlau dros symud y plant hynaf o ysgolion eu pentref eu hunain i ysgolion tref neu bentref mawr canolog.*
>
> *Ond yr hyn sy'n eisiau yw perffeithio'r ysgolion elfennol a gofalu*

*bod yr athrawon gorau'n cael eu penodi iddynt. Dyna'r unig ysgolion a all godi safon diwylliant ein gwlad.*

*Nid wrth yr ychydig ddisgyblion disglair sy'n cipio ysgoloriaethau ac yn myned ymlaen i ennill graddau y mae barnu'r drefn addysg, ond wrth waith yr ysgol ar y lliaws sydd yn ei gadael yn ifanc i ennill eu bywoliaeth mewn diwydiant.*

*Y mae baich cynnal addysg yn disgyn ar y wlad i gyd, a brad noeth yw aberthu'r lliaws er mwyn yr ychydig.*

*Yr ysgolion y mae'r plant i gyd yn myned iddynt yw'r ysgolion a ddylai fod yn olaf i ddioddef oddi wrth fwyell y cynilwyr.*

*Nid oes yr un awdurdod lleol â'i gyfrifoldeb yn fwy na'r pwyllgorau addysg, na'r un awdurdod y mae'n fwy pwysig bod dynion deallus yn cynrychioli'r wlad arno.*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 16 Rhagfyr 1933 adeg dewis prifathro newydd Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth mae'r papur yn gofyn a ddylai Cymreictod yr ymgeiswyr am y swydd fod cyn bwysiced â'r ystyriaethau arferol adeg dewis prifathro newydd, megis cymwysterau academaidd, personoliaeth gref, gallu gweinyddol ac ati; yn y paragraff clo isod dywed y Y Cymro bod Cymreictod rhywun sy'n ymgeisio am swydd prifathro ar Goleg y Brifysgol yng Nghymru lawn cyn bwysiced ag unrhyw ystyriaeth arall:

DEWIS PRIFATHRO

*FE hysbysa'r 'Cymro' ar dudalen arall heddiw mai tri sydd yn y ras am swydd prifathro Coleg y Brifysgol, Aberystwyth. Bydd llawer o ddisgwyl am enw olynydd Syr Henry Stuart Jones.*

*Dylid cofio nad yw uchel-gynghorau gwahanol Brifysgolion mor rhydd ag y byddent gynt i ethol eu prifathrawon a'u hathrawon.*

*Rai blynyddoedd yn ôl bu rhaid iddynt gytuno, ar orchymyn y Llywodraeth, i newid yr hen drefn a wnai Gyngor bob coleg yn gwbl rydd i ddewis pwy bynnag a fynai heb gydsyniad neb o'r tu allan.*

*Erbyn heddiw rhaid penodi pwyllgor dewis ynglŷn â'r penodiadau uchel megis prifathro, athro, a darlithydd annibynnol. Ar y pwyllgor hwnnw fe geir nid yn unig Gyngor a Senedd y coleg neilltuol, ond hefyd wŷr cyfarwydd â'r pwnc o'r tu allan i Brifysgol Cymru, ynghyd â chynrychiolwyr colegau eraill y Brifysgol, a chynrychiolwyr byrddau uchaf y Brifysgol.*

*Y pwyllgor hwnnw, a elwir yn bwyllgor dewis, sy'n penderfynu pa un, neu pa rai o'r ymgeiswyr sydd i ddyfod ger bron y Cyngor at y dewis terfynol.*

*Pan etholwyd prifathro presennol Aberystwyth, ei enw ef yn unig a gyflwynwyd i bleidlais.*

*Fe ddywed rhai fod yr hen drefn yn rhagori ar y newydd, er na fyddai bob amser yn rhoddi pwys mawr ar orchestion academig, ond mwy ar gymwysterau arbennig o ran personoliaeth, iaith, a chysylltiadau lleol. Eithr y mae gwŷr addysg Prydain yn awyddus i ofalu bod safon gŵr y gadair yn cadw'n uchel, ac i bwysleisio mai dewis y Brifysgol yn gyffredinol yw, yn hytrach na dewis un Coleg.*

*Pan hysbyswyd bod cadair prifathro Aberystwyth yn dyfod yn wag, fe ofalodd Arglwydd Davies a chyngor y Coleg wneuthur trefniadau arbennig*

*i sicrhau penodiad y dyn gorau i'r swydd. Fe benodwyd pwyllgor dewis a gynrychiolai bob agwedd, ac a gynhwysai gynrychiolydd o Goleg Iesu - coleg Cymreig Rhydychen.*

*Yn ychwanegol at hysbysebu'r swydd yn gyffredinol, fe roddwyd hawl i'r pwyllgor dewis enwi ymgeiswyr, a hefyd i wahodd rhai a ystyriai'n gymwys, i ymgeisio am y swydd. Y mae'n sicr y sicrha'r trefniadau hyn ystyriaeth pawb sy'n gymwys i'r swydd.*

*Bydd dewisiad yr is-bwyllgor yn disgyn ar ddynion sy'n uchel eu safon yn y byd academig, sy'n drefnyddion da, gyda phersonoliaeth gref, a chymeriad cadarn.*

*Yr unig gwestiwn arall yw - a ddylai'r prifathro fod yn Gymro? Petai'r pwyllgor dewis yn gallu darganfod Cymro sy'n diwallu'r angenrheidiau uchod, fe gawsai ei benodi ar unwaith.*

*Fe orffwys anhawster y pwyllgor dewis yn y ffaith y gall ymgeisydd nad yw'n Gymro ragori ar y Cymry fydd ar y rhestr. A chaniatáu hyn, p'run a aberthir y cymwysterau allanol, yntau'r cymhwyster o fod yn Gymro ac yn deall Cymru?*

*Fe ymddengys i ni mai annheg yw ystyried Cymreictod dyn ar ôl i bob cymhwyster arall o'r eiddo fod yn ogyfuwch ag eiddo unrhyw ymgeisydd arall. Wrth ddewis, <u>yn y man cyntaf</u> y dylid ystyried Cymreictod, a'i ystyried o gymaint pwys â'r cymwysterau eraill, megis ysgolheictod a phersonoliaeth a'r gallu i drefnu.*

Un o'r pethau a bwysleisiai'r <u>Cymro</u> dro ar ôl tro yn ei ysgrifau blaen ar addysg, fel y gwelir yn yr enghraifft gyntaf uchod, oedd pwysigrwydd rhoi tegwch mewn addysg i bob unigolyn, pwy bynnag y bo, a pheidio â ffafrio unrhyw ddisgybl ar draul un arall. Yn ysgrif flaen y papur 12 Mai 1934 dywed bod ysgolion bach y wlad lawn cyn bwysiced ag ysgolion mwy y trefi, ac mai 'camsyniad peryglus yw barnu pwysigrwydd ysgol wrth nifer y plant sy'n ei mynychu.' Ond ychwanega'r papur hefyd bod ysgolion y wlad yn cyfrannu llawer mwy i gymdeithas nag addysg yn ystyr draddodiadol y gair, gan ddweud eu bod yn 'noddfeydd i ddiwylliant llawer amgenach na diwylliant bâs y trefi' ac wedi meithrin rhai o gewri mwyaf y genedl:

<u>YSGOLION Y WLAD</u>

*Y MAE perygl i ysgolion y wlad ddiflannu, ac fe fyddai hynny'n drychineb cenedlaethol.*

*Ym Mhwyllgor Addysg Sir Ddinbych fe ddywedodd Mr. W. Aston na allai'r un sir fforddio'r draul o atgyweirio'r ysgolion gwledig a'u gwneud yn gyfryngau addysg effeithiol, ac mai'r unig beth i'w wneud yw cludo plant y wlad o'u cartrefi i ysgolion mwy, lle y deuent i adnabod mwy o blant eraill o'r un oed â hwy.*

*Nid oes amheuaeth nad yw'r ysgolion gwledig yn aml yn anaddas, oherwydd cael eu hesgeuluso. Ac yn aml nid yw'r staff yn ddigonol.*

*Fe gyfeiriodd un o aelodau'r pwyllgor at un camwri â'r ysgolion gwledig, sydd wedi bod yn mynd ymlaen ers blynyddoedd. Y camwri hwnnw yw gyrru athrawon i ddechrau ar eu gwaith yn yr ysgolion gwledig ac ar*

*ôl iddynt gael profiad eu symud i ysgolion mwy y trefi a'r lleoedd diwydiannol. Dyma beth y dylid ei unioni canys ni ddylid edrych ar ein hysgolion gwledig fel lleoedd i athrawon fwrw eu prentisiaeth. Nid yw'n deg â'r plant na'r athrawon.*

*Camsyniad peryglus yw barnu pwysigrwydd ysgol wrth nifer y plant sy'n ei mynychu. Y mae'r ysgol leiaf mor bwysig â'r ysgol fwyaf. Fe ddylai'r ysgolion gwledig gael athrawon gyda chystal cymwysterau a phrofiad â'r ysgolion mwy yn y trefi, a dylai'r athrawon sy'n gofalu am yr ysgolion hyn gael eu hystyried yn gydradd ym mhob ystyr â'u brodyr yn yr ysgolion mwy.*

*Y mae i bethau fod yn wahanol yn gam ag addysg ac yn torri dan seiliau'r diwylliant gwledig, a hwnnw, wedi'r cyfan, yw gwir ddiwylliant Cymreig. Dyna paham y dywedwn mai trychineb cenedlaethol fyddai diflannu o'r ysgolion gwledig, o'r rhai y cododd prif ddynion ein cenedl ym mhob cylch ar fywyd.*

*A ni'n sôn cymaint am adferyd y bywyd gwledig, fel iachawdwriaeth o'r trybini yr ydym ynddo am nad oes dim cytbwysedd yn ein bywyd economaidd, purion yw cofio nad trwy edrych ar addysg gyda'r meddwl trefol y mae dwyn bywyd newydd i'r ardaloedd gwledig.*

*Nid pwnc i'w farnu wrth y draul yn unig ydyw, eithr wrth safonau gwerth na ellir eu mynegi yn nhermau arian a nifer. Ac yn y pen draw, dyna'r safonau a dalai orau.*

*Ffolineb yw dadlau ein bod yn rhy dlawd i fforddio ysgolion cymwys ac athrawon cyfarwydd ym mhob ardal pa mor wledig bynnag fyddo. Y mae'r defnyddiau gennym, a'r llafur a allai eu troi'n adeiladau addas a phrydferth yn segur, ac nid oes dim prinder athrawon. Nid oes chwaith ddim prinder bwyd a dillad, a phopeth a roddai fywyd llawn i adeiladwyr ac athrawon. Yn nhermau nwyddau ac angenrheidiau byw yr ydym yn gyfoethog iawn; nid ydym yn dlawd ond yn y moddion i'w prynu neu eu dosbarthu.*

*Pe dysgem fod yn ymarferol, fe allem fforddio ysgolion ym mhob ardal, nid yn unig i fod yn lleoedd i ddysgu plant, ond i fod yn gartrefi a noddfeydd i ddiwylliant llawer amgenach na diwylliant bâs y trefi.*

Dengys y ddwy ysgrif flaen ganlynol a gyhoeddwyd o fewn pedair wythnos i'w gilydd ym 1934 mor bleidiol oedd Y Cymro i addysg Gymraeg. Yn "CRAIG RHWYSTR" YR IAITH mae'r papur yn beirniadu swyddogion awdurdodau lleol Cymru am fod mor ddifater ynghylch yr iaith ac ar yr un pryd yn beirniadau'r bobl gyffredin am ethol y swyddogion i'w swyddi yn y lle cyntaf; yn LLE'R IAITH dywed y dylid gwneud yr iaith Gymraeg yn bwnc gorfodol i bob plentyn yn ysgolion canolradd Cymru:

"CRAIG RHWYSTR" YR IAITH (19 Mai 1934)

*FE feirniadwyd awdurdodau addysg Cymru'n bur llym gan Mr. J. Ellis Williams, o gadair Undeb Athrawon Cymru, am eu difaterwch ynglŷn â rhoddi i'r iaith Gymraeg ei lle.*

*Difaterwch yr awdurdodau lleol, meddai, yw'r graig rhwystr ynglŷn â'r iaith, ac oni ellir argyhoeddi'r dosbarth pwysig hwn ym mywyd ein cenedl nid oes obaith y caiff y Gymraeg ei lle priodol yn ein trefn*

*addysg.*

*Peth cwbl ofer yw beio Lloegr am hyn, o achos, fel y dywedodd Mr. Williams, pe safai'n cynghorau ni'n hunain yn gadarn ar y mater hwn, ni cheid dim gwrthwynebiad o gyfeiriad y Bwrdd Addysg yn Llundain.*

*Y mae bellach saith mlynedd ers pan gyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor Ymchwil, ond aros yn eu hunfan y mae'r rhan fwyaf o lawer o'r rhai sy'n rheoli ein haddysg. Fe dderbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Ymchwil a fu'n ystyried lle'r Saesneg yn y drefn addysg, ond goddefir i adroddiad Pwyllgor Ymchwil y Gymraeg, a ddaeth i'r un farn, fod yn llythyren farw.*

*Y mae datganiad y Pwyllgor Ymchwil yn glir, "bod astudiaeth o iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn rhan hanfodol o gyfundrefn addysg Cymru."*

*Wrth gwrs, y mae'n rhaid cael athrawon eiddgar dros y Gymraeg, a medrus yn y grefft o'i dysgu. Ni ellir cwyno bod prinder athrawon cymwys pan y mae o leiaf hanner y myfyrwyr a dderbyn hyfforddiant yn y Gymraeg yn gorfod chwilio am leoedd yn ysgolion Lloegr.*

*Ni chawn byth y gorau allan o'n hysgolion oni bydd gan yr awdurdodau lleol ddiddordeb byw yn hyrwyddiant ein hiaith. A phe ceid deffroad gwirioneddol ymhlith yr awdurdodau lleol, hawdd fyddai symud ymlaen at gydweithrediad cenedlaethol.*

*Yn y pen draw, wrth gwrs, y mae'r bai am ddifaterwch yr awdurdodau addysg ar y bobl eu hunain, am ethol rhai heb ddim cydymdeimlad â'r diwylliant Cymreig i reoli addysg ein gwlad.*

LLE'R IAITH (16 Mehefin 1934)

*YNG nghyfarfod Bwrdd Canol Cymru fe bwysleisiwyd mai angen ysgolion canolradd ein gwlad heddiw yw athrawon yn medru dysgu Cymraeg, Spaeneg ac Eidaleg i'r plant.*

*Y mae'n ymddangos bod mwy o fri ar Spaeneg yn ysgolion ein gwlad heddiw, er nad yw'r iaith swynol honno yn cael ei lle yn ein colegau. Fe ddywedir bod Spaeneg yn iaith sy'n apelio'n naturiol at blant Cymru, ac fe ddylent ar bob cyfrif gael cyfleusterau i'w dysgu.*

*Ond rhaid gwylio na ddygir ieithoedd dieithr i ysgolion Cymru ar draul esgeuluso ein hiaith ni ein hunain. Ni byddai gwneud Cymraeg yn iaith orfod i bob plentyn yn ysgolion canolradd Cymru yn ddim camwri nac annhegwch o gwbl.*

*Y gwir yw ein bod fel cenedl yn llawer iawn rhy ddibris o'n hiaith ein hunain, a llawer yn edrych i lawr arni fel iaith lafar cefn gwlad heb ddim urddas yn perthyn iddi na gwerth yn ei llenyddiaeth. Nid yw cenedl a ddirmygo ei hiaith ei hun yn haeddu byw.*

Un o'r problemau mawr yn ymwneud ag addysg Gymraeg oedd bod athrawon a oedd yn gwbl gymwys i ddysgu'r iaith yn ysgolion Cymru, ac wedi'u hyfforddi'n benodol i wneud hynny, yn gorfod mynd i Loegr i chwilio am waith, sefyllfa a ddôi dan lach Y Cymro yn yr ysgrif flaen GADAEL CYMRU o 1 Medi 1934. Unwaith yn rhagor mae'r Cymro yn siarad yn blaen ar bwnc addysg Gymraeg gan ddweud eto bod Awdurdodau Addysg Cymru'n gwbl ddifater ynghylch safle'r Gymraeg yn yr ysgolion; geilw'r papur am weithredu ar unwaith ynglŷn â gwella'r sefyllfa os oeddid i osgoi argyfwng hyd yn oed

yn waeth nag a fodolai eisoes:

> *MEWN cyfarfod o Ysgol Haf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Aberystwyth, dywedodd Mr. J. Ellis Williams, yr ysgrifennydd, y gorfodir athrawon a hyfforddwyd yn briodol i ddysgu'r Gymraeg yn ysgolion Cymru i chwilio am swyddi yn Lloegr.*
>
> *Nid oes le i amau nad yw'r hyn a ddywed Mr. Williams yn hollol gywir. Nid dyma'r tro cyntaf i'r ffaith annymunol hon gael ei chyhoeddi.*
>
> *Y mae gwir angen athrawon cymwys yn ysgolion Cymru. Fe ddylai fod ymhob ysgol athrawon cymwys i ddysgu Cymraeg i'r plant, ac eraill cymwys i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng hyfforddi. O'r ddau, y cyntaf yw'r pwysicaf, a dyma'r athrawon y cyfeiria Mr. Ellis Williams atynt.*
>
> *Fe roddodd rhai o'r Awdurdodau Addysg rybudd y disgwylid i bob athro ei gymhwyso ei hun i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng hyfforddi o fewn amser penodol (ond nid yw'r rhan fwyaf o'r Awdurdodau'n barod i fabwysiadu'r rheol hon.)*
>
> *Ni ddylai'r un athro Cymraeg orfod troi ei gefn ar Gymru, ac y mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny a benodwyd i weithio'n cyfundrefn addysg ofalu na ddigwydd y fath beth yn y dyfodol.*
>
> *Dro'n ôl yr oedd prinder athrawon Cymraeg cymwys oherwydd na fynnodd llawer o'r Awdurdodau Addysg, wrth ddewis athrawon, sicrhau cymhwyster i ddysgu Cymraeg. Ni ddywedwyd wrth y Colegau Hyfforddi fod yn rhaid i'r myfyrwyr sy'n disgwyl cael lleoedd yn ysgolion Cymru fod yn gymwys i ddysgu Cymraeg ac i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng hyfforddi.*
>
> *Nid i'r Awdurdodau Addysg yr ydym i ddiolch bod y sefyllfa wedi newid a bod yn awr gyflenwad o athrawon Cymraeg cymwys. Eithr arnynt hwy y mae'r bai am na sicrheir lleoedd iddynt yn ysgolion Cymru.*
>
> *Gofynnodd Mr. J. Ellis Williams i Gynghrair yr Awdurdodau Lleol roddi sylw manwl a buan i'r mater hwn. Y mae'r cais yn un rhesymol, a hyderwn y gwrandewir arno.*
>
> *Fe gafodd yr awdurdodau addysg ddigon o amser i wella'r sefyllfa, ac y mae eu difaterwch yn profi mor anobeithiol yw disgwyl iddynt weithredu'n wirfodd.*
>
> *Y mae lle i ofni y bydd yn rhaid eu gorfodi gan awdurdodau uwch i wneud eu dyletswydd yn y cyfeiriad hwn.*
>
> *Canlyniad naturiol yr amgylchiadau presennol fydd i'r myfyrwyr sy'n eu paratoi eu hunain ar gyfer bod yn athrawon, sylweddoli nad oes fantais i'w ennill trwy eu cymhwyso eu hunain i ddysgu Cymraeg i'r plant, a chymryd eu hyfforddi mewn gwersi eraill.*
>
> *Yna, bydd prinder athrawon Cymraeg cymwys unwaith eto, a bydd yr iaith yn dioddef fwy nag a wna hyd yn oed yn awr.*

Yn yr adran o'r bennod hon sy'n ymdrin â darlledu yng Nghymru gwelir mor anfodlon yw'r Cymro ynghylch diffyg darpariaeth ddigonol o raglenni radio trwy gyfrwng y Gymraeg. Eironig iawn felly yw'r ysgrif flaen ganlynol, ANFFYDDLON I'R IAITH, o rifyn 9 Chwefror 1935 sydd am unwaith yn canmol y B.B.C. am drefnu rhaglenni Cymraeg ar gyfer yr ysgolion ond sy'n feirniadol o'r awdurdodau addysg a'r athrawon am ymateb mor llugoer i'r rhaglenni hynny! Mae'r sylwadau hyn yn ymateb i stori

flaen yr wythnos, <u>YSGOLION CYMRU'N RHOI CROESO GWAN I WERSI'R RADIO</u>, sy'n nodi'r ystadegau siomedig ynglŷn â faint yn union o ysgolion a wrandawai ar y rhaglenni Cymraeg; yn wyneb yr ystadegau hynny mae'r <u>Cymro</u>, yn gwbl deg, yn dweud na allai feio'r B.B.C. pe penderfynai ddiddymu'r rhaglenni:

> *YR ydym fel Cymry'n barod iawn i feio'r B.B.C. am ei agwedd tuag at y Gymraeg, eithr oni ddylem geisio hyrwyddo gwaith y B.B.C., pan fydd yn ceisio gwasanaethu ein gwlad, pa mor anaml bynnag y mae hynny'n digwydd.*
>
> *Bu darlledu gwersi i'r ysgolion dyddiol yn rhan bwysig o raglenni Saesneg y Gorfforaeth ers rhai blynyddoedd bellach, a barn llawer o'r athrawon yw fod y gwersi wedi bod o wasanaeth mawr iddynt hwy a'r disgyblion.*
>
> *Ceisiwyd gan y Gorfforaeth drefnu gwersi arbennig i ysgolion Cymru, a llwyddwyd i'w darbwyllo y byddai cyfres o wersi yn sicr o dderbyniad gwresog. Rhyw flwyddyn yn ôl fe gychwynwyd y gyfres newydd hon a cheisiwyd rhoddi pob cyfarwyddyd i'r athrawon ynglŷn â phwrcasu setiau cymwys. Fe ofynwyd i'r awdurdodau addysg gymeradwyo'r cynllun a chaniatáu i'r ysgolion brynu setiau gwrando. Yr oedd y gwersi'n gymwys a'r darlledwyr yn wŷr amlwg ym myd addysg.*
>
> *Yn wyneb yr adroddiad a gyhoeddir ar dudalen arall ni allwn lai na theimlo'n anesmwyth oherwydd difrawder ein hawdurdodau addysg a'r athrawon ynghylch gwasanaeth y mae perthynas agos rhyngddo a dyfodol y Gymraeg.*
>
> *Fe anfonodd 114 o ysgolion Cymru at y B.B.C. i ddweud eu bod yn gwrando'r sgyrsiau a drefnir ar gyfer yr ysgolion, eithr <u>dim ond 55 o'r ysgolion hyn a ddywedent eu bod yn gwrando ar y sgyrsiau Cymraeg.</u>*
>
> *Fe anfonodd cadeirydd y pwyllgor sy'n arolygu'r sgyrsiau Cymraeg at yr awdurdodau a'r cyfarwyddwyr addysg yn gofyn am eu barn, eithr ni welodd ond pump ohonynt yn dda i ateb y llythyr!*
>
> *A yw'n syndod clywed fod y B.B.C. yn amau a yw'n werth parhau'r sgyrsiau hyn?*
>
> *Fe ddywedir yn blaen nad oes llawer o obaith y llwyddir i gael rhagor o Gymraeg, ac y mae perygl y collir y gwersi Cymraeg a geir eisoes, oni ddyry'r awdurdodau addysg fwy o gefnogaeth i'r gwersi. Ni all neb feio'r B.B.C. am wneud y datganiad hwn.*
>
> *Pan hysbyswyd am benodiad Mr. Owen Parry yn Gyfarwyddwr Addysg dros Gymru i'r B.B.C. edrychwyd ymlaen at ddatblygiadau pwysig yn yr adran hon. Yr oedd gallu a phrofiad Mr. Parry yn ddigon o sail i'r disgwyliad hwn. Ond rhaid cofio na ddaw'r ffrwyth a ddisgwyliwn oddi wrth y penodiad hwn oni fydd ein hawdurdodau addysg a'n hathrawon yn fyw i bob cyfle i gael gwasanaeth helaethach i hyrwyddo diwylliant Cymru. Rhaid dal yn well ar y pethau a gafwyd yn ogystal â hawlio rhagor.*
>
> *Y mae cyfrifoldeb ein hawdurdodau addysg, y cyfarwyddwr addysg a'r athrawon yn fawr ynglŷn â'r mater hwn.*
>
> *Hyderwn y bydd y ffeithiau a amlygwyd gan awdurdodau'r B.B.C. yr wythnos hon, nid yn esgusion dros y B.B.C., nac yn gerydd ar y rhai sy'n rheoli ein haddysg, eithr yn symbyliad i symud o'r difrawder sy'n bod hyd yn hyn.*

Ysgrif flaen arall sy'n ymateb i brif stori'r wythnos yw'r un o'r <u>Cymro</u> 23 Mawrth 1935, sydd â'i bennawd ar y dudalen flaen

yr wythnos honno yn cyhoeddi bod SAESON O BLAID DYSGU CYMRAEG YN YR YSGOLION. Yn naturiol, mae'r Cymro yn ymfalchïo dros frwdfrydedd y rhai na fedrent yr iaith ynglŷn ag addysg Gymraeg ond mae'r papur yn gryf o'r farn bod yn rhaid i'r Gymraeg, os yw am fod 'yn wir iaith Cymru', fod yn fwy nag iaith yr ysgol yn unig a'i bod yn IAITH YSGOL AC AELWYD ac hefyd yn iaith 'na bo arnom gywilydd ohoni tu allan i ddrws y cartref', h.y. yn iaith a ddefnyddir yn helaeth ym mhob agwedd o'r gymdeithas:

> *ONI bydd y Gymraeg yn iaith ysgol ac aelwyd ni ellir ei hystyried yn wir iaith Cymru.*
>
> *Fe gyhoeddir yn 'Y Cymro' heddiw ganlyniad pleidlais trigolion tair ardal ar y goror sy'n dangos yn berffaith glir na ddylem ystyried y Saeson sy'n trigo yn ein plith yn rhwystr i'r Gymraeg gael ei lle yn yr ysgolion bob dydd.*
>
> *Allan o 543 o deuluoedd a bleidleisiodd yr oedd 534 yn dymuno i'r plant gael dysgu darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg iddynt yn yr ysgolion. Dim ond pedwar teulu oedd yn erbyn a phump yn amhendant. Dengys y ffigurau bod rhieni 395 o blant yn ffafrio dysgu Cymraeg, tra nad oedd rhieni dim ond deuddeg o blant yn erbyn neu'n ansicr pa ffordd i bleidleisio.*
>
> *Y mae'r mwyafrif mor fawr fel y gellir dywedyd bod trigolion y tair ardal yma wrth droed Clawdd Offa bron yn unfryd o blaid Cymraeg yn yr ysgolion, a hyn er bod 151 o deuluoedd, mwy na'r bedwaredd ran, yn Saeson.*
>
> *Y mae cydbwyllgor yr eglwysi yn yr ardaloedd hyn i'w longyfarch am sicrhau barn y trigolion ar y pwnc pwysig hwn, ac fe ddylai'r atebion a gafwyd i'r cylchlythyr argyhoeddi awdurdod addysg y sir mai nid mympwy ychydig o Gymry gor-selog yw'r gri am i'r iaith gael mwy o le yn yr ysgolion. Dyma farn y wlad, yn Gymry a Saeson, ac nid oes gan yr awdurdod addysg hawl i'w hanwybyddu.*
>
> *Ni wnaeth y cyd-bwyllgor ddim ond nodi mewn ychydig eiriau eu rhesymau dros roddi chwarae teg i'r Gymraeg yn yr ysgolion "er lles crefydd, llenyddiaeth a thraddodiadau Cymru", ond yr oedd hynny'n ddigon i gael ateb pendant sydd wrth fodd calon y cyd-bwyllgor a charedigion yr iaith ym mhob man. Dengys y bleidlais hon mai nid y Saeson yw gelynion ein hiaith. Ni bu'r Saeson sydd yn ein plith erioed yn fwy parod i gydnabod ein diwylliant arbennig fel cenedl, diwylliant y mae'r iaith yn rhan na ellir mo'i gwahanu oddi wrtho. Ac heb lawer o eithriadau y mae'r Cymry sydd wedi colli eu hiaith yn ystyried hynny'n golled ac yn beio'r amgylchiadau a barodd iddynt dyfu i fyny heb wybod eu hiaith eu hunain.*
>
> *Adroddir hefyd am fudiad sy'n cychwyn yn Lerpwl i ddysgu'r Gymraeg i blant Cymry'r ddinas honno, trwy roddi gwersi yn yr ysgolion ar foreau Sadwrn. Fe ddibynna llwyddiant y mudiad hwn i raddau helaeth iawn ar gefnogaeth y rhieni.*
>
> *Yr ydym yn llawenhau am yr arwyddion iach hyn o awydd am i'r iaith gael ei lle yn yr ysgol, ond rhaid cofio er hynny bod gwahaniaeth rhwng gwybod iaith a'i siarad a'i hysgrifennu yn rhwydd a naturiol. Fe ellir gwneud iaith yn iaith y pen, heb iddi fod yn iaith y galon. Y mae'n bosibl symud ymlaen mor bell gyda dysgu Cymraeg ac er hynny i'r iaith fod mor farw â Lladin.*
>
> *Y mae gwneud Cymraeg yn iaith ysgol yn golygu mwy na'i gwneud yn*

*iaith dosbarth a gwersi, fe olyga ei gwneud yn iaith chwarae rhwng oriau'r gwersi.*

*Gwych o beth yw iddi fod yn iaith yr aelwyd, ond rhaid iddi hefyd, i fod yn iaith fyw, fod yn iaith na bo arnom gywilydd ohoni tu allan i ddrws y cartref. Ni thâl hi ddim i siarad Cymraeg gartref "er mwyn yr hen bobl" neu yn ein hen ardal rhag bod yn gyff gwawd cymdogion. Rhaid iddi gael ei lle mewn "cymdeithas". Mewn geiriau eraill, y mae'r ymgyrch i gadw'r iaith yn ymdrech yn erbyn yr ysbryd gwasaidd a eilw rhai yn snobeiddiwch.*

*Mynnwn droi pob carreg i orfodi'r awdurdodau addysg i'w gwneud yn iaith y pen drwy'r ysgolion, ond ni cheir mo'r gorau o hynny heb ei chadw'n iaith y galon, canys o helaethrwydd y galon y llefara'r tafod - nid llefaru iaith fratiog a llediaith, ond llefaru Cymraeg glân, rhwydd ac urddasol.*

Yn ysgrif flaen rhifyn 8 Mehefin 1935 o'r papur sieryd am bwysigrwydd Cyngor Addysg Cenedlaethol i Gymru:

<u>HAWLIAU CYMRU</u>

*NID oes byth ball ar sôn am hawliau Cymru yn gyffredinol, ond yn rhy fynych y mae'r holl siarad megis yn yr awyr a'r unig ffrwyth yw cymeradwyaeth y selog mewn cyfarfod neu gynhadledd. Bellach, dyma ddau bwnc pendant yn cael sylw, sef Cyngor Addysg Cenedlaethol ac Ysgrifennydd i Gymru.*

*Nid y pwnc heddiw yw a ddylai Cymru fodloni ar y ddeupeth hyn, ond yn hytrach a ddylem ni fod yn un i'w hawlio am eu bod yn bwysig ac am eu bod yn ein cyrraedd ar unwaith.*

*"Os oes yna un cylch o wasanaeth cymdeithasol lle mae Cymru wedi ennill yr hawl i un sefydliad cenedlaethol, addysg ydyw", meddai'r Prifathro Emrys Evans, pan oedd pwnc Cyngor Addysg Cenedlaethol yn cael ei drafod yng nghyfarfod hanner-blynyddol Bwrdd Canol Cymru.*

*Bellach fe gaiff yr awdurdodau sir gyfle i ddangos bod y Prifathro yn datgan barn cenedl.*

*Am fod y Bwrdd Canol wedi gohirio penderfynu dim nes cael barn yr awdurdodau sir fe brysurodd rhai papurau newydd, na ellir eu cyhuddo o fod yn rhy gariadus at ddim Cymreig, i awgrymu bod y mudiad o blaid hyn wedi cael dyrnod.*

*<u>Fe hyderwn ni y bydd i'r pwyllgorau addysg ddangos mai nid dyna fydd effaith gofyn eu barn hwy, eithr yn hytrach y bydd iddynt ddal ar y cyfle i gyhoeddi ag un llais fod gan Gymru ddigon o ffydd ynddi ei hun, ac yn rhoi digon o bris ar ei diwylliant cenedlaethol, i fynnu'r hawl i reoli addysg ei phlant....</u>*

Diddorol yw ysgrif flaen <u>Y Cymro</u> bythefnos yn ddiweddarach yn trafod <u>CREFFT AC ADDYSG</u>, lle gwna'r papur y pwynt dilys bod gallu mewn celfyddydau a chrefftau yn gydradd â gallu academaidd:

*FE awgrymwyd peth chwyldroadol, ond cwbl resymol, gan Mr. Morgan Jones yn y drafodaeth a fu ar addysg yn y Senedd yr wythnos hon.*

*Dywedodd ef yr hoffai weled rhyw awdurdod addysg yn ddigon eofn i benodi athro crefftau yn bennaeth ysgol.*

*Y mae'n anodd dirnad paham na wneir hyn, heblaw hwyrach ein bod yn camddeall ystyr ac amcan addysg, ac wedi myned i dybio bod diwylliant yn rhywbeth ar wahân i grefft a chelfyddyd. Ni raid meddwl ond ychydig i sylweddoli mai camgymeriad yw hyn, ac nad oes un rheswm o gwbl dros ystyried mai pynciau academaidd yw unig foddion diwylliant.*

*Nid oedd yr hen Gymry yn gwneud y camgymeriad hwn, ac yn yr hen drefn gymdeithasol yr oedd y crefftwr yn cael ei restru mor uchel â'r gwŷr addysg, ac fe ddangoswyd hefyd mewn adolygiad yn 'Y Cymro' yr wythnos ddiwethaf ar lyfr yn ymwneud â hen gyfreithiau Iwerddon fod y crefftwr yno hefyd yn ŵr rhydd ac yn gydradd â'r perchennog tir a'r dysgedig.*

*Fe ddylem ninnau hefyd ei gydnabod yn gydradd, ac un prawf o hynny a fyddai gweithredu awgrym Mr. Morgan Jones. Nid dau beth ar wahân yw crefft a dysg, ond pethau yn cydfynd â'i gilydd. Gwelliant dymunol a fyddai gweled hyfforddwyr crefft cymwys yn cael eu dewis yn benaethiaid ein hysgolion mor aml ag y dewisir dynion yn meddu cymwysterau academaidd. Odid na buasai hyn yn help i gael gwell cytbwysedd yn ein trefn addysg.*

*Yn yr un drafodaeth pwysleisiodd Mr. R. T. Evans fod problem addysg yr ysgolion gwledig yn wahanol i broblem ysgolion y trefi, ac yr oedd ateb y Gweinidog Addysg yn argoeli fod hyn bellach yn cael ei gydnabod i fesur gan y Bwrdd.*

*Da yw canfod arwyddion bod syniadau amgenach am addysg a'i phwrpas yn ennill tir.*

Ategir y pwynt hwn ar ddiwedd ysgrif flaen Y Cymro 19 Hydref 1935 sy'n dweud nad oedd addysg ar y cyfan yn darparu'r bechgyn a'r genethod a fynychai'r ysgolion ar gyfer y math o waith y byddent yn ei gyflawni wedi iddynt adael yr ysgol. Er bod y papur yn canmol safon yr athrawon sy'n 'uwch o gryn lawer nag yr oedd' ac yn canmol y symiau mwy a werir ar addysg, dywed bod y gyfundrefn addysg ei hunan 'yn wrthun i'r eithaf' ac yn un na wnâi unrhyw chwarae teg â'r disgyblion:

EISIAU NEWID

*....Un o ddau beth sydd i'w wneud - lleihau nifer y plant a anfonir i'r ysgolion canolradd, neu helaethu adeiladau'r ysgolion.*

*Pe bai'r addysg a gyfrennir yn yr ysgolion hyn yn debyg o droi'n fantais i'r plant, dywedem yn bendant mai helaethu'r ysgolion fyddai orau. Ond nid felly y mae. Nid yw'r gwersi academig a roddir yn yr ysgolion canolradd y dyddiau hyn y math addasaf ar addysg i'r mwyafrif o'r plant a byddai'n well o lawer i'r plant eu hunain ac i'r wlad yn gyffredinol pe byddai i'n hawdurdodau addysg wynebu'r sefyllfa. Dylid trefnu'n arbennig ar gyfer y rhai sy'n bwriadu dilyn crefftau neilltuol, fel y byddai yn yr ysgolion canolradd ddigon o le ar gyfair y plant sydd am ddilyn cwrs academig.*

*Priodol y gofynna Mr. J. E. Williams faint o ysgolion sydd â gerddi yn perthyn iddynt. Gallwn ninnau ofyn faint o fechgyn Cymru sydd â'u hwynebau ar ffermio a gedwir yn ein hysgolion am flynyddoedd yn dilyn cwrs hollol anghymwys? Faint o amser ac arian a wastreffir i gadw'r ferch nad oes obaith iddi fanteisio'n llawn ar yr addysg a gyfrennir*

*iddi, mewn ysgol sir am dair neu bedair blynedd?*

*Flynyddoedd yn ôl enillodd awdurdodau addysg Cymru fuddugoliaeth fawr drwy ddangos i'r awdurdodau yn Llundain fod ganddynt eu syniadau eu hunain ynglŷn ag addysg. Fe ddaeth yr amser iddynt wneuthur hynny unwaith eto er mantais i'r genhedlaeth sy'n codi.*

Yn Y Cymro 11 Ionawr 1936 ceir ysgrif flaen ar y Mesur Addysg newydd i godi'r oed gadael ysgol i bymtheg oed, a oedd yn ôl Gohebydd Arbennig y papur yn ei adroddiad ar dudalen flaen yr wythnos y 'mesur pwysicaf sydd i'w gyflwyno gan y Weinyddiaeth i'r Senedd y flwyddyn hon'. Mae'r Cymro yn rhoi croeso gofalus i'r Mesur ac yn dweud 'ei fod yn gam yn y cyfeiriad iawn' ond nid yw'n gwneud sylwadau un ffordd neu'r llall ar brif hanfod y Mesur, sef codi oed gadael ysgol i bymtheg; yr unig beth a ddywed yw y dylid cael system drethi mwy effeithiol i ddarparu ar gyfer y nifer ychwanegol o blant a fyddai yn yr ysgolion o ganlyniad i'r Mesur. Unwaith eto, mae'r papur yn galw am sefydlu Cyngor Addysg cenedlaethol i Gymru:

MESUR NEWYDD

*UN o'r Mesurau pwysicaf sydd i'w gyflwyno i'r Senedd y flwyddyn hon yw Mesur Addysg newydd y Llywodraeth ac, fel yr eglura ein Gohebydd Arbennig ar dudalen arall o'r rhifyn hwn, y mae'n debyg y ceir brwydro poeth arno o amryw gyfeiriadau.*

*Y mae dylanwadau ar wahân i rai gwleidyddol yn dod i'r amlwg pan y bydd trafod ar unrhyw bwnc ynglŷn ag addysg ar lawr Tŷ'r Cyffredin, ac y mae gan gyfundebau crefyddol fwy o ddylanwad ynglŷn â'r mater hwn nag ynglŷn ag unrhyw fater arall. Dyna, yn ddiau, paham y gwelwyd cymaint o Fesurau Addysg yn cael eu dryllio, er fod gan y Llywodraeth ar y pryd fwyafrif mawr yn Nhŷ'r Cyffredin.*

*Ni chyhoeddwyd y Mesur Newydd eto, ond y mae digon o fanylion am dano yn wybyddus fel y gallwn ddweud ei fod yn gam yn y cyfeiriad iawn.*

*Bu Cymru ymhell o flaen Lloegr ar gwestiwn addysg ar hyd y blynyddoedd, ac nid yw Mesur 1936 yn debyg o lwyr fodloni'r rhai a gymer ddiddordeb yn y pwnc. Eithr fe ddylid gofalu nad yw'r Mesur newydd yn rhoddi ardaloedd gwledig Cymru dan fwy o anfanteision nag ardaloedd Lloegr.*

*Y mae llawer ardal yn Lloegr wedi gallu paratoi ar gyfer yr amgylchiadau newydd, eithr nid felly Cymru. Yn yr ardaloedd poblog, dioddefwyd oherwydd y dirwasgiad a bu'n rhaid codi trethi uchel er mwyn cynnal y diwaith; yn yr ardaloedd gwledig nid yw'r gwerth trethiannol yn ddigon uchel i ganiatáu i'r awdurdodau addysg gario allan y gwelliannau angenrheidiol.*

*Cyfyd y cwestiwn ai oni ddylid gwneud holl dreuliau addysg yn faich cenedlaethol. Yn hwyr neu'n hwyrach, fel y dadleuwyd eisoes yn 'Y Cymro', bydd yn rhaid wynebu'r mater hwn, ac ni ellir disgwyl cyfiawnder i bob ardal fel ei gilydd hyd oni weithredir ar yr egwyddor hon. Dan y trefniadau presennol ni all llawer o awdurdodau addysg Cymru ddisgwyl medru darparu'n briodol ar gyfer y nifer ychwanegol o blant a*

*gedwir yn yr ysgolion heb or-lwytho'r trethi lleol.*
*Cwestiwn arall sy'n sicr o greu anghydfod yng Nghymru yw safle'r ysgolion enwadol neu eglwysig. A yw'r trethi lleol i'w defnyddio i roddi'r ysgolion hyn mewn cyflwr boddhaol ac i dalu am ychwanegiadau at yr adeiladau presennol? A yw'r awdurdodau lleol i gael rhyw gymaint o reolaeth ar yr ysgolion hyn? Dyma lle daw'r Ymneilltuwyr i wrthdrawiad â'r Eglwyswyr a Chatholigiaid Rhufain, ac ofnwn y gwelir brwydro poeth rhwng y gwahanol sectau â'i gilydd.*
*Credwn ni na ddylai'r cyhoedd orfod cyfrannu tuag at gostau ysgolion enwadol neu eglwysig, heb gael llais hefyd yng ngweinyddiad yr ysgolion hynny. Y mae'r egwyddor hon yn hollol deg, a hyderwn y brwydrir drosti.*
*Pan y mae Mesur o'r math hwn ger bron y wlad, gofidiwn na bai gan Gymru Gyngor Addysg a fuasai'n rhoddi mynegiant clir i ddelfrydau a dymuniadau'r genedl. Fe fyddai hynny yn arweiniad ac yn gadernid i'n Haelodau Seneddol ar lawr Tŷ'r Cyffredin wrth drafod yr agweddau dyrys sydd, o angenrheidrwydd, i bob Mesur Addysg.*
*Ond yn niffyg Cyngor o'r math, onid doeth fyddai i'r rhai sy'n arwain y wlad ar gwestiwn addysg gyfarfod i ystyried y Mesur yn arbennig yn ei berthynas â Chymru?*

Mae'r Cymro yn neilltuo ysgrif flaen rhifyn 5 Mehefin 1937 i sôn am Fwrdd Addysg Cenedlaethol i Gymru ond gwelir ei fod yn anobeithiol iawn ynghylch ei sefydlu 'am amser maith' a hynny oherwydd agwedd y Cymry eu hunain. Os y bu ysgrif a ddywed gaswirau *(home truths)* amdanom fel cenedl erioed, yna hon ydyw, yn ein cyhuddo o fod yn gecrus, yn chwit-chwat, yn blwyfol, yn rhagfarnllyd ein meddyliau, yn ddrwgdybus o'n gilydd, ac yn analluog i benderfynu ar unrhyw beth sy'n annibynnol o Loegr ac sydd o werth i ni fel cenedl. Er gwaethaf ei geiriau hallt, mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn taro nodyn sy'n gyfarwydd iawn:

ADDYSG CYMRU

*DYMA un o eiriau mawr y dydd, - Addysg. Llongyfarchwn ein hunain ein bod yn oes olau, yn gwerthfawrogi diwylliant ac yn darparu hyfforddiant i bob oed a dosbarth. Ymfalchïwn yn ein hysgolion elfennol a chanolradd, ein colegau cenedlaethol a dosbarthiadau'r Brifysgol ac Undeb Addysg y Gweithwyr.*
*Eto, yn ôl geiriau Mr. William George, a welir yn y rhifyn hwn, nid oes awydd ar awdurdodau addysg Cymru i drefnu eu tŷ eu hun drwy gael Cyngor Addysg Cenedlaethol i Gymru, yn annibynnol ar Fwrdd Addysg Llundain. Er bod y cynllun wedi ei gyflwyno i ystyriaeth pwyllgorau addysg pob sir yng Nghymru ers dwy flynedd bellach, nid oes dim tebyg i unfrydedd, nac arwyddion o un awydd i gefnogi'r cynllun yn galonnog. Dwy sir allan o'r deuddeg sydd yn bleidiol iddo.*
*Beth, tybed, a gyfrif am hyn? Ai'r anhueddrwydd rhyfedd i gydweithio a nodwyd gennym o'r blaen mewn mwy nag un cyfeiriad? Ai gwell gan y gwahanol bwyllgorau addysg gadw hyd braich oddi wrth ei gilydd, a gweithio ar wahân, pob un ar ei faes bach ei hun?*
*Neu ynte ai methu cytuno y maent ar ddymunoldeb y cynllun ynddo'i*

*hun? Dyna sydd y tu ôl i gwestiwn Mr. George, "A oes gan Gymru rhyw syniadau pendant ynglŷn ag addysg?" Bywyd diflas, i ddyn a chenedl, yw'r amhendantrwydd na ŵyr yn iawn beth a fynn.*

*Yr ydym fel Cymry yn agored i'r gwendid hwn; pobl wit-wat ydym, o'n cymharu â'r Sais. Ni allwn fod yn bendant, yn ein crefydd na'n gwleidyddiaeth, nac, fe ymddengys, "ynglŷn ag addysg". Pobl dau-ddyblyg ein meddwl ydym, a dyma un o'r prif resymau am ein methiant fel cenedl o oes i oes. Oherwydd, yn ddi-ddadl, methu a fu ein hanes, ac oni ddaw rhyw gyfnewid buan drosom, methu a wnawn yn y dyfodol.*

*A ydyw Cymru yn gyfaddas i ddelio â'i phroblemau arbennig ei hun, gofyn Mr. George. Yn ôl pob golwg, na, nid yw yn addas o lawer iawn. Ni allwn lywodraethu ein tŷ ein hun heb ymgecru, a gadael i'r hen ragfarn plwyfol ddod i mewn a difetha pob peth. De a Gogledd, Eglwyswr ac Ymneilltuwr, Methodist a Bedyddiwr, Rhyddfrydwr a Llafur, y Blaid Genedlaethol a'r wrth-Blaid, - dyma hwy, y bwganod a gwyd eu pen ym mhob pwyllgor a chynhadledd, mewn byd ac eglwys! A thra bo y rhai hyn yn tramwy Cymru ôl a blaen ni cheir undeb ysbryd, na phendantrwydd meddwl, nac un addasrwydd arall i ddelio â'n problemau arbennig, yn addysgol nac yn wleidyddol.*

*A yw Cymru'n awyddus i ddelio â hwy ei hun? Nac ydyw, oherwydd ei diffyg undeb. Ofna sir Fôn i bethau fynd i ddwylo sir Forgannwg yn ormodol; edrych sir Ddinbych yn ddrwgdybus ar sir Aberteifi. A gwell gan bob un aros "mewn safle ddibynnol, a 'pharaseitaidd' i raddau, yn ei pherthynas â Lloegr." Gwir iawn; mae Mr. George yn llygad ei le. Gwell gan Môn dderbyn gorchymyn o Lundain nag o Gaerdydd, a dewisai sir Ddinbych ddibynnu ar Loegr yn hytrach nag ar Aberystwyth.*

*Rhaid inni wneud ein meddwl i fyny ar y mater hwn yn fuan, medd y cadeirydd ym Mae Colwyn; a ydym am Fwrdd Addysg Cenedlaethol i Gymru ai peidio? Ofnwn bod y cyfaill yn or-obeithiol. Y mae Cymru yn gyfansoddiadol analluog i wneud ei meddwl i fyny, ac ateb yn unllais a phendant, "Mynnaf", neu "Na fynnaf".*

*Ond amlwg yw na welir Bwrdd Addysg i Gymru am amser maith.*

Ceir yr union yr un neges yn ysgrif flaen Y Cymro 14 Awst 1937 yn dilyn beirniadaeth Syr Percy Watkins, a fu'n ysgrifennydd Adran Cymru o'r Bwrdd Addysg am dymor, o'r gyfundrefn addysg yn y wlad. Mae beirniadaeth y papur o'r drefn addysg lawn cyn gryfed ag yn yr ysgrif flaen uchod ond nid yw mor uniongyrchol; yn hytrach defnyddir trosiad clyfar eithriadol ac un addas iawn yn y cyd-destun hwn, sef CANCR ADDYSG CYMRU, i gyfleu enbydrwydd sefyllfa addysg yng Nghymru:

*CYFEIRIWYD ar dudalen arall at feirniadaeth Syr Percy Watkins o'n cyfundrefn addysg yng Nghymru. Haedda ei eiriau sylw ac ystyriaeth bwyllog, beth bynnag a feddyliwn ohonynt ar y darlleniad cyntaf. Canys nid siarad dan ei ddwylo y mae, a cheryddu er mwyn bod yn speitlyd, ond traethu barn ar ôl profiad personol o'r gyfundrefn, fel ysgrifennydd Adran Cymru o'r Bwrdd Addysg am dymor.*

*Cnewyllyn ei feirniadaeth yw bod y gyfundrefn yn hen ffasiwn ac aneffeithiol i ddatrys problemau cyfnod newydd. Yn lle un awdurdod canolog i wynebu'r anawsterau yn gyffredinol drwy'r wlad, y mae gennym yng Nghymru 47 o awdurdodau addysg lleol, 30 yn arolygu addysg elfennol, a 17 yn gyfrifol am addysg uwchraddol.*

*Yr hen stori, bid sicr, yw hon, - diffyg undeb oherwydd plwyfolrwydd. Gwell gan bwyllgor addysg Cwmscwt i blant y cwm gael yr ail a'r trydydd-orau addysgol i'w cymhwyso ar gyfer gwaith bywyd, nag i wŷr pwysig y cwm drosglwyddo'r awenau i ddynion llawer mwy abl a chyfaddas i'w trin y tu allan i'r cwm. Nid oes awydd am undeb, oherwydd golygai hynny roi buddiannau'r wlad o flaen "ein sir ni". Hawyr bach! A golygai hefyd orfod dod i lawr oddi ar ein tomen fach lle buom yn clochdar ac yn crafu, wrth fodd ein calon, drwy'r blynyddoedd.*

*Hawyr bach! Un Bwrdd Canolog wir! Y fath ffwlbri; a ninnau yng Nghwmscwt yn fodlon i aberthu ein hamser gwerthfawr, a rhoddi ein talent a'n gweledigaeth at wasanaeth yr hen gwm, a'r hen sir, yn rhad ac am ddim, ond rhyw geiniog neu ddwy o gostau teithio! Ein disodli yn ffafr Bwrdd Llywodraethol Canolog! O, waradwydd!*

*Nid yn ein perthynas â Whitehall y mae'r cancr, medd Syr Percy Watkins. "Yr hyn sydd o le yn y bôn yw maint a nifer a chyfansoddiad awdurdodau addysg lleol Cymru. Oddi mewn y mae'r drwg." Ie, oddi mewn y gwna'r cancr ei waith andwyol bob amser: anodd iawn cael ato a'i dorri ymaith, amhosibl, yn wir, heb y gyllell.*

*Peth ofnadwy yw'r cancr mewnol, distaw, marwol; mewn corff o gnawd neu gorff cymdeithasol. A'r peth mwyaf erchyll ynglŷn ag ef yw y gall wreiddio mor ddwfn fel nad oes gobaith am feddyginiaeth. 'Hopeless case' yw dedfryd y meddyg. Nid oes un gyllell a draidd hyd at wreiddiau'r cancr.*

*Gobeithio nad yw hyn yn wir am addysg Cymru; ond y mae 'diagnosis' Syr Percy yn gywir, a'r feddyginiaeth a argymell yr un mor gywir.*

Ymddangosodd ysgrif flaen hirfaith a di-flewyn-ar-dafod yn rhifyn 4 Mehefin 1938 yn trafod PENODIADAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU; y penodiadau penodol dan sylw oedd penodi Sais di-Gymraeg yn Gyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin, penderfyniad a achosodd gynnwrf ac anfodlonrwydd mawr, a'r penodiad o brifathro newydd yn hen goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a wneid yn fuan yn dilyn ymddiswyddiad y Prifathro Maurice Jones: yr oedd amheuon y penodid rhywun di-Gymraeg i'r swydd honno hefyd. Dywed Y Cymro ei bod yn 'hen bryd i bobl Cymru ddeffro i ddifrifwch y safle' ynglŷn â phenodiadau o'r fath, penodiadau sy'n 'sarhad ar yr ysbryd cenedlaethol'; dywed hefyd bod yn rhaid gwneud rhywbeth ar unwaith i 'achub y Gymraeg i'w anrhydedd haeddiannol ym mhob sir ac ysgol a choleg yng Nghymru':

*Y MAE nifer o bethau arwyddocaol ar droed y dyddiau hyn na theimla'r 'Cymro' y dylid eu gadael heb brotest gref. Rhoed sylw yn ein rhifynnau diwethaf i benodiad Sais heb unrhyw wybodaeth o Gymraeg yn Gyfarwyddwr Addysg yn sir Gaerfyrddin. Y mae hefyd ddrwgdybiaeth yn yr awyr na ystyrrir Cymraeg yn hanfodol ym mhenodiad Prifathro newydd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr-pont-Steffan. Tybed na ddylai coleg ar enw nawdd-sant Cymru gael Cymro yn bennaeth iddo?*

*Dywed rhai fod rhesymau, a rhesymau cryfion o safbwynt addysgol, dros wneud gwybodaeth o Gymraeg yn ystyriaeth ail-raddol. Ni chytunwn â hynny. Y mae'r ddau benodiad a nodwyd, yr un a fu a'r un a fydd ar*

*fyrder, yn benodiadau pwysig iawn a effeithia'n ddwfn ar ddyfodol ein hiaith mewn rhan o'r wlad, siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, a ystyrrid yn drwyadl Gymreig.*

*Gall pethau bychain, "straws", chwedl y Sais, ddangos pa ffordd y chwyth y gwynt. Pan welir pwyllgor addysg yn llwyr anwybyddu hawliau'r Gymraeg ar ben yr ysgol, a choleg Cymraeg enwog yn cloffi rhwng dau feddwl ar bwysigrwydd yr iaith yn ei ddatblygiad yn y dyfodol, y mae'n hen bryd i bobl Cymru ddeffro i ddifrifwch y safle.*

*Onid rhesymol yw tybied, os mai dyma agwedd y rhai a gyfarwydda addysg y genedl yn ein hysgolion a'n colegau, y lliwir agwedd y werin hefyd, a chartrefi'r wlad yn gyffredinol, gan yr ysbryd a benderfyna'r penodiadau hyn?*

*Gobeithia'r 'Cymro' o galon y bydd i Gyngor yr Eglwys yng Nghymru godi i'r amgylchiad, ac, os bydd galw, gohirio penodiad Prifathro, hyd oni argyhoedder hwy nad oes un Cymro yn unman yn addas i lanw'r safle bwysig yn Llanbedr. Os y daw i hynny, cytunwn nad oes dim am dani ond penodi Sais. Ond nid cyn hynny.*

*Credwn ni fod gan yr Eglwys nifer o Gymry da sydd hefyd yn ymgeiswyr teilwng. Byddai gweled Cymro yn bennaeth Llanbedr yn amnaid cefnogol i Gymru, ac yn ysbrydiaeth newydd i'r Eglwysi. Byddai hefyd yn wers fuddiol i'r Awdurdodau Addysg.*

*Addefwn fod y penodiad hwn mewn dosbarth gwahanol i benodiadau cyhoeddus gan gynrychiolwyr y treth-dalwyr; ond byddai arweiniad mewn ysbryd Cymreig ar ran awdurdodau'r Eglwys yn symbyliad i'r teimlad cenedlaethol ar bwyllgorau'n gyffredinol.*

*Beth a ellir ei wneud i amddiffyn yr iaith yn ei meithrinfa? Yn 1924 gwnaed Ymchwiliad Adrannol drwy'r Dywysogaeth, ond aeth hwnnw bellach i ebargofiant.*

*Y mae nifer y plant a gynnig Gymraeg yn arholiadau'r Bwrdd Canol yn lleihau. Y mae'r adran Gymraeg mewn llu o ysgolion eto'n fyw a brwdfrydig. Ni ddylid caniatáu'r fath sarhad ar yr ysbryd cenedlaethol hwn â'r ddyrnod a roes Pwyllgor Addysg sir Gaerfyrddin yn ddiweddar.*

*Rhaid gwneud rhywbeth, a rhywbeth ymarferol. Nid oes gennym ni ffydd o gwbl mewn pwyllgorau addysg yn y cyfeiriad yma. Eu prif ofal hwy yw cadw'r trethi i lawr, gyda pha raddau o lwyddiant gresynus da y gŵyr trethdalwyr drwy'r wlad! Ychydig o benodiadau dan eu gofal hwy sy'n lân oddi wrth ganfasio. Edrychwn am ymwared at Gyfarwyddwyr Addysg Cymru, Arolygwyr y Llywodraeth a Phrifathrawon dylanwadol.*

*Credwn yn sicr, pe buasai gennym Ysgrifennydd i Gymru a Chyngor Cenedlaethol, na chaniateid i gwestiwn yr iaith chwarae rhan Cinderella yng Nghymru. Rhaid i Gymru gael y ddau beth yma.*

*Beth am gael i gychwyn Gynhadledd, wedi ei galw gan yr Adran Gymreig o'r Bwrdd Addysg a Chyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru, i ystyried a rhoi adroddiad ar y defnydd a wnaed o gasgliadau'r Ymchwiliad Adrannol, 1924? I lunio mesurau, hefyd, i sicrhau bod dysgu'r iaith yn yr ysgolion yn cael y sylw dyladwy, fel peth hanfodol i fywyd cenedl y Cymry.*

*Teimlwn yn argyhoeddedig y dygai ymchwiliad o'r fath gan wŷr cyfrifol ffrwythau addas a gwerthfawr. Geilw'r 'Cymro' am dano tra bo eto obaith achub y Gymraeg i'w anrhydedd haeddiannol ym mhob sir ac ysgol a choleg yng Nghymru.*

Bythefnos yn ddiweddarach dychwelodd Y Cymro at y pwnc pwysig hwn:

PENODI PRIFATHRO LLANBEDR (18 Mehefin 1938)

*CYFREITHLONA camgymeriad enbyd Pwyllgor Addysg sir Gaerfyrddin ein gwaith yn dychwelyd drachefn a thrachefn at hawliau'r Gymraeg mewn penodiadau cyhoeddus. Y mae mwy yn y glorian nag a ymddengys ar y wyneb; a rhaid wynebu'r safle mewn pryd, cyn yr elo'n rhy ddiweddar i wneud protest effeithiol.*

*Ni fyn 'Y Cymro' hyd yn oed ymddangos yn ymyrgar, nac yn awyddus i roi'r ddeddf i lawr i unrhyw gorff cyhoeddus. Yn achos Coleg Dewi Sant, Llanbedr-pont-Steffan, ni freuddwydiwn am awgrymu enw un o'r llu ymgeiswyr fel y gŵr y dylid ei benodi'n brifathro. Ond carem bwyso'n ddifrifol ar y Bwrdd Llywodraethol y pwysigrwydd mawr i'r iaith Gymraeg ac i ysbryd cenedlaethol yr Eglwys yng Nghymru o gael Cymro a chanddo'r cymwysterau addysgol a threfniadol i lanw'r swydd bwysig hon.*

*Byddai effaith penodi Sais ar feddyliau pobl yng Nghymru, a thu allan, yn ergyd drom i safle ac enw da'r Gymraeg ger bron y byd. Bydd yr effaith yn eithriadol ddifrif ar yr adran drwyadl Gymreig o'r Eglwys ei hun yng Nghymru.*

*Cawsom eisoes un ergyd drom rhwng yr ysgwyddau o sir Gaerfyrddin. Disgwyliwn yn hyderus wrth Fwrdd Llywodraethol Coleg Llanbedr i'n gwarchod rhag dyrnod arall i'n balchder yn ein heniaith wiw.*

*Coleg Cymraeg yw Dewi Sant, enwog am y gwŷr a roddodd i Gymru a'r gwaith a gyflawnodd dros ei hiaith a'i delfrydau. Gall yr Eglwys yng Nghymru ymfalchïo yng ngorffennol Dewi Sant, fel sefydliad teilwng o'r enw a roed arno. Cyfranoga pob Cymro, i ba gangen bynnag o Eglwys Crist y perthyn, yn y balchder hwnnw. Am hynny y teimlwn ei bod yn ddyletswydd arnom i gadw'r mater hwn yn gyson ger bron y cyhoedd, a bwrw'r holl bwysau o du Cymro mewn unrhyw benodiad o bwys, o byddo un ymhlith yr ymgeiswyr â'r cymwysterau eraill ganddo.*

*Dywedwn yn ddifloesgni y bydd i Gymry drwy'r byd, ac Eglwyswr Cymreig yn enwedig, gondemnio'r Bwrdd Llywodraethol yn ddiarbed, oni phenodir Cymro'n Brifathro Coleg Dewi Sant. Canys Prifathro Coleg yw un o golofnau cryfaf teml traddodiad Cymru.*

Erbyn rhifyn 30 Gorffennaf 1938 o'r Cymro yr oedd y penodiad y bu'r papur yn ei ofni ac yn siarad yn ei erbyn ers wythnosau wedi ei wneud yng Ngholeg Dewi Sant. Dyma eiriau llymion y papur dan y pennawd **BRADYCHU CYMRU**:

*YR wythnos hon, ar drothwy ei gŵyl fawr genedlaethol, cyflwynwyd i Gymru ddau ddyfarniad o bwys a barodd siomiant cyffredinol.*

*Y cyntaf yw'r neges a anfonwyd gan y Prif Weinidog i Mr. Morgan Jones, Aelod Seneddol Caerffili, a Chadeirydd y Blaid Gymreig yn y Senedd, ei fod yn anabl i gymeradwyo penodiad Ysgrifennydd Swyddogol i Gymru. Y llall yw methiant Cyngor Coleg Llanbedr-pont-Steffan i benodi Cymro yn bennaeth hen sefydliad Cymreig o'r pwysigrwydd mwyaf i fywyd y genedl.*

*Mater teuluaidd i Awdurdodau'r Eglwys yng Nghymru yw'r penodiad hwn. Dengys, fodd bynnag, eu bod allan o gyffyrddiad ac yn drwyadl ddi-gydymdeimlad â delfrydau Cymru. Rhoes y Cyngor ddyrnod cas i'r iaith Gymraeg yn Eglwysi Cymru, na ellir yn hawdd ddirnad ei effeithiau ar hyn o bryd. Nid oes gan Eglwys a dry ei chefn ar werth yr iaith Gymraeg, a thrysor y traddodiadau a gartrefa rhwng muriau cannoedd o'i hadeiladau drwy'r wlad, hawl deg i'r enw a honna, - yr Eglwys yng Nghymru. Ni synnem weled y Siarter a ganiata i Goleg Llanbedr roi graddau yn cael mynd dros y bwrdd bellach; canys Seisnig yw agwedd y Bwrdd Llywodraethol a'r Prifathro newydd. Nid oes yn eu calon ias o*

*gydymdeimlad â'r Gymraeg. Derfydd Coleg Dewi Sant â bod fel sefydliad Cymreig....*

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r ysgrifau blaen beirniadol uchod, yr oedd Y Cymro yn fwy na pharod i ganmol pan oedd achos i wneud hynny, fel y gwelir o ysgrif flaen rhifyn 20 Mai 1939 adeg ymddeoliad David Thomas, **CYFARWYDDWR ADDYSG SIR GAERNARFON**:

*Y MAE sir Gaernarfon cyn belled ag y mae'r iaith yn y cwestiwn yn un y gall ac y gwna'r sir ymfalchïo ynddi. Y mae hyn yn bod i raddau pell oherwydd y dulliau effeithiol a fabwysiadwyd i ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion, a chwaraeodd Mr. David Thomas, y Cyfarwyddwr Addysg, ran flaenllaw iawn mewn gofalu bod y dulliau hyn yn llwyddiant. Cafodd Bwyllgor Addysg eiddgar wrth ei gefn, ac athrawon a wnaeth eu gwaith yn frwdfrydig ac a roddodd fesurau'r Cyfarwyddwr mewn gweithrediad yn yr ysgol ac o'r tu allan, mewn gwaith a chwarae. Pe buasai gan yr holl awdurdodau addysg drwy Gymru weledìad a dychymyg sir Gaernarfon ar y cwestiwn pwysig hwn, ni fuasai'n rhaid gollwng cymaint o ddagrau uwchben cyflwr yr iaith heddiw.*

*Bydd Mr. David Thomas yn ymneilltuo gan wybod fod ei waith wedi ei wneud yn dda ac y mae diolch pob Cymro cywir iddo.*

*Y mae gan yr awdurdod dri enw o'u blaen am ei le. Llwyr obeithiwn y dewisir olynydd iddo a all, drwy ei wybodaeth o'r iaith Gymraeg, gario'r gwaith da ymlaen a chadw'r diwylliant a'r delfrydau Cymreig yn fyw yn ysgolion sir Gaernarfon.*

Daw sir Gaernarfon dan y chwyddwydr unwaith eto yn Y Cymro 29 Gorffennaf 1939, y tro hwn nid oherwydd rhesymau ieithyddol ond yn hytrach oherwydd 'rheol deg' Pwyllgor Addysg y sir o dalu iawndal i deuluoedd tlawd oedd ar eu colled oherwydd cynyddu'r oed gadael ysgol i bymtheg, rheol a oedd mewn perygl o gael ei diddymu gan y Bwrdd Addysg yn Llundain:

BWRIAD ANGHYFIAWN

*Y MAE rhywbeth mawr o'i le mewn cyfundrefn sy'n caniatáu i fechgyn a genethod dan 15 oed ennill cyflog drwy lafur. Ond dyna yw'r hyn a oddefir dan gyfundrefn ddiwydiannol Prydain ar hyn o bryd.*

*Fe welwyd yn y Mesur a basiwyd dro'n ôl dan ba un y codwyd oed gadael ysgol i bymtheg gyfrwng i gadw plant dan yr oed hwnnw rhag gweithio.*

*Ond y mae ochr arall i'r cwestiwn sef gallu'r rhieni i gadw'r plant yn yr ysgolion am flwyddyn yn rhagor a'u rhwystro i'w hanfon allan i ennill ychydig sylltau o gyflog.*

*Un o arloeswyr y mudiad i godi oed gadael ysgol oedd Pwyllgor Addysg Sir Gaernarfon, ond gwelodd y Pwyllgor hwn yr anhawster ariannol i'r cwestiwn a threfnodd i dalu oddeutu triswllt yr wythnos i'r rhieni hynny a ystyrid yn haeddu cymorth o'r fath. Beirniadwyd y Pwyllgor Addysg yn llym gan rai pobl pan roddwyd y trefniant hwn mewn gweithrediad, ond cydnabu pawb â gronyn o gyfiawnder yn ei ysbryd mai*

*rheol deg ydoedd.*

*Hysbysir yn awr nad yw'r Bwrdd Addysg yn Llundain am ganiatáu'r taliadau hyn ar ôl diwedd Awst.*

*Tybed a fydd Pwyllgor Addysg Arfon yn ddigon gwrol i wynebu'r broblem hon â'r dyngarwch sy'n nodweddiadol o'r Pwyllgor hwn ers blynyddoedd bellach? Y mae'n bryd i'r awdurdodau cyhoeddus herio'r Llywodraeth ar faterion o'r math hwn, hyd yn oed pan wyddant nad oes obaith iddynt gario'r dydd.*

*Os yw teulu'n dioddef oherwydd cadw plentyn yn yr ysgol am flwyddyn yn rhagor fe ddylai'r wlad ofalu bod y golled hon yn cael ei gwneud i fyny drwy daliadau rhesymol o bwrs y wlad.*

*Bydd Cymru'n gwylio'n ofalus beth fydd agwedd y gwahanol Bwyllgorau Addysg at yr ymgais ddiwethaf hon ar ran y Llywodraeth i osod baich ar yr ysgwyddau gwannaf.*

Dychwelir at bwnc YR IAITH YN YR YSGOL yn ysgrif flaen Y Cymro 16 Mawrth 1940, a'r ysgolion sir, yn bennaf, sy'n dod dan lach y papur y tro hwn; gwelir yn yr ysgrif bod y papur yn dychwelyd at drosiad y cancr yn y byd addysg Cymreig:

*I BOB Cymro meddylgar heddiw y mae problemau dirifedi wedi codi er pan dorrodd y rhyfel allan. Ac y maent yn cynyddu'n frawychus.*

*Ac wrth fwrw golwg dros newyddion y chwe mis diwethaf fe gawn mai ymdrechion i gadw diwylliant a bywyd Cymru'n fyw a aeth â'r lle blaenaf yn gyson.*

*Bu'n frwydr i gadw'r Eisteddfod, bu codi Pwyllgor i Ddiogelu'r Diwylliant, bu trafodaeth ar effeithiau'r llochesiaid. Yna daeth yr ergydion trymion i ddiwylliant Cymreig y Gogledd - y llechi. Yn awr clywir am y cynllun i feddiannu ffermydd yn y canolbarth. Ac nid yw Cymru eto wedi gollwng Cadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd dros gof.*

*Derbyniodd yr iaith gnoc arall ddiwedd yr wythnos pan benderfynodd Pwyllgor Addysg Caerdydd beidio â dewis olynydd i'r diweddar Mr. Huw J. Huws fel Arolygydd Dysgu Cymraeg, ond yn hytrach benodi Arolygydd Cynorthwyol i'r Ysgolion, gyda chymhwyster arbennig mewn Cymraeg. Ni olyga hyn anwybyddu'r Gymraeg, ond golyga na roddir yr un sylw â chynt i'r iaith.*

*Colled fach? Hwyrach; ond y mae llawer o golledion bach yn mynd yn golled fawr. Ac y mae'r iaith Gymraeg yn cael llawer o fân golledion yn yr ysgolion heddiw.*

*Y mae'r ysgolion sir yn fwy o berygl i'r iaith na'r llochesiaid, medd gŵr amlwg wrth bwyllgor y dydd o'r blaen. Fe dâl i Gymru ddal y frawddeg mewn cof.*

*Mae mwy o ramant, efallai, mewn codi croesgad yn erbyn y dieithriaid "estron", ac ymddangosasant yn afiechyd peryclach, ar yr wyneb, na'r cancr sydd o'n mewn yn bwyta i'n hymysgaroedd heb inni sylweddoli hynny.*

*Y mae mwy o ganolbwyntio yng Nghymru heddiw ar gadw Saesneg o gyrraedd y plant nag ar roddi Cymraeg yn eu cyrraedd.*

*Gofynnwch gwestiwn syml i chwi eich hun, - sef, pa gyfleusterau a roddir yn yr ysgolion i'ch plant ymgydnabddu â'u hiaith, a'u diwylliant eu hunain?*

*Y plant hyn a fydd dynion a merched yfory, ac ar eu hysgwyddau hwy y disgyn y cyfrifoldeb o gadw'r iaith yn fyw. A yw'r ysgolion - ac yn enwedig yr ysgolion sir - yn eu haddasu i ddwyn y cyfrifoldeb yma?*

*Mewn llythyr a ymddengys yn y 'Wrexham Leader' yr wythnos hon dywed*

*yr Henadur William Aston, sy'n aelod o Bwyllgor Addysg Dinbych:*
*'Dylai fod yn amlwg i bawb y darllena ac y meddylia'r plentyn Cymreig mewn Saesneg, a rhaid iddo ddod o dan ddylanwad diwylliant Seisnig.'*
*Ai dyna dy freuddwyd dros ddyfodol dy blant, Gymru?*

Yn Y Cymro 31 Mai 1941 gwelir y papur yn mynegi pryder bod bechgyn a merched ieuainc yn gadael yr ysgol yn rhy gynnar; er eu bod ar eu hennill ariannol yn y tymor byr wrth gyflawni swyddi cyflogau uchel yng nghyfnod y rhyfel, wedi hynny byddent nid yn unig yn ôl yn ddi-waith ond hefyd yn y cyfamser wedi colli'r cyfle, pe baent wedi aros yn yr ysgol, o dderbyn addysg gyflawnach, addysg a fyddai'n rhoi llawer mwy o ragolygon gyrfa barhaol iddynt:

GADAEL YSGOL AM WAITH

*YNG nghyfarfod cyflwyno gwobrau yn ysgol Ramadeg y Bala y dydd o'r blaen, cwynai'r prifathro, Mr. B. Maelor Jones, ac fe welsom bod prifathro ysgol arall, sef Mr. D. G. Reynolds, ysgol sir Ffestiniog, hefyd yn cwyno, fod plant yn gadael yr ysgol sir yn rhy gynnar. Yr oeddynt yn cael eu temtio, a'r rhieni hefyd, wrth gwrs, i gymryd unrhyw waith y caent gyfle arno oherwydd bod cyflogau da yn cael eu talu am waith felly. Naturiol yw hyn oherwydd yr awydd am wneud arian da ond yn rhy fynych anghofir mai dros gyfnod y rhyfel y byddai gwaith felly, ac wedi y deuai'r rhyfel i ben byddai'r bechgyn a'r genethod hyn ar y clwt heb waith ac heb gymryd y fantais na'r cyfle yn llawn i'w cymhwyso'u hunain i waith mwy sefydlog nag a gaent yn awr. Yr oedd hyn yn gam â'r ieuenctid ac y mae'n naturiol hefyd i'w awdurdodau addysg fod yn ddrwgdybus o'r lles honedig o gymryd swyddi am gyflogau da mewn amser neilltuol fel yr un presennol. Nid mewn amser o argyfwng fel hyn yn unig y gwneir y gŵyn. Gwedd arall ar y cwestiwn hwn yw bod mwy o alw am arbenigwyr yn awr nag a fu ac onid erys plentyn yn ddigon hir yn yr ysgol i'w gymhwyso'n llawn ar gyfer y dyfodol fe'i caiff ei hun mewn safle digon anhyfryd.*

Dengys ysgrif flaen rhifyn 25 Gorffennaf 1941 Y Cymro hurtni sefyllfa lle nad oedd Adran Gymraeg y Bwrdd Addysg wedi ei lleoli yng Nghymru, ond ni cheir ergyd yr ysgrif hyd nes y gair olaf un:

Y BWRDD ADDYSG A CHYMRU

*BU cynhadledd bwysig rhwng Llywydd y Bwrdd Addysg a Chyfrinfa Pwyllgorau Addysg Cymru a sir Fynwy rhyw wythnos yn ôl. Yn naturiol fe gymerwyd y cyfle gan gynrychiolwyr Cymru i ofyn am dynhau'r ddolen gydiol rhwng Adran Gymraeg y Bwrdd â Chymru ei hunan a chael swyddfa yng Nghymru.*
*Hyd y gellir casglu oddi wrth yr hyn a ddywedodd Syr William*

*Jenkins, A.S. Aberafan, a chadeirydd pwyllgor addysg sir Forgannwg, ar ôl y gynhadledd, fe ymddengys bod Mr. H. Ramsbotham, Llywydd y Bwrdd y pryd hwnnw, mewn cydymdeimlad llawn â'r syniad. Fe wnaeth yn hollol glir y byddai Syr Wynn Wheldon yn barod i ddod i Gymru o brif swyddfa'r Bwrdd sydd yn awr yn Bournemouth, unrhyw amser, i ymgynghori ag unrhyw awdurdod addysg pan fo angen hynny; ymhellach, bydd y Llywydd ei hunan yn rhydd i ddod yma pan wêl ef wir alw am hynny.*

*Yn wir, fe ddeallir mai prinder aelodau o'r staff yw'r unig rwystr ar hyn o bryd i gael swyddfa i'r Adran Gymraeg yng Nghymru, sef yng Nghaerdydd.*

*Y mae Syr William Jenkins yn ŵr hirben iawn, a'r cwestiwn yn awr yw, tybed a fydd hyn i gyd yn arwain, fel yr awgrymai ef wrth roi'r wybodaeth hon i'r wasg, i osod swyddfa sefydlog Adran Gymraeg y Bwrdd Addysg yng Nghymru wedi i'r rhyfel ddod i ben.*

*Y mae'n debyg mai dyma'r datganiad mwyaf pendant eto i'r cyfeiriad hwn a wnaed gan unrhyw ŵr o awdurdod yn y Llywodraeth.*

*Credwn ein bod yn adnabod Ysgrifennydd yr Adran Gymraeg yn ddigon da i allu dweud y bydd ef yn sicr o wneuthur ei orau i ddwyn hyn oddi amgylch. Pan ddelo'r adeg iddo ef wneud datganiad sicr a phendant ar y mater bydd Cymru'n disgwyl yn eiddgar am y wybodaeth honno, a diau na siomir hi gan Ysgrifennydd ei hadran ei hun yn - Bournemouth.*

Erbyn rhifyn 14 Mawrth 1942 o'r Cymro, a therfyn y Rhyfel yn cychwyn ymddangos ymhell ar y gorwel, sonnid dro ar ôl tro am bwnc ad-drefnu Cymru wedi'r Rhyfel, gan gynnwys ad-drefnu'r gyfundrefn addysg. CARREG FILLTIR YM MYD ADDYSG oedd teitl ysgrif flaen yr wythnos, a cheid canmoliaeth unwaith eto i Bwyllgor Addysg Arfon:

*DYLID llongyfarch pwyllgor addysg Arfon am neilltuo ohono ddiwrnod arbennig ar wahân i'r materion amgylchiadol arferol, megis penodiadau ac adeiladau, ac felly yn y blaen, i drafod materion o bolisi addysg y dyfodol.*

*Ystyriai amryw o'r aelodau y cyfarfod hwn fel carreg filltir bwysig yn hanes addysg yng Nghymru.*

*Ail-etholwyd yr Henadur William George yn gadeirydd am yr wythfed tro ar hugain, yr hyn a roes gyfle iddo fwrw trem yn ôl ar lafur ei flaenoriaid yn y swydd, ac ar y gwaith a wnaed gan y pwyllgor addysg ynghwrs y deng mlynedd ar hugain diwethaf, a rhoed cyfle i'r Cyfarwyddwr Addysg gyflwyno adroddiad diddorol ar y safle yn y sir.*

*Peth arbennig arall yn y cyfarfod oedd anerchiad pwysfawr o eiddo Dr. Richard Thomas, prifathro y Coleg Normal, ar "Broblemau Addysgol y Dyfodol Agos".*

*Cyhoeddwn adroddiad ein gohebydd arbennig o'r anerchiad hwn ar dudalen 1. Teifl sylwadau Dr. Thomas olau clir ar ragolygon addysg yng Nghymru a'r pwyslais ar y dyfodol agos. Sonnir llawer ar hyn o bryd am yr atrefnu pan ddaw'r rhyfel i ben; eithr dengys Dr. Thomas mai yn y dyfodol agos y mae'n rhaid wynebu'r problemau hyn.*

*Cyfeiriodd at y "drefn newydd" y bwriada Hitler ei gwthio ar Ewrob. "Gŵyr Hitler", medd Dr. Thomas, "y dinistria ei drefn newydd ef ein 'hen drefn' ni. Ond ni ddinistria'r 'drefn newydd' y mae'n rhaid i ninnau ei chreu ar linellau democrataidd os ydym i fyw."*

*Wrth sôn am amgylchiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd oddi amgylch y plentyn a'r unigolyn, dywedodd mai "Dibwrpas bellach yw*

*cynnig dysgu Cristnogaeth os aros yn brotest ddistaw yn erbyn ein holl siarad Cristnogol a wna'r amgylchiadau hynny. I ragrith a chwerwedd anghrediniaeth yr arwain hyn. Rhaid paratoi'r ffordd mewn Cristnogaeth ymarferol yn gyntaf."*

*Datganodd Dr. Thomas hefyd ei olygiadau pendant am y Mudiad Ieuenctid a diau y darllenir yr hyn a ddywedodd gydag ystyriaeth ddwys.*

*Yn bendifaddau drwy'r cyfarfod arbennig hwn a'i gyfleusterau i ystyried pethau o bwys eithriadol i ddyfodol addysg yng Nghymru fe ddengys Pwyllgor Addysg Arfon ei hawl i'r parch a goleddir tuag ato ar hyd y blynyddoedd gan garedigion addysg drwy Gymru benbaladr.*

Flwyddyn yn ddiweddarach hawliai'r Mesur Addysg newydd arfaethedig lawer o sylw Y Cymro a chafwyd ysgrifau blaen yn y papur yn mynegi pwysigrwydd rhoi sylw penodol i faterion Cymreig yn y Mesur. Yn rhifyn 5 Mehefin 1943, a'r Henadur William George newydd ddweud wythnos ynghynt bod hunan-lywodraeth ym myd addysg y 'cwestiwn pwysicaf i'r genedl yn awr', gwelir Y Cymro yn pryderu nad oedd darpariadau penodol i Gymru yn y Mesur a dywed bod yn rhaid gweithredu ar unwaith ynglŷn â'r mater gan ei bod hi bellach yn unfed awr ar ddeg ar Gymru ac mai dim ond "CIL Y DRWS" yn unig a oedd yn awr yn agored iddi i wneud rhywbeth dylanwadol ynghylch y Mesur:

*Y MAE'N dod yn eglurach wythnos ar ôl wythnos fod un o'r Mesurau Addysg pwysicaf a welodd y wlad hon ar y ffordd, ac na bydd unrhyw ddarpariadau arbennig ar gyfer Cymru yn y Mesur hwnnw.*

*Gwerthfawrogwn yr arweiniad cryf a'r mynegiant pwyllog o deimlad y wlad tuag at ddyfodol Addysg yng Nghymru a roddodd yr Henadur William George dydd Sadwrn. Y mae'r Henadur yn gadeirydd un o Bwyllgorau Addysg mwyaf cynyddol Prydain ers 28 mlynedd ac yn un o brif bwyllgorwyr y Bwrdd Canol. Iechyd hefyd yw clywed aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cymru, ac un o addysgwyr mwyaf athrylithgar y wlad - yr Athro Moses Williams, Bangor - yn dweud yn gyhoeddus fod Cymru'n "aeddfed" i dderbyn cyfrifoldeb ei chyfundrefn Addysg ei hun, yn ei farn bersonol ef.*

*Dibynna dyfodol ein plant - golud y genedl - arnom ni. Ac y mae'n rhaid i ni weithredu ar unwaith: "Cil y drws" yn unig sydd yn agored o hyd.*

*Lleisiwyd yma ac acw - do. Ond ni roddwyd y cyfle i'r wlad fynegi ei barn yn y fath fodd fel na all y Llywodraeth ei gwrthod. Rhaid galw heddiw - neu fod yn ddistaw byth. Canys nid yw cruglwyth o brotestiadau a anfonir i Lundain wedi colli'r frwydr yn mynd i achub Cymru. Rhaid ennill y frwydr.*

*Eisoes cydnabu Awdurdodau Addysg Cymru fod hawl i hunanlywodraeth mewn addysg gan y genedl. Gall pob dyn rhesymol yng Nghymru, o bob plaid a phob sect, gytuno â hwy yn hyn o beth. Y mae hyd yn oed Saeson sydd yng Nghymru yn weddol gytûn ar hyn.*

*Efallai na wnaeth yr Awdurdodau Addysg Cymreig i gyd eu gorau dros yr iaith yn y gorffennol - ac y mae llawer o wir yng nghyhuddiadau diweddar yr Athro Gruffydd - a diau y bydd trefniadau addysgol cyffredinol ardderchog yn y Mesur Addysg newydd. Ond a fydd Cymru ynddo?*

*Mentrwn ddweud y cymer lai o amser i argyhoeddi'n Hawdurdodau Addysg ein hunain o bwysigrwydd traddodiadau ein gwlad nag a gymer argyhoeddi'r Senedd yn Llundain, os collwn y cyfle hwn.*

*Y mae'r amgylchiadau'n sialens i Gymry. Oni ymatebwn yn deilwng yn awr, ofer a fydd galw am ddim o bwys i Gymru, a gwag a fydd ymffrost ein hwyrion yn eu traddodiadau. Byddwn wedi methu â sicrhau un o'r amddiffynfeydd cadarnaf i ddull cenedl o fyw - ei chyfundrefn addysg ei hun.*

*Fe dderfydd y rhyfel ac fe newidia problemau'r funud. Fe erys y Mesur Addysg newydd yn ddeddf a lunia hynt pob plentyn yn y Dywysogaeth yn ei oed meddalaf.*

Yn ysgrif flaen rhifyn 24 Gorffennaf 1943 o'r Cymro ymetyb y papur yn hynod o siomedig i'r newydd nad oedd Cymru am gael ei chyfundrefn addysg ei hunan ac yn hytrach nad oedd am gael dim mwy na Phwyllgor Ymgynghorol i'r Bwrdd Addysg a oedd yn wan iawn o ran unrhyw rym a dylanwad. Mae'r Cymro yn amlwg yn gweld hyn yn sen ar Gymru a'i phobl ac meddai, 'Nid am hyn y galwodd Cymru, ac ni roddwyd unrhyw reswm dros wrthod ei chais na'i ddyfrio.' Geilw ar i'r genedl sefyll gyda'i gilydd i hawlio iddi ei hunan yr hyn oedd yn gyfiawn ac mae'n llym iawn ei feirniadaeth o 'agwedd ymarhous y Llywodraeth' ac hefyd o benaethiaid Prifysgol Cymru:

Y PAPUR GWYN AR ADDYSG A CHYMRU

*Y MATER o fawr bwys i Gymru ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth ar Addysg yw - a dderbynia'r Pwyllgor Ymgynghorol a awgrymir ai peidio.*

*Y mae agwedd ymarhous y Llywodraeth at Gynllun Beveridge, ei gwrthodiad o Ysgrifennydd i Gymru a'r pitw a awgryma'r Bwrdd Addysg er ei lles, wedi crynhoi teimladau sy'n chwerwi yng Nghymru, ac oni ofelir bod Cymru'n cael ei boddhau ar y Mesur Addysg sydd gerllaw, fe ddwysheir y teimladau hyn yn ddifrifol, a hynny ar ddyddiau sydd, ynddynt eu hunain, yn gelyd.*

*Heddiw yw'r dydd i bob awdurdod addysgol yng Nghymru ddangos eu bod o ddifrif gyda'r penderfyniadau a basiwyd ganddynt yn ystod y misoedd diwethaf. Fe alwodd cyrff mwyaf sylweddol ein gwlad am hunan-lywodraeth mewn addysg. A ydynt i ymfodloni ar lai yn nydd y prawf?*

*Paham yr oedi a'r mân-gynigion hyn gan y Llywodraeth? Onid yw galw'r bobl am hunan-lywodraeth mewn addysg yn cyfrif dim?*

*Ein dyletswydd ni yw sefyll gyda'n cyd-genedl dros yr hyn a hawlia'r genedl, a hynny'n llawn. Dyletswydd ein hawdurdodau yw dal at eu penderfyniadau pwyllog blaenorol. Dyletswydd ein Haelodau Seneddol yw ymddiosg o'u hofnusrwydd ac ymladd brwydr ar lawr Tŷ'r Cyffredin pan ddaw'r dydd. Bydd digon o gyfle iddynt - y cyfle cyntaf ers talm i siarad mewn dadl dros Gymru, ac fe wylir eu hymarweddiad gyda'r manylder mwyaf yng Nghymru.*

*Cytunwn fod y Pwyllgor Ymgynghorol a awgrymir yn agor cil y drws, ac i raddau yn gydnabyddiaeth o achos arbennig Cymru. Yn wir, mae'n ddichon y gallasai wneud rhyw les pe rhoddid cyfle iddo fod yn effeithiol. Ond fel cyfaddawd arhosol y mae'r peth lleiaf a allai hyd yn oed Whitehall ei ddychmygu. Fel rhywbeth dros dro, ac ar y*

*dealltwriaeth pendant mai cam rhagbaratoawl i hunan-lywodraeth mewn addysg ydyw, buasai'r lleiafswm y gallesid ei ystyried gydag unrhyw radd o fodlonrwydd.*

*Nid am hyn y galwodd Cymru, ac ni roddwyd unrhyw reswm dros wrthod ei chais na'i ddyfrio. Yn awr, dibynna ar Gymru ei hun. Rhaid iddi ddangos ei bod o ddifrif, ac nad oes ganddi ofn derbyn cyfrifoldeb. Oni chymerir y pwyll mwyaf gyda'r mater hwn, fe gyll y wlad ei ffydd, nid yn unig yn Whitehall, ond yn ei chynrychiolwyr yno, yn ei chynrychiolwyr a'i mudiadau gartref, ac yn ei harweinwyr addysg ei hun.*

*Amod y Pwyllgor Ymgynghorol, hyd yn oed, yw unoliaeth. Ba faint mwy angenrheidiol yw unoliaeth os ydym am sicrhau'n llawn ddymuniad ein pobl?*

*Gofidiwn na ddeffrodd penaethiaid Prifysgol Cymru i'w dyletswyddau yn y mater hwn. Y mae eu hagwedd waradwyddus wedi gwanychu llais y werin a adeiladodd y colegau ddydd a fu. Ond ystyrrir eu hachos hwy ymhellach ymlaen - heddiw, rhaid wrth undeb a gall y Brifysgol yn awr, hyd yn oed, roddi ychydig help llaw.*

*Yn gyffredinol y mae awgrymiadau yn y Papur Gwyn a fuasai o fudd i unrhyw wlad y rhoddid y cyfle iddi eu rhoddi mewn grym yng ngolau ei dealltwriaeth arbennig ei hun o gymdeithas ac o gefndir y bobl.*

*Rhoddir mwy o reolaeth ar ysgolion eglwys a olyga wella'r adeiladau o safon yr athrawon. Ond nid yw'n diddymu'r drefn hon na ellir ei chyfiawnhau ag unrhyw ddadl addysgol. Yng Nghymru, lle mae'r gwrthwynebiad mwyaf i'r gyfundrefn, fe'i parheir gan argymhellion y Bwrdd Addysg, er y diddymid hi gan Gymru ei hun pe cawsai'r cyfle.*

*Pwrpas gwneud cyfnewidiadau addysgol pwysig yw trefnu gwell a thecach cyfleusterau i'r plant, ac ni ddylid colli golwg ar yr egwyddor sylfaenol hon. Yng Nghymru, gyda'i chenedl a'i hiaith a'i thraddodiadau a'i diwylliant ei hun, ni ellir gwneud chwarae teg â'r plant heb roddi'r mesur helaethaf posibl o reolaeth ar ein haddysg yn nwylo Cymru. Am hynny y gofynnwn, ac i'r graddau y caniateir hyn y dibynna dyfodol ein plant a'n cenedl.*

Yn rhifyn 8 Ionawr 1944 o'r Cymro ceir ysgrif flaen yn edrych ychydig yn fwy positif ar y Mesur Addysg newydd ond mae'n parhau o'r farn bod y Cyngor Cynghorol newydd a awgrymwyd i Gymru yn rhy gyfyngedig ei rym ac yn analluog i gyflawni'r hyn y buasai gwir gyfundrefn addysg Gymreig yn ei wneud. Dywed bod 'posibiliadau mawr i Gymru yn y Mesur' ond yn ôl y papur mae'r ffaith nad oes gan Gymru ei Hysgrifennydd ei hunan yn un o'r prif resymau pam na all gyflawni'r posibiliadau hynny:

ADDYSG CYMRU

*Y MAE prysurdeb anarferol yn Swyddfeydd Addysg y wlad y dyddiau hyn. Dyma'r amser i dynnu cynlluniau ac i ofalu y gellir manteisio ar y datblygiadau a amlinellir yn y Mesur Addysg newydd gynted ag sy'n bosibl.*

*Bu sir Gaernarfon yn anffodus. Y mae heb gyfarwyddwr addysg ers tro, er pwysiced yr amser, a bydd yn rhaid iddi aros fis neu ddau eto cyn y gall Mr. D. W. T. Jenkins, a benodwyd wythnos yn ôl, afael yn yr awenau. Ond bydd gweledigaeth glir a chyson y Pwyllgor Addysg hwn yn y*

*gorffennol o fantais fawr i'r sir yn yr anffawd a ddaeth i'w rhan, canys fe fanteisiasant hwy eisoes ar ddewis a ddaw'n ddeddf ym mis Ebrill ac y mae plant y sir wedi hen ymgynefino ag aros yn yr ysgol hyd bymtheg oed, a'r Pwyllgor Addysg wedi hen ymgynefino â threfnu i'w haddysgu hyd yr oed hwnnw. Pa faint mwy, tybed, o awdurdodau addysg Cymru a all ddweud yn Ebrill bod eu trefniadau hwythau'n barod?*

*Ar y cyfan dilynodd y Mesur Addysg yr argymhellion a wnaed yn y Papur Gwyn a gellir dweud yn ddibetrus mai dyma un o'r camau brasaf mewn addysg a gymerwyd yn y wlad hon.*

*Cafodd Cymru ei dogn arbennig ei hun - y ddogn a ragfynegwyd yn y Papur Gwyn. Awgrymir Cyngor Cynghorol Canolog iddi hi, a Chyngor Canolog i Loegr i gynghori'r Gweinidog ar faterion addysgol yn gyffredinol, ac ni chyfyngir eu gweithrediadau i faterion a gyflwynir i'w sylw yn unig. Dan y Ddeddf newydd bydd y Gweinidog Addysg a gynghorant am y tro cyntaf erioed wedi sicrhau awdurdod effeithiol i sicrhau datblygiad polisi addysgol "cenedlaethol" yn hytrach na'i fod, fel y mae'n awr, yn "arolygydd materion sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru a Lloegr."*

*Gyda Chyngor Cynghorol boddhaol a Gweinidog Addysg â'r cydymdeimlad angenrheidiol ganddo gellir agor cyfnod newydd llewyrchus yn hanes addysg genedlaethol Cymru. Ni ellir gwadu nad oes posibiliadau mawr i Gymru yn y Mesur, ond a ellir manteisio'n llawn ar y trefniadau hyn sy'n fater arall.*

*Cyfyngedig yw grym pob Cyngor Cynghorol a thywyll eu gweithrediadau. Buasai'n well gan Gymru gael rhywbeth mwy pendant ac un o'r prif resymau paham mai hanner y dorth a gynigir yn gyson i ni yw absenoldeb Ysgrifennydd i Gymru.*

*Fe roddir i Sgotland ei Mesur Addysg ei hun, fe ddaw i Sgotland ei grant ei hun i'w wario ganddi hi oddi fewn i drefniadau ei Mesur Addysg, ac y mae gan Sgotland ei Hadran Addysg effeithiol ei hun dan ei Hysgrifennydd sy'n gyfystyr bron â Bwrdd Addysg i Sgotland.*

*Mae'r adrannau Cymreig yn rhy wan a digyswllt; nid oes ganddynt bennaeth atebol i'r bobl gyda llais yn y Llywodraeth i siarad drostynt ac i'w cyfuno.*

*O ganlyniad, pan ddaw'r dydd i hawlio y mae Sgotland yn cael tra gwneir y gorau o'r gwaethaf cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn.*

*Ond, dan drefniadau cyffredinol y Mesur y mae gwaith ad-drefnu mawr yn Swyddfeydd yr Awdurdodau Addysg yng Nghymru fel y gellir talu'r sylw manwl digonol i bob adran o'r ffederasiwn fawr a fydd cyfundrefn addysg y dyfodol. Yn y gorffennol, oherwydd eu prysurdeb, tueddodd Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i fanylu ar drefniadau addysg yn yr ysgolion elfennol yn unig. Bellach, bydd yn rhaid talu un sylw i bob teip o ysgol, a bydd yn rhaid i'r Cyfarwyddwyr Addysg wrth eu cynorthwywyr medrus eu hunain i sicrhau hynny. Nid trwy amlhau nifer y clercod yn y Swyddfa y mae wynebu'r dyfodol newydd hwn; rhaid wrth arweinwyr newydd a gweledigaeth newydd.*

*Ni bydd y gwaith yn hawdd; ni ellir dechrau arno'n rhy fuan.*

Ar ddydd Mawrth 14 Mawrth 1944 fe gwblhaodd William George ddeng mlynedd ar hugain fel cadeirydd Pwyllgor Addysg Arfon ac wedi iddo gael ei ethol yn unfrydol yn gadeirydd am flwyddyn arall fe rybuddiodd nad oedd yn dymuno cael ei enwi'n gadeirydd y flwyddyn ganlynol. Yn ysgrif flaen yr wythnos mae'r Cymro'n talu teyrnged hael i waith gwerthfawr **YR HENADUR WILLIAM GEORGE**:

*FE gwblhaodd Mr. William George ddeng mlynedd ar hugain fel cadeirydd Pwyllgor Addysg Arfon ddydd Mawrth, ac wedi iddo gael ei ethol yn unfrydol yn gadeirydd am yr unfed flwyddyn ar ddeg ar hugain, rhoddodd rybudd na ddymunai gael ei enwi'n gadeirydd y Pwyllgor y flwyddyn nesaf.*

*Llongyfarchwn yr Henadur a hyderwn y caiff iechyd a nerth i barhau gyda'r gwaith mawr a wnaeth i'w sir ac i'w wlad am gyfnod mor hir ac mor bwysig.*

*Heddiw mae ar drothwy ei bedwar ugain mlwydd, ac yn eithriad i bob rheol. Yn ifanc ei olwg a'i ysbryd fe lwyddodd i gyd-gerdded â'r amserau. Daliodd ar yr hyderon newydd a fu yng nghalonnau Cymry yn y blynyddoedd diwethaf yma, ac yn hytrach na'u condemnio fel hen ŵr a gollodd ei ffydd a'i weledigaeth, fe'u cymeradwyodd ac fe'u cefnogodd. Pan ddaeth Undeb Cymru Fydd a phan ddaeth y Mesur Addysg newydd yr oedd ar flaen y gad ac o du'r angylion ac yn ei drafodaethau arnynt rhoddodd i Gymru o ffrwyth y profiadau maith a gasglodd yn ei gysylltiad amlwg â'r Bwrdd Canol, â'r Brifysgol, â gweinyddu addysg yng Nghymru ac â llywodraeth leol.*

*Fel ei frawd enwocach bu'n ddigon cadarn ac annibynnol i greu gelynion yn ogystal â chyfeillion.*

*Pan gyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Addysg galwodd am hunanlywodraeth mewn addysg i Gymru. Pan ddaeth y Mesur Addysg ei hun heb ddim ond cynnig Pwyllgor Ymgynghorol i Gymru ynddo bu'n ddigon doeth a gonest i beidio â chondemnio'r ychydig am na chaed y cwbl....*

Yn Y Cymro 4 Awst 1944 cafwyd ysgrif flaen dan y pennawd cyfarwydd YR IAITH YN YR YSGOL ond annifyr i unrhyw Gymro fuasai darllen yr ysgrif hon gan ei bod yn dangos mor anobeithiol ydym fel cenedl i edrych ar ôl ac i warchod ein buddiannau ein hunain. Tra'n canmol arolwg manwl a thrylwyr Miss Jennie Thomas ar yr iaith Gymraeg yn ysgolion sir Gaernarfon, a fyddai'n cynorthwyo'r awdurdod addysg i lunio polisi iaith cadarnhaol i'r sir, mae'r Cymro yn nodi â thristwch mai Whitehall, ac nid y Cymry eu hunain, a ofynnodd am yr arolwg hwn. Yn ôl y papur nid yw'n deg bellach i ni fel Cymry feio'r Bwrdd Addysg yn Llundain am ddiffygion y gyfundrefn addysg yng ngyd-destun yr iaith; dywed yn gwbl blaen mai 'arnom ni mae'r bai' ac mae'n gorfod cydnabod yn boenus bod 'Saeson pur' yn gwneud mwy na ni ein hunain i ofalu am ein hetifeddiaeth:

*"Y MAE gallu'r unigolyn i gyfrannu yng ngweithgarwch cymdeithasau ehangach, heb golli ei arbenigrwydd diwylliannol ei hun, yn dibynnu ar ei drylwyrdeb wrth ymyfed o'i ddiwylliant ei hun yn ei ieuenctid", meddai Adroddiad Fleming ar yr Ysgolion Preswyl yn yr adran sy'n delio â Chymru.*

*Unwaith eto y mae'r Bwrdd Addysg, yn yr adroddiad hwn, wedi dangos cydymdeimlad a dealltwriaeth eang dros ben o fywyd Cymru, ac ni allem ni ddymuno mwy na gweld yr un cydymdeimlad a'r un ddealltwrieth ymarferol ymysg ein harweinwyr addysg ni ein hunain adref ac ymysg y cyrff sy'n haeru arwain Cymru tua'r goleuni.*

*Yn ystod y dyddiau y paratowyd Adroddiad Fleming yr oedd sir Gaernarfon, ymysg rhai eraill, yn brysur fwrw trem ar gyflwr yr iaith Gymraeg yn yr ysgolion sydd dan ei hawdurdod, a chyhoeddwn heddiw grynodeb o'r ffeithiau a'r argymelliadau o Arfon.*

*Y mae Miss Jennie Thomas yn haeddu canmoliaeth uchel iawn am drylwyrdeb a chlirdeb yr adroddiad hwnnw, a phwyswn ar i bob Cymro - rhieni, athrawon a chynghorwyr yn arbennig - astudio'r crynodeb o'r adroddiad hwn pan gyhoeddir ef gan y Pwyllgor Addysg cyn bo hir.*

*Nid o Gaernarfon ond o Whitehall y daeth yr anogaeth i lunio'r holeb yna, a chyfeiriwyd yr anogaeth at bob awdurdod addysg yng Nghymru yn 1942. Hyderwn fod pob awdurdod addysg yng Nghymru yn osgoi cywilydd drwy ymateb i'r anogaeth yma.*

*Nid yw safle'r Gymraeg yn sir Gaernarfon yn codi digalondid, ond cydnabyddir bod lle i wella, a gwneir argymelliadau ar gyfer hyn. Da o beth yw hynny, canys y mae yna rhyw duedd yng Nghymru i fynd ar ôl ystadegau er mwyn ystadegau, ac wedi eu cael, eu defnyddio i'w troi'n ergydion mewn protestiadau dall yn hytrach na'u cymryd yn sylfaen i adeiladu rhywbeth ymarferol a gwell arnynt.*

*Mae'n sicr ddigon y gall cyfundrefn addysg estronol ddifa iaith gwlad fechan, ac er na ellir disgwyl i'r ysgol ynddi ei hun gadw iaith yn fyw, gall o leiaf helpu i'n gwared ni rhag drwg, ac os yw'n bywyd cenedlaethol yn ogystal â'n cyfundrefn addysg yn iach, yna gall Cymru gadw coron ei chenedlaetholdeb - ei hiaith.*

*Bu'n gyfleus bwrw'r bai ar y Bwrdd Addysg yn Llundain yn y gorffennol. Ni thâl hynny mwyach; arnom ni mae'r bai, a waeth wynebu hynny'n fuan nag yn hwyr.*

*Gyda'i heangfrydedd a'i haberth mynnodd gwerin Cymru yn y gorffennol addysg i'w phlant. Heddiw rhaid iddi fynnu cadw'r etifeddiaeth hon yn un Gymreig, canys garw o beth yw gorfod cydnabod bod Saeson pur yn gorfod ein hannog ni i ofalu am ein plant ein hunain.*

Ym mis Ebrill 1945 byddai'r Ddeddf Addysg newydd yn dod i rym ond yn annatod byddai costau sylweddol ynghlwm â hi. Yn ysgrif flaen Y Cymro 23 Chwefror 1945 trafodir COSTIAU ADDYSG a phrydera'r papur na fedrai'r awdurdodau addysg Cymreig eu fforddio; yr eironi, a'r tristwch, fel y dywedir isod, yw y buasai'r swm a werid ar y rhyfel bob dydd yn ddigon i gynnal y costau hyn am flwyddyn:

*Y MAE'R Ddeddf Addysg y bu cymaint o alw amdani yn dod yn ffaith, ac os bu rhai anghysonderau ynglŷn â hi nid oes neb a all wadu nad yw'n gam eithriadol o fawr ymlaen, - yn bennaf efallai, am y bwriedir ei rhoi mewn grym yn hytrach na'i gadael yn llythyren farw.*

*Golyga rhoi cyfle i ddatblygiad fel hwn gostau. Ni allasai fod fel arall, ac y mae'n ffaith elfennol nad yw pawb yn barod i'w wynebu bod y "byd newydd", fel y gelwir ef, yn mynd i gostio ac i gostio yn ddrud a'i bod yn rhaid i ninnau fod yn barod i wynebu'r costau yna.*

*A allwn ni fforddio'r Ddeddf Addysg newydd? Gallwn. Heddiw yr ydym yn medru fforddio i wario ar un diwrnod o ryfel yr hyn a fuasai'n ddigon i gynnal y trefniadau addysg newydd am flwyddyn.*

*Fe all y wlad ei fforddio - ond a all yr unedau addysg lleiaf ei fforddio dan yr amodau presennol? O Gymru rhaid ateb - na allant. Y mae'n amheus a all mwy na rhyw ddau awdurdod Cymreig ysgwyddo'r gost*

*fel y gosodir y gost yn awr....*

Fis yn ddiweddarach, ar 23 Mawrth 1945, ymddangosodd ysgrif flaen yn Y Cymro yn condemnio'n hallt hunanoldeb llwyr rhai o Awdurdodau Addysg Lleol mwyaf a chyfoethocaf Cymru a wrthodai gynorthwyo'u cymrodyr llai, tlotach, i wynebu gofynion ariannol cynyddol y byd addysg. Mae'r ysgrif ei hunan yn siarad geiriau synhwyrol o degwch a chyfiawnder ond credaf fod ei phennawd, **TRYCHINEB**, yn wyneb trychinebau go iawn megis tanchwa Gresford, yn enghraifft brin o'r Cymro yn defnyddio gormodiaith diangen, y math o ormodiaith yr ydym wedi gorfod hen gynefino ag ef yn y wasg boblogaidd Saesneg bellach:

*OS unwyd ar rywbeth yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, unwyd i alw am "undeb"; ac ofer a fu'r galw.*

*Y mae'n amhosibl cael undeb ar bob peth mewn unrhyw wlad na chymdeithas, a gwaith anodd dros ben yw cael undeb rhwng pobl a mudiadau sydd, ar y wyneb, yn gweithio yn yr un winllan. Yn wir, rhwng pobl o gyffelyb fryd y ceir yr ysgarmesoedd chwerwaf yn rhy aml.*

*Ond y mae rhai cylchoedd lle mae undeb yn hanfodol a lle mae uno'n ddyletswydd, ac un o'r cylchoedd hynny yw cylch addysg. Nid bod yn ddogmatig nac yn sarhaus yw dweud ei bod yn ddyletswydd cenedlaethol ar Awdurdodau Addysg Lleol Cymru i uno mewn protest os gwelir bod un ohonynt - boed leiaf, boed fwyaf, yn cael cysgod camwri.*

*Ac o bob peth digalon a ddigwyddodd yng Nghymru yn ddiweddar un o'r pethau mwyaf torcalonnus fu gweld Awdurdodau Addysg cyfoethog Cymru yn y dyddiau diwethaf yn troi eu cefn ar eu cymrodyr tlotaf a'u gadael i ymladd brwydr anobeithiol am ystyriaeth well i gyfarfod â gofynion ariannol cynyddol y Weinyddiaeth Addysg.*

*Y mae'n bryd atgoffa ambell Awdurdod Addysg Lleol mai i hyrwyddo addysg y sefydlwyd ef, a bod yr addysg yma yn beth anhraethol fwy na'r Awdurdod Addysg ac yn anhraethol ehangach na therfynau unrhyw Awdurdod Addysg Lleol.*

*Y mae'r Ddeddf Addysg newydd ar gyfer pob plentyn Cymreig ac y mae i roi cyfleusterau cyfartal i bob un ohonynt ond nid yr un yw adnoddau pob Awdurdod Addysg, ac os yw adnoddau dim ond un ohonynt yn annigonol fe â'r delfryd o gyfleusterau cyfartal gyda'r gwynt.*

*Dyletswydd yr awdurdodau mawr yw helpu'r awdurdodau llai i helpu eu hunain, ac nid troi a dweud: yr ydym ni'n iawn; gallwn ni gyfarfod â'r gofynion a gwnewch chwithau eich potes.*

# *Yr Eisteddfod Genedlaethol*

Adlewyrchai tudalennau blaen Y Cymro bwysigrwydd arbennig yr Eisteddfod Genedlaethol i'r Cymry Cymraeg a cheir sawl prif adroddiad ar flaen y papur yn dangos fel yr oedd yr Eisteddfod yn gallu achosi mwy o gecru a dadlau na bron unrhyw beth arall yng Nghymru, fel y mae'n parhau i wneud hynny hyd heddiw. Un o'r pynciau llosg mwyaf ynglŷn â'r Eisteddfod Genedlaethol oedd ei Chymreictod: gwelir bod Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1938, er enghraifft, wedi cynhyrfu llawer o Gymry a deimlai ei bod yn rhy Seisnigaidd.

Yr oedd Y Cymro yn gryf o'r farn y dylai'r Eisteddfod Genedlaethol fod yn sefydliad hollol Gymraeg a Chymreig, ac yn ysgrif flaen y papur 5 Awst 1933, ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, dywed y papur mai'r Eisteddfod 'ydyw'r unig sefydliad Cymreig sy gennym', a'i bod, er nad yn berffaith o bell ffordd, yn eithriadol o bwysig i'r Cymry gan ei bod yn uno'r genedl ac yn gwneud iddi ganolbwyntio ar ei Chymreictod:

EIN TYNNU YNGHYD

*NID oes dim yn tynnu holl lwythau'r Cymry ynghyd fel y gwna'r Eisteddfod Genedlaethol. Ni bydd neb yr wythnos nesaf yn meddwl am ei blaid na'i sir, na'i sect. Fe fyddwn yn un genedl, a'r ymdeimlad ein bod yn Gymry fydd yr uchaf peth yn y byd.*

*Gwych fydd gweled Cymry o bob parth yn cyd-grynhoi ar faes yr Eisteddfod, yn uno yn yr un mwyniannau, yn cwrddyd hen gyfeillion, ac yn adnewyddu eu hysbryd wrth lygad ffynnon eu Cymreictod.*

*Er ei holl ddiffygion fel y mae heddiw, yr Eisteddfod ydyw'r unig sefydliad Cymreig sy gennym. Y mae ei gwreiddiau yn y tir, a gofal pob Cymro gwir fydd ei chadw yn bur rhag pob mefl estron, a pheri ei blodeuo fel y lawryf gwyrdd.*

*Y mae llawer ffordd o berffeithio'r pren heb frysio i hacio'i ganghennau na'i gyff. Gwrtaith a gofal garddwr yw ei angen, a chael ymwared â'r gwyfyn sydd yn bwyta'i risgl a'r eiddew sydd yn sugno'i nerth.*

*Y mae'r diwygwyr yn aml, ond drwg y rhan fwyaf yw nad ydynt yn gweled ond un ochr yn unig i'r adeilad. Pe caent hwy oll eu ffordd - a da yw eu holl awgrymiadau - fe dyfai'n dŷ pur anghryno ac anghartrefol.*

*Y peth anhepgor ydyw adnabod gyda chalon bur ysbryd y Cymry, yn wreng a bonedd, a'r dyhead crwn a deimlir yn ein Prifwyl er ei hamherffeithrwydd. Yna, pan droer i adeiladu, fe dyf ein heisteddfod yn deml gain a glanwaith hyd i'w phinacl.*

Fel y terfynai Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus arall yn nhref Caernarfon ym 1935, lle yr oedd 'y Brifwyl yn ei chynefin' yn ôl adroddiad blaen Y Cymro, apeliodd y papur ar i'r Eisteddfod

ar bob cyfrif gadw'i Chymreictod:

<u>DIWYLLIANT CYMRU</u> (10 Awst 1935)

> *GŴYL arbennig cenedl sydd ganddi ei hiaith a'i diwylliant ei hun yw'r Eisteddfod Genedlaethol, a phe collai yr ŵyl hon ei nodweddion Cymreig fe gollai ei hystyr nid yn unig i'r genedl a'i creodd ac a'i meithrinodd, ond fe gollai ei hystyr a'i diddordeb i'r byd sy'n ehangach na Chymru.*
>
> *Y mae'n rhyfedd, felly, fod neb, ac yn arbennig fod Cymro, wedi dewis un o gyfarfodydd Wythnos yr Eisteddfod nid yn unig i gondemnio cenedlaetholdeb Cymreig, ond i'n hannog i fod yn fwy ymerodrol ein hagwedd, gan awgrymu mai Saesneg yn y dyfodol a fydd cyfrwng "llais Cymru."*
>
> *Y mae'n ymddangos yr hoffai Mr. Hughes Jones, sydd newydd ei benodi i ofalu am raglenni'r B.B.C. yng Nghaerdydd, i'r Maen Llog gael ei droi yn llwyfan i'r rheitheg ymerodrol. Os mai dyna yw ei ddelfryd ef, gallwn synio beth a olygai'r cyfnewidiadau a wnaed gan y Gorfforaeth Ddarlledu i ddarparu'n well ar gyfair Cymru.*
>
> *Fe gytunwn ag ef mai fel Cymro y mae siarad Cymraeg ac mai fel Sais y mae siarad Saesneg - ond nid fel unrhyw Sais chwaith, canys fe wyddom fod agendor mawr rhwng iaith y diwylliedig a'r anniwylliedig ymysg y Saeson.*
>
> *Diamau ei bod yn wir fod yna Gymry heddiw sy'n cyfrannu i lenyddiaeth Saesneg, ond a oes a haera mai "lles Cymru" sydd yn eu cynhyrchion?*
>
> *Nid i gynhyrchion y rhai sy'n dewis mynegi eu hunain mewn iaith arall y trown i wrando "llais Cymru", ac er pob dylanwad estron a'r swyn sydd erioed i rai mewn duwiau dieithr, fe hyderwn y pery'r Eisteddfod yn hir eto i feithrin y lleisiau sy'n siarad iaith ein diwylliant arbennig fel cenedl.*
>
> *Y mae cryn sôn am ddiwygio'r Eisteddfod, ond y mae'n rhaid i bob newid a wneir ofalu bod ei seiliau yn gadarn, a'i chadernid mwyaf fydd ei Chymreictod.*
>
> *Gwir bod yr Orsedd, fel y mae, yn llawn gwendidau a diffygion, canys fe agorwyd y drws iddi yn llawer rhy lydan, ond fe allai'r sefydliad hwn fod yn un a gynrychiolai'r diwylliant Cymreig, diwylliant sy'n hŷn ac yn ddyfnach o lawer na dim a gyfyngir tu mewn i barwydydd colegau.*

Ategwyd yr un neges wedi Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun ym 1936:

<u>GWERTH YR ŴYL</u>

> *DYMA'R Brifwyl bron drosodd, a'r llwythau'n gwasgaru i'r pedwar cwr am flwyddyn arall. Fe lawenha ei charedigion yn ei llwyddiant rhifyddol ond gwir fesur ei gwerth yw ei gwasanaeth i ddiwylliant Cymru.*
>
> *Cynhelid yr Eisteddfod eleni mewn sir aml ei chestyll, cestyll a godwyd i ddarostwng Cymru a dinistrio ein hannibyniaeth, ond fel y sylwodd cynrychiolydd Seneddol y sir wrth groesawu'r ŵyl, y mae'r cestyll yn dadfeilio a'r iaith yn fyw. Y flwyddyn nesaf bydd yn cyfarfod yn nhref Senedd Glyndŵr, a'r ysbryd a'r delfrydau a bersonolid*

*ynddo ef o hyd yn aros yn y tir. Fe bery'r Eisteddfod yn Ŵyl Genedlaethol tra y bydd y delfrydau hynny ynghlwm wrthi; unwaith y datgysylltir hwy oddi wrthi ni bydd hi ddim amgen nag antur ariannol heb werth nag ystyr i'r genedl.*

*Y mae safon uchel cystadleuthau'r Eisteddfod yn beth i ymfalchïo mwy ynddo na ffigurau maint ei thorfeydd, a bu i aml gystadleuaeth yn Abergwaun beri i'r beirniaid roddi canmoliaeth uchel. Ond yr oedd yna gystadleuthau eraill na ellir bod yn fodlon arnynt. Ataliwyd y gwobrau mewn amryw o gystadleuthau yn adran llên, ac y mae'n amlwg fod cynhyrchion pur sâl eu safon wedi eu hanfon i'r cystadleuthau lle yr oedd y goreuon yn gwbl deilwng.*

*Cwynai un o'r beirniaid am ddiffygion iaith ac orgraff yng nghystadleuaeth y Goron, ac yr oedd Mr. D. T. Davies yn llym iawn ar y rhai a geisiai'r £25 am ddrama. Yr oedd rhai'n cystadlu heb fedru ysgrifennu'n gywir, heb sôn am ddeall dim am ofynion drama.*

*Gyda'r Eisteddfod yn tynnu'r miloedd i'w phebyll bob blwyddyn ni all na ŵyr pobl ieuanc Cymru am ei chystadleuthau. Ond y mae'n eglur nad yw safon yr adrannau llenyddol yn dystiolaeth dda iawn am safon diwylliant Cymru. Y mae gennym ein hysgolion canolradd a'n colegau ers blynyddoedd bellach, a rhesymol fuasai disgwyl i'w heffaith fod yn amlwg yn nifer ac yn ansawdd y cynhyrchion a anfonir i'r Eisteddfod Genedlaethol. Anodd osgoi un o ddau gasgliad, y mae'r Eisteddfod yn methu yn ei hapêl at adran ddiwylliedig y wlad, neu y mae cyflwr y wlad yn nes at fod yn anllythrennog nag yr hoffem gydnabod.*

*Soniodd yr Archdderwydd newydd, y Parch. J. J. Williams, am yr hyn a all yr Orsedd fod i werin Cymru, i feibion a merched y bythynnod nad eiddynt gyfle coleg. Ac yr oedd ei gyffes ffydd, oddi ar y Maen Llog, yn cadarnhau'r agwedd a gymerwyd gan 'Y Cymro' ar bwnc yr Orsedd yr wythnos ddiwethaf.*

*Apeliodd J.J. at aelodau'r Orsedd i wneud eu gorau i hyrwyddo'r diwylliant Cymreig. Oni ddiogelir hwnnw, yna marw a wna'r Eisteddfod fel Gŵyl Genedlaethol. Nid oes i'r Orsedd, na'r Eisteddfod, nag i Brifysgol Cymru ystyr ar wahân i deyrngarwch i Gymru, nac ystyr i Gymru ar wahân i'n hiaith, ein llenyddiaeth a'n traddodiadau.*

Gwelwyd yn y bennod flaenorol fel yr achoswyd anniddigrwydd mawr ymysg y Cymry gan Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1938, a hynny oherwydd y natur Seisnig a berthynai iddi. Yn naturiol, i bapur a gredai mor gryf yng Nghymreictod yr Eisteddfod Genedlaethol, fe anfodlonwyd Y Cymro yn fawr gan Eisteddfod Caerdydd, ac ym mharagraffau agoriadol ysgrif flaen 6 Awst 1938, a ymddangosodd ar ddydd Sadwrn olaf yr Eisteddfod ac a ysgrifennid felly tua'r dydd Iau, yr oedd eisoes yn amlwg nad oedd Y Cymro yn hapus â'r sefyllfa:

O BA YSBRYD?

*PAIR rhai pethau inni ymholi ar ambell funud o ba ysbryd y mae'r Eisteddfod heddiw, o dan y wyneb ac ar wahân i wefr-torf.*

*Y mae, yn ddiamau, weddill sanctaidd a ddaw i'r Eisteddfod yn flynyddol o gariad at lên a chân drwyadl Gymreig.*

*Ond teimla dyn amheuaeth parthed diddordeb llu mawr o'r ymwelwyr blynyddol. Gwelir pabell gymharol wag, onid ar adegau'r goleuadau uchel, ac Ascot Cymru oddi allan. Rhodia oddi amgylch lu o foneddigesau a synia fwy am effeithiau syfrdanol eu gwisgoedd ar gyfeillesau beirniadol a dieithriaid eiddigus, nag am ddylanwad yr ŵyl ar lên a thraddodiad Cymru.*

*Y mae yn yr awyr hefyd ryw ias o ysbryd anghymreig, yr ofna dyn ei fod yn tyfu'n gyflym o flwyddyn i flwyddyn. A chydag ef tyf hefyd ryw ysbryd masnacholi'r Eisteddfod a'i gwneud yn fwy o sioe nag o gymanfa diwylliant cenedl.*

*Onid ar gynnydd y mae'r tueddiadau hyn, neu a ydym ni yn cam-ddarllen yr arwyddion....*

Erbyn yr wythnos ganlynol yr oedd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd wedi darfod, a phobl ledled Cymru wedi cael cyfle i fyfyrio ar wythnos a achosodd boendod mawr i unrhyw un a boenai rywfaint ynghylch tynged yr iaith. Yn ysgrif flaen Y Cymro 13 Awst 1938, dan y pennawd digon anobeithiol **GYMRU - I BLE'R EI DI?**, mae'r papur yn mynegi'i anfodlonrwydd llwyr ynghylch yr hyn a ddigwyddodd yn Eisteddfod Caerdydd ac yn nodi awgrymiadau ymarferol ynghylch yr hyn y dylid ei wneud ar unwaith i adfer sefyllfa sydd ym marn y papur yn wirioneddol argyfyngus. Dywed y papur, 'Ni all neb ein cyhuddo o ddifaterwch ynglŷn â mater yr iaith, o leiaf', gosodiad na ellir ond cytuno ag ef:

*RHOED mynegiant yn y golofn hon yr wythnos diwethaf i'n hofnau mai cam difrifol yn ôl fyddai Eisteddfod Caerdydd, cyn belled ag y mae'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig - amcanion blaenaf yr Eisteddfod - yn y cwestiwn. Yn anffodus, profodd ein hofnau yn hollol gywir.*

*Daeth y mudiad i Seisnigeiddio'r Eisteddfod Genedlaethol, a fu'n brasgamu 'mlaen yn ystod y blynyddoedd diwethaf, i'w uchafbwynt gyda haerllugrwydd di-gywilydd yng Nghaerdydd. Clywid Saesneg ar bob llaw, ar y llwyfan ac wrth y drysau; ac yn y cystadleuaethau rhoed cyfartaledd afresymol o uchel o weithiau Seisnig i gorau ac unawdwyr gystadlu arnynt.*

*Nid ydym hyd yn hyn wedi amau o gwbl awydd Saeson yng Nghymru i roi eu gorau i hyrwyddo delfrydau pobl Cymru fel y'u mynegir yn amcanion diwylliadol y wlad. Ond pan ddaw pethau i hyn, treisio'r iaith yn ei chastell ei hun, y mae'n hen bryd i Gymry ym mhob man alw "Dyna hen ddigon! Rhaid rhoi pen ar hyn, neu daw pen ar iaith a thraddodiad y Cymro."*

*Rhaid i Gymry fod yn falch o'u hiaith gyda'r fath falchder disigl fel yr hawliant mai hi yw'r unig iaith sydd i'w siarad a'i chlywed ar lwyfan eu sefydliad mawr cenedlaethol. Os yw'r Gymraeg i'w thrin fel bastard ar goedd gwlad yn yr Eisteddfod, pwy a feia ar ieuenctid Cymru am ymddwyn ati fel bastard yn eu sgwrs Seisnigaidd, ac o'r diwedd ei llindagu a'i bwrw i anghofrwydd llwyr.*

*Galwodd 'Y Cymro' sylw'r wlad droeon yn ddiweddar at amryw ddigwyddiadau tra arwyddocaol. Ni all neb ein cyhuddo o ddifaterwch ynglŷn â mater yr iaith, o leiaf. Ail-adroddwn y cyhuddiadau. Rhaid dweud a dal i ddweud os am sylw'r wlad, a'i deffro i'r treisio*

*digywilydd sydd ar yr iaith ac ar ddyheadau dyfnaf Cymru.*

*Penodwyd Sais rhagorol, na ŵyr air o iaith y plant o dan ei ofal, yn bennaeth addysg sir Gymreig.*

*Ymddiriedodd Cyngor Coleg Dewi Sant, Llanbedr-pont-Steffan, - onid oes blas Cymreig da ar yr enwau? - addysg offeiriaid a gymer yfory ofal cannoedd o eglwysi Cymraeg drwy'r Dywysogaeth i Sais rhagorol. Efe am flynyddoedd i ddod - ac eiddunwn iddo lawer, bid siŵr, - fydd pennaeth un o'r colegau Cymreig hynaf yng Nghymru, gyda thraddodiad Cymreig y mae miloedd yn falch ohono.*

*Y ffars fwyaf mewn bod yw'r anrhydeddau a'r graddau a roddodd Gorsedd y Beirdd a Phrifysgol Cymru i'r bobl hynny na fynnant fod yn "benboethiaid", gwŷr "llwyddiannus yn Lloegr" a gwladgarwyr "hanner-a-hanner".*

*Nid oes ar iaith a diwylliant Cymru ddyled gwerth sôn amdani i'r brodyr "amhenboeth" hyn. Paham, ynte, yr ymgreinio poenus i wŷr masnach sydd wedi "llwyddo" yn Lloegr, eu teidiau, a'u tadau, o bosibl, yn Gymry da, ond na siaradant hwy na darllen gair o Gymraeg o Ionawr i Ragfyr. Paham y parch gwasaidd i dirfeddianwyr a thywysogion masnach, - yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, castell a tharian y traddodiad Cymreig? Darostwng ein balchder yn ein hiaith a wna'r moesymgrymu cyson hwn i dduwiau dieithr; ac unwaith yr edwina balchder yn yr iaith yng nghartrefi Cymru y mae dydd angladd y Gymraeg o fewn golwg.*

*A fwriada'r Eisteddfod ymladd dros falchder y Cymro, neu a gydsynia i edrych yn ddigynnwrf ar drais yr iaith yn ei chaer nesaf i mewn? A yw'r gelyn - y mudiad Seisnigaidd - eisoes oddi mewn i'r gaer? A raid codi breichiau ac ildio'n harfau iddo? Na ato Duw!*

*Pa beth a wnawn? Pa feddyginiaeth sydd?*

*Yn ein dwylo ni ein hunain y mae. Ni sydd i achub y Gymraeg. Nid yw eto'n rhy hwyr, ond nid oes amser i'w golli.*

*Dyma rai o'r pethau a awgryma'r 'Cymro':-*

*1. Rhaid i'r Orsedd lanhau ac urddasoli ei hun. Na dderbynier neb, beth bynnag ei safle neu ei gymwysterau mewn cylchoedd eraill, yn aelod o'r Orsedd oni byddo'n hyddysg yn y Gymraeg.*

*2. Datganed Cyngor yr Eisteddfod na roddir trwydded i unrhyw dref ar ôl Penybont i dderbyn yr Eisteddfod ond ar yr amod y bydd y cystadleuaethau ar y llwyfan (ni ddywedwn ddim am y cyngherddau yn awr) yn Gymraeg, a'r Llywyddion yn Gymry Cymreig, gydag eithriad neu ddau y rhaid i'r Cyngor gymeradwyo eu henwau fel personau o urddas a phwysigrwydd cenedlaethol, nid mân-fawrion lleol.*

*3. Cytuned y beirniaid i weithredu ar yr amod nad oes cystadleuaethau na beirniaid Seisnig i gael lle ar restr yr Eisteddfod o gwbl.*

*Felly y ceir puredigaeth. Rhoddid cyfle i'n hathrylith ni fel cenedl, y Cymry ieuainc gwir wasanaethgar y talodd yr Athro Grufydd deyrnged iddynt, gweithwyr dyfal dros Gymru mewn barddoniaeth, llên a cherdd. Gwneid yr Eisteddfod yn wir darian ac yn wrthrych serch Cymru Gymreig. Tyfai ein balchder yn ein traddodiad hen, traddodiad sydd yn awr dan gwmwl, ond yna a elai rhagddo mewn disgleirdeb "hyd hanner dydd."*

Cafwyd ysgrif flaen rymusach fyth yn <u>Y Cymro</u> bythefnos yn ddiweddarach ac mae'r papur yn hollol ddi-ildio ar y mater:

<u>YR EISTEDDFOD A'R IAITH GYMRAEG</u> (27 Awst 1938)

*CAREM dynnu sylw arbennig ein darllenwyr at lythyr Mr. T. Alun Jones, Caerdydd, a gyhoeddir ar dudalen 5 o'r rhifyn hwn. Geilw sylw'n ddiofn a di-dderbyn-wyneb at y cynnydd aruthrol a wnaeth y mudiad Seisnigaidd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.*

*Gwnaeth 'Y Cymro' eisoes ei ran yn y mater hwn o ddinoethi'r trychineb alaethus yn ein hunig sefydliad mawr cenedlaethol; a gobeithiwn y bydd i Gymry ym mhobman wynebu'r safle o ddifrif. Oni wneir hynny'n ddiymdroi ac yn hollol bendant proffwydwn y bydd y Gymraeg yn fuan iawn yn ail iaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac y try bygwth heddiw yn ddyrnod galed yfory, - dyrnod a dery'r iaith i'r llawr, a'i gwneud yn fud yng nghartrefi ein pobl.*

*Y mae cais 'Y Cymro' yn glir a phendant.*

*Nid oes un gystadleuaeth i'w chaniatáu yn yr Eisteddfod oni byddo yn Gymraeg. Ni fynnwn liniaru dim ar y cais di-ildio yna. Y mae hawlio hyn nid yn unig yn rhesymol, ond hefyd yn gwbl angenrheidiol. Y broblem fawr y rhaid i'r genhedlaeth hon yng Nghymru ei hwynebu yw'r moddion sicraf i gadw'r iaith yn fyw a gloyw yn ein cyfundrefn addysg, yn ein bywyd crefyddol, ac yng nghartrefi'r bobl.*

*Un o'r pethau pwysicaf ym mywyd cenedl yw ei hunan-barch a'i balchder cyfreithlon yn ei gwerthoedd priod; ac o bob trysor a feddwn ni Gymry y pennaf un yw'r iaith Gymraeg. Os collwn ein balchder ynddi hi, llifa'r dilyw Seisnigaidd yn gyflymach a chryfach fyth,*

*"Yn genllif garw coch i gyd*
*Nes soddi'r bryniau"*

*a fu cyhyd yn gartref iaith a diwylliant y Cymro.*

*Ar y llaw arall, os rhydd yr Eisteddfod Genedlaethol esiampl dda, a gosod y Gymraeg yn ei lle haeddiannol ar y llwyfan cenedlaethol, fel yr un a'r unig iaith â hawl i roi ei throed i lawr yno, o leiaf atelir y mudiad Seisnigaidd, a thyf a chwydda balchder yn eu hiaith yng nghartrefi'n gwlad ac yng nghalonnau ein pobl ieuainc. Felly y diogelir dyfodol ein cenedl fechan; a gall wedyn edrych ymlaen yn hyderus at y dydd pan ryddheir y byd o unbeniaid, ac y teyrnasa heddwch a brawdoliaeth, cyfiawnder a rhyddid dros wyneb y ddaear. Yn y byd newydd, llawen hwnnw, bydd i Gymru ei lle a'i chyfle.*

*Sylweddolwn mai tywyllu fwyfwy a wna'r cymylau duon a ordoa bopeth sy'n annwyl i galon y Cymro, nid yn unig ar y cyfandir ond yn ein gwlad ein hunain, gyda Llywodraeth a gyfenwir yn Genedlaethol, a gedwir mewn awdurdod gan ofn, eto mewn dygn ofn ei hunan.*

*Drwy'r cyffro i gyd dyletswydd fawr Cymru yw glynu wrth ei hiaith. Rhaid iddi hefyd ddal ei gafael ar ei sefydliad cenedlaethol, yr Eisteddfod, a mynnu ei rheoli a'i chadw ar linellau gwladgarol.*

*Ni all yr un Sais rhesymol wrthwynebu'r agwedd hon. Ni bydd un ohonynt yn llai parod o'i herwydd i gynorthwyo gyda threfniadau'r Eisteddfod, ag eithrio, o bosibl, ychydig o rai ffroen-uchel a chwyddedig a wnaeth fwy o niwed i lên a chân Cymru na dim arall drwy bennu rheolau a chyfarwyddiadau mympwyol. Ni wêl y bobl hyn werth mewn unrhyw gerddoriaeth oni chyfansoddwyd hi gan wŷr o wledydd eraill. Yn y dyfodol rhaid cau'r cyfryw, na allant siarad nac ysgrifennu Cymraeg glân a graenus, allan o gynghorau'r Eisteddfod yn llwyr a hollol. Pwy ydynt hwy i ddweud beth sydd orau i Gymru? Neu i feirniadu gwerth cynhyrchion a datganiadau? Oni ddeëllir ysbryd person neu genedl ni ellir yn deg eistedd mewn barn ar eu gwaith. Rhaid cydymdeimlo a gwerthfawrogi cyn y bo modd deall a chloriannu.*

*Allan â hwy, beth bynnag eu crach-safle a'u bombast!*

*A ydym i beryglu dyfodol ein hiaith a'n traddodiad i foddhau'r adran yma o "help" Seisnigaidd, a'i "chydymdeimlad" Chamberlainaidd â delfrydau Cymru? "Y maent yn caru ein cenedl ni", medd eu gwenieithwyr a'u cynffonwyr amdanynt, megis cynt am y canwriad Rhufeinig. Diolch yn*

*fawr, - ond gallwn ymdaro'n burion heb eu serch hwy na'r Prif Weinidog!*

*Rhaid gwneud y safle'n glir i'r glymblaid Seisnigaidd yng nghylch yr Eisteddfod heb golli amser, yn gwrtais ond yn gadarn. Rhaid cael deddf y Mediaid a'r Persiaid nad oes un gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru i fod yn Saesneg o hyn ymlaen. Cymraeg, a dim ond Cymraeg, sydd i'w siarad a'i chlywed ar y llwyfan. Nid oes undyn, o Loegr na'r Amerig na Timbuctoo, i eistedd ar fainc y beirniaid oni all siarad ac ysgrifennu Cymraeg.*

*Dyna'r ddeddf a ddwg iachawdwriaeth i'r Eisteddfod ei hun, ac i'r iaith y bodola i'w noddi.*

*Apelia'r 'Cymro' yn daer at y Cyngor newydd i ofalu am wir fuddiannau'r Brifwyl, - nid ymboeni cymaint ynglŷn â rhannu'r elw, er bod hynny, bid siŵr, yn rhan bwysig o'i waith, ond rhoddi i Gymru gyfan arweiniad pendant yn yr ymgyrch fawr hon i buro a glanhau'r Eisteddfod, a'i gwneud unwaith eto'n gartref gwir a gwiw i'r Gymraeg a hen draddodiadau Cymru ein gwlad.*

*Y mae gennym bob ffydd yn ysbryd gwladgarol aelodau'r Cyngor, ac yn awydd cywir ei swyddogion i wneuthur yr Eisteddfod yn ddrych cenedlaethol clir i fywyd a gwaith Cymru.*

*Y mae gennym hyder cryf hefyd yng ngwerin De a Gogledd. Ein pechod mawr yw difaterwch, a gadael i bethau lithro'n rhy agos i ymyl y dibyn cyn deffro a gweithredu. Ond y mae calon ein pobl yn iach. Rhaid ymysgwyd yn y mater hwn, a myned allan yn fintai wrol i waredu arch yr Eisteddfod a sheceina'r iaith o ddwylo'r gelyn.*

Dychwelwyd at bwnc Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn ysgrif flaen Y Cymro 17 Rhagfyr 1938, yn fuan wedi'r dadleniad bod yr Eisteddfod honno wedi gwneud elw o dros ddwy fil o bunnoedd, swm mawr iawn yn arian yr oes. Yn naturiol, yr oedd Y Cymro yn llawenhau oherwydd hyn ond gwelir y papur unwaith eto yn ein hatgoffa mai sefydliad Cymraeg yw'r Eisteddfod ac y dylai'r arian felly fynd i goffrau mudiadau oedd â buddiannau gorau Cymru a'r Gymraeg:

## ELW CAERDYDD

*DYLETSWYDD gyntaf 'Y Cymro', a phob papur Cymraeg arall, yw llongyfarch dinas Caerdydd yn galonnog ar wneud yr Eisteddfod Genedlaethol eleni yn llwyddiant ariannol. Gwir am sefydliad diwylliadol, fel am berson a gais ein parch a'n hedmygedd, nad arian yw popeth. Ond ni ellir cadw sefydliad yn fyw, mwy nag y gall unigolyn dalu ei ffordd a chaffael y tawelwch ysbryd sy'n amod hunan-ddiwylliant, heb y bunt a'r swllt a'r geiniog.*

*Gwnaeth Caerdydd elw sylweddol, dros ddwy fil o bunnau. Honnir mai dyma ricyn uchaf elw eisteddfodol hyd yma. Nid ydym yn sicr o hyn; ond teimlwn yn hollol siŵr ynglŷn â honiad arall a wneir yn yr un cysylltiad. Dyma yw hwnnw: "Y mae hwn yn ateb effeithiol iawn i'r penboethiaid cyfeiliornus sy'n dadlau bod y ddinas yn rhy fyd-ddinesig i fod yn Gymreig. Profwyd y gall nid yn unig ddenu rhaglen amrywiol iawn o ddiwylliant Cymreig, a'i chyflwyno gyda mwy o Gymraeg i'w glywed nag mewn un ŵyl genedlaethol arall o fewn cof neb sy'n fyw, ond hefyd drefnu'r peth yn effeithiol.... tra'n diogelu yn eu cyfanrwydd llawnaf*

*holl deithi nodweddiadol yr ŵyl."*

*Nid dyna oedd barn cynrychiolydd 'Y Cymro' am awyrgylch Eisteddfod Caerdydd. Traethodd ef ei farn yn ddifloesgni yn ein colofnau mewn rhagor nag un rhifyn yn Awst. Mwy o* *__Saesneg__* *a glywodd ef nag mewn un ŵyl genedlaethol o fewn ei gof ef. A chadarnhawyd ei dystiolaeth gan lu o'n gohebwyr eraill.*

*Ni feiwn Gymry cylch Caerdydd am hyn, ond teimlwn o hyd fod galw am warchod Cymreictod yr ŵyl, yn Ne a Gogledd Cymru, gyda gofal eithriadol yn y dyddiau hyn. Nid oes neb a wad y perygl i sefydliad, fel unigolyn, aberthu traddodiadau a "theithi nodweddiadol" er mwyn elw ariannol, gan chwennych cefnogaeth y "bobl fawr" a'r gwŷr cefnog yn fwy nag iechyd diwylliadol ac effeithiolrwydd ysbrydol y gweithrediadau.*

*Tra'n llongyfarch cyfeillion Caerdydd ar fod dros ddwy fil o bunnau ar yr ochr iawn, pwyswn arnynt hefyd i iawn-ddefnyddio'r elw er budd mudiadau gwir Gymreig, a chyfoethogi "teithi nodweddiadol" y genedl.*

*Rheolir y defnydd a wneir o ran o elw pob Eisteddfod Genedlaethol, ond y mae gweddill nad oes rheol ynglŷn ag ef, ond gadael y dewis i'r pwyllgor lleol. Cytunwn yn rhwydd â hyn. Nid oes angen darostwng popeth yn ein bywyd cenedlaethol i reolau a deddfau caeth. Y mae eisoes fwy na digon o beirianwaith yn ein bywyd. Ond gwelwyd eleni fel y gall barn leol ddod i wrthdrawiad â'r awdurdodau uwch. Hyderwn na fydd un adlais anhyfryd ar ôl Eisteddfod 1938, ond y bydd doethineb cyfeillion Caerdydd yn hysbys i bawb, a'r rhannu a fydd ar yr elw yn hawlio cymeradwyaeth gyffredinol.*

*Gwyddom fod ynglŷn â'r ddinas ei hun a'r cylch nifer o sefydliadau ac achosion gwir deilwng. Y mae dylifiad cleifion iddi o'r dyffrynnoedd, a diweithdra a dioddef yn y cymoedd eu hunain.*

*Gobeithiwn, ar yr un pryd, y cymer y pwyllgor olwg eang ar fywyd cenedlaethol Cymru, a chofio am lu o achosion haeddiannol y byddai canpunt neu ddau yn gaffaeliad mawr iddynt.*

*Llongyfarchion.../a pharhaed llwydd a doethineb.*

Yn ysgrif flaen __Y Cymro__ 24 Mehefin 1939 ymdrinir â phwnc a godwyd droeon ar hyd y blynyddoedd, sef __**SAFLE'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**__, ond gwelir unwaith eto mai'r iaith yw'r peth pwysig ynglŷn â'r Eisteddfod ym marn y papur, nid yn gymaint ei lleoliad, hyd yn oed os y golygai hynny y cynhelid y Brifwyl dros y ffin:

*Y MAE'R Wasg Seisnig eisoes yn dechrau cyhoeddi awgrymiadau ysbrydoledig o berthynas i'r amser pan newidir yr arfer o gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn y De a'r Gogledd bob yn ail. Fe ganiatái'r rheol newydd awgrymedig un eisteddfod i'r Gogledd bob tair blynedd. Wrth gwrs, y mae'r ffaith nad oes ond dau gais am Eisteddfod 1941 - un o Wallasey ac un o Fae Colwyn - yn rhywbeth i feddwl drosto, yn arbennig felly gan na cheir cefnogaeth swyddogol y Cyngor Tref i gais Bae Colwyn.*

*Ynglŷn â Wallasey, fe ddylid cofio ei bod yn ganolfan cymdogaeth o filoedd lawer o Gymry ar lannau Mersi a Chilgwri, ac y gallasai'r Eisteddfod ddisgwyl croeso mawr yno. Fe ddylid cofio hefyd am drefi poblog glannau'r Gogledd mai Saeson pur a ddaeth yno i fyw wedi ymneilltuo o Loegr yw mwyafrif y boblogaeth. Nid oes ganddynt hwy ddiddordeb ym mywyd Cymreig na bywyd masnachol y cylch.*

*Y mae'n eithaf gwir y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol ar y*

*groesffordd yn y Gogledd os y parha'r prinder ceisiadau. Ni wyddom i ba raddau y bu i'r argyfyngau diweddar y bu pawb drwyddynt droi meddyliau pobl oddi wrth bethau heddychol. Ond y mae'n amlwg fod y gost a'r gwaith trefnu aruthrol a olyga'r Eisteddfod yn ei gwneud yn faich trwm ar ardal Gymreig o boblogaeth isel.*

*Gobeithiwn y cymer Cymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol gamrau i atal y duedd hon yn y Gogledd i osgoi cyfrifoldeb yr Eisteddfod yn y rhan honno o'r wlad. Gobeithiwn y gwêl rhyw ffordd i adfywio'r diddordeb drwy gwtogi'r eisteddfod i faintioli rhesymol ar un llaw a rhoi cynnig ar gynllun, ar y llaw arall, o dan yr hwn y gellid disgwyl i bob sir wahodd yr Eisteddfod yn ei thro. Yn sicr, fe ddylai canghennau Gogledd Cymru o Undeb Cenedlaethol y Cymdeithasau Cymraeg allu eu trefnu eu hunain yn y fath fodd fel ag i fod o wasanaeth ymarferol yn y cyfeiriad yma.*

*Pryderwn ynghylch y posibilrwydd o newid yn y drefn. Yn Ne Cymru y mae'r eisteddfod yn mynd yn Seisnig.*

*Buasai'n well gennym ni ddibynnu ar yr eisteddfodau sir yng Ngogledd Cymru lle mae'r iaith yn gwbl Gymreig, nag ar Eisteddfod Genedlaethol unwaith mewn tair blynedd a fo'n Seisnig yn ei rheolaeth ac a anghofia'i Chymraeg a chaniatáu Saesneg ar ei llwyfan.*

Gwelwyd yn y bennod flaenorol fel yr effeithiodd toriad yr Ail Ryfel Byd yn sylweddol ar Eisteddfod Genedlaethol Cymru a diddorol iawn yw'r adroddiadau o'r eisteddfodau 'gwahanol' a gynhaliwyd ym mlynyddoedd y Rhyfel. Yn ysgrif flaen Y Cymro 21 Rhagfyr 1940 mae'r papur yn canmol y penderfyniad dewr i gynnal gŵyl lenyddol ym 1941 yn hytrach na'r Brifwyl fawr arferol, ac yn awgrymu'n gryf y byddai gŵyl o'r fath yn gwneud mwy o les i ddiwylliant Cymru nag a wnaeth yr Eisteddfod Genedlaethol yn y blynyddoedd blaenorol:

## PRIFWYL 1941

*Y MAE Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol, 1941, oedd i'w chynnal yr wythnos gyntaf yn Awst ym Mae Colwyn, i'w ganmol am gymryd y cam amhoblogaidd drwy benderfynu na allai gynnal yr Eisteddfod Genedlaethol.*

*Y mae'n amlwg i Gyngor yr Eisteddfod ganfod rheswm yn nadleuon y pwyllgor gwaith dros ohirio'r Eisteddfod.*

*Bydd yn flin gan lawer, y mae'n ddiau, ddeall mai hwn oedd yr unig gam posibl i'w gymryd dan yr amgylchiadau a'r tebyg yw y bydd cryn chwyrnu o rai cyfeiriadau bod diwylliant Cymru wedi cael ergyd arall drwy'r rhyfel.*

*Clywir llawer o ddarogan nad blwyddyn esmwyth o lawer a fydd 1941 i'r wlad hon. Yn wir, onid dyna un o ddywediadau olaf yr Arglwydd Lothian, Llysgennad Prydain, yn Amerig, sef mai blwyddyn beryglus a fydd hi. Gan hynny, ni ellir ond cydsynio â phenderfyniad pwyllgor gwaith Bae Colwyn a Chyngor yr Eisteddfod o dan yr amgylchiadau.*

*Y mae'n llawenydd, fodd bynnag, deall na adewir i'r mudiad cenedlaethol hwn fynd yn llwyr dros gof, canys trefnir i gynnal cyfarfod llenyddol cenedlaethol am dri diwrnod yn ystod wythnos arferol*

*yr Eisteddfod yn Awst.*

*Darogenir y bydd llawer o bethau a fu'n gaeth i rym arferiad yn gorfod cael eu newid i gyfarfod gofynion y byd newydd a addewir ar ôl y rhyfel. Y mae'n bosibl, gan hynny, y bydd yr Eisteddfod ar ddull newydd (ynteu'r hen-hen ddull?) yn ôl fel y bwriedir ei chynnal yn 1941, yn fwy o foddion diogelu diwylliant Cymru yn hytrach na bod yn gynllun cenedlaethol i wneud arian yn unig fel y bu ers tro bellach.*

*Wrth fentro rhagweld posibilrwydd methu, - a gweithredu'n unol â hynny, - fe wnaeth Pwyllgor Gwaith Bae Colwyn wasanaeth i ddyfodol diwylliant Cymru drwy dorri ar yr arfer, a dwyn yr ŵyl genedlaethol allan o'r rhych neu'r rhigol y rhedodd iddi yn ystod blynyddoedd diweddar, o wneud arian yn unig, fel ei phrif nod.*

Yn dilyn cynnal Eisteddfod Genedlaethol Lenyddol Hen Golwyn, fodd bynnag, nid yw'r Cymro yn ei ysgrif flaen yn barnu un ffordd neu'r llall ar ei llwyddiant, er ei bod hi'n amlwg o adroddiadau blaen y papur ei fod yn fodlon â'r Eisteddfod:

MAWR NEU FACH? (23 Awst 1941)

*AETH Eisteddfod Genedlaethol Lenyddol Hen Golwyn heibio gan adael ar ei hôl lawer o ganmol a thipyn o feirniadu. Arbraw diddorol oedd cwtogi ar y cystadleuaethau ac ar raglen yr wythnos a chyfyngu'r gweithrediadau fwy neu lai i'r agwedd lenyddol. Y mae clod yn ddyledus i'r hyrwyddwyr am gadw'r ŵyl hon yn gwbl Gymreig.*

*Yr oedd yn amlwg bod gwahaniaeth barn ar hyn. Yng nghyfarfod cyntaf yr ŵyl pan estynnid croeso i'r eisteddfodwyr datganodd Mr. D. Owen Evans, A.S. Aberteifi a chadeirydd Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, ei farn bendant drwy ddweud mai yn yr ochr gerddorol y caffai efe'r mwynhad mwyaf allan o'r Eisteddfod, a chyfeiriodd at amhosiblrwydd y corau o'r De i ddod i'r ŵyl eleni fel arfer. Awgrymodd hefyd mai colled oedd hynny i'r Gogleddwyr. Anghofiodd ar y foment, gyda llaw, mai côr meibion o'r Gogledd, sef o Rosllanerchrugog, dan arweiniad Mr. J. Owen Jones, a enillodd y tlws aur i'w arweinydd, oddi ar gorau meibion y De yng Nghaerdydd dair blynedd yn ôl.*

*Parhaodd y gwahaniaeth barn ar briodoldeb cario'r Eisteddfod allan ar linellau gŵyl Hen Golwyn ac ar linellau'r ŵyl fawr a arferai fod hyd ddwy flynedd yn ôl, gydol yr Eisteddfod ac wedyn. A pharha eto yn 'Y Cymro' yn natganiadau yr Archdderwydd ac eraill o wŷr blaenllaw ynglŷn â'r ŵyl. Diau y darllenir eu hysgrifau gyda diddordeb, ac y traetha eraill eu barn ar bwnc sydd wedi creu cryn chwilfrydedd.*

Yn dilyn yr 'Eisteddfodau Rhyfel' eraill yr oedd ysgrifau blaen Y Cymro yn fwy canmoliaethus:

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (8 Awst 1942)

*AETH prifwyl y genedl eleni i hen dref Aberteifi, i gylch cyfarwydd â'i byd hi, canys yno, yn 1176, y bu i'r Arglwydd Rhys gynnal eisteddfod lewyrchus. Peth arall, ar lannau'r Teifi ac yn yr ardaloedd o gylch y dref, y bu cysylltiad agos â beirdd, llenorion a phregethwyr enwog*

*Cymru. Felly yr oedd yr awyrgylch priodol yno i gynnal yr Eisteddfod er gwaethaf anawsterau'r cyfnod presennol. Ystyrrir y bu'r eisteddfod eleni yn hollol foddhaol ac yn hollol deilwng o'r gyfres cyfnod rhyfel o eisteddfodau cenedlaethol. Yr oedd safon y cystadleuaethau yn uchel ar y cyfan, serch bod y beirniaid o'r farn nad oedd digon o deilyngdod yn yr awdlau i ennill y gadair. Fel y dywedodd Mr. Hopkin Morris, nid oedd tywyllwch y cyfnod yn cyfiawnhau diffodd pob golau ac am gadw'r lamp yn olau fel hyn y mae caredigion diwylliant Cymru yn hen sir hynod Aberteifi i'w canmol. Diau y bu bendith ar eu hantur a'u hyder.*

## Y BRIFWYL (7 Awst 1943)

*EISTEDDFOD Genedlaethol amser rhyfel a gaed ym Mangor eleni ond yr oedd yr un mor boblogaidd ag y caniatái'r amgylchiadau dyrys presennol, a safon ei gwaith yn uchel o'i gymryd drwodd a thro. Cadeiriwyd a choronwyd beirdd eleni.*

*Y mae'n wir y bu atal gwobrau mewn ychydig gystadleuthau, ac, yn eu plith, yr oedd y fedal aur am Lenyddiaeth Bur.*

*Yr oedd naws hyfryd yn yr holl weithrediadau a'r ysbryd cenedlgarol yn codi'n llanw cryf yng nghwrs dyddiau'r ŵyl.*

*Llongyfarchwn bawb a fu â rhan mewn dwyn oddi amgylch lwyddiant yr Eisteddfod am gadw'r ynni a'r ysbryd Cymreig yn fyw drwy holl anawsterau'r cyfnod hwn.*

*Yr oedd rhyw lewyrch o obaith i'w weld yn llygaid a thinc hyder yn llafar yr arweinwyr y byddai'r cymylau presennol wedi eu symud yn llwyr yn fuan.*

*Edrychir ymlaen felly am brifwyl yn "llawn nwyd a bywyd yn Llandybie", y flwyddyn nesaf, fel y sylwodd yr Archdderwydd Crwys, yn y seremoni agor fore Mercher.*

## YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL (11 Awst 1944)

*I BENTREF bychan a phrydferth Llandybie, yn Nyffryn Tywi, sir Gaerfyrddin, y rhoddwyd y fraint o gynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru, 1944, o fewn ei therfynau, yr wythnos hon.*

*Fe â enw Llandybie i lawr yn hanes Cymru fel y man lle y mentrwyd cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol gyflawn gyntaf yng nghyfres eisteddfodau cyfnod rhyfel, ac yn ôl pob si a ddaw o gwrs y rhyfel byd ar dri ffrynt, o leiaf, yn Ewrop, fe ddichon mai yno hefyd y cofir, maes o law, y bu'r Eisteddfod yn y flwyddyn y dychwelodd heddwch wedi yn agos i bum mlynedd o'r rhyfel mwyaf erchyll ac eang ei gyraeddiadau yn hanes y byd.*

*Gŵyl Heddwch yn anad dim yw Eisteddfod Genedlaethol Cymru, ac y mae pob hyder mai heddwch byd a ddilyn yn glós yn ôl ei throed eleni.*

*Fel yr atgofiwyd gan Mr. R. E. Griffith, trefnydd Urdd Gobaith Cymru, wrth lywyddu cyfarfod cyntaf Diwrnod y Plant, ddydd Mawrth, - yn 1918, blwyddyn olaf y Rhyfel Mawr, y rhoddwyd gyntaf yn hanes yr Eisteddfod ddiwrnod cyfan i'r plant. Yn ystod y rhyfel hwn, fel y gwyddys, ni roddwyd lle i'r plant yn yr eisteddfodau hyd eleni.*

*Ai cyd-ddigwyddiad hapus yw hyn? Ai hon fydd blwyddyn olaf y rhyfel fel y bu yn 1918?*

*Dyna wir ddymuniad pawb er mwyn i'r diwylliant neilltuol a nodwedda fywyd y Cymry ymhob agwedd arno, gael ei gyfle eto i dyfu a datblygu a dwyn ein gwlad a'n cenedl wedi'r rhyferthwy mawr yn ôl i'w lle priod ymhlith cenhedloedd rhydd a gwerinol y byd.*

*Gwleidyddiaeth* *__Y Cymro__*

Gwelwyd eisoes mai papur consensws oedd Y Cymro, papur a gynrychiolai farn boblogaidd Cymry'r oes; yr oedd felly, fel mwyafrif mawr pobl y wlad, yn wrthwynebus iawn i'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn ei dyddiau cynnar ac yn cefnogi'r delfrydau Rhyddfrydol-Lafurol a oedd mor boblogaidd yn y cyfnod. Yn ysgrif flaen rhifyn 20 Tachwedd 1937 o'r Cymro cadarnheir hynny unwaith eto a dywed y papur mai ar y 'llwybr canol' yr oedd yn wleidyddol, 'rhwng diffyg gweledigaeth ac argyhoeddiad y Rhyddfrydiaeth a ymwerthodd i'r Llywodraeth "genedlaethol" Doriaidd, ac eithafrwydd y Cenedlaetholwyr nad yw corff mawr ein pobl yn barod i'w cefnogi':

## CYMRU RADICALAIDD

*CYHOEDDWYD yr wythnos hon ysgrif ddiddorol ar 'Ryddfrydwyr a Radicaliaid Cymru', y drydedd mewn cyfres ar Wleidyddiaeth a Chenedlaetholdeb yng Nghymru gan Elidir Sais yn Y Brython.*

*Gwêl Mr. Hughes-Jones yr un symudiad ym mywyd gwleidyddol Cymru a Sgotland. Y mae yn y ddwy wlad Blaid Genedlaethol a gais Ymreolaeth, senedd annibynnol, a safle dominiwn; gan dorri'n rhydd oddi wrth Loegr, a rhwyfo'u cwch bach eu hunain. Geilw ef y pleidiau hyn yn Ochr Chwith.*

*Yr Ochr Dde yw'r Rhyddfrydwyr yn y ddwy wlad, a saif - pan ddaw hwrdd i sefyll, yn lle eistedd ac "aros i weld" a ddisgyn manna o'r nef - dros y safle fel y mae, gyda rhyw gydnabyddiaeth ffurfiol o'r hawliau cenedlaethol, megis Ysgrifennydd swyddogol i Gymru yn ogystal â Sgotland. Cymerodd y Blaid Gymreig yn y Senedd gam i'r cyfeiriad hwn yn ddiweddar, yn eu protest yn erbyn llwyr anwybyddu Cymru yn araith y Brenin.*

*Gesyd Mr. Hughes-Jones Y Cymro, gyda'r Brython a'r Faner, fel cynrychiolwyr yr Adran Ganol o'r llinell wleidyddol, na ellir cael gwell enw arni na Radicaliaeth. Derbyniwn yr enw yn llawen, canys ystyr wreiddiol radic yw gwraidd, a bodlon ydym os yw "gwreiddyn y mater" gennym yn wleidyddol. Credwn yn sicr ei fod hefyd; ac mai ar y llwybr canol hwn, rhwng diffyg gweledigaeth ac argyhoeddiad y Rhyddfrydiaeth a ymwerthodd i'r Llywodraeth "genedlaethol" Doriaidd, ac eithafrwydd y Cenedlaetholwyr nad yw corff mawr ein pobl yn barod i'w cefnogi, y daw ymwared i Gymru, a datrys ein problemau yn ymarferol. Gwir a ddywed Elidir Sais fod ar gorff ein pobl 'ofn Sosialaeth, ac ofn agwedd y Blaid Genedlaethol, tra'n anfodlon a siomedig ar Ryddfrydiaeth.' Gyda'r Radicaliaeth newydd a gynrychiolir gan y wasg Gymreig, y tri newyddiadur a nodwyd, a chylchgronau fel Y Llenor a'r Efrydydd, y mae cydymdeimlad corff mawr y wlad. 'Â'r ysbryd Radicalaidd newydd yng Nghymru yn ddyfnach na Rhyddfrydiaeth, oherwydd teimla'n fwy dwfn. Ac os anwybydda Undeb Rhyddfrydwyr Cymru a'r Aelodau Seneddol Cymreig yr ysbryd hwn, anwybyddu y maent lais eglur Cymru ei hun.'*

*Yr angen heddiw yw llunio polisi pendant, creu corff addas i'r ysbryd newydd, a'i galluoga i osod ei ofynion yn glir a grymus o flaen y Llywodraeth. Nid yw ysgrifennydd swyddogol yn cyfarfod â'n gofyn; gwas y Llywodraeth, fel y dywed Elidir Sais, a fydd ef yn gyntaf. Rhaid cael Cyngor Cenedlaethol, fel yr un a gais Radicaliaid Sgotland i gyfarfod yn rheolaidd yng Nghaeredin; a pham na ellir gobeithio cael*

*cefnogaeth pob Rhyddfrydwr, a phob Cenedlaetholwr a Sosialydd hefyd, a gâr Cymru yn fwy na phlaid, i bolisi ymarferol o'r fath?*

*Dywedodd Y Cymro droeon, a dywed eto, nad oes un gobaith inni, hyd oni ddysgwn osod gwlad o flaen plaid.*

Yng nghanol rhifyn 7 Mai 1938 o'r Cymro cyhoeddwyd yr hyn a eilw'r papur yn 'faniffesto newydd' a dywed ei fod yn cychwyn 'crwsâd a galwad na dderfydd hyd oni ddelo rhyw ffrwyth cymeradwy.' Dyma eiriau cynhyrfus iawn sydd fel petaent yn addo newid polisi sylfaenol yn Y Cymro ond gwelir nad yw'r 'Maniffesto' hwn mewn gwirionedd yn ddim mwy na chri arferol y papur, sef galw am Ffrynt Unedig o holl bleidiau a chyrff Cymru i wynebu 'peryglon' pell ac agos, a galw am Gyngor Cenedlaethol ac Ysgrifennydd i Gymru:

MANIFFESTO NEWYDD 'Y CYMRO'

*NI bu erioed o fewn cof neb ohonom y fath fygwth cas ar ryddid a gweriniaeth ag a'n wyneba heddiw. Yn Ewrob, bras-gama tra-arglwyddiaeth a gormes yn agored a di-gywilydd. Hyd yma arbedwyd Prydain, ond y mae yma hefyd arwyddion a lleisiau bygythiol, ac nid oes neb mor hyderus ei galon fel y gall edrych i'r dyfodol agos yn ddibryder.*

*Teimla dynion o bob plaid fod symudiad amgylchiadau ar y Cyfandir, ac yn y wlad hon hefyd, yn gwthio'r rheidrwydd arnom o wneuthur rhyw ddewis pendant yn ein tŷ ein hunain. Eisoes clymwyd Gweriniaeth ym Mhrydain wrth Lywodraeth a gyfenwir yn Genedlaethol, Llywodraeth a ffurfiwyd dan bwys ofn, ac a ddeil ei gafael ar awdurdod oherwydd ofn. Anghofiwyd yr hen egwyddor mai iawnder yw grym. Trosglwyddwyd polisi tramor Prydain Fawr i gyllidydd o Birmingham. Teifl ef y Cynghrair Cenhedloedd dros y bwrdd. Caniata wneud cyflafan yn Sbaen gan filwyr a thânbelenwyr yr Eidal a'r Almaen, o dan glog peidio ymyrryd; a'r diwedd fydd creu gwladwriaeth Ffasgaidd arall wrth ddrws cefn Ffrainc, i fod yn berygl cyson hefyd i'r "Graig" anorchfygol, Gibraltar.*

*Gwertha'r cyllidydd o Birmingham anrhydedd y wlad hon am saig o fwyd, gan gynnig cytundebau masnachol i'r Eidal, a rhoi ei fendith ar anrhaith Abysinia.*

*Y mae'r rhyddid yr ymladdodd ein tadau mor lew i'w ennill yn y glorian. Daeth dydd cyhoeddi dedfryd ar egwyddorion gwerinol bywyd a llywodraeth cenhedloedd sy'n ffrwyth cenedlaethau o ddelfrydau, ffydd ac ymdrech.*

*Bu Cymru, uwchlaw pob gwlad, yn gartref a magwrfa i'r delfryd aruchel hwn. Cododd arweinwyr digymar. Pa ran a gymer Cymru yn nydd barn y delfryd heddiw?*

*Y mae yn y glorian yr egwyddorion a alluogodd Gymru i gynhyrchu dynion fel Tom Ellis, Lloyd George, Ellis Jones Griffith, W. Llewelyn Williams, Thomas Gee, Gwilym Hiraethog, S. R. Llanbrynmair, a llu o arweinwyr o gyffelyb ysbryd.*

*Megis yn y gorffennol yr enillodd corff cytûn o Gymry fuddugoliaethau i'r werin-bobl, felly y mae galw heddiw, a galw taerach nag erioed, am gatrawd gref, unol, o Gymry yn y Senedd, gydag ewyllys werinol cenedl benderfynol wrth eu cefn.*

*Ymlaen y mae brwydr dost rhwng tra-arglwyddiaeth a gweriniaeth. Gall Cymru unwaith eto, drwy ei dychymyg a'i hegni, ddylanwadu ar Brydain a'r byd megis cynt. Ni bu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf, ni bu, o bosibl, erioed y fath alw uniongyrchol am y teithi meddyliol ac ysbrydol hynny a fedd Cymru yn naturiol. Canys gwreiddiodd yr egwyddorion hyn i galon y cymeriad Cymreig.*

*Cychwynnwn heddiw grwsâd a galwad na dderfydd hyd oni ddelo rhyw ffrwyth cymeradwy. Y mae gennym heddiw yn y Senedd gorff o aelodau a chanddynt yr anian wir Gymreig a gwerinol. Dyma restr ohonynt:*

*A. Bevan (Glyn Ebwy), Llafur.*
*W. G. Cove (Aberafan), Llafur.*
*G. Daggar (Abertileri), Llafur.*
*S. O. Davies (Merthyr), Llafur.*
*Syr C. Edwards (Bedwellty), Llafur.*
*D. O. Evans (Aberteifi), Rhyddfrydwr.*
*Capten Ernest Evans (Y Brifysgol), Rhyddfrydwr.*
*Miss Megan Lloyd George (Môn), Rhyddfrydwr.*
*Y Gwir Anrhydeddus D. Lloyd George (Bwrdeisdrefi Arfon), Rhyddfrydwr.*
*Y Milwriad G. Lloyd George (Penfro), Rhyddfrydwr.*
*D. R. Grenfell (Gŵyr), Llafur.*
*James Griffiths (Llanelli), Llafur.*
*G. H. Hall (Aberdâr), Llafur.*
*Daniel Hopkins (Caerfyrddin), Llafur.*
*A. Jenkins (Pontypŵl), Llafur.*
*Syr W. Jenkins (Castellnedd), Llafur.*
*W. John (Gorllewin Rhondda), Llafur.*
*Syr H. Haydn Jones (Meirion), Rhyddfrydwr.*
*Morgan Jones (Caerffili), Llafur.*
*W. H. Mainwaring (Dwyrain Rhondda), Llafur.*
*Y Milwriad Goronwy Owen (Arfon), Rhyddfrydwr.*
*A. Pearson (Pontypridd), Llafur.*
*R. Richards (Wrecsam), Llafur.*
*D. Williams (Dwyrain Abertawe), Llafur.*
*E. J. Williams (Cwm Ogwr), Llafur.*

*Prawf y ffaith eu bod yn gynrychiolwyr etholedig Cymru gymeriad gwerinol a rhyddidgarol ein pobl, ac na throdd Cymru draw oddi wrth ei hen ffydd wleidyddol dros genedlaethau fyrdd. Dyma'n hollol yr elfen o gadernid mewn meddwl ac ewyllys y mae ar Brydain ei hangen heddiw, megis cynt, i wynebu ymgyrch bygythiol unbennaeth Ewrob.*

*A yw'n ormod gobeithio y llwydda'r cynrychiolwyr hyn o Gymru i ffurfio ffrynt unedig, a phrofi i Senedd Loegr fod eto un wlad a gyfrif ryddid a gweriniaeth yn amhrisiadwy, ac uwchlaw gofynion plaid a chyllid? Os gwnânt hyn, enillant iddynt eu hunain le yn serch y genedl. Onide, rhaid i ysbryd gwerinol Cymru godi â chroch-lefain yn annibynnol arnynt.*

*Y mae'r perygl yn wirioneddol ac yn agos. Y mae yn Lloegr a Chymru elfennau sydd mewn cyd-ymdeimlad ag unbennaeth Hitler a Mussolini ar un llaw, a thra-arglwyddiaeth Rwsia ar y llaw arall. Disgwyl y rhai hyn am gyfle i daro. Gweithiant yn ddirgelaidd i rannu ein gwlad rhwng y ddau wersyll, a golyga'r ymgyrch hyn golli rhyddid, a gorseddu cas a rhyfel. Dyma'r awr i ddelfrydiaeth Cymru godi a bwrw ei holl nerth yn wyneb y gelynion newydd. A ellir gobeithio gweled eto yr hen ysbryd cyndyn, di-droi'n-ôl, yn wynebu'r bygythion newydd, - os newydd hefyd. Hen, hen elyn mewn gwisg newydd, o bosibl, a heria Gymru i ateb "Y Ddraig Goch a ddyry gychwyn." Cred 'Y Cymro' y sylweddola Cymru angen yr argyfwng, a llefaru â llais unol, eglur, digamsyniol.*

*Y llais hwnnw yw creu Ffrynt Unedig o bob plaid a chorff yng*

*Nghymru a gyfarch Seren Gweriniaeth a Rhyddid fel eu goleudy a'u nod ym môr aflonydd gwleidyddiaeth ein hoes. Yng ngoleuni ein hen hanes, a than symbyliad ein anghenion dirfawr heddiw, rhaid inni uno i atal llanw'r adwaith gwleidyddol gartref. Oni wnawn ni hynny, llithra Ewrob a'r byd i safle a bair ddryswch i Weriniaeth ac agor drws led y pen i Unbennaeth.*

*Yng nghanol y cyfwng cymhleth y mae i Gymru ei phroblemau priod ei hun. Rhaid uno i sicrhau ein cyfiawn hawliau; oni wnawn hynny heddiw, ni wnawn byth.*

*Geilw Cymru am Gyngor Cenedlaethol gwir a chyfansoddiadol, mewn cysylltiad â Llywodraeth Prydain drwy Ysgrifennydd swyddogol i Gymru. Dyma'r cam cyntaf mewn cynllun o is-seneddau i wahanol rannau o'r wlad, a cham hefyd tuag at ymddiried yn y diwedd bob mater o lywodraeth leol i Gymru ei hun. Gallai felly reoli ei thŷ a diogelu ei buddiannau arbennig ei hun.*

*Y mae polisi'r 'Cymro' yn ddeublyg.*

*Yn gyntaf, sicrhau ym maes Gwleidyddiaeth Genedlaethol Ffrynt Unedig. Yn ail, mewn Gwleidyddiaeth Gartrefol, cael Cyngor Cenedlaethol ac Ysgrifennydd i Gymru.*

*Credwn, yn wir, y sylweddola Cymru angen yr awr ddifrifol hon, a llefaru â'i hen lais croyw, clir, fel un gŵr.*

Ochr yn ochr â'r 'maniffesto' hwn cafwyd ysgrif flaen a bwysleisiai'r un neges ynghylch angen Cymru am undeb i wynebu gormesoedd peryglus yr oes oedd ohoni:

EIN MANIFFESTO

*NID oes angen ymddiheuriad o fath yn y byd dros y Maniffesto a gyhoeddir heddiw ar y tudalen hwn.*

*Daw llythyrau inni gyda phob post oddi wrth bobl o bob rhan o Gymru, yn mynegi pryder dwfn yn wyneb gogwydd pethau yn y wlad hon.*

*Cydnabyddwn yn rhwydd y safle anodd mewn amgylchiadau rhyng-genedlaethol a pherthynas y galluoedd mawr yn Ewrob. Cyfyd o ymddangosiad dau unben ar lwyfan hanes, dau a enillodd iddynt eu hunain y fath awdurdod brawychus ar fywyd a marwolaeth. Oherwydd natur newydd a chwyldroadol yr awdurdod hwn, ni allant ganiatáu unrhyw fath ar ryddid meddwl na llafar o fewn eu terfynau; ac i gadw eu gafael ar y bobl, rhaid iddynt ymestyn at ragor, a rhagor o awdurdod o hyd.*

*Nid yw bellach o un diben ymholi am y rhesymau, na chwilio am wreiddiau'r pren marw. Y mae gyda ni, - wedi tyfu mewn noson, ac yn cysgodi bywyd Ewrob fel pren gwenwynig a ladd bob bywyd dan gylch ei gangau.*

*Gadawn i hanesydd y dyfodol benderfynu'r rhan a gymerth y dosbarth mewn awdurdod yn y wlad hon i hyrwyddo tyfiant y pren Upas yng ngwleidyddiaeth Ewrob.*

*Y cwestiwn y rhaid i'r wlad hon ei wynebu'n awr yw a ydym ni am ganiatáu i unrhyw ffurf ar unbennaeth, totalitariaeth neu ffasgaeth dyfu yn ein daear ni. Y mae yn ein plith eisoes ffurf ar Lywodraeth "Genedlaethol", a ddibynna ar ei mwyafrif llethol, a heb ddim gyferbyn â hi ond adrannau anhyblyg, hunanol. Bu'r llywodraeth hon yn ddigon haerllug i fwrw'r Cynghrair dros y bwrdd, a cheisio ffafr a gwneud cytundeb â'r unbeniaid a dorrodd bob ymrwymiad ac addewid hyd yma, heb gywilydd na phetruster.*

*Bydd canlyniadau pell-gyrhaeddol i waith yr Almaen yn meddiannu Awstria mewn noson, a chreu Sbaen newydd, ffasgaidd. Effeithiant nid yn unig ar y safle ryng-genedlaethol, ond ar ffurf-lywodraeth y wlad hon.*

*Unig obaith ein Gweriniaeth yw i'r galluoedd hynny a gred o galon mewn Rhyddid ac Iawnder cyfartal o fewn terfynau deddf, uno â'i gilydd. Heb yr undeb hwn ofer fydd ymdrech pob gallu a saif dros gynnydd yn y wlad hon, yn erbyn rhyferthwy unbennaeth, gyda phleidlais miloedd mud o'u hanfodd i'w gefnogi. Cytuna'r werin i dderbyn unbennaeth pan gyll ei ffydd yng ngallu adrannau i lywodraethu mewn argyfwng.*

*Gall Cymru roddi neges i'r byd. A wna hi?*

*Cyfeiria'r Maniffesto at Gymru fel cartref rhyddid a magwrfa annibyniaeth. Hwn, yn sicr, yw ei hen draddodiad, o fore hanes. Mewn gwahanol gylchoedd, saif ei holl arwyr drwy'r oesau, - Dewi Sant, Hywel Dda, Llewelyn, Owain Glyndŵr, Tom Ellis, - dros egwyddorion sydd â gwreiddyn cyffredin, - Iawnder.*

*Iawnder mewn crefydd, mewn deddf, mewn llywodraeth, mewn hawliau eiddo, mewn breintiau gwleidyddol, - dyma'r delfrydau a gododd arwyr o gyfnod i gyfnod rhwng bryniau Cymru. Nid "gwrol ryfelwyr" y dwrn dur oedd gwŷr mawr Cymru ddoe. Nid oes gan y gwir Gymro heddiw ronyn o gyd-ymdeimlad â bombast annynol yr unben.*

Mwy diddorol o lawer na'r 'maniffesto' ei hunan yw'r llythyr isod gan D. J. Williams yn ymateb iddo, a gyhoeddwyd yn Y Cymro bythefnos yn ddiweddarach. Yn ôl D. J. darllenodd y 'maniffesto' ddwywaith (rhag ofn ei fod wedi'i gamddeall y tro cyntaf!) a dywed 'na theimlais i'n fwy siomedig o ddarllen dim mewn papur Cymraeg mewn blynyddoedd'; â ymlaen i ymhelaethu mewn modd gonest a di-flewyn-ar-dafod paham y teimlodd felly wedi darllen y 'maniffesto' a dywed y 'bydd yn rhaid i mi, fel pob aelod arall o'r Blaid....wrthwynebu [Y Cymro] yr un mor gydwybodol am y mawr-ddrwg hwn a wna yn tywyllu barn a chymylu cyngor yng Nghymru':

D. J. Williams a Maniffesto'r Cymro (21 Mai 1938)

*'Yr wyf newydd ddarllen Maniffesto'r 'Cymro' drosodd am yr ail waith. Fe'i darllenais yr ail dro mor bwyllog a hunan-feddiannol ag y gallwn, rhag ofn i mi rywfodd dderbyn argraff anghywir y tro cyntaf, oherwydd fod rhywbeth o'i le ar fy ysbryd i ar y pryd.*

*Ond na; yr un yw'r argraff. A chystal i mi gyfaddef na theimlais i'n fwy siomedig o ddarllen dim mewn papur Cymraeg ers blynyddoedd. Os dywedaf ddim yn gas yn yr ychydig eiriau hyn, credwch fi mai fy eiddigedd dros 'Y Cymro' fel papur a chanddo gyfle arbennig iawn i oleuo ac arwain Cymru fydd yn gyfrifol am hynny.*

*Yn fy marn i, ynteu, nid yn unig y mae'r Maniffesto hwn yn ddiwerth fel arweiniad i Gymru; ond fe all yn hawdd, os glynir wrtho, fod o niwed mawr. Nid oes gennych ddim i'w gynnig wedi berwi'r geiriau i lawr, namyn ail-adroddiad o genadwriau'r holl wasg Seisnig nad yw'n dilyn Chamberlain ar hyn o bryd. Canlyniad hyn oll fel y gwyddoch cystal â minnau yw hyrwyddo rhyfel na ellir mo'i osgoi a pharatoi meddwl Cymru i'w groesawu fel y croesawyd y groesgad Sanctaidd yn 1914. Nid yw ceisio hybu Cymru druan, ofnus, fel math o arweinydd y mudiad*

*democrataidd ym Mhrydain ond ffwlbri noeth, ac ymdrech agored, na all neb ond y dall beidio â'i chanfod, i gael gan Gymru hithau i chwythu'r corn rhyfel er amddiffyn yr Ymerodraeth Fawr Brydeinig. Y mae'r cyfan y dymunwn i ddweud ar y wasg Gymraeg i'w weld yn llythyr Mr. Victor Jones i'r wasg yn ddiweddar.'*

*DYMA eiriau Mr. Victor Jones, Gwaelod-y-garth, ger Caerdydd:*
*'Y mae i'r Wasg ddylanwad mawr wrth ffurfio barn gyhoeddus; ond y mae i'r Wasg Gymraeg swyddogaeth arbennig. Hi oedd yr unig Wasg a roddodd gywirdeb a thegwch gwybodaeth am Gymru yn brif nod ei bodolaeth. Os nad yw'r Wasg Gymraeg, fel y cynrychiolir hi gan 'Y Brython', 'Y Faner' a'r 'Cymro', am lynu wrth y nod hwnnw, nid oes na sail nac amcan iddi. Cyll bob rheswm dros fodolaeth os ei hamcan yw hyrwyddo mudiadau Seisnig yng Nghymru; gallwn oll ddarllen y Wasg Saesneg.'*

*Â MR. D. J. Williams ymlaen:*
*'Y mae darllen Maniffesto'r 'Cymro' a'r llythyr hwnnw, a gweld gloddest y wasg Saesneg yn ei hymdrech i rwygo'r Blaid Genedlaethol yn gwneud dyn yn anesmwyth. A brynwyd 'Y Cymro' hefyd? A'i wneud yn offeryn hylaw yn llaw militariaeth Seisnig? Soniwch fod amcan 'Y Cymro' yn ddeublyg. Yr hyn a ddywedwn i yw ei fod yn 'ddau-ddyblyg', ac o ganlyniad 'yn anwastad yn ei holl ffyrdd' - weithiau'n Gymreig, ac iachus, a gwerthfawr; bryd arall, fel y tro hwn - ym mhen draw'r byd.*
*O'r cychwyn cyntaf, yr wyf i fel llaweroedd eraill o aelodau'r Blaid wedi ceisio gwneud fy ngorau glas i gefnogi'r 'Cymro', a chael derbynwyr iddo ble bynnag yr awn. Credwn yn ei werth. Ond os mai'r Maniffesto hwn yw nod ei genadwri i fod o hyn allan, bydd yn rhaid i mi, fel pob aelod arall o'r Blaid, mi gredaf, ei wrthwynebu yr un mor gydwybodol am y mawr-ddrwg hwn a wna yn tywyllu barn a chymylu cyngor yng Nghymru. Bu'r 'Cymro' mewn gwewyr ac esgorodd ar wynt, - brwmstanaidd, afiach.*
*Yn wleidyddol, y mae fy mholisi cartref i, petai hynny o'r pwys lleiaf, ar linellau'r Blaid Genedlaethol; a'm polisi tramor, petai wiw i Gymro druan sôn am bolisi tramor ei genedl fach ei hun, yn llwyr ar linellau maniffesto'r P.P.U. A chredaf yn ddios mai ar y llinellau yna y dylai'r 'Cymro' fynd os yw am fod o wir wasanaeth ac arweiniad i Gymru.*
*O'm rhan fy hun nid oes yn y llythyr hwn ddim y gwarafunwn ei gyhoeddi, gan ei fod yn farn onest un o ddarllenwyr cysonaf 'Y Cymro'.'*

Yn ysgrif flaen y rhifyn hwnnw o'r Cymro daw'r rhwyg rhwng y papur a'r Blaid Genedlaethol Gymreig i'r amlwg unwaith eto. Dywed Y Cymro iddo roddi 'bob amser gyhoeddusrwydd i'r Blaid a'i gwaith ar ei dudalennau', rhywbeth na allai D. J. Williams na neb arall mo'i wadu gan fod 'Cornel y Blaid' yn ymddangos yn rheolaidd yn y papur. Pwysleisia'r egwyddor sylfaenol o ryddid barn unrhyw unigolyn a newyddiadur i lefaru ei farn yn ôl ei ddymuniad a dywed mai ei hawl gyfyngedig fel papur yw penderfynu ar ei bolisi ac nad oes gan D. J. Williams na neb arall yr hawl i geisio dylanwadu ar hynny mewn unrhyw fodd:

## YR ATEB

*ER mai llythyr personol ydyw hwn fel y cyfryw, cynrychiola safbwynt arbennig hefyd ym mywyd gwleidyddol Cymru heddiw, - safbwynt a bair inni ymholi tybed a yw'r ysbryd gwerinol gwir, a oddef gyda thegwch syniadau gwahanol i eiddo person neu blaid arbennig, wedi torri i lawr, neu, o leiaf, wedi cracio'n ddifrifol yn ein plith fel cenedl yn yr oes hon.*

*Ar ôl tynnu allan yr ymadroddion ffôl, a chwbl di-sail, fel y gŵyr Mr. D. J. Williams, a phob Cymro gonest, yn ei galon, - ''Y Cymro' wedi ei brynu a'i wneud yn offeryn hylaw yn nwylo militariaeth Seisnig', 'gloddest y wasg Saesneg yn ei hymdrech i rwygo'r Blaid Genedlaethol', - beth a erys o feirniadaeth berthnasol i agwedd y Maniffesto, a phroblem ymarferol Cymru heddiw?*

*Hyn, hyd y deallwn y llythyr, - nid oes lle o gwbl i'r 'Cymro', na'r un papur Cymraeg arall, oni chytuna i fabwysiadu polisi'r Blaid Genedlaethol a Maniffesto'r 'Peace Pledge Union'.*

*A wad Mr. Williams o ddifrif i'r 'Cymro' lawer tro, yn Ein Barn Ni a'i ysgrifau arweiniol, ganmol a chefnogi'r Blaid Genedlaethol, ei harweinwyr a'i pholisi mewn llawer o bethau, tra bob amser yn sefyll yn gadarn dros hawl - a dyletswydd - gwasg onest i feirniadu'r Blaid Genedlaethol, neu unrhyw blaid arall, pan na chytuna â rhai pethau yn ei pholisi?*

*A awgryma, ar air a chydwybod, fod dylanwad 'Y Cymro' o blaid rhyfel a chas, yn hytrach na heddwch ac ewyllys da rhwng cenhedloedd?*

*DERBYN Mr. Williams fel ysgrythur safon a mesur Mr. Victor Jones o swyddogaeth y wasg, ac ystyr bodolaeth papur newydd. Bychan iawn gennym ni yw collfarn Mr. Victor Jones ar 'Y Cymro', ac ni chythrudda ei safon unbenaethol o swyddogaeth papur Cymraeg ni yn y modd lleiaf.*

*Amcan 'Y Cymro', a'r tŷ cyhoeddi a gynrychiola, a fu, ac a fydd bob amser cynnal breichiau a cheisio gloywi'r iaith Gymraeg. Credwn, heb ymffrostio'n wag, y saif cyfraniad gwasg Wrecsam, drwy'r 'Cymro' a'r 'Ford Gron', a'r llyfrau a gyhoeddodd dros gyfnod o ganrif a rhagor, yn eithaf diogel ym marn y wlad. Dywed canrif o wasanaeth glân a chyson i iaith a diwylliant Cymru ei stori ei hun, - ac nid hanes 'offeryn yn llaw' Sais nac Imperialydd na'r rhai sydd ganddynt ryfel yw'r stori honno i undyn a'i darllena yn ddiduedd.*

*AWGRYM digamsyniol llythyr Mr. Williams, - ac yn hyn cynrychiola agwedd rhan, o leiaf, o'r Blaid, yn ogystal â barn bersonol yr athro o Abergwaun, - ydyw mai'r Blaid Genedlaethol yw unig grud diogel diwylliant a llwyddiant Cymru. I'r mudiad ieuanc hwn - nid yw, bid sicr, ronyn gwaeth oherwydd hynny; ond ffaith yw ffaith, ac ni all y Blaid edrych yn ôl ar ganrif o wasanaeth i Gymru - y perthyn yr hawl i feddwl yn wir Gymreig. Ganddi hi yn unig y mae gofal am fuddiannau Cymru. Os beiddia newyddiadur Cymraeg dynnu unrhyw amlinelliad o bolisi nad yw'n eco perffaith ym mhob manyn o bolisi'r Blaid Genedlaethol, - yna rhaid gwrthwynebu'r papur hwnnw, fel mater o gydwybod genedlaethol, fel tywyllwr cyngor, cyfaill y Sais, cefnogwr rhyfel ac Imperialaeth.*

*Oni cheidw'r 'Cymro' fysedd ei draed yn union gywir a diwyro ar linell Mr. Saunders Lewis, - i'r hwn fel dyn a llenor a gwladgarwr y talwyd gennym deyrnged gyson a gwresog, - yna gelyn Cymru a Judas ei buddiannau ydyw.*

*Gofynnwn i'r cyfaill D.J. eistedd yn dawel a gofyn iddo'i hun, tybed nad yw'r ddedfryd yn ddisail, a'r awgrym yn ffôl. Teimlwn yn sicr na dderbynir y naill na'r llall am foment gan fwyafrif darllenwyr 'Y*

*Cymro', na chorff mawr Cymry'r byd.*

*AETH gair Peilat, "Ha gegraffa, gegraffa", yr hyn a ysgrifennais, yn glasur erbyn hyn. A dyna ateb 'Y Cymro', yn yr ysbryd mwyaf cyfeillgar, ond yn hollol bendant, i'r llythyr uchod. Saif y Maniffesto dros bolisi Cymreig, synhwyrol, ymarferol 'Y Cymro' heddiw ac yfory.*

*Ni allwn orfodi'r Blaid Genedlaethol, na'r Blaid Ryddfrydol, na Phlaid Lafur, i uno yng Nghymru, fel Cymry, mewn ymdrech deg a brwydr gref dros Weriniaeth a Rhyddid.*

*Os cred unrhyw un o'r pleidiau uchod mai hi yw unig waredwr Cymru, ac unig warchodwr Gweriniaeth a Rhyddid yn ein gwlad, a bod pawb a anghytuna'r iod lleiaf â'i pholisi hi yn fradwyr a Dic-shon-dafyddion a chwery i ddwylo'r Sais, amser a ddengys ei hynfydrwydd a'i hymhoniad peryglus. Ar lwybr hunanol o'r fath nid oes ond siom a methiant i'r blaid honno ei hun, a chymwynas wael i Gymru.*

*Un o wersi egluraf ein dydd yw'r ffordd yr ysgubwyd gwledydd ar y cyfandir, a fu'n gartrefi rhyddid a chwarae teg, i eigion pwll totalitariaeth a chaethiwed y werin. Darfu ynddynt hwy am bob rhyddid barn a llafar, - un o'r trysorau a enillodd ein tadau i Gymru drwy lafur a chwys; rhyddid a wrthyd Mr. D. J. Williams i'r 'Cymro'.*

*GALL yr hyn a ddigwyddodd ar y cyfandir ddigwydd yng Nghymru hefyd. Gall y llifeiriant ddod, mewn rhyw ffurf neu gilydd, arnom ninnau, oni chytuna pwerau cynnydd a datblygiad gwerinol i uno yma - a thrwy'r byd - ar y mater sylfaenol hwn o egwyddor llywodraeth. Gwahaniaethwn ar lu o bethau ail-raddol, yn ddiau, hyd ddiwedd amser, ond rhaid cytuno ar egwyddorion Gweriniaeth a Rhyddid ar unwaith; neu bydd yn rhy hwyr yn y man.*

*Caniatawn hawl Mr. D. J. Williams ac arweinwyr y Blaid Genedlaethol i lunio unrhyw bolisi, ac argymell ar werin Cymru unrhyw syniad a dybiant hwy fydd yn foddion effeithiol i osod Cymru ar y map, - nid o ran tiriogaeth yn gymaint â meddwl gwleidyddol a ddylanwada ar gwrs y byd. Syn gennym ddarllen ymadroddion â nodyn gorchfygiad ac anobaith ynddynt ar derfyn llythyr Mr. Williams. Y mae polisi cartref a thramor pob un ohonom yn cyfrif, ac ni ddylai llenor cenedlaethol, ac un o arwyr plaid genedlaethol, siarad fel pe na chyfrif ei farn ef o gwbl, ac nad gwiw i Gymro druan sôn am bolisi ei genedl. Nid dyna iaith arweinwyr Athen a Sparta, nac ymateb yr Iddew i sialens ac erledigaeth yr oesau. Cymerodd D.J. gam gwag am unwaith.*

*NID yn unig caniata'r 'Cymro' hawl y Blaid Genedlaethol i lunio ac argymell ei pholisi, ond rhoddodd bob amser gyhoeddusrwydd i'r Blaid a'i gwaith ar ei dudalennau. Pery'r 'Cymro' i wneuthur hyn hyd eithaf ei ofod, cyhyd ag y dymuna'r Blaid gadw ei Chornel. Ond gwadwn hawl Mr. Williams, neu unrhyw un o'i harweinwyr, i roi'r ddeddf i lawr ar beth yw ein polisi ni i fod, nac ychwaith i amau ein gonestrwydd a'n gwladgarwch, a bwrw ensyniadau di-sail a di-les o ymwerthu i Loegr ac Imperialaeth a rhyfelgarwch. Nid ydym yn honni bod yn anffaeledig; ac atgofiwn Mr. Williams nad yw Mr. Saunders Lewis a'i gydarweinwyr, er eu doniau a'u dyhead cywir i wasanaethu Cymru, yn anffaeledig chwaith.*

*Eithr honnwn un peth, - bod i ni yr hawl i gefnogi, i gyhoeddi, i feirniadu eraill a thraethu ein barn ein hunain, yn onest a di-ofn. Safwn ar yr hawl honno yn awr a phob amser. Nid oes lle i un Mussolini, boed Eidalwr neu Sais neu Gymro, ar dudalennau'r 'Cymro'.*

*Dilyna'r papur wythnosol hwn yn nhraddodiad canrif y Tŷ a'i cyhoedda. Ceisia gyfoethogi'r cyfraniad a wnaeth y Tŷ ddoe i oes yr iaith Gymraeg a buddiannau gwerin Cymru, drwy feddwl yn onest a llefaru'n groyw heddiw, yn iaith ac yn ôl gofynion oes newydd.*

*Dyletswydd dyn a newyddiadur yw cyhoeddi'r weledigaeth a roddir iddynt. Dyna agwedd 'Y Cymro' ar gwestiwn y Maniffesto: "Ni allwn ni na ddywedom y pethau a welsom ac a glywsom."*

Diddorol yw ysgrif flaen Y Cymro 20 Awst 1938 sy'n LLONGYFARCH Y BLAID ar ei safiad dros Heddwch. Ynddi gwelir y papur yn canmol y Blaid Genedlaethol yn ddiffuant ar ei hegwyddorion gwrth-ryfel a dywed bod ei harweinwyr a chorff ei haelodau 'yn iach yn y ffydd hon'; ychwanega hefyd na 'roddodd [Y Cymro] unrhyw gefnogaeth i'r ensyniadau a wnaed o bryd i bryd o duedd Ffasgaidd ynddi.' Cymharer hyn â'r anghydfod rhwng Y Cymro a'r Blaid ynglŷn â chartwnau J. R. Lloyd Hughes a ymddangosodd ar dudalennau blaen y papur yn ddiweddarach, a'r lle amlwg a roddodd y papur i ysgrif y Parch. Gwilym Davies a alwodd y Blaid 'y Blaid Ffasgaidd yng Nghymru':

*CWBLHEIR yr adroddiad o gynhadledd flynyddol y Blaid Genedlaethol yn Abertawe ar dudalen arall. Bu trafodaeth ar lawer o bethau diddorol, - polisi'r Blaid, ei pharodrwydd i gydweithio â mudiadau eraill ynglŷn â'r ddeiseb genedlaethol i sicrhau safle swyddogol i'r iaith Gymraeg yn y llysoedd a chylchoedd eraill, a'i hymddiriedaeth yn ei harweinwyr. Ond tra'n gwerthfawrogi pob un o'r rhai hyn, y mae un peth y carai'r 'Cymro' longyfarch y Blaid yn arbennig arno, - ei safiad diamwys dros egwyddorion heddwch a chymdogaeth dda.*

*Nu bu i'r 'Cymro' un amser goledd amheuaeth nad oedd arweinwyr - a chorff - y Blaid yn iach yn y ffydd hon, ac ni roddodd unrhyw gefnogaeth i'r ensyniadau a wnaed o bryd i bryd o duedd Ffasgaidd ynddi. Ond da yw cael datganiad clir fel hwn o Abertawe, nad oes i'r Blaid Genedlaethol ran na chyfran mewn rhyfel a grym arfau.*

*Yn hyn o beth y mae'r datblygiad y soniodd Mr. Saunders Lewis amdano fel un naturiol a chyson o'r cychwyn, yn gywir i anianawd a greddf y Cymro. Tangnefeddwr yw, ac hyd y gall y Blaid, a'r 'Cymro' hefyd, ei ddarbwyllo i'r dyfodol, tangnefeddwr hefyd a fydd.*

*Parod ydym i symud ysgwydd wrth ysgwydd â'r Blaid, a phob mudiad heddychol arall, i gadw Cymru'n ferch tangnefedd yn seiat y cenhedloedd.*

Ychydig ddyddiau wedi toriad yr Ail Ryfel Byd mae'r papur yn fwy beirniadol nag erioed o'r Blaid Genedlaethol Gymreig, a'r tro hwn beirniedir yn benodol agwedd y Blaid at y Rhyfel. Dywed Y Cymro ar ei ben nad yw agwedd y Blaid yn cynrychioli agwedd Cymru'n gyffredinol ar y mater, ac yn ôl y papur nid oedd gan arweinwyr y Blaid yr hawl i ddatgan polisi ar ran Cymru 'a wrthodir gan y genedl yn gyffredinol':

Y BLAID A CHYMRU (16 Medi 1939)

> *FEL y mwyafrif o Gymry, yr ydym wedi gwenu wrth glywed a gwrando ar faldordd y Blaid Genedlaethol Gymreig. Y mae'n wir iddi roi ysgol fomio ar dân, gosod dipyn o bosteri yn erbyn gorfodaeth filwrol ar lidiardau a chyhoeddi memorandwm o dro i dro, na chymerid sylw ohono, ar wahanol faterion. Mae ei pholisi gwrth-Seisnig wedi ei anwybyddu gan fwyafrif mawr y bobl Gymreig ac adroddir fod rhif eu haelodau o dan ddeng mil, a chyfran o'r rhain yn aelodau mewn enw ac wedi ymuno yn unig am yr honna ei bod yn Blaid Gymreig, neu i gael gwared â chanfaswyr.*
>
> *Yr ymdrech olaf i ddod i olau dydd yw drwy gyhoeddi datganiad o bolisi i Gymru yn y rhyfel presennol. Dangoswyd hwn i'r sensor, a thynnodd ei bensel las drwyddo.*
>
> *Ein hunig ddiddordeb yn y mater hwn yw ei gwneud yn glir nad yw'r Blaid hunan-benodedig a elwir yn Blaid Genedlaethol Gymreig yn siarad dros Gymru yn y mater yma nac mewn unrhyw fater arall. A haerllugrwydd annioddefol oedd cyhoeddi'r datganiad hwn, a wrthodir gan Gymry teyrngar led-led y byd.*
>
> *Yr ateb symlaf i'r datganiad hwn yw Sieco-Slofacia. Yno, buasai'r meistri pleidiol hyn mewn carchar-wersyll, a'r Cymry'n gludwyr dwfr a chymynwyr coed, heb ryddid i feddwl ac addoli - llawer llai cyhoeddi datganiad.*
>
> *Onibae bod y bobl hyn yn gosod eu hunain i siarad dros Gymru, ni fuasem yn crybwyll y mater. Ond y mae'n ddyletswydd arnom i'w gwneud yn glir nad oes ganddynt hawl i siarad ar ran Cymru, nac i ddatgan polisi i Gymru a wrthodir gan y genedl yn gyffredinol.*

Diddorol iawn yw'r gyfres o ysgrifau blaen a ymddangosodd yn Y Cymro ym 1942 yn cyd-fynd â'r 'ddadl' ar dudalennau blaen y papur ynghylch ysgrif gwrth-Blaid Genedlaethol gan y Parch. Gwilym Davies a ymddangosodd yn Y Traethodydd. Yn y gyntaf o'r ysgrifau isod mae'r Cymro yn estyn gwahoddiad i un ai Saunders Lewis neu'r Athro J. E. Daniel (neu'r ddau!) ateb 'casgliadau' Gwilym Davies gan 'y dylai Cymru wybod ymha le y saif gyda golwg ar y Blaid Genedlaethol Gymreig'; wrth gloi'r ysgrif dywed y dylid gwneud y Blaid 'yn rym mawr i Gymru dros yr holl fyd neu ei hysgubo allan o fod fel elfen ddinistriol a'i gadael i wywo a marw.' Erbyn yr ail ysgrif yr oedd J. E. Daniel wedi ateb a gofidia'r Cymro oherwydd i'r Athro, ym marn y papur, 'luchio baw' at y Parch. Gwilym Davies. Dywed bod 'ar Gymru wir angen Plaid....a all glymu ac uno'r wlad' ond awgryma'r papur yn gryf nad trwy 'losgi ysgolion bomio a mynnu cau allan y Saesneg o'r ysgolion' y mae gwneud hynny, cic fach arall i gyfeiriad y Blaid Genedlaethol.

Yn y drydedd ysgrif awgrymir eto â phwy y mae cydymdeimlad Y Cymro yn y ddadl hon gan ei fod yn 'gofidio' i Saunders Lewis, y tro hwn, ymateb i sylwadau'r Parch. Davies fel y gwnaeth; ynglŷn â 'chyhuddiadau' ac 'amheuon' Saunders Lewis dywed y papur 'na

ddylent fod wedi eu codi o gwbl.' Mae'r ddwy ysgrif olaf yn mynegi barn y papur yn llawer cryfach a gwelir ynddynt bod Y Cymro, nid yn annisgwyl, yn cytuno i raddau helaeth â sylwadau'r Parch. Davies; yn ôl y papur 'ni all gefnogi plaid sy'n 'eithafol wrth-Seisnig....yn wrth-ryfel, ac yn gefnogol i Hitler a De Valera....ac a ddrygodd enw da Cymru':

Y BLAID GENEDLAETHOL (11 Gorffennaf 1942)

*GWNAETH y dadleniad plaen a chyflawn o bolisi'r Blaid Genedlaethol Gymreig, gan y Parch. Gwilym Davies, yn 'Y Traethodydd', rhannau o'r hwn a ddyfynasom yn 'Y Cymro', yn eglur y dylai pob Cymro weld a barnu drosto'i hun wir ystyr gweithrediadau'r Blaid hunan-gyfansoddiadol hon.*

*Yr oeddym ni bob amser o'r farn y gallai'r Blaid Genedlaethol fod o wasanaeth mawr a pharhaol i Gymru, onibai am ei pholisi eithafol, ei dulliau, a'i hamcanion a oedd yn rhwym o gau allan y posibilrwydd o'i chydnabod fel cyfrwng effeithiol i hyrwyddo dyheadau Cymru.*

*Daeth y Parch. Gwilym Davies i bedwar casgliad gyda golwg ar amcanion y Blaid, sef ei bod (a) yn annibynnol, (b) yn dotalitaraidd, (c) yn ffasgaidd, a (d) yn babyddol. Y mae'r tri chasgliad olaf, ar yr wyneb, yn ddamniol i unrhyw wasanaeth y gallai'r Blaid ei roddi i Gymru, ac y mae'r cyntaf, er yn gyfreithlon, yn anobeithiol heb fesur helaeth o undod.*

*Sylweddolwn, wrth gwrs, ei bod yn bosibl y bydd i lawer o aelodau blaenllaw'r Blaid wadu'n bendant fod y tri chasgliad olaf yn wir. Bydd yn ofynnol i rai gweinidogion Ymneilltuol a chlerigwyr, sydd wedi eu dallu gan ddisgleirdeb y seren o Gymru annibynnol, ac sydd yn gwrthod edrych ar oleuadau anwadadwy totalitariaeth, ffasgaeth a phabyddiaeth, barhau i osgoi'r casgliadau hyn neu ymddiswyddo'n gyhoeddus o'r Blaid neu ymddeol o'u bugeiliaethau. Nid oes cloffi rhwng dau feddwl i fod!*

*Fodd bynnag, oblegid inni roi cyhoeddusrwydd i'r hyn a dybiwn sydd yn rhybudd i'r wlad gan y Parch. Gwilym Davies, teimlwn hi'n ddyletswydd arnom agor ein colofnau i un ai Mr. Saunders Lewis, fel sefydlydd y Blaid, neu Mr. J. E. Daniel, yr arweinydd presennol, neu i'r ddau, i roi ateb cyflawn i'r pedwar datganiad a enwyd. Yr unig amod a fynnem ei osod yw na chymer yr atebion hynny fwy o ofod nag a roddwyd i'r Parch. Gwilym Davies yn ein colofnau. Byddwn ni o'n rhan ni, os y derbynnir yr her hon, yn barod i roddi yr un amlygrwydd i'w hateb hwy. P'un bynnag, gan yr edrychid ar hyn yn ateb cyflawn byddai'n derfynol os ei harwyddid gan yr Arweinydd a'r Sefydlydd.*

*Y mae'n glir y dylai Cymru wybod ymha le y saif gyda golwg ar y Blaid Genedlaethol Gymreig, gan fod y dydd yn dod pan fydd yn rhaid ei gwneud yn rym mawr i Gymry dros yr holl fyd neu ei hysgubo allan o fod fel elfen ddinistriol a'i gadael i wywo a marw.*

Y DDADL AR Y BLAID (18 Gorffennaf 1942)

*CYHOEDDWN heddiw ateb yr Athro J. E. Daniel i erthygl y Parch. Gwilym Davies. Gwnawn hynny heb sylwadau beirniadol gan ei bod yn hollol amlwg na ellir barnu'r mater yn derfynol hyd nes yr etyb y Parch. Gwilym Davies. I'r amcan hwn, os y dymuna ei dderbyn, rhoddwn iddo'r un gofod. Y mae'n eglur bod yn rhaid setlo'r mater hwn unwaith ac am byth.*

*Dywedasom yn ein rhifyn diwethaf fod yn rhaid i'r Blaid ddod yn rym yn ein gwlad neu wywo a marw.*

*Nid oes a fynnom, ar y foment, â'r casgliadau a wnaeth y Parch. Gwilym Davies, ond ag ateb yr Athro Daniel. Gan nad beth fo'i diffygion - ac nid yw'r Athro Daniel yn hawlio iddi berffeithrwydd hollol - y mae'r Blaid yn gryf ac yn fywiog, ac yn sicr, yn Gymreig. Ein unig ofid yw ei bod mor eithafol yn ei pholisi a'i gwaith (megis llosgi'r Ysgol Fomio a gweithrediadau eraill), sydd yn ei gosod y tu allan i bosiblrwydd cael unrhyw fesur o undod yng Nghymru ac, yn wir, rhwystra hyn i'r mwyafrif o Gymry ei chefnogi.*

*Gofidiwn y ffaith ddarfod i'r Athro Daniel gyfeirio at ysgrif y Parch. Gwilym Davies, mewn lle arall, fel ysgrif 'slic a hanfodol anonest.' Yn ei ateb yn 'Y Cymro' nid yw'n dweud ond yn awgrymu bod Mr. Davies 'yn un o ysbïwyr y Weinyddiaeth Hysbysrwydd, yn was cyflog i niweidio'r Blaid Genedlaethol.'*

*Nid yw lluchio baw fel hyn yn deilwng o Lywydd y Blaid a ddisgwylia allu gwneud pethau mawr i Gymru. Y mae'n gychwyn gwael, dengys dymer ddrwg, ac y mae tymer ddrwg bob amser yn arwydd o wendid mewn dadl.*

*Gofynnwn felly i'n darllenwyr anwybyddu'r allanolion hyn a dod o hyd i'r gwir. Pan gyhoeddir ateb y Parch. Gwilym Davies, os yn ein barn ni y bydd yn ateb na eilw yn gyfreithlon am eglurhad pellach, bydd y mater wedi ei osod allan yn derfynol.*

*Ni amcanwn wneud dim ond hyrwyddo lles ein gwlad, ei diwylliant, a'i hiaith. Y mae ein agwedd ni at y Blaid Genedlaethol ddoe a heddiw yn eglur. Dibynna beth fydd ein agwedd ni ati yn y dyfodol ar yr hyn a ddaw allan o'r ddadl hon. Y mae ar Gymru wir angen Plaid a gaffo fesur helaeth o gefnogaeth drwy bolisi a all glymu ac uno'r wlad. Bydd amodau'r cyfnod wedi rhyfel, os yw Cymru i gael unrhyw les gwirioneddol yn y ffordd o hunanlywodraeth neu Statws Dominiwn, llywodraeth leol, a blaenoriaeth i'r iaith, yn galw am iddi fod yn barod i gymryd y cyfrifoldeb. Rhaid dysgu a meithrin y parodrwydd hwn hyd oni bo'n rym diymwad ac yn wobr cydweithrediad. Fe ŵyr naw allan o bob deg o Gymry nad cydweithredu yw llosgi ysgolion bomio a mynnu cau allan y Saesneg o'r ysgolion, a gwad hynny hawl y Blaid ei bod yn 'dyheu am gydweithrediad'.*

*Nid ydym drwy hyn yn rhagfarnu canlyniad y ddadl bresennol. Nid ydym ond yn dymuno pwysleisio difodi tymer ddrwg cyn y gellir barnu'r gwirionedd yn deg.*

## Y BLAID (25 Gorffennaf 1942)

*Y MAE'n amlwg fod ysgrif y Parch. Gwilym Davies ar 'Y Blaid' wedi creu cryn gyffro. Daeth ef i bedwar casgliad, sef mai nod y Blaid Genedlaethol Gymreig yw gwneud Cymru yn annibynnol, yn dotalitaraidd, yn Ffasgaidd, ac yn Babyddol.*

*Ni allwn beidio â theimlo o ddarllen y byrlymu geiriau a fu o bencadlys y Blaid Genedlaethol na fuasai'n fwy urddasol ac yn sicr yn fwy effeithiol os yw'r casgliadau y daeth Mr. Davies iddynt yn anghywir, pe cyhoeddasai'r Blaid ddatganiad wedi ei gyd-arwyddo gan ei harweinydd a'i sefydlydd. Gallesid felly, mewn iaith syml ac uniongyrchol, wadu'r casgliadau, a dangos ar ba dir yr oeddynt yn anghywir. Gallesid hefyd adael allan y cyhuddiadau a wneir o anonestrwydd amcan ac felly ymlaen.*

*Fel y mae, nid yw'r hyn a fynegwyd namyn pentyrrau o atebion yn gymysg â baw. Yn anffodus bydd yn rhaid i'r Parch. Gwilym Davies olchi ymaith llawer o hwn cyn y gall ddod i afael â'r gwirionedd. Hyderwn y*

*bydd iddo osgoi'r holl faterion personol a delio â'r gwrthwynebiadau.*

*Gofidiwn weld bod Mr. Saunders Lewis yn dal mai amcan Mr. Gwilym Davies "yw taflu arnaf gymaint o faw ag y gall....; ac o'm dinistrio i fe erys yr anfri ar y Blaid Genedlaethol Gymreig."*

*Ni chredwn ni fod tynged y Blaid yn dibynnu ar daflu baw. Credwn fod Mr. Gwilym Davies yn hollol ddiffuant yn argyhoeddedig o'r farn a fynegodd. Gosododd ei farn gerbron yn y modd mwyaf cwrtais, heb unrhyw falais, a diolch i Dduw, nid aeth heibio yr amser pan all ysgrifennydd a ddeil opiniynau croes i eiddo unrhyw blaid wleidyddol eu datgan yn rhydd os oes ganddo resymau pendant drostynt.*

*Deallwn y bwriada Mr. Gwilym Davies ateb yn 'Y Cymro', Awst 1, ond fe amddifedir ateb arweinydd y Blaid o lawer o'i werth gan y cyhuddiadau a chodi amheuon na ddylent fod wedi eu codi o gwbl.*

*Diau y ceidw'n darllenwyr feddwl agored ar y mater hwn hyd oni bo'r ergydion mawr wedi eu tanio i gyd, a phan fo'r drafodaeth yn hollol rydd o ensyniadau a chyfeiriadau personol, yna gellir edrych yn gyflawn ar y mater - ac yn sicr bydd edrych felly arno. O ganlyniad deuir i benderfyniad ar ba un a yw polisi'r Blaid er lles i Gymru neu onid yw. Os yw er budd Cymru fe'i cefnogwn; os fel arall, fe'i gwrthwynebwn.*

## CYMRU AR Y GROESFFORDD (1 Awst 1942)

*CYHOEDDWN heddiw ateb y Parch. Gwilym Davies i'r Athro J. E. Daniel. Ni wyddom a ddymuna'r Athro Daniel ateb ymhellach. Fodd bynnag, nid ydym yn dymuno mewn unrhyw ffodd amddifadu'r Blaid Genedlaethol o'r cyfle llawnaf posibl i fynegi ei hachos.*

*Nid drwg i gyd i Gymru nac i'r Blaid a fu cyhoeddi casgliadau'r Parch. Gwilym Davies, sydd wedi eu mynegi mewn llawer man o bryd i bryd, a'u trafod yn awr. Er hynny, ni ddylid parhau i groesddweud a llusgo ymlaen ar y llinellau hynny. Oni theimla'r Athro Daniel fod ateb pellach yn angenrheidiol awgrymwn iddo wneuthur datganiad terfynol ar y mater.*

*Y mae'n wir, fel y dywed Mr. R. O. F. Wynne, Garthewin, mewn llythyr yn 'Y Cymro' heddiw, fod holl bolisi'r Blaid wedi ei fynegi mewn gwahanol ffurfiau. Caiff llawer o'r pamffledi hyn ein cefnogaeth wresocaf ond dichon y ceffid goleuni pe gwnâi'r Arweinydd ddatganiad clir ar ba fesurau a gymerai neu a allai'r Blaid eu cymryd i sicrhau bod yn wirioneddol werinol ac felly nad yw'n dotalitaraidd na Ffasgaidd mewn ffaith nac mewn amcan. Os sicrheir hyn yna ni chyfyd y pedwerydd casgliad, ynglŷn â'r Babaeth.*

*Y mae Cymru ar y groesffordd. Dug y rhyfel beryglon mawr yn ogystal â phosibiliadau mawr. Ein gofid ar hyd yr amser yw fod yr agwedd eithafol wrth-Seisnig mewn geiriau a gweithredoedd wedi'n rhwystro rhag ymuno â'r Blaid ac i gydnabod polisi sy'n haeddu cefnogaeth gyflawn pob gwir Gymro ymha le bynnag y bo. Ond ni fyn y rhelyw o'r Cymry, dan unrhyw amgylchiadau, eu cysylltu'u hunain ag unrhyw fudiad nad yw'n sylfaenol werinol, ac yn sicr nid â phlaid sydd drwy ei gweithredoedd wedi ennill yr enw o fod yn wrth-Seisnig, yn wrth-ryfel, ac yn gefnogol i Hitler a De Valera. Cyfeiriodd yr Athro Daniel at 'arwydd anwadadwy o ddymuniad eiddgar y Blaid i gydweithredu â Lloegr.' Cytuna llawer o bobl â'r eiddgarwch ond amheuant y dymuniad.*

## RHAID WRTH SIARTER I GYMRU (15 Awst 1942)

*NI ddarganfuwyd eto yr allwedd i Gymru unedig a hyd nes ceir yr allwedd*

*yma ffolineb a fydd disgwyl unrhyw ddiwygiadau mawr a'n heffeithia fel cenedl. Rhaid i ni ofyn fel cenedl cyn y derbyniwn fel cenedl.*

*Blodeuodd ac edwinodd llawer mudiad yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf heb gyffwrdd gwerin gwlad. O'r rhain, erys yr Urdd a'r Blaid Genedlaethol. Ond gan mai mudiad ieuenctid yw'r Urdd, nid oes a wnelom ag ef ar y funud. Hir y parhao yn ei waith da.*

*I'r Blaid Genedlaethol a'i gwrthwynebwyr rhoddasom ofod gwerthfawr yn y ddadl ddiweddar. A sylwasom, gyda gofid, fel y datblygodd y blaid honno fwy-fwy yn elfen sy'n darnio a rhannu Cymru. Ar ryw ddadl neu gilydd trodd Cymro twym ac amlwg ar ôl Cymro ei gefn arni, ac ymddengys fod ychwaneg ar ddilyn eu hesiampl.*

*Cadwodd y werin draw o'r Blaid hon. Bu'r mwyafrif mawr iawn yn ddifraw neu'n elyniaethus, ac er yr holl sôn am bolisi a fu, fe'i deallwyd gan y wlad - sy'n bur graff - fel rhywbeth gwrth-Seisnig, cul-Gymreig a ddrygodd enw da Cymru ac na fynnent fod yn gysylltiedig ag ef. Gofidiwn ninnau i ormodaeth y Blaid ein rhwystro ninnau i'w chefnogi.*

*Dyna, felly, yw rheithfarn Cymry - y Cymry gwlatgar, gobeithiol, a gâr eu hiaith a'u diwylliant, ond sy'n disgwyl nid yn unig am gadw eu hetifeddiaeth eithr hefyd am weld y ffordd yn cael ei pharatoi i hawlio mesur rhesymol, haeddiannol o hunanlywodraeth yn ein materion mewnol. Felly y tyfwn yn genedl gref ac eang, heb ein rheoli yn ein bywyd cenedlaethol o Whitehall, ond eto â'n cysylltiadau'n cyrraedd dros y ffin.*

*Yn y ddadl ar ffasgaeth a phabyddiaeth y Blaid rhoddasom, fel mater o degwch, i'r ddwy ochr eu lle. Barned y darllenydd drosto'i hun. Ni chymerasom ni at ddull, nac ensyniadau na'r awgrymiadau o anonestrwydd a ddaeth o du'r Blaid. Cadarnhawyd ni yn ein ffydd na all byth wir wasanaethu Cymru, ac oni all newid ei chroen, gwell ei gadael i farw mewn tawelwch.*

*Ond am Gymru - nid digon hyn. Daeth y rhyfel ryddid mawr a chyfle i Gymru. Aeth meibion a merched Cymru i'r frwydr heb siglo gan uno - er na chytunai cenedlaetholwyr na heddychwyr - i ddifa un waith ac am byth ddraig ffasgaeth a thotalitariaeth. Eisoes cydnabuwyd fod hawliau gan genhedloedd bach.*

*Ni ellir diystyru Cymru ychwaith. Ni ellir, ac ni ddymuna'r bobl, ar hyn o bryd, gael Cymru hollol Gymreig. Ond y mae'n rhaid i ni gael y mesur o hunanlywodraeth a wna'r ymdrech honno'n bosibl o fewn terfynau rheswm. Rhaid cael y rheolaeth yna ar ein bywyd diwylliannol - iaith, addysg, iechyd, llywodraeth leol. A threfnu ei diwylliant hefyd fel y gall fyw'n heddychol â Lloegr ac â'r byd, a chadw'i chysylltiadau dros y ffin nad yw'n ffin.*

*Bellach, fe haedda'r genedl hyn. Gan hynny, na thywyllwn gyngor drwy freuddwydio am annibyniaeth ac ymneilltuaeth o'r byd. Gadewch i ni'n hytrach baratoi ar gyfer cyfnod gwell - a ddaw, fe hyderwn, - drwy ffurfio Siarter i Gymru - Siarter y gall Cymro gartref ac oddi cartref uno i'w sylweddoli, Siarter a all sefyll dros ein diwylliant cenedlaethol ynghyd â delfrydau cyd-genedlaethol, Siarter o'n hawliau diymwad y gall y Saeson yn ein plith, hyd yn oed, ei chefnogi, Siarter y gall ein Haelodau Seneddol ddangos eu Cymreictod drwy ei hyrwyddo. Rhywbeth y gall ein gwŷr ieuanc roddi eu hynni o'i hôl a gyda'u gwladgarwch a'u deall ei throsi i sylwedd ymarferol. Ac fe all Cymru heddiw ymfalchïo yng nglendid a gwladgarwch ac athrylith ei phobl ifanc.*

*Ac ar y bobl ifanc hyn y dibynnwn. Ni ddaw'r Siarter o'r pleidiau fel yr adnabyddwn hwy - nac o'r Blaid Genedlaethol ychwaith. Ni ddaw o'r eglwysi na'r cymdeithasau. Ond o allu ymarferol y bobl ifanc, na fynnent y lleuad, ond rhywbeth real i gael eu dannedd ynddo, i weithio*

*drosti'n awr a'i dal yn ddelfryd o flaen y genedl. Fel, pan dderfydd y rhyfel yr ymladdodd Cymry ynddo, y bydd Cymru hithau'n gallu galw'n unol am ei hawliau cyfreithiol a dweud ei bod yn barod i'w chyfrifoldeb ei hun.*

*Credwn y gellir creu Siarter fel hyn. Y mae yna lu o fechgyn a merched ifanc a ddaeth o'n prifysgol na fynnant ormodaeth ar y naill law, na biwrocratiaeth Whitehall ar y llall. Gall y rhain lunio'r Siarter. Credwn eu bod yn ymarferol ac nid yn glustfyddar i ambell gyngor cynorthwygar. Carant ein diwylliant nodweddiadol genedlaethol; sylweddolant fod ochr arall hefyd, sydd bwysicach, os rhywbeth - bywyd economaidd, - problem bara a chaws y gellir ei threfnu yng Nghymru heb ei gwneud yn wrth-Seisnig nac yn wrth-genhedloedd eraill.*

*Nid yn y Blaid Genedlaethol y mae holl athrylith Cymru. Ac y mae'r 'Cymro' yn barod i gefnogi hyd yr eithaf unrhyw gylch o wŷr ifanc brwdfrydig Cymreig a freuddwydia'r breuddwydion a freuddwydiwn oll, ond ar yr un pryd a all gynllunio Siarter i Gymru a fydd yn nod Cymru unedig pan ddaw dydd trefn newydd y cenhedloedd pan fydd y rhyfel hwn ar ben.*

Diddorol iawn yw ysgrif flaen Y Cymro 1 Mehefin 1945, ychydig wythnosau cyn cynnal Etholiad Cyffredinol hanesyddol y flwyddyn honno. Ynddi mae'r papur yn beirniadu'n llym y penderfyniad i gynnal yr etholiad mor fuan wedi diwedd y Rhyfel yn Ewrop ond yr hyn sy'n fwyaf diddorol yw sylwadau'r Cymro ar Winston Churchill: fel Prif Weinidog mewn cyfnod o ryfel mae'n ennyn clod ac edmygedd y papur a dywedir ei fod yn cymryd ei le mewn hanes 'fel un o [arweinwyr rhyfel] mwya'r oesau'; fel arweinydd y Blaid Doriaidd, fodd bynnag, mae'n amlwg iawn nad oes gan y papur unrhyw barch tuag ato:

YR ETHOLIAD

*BUM wythnos yn ôl parhai'r ymladd yn ei ffyrnigrwydd yn Ewrob. Ac ymhen pum wythnos, yn awr, bydd Etholiad Cyffredinol yn y wlad hon, a theimlir bod yr etholiad hwn, a fu mor hir cyn dod, yn dod yn rhy sydyn yn y diwedd.*

*Etholiad a wthiwyd yn gynamserol ar y wlad yw'r un a gynhelir ddechrau Gorffennaf. Ni chafodd y wlad ei gwynt ati wedi'r ymdrech a fu i orchfygu'r Almaen. I'r bechgyn sydd yn y Lluoedd bychan o gyfle yn wir a roddir i glywed pob ochr ac i ddewis eu dyn.*

*Ac y mae bechgyn - a merched - ym mhellafoedd byd a hoffent sefyll fel ymgeiswyr eu hunain ac na allant sut yn y byd gael eu pig i mewn. Y mae rhai ohonynt a ddewiswyd yn ymgeiswyr swyddogol yn methu â chyrraedd y wlad hon mewn pryd i wneud pob cyfiawnder â hwy eu hunain, ac y mae'n bosibl y cwtogir cymaint ar amser ymgyrchu ambell un nes ei orfodi i dynnu'n ôl.*

*Ffolineb yw dweud i'r bobl gael o 1935 ymlaen i ddod i benderfyniad. Y mae yna blant wedi tyfu'n wŷr a gwragedd ers hynny, ac am y pum mlynedd diwethaf ni allai'r pleidiau egluro eu polisi eu hunain yn rymus yn y wlad na'i bropageiddio ymysg y bobl.*

*Fel y tyfodd y Coalisiwn, tyfodd hefyd anwybodaeth gwleidyddol*

*peryglus, yn enwedig felly ym mysg cyfran helaeth o'r rhai ifanc. Nid mewn ychydig wythnosau y mae gwasgaru'r anwybodaeth yna. Anaeddfed iawn a fydd llawer pleidlais a fwrir, a haws fydd twyllo'r etholwyr trwy godi bwganod neu trwy dra-dyrchafu personoliaethau.*

*Gellir disgwyl clywed llawer o sôn am Mr. Winston Churchill o hyn i Orffennaf y pumed.*

*Am ei arweiniad ym mlynyddoedd y rhyfel, pan orffennodd Prydain y daith gostus o Munich i Buchenwald a Berlin, rhoddwn bob clod i Mr. Churchill. Bu'n arweinydd rhyfel mawr a chymer ei le mewn hanes fel un o rai mwya'r oesau - ac fel arweinydd rhyfel olaf Prydain Fawr, fe weddïwn.*

*Ni chollodd mewn maintioli, ychwaith, yn y rhan a gymerodd yn y cynadleddau lle trafodwyd egwyddorion sylfaenol perthynas gwlad a gwlad yn y dyfodol.*

*Ond un peth yw Winston Churchill yr arweinydd rhyfel a goreuon pob plaid at ei alwad yn y Senedd a'r wlad yn uno y tu ôl iddo mewn dyddiau argyfyngus brwydrau mawr.*

*Peth arall yw Mr. Winston Churchill, arweinydd y Blaid Doriaidd. Canys, os cynrychiolai ewyllys Prydain i ennill y dydd ddoe, fe gynrychiola ewyllys y Blaid Doriaidd i ennill y dydd heddiw.*

*Heddiw y mae Churchill a'r Toriaid yn un ac yn anwahanadwy, a chynffon a elwir yn Rhyddfrydwyr Cenedlaethol yn ymdrechu'n galed ac yn bur lwyddiannus i ddilyn yr uned yna hyd - gellir yn hawdd ddychmygu - y gwawrio'r dydd pan ymdodda'r gynffon a'r cwbl i'w gilydd yn un corff siapus Toriaidd.*

*A'r Toriaid hyn yw'r bobl a eilw ddoe yn ôl - ddoe y dôl a'r gweithwyr segur, newynog; ddoe yr ansicrwydd am yfory; ddoe teyrnasiad y brwyn a'r ysgall ar dreftadaeth yr amaethwr, a dydd i symud pob rheolaeth oddi ar ryddid rhaib.*

*Ystyriwn y dyddiau gynt.*

Yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos ddilynol o'r Cymro pwysleisia'r papur bod yn rhaid i'r pleidiau gwleidyddol ddarparu ar gyfer anghenion penodol Cymru wedi'r rhyfel: ynddi beirniedir ymgeisydd o Geidwadwr am wrthwynebu Ysgrifennydd i Gymru tra dywedir bod Herbert Morrison ar ran y Blaid Lafur wedi siarad 'yn decach' ar y mater. Yn ôl Y Cymro, fodd bynnag, maniffesto 'oll-gynhwysfawr' y Rhyddfrydwyr a gynigiai'r mwyaf i'r Cymry am mai hi oedd y blaid oedd 'yn cydnabod dymuniadau pobl Cymru....am fwy o reolaeth ar eu materion cartref'; dyma gadarnhau felly yr hyn a welwyd ar dudalennau blaen y papur, sef ei fod adeg ymgyrch etholiad cyffredinol 1945 wedi cefnogi'r Blaid Ryddfrydol:

DACW GYMRU YN Y GOLWG (8 Mehefin 1945)

*Y MAE tynfa dyn at ei dylwyth. Ac yn awr, wedi i'r gwleidyddwyr fod wrthi yn trafod dyfodol yr hen fyd yma yn ei grynswth, dyfodol Prydain Fawr a'i chymdeithas a'i chyfundrefn economaidd a diwydiannol a'i haddysg a'i hamaethyddiaeth a'i thai a'i gweithwyr - yn awr, gadewch i ni holi am ddyfodol Cymru. Yn y trafodaethau eang i gyd a oes rhyw*

*gornel yn cael ei neilltuo i Gymru?*

*Yng Nghymru ei hun ni bu erioed gymaint o sôn am ddyfodol Cymru ag a fu yn y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd cytundeb ymysg Cymry sy'n meddwl o gwbl ar o leiaf ddau beth.*

*Yn gyntaf, cytunwyd bod gan Gymru ei phroblem economaidd.*

*Yn ail, cytunwyd mai trwy weithredu'n wleidyddol y mae setlo'r broblem yna.*

*Rhoddwn broblem yr iaith a'r broblem ddiwylliadol o'r neilltu am eiliad, ac ystyriwn y ddau bwynt lle cytunir.*

*Collodd Cymru dros 400,000 o'i phobl rhwng y ddau ryfel. Teyrnasodd dirwasgiad o Gaergybi i Gaerdydd; yr oedd cyfartaledd y diwaith ym Môn amaethyddol cyn uched â chyfartaledd rhai o gymoedd duaf Morgannwg, a chyfartaledd y rhain yn llawer uwch na chyfartaledd cymoedd Lloegr. Yr oedd y gwas fferm a'r amaethwr, y chwarelwr a'r glowr yn byw o bryd i bryd, neu'n bodoli'n unig.*

*Aeth y miloedd i Loegr, nid mewn caethgludiad, ond mewn ymchwil am fwyd.*

*Trodd y bobl at y Wladwriaeth am waredigaeth - rhai at y Wladwriaeth "Seisnig", eraill at y syniad o Wladwriaeth "Gymreig"; rhai i alw am beirianwaith Cymreiciach i'r Wladwriaeth bresennol, rhai i alw am eu gwladwriaeth eu hunain.*

*Ymrannodd y genedl Gymreig yn ei gwahanol alwadau; beiodd Cymry ddiffyg undeb eu cydwladwyr. Tueddodd pawb i fynd i'w ffordd ei hun.*

*Ond rhaid gosod y pethau cyntaf yn gyntaf. A'r peth cyntaf a fyn gwerin pob gwlad yw sicrwydd. Ni ellir beio glowyr y De am roi dyfodol y glo o flaen dyfodol Cymru. Rhaid i Gymry fyw, neu ni bydd Cymru fyw.*

*Rhaid cael heddwch cydwladol; rhaid cael sicrwydd cymdeithasol; rhaid cael gwaith; rhaid cael diwydiant ac amaethyddiaeth lewyrchus; rhaid cael addysg rydd a rhad a gwasanaeth iechyd cyflawn; rhaid cael tai i'r bobl - a rhaid cael y pethau hyn YN AWR. Rhaid eu cael HEDDIW. Nid oes gan unrhyw wleidydd cysurus hawl i ofyn i'r werin roi'r pethau hyn o'r neilltu er mwyn rhyw athrawiaethau niwlog y gallesid eu sylweddoli rhyw dro - boed yr athrawiaethau hyn ynghylch hunan lywodraeth neu beth.*

*Ac nid yw dweud mai rhaglenni pleidiau "Seisnig" yw'r rhai sy'n delio â'r hanfodion presennol hyn yn ddim ond malu awyr. Canys, ple mae'r rhaglenni Cymreig ar gyfer y pethau hyn heddiw?*

*A heddiw, heddiw, heddiw, y mae'n rhaid eu sylweddoli. A ffordd wael o garu Cymro neu Sais diymadferth yw mynd ar ôl ein breuddwydion melys ac ansylweddol gan gymryd yn ganiataol bod digon o bobl eraill yn mynd i gymryd y cyfrifoldeb o ddewis Llywodraeth a rydd i bawb, yn cynnwys y breuddwydwyr, bethau y mae'n rhaid iddynt eu cael yn awr. Yn wir, ar raddfa Brydeinig yn unig y gellir fforddio creu heddwch a sicrwydd i bawb o'r anhrefn presennol, ac ar y raddfa yna y crëir hyn rataf a chyflymaf i Gymru ei hun.*

*Ond rhaid i Gymru ei hun gael rhan a llais yn yr ad-drefnu, a chael llais pur gryf yn ei materion cartref ei hun os ydym i dderbyn ein cyfran deg o unrhyw bethau gwell a ddaw.*

*O fewn ychydig oriau i'w gilydd ddiwedd yr wythnos daeth llais o dair plaid i sôn am Gymru.*

*Dywedodd ymgeisydd Ceidwadol mewn etholaeth Gymreig y gwrthwynebai Ysgrifennydd i Gymru am na wnâi ddim ond ychwanegu at swyddogaeth Whitehall. Geiriau rhyfedd gan ŵr sy'n swyddog yn Lloegr ei hun wrth ei alwedigaeth.*

*Siaradodd Mr. Herbert Morrison yn decach tros y Llafurwyr yn Llandudno. Credai na weinyddid Cymru'n well gan Ysgrifennydd ond y dylai pob adran o'r Llywodraeth gael rhan Gymreig ddeallus ac y dylai Cymro fod yn y Cabinet bob amser. A daw rhai o ymgeiswyr ifanc ei blaid*

*allan gyda pholisi Cymreig cryf.*

*Ond daeth y Rhyddfrydwyr fel plaid â maniffesto swyddogol ugain pwynt allan gan nodi'n glir ynddo ei bod yn cydnabod dymuniadau pobl Cymru a Scotland am fwy o reolaeth ar eu materion cartref nag sydd ganddynt (ac y mae gan Scotland Ysgrifennydd eisoes). A delia'r maniffesto yn ychwanegol â phob un o gwestiynau'r dydd sy'n poeni pob Cymro, Sais, a Sgotyn. Y mae'n oll-gynhwysfawr.*

*Y Rhyddfrydwyr yn y gorffennol a wnaeth fwyaf i Gymru a Chymro a wnaeth fwyaf i Ryddfrydiaeth. A llawenhawn bod hen blaid fawr sy'n atgyfodi yn troi ei chalon at Gymru unwaith yn rhagor - Cymru lle y mae ei chyfartaledd o Ryddfrydwyr yn uwch nag yn yr un o'r ddwy wlad arall.*

Teitl ysgrif flaen Y Cymro 29 Mehefin 1945, sef y rhifyn olaf o'r papur cyn dyddiad yr etholiad cyffredinol, oedd Y GYMYSGEDD GYMREIG, yn cyfeirio at yr amrywiaeth o 'deitlau' a roddai'r gwahanol ymgeiswyr etholiadol arnynt eu hunain; yn ôl y papur nid oedd unrhyw ddaioni mewn 'ymrannu'n fân bleidiau' fel hyn. O ran safbwynt gwleidyddol yr ysgrif, gwelir y papur yn ddychanol iawn o'r Blaid Doriaidd nad oedd ag ymgeiswyr yn un o bob tair o seddi Cymru; mae'r ysgrif yn cloi trwy atgoffa'r darllenwyr mewn ffordd gynnil i bwy, ym marn Y Cymro, y dylent bleidleisio ddydd Iau:

*Y MAE'R byddinoedd yn barod i'r frwydr a'r ymladdwyr yn barod. Am 36 o seddau Cymru y mae 89 o ymgeiswyr, a phob sedd ond un - sedd Mr. Will John yng Ngorllewin y Rhondda, - yn cael ei hymladd. Ac y mae amrywiaeth mawr yn yr ymgeiswyr hyn.*

*Fe ddiflana un blaid wleidyddol o'r maes Cymreig - y Llafurwyr Cenedlaethol. Nid yw eu un Aelod Cymreig - Capt. Syr E. N. Bennett - yn sefyll eto tros ei blaid yng nghanolbarth Caerdydd.*

*Ond y mae'r blaid Lafur yn ymladd y seddau Cymreig i gyd ond dwy - sedd Maldwyn a sedd Prifysgol Cymru. Yn y ddwy etholaeth hon y mae'r Llafurwyr yn ymrestru y tu ôl i'r ddau aelod Rhyddfrydol penigamp presennol - Mr. Clement Davies ym Maldwyn, a'r Athro W. J. Gruffydd ym Mhrifysgol Cymru.*

*Fe ymladda'r Rhyddfrydwyr 19 o seddau Cymreig ac mewn dwy o'r rhain - yn Wrecsam a Dinbych - y mae Rhyddfrydwr Cenedlaethol hefyd yn y maes.*

*Unwaith eto y mae Mr. Harry Pollitt, y Comiwnydd, yn ymladd am sedd Dwyrain Rhondda, a daeth "Sosialydd Annibynnol" i'r maes ym Merthyr - Mr. S. Jennings.*

*Y mae cymysgfa amryliw o gefnogwyr y Llywodraeth yn ymladd y seddau Cymreig i gyd ond - deuddeg! Un o bob tair o seddau Cymru heb yr un cefnogydd swyddogol i'r Llywodraeth Doriaidd yn mentro dod i'r maes ynddynt. Dyna'r deyrnged uchaf a dalodd y Toriaid i Gymru eto; a dyna gydnabod yn glir mai yng Nghymru, o ddigon, y mae Toriaeth wannaf a'r ysbryd radicalaidd gryfaf.*

*Rhestrwn y deuddeg sedd - Merthyr, Dwyrain a Gorllewin y Rhondda, Môn, Aberteifi, Caerfyrddin, sir Gaernarfon, Castell Nedd, Pontypŵl, Maldwyn, Penfro (fel "Rhyddfrydwr" yr enwyd Major Gwilym Lloyd George), a Phrifysgol Cymru.*

*Ond os yw nifer cefnogwyr y Llywodraeth yn brin, nid yw'r gwahanol*

*enwau a roddant arnynt eu hunain yn brin o gwbl. Ceir pedwar ar ddeg yn galw eu hunain yn blaen ac yn hen-ffasiwn yn "Geidwadwyr". Ond geilw Lt.-Col. Nigel Birch ei hun yn sir Fflint yn "Geidwadwr Cenedlaethol".*

*Yna, y mae pedwar arall yn galw eu hunain yn syml yn "Cenedlaethol".*

*Ychwaneger pum Rhyddfrydwr Cenedlaethol - a dyna'r gymysgedd yn barod.*

*Ac yna, y mae gan hyd yn oed y Blaid Genedlaethol eu cymysgedd bach, bach. Ar y funud olaf daeth Mr. J. R. Hayes-Jones, o'r Lluoedd, i ymladd am sedd Wrecsam fel "Cymro Annibynnol", a dywed y Blaid Genedlaethol (Gymreig) eu bod hwy o'r tu ôl iddo ef.*

*Ac ymladda'r Blaid Genedlaethol Gymreig eu hunain saith sedd, ac am ryw reswm ymddengys mai'r seddau a ymladdant ffyrnicaf yw'r rheini lle mae'r ymgeiswyr Cymreiciaf o'r pleidiau cynyddol yn ymladd yn eu herbyn.*

*O ganol y tryblith yma rhaid i Gymru ddewis, ac wrth i'r etholwr cyffredin ystyried y rhai sydd o'i flaen bydd yn help iddo wneud ei feddwl i fyny os cofia mai pwrpas Etholiad Cyffredinol yw dewis Llywodraeth i ofalu am ei fuddiannau ef a buddiannau Prydain Fawr am y pum mlynedd nesaf.*

*Nid yw ymrannu'n fân bleidiau yn mynd i ddod â sicrwydd na gwaith na thŷ na llewyrch i'r unigolyn yng Nghymru ac nid yw'n mynd i ddod â dim i Gymru ei hun ychwaith. Gwaeth na hyn, mae'r ymrannu yn tynnu'r bleidlais gynyddol effeithiol i lawr ac yn agor y drws i'r adwaith lithro yn ôl.*

*I'r graddau y gall ddylanwadu ar y pleidiau cynyddol mawr, ac i'r graddau hynny yn unig y gall Cymru gael rhywbeth iddi ei hun yn y blynyddoedd nesaf yma; fe ddylai hynny fod yn glir i bawb ystyriol. Sut arall y daw?*

*Polisi ac nid personoliaethau na bwganod sy'n bwysig yn awr. Nid trwy godi'r bwgan "Coch", neu fwgan y mân-gynilion neu unrhyw fwgan arall, boed ddyn boed ddiafol, yr helpir gwerin y wlad hon i sicrhau ei dyfodol, fel y rhybuddiodd Lady Bonham Carter ar y radio wythnos yn ôl.*

*I'r etholwr rhoddwn un cyngor - pleidleisiwch, a phleidleisiwch yn ddiragfarn.*

*Ac atgofiwn Gymru o'i thraddodiad rhyddfrydig, radicalaidd gwych yn y gorffennol. Fe brofwyd y traddodiad hwnnw ac ni chafwyd mohono'n brin. A yw llafur y tadau i'w ddadwneud heddiw? Mawr yw ein cyfrifoldeb ddydd Iau nesaf. Dros ein plant y pleidleisiwn.*

Diddorol eithriadol yw ysgrif flaen rhifyn 3 Awst 1945 o'r Cymro, yn dilyn DYFARNIAD Y BOBL yn yr etholiad cyffredinol hanesyddol a welodd y Blaid Lafur mewn modd trawiadol iawn yn dod i rym. Ynddi gwelir y papur, fel y buasid yn disgwyl, yn llawenhau bod y wlad wedi 'llwyr ymwrthod' â'r Blaid Geidwadol, yn gofidio 'i'r Blaid Ryddfrydol fynd gyda'r lli', ac yn dawel fodlon oherwydd pleidlais hynod isel ymgeiswyr y Blaid Genedlaethol Gymreig. Ynglŷn â'r Llywodraeth Lafur newydd, a ddaeth i rym gyda chanlyniad 'hollol annisgwyl' yng ngeiriau'r Cymro, dywed nad yw'n ofni 'Llywodraeth Sosialaidd gyntaf Prydain Fawr', ac y rhydd bob cefnogaeth iddi cyn belled ag y byddai'n 'ymafael â'r problemau mawr a wyneba'r wlad':

*PAN ddatguddiwyd y pethau cudd ddydd Iau gwelwyd bod y weriniaeth fawr hon wedi ysgubo tua'r chwith ac wedi pleidio Llafur. Yr oedd y dyfarniad yn un perffaith glir, a mwyafrif dros bob plaid arall gan Lafur.*

*Golyga hyn fod y genedl wedi llwyr ymwrthod â'r Blaid Geidwadol a dra-arglwyddiaethodd arni am chwarter canrif, er gwaethaf y ffaith i'r arweinydd rhyfel mawr, Mr. Winston Churchill, ddod yn ben arni ac yn arweinydd iddi, i suddo neu nofio gyda hi.*

*Dengys y canlyniad hollol annisgwyl i'r genedl gymryd ei thynged ei hun i'w llaw ei hun, torri ymaith oddi wrth y gorffennol mewn dull digamsyniol iawn, a chreu safle hollol newydd ar un ergyd. Etholwyd Llywodraeth Lafur ac fe rydd 'Y Cymro' bob cefnogaeth a ellir ei roddi iddi tra bydd yn ymafael â'r problemau mawr a wyneba'r wlad.*

*Y mae llawer o ddrygau y mae'n rhaid eu hysgubo ymaith. Ac wedi ei chyfnerthu gan y ffaith mai ewyllys y bobl a'i rhoddodd mewn grym, nid oes yr amheuaeth leiaf mai er budd y genedl ac nid er budd unrhyw ddosbarth y gweithreda Llafur.*

*Er bod mwyafrif gan Lafur yn y Senedd, eto ychydig dan ddeuddeng miliwn a bleidleisiodd i Lafur ac ychydig dros ddeuddeng miliwn i'r pleidiau eraill. Ni ddylai hyn fod heb ei ddylanwad ar y Llywodraeth pan ystyriant y prif gyfnewidiadau a gysylltir â pholisi Sosialaidd.*

*Trodd y wlad yn ddiofn i'r chwith yn y gobaith yr eir i'r afael â phroblemau mawr y dydd mewn ysbryd cynyddol a diofn. Mae'r cyfle'n un mawr; mae'r dasg hefyd yn fawr, gartref ac oddi cartref; ac y mae'n rhaid i ddynion o ewyllys da helpu hyd eithaf eu cydwybod. Ac fe wnânt hynny.*

*Y mae pethau i ofidio o'u plegid hefyd. Bu Mr. Churchill yn arweinydd rhyfel a Phrif Weinidog mawr. Ond fel arweinydd y Ceidwadwyr hefyd ni allai hawlio ffydd y genedl yn y safle newydd a gododd o'r rhyfel ei hun.*

*Gofidiwn hefyd i'r Blaid Ryddfrydol fynd gyda'r lli. Torrodd etholiad cwpon Mr. Lloyd George wedi'r rhyfel diwethaf asgwrn cefn y blaid ac yn y blynyddoedd rhwng rhyfeloedd fe'i malwyd yn fân rhwng meini melin Ceidwadaeth a Sosialaeth. Ond y mae'r ysbryd Rhyddfrydig yn rhywbeth anfarwol a gall ei fflam fod eto'n oleuni yn y genedl.*

*Cafodd Llafur sedd am bob 30,000, y Ceidwadwyr sedd am bob 46,000, a'r Rhyddfrydwyr am bob 207,000 a bleidleisiodd iddynt. Ond boed hynny fel y bo, dangosodd y genedl ei hewyllys.*

*Nid oes ar 'Y Cymro' ofn Llywodraeth Sosialaidd gyntaf Prydain Fawr. Y mae ei haelodau yn wŷr o gymeriad ac o brofiad helaeth mewn swydd; a golyga cyfrifoldeb ofal. Dangosodd y wlad ei ffydd mewn Llafur; ni erys ond i Lywodraeth Lafur ennill yr un ffydd.*

*Mae'r safle yng Nghymru yr un mor glir. Cynrychiolir Cymru gan 25 Llafurwr a chwe Rhyddfrydwr - cynrychiolaeth gynyddol o 31 yn erbyn tri Cheidwadwr a dau Ryddfrydwr Cenedlaethol (a chynnwys Major Lloyd-George).*

*Ni phleidleisiodd y saith Cenedlaetholwr Cymreig ddim ond rhyw 15,000 allan o rhyw 275,000 posibl. Dengys hyn nad yw eu polisi hwy yn un o gwestiynau'r dydd yng Nghymru.*

*Dibynna'r gydnabyddiaeth a sicrha Cymru fel cenedl ar y 25 Aelod Llafur ac ar y pwysau a roddant hwy fel plaid unedig Cymreig ynghyd â'r chwe Rhyddfrydwr a'r gweddill bychan ar y Llywodraeth.*

*Bu Cymru bob amser ar flaen cad pob cynnydd ac fe sicrha'r unoliaeth Gymreig yn yr etholiad hwn well chwarae teg i Gymru nag a gafodd wedi'r etholiad diwethaf.*

Yn ysgrif flaen yr wythnos ddilynol gwelir y papur yn

ymfalchïo fod cymaint o Gymry â swyddi mor amlwg yn y Llywodraeth newydd; ym marn Y Cymro hwn oedd 'cyfle euraid Cymru' i gael y tegwch y bu'r wlad yn disgwyl cyhyd ac mor eiddgar amdano:

CYMRY WRTH Y LLYW (10 Awst 1945)

*Y MAE Cymry yn y blaen yn Senedd Prydain Fawr a bron i un o bob tri o gynrychiolaeth Lafur Cymru wedi cael lle yng ngweinyddiaeth newydd Mr. Attlee.*

*Y mae Mr. Aneurin Bevan, y Gweinidog Iechyd, a Mr. G. H. Hall, Ysgrifennydd y Trefedigaethau, yn aelodau o'r Cabinet; y mae Mr. James Griffiths, y Gweinidog Yswiriant Cenedlaethol, a Mr. E. J. Williams, y Gweinidog Hysbysrwydd, yn Weinidogion a safle Gweinidogion y Cabinet ganddynt; ac ymysg y Gweinidogion Ieuengaf y mae Mr. Arthur Jenkins yn Ysgrifennydd Seneddol y Weinyddiaeth Addysg, yr Athro H. A. Marquand yn Ysgrifennydd Adran Masnach Dramor y Bwrdd Masnach, a Mr. Arthur Pearson yn Drefnydd y Tŷ Brenhinol.*

*Ni bu erioed cymaint o Gymry cyn uched mewn unrhyw Weinyddiaeth o'r blaen.*

*Yr oedd disgwyl cyffredinol y rhoddid cyfle i Mr. Aneurin Bevan athrylithgar ddewis ei fetel ac y cydnabyddid yn hael gydwybodolrwydd dyfal a medrus Mr. James Griffiths - y Cymro cywiraf o'r cwbl, mae'n debyg. Ac eisoes prentisiwyd Mr. G. H. Hall i'w swydd newydd.*

*Bellach y mae gan Gymry lais yn y Llywodraeth ei hun. Dylai hynny olygu bod gan Gymru lais yn y Llywodraeth. Disgwyliwn yn hyderus.*

*Aeth arweinyddiaeth y Blaid Ryddfrydol Seneddol hefyd i Gymro - i Mr. Clement Davies. Erbyn hyn Cymry yw mwyafrif Aelodau Seneddol y blaid hon.*

*Dyma gyfle euraid Cymru. Rhwng y rhain i gyd nid oes reswm paham na ddylai Cymru, bellach, gael chwarae teg a phaham na ellir trefnu ei bywyd diwydiannol nes rhoddi o leiaf cystal bywoliaeth i Gymro yng Nghymru ag a roddir i Sais yn Lloegr.*

*Mewn addysg, amaethyddiaeth, iechyd a llywodraeth leol hefyd y mae gan Gymru ei phroblemau ei hun. Y mae pobl a ŵyr am y problemau hynny wrth y llyw. Mordaith deg iddynt, ac i Gymru gyda hwy.*

# *Y Frenhiniaeth*

Dengys y bennod flaenorol mor gefnogol oedd Y Cymro i'r Frenhiniaeth: yn union fel trigolion Cymru yn gyffredinol yr oedd y papur yn llawenhau â brwdfrydedd mawr ar adegau o ddathlu Brenhinol megis Jiwbilî y Brenin Siôr V ym 1935, ac yr oedd yn galaru unrhyw byd yr oedd marwolaeth Frenhinol. Wrth dalu teyrnged hael a chynnes i'r diweddar Frenin SIÔR V yn ysgrif flaen Y Cymro 25 Ionawr 1936, ychydig fisoedd wedi dathlu ei Jiwbilî, yn dilyn ei farwolaeth yn gynharach yn yr wythnos honno, try'r papur ei olygon at y Brenin newydd, Edward VIII; mae'r frawddeg glo yn un eironig os bu un erioed:

*HEB wahaniaeth plaid, dosbarth, na gwlad, una teyrnas, a'r byd, mewn teyrnged o barch i goffa'r diweddar Frenin Siôr V, a fu farw ar ôl pedwar niwrnod o waeledd blin.*

*Yn ystod cyfnod ei deyrnasiad, un o'r rhai mwyaf dyrys mewn hanes, fe welwyd y naill wlad ar ôl y llall yn rhoddi'r gorau i'r Frenhiniaeth. Ond ar derfyn brenhiniaeth Siôr V y mae gorsedd Prydain Fawr yn gadarnach nag oedd hyd yn oed ar ei dechrau. Ymroddodd y Brenin ei hun i'w waith a chyflawnodd ei ddyletswyddau gydag anrhydedd a doethineb. Cafodd gyfle yn ystod y Rhyfel Mawr i ddod yn agos at ei bobl, a manteisiodd ar y cyfle hwnnw.*

*Bu gwahanol Lywodraethau yn rheoli'r wlad yn ystod ei deyrnasiad - Rhyddfrydol, Ceidwadol a Llafur. Edmygwyd doethineb a gallu'r Brenin gan arweinwyr ac aelodau cyffredin y tair plaid. Nid ofnai ddatgan ei farn yn groyw, eithr fe'i caed bob amser yn deyrngar i benderfyniadau ei gynghorwyr gwleidyddol.*

*Siôr V oedd y ddolen gydiol gref rhwng gwahanol aelodau'r Ymerodraeth Brydeinig â'i gilydd. Ystyriai ei hun - fel y dywedodd ar Ddydd Nadolig y llynedd - yn dad y teulu mawr, a'i bwrpas pennaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd cadw ysbryd y teulu'n fyw ym mywyd yr Ymerodraeth.*

*Ni chafodd gyfle i ymweled â gwledydd tramor yn ystod ei frenhiniaeth, eithr mawr oedd parch pob gwlad tuag ato a pha mor chwerw bynnag oedd ymosodiadau'r gwledydd tramor ar Brydain a'i pholisi, ni ymosodwyd ar y Brenin na'i deulu. Gwyddai hyd yn oed gelynion Prydain fod Siôr V yn rhydd oddi wrth gynllwynion gwleidyddol ac y mae'r deyrnged a dalwyd iddo'r dyddiau diwethaf hyn yn brawf o edmygedd y gwledydd o'r dyn a fu'n Frenin Prydain am chwarter canrif.*

*"Gwasanaethodd ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd." Credwn mai tystiolaeth hanes fydd i Siôr V wasanaethu ei genhedlaeth ei hun mewn modd arbennig iawn ac y byddai sefyllfa Prydain, ac, yn wir, y byd i gyd, yn llawer gwaeth nag y mae oni bai am ei wasanaeth cywir a gonest yn ystod ei frenhiniaeth.*

*Bu'r Frenhines yn gynhorthwy mawr iddo gyda'i ddyletswyddau pwysig ac amrywiol a chydymdeimlir yn fawr â hi yn ei phrofedigaeth lem.*

*Yn awr y mae'r un a anwylodd ei hun i drigolion Prydain fel Tywysog Cymru ar yr orsedd. Ni fydd ei lwybr yn esmwyth, eithr credwn iddo ddod i gyffyrddiad digon agos â bywyd y bobl gyffredin i'w gymhwyso ei hun i'w waith a'i ddyletswyddau pwysig. Bydd yn chwith gan Gymru golli ei Thywysog, ond hyderwn y bydd iddo gadw at ei arferiad o ymweled â'r Dywysogaeth yn aml. Fe ddaeth yr Orsedd gryn dipyn yn nes at y werin yn ystod y chwarter canrif diwethaf. A dyna gyfrinach ei chadernid. Credwn*

*fod y Brenin Iorwerth VIII eisoes wedi sylweddoli hyn, ac nid yw'n debyg y bydd i'r wlad gael ei siomi ynddo.*

Ochr yn ochr â'r ysgrif flaen hon cyhoeddwyd cyfieithiad Percy Ogwen Jones o gerdd gan John Masefield i Sior V:

***Teyrnged Bardd y Brenin***

*HWN ydoedd Brenin Prydain dan ei chur.*
*Yn nwfn anobaith blwyddi'r rhyfel du*
*Ei ddewrder ef a godai galon llu.*
*Ei ysbryd sicr brofai'r Brenin gwir.*

*Pan ddarfu'r heldrin, a dod ar ei hôl*
*I feddwl dynion fwriad chwyldro certh,*
*Addfwyn a thyner ydoedd yn ei nerth,*
*Chwalodd, neu swyno, bob rhyw fwgwth ffôl.*

*O'n llu brenhinoedd ni, ni phrofodd un*
*Anoddach gyfnod i orseddau byd,*
*Na chael y gorau fel gwnaeth ef ar ffawd.*
*Brenhinol fu, brenhinol oedd o hyd,*
*Meddyliai beunydd am y gwan a'r tlawd,*
*Orau, addfwynaf, a hoffusaf ddyn.*

*JOHN MASEFIELD.*
*(Cyf. P.O.J.).*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 21 Tachwedd 1936, yn dilyn ymweliad y Brenin â rhai o ardaloedd mwyaf dirwasgedig De Cymru, telir teyrnged iddo am ei gydymdeimlad â'r diwaith a chydnabu'r papur bod chwyldro, er mawr welliant, wedi bod ym mherthynas y Frenhiniaeth â'r bobl gyffredin. Unwaith eto mae'r ysgrif yn cloi ar nodyn eironig, o ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn fuan wedyn:

NEGES Y BRENIN

*YMWELODD y Brenin â Deheudir Cymru a gwelodd drosto'i hun y cyni sydd ymhlith ei bobl; gwelodd fwy, gwelodd yr ysbryd dewr sy'n herio caledi, ac arwyddion o'r gobaith na ddiffoddodd yn Ardaloedd y Cysgodion. Y gobaith hwnnw, efallai, yw un o golofnau cadarnaf y teyrngarwch dwfn sy'n ffynnu ymysg dynion y buasai eu dyheadau a'u delfrydau yn cael eu hystyried yn berygl i'r wladwriaeth mewn gwlad lai gwerinol.*

*Diamau mai dirgelwch y teyrngarwch hwn yw ffydd ddiysgog gweithwyr, mai ar hyd llwybr cyfansoddiadol y mae'r unig ymwared, ynghyd â sicrwydd fod y Brenin yn bersonol yn cydymdeimlo â'i bobl ac yn deall eu hanghenion. "Yr wyf yn cydymdeimlo â chwi", meddai wrth ddyn oedd wedi bod allan o waith am saith mlynedd, ac nid oes a amau hynny.*

*Yn sicr, un o chwyldroadau mawr hanes Prydain yw'r newid a fu ym mherthynas ei Theyrn â'r bobl, ac nid yw'r chwyldro hwn ddim llai am ei fod yn un tawel. O bell yn unig y gwelai'r Frenhines Victoria bobl*

*gyffredin ei theyrnas, a thybiai mai gweithred nodedig iawn oedd "i law teyrn gyffwrdd llaw arw milwr cyffredin am y tro cyntaf", pan roddes y V.C. i un o arwyr rhyfel y Crimea. Dyna oedd eithafbwynt ei gweriniaeth hi. Gyda'i frodyr coronog oddi cartref yr oedd holl ymwneud ei mab Edward, ac yr oedd arno ef, fel ei fam, ofn yn ei galon i'w Senedd fynd yn rhy bell gyda diwygiadau cymdeithasol. Fe amlygodd George ysbryd ehangach yn ei ymwneud â gwladweinwyr gwerinol, a meithrinodd gyfathrach agos â'r gweithwyr ymhlith ei ddeiliaid.*

*Yn Nowlais yr wythnos hon y gwnaeth ei fab Edward ddatganiad syml sy'n dangos ei dreiddgarwch fel un a gymer ddiddordeb dwfn yn ei bywyd diwylliannol yn ogystal â'i gwleidyddiaeth, canys fel pen ei gwleidyddiaeth mewn ystyr amhleidiol yr edrychir ar y Brenin. "Denwyd y bobl yma i'r ardal gan y gweithfeydd," meddai, "ac yn sicr, fe ddylid gwneud rhywbeth i roddi gwaith iddynt."*

*Yn y sylw syml hwn y mae'r Brenin yn cyhoeddi cyfrifoldeb diwydiant am gyflwr y gweithwyr, ac na ellir cefnu ar y dynion a'u teuluoedd a ddenwyd i'r "gweithie" er i olwynion masnach arafu a pheri i gyfalaf gymryd ei adenydd ac ehedeg ymaith i fannau mwy elwgar, gan daflu dynion wrth y miloedd ar domen anghyflogaeth.*

*I groesawu'r Brenin lluniwyd bwa o gennin mewn un lle, a bwa o lampau glowyr mewn lle arall. Yr oedd y naill a'r llall yn symbol o gyfraniad pobl y Deheudir i gymdeithas, cyfraniad y rhai sy'n trin y tir ac yn codi cnydau ohono i'n porthi, a chyfraniad y rhai sy'n turio i'r dyfnderau i gloddio glo i gyfoethogi cymdeithas.*

*Ni haerai neb y gall ymweliad y Brenin ynddo'i hun leddfu'r cyni. Gwaith y gwladweinwyr a'r diwydianwyr, ie, gwaith cenedl yw hynny. Os bydd yr ymweliad yn symbyliad i ddeffro'n gwladweinwyr ac ennyn yr ysbryd y gofynnai Mr. Malcolm Stewart amdano, yna nid ofer fydd tro'r Brenin i'r De.*

Ond yn anffodus fodd bynnag, ofer fu tro'r Brenin i'r De, oblegid ychydig ddyddiau'n ddiweddarach daeth pobl i wybod am fwriad syfrdanol y Brenin Edward VIII i briodi Mrs. Simpson gan olygu yr ymddiorseddai a gwneud lle i'w frawd iau, Siôr VI. Yn ysgrif flaen Y Cymro 12 Rhagfyr 1936 gwelir y papur yn edmygu'r Brenin am ei onestrwydd ac am ei gryfder yn gwneud penderfyniad, mor ddisigl, a oedd yn anorfod am achosi ton o sioc trwy'r byd i gyd:

Y BRENIN

*O'I wirfodd y mae Brenin a enillodd serch ei ddeiliaid a chodi gobeithion uchel y byddai ei deyrnasiad yn bennod aur ar ddalennau hanes ei wlad wedi cefnu ar ei Orsedd ac ymwadu â'r Goron yn hytrach na newid ei fwriad i briodi merch nad ystyriai ei gynghorwyr yn addas i fod yn wraig Brenin Prydain.*

*Bu'r dyddiau diwethaf yn ddyddiau o bryder mawr i'r cynghorwyr hynny, canys gorffwysai arnynt hwy gyfrifoldeb am urddas gorsedd, cadernid y cyfansoddiad gwladol, a gweithredu'n unol â barn y wlad a'i thiriogaethau dros y môr. Bu iddynt amlygu synnwyr a chymedroldeb mewn cyfwng dyrys. Profir hynny gan ddatganiad croyw Mr. Baldwin am y teimladau da a'r cyfeillgarwch sy'n aros rhyngddo a'r Brenin, yr hyn*

*sy'n deyrnged i'r teyrn yn ogystal ag i ddoethineb a phwyll ei gynghorwyr.*

*Yn yr anawsterau a gododd dangosodd y Brenin Edward ei fod yn ŵr o benderfyniad cryf, a dewisodd gefnu ar yr Orsedd yn hytrach na chefnu ar ei fwriad. Temtasiwn, er mwyn gorsedd, a fuasai i wannach cymeriad ddewis bywyd deublyg a bodloni'r confensiynau, ond ni fynnai'r Brenin hynny. Bu'n gwbl agored ac onest, gan lynu wrth ei fwriad a chydnabod uwchafiaeth Llywodraeth Seneddol fel gwarchodydd hawliau a thraddodiadau gwlad yn ogystal ag urddas yr Orsedd ei hun.*

*Ni pherthyn i ni ddyfalu pa beth a ddigwyddasai pe gwrthodasai'r Brenin ymwadu â'r Orsedd. Ni chododd y cyfwng hwnnw. Ond geilw'r safle eto am ddoethineb a phwyll, er mwyn unoliaeth gwlad a'r sefydlogrwydd a gysylltir â brenhiniaeth gyfyngedig fel symbol o'r unoliaeth hwnnw.*

*Dangosodd y cyfwng hwn fod cydsyniad gwlad, drwy ei Llywodraeth etholedig, cyn bwysiced elfen yn y frenhiniaeth ag egwyddor etifeddiaeth. Dyna nodwedd brenhiniaeth gyfyngedig, a dyna gyfrinach diogelwch yr Orsedd ym Mhrydain. Cydnabyddir a chysonir y ddwy egwyddor yn ymwadiad y Brenin Edward yn ffafr ei frawd, Duc Efrog.*

*Nid yw Duc Efrog a'i briod heb eu diddordeb arbennig yng Nghymru a'i phobl. Perthynant i Orsedd y Beirdd, a phan groesawyd hwy yn Eisteddfod Abertawe diolchodd y Dduces yn Gymraeg. I'w merch hynaf hwy y rhoddes gweithwyr Cymru y Bwthyn Bach To Gwellt yn anrheg, ac y mae hwnnw yn awr ym Mharc Windsor. Ysgotiaid yw rhieni'r Dduces, a rhed gwaed y Celt yn ei gwythiennau, a naturiol yw fod ganddi gryn ddiddordeb mewn pethau Cymreig.*

*Cilia un Brenin a daw Brenin arall i'w le, yn dawel a digynnwrf. Byr fu teyrnasiad Edward VIII, y teyrnasiad byrraf ers pedwar cant a hanner o flynyddoedd, ond yn ystod y tymor byr hwnnw dangosodd yn eglur gymaint o newid a fu mewn hanner canrif ym mherthynas bersonol y Teyrn â'i bobl. Y berthynas agosach hon yw un o golofnau cadarnaf teyrngarwch gwerin i'r Orsedd.*

*Hyder gwlad bellach yw y bydd i bob problem a all godi gael ei datrys yn yr un ysbryd ag a amlygwyd yn nyddiau anodd y cyfwng. Cilia Brenin ond erys Brenin yn faen clo ar adeilad gwerthfawr ein cyfansoddiad.*

Dangoswyd mor gefnogol oedd Y Cymro i'r Frenhiniaeth yn ysgrif flaen y papur o 17 Gorffennaf 1937, yn dilyn ymweliad y Brenin a'r Frenhines â Chymru. Yn yr ysgrif hon telir teyrnged i gymeriad 'tawel....teimladwy a byw i argraffiadau' Siôr VI, gŵr tra gwahanol ei gymeriad i sawl Brenin a deyrnasodd o'i flaen ef ond gŵr serch hynny sy'n amlwg yn ennyn parch mwyaf Y Cymro. Ond mae'r ysgrif yn fwy trawiadol oherwydd y modd absoliwt, dros-ben-llestri bron iawn, y mynega'r papur yn y chweched paragraff agwedd y wlad at yr Orsedd:

## CYMRU A'R ORSEDD

*CYN y darllenir y rhifyn hwn o'r CYMRO bydd ymweliad y Brenin Siôr VI a'r Frenhines Elisabeth â Chymru drosodd. Ni ddaeth y ddwy dywysoges fach gyda hwy ar y daith hon, er y carai plant De a Gogledd Cymru eu*

*gweld, y mae'n siŵr. Ond y mae straen ymweliadau fel hyn yn fawr, yn enwedig ar blant bach.*

*Gall y llafurwr ddod i ben â gwaith caled dros oriau maith heb flino yn anghyffredin; caiff ei amser ato, ac nid oes llygaid yn ei wylio bob munud. Yr ymdeimlad bod eraill yn gwylio ar bob gair ac ysgogiad o'n heiddo a wna waith ysgafn ynddo'i hun yn llafurus; torf â'u llygaid wedi eu hoelio arnynt a esyd straen ar areithiwr a phregethwr a brenin.*

*Nid yw ei Fawrhydi yn rhy gryf, a gwelir arwyddion ei fod yn ddyn teimladwy hefyd. Diau y teimla ef bwys yr ymweliadau swyddogol hyn yma ac acw sydd yn rhan o'i fywyd beunyddiol; rhaid siarad â hwn, ysgwyd llaw â 'nacw, agor hyn a gosod arall, a dweud gair pwrpasol i bob achlysur. Yn wir, ni charem newid lle â'r brenin.*

*Daeth ef a'i briod i Gymru gyda dymuniadau serchog y mwyafrif mawr ohonom. Yn wir, nid oes gan y Cenedlaetholwyr mwyaf tanbaid, ar eu gair hwy eu hunain, gweryl â'r brenin fel person o gwbl. Gwrthodasant uno yn y croeso iddo fel protest yn erbyn agwedd y Llywodraeth at Gymru.*

*Os cywir ein syniad bod ei Fawrhydi yn ddyn teimladwy a byw i argraffiadau, diau y teimla wresogrwydd croeso Cymru iddo ar hyd y daith o Dde i'r Gogledd. Hyderwn y bu'n galondid iddo, fel gŵr ieuanc 41 oed a alwyd i'r cyfrifoldeb trymaf ar wyneb daear heddiw.*

*Ceisiodd Y CYMRO cyn hyn esbonio agwedd cyfangorff Cymru at yr Orsedd. Parcha Cymru hi, a'i charu hefyd yn onest, onid yn angerddol, fel symbol o undeb y wlad a'r ymerodraeth; fel sylfaen heddwch cartrefol a threfniadaeth sefydlog; fel colofn ein bywyd gwleidyddol a chymdeithasol. Ysgrifennodd gohebydd cyfeillgar beth amser yn ôl, - y mae inni nifer o'r rhai caredig, diolch am hynny, yn ogystal â'r "critics sychion", chwedl y Parchedig Rhys Lewis, Salem, Arfon, gynt - yn diolch inni am y pwyslais hwn ar agwedd y Cymro at yr Orsedd. "Rhyw dro arall", meddai, "o bosibl y dangoswch ragoriaeth brenhiniaeth gyfansoddiadol ar y ffurfiau eraill o lywodraeth a welir heddiw yn Ewrob, a thrwy'r byd. Pwysleisiwch yr elfennau hynny mewn brenhiniaeth a'i gwna yn allu mwy dylanwadol er daioni na'r hyn a geir drwy arweinwyr gwerinlywodraethau Ewrob."*

*Ni chaniata ein gofod inni athronyddu'r pwnc, ond cyfartaledd bychan iawn, ni gredwn, a fai'n barod i dderbyn un o arweinwyr gwledydd eraill y byd, beth bynnag am eu doniau, yn gyfnewid am y gŵr tawel a ymwelodd â ni yr wythnos hon.*

*Eiddunwn i'r Brenin a'r Frenhines hir oes a heddwch i ymweled â Chymru lawer tro eto.*

# *Is-etholiad Sedd Prifysgol Cymru 1943*

Dangosodd Y Cymro ei 'ochr' yn y ffordd gryfaf bosibl adeg yr is-etholiad am sedd Prifysgol Cymru ym 1943, nid yn unig drwy roi'r gefnogaeth lwyraf i'r Athro W. J. Gruffydd a'i ganmol i'r entrychion ond hefyd drwy gyhoeddi nifer o bethau gwrth-Saunders Lewis; gadawyd darllenwyr y papur felly â darlun perffaith bron o'r Athro Gruffydd ond â darlun pur anghanmoliaethus o Saunders Lewis. Yn wyneb hyn oll, prin bod angen dweud bod ysgrifau blaen Y Cymro yn dilyn yr un patrwm yn union; cyhoeddwyd y gyntaf ohonynt yn rhifyn 5 Rhagfyr 1942 wedi i'r Athro W. J. Gruffydd gyhoeddi'n bendant ei fod yn sefyll am y sedd:

SEDD PRIFYSGOL CYMRU

*DUG y sedd wag yng nghynrychiolaeth Prifysgol Cymru yn y Senedd lu o enwau ymgeiswyr. Bellach y mae'r awyr wedi clirio beth. Sedd Gymreig yw hon yn bendifaddau a hyderwn na wneir camgymeriad drwy ethol rhywun nad yw mewn gwirionedd yn cynrychioli Cymru.*

*Yr ydym yn falch o ddeall bod yr Athro W. J. Gruffydd yn bwriadu sefyll amdani mewn etholiad. Os y saif "W.J." dros unpeth saif dros Gymru, ac er y gallwn ragweld amser pan fyn yr etholaethau drwy Gymru gyfan i ddynion o gymeriad sydd yn Gymry mewn gair a gweithred gael eu hethol, y mae i'r sedd hon le arbennig ym materion Cymru, yn enwedig mewn addysg.*

*Nid oes werth yn awr mewn tocyn plaid - fe ddichon y bydd iddo lai o werth yn y dyfodol. Y gwir yw bod gan "W.J." olwg eang ar bethau'n gyffredinol ac yn arbennig ar anghenion a dyheadau Cymru. Ynddo ef caem yn Nhŷ'r Cyffredin bersonoliaeth a ddenai'r Aelodau Cymreig fel eu gŵr blaen ac aelod yn yr hwn yr ymfalchïai Prifysgol Cymru, a gŵr yr edrychai'r genedl i fyny ato yn hyderus y byddai iddo ddiogelu'r pethau a garwn ddyfnaf ac a bwysai am hawliau priodol a chyfreithlon yn y datblygu a fydd dan amodau byd wedi rhyfel.*

*Ymleddir y rhyfel hwn dros hawliau cenhedloedd bychain. Nid yw'r genedl fach hon wedi arbed dim i hyrwyddo'r ymdrech rhyfel.*

*Pwyswn ar i'r holl ymgeiswyr am y sedd beidio ystyried yr etholiad o'u hagwedd bersonol neu bleidiol, ond i edrych arni fel sedd i'r hon na all yr un lithro oherwydd rhannu pleidleisiau.*

Mae ysgrif flaen yr wythnos ganlynol yn nodi'n gwbl bendant pa ymgeisydd sy'n ennyn gwrthwynebiad Y Cymro a pha un sy'n derbyn ei gefnogaeth:

ETHOLIAD Y BRIFYSGOL (12 Rhagfyr 1942)

*ER ein bod yn gwrthwynebu'n hollol ymgeisiaeth Mr. Saunders Lewis ac yn cefnogi ymgeisiaeth yr Athro W. J. Gruffydd yn etholiad Seneddol Prifysgol Cymru, dymunwn wneud yn hollol glir fod ein colofnau cyffredinol yn agored i unrhyw ddatganiad gan Mr. Saunders Lewis neu ryw gynrychiolydd swyddogol cydnabyddedig o'r Blaid Genedlaethol*

*Gymreig.*

*Y mae gan aelodau o'r Blaid a'i harweinwyr lawn cymaint o hawl i'w daliadau â neb arall, ond ni ellir disgwyl, ac ofer yw disgwyl, i ni gyhoeddi llythyrau oddi wrth aelodau cyffredin unrhyw blaid drefnedig. Y mae'n gofod yn brin, p'run bynnag, ond ni ddaeth ein gweriniaeth eto i'r sefyllfa honno pan na chaniata unrhyw bapur newydd o safon i ymgeisydd etholiad Seneddol fynegi ei farn.*

*Gan hynny fe sicrhawn Mr. Saunders Lewis os y dymuna wneuthur unrhyw ddatganiad o'i ddaliadau gwleidyddol a'i ymgeisiaeth fe roddwn gyhoeddusrwydd iddo yn 'Y Cymro'. Rhaid inni, fodd bynnag, gadw'n hawl i ateb, os y gwelwn hynny'n angenrheidiol, unrhyw bwynt yn yr un rhifyn.*

Mae'r is-etholiad yn derbyn sylw ysgrif flaen <u>Y Cymro</u> yr wythnos ganlynol eto a'r tro hwn mae'r papur yn mynegi'i farn yn fwy mileinig. Ar y cyfan, y Blaid Genedlaethol Gymreig yn hytrach na Saunders Lewis yn bersonol sy'n dod dan lach yr ysgrif hon; yn y paragraff olaf, fodd bynnag, er nad enwir Saunders Lewis, mae'n gwbl amlwg at bwy y cyfeiria'r papur:

<u>ETHOLIAD Y BRIFYSGOL</u> (19 Rhagfyr 1942)

*Y MAE'R diwrnod i enwi'n swyddogol ymgeiswyr ar gyfer etholiad cynrychiolydd yn y Senedd dros Brifysgol Cymru yn nesáu. Hyd yn hyn dau sydd wedi datgan yn swyddogol eu bwriad i sefyll yr etholiad, sef yr Athro W. J. Gruffydd, fel ymgeisydd Rhyddfrydol Annibynnol, a Mr. Saunders Lewis.*

*A barnu oddi wrth yr hyn a gyhoeddir yn y Wasg y mae'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn dyheu ac yn gweddïo am i ychwaneg na'r ddau hyn sefyll yr etholiad dros y peth yma a'r peth arall. Eithr hawdd yw gweld yn glir beth sydd wrth wraidd y dyheadau a'r gobeithion hyn. Y gwir yw y gwna unrhyw ffon y tro fel cyfle i ymgeisydd y Blaid ennill y Sedd.*

*Dymuniad dyfnaf pob Cymro diffuant yw na bydd i'r bleidlais ar du cynnydd gael ei rhannu modd y ceir ymgeisiaeth deg rhwng dau i fynegi'n eglur yr hyn y saif y sedd hon a gynrychiola galon Cymru drosto.*

*Gan hynny yr ydym yn apelio at unrhyw Gymro sydd yn rhoddi ystyriaeth i'r mater o gymryd ei enwi fel ymgeisydd am y sedd hon gadw buddiannau gorau Cymru yn flaenaf peth. Byddai i'r cyfryw Gymry ganiatáu i'w henwau fynd ymlaen beri brwydr dair a phedair onglog. Dylai'r Cymry hynny roi o'r neilltu unrhyw ddyheadau neu hawliau personol a gadael y maes yn hollol i frwydr unionsyth.*

*Nid oes ar Gymru eisiau yr un Parnell i'w chynrychioli drwy bleidlais lleiafrif yn y Senedd yr hon y mae pob Cymro oddi eithr y Cenedlaetholwyr yn ei pharchu.*

*Yr ydym yn sefyll ar fin datblygiadau mawr yn y wlad hon. Profodd cenedlaetholdeb cul eithafol bob amser yn felltith i unrhyw wlad, a chan fod hwnnw'n codi ei ben yn bur uchel ymhlith rhai cefnogwyr brwdfrydig, hyderwn y dysgir gwers bendant i beth felly yn yr etholiad hon am sedd Prifysgol Cymru.*

Ceir ysgrif flaen arall sy'n wrthwynebus i'r Blaid Genedlaethol Gymreig yn <u>Y Cymro</u> 23 Ionawr 1943, ychydig ddyddiau

cyn yr etholiad, ond y tro hwn mae agwedd y papur yn llawer mwy ymarferol, ac yn hytrach na'i fod fel yn yr ysgrif uchod yn gwrthwynebu'r Blaid yn gwbl ddigyfaddawd, mae yn yr ysgrif hon yn cynnig cynghorion ymarferol i'r Blaid ar sut i fod yn fwy poblogaidd ac yn dweud y gallai 'wneuthur cyfraniad gwerthfawr a helaeth' i Gymru petai'n peidio bod mor eithafol o or-genedlaethol a gwrth-Seisnig a pheidio bod mor hunangyfiawn ei hagwedd. Yn ôl Y Cymro, yr oedd y Blaid Genedlaethol Gymreig fel yr oedd hi yn ei ffurf bresennol mewn **PERYGL O RANNU CYMRU**:

*Y MAE popeth yn awr yn barod ar gyfer ethol cynrychiolydd dros Brifysgol Cymru i'r Senedd. Er bod pump o ymgeiswyr teimlir yn gyffredinol mai rhwng yr Athro W. J. Gruffydd, a saif fel Rhyddfrydwr rhydd ac annibynnol, a Mr. Saunders Lewis, y sefydlydd a'r gŵr a enwyd gan y Blaid Genedlaethol Gymreig, y bydd y frwydr. Ni allwn ond gobeithio y sylweddola'r pleidleisiwyr yn yr etholaeth freintiedig hon eu cyfrifoldeb ac o leiaf y gweithredant ar eu hawl fel na ddychwelir yr un ymgeisydd ar bleidlais y lleiafrif.*

*Saif un peth yn amlwg yn yr etholiad hwn, sef bod yr ymgeiswyr wedi ymgadw'n llwyr rhag bod yn bersonol ac yn chwerw tuag at ei gilydd yn eu hymgeisiaeth. Er hynny, y mae peth wmbredd o chwerwedd wedi ei gynhyrchu, ond mentrwn ddatgan y gobaith beth bynnag fydd canlyniad yr etholiad yr anghofir yn llwyr bob chwerwedd ac y daw allan ohono ysbryd unol drwy Gymru gyfan na amddifedir mohoni o'i hawliau cyfreithlon fel cenedl.*

*Yr ydym i gyd yn gobeithio nad yw'r amser ymhell iawn pan ddaw cyfle i'r ynys hon wynebu problemau o fawr bwys i'r bobl. Y mae'r problemau hyn yn fwy ac yn bwysicach fyth yn enwedig i genedl a chanddi ei hiaith a'i diwylliant ei hun er gwaethaf pwysau'r dylif Seisnig sy'n bygwth ein goresgyn gyda phob cenhedlaeth.*

*Hyderwn felly y bydd i'r etholaeth am yr unig sedd yng Nghymru y gellir yn wir ei galw yn sedd Gymreig, weithredu ei braint o bleidleisio ac yr etholir y cynrychiolydd gyda mwyafrif clir.*

*Er bod y problemau y gelwir ar Gymru i'w hwynebu yn fawr y mae'r cyfle yr un mor fawr o'i gydio yn y modd priodol.*

*Daliwn ni bob amser y gallai'r Blaid Genedlaethol Gymreig wneuthur cyfraniad gwerthfawr a helaeth petai heb fod mor wrth-Seisnig a phetai'n peidio hawlio'r hyn nad yw cyfangorff y genedl yn ei ofyn amdano.*

*Bydd mesur helaeth o hunan-reolaeth yn hanfodol i Gymru wedi'r rhyfel. Pe lluniasai'r Blaid Genedlaethol raglen â'r hon y gellid cymryd mantais llawn o hyn fe enillai gefnogaeth ddiamheuol. Ond y gwir yn anffodus yw y mae ei haelodau wedi cynhyrchu'r teimlad mai hwy a'u harweinwyr sydd yn gywir bob tro a bod pawb nad yw'n cytuno â hwy yn anghywir.*

*Nid dyna weriniaeth, ac ni all daioni parhaus ddod ohono, ac oni cheir rhaglen barhaol ac ymarferol a ennill gymeradwyaeth y mwyafrif mawr o Gymry i ymrwymo iddi y mae'n amhosibl gweld Cymru yn ennill ei hawliau fesur darn.*

*Oni allai'r Blaid Genedlaethol wneud Cymru'n un; ynteu a ranna hi Gymru drwy fagu chwerwedd a chyffro ymhlith y rhengau yr edrych hi atynt? A yw'n rhy ddiweddar i arweinwyr y Blaid sylweddoli mai rhwygo Cymru a wnânt drwy ddal at eu gor-genedlaetholdeb yn hytrach na cheisio*

*gwneud Cymru'n un ar lwybr cynnydd democrataidd rhesymol?*

*Hap a damwain yw'r etholiad hwn. Yn yr ail-drefnu wedi'r rhyfel y bydd brwydr fawr Cymru. A fwriada'r blaid a'i geilw'i hun yn genedlaethol aros yn yr anialwch yn hytrach na dod i'r porfeydd gwelltog am allu unol y gall ymddiried ynddo a chyda pholisi y gall gyfrannu iddo yn lle ubain am y lloer sydd ar fachlud o hyd?*

*Bydd cyfnewidiadau mawr yn sicr yng ngwlad ein tadau a garwn yn llawn mor eiddgar â'r Cenedlaetholwyr. A fyn y Blaid Genedlaethol rwygo Cymru a'r cyfle i'w chyfanu wrth y drws?*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 6 Chwefror 1943 wedi i'r Athro W. J. Gruffydd ennill yr etholiad, mae'r papur yn naturiol yn llawenhau yn ei fuddugoliaeth ond yr hyn sy'n fwyaf diddorol unwaith eto yw agwedd Y Cymro at y Blaid Genedlaethol. Yn yr ysgrif hon hefyd ceir llu o gyfeiriadau gwrth-Blaid Genedlaethol, a gwrth-genedlaetholdeb yn ystyr gul y gair, ond yn y paragraff olaf gwelir bod y papur unwaith eto, fel yn yr ysgrif flaen uchod, yn dyheu ar i'r Blaid wneud cyfraniad allweddol i fywyd gwleidyddol Cymru, a hynny trwy beidio â bod yn Blaid o gwbl (rhywbeth a fyddai wrth fodd Y Cymro) ond trwy 'ei hail-sefydlu fel cymdeithas wleidyddol ddi-blaid, i fod yn lefain Cymreig nerthol ym mhob plaid':

WEDI'R ETHOLIAD

*TRWY ethol yr Athro W. J. Gruffydd i'w cynrychioli yn y Senedd, gyda mwy o'i blaid nag oedd dros y pedwar gŵr arall gyda'i gilydd, y mae etholwyr Prifysgol Cymru wedi dangos yr un peth ag a ddangoswyd eisoes fwy nag unwaith gan etholwyr sir Gaernarfon, sef bod Cymru'n glynu fel erioed wrth y pleidiau Prydeinig sylfaenol ac yn credu fel erioed mai anfon gwŷr grymus i Senedd Prydain Fawr ydyw ei braint a'i chyfle.*

*Y maent wedi dangos eu bod yn barnu na ellir gwneuthur enaid Cymru'n fater plaid, ond bod Cymru'n wlad i bawb, - i wreng a bonedd, uchel ac isel, hen ac ieuanc, ffyddiog a di-ffydd - ac os oes gan Gymru ei brwydrau ei hun i'w brwydro, y dylid eu hymladd gan Gymry o bob gradd a chyflwr a phlaid. Y maent wedi dangos eu barn bod "Cymro" yn well gair ac yn well ffaith na "chenedlaetholwr".*

*Cymro da a etholwyd i gynrychioli Prifysgol Cymru: gŵr sy'n gweled y gall fynegi Cymru'n gywir a gweithio drosti'n rhydd fel aelod o'r Blaid Ryddfrydol. Y mae i'r agwedd hon ei thraddodiad cryf, a gall yr Athro W. J. Gruffydd deimlo cysgodion cewri Cymreig wrth ei gefn. Yn wir, bydd Mr. Lloyd George ac eraill wrth ei ochr. Y mae gan Blaid Llafur ei Chymry nerthol hefyd - Mr. Robert Richards o'r Gogledd, a gwŷr fel Mr. James Griffiths o'r De. Ysywaeth, nid oes dim un Cymro o'r iawn ryw ymhlith y Ceidwadwyr. Wrth gadw gyda'i gilydd yn fintai frwd fe all y Cymry hyn sefyll yn Sant Steffan fel gwir gynrychiolwyr gwlad - dynion o wahanol gredo gwleidyddol ond â chymeriad Cymru ynddynt oll.*

*Nid am Gymru yn unig y bydd ganddynt rywbeth i'w ddywedyd. Nid am Gymru yn unig y mynnem iddynt feddwl, eithr am yr holl faterion mawr sydd o bwys i'r deyrnas, i'r ymerodraeth, ac i'r byd. Felly y ceidw*

*Cymru ei henaid dan gywair. Yn wir, teimlwn mai un ffordd sy gan genedl, fel sy gan ddyn, i gadw ei henaid; un ffordd - ei golli. A'r gwaith sy gerbron yr Aelodau Cymreig yn y Senedd heddiw ydyw uno annibyniaeth Cymru â'i rhan yn llywodraeth Prydain Fawr a'r Ymerodraeth, modd y gallo gadw ei thŷ ei hun ac ar yr un pryd gadw yn agored y porth ehangaf i'w hegnïon a'i dylanwad.*

*O ran trefn llywodraethu, dyma'r delfryd sy'n ymffurfio - Cymru'n Dywysogaeth, gydag amryw barthau llywodraeth o'i mewn, a Gweinyddiaeth Materion Cymreig yn llywodraeth Prydain Fawr. O dan Weinidog Cymru, fe ddeuai amryw adrannau Cymreig, megis Addysg, Amaethyddiaeth ac Iechyd. Tuag at hyn y mae'r Aelodau Cymreig eisoes yn cynllunio, ac y mae'r Mesur newydd bron yn barod ganddynt.*

*Cael undeb a chydgordio yn ein plith yn hunain ydyw'r angen mawr. Ni allwn weled bod neb ond aelodau'r Blaid Genedlaethol yn tynnu'n groes. "Brodyr, er pob bâr, ydym; tost na baem hefyd gytûn." Wedi tuag ugain mlynedd o ymgais, oni all y Blaid Genedlaethol yn awr ei hailsefydlu fel cymdeithas wleidyddol ddi-blaid, i fod yn lefain Cymreig nerthol ym mhob plaid? Credwn y câi gefnogaeth helaeth ac y gallai wneuthur gwaith gwerthfawr yn y blynyddoedd sydd ar ddyfod.*

*Dirwest*

Dro ar ôl tro mae'r astudiaeth hon wedi dangos cymaint y newidiodd agweddau a safbwyntiau ein cymdeithas at wahanol bynciau yn ystod y blynyddoedd; un o'r pynciau y gwelwyd y newid mwyaf sylfaenol yn agwedd y gymdeithas tuag ato yw pwnc diodydd meddwol. Erbyn heddiw yr ydym fel Cymry, er gwell neu er gwaeth, i raddau helaeth iawn wedi dod i dderbyn alcohol, serch y ffaith ei fod yn gyffur sy'n lladd miloedd o bobl yn uniongyrchol bob blwyddyn ac yn achosi problemau diddiwedd i filiynau o bobl eraill ar hyd a lled cymdeithas. Mae'r ffaith bod Cymru i gyd bellach yn 'wlyb' ar y Sul, gan ddadwneud Deddf Cau Tafarnau ar y Sul yng Nghymru 1881, yn un enghraifft o'r modd y newidiodd agwedd y gymdeithas Gymreig tuag at yfed diodydd meddwol; enghraifft arall yw'r ffaith bod hyd yn oed yr Eisteddfod Genedlaethol bellach yn caniatáu diodydd meddwol ym maes ieuenctid swyddogol yr ŵyl.

Yn ôl yng nghyfnod Y Cymro cynnar, fodd bynnag, yr oedd agwedd y gymdeithas yn wahanol iawn, gyda llawer o bobl Cymru yn wrthwynebus iawn i ddiodydd meddwol mewn unrhyw ffurf. Yr oedd yna lawer iawn o Gymry'r oes, wrth reswm, a oedd yn yfed cwrw, gwirodydd ac ati, boed hynny yn y tafarnau neu yn rhywle arall, ond y pwynt sylfaenol yw bod llawer iawn o Gymry nad oeddynt yn yfed diodydd meddwol am eu bod o'r farn bod diodydd o'r fath yn ddim byd ond gwenwyn corfforol a meddyliol. Enillodd y mudiad Dirwest, sef y syniad o ymgadw'n llwyr rhag diodydd meddwol, dir mawr yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny i raddau helaeth iawn yn dilyn ei boblogrwydd mawr yn yr Unol Daleithiau a Lloegr; yr oedd effaith y mudiad hwn i gael dylanwad mawr am genedlaethau yng Nghymru ac yr oedd yn parhau mewn bri i raddau helaeth pan sefydlwyd Y Cymro ym 1932.

Yr oedd Y Cymro yn bapur a hoffai feddwl ei fod yn sefyll dros werthoedd uchaf y gymdeithas ac nid yw'n syndod felly ei fod yn bapur a oedd yn gefnogwr cryf i'r syniad o Ddirwest. Yr oedd Rowland Thomas yn ddirwestwr selog, 'a specially fervent abstainer' yn ôl Robbie Thomas yn The Advertizer Family, ac yr oedd hynny hefyd heb amheuaeth yn ddylanwad trwm ar bolisi'r papur. Gwelir safiad Y Cymro am y tro cyntaf yn ysgrif flaen rhifyn 13 Hydref 1934:

## DIRWEST

*YMHLITH y materion pwysig y bu trafodaeth arnynt yn y Cymanfaoedd Dirwest yn ddiweddar yr oedd y cwestiwn o gael Mesur Dirwest arbennig i Gymru, ac fe roddwyd mwy o sylw nag arfer iddo yng Nghymanfa Lleyn ac Eifionydd.*

*Dywedwyd yno fod yr Aelodau Seneddol Cymreig o'r farn nad oedd gobaith i'r Mesur basio drwy'r Senedd yn ystod tymor y Llywodraeth bresennol, eithr dadleuai rhai o'r cynyrychiolwyr y gellid disgwyl mwy oddi ar law y Llywodraeth hon nag a ellid ei ddisgwyl gan unrhyw Lywodraeth.*

*Byddai'n well gennym ni fabwysiadu awgrym y Parch. G. Roberts Jones, a chodi'r mater hwn uwchlaw plaid. Wedi'r cwbl, nid agwedd bersonol Aelodau Seneddol sy'n gyfrifol am basio a gwrthod deddfau, eithr barn gyhoeddus y wlad.*

*Unwaith y sylweddola unrhyw Lywodraeth bod barn gyhoeddus y wlad o blaid cynllun neilltuol, buan iawn y gwelir y Llywodraeth honno'n ffurfio deddf i gydymffurfio ag agwedd meddwl y wlad.*

*Pe gellid creu barn gyhoeddus gref yng Nghymru o blaid Mesur Dirwest newydd, buan iawn y gwelid y Mesur hwnnw ar ddeddflyfrau'r wlad.*

*Eithr a ydyw Cymru'n barod i dderbyn Mesur fel yr un a luniwyd yn ddiweddar?*

*Prif adran y Mesur hwnnw yw'r un sy'n sefydlu cynllun o Ddewisiad Lleol i Gymru, ac y mae llawer sy'n gymaint dirwestwyr â neb yn gwrthwynebu'r dull yna o greu llwyr ymwrthodwyr.*

*Y mae llawer o lysoedd eglwysig Cymru'n gwrthod gwneud llwyr ymwrthodiad yn amod swyddogaeth yn yr eglwysi. Ni ystyrrir unrhyw ginio cyhoeddus yng Nghymru yn gyflawn heb ei win a'i wirodydd.*

*Cyn y gellir disgwyl i unrhyw Senedd roddi Mesur Dirwest i Gymru, y mae llawer iawn i'w wneud gartref.*

*Gwaith ein Cymanfaoedd Dirwest yw creu barn gyhoeddus ar y mater yn ôl yr awgrym a wnaed yng Nghymanfa Dirwest Lleyn ac Eifionydd.*

*Y mae llawer i'w wneud yn yr ysgolion, eithr cyn y gellir disgwyl i'r plant dderbyn bendith oddi wrth y gwersi, y mae'n rhaid i'r athrawon fod yn frwdfrydig o blaid y wers.*

*Y mae pawb yn cytuno ar gwestiwn y clybiau, a dylid trafod y pwnc hwn ar ei ben ei hun. Dyma un o felltithion mwyaf yr oes. Gwelir nifer y clybiau'n cynyddu'r naill flwyddyn ar ôl y llall. Nid oes gan yr heddlu hawl i gadw golwg arnynt, a gall yr aelodau ffurfio eu rheolau eu hunain. Pan lwyddir i gau tafarn ddiangenrhaid fe gyfyd clwb yn ei lle, yr hyn a wnaiff y sefyllfa'n ganmil gwaeth.*

*Awgrymwn bod pleidwyr dirwest yn defnyddio eu holl egni i gael cyfnewidiad yn y ddeddf ynglŷn â'r clybiau, ac yna yn gweithio'n galed i greu'r fath farn gyhoeddus o blaid Mesur Dirwest fel ag y byddai'n rhaid i ba Lywodraeth bynnag a fyddai mewn awdurdod basio'r Mesur ar unwaith.*

Diddorol iawn yw ysgrif flaen Y Cymro 12 Hydref 1935 lle dywed y papur ei fod, fel llawer o bapurau Cymraeg eraill, wedi colli 'ugeiniau o bunnau' trwy wrthod derbyn hysbysebion gan y bragwyr. I bapur megis Y Cymro a oedd mewn cryn drafferthion ariannol ar y pryd yr oedd gwrthod cyhoeddi unrhyw hysbyseb yn benderfyniad anodd; mae'r ffaith ei fod wedi gwrthod cynnwys

hysbysebion gan y bragwyr ar dudalennau'r papur yn dangos cryfder ei safiad yn erbyn diodydd meddwol:

SOBRWYDD

*Y MAE problem dirwest wedi newid yn gyfangwbl yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf ac y mae'n dda fod pleidwyr dirwest yn dechrau sylweddoli hyn. Nid yw'r gwaith ar ben, yn wir, bydd y gwaith yn y dyfodol yr un mor galed ac yr un mor bwysig, eithr os yw pleidwyr dirwest am sylweddoli eu hamcanion bydd yn rhaid iddynt uno i ymladd y Fasnach mewn dulliau hollol wahanol i'r rhai a gefnogwyd o'r blaen.*

*Gall cyfraith wneud llawer i sobri'r wlad, ond y mae'n amheus gennym a ellir disgwyl cyfnewidiad mawr yn y gyfraith yn ystod y deng mlynedd nesaf. Y mae cyfraith Prydain yn awr yn bendant o blaid cymedroldeb, ac y mae ynddi ddarpariadau lawer y byddai'n dda i ddirwestwyr Cymru eu hystyried a manteisio arnynt.*

*Er nad yw'r gobeithluoedd, a wnaeth gymaint o waith dirwestol flynyddoedd yn ôl, yn llwyddo i ennyn diddordeb y plant, fe roddir addysg ddirwestol mewn llawer o ysgolion dyddiol. Dichon fod yr athrawon â mwy o ddylanwad ganddynt ar y plant nag sydd gan arweinwyr y gobeithluoedd a da fyddai i'r dirwestwyr geisio sicrhau fod addysg ddirwestol, ar linellau'r cynllun a ffurfiwyd gan y Bwrdd Addysg, yn cael ei gyfrannu'n rheolaidd ym mhob ysgol ddyddiol drwy'r wlad.*

*Y mae'r bragwyr yn llwyddo i ennill sylw trwy eu hysbysiadau trawiadol. Fe welir yr hysbysiadau hyn ar furiau ein trefi a'n pentrefi. Fe welir hwynt ar dudalennau y rhan fwyaf o lawer o newyddiaduron y wlad. Collodd 'Y Cymro', fel amryw eraill o'r papurau Cymraeg, ugeiniau o bunnau trwy wrthod derbyn hysbysiadau'r bragwyr. Ni chafodd y pleser o dderbyn yr un hysbysiad o eiddo dirwestwyr. Buddiol fyddai i ddirwestwyr Cymru uno â'i gilydd a threfnu ymgyrch hysbysebu gyda'r amcan o ddileu effeithiau honiadau'r bragwyr.*

*Cynllun rhagorol yw'r un i sefydlu "Tafarndai Llefrith" ar hyd a lled y wlad. Y mae'r rhai a sefydlwyd eisoes wedi profi'n llwyddiant diamheuol. Onid yw'r cynllun hwn yn rhoddi cyfle i ddirwestwyr Cymru ddangos eu sêl o blaid yr achos? Creadur sychedig yw dyn, ond nid oherwydd eu bod yn caru cwrw a diodydd meddwol eraill y mae'r mwyafrif mawr yn mynychu'r dafarn. Yno, ceir sirioldeb ar bob llaw; yno, y mae ystafelloedd cysurus; ni raid i neb deimlo'n unig mewn tafarn, ac y mae pawb, yn cynnwys dieithriaid, yn ymgomio'n rhwydd.*

*Na, y mae rhywbeth heblaw y diodydd yn apelio at fynychwr y dafarn, ac oni cheir yr ysbryd hwn yn y "Tafarndai Llefrith" ofer fydd pob ymgais i hudo mynychwyr y tafarndai i le na werthir diodydd meddwol.*

*Yr ydym eto i glywed am "Dafarn Lefrith" gyntaf Cymru, eithr fe ddisgwylia llawer y bydd i'r Undebau Dirwest fentro ymlaen a rhoddi prawf ar y cynllun.*

*Y mae gwaith mawr i'w wneud cyn y llwyddir i sobri'r wlad, ac oni fydd y Cymanfaoedd Dirwestol a gynhelir yng ngwahanol siroedd Cymru y dyddiau hyn yn foddion i uno'r dirwestwyr i ymdrech ar linellau newydd, ofnwn mai ofer hollol fyddant.*

Mae ysgrif flaen Y Cymro 4 Ionawr 1936 yn mynnu bod ynadon y wlad 'yn fyw i'w dyletswydd' ynglŷn â meddwdod trwy ofalu na roddid gormod o drwyddedau i dafarndai'r wlad:

## DIRWEST

*YMHEN ychydig wythnosau bydd ynadon y wlad yn cyfarfod i ystyried adnewyddu trwyddedau'r tafarndai a phriodol yw taflu golwg yn ôl ar y cyfnewidiadau a fu yng Nghymru er pan basiwyd Deddf Balfour yn 1904.*

*Bu'r Blaid Ddirwestol yn brysur iawn yn ystod y blynyddoedd cyntaf wedi pasio'r Ddeddf yn gorfodi'r ynadon lleol weithredu yn unol â barn y mwyafrif o'r trigolion, eithr yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu cryn ddifaterwch yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd a gadawyd i'r ynadon weinyddu'r ddeddf yn ôl eu doethineb neu eu mympwyon eu hunain. Fe ddengys y ffigurau a gyhoeddir ar dudalen arall o'r rhifyn hwn fod y sefyllfa'n gwella drwy'r wlad yn gyffredinol. Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf fe gauwyd 1714 o dafarndai yng Nghymru.*

*Eto i gyd, y mae lle i wella'r safle ym mhob un o siroedd Cymru. Y mae'n anodd deall paham y mae Lloegr yn fodlon ar 218 o dafarndai ar gyfer pob 100,000 o bobl, tra y mae rhai o siroedd Cymru yn hawlio dros 300, ac un sir yn agos i 500.*

*Yn ôl mesur Mr. Asquith yn 1908, y mae gan Gymru heddiw 1788 o dafarnau afreidiol, ac yn ôl y mesur hwn yr oedd gan Gymru hawl i gau naill hanner y 2670 tafarn oedd ganddi ar y pryd a chadw'n agored ddim ond 1363. Ac eto y mae ganddi 1714!*

*Fe sylweddolir felly nad yw Deddf Balfour wedi ateb ei diben yn llawn, a'r unig reswm am hyn yw'r ffaith nad yw trigolion y gwahanol ardaloedd wedi pwyso ar yr ynadon lleol i gyflawni eu dyletswyddau.*

*Effaith arall y difaterwch hwn yw'r ffaith nad oes ond dau Awdurdod yng Nghymru yn codi'r 'levy' uchaf posibl ar y tafarnwyr. Sefydlwyd Cronfa Iawndal dan ofal pob Awdurdod a gorfodwyd tafarnwyr i dalu 'levy' blynyddol i'r gronfa hon. A defnyddiwyd y Gronfa i dalu iawn i berchenogion y tafarndai a gauwyd. Oherwydd na fu galw am Iawndal, ni alwyd ar berchenogion y tafarndai i gyfrannu i'r gronfa fel y dylid.*

*Y mae gan bob sir yng Nghymru ei chymdeithas Ddirwest - fe ddylai'r Cymdeithasau hyn ddeffro i'w cyfrifoldeb a galw ar yr ynadon i gario allan deddf a basiwyd er lles y wlad yn gyffredinol a pheidio â'i dirymu yn y dull y gwnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf.*

*Ofer yw cyfeirio byth a beunydd at ymgyrch y Bragwyr i ennill yr ifanc, tra'n esgeuluso gofalu fod ynadon y wlad - llawer ohonynt yn aelodau blaenllaw yn ein heglwysi - yn fyw i'w dyletswydd ar y pwnc hwn.*

Mae ysgrif flaen Y Cymro 4 Gorffennaf 1936 yn llawenhau oherwydd bod ystadegau swyddogol yn dangos bod LLAI O FEDDWI nag oedd ar ddechrau'r ganrif a bod 'safon sobrwydd y wlad yn uwch nag erioed.' Ond mae'r papur serch hynny'n rhybuddio'r dirwestwyr rhag bod yn rhy hunanfodlon, yn enwedig yn wyneb y ffaith bod clybiau yfed yn cael rhwydd hynt bron iawn i wneud fel y mynnont:

*NEWYDD calonnog i gefnogwyr dirwest drwy'r wlad yw bod llai o feddwi heddiw nag a oedd yn nechrau'r ganrif hon.*

*Diddorol yw ffigurau a gyhoeddir yn y rhifyn hwn sy'n dangos y nifer a gosbwyd am feddwi yn ystod gwahanol gyfnodau o 1900 ymlaen.*

*O astudio adolygiad y Swyddfa Gartrefol ar adroddiadau'r heddlu, a gyflwynwyd i'r llysoedd trwyddedu eleni, fe welir yn amlwg bod safon sobrwydd y wlad yn uwch nag erioed.*

*Cedwir y deddfau ynglŷn â'r fasnach yn fanylach o lawer yn awr nag yn y blynyddoedd a fu, a gofala gweinyddwyr y gyfraith na thorrir hwy heb ddwyn y troseddwyr i gyfrif. Bu amser pan y byddai heddgeidwaid, pan welent ddyn meddw yn ceisio ymlwybro ar yr heol, yn troi i edrych y ffordd arall, heb gymryd arnynt ei weld, cyhyd ag y byddai iddo beidio â thorri'r heddwch. Ond yn awr ni oddef yr heddgeidwad i feddwon gerdded eu ffordd eu hunain, heb eu cymryd i'w gofal a'u dwyn o flaen eu gwell am dorri deddf.*

*Y mae arolygiaeth yr heddlu ar dai trwyddedol yn dwyn ei wobr ei hun. Fe orfodir y bobl sy'n cadw'r tai hynny i'w cadw yn lân a threfnus. Mor ofalus ydynt o hyn fel y gwêl ynadon mewn rhai lleoedd yn dda eu canmol am hynny.*

*Ag ystyried hyn, gellir dywedyd fod sobrwydd yn ennill tir yn gyflymach nag y sylweddola pleidwyr dirwest. Eithr y mae pleidwyr y Fasnach yn darganfod arwyddion yr amserau; eu prif amcan yw creu marchnad i'w cynnyrch, a naturiol iawn iddynt geisio defnyddio'r ffeithiau a gyhoeddwyd yr wythnos hon i'w mantais eu hunain.*

*"Gan fod llai o feddwi," meddai'r bragwyr, "a'r troseddwyr, gan amlaf, yn bererinion ar grwydr o le i le, a chan fod tafarnwyr yn cadw eu tai mor drefnus nes ennill edmygedd gweinyddwyr y gyfraith, onid yw'n bryd llacio dipyn ar hualau'r ddeddf, a thrwy hynny wneuthur bywyd rhydd yn felysach i bawb?"*

*Dyna, yn ddiamau, fydd nod y bragwyr o hyn allan, ac y mae angen gwyliadwriaeth fawr ar ran y dirwestwyr os ydynt am rwystro'r cynlluniau hyn.*

*Eithr fe gyfyd problem y clybiau yn amlycach bob dydd. Gwell yw tafarn sydd dan reolaeth y heddgeidwaid na chlwb sydd â breintiau eang yn perthyn iddo. Pa reswm, gan hynny, sydd mewn cau tafarn a chaniatáu i glwb agor yn ei le?*

*Er mor galonogol yw'r ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartrefol ynglŷn â meddwdod, y mae'r sefyllfa'n gyfryw fel ag i annog pleidwyr dirwest i wylio'n ofalus ar gynlluniau'r gymdeithas sydd i fyny â phob ystrywiau er sicrhau ei hamcanion ei hun.*

Diddorol yw ysgrif flaen 2 Hydref 1937 lle ymdrinir â pherthynas y fasnach ddiodydd meddwol â'r radio. Ynddi mae'r Cymro yn amddiffyn B.B.C. Cymru sydd, ym marn y papur, ag agwedd gymeradwy at ddirwest, ond y peth mwyaf diddorol ynglŷn â'r ysgrif yw ei bod yn dangos unwaith eto mor bwysig yw'r pwnc i bapur newydd Y Cymro; yn wir, â mor bell â dweud, 'Ar ôl heddwch, dyma broblem fwya'r dydd':

PROBLEMAU'R RADIO

*AR dudalen arall cyfeirir at benderfyniad Cymanfa Ddirwestol Gogledd Cymru, yn galw ar awdurdodau'r Gorfforaeth Ddarlledu i osgoi unrhyw beth a rydd gyhoeddusrwydd i'r fasnach feddwol.*

*Nid oes angen cymeradwyaeth i'r safbwynt yna fel y cyfryw. Cytuna pawb ar y rheidrwydd i wneuthur popeth posibl i atal rhwysg masnach y ddiod, a gwarchod ieuenctid yn arbennig rhag y gwastraff a'r difrod a ddwg hi yn ddi-feth i'w bywyd.*

*Ar ôl heddwch, dyma broblem fwya'r dydd. Y tu ôl i'r fasnach y mae*

*adnoddau aruthrol. Gall cyfoeth brynu popeth bron, a chymer y bragwyr fantais o'r gorau ym mhob ffordd i hysbysebu'r ddiod. Ni ellir agor papur Saesneg heb weled hysbysiadau costfawr y bragwyr; ni ellir cerdded yr heol heb ddod ar draws darlun yn cymell rhyw ddiod mewn ffordd drawiadol â llythyren fras. Rhaid cyfaddef mai hysbysiadau'r ddiod yw'r rhai clyfraf ar barwydydd ein trefi.*

*Ond annheg yw'r awgrym y tu ôl i benderfyniad y Gymanfa Ddirwestol bod y B.B.C. yn gefnogol i'r fasnach mewn unrhyw fodd. O leiaf, B.B.C. Cymru. Rhaid cofio mai offeryn byd-eang yw peiriant y radio ym mhob tŷ. Gellir "gwrando i mewn", ysywaeth, ar orsafoedd y Cyfandir hyd oriau mân y bore, a bwyta brecwast yn sŵn cymhellion Luxemburg i fyw ar ryw 'pills' rhinweddol! A daw o'r gorsafoedd hyn, o bryd i bryd, gyfeiriadau, cellweirus fynychaf, at y ddiod. Ond prin y credwn mai teg yw bwrw ensyniad o gefnogaeth i'r fasnach ar radio Cymru.*

*Y mae gan y Gorfforaeth Ddarlledu ei phroblemau a'i hanawsterau, ac nid ar unwaith y llwyddir i'w datrys. Ond credwn bod gan Gymru yn y Cyfarwyddwr, Mr. Hopkin Morris, arweinydd diogel; gwyddom na chaiff y fasnach gefnogaeth o fath yn y byd ganddo ef.*

*Gwir na chaniatawyd darlledu o'r Gymanfa Ddirwestol yn Ffestiniog, ond mater o bolisi sefydlog oedd hynny. Ni ddarlledir dim o natur ddadleuol. Pe caniateid awr i Gymanfa Ddirwestol, gofynnai'r fasnach hithau am awr yn ddiymdroi, ac ni ellid gwrthod cais o'r fath.*

*Teg yw cadw'r agwedd hon mewn cof; ac nid doeth i achos Dirwest, na'r un achos da arall, fydd cweryla â'r radio. Oherwydd y radio a biau'r dyfodol; ar donnau'r awyr y ffurfir meddwl a chwaeth y genhedlaeth sy'n codi.*

*Tybed hefyd nad oes pethau eraill, - storïau a chaneuon amheus ac awgrymog, - a eilw am sylw a phrotest lawn cymaint â chyfeiriadau doniol at yfed?*

Mewn ysgrif flaen fer o 26 Chwefror 1944 mae'r Cymro yn codi pwnc **Y CLYBIAU** unwaith eto, gan ddweud ei bod hi'n hen bryd newid Deddf a roddai gymaint o ryddid iddynt:

*MEWN erthygl arbennig ar dudalen arall trafodir problem sy'n flinder cyson i bob Cymro cywir - problem y clybiau nad ydynt mewn gwirionedd yn ddim ond selerau cwrw.*

*Yn y trefi y ffynna'r clybiau hyn fel rheol, ond nid o'r dref y daw eu holl aelodau. Llygrir tref a gwlad fel ei gilydd ganddynt, ond fe'u cedwir gan y Ddeddf rhag yr arolygiaeth sydd ar y tafarndai.*

*Y mae safle clybiau o'r fath yn annhegwch â'r dafarn; pa faint mwy yw'r annhegwch â'r cyhoedd?*

*Ni ddylid caniatáu i'r clybiau hyn yng Nghymru lechu'n hwy dan adain y Ddeddf. Manteisiwyd gormod ar y rhyddid a roddwyd iddynt; aeth yn ben-rhyddid mewn gormod o achosion. Daeth yr amser i newid y Ddeddf.*

# *Y Saboth Cymreig*

Yn ogystal ag agwedd y Cymry at y ddiod feddwol, rhywbeth arall sy'n dangos fel y newidiodd y gymdeithas Gymreig, ac yn fwy penodol y gymdeithas Gymraeg, yn syfrdanol yn y ddwy neu dair cenhedlaeth diwethaf yw ei hagwedd at y Sul, neu'r Saboth fel y'i gelwid ers talwm. Bellach gallwn yng Nghymru ar y Sul siopa yn yr archfarchnadoedd, yfed yn y tafarnau, betio ar rasus ceffylau, gwylio ffilmiau mewn darlundai, gwylio gemau pêl-droed ac ati, h.y. gallwn wneud popeth y gellir ei wneud ar chwe diwrnod arall yr wythnos; yn ôl yng nghyfnod astudiaeth y traethawd hwn, fodd bynnag, sef 30au a 40au'r ugeinfed ganrif, yr oedd y 'Saboth' yn ddiwrnod hollol wahanol i'r diwrnodau eraill gan fod y siopau a'r tafarnau, ac unrhyw fannau cyhoeddus eraill, wedi cau, a chymdeithas yn gorffwyso ac yn troi ei sylw at bynciau ysbrydol.

Yn y cyfnod hwnnw yr oedd y gymdeithas Gymraeg yn llawer mwy crefyddol ei natur, a chrefydd a'r capel yn ganolog iawn ym mywydau llawer o bobl, ac yn naturiol yr oedd hyn yn rheswm pwysig paham bod y Saboth mor bwysig i'r Cymry. Fodd bynnag, yn ogystal â'r agwedd grefyddol a oedd yn bwysig iawn i'r Cymry, yr oedd rhywbeth arall a oedd yr un mor bwysig iddynt, sef y ffaith bod y Saboth yng Nghymru yn wahanol iawn i'r Sul yn Lloegr, un o'r ychydig bethau a wahaniaethai'r ddwy wlad ac a roddai hunaniaeth i genedl y Cymry. Er enghraifft, yr oedd y tafarnau ynghau yng Nghymru ond yn agored yn Lloegr, rhywbeth eithriadol o bwysig i Gymry'r oes gan ei fod yn cynrychioli'r ffaith bod Cymru yn wlad â'i harferion a'i thraddodiadau ei hunan ac yn wahanol i Loegr. Yn naturiol, yr oedd y Cymry yn eithriadol o falch o'r gwahaniaeth sylfaenol hwn rhwng y ddwy wlad, ond er mawr ofid i lawer ohonynt dirywio'n raddol ond yn sicr a wnâi'r Saboth Cymreig ac yn gynyddol yr oedd yn ymdebygu i'r Sul Seisnig; pa ryfedd felly bod llawer o Gymry, a phapur newydd Y Cymro yn eu plith, am wneud eu gorau glas i gadw un o'r ychydig bethau a wnâi Cymru'n wahanol i Loegr.

Gwelir yr enghraifft gyntaf o ysgrif flaen yn ymdrin â'r Saboth Cymreig yn Y Cymro 25 Awst 1934 lle gwelir y papur yn gofidio oherwydd **COLLI TAWELWCH** y Saboth:

*YR wythnos ddiwethaf adroddwyd yn 'Y Cymro' bod pobl Llangrannog,*

*pentref tawel ar lan Bae Aberteifi, yn cwyno bod ymwelwyr sy'n mynd yno mewn moduron ar y Sul yn tarfu ar wasanaethau'r addoldai sydd ar fin y ffordd yn y lle. Yr wythnos hon adroddir fod Llangollen yn brysurach ar y Sul nag ar unrhyw ddiwrnod arall.*

*Ni raid i un fod yn Biwritan nac yn gul i ofidio am ein bod fel gwlad yn colli ein Saboth tawel, canys ystyriwn na ellir prisio un diwrnod o dawelwch i feddwl ac ysbryd ac o orffwys i gorff.*

*Ac os yw'n wir mai peth cyffredin yw i barteion a ddaw i'n cymoedd teg a'n pentrefi tawel ar y Sul ddod â diodydd gyda hwy, y mae deddf cau'r tafarnau ar y Sul, o ran ei hysbryd a'i hamcan, yn cael ei thorri'n gandryll, er cadw'i llythyren.*

Mae ysgrif flaen Y Cymro 20 Mawrth 1937 yn trafod HER ARALL i'r Saboth Cymreig, sef ymgyrch newydd i agor y tafarnau ar ddydd Sul. Gwelwyd yn yr adran ddiwethaf o'r bennod hon bod Y Cymro yn gwrthwynebu diodydd meddwol ac o blaid dirwest ond yn yr ysgrif hon mae'r papur yn gwrthwynebu'r ymgyrch newydd yn benodol am ei bod yn ymwneud â'r Sul yn hytrach na'i bod yn ymwneud â'r fasnach ddiodydd meddwol fel y cyfryw. Yn ôl Y Cymro, 'nid her i ddirwestwyr ydyw['r ymgyrch newydd hon], ond her i wlad', a dengys brawddeg olaf yr ysgrif paham bod y papur yn gwrthwynebu'r ymgyrch, sef na ddylai Cymru orfod bod yn union yr un fath â Lloegr. Yn ôl Y Cymro, os na all ymwelwyr o Loegr fwynhau eu hunain yng Nghymru ar y Sul gyda'r tafarnau wedi cau, yna dylent aros yn eu gwlad eu hunain; mae hefyd o'r farn nad yw agor ar y Sul yn llesol i'r tafarnwyr eu hunain gan eu bod hwythau, fel pawb arall, eisiau gorffwys:

*Y MAE tafarnwyr Cymru yn cychwyn ymgyrch i gael agor y tafarnau ar y Sul. Ac y mae eu bwriad yn her i'r genedl. A dylid bod yn barod i'w hateb.*

*Nid her i ddirwestwyr ydyw, ond her i wlad. Ac fe gredwn y bydd llawer na fynnent gymryd unrhyw ran mewn brwydr ddirwest yn barod i sefyll yn gadarn yn erbyn unrhyw ymgais i agor tafarnau ar y Sul yng Nghymru.*

*Dadl wan dros yr ymgyrch hon o eiddo'r tafarnwyr yw sôn am y rhyddid a fwynheir gan y clybiau. Yn hytrach, y mae'r camwri y cwynant amdano yn ddadl dros roddi'r clybiau ar yr un tir â'r tafarnau trwy wahardd gwerthu diodydd ynddynt ar y Sul. Y mae gwahaniaethu rhyngddynt yn gwbl annheg.*

*Yng nghyfarfod cychwyn yr ymgyrch fe soniwyd am lythyrau oddi wrth ymwelwyr yn cwyno am fod tafarnau yng nghau ar y Sul, ac yn bygwth cadw draw. Nid hawdd deall cwynion o'r fath, canys os yw cael tafarn agored ar y Sul yn angenrheidiol i gysur y math yna ar ymwelwyr, fe gânt gymaint cysur, yn rhatach, wrth aros gartref.*

*Anodd credu na bydd llawer tafarnwr yn dymuno aflwyddiant yr ymgyrch yma o eiddo Cymdeithas Amddiffyn y Ddiod. Paham y rhaid i dafarnwr yng Nghymru weithio saith niwrnod am na all rhai ymwelwyr fwynhau eu hunain oni bo popeth yn union yr un fath ag yn eu trefi eu*

*hunain yn Lloegr?*

Yn ogystal ag agor y tafarnau ar y Sul, yr oedd Y Cymro fel y gwelir yn ysgrif flaen rhifyn 22 Mawrth 1941 yn gwrthwynebu agor darlundai a chwaraedai ar y Sul, h.y. unrhyw beth a wnâi'r Saboth Cymreig yr un fath â'r Sul Seisnig. Dywed y papur isod nad oherwydd y ffaith bod y darlundai a'r chwaraedai yn agor ar y Sul yr oedd yn wrthwynebus iddo fel y cyfryw (er nad oedd yn cefnogi hynny ychwaith), ond oherwydd ei fod yn hoelen arall yn arch y Saboth Cymreig ac yn golygu bod Cymru ar y Sul yn dod yn gynyddol debycach i Loegr. Yr hyn a wnâi'r sefyllfa gymaint yn waeth oedd y ffaith bod yr Alban, oherwydd bod ganddi ei Hysgrifennydd a'i hadran ei hunan yn y Llywodraeth, yn cael penderfynu ar ei buddiannau ei hunan ar faterion o'r fath, ac yn naturiol yr oedd Y Cymro yn hawlio i Gymru hefyd ei Hysgrifennydd a'i hadran ei hunan:

AGOR CHWARAEDAI AR Y SUL

*Y MAE penderfyniad y llywodraeth i ganiatáu agor darlundai a chwaraedai ar y Sul wedi dwyn arni lawer o feirniadu yng Nghymru. Pechod y Llywodraeth fe ymddengys yw, nid yn gymaint am benderfynu agor y lleoedd hyn ar y Sul - er bod rhai yn beio am hynny mewn cyfarfodydd misol - ond am roddi Cymru ar yr un tir â Lloegr a chaniatáu i'r Alban weithredu'n wahanol. Y mae gan yr Alban ei Hysgrifennydd ei hun ac adran o'r wladwriaeth i wylio'i buddiannau. Y mae'n amlwg y bydd yn rhaid i Gymru gael ei Hysgrifennydd a'i hadran ei hun o'r wladwriaeth cyn y gall farnu drosti ei hun ar rai materion, oblegid ychydig y mae ei Haelodau Seneddol yn ei falio beth yw barn Cymru ar fater fel hyn. Er ei bod yn argyfwng mawr ar Brydain ac yn bryd y dylai Cymru ymateb yn deyrngar i bob galw a wna'r Llywodraeth arni - ac y mae'n gwneud hynny - carem weld ein Aelodau Seneddol yn barotach i wylio na fethrir rhai pethau sydd yn agos iawn at galon ein gwlad ac yn eu plith, gofalu na sernir ar ei Sabothau gan fudiadau a dylanwadau estron.*

Trist yw darllen ysgrif flaen Y Cymro 21 Chwefror 1942 sy'n dangos fel y pasiwyd penderfyniadau gan filoedd o Saeson yng Nghymru yn gofyn i'r Llywodraeth orfodi awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i agor tafarnau, chwaraedai ac ati ar y Sul, a hynny er gwaethaf y ffaith bod yr union Saeson hyn wedi derbyn ymgeledd a charedigrwydd di-ben-draw yng Nghymru adeg y Rhyfel. Mae'n anhygoel meddwl bod pobl yn medru bod mor haerllug a digywilydd, a thrahaus fel y dywed Y Cymro isod:

## SARNU'R SABOTH

*ACHOSIR cryn anniddigrwydd yng Nghymru, y dyddiau hyn, oherwydd ymddygiad Saeson a ddaeth i Gymru fel noddedigion, neu gyda noddedigion, neu oherwydd bod eu swyddfeydd wedi eu symud o beryglon y Brifddinas ac ardaloedd yn Lloegr i fannau diogel yng Nghymru.*

*Ymddengys bod 26,000 o wasnaethyddion y Llywodraeth wedi pasio penderfyniadau yn gofyn i'r Llywodraeth orfodi'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i agor tafarnau, meysydd chwarae, a'r sinemâu ar y Sul.*

*Gwelwyd eisoes yn 'Y Cymro' fel y bu i athrawon o swydd Caint, fwrw anfri ar agwedd y Cymry at y Saboth.*

*Y mae ymddygiad fel hyn yn annheilwng o urddas dyn. Y mae digon o dystiolaeth i gwrteisi a lletygarwch a chroeso Cymru i bobl na wahoddwyd hwy erioed i ddod yma, ac y mae'r fath anghwrteisi ag a ddangosir yn gydnabyddiaeth wael am hynny.*

*Y mae'n wir bod rhai Saeson fel y gwelir oddi wrth Dudalen Pawb 'Y Cymro' heddiw, sydd yn gwerthfawrogi yr hyn a wneir er eu cysur yng Nghymru.*

*Er hynny diflas yw gweld cynifer â 26,000 o Saeson yn ein plith mor haerllug â mynnu gennym newid ein dull o fyw ac anwybyddu ein defion a'n traddodiadau er mwyn gwneud eu saib hwy dros dro yn fwy unol â'u syniadau ansyber.*

*Y mae'n amlwg, fel y dywedwyd mewn cyfarfod o bwyllgor gwaith Cymdeithas Ryddfrydol Pwllheli, a phwyllgor o gyngor y dref honno, nad oes gan y Saeson hyn barch na chydymdeimlad at draddodiadau gorau'r genedl yn ei pherthynas â'r Saboth.*

*Pasiodd y pwyllgorau ym Mhwllheli benderfyniadau yn apelio at y Llywodraeth i droi clust fyddar i'r apêl a wnaed gan eu gwasnaethyddion.*

*Y mae hwn yn fater a gwyd ei ben mewn rhannau eraill o Gymru yn ogystal, a hyderwn y bydd i'r Prif Weinidog, yr Ysgrifennydd Cartref, y Gweinidog Iechyd, Mr. Lloyd George, a'r cyngor sir dalu sylw dwys iddo. Y mae'r Gweinidog Iechyd, Mr. Lloyd George, a chlerc y cyngor sir wedi cydnabod derbyn y penderfyniad.*

*Fe ddisgwylir y rhoddant ystyriaeth i'r mater ac y deillia ohono atalfa unwaith ac am byth ar yr arwydd hwn o drahauster y Saeson hyn at Gymru.*

# *Yr Ail Ryfel Byd*

Soniwyd eisoes bod canran sylweddol iawn, tua 20%, o holl dudalennau blaen Y Cymro yn y cyfnod penodol yn rhoi sylw i faterion a oedd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ymwneud â datblygiad a chwrs yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, yr oedd hyd yn oed fwy na hynny o ysgrifau blaen y papur, sef tua 200 ohonynt, neu 29% o'r holl gyfanswm, yn ymwneud â phwnc y Rhyfel mewn rhyw fodd neu'i gilydd gan farnu a rhoi sylwadau'n gyson ar sawl agwedd arno. Wrth gwrs, byddai'n anymarferol rhoi sylw unigol i bob un o'r ysgrifau blaen hyn; yn ogystal byddai'r ymdriniaeth yn undonog gan fod llawer ohonynt yn ailadrodd ei gilydd ac yn tueddu i fynegi yr un farn o wythnos i wythnos. Yn hytrach, yr wyf am geisio dewis a dethol y prif ysgrifau sydd yn fy marn i'n fwyaf diddorol a mwyaf nodweddiadol o bapur newydd Y Cymro rhwng cyfnod ei sefydlu a diwedd yr Ail Ryfel Byd, a cheisio dangos fel mae barn y papur yn newid neu'n addasu yn ôl amgylchiadau'r dydd.

Dyfynnaf yn gyntaf dair o ysgrifau blaen o ddeuddeng mis cyntaf Y Cymro sy'n dangos mor gryf y gwrthwynebai'r papur yr holl syniad o ryfel a rhyfela ym mlwyddyn gyntaf ei sefydlu. Dylid sylwi'n benodol isod ar y modd y mae'r Cymro yn y ddwy ysgrif gyntaf yn llwyr wrthwynebu rhyfel, i'r graddau fel ei fod i bob pwrpas yn fodlon cefnogi safiad y rhai na fyddent yn barod i fynd i ryfela pe deuai'r gorchymyn hwnnw gan y llywodraeth ryw ddydd. Mae'r drydedd ysgrif yn fwy gwrthrychol gan roi llais i fwy nag un safbwynt a hefyd yn gwbl nodweddiadol o farn Y Cymro ynglŷn â'r hyn sy'n achosi rhyfel:

**RHYFEL** (13 Mai 1933)

*EFALLAI y caiff yr arweinwyr eglwysig a'r holl gyfundebau sydd wedi tyngu i wrthwynebu rhyfel gyfle i brofi eu penderfyniad yn gynt nag y disgwyliant.*

*Da yw gweled penderfynu fel hyn. Golyga fod arweinwyr y cyfundebau hyn am ofyn i'w holl ddilynwyr wrthod ufuddhau i'r llywodraeth ped âi'r wlad hon i ryfel. Golyga fod yr holl aelodau am sefyll yn gytûn gyda'i gilydd a mynd i garchar gyda'u harweinwyr eglwysig.*

*Fe fydd y llywodraeth cyn hynny wedi hau celwyddau melys. Fe sonnir ym mhob man am amcan anrhydeddus y rhyfel, - bod crefydd, gwareiddiad, a diogelwch ein teuluoedd yn galw am nerth braich pawb i ymladd.*

*Nid llwybr hawdd fydd llwybr y gwrthwynebwyr. Os bydd llawer ohonynt, ni all y wladwriaeth ddim fforddio bod yn oddefgar, ac y mae bywyd y dinesydd yn gwbl ddiwerth yng ngolwg gwladwriaeth mewn perygl.*

*Heb i'r penderfyniad fod yn rhywbeth amgenach nag addewid tywydd teg, go brin y medrir gwrthsefyll ddydd y prawf.*

*A phed ildiai'r rhai cyntaf y cymer yr awdurdodau milwrol afael ynddynt, byddai llwybr y rhai cadarnach yn llawer iawn caletach nag ydoedd adeg y rhyfel diwethaf. Yr adeg honno, ofer fu bygwth saethu'r rhai cyntaf a gymerwyd i'r ddalfa.*

*Y mae'n bwysig seilio pob penderfyniad ac ymrwymiad heddiw ar argyhoeddiad cadarn. Os gwneir hyn, fe ddaw'r dydd pan welwn yr Eglwys yn herio'r Llywodraeth, ac yn ennill buddugoliaeth na ellir mesur ei maint.*

## PLAID A RHYFEL (7 Hydref 1933)

*NID oes bellach ddim amheuaeth nad yw barn y wlad ar bwnc heddwch a rhyfel yn berffaith iach.*

*Fe welsom y naill goleg ar ôl y llall, gan ddechrau yn Rhydychen, yn datgan yn bendant yn erbyn cymryd rhan mewn rhyfel, ar unrhyw amgylchiad.*

*Y mae'r eglwysi, yn eu cynghorau hwy, wedi dangos bod eu hagwedd hwythau yr un mor glir.*

*Bellach dyma'r Blaid Lafur, yr Wrthblaid swyddogol yn y Senedd, a phlaid y gall bod galw arni eto i ffurfio Llywodraeth, yn pasio'n unfryd yn ei chynhadledd flynyddol na bydd iddi gymryd dim rhan mewn rhyfel, eithr yn hytrach wneuthur popeth yn ei gallu i wrthwynebu rhyfel.*

*Nid gormod dweud ei fod yn un o'r penderfyniadau pwysicaf a basiwyd erioed gan unrhyw blaid.*

*Os bydd pob adran ac undeb a gynrychiolir yn y gynhadledd a'i pasiodd yn gadarn i'w gadw, a chael cefnogaeth glir yr eglwysi sydd wedi pasio penderfyniadau tebyg, a chefnogaeth bendant yr ifanc, y mae'n anodd coelio y meiddiai unrhyw Lywodraeth yrru'r wlad i gweryl gwaedlyd ag unrhyw wlad arall. Fe fyddai cyhoeddi rhyfel â gwlad arall bron yn gyfystyr â chyhoeddi rhyfel gartref.*

## ACHOS RHYFEL (25 Tachwedd 1933)

*WRTH benderfynu peidio ag ymladd dan unrhyw amgylchiadau fe roddodd eglwys Adulam, y Felinfoel, ger Llanelli, arweiniad sy'n cael ei ddilyn gan eglwysi Bedyddwyr Sir Gaerfyrddin.*

*Y mae'r agwedd a amlygir yn un bendant a chlir, ac yn dangos bod y sawl sydd yn ei chymryd yn credu nad oes dim cyfaddawd o gwbl i fod ar bwnc heddwch.*

*Ond ni bydd pawb yn cytuno ei bod yn agwedd ymarferol, a mynegir eu hamheuaeth hwy yn y cwestiwn y cyfeiriodd un o flaenoriaid y Felinfoel ato yn un o gyrddau'r wythnos, sef beth a wna pobl y Felinfoel os ymyrrir â'u cyflenwad bwyd o ganlyniad rhyfel gan eraill?*

*Y mae'r cwestiwn yn un eithaf teg, ac yn cyffwrdd un o brif achosion rhyfel. Y mae i'r cwestiwn, a'i gymryd yn gyffredinol, ddau ateb, hollol gyson â'i gilydd.*

*Fe all un ateb bod rhyfel yn gymaint o ddrwg moesol fel mai gwell marw o newyn na chymryd dim rhan mewn rhyfel, a dyna ben ar y ddadl o safbwynt y tangnefeddwr pendant.*

*Ond ni fodlona'r ateb yma'r lliaws, fel y prawf pob rhyfel diweddar. Fe ofynnant hwy am ateb ymarferol yn ogystal ag ateb pendant ar seiliau moesol. Ac onibai fod ateb iddynt, fe fuasem yn anobeithio'n*

*llwyr am weled terfyn ar ryfel byth.*

*Paham y mae gwledydd yn myned i ryfel? Duw a ŵyr, nid oes ar yr un werin eisiau rhyfel. Yr oedd agwedd y dyn cyffredin yn ogystal â delfryd y crefyddwr yn cael ei amlygu ym mhenderfyniad eglwys y Felinfoel. Y mae ewyllys i heddwch yn bod. Er pob siom, delir i obeithio yng Nghynghrair y Cenhedloedd, y mae'r eglwysi a'r Rotariaid a phleidiau gwleidyddol yn datgan eu hymlyniad wrth heddwch. Fe ddywed hyd yn oed Hitler fod arno eisiau heddwch.*

*Paham, ynteu, y mae cymylau rhyfel yn dal i hofran uwchben y gwledydd?*

*Prif achos, os nad unig achos rhyfel yw'r ymgais i ennill marchnadoedd tramor am na fedr pobl yr un wlad fforddio i brynu'r cyfoeth aruthrol o nwyddau a gynhyrchir gan eu diwydiannau hi ei hun.*

*Nid yn y fasnach sy'n golygu ffeirio nwyddau un wlad am nwyddau gwlad arall y mae'r niwed, ond yn y fasnach honno sy'n ceisio lle i werthu'r nwyddau nad oes moddion i'w prynu gartref. Er mwyn honno yr aberthodd Prydain ei hamaethyddiaeth ei hun, nes ei bod heddiw'n dibynnu ar wledydd eraill am agos i ddwy ran o dair o'r bwyd sy'n angenrheidiol i gynnal ei phobl.*

*I gadw llwybrau'r môr yn agored i'r cyflenwad hwnnw y gwerir miliynau ar gadw llynges gref, ac er mwyn hynny a masnach dramor yn bennaf y ceidw gwledydd eu byddinoedd yn barod.*

*Ni fyddai gan wlad a fedrai godi ei bwyd ei hun, ac a ddosbarthai gynnyrch ei diwydiannau rhwng ei phobl ei hun, achos i gweryla â'r un wlad arall. Mater syml wedyn fuasai cyfnewid unrhyw orlawnder o nwyddau arbennig er mantais i'r naill ochr a'r llall.*

*Byddai'r wlad a wnelai hynny wedi symud ymaith brif achos rhyfel ac yn gwneud cwestiwn beth a wnelem pe peryglid ein cyflenwad bwyd yn gwbl ddiystyr. Ni buasai neb yn ei ofyn.*

*Fe fedrai gwlad osod ei gwaith a'i masnach ar seiliau rhesymol a wnelai ryfel yn gwbl ddianghenraid. Y rhai sy'n gwrthod gwneud hynny sy'n anymarferol.*

*Fe all cefnogwyr penderfyniad y Felinfoel ofyn iddynt: Os ydych yn credu fod yn rhaid ymladd i ddiogelu ein cyflenwad bwyd, paham ynteu na cheisiwn wneuthur Prydain yn wlad yn ei chynnal ei hun, fel na bo eisiau rhyfel?*

Ceir ysgrif flaen drawiadol yn Y Cymro 4 Awst 1934, ugain mlynedd wedi toriad y Rhyfel Byd Cyntaf, sy'n dangos yn y modd cliriaf posibl peth mor ofer a gwastraffus yw rhyfel. Yn rhan gyntaf yr ysgrif dyfynnir ystadegau gan arbenigwr o America'n dynodi'r hyn y gallesid bod wedi eu prynu â'r swm enfawr o arian a wastraffwyd ar y Rhyfel Mawr, ystadegau brawychus tu hwnt a oedd hefyd yn eironig iawn mewn cyfnod lle yr oedd cymaint o dlodi ac angen yn y wlad. Mae ail ran yr ysgrif yr un mor drist, a hynny am fwy nag un rheswm. Yn gyntaf, dengys fel yr oedd y Rhyfel Mawr i fod "i achub gwareiddiad" ac i fod "i roi pen ar ryfel" unwaith ac am byth. Yn ail, dengys fel y cafodd trigolion y wlad, a'r mamau'n fwy na neb, eu twyllo gan bropaganda rhyfel y llywodraeth a'u bod wrthi'n ddiflino'n perswadio'r gwŷr ifainc i "wneud eu dyletswydd" dros y wlad trwy ymuno â'r fyddin, a bod yr

eglwys hyd yn oed yn rhoi sêl ei bendith ar y gwŷr a atebai'r alwad honno. Yn drydydd, dengys fel yr oedd y gwŷr ifainc hynny'n berffaith fodlon dioddef a marw yn y rhyfel am y credent yn ddiffuant eu bod yn cyfrannu at greu gwell byd wedi'r drin. Ond yr hyn sydd dristaf oll yw'r ffaith bod cymaint o sôn yn ysgrifau blaen Y Cymro yn y cyfnod yn ymdrin â holl bwnc Rhyfel, sy'n dangos nad oedd dyn wedi dysgu dim er gwaethaf yr holl ddioddefaint ac aberthu ugain mlynedd ynghynt, ac er gwaethaf y gred gyffredinol y byddai'r Rhyfel Mawr y rhyfel olaf mewn hanes:

PRIS DINISTR

*FE allesid, gyda'r arian a wariwyd ar y rhyfel diwethaf, roddi*
*Tŷ, dodrefn, a phum erw o dir, gwerth £800 i gyd, i bob teulu ym Mhrydain a'r Iwerddon, America, Canada, Awstralia, Ffrainc, Belgium, Rwsia, a'r Almaen.*
*Ac fe fuasai wedyn ddigon yn weddill i godi*
*Llyfrgell werth £1,000,000 a Phrifysgol werth £2,000,000 ym mhob tref gyda thros 20,000 o boblogaeth yn y gwledydd hyn i gyd.*
*Ac ar ôl hynny buasai £1,000,000,000 i godi ysbytai a'u gwaddoli.*

*Fe roddwyd y ffigurau hyn gan Dr. Murray Butler, Llywydd Prifysgol Columbia.*

1914-1934

*UGAIN mlynedd i heddiw yr oedd Prydain ar y groesffordd. Dewisodd ein gwleidyddwyr lwybr "rhyfel ac anrhydedd" ac yn y don o wladgarwch a lifodd dros y deyrnas yr oedd trigolion y wlad, ac eithrio lleiafrif bychan iawn, yn gadarn y tu ôl i'r Llywodraeth.*

*Onid "Rhyfel cyfiawn" ydoedd - "Rhyfel i achub gwareiddiad?" "Rhyfel i roi pen ar ryfel?"*

*Dyna ddywedwyd ar bob llaw, ac fe welid gwragedd ein gwlad yn barod i dreulio oriau bob dydd ar yr heolydd yn ceisio perswadio'r gwŷr ieuainc i ymuno â'r fyddin ac i "wneud eu dyletswydd."*

*"Fe aberthodd un wraig ei bywyd i ddod â chwi i'r byd. Onid ydych chwi'n barod i aberthu eich bywyd er mwyn diogelu dyfodol gwragedd eich gwlad?" Dyna eiriau un wraig adnabyddus wrth annerch cyfarfod ricriwtio yn Rhagfyr, 1914.*

*A yw'n syn i lanc ifanc a'i clywodd gymryd llw bore drannoeth ei fod yn 19 oed, pan nad oedd ond 18, er mwyn cael ymuno â'r fyddin? Y nos Sul dilynol, galwyd sylw cynulleidfa ei eglwys at ei "wroldeb" a'i esiampl dda. Gofynnwyd am fendith Duw ar ei waith yn y fyddin, a rhoddwyd Beibl yn ei law.*

*Nid beio'r gwragedd hynny yr ydym. Nid beio'r eglwysi chwaith. Wrth edrych yn ôl, mwy buddiol yw ceisio deall yr amgylchiadau na beio personau. Fe gafwyd bod y don o wladgarwch a gododd megis mewn diwrnod yn drech na'r basiffistiaeth y tybid cyn hynny ei bod yn rhan o'n cymeriad.*

*Wedi'r cwbl, onid prawf o ddelfrydiaeth ieuenctid y cyfnod oedd mai*

*trwy apelio at y gorau ynddynt yn unig y gellid eu cael i'r fyddin. Atebwyd yr alwad i'r gad nid er mwyn ennill tiriogaethau, nid er mwyn manteision masnach, nid er mwyn gwasgu'r gelyn i'r llawr ar ôl ei drechu, eithr er mwyn diogelu gweriniaeth, a bu miloedd farw'n hapus yn y gred fod eu haberth hwy yn creu gwell byd.*

*Ni pherthyn i ni feirniadu'r gorffennol, eithr yn hytrach ystyried yn ddifrifol a ydym ni heddiw yn deyrngar i'r delfrydau uchaf a symbylai'r ieuenctid yn 1914, y rhai a aeth yn filwyr "dros dymor", nid am eu bod yn caru rhyfel ond am eu bod y pryd hwnnw yn credu nad oedd un llwybr arall.*

*Ond pa mor angenrheidiol bynnag yw rhyfel mewn amgylchiadau arbennig, y mae'n berffaith amlwg nad yw'n puro cenedl oddi wrth ddim sy'n ddrwg, nac yn creu dim sy'n dda. Nid creu'r pethau gorau yn natur dyn - megis gwroldeb a hunanaberth - y mae rhyfel, ond manteisio arnynt.*

*Nid oes ond un ffordd i roi pen ar ryfel, sef trwy ladd y syniad o ryfel. Ni raid diddymu dim sydd yn natur dyn, na lladd yr un reddf sydd ynddo - dim ond eu cyfeirio.*

*Os ydym yn credu fod rhyfel yn staen ar wareiddiad, rhaid inni ymddwyn yn gyson â'r gred honno. Heddiw yr ydym yn galw rhyfel yn farbareiddiwch, ond yn sôn am achosion a moddiannau rhyfel fel pe na bai modd gwneud hebddynt.*

Yn rhifyn 27 Hydref 1934 siaradodd Y Cymro yn gryf o blaid i'w ddarllenwyr ateb y Pum Cwestiwn Heddwch er mwyn dangos i arweinwyr y gwledydd mor gadarn oedd eu safiad dros Heddwch ac yn erbyn Rhyfel:

PUM CWESTIWN

*"UN o'r problemau ymarferol mwyaf y dyddiau hyn yw sut y gellir sicrhau bod ewyllys y bobl yn cario'r dydd," meddai Arglwydd Cecil y dydd o'r blaen.*

*Fe ŵyr pawb nad yw ein cyfundrefn wleidyddol yn gyfryw fel ag i sicrhau hyn, a chyfyd yr anfantais hwn i'r golwg ynglŷn â chwestiwn Heddwch.*

*Y mae'r mwyafrif mawr o drigolion Prydain o blaid Heddwch, ac o blaid i Lywodraeth y wlad gymryd mesurau ymarferol i ofalu na ddigwydd trychineb tebyg i'r hyn a fu yn 1914.*

*Bychan iawn yw nifer y rhai sy'n rheoli tynged ein gwlad, ond fe all yr ychydig hynny ein harwain i ryfel oherwydd rhyw ddigwydd cymharol ddibwys ar gyfandir Ewrob neu yn un o'n trefedigaethau.*

*Grym sy'n rheoli Ewrob heddiw i raddau mwy nag erioed. Nid yw ewyllys y bobl yn cyfrif ond ychydig. A phan gychwyna rhyfel, am unrhyw reswm, fe dynnir trigolion y gwledydd a gymer ran ynddo i mewn yn enw "cyfiawnder."*

*Fel y mae pethau, nid oes dim i'w wneuthur ond ceisio argraffu ar feddyliau gwleidyddwyr Prydain beth yw gwir farn y wlad ar gwestiwn heddwch, a thrwy hynny eu gorfodi i sefyll yn gadarn yn erbyn cytuno ag unrhyw wlad i ymyrryd yn ei chweryIon â gwledydd eraill.*

*Gallwn wneuthur hyn i raddau pell iawn drwy ofalu fod pawb y deuwn i gyffyrddiad â hwynt yn ateb y pum cwestiwn a ofynnir i bob un dros ddeunaw oed ar y ffurflenni a rennir yn ystod yr wythnosau nesaf dan nawdd Undeb Cynghrair y Cenhedloedd a gwahanol Undebau a Chyfundebau*

*eraill.*

*Y mae'r cwestiynau yn ddigon syml i bawb eu hateb. Dyma hwynt:-*

*1. A ddylai Prydain barhau'n aelod o Gynghrair y Cenhedloedd?*

*2. A ydych o blaid gostwng arfau rhyfel pob gwlad drwy gytundeb cyd-wladol?*

*3. A ydych o blaid diddymu awyr-longau addas i bwrpas milwrol trwy gytundeb cyd-wladol?*

*4. A ddylid gwahardd gwneud arfau rhyfel gan gwmnïau preifat trwy gytundeb cyd-wladol?*

*5. Petai un wlad yn mynnu ymosod ar wlad arall, a ydych yn ystyried y dylai'r gwledydd eraill ymuno â'i gilydd i rwystro hyn (a) drwy gyfrwng mesurau economaidd ac anfilwrol; (b) drwy gymryd mesurau milwrol yn erbyn y wlad honno?*

*Fe ffurfiwyd y cwestiynau hyn gyda'r amcan i gael atebion cadarnhaol i bob un ohonynt. Eu hamcan pennaf yw cryfhau dwylo pleidwyr Cynghrair y Cenhedloedd.*

*Nid yw'r Cynghrair yn berffaith o lawer, ond dyma'r unig gyfrwng sydd gennym ar hyn o bryd i achub y byd rhag rhyfel, ac y mae'n bwysig bod pob un yn rhoddi'r gefnogaeth lwyraf i bob ymdrech i sicrhau ffordd ymarferol i osgoi rhyfel, a chadarnhau'r farn gyhoeddus o blaid heddwch.*

Ni châi'r papur, megis y mwyafrif helaeth o'i ddarllenwyr, lawer o drafferth i ateb y pedwar cwestiwn cyntaf yn gadarnhaol; yr oedd y pumed cwestiwn, fodd bynnag, yn peri cryn drafferth i lawer o bobl, a golygydd Y Cymro yn eu plith. Y cwestiwn dyrys a berai'r cyfyng-gyngor moesol oedd: a ddylid ateb ymosodiad milwrol ar un wlad â mesurau economaidd ac anfilwrol gan y gwledydd eraill, neu â mesurau milwrol uniongyrchol? Yr oedd sawl barn wahanol ar hyn, gyda rhai'n gryf o'r farn bod yn rhaid amddiffyn y wlad yn filwrol doed a ddelo ped ymosodid arni'n gyntaf gan y gelyn; nid oedd hyn yn golygu eu bod yn cymeradwyo rhyfela yn ei hanfod, ond os mai dyna oedd yr unig ateb a fyddai'n debygol o lwyddo yna rhaid oedd mynd i ryfel, gwaetha'r modd. Anghytunai eraill yn ffyrnig gan ddadlau nad oedd rhyfel yn ateb derbyniol dan unrhyw amgylchiadau ac na ellid fyth gyfiawnhau lladd ein cyd-ddyn, ond fel y sylwodd eraill eto, onid oedd mesurau economaidd, anfilwrol, a allai achosi newyn enbyd, lawn cynddrwg? Ymdrinir â'r dadleuon hyn yn ysgrif flaen Y Cymro 24 Tachwedd 1934, ac er nad yw'r golygydd i'w weld gant y cant yn sicr ynglŷn â'r ateb i'r pumed cwestiwn, erbyn diwedd yr ysgrif daw'n eglur bod ei gydymdeimlad yn fwy â'r rhai sy'n erbyn defnyddio'r Cynghrair fel offeryn milwrol:

HEDDWCH Y BYD

*NID oes dim byd sicrach na bod barn y wlad yn gadarn o blaid Heddwch, ac mai cas beth gan y bobl yw rhyfel. Y mae yr un mor sicr mai dymuniad y wlad yw i Gynghrair y Cenhedloedd fod yn offeryn effeithiol nid yn unig i ffrwyno gwledydd rhag rhuthro i yddfau'i gilydd, ond i sefydlu cyfiawnder fel na bo achos cweryl rhwng dwy wlad.*

*Dyry'r 'Cymro' y lle blaenaf yr wythnos hon i atebion nifer o heddychwyr amlwg i'r pum cwestiwn a ofynnir gan Undeb Cynghrair y Cenhedloedd. Fel y pwysleisiwyd yn 'Y Cymro' o'r blaen fe luniwyd y cwestiynau hyn gan ddisgwyl atebion cadarnhaol i bob un ohonynt, ac fe'u beirniadwyd gan lawer yn bur llym o ddau safwynt pur wahanol.*

*Mentrwn ddywedyd bod yr atebion a gafwyd eisoes oddi wrth ddarllenwyr 'Y Cymro' yn profi bod barn Cymru ar bwnc heddwch a rhyfel yn aeddfetach ac yn fwy pendant nag y disgwyliai'r pwyllgor sy'n gyfrifol am lunio'r pum cwestiwn. Dyna sy'n cyfrif am yr anhawster a deimlir ynglŷn â'r pumed cwestiwn, ond ni fynn y rhan fwyaf o'r atebwyr adael i gysondeb eu gormesu nes cyfaddodi ar egwyddor i gefnogi rhyfel yn enw'r Cynghrair.*

*Gwrthyd y rhan fwyaf y ddadl bod ffyddlondeb i'r Cynghrair, ac ateb "Dylai" i'r cwestiwn cyntaf, yn rhoi'r atebydd dan raid i gytuno â mesurau milwrol neu anfilwrol yn cwestiwn 5.*

*Y mae'n berffaith wir, fel y dywed Mr. Ellis Davies, mai sail y Cynghrair fel y mae yw grym arfau ac mai dyna sydd tu ôl i ddau o erthyglau'r Cyfamod.*

*Ond i'r heddychwr nid yw hynny'n ddigon o reswm dros gefnu ar y Cynghrair, er iddo fod yn bendant bod rhyfel yr un mor ddrwg pan gyhoeddir hi yn enw Genefa a phan y'i cyhoeddir yn enw gwlad. "Nid oes dim gwahaniaeth rhwng lladd dyn yn enw gwlad ag sydd mewn lladd yr un dyn yn enw Cynghrair."*

*A dyna'r agwedd glir a gymerwyd gan y Pwyllgor Heddwch a gyflwynodd adroddiad ar y pum cwestiwn i'r Gymdeithasfa ym Mhrestatyn. Dywedodd y pwyllgor hwnnw'n bendant y byddai rhoddi ateb cadarnhaol i'r pumed cwestiwn "yn gefnogaeth i ffurf ar ryfel sy'n gwbl groes i ysbryd ac athrawiaeth y ffydd Gristnogol." Fe sylwodd y Parch. G. Roberts Jones bod achosi i blant bach newynnu yn hollol anghristnogol.*

*Ni fynn yr heddychwr gefnu ar y Cynghrair am ei fod yn amherffaith; ac ni fynn chwaith gael ei dynnu gerfydd ei glust i gytuno â rhyfel yn enw'r Cynghrair. Fel y sylwa un atebydd, "y mae hawl gan y Cynghrair i newid y cytundeb." Nid grym arfau sydd i wneud y Cynghrair yn nerthol i gadw'r heddwch, ac i wneud heddwch, ond y grym moesol a fyddai iddo pe byddai'n Gynghrair Cenhedloedd yn hytrach nac yn gyngor o Lywodraethau yn unig.*

*Fe gredwn ni bod y rhai sydd yn erbyn i'r Cynghrair fod yn offeryn milwrol yn fwy teyrngar i'w ddelfryd sylfaenol na'r rhai sy'n dadlau fel arall, canys fe'i dinistrid, efallai am byth, "pe ceisid ei droi'n offeryn milwrol neu'n gyfundrefn i gario rhyfel ymlaen i'r pwrpas o rwystro neu roddi pen ar ryfel", fel y rhybuddiwyd hi gan y Cadfridog Smuts. Ac fe fyddai dibynnu ar orfodaeth, o unrhyw fath, yn adlewyrchiad o'i wendid moesol.*

*Rhaid cadw'r Cynghrair i fod yn llwyfan i leisio cwynion y gwledydd ac yn seiat i'r cenhedloedd gyfathrachu â'i gilydd a deall ei gilydd yn well. Ni ddylid ar un cyfrif adael iddo lithro i fod yn ddim amgen nag un ochr i rhyw "balance of power" newydd. Ni ddylai'r un heddychwr gyfaddodi dim ar egwyddor er mwyn teyrngarwch honedig i sefydliad amherffaith neu gysondeb tybiedig wrth fynegi ei farn.*

Un peth a welir o'r ysgrifau uchod yw bod Y Cymro, tra'n cyfaddef bod gan Gynghrair y Cenhedloedd ei wendidau, yn gefnogol

i'w egwyddor ac yn credu o ddifrif y byddai'r byd yn lle peryclach hebddo. Dyma ddywed y papur mewn pwt byr ar waelod ysgrif flaen rhifyn 15 Rhagfyr 1934:

ARBED RHYFEL

> *Y MAE pob un a ddilynodd yr anghydwelediad a fu rhwng Iwgoslafia a Hwngari yn ystod y dyddiau diwethaf wedi cael cyfle i ddiolch am fodolaeth Cynghrair y Cenhedloedd.*
>
> *Nid yw'n ormod dweud y buasai Ewrob heddiw yng nghanol rhyfel oni bai am y cyfle a gaed yn Genefa i'r gwledydd drafod eu anghydwelediad o gylch y ford gron.*
>
> *Yr oedd achos yr anghydwelediad yn debyg i'r hyn a gychwynnodd y Rhyfel Mawr, ac y mae'n sicr y buasai canlyniad parhad yr anghydwelediad yn debyg iawn i un 1914.*
>
> *Nid yw Cynghrair y Cenhedloedd yn honni bod yn berffaith, eithr fe roddwyd enghraifft eto'r wythnos hon o'i werth i'r byd, a haedda gefnogaeth pawb oherwydd ei waith yn diogelu heddwch y byd.*

Mewn cyferbyniad hollol, tra bod Y Cymro yn cefnogi egwyddorion Cynghrair y Cenhedloedd yr oedd yn llwyr wrthwynebu'r Officers Training Corps, neu'r O.T.C., y sefydliad oedd â'i amcan i hyfforddi pobl ifanc y wlad mewn milwriaeth a rhyfela. O dan y pennawd SIOMI GWLAD mae'r Cymro yn ysgrif flaen rhifyn 27 Ebrill 1935 yn beirniadu'n llym benderfyniad Llys Llywodraethwyr Coleg y Brifysgol ym Mangor i beidio â gwrthwynebu'r sefydliad hwnnw, sefydliad sydd ym marn y papur yn bradychu bwriadau pur sefydlwyr y coleg ac 'yn groes i farn orau'n cenedl':

> *SIOM i'r Eglwysi a ddatganodd mor groyw na ddylai colegau Prifysgol Cymru noddi milwriaeth fydd penderfyniad Llys Llywodraethwyr Bangor i gadw at eu hagwedd bresennol at yr O.T.C., ac yn ôl pob golwg bydd siom arall yr wythnos nesaf, canys fe hysbyswyd bod Cyngor Coleg Aberystwyth am annog Llys y Coleg hwnnw i beidio â newid y trefniadau presennol.*
>
> *Y mae'r pwnc hwn ers tro bellach wedi cael cryn sylw yng Nghymru, ac y mae'r gwahanol lysoedd eglwysig wedi galw am ddiddymu'r O.T.C. am eu bod yn ystyried na ddylai sefydliad sydd yn amcanu paratoi dynion ifanc i ryfel fod ynghlwm wrth brifysgol ein gwlad.*
>
> *Fe gredwn ni bod yr eglwysi, ar y pwnc hwn, gryn lawer yn nes at wir farn ein cenedl nag yw Llys Coleg ein Prifysgol. Ac nid barn y wlad yn unig, ond barn y myfyrwyr eu hunain hefyd.*
>
> *Er yr holl benderfyniadau a basiwyd gan ein prif gynghorau crefyddol, anwybyddu dymuniad y myfyrwyr a throi'n glustfyddar i lais yr eglwysi a wnaeth y Llys yr wythnos hon. Amlyga hanes y drafodaeth bod y ddadl a'r rhesymau ar un ochr a mwyafrif y pleidleisiau ar yr ochr arall. Ac am hynny fe bery'n Prifysgol i baratoi ieuenctid ein cenedl i ryfel.*
>
> *Y mae'n berffaith wir nad oes dim gorfodaeth ar yr un myfyriwr i ymuno â'r O.T.C., ond nid yw hynny'n ddadl dros ei nawddogi. Prin y*

*gallem feddwl am aelodau'r Llys yn ffafrio agor tafarn yn un o neuaddau'r Coleg a'i chyfreithloni ar y tir mai o wirfodd yr elai unrhyw fyfyriwr yn agos ati. Ond ar ddadl wantan o'r fath y cafwyd mwyafrif ym Mhrestatyn i wrthod torri'r cysylltiad sydd rhwng ein Prifysgol a sefydliad i hyfforddi'r ifanc yng nghelfyddyd rhyfel.*

*Er mai nifer cymharol fychan sydd yn perthyn i'r O.T.C. ac am hynny diau y gellid dadlau nad oes yna ddim 'dylanwad moesol' i beri i neb ymuno o'i anfodd, pe deuai ton o frwdfrydedd milwrol dros y wlad, fe fyddai'r 'dylanwad moesol' mor gryf nes gwneud gwirfoddolrwydd ymuno yn ddim ond ffug. Fe olygai wneud bywyd yr ychydig na fynnent filwrio yn bur annioddefol.*

*Yr oedd Mr. William George yn llygaid ei le wrth ddadlau na fwriadodd y gwladwyr syml a roddodd o'u ceiniogau prin at godi'r coleg erioed i'r sefydliad oedd i oleuo'u plant ar gyfair bywyd fod yn offeryn hyfforddiant yng nghelfyddyd dinistrio.*

*Celfyddyd dinistr yw celfyddyd rhyfel, ac nid oes dim cyfatebiaeth o gwbl rhwng yr O.T.C. â chlwb rygbi neu gymdeithas wleidyddol.*

*Fe gafodd y Llys gyfle i ddiarfogi ac ymwrthod â sefydliad y mae ei gysylltu â'u Prifysgol yn anghyson â delfrydau'r rhai y molir eu haberth ynglŷn ag addysg, ac yn groes i farn orau'n cenedl fel y'i mynegir gan yr eglwysi. Fe gollodd y cyfle hwnnw, a siomi gwlad.*

Mae ysgrif flaen Y Cymro 11 Mai 1935 yn enghraifft arall o ba mor deg oedd y papur yn gyffredinol wrth drin a thrafod ei bynciau yn ei ysgrifau blaen. YMBWYLLWN yw cri'r papur 'rhag meithrin teimlad gwrth-Ellmynig yn ddiarwybod i ni'n hunain', ac er efallai y gellid dadlau heddiw, gyda chymorth ôl-weledigaeth, bod y farn honno braidd yn naïf o ystyried y datblygiadau dilynol yn yr Almaen, credaf fod Y Cymro ar y pryd yn dangos aeddfedrwydd a thegwch barn sy'n nodweddiadol o'r mwyafrif o'i ysgrifau blaen. Dylid sylwi'n benodol ar y nawfed paragraff isod sy'n dangos nad yw'r Cymro'n cymeradwyo Ffasgaeth na Chomiwnyddiaeth; serch hynny mae'r papur yn ddigon teg a gwrthrychol i ddadlau nad oedd hynny'n fwy o esgus dros deimlo'n elyniaethus tuag at yr Almaen neu Rwsia nag a fyddai iddynt hwythau deimlo'n elyniaethus tuag at Brydain am nad oeddynt yn cytuno â'r drefn wleidyddol Brydeinig:

*AR wahân i faterion sy'n cyffwrdd breintiau arbennig y bendefigaeth, y mae'n rhaid cydnabod mai yn nhrafodaethau Tŷ'r Arglwyddi heddiw y dangosir mwyaf o bwyll a chydbwysedd. Ac er nad yw'r Tŷ hwnnw yn penderfynu bron ddim, y mae'r hyn a leferir yno yn aml yn dangos barn orau'r wlad. Felly y bu yr wythnos hon wrth drafod pwnc heddwch yn Ewrob.*

*Er mwyn codi trafodaeth fe gynigiodd un o'r Arglwyddi benderfyniad yn condemnio gwaith Cyngor Cynghrair y Cenhedloedd yn collfarnu'r Almaen am dorri'r cytundeb heddwch trwy arfogi a gosod gorfodaeth filwrol ar ei phobl. Wrth gwrs ni allai'r Llywodraeth dderbyn y cynigiad, ac ni ddisgwylid iddo fod yn ddim ond testun trafodaeth rydd.*

*A chan fod y drafodaeth yn rhydd oddi wrth elfennau ymosod ac amddiffyn gwleidyddol, fel sy'n naturiol yn y Tŷ arall, bu'n gyfle gwych i leisio barn bwyllog ar agwedd Prydain tuag at yr Almaen. Ac er pob gwahaniaeth barn ar fanion, yr oedd llawer iawn yn gyffredin yn yr areithiau.*

*Yr oedd yr areithiau yn rhybudd amserol i'r wlad rhag llithro ohoni i agwedd elynol a drwgdybus tuag at yr Almaen.*

*Ynfydrwydd, meddai un o'r Arglwyddi, oedd dywedyd na allai'r Almaen fel gwlad gadw'i gair, a datganodd aelod arall ei ofid am fod tuedd i feithrin ysbryd gwrth-Ellmynig yn y wlad hon.*

*Pa mor bwysig bynnag yw diarfogi, y mae'r un mor bwysig ffrwyno teimladau o elyniaeth a drwgdybiaeth tuag at wledydd eraill.*

*Hwyrach mai gormodiaith a fuasai dywedyd bod ton o ysbryd gwrth-Ellmynig wedi ysgubo dros y wlad, ond ni ellir gwadu nad oes duedd amlwg i ymosod ar yr Almaen, a'i hystyried fel perygl pennaf heddwch a gweriniaeth, a hynny gan garedigion heddwch.*

*Nid oes dim peryclach i heddwch y byd na gadael i anghymeradwyaeth o drefn wleidyddol ac economaidd un wlad beri gogwydd gelynol tuag at y wlad honno mewn materion rhyngwladol.*

*Y mae ymosod ar yr Almaen oherwydd anghymeradwyo Herr Hitler a Ffasgaeth yr un mor ffôl a pheryglus ag oedd ymosod ar Rwsia oherwydd anghymeradwyo Lenin a Chomiwniaeth. Fe all na byddai na Ffasgaeth na Chomiwniaeth wrth ein bodd ni ym Mhrydain, ond nid yw hynny ddim gronyn mwy o reswm dros gasáu'r Almaen na Rwsia nag a fyddai iddynt hwy'n casáu ni am na hoffant ein trefn wleidyddol. Nid gwlad o ddihirod yw'r wlad y mae ei threfn yn wahanol i'r eiddom ni.*

*Nid gwasanaeth i heddwch yw creu drwgdeimlad rhwng gwlad a gwlad, er cymysgu'r cyhuddiadau â honiadau teg ynghylch heddwch a rhyddid.*

*Y mae'r wlad y gellir ennyn drwgdybiaeth a gelyniaeth yn ei phobl tuag at genedl arall yn gymaint o berygl i heddwch y byd, ac yn gymaint o rwystr i deimladau da rhwng gwledydd, â'r wlad sy'n pentyrru arfau.*

*Y mae clirio ymaith amheuon a rhagfarnau a drwgdybiaeth o feddwl cenedl yn gymaint rhan o broblem anodd diarfogi ag yw cytundebau yn y cynghorau rhyngwladol.*

*Gochelwn rhag meithrin teimlad gwrth-Ellmynig yn ddiarwybod i ni'n hunain, neu yn rhith sêl gwerinol a heddychlon.*

Meddiannwyd tiriogaeth y Rhein gan filwyr yr Almaen ar fore dydd Sadwrn 7 Mawrth 1936, ond er bod y weithred hon yn mynd yn groes i gytundebau Locarno a Versailles, nid oes arlliw o gondemniad ohoni yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos o'r Cymro. Yn wir, gesyd y papur resymau Hitler dros weithredu fel y gwnaeth gan ddweud ei bod hi'n 'hawdd deall Hitler yn ymresymu fel hyn, ac yng ngoleuni'r rhesymu yna, nid ymddwyn fel gwallgofddyn yn herio'r byd a wnaeth.' Â'r papur ymlaen i ddatgan bod Hitler 'yn mynegi teimlad carwyr heddwch a chyfiawnder rhyngwladol ym mhob gwlad', geiriau diffuant a llawn ffydd ar y pryd ond rhai a oedd i brofi'n hynod o eironig yn ddiweddarach:

**YR ARGYFWNG** (14 Mawrth 1936)

*Y MAE helbulon rhyngwladol yr wythnos hon wedi gyrru popeth arall i'r cysgod. Y mae cwmwl ofn yn duo ffurfafen y gwledydd, ond nid yw'n canlyn mai cwmwl rhyfel ydyw. Er bod y safle'n beryglus, y mae hefyd yn gyfle a fydd yn brawf ar wladweinwyr y byd yn ystod y dyddiau hyn.*

*Fe bwysleisiodd Mr. Eden nad yw gwaith yr Almaen yn cymryd meddiant o diriogaeth y Rhein yn golygu bygwth rhyfel, ac y mae'n eglur ei fod ef yn gallu edrych yn fwy pwyllog ar y safle na gwladweinwyr Ffrainc, gwlad y mae ei chyndynrwydd parhaus wedi cyfrannu'n helaeth i'r helbul rhyngwladol sydd heddiw'n blino Ewrop.*

*Ar wahân i gytundeb Versailles, nid oes reswm o gwbl dros wadu hawl yr Almaen i ddodi milwyr mewn unrhyw ran o'i thiriogaeth ei hun, ac wrth eu hanfon i diriogaeth y Rhein yr hyn a wna ydyw datgan i'r byd na fyn hi ddim byd llai na chydraddoldeb, ac fod ganddi lwyr awdurdod ar bob erw o'i thir ei hun; nid yw yn bygwth neb.*

*Sail wan iawn sydd gan yr Almaen dros ystyried y cytundeb rhwng Ffrainc a Rwsia yn un wedi ei lunio yn ei herbyn hi, canys y mae memorandum sydd ynghlwm wrth y cytundeb hwnnw yn dangos mai eu dymuniad oedd cael cytundeb a gynhwysai yr Almaen yn ogystal â Rwsia a Ffrainc.*

*Esgus yn fwy na rheswm Hitler yw'r cytundeb hwn. Rhaid chwilio'n ddyfnach am yr achosion. Fe all nad yw helynt yr Eidal ac Abysinia heb ei gysylltiad â gwaith Hitler yn symud i'r Rhein pryd y gwnaeth. Gyda bygwth cynnwys olew yn y mesurau gwasgu yn erbyn yr Eidal, a'r wlad honno'n bygwth gadael y Cynghrair, ac o bosibl (fel y tybid) gefnu ar Locarno, yr oedd Ffrainc yn ceisio cefnogaeth sicrach gan Brydain yn erbyn yr Almaen ar y Rhein yn dâl am gydweithrediad Ffrainc yn y mesurau gwasgu. Felly, cyn i Brydain rwymo ei hun i fesurau gwasgu ar gwestiwn y Rhein, priodol yng ngolwg Hitler oedd meddiannu'r Rhein ar unwaith. Y mae'n hawdd deall Hitler yn ymresymu fel hyn, ac yng ngoleuni'r rhesymu yna, nid ymddwyn fel gwallgofddyn yn herio'r byd a wnaeth.*

*Os cywir y dehongliad yma, fe all y buasai ail-ystyriaeth o bwnc mesurau gwasgu yn peri amheuaeth ynghylch doethineb eu cyplysu wrth Gynghrair sydd â'i nod i sicrhau heddwch, o leiaf ar hyn o bryd, cyn i'r Cynghrair fod yn Gynghrair Byd a'r nwyd i gydweithredu'n drech na'r ofnau a'r amheuon sy'n nodweddu'r gwledydd heddiw.*

*Ond beth bynnag fo'r farn gyntaf am weithred Hitler, ac er mor ddyrys ac anodd yw tasg y gwladweinwyr sy'n cyfarfod yn Llundain, y mae'r argyfwng yn gyfle i osod heddwch ar seiliau gwell a gwaredu'r Cynghrair ei hun. Ar gyfiawnder a chydraddoldeb rhwng gwledydd yn unig y gellir sylfaenu Cynghrair Cenhedloedd effeithiol, ac i'r diben hwnnw fe ddylid datgysylltu ei gyfamod yn llwyr oddi wrth Gytundeb Versailles.*

*Wrth hawlio hynny, nid yw Herr Hitler ar ei ben ei hun nac yn mynegi mympwyon Unben. Yn hytrach, y mae'n datgan nid yn unig deimladau pobl ei wlad ei hun, ond yn mynegi teimlad carwyr heddwch a chyfiawnder rhyngwladol ym mhob gwlad.*

*Y mae'r argyfwng yn galw am ddewrder, ffydd, gweledigaeth a doethineb i dorri hen lyffetheiriau ac anwybyddu rhagfarnau, ac i wynebu'r problemau anodd yng ngoleuni delfrydau amgenach nag ysbryd dial y gorffennol.*

Dychwelir at bwnc yr O.T.C. yn rhifyn 12 Mehefin 1937 o'r Cymro mewn ysgrif flaen sy'n uchel ei chanmoliaeth o Gyngor Dinas Caerdydd ond sydd yn beirniadu'n llym awdurdodau colegau yng Nghymru. Sylwer yn benodol ar bennawd yr ysgrif sy'n atseinio un

o rannau enwocaf stori'r Pasg yn y Beibl; sylwer hefyd ar y paragraff clo sydd unwaith eto'n pwysleisio fel y saif Y Cymro yn gyfan gwbl dros Heddwch ac yn erbyn Rhyfel:

YMAITH AG EF!

*DIOLCHWN o galon i Gyngor Dinas Caerdydd am roddi arweiniad i Gymru, a Phrydain oll, dros wrthod caniatáu sefydlu cangen o'r O.T.C. yn Ysgol Uwchraddol y Bechgyn.*

*Yng nghanol ein gwahaniaethau gwleidyddol a chrefyddol cytunwn fel Cymry yn unfryd ar fawr ddrwg Rhyfel, a'r galw taer am grwsâd sanctaidd dros Heddwch.*

*Dyna, yn ddiau, gwestiwn mawr y dydd, ac ni ddylai ein sêl dros unrhyw ail-achos leihau gronyn ar ein cefnogaeth i'r achos mawr hwn. Nid mater i un blaid neu enwad mohono, ond bloedd ar bawb o bobl y byd i roi ysgwydd dan arch Tangnefedd, a'i dwyn yn ddiogel i Deml Dynoliaeth, er gogoniant Duw.*

*Tueddwn i feddwl am Gaerdydd weithiau fel dinas anghymreig ei meddwl a'i chalon, fel darn o Loegr yn hytrach na Chymru. Ond wele yn awr nodyn clir, digamsyniol, o ffyddlondeb i ddelfrydau Cymru o'r ddinas fawr. Geilw ar bob tref a phentref drwy'r wlad i'w dilyn ar lwybr heddwch a llonyddwch. Teimlwn yn sicr yr ymetyb Cymru yn barod a llawen, ac na fydd gobaith i'r rhai sy dda ganddynt ryfel bwyo cŷn Militariaeth, yn ffurf ddichellgar yr O.T.C., i mewn i ysgolion ein gwlad.*

*Rhaid paratoi ar gyfer y gwaethaf, medd y rhyfelgar, a phwy fel bechgyn ysgol wedi cael ymarfer milwrol o'u mebyd i fod yn asgwrn cefn i Brydain yn nydd ei chyfyngder. Ymresymiad bradwrus yw hwn, fel pob ymdrech i hyrwyddo achosion gwael drwy weithio ar feddwl ac ysbryd plant ac ieuenctid, a hau hadau drwg yn naear barod eu calonnau tyner.*

*Y ffordd i ddiogelu heddwch y byd yfory yw alltudio Rhyfel a'i gêr i gyd o'n hysgolion heddiw. "Ymaith ag ef; croeshoelier a chladder ef." Calfaria Rhyfel, y drwg-weithredwr mawr, yw'r Ysgol.*

*Wrth ddiolch i Gaerdydd geilw'r CYMRO yn uchel a chroyw ar awdurdodau'r Brifysgol i ddilyn arweiniad y Brifddinas yn y peth hwn. Nid oes O.T.C. i fod i fechgyn ysgol Caerdydd, medd y Cyngor. Nid oes O.T.C. i fod i efrydwyr colegau Cymru chwaith, dyweded awdurdodau'r Brifysgol yn glir. Dyma gyfle rhagorol i yrru'r gelyn ddyn o faes Addysg Cymru unwaith ac am byth. Ymaith ag ef!*

*Gofynnwn i'r awdurdodau symud yn ôl Cyngor Caerdydd ar unwaith, tra bo barn gyhoeddus gref yn y wlad a'r amser yn gymeradwy i daro.*

*Gofynnwn hefyd i'r efrydwyr eu hunain ddatgan eu barn o blaid Heddwch, a galw cyfarfodydd yn Aberystwyth a Chaerdydd, ym Mangor ac Abertawe, cyn mynd "i lawr" ar derfyn y mis hwn. Boed Rhyfelgyrch Gwŷr Ieuainc Colegau Cymru yn erbyn Rhyfel yn gryf ac unol, fel y gorfodir yr awdurdodau, os bydd angen, i weithredu yn y peth hwn.*

*Y mae gennym feddwl uchel o'n Prifysgol a godwyd drwy aberth y werin. Bydded yn ffrind cywir Gweriniaeth a Heddwch yn awr. Cyhoedded i'r byd na fynn Addysg Cymru roi swcwr o gwbl i filitariaeth; nad oes yn neuaddau ei cholegau Gadair i'r duw Mawrth. Ymaith â'r O.T.C.!*

*Papur amhleidiol hollol yw'r CYMRO ar bob mater gwleidyddol ac enwadol. Dyna pam y geilw ei hun yn bapur cenedlaethol Cymry'r byd. Ond yn y mater hwn saif yn ddisyfl o blaid Heddwch, ac yn erbyn Rhyfel. Geilw yn awr ar y Brifysgol i ddilyn esiampl wiw Cyngor Dinas Caerdydd yn ddiymdroi, gan dorri ymaith a thaflu oddi wrth yr O.T.C.*

CAPLANIAID yw pennawd ysgrif flaen yr wythnos ddilynol ac unwaith eto dyma enghraifft ragorol o'r Cymro yn pwyso a mesur y pwnc dan sylw'n gwbl deg a chytbwys. Y cwestiwn mawr a drafodir yma yw: a ddylai caplaniaid wasanaethu yn y fyddin ai peidio, cwestiwn dyrys sy'n esgor ar deimladau cryfion o'r naill ochr a'r llall. Sylwer isod fel y pwysleisia'r papur nad yw am un eiliad yn amddiffyn rhyfel; sylwer hefyd fel y mae'n cydymdeimlo â safbwynt y rhai sy'n gwrthwynebu i gaplaniaid wasanaethu yn y fyddin am y credent yn egwyddorol bod hynny'n groes i ysbryd heddwch. Mae'r papur yn cydymdeimlo mwy, fodd bynnag, â'r milwyr sydd yn y fyddin ac yn credu na ddylid eu hesgeuluso'n grefyddol, gan fod llawer ohonynt yno dan orfodaeth eu hamgylchiadau truenus:

*DAW'R cwestiwn o gael caplaniaid, o bob enwad, i wasanaethu yng ngwahanol adrannau'r "fyddin", - ar y tir, ar y môr, a bellach yn yr awyr, i sylw'r dyddiau hyn.*

*Codwyd ef yng nghymanfa un o'r enwadau Ymneilltuol yr wythnos ddiwethaf, a chreodd beth cyffro; ond ni chaniataodd y llywydd drafodaeth arno.*

*Wrth ei godi, pwysleisiwyd yr angen am ddarpariaeth grefyddol i wŷr ieuainc a ymunodd â rhyw gangen o'r fyddin, yn ôl traddodiad eu henwad eu hunain. Beth bynnag am ddelfrydau heddwch, bydd byddin a llynges ac awyrlu gyda ni am flynyddoedd lawer, yn y byd sydd ohoni. Oni ddylai pob enwad, felly, ddarparu nifer o gaplaniaid, yn ôl y galw, i bregethu i'w wŷr ieuainc, i ymddiddan â hwy, eu cynghori a gwneud cyfeillion ohonynt?*

*Diau yr ymuna nifer mawr â'r fyddin dan bwysau anghyflogaeth, heb fod yn filitaraidd eu hysbryd nac anghrefyddol eu tymer. Megis yn 1914-1918, caiff llawer gŵr ieuanc heddiw ei hun mewn dillad milwr dan orfodaeth amgylchiadau, nid mor uniongyrchol a didrugaredd ag yn y dyddiau tywyll hynny, ond gorfodaeth, yn y gwaelod, nid dewis rhydd.*

*Oni ddylai'r enwadau Ymneilltuol gofio am y rhai hyn? Os gwrthodir penodi caplaniaid o'u henwad ar eu cyfer, collir hwy, i bob pwrpas. Gosodant 'C. of E.' ar gyfer eu henw, a darfod â chrefydd eu maboed am byth. Yn ymarferol, mae eu henwad wedi eu diarddel, a'u gadael i'w tynged.*

*Nid rhywun-rhywun a wna gaplan, mwy na chenhadwr. Ni awgrymwn annog pasiffist rhonc i fod yn gaplan; ond y mae llu mawr o'n gweinidogion Ymneilltuol heb fod "allan-ac-allan" o blaid heddwch, ac ni theimlent un anhawster i wisgo gwisg swyddogol caplan yn y fyddin.*

*I'r dyn iawn y mae cyfle arbennig yn y gwaith hwn i "gael at" wŷr ieuainc, a dyfnhau'r atgofion a'r argoeddiadau crefyddol sydd ganddynt cyn i galedrwydd bywyd milwr eu llwyr fygu.*

*Derbyn yr Eglwys Babaidd a'r Eglwys Esgobol y gwaith hwn fel rhan naturiol o'u cyfrifoldeb i'w haelodau, ond y mae gan yr enwadau Ymneilltuol eu caplaniaid hefyd, a phriodol oedd penodi Ymneilltuwr yn gaplan i'r ysgol Fomio yn Llŷn. Nid oes, o bosibl, lawer o Gymry nac o Ymneilltuwyr ymhlith bechgyn yr ysgol hon, - hyderwn nad oes; ond priodol yw bod gweinidog yn ymweld â'r ysgol, i gael gair "ymneilltuol" â chynifer ag y sydd ohonynt yno.*

*Cwestiwn pigog yw hwn. Ni charai'r CYMRO ddweud dim a allai ymddangos mewn un modd yn amddiffyn ysbryd rhyfel; dros heddwch, fel y dywedwyd yn y golofn hon yr wythnos ddiwethaf, y saif bob amser. Ond nid mater o gefnogi rhyfel yw gofalu am grefydd bechgyn Ymneilltuol sydd eisoes yn y fyddin.*

*Gwyddom mai sêl cynyddol a chanmoladwy dros heddwch, a chas at ryfel a phob peth ar y sydd eiddo ef, a gyfrif am y gwrthwynebiad i weinidogion wasanaethu fel caplaniaid i'r fyddin. A gallwn feddwl am lu mawr o weinidogion y byddai yn well ganddynt, ar gydwybod, fod heb ofalaeth o fath yn y byd na derbyn caplaniaeth.*

*Ond y mae'r wedd arall a roddwyd uchod, ac os teimla gweinidog Ymneilltuol ar ei galon i gynnig ei wasanaeth i'r fyddin fel 'padre' i blant ei enwad, annheg, yn ein barn ni, yw ei gollfarnu fel pleidiwr rhyfel.*

Ceir ysgrif flaen sy'n dilyn yr un trywydd yn <u>Y Cymro</u> 28 Awst 1937 o dan y pennawd <u>**COFIWCH Y MILWYR**</u>:

*BRAWDDEG gyfarwydd, a welir ar fur llawer capel, yn enwedig ar y glannau, yw <u>Cofiwch y Morwyr</u>. Cyngor pwrpasol iawn ydyw hefyd, i feddwl am rai a wyneba beryglon ac enbydrwydd ar y môr mawr. Ond tueddwn i anghofio plant Cymru sydd ar wasgar dros wyneb y ddaear fel aelodau o'r fyddin neu'r llynges neu'r awyrlu. Gwelir ar dudalen arall o'r rhifyn hwn lythyr "Y Bais Goch" ar y mater.*

*Geilw sylw, mewn modd rhesymol a didramgwydd hollol, at ein diffyg diddordeb yn ein milwyr, a'n difaterwch ynglŷn â buddiannau ein meibion sydd yn swyddwisg y Brenin.*

*Credwn ei fod yn llygad ei le. Yr ydym fel cenedl yn gryf o blaid heddwch ac yn erbyn rhyfel. Aeddfedodd ein barn fel pobl ar y mater pwysig hwn yn gyflym a phendant a fewn y deng mlynedd diwethaf. Ni all fod dwy farn ar gywirdeb y safbwynt, a chyfle'r Cymro heddiw i gefnogi heddwch ym mhob rhyw fodd. Ond un peth yw casáu rhyfel; peth arall yw casáu neu ddiystyrru'r milwr. Codwyd y pwynt hwn eisoes yn ein colofnau yn ystod yr wythnosau hyn, ynglŷn â chwestiwn caplaniaid Ymneilltuol i'r fyddin. Dylid rhoddi pob sylw i Gymro, i bob dyn, o ran hynny, yn swyddwisg filwrol y Brenin Siôr yn ogystal ag yn swyddwisg offeiriadol y Brenin Iesu. Cyfeiliornus iawn yw ein sêl dros heddwch os arwain ni i fwrw unrhyw sarhad ar y milwr, neu hyd yn oed i'w anwybyddu a'i gyfrif fel yr ethnig a'r publican.*

*Carai'r CYMRO ategu apêl "Y Bais Goch" yn galonnog, a galw ar aelodau'r gwahanol enwadau, a phawb yn gyffredinol, i chwanegu at gofio'r morwyr gof cyson a didwyll am ein milwyr hefyd. Ânt i bellafoedd byd, wynebant galedi a pherygl ar ororau aflonydd gogledd India a llawer gwlad arall, a chludant faner Cymru gyda hwy, a'i chadw'n lân ac anrhydeddus, fel y pwysleisia ein gohebydd, yng ngŵydd y bobloedd. Bychan iawn o beth, fel arwydd o'n serch tuag atynt ac ad-daliad rhesymol iddynt, yw eu cadw mewn cof a dilyn eu helynt hyd y gallwn.*

*Croesawn unrhyw newydd am ein milwyr a anfonir inni gan berthynasau neu gyfeillion, ac agorwn ein colofnau led y pen i lythyrau neu nodion oddi wrth unrhyw rai ohonynt hwy eu hunain a deimla ar eu calon i ysgrifennu atom. Gwna'r CYMRO hyn yn llawen, nid yn unig am yr honna fod yn bapur cenedlaethol i Gymry'r byd, o bob plaid ac enwad a galwedigaeth, ond hefyd am y teimla mai camgymeriad dybryd yw cymysgu cas at ryfel â diystyrwch o'r milwr.*

*Yn y dyddiau pryderus hyn, a chymylau rhyfel yn ymsymud fel adar*

*ysglyfaethus uwchben gwledydd y byd, dylem gofio'r milwyr yn arbennig. Apeliwn at yr enwadau yng Nghymru i roddi mwy o le iddynt yn y gwasanaeth crefyddol. Gweddïwn ar ran y cleifion a'r tlodion, yr hen a'r trallodus; a da y gwnawn. Beth am ddwyn y milwr hefyd i mewn i'n gweddïau cyhoeddus? Milwr oedd yr olaf i wylio Mab y Dyn ar ei groes, a chyffesu, "Yn wir, Mab Duw oedd y dyn hwn."*

Fel y gwelir o'r ysgrifau uchod, ynghyd â'r llu o adroddiadau ym Mennod y Tudalennau Blaen yn ymdrin â datblygiad y Rhyfel, nid oedd darllenwyr Y Cymro dan unrhyw gamargraff ynglŷn â'r sefyllfa ryngwladol beryglus oedd ohoni ac nid oeddynt ychwaith dan unrhyw gamargraff ynglŷn â safiad pendant y papur dros Heddwch ac yn erbyn Rhyfel. Yn Y Cymro 6 Tachwedd 1937 ceir ysgrif flaen o dan y pennawd **Y CADOEDIAD** sydd unwaith eto'n pwysleisio hyn; fe'i dyfynnaf yn bennaf fodd bynnag oherwydd ei harddull lenyddol drawiadol a'i chyfeiriadau Beiblaidd mynych, rhywbeth pur anghyffredin erbyn heddiw:

*DYDD Iau nesaf, Tachwedd 11, gesyd y Brenin dorch flodau ar y bedd gwag yn Llundain. Bedd gwag yw ystyr cenotaph; ac onid arwyddocaol iawn yw'r enw hwnnw ei hun. Bedd gwag; nid oes neb yno. "Nid yw Efe yna."*

*Nid y'nt hwythau yno, ym miri traffic Whitehall. Aethant o gymoedd Cymru i heldrin Ewrob, ar alwad iawnder, fel y pregethwyd iddynt, gan wleidwyr ac, ysywaeth, gan weinidogion efengyl tangnefedd. Ni ddychwelasant, ac nid yn Llundain y maent. A gyfodasant hwy, fel y llu y dywedwyd amdano. Nid yw Efe yna, ni wyddom ni. Eithr gwn na fodlona mam un ohonynt heb gredu y caiff weled eto y mab a ymddug hi yn y cnawd.*

*Diwrnod y mamau yw Tachwedd 11. Hwy a gofia ofid y blynyddoedd gwag, 1914-1918. Hwy a wybu'r aros sy'n waeth na'r rhuthr ffyrnicaf; hwy a lafuriasant helaethaf i gadw'r gwledydd rhag gwallgofrwydd a chyffro hysteraidd. Iddynt hwy, o flaen pawb, y dylid rhoi saliwt.*

*Mor ychydig dan ddeugain oed a gofia neges y clychau am un-ar-ddeg o'r gloch fore Tachwedd 11, 1918. Tyfodd cenhedlaeth na adnabu faich rhyfel a gollyngdod cyhoeddi heddwch. "A Joseph a fu farw, a'i holl frodyr, a'r holl genhedlaeth honno"; a chyfododd to na adwaen mohono. Ni ddwg y clychau iddynt hwy ryfeddol falm y rhyddid a wybu cynefin â dolur rhyfel dros ysbaid pedair blynedd.*

*I ni a gofia'r bore hwnnw, ugain mlynedd namyn un yn ôl, ni chân y clychau ond un neges o flwyddyn i flwyddyn, - "Dychwel dy gleddyf i'w le." Y mae'r gair yn hen ac yn ddwyfol; ond, fel llawer gair hen, rhaid i bob oes ddysgu ei wirionedd o'r newydd drwy brofiad caled, a rhaid i'r dwyfol gymeradwyo ei hun i ddyn drwy ymgnawdoliad i fyd ei helynt bach ef. Dysgasom ni'r wers rhwng 1914 a 1918, a gallu gorffen yr adnod gydag argyhoeddiad, - "canys pob un ar a gymer gleddyf a ddifethir â chleddyf." Difetha a fu hanes y blynyddoedd hynny, a'r blynyddoedd ar eu hôl; a pheth ofnadwy yw difetha, - difetha bwyd, difetha cyfle, difetha unrhyw beth, heb sôn am ddifetha dynion, eu cyrff, eu gobaith mewn bywyd, eu hyder ar iawnder a Duw.*

*Canys dyna a ddigwyddodd. Lladdwyd miloedd, a hapusach hwy, o bosibl, na'r miloedd anafus a ymlusg ymlaen drwy fywyd hyd heddiw, yn gleifion a gwywedigion.*

*Beth a erys i ni? Un o ddeubeth. Gollwng argoeddiadau i fynd, ac ymrestru ym myddin y Golledigaeth, neu addunedu sefyll dros heddwch, nid mewn geiriau llithrig, ond mewn gweithred a gwirionedd. Sef yw hynny, gwrthod dadweinio cledd byth mwy â llaw nac ysbryd, ar air na brenin na gwlad nac ymerodraeth.*

Ysgrif drawiadol arall, ond am resymau gwahanol, yw un 18 Rhagfyr 1937 sy'n sôn am y NADOLIG TYWYLL o dan gymylau bygythiol rhyfel. Ynddi cymherir neges heddwch y Nadolig â realiti bywyd yr ugeinfed ganrif a dangosir mor chwerthinllyd yw'r geiriau 'Gogoniant, tangnefedd ac ewyllys da' yn y sefyllfa ryngwladol oedd ohoni, er wrth gwrs nad oedd unrhyw achos i chwerthin. Sylwer ar y modd eithriadol o glyfar y cyplysir y Siôn Corn sydd â'r mwgwd nwy ar glawr brawychus y cylchgrawn Peace â'r 'Father Christmas' mwyaf un, sef Duw; sylwer hefyd ar y modd y defnyddir inc trwm (geiriau a danlinellir isod) i bwysleisio rhai geiriau ac sy'n creu effaith fwy trawiadol byth:

*DYMA ni ar drothwy Gŵyl fawr y Geni unwaith yn rhagor, a'r geiriau cyfarwydd yn dod i feddwl pawb, "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd i ddynion o ewyllys da." Dyna adnod fawr y Nadolig a ddysgasom oll yn nyddiau mebyd, a'i chredu o ddyfnder calon. Yn ein cartrefi a chylch ein cyfeillion ceisiwn fyw i fyny, hyd y gallwn, ag ysbryd y geiriau, tangnefedd ac ewyllys da. Anfonir anrhegion yn ôl dyfnder ein llogell, a chyfarchion y tymor yn dymuno llawenydd yr ŵyl a daioni yn y flwyddyn newydd.*

*Dyna'r traddodiad, a thraddodiad gwych ydyw, gwerth ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Dysg pob plentyn ramant Father Christmas a'i ymweliad â phob tŷ drwy'r gwledydd, ei siwrne ryfedd drwy'r simne i lanw'r hosan ar droed y gwely. Goleuir canhwyllau lliwiedig ar goedau werdd y Nadolig gwyn, i ddwyn goleuni yn nhywyllwch y gaeaf a gwres i ymlid yr oerfel. "Gogoniant....tangnefedd....ewyllys da."*

*Ar glawr rhifyn Rhagfyr 'Peace' y mae darlun o Father Christmas, na charai unrhyw rieni i'w plant ei weled, oherwydd ar ei gefn y mae'r sach adnabyddus, yn llawn o deganau fel arfer, ond dros y wyneb gwridgoch, siriol, y mae peth enbyd o anarferol, - mwgwd nwy. Chwery pelydrau treiddgar y chwil-oleuadau enfawr arno, a ffroenau'r magnelau dyrchafedig yn ei fygwth yn yr entrych. Ar y gwaelod y mae byddin arfog a'r bidogau fel fforest drwchus, a'r geiriau, "Saliwt i Santa Claus, 1937."*

*Ie, goleuadau gelynol dyn yn bygwth Duw, canys Efe yw Father Christmas, Tad gŵyl y Nadolig; a seren Bethlehem wedi ei gwthio i gongl fechan draw, a'i phelydr grasol bron ar ddiffodd.*

*"Gogoniant....tangnefedd....ewyllys da"! Ffars chwerthinllyd ac ofnadwy gwareiddiad yr ugeinfed ganrif.*

*"Os yw Duw yn caru dynion,*
*Nid yw dyn yn caru dyn."*

*Prydain Fawr i wario rhwng 320 a 340 o filiynau ar arfau a darpariadau rhyfel yn y "flwyddyn newydd dda" sydd ar y trothwy. Ie, "da" iawn, yn wir! A'r un swm, neu ragor, bob blwyddyn am bum mlynedd i ddod.*

*Gwrandewch ar newyddion y radio heno, a bwrw golwg dros y papur newydd yn y bore, - ac yna ceisiwch ddweud "Gogoniant....tangnefedd.... ewyllys da." Gogoniant i bwy? Tangnefedd ym mha le ar y ddaear? Ewyllys da tuag at bwy?*

*Gogoniant i'r duw Mawrth nid i'r Duw Mawr. Tangnefedd i'r rhai sy' dda ganddynt ryfel, a gwneud golud coch o waed gwirion, fynd ymlaen gyda'u brad ar frys ac yn ddirwystr. Ewyllys da tuag at benaethiaid hunanol, cadfridogion haearnaidd, lluoedd banerog, magnel, bidog, nwy.*

*"Nadolig llawen"! Y mae llawenydd yn y Pwll am un byd a edifarhaodd garu a maddau, a dysgu trin y cledd, a thywallt gwaeth tân a brwmstan nag a ddyfeisiodd diafol ei hun erioed.*

Dirywiodd y sefyllfa'n frawychus o sydyn ym 1938 ac yn ystod ail hanner y flwyddyn yn arbennig yr oedd sôn cynyddol yn rhifynnau'r Cymro am ddifrifoldeb ac argyfyngder y sefyllfa ryngwladol. Dyma ysgrif flaen rhifyn 17 Medi 1938 wedi i Neville Chamberlain benderfynu ymweld â Hitler yn yr Almaen, un o'r ychydig benderfyniadau o eiddo'r Prif Weinidog sy'n ennyn canmoliaeth y papur:

YR ARGYFWNG

*PENDERFYNODD y Prif Weinidog ehedeg i'r Almaen i weled Herr Hitler. Nid yn unig dengys hyn ddifrifwch y sefyllfa ar y Cyfandir, ond saif allan fel penderfyniad beiddgar a ddug belydryn o obaith drwy gymylau tywyll ac ofnadwy rhyfel, a dduodd ffurfafen y byd yr wythnos hon.*

*Y mae'r dyhead am heddwch yn gynhenid ym mhobl y wlad hon, ond gwyddem ers rhai blynyddoedd ein bod yn eistedd ar ymyl llosgfynydd. Yn awr dechreuodd boeri tân a gwaed. Diau bod mater yr Almaenwyr Swdetaidd yn un broblem, ac yn broblem y rhaid ei datrys, ond y mae problem arall a mwy o lawer y rhaid ei wynebu. Y mae penderfynu'r problemau ar sylfaen barhaol yn anhepgorol i fuddiannau bywyd rhyng-genedlaethol ac i heddwch a llwyddiant dynoliaeth.*

*Dywedwyd yn 'Y Cymro' o bryd i bryd bethau plaen, onid chwerw hefyd, am Mr. Chamberlain. Ond yn yr oriau difrif-ddwys hyn, a'i benderfyniad dramatig i ehedeg i Alpau Bafaria drwy awyr sy'n drwm gan dynged a thrasiedi, y mae calon y wlad a'r Ymerodraeth gydag ef, yn y gobaith y llwydda fel cynrychiolydd y gymdeithas werinol, fawr hon, i achub Ewrob rhag y trychineb a'n bygwth.*

*Y mae'n amhosibl rhagddweud beth fydd canlyniad y cyfarfyddiad pwysig a difrif hwn. Erbyn y darllenir y nodiadau hyn, o bosibl y bydd y wlad hon a'r byd yn gwybod y gwir. Er ein diffyg ffydd yn y Prif Weinidog mewn llawer o bethau, credwn fod anrhydedd y wlad hon yn ddiogel yn ei law, y ceidw i fyny ein traddodiadau, heb adael Hitler mewn amheuaeth o fath yn y byd yn y mater.*

*Y mae Pleidlais Gwerin yn un o offerynnau mwyaf anrhydeddus Gwerin-lywodraeth, ond nid Pleidlais Gwerin yn yr ystyr a ddeallwn ni yw pleidlais â gynnau wedi eu troi ar y pleidleiswyr. Os mai drwy ganiatáu Pleidlais Gwerin o'r fath y ceir heddwch, nid Heddwch mohono.*

*Ar ein tudalen blaen rhoddwn adroddiad y Parchedig Gwilym Davies o eisteddiad agoriadol y Cynghrair Cenhedloedd yn Genefa, - Genefa lle mae drws heddwch yn agored led y pen. Ond yn Berlin a Rhufain y mae*

*cleddyf rhyfel a gwaed yn noeth. Pa hyd y gall y gweriniaethau a gred mewn Cynghrair Cenhedloedd fel cyfrwng i benderfynu cwerylon drwy drafodaeth, aros yn amyneddgar a goddef tra chwifir y cledd gan unbeniaid a gallu bywyd a marwolaeth yn eu llaw?*

*Dywedodd siopwr yn yr Yswisdir wrth yr ysgrifennwr: "Yr ydym yn crynu gan ofn Mussolini a Hitler yn y wlad hon. O bosibl y llwydda eich gwlad fawr chwi i rwystro ymosodiad o'r eiddynt, ond y Duw Mawr uchod yn unig a all newid eu calonnau."*

*A all y cyfarfyddiad hwn agor y ffordd i heddwch a diogelwch, chwarae teg ac anrhydedd rhwng cenhedloedd, ac, yn sgil y pethau hyn, fasnach a llwyddiant yn y byd hwn lle mae digon ar gyfer pawb? Dyna obaith a dyhead y byd i gyd; a chawn weled yn fuan bellach a sylweddolir y gobaith drwy gyfnewidiad calon ai ynteu drwy ddyffryn angau.*

Yr wythnos ddilynol dangosir difrifoldeb y sefyllfa gan y ffaith i olygydd Y Cymro benderfynu neilltuo'r dudalen flaen, yn hytrach na'r dudalen ganol arferol, i fynegi barn y papur, ac er fy mod eisoes wedi dyfynnu'r ysgrif hon ym Mhennod y Tudalennau Blaen, credaf mai addas yw ei hail-ddyfynnu yma. Gwelwyd uchod bod Mr. Chamberlain yn cael ei ganmol am ei 'benderfyniad dewr' a dywedwyd bod 'anrhydedd y wlad hon yn ddiogel yn ei law'; mae'r papur erbyn hyn fodd bynnag yn feirniadol ohono am ildio Gweriniaeth Siecoslofacia i Hitler 'am saig o fwyd'. Gwelir Y Cymro hefyd yn atgoffa ei ddarllenwyr o'r Maniffesto a gyhoeddwyd ganddo ychydig fisoedd yn flaenorol, gan nodi mor gywir oedd y broffwydoliaeth honno:

ARGYFWNG Y BYD (24 Medi 1938)

*Y MAE'R argyfwng a ddaeth fel cwmwl dros y wlad hon a'r byd yn datblygu gyda chyflymdra arswydus. Y mae barn ar bob llaw mewn dryswch a phenbleth, a disgwylir gyda rhyw ddiffrwythdra poenus am y stori sydd gan y Prif Weinidog i'w dadlennu pan ddaw i wynebu Senedd y Weriniaeth fawr hon, ar ôl ei ail ymweliad â Hitler.*

*Gwell gan 'Y Cymro' aros am y stori bwysfawr hon cyn cyhoeddi barn. Yn unig dengys pob arwydd ar hyn o bryd fod Prif Weinidog Prydain Fawr unwaith eto, fel o'r blaen yn Manchuko, Abysinia, a Sbaen, yn awr yn achos Siecoslofacia, wedi gwerthu genedigaeth-fraint Gweriniaeth am saig o fwyd. Y mae gwasg y byd yn ddrych rhyfedd o ganmoliaeth a cherydd.*

*Yr ydym oll yn berffaith sicr o un peth, - erchylltra rhyfel, a'r cyfrifoldeb ofnadwy o ofyn ar law y wlad hon aberth gwaed ei meibion, a cherdded ohoni drwy ddyffryn y dychrynfeydd. Ni wyddom ni pa mor barod neu amharod ydym i ryfel. Rhaid pwyso'r oll ynghyd yng nghlorian barn pan ddatgelir y ffeithiau. Rhaid gosod yn y glorian anrhydedd y wlad hon a'r oll a olyga i ni ein hunain ac i bobl y gwledydd gwerinol eraill.*

*Ond, ar ôl addef hyn i gyd, beth bynnag a ddatguddir am y safle yn y dyfodol, y mae un peth o bwysigrwydd enfawr i'r wlad hon na ellir*

*edrych heibio iddo, - bod y Prif Weinidog, heb ymgynghori â'r Senedd, wedi gosod traed Prydain Fawr ar lwybr o Bolisi Tramor sydd wedi syfrdanu'r genedl i gyd. Profir difrifwch y ffaith gan ddatganiadau arweinwyr o ddaliadau a delfrydau mor wahanol â Mr. Attlee, Mr. Eden, Mr. Winston Churchill, a Syr Archibald Sinclair.*

*Ar Fai 7 diwethaf cyhoeddodd 'Y Cymro' Faniffesto i Genedl y Cymry. Egyr gyda'r brawddegau awgrymiadol hyn:*

*'Ni bu erioed o fewn cof neb ohonom y fath fygwth cas ar ryddid a gweriniaeth ag â'n wyneba heddiw. Yn Ewrob bras-gama tra-arglwyddiaeth a gormes yn agored a digywilydd. Hyd yma arbedwyd Prydain, ond y mae yma hefyd arwyddion a lleisiau bygythiol, ac nid oes neb mor bryderus ei galon fel y gall edrych i'r dyfodol agos yn ddibryder. Y mae'r rhyddid yr ymladdodd ein tadau mor lew i'w ennill, yn y glorian. Daeth dydd cyhoeddi dedfryd ar egwyddorion gwerinol bywyd a llywodraeth cenhedloedd, sy'n ffrwyth cenedlaethau o ddelfrydau, ffydd ac ymdrech.*

*Cred 'Y Cymro' y sylweddola Cymru angen yr argyfwng, a llefain â llais unol, eglur, digamsyniol. Y llais hwnnw yw creu ffrynt unedig o bob plaid a chorff yng Nghymru a gyfarch Seren Gweriniaeth a Rhyddid fel eu goleudy a'u nod ym môr aflonydd gwleidyddiaeth ein hoes. Yng ngoleuni ein hen hanes a than symbyliad ein anghenion dirfawr heddiw rhaid inni uno i atal llanw'r adwaith gwleidyddol gartref. Oni wnawn hynny llithra Ewrob a'r byd i safle a bair ddryswch i Weriniaeth, ac agor drws led y pen i Unbennaeth.'*

*Ni bu geiriau proffwydoliaeth erioed yn nes i'r gwir, na'u cyflawniad mor agos i amser eu llefaru. Os gorfodwyd Mr. Chamberlain i sicrhau heddwch ar hyn o bryd drwy ildio i dincial cledd Hitler, yna rhaid i'r wlad i gyd fel un gŵr gymryd yr ornest arni ei hun; ac oni cheir ffrynt unedig, a hynny'n ddioed, offrymir ein rhyddid a'n hegwyddorion ar allor Blyff Unbennaeth.*

*Pe buasai ffrynt unedig eisoes, buasai Hitler wedi sylweddoli hynny, buasai'r Prif Weinidog yntau wedi sylweddoli hynny. Y rhaniadau yn ein syniadaeth am ddatblygiad, a'r ffordd i symud ymlaen yn effeithiol a diogel, yw'r gwendid mawr yn ein Llywodraeth ar adeg o bwys rhyng-genedlaethol; a'r rhai hyn hefyd a gryfha Unbennaeth yn ein gwlad ein hunain, a rhoi hyder i unbeniaid ar y cyfandir chwarae a chellwair â ni.*

*Oni chywirir y diffyg hwn, a'i gywiro'n ddioed, gall Llywodraeth a lunia i'r wlad hon Bolisi Tramor heb ymgynghori â'r Senedd, lunio i'n gwladwriaeth gartref hefyd gyfundrefn Ffasgaidd, pa enw bynnag a roddir ar y cyfryw.*

Erbyn rhifyn dilynol Y Cymro yr oedd y papur wedi dychwelyd drachefn i fod yn fwy canmoliaethus o'r Prif Weinidog, sydd nid yn unig yn cadarnhau mor ansicr a chyfnewidiol oedd y sefyllfa o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos ond sydd hefyd yn tueddu i awgrymu nad oedd safbwynt Y Cymro yn rhy sicr ar y mater; mae'r ffaith ei fod yn pwysleisio isod nad yw am draethu barn bendant ar y mater cyn cael yr hanes yn ei gyfanrwydd i'w weld yn cadarnhau hyn. Er tegwch â'r Cymro, fodd bynnag, dylid dweud bod ei ansicrwydd yn nodweddiadol o ansicrwydd y wasg Brydeinig drwyddi draw yn y dyddiau cyfnewidiol hyn:

CODI CWR Y LLEN (1 Hydref 1938)

*Y MAE gobeithion a gweddïau'r ddynoliaeth wedi eu canoli ar gynhadledd cynrychiolwyr y pedwar Gallu Ewropeaidd yn Munich.*

*O'r diwedd daeth Mussolini, Hitler, Chamberlain a Daladier wyneb yn wyneb o gwmpas y bwrdd. Ni allwn ond gobeithio y bydd i'r penderfyniad hwn i gyfarfod â'i gilydd a thrafod y problemau sy'n bygwth heddwch y byd, cyn rhuthro i ryfel, agor y drws nid yn unig i setlo problem yr Almaeniaid Swdetaidd, ond i ddiogelu heddwch Ewrob a'r byd.*

*Dywedasom yr wythnos diwethaf y byddai inni aros am y stori bwysfawr a adroddai'r Prif Weinidog wrth y Senedd, cyn traethu barn. Yn awr dadlennwyd y ddrama aruthrol i'r byd i gyd ei dilyn: ac ni wnawn ond dweud yn syml yr â tudalennau agored y trafodaethau rhwng Unben yr Almaen a Phrif Weinidog Prydain i lawr i hanes, nid yn unig yn lân ac anrhydeddus cyn belled ag y mae'r wlad hon yn y cwestiwn, ond hefyd fel yr ymdrech fwyaf gwrol dros Heddwch a welodd y byd erioed.*

*Ni all undyn, Hitler ei hun o bawb, ddywedyd yn awr fod un amheuaeth parthed yr agwedd a'r safle a gymerai'r wlad hon pe torrai rhyfel allan ar y cyfandir.*

*Dengys yr esmwythâd a ddaeth i deimladau llawn a nerfau tyn cenhedloedd y byd gyda'r newydd am gynhadledd y ford gron y llwyddodd Mr. Chamberlain i'w galw, mewn ymdrech bellach i gadw'r drws rhag cau yn llwyr ar drafodaeth heddychol, nid yn unig wroldeb y Prif Weinidog yn bersonol, ond hefyd fesur gobeithion a gweddïau'r genedl i osgoi'r trasiedi ofnadwy, a dianc rhag y ffwrnais y saif yr holl fyd ar ei hymyl.*

*Erbyn y daw y rhifyn hwn i ddwylo ein darllenwyr o bosibl y bydd y gorau neu'r gwaethaf yn wybyddus i bawb. Ond dros y cyfan gorwedd cysgod agwedd awdurdodol a gorthrymus Herr Hitler ar y naill law, ac ar y llaw arall yr ysbryd a fynegodd y Prif Weinidog yn ei atgasedd o "orthrymiad y byd gan rym."*

*Dyma gyfrinach yr argyfwng. Rhaid diogelu Rhyddid, ac oni chytuna Hitler i gydnabod rhyddid a hawlfraint gwledydd bychain o'i gwmpas, hawl y trigolion i ddewis drostynt eu hunain gyda pha genedl y dewisant fyw, a diogelwch cenhedloedd annibynnol mewn mwynhad o hunan-lywodraeth ar ei riniog, yna rhaid wynebu'r cyfryw drais a gormes, a'i hymladd, beth bynnag fo'r gost.*

*Nid oes un amheuaeth na fydd i Mr. Chamberlain ddychwelyd o'r gynhadledd, gyda'i feddwl pwyllog a'i afael meistrolgar ar ffeithiau, a chanddo weledigaeth eglur o holl elfennau'r sefyllfa. Ni chedwir y byd yn hir bellach mewn anwybodaeth a phryder. Cawn wybod a ymgyndynnir mewn trais a thraha, neu a sicrheir rheswm ac ewyllys da, trafodaeth deg ac awyrgylch heddychol, gyda gobaith am gytundeb a dry olwynion masnach unwaith eto drwy'r byd, gan agor i ddynolryw ragolwg o lwydd a ffyniant, yn lle'r hunllef o farwolaeth a dinistr a fu'n rhythu arnom oll yr wythnosau hyn.*

*Yn y cyfamser cofiwn oll genadwri'r Brenin, - "I gadw'n pennau'n dawel a'n calonnau'n ddewr, ac ymddiried yn ein harweinwyr."*

Cyhoeddodd tudalen flaen Y Cymro 8 Hydref 1938 bod Neville Chamberlain wedi llwyddo i ddod i gytundeb â'r Almaen a Ffrainc a'r Eidal a fyddai'n OSGOI GALANAS RHYFEL BYD, ac yn yr adroddiad hwnnw, a ddyfynnwyd yn llawn yn y bennod ddiwethaf, mae'r papur am y tro cyntaf ers amser maith yn mynegi ffydd gwirioneddol bod

gobaith o'r diwedd am Heddwch parhaol; mae'r papur yn ogystal yn rhoi'r clod am hynny ar ysgwyddau un gŵr yn benodol, sef Neville Chamberlain. Erbyn 15 Hydref 1938, fodd bynnag, mae'r Cymro yn dechrau sylweddoli nad oedd Cytundeb Munich mor fendithiol ag yr ymddengys ar yr wyneb:

CYTUNDEB MUNICH

*PERY'R ddrama ar y cyfandir i ymagor a datblygu. Daw'r llinellau'n fwy eglur a di-gwestiwn o ddydd i ddydd. Y ffaith fawr yw bod Hitler wedi ennill yr oruchafiaeth hon eto i'w bolisi, a draethwyd yn glir yn ei lyfr, 'Mein Kampf', ac ar yr un pryd wedi pwyo'r cŷn ymhell i mewn i'r galluoedd gwerinol, - cŷn amheuaeth, braw ac ofn. Datgymalwyd Sieco-slofacia y tu draw i ddarpariadau Cynllun Godesburg, a phwysir cais y Reich am ddychweliad ffoaduriaid Almaenaidd â blaen bidogau Siec, dan rym ofn eu harglwydd newydd. Gosododd yn awr derfyn, nad yw'n derfyn o gwbl, o fewn tua 20 milltir i Prague. Deil yn ei law y cyflenwad trydan, llywodraetha a thyr gysylltiadau'r rheilffyrdd rhwng y gwahanol ganolfannau sydd eto ym meddiant Sieco-slofacia.*

*Sylweddolir breuddwyd yr Almaen cyn y Rhyfel Mawr, - y weledigaeth o "Mittel-Europa", - gan Hitler, a hynny heb ryfel na thanio gwn.*

*Tynhau a thynhau y mae ei afael yn yr Almaen ac ar y gwledydd cylchynol, - drwy bwysau economaidd yn nhaleithiau'r Balkan, drwy wersyllfaoedd i garcharorion, a heddlu cyfrin yn y Reich. Rhaid iddo, o angenrheidrwydd, ddarganfod rhyw faes newydd o hyd. Eisoes lluniwyd cais am adferiad ei threfedigaethau i'r Almaen. Dywedir wrthym ym Mhrydain gan Ganghellor yr Almaen pwy na chaiff fod yn Brif Weinidog. Yna dywed y gellir datrys cwestiwn y trefedigaethau heb ryfel. Anwybydda'r gosodiad cyfrwys hwn y ffaith fod gwlad dan unben bob amser â'i byddin yn barod i ryfel. Gwyddom hefyd, yng ngoleuni holl hanes Hitler a'i ffyrdd, mai gwneud datganiadau i'w torri yw ei hanes ef.*

*Dywedasom yr wythnos diwethaf, yn ein gwerthfawrogiad o ymdrech ddyfal Mr. Neville Chamberlain dros heddwch, y credem ein bod yn rhy agos i'r amgylchiad i farnu ei wir arwyddocâd. Yn awr y mae'r arwyddocâd hwn yn prysur ymddatblygu ar y cyfandir. Y mae'n dechrau ymagor yn y wlad hon hefyd.*

*Ni wyddis yn iawn ffeithiau ein amharodrwydd yn yr adrannau milwrol, ac yn enwedig yn yr awyr, a phriodol yw hynny. Ond y mae ein amharodrwydd yn nhrefniadau ein bywyd gartref, ar gyfer argyfyngau rhyfel, yn wybyddus i bawb.*

*Y ffaith yw y wynebwyd y wlad hon yn sydyn â chyfodiad buddugoliaethus unben hollalluog. Casa ef y pethau a garwn ni fwyaf, - gweriniaeth a rhyddid. Ni all ddioddef cenhedloedd bychain, na Chynghrair Cenhedloedd. Cred mewn gwaed a rhyfel, yn hytrach na thrafodaeth a phleidlais gwerin. Rhaid wynebu'r ffaith hon.*

*Golyga'r alwad a wneir ar y wlad yn awr i ddiogelu ei hun, a pharatoi ar gyfer unrhyw argyfwng, aberth mawr a chyffredinol, ac, o bosibl, ymagweddiad newydd at yr holl safle. Yn y dyfodol agos bydd i'r galwadau hyn gymryd ffurf a llun. Credwn na fydd i'n cariad at ddemocratiaeth a heddwch ddallu'r genedl i'r angen am baratoi ar gyfer argyfwng. Os digwydd hynny, daw dydd tranc gweriniaeth, fel y deallwn ni'r gair, yn y wlad hon hefyd cyn bo hir.*

Diddorol tu hwnt yw'r gyfres o dair o ysgrifau blaen a ymddangosodd yn Y Cymro rhwng 22 Hydref a 5 Tachwedd 1938, oll dan y pennawd **YR EGLWYSI A'R A.R.P.**, yn anghytuno â phenderfyniad dau o weinidogion Llandudno, sef y Parch. H. Harris Hughes a'r Parch. Lewis Valentine, i symud o'u capeli hysbyslenni'n ymwneud â'r A.R.P., sef yr Air-Raid Precautions. Wrth sylwi isod ar farn Y Cymro ar y mater a pha fodd y cyflwyna'i safbwynt yn y tair ysgrif credaf ei bod yn werth eu cymharu â'r ysgrifau **CAPLANIAID** (19 Mehefin 1937) a **COFIWCH Y MILWYR** (28 Awst 1937), y dyfynnir hwynt uchod, sydd er nad yn ymdrin â'r un pwnc, yn debyg iawn yn yr ystyr eu bod oll yn dangos fel y mae papur Y Cymro yn ceisio bod yn deg a gwrthrychol wrth fynegi'i farn.

Mae'n amlwg isod nad yw'n cytuno â safiad y ddau weinidog, a nodir y rhesymau dros hynny'n berffaith eglur i'r darllenwyr. Fodd bynnag, ar yr un pryd nid yw'r Cymro'n beirniadu'r gweinidogion fel y cyfryw gan y gŵyr yn iawn mai delfrydau heddychol ac anfilwrol sydd tu ôl i'w penderfyniad i wrthwynebu'r A.R.P., ac am yr union reswm hwnnw mae'n cynnig dwy o golofnau'r papur yr un i'r ddau weinidog i egluro'u safbwynt yn ffurfiol; gwelir serch hynny nad oes yr un ohonynt yn derbyn y cynnig. Sylwer unwaith eto fel y pwysleisia'r Cymro nad yw ar unrhyw gyfrif yn cyfiawnhau rhyfel, ond, megis gyda'r ysgrifau uchod sy'n ymdrin â mater caplaniaid yn y fyddin, mae'r papur yn amlwg yn gredwr cryf mewn bod yn ymarferol cyn belled ag y mae rhyfel yn bod:

**YR EGLWYSI A'R A.R.P.** (22 Hydref 1938)

*PA beth bynnag arall a wnaeth yr argyfwng diweddar, a ddug y wlad mor agos i gwymp pendramwnwgl i bwll rhyfel, cododd ar bobl ym mhob man fraw enbyd, a'u bwrw i benbleth a phryder dwfn. Gwyddent rywbeth am erchylltra'r rhyfel diwethaf, ond gwyddent hefyd fel yr amlhaodd dychryniadau rhyfel erbyn heddiw, gydag arswyd y bom a'r nwy gwenwynig o'r awyr.*

*Gwelwyd ar unwaith fod darpariadau'r A.R.P. yn gwbl annigonol i gyfarfod â'r argyfwng. Gellir deall hyn i raddau oherwydd analluu'r rhai oedd yn gyfrifol am y trefniadau i fesur dyfnder y teimlad a gynhyrchwyd mor sydyn a chyffredinol gan fygythion rhyfel.*

*Rhaid i eglwysydd a chapeli Cymru benderfynu beth fydd eu hagwedd at gwestiwn yr A.R.P.*

*Yn Llandudno, gorchymynodd dau weinidog, y Parch. H. Harris Hughes, gweinidog Siloh (M.C.) a'r Parch. Lewis Valentine, gweinidog tair*

*eglwys y Bedyddwyr yn y dref, fod hysbyslenni A.R.P., a osodwyd o flaen eu capeli gan swyddog A.R.P. y cylch, i'w symud. Hysbysodd blaenoriaid eglwys Salem (Bedyddwyr) y swyddog eu bod hwy yn anghytuno â Mr. Valentine, a gofyn am i'r bwrdd hysbysebu gael ei ddychwelyd i'w le. Ar ôl ei osod yn ôl drachefn, gorchymynodd y gweinidog eilwaith ei symud ymaith. Hynny a fu.*

*Dwg y digwyddiadau hyn yr holl gwestiwn o agwedd y capeli tuag at baratoadau yn erbyn ymosodiadau o'r awyr i sylw anocheladwy. Ni ddylid anwybyddu'r cwestiwn yn gyfleus ar y naill law, na'i drafod yn chwyrn a chwerylgar ar y llaw arall; na'i ddefnyddio chwaith fel ffon i gystwyo eglwysi'r wlad.*

*Gresynwn na fu i'r un o'r gwŷr parchedig hyn, wrth orchymyn symud hysbyslenni'r A.R.P., ddatgan y rhesymau, crefyddol neu foesol, a benderfynodd eu gweithred. Teimlwn yn sicr fod gan y ddau weinidog hyn argyhoeddiad dwfn yn y mater, oedd iddynt hwy yn ddigonol i gyfreithloni gorchymyn symud byrddau'r A.R.P., a hynny mewn un achos heb ymgynghori â'r blaenoriaid.*

*Gallwn sicrhau'r ddau fonheddwr fod eu rhesymau yn y mater o ddiddordeb dwfn i filoedd o'n darllenwyr sy'n aelodau eglwysig, ac i filoedd hefyd nad ŷnt yn aelodau.*

*Rhoddwn her i'r gweinidogion hyn i ddatgan yn syml ac eglur eu hawdurdod Beiblaidd dros wrthod cymorth ac amddiffyn i wŷr, gwragedd, a phlant, pe deuai rhyfel. Y mae o ddiddordeb i ni, i aelodau eglwysig, ac i'r dyn yn y stryd yntau.*

*Os mai i'r moddion a ddefnyddir yn y paratoadau y mae eu gwrthwynebiad, pa ffordd arall a gynigiant hwy? Os cytunant â gwaith y Groes Goch, paham yr anghytunant â darpariadau A.R.P.?*

*Nid oes a fynnom yn awr â moeseg rhyfel. Casawn ryfel lawn cymaint â'r ddau frawd parchedig. Dewisodd Mr. Neville Chamberlain heddwch yn hytrach na rhyfel ar berygl anrhydedd y wlad hon. Tybiwn na ddywedai'r un o'r ddau fonheddwr hyn yn awr y buasai'n well iddo ef blyffio Hitler fel y blyffiodd Hitler ef.*

*Yr ydym yn barod i roddi dwy o'n colofnau i Mr. Hughes, a dwy i Mr. Valentine, i'r pwrpas o ddatgan yn glir i'n darllenwyr ar ba dir yr ystyriant hwy, fel Gweinidogion yr Efengyl, ei fod yn groes i egwyddorion Cristnogaeth i aelodau eglwysig ymbaratoi ymhob modd i gynorthwyo aelodau diniwed cymdeithas i amddiffyn eu hunain a'u plant yn erbyn ymosodiadau o'r awyr.*

## <u>YR EGLWYSI A'R A.R.P.</u> (29 Hydref 1938)

*YN ein rhifyn diwethaf bu inni wahodd y Parch. Lewis Valentine a'r Parch. Howel Harris Hughes, Llandudno, i ddatgan yn glir a syml eu rhesymau dros gymryd agwedd mor bendant tuag at yr A.R.P., a gorchymyn symud yr hysbyslenni yn galw am gynorthwywyr oddi ar dir yr addoldai yn Llandudno lle maent yn weinidogion.*

*Hyd yma, ni welodd yr un o'r ddau yn dda i anfon unrhyw fath ar ateb yn y mater. Bu inni ddatgan ein cred sicr y gweithredwyd ar argyhoeddiad dwfn, a sicrhau'r ddau ŵr parchedig fod y cyfryw argyhoeddiad o ddiddordeb gwirioneddol i filoedd y tu allan i'r Eglwys, yn ogystal ag oddi mewn iddi.*

*Gresynwn, felly, na thybiodd yr un o'r ddau yn ddoeth roddi i'w argoeddiadau ffurf a llun a ddaliai olau cyhoeddusrwydd a thrafodaeth agored.*

*O bosibl eu bod wedi egluro eu hargoeddiadau hyn i'w cynulleidfaoedd eu hunain. Os felly, nid trafferth fawr, gallem dybio,*

*fyddai anfon i'r wasg gyhoeddus lythyr yn cynnwys yr eglurhad.*

*Ni fynnem feirniadu undyn a chanddo argoeddiadau, a'r gwroldeb i sefyll yn gadarn drostynt. Parhawn o obeithio y cawn eto'r fraint o dderbyn datganiad clir oddi wrth y ddau, neu un o'r ddau weinidog.*

*Os yw arweinwyr crefyddol yn ddifater ynglŷn â barn y cyhoedd, oddi mewn i'r Eglwys ac oddi faes, ar nodwedd newydd ym mywyd y bobl, fel paratoadau'r A.R.P., ymddengys i ni mai dyna un achos am y dirywiad cynyddol yn rhif aelodau eglwysig a mynychwyr yr Ysgol Sul.*

*Gobeithio ein bod yn camgymryd yn y mater. Ond hyn sydd sicr, - nad yw argoeddiadau dan lestr o fawr les yn erbyn bomiau nwy.*

## <u>YR EGLWYSI A'R A.R.P.</u> (5 Tachwedd 1938)

*DISGWYL yr ydym o hyd am y rhesymau, os oedd rhesymau, a gymhellodd y ddau ŵr parchedig o Landudno i orchymyn symud hysbyslenni'r A.R.P. oddi ar dir eu capeli. Ni allwn ond tybied bod gan y gweinidogion hyn resymau da dros gadw'n ddistaw, a pharod ydym i gredu iddynt gymryd y safiad pendant hwn ar argoeddiadau cydwybodol gywir.*

*Eto, y mae'n resyn, mewn dyddiau o ddryswch a newid fel y rhain, y gall dau arweinydd crefyddol gymryd mesurau mor uniongyrchol yn erbyn yr hyn a adweinir fel A.R.P., heb roddi datganiad clir a rhesymegol o'r cymhellion y gweithredant arnynt.*

*Ar Dudalen Pawb yr wythnos hon cyhoeddwn lythyr oddi wrth ohebydd a ofyn i'r 'Cymro' roddi arweiniad yn y mater. Ni fwriadwn ni ddywedyd pa gwrs a ddylai cyrff crefyddol Cymru ei gymryd. Yn ddi-os, cyfrifoldeb yr arweinwyr a'r gwahanol gyrff llywodraethol yw hynny. Ymddengys, fodd bynnag, fod cymaint o wahaniaeth barn mewn cylchoedd enwadol, a cherrynt croesion Cenedlaethol, Pasiffistiaeth, a hyd yn oed teimlad gwrth-Seisnig, fel y gorfodir ni i ddod i'r casgliad, cyn belled ag y mae ymddygiad y ddau ŵr parchedig hyn yn y cwestiwn, nad oes gan yr Eglwys le o gwbl i unrhyw baratoadau a wneir i amddiffyn pobl, pe byddai i eroplenau gelyn ollwng bomiau nwy ar ein gwlad.*

*Eto, gan fod ein gohebydd yn gofyn am ryw arweiniad gan 'Y Cymro', cynigiwn iddo safbwynt synnwyr cyffredin. Perthyn i ryfel heddiw luoedd enfawr o eroplenau marwol, y gall unrhyw unben eu defnyddio i daro'n gyflym unrhyw wlad, gan ergydio o bwrpas at y boblogaeth yn gyffredinol. Golyga hynny reidrwydd i ddarparu i'r bobl foddion i amddiffyn eu hunain pan ddefnyddir yr arfau ymosod erchyll hyn. Ymgais synhwyrol yw'r A.R.P. i'n paratoi, pe digwyddai'r fath drychineb, i'n amddiffyn ein hunain.*

*Cyn belled ag y mae safbwynt yr Eglwys yn y cwestiwn, y mae digonedd o awdurdod Beiblaidd dros baratoad o'r fath; a chyn belled ag y mae a fynno'r dyn yn y stryd â'r mater, sylweddola ef synnwyr a doethineb y peth, a gweithredu ar hynny.*

*Po bellaf yr awn oddi wrth yr argyfwng, mwyaf yn y byd yw cymysgedd opiniynau rhai a weithredasant yn wahanol. Ond saif un ffaith yn glir, - beth bynnag am barodrwydd y Llynges, y Fyddin a'r Awyrlu, nid oes un amheuaeth ynglŷn â'r ffaith ddiymwad nad oedd gan ein pobl foddion parod ac effeithiol wrth law i wynebu canlyniadau anorfod ymosodiad sydyn ac, o bosibl, gor-lethol, o'r awyr. Dyma un o'r elfennau yn y sefyllfa a alluogodd Hitler i feddiannu llawer mwy o dir nag a feddyliodd ef ei hun cyn y cyfwng, a hefyd i dynhau ei afael ar ei wlad orthrymedig gartref.*

*Mawr hyderwn na fydd byth angen defnyddio'r paratoadau hyn, ond gobeithiwn ar yr un pryd y bydd i bawb ymarfer, fel ag i fod yn abl i amddiffyn eu hunain a chynorthwyo eraill.*

Ceir tair ysgrif flaen bwerus o fis Tachwedd 1938 sy'n dychwelyd at y sefyllfa ryngwladol. Mae CYNGRES RYNGWLADOL (12 Tachwedd) yn nodi'r addewidion a dorrwyd gan Hitler ac yna'n cloi â'r geiriau cymysg hyn:

> *....Talodd 'Y Cymro' wrogaeth i Mr. Chamberlain am dderbyn heddwch yn hytrach na rhyfel. Ni feiddiai un o'r beirniaid oedd mor ddoeth wedi'r amgylchiad gymryd y cyfrifoldeb o ddirymu'r dewis a newid ein polisi.*
> *Eto, hyn sydd wir, - y mae polisi tramor y Llywodraeth yn y materion arbennig hyn yn dod adre i glwydo. Rhaid iddi'n awr osod ei hunan mewn safle i fyned i gyngres ryngwladol gyda'r gallu i drafod ac unioni'r drygau economaidd a thiriogaethol, ar delerau cyfartal â'r gwledydd eraill. Rhaid iddi wneuthur gorfodaeth a bygwth "Grym yw Hawl" yn amhosibl; a rhoi terfyn ar gyfres faith addewidion na fwriadwyd erioed eu cadw.*

Mae'r ysgrif flaen Y SAFLE HEDDIW (19 Tachwedd) ar y naill law'n canmol gwaith Mr. Chamberlain ym Munich am 'achub Ewrob, a ni ym Mhrydain yn arbennig, o fin dibyn rhyfel', ond ar y llaw arall dywed i'r Llywodraeth gael ei mwyafrif enfawr 'oherwydd ofn ein pobl i ymddiried mewn dim arall' ac â ymlaen i restru rhai o brif wendidau'r Llywodraeth. Wrth gloi mai geiriau'r papur yn rhybuddiol:

> *....Nid oes unrhyw un parti o'r wrthblaid y gallwn yn hyderus droi ato. Y perygl yw i ffurf ar Ffasgaeth, yr hauwyd ei hadau eisoes, dyfu, a chyfyngu ar ryddid barn a llafar, a safn-rwymo'r wasg dan esgus cadw cyfrinachau. Golyga hyn oll ddinistr gweriniaeth a gwirionedd.*
> *Yr oedd penderfyniad y Prif Weinidog i beidio cymryd prydles helaethach o fywyd drwy wynebu'r wlad ar frig ton y brwdfrydedd a godwyd gan ei ymdrechion o blaid heddwch, yn beth i'w edmygu. Ond cyn hir bydd yn rhaid wynebu'r wlad mewn etholiad, a rhaid i ninnau fel etholwyr bwyso cyflawniadau'r Llywodraeth yn y glorian.*

Dyfynnaf yr ysgrif flaen PROBLEMAU ENFAWR (26 Tachwedd) yn ei chyfanrwydd am ei bod yr un gyntaf sy'n lled-awgrymu, a hynny'n unig, bod Y Cymro efallai am gefnogi ymladd pe bai raid, symudiad arwyddocaol ym mholisi barn y papur. Cyfeiriaf yn benodol at frawddeg agoriadol y pedwerydd paragraff isod, ond nid yw'n gwbl eglur ai ymladd milwrol sydd gan y papur mewn golwg:

> *Y MAE'R erlid ar yr Iddewon yn yr Almaen wedi dangos yn ei lliw ei hun athroniaeth genedlaethol Nasïaeth, gyda'i rhagfarn anwaraidd a'i dibristod o egwyddorion Cristnogaeth. I ba le yr arweinir yr Almaen gan ei phenaethiaid Nasïaidd? A phwysicach fyth, beth fydd yr effaith ar berthynas y wlad hon â llywodraeth yr Almaen? Dug y Prif Weinidog o Munich gytundeb wedi ei arwyddo, oedd i fod yn sail heddwch parhaol â'r*

*wlad hon. Eto, cychwynnodd ar unwaith ras arfau frwd. Yr un pryd, dirymodd Herr Hitler, i bob pwrpas, ei gytundeb â Mr. Chamberlain drwy gefnogi'r erlid gwaradwyddus ar yr Iddewon.*

*Yn erbyn pa wlad yn arbennig y mae'r wlad hon yn arfogi? Ffrainc? Rwsia? Yr Eidal? Yr Iseldiroedd? Na, nid oes ond un ateb, - yr Almaen. Y mae amseroedd enbyd a chynhyrfus ymlaen. Ni chaiff un genedl fyned ymlaen yn amlder ei grym a chythryblu heddwch y byd, a achubodd Mr. Chamberlain, ni gredwn, am dymor maith, onid dros byth.*

*Ond rhaid i lywodraethwyr Nasïaidd yr Almaen ddarganfod rhyw foddion neu'i gilydd i adfer eu henw da. Drwy ofn y llywodraethant. Ac i gadw ei orsedd gorfodir ofn beunydd i wneuthur rhyw arddangosiad neu esiampl ym mhob cylch, adref ac yn ei gysylltiadau tramor. Onide, cyll ei afael ar ddynion.*

*Â'r helyntion yn yr Almaen yn ddifrif, ac, o bosibl, yn arwain y llywodraethwyr i fwrw tân ar yr holl ddaear fel tafliad olaf eu rhyfyg, rhaid i'r wlad hon fod yn barod i ymladd, os bydd galw, dros ei ffydd mewn Democratiaeth, ein rhyddid a'n crefydd. Rhaid, y tu draw i bob dadl, gwneud ymdrech fawr genedlaethol. Ond a all y Llywodraeth hon, a wnaeth gynifer o gamgymeriadau, adref ac yn ei pholisi tramor, wneuthur yr ymdrech? Wele ardaloedd y cyni mewn cyni o hyd, tra cyfoethogir ymhellach ardaloedd cyfoethog o'r blaen drwy godi ffatrïoedd newydd. Dilynwyd gwladweiniaeth dramor a'n dug at dranc y Cynghrair Cenhedloedd, a goddef gwaed a chledd Unben yr Almaen.*

*Dywedwn fod ymdrech genedlaethol ar raddfa fawr yn angenrheidiol, ond rhaid i bob dosbarth gyfrannu'n deg tuag ati, - y cyfoethogion â'u cyfoeth, yn ogystal â'r werin. Yn y cysylltiad hwn yr amheuwn allu'r Llywodraeth bresennol i farnu gwir deimlad ein pobl yn briodol. Y mae'n anodd iawn, er enghraifft, i fasnach gyffredin gyfarfod â gofynion treth incwm drom a galwadau'r Cyngor Amddiffyn Cenedlaethol. Ar y llaw arall, ni wneir dim i reoli'r elw aruthrol a ddadlennwyd bellach fel cynhaeaf ffatrïoedd arfau ac awyrblaniau.*

*Rhaid inni roi ein tŷ mewn trefn adref cyn y gallwn wynebu'r byd yn onest, ac ymgodymu â'r llu problemau difrifol a greir gan yr Almaen. Fel y cyhoeddodd y Cadfridog King Hall, yng ngeiriau gohebydd o'r Almaen: "Drylliwch beiriant hen-ffasiwn eich cerbyd gwladol. Glynwch wrth y corff cadarn sydd gennych, - Gweriniaeth; ond gosodwch ynddo'r peiriant Rolls Royce cryfaf y mae modd ei gynhyrchu. Yna cenwch eich corn a chyflymu, ac yna, ond nid cyn hynny, y cliria'r Unbeniaid y ffordd i chwi." Ychwanegodd y gohebydd: "Y mae dynion cyfrifol yn paratoi'r ffordd. Ychydig iawn o amser sydd i'w golli; felly, yn enw Duw, ewch at y gwaith cyn ...."*

*A fedd y Llywodraeth hon y weledigaeth i ddryllio'r peiriant hen-ffasiwn, a gosod un Rolls Royce yn ei le? Ofnwn nad oes llawer o obaith iddi ymgodymu â phroblemau mwy y dyn yn y stryd, oni lwydda i roi terfyn ar elw afresymol y cwmnïau arfau.*

Erbyn troad y flwyddyn, a thoriad y rhyfel erbyn hyn yn ddim ond ychydig fisoedd i ffwrdd, yr oedd y sefyllfa ryngwladol yn gwaethygu'n barhaus a hynny'n cael ei adlewyrchu yn ysgrifau blaen Y Cymro. Fel y gwelir o'r pytiau o ddyfyniadau o wythnosau cyntaf 1939 isod, yr oedd teimlad cynyddol yn bodoli bellach na ellid osgoi erchylltra rhyfel yn y pen draw:

CYNHADLEDD RHUFAIN (14 Ionawr 1939)

*....A fwrir ni i grochan argyfwng rhyfel neu a adewir drws yn agored i obaith am Heddwch? Y mae cysgod Hitler a Mein Kampf, a'r Almaen wedi ei harfogi i'r eithaf, yn gryfach fel canlyniad Munich, yn awr yn gorthrymu'r Iddewon ac yn hawlio cydraddoldeb â Phrydain mewn llongau tanforawl - y mae hyn oll yn taflu cysgod du dros ymdrechion y Prif Weinidog i geisio Heddwch ac yn gorfodi'r wlad hon i ymuno mewn ras arfau na welwyd ei chyffelyb erioed o'r blaen. Ac i ychwanegu at ein tristwch gwyddom mai llywodraeth drydedd radd sydd wrth y llyw. Byddai gennym fwy o hyder pe gallem gredu bod arweiniad y wlad hon mewn dwylo sy'n abl i gario'r cyfrifoldeb enfawr. Y mae angen llywodraeth sydd ag iddi'r hawl i ymddiriedaeth yr holl wlad cyn y gellir disgwyl goresgyn cynllwynion annynol y gwledydd unbenaethol.*

## CEISIO UNOLIAETH (21 Ionawr 1939)

*DYCHWELYD yn waglaw a wnaeth y Prif Weinidog ac Arglwydd Halifax o'u hymweliad â Rhufain.*

*Bu inni yr wythnos diwethaf ddatgan gobaith y byddai i'r drafodaeth rhwng Mr. Chamberlain a Mussolini ar berthynas Prydain Fawr a'r Eidal esgor ar rywbeth pendant i hyrwyddo'r achos hwnnw.*

*Ond dal i ddilyn ei gwrs a wna'r ffwlbri o ddi-ymyrraeth yn Sbaen - y ffurf greulonaf ar ymyrraeth, yn wir, - a ganiata i gymorth, mewn dynion ac arfau rhyfel, gael ei estyn i un ochr a'i wrthod yn gyfangwbl i'r ochr arall. Nid yw hyn namyn rhoddi cyfle i Hitler a Mussolini wneuthur hawliau pellach pan sefydlir llywodraeth Ffasgaidd yn Sbaen y tu cefn i Ffrainc a thu ôl i Gibraltar, ac estyn rhwyddineb i'r Unbeniaid yn y Môr Canoldir.*

*Cymerodd Mr. Chamberlain arno'i hun gyfrifoldeb difrifol pan wrthododd gais a wnaed gan Mr. Attlee am i'r Senedd gael ei galw ynghyd i drafod safle'r wlad hon dan gynllun di-ymyrraeth.*

*Tra bod drama'r argyfyngau rhyngwladol yn symud ymlaen yn gyflym yn Sbaen ym mherthynas Ffrainc a'r Eidal, yn Danzig, Pwyl a Hwngari a'r Ukraine, a'r Almaen yn hawlio cyfartaledd yn nifer ei sudd-longau, y mae'n rhyfedd gweld Senedd Prydain yn mwynhau ei gwyliau gan adael llywodraeth y wlad a'i pholisi tramor yn nwylo ychydig o ddynion....*

## Y DYFODOL (11 Chwefror 1939)

*Y MAE'R byd unwaith eto wyneb yn wyneb â'r erchylltra ofnadwy o weld gwŷr, gwragedd a phlant cyffredin yn cael eu lladd a'u clwyfo, miloedd o drigolion heddychol yn gorfod ffoi o'u gwlad a chymryd lloches mewn gwlad dramor.*

*Gwelwn broblem Sbaen yn tynnu at ei therfyn gwaedlyd, a blin yw cofio mai amharodrwydd Llywodraeth Prydain a Ffrainc i ymyrryd yn nechrau'r helynt a wnaeth yr anghydwelediad hwn yn broblem mor anodd ei datrys. Oherwydd prinder ymborth ac arfau, bydd milwyr Franco yn awr yn rhydd i ymosod ar y rhannau hynny o Sbaen sydd eto yn nwylo'r Llywodraeth Ddemocrataidd, ac, yn ôl pob golwg, un canlyniad sydd i'r rhyfel hwn, sef sefydlu Sbaen yn wlad gwbl ddarostyngedig i'r Ffasgiaid.*

*Gyda hyn, fe gyfyd problem newydd i'r gwledydd deomocrataidd; bydd y Ffasgiaid yn rheoli gwlad y tu ôl i Ffrainc a Gibraltar, a chytundeb rhwng Berlin, Rhufain, a Madrid fydd yn peryglu masnach forawl y Môr Canoldir, a'r Iwerydd. Trist yw meddwl y buasai'r broblem hon, fel pob problem arall a ddilynodd safiad yr Unbeniaid, wedi ei setlo cyn iddi*

*godi megis petai'r gwledydd democrataidd wedi gweithredu'n eofn yn 1930 yn hytrach nag ymostwng gam ar ôl cam i ddymuniadau'r Unbeniaid hyd nes disgyn mor isel â chytuno i'w hawliau ym Munich....*

Ysgrif flaen arall sy'n werth tynnu sylw ati, a hynny am ddau reswm, yw'r un CYSGOD DROS EWROB a ymddangosodd yn Y Cymro 25 Mawrth 1939. Yn gyntaf, mae'r papur bellach wedi sylweddoli mai methiant a fu cytundeb Munich, a dywed hynny'n gwbl agored. Yn ail, ceir awgrym arall yn y paragraff clo bod Y Cymro efallai am gefnogi ymladd mewn rhyfel os y dôi i hynny yn y pen draw, ond unwaith eto pwysleisiaf mai awgrym yn unig ydyw ar hyn o bryd, ac er bod y papur isod yn cyfeirio at 'y gwaith pwysig sydd o'n blaen' nid ydym fyth yn siŵr ai gwaith milwrol sydd ganddo mewn golwg:

*'A fwrir ni i grochan argyfwng rhyfel eto neu a adewir drws yn agored i obaith am Heddwch? A deifl cysgodion du Hitler a Mein Kampf gaddug dros bob ymdrech i sicrhau tangnefedd?'*

*DYMA'R cwestiynau a ofynasom yn 'Y Cymro', Ionawr 14, pan ymwelodd y Prif Weinidog â Mussolini. Daeth atebion fel byllt o'r awyr lâs ac y mae Hitler a'i 'Mein Kampf' wedi dryllio pob gobaith am heddwch ac wedi taflu cysgod dros Ewrob y bydd yn rhaid ei chwalu cyn y bydd i ni byth eto gael hawl i'n breintiau a'n dyheadau.*

*Methiant a fu Munich ym mhopeth ond rhoddi cyfle i Brydain i ymgryfhau mewn arfau. Nid oes y sôn lleiaf am y cytundeb "boneddigaidd" â Mussolini ac yn awr y mae'r Llywodraeth a guddiodd ei phen yn y tywod ac a adawodd wlad ar ôl gwlad yng nghrafangau'r unbenaethau twyllodrus a dorrasant bob addewid, yn troi at Rwsia o'r diwedd, ac at y gwledydd bychain sy'n crynu gan ofn, er mwyn ceisio ffurfio ffrynt unedig.*

*Aberthwyd Sieco-Slofacia ar allor ymddiriedaeth yn yr unbenaethau a thrwy hynny dymchwelwyd mewn un dydd dŵr cryfaf y gweriniaethau yn Ne-Ddwyrain Ewrob, a dug Hitler eu harfogaethau modern a'u diwydiannau pwysig at ei anghenion anhepgorol ei hun.*

*Cydnabyddwn fod i'r unbennaeth allu i gario allan benderfyniadau yn ddiymdroi, trwy gyfrwng ofn. Na ato Duw fod y gweriniaethau yn chwennych y cyfryw allu mewn unrhyw ffurf. Ond yn yr argyfwng diwethaf gofynasom am beiriant Rolls-Royce i gymryd lle yr hen beiriant gwan oedd yn methu dringo'r gelltydd serth ac yn ymddangos yn hollol analluog i wynebu'r mynyddoedd a gododd yn sydyn o'n blaenau drwy ddichellion a ffurf-lywodraeth yr unbenaethau.*

*A fedd y wlad ymddiriedaeth yn y Llywodraeth? Yn ein barn ni, ni fedd ond am un rheswm - yr angen am unoliaeth yn wyneb gormes anllad a gwanc am arglwyddiaethu drwy drais. Rhaid i'r Llywodraeth ehangu ei seiliau ar linellau fel ag i adennill a chadw'r ymddiriedaeth sydd mor anhepgorol os mynnwn unoliaeth gartref ac os ydym i gymryd y blaen mewn unoliaeth y gweriniaethau dros y môr. Gresyn fyddai tybied fod y llew Prydeinig, ar ôl amryfusedd Munich, bron ofn rhuo ac wrth erfyn ar wledydd eraill i godi eu lleisiau yn achosi i Poland ofni, i Rwsia amau ac i Hitler atgyfnerthu.*

*Y mae'n rhy hwyr i obeithio am ffrynt unol yn y Senedd. Bydd yn rhaid i'r Llywodraeth gymryd mesurau dioed i newid yr ymddiriedaeth a*

*ddeil oherwydd bod ar y bobl ofn rhyfel ac oherwydd ymdrechion Mr. Chamberlain i sicrhau heddwch, am wir ymddiriedaeth na ddeilliaw nes ehangir y seiliau - ymddiriedaeth sy'n anhepgorol angenrheidiol os ydym i wynebu'r perygl yn yr Almaen ac i gymryd ein rhan yn wir effeithiol yn y gwaith pwysig sydd o'n blaen.*

Diflanna unrhyw amheuaeth ynghylch agwedd Y Cymro at ryfela yn yr ysgrif flaen **CYMRU AR Y GROESFFORDD** a ymddangosodd yn rhifyn 22 Ebrill 1939, teitl eironig efallai gan y medrir ei newid yn hawdd i **'Y CYMRO' AR Y GROESFFORDD**. O'r holl ysgrifau blaen sy'n ymddangos yn y papur rhwng 1932 a 1945 gellir dweud yn sicr mai hon yw un o'r rhai pwysicaf, efallai y bwysicaf ohonynt oll; yn wir, ni allaf bwysleisio arwyddocâd yr ysgrif hon yn ormodol gan mai ynddi y gwelir am y tro cyntaf bod Y Cymro yn barod i gefnogi ymladd mewn rhyfel ac yn credu 'y bydd i Gymru wneud ei rhan' ac 'y bydd i drigolion y wlad hon wynebu eu cyfrifoldeb a chwarae eu rhan yn deilwng' pe bai raid, rhywbeth na fyddai'r papur wedi breuddwydio'i ddweud ychydig fisoedd, heb sôn am ychydig flynyddoedd, ynghynt. Sylwer eto fel y pwysleisia'r Cymro ei fod yn casáu rhyfel i'r eithaf, ond fel y dywed isod, 'carwn ein rhyddid a'n delfrydau democrataidd yn fwy':

*UNWAITH eto yn hanes ein cenedl wynebir ni gan yr angen dygn am baratoi ar gyfer rhyfel i amddiffyn y rhyddid hwnnw sydd mor annwyl inni, y rhyddid sydd eisoes wedi ei golli mewn rhannau helaeth o Ewrob, ac a fygythir gan ymosodiadau pellach.*

*Os y caniateir i'r bwgwth hwn ddod yn ffaith, fe wanheir y gweriniaethau sy'n aros, a bygythir rhyddid, fel y deallwn ni ef, ar ein arfordir ninnau os nad ar ein haelwydydd.*

*Datganasom ar fwy nag un achlysur nad ydym yn cydweld â'r Llywodraeth bresennol. Y mae ei dull o ddelio â materion y wlad hon, a'i pholisi tramor, yn rhwym o ddod dan farn condemniad hanesydd y dyfodol, - a chaniatáu y caiff ef ryddid i ysgrifennu'n ddilestair, y rhyddid hwnnw a ddifodwyd eisoes yn yr Almaen a'r Eidal.*

*Ar yr un pryd, rhaid i'r wlad hon baratoi yn ddiymdroi i gyfarfod unrhyw ymosodiad a wneir arni hi neu ar wledydd gwerinol eraill na allant yn eu nerth eu hunain wrthsefyll gallu'r Unbennau.*

*Er gwaethaf datganiadau y rhai hynny a ddywed na chaniata eu cydwybod iddynt ymuno â'r fyddin - a lle bo hynny'n hollol ddiffuant ni all neb estyn bys atynt - credwn y bydd i Gymru wneud ei rhan. Gwrthwynebid i'r eithaf wasanaeth milwrol gorfodol pan na bo rhyfel ond y mae'n rhaid wynebu'r ffaith na chyhoeddir rhyfel ymlaenllaw yn y dyddiau hyn. Prawf hanes China, Awstria, Abysinia, Sbaen, Sieco-Slofacia, ac yn olaf, Albania, petai angen prawf, mai taro heb unrhyw rybudd yw arfer yr Unbennau.*

*Datganasom ein barn eisoes fod Gwasanaeth Gwirfodd ar ei brawf olaf, ac ofnwn nad oes ond un canlyniad i fethiant y gyfundrefn Gwirfodd - mesur helaeth o Orfodaeth sydd mor atgas i feddwl pob Cymro.*

*Casáwn ryfel â'n holl galon, ond carwn ein rhyddid a'n delfrydau democrataidd yn fwy. Ac os y gorfodir Prydain i sefyll yn erbyn ymosodiadau'r Unbennau, credwn y bydd i drigolion y wlad hon wynebu eu cyfrifoldeb a chwarae eu rhan yn deilwng.*

Yn fuan wedyn cadarnhawyd yr hyn yr oedd y papur yn ei ofni uchod wrth i'r Llywodraeth osod gorfodaeth filwrol ar Brydain. Yn ysgrif flaen rhifyn 6 Mai 1939 mae'r Cymro yn eithriadol o feirniadol o'r Llywodraeth a dywed mai'r hyn yw'r Mesur Gorfodaeth yw 'rhywbeth i guddio camgymeriadau trychinebus y Llywodraeth hon....a ddaeth â'r wlad i'r fath drybini ac anhrefn drwy ei pholisi cartref a thramor'; yn wir, aiff y papur ymhellach na hynny hyd yn oed gan gyhuddo'r Mesur, a'r Llywodraeth ei hunan i bob pwrpas, o fod yn anonest:

GORFODAETH FILWROL

*CYHOEDDWN ar ein tudalen flaen fanylion o'r modd yr effeithiodd Mesur y Llywodraeth o Orfodaeth Filwrol ar wŷr amlwg, ar fudiadau, a chymdeithasau. Ac ni ddaeth digwyddiadau'r wythnos â dim i'r golwg i siglo'r amheuaeth drwyadl o bob agwedd i'r Mesur a fynegwyd yn 'Y Cymro' yr wythnos diwethaf.*

*Y mae'r wlad, yn amlwg, yn rhanedig ar y cwestiwn. Yn y Senedd pleidleisiodd 15 o Aelodau Cymru o blaid y bwriad, 13 yn erbyn, ac yr oedd saith heb bleidleisio. Ond ni adlewyrcha'r bleidlais hon safiad a barn y wlad yn gywir o lawer iawn. Yn sicr, fe bleidleisiodd rhai o'r Rhyddfrydwyr o'i blaid, nid am eu bod yn credu ynddo, ond oherwydd i ddatganiad y Prif Weinidog ddylanwadu arnynt pan ddywedodd ei bod yn angenrheidiol cryfhau'r rhagfur rhag y goresgynwyr a adeilada'r Llywodraeth gyda Phwyl, Groeg a Rwmania a bod brys am bleidio'r bwriad cyn i Hitler wneud ei araith.*

*Ni chredwn fod yr un o'r datganiadau hyn yn cynnwys y rhesymau cywir am ddwyn y fath Fesur gerbron; esgusion yn unig dros y Mesur ydynt. Nid yw'r Mesur ond rhywbeth i guddio camgymeriadau trychinebus y Llywodraeth hon (a honnir ei bod yn un Genedlaethol) a ddaeth â'r wlad i'r fath drybini ac anhrefn drwy ei pholisi cartref a thramor.*

*Gwrthododd y Llywodraeth ehangu ei therfynau. Awgryma hyn yn bendant i ni naill ai na sylfaenwyd y Mesur i'r graddau a awgrymir gan ddifrifoldeb y sefyllfa, neu fod ym mwriad y Llywodraeth, er difrifoled y sefyllfa, i gadw'r afwynau yn ei llaw ei hun a chael gafael sicrach ar yr unigolyn drwy'r Mesur Gorfod hwn. Er nad yw'r Mesur cyntaf hwn yn eithafol, eto y mae'n erfyn hynod ddefnyddiol i'r sawl a garai ei ddefnyddio.*

*Ofn, ac ofn yn unig, a gadwodd y Llywodraeth mewn grym cyhyd. Byddai'n dda iddi sylweddoli na thra-arglwyddiaetha ofn ar y wlad hon yn hir - nac ofn anghytuno â'r Llywodraeth nac ofn y gwledydd totalitaraidd, ychwaith. O dan amgylchiadau cyffredin buan y troid o'i swydd Brif Weinidog a ddywedai "dim gorfodaeth filwrol" un wythnos a gosod Mesur felly ar y wlad ychydig wythnosau'n ddiweddarach.*

*Ond ofn rhannu'r wlad sy'n ben heddiw, a chyhyd ag y ceidw Hitler y wlad hon ar y dibyn manteisia ein Llywodraeth ar ofnau'r bobl. Ein*

*hunig obaith, yn wyneb amharodrwydd y Llywodraeth i ehangu ei therfynau, yw sefydlu gwrthwynebiad cryf ac unedig o blith y pleidiau gwerinol. Credwn y byddai gwrthblaid o'r fath yn barod i osod unrhyw fesurau angenrheidiol, hyd yn oed orfodaeth filwrol, mewn grym er mwyn diogelu ein breintiau democrataidd a fygythir mor bendant gan yr Unbennau.*

*Yn wyneb y sefyllfa ddifrifol y mae'r byd ynddi heddiw, credwn y byddai'r wlad yn gyffredinol yn barod i gefnogi unrhyw fesur anghyffredin a osodid yn onest gerbron. Eithr nid oes tinc gonestrwydd yn y Mesur presennol.*

*Os yw'r Llywodraeth i brofi ei gonestrwydd, bydded iddi ehangu ei therfynau ar fyrder, a llunio mesurau cymwys i gymryd gafael ar yr holl weithfeydd arfau rhyfel a rhwystro pob gor-elwa yn y diwydiannau hynny a ffynna ar ryfel.*

*Er bod y Mesur o dan amheuaeth cryf, eto, efallai nad hwn yw'r amser i'w wrthwynebu yn ei gyfanrwydd a thrwy hynny roi esgus i'r gwŷr militaraidd ei ehangu. Ond daeth yr awr i'r holl fudiadau yn y wlad sydd â'u llygaid ar y dyfodol uno a rhwystro ychwanegiad at y Mesur hyd nes y delo'r dydd i ddiwreiddio'r ffurf hon ar Ffasgaeth a all ryw dro ddinistrio'n rhyddid yn llwyr.*

Er gwaethaf y ffaith nad yw'r <u>Cymro</u> yn cytuno o gwbl ag egwyddor y Mesur o Orfodaeth Filwrol a'i fod yn hynod feirniadol o'r Llywodraeth am ei sefydlu, gwelir o'r paragraff olaf uchod nad yw'r papur yn ei wrthwynebu'n llwyr ac eglura'r rheswm dros hynny. Yn ysgrif flaen y rhifyn dilynol dywed nad yw'n dymuno 'i ddynion ifainc dorri cyfraith y wlad' drwy beidio cydymffurfio â'r Mesur ac felly dyma enghraifft arall o'r modd y newidiodd barn y papur (cofier ei fod yn y gorffennol i bob pwrpas wedi dweud na ddylid ar <u>unrhyw</u> gyfrif ymladd mewn rhyfel, hyd yn oed os oedd y Llywodraeth yn mynnu hynny):

<u>GORFODAETH FILWROL</u> (13 Mai 1939)

*Y MAE'R Mesur i osod Gorfodaeth ar y wlad bron â dod yn ddeddf, a gelwir am wasanaeth y rhan gyntaf o fechgyn 20 oed ym mis Gorffennaf. Ac felly, wedi rheolaeth ddireol y Llywodraeth hon o'n tynged, y cwbl a lwyddodd y Prif Weinidog i'w wneud oedd plannu ysgallen yn ein mysg yn hytrach na dod â blodeuyn i'n llawenhau o ganol danadl poethion Munich.*

*Os deil trychineb rhyfel byd-eang y genhedlaeth hon yn ei grafangau fe ŵyr y dyn cyffredin yn dda - boed Gymro, boed Sais - y difethir ei ryddid yn y rhyfel hwnnw. Beth bynnag fydd canlyniad hynny fe welir byd newydd a gwlad newydd ar ei ôl, er gwell neu er gwaeth.*

*Nid yw'r ffaith noeth fod y wlad hon wedi ei gorfodi i fabwysiadu gorfodaeth yn sicrhau heddwch. Yn wir, y mae lle i amau mai peryglu heddwch a wna hynny. Dychrynwyd y Llywodraeth i gymryd y cwrs hwn gan bropaganda yr Almaen a Ffrainc a methodd â sylweddoli y buasai propaganda o'r ochr arall gennym ni, nid yn unig yn gwrthweithio hyn, ond yn sicrhau hefyd fanteision sylweddol.*

*Ni fuasai'r Mesur hwn wedi ei wthio ar y wlad hon dan y fath amgylchiadau pe buasai gwrthwynebiad unedig a chryf yn y Senedd a allai*

*ffurfio Llywodraeth Genedlaethol yn cynnwys elfennau gorau yr holl bleidiau. Dro ar ôl tro gwnaethom ni ac eraill apêl am i arweinwyr y pleidiau rhyddfrydig ymuno yn y frwydr i ddiogelu ein henw da oddi cartref a'n rhyddid gwerinol gartref, eithr ofer a fu hynny.*

*Er gymaint y casáwn y Mesur Gorfod, nid ydym yn pleidio'r apeliadau a wneir ar i ddynion ifainc dorri cyfraith y wlad. Yn ein barn ni, fe wnelai hyn bethau yn waeth ac nid yn well ac ni fwriadwn gefnogi'r fath apeliadau sydd â'u hamcan yn unig i greu anfodlonrwydd ym mysg y Cymry. Mae'n amheus i'r eithaf a wna gwrthwynebiad trefnus fwy na chodi rhagfarn ar y cwestiwn hwn, a gwneud y sefyllfa'n waeth i'r rhai y ceisiwn eu helpu.*

*Ynglŷn â'r gwrthwynebwyr cydwybodol, y mae eu safle'n hollol glir a datganodd y Prif Weinidog yn Nhŷ'r Cyffredin ac mewn ymgom ag arweinwyr yr Eglwysi Rhyddion y byddai iddynt gael perffaith chwarae teg. Amser yn unig a ddengys a sylweddolir addewidion Mr. Chamberlain.*

*Nid oes gennym hyder mewn gorfodaeth, ac er na chymerwn ran mewn unrhyw ymgyrch a drefnwyd i rwystro'r ddeddf, apeliwn unwaith yn rhagor at arweinwyr yr holl bleidiau rhyddfrydig i uno ar unwaith fel ag y gellir torri'r rhwymyn haearn hwn cyn gynted ag y bo modd. Os na wnânt, yna bydd y diwedd yn waeth na'r dechrau, ac fe afaela'r gwŷr milwrol a'r pleidiau llywodraethol yn dynnach ynom a chynhyrchir math ar dotalitariaeth a all yn y diwedd ladd gweriniaeth yn llwyr yn y wlad hon.*

*Gallasai Cymru, o leiaf, ddychwelyd yn gryno i'r Senedd aelodau wedi ymrwymo i gefnogi tynnu'r ddeddf yn ôl, neu ei thynnu yn ôl cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn beth bynnag, ac yna byddai y frwydr am ein rhyddid a'n gweriniaeth yn dechrau mewn gwirionedd.*

Cyfeiriwyd uchod at y ffaith bod barn Y Cymro ynglŷn â phriodoldeb ymladd pe torrai rhyfel wedi newid yn llwyr wrth i'r posibilrwydd hwnnw ddatblygu'n gynyddol realistig, ond un peth a saif yr un mor gyson ag erioed yn y misoedd olaf hyn o 'heddwch' swyddogol yw tegwch y papur wrth fynegi'i safbwynt. Soniaf yn benodol yma am y gwrthwynebwyr cydwybodol, oblegid er bod Y Cymro bellach yn anghytuno'n llwyr â'u safbwynt pasiffistaidd, mae'r papur, yn nodweddiadol ohono, yn cydymdeimlo â hwy ac yn parchu eu hegwyddorion. Byddaf yn y man yn dyfynnu enghreifftiau sy'n ymdrin yn fwy penodol â'r gwrthwynebwyr cydwybodol ond dyfynnaf yn gyntaf yr ysgrif DEDDF GORFODAETH o rifyn 10 Mehefin 1939 sydd yn nyddiau cynharaf y ddeddf yn rhoi sylw i'r mater pwysig hwn:

*Y MAE Cymru'n awr yng ngafael Gorfodaeth. Gorfodwyd y cwmni cyntaf o'r dynion ifanc i gofrestru ac y mae'r peiriant militaraidd yn paratoi ei ddisgyblaeth haearn ar ddynion sy'n caru rhyddid. Deallwn nad oes ond rhyw 450 o fechgyn ifanc yng Nghymru wedi arwyddo eu gwrthwynebiad i wasanaeth ar dir cydwybod. Hyderwn y bydd y Tribunlysoedd a osodwyd i ddelio â'r gwrthwynebwyr hyn yn eangfrydig ac mewn llawn gydymdeimlad â hwy. Ni ddylid rhoi cyfle i neb sôn am lol y bluen wen na rhoddi cyfle i'r ysbryd cas a fagwyd yn ystod y Rhyfel Mawr yn erbyn gwŷr â dewrder eu hargyhoeddiadau o'r tu ôl iddynt.*

*Nid yw nifer y gwrthwynebwyr cydwybodol yn arwydd priodol o'r*

*gwrthwynebiad i'r ddeddf sydd yng Nghymru. Y mae'r gwrthwynebiad hwn yn un dwfn a gwirioneddol, a derbynnir y ddeddf gan lawer fel mesur o anobaith na ellir ei gyfiawnhau, a hyd yn oed fel rhywbeth a ddyfeisiwyd yn un pwrpas i guddio drwgweithredoedd y Llywodraeth.*

*Gan barhau i chwarae'r ffon ddwybig, anfonodd y Llywodraeth ŵr o'r Gwasanaeth Gwlad i hyrwyddo'r drafodaeth anodd gyda Rwsia. Pe buasent wedi anfon Mr. Eden fel pen ar genhadaeth o arbenigwyr i Rwsia, buasai gennym fwy o ffydd yn eu hargyhoeddiadau ar y mater hwn a bodlonem ar yr hyn a ddigwyddai. Buasem yn gobeithio gweld ail-ddeffroi'r Cynghrair Cenhedloedd â pholisi na fuasai'n dibynnu ar orfodaeth i brofi i'r gweriniaethau bychain ac i'r unbennau ein bod o ddifrif.*

*Dro ar ôl tro fe rybuddiasom ein darllenwyr fod ffrynt unedig o'r holl bleidiau cynnydd yn hanfodol yn y frwydr dros ryddid yn y weriniaeth fawr yma, ac i wrthwynebu pob dull ar lywodraeth dotalitaraidd a gymer arni fod yn Llywodraeth Genedlaethol - Llywodraeth a gedwir mewn grym drwy ofn, ac sy'n cael y fath afael ar y wlad fel ag i'w rhoddi mewn rhwymyn haearn o wneuthuriad unbennau.*

*Ni thorrir y rhwymyn hwn cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn oni ymuna'r holl bleidiau a mudiadau - yr eglwysi a'r capeli, y mudiadau Llafur, yr Heddychwyr a'r mudiad Rhyddfrydol - i ddychwel cynrychiolaeth gryno i'r Senedd sy'n benderfynol o dynnu'r ddeddf hon yn ôl y funud gyntaf posibl. Dylai'r gynrychiolaeth hon fod yn gyfryw ag a frwydrai dros egwyddorion gwirioneddol gweriniaeth, nid yn unig yn ei pholisi cartref, ond ym mholisi cydwladol y wlad hon mewn byd sydd ar fin dibyn a greodd ei hun.*

Yn ysgrif flaen Y Cymro 26 Awst 1939 dywed y papur mai 'gwell fuasai gan y wlad hon a'i thiriogaethau syrthio'n ymladd dros ddilysrwydd a gwirionedd na bod yn faes hela i reolwyr presennol yr Almaen'. Yn y paragraff clo dywedir yn syml, 'Beth bynnag a ddeilliaw o'r argyfwng presennol, y mae'r wlad hon yn barod [i ryfela]'; yn y frawddeg olaf un gwelir bod Y Cymro yn sicr mai Prydain, ac nid Hitler, a gâi'r 'oruchafiaeth':

## ARGYFWNG ARALL

*Y MAE hi'n argyfwng ar y wlad unwaith eto, ac yn argyfwng llawer dwysach na'r un o'r gyfres argyfyngau a ddaeth wedi Munich. Nid dyma'r amser i gynnal cwest uwchben y cwestiwn cyntaf y gellid yn deg ei ofyn - sef, pa fodd y gallodd Von Ribbentrop sicrhau cytundeb ynglŷn ag ymosodiadau a dealltwriaeth fasnachol â Rwsia mewn noson wedi i fisoedd o drafodaeth â Phrydain Fawr a Ffrainc esgor ar ddim ond ymsiarad â'u penaethiaid milwrol, a chyfrinachau milwrol wedi eu gollwng o'r cwd yn y fargen, efallai. Y mae'n debyg mai'r ateb yw nad yw'r Unbennau (o bob lliw) yn gyfrifol i neb ond iddynt eu hunain; fe wneir eu cytundebau i gydymffurfio â gofynion y funud, ac wedi i'w pwrpas orffen, fe'u torrir.*

*Y mae'n hollol glir y gall un Unben alw un arall yn llofrudd un dydd a selio cytundeb masnach a chytundeb rhag ymosodiad ag ef y dydd dilynol. Y mae'n amlwg, bellach, hefyd, y gall y gwledydd mawr arfog, mewn gwleidyddiaeth gydwladol, ganfod y mannau gwan a gwneud i'r cenhedloedd sy'n rhoi pwys ar gytundebau a bodolaeth y gwledydd bach*

*grynu yn y "rhyfel nerfau".*

*Er gwaethaf y dulliau anghredadwy hyn arhosodd ein Llywodraeth, a Llywodraeth Ffrainc yn dawel, gan wybod fod y cenhedloedd o'r tu ôl iddynt. Er eu bod yn sylweddoli erchylltra rhyfel, fe eglurwyd i'r un dyn sydd â heddwch y byd yn ei ddwylo y bydd y wlad hon yn cadw at ei hymrwymiadau i'r gwledydd bach. Er na ddaeth hyn â dim ond yr ateb na allai yr un penderfyniad gan Lywodraeth Prydain ddylanwadu arno, eto, ni ellid disgwyl ateb arall.*

*Fe ddengys areitheg y Sul nesaf, neu ddigwyddiadau cyn hynny o bosibl, beth yw bwriadau terfynol yr Unben. A yw am ruthro ei wlad i ryfel er mwyn Danzig sy'n eiddo iddo eisoes mewn enw, os nad mewn gwirionedd? A yw am gaethiwo gwlad Pwyl er mwyn ei defnyddiau crai a'i diwydiannau ac ymladd cyfuniad o wledydd â'i bobl ei hun yn brin o ymenyn a chyda'r profiad chwerw o garchar, chwip a chudd-heddlu? Hwyrach mai dyma ei ymdrech fawr olaf, hwyrach fod trachwant am reoli'r byd wedi ei feddiannu. Pwy a ŵyr?*

*Ond, beth bynnag a benderfyna, ac ar ba dir bynnag y gwna hynny, gwell fuasai gan y wlad hon a'i thiriogaethau syrthio'n ymladd dros ddilysrwydd a gwirionedd na bod yn faes hela i reolwyr presennol yr Almaen, ac yn gaethweision i genedl a drodd, unwaith yn rhagor, oddi wrth bethau heddychol i lwybr gwaed a'r cleddyf.*

*Beth bynnag a ddeilliaw o'r argyfwng presennol, y mae'r wlad hon yn barod. Mae'r wlad yn anghymharol gryfach nag yn 1914 ac yn deall yn llawnach beth a fyddai effeithiau Unben llwyddiannus ar ryddid a bywyd y wlad hon. Ni amheuir beth a fydd y canlyniad, yn y pen draw, o ryfel, ar un llaw gydag Unben sy'n byw ar gaethiwo, a gwledydd yn ymladd dros ryddid a'r gwirionedd, ar y llaw arall. Fe geir goruchafiaeth ar erchylltra'r rhuthriadau ofnadwy o'r awyr, a thrwy hyn fe selir tynged Unben yr Almaen.*

Lai nag wythnos yn ddiweddarach fe ymosododd milwyr yr Almaen ar Wlad Pwyl ac o ganlyniad i hynny fe dorrodd y Rhyfel, y bu cymaint yn ei ofni ers misoedd a blynyddoedd, yn swyddogol. Yn ysgrif flaen gyntaf Y Cymro a ymddangosodd ar ôl dechreuad y Rhyfel, sef yn rhifyn 9 Medi 1939, nid oes unrhyw amheuaeth ar bwy y gesyd y papur y cyfrifoldeb am hynny; y frawddeg fwyaf arwyddocaol o'r cwbl isod, fodd bynnag, yw'r un lle dywed y papur nad yw digwyddiadau cyntaf y Rhyfel 'namyn yr hindda cyn y glaw a bydd yn rhaid i'n gwlad ni ddangos hyd gyflawnder yr holl ddewrder a ffyddlondeb a feddwn i wynebu'r ystorm pan dyr arnom': yr oedd Y Cymro felly'n amlwg o'r farn y gallai fod yn rhyfel hir a chaled. Sylwer hefyd ar y cyfeiriad Beiblaidd sydd ar gychwyn yr ysgrif hon, gan y gwelir yn y man mor Feiblaidd yw ysgrif flaen gyntaf Y Cymro wedi ildiad swyddogol yr Almaen ym 1945:

BWRW'R DRAUL

*BWRIWYD y coelbren ddydd Sul a chyhoeddwyd rhyfel gan Brydain Fawr yn erbyn yr Almaen.*

*Y gwir yw mai yn llaw un dyn, Hitler, yr oedd penderfynu ar Heddwch neu Ryfel. Dewisodd ef dros ddefnyddio grym, y cleddyf ac angau i geisio caethiwo'r cenhedloedd bychain ond annibynnol oedd yn byw ar ffiniau ei wlad.*

*Eithr penderfynwyd atal ei rwysg. Nid yn gymaint Danzig na gwlad Pwyl yw'r cwestiwn bellach. Y mae cerddediad y dyn hwn yn ei wlad ei hun drwy gymorth y ffrewyll, y cudd-heddlu a'i wersylloedd caethiwed a'i raib ar Awstria, caethiwo Sieco Slofacia, a'i weithredoedd yn Sbaen a fomiwyd, wedi gosod arno'n glir nod dyn gwyllt Ewrob. Ac y mae ein tynged ni a thynged pob gwlad sy'n caru rhyddid a gwirionedd mewn perygl. Y mae'r rhwyddineb â'r hwn y dileodd ef ei gytundeb Gwrth-Gomiwnyddol, am gytundeb â'i arch-elyn Rwsia, yn dangos o ba radd y bo'i wreiddyn.*

*Er hynny, yn lle llwyddo i gyrraedd ei wir amcan, sef bwrw ofn ar y gweriniaethau y mae wedi eu cryfhau ac wedi colli ei gynghreiriaid yn y fargen.*

*Profiad rhyfedd a fu dyddiau cyntaf y rhyfel. Symudwyd miloedd o famau a phlant o drefi mawr Lloegr i Gymru, lle y bu teuluoedd yn barod iawn i roddi noddfa i ddieithriaid sydd o ran eu tymheredd ac yn fynych eu hymarweddiad yn wahanol iawn i'r hyn y mae'n cartrefi ni wedi arfer â hwy. Y mae cydau tywod, ffosydd, a ffenestri duon yn groes iawn i'r hyn a garwn, ac ar ein Sabath y dewisodd y Duw Rhyfel ymddangos yn ei rwysg a'i rym.*

*Y mae gwaith ein awyr longau yn ehedeg dros yr Almaen a bwrw pamffledi yn lle bomiau yn achos syndod i'r byd. Er hynny, ofnwn nad yw hyn namyn yr hindda cyn y glaw a bydd yn rhaid i'n gwlad ni ddangos hyd gyflawnder yr holl ddewrder a ffyddlondeb a feddwn i wynebu'r ystorm pan dyr arnom. Eithr ni a wyddom y bydd i'r dewrder a'r eofndra hwnnw oroesi dychrynfeydd yr ychydig fisoedd cyntaf a thrwy fwrw'r elfen fwyaf y dibynna Hitler arni, sef ofn ei arf awyr, - ar boblogaeth nad oedd yn y fyddin, fe seiliwyd ei dynged.*

*Yr oedd llawer o edmygwyr Rwsia o'r farn bod ei chytundeb â'r Almaen yr ergyd fwyaf dros Heddwch a welodd y byd. Petae Rwsia wedi ei gwneud yn glir bod y cytundeb yn un dros beidio ymosod ac na fuasai hi'n sefyll o'r neilltu i weld gwlad Pwyl yn cael ei darnio gallem gytuno â'r farn honno. Eithr ni chafwyd y sicrwydd hwnnw ac oni chymerir lle y gair nas llefarwyd gan weithred annisgwyl, yn lle bod yn ergyd dros Heddwch nid yw namyn gosod y fflam yn y ffwrnais a drefnwyd gan Hitler.*

*Yn ystod y dyddiau nesaf fe'n cymhwyswn ein hunain i amodau byd mewn Rhyfel a thra y gofidiwn na welodd Mr. Greenwood na Syr Archibald Sinclair eu ffordd yn glir i ymuno â'r Cabinet Rhyfel yn ein Llywodraeth, cytunwn y bydd eu cefnogaeth wyliadwrus fel gwrthwynebwyr y Llywodraeth yn profi o werth gwirioneddol i'n hawliau a'n rhyddid mewn byd lle y mae Ffasgaeth ac awdurdod Llywodraeth wedi gwallgofi.*

Yn Y Cymro 7 Hydref 1939 ymddangosodd ysgrif flaen arall sy'n dangos cymaint yr oedd barn y papur ar holl fater rhyfela wedi newid dros y misoedd blaenorol. Ynddi dywedir na ddylid ar unrhyw gyfrif dderbyn cynigion o 'heddwch' gan Hitler yn wythnosau cyntaf y rhyfel, a hynny am ddau brif reswm. Yn gyntaf, byddai hynny yn ôl Y Cymro yn 'aberthu'r egwyddorion y safasom arnynt [ac] yn beth di-anrhydedd a llwfr'; yn ail, cred y papur mai heddwch ffug fyddai cynnig o'r fath, heddwch ansefydlog na

fyddai'n parhau.

Dyfynnwyd enghreifftiau lu uchod yn dangos mor wrth-ryfel yr oedd safiad Y Cymro yn arfer bod, ond bellach wele'r papur wedi newid ei agwedd yn llwyr ac yn hollol gefnogol i'r ymdrech ryfel. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu ei fod ym 1939 yn fwy nag ym mlwyddyn ei sefydlu yn cefnogi Rhyfel fel y cyfryw, ond yn sicr yn yr achos arbennig hwn mae'r papur yn llwyr gefnogi'r rhesymau dros fynd i ryfela. Hoffwn dynnu sylw'n benodol at y drydedd frawddeg yn yr ail baragraff sy'n dangos yn anad yr un arall nad oedd Y Cymro yn fodlon ildio modfedd i Hitler:

"HEDDWCH" HITLER

*BU sôn ers tro y byddai'r Almaen, cyn gynted ag y byddai wedi crafangu tir Poland, yn troi at Brydain a Ffrainc gyda chais am wneuthur "heddwch." "Y mae Poland wedi mynd; nid oes dim yn awr i ymladd o'i blegid; awn adref." Dyna'r apêl y dymunai Hitler ei gwneud trwy enau Mussolini. Ond y mae Mussolini, yn ei galon, yn deall pethau'n well na hyn. Y mae'n gwybod y carem ni oll gael heddwch, - heddwch anrhydeddus i barhau. Ond fe fyddai derbyn heddwch trwy aberthu'r egwyddorion y safasom arnynt yn beth di-anrhydedd a llwfr. Ac yn sicr, ni fyddai'r heddwch yn parhau. Fe âi'r ymosodwr ymlaen i ladrata. Lladrad yw nod y "cynigion heddwch" - fe ddywedodd ein Gohebydd Gwleidyddol hyn yr wythnos ddiwethaf. "Byddant yn cael eu hanelu", meddai, "at yr ymerodraethau, at eiddo Prydain a Ffrainc, a chyda hwy ymerodraethau anarfog Holland a Portugal.*

*A oes rhywun yn credu o ddifrif, pe gwneid heddwch â'r Almaen yn awr, y byddai gobaith am unrhyw fath o ddiogelwch yn Ewrob yn ystod y flwyddyn nesaf? Ffrainc oedd i fod i'w dinistrio nesaf, fel y deil ein Gohebydd Gwleidyddol, a phe bai holl nerth yr Almaen yn cael ei grynhoi ar derfynau Ffrainc, i ymosod yn sydyn arni, gobaith gwan fyddai am ei hachub. Yr ydym yn ymladd heddiw, a rhaid inni barhau i ymladd hyd fuddugoliaeth, yn erbyn y chwant goncwerio sydd yng nghraidd y blaid honno sy'n dal bod gan yr Almaen hawl i dra-arglwyddiaethu ar Ewrob trwy rym. Y mae'r ffaith bod Rwsia wedi elwa ar yr ymosodiad a wnaeth Hitler ar Poland, ac wedi helpu i'w dinistrio, wedi datguddio bwriadau Rwsia yn eglur i bawb, ond nid yw hynny yn ein gorfodi i gyhoeddi rhyfel yn erbyn Rwsia - ddim nes y bydd hi'n bygwth Gorllewin Ewrob yn uniongyrchol. Y mae amcanion Moscow yn hysbys ers blynyddoedd, a da yn awr yw eu gweled heb un llen.*

Mae'r ysgrifau blaen canlynol rhwng Hydref 1939 a Mai 1940 hefyd yn dangos fel yr oedd Y Cymro bellach yn cefnogi'r rhyfel, a'i resymau dros hynny. Credaf fod y drydedd ohonynt, yn arbennig, yn arwyddocaol iawn, gan fod Y Cymro, er yn cydnabod i Gymru gael ei hesgeuluso droeon gan y Llywodraeth Seisnig, yn cloi drwy ddatgan ar ran y genedl Gymreig '[nad] oes Cymro gwerth

ei halen na theimla'n falch bod Lloegr yn sefyll rhwng Cymru a Hitler yn awr', gosodiad trawiadol tu hwnt gan 'Bapur Cenedlaethol Cymru':

RHYFELA: A PHAHAM (14 Hydref 1939)

*Y MAE'R ateb wedi ei roddi. Pa ateb arall a ellid? Yr oedd Mr. Lloyd George ac eraill yn dymuno ar i'r Llywodraeth a'r wlad feddwl yn ofalus dros y cynigion heddwch, ac yn sicr fe ddylid gwneud hynny ag unrhyw gynigion teg, cywir a dilys, pa faint bynnag ein amheuon ynglŷn â bwriadau'r Almaen. Ond a ellid ystyried y cynigion a gafwyd yn rhai cywir a dilys? Yn wir, a ellid disgwyl cynigion felly mor gynnar â hyn yn y rhyfel? Pe baem yn cydymddwyn â choncro Poland, am i hynny ddigwydd cyn i'r Pwyliaid fedru cael help sylweddol, byddem yn gwadu pob addewid a wnaeth Llywodraethau Prydain a Ffrainc gyda chydsyniad a bendith y bobl.*

*Fe ddywed rhai (fel y gwna'r Almaenwyr) mai ffolineb oedd addo swcwr i Poland; ond rhaid bod y bobl hyn yn gwybod bod Prydain a Ffrainc yn deall o'r cychwyn mai cael ei gorchfygu'n fuan y byddai Poland, a bod eu bwriadau yn llawer ehangach na'r gobaith gwan o achub Poland rhag ei goresgyn. Y mae'r sail yr aethpwyd i ryfela arno yn sefyll yn awr fel o'r blaen, ac y mae tynged annibyniaeth Poland yn ei wneuthur yn eglurach nag erioed. Y mae blynyddoedd o brofiad wedi dangos mai bwriad y Nazis yw concro un tir ar ôl y llall ar yr esgus fod yr Almaenwyr yn genedl uwch, - concro a chrafangu ar bob tu. Wedi concro a di-arfu Awstria a Czecho-Slovakia, ac yn awr Poland, y mae'r Almaen mewn lle cryfach nag erioed i fynd ymlaen yn fanwl â'i rhaglen goncwerio. Y mae hanner dwsin o wledydd bychain, gwledydd na fyddai ganddynt ddim gobaith gwrthsefyll ymosodiad o'r Almaen, yn awr mewn perygl, a Ffrainc fyddai'r wlad bwysig nesaf i'w bygwth - nid yn unig oblegid tiroedd Alsâs a Loraen, ond oherwydd fod Hitler yn ystyried mai Ffrainc yw prif elyn yr Almaen.*

*Cyhyd â bod y Llywodraeth Nazi wrth y llyw, prin y gellir disgwyl gweled dim ymgais tuag at heddwch y gallai Ffrainc a ninnau ei drafod yn hyderus. Ond y mae yn awr fwy o obaith newid llywodraeth yr Almaen nag oedd fis yn ôl. Y mae'r cytundeb â Moscow wedi cael canlyniadau nad oedd yr arweinwyr Nazi na phobl yr Almaen wedi eu rhagweld. Credwn fod Mr. Churchill yn ei le pan ddywedodd fod "Hitler wedi ei rybuddio i gadw draw o ddwyrain a de-ddwyrain Ewrob", ond ni allwn fod mor hyderus â Mr. Churchill pan ddywed y gellir dibynnu mai dim ond yn ôl ei "buddiannau cenedlaethol ei hun" y bydd Rwsia yn gweithredu.*

*Nid presenoldeb milwyr Rwsia ar hyd ei therfyn yw'r peth sy gan yr Almaen i'w ofni fwyaf oddi wrth ganlyniadau'r Cytundeb, ond ymosodiadau Bolshefiaeth yn y mannau lle y byddant yn anhawsaf eu gwrthsefyll. Y mae gohebyddion diplomatig y papurau mawr wedi dechrau agor eu llygaid a gweld mai chwyldro drwy'r byd yw nod y chwyldrowyr sy'n llywodraethu Rwsia a Moscow o hyd. Ac ni ellid bod rhybudd eglurach i'r Almaen na phenderfyniad Moscow i benodi Dimitrov, arwr y "Reichstag trial", i fod yn Rhaglaw taleithiau newydd Rwsia ym Mholand!*

*Fe ddylid yn awr, yn fwy nag erioed, ddywedyd yn eglur wrth bobl yr Almaen nad oes ar y wlad hon ddim eisiau gweled Bolshefiaeth yn cerdded ar draws Canol Ewrob, ac mai'r Llywodraeth Nazi sydd wedi agor y pyrth i'r Bolsheficiaid. Dylem geisio cael gan yr Almaenwyr ddeall nad oes gennym ni ddim cweryl â hwy, mai i amddiffyn Ewrob rhag ymosodiadau parhaus y Nazis yr aeth Prydain i ryfela, a'n bod yn barod ar unwaith i*

*drafod heddwch ag unrhyw Lywodraeth Almaenig sydd o ddifrif yn ymwadu â'r polisi hwnnw. Rhaid cofio bod miliynau o Gristnogion yn yr Almaen, wedi eu dychryn a'u cadw i lawr gan Hitler, a'u bod hwy o hyd yn lefain yn y toes. Ar hwnnw y dylid adeiladu gobeithion.*

## DYDD CADOEDIAD (11 Tachwedd 1939)

*UN mlynedd ar hugain i heddiw arwyddwyd Cad-oediad y Rhyfel oedd i roi terfyn ar ryfel, a heddiw dyma ni eto mewn rhyfel, gyda'r magnel yn rhuo a'r cledd yn cyhwfan, a rhagolwg y bydd cymaint galanas ag o'r blaen pan ddiweddo'r tawelwch ar ffrynt y Gorllewin.*

*Dyma drychineb yn y byd ac yn Ewrob yn arbennig a beth bynnag yw'r achos, pa faint bynnag a gyfrannodd y wlad hon a'r ddynoliaeth tuag at orseddu Duw Rhyfel gwyddom fod yn rhaid dinistrio Hitleriaeth. Y mae'n amheus a all y gwladweinwyr godi cyfnod o heddwch ar ludw Hitleriaeth. Cyhyd ag y myn ysbryd dyn ymdrechu â chyfoeth bydol am chwe diwrnod o'r wythnos ac ar y seithfed dydd gymysgu crefydd a phleser, cyhyd â hynny yr ymdrecha cenhedloedd i ddal gafael yn yr hyn sydd ganddynt, a'r rhai nad oes ganddynt i wario ar arfau rhyfel yn lle ymenyn, i geisio crafangu am yr hyn nid oes ganddynt.*

*Amcan y rhyfel hwn yn gyntaf oll yw atal ofn parhaus o'r Almaen ac i ddinistrio Hitleriaeth. Ai digon hyn? Onid yw'n bryd ei wneud yn glir bod arnom eisiau byw mewn heddwch â phob cenedl, yn cynnwys yr Almaen, i fasnachu â hwy ac i sicrhau bendithion y ddaear a gwyddoniaeth i'r holl ddynoliaeth.*

*Ymddengys mai disgyn ar glustiau byddar a wnaiff apêl y Frenhines Wilhelmina a'r Brenin Leopold yn Berlin, Llundain a Pharis. Ni ddisgyn ar glustiau byddar yng nghartrefi'r bobl ac os na chyferfydd y gwleidyddwyr mewn cynhadledd yna rhodder i'r tri cadfridog y cyfle i siarad a'r hyn na all y gwleidyddwyr ei wneud fe all y gwna'r cadfridogion.*

*Ond rhaid goresgyn Hitleriaeth cyn y bydd cyfle am oes newydd. Am honno y mae cri'r ddynoliaeth. Gader i'r gwleidyddwyr sydd wedi dringo i awdurdod drwy ofn yn yr Almaen, Prydain a Ffrainc ddangos yn eglur eu bod hwythau'n ceisio'r oes newydd ac yn barod i wneud popeth i'w sicrhau.*

*Y mae 21 mlynedd yng nghof y rhan fwyaf o'r bobl. Y mae'r camgymeriadau'n synnu'r gweriniaethau. Dywedasom wedi Munich y deuent oll adref i nythu. Ac fe ddaethant. A all y wlad hon osgoi'r un camgymeriadau eto? Dyna'r cwestiwn; ac y mae'r ateb yn y dyfodol.*

## DYRNOD ARALL I WLEDYDD BYCHAIN (13 Ebrill 1940)

*LAI na blwyddyn yn ôl, - ym mis Mai, 1939, - gwnaeth Hitler gytundeb i beidio ag ymosod ar Denmarc. Yr wythnos hon cerddodd ei fyddin i mewn i Denmarc a chymryd meddiant llwyr ohoni. Rhaid bod Ribbentrop, Ysgrifennydd Tramor yr Almaen, wedi arwyddo'r cytundeb hwnnw heb fwriadu cadw ato ond cyhyd ag y byddai'n fanteisiol i'r Almaen.*

*Goresgynnwyd Norwy, gwlad fechan arall, hefyd. Y rheswm a roddir gan yr Almaen am hyn eto, fel mewn achosion eraill, yw ei bod yn dwyn y ddwy wlad fach hyn dan warchodaeth y Reich. Hen reswm, ond ei wir ystyr, wrth gwrs, yw eu hysbeilio o'u hymborth a'u stoc a'u gwneud yn gaeth i'r Almaen.*

*Da fydd i Gymru ystyried hyn. Y mae'n wir bod gennym ni yn y wlad hon lawer o le i achwyn ar agwedd Llywodraeth Lloegr yn ei hymwneud â'n*

*pethau mwyaf cysegredig. Y mae llu o broblemau a dyheadau cenedlaethol na chânt nemor ddim parch gan y Llywodraeth ac y mae Cymry gartref ac oddi cartref yn awyddus iawn am i'r problemau hyn gael eu setlo. Disgwyliwn iddynt gael sylw dyladwy gan y Llywodraeth os gwir yw mai ymladd am yr hyn sy'n iawn, dros gyfiawnder a rhyddid, yw prif amcan yr Ymerodraeth Brydeinig.*

*Serch hynny yn wyneb yr anrheithio hwn ar wledydd bychain gan yr Almaen, nid oes un Cymro gwerth ei halen na theimla'n falch bod Lloegr yn sefyll rhwng Cymru a Hitler yn awr, ac na wna ei ran, yn unol â'i gydwybod, tuag at orchfygu'r anghenfil brwnt hwn sy'n goresgyn y gwan yn y gobaith y bydd iddo orchfygu'r cryf.*

Y LLYWODRAETH (11 Mai 1940)

*DADL ddwys a difrif a fu yn y Senedd ar y methiant cywilyddus yn Norwy ac ni ddaeth y Llywodraeth allan ohoni yn y golau gorau o lawer.*

*Y mae gan y Llywodraeth fwyafrif yn y Tŷ o 217 ond pan ddaethpwyd i bleidleisio y tro hwn 81 oedd y mwyafrif a gafodd.*

*Dywedodd Mr. Lloyd George eiriau plaen heb flewyn ar ei dafod. Apeliodd Mr. Chamberlain at y wlad am aberth, meddai, ond yn ei farn ef (Mr. Lloyd George) nid oedd dim a gyfrannai yn fwy at fuddugoliaeth derfynol nag i Mr. Chamberlain aberthu'r swydd a ddaliai.*

*Gwnaethom ni ein safle eisoes yn hollol glir. Gan y credwn fod y rhyfel hwn â'i amcan i roddi pen ar ymosod ac anrhaith ac i ddiogelu rhyddid sy'n hawl sylfaenol pob dyn gwâr safwn yn gadarn dros barhau i ryfela, costied a gostio. Ni fu inni gelu o gwbl ein diffyg ffydd yn y Llywodraeth hon, sydd, drwy ei hanallu heb falio am y geiniog ar hyd ei thymor hir mewn swydd drwy fwyafrif ac ofn wedi gwneuthur llawer tuag at ddwyn oddi amgylch y rhyfel hwn.*

*Gwyddom beth a ddigwyddodd gartref ac yn awr fe wyddom hefyd beth a ddigwyddodd yn Norwy. Dengys y cwbl rhyw fodlonrwydd diddychymyg ar beth sydd, onid atelir ef, yn rhwym o estyn hyd y rhyfel a gwneud y siawns am fuddugoliaeth derfynol yn ansicr. Wedi'r drafodaeth a fu ym Munich datganasom y farn y byddai camgymeriadau'r Llywodraeth Genedlaethol hon yn sicr o ddod adref i nythu. Ac y maent wedi dod yn bendifaddau.*

*O'r diwedd, a hynny ar fater o'r pwys mwyaf, y mae'r Llywodraeth wedi cael y fath ysgydwad a arwain, ni a obeithiwn, i atdrefniant a fydd yn ennyn hyder unol y wlad.*

*Os y gellir hyn, bydd Hitler yn wir, drwy ei oresgyn ar Norwy, wedi cyflawni camgymeriad o'r math mwyaf a gwneuthur gwasanaeth i'n gwlad ninnau, y mae ofn a'r angen am unoliaeth wedi methu a'i gyflawni hyd yn hyn.*

Yn yr un rhifyn, 11 Mai 1940, ceir ysgrif flaen arall, y tro hwn yn dychwelyd at bwnc Y GWRTHWYNEBWYR, a hynny'n dilyn penderfyniad gan Bwyllgor Addysg Sir Ddinbych i orchfygu cynnig i derfynu gwasanaeth y gwrthwynebwyr cydwybodol yn y sir, ond dim ond o 29 o bleidleisiau yn erbyn 26. Yn yr ysgrif gwelir Y Cymro yn mynegi gofid dros yr hyn a eilw'n 'galedu barn gofidus' ar bwnc y gwrthwynebwyr a dywed nad yw unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r hawl sylfaenol o ryddid cydwybod a barn yr unigolyn fymryn yn fwy

teilwng na Hitler ei hunan; fodd bynnag, er ei fod yn gofyn am degwch i'r gwrthwynebwyr ac yn erfyn ar i bobl barchu eu daliadau, mae'r papur ar yr un pryd yn apelio ar i'r gwrthwynebwyr hwythau wneud yn siŵr nad ydynt yn dylanwadu mewn unrhyw fodd ar y rhai sydd yn eu gofal:

> *DENGYS y drafodaeth a fu ym Mhwyllgor Addysg Sir Ddinbych ddydd Llun fod cryn galedu barn gofidus ar bwnc gwrthwynebu cydwybodol.*
>
> *Dylid ar unwaith gondemnio unrhyw erledigaeth ar ddyn oherwydd ei argyhoeddiadau cydwybodol, yn enwedig pan fo cyfraith bendant y wlad i'w amddiffyn. Onid rhyddid cydwybod, barn, a llafar, rhyddid yng ngwir ystyr y gair, yw'r hyn yr ymladdwn drosto?*
>
> *Ymddengys inni nad yw'r penderfyniad, a gollwyd drwy fwyafrif bychan, yn ddim gwell na chwarae i ddwylo'r Hitleriaid bach yn ogystal â'r rhai mawr, a fyddai'n hollol barod i osod grym yn erbyn y rhyddid sydd mor annwyl gennym. Chwarae gêm Hitler oedd cynnig y penderfyniad hwn. Ni ddylid anghofio'r ffaith mai bychan iawn yw nifer y gwrthwynebwyr cydwybodol ar gyfartaledd y dynion a elwir i ymrestru, a bod yn rhaid iddynt ddal praw llym gerbron Tribunlys, cyn y cofrestrir hwy yn ôl eu hopiniynau. Fe ddichon mai ychydig sydd yn dal y praw, drwy chwarae mig, ac mai ychydig iawn sy'n cael eu cofrestru fel gwrthwynebwyr cydwybodol yng ngwir ystyr y gair.*
>
> *Nid yw yn rhan o natur y Cymro, chwaithach y Prydeiniwr, i erlid y cyfryw rai.*
>
> *Ar yr un pryd dylai gwrthwynebwyr cydwybodol sydd yng ngwasanaeth y Wladwriaeth ystyried eu safle neilltuol hwy, yn arbennig yn achos athrawon. Dylent, oherwydd eu cyfrifoldeb ynglŷn â ieuenctid y wlad, fodloni eu cyflogwyr na ddylanwadant yn y cyfeiriad hwnnw ar y rhai sydd dan eu gofal.*
>
> *Mater o gyfartaledd yw hwn, peth a gollir mewn amser rhyfel, ac y mae erlid dyn dan gochl gwladwriaeth yn rhwym o amharu ar gyfartaledd barn a chyfrifoldeb, fel yn achos yr aelod hwnnw a dorrodd ar draws y drafodaeth gyda'r sylw: "Rhowch iddynt wasgod felen a deuswllt y dydd."*
>
> *Buasai'r gŵr hwnnw, pe bai yn yr Almaen, yn debyg o fod yn edmygydd o Hitler, oherwydd na fyddai ganddo ddigon o ddewrder i sefyll fyny dros ryddid cydwybod, ac i wynebu caledi'r gwersylloedd cyfyngu am ei ddaliadau.*
>
> *Pe cymerai Pwyllgor Addysg Sir Ddinbych - yn lle erlid dynion, yr hyn yn ffodus, na chefnogwyd, o fewn ychydig, - fesurau doeth a chywir i sicrhau bod eu gwasanaethyddion, fel rhan o'r peiriant gwlad, o'r hwn y cânt eu cyflogau, yn ei fodloni, drwy eu hymarweddiad, nad yw eu daliadau cydwybodol yn lliwio eu gwasanaeth, yna byddai'r pwyllgor yn gwneud ei ddyletswydd.*
>
> *Os y cyflawna'r athro ei ddyletswydd i'r wladwriaeth yn y mater hwn heb ei lyffetheirio, yna byddai lle i obeithio na wrandawai'r Wladwriaeth ar yr Hitleriaid bach gartref tra byddis yn ymladd yr Hitler mawr ar y cyfandir.*

Cadarnheir agwedd Y Cymro tuag at y gwrthwynebwyr cydwybodol yn y paragraff canlynol o is-ysgrif flaen **Y BUMED GOLOFN** yn rhifyn 18 Mai 1940. Dywed y papur unwaith eto ei fod yn parchu rhyddid barn y gwrthwynebwyr hyn ond mae'n cydnabod bod eu safiad

yn un 'nad yw'n hawdd ei ddeall':

> *....Y mae'r gwrthwynebwyr cydwybodol yn cael triniaeth deg gan y Llywodraeth. Hyderwn felly na chamdrinir y cyfartaledd bychan ohonynt gennym oblegid amcan pennaf y rhyfel yn y pen draw yw amddiffyn rhyddid. Ni ddylai'r gwrthwynebwyr cydwybodol gamddefnyddio'u breintiau ychwaith. Mater personol yw cydwybod ac fe ddylid adolygu agwedd rhai gweinidogion ac aelodau'r Undeb Llw Heddwch yn y golau os y bydd i Hitler ennill na chyfrifant ond megis dim. Rhaid inni barchu'r sawl sydd yn unol â'i reswm noeth yn ei theimlo yn anodd ganddo ar dir cydwybod i gymryd rhan mewn ymladd ac sydd dan yr argyhoeddiad hwn yn barod i wneud gwaith na eilw am ymladd os bydd angen hynny, serch nad yw'n hawdd ei ddeall....*

Yn y cyfamser, ar nos Wener 10 Mai 1940, yn dilyn galwadau cynyddol o sawl cyfeiriad bod angen newidiadau sylweddol yn y ffordd y gweithredai'r Llywodraeth, yr oedd Neville Chamberlain, y Prif Weinidog, wedi ymddiswyddo gan wneud lle i'w olynydd, Winston Churchill, datblygiad fel y gwelir yn is-ysgrif flaen 18 Mai a groesewid gan Y Cymro:

Y LLYWODRAETH:

> *Y MAE'R Llywodraeth newydd dan arweiniad Mr. Churchill, heb gysgod o amheuaeth, wedi ennill ymddiriedaeth y wlad. Felly byddwn yn hyderus yn ein ffordd o wynebu'r safle, sef ymladd dros ein rhyddid, rhyddid ein plant, a phlant ein plant. Y mae'r safle anhyfryd yr oeddym ynddi oddi ar fis Medi diwethaf gyda'i amheuon a'i ofnau wedi newid mewn noson ac yn awr daeth yn amlwg yr ewyllys i fuddugoliaeth.*

Yr oedd Y Cymro hefyd yn croesawu'r datganiad a wnaed gan Mr. Churchill ychydig wythnosau'n ddiweddarach, yn dilyn ymyrraeth Mussolini yn y rhyfel, pan ddywedodd bod "inflexible resolve" yn bodoli ar ran yr Ymerodraeth Brydeinig i barhau â'r ymgyrch ryfel hyd y pen eithaf os oedd raid. Bellach gwelir Y Cymro yn gwneud gosodiadau cryfach nag erioed dros ymladd y rhyfel hwn i'r pen eithaf, a cheir sawl enghraifft o'r papur yn mynegi hynny yn yr ysgrif isod; sylwer unwaith eto hefyd ar ei ddefnydd o iaith Feiblaidd:

ATEB I'R ALWAD (22 Mehefin 1940)

> *FE wnaeth galwad glir Mr. Churchill i'r genedl nos Fawrth yn hollol amlwg y cwrs y mae'n rhaid inni ei wynebu.*
>
> *Yn wir ni ellid dychmygu am unrhyw gwrs arall. Ni olyga hyn ein bod*

*yn ddall i'r peryglon sydd ymlaen, ac ni olyga ychwaith ein bod yn orhyderus.*

*Yr hyn a olyga yw fod y wlad o'r diwedd wedi agor ei llygaid yn llydan agored i'r hyn sy'n aros ein Ymerodraeth, a gwareiddiad y byd i gyd, os methwn.*

*Y mae'n rhaid inni fel un gŵr fynd i'r ymdrech hyd yn oed hyd farw â'r Almaen Nazïaidd. Golyga, heb gysgod amheuaeth, y bydd i'n cariad at ryddid, ein cartrefi, ein plant, ein gwlad dlos, ein parch tuag at ddeddf a threfn, cyfiawnder ac anrhydedd, crefydd a goddefgarwch, a'n hatgasedd dwfn a diysgog o gaethwasiaeth a thywyllwch Nazïaidd, ein nerthu a'n cryfhau i ymladd ymlaen i rwystro unwaith ac am byth "i felltith Hitler gael ei osod ar ein talcennau." Ni oddef yr un Cymro i'w law drom gael ei dodi ar ein gwlad nac ar ein rhyddid, a pha beth bynnag yw cynlluniau dieflig Hitler gyda golwg ar ein gwlad fe sicrhawn y Prif Weinidog y bydd i Gymru ddal ati gyda grym penderfynol, drwy ing a gwae, ac aberthu bywyd a meddiannau, er mwyn ennill yr ornest â galluoedd y tywyllwch hyd oni wawrio heddwch o'r newydd.*

*Bydd newid mawr yn ein harferion byw a chyfnewidir sylfeini ein bywyd cenedlaethol yn llwyr, ond drwy'r profiad tanllyd hwn fe'n rhyddhawn ein hunain a'r byd o afaelion dylanwadau a gais ein hamgylchu â chaethiwed corff a meddwl, heb yr un pelydr o obaith.*

*Yn yr ymdrech fawr fe ddaw Tywysog Tangnefedd i'w orsedd os egyr y wlad ei chalon, a daw'r tangnefedd sydd uwchlaw pob deall nid yn unig i felysu ein gwlad ein hun, ond hefyd yn oleuni ac yn weledigaeth newydd i ddynoliaeth dros y byd i gyd. "Nac ofnwch: Myfi yw."*

Dychwel ysgrif flaen Y Cymro 3 Awst 1940 at bwnc y gwrthwynebwyr cydwybodol; y tro hwn, Pwyllgor Addysg Aberteifi sydd dan y lach, a hynny am iddynt benderfynu diswyddo athrawon a goleddai ddaliadau pasiffistaidd, a gwelir bod barn y papur mor gyson ag erioed:

## LLWYBR GARW RHYDDID

*FE benderfynodd Pwyllgor Addysg Sir Aberteifi, drwy fwyafrif o 20 yn erbyn 16, ddiswyddo pob athro yn eu gwasanaeth sy'n wrthwynebwr cydwybodol. Y mae'r bwriad yn ein taro fel rhywbeth sy'n arwyddo safbwynt meddwl hollol anghyson ag un o'r delfrydau â'n cymhellodd i ryfela - rhyddid barn. Yn y dyddiau hyn pan fo fflamau rhyddid a chyfiawnder wedi eu diffodd ar y Cyfandir gan bropaganda melltigedig, cysurus a chalonogol yw gweld aelodau o'n hawdurdodau cyhoeddus yn ddigon eofn i gymryd yr ochr amhoblogaidd a'n hatgoffa o'r hyn y ceisiwn drwy gymaint dioddef ac aberth ei gyrraedd. Nid oes gennym y gronyn lleiaf o gydymdeimlad â'r gwrthwynebwr cydwybodol nad yw'n gwbl ddilys ei ddaliadau, ond gwadwn hawl awdurdod cyhoeddus i ddiddymu polisi a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth. Gwadwn hefyd hawl unrhyw wrthwynebydd cydwybodol i ddylanwadu ar, neu i gymryd cwrs, a fo'n groes i ddymuniadau'r wlad yn gyffredinol gyda golwg ar y rhyfel. Gwadwn hawl y Cyngor Sir, fel cyflogwyr, i gyfrif y ddau ddosbarth o wrthwynebwyr fel un ac i ddiswyddo'r cwbl. Nid yw hyn ond y math ar gamwri a welsom eisoes ar y Cyfandir. Fel y sylwodd y Parch. T. Eirug Davies, y mae perygl i Hitleriaeth feddiannu'r wlad heb i Hitler ddod yma. Ni allwn ddeall y safle a gymerir gan wrthwynebwyr cydwybodol ond*

*yn yr achosion lle'r argyhoeddir ni fod protest yr ymgeiswyr am ryddhad wedi ei sylfaenu ar onestrwydd a heb ei ddylanwadu gan unrhyw beth arall credwn y dylid derbyn dedfryd y tribunlys ac na ddylai awdurdod cyhoeddus fel Pwyllgor Addysg erlid dyn a gwneud ei lwybr yn fwy garw nag y bwriadodd y Llywodraeth iddo fod. Gresynwn, fel y gwnaeth Mr. Eirug Davies, fod y sir a fagodd Henry Richard wedi cymryd cwrs sydd ym marn llawer yn groes i draddodiad rhyddid.*

Cyfeiriwyd yn y bennod flaenorol at yr adroddiad rhagorol a ymddangosodd ar flaen Y Cymro 15 Chwefror 1941 yn darlunio cariad a lletygarwch y Cymry cyffredin at y llochesiaid bach o Saeson a ddaeth i Gymru o drefi a dinasoedd Lloegr, un o'r ychydig adroddiadau o gyfnod y Rhyfel sy'n dangos natur dyn ar ei orau. Yn ysgrif flaen yr un rhifyn wele'r Cymro yn gobeithio y byddai'r llochesiaid hyn yn 'llysgenhadon' i newid hen syniadau a rhagfarnau am Gymru a Chymry:

EFFAITH DYFOD Y LLOCHESIAID

*BU Mr. I. F. Armer, cadeirydd Bwrdd Iechyd Cymru, yn annerch clwb cyhoeddusrwydd yng Nghaerdydd ar effaith symud y llochesiaid i Gymru. Cyflwynodd i sylw'i wrandawyr ffigurau diddorol. Yn ôl y cynlluniau, trefnasid, cyn y rhyfel, fod modd rhoi lluest yn ardaloedd Cymru i 500,000 o noddedigion. Hyd yn hyn derbyniwyd 58,500 o blant ysgolion heb neb gyda hwy; daeth 59,000 o famau gyda phlant, a 11,000 o bobl, a allai wneud eu trefniadau eu hunain, neu gyfanswm o 128,500. Heblaw y rhain yr oedd tua 224,000 o ddinasyddion wedi gwneud eu trefniadau eu hunain. Felly yr oedd cynnydd o 352,000 ym mhoblogaeth Cymru, neu yn ôl 20 y cant o boblogaeth ardaloedd derbyn llochesiaid. Cymerwyd meddiant o 450 o dai gweigion a'u dodrefnu ar gyfer mamau a'u plant, a darparwyd 13 o leoedd i gleifion; 12 o ysbytai brys i drin heintiau, a 104 o luestai i blant. Talodd Mr. Armer deyrnged i ymateb Cymru i'r galw, oedd yn eithriadol iawn. Fel ymhobman, yr oedd baich y llochesiaid yng Nghymru wedi disgyn ar y tai lleiaf, yn hytrach nag ar y tai mwy. Nid ar bobl y tai mwyaf yr oedd y bai bob amser, ond ar y llochesiaid na theimlent yn gartrefol yn y tai mawr. Yr oedd nifer o dai-ddalwyr y tai mawrion, er eu cywilydd, yn amharod i gymryd y plant. Ond fe ddeuai'n orfodol yn y man arnynt hwythau i wneud eu rhan. Yr oedd digon o dystiolaeth fod y noddedigion wedi gwella yn eu hiechyd o ddod i Gymru a chreda Mr. Armer y byddai harddwch y wlad a chroeso a dull o fyw y Cymry yn foddion i droi'r noddedigion yn filoedd o lysgenhadon a symudai ymaith syniadau anghywir a fodola mewn llawer lle Cymreig ac ymhlith y Cymry eu hunain. Mewn rhan y deliodd y siaradwr ag effaith hyn oll. Fe ddichon bod y llochesiaid hyn wedi cynyddu poblogaeth Cymru drwy eu bod yn cymryd lle'r rhai a orfodwyd gan gyni i fynd o Gymru. Nid yn unig dylai'r plant hyn fod yn llysgenhadon i newid syniadau yng Nghymru ond fe ddylent hefyd fod yn foddion i newid syniadau am Gymru a Chymry a goleddid gan y Saeson na wyddent ddim am Gymru a'i phobl cyn hyn.*

Un arall o'r ysgrifau blaen hynny sy'n dangos mor syfrdanol

y newidiodd barn Y Cymro ar holl fater y Rhyfel yw'r un CYMRU'N BAROD I'R GALW o rifyn 15 Mawrth 1941. Y 'galw' dan sylw yma yw'r apêl gan y Llywodraeth am 100,000 o ferched i weithio mewn ffatrïoedd arfau neu waith rhyfel tebyg, a'r hyn sy'n syfrdanol o gofio ysgrifau blaenorol y papur yw ei fod yma'n apelio, ar ran y Cymry, am sefydlu mwy o ffatrïoedd rhyfel yng Nghymru i 'weithio'n galonnog i ennill y rhyfel, ac ar yr un pryd ddiogelu diwylliant Cymreig i'r oes a ddêl'! Cymharer galwad o'r fath â'r stori flaen TREFI CYMRU YN YMGIPRYS AM FFATRI ARFAU o'r Cymro 4 Awst 1934, a ddyfynnwyd yn y bennod flaenorol, lle mae Gohebydd Arbennig y papur yn feirniadol o bobl 'heddychol' a anghofiai eu hegwyddorion yn sydyn iawn pan oedd unrhyw obaith am fanteision ariannol gyda dyfodiad ffatrïoedd arfau i'w trefi; er nad yw'r ysgrif isod yn ymdrin â'r un egwyddor yn union, mae serch hynny'n gwbl amlwg o gymharu'r ddau rifyn bod barn Y Cymro ar fater y ffatrïoedd wedi newid yn llwyr:

> *NID yw Cymru yn debyg o fod yn fyr yn ei hateb i apêl y Llywodraeth, drwy'r Gweinidog Llafur, am 100,000 o ferched i lenwi bylchau yn y ffatrïoedd arfau ac mewn amrywiol gylchoedd eraill o waith ynglŷn â'r rhyfel. Fel yna y dymunem oll i bethau fod yn yr argyfwng presennol pan ofynnir am yr aberth llwyraf. Ond ni allwn lai na gresynu bod Cymru eto i golli ychwaneg o adnoddau ieuanc y wlad, gan nad oes yn y Dywysogaeth gyfleusterau i weithio a'u cadwai gartref i gyflawni yr un gwasanaeth gwlatgarol. Collasom eisoes o ranbarthau diwydiannol Cymru ddegau o filoedd o wyryfon sydd heddiw'n gwasanaethu dros y gororau mewn ffatrïoedd a swyddfeydd, ac os collwn rif sylweddol o'r merched ni fydd yn aros yng Nghymru ond yr hynafiaid a'r plant, a'r rheiny yn gymysg â nifer fawr a chynyddol o lochesiaid na ddeallant ein hiaith na'n dyheadau fel cenedl. Onid yw'n bosibl pwyso'n llwyddiannus am sefydlu mwy o ffatrïoedd rhyfel a gweithfeydd yng Nghymru, lle y caiff ein dynion a'n merched, o leiaf ran helaeth ohonynt, weithio'n galonnog i ennill y rhyfel, ac ar yr un pryd ddiogelu diwylliant Cymreig i'r oes a ddêl?*

Achos diddorol tu hwnt oedd yr un yn ymwneud â Dr. Iorwerth C. Peate, ceidwad yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, a ddiswyddwyd yn gwbl ddiseremoni ac heb unrhyw reswm swyddogol teilwng gan yr awdurdodau, er ei bod hi'n gwbl amlwg mai oherwydd y ffaith ei fod yn wrthwynebydd cydwybodol y cafodd ei ddiswyddo mewn gwirionedd. Yn y bennod flaenorol dyfynnwyd yn llawn yr adroddiad cynhwysfawr DISWYDDO DR. PEATE o'r Cymro 6 Medi 1941 sy'n nodi holl ffeithiau a chefndir yr achos ac sy'n dangos yn gwbl glir mai'r unig reswm y diswyddwyd ef oedd

oherwydd ei ddaliadau pasiffistaidd; yr oedd hynny er gwaethaf y ffaith ei fod yr unig geidwad Cymraeg mewn Amgueddfa a oedd i fod yn un Genedlaethol Cymru, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi gwasanaethu'r Amgueddfa'n rhagorol ers blynyddoedd maith, ac er gwaethaf y ffaith mai Dr. Peate ei hunan, i raddau helaeth, oedd yn gyfrifol am statws uchel yr Amgueddfa yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Yn yr un rhifyn o'r Cymro ymddangosodd yr ysgrif flaen isod sy'n gwbl nodweddiadol o safiad y papur ar fater y gwrthwynebwyr cydwybodol, hynny yw, mae'n anghytuno'n llwyr â phasiffistiaeth Dr. Peate ond mae ar yr un pryd yn ei gefnogi i'r eithaf ac yn mynnu ei fod yn cael ei drin â mwy o degwch gan ei gyflogwyr:

ACHOS DR.PEATE

*Y MAE 'Y Cymro', drwy holl dywyllwch argyfyngau'r cyfnod cyn y rhyfel a thrwy ddyddiau hir y rhyfel presennol, wedi sefyll yn gyfangwbl y tu ôl i'r ymdrech ryfel.*

*Saif ein cyflawniadau heb ofni gwg na cheisio ffafr neb, ac fe barhânt felly hyd y diwedd; canys ein cred ni yw oni threchir Hitleriaeth fe ddiflanna rhyddid fel yr adwaenom ni hi yn llwyr, a chyda hi fe ddiflanna popeth sy'n werthfawr yn ein bywyd personol hefyd.*

*Ond nid yw'r polisi hwn yn golygu, er bod Cymru wedi ymroi yn llwyr i'r ymdrech rhyfel, fod yr union beth yr ymladdwn drosto i'w ddifodi fel diffodd cannwyll gyda ni gartref.*

*Cyfyd achos Dr. Peate, â'r hwn y delia ein gohebydd arbennig, yn y rhifyn hwn, rywbeth mwy na'r hyn a ymddengys ar yr wyneb.*

*Dymunwn ei wneud yn hollol glir ein bod yn anghytuno'n llwyr â golygiadau Dr. Peate fel Pasiffist ac fel Gwrthwynebydd Cydwybodol. Ond credwn hefyd, ac fe gytuna pob Cymro sy'n falch o'i genedlaetholdeb, pa un a gred mewn Pasiffistiaeth ai peidio, fod yn y diswyddo diseremoni hwn o Gymro amlwg ac amryddawn sydd wedi gwneud cymaint dros ddiwylliant Cymraeg, a bod yr eglurhad negyddol a gynigiwyd ar y pryd, yn sarhad ar ddealltwriaeth y genedl, ac, yn sicr, nid yw'n gyson ag urddas sefydliad cyhoeddus o natur a safon Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Nid yw ychwaith, yn unol â safon unrhyw gyflogydd llafur sydd ganddo rywfaint o barch i wasanaeth ffyddlon a roddwyd, ac yn fwy na hyn, hyd yn oed, ryw ystyriaeth i wrthwynebiadau cydwybodol dyn os yw'n fodlon fod y gwrthwynebiadau hynny'n real a gwirioneddol.*

*Tra nad ydym yn ymboeni dim ynghylch golygiadau Pasiffistaidd Dr. Peate, na'i gredo cydwybod, byddem ar unwaith yn pryderu'n fawr - ac fe wnâi'r awdurdodau hynny - pe troai ei basiffistiaeth i sianelu gŵyrdroawl. Ond fe ŵyr pawb nad yw'r peth felly, o bell ffordd.*

*Felly fe ymddengys bod amheuaeth difrif ynghylch bod rhyddid cydwybod yr unigolyn wedi ei anwybyddu'n llwyr, a hyderwn yn fawr iawn y bydd i Lys Amgueddfa Genedlaethol Cymru, wrth ystyried gwaith ei gyngor, roddi'r sylw difrifolaf nid yn unig i'r hawl sylfaenol hon, ond hefyd i'r agwedd bwysig mai sefydliad Cymraeg ydyw ac wrth ddiswyddo mor ddiseremoni Gymro amlwg a'r unig aelod o'r staff sy'n gallu siarad*

*Cymraeg oherwydd ei argyhoeddiadau crefyddol ei fod yn dieithrio dymuniadau da y genedl Gymreig fel cyfangorff.*

Erbyn rhifyn 1 Tachwedd 1941 o'r Cymro yr oedd Llys Llywodraethwyr yr Amgueddfa wedi penderfynu anghymeradwyo gwaith y Cyngor yn diswyddo Dr. Peate ac yn sgîl hynny'n gofyn i'r Cyngor ei ail-sefydlu yn ei swydd; fodd bynnag, fel y gwelir o'r adroddiad blaen DYFARNIAD YN ACHOS DR. PEATE, yr oedd teimladau chwerw iawn yn parhau i fodoli ynghylch yr holl sefyllfa. Yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos nid yw'r Cymro yn cyfaddawdu o gwbl ar ei safbwynt blaenorol a gwelir ei fod yn fwy beirniadol nag erioed o Gyngor yr Amgueddfa:

ACHOS DR. PEATE

*DUG adroddiad Cyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Llys, ddydd Gwener diwethaf, i'r amlwg y rhesymau paham y diswyddwyd Dr. Iorwerth C. Peate o wasanaeth yr Amgueddfa beth amser yn ôl.*

*Nid oes dim yn yr adroddiad nac yng ngweithrediadau'r Llys a newid y farn a ddatganwyd gennym ar yr un pryd, sef na ellid cyfiawnhau dyfarniad y cyngor a ddangosai ddiffyg cydymdeimlad hollol ag un o'i wasanaethyddion a roes wasanaeth da, ac a feddai hawl i ryddid cydwybod. Dyna'r farn a goleddwyd mewn effaith gan fwyafrif y Llys a gofynnwyd i Gyngor yr Amgueddfa roi Dr. Peate yn ôl yn ei swydd.*

*Ymddengys ei bod yn bosibl osgoi'r penderfyniad hwn drwy honni bod gan y cyngor hawl i edrych ar y penderfyniad fel peth a gymeradwyid yn unig, ac fe all y cyngor ddal at ei ddyfarniad. Nid yw hyn namyn cais i hollti blewyn ac fe ddylid sicrhau'r Cyngor y gwylir y symudiadau yn ofalus.*

*Fe ddylid bod wedi setlo'r holl anghydfod o fewn cylch awdurdodau'r Amgueddfa ar linellau priodol, ond fe ymddengys y driniaeth a gafodd Dr. Peate fel cais i gydio mewn unrhyw esgus. Digrif oedd yr eglurhad na thybid ei bod yn unol ag urddas y Llys i anfon yr adroddiad allan cyn y cyfarfod. Petaent wedi meddwl mwy am urddas y genedl Gymreig, heb sôn am urddas Dr. Peate, a roes wasanaeth teilwng i'r Amgueddfa, buasid wedi arbed llawer o ddadlau a chroes-ddadlau, heblaw eu gorfodi drwy fwyafrif i gywiro'u camgymeriad.*

*Dywedwn eto nad oes gennym gydymdeimlad â phasiffistiaeth Dr. Peate. Nid oes gennym ond y cydymdeimlad llawnaf ag ef dros iddo gael ei le yn ôl yn yr Amgueddfa, ac fel yr unig swyddog o Gymro, am iddo gael ei ddiswyddo mor ddiseremoni gan gyngor nad adnabu mo Gymru ac a gais ymddwyn yn urddasol at ei lys llywodraethol, ond a wrthyd yr un hawl i'w wasanaethyddion.*

Soniwyd uchod bod yr ysgrif flaen EFFAITH DYFOD Y LLOCHESIAID o'r Cymro 15 Chwefror 1941 yn un o'r rhai prin hynny ar adeg y Rhyfel sy'n dangos natur dyn ar ei orau; ysgrif arall sy'n dangos DYNOLIAETH DDA yw'r un isod o rifyn 15 Tachwedd 1941,

sef yr un rhifyn ag yr ymddangosodd yr adroddiad GWYRTHIAU O GAREDIGRWYDD ar ei dudalen flaen:

> *CYHOEDDWN adroddiad ar dudalen arall am fudiad gwerthfawr sydd ar droed yn nhref Caernarfon ac ynglŷn â'r hwn y ceir cryn dipyn o sirioldeb mewn adeg dywyll fel hyn.*
>
> *Y mae adeiladau wedi eu neilltuo yn y dref i storio dillad ar gyfer noddedigion a ddaeth i'r cylch o'r trefi mawr a ddioddefodd oddi wrth gyrchoedd awyr y gelyn.*
>
> *Problem anodd ynglŷn â chroesawu'r noddedigion hyn yw pa fodd i gael dillad ac esgidiau iddynt. Y mae'r cynllun sydd ar waith dan ofal rhai o ferched blaenllaw'r dref yn dileu'r anhawster i gael dillad i'r plant pan fo'r dillad a'r esgidiau oedd ganddynt yn dod i'w cartrefi newydd wedi gwisgo allan.*
>
> *Ar wahân i werth ymarferol y mudiad hwn y mae'r arddangosiad o garedigrwydd gartref a rhoddion pobl mewn gwledydd pell yn sicr yn foddion cysur, ac yn arwydd amlwg o'r modd y mae'r rhai sydd ganddynt yn barod i roi o'u cyfran i'r rhai sydd yn llai ffodus na hwy.*
>
> *Dyma weriniaeth wir yn ei gwaith a chydymdeimlad a charedigrwydd dosbarthiadau at ei gilydd yn dangos fel y mae ysbryd cariad yn canfod y ffordd i'w fynegi ei hun. Y mae'r ysbryd hwn wedi ei ddifodi'n llwyr yng ngwledydd y Cyfandir, a thrwy hynny fe welir pa mor angenrheidiol yw i ryddid a chydymddwyn â'i gilydd ar ran y gwledydd democrataidd fuddugoliaethu ar bwerau trais, rhaib a gormes.*
>
> *Bydd cadw mewn cof yr ysbryd caredig hwn a welir yn nhref Caernarfon, yn gyfrwng i gadw'n galonnog mewn amseroedd anodd ac i gadarnhau'n ffydd mai i'r da, y pur a'r prydferth y mae'r fuddugoliaeth yn rhwym o ddod yn y man.*

Yn Y Cymro 30 Mai 1942 mae ysgrif flaen yr wythnos yn rhoi sylw i fater arall yr ymdrinwyd ag ef ar rai o dudalennau blaen y papur, sef cadw'r Cymry gyda'i gilydd yn y catrodau Cymreig:

## Y CYMRY YN Y LLUOEDD

> *PWYNT sydd eto heb ei glirio ynglŷn â Chymry sydd yn y lluoedd arfog yw'r un y gofynnwyd i'r Swyddfa Ryfel gydsynio i drefnu bod bechgyn a merched o Gymru yn cael eu cadw gyda'i gilydd yn y catrodau Cymreig yn hytrach na'u hanfon i wahanol fannau o'r wlad ymhell o Gymru. Pan etholwyd Syr Edward Grigg yn Aelod Seneddol dros ranbarth o Gaerdydd bu inni ddatgan yr hyder y byddai iddo gofio am y peth fel Aelod Seneddol Cymreig, ac fel Ysgrifennydd Rhyfel.*
>
> *Yn y cynadleddau a drefnwyd ym Mae Colwyn, Aberystwyth, ac Abertawe gan Undeb Cymru Fydd oddeutu canol mis Chwefror un o'r penderfyniadau a basiwyd oedd bod merched o Gymru a elwid i'r lluoedd arfog yn cael eu cadw gyda'i gilydd, eu hyfforddi yng Nghymru a'u hanfon i unedau yn cyflawni eu gwasanaeth yng Nghymru. Y mae'r broblem yn awr yn wynebu'r Aelodau Seneddol Cymreig ac ychwanegir at yr hyn a geisiwyd eisoes fod y swyddogion meddygol, y swyddogion lles a'r caplaniaid i fod yn rhai a all siarad Cymraeg. Y mae hyn yn naturiol yn ei gysylltu'i hun â chais a wnaed gan y Blaid Seneddol Gymreig a Phwyllgor Cymry Llundain yn gofyn i'r Llywodraeth symud ymlaen i adfer cymeriad Cymreig y catrodau Cymreig a dwyn i'r unedau hyn os yn angenrheidiol filwyr Cymreig.*

*Agwedd arall eto i'r gwyn hon yw bod y swyddogion ymddiddan dan y Weinyddiaeth Lafur a fydd yn delio â'r merched yng Nghymru yn hollol anghymwys i wneud hynny oherwydd eu hanallu i siarad a deall Cymraeg. Par hyn gryn lawer o anghysur ac anfodlonrwydd ymhlith merched Cymreig a elwir i'r gwasanaethau gwlad, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.*

*Gelwir hefyd am i ferched sydd wedi eu hanfon o Gymru i ffatrïoedd yn Lloegr gael eu dwyn yn ôl i Gymru cyn gynted ag y bydd hynny yn ymarferol.*

*Bu dirprwyaeth o Undeb Cymru Fydd yn ymweld â'r Gweinidog Llafur ar y cwestiwn hwn ac oni cheir atebiad boddhaol fe ddisgwylir i'r Aelodau Seneddol Cymreig symud ymlaen yn eofn. Byddai i'r Llywodraeth dalu sylw i'r materion hyn fod yn foddion i ddileu peth sylweddol o'r pryder a deimla rhieni yng Nghymru.*

Heb amheuaeth, un o frwydrau pwysicaf a mwyaf arwyddocaol yr Ail Ryfel Byd oedd brwydr fawr El Alamein yn yr Aifft ym 1942, brwydr a newidiodd gwrs y rhyfel gan iddi nodi trobwynt yn ffawd a llwyddiant y Cynghreiriaid. Hyd yn oed ar y pryd yr oedd hi'n amlwg bod y fuddugoliaeth dros fyddinoedd Rommel yng Ngogledd Affrica'n un sylweddol iawn, a hynny'n digwydd bod ar yr un adeg â phan laniodd byddin fawr America ym mhegwn arall Affrica: yn ôl datganiad pennawd bras Y Cymro ar dudalen flaen rhifyn 14 Tachwedd 1942 yr oedd y datblygiadau hyn yn NEWID HOLL GWRS Y RHYFEL. Meddid yn yr adroddiad hwnnw, a ddyfynnwyd yn llawn yn y bennod ddiwethaf:

*NEWIDIWYD holl gwrs y rhyfel yr wythnos a basiodd. Daeth ei derfyn gryn dipyn yn nes. Tybed fod Hitler wedi synhwyro ei ddiwedd adfydus, ond sicr pan ddywedodd ychydig ddyddiau yn gynt na wnâi ef byth ildio a bod y rhyfel yn fater einioes bellach i'r Nazïaid? Gwyddai y diwrnod hwnnw fod Rommel wedi cael ei lwyr orchfygu yn yr Aifft a bod grym anferth y Taleithiau Unedig, dan ofal y Llynges Brydeinig, o'r diwedd yn herio ei arglwyddiaeth ef ar lannau'r Môr Canoldir o bobtu.*

*Gwelai Hitler ei freuddwydion trahaus yn diflannu fel mwg, a gellir dychmygu bod ei lid at dri dyn yn neilltuol yn berwi trosodd: Stalin, am iddo ysbrydoli a haearneiddio amddiffynwyr Stalingrad ac afon Volga, ac felly lwyr ddrysu'r cynllun i ymwthio drwy'r Caucasus, meddiannu petrol Baku, a threiddio i'r Dwyrain Canol; Churchill, am iddo ym mawredd ei ysbryd a chlirder ei weledigaeth gynnal a chalonogi gwŷr a merched Prydain a'r Dominiynau i gyflawni gwyrthiau amddiffynnol tra'n fyr o arfau a gwyrthiau pellach i wneud y diffyg i fyny mewn pryd; a Roosevelt, am iddo o hirbell ganfod fod uchelgais Hitler yn her i ryddid dynoliaeth a bwrw holl rym ac adnoddau'r America i'r fantol yn ei erbyn.*

*Bellach mae Hitler yn gwybod cystal ag undyn ei fod wedi colli'r rhyfel. Aeth yr arweiniad, yr 'initiative', o'i ddwylo am byth. Ond fel y dywedodd Mr. Churchill, ni olyga hynny fod y rhyfel ar ben; nid dechrau'r diwedd ydyw, hyd yn oed, eithr diwedd y dechrau. Ac y mae gan Hitler ddigon o adnoddau a grym a medr eto i wneud y bennod derfynol yn un hir a blinderus. Ni thâl i neb orffwys ar ei rwyfau am y rhawg....*

Yr oedd pennawd ysgrif flaen yr un rhifyn, YR OLWYN YN TROI, hefyd yn dynodi y byddai cwrs y Rhyfel yn newid yn sylweddol wedi hynny, ac un peth a welir yn amlwg ynddi yw balchder ar ran Y Cymro bod Cymry'n gwneud eu rhan yn y brwydro. Mae hi'n enghraifft ragorol o ysgrif ddadansoddiadol faith sy'n trafod y sefyllfa mewn manylder, rhywbeth sy'n anghyffredin iawn mewn erthygl arweiniol erbyn heddiw, hyd yn oed mewn papur newydd dalen lydan safonol:

*YR oedd llawenydd mewn miloedd o gartrefi Cymru am y fuddugoliaeth fawr yn yr Aifft. Cymerodd meibion Cymru ran ynddi ochr-yn-ochr â meibion gwledydd eraill Prydain, ac ochr-yn-ochr hefyd â meibion Ffrainc a Pholand a Gwlad Groeg a Norwy. Ac yr oedd yr holl fyddin dan arweiniad dau Wyddel. O'r diwedd, wele'r Almaenwr ar ffo, a sŵn dialedd wrth ei sodlau: yr Almaenwr, awdur creulonderau rhy ofnadwy i sôn amdanynt, o'r diwedd yn teimlo'r rhwyd yn cau amdano unwaith eto.*

*A chyn medru mesur maint y fuddugoliaeth honno dyma ergydion nerthol eraill - meibion America a Phrydain yn glanio yn nhiroedd Ffrengig Gogledd Affrica, ogylch y mân borthladdoedd y gŵyr mordeithwyr Urdd Gobaith Cymru yn dda amdanynt. Pwy a anghofia lais y General de Gaulle nos Sul yn galw ar ddewrion Ffrainc yn y tiroedd hynny i daro rŵan, a chodi Ffrainc i'w hen ogoniant? "Ffrancwyr, i fyny â chwi, bob un ohonoch; ymunwch â'n cymrodyr." Yr oedd yn dwyn ar gof "Wŷr Harlech" a'r tafodau tân yn bloeddio "ar i'r dewrion ddod i daro unwaith eto'n un." Ydyw, y mae Ffrainc yn codi ar ei thraed eto, yn eirias ac yn fflam, a diwrnod achub cenhedloedd Ewrop o grafanc y bwystfil yn nesáu. Ond gallwn fod yn sicr o un peth - fe frwydra'r Almaenwr y tro hwn fel teigr gwyllt mewn cornel, heb falio pa ddifrod na pha erchylltra a wna. Ond ei guro a gaiff.*

*Ond wrth gofio buddugoliaeth y tir peidiwn ag anghofio buddugoliaeth y môr, lle y mae cynifer o fechgyn Cymru yn gwneud eu rhan. Anodd amgyffred y nifer o longau masnach oedd raid eu cael i gludo'r byddinoedd o America ac o Brydain Fawr i Ogledd Affrica. Barnai'r gelyn ei fod wedi suddo gormod o'n llongau inni allu gwneuthur y fath beth. Ond wele amryw gannoedd o longau mawr a bach, llongau cludo a llongau brwydro, yn ymddangos ger glannau Affrica, fel fforest goed yn cerdded. A chystal y cadwyd y gyfrinach na thraw-wyd yr un ohonynt nes eu bod ar ben eu taith. Yna fe suddwyd un, ond fe aeth y milwyr ohoni yn ddiogel i'r lan ac i'r frwydr.*

*Bu'r America a Phrydain am fisoedd yn paratoi'r llynges hon. I ddechrau, yr oedd rhaid i awdurdodau'r Fyddin ddweud pa faint o filwyr, gynnau, tanciau a cherbydau tir ac awyr oedd i'w symud dros y môr. Yna, rhoddai'r Navy wybod faint o dân i'r gynnau, ac o fwyd ac o olew oedd arni hithau ei eisiau at y gwaith. Wedi gwybod cymaint â hyn, yr oedd yn rhaid tynnu'r llongau o'u gwaith arferol a'u cael yn barod i'r antur fawr. Yr oedd yn rhaid anfon llawer ohonynt i'r iardiau yma a thraw i'w newid ac i gael offer cymwys i godi a gostwng tanciau a cherbydau trymion. Ar lawer llong yr oedd rhaid gosod rhagor o ynnau, trefnu rhagor o le i ddynion gysgu, a chymhwyso pob troedfedd o le sbâr i ddal petrol ar gyfer y cerbydau tir ac awyr. Rhag i'r dynion oedd yn llwytho'r llongau wybod i ble'r oeddynt yn mynd yr oedd yn rhaid rhoi drecsiwn anghywir ar bob peth. Glo hefyd, llond llongau ohono - yr oedd yn rhaid mynd â hwnnw er mwyn medru defnyddio rheilffyrdd Affrica yn*

*ddiymdroi. 'Tug-boats' hefyd, i dynnu a throi'r llongau yn y porthladdoedd. Yna deall cynlluniau'r llongau gwarchod, a deall ei gilydd, a chychwyn i'r funud. Pan oeddynt yn cychwyn, yr oedd yn dywydd mawr, ond fe aeth popeth yn union yn ôl y bwriad.*

*Y mae'n werth cofio bod yng nghyfandir Ewrop filiynau lawer o bobl sydd heb weld y môr erioed. Heb ei weld, heb sôn am ddeall ei ystyr a'i allu. Ond y mae'r hyn sydd newydd ddigwydd yn neupen y Môr Canoldir yn debycach na dim o agor eu llygaid. Efallai y deallent yn awr mai am fod gan y Navy lywodraeth ar Fôr Mawr Iwerydd a Môr Mawr India y medrodd hi lanio a chynnal byddinoedd enfawr ar lannau'r Môr Canoldir. Yr ydym ni yn yr ynysoedd hyn yn deall y môr yn iawn, ac wrth ein bodd wrth weled ein hen, hen ddawn yn dwyn cystal ffrwyth. Nid am ein bod yn hen-ffasiwn ond am inni fod yn llygad ein lle wrth ddodi ar waith yr hyn a ddysgasom trwy fynych fethiant a mynych lwydd.*

*Credai'r gelyn, am fod ganddo gyflymdra ar y tir, y gallai wrthladd ein gallu ar y môr trwy ladrata'r porthladdoedd. Ond yr oedd yn rhaid curo Rwsia yn gyntaf. Fodd bynnag, aethpwyd â chymorth i Rwsia dros y môr, a gallodd ein llongau rhyfel ni daro dolen wannaf byddin y gelyn - y môr cul rhwng yr Eidal ac Affrica.*

*Ar bapur, yr oedd rhagolygon y Cawrfil yn dda, gan fod Morfil yr Eidal yn ei helpu. Ond nid oedd Morfil yr Eidal yn ddim wrth Forfil Prydain, achos heblaw bod yn hwyrfrydig i ymladd, nid oedd Morfil yr Eidal ond Morfil y Môr Canoldir, ond yr oedd Morfil Prydain yn forfil yr eigionau mawr.*

*Y mae'r Affric yn faes diddorol i'r rhai a gâr fyfyrio ymhell. Galwyd Affrica yn Dir Du, yn Dir y Cyfle Mawr, ac yn Dir yr Hir Gamddeall. Siaredir tua saith cant o ieithoedd yno. Cyffelyb ydyw'r cyfandir hwn i biano a esgeuluswyd. Yr Ewropeaid sy'n trigo yno ydyw'r nodau gwyn, a'r Affricanwyr ydyw'r nodau du. A ddaw cân a chynghanedd ohonynt byth? Amser a ddengys, ond y mae'r maes yn llawn addewid.*

*Bu cenhadon Eglwys Crist, o Ewrop yn llafurio yn Affrica am ganrifoedd. Cafwyd cynhaeaf da, ac aml oleuni mawr. Ond nid ydyw'r gwaith ond prin ddechrau. Yng ngolwg yr Almaenwr, nid oedd y dyn du ond ychydig yn uwch na'r epa, a'i fwriad oedd ei drin felly. Yr ydym wedi achub yr Affricanwr rhag hynny, beth bynnag. Beth am yfory? Credwn mai trwy sicrhau bod y rhan fwyaf o'r trigolion duon, wrth gael addysg, yn cael eu dyrchafu hefyd trwy ddysgu Crist - mai felly y cyrhaeddir nod y Llywydd Roosevelt, sef "yn nydd buddugoliaeth, ceisio sefydlu rhwng y gwledydd drefn lle bydd ysbryd Crist yn rheoli calonnau dyn a chenedl."*

Yn rhifyn olaf Y Cymro o 1942, a ymddangosodd ar 26 Rhagfyr, ceir ysgrif flaen rymus eithriadol yn siarad DROS YR IDDEW, ac yntau'n cael ei drin mor greulon a barbaraidd gan yr Almaenwyr. Er nad yw'r ysgrif yn manylu ar y creulonderau hyn yn benodol, yn anffodus yr ydym oll yn gyfarwydd bellach â hanesion erchyll yr Ail Ryfel Byd fel y gallwn yn hawdd feddwl beth y cyfeiria'r Cymro atynt yma, erchyllterau sy'n graith ar gydwybod dynoliaeth am byth. Ymddangosodd y rhifyn hwn ddiwrnod wedi'r Nadolig, gŵyl sy'n dathlu genedigaeth Iddew, a thrist o eironig yw meddwl bod yr ŵyl i fod i gynrychioli ewyllys da tuag at ein cyd-ddyn. Dyma ysgrif flaen gref nad yw'n gwneud darllen hawdd, ac ysgrif sy'n gwneud i rywun gywilyddio ei fod yn perthyn i'r hil ddynol:

*CYMWYS ar drothwy'r Nadolig oedd i'r Cenhedloedd Cytûn uno i gondemnio'r driniaeth "farbaraidd ac annynol" a gaiff yr Iddewon ar y cyfandir. Pan gyhoeddwyd hyn gan Mr. Eden yn Nhŷ'r Cyffredin, cododd pob Aelod ar ei draed yn arwydd o'i wrthdystiad.*

*Pobl dawel a digyffro ydyw pobl Prydain, at ei gilydd; hwyrfrydig i gas a chyflym i faddau. Ond y mae un peth a all ennyn cas y Prydeiniwr, un peth sydd yn anodd ganddo'i faddau. Creulondeb ydyw hwnnw. Ac y mae'r hanes am greulonderau'r Almaenwyr ar y cyfandir, ac yn arbennig tuag at yr Iddewon, heddiw yn ein cyffwrdd i'r byw.*

*Nid straeon i'n gwylltio er mwyn ein hannog i weithio ac ymladd yn galetach ydyw'r rhain. Chwith gan yr awdurdodau ydyw gorfod cyhoeddi'r hanesion, gan mor ffiaidd ydynt. Ond y mae'r dystiolaeth am y lladd ym Mholand, er enghraifft, yn rhy nerthol ac yn rhy waedlyd i'w hanwybyddu, neu i'w hystyried yn rhywbeth atgas arall y mae'n rhaid ei dderbyn.*

*Ni ddisgwyliwn i ryfel fod yn fwyn, ond nid ydym yn ystyried bod lladd ac arteithio hen bobl a gwragedd a phlant, a difa pobl ddiymadferth, ddi-arf, yn rhan o ryfel. A phrin y gallwn gredu bod pobl gyffredin yr Almaen yn medru ystyried bod a wnelo'r rhyfel â'r troseddau ofnadwy hyn yn erbyn y bobl Iddewig. Nid oes gan werin yr Almaen ddim i'w ennill, ond llawer iawn i'w golli trwy ddrwg-weithredoedd ei harweinwyr. Os ceidw Hitler ei addewid i ladd pob Iddew yn Ewrob, nid ychwanegir un owns at nerth yr Almaen. Yn wir, y mae'r creulonderau gwallgof hyn yn gwanhau'r Almaen trwy beri i bobloedd Ewrob ei gwrthsefyll yn ddi-ildio, a thrwy ennyn condemniad a digofaint yr holl fyd gwâr. Yn wir, dylai pobl yr Almaen deimlo ofn a dychryn am y pethau a wneir heddiw yn eu henw hwy.*

*Wrth godi'n llais yn erbyn y troseddau, arswyd sydd arnom ni ym Mhrydain wrth weled yr hyn sy'n digwydd yn awr i'r Iddewon ac wrth feddwl am yr hyn a ddigwydd i'r Almaenwyr wedi'r rhyfel os caniateir i bethau fel hyn fynd ymlaen. Yr ydym yn edrych tuag at drefn gadarn yn Ewrob wedi'r rhyfel, ond brawychir ni wrth weled yr Almaen yn tywallt afon o waed rhyngddi hi â'r byd gwareiddiedig - afon nas pontir am genedlaethau os chwyddir llawer mwy arni. Y mae a wnelo â dyfodol Iddew ac Almaenwr.*

*Dinistr sy'n wynebu'r Iddewon yn Ewrob. Cywilydd sy'n wynebu'r Almaenwyr - ymweliad pechodau'r tadau ar y plant hyd y drydedd a'r bedwaredd cenhedlaeth. Fe allai pobl gyffredin yr Almaen osgoi'r dynged sy'n eu bygwth hwy eu hunain trwy wneud eu gorau i liniaru'r dynged greulon sy'n bygwth yr Iddew. Oherwydd beth a allai fod yn waeth na bod yn bobl wedi eu diarddel, cas yng ngolwg pawb, a gwybod bod nod y gwarth i fod ar dalcennau eu plant a phlant eu plant am genedlaethau?*

*Pe gwyddai pobl yr Almaen gymaint y ffieiddia'r byd - pawb ond y Japaneaid - yr hyn a wneir yn awr yn eu henw hwy, credwn y mentrent lawer i ymddatod oddi wrth droseddau eu harweinwyr. A dywedyd y gwir, ni byddai'n fenter fawr, oblegid ni all Hitler a'i gymheiriaid herio'r genedl ar fater fel hyn. Trwy orfodi'r Gestapo i roi diwedd ar yr anfadwaith byddent yn wir yn helpu eu gwlad. Ond tybed ein bod yn disgwyl gormod oddi wrth yr Almaen? A ddichon dim da ddyfod oddi yno bellach?*

*Ond gallwn wneuthur un peth y Nadolig hwn. Gallwn ofyn i'r Un a ddaeth i'r byd trwy deulu bach Iddewig roddi llewyrch Ei wyneb i'r rhai diniwed a falurir heddiw, a newid calonnau eu herlidwyr hwy.*

Dim ond dwy o ysgrifau blaen Y Cymro o'r flwyddyn 1943 sy'n ymwneud â'r Rhyfel sy'n werth eu dyfynnu: mae'r gyntaf yn dangos

costau gwirioneddol aruthrol y Rhyfel i lywodraeth a phobl gyffredin gwledydd Prydain, a chofier bod yr ystadegau yn arian yr oes, sy'n eu gwneud hyd yn oed yn fwy anhygoel fyth; ymddangosodd yr ail ysgrif wedi i'r Eidal ildio'n ddiamodol i'r Cynghreiriaid, 'newyddion da dros ben' yn ôl Y Cymro a ddangosai 'bod yr Echel a grewyd gan Hitler a Mussolini ac a fu'n gwegian ers tro yn awr wedi ei chwalu'n yfflon':

Y GYLLIDEB (17 Ebrill 1943)

*Y MAE pob dydd o ryfel yn costio £15,000,000 i Brydain Fawr, a chyflwynwyd y Gyllideb fwyaf mewn hanes i'r wlad gan Syr Kingsley Wood, Canghellor y Trysorlys, ddydd Llun. Yr oedd y symiau a drafodai mor fawr nes myned ohonynt yn ddim ond ffigurau moel na all meddwl dyn eu hamgyffred. Ymddengys y pum miliwn y dydd a werid ar y rhyfel yn 1940 pan gyflwynodd Syr Kingsley ei Gyllideb gyntaf yn swm bach o'i gymharu â'r ffigurau presennol.*

*Gofynnir am gan miliwn o bunnau yn ychwaneg o'r trethi y flwyddyn nesaf. Cyn rhyfel Transvaal dyna'r cyfanswm a ofynnai'r Canghellor amdano. Dwbl hynyna oedd y Gyllideb cyn y Rhyfel Mawr Cyntaf. Aeth i wyth gan miliwn cyn y rhyfel hwn. Yn awr, gelwir am £5,576,000,000. Ac fe fenthyciwyd hyd ddiwedd Mawrth £8,667,000,000.*

*Ceisiwyd talu am y rhyfel, hyd y gellid, wrth fynd ymlaen, ac fe ddaeth 44 y cant o'r holl daliadau yma o byrsau pobl y wlad hon.*

*Ar yr un pryd ni lwyr esgeuluswyd gwasanaethau i'r cyhoedd wrth ganolbwyntio ar y frwydr yn erbyn yr unbennau. Lle gwariwyd £160 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol yn 1939, gwerir £219 miliwn eleni.*

*Canolbwyntiwyd, gyda chryn lwyddiant, ar gadw prisiau bwydydd a hanfodion bywyd yn rhesymol. Tollwyd moethau yn ddidrugaredd. O ganlyniad, oni ddaw'r arian sydd gan y wlad dros ben i mewn yn gynilion, fe ddeuant fel arall.*

*Rhaid gwneud heb gwrw, heb faco, heb adloniant, heb foethau mewn ffwr a sidan a lledr a pherlau, cyn gwneud heb fara.*

*Er hynny, fe deimla hen bensiynwyr a'r bobl sy'n dal i gael cyflogau bychain y baich yn drymach nag yr ymddengys. Ar y llaw arall, fe fanteisia'r gwragedd ar leihad yn y dreth bwrcas ar rai dilladau tŷ.*

*Ac wrth sylwi ar y ffigurau mawr yn cynyddu filiwn wrth filiwn fe sylweddolir fwyfwy mai gwir adnoddau gwlad yw gwŷr a gwragedd a defnyddiau a gwasanaethau.*

YR EIDAL WEDI ILDIO (11 Medi 1943)

*DAETH y newydd calonogol brynhawn Iau fod Llywodraeth yr Eidal o'r diwedd wedi ildio yn ddiamodol i'r Cynghreiriaid. Diau i hyn gael ei hwyluso gan gwymp Mussolini a'i Weinyddiaeth Ffasgaidd rai wythnosau'n ôl.*

*Pan gymerodd y Cadfridog Badoglio a'r Brenin Victor Emanuel yr awenau yn eu dwylo'u hunain wedi i'r Eidal golli ei holl ymerodraeth yn Affrica ac i'r Cynghreiriaid gymryd meddiant o Ynys Sicily disgwylid yn ffyddiog mai dyma a ddigwyddai cyn hir.*

*Y mae'n sicr y bydd i'r Almaenwyr a anfonwyd ac a gadwyd yn yr*

*Eidal barhau i fod yn ddraen yn ystlys y Cynghreiriaid a chreu llawer iawn o rwystrau, ond bydd i'r hyn a drosglwyddir, drwy delerau'r cadoediad, mewn milwyr a meddiannau milwrol yn y Môr Canoldir, agor y drws i gaer Ewropeaidd Hitler, a chreu posibiliadau sydd yn rhwym o achosi datblygiadau cyflym yn ffafr y Cynghreiriaid.*

*Y mae hyn oll yn newyddion da dros ben a'r hyn sydd yn peri mwyaf o lawenydd ynglŷn ag ef yw bod yr Echel a grewyd gan Hitler a Mussolini ac a fu'n gwegian ers tro yn awr wedi ei chwalu'n yfflon.*

*Yn Ewrop nid oes yn aros yn awr i'w drechu ond Hitler, ac y mae buddugoliaethau mawr Rwsia, a symud yr Eidal o'r frwydr o ochr yr Echel, a'r ergydion trymion y gall y Cynghreiriaid eu rhoi yn sicrhau bod dydd y fuddugoliaeth derfynol yn llawer nes.*

*Bydd pobloedd gwledydd y Cynghreiriaid a'r gwledydd sydd dan sawdl y gorthrymydd yn gwylio'r datblygiadau nesaf gyda diddordeb dwfn.*

Glaniodd byddin y Cynghreiriaid yn Normandi yn wythnos gyntaf Mehefin 1944 a dangosodd tudalennau blaen Y Cymro'n glir bod hyn yn gychwyn ar gyfnod newydd eto yng nghronicl y Rhyfel. Erbyn hyn yr oedd teimlad cyffredinol yn bodoli bod Hitler yn colli'r dydd o ddifrif ac yr oedd hyder y Cynghreiriaid ynglŷn â'r fuddugoliaeth arfaethedig yn cynyddu drwy'r amser. Meddai ysgrif flaen Y Cymro o rifyn 7 Gorffennaf 1944 wedi i Fyddin Goch y Rwsiaid orchfygu Minsk, un o gaerau'r Natsïaid ers tair blynedd:

MINSK

*....Y mae'n amlwg oddi wrth hyn bod y straen gyffredinol ar fyddin yr Almaen, o'r diwedd, yn mynd yn fwy nag a all ei dal. Methwyd â chadw'r adwy yn Vitebsk am nad oedd luoedd y gellid eu tynnu o fannau eraill i'w hyrddio yno i ddiogelu'r milwyr sydd yng ngwledydd y Baltig ac i ddiogelu'r Almaen ei hun.*

*Y mae hen gwyn Hitler ei fod yn cael ei amgylchu yn dod yn wir. O Rwsia, o'r Eidal, o Ffrainc y mae'r pwysau'n cynyddu a mwy nag angen pob gŵr yn y fan lle mae. Ni ellir rhuthro atgyfnerthion o un ffrynt i'r llall, ac nid yw ymgyrchoedd mawr yr haf ond prin wedi dechrau.*

*"Fe all misoedd yr haf presennol drwy fuddugoliaethau'r Cynghreiriaid yn y cadgyrch presennol ddwyn llwyddiant cyflawn", meddai'r Prif Weinidog.*

*Y mae'r hyder yn cryfhau.*

Ac wedi'r stori niwlog ac ansicr a ddaeth o'r Almaen bod rhai o'r Cadfridogion Natsïaidd wedi methu lladd Hitler o drwch blewyn (ond 'yn obeithiol o agos i Hitler' yn ôl Y Cymro isod!) pan ffrwydrodd eu bom funud neu ddau'n rhy gynnar, meddid yn ysgrif flaen rhifyn 28 Gorffennaf 1944:

YR HELYNT YN YR ALMAEN

*DAL yn ddigon tywyll y mae'r manylion am y safle y tu mewn i'r Almaen. Bu ffrwydrad yn obeithiol o agos i Hitler a chychwynwyd ar ddial mawr am y ffrwydrad yna - cymaint â hynny sy'n amlwg.*

*Deil rhai sylwedyddion cyfrifol i amau o hyd a fu unrhyw gynllwyn mewn gwirionedd yn yr Almaen ar wahân i'r hyn a gynllwyniodd y Natsïaid eu hunain. Amheuir mai hwy a drefnodd y ffrwydrad ac mai hwy oedd y rhagluniaeth ofalus a drefnodd na dderbyniodd Hitler ei hun niwed. Yna beio'r rhai a ystyrrid yn elynion y Natsïaid a symud ymlaen yn agored i'w difodi. Nid yw triciau fel hyn yn newydd-bethau yn Almaen Hitler.*

*Cred y mwyafrif, pa fodd bynnag, bod ymgais wirioneddol wedi ei gwneud i ddifodi Hitler ac i lorio'r Natsïaid, ac awgryma'r apeliadau am deyrngarwch a wnaed gan Hitler ei hun yn oriau mân y bore a'r prinder newyddion o'r Almaen mai felly y bu.*

*Beth a fydd effaith hyn i gyd ar gwrs y rhyfel? Dim o bwys, oni effeithia'r helynt yn ddifrifol ar ysbryd ac ewyllys milwyr yr Almaen - gwŷr sydd eisoes yn dechrau methu â dal y straen. Canys nid oes ac ni bu arwydd bod gelynion presennol Hitler yn yr Almaen yn gyfeillion i ni.*

*Yr hyn a wneir yn yr Almaen yw trefnu'r gaer ar gyfer y frwydr olaf. Trefniant anobaith yw; trefniant i ymladd wedi i'r frwydr gael ei cholli.*

*Ond grym yn unig a all orchfygu grym, ac nid oes rym a all bellach ddal y Rwsiaid a'r Cynghreiriaid yn ôl. Mae tir yr Almaen ei hun yn raddol ddod i'r golwg a dyddiau heddwch yn agosáu.*

Ar ddydd Iau 17 Awst 1944 rhyddhaodd y Swyddfa Gymreig ddatganiad i'r newyddiaduron Cymreig ynglŷn â chyfraniad catrawd y Royal Welch Fusiliers tuag at ryddhad Ffrainc yn Normandi, datganiad oedd yn bur ganmoliaethus o'r R.W.F. ac un heb unrhyw amheuaeth a fyddai wedi achosi cryn falchder i deuluoedd a ffrindiau'r milwyr Cymreig. Meddid mewn is-adroddiad ar dudalen 5 <u>Y Cymro</u> 25 Awst 1944, <u>Yr R.W.F. Yn Ffrainc</u>:

*O'R diwedd y mae'r llen wedi ei thynnu ynglŷn â symudiadau'r R. W. F. sydd fel yr hysbysir yn awr yn Normandi. Bu cryn ofidio yng Nghymru oherwydd y distawrwydd ynghylch rhan milwyr Cymreig yn rhyddhad Ffrainc, a'r cyhoeddusrwydd a roddid yn barhaus i'r hyn a wnâi milwyr Lloegr a'r Alban.*

*Hysbysodd y Swyddfa Ryfel y newyddiaduron Cymreig fel y canlyn ddydd Iau diwethaf:*

*Y mae'r R.W.F. yn ymladd yn Normandi. Cyraeddasant yno yn ystod wythnos olaf Mehefin ac yn nyddiau cyntaf Gorffennaf. Yr oedd y gatrawd yn ymladd yn y rhan a dorrai'r ffordd o Caen i'r de-orllewin. Yma yr oeddynt yn darged i'r gelyn yn aros eu cyfle i ymosod yn eu tro.*

*Y mae'r gatrawd wedi ymladd ar lawer ffrynt yn y rhyfel hwn. Yr oedd ymhlith y catrodau Prydeinig cyntaf i fod yn yr ymladd gan iddi gymryd rhan yn y cyrch yn Norwy yn 1940 ac hefyd yn Ffrainc a Fflandrys yn yr un flwyddyn pan fu un fataliwn mewn brwydr erch yn ystod wythnos olaf ym Mai ar gamlas La Bassee ac yn St. Venant.*

*Hefyd bu'r R.W.F. ym Madagascar, y Dwyrain Canol a Burma lle buont yn ymladd ers 1942, yn gyntaf ym Mhenrhyn Mayu ac yn ddiweddar yn ardal Maungdaw.*

*Gellir yn awr sôn am y rhan neilltuol a'r dewrder a ddangosodd yr*

*Adran (Gymreig) 53rd yn yr ymladd diweddar yn Normandi. Y mae'r cadfridogion yn uchel eu clod ac edmygedd o'r hyn a wnaeth. Cymerodd un rhan 350 o garcharorion a pheri colledion trymion i'r gelyn yn Evrecy.*

*Gall perthnasau'r milwyr hyn o fryniau a mynyddoedd Gogledd a De Cymru, o'r Alban ac o'r Canoldir fod yn falch o lwyddiant yr adran Gwŷr Traed hyn o Gymry. Profodd eu disgyblaeth mewn amser o braw llym a maith werth yr hyfforddiant a gawsant. Gwnaeth yr adran lawer o ffrindiau yn ystod eu harhosiad yng Ngogledd Iwerddon lle y buont am rai misoedd.*

Ond fel y dywed paragraff agoriadol yr adroddiad uchod, er bod y Swyddfa Ryfel yn talu clod haeddiannol a dyladwy i'r milwyr Cymreig, bu gofidio mawr yng Nghymru am gryn amser cyn hyn pan nad oedd unrhyw arlliw o newydd amdanynt. Yr hyn a wnâi bethau gymaint yn waeth oedd bod milwyr Lloegr a'r Alban yn derbyn cyhoeddusrwydd a chlod uchel yn barhaus, ond nid oedd math o sôn am gyfraniad y R.W.F. a oedd yr un mor gaboledig. Yn ysgrif flaen yr un rhifyn o'r Cymro mae'r papur yn amlwg wedi'i gythruddo gan ddiffyg y Swyddfa Ryfel yn y cyswllt hwn ond nid yw'n brin ychwaith o roi'r bai ar y Cymry eu hunain:

BECHGYN CYMRU YN FFRAINC

*YN hwyr, ond yn well nag yn hwyrach, rhyddhawyd y newydd bod y Royal Welch Fusiliers yn ymladd yn Ffrainc, ac wedi rhoi cyfri da ohonynt eu hunain.*

*Bu disgwyl mawr yng Nghymru am newydd am ei meibion yn y cadgyrch diwethaf, ac er y gwyddai teuluoedd ar hyd a lled y wlad mai yn Ffrainc ymladdai eu plant, eto aeth llawer dydd heibio cyn i unrhyw sylw swyddogol gael ei wneud.*

*Nid yw gofynion milwrol yn caniatáu cyhoeddi gwybodaeth fuan o natur y lluoedd sydd yn y brwydrau, ac heb fod â'r holl ffeithiau wrth law anodd yw condemnio oedi cydnabod bod y catrodau a'r catrodau yn yr ymladd.*

*Eto, creodd yr oediad diweddaraf hwn anesmwythid eang iawn yn y wlad. Nid fel yna y trafodir newyddion am Albanwyr ac am Saeson. Efallai am ein bod yn rhy ddiniwed ac yn rhy hawdd i'n diystyru.*

*Ond y mae'n amlwg, fan leiaf, nad yw Cymru'n mynd i gael cydnabyddiaeth, hyd yn oed, oni waeddwn am fwy. Y mae'r Albanwyr yn barotach i gwyno lle mae cwyno'n cyfri na ni, ac nid oes gan Albanwyr mewn safleoedd o bwys ofn pwyso hawliau eu gwlad ymlaen a gwthio enw eu gwlad gerbron y cyhoedd bob cyfle posibl. Ond y mae'r Cymry yn rhy ofnus. Pe buasent yn llai ofnus nid eithriad a fuasai gweld enw Cymru a hanesion am Gymry ym mhapurau dyddiol Llundain.*

*Wedi cryn weiddi yn y wasg - cofier hynny - y daeth y newydd am y Royal Welch, ac wedi cryn weiddi ac yn bur hwyr cyn hyn y daeth y newydd am y Cymry yn yr Eidal.*

*Ac os oes ychwaneg o gatrodau Cymreig yn Ffrainc, cystal i ni gael clywed amdanynt hwythau fel y clywodd rhannau eraill o Brydain am eu lluoedd hwy.*

*Canys yr ydym i gyd yn y rhyfel, ac nid ydym yn debyg o'i cholli*

*oherwydd i'r Swyddfa Ryfel ddweud gair neu ddau am fechgyn Cymru.*

Tueddir i feddwl am y Rhyfel fel rhywbeth a ymleddid gannoedd a miloedd o filltiroedd i ffwrdd ar diroedd estron mewn gwledydd tramor, ac er wrth gwrs mai dyma oedd y Rhyfel yn ei hanfod, yr oedd hefyd yn anorfod yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pawb yng Nghymru. Yn ogystal â'r ffaith bod mwy neu lai bob un yng Nghymru â pherthnasau a chyfeillion a ymladdai yn y Rhyfel, a bod clywed am eu hanwyliaid yn cael eu lladd neu eu hanafu yn naturiol yn sioc ddifrifol iddynt, yr oedd y Rhyfel hefyd yn trawsnewid eu bywydau bob dydd. Gwelwyd sawl enghraifft o hyn yn y bennod ddiwethaf, megis yn yr erthyglau Cymru yn Dychwel i Amserau Ein Taid a'n Nain (23 Medi 1939), BRYSIO CYN CODI O'R PRISIAU (26 Hydref 1940), CROESO CYNNES I BLANT Y DDINAS (15 Chwefror 1941) ac Y DULL Y TREULIWYD Y GWYLIAU (3 Ionawr 1942), ac yn Y Cymro 22 Medi 1944 ymddangosodd yr ysgrif flaen ganlynol sy'n enghraifft arall o'r modd yr effeithiodd y Rhyfel ar bobl ym mhob ardal o Gymru, o'r trefi a'r dinasoedd poblog i'r ffermydd a'r tyddynod mwyaf anial ac anghysbell. Sôn y mae'r ysgrif hon am drefniadau - neu ddiffyg trefniadau - diddymu'r "blac-owt", ac unwaith eto mae'r Cymro'n feirniadol iawn o'r Llywodraeth:

GOLEUNI - A THYWYLLWCH

*GWNAETH y Llywodraeth eithaf cawl o bethau gyda'r gorchymynion ynglŷn â lleddfu'r tywyllwch a fu'n gordoi trefi a chartrefi'r wlad hon am bum mlynedd, ac yng Nghymru'n arbennig achoswyd cryn ddryswch hollol ddi-alw-amdano yr wythnos hon.*

*I ddechrau fe hysbyswyd bod y golau i raddau pur helaeth a chyffredinol i ddod yn ôl a rhoddwyd croeso mawr i'r newydd. Dioddefwyd y tywyllwch yn hir ac yn ddirwgnach canys deallid ei bod yn hanfodol i bethau fod felly, ac edrychwyd ymlaen am weld diwedd ar y peth ddiwedd yr wythnos.*

*Ond yn sydyn ddydd Sadwrn dyma orchymyn pellach i restru rhanbarthau lle'r oedd y fagddu i ddal i deyrnasu. Yr oedd y mwyafrif mawr o'r papurau wythnosol - a gyhoeddir ddyddiau Gwener a Sadwrn gan mwyaf - wedi dod o'r wasg, ynghyd â phapurau dyddiol fore Sadwrn, hyd yn oed, cyn i'r gorchymyn newydd gael cyhoeddusrwydd.*

*O ganlyniad pan aeth crynodeb digon amwys o'r gorchymyn newydd allan gydag enwau rhai rhanbarthau wedi eu nodi, aeth fflyd o sibrydion ar gerdded. Cynyddodd y dryswch o wybod bod golau eisoes ar strydoedd rhai trefi y dywedid yn awr y cyfyngid ar eu goleuadau.*

*Sut yr oedd y bobl i wybod y safle ynglŷn â'u ffenestri hwy - llawer o bobl wedi tynnu a thaflu eu llenni duon ymaith? Sut yr oedd yr ardaloedd gwledig Cymreig i wybod ble safent hwy os oeddynt o fewn*

*ychydig filltiroedd i'r môr?*

*Gofynnwch i'r awdurdod lleol, meddai'r cyfarwyddid swyddogol diddorol. Ffolineb yw ymhelaethu ar ffolineb cyfarwyddid o'r fath.*

*Ymddengys yn awr mai'r heddlu sy'n penderfynu a ganiateir goleuni yn yr ardaloedd lle "cyfyngir" arnynt yn yr ail orchymyn, a bod yr heddlu wedi caniatáu mwy o olau i nifer fawr o awdurdodau lleol "cyfyngedig" ger glannau môr a alwodd amdano. Erbyn hyn mae'r safle'n weddol glir mewn gwahanol fannau.*

*Dylai'r Llywodraeth fod wedi meddwl yn gynt ac yn gyflymach ynglŷn â'r mater hwn, neu wedi cymryd mwy o amser i wneud popeth yn berffaith glir ymlaen llaw. Fe ddioddefir pob anghysur angenrheidiol yn ddirwgnach ond nid yw'n rhaid i'r Llywodraeth drwy flerwch noeth estyn cysur mewn ffordd anghysurus.*

*Efallai y dysgir y wers. Y mae llawer rheol adeg rhyfel arall yn aros. Pan ddaw'r adeg i ddiddymu rhai o'r rhain rhaid bod yn ofalus ac yn drefnus dros ben wrth wneud hynny rhag creu rhywbeth llawer difrifolach na'r anghysur bach a achoswyd drwy'r dull y lleddfwyd y rheol hon.*

Un o ysgrifau blaen mwyaf diddorol Y Cymro sy'n ymwneud â'r Rhyfel yw'r un TONFEDD Y LLUOEDD a ymddangosodd yn rhifyn 3 Tachwedd 1944, sy'n cyfeirio at gymdeithas Gymraeg ryfeddol y milwyr Cymreig a ymladdai yn y Dwyrain Canol, a'u papur Cymraeg mwy rhyfeddol fyth, Seren y Dwyrain. Wrth dalu teyrnged i'r bechgyn Cymreig hyn, ac i gynhyrchwyr y Seren yn arbennig, 'am y gwaith da a wnânt, mor fyw ac mor gartrefol', geilw'r Cymro ar i'w ddarllenwyr yntau gefnogi ymdrech ragorol y milwyr hyn drwy anfon atynt unrhyw ddeunydd llenyddol Cymraeg, megis papurau newydd, cylchgronau a llyfrau, neu ddeunydd cerddorol Cymraeg, a fyddai nid yn unig yn eu diddanu ac yn torri'u diflastod, ond a fyddai hefyd yn eu cynorthwyo i gynnal cymdeithas ac awyrgylch Gymraeg mor bell oddi cartref. Yn ogystal â hynny, geilw'r papur ar holl fudiadau cenedlaethol ac Aelodau Seneddol Cymru i bwyso ar y B.B.C. am fwy o raglenni Cymraeg ar Donfedd y Lluoedd:

*BYDDWN bob amser yn croesawu'r copïau o 'Seren y Dwyrain' a ddaw atom, am amryw resymau.*

*Y mae'r ffaith bod y cylchgrawn Cymraeg hwn yn bod o gwbl yn deyrnged i Gymreigrwydd y bechgyn sy'n ymladd ymhell o'u gwlad, ac yn dangos yn eglur iawn agosed yw Cymru at eu calonnau.*

*Ar hyd a lled y Dwyrain Canol sefydlwyd cymdeithasau Cymraeg blodeuog, ac yno, mewn atgof y gwela'r bechgyn hen wlad eu tadau a chlywant yr acenion a oedd mor felys ar yr aelwyd bell. I'r rhain y mae'r 'Seren' yn ysbrydoliaeth ac yn ddolen gysylltiol, a thalwn ninnau ein teyrnged haelaf i olygydd ac i gynhyrchwyr y papur hwn am y gwaith da a wnânt, mor fyw ac mor gartrefol.*

*Fe â llawer o lenyddiaeth a llawer o bapurau Cymraeg - miloedd o gopïau o'r 'Cymro' yn unig, - dros y môr bob wythnos. Ond nid oes ddigon yn mynd eto i gyfarfod â'r holl alw, ac apeliwn at ein*

*darllenydd i anfon mwy a mwy.*

*Wedi i chwi orffen gyda'r copi hwn o'r 'Cymro', anfonwch ef i Gymro sydd o'i gyrraedd. Gwnewch yr un peth gydag unrhyw bapurau Cymraeg eraill a ddaw i'ch cartref, a'r un peth gyda llyfrau a cherddoriaeth na theimlwch eu bod yn rhaid i chwi eu cadw.*

*Nid yw hyn, hyd yn oed, yn ddigon. Y mae ar y bechgyn eisiau clywed Cymraeg - eisiau clywed yr iaith yn llifo'n syth o Gymru atynt fel y gwelir yn eglur iawn mewn erthygl yn rhifyn diwethaf y 'Seren'.*

*Diolch i wyddoniaeth, y mae hyn yn bosibl heddiw. Daeth y radio. Ond nid yw'r Cymro alltud yn cael y gorau ohoni.*

*Ar Donfedd y Lluoedd y dibynna'r rhain; ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael chwarae teg ar y donfedd honno. Yr ydym ni wedi mynnu ychydig mwy o Gymraeg ar y donfedd gartref. Y mae'r un mor bwysig - yn bwysicach yn wir - cael mwy o Gymraeg i'n bechgyn ar y donfedd arall.*

*Mae'n ddyletswydd ar Gymru, ac ar ei holl fudiadau cenedlaethol, ac ar ei Haelodau Seneddol, i ystyried y mater hwn o ddifri yn awr. Ein dyletswydd cyntaf yw gofalu am ein meibion a'n merched sydd oddi cartref, ac nid yw'n mynd i wneud dim cam â'r Saeson os neilltuir cyfran bob wythnos o donfedd y lluoedd i raglenni o Gymru, am Gymru ac mewn Cymraeg. Nid yw'r rhaglenni Saesneg am Gymry yn ateb y pwrpas, er y dylid parhau i roi cyfran o'r rhain hefyd.*

*Nid oes yr amheuaeth leiaf nad yw'r bechgyn yn dyheu am Gymraeg a mwy o Gymraeg, a dylai copi o 'Seren y Dwyrain' ynddo ei hun fod yn ddigon i argyhoeddi penaethiaid y B.B.C. mai eu dyletswydd hwy yw cofio am y bechgyn hyn.*

*Gyda'r holl bethau a fu yn y rhyfel hwn, ni ddylid ofni aberthu mymryn o Saesneg ar y radio er mwyn cymrodyr.*

Ar ddydd Sul 3 Rhagfyr 1944 cafwyd un o'r arwyddion mwyaf pendant eto bod y Rhyfel yn dod i'w derfyn pan ddirwynwyd gwaith y Llu Cartref, y fyddin o wirfoddolwyr a sefydlwyd yn llythrennol mewn noson ym Mai 1940, yn dilyn apêl ar y radio gan Anthony Eden, yr Ysgrifennydd Rhyfel ar y pryd, am bobl i amddiffyn gwledydd Prydain rhag ymosodiad gan y gelyn, ar raddfa leol. Yn ysgrif flaen Y Cymro yr wythnos ddilynol telir teyrnged i ddycnwch, aberth a ffyddlondeb anhygoel gwŷr a merched y Llu Cartref a wnaeth gyfraniad mor hanfodol i'r ymdrech ryfel ac a roddodd oriau dirifedi o'u hamser hamdden i hyfforddi a chymhwyso'u hunain i fod yn aelodau effeithiol o'r fyddin wirfoddol hon:

**Y GWARCHODLU CARTREF** (8 Rhagfyr 1944)

*DIRWYNODD gwaith y Gwarchodlu Cartref i ben ddydd Sul. Daeth diwedd ar wyliadwriaeth y fyddin gartref hon, ac aeth y perygl a ofnid heibio heb ddigwydd.*

*Ar awr gyfyng rhoddodd y dynion ateb parod ac eiddgar i'r apêl a ddarlledodd Mr. Eden yn nyddiau difrif 1940, sydd yn awr yn edrych ymhell yn ôl.*

*Ond er bod gennym lawer iawn i ddiolch amdano ynglŷn â'r rhyfel ni*

*ddylai hyn beri inni anghofio peryglon yr amseroedd hynny, ac y mae ein diolchgarwch yn ddyledus i'r Gwarchodlu Cartref nid yn unig am y diogelwch a barasant ond am yr aberth gwirioneddol mewn amser hamdden, ynni a rhyddid i wneud y wlad yn ddiogel rhag goresgyniad y fyddin gadarnaf a fwriadai ymosod ar y wlad hon erioed.*

*Y mae'r diwedd hwn ar ddyletswyddau'r Gwarchodlu Cartref, ynghyd ag arwyddion eraill, yn argoeli'n bendant fod y rhyfel â'r Almaen yn tynnu at ei derfyn anochel. Ond pa hyd y bydd cyn y daw'r diwedd oll nid oes a fedr broffwydo.*

*Ni orweddai'r ffaith mai'r Saboth oedd y diwrnod mwyaf cyfleus i'r Gwarchodlu Cartref wneud eu hymarferiadau yn esmwyth yng Nghymru, ond er y bu rhaid cydnabod na ellid gwneud yn well ynglŷn â'r dewis hwn, diau y bydd gollyngdod a rhyddhad oddi wrth yr ymarferiadau a'r galwadau yn dderbyniol iawn i bawb yng Nghymru.*

*Ymunwn â phawb drwy'r wlad i wneud yr hyn a allwn o wirfodd calon yn awr - sef dweud wrth bob aelod o'r Gwarchodlu Cartref: "Da was da a ffyddlon."*

Erbyn toriad y flwyddyn 1945 yr oedd diwedd y Rhyfel, a'r 'fuddugoliaeth' hir-ddisgwyliedig i'r Cynghreiriaid, yn agosáu o ddifrif, rhywbeth a adlewyrchir yn ysgrifau blaen Y Cymro o'r flwyddyn honno. Dyfynnaf y dair ysgrif isod yn eu cyfanrwydd am eu bod yn dangos nifer o bwyntiau ynghylch safbwynt y papur yn wythnosau a misoedd olaf y Rhyfel:

1. Erbyn hyn gall Y Cymro ddweud yn hollol sicr bod y Rhyfel yn Ewrop yn prysur ddirwyn i ben ac mai mater o amser yn unig yw hi bellach nes y daw dyddiau o Heddwch unwaith eto, er bod dyddiau anodd i'w hwynebu eto yn y Dwyrain Pell.
2. Gall hefyd ddweud yr un mor sicr mai'r Cynghreiriaid ac nid y gelyn fydd yn 'fuddugol' yn y diwedd, ac er bod y papur wedi awgrymu i'w ddarllenwyr ers amser maith mai dyna fyddai'r canlyniad terfynol, dim ond yn awr ym misoedd olaf y Rhyfel y gall ddweud hynny â sicrwydd.
3. Yn naturiol, mae'r Cymro'n llawenhau'n fawr oherwydd 'buddugoliaeth' y Cynghreiriaid ond braf yw gweld nad yw naws yr ysgrifau'n fuddugoliaethus a'u bod yn pwysleisio na chafwyd hi heb aberth enfawr ar ran pobl y gwahanol wledydd, rhywbeth a anghofir yn llawer rhy aml ar derfyn sawl rhyfel. Er bod Prydain ar fin 'ennill' y Rhyfel yn ystyr filwrol y gair, mae'r Cymro, yn nodweddiadol ohono, yn ddigon call i sylweddoli mai colli a dioddef a wna pawb sy'n ymwneud ag unrhyw ryfel.
4. Mae'r papur hefyd, yr un mor nodweddiadol, yn talu teyrnged i aberth a dewrder y bechgyn a'r merched a gyfrannodd mewn

unrhyw fodd tuag at yr ymdrech ryfel ac yn apelio ar i bobl ddangos 'brawdgarwch' tuag at y rhai a fydd yn dychwelyd adref wedi'r Rhyfel, er wrth gwrs, yng ngeiriau'r papur, bod 'rhai na ddychwelant mwy'.

5. Yn union fel nad yw'n ddall i'r pris enfawr, yn ffigurol lawn cymaint ag yn llythrennol, y bu'n rhaid ei dalu er mwyn trechu Hitler a'r Natsïaid, nid yw'r <u>Cymro</u> ychwaith yn ddall i'r problemau sy'n wynebu Cymru a gwledydd eraill Prydain yn y cyfnod newydd o Heddwch wedi'r drin a gwelir y papur yn cynnig awgrymiadau ymarferol ynghylch rhai o'r problemau hyn. Ychwanega y gobeithia weld 'parhad o'r ewyllys dda a'r aberth a ddangoswyd yn ystod y rhyfel o'i gychwyn', yn ystod y cyfnod newydd:

<u>BRAWDGARWCH</u> (19 Ionawr 1945)

*AR hyd a lled Cymru ers tro fe ffurfiwyd cymdeithasau arbennig i gasglu arian ar gyfer croesawu'r bechgyn a'r genethod yn ôl pan ddaw heddwch. Y mae pob ardal bron yn paratoi ar gyfer croesawu ei halltudion ei hun.*

*Eisoes daeth cyfanswm pur fawr o arian i'w cronfeydd a gwelwyd medrusrwydd lleol mewn llawer antur.*

*Y mae'r ymdrechion hyn yn dangos ysbryd canmoladwy ac yn awgrymu i'r bechgyn a'r genethod na anghofiwyd ac na anghofir hwy.*

*Ond y mae'n rhaid dal un neu ddau o bethau mewn cof. Yn gyntaf ni bydd y cronfeydd gwirfoddol hyn yn ddigon. Bydd yn rhaid i'r Wladwriaeth hithau wneud ei rhan, ac ar gynlluniau a darpariadau'r Wladwriaeth ac nid ar faint y gronfa groesawu leol y dibynna dyfodol y bechgyn a'r genethod sy'n ymladd heddiw. Rhyw anrheg yn unig a ddaw o'r gronfa leol - rhyw ddiolch personol ardal i'w hardalwyr a dynnwyd i bellafoedd byd.*

*Ail beth i'w ddal mewn cof yw hyn - nad cyfle i ddechrau rhyfeloedd newydd mewn pentrefi a threfi yw'r cronfeydd croeso hyn. Mewn rhai mannau eisoes y mae ymdderu'n ffynnu. Nid yw'n weddus.*

*Y ddau faen tramgwydd, fe ymddengys, yw - pwy sydd i fod yn gyfrifol am y gronfa, a pha beth a wneir â'r arian.*

*Y mae'n amlwg bod hawl gan bob un lleol sydd yn y Lluoedd ar gyfran o'r gronfa, pa un ai Cymro neu Sais, un o'r eglwys neu un o'r byd ydyw. Da yw i wahanol sefydliadau ddal hynny mewn cof; a lle bo mwy nag un sefydliad yn casglu mewn ardal, da yw i'r gwahanol gasglwyr uno neu ddeall ei gilydd.*

*Ynglŷn â'r hyn a wneir â'r arian - hawdd yw penderfynu hynny'n ddiweddarach. Yn anffodus ni bydd y rhyfel ar ben yfory, ac ni ddaw'r bechgyn ychwaith i gyd adre efo'i gilydd. Ac y mae teuluoedd gan y rhai na ddychwelant mwy.*

*Parhaed brawdgarwch.*

<u>Y DIWEDD YN Y GOLWG</u> (6 Ebrill 1945)

*Y MAE'R rhyfel yn Ewrop yn tynnu tua'i derfyn gyda milwyr Montgomery yn awr yn teithio ar hyd modurffyrdd llydain Hitler at galon yr Almaen.*

*Gyda meddiant milwrol o'r Almaen bydd ei gorchfygiad yn sicrwydd er y dichon y bydd y giwed Nazïaidd yn parhau i ymladd hyd nes eu diddymir.*

*Tra gallwn ni yn y wlad hon godi'n calon a llawenychu, ni ddylem yn awr y fuddugoliaeth gau ein llygaid i'r lladdfa fawr a orfodwyd gan y rhyfel hwn; ni ddylem ychwaith fod yn ddall i'r problemau agosaf i law na'r rhai pellach a'n wyneba nid yn unig yn y wlad hon, Cymru, a thrwy Brydain i gyd, ond ar y Cyfandir. Yno y mae peiriant rhyfel yr Almaen wedi ei drechu gan adael y gwledydd a oresgynnodd lluoedd Hitler a'u hysbeilio a'u difrodi a'r bobl wedi eu syfrdanu a'u newynu; gan wneud eu cartrefi'n ddrylliau a gwasgaru eu teuluoedd.*

*Gan hynny er ei bod yn sicr y cyhoeddir y rhyfel â'r Almaen ar ben yn fuan iawn fe eilw'r problemau y bydd yn rhaid i'n gwleidyddwyr ni a rhai'r Cynghreiriaid eu hwynebu, am barhad o'r ewyllys dda a'r aberth a ddangoswyd yn ystod y rhyfel o'i gychwyn. Nid ydym yn hollol sicr a yw'r Pwerau Mawr yn gwbl barod am y cwymp a ddaw i'r Almaen, gyda chynlluniau hanfodol i ddiwallu anghenion y miloedd dynion a merched a phlant sydd â'u bywyd teuluaidd wedi ei rwygo a'u newynu a'u llanw ag ofn a thrueni.*

*Hyderwn y bydd y mesurau angenrheidiol ar waith yn ddioedi ac yn effeithiol fel na byddo i'r hyn a enillasom yn filwrol drwy ein safiad yn erbyn Hitleriaeth gael ei golli drwy unrhyw awgrym o aneffeithiolrwydd pan geisir cynorthwyo i'r mesur eithaf posibl y rhai adfydus a ryddhawyd gennym.*

## <u>ENNILL YR HEDDWCH</u> (13 Ebrill 1945)

*Y MAE'R diwedd gerllaw. Heddiw, mae'r byddinoedd ofnadwy a adeiladodd Adolf Hitler i fod yn ddychryn i holl Ewrob ar ffo, a'i balchder ar chwâl hyd yr Almaen a arweiniodd i ddistryw.*

*Mae'r buddugoliaethau mawr ar ben ac fel y dadfeilia'r fyddin y dyddiau hyn y mae cenedl fawr a gollodd y ffordd yn dadfeilio gyda hi.*

*Ni ymladdwyd y frwydr olaf hyd yma, mae'n wir, ac nid yw gwaith ein milwyr ar ben, ond mewn wythnosau, ac nid mewn misoedd na blynyddoedd, y mae cyfrif einioes y rhyfel yn Ewrop erbyn hyn.*

*Ni arbedwyd neb na dim i sicrhau'r fuddugoliaeth sydd gerllaw. Taflwyd pob mab, pob merch, pob un o'u hadnoddau i'r frwydr.*

*Ac yn awr, beth am ddyddiau heddwch?*

*Y mae'r bobl ag angen gwaith a chartrefi a chyfleusterau i'w plant.*

*Daw'r Ddeddf Addysg newydd, a ddaeth i rym yr wythnos diwethaf, â gwell cyfleusterau i'n plant, - ond rhaid i'r cyfleusterau fod yn gyfartal, rhaid i'r awdurdod bach fedru rhoi'r un cyfleusterau â'r awdurdod mawr. A lle palla nerth yr awdurdod bach, rhaid i'r Llywodraeth estyn help llaw yn hael ac yn fuan.*

*Tai? Ni bu erioed gymaint o alw am dai. Ac eto, pitw o beth yw'r rhaglen a gynigir. Lle mae'r penderfyniad a ysgubodd bopeth o'i flaen yn ystod y rhyfel ac na adawodd i un buddiannaeth sefyll ar y ffordd? Os yw'r rhyfel ar Hitler yn darfod, nid yw'r rhyfel ar angen ond megis dechrau.*

*A gwaith? A fydd gwaith i bawb? A fydd gwaith i'r bobl yn eu broydd eu hunain? A yw'r "antur busnes rydd" y geilw'r Ceidwadwyr amdano yn mynd i ddod â'r holl waith yn drefnus at y bobl i'w hardaloedd?*

*Yn ystod y rhyfel, gyda chyfartaledd aruthrol fawr o'n gweithwyr yn rhyfela neu'n darparu ar gyfer rhyfela, medrwyd gwisgo a bwydo'n pobl,*

*cadw iechyd y wlad yn uchel iawn, rhoi arian mewn cartrefi na welodd ddim ond tâl y di-waith.*

*Gyda'n pobl yn troi i gynhyrchu ar gyfer anghenion heddwch, a'n holl bobl yn troi i wneud hynny, pa faint mwy llewyrchus a ddylem fod?*

*Mae digon o adnoddau a medr yn y wlad hon a digon o gyfoeth hefyd. Mae'n bryd i bawb yn y wlad gael cyfle i fwynhau ei gyfran o'r angenrheidiau a'r moethau a arferai bentyrru mor anwastad yn ein plith yn y gorffennol.*

*Eto i gyd, nac anghofiwn Japan. Nid yn Ewrob y terfyna'r rhyfel hwn a ddechreuodd yno, ond yn y Dwyrain Pell.*

*Ond dyma ddechrau'r diwedd a'r amser i feddwl yn ddwys am ennill yr heddwch.*

Yn fuan iawn wedi hynny, ar 7 Mai 1945, ildiodd yr Almaen yn ddiamodol i'r Cynghreiriaid gan ddynodi bod y **RHYFEL YN EWROP DROSODD** yn ôl pennawd bras tudalen flaen rhifyn yr wythnos o'r Cymro. Ond yn hytrach na'r llith faith y byddai rhywun yn ei disgwyl yn ysgrif flaen yr un rhifyn, yr hyn a gafwyd, yn hynod anghyffredin mewn ysgrif o'r fath, oedd pymtheg allan o'r ugain adnod o Salm 72 yn yr Hen Destament, salm a ganwyd i Solomon yn wreiddiol. Dyma enghraifft arall o grefyddolder Y Cymro, a hynny'n adlewyrchu crefyddolder cyffredinol darllenwyr y papur ym 1945:

NOS YN DARFOD

*O DDUW, dod i'r Brenin dy farnedigaethau, ac i Fab y Brenin dy gyfiawnder.*

*Efe a farn dy bobl mewn cyfiawnder, a'th drueiniaid â barn.*

*Y mynyddoedd a ddygant heddwch i'r bobl, a'r bryniau trwy gyfiawnder.*

*Efe a farn drueiniaid y bobl, Efe a achub feibion yr anghenus ac a ddryllia y gorthrymydd.*

*Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant yn oes oesoedd. Efe a ddisgyn fel glaw ar gnu gwlân, fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear.*

*Yn ei ddyddiau Ef y blodeua y cyfiawn, ac amlder o heddwch fydd tra fyddo lleuad.*

*Ac Efe a lywodraetha o fôr hyd fôr ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.*

*O'i flaen Ef yr ymgryma trigolion yr anialwch, a'i elynion a lyfant y llwch.*

*Ie, yr holl frenhinoedd a ymgrymant iddo; yr holl genhedloedd a'i gwasanaethant Ef.*

*Canys Efe a wared yr anghenog pan waeddo; y truan hefyd a'r hwn ni byddo cynorthwywr iddo.*

*Efe a achub y tlawd a'r rheidus, ac a achub eneidiau y rhai anghenus.*

*Bydd dyrnaid o ŷd ar y ddaear ym mhen y mynyddoedd: ei ffrwyth a ysgwyd fel Libanus; a phobl y ddinas a flodeuant fel gwellt y ddaear.*

*Ei enw a fydd yn dragywydd; Ei enw a bery tra fyddo haul, ac ymfendithiant ynddo; yr holl genhedloedd a'i galwant yn wynfydedig.*

*Bendigedig fyddo yr Arglwydd Dduw, Duw Israel, yr Hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau.*

Yn rhifyn yr wythnos ddilynol ymddangosodd yr ysgrif flaen isod yn trafod EWROP, 1945, un arall o ysgrifau'r Cymro sy'n dadansoddi'r sefyllfa ryngwladol â threiddgarwch a manylder. Sylwer yn benodol ar ddau beth ynglŷn â'r ysgrif hon:

1. mor dawedog ac anfuddugoliaethus yw ei naws, sy'n cydfynd â naws yr ysgrifau blaen a ddyfynnwyd uchod;
2. fel mae'r Cymro, am y tro cyntaf, yn crybwyll y priodolrwydd o roi troseddwyr rhyfel yr Almaen ar brawf a'u cosbi am eu gweithredoedd creulon;

*FEL y daeth y rhyfel â'i broblemau, felly hefyd heddwch. Ac er cymaint o sôn a fu am heddwch cyhyd ac er mor amlwg yr oedd hi ers tro byd bod dydd dymchweliad y Nazïaid yn agosáu a nos rhyfel yn cilio draw, eto, pan ddaeth y wawr nid oedd y Llywodraeth, fe ymddengys, mor barod amdani ag y gellid disgwyl.*

*Ond y mae problemau llunio'r Ewrob newydd yn fawr ac yn ddyblyg. Y mae'r problemau hynny a gododd y munud y cyhoeddwyd heddwch, ac y mae hefyd y problemau a gyfyd eu pennau eto pan ddaw'r dydd i roi'r drefn i lawr yn derfynol.*

*Anodd yw deall llawer o ddigwyddiadau diweddar yn yr Almaen ei hun. Sut y daeth Doenitz yn Fuehrer newydd yr Almaen? A yw'r Cynghreiriaid yn cydnabod ei "lywodraeth" ef? Sut y mae hynny'n bosibl os ildiodd yr Almaen yn ddiamodol?*

*Onid yw Doenitz ei hun yn un o'r troseddwyr rhyfel? A sut y mae troseddwyr yr Almaen i'w rhoi ar brawf a'u cosbi? A yw'r driniaeth "fonheddig" a roddwyd i Goering yn gyson â datganiadau cyffredinol a wnaed cyn hyn? (Siaradodd Eisenhower yn gryf yn erbyn hyn.)*

*Sut y mae'r Cynghreiriaid yn mynd i reoli a gweinyddu'r Almaen, rheoli diwydiant yr Almaen, rhestru dyled yr Almaen am ei rhyfel?*

*Yn wir, yn yr Almaen ei hun y mae'r problemau heddwch eisoes wedi cyrraedd maintioli sylweddol iawn.*

*Yn Holland y gwaith mawr heddiw yw cael bwyd i bobl a ddioddefodd yn ofnadwy gan newyn dan yr Almaenwyr.*

*Bu pobl Rotterdam, fel enghraifft, heb fwydydd a chynhesrwydd ynddynt, heb siwgr, sebon, trydan, nwy a thanwydd am fisoedd lawer.*

*Y mae'r bwyd sy'n llifo i Holland y dyddiau hyn yn un o drugareddau mwyaf y ganrif hon.*

*Yn Belgium mae'r bobl yn trafod a yw'r Brenin Leopold, a adawodd ei fyddin i ymladd hebddo yn 1940, i ddychwelyd i'w orsedd ai peidio. Ond problem y gall pobl Belgium, a hwy yn unig, ei setlo drostynt eu hunain yw hon.*

*Yn Ffrainc y mae Blum, Reynaud, Daladier a Herriot yn rhydd. Gall Blum ddychwelyd â'i enw da'n aros gydag ef, ond yn gyffredinol gellir disgwyl gweld y diddordeb gwleidyddol ar gynnydd mawr yn Ffrainc ac y mae arwyddion y bydd llawer o sylwadau anffafriol yn dod am agweddau ar drafodaethau San Francisco, ar bolisi Rwsia, ac ar ddyfodol yr Almaen. Yn yr etholiadau gwelir mai i'r chwith y mae Ffrainc yn ymdaith.*

*Ar gyrion Ewrob mae diddordeb Tito o Iwgo-Slafia yn Trieste, y porthladd a fu'n perthyn i'r Eidal ers 1919 ac i Awstria-Hwngari cyn*

*hynny.*

*Hir-ddeisyfodd Iwgo-Slafia y porthladd hwn ond rhoddwyd rhybudd amserol i Tito ddydd Llun rhag dilyn polisi o gythru eiddo eraill - polisi sy'n sicr o arwain i helbulon mewn dyddiau i ddod.*

*I raddau yn Awstria, ac yn arbennig yn Poland, fe geir yn y wlad hon anghytuno â pholisi Rwsia.*

*Y mae'n anodd deall agwedd Rwsia at amryw o broblemau Ewropeaidd, ond un arwydd da yw gweld ymgais deg yn cael ei gwneud mewn cylchoedd a newyddiaduron cyfrifol a dylanwadol i weld ochr Rwsia.*

*Nid yr un yw syniad Rwsia a Phrydain am weriniaeth, mae'n amlwg. Rhoddir mwy o bwys ar ryddid gwleidyddol yma; rhydd Rwsia bwys ar ryddid economaidd, neu sicrwydd economaidd y gweithiwr.*

*Ac ni pheidiodd Rwsia â bod yn amheus o'r gwledydd cyfalafol Ewropeaidd eraill. Nid yw'n peidio â rhagweld, rhyw dro yn y dyfodol, y gwledydd eraill yn uno gyda'r Almaen, hyd yn oed, i ymosod arni hi rhyw ddydd. Ac y mae'n cau'r drysau.*

*Rhaid wrth eangfrydedd a dealltwriaeth at y gwaith anodd o drefnu'r byd newydd, diogel; rhaid wrth ysbryd y gwirionedd pan weithredir ac wrth ddynoliaeth pan ystyrir.*

Tri mis yn unig wedi terfyn y Rhyfel yn Ewrop, ildiodd Japan i'r Cynghreiriaid ar ôl i America ollwng y bomiau atomig ar Hiroshima a Nagasaki, dwy weithred farbaraidd a chreulon a nodai ddiwedd y Rhyfel mwyaf barbaraidd a chreulon erioed. Cyfeiriwyd eisoes yn y bennod flaenorol at y ffaith mai CADEIRIO PRIF-FARDD 1945 a gafodd brif sylw tudalen flaen Y Cymro yr wythnos honno ar draul un paragraff bychan a adroddai bod Japan Wedi Ildio, penderfyniad sy'n ddadleuol tu hwnt yn fy marn i, hyd yn oed i Bapur Cenedlaethol Cymru, yn enwedig gan ei fod yn flaenorol wedi neilltuo cymaint o ofod i bwnc Rhyfel a Heddwch, ac yn enwedig gan ei fod yn ysgrif flaen yr wythnos yn cyfeirio ati fel 'un o'r wythnosau mwyaf mewn hanes.'

Yn yr ysgrif honno mae'r Cymro, a gyhoeddwyd wedi wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, yn chwarae mewn modd clyfar iawn â'r cwestiwn "A oes Heddwch?" ac yn awgrymu nad oes Heddwch gwirioneddol mewn oes a fygythir bellach gan arf sydd mor bwerus fel y gall ddinistrio dynoliaeth am byth. 'Y mae dyn [erbyn hyn]', meddai'r papur, 'yn [medru] harneisio natur ac yn peryglu ei fodolaeth wrth wneud hynny.' Ychwanega'r Cymro nad yw bygythiad atomig hyd yn oed yn ddigon i rwystro rhyfel: 'Y cwbl a wna'r fom yw gwneud rhyfel yn beth mwy anghredadwy fyth o ofnadwy', a dyna pam ei bod hi mor hanfodol bwysig symud ymaith achosion rhyfel. Mae'r ysgrif yn cloi â'r cwestiwn rhethregol brawychus, 'A oes Heddwch? Ynteu Difodiant?':

A OES HEDDWCH? (17 Awst 1945)

*NID yn Rhosllannerchrugog yn unig y gwaeddwyd "A oes Heddwch?" yr wythnos diwethaf. Draw o'r Dwyrain Pell y cododd yr un gri, ac eco'r gri yn cyrraedd yn ôl hyd at Rosllannerchrugog ac yn treiddio trwy gyrrau'r ddaear - "A oes Heddwch?"*

*Yn araf, ond yn sicr, daeth yr ateb - Heddwch!*

*Bu'n un o'r wythnosau mwyaf mewn hanes. Ewrob yn cael ei ad-drefnu. Awstria i fod yn wlad annibynnol, fel blaenffrwyth y drefn newydd.*

*Rwsia yn dyfod i'r rhyfel yn erbyn Japan, - yn union wedi i Bevin ac Attlee gael hawl gan y bobl i wynebu Stalin.*

*Y bom atom yn disgyn ar Japan. Ac fel y ffrwydrodd ynghanol yr ugeiniau o filoedd diymadferth, nid cnawd a cherrig a dur a diwydiant a thai yn unig a chwythodd mor filain i dragwyddoldeb, chwalodd hefyd yr hyn a arosai o'r hen fyd.*

*Daeth â'i harswyd ar bob creadur. Beth am ryfeloedd y dyfodol? Yn awr gall awyrennau ddod drosodd yn ddirybudd a gwastatáu teyrnas gyfan mewn noson.*

*Bellach, rhaid gweinyddu cyfiawnder mor helaeth fel na fydd angen nac awydd gan unrhyw wlad i daro cymydog.*

*Rhaid cael trefn gyfiawn. Canys nid yw bom atom yn mynd i rwystro rhyfel, ac nid yw ceisio rheoli'r defnydd a wneir o'r bom atom yn mynd i roi terfyn ar ryfel. Y cwbl a wna'r fom yw gwneud rhyfel yn beth mwy anghredadwy fyth o ofnadwy.*

*Trwy symud achosion rhyfel yn unig yr arbedir ni rhag yr ofnadwyaeth newydd; trwy roi bara i'r holl bobl, fel na chwyldroir y bobl gan ychwaneg o arweinyddion a fodda'r byd mewn gwaed.*

*Yn awr y mae arian ac ynni a medr a dysg a phrofiad difesur wedi ei afradloni i ddarganfod ffordd i ddinistrio'r ddaear. Gyda'r un penderfyniad a gyda phob haelioni, oni ddaeth yr awr i ddarganfod ffordd i achub y ddaear?*

*Yn y byd materol y mae cyfnewidiadau a chynnydd aruthrol fawr yn mynd i ddilyn y cyfnewidiadau aruthrol fawr a welwyd eisoes yn y ganrif hon. Y mae dyn yn harneisio natur ac yn peryglu ei fodolaeth wrth wneud hynny.*

*Rhaid wrth gynnydd ysbrydol cyfatebol os yw'r darganfyddiadau i fod yn fendithiol. Rhaid i ni gyfaddasu ein hunain ar gyfer y darganfyddiadau.*

*Ofer bellach yw sôn am sofraniaeth y gwledydd, ac ofer sôn am eu byddinoedd ychwaith. Aeth byddinoedd yn bethau hen-ffasiwn mewn noson. Mae'r awyr wedi dod i deyrnasu ar dir ac ar fôr.*

*Oni allwn yn awr ymdeimlo a gweithredu a byw yn gyd-genedlaethol, daw'r dydd pan na allwn fyw o gwbl.*

*Gyda sydynrwydd ofnadwy yr hyrddiwyd y byd i'r heddwch unwaith yn rhagor. Daeth pedair blynedd ar ddeg ryfelgar Japan i ben; daeth wyth mlynedd erchyll China i ben; daeth y gyflafan a gychwynnodd Japan mor greulon yn Pearl Harbour i ben yn Nagasaki.*

*Heddiw - A oes Heddwch? Ynteu Difodiant?*

Yn Y Cymro 7 Medi 1945 ceir ysgrif flaen arall sy'n dangos ymarferoldeb y papur, y tro hwn wrth drafod pa fath o gofgolofnau y dylid eu hadeiladu mewn gwahanol ardaloedd i gofio am y Rhyfel diweddaraf. Yn wahanol i lawer o'r cofgolofnau a adeiladwyd ar ôl y Rhyfel Mawr nad oedd o unrhyw werth ymarferol i neb, a rhai

ohonynt yng ngeiriau'r papur 'yn anhygoel hyll', dywed mai'r hyn sydd ei eisiau'n awr yw 'cofgolofnau' o fath gwahanol, rhai a fyddai'n diwallu anghenion y gymdeithas ac a fyddai o ddefnydd ymarferol i'r bobl:

Y GOFGOLOFN

> *SUT gofgolofnau a adeiledir i'r rhyfel mawr a ddiweddodd ddydd Llun wedi chwe blynedd o anobaith ofnadwy?*
>
> *Yn sicr fe atebir y cwestiwn mewn llawer ffordd gan lawer ardal.*
>
> *Wedi'r rhyfel diwethaf codwyd llawer colofn o farmor ac o garreg ac o bres, a rhai ohonynt yn anhygoel hyll ac eraill wedi eu gosod mewn mannau hollol anghyfaddas.*
>
> *Nid yw'r math yma o gofgolofn i "ddwys goffáu y rhwyg o golli'r hogiau" mor boblogaidd heddiw. Heddiw meddylir mwy am rywbeth a rydd le i ymestyn neu ymorffwys i'r byw ynddo, a'r coffhad yn gelfydd ac yn gynhesach ar dabled ynddo.*
>
> *Y pethau y mae mwyaf o'u hangen ar gyfer oriau hamdden y bobl heddiw yw neuaddau, meysydd chwarae, a llyfrgelloedd.*
>
> *Lle codwyd neuadd wedi'r rhyfel diwethaf daeth manteision mawr i fywyd cymdeithasol llawer ardal, er i lawer o'r neuaddau gael eu cynllunio'n wallus - cael eu cynllunio'n ormodol ar gyfer y dyrfa gan anghofio'r cwmni bach sy'n hoffi ymgasglu o gylch y tân noson o aeaf.*
>
> *Ac yn awr da yw clywed am gynlluniau'r Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol Cenedlaethol i estyn help ariannol pellach i'r ardaloedd sydd heb neuadd. Gyda'r grantiau a'r benthyciadau di-log a gynigir gall y pentref lleiaf sicrhau ei neuadd ei hun. A lleiaf yn y byd yw'r pentref, mwyaf yn y byd yw'r galw am neuadd yno.*
>
> *Pe na bai am festrïoedd ein capeli buasai'r diwylliant Cymreig wedi edwino'n ddifrifol erbyn hyn, ac er i lawer o ddefnydd gael ei wneud o'r ysgol gyda'r nos caled yw eu cysur a chyfyng eu heisteddleoedd i rai a beidiodd â bod yn blant.*
>
> *Hyderwn y symudir ymlaen ymhob pentref - a phob tref - yng Nghymru i gael neuaddau cymwys ynddynt ac y symudir ymlaen o hynny i ofalu bod maes chwarae hefyd gan bob llecyn sy'n ganolbwynt cymdeithasol bro.*
>
> *Nid moethau ond angenrheidiau yw'r pethau hyn i gefn gwlad bellach.*

Yr hyn sy'n hollol drist yw meddwl y buasai cyfran fechan o'r holl arian a wastraffwyd ar yr Ail Ryfel Byd yn fwy na digon i ddiwallu anghenion pob pentref a thref a dinas yng Nghymru a gweddill gwledydd Prydain am flynyddoedd a degawdau lawer, os nad canrifoedd, i ddod. Ond yr hyn sy'n dristach fyth efallai yw'r ffaith ein bod yn gorfod cyfeirio o gwbl at Ail Ryfel Byd, sy'n dangos nad yw dyn, er ei holl glyfrwch gwyddonol cynyddol, yn dysgu dim ynglŷn â byw'n gytûn gyda'i gyd-ddyn. Dyma eiriau rhybuddiol Y Cymro o ysgrif flaen rhifyn 16 Tachwedd 1945:

Y CADOEDIAD

*COFIWYD am ddewrion ac am golledion dau ryfel ddydd Sul. Cofiodd y plant am eu tadau ac am eu cyfoedion eu hunain.*

*Mae'r ddau ryfel a fu mewn chwarter canrif yn gwawdio pob haeriad ein bod bellach yn oleuedig ac yn wareiddiedig.*

*Fel bodau dynol llwyddasom, i raddau pell, i orchfygu daear ac awyr a môr a chasglu dysg lawer. Daethom i arglwyddiaethu ar bob natur ond ein natur ein hunain. Llwyddasom i wneud pob peth ond y pethau hanfodol.*

*Erbyn heddiw datblygodd ein medr gwyddonol goruwch ein gallu ysbrydol, ac nid yw'r fedr wyddonol ddiweddaraf - defnyddio grym yr atom - yn arwyddocaol o ddim ond dinistr.*

*Allan o lafur a chwys a gwaed y rhyfel fe esgorwyd ar y Byd Newydd. Ond os ydym i'w drafod yn nhermau yr Hen Fyd bydd rhai sy'n fyw heddiw yn dathlu diwedd nid dau ryfel, ond tri.*

*Methu, yn y gorffennol, a wnaeth pob ymgais i ddod â gwledydd sofran i ddealltwriaeth â gwledydd sofran. Methu a wna eto, a methu a wna y dyddiau hyn.*

*Hadau amheuon a heuir heddiw ymhlith y cenhedloedd "Unedig" hyd yn oed. Pa fath gynhaeaf a ddisgwylir? A pha fath fedi a fydd?*

*Dyddiau o gadoediad, nid dyddiau o heddwch, yw y rhain hefyd.*

*Hyd oni chytuna'r gwledydd i roi eu hannibyniaeth sofran o'r neilltu ac uno i blygu i awdurdod byd a gwladwriaeth fyd, ni cheir heddwch.*

*A oes digon o ddewrder di-hunan ym Mhrydain Fawr i ddangos y ffordd?*

Wrth edrych yn ôl ar un o'r blynyddoedd pwysicaf erioed yn hanes y byd, teimladau cymysg sydd gan Y Cymro:

1945 (28 Rhagfyr 1945)

*FEL rheol ni edrychir ar ddirwyn Hen Flwyddyn i ben gyda theimladau o dristwch - ni fu'r un flwyddyn oddi ar pan dramwyodd dyn ddaear byd anniddig y gellir dweud iddi fod mewn gwirionedd yn gyfnod "aur". Ymlaen o hyd y mae pinacl cyraeddiadau a dedwyddwch dynoliaeth. Weithiau cawn weledigaeth eglur o'r nod; weithiau, fel y bu yn 1914 ac yn 1939, llithrwn ar y ffordd ac ni wnawn unrhyw gynnydd.*

*Ond bu 1945 o leiaf yn flwyddyn gofiadwy - fe ddichon y flwyddyn fwyaf cofiadwy ers cychwyn Cristionogaeth. Blwyddyn yn wir a nodir allan yn arbennig o amlwg yn hanes y byd; oblegid gwelodd lwyr drechu'r drwg mwyaf a fygythiodd y ddynoliaeth erioed.*

*Am y rheswm hwn yn unig rhoddwn i 1945 angladd parchus a chanwn glod â llawen fryd. Eithr ychydig gysur arall a gafwyd yn y flwyddyn sydd yn dirwyn i ben. Y mae'n wir y codwyd gobeithion yng ngwawr cyntaf y fuddugoliaeth fawr, gobeithion a chwalwyd gan gynnydd troellog ad-drefnu a dyfod yn ôl i synnwyr. Mae blas chwerw ar ffrwyth y fuddugoliaeth, clywir o hyd adlais y gyflafan erchyll, a rhywfodd neu'i gilydd yr oedd y Nadolig yr ydym newydd ei ddathlu yn brin o ysbryd Tangnefedd ar y Ddaear ac Ewyllys Da i Ddynion.*

*Serch hynny achos sydd gennym i lawenhau a rheswm dros obeithio - na ader i anghysur a siom y presennol, sydd wedi'r cwbl yn anorfod, i wanhau ein calon. Arweddau sydd yn mynd heibio ydynt o'i cymhelri mawr. Y mae sylfaen sicr i Fyd Newydd wedi ei gosod. Araf a fydd yr adeiladu a rhaid inni i gyd roddi help llaw. Duw a'n cynorthwyo.*

# Pennod 4:
# Rhai o Golofnau Rheolaidd *Y Cymro*

*'Oddi wrth Ferch at Ferch'*
*gan M.E.*

Ymddangosodd y golofn nodwedd hon gan 'M.E.' yn wythnosol yn Y Cymro o rifyn cyntaf y papur hyd ddiwedd Mehefin 1934, oddeutu 80 ohonynt i gyd, ac yn ôl broliant Y Cymro ei hunan, 'Dyma'r ddalen orau yng Nghymru i ferched'. Myfanwy Eames oedd 'M.E.', gwraig William Eames a chwaer i'r Prifathro Howel Harris Hughes a J. R. Lloyd Hughes; hi oedd 'Megan Ellis', golygydd tudalennau'r merched yn Y Ford Gron. Wrth osod ei nod ar gyfer y misoedd dilynol, dyma a ddywedodd yn rhifyn cyntaf Y Cymro o 3 Rhagfyr 1932:

*Annwyl Ffrindiau,*

*NID gwaith tŷ, gwneud bwyd, a meddwl am ddillad, ydyw byd y merched erbyn hyn.*

*Y mae'n wir mai'r cartref yw ei theyrnas o hyd, a bod gofalu am y tŷ a'r teulu yn ogoneddus fraint fel cynt. Ond y mae'r wraig a'r fam heddiw'n edrych ymhellach na buarth y cefn a stepiau drws y ffrynt.*

*Dacw hi ar bwyllgorau a chynghorau, ac yn y Senedd. Y mae yr un mor bosibl heddiw i eneth ag i fachgen fod yn Weinidog y Goron.*

*Y mae bron cymaint o ferched gradd yng Nghymru heddiw ag o feibion. Y maent yn athrawon ysgolion elfennol, ysgolion Sir, a Choleg. Aeth amryw yn feddygon, ac y mae mwy nag un yn gyfreithydd. Byddwn yn clywed canmol eu hegni a'u medr mewn busnes o bob math.*

*Fy nod i fydd diddori pob merch o Gymraes, beth bynnag ei swydd a'i safle, yn y golofn hon yn 'Y Cymro'. Fy ngobaith fydd gwneud cyfaill o bob un o'm darllenwyr, a'i chadw.*

*A wnewch chwithau ysgrifennu ataf i weithiau? Efallai y gallwn fod o help i'n gilydd.*

O edrych ar batrwm wythnosol y tudalennau merched hyn o gyfnod y 30au cynnar, diddorol iawn erbyn heddiw yw cymharu eu cynnwys a'u harddull â thudalennau'r merched yn y papurau newydd cyfoes a sylwi ar y gwahaniaethau sylfaenol sydd rhyngddynt. Yn gyntaf, er mwyn rhoi rhyw syniad o flas y colofnau wythnosol 'Oddi wrth Ferch at Ferch', fe'u dyfynnaf yn eu cyfanrwydd o dri rhifyn cyntaf Y Cymro:

3 Rhagfyr 1932 (sef gweddill y golofn, ar ôl y cyflwyniad uchod)

*Gwneud Gwaith*

*Mae'r gaeaf hwn am fod yn galed ar lawer teulu.*

*Tybed nad yw hi'n amser i ni'r merched geisio meddwl am waith i'r di-waith?*

*Y mae'n ymddangos i mi fod y dynion yn bodloni ar aros heb wneud dim, er ei bod yn hollol glir na bydd gwaith i filoedd o feibion a merched hyd yn oed pe bai masnach yn gwella yn fuan.*

*Gymaint haws fuasai hi arnom pe bai pob ardal wedi gofalu tyfu digon o foron ('carrots') ac o erfin neu faip ('turnips') a llysiau tebyg, yn ogystal â phytatws. Yn lle bod arian prin y "dole" yn mynd i dalu am ymborth siop, buasai felly ddeunydd prydiau iachus rhad wrth law.*

*Beth pe bai Sefydliadau'r Merched gyda'r cymdeithasau dirwestol a'r cyffelyb, yn arfer dawn merch i ddylanwadu ar yr awdurdodau ynglŷn â'r tir ym mhob man?*

*Fe ellid o leiaf beri rhoddi cyfle i'r di-waith dyfu eu hymborth eu hunain fel hyn at y flwyddyn nesaf.*

*Rhagorol hefyd fyddai dangos i'r gwragedd mor hawdd ydyw paratoi prydau blasus, maethlon â llysiau, heb gig o gwbl.*

## *Dillad Papur*

*Pe bai pobl yn ddoeth, meddai Mr. H. G. Wells, fe fuasent yn gwisgo dillad papur, a'u llosgi bob nos wrth fynd i'r gwely.*

*Y mae hadau afiechyd yn cuddio mewn dillad. Er hynny, gymaint o ddillad sy'n cael eu cadw am flynyddoedd, oherwydd hen syniad o gynildeb, heb wybod y perygl!*

*Gwelais fod rhywun wedi penderfynu cael pocedi gosod, er mwyn medru eu symud i'w golchi. Tebyg gen i, pe gwelid ambell boced drwy chwydd-wydr, y buasai'n peri dychryn!*

*Rhaid cadw nid yn unig ein cyrff yn lân, ond hefyd ein dillad.*

*Araf iawn y cwyd safon iechyd, hyd yn oed yng Nghymru brydferth a'i holl awyr iach. Mae'r meddygon, yn enwedig y swyddogion meddygol, yn gweithio'n ddistaw a dygn i'n gwneud yn genedl iach. Fe ddylem ninnau wrando arnynt.*

*Mae'r darfodedigaeth yn ysbeilio'r wlad o'i hienctid, a llawer afiechyd arall yn peri blinder a dioddef ym mhob man.*

*Fe ddywed y meddygon wrthym y gallwn wneud llawer i atal selni trwy ofalu am fwyd maethlon, digon o awyr iach, haf a gaeaf, ymarfer y corff, a chysgu digon.*

*Ni allwn fod yn rhy ofalus, gan mor hawdd ydyw, trwy ddiofalwch, beryglu bywyd rhai sy'n annwyl inni.*

*Cyngor arall a roddir gan y meddygon ydyw peidio defnyddio yr un lliain ymsychu rhwng teulu. Ac y maent yn casáu'r tywel roler sydd, fel rheol, yn hongian tu ôl i'r drws cefn.*

## *Drwy'r Awyr Unig*

*Pwy na theimlodd yn falch o Amy Johnson (Mrs. J. A. Mollison) pan lwyddodd i hedfan i Dde Affrica ar ei phen ei hun, yn gynt na neb?*

*Fe saif ei henw hi drwy'r oesoedd am ei hysbryd di-droi'n-ôl.*

*Gymaint fu'r gwaith a'r disgyblu cyn iddi fedru gwneud yr hyn a wnaeth!*

*Un ifanc ydyw, a heb fod yn gryf o gorff i edrych arni. Er ei bod yn amlwg fod ynddi rywbeth nad yw ym mhawb ohonom, nid ymddiried i hynny yn unig a wnaeth. Ar ôl graddio yn B.A., fe dreuliodd dair blynedd yn dysgu crefft peiriannydd, cyn dechrau dysgu hedfan. Dyna paham y gallodd hi, pan ddisgynnodd mewn lle go anghysbell yn Affrica, lle nid oedd offer priodol, fynd ati i wneud ei hoffer ei hun.*

*Ond un peth yw'r llaw gelfydd. Beth am y galon i wynebu'r siwrnai hirfaith, unig? Beth a gymerai un ohonom ni am fynd i faes anial ganol nos a chysgu yno, hyd yn oed yn ein gwlad a'n cynefin ni ein hunain?*

*Beth sy'n peri'r gwahaniaeth? Tybed a yw'n bosibl i ysbryd merch ddylanwadu ar gynherfau'r corff a'i ddisgyblu nes cael cytgord perffaith?*

*Ai dyna gyfrinach Amy Johnson?*

*Bod yn Siriol*

*Y mae sirioldeb yn ddawn werthfawr yn y dyddiau dyrys hyn. Gwyn fyd y ferch a'i medd. Mae heulwen bywyd ganddi. Ond ni raid i neb ohonom dynnu wyneb hir.*

*Weithiau, y mae popeth fel pe bai'n ymroi i'n croesi. Ar fore oer, gwlyb, dyna'r plant yn afreolus, y simdde'n mygu, a phopeth o chwith, ac yn ben ar y cwbl, dyna gwpan o'r set orau yn cwympo'n deilchion.*

*Beth eto, tybed, meddwn, bron wylo.*

*Beth, ynte? Ffordd y doeth ydyw myned i ystafell arall, a chau'r drws. Eistedd i lawr. Ymhen munud neu ddau fe fydd distawrwydd yr ystafell yn disgyn fel balm ac yn lleddfu pob blinder. Daw meddyliau tawel, di-gyffro a hapus i lenwi'r galon.*

*Hawdd meistroli pob problem, a hynny gyda gwên, pan feistrolwn ni ni'n hunain.*

*M.E.*

* Yn ogystal ceir tair o ryseitiau ar gyfer gwneud pwdinau a llun o lestri brecwast cyfoes.

## 10 Rhagfyr 1932

*Annwyl Ffrindiau,*

*BOB dydd fe glywn am ddrysau newydd yn agor i ferched.*

*Lle mae'r medr a'r ewyllys, yno y mae gwaith.*

*Darllenais ddoe am weddw ifanc yn cymryd lle ei gŵr fel cipar ('gamekeeper'), a bod 'poachers' y fro fwy o'i hofn nag o neb! Yr un wythnos mentrodd merch i glwb golff dynion i fod yn ysgrifennydd. 'Does wybod beth na wnawn ni'r merched!*

*Ffermio*

*Pa ragolygon sydd i ferched ifanc mewn ffermio? Gofynnwch hyn i unrhyw ffarmwr Cymreig, neu ei wraig, ac fe wenant. Ond mewn araith y diwrnod o'r blaen ar yrfa bywyd i eneth wedi cael addysg uwch, fe awgrymai un brif-athrawes y byddai'n dda i enethod a'u rhieni ystyried ffermio.*

*Y syniad cyffredin am ferch ar ffarm ydyw rhywun yn godro, trin ymenyn, a chasglu wyau. Syniad pur wahanol ydyw meddwl am ferch fel fferm-wraig ddeallus, yn gwybod am y tir a'i gynnyrch, ac wedi dysgu sut i farchnata.*

*Merched y De*

*Y mae bron bawb ohonom yn edmygu gwaith llaw, gwaith cywrain, ac y mae ysfa i geisio gwneud rhywbeth tebyg ar y rhan fwyaf ohonom.*

*A barnu oddi wrth yr arddangosfa odidog a drefnwyd gan Gymdeithas Celfyddyd De Cymru yng Nghaerdydd, y mae dwylo celfydd iawn gan ferched y De. Gresyn na allai eu chwiorydd yn y Gogledd weled eu gwaith. Tybed ai merch fydd y gyntaf i ddangos sut i fyrhau'r siwrnai o'r De i'r Gogledd, trwy ei hedeg hi?*

*Yr oedd yng Nghaerdydd amrywiaeth rhyfeddol o waith cain -*

*brodwaith a gwau, rhwymo llyfrau, gweithio mewn lledr, caboli gemau a gweithio metal, paentio lluniau ar ganfas ac ar lestri, a hyd yn oed wneud llestri pridd.*

*Nid heb ddygn waith a disgyblaeth y cyrhaeddodd merched y De safon mor uchel.*

## *Gwneud Arian*

*Clywaf fod Sefydliadau'r Merched yn y Gogledd yn gwneud gwaith ardderchog trwy ddysgu merched mewn gwahanol fathau o waith llaw. (Mae eisiau cenedlaetholi'r sefydliadau hyn, a chael mwy o'r iaith Gymraeg ynddynt.)*

*Gall y rhain fod o help mawr i ddysgu merched sut i wneud pethau nid fel hobi, ond fel gwaith ac elw arno. Pa ferch, lle mae'r penteulu allan o waith, na fyddai'n falch o fedru ennill tipyn trwy waith ei llaw?*

*Mae siopau'r trefi mawr yn llawn o bob math o anrhegion Nadolig wedi eu gwneud gan ferched ymroddgar a medrus gwledydd fel Czecho-Slovakia a'r Almaen, a dwylo'n segur yng Nghymru a allent eu gwneud llawn cystal.*

## *Doctor Caerdydd*

*Pe bawn i yn filiwnêr, neu pe bai gennyf ryw hawl ar yr arian a adawodd Mr. Carnegie at ddibenion da, mi fuaswn yn argraffu, ac yn rhannu trwy bob tref a phentref yng Nghymru, gynghorion a welais yn ddiweddar gan y Dr. Llewelyn Williams, Caerdydd.*

*Dr. Williams yw pennaeth Bwrdd Iechyd Cymru, ac nid oes neb a ŵyr fwy am iechyd gwerin Cymru a'r modd i'w wella. Wele i chwi damaid neu ddau:-*

*Tuedd y fam bob amser yw hunanymwadu a rhoddi'r rhan orau i'r plant a'r gŵr, a bod ei hunan ar brinder.*

*Dylai'r plant a'r bobl ifanc gael digonedd o laeth, ymenyn, wyau, cig ffres, a phob math o ffrwythau a bwydlysiau. Nid ydyw plant y wlad yn cael hanner digon o wyau o llaeth.*

*Delir mai'r cenhedloedd sy'n yfed mwyaf o laeth ydyw'r rhai iachaf, cryfaf a mwyaf bywiog. Nid ydym ni Gymry yn yfed digon o laeth.*

*Llysieuyn heb ei fath i hyrwyddo iechyd ydyw berw'r dwfr. Y mae'n cynnwys yr holl fitaminau, ac fel y letus, gellir ei fwyta heb ei goginio.*

*Gan fod iechyd a chysur y werin yn dibynnu cymaint ar ddewisiad doeth o fwydydd, dylai pob gwraig wybod rhywbeth am werth cymharol bwydydd, a'r ffordd orau i'w coginio.*

*Bendith fawr fyddai i bob penteulu feddu gardd. Anffawd ydyw fod cynifer o erddi Cymru yn segur heb eu trin.*

## *Crefydd Newydd*

*Mae'n debyg ein bod wedi bod yn meddwl mwy am bobl yr America yr wythnos hon na bron erioed o'r blaen.*

*Cydymdeimlais ag awydd ffrind ifanc oedd yn siarad â mi y dydd o'r blaen am fynd i Rwsia, a gweled â'i llygaid ei hun sut y mae arnynt yno.*

*Yr oedd Mr. Sidney Webb (Arglwydd Passmore y Blaid Lafur) yn sôn mewn cyfarfod yn Llundain am ei ymweliad â'r wlad honno, ac fe ddywedodd bethau rhyfedd. Daeth i'r farn mai Llywodraeth Rwsia oedd y llywodraeth fwyaf sefydlog yn y byd ar hyn o bryd. Ni raid i neb fod allan o waith yno. Yr oedd pobl Rwsia yn codi i fyny wareiddiad newydd,*

*gwahanol i'n gwareiddiad ni. Un o'i seiliau ydyw gwneud heb elw ('profit'). 'Does yno ddim hel na pharchu cyfoeth.*

*Mae hawl i bawb feddu eu dillad, dodrefn, a phethau personol, ond y mae gwneud arian mewn busnes yn groes i'r rheol. Y mae Mr. Webb yn tueddu i dybio bod yna ddechrau, nid yn unig wareiddiad newydd, ond crefydd newydd.*

*Clywsom lawer o ladd ar y Rwsiaid yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf. Tybed mai eu ffordd hwy a gymerir yn batrwm gennym ryw ddydd a ddaw?*

### *Dim "Miss"*

*Rhyfedd y swyn sydd mewn symledd! Un bore'n ddiweddar, mi sylwais ar lythyr oedd newydd ddyfod i ferch ifanc o Saesnes oedd ar ymweliad â mi. Nid oedd na "Miss" o flaen ei henw na llythrennau ei gradd ar ei ôl - dim ond yr enw syml. Awgrymais fod rhywun wedi bod yn rhy frysiog gyda'r enw, ond sicrhaodd fi mai ei dewis hi oedd cael ei chyfarch felly. Y mae'r Crynwyr (Y Quakers) tirion yn gwneud hynny bob amser heb fod ddim llai eu parch at ei gilydd. Felly hefyd y gwnâi'r hen Gymry, wreng a bonedd, cyn i'r "Mr." a "Mrs." Seisnig ddyfod i'r tir.*

*Efallai fod fy ffrind ifanc yn rhagflaenydd oes newydd, oes y bydd symledd yn rhinwedd ynddi, a phan brisir pob peth yn ôl fel y bo'n wir ac yn brydferth.*

### *At Ohebwyr*

*A.W. - Croeso i'ch llythyr. Mae gan lawer ohonom fel chwithau ystafell wely sy'n wynebu'r gogledd, ac yn cael dim haul. Y peth a wneuthum i oedd rhoddi llenni neu gyrtens melyn (lliw daffodil) ar y ffenestr, ac fe synnech at y gwahaniaeth. Mae cymydog i mi yn cael bod llenni creton, lliw hufen, a blodau bach siriol arnynt, yn bur effeithiol.*

*E.R.T. - Diolch am eich geiriau mwyn. Mae gennych broblem ddiddorol iawn ynglŷn â dyfodol eich merch. Fe awgrymwn i chwi anfon at Gofrestrydd ('Registrar') y Coleg a gofyn iddo roddi i chwi fanylion y cyrsiau addysg a roddir yno, a'r tâl a godir.*

*M.J. - Peidiwch â phoeni. Mi ddaw olion llestri poeth oddi ar y bwrdd ond i chwi gymryd gwlanen a diferyn o oel hâd llin ('linseed oil') arni a mynd drostynt nes eu symud. Rhwbiwch yn dda wedyn gyda hen gadach sidan neu ddystar ysgafn nes bydd yn loyw.*

*OLWEN - Braint ydyw bod yn ifanc! Gobeithio y cewch hwyl yn y parti. Rhoddwch ddyrnaid da o starts ('starch'), wedi ei gymysgu â dŵr oer yn gyntaf, yn y bath. 'Does dim byd gwell at feddalu'r dŵr, ac y mae yn gwneud y croen fel felfed. Cofiwch am ddiferyn o ddŵr lafant ('lavender water') neu eau-de-cologne yn y bath.*

*M.E.*

* Yn ogystal ceir llun o gap rwber ffasiynol o Baris a edychai fel gwallt tonnog, a llun o lestri te.

## 17 Rhagfyr 1932

*Annwyl Ffrindiau,*

*PA synnwyr sydd mewn tŷ, heddiw, heb ddim un tap dŵr ynddo, heb sôn am*

*drydan; cegin gefn mor gyfyng na all cath ddim troi ynddi; aelwyd na all gŵr y tŷ ei mwynhau drwy'r nos heb fod un ai yn y drafft neu ar y ffordd; gratiau gwastraffus di-gysur; lobi hir lafurus; lloriau llaith; waliau sâl a'r damp yn difetha'r papur; cwt glo allan yn y glaw a'r oerfel; grisiau serth troeog a'u canllawiau wedi eu gwneud i gynnwys llwch?*

*Pa bryd yr ydym ni'r merched yn mynd i gynllunio'n tai fel y dymunem ni iddynt fod?*

*Mae oes ar ôl oes ohonom wedi cwyno. Buom yn rhy amyneddgar, ac y mae'n amser inni osod safon newydd, - tŷ nid yn ôl syniad dyn ond o saernïaeth merch.*

*Fe gychwynnodd llawer gwraig ifanc ei gyrfa briodasol yn llawn hoen a hyder, ac fe welwyd lladd ei hysbryd a churio ei chorff - gan ei thŷ. Fe ellid arbed hanner y llafur mewn tŷ, o'i gynllunio'n iawn.*

*Y mae lliaws o ferched yn fedrus â'u pensel. Beth pe bai ambell un ohonynt yn troi at waith pen-saer, neu 'architect'? Pe caem ni ferch yn ben-saer gyfarwydd ym mhob sir, a Phwyllgor Tai ym mhob ardal yn cynnwys merched gan mwyaf, neu'n ferched i gyd, ni fyddem yn hir cyn cael tai y gellid gwneud cartrefi dedwydd ohonynt.*

## *Cywilydd Annwyd*

*Y mae llawer o "gwyno" ym misoedd oer y gaeaf fel hyn. Am selni neu waeledd y meddyliwn wrth ddweud hynny.*

*Paham y gair "cwyno"?*

*Mynych y gwelwn bobl sydd "yn gwyn i gyd." Bron nad aeth y peth yn rhodres wag yng Nghymru.*

*Mi gyfarfûm â merch y llynedd ac annwyd trwm arni - ac yr oedd ganddi gywilydd ohono. Diffyg gofal a dim arall, ebe hi. Mor wahanol i'r rhan fwyaf ohonom!*

## *Trefn*

*Y mae'n debyg fod y ferch a fyddai'n ymfalchïo na wyddai sut i ferwi tatws, neu olchi hances boced, wedi hen ddarfod o'r tir.*

*Y mae pob geneth fodern yn ddigon call i weled bod y gwaith pwysig o edrych ar ôl y tŷ a'r teulu yn golygu cymaint o astudio ag unrhyw waith celfydd arall.*

*Yn wir, y mae'n gofyn llawer iawn mwy o amynedd, hunan-ddisgyblaeth, a gwybodaeth. Y mae hapusrwydd ac iechyd y teulu yn dibynnu arno, ond y mae'n waith mwyaf difyr yn y byd o'i wneud yn iawn.*

*Trefn yw hanner y gamp; trefn fel mewn offis neu siop; ei hadeg benodol i bob swydd, a glynu wrthi beth bynnag fo'r demtasiwn i beidio. Ac wrth sôn am yr offis a'r siop, pa ferch a fuasai yn mynd i weithio i un ohonynt yn aflêr ei gwisg?*

*Y mae eisiau'r un gofal gartref, pe na bai ond am yr ymdeimlad o foddhad personol a rydd gwisg ddel sy'n gweddu i chwi. Mae'r 'overalls' sydd i'w cael mor rhad heddiw yn ateb y diben i'r dim.*

## *Parti Amser Gynt*

*Dyma syniad newydd i barti Nadolig a gefais gan ffrind yn America.*

*Pawb i wisgo yn null 1872, sef oes y Frenhines Victoria. Mae digonedd o luniau i'w cael yn dangos gwisgo y pryd hwnnw. O ran hynny, 'synnwn ddim na ellid darganfod, mewn rhyw hen gist, y siôl baisli, y crinolîn, a'r ffrog sidan ddu y byddai Nain (mam-gu) mor ddel ynddynt.*

*Ac efallai fod yn rhywle hefyd hen gôt gynffon-deryn fel y byddai Taid (tad-cu) yn ei gwisgo, gwasgod felfed, coler uchel, cadach-gwddw*

*du mawr, a hances 'bird's eye'.*

*Os na ellir eu cael gellir eu copïo mewn defnyddiau rhad.*

### *"Locsyn" a "Q.P."*

*Byddai raid i'r merched gofio am yr amryw "ffal-lals", y parasôl bach a'r ffan, sanau gwynion a slipars duon a ruban i'w cau, a'r bô-cê, neu dusw bach o flodau, ac yn enwedig y botel 'smelling salts'. (Yr oedd yn ffasiynol yn 1872 i ferch ifanc fyned i ber-lewyg a chael ei dadebru gyda'r 'smelling salts', os byddai dyn ifanc wrth law.)*

*Rhaid i'r meibion hefyd gofio am y "locsyn" a'r "Q.P.", a "giard aur" neu arian ar draws y frest.*

### *Yr Anrhegion*

*Hanner yr hwyl, wrth gwrs, fuasai ceisio siarad ac ymddwyn, a chware a dawnsio, yn null y cyfnod hwnnw.*

*Buasai anfon y gwahoddiadau ar bapur tenau mewn llaw ysgrifen fel a welir mewn hen lythyrau, a chŵyr lliw ar yr amlen, yn bur briodol, a phe dymunai'r gwahoddedigion ddyfod ag anrhegion Nadolig i roddwyr y parti, byddai digon o ddewis ymysg hen drysorau'r cartref - antimacassars; pin-cwsiwn sidan coch â chregin arno; pren rholio wedi ei drimio â felfed, a lliw aur ar y ddau ben, gyda chwlwm mawr o ruban, etc.*

*Mae sôn am dano fel hyn yn fy ngwneud i'n awyddus i gymryd rhan fy hun mewn parti felly. Mi fuasai'n gyfle i droi'r cloc yn ôl i amser dedwydd iawn, yn ôl yr hanes, ac anghofio helbulon 1932. Am ba beth y byddant yn ymgomio, tybed, yn 1872?*

### *Ein Harian*

*Yr oeddwn yn falch o weled bod rhai o ferched Lerpwl wedi bod yn trafod pwnc yr arian. Cyfarfod yn perthyn i un o'r pleidiau gwleidyddol ydoedd. Merch fu'n ymgeisydd Seneddol oedd yn siarad, a diffygion ein cyfundrefn arian oedd ei thestun.*

*Mi gesglais oddi wrth sgwrs un gŵr hyddysg ei bod hi'n cyfeiliorni, ond ni leihaodd hynny ddim ar fy moddhad. Yr oedd gwybod bod merched yn dechrau cymryd diddordeb o ddifrif ym mhwnc mawr dyrys aur ac arian yn ddigon ynddo ei hun.*

*Yr oeddwn yn falch fod rhai o'r gwrandawyr yn y cyfarfod wedi cymryd rhan yn y drafodaeth, a siarad i bwrpas. Fe awgrymodd un, er enghraifft, y gallai cyfnewid nwyddau'n gilydd wneud yn lle arian, i aros gwell trefn ar fyd, ac fe soniodd fod teuluoedd glannau môr rhai lleoedd yn anfon eu pysgod i Yorkshire a chael dillad yn eu lle.*

### *Rhwng Te a Swper*

*Mae gennyf syniad fy hun y gellid dewis merch o Gymru, un o Scotland, ac un o Loegr a fuasent yn medru cyfarfod tair o chwiorydd yr America, a setlo cwestiwn y ddyled rhyfel rhwng tê a swper!*

*Ond rhaid imi gyfaddef na buaswn yn hoffi bod yn un o'r tair, heb ddysgu cryn lawer mwy am arian nag a wn. Awn ati.*

### *At Ohebwyr*

*JOHN R. - Bydd eich mam wrth ei bodd os ceisiwch set o lestri tê iddi erbyn Nadolig, ac y mae rhai mor ddel i'w cael mewn lliwiau siriol.*

*S.T. - I gadw'r dwylo'n wyn yn y gaeaf, ceisiwch botelaid o 'glycerine and rose water' a rhoddwch ddiferyn ar eich dwylo wrth ymolchi a'i rwbio i mewn yn dda cyn eu sychu.*

*G.W. - Diolch lawer am eich llythyr caredig; ple dysgasoch chwi sgrifennu Cymraeg mor lithrig? Mwynheais innau'r canu Cymreig ar y radio nos Sul. Gresyn na chaem ni ragor yn ein hiaith ein hunain, onide? Mae'n rhaid i ni'r merched wahodd Syr John Reith i gael sgwrs hefo ni.*

*M.E.*

* Yn ogystal ceir rysáit llawn ar gyfer gwneud cacen Nadolig, llun o gacen Nadolig a llun o siwmperau cyfoes.

Mae'r tair enghraifft hon yn rhoi eithaf syniad o golofn 'Oddi wrth Ferch at Ferch' nodweddiadol, ac o ddarllen y colofnau ymhellach gwelir bod patrwm clir yn datblygu ynddynt. Dywed M.E. uchod nad 'gwaith tŷ, gwneud bwyd, a meddwl am ddillad, ydyw byd y merched erbyn hyn, [ond] mae'n wir mai'r cartref yw ei theyrnas o hyd, a bod gofalu am y tŷ a'r teulu yn ogoneddus fraint fel cynt', rhywbeth a welir yn wythnosol gan fod y pynciau hyn yn cael sylw helaeth yn y colofnau; yn ogystal, mae'r lluniau sy'n ymddangos ar dudalen y merched hefyd bron yn ddieithriad yn ymwneud mewn rhyw fodd â bwyd, ffasiwn, tai, llestri ac ati.

Fodd bynnag, dywed M.E. ymhellach '[bod y] wraig a'r fam heddiw'n edrych ymhellach na buarth y cefn a stepiau drws y ffrynt' a gwelir hyn yn eglur iawn yn y colofnau 'Oddi wrth Ferch at Ferch'. Yn wir, os oes un peth i'w weld ynddynt yn anad dim arall, credaf mai'r teimlad cynyddol a fodolai ymhlith merched y cyfnod eu bod yn dymuno dod yn fwy cydradd â dynion (ac i raddau helaeth yn dod yn fwy cydradd), a chael yr un cyfleoedd â hwy, yw hynny, heb sôn am y teimlad yn aml iawn y byddai'r byd yn well lle i fyw ynddo ar sawl ystyr pe bai mwy o ferched â dylanwad yn y gymdeithas!

Mae'r dyfyniadau isod yn esiamplau o'r ysbryd penderfynol, gwrthryfelgar ar brydiau, a fodolai ymhlith y merched hyn ei bod yn hen bryd iddynt gael mwy o degwch gan ddynion yn dilyn canrifoedd lawer o gael eu trin yn israddol; mae'r dyfyniadau hefyd yn werthfawr tu hwnt yn hanesyddol gan eu bod yn dystiolaeth uniongyrchol o newid cymdeithasol sylfaenol a chwyldroadol a ddigwyddodd i ferched yn yr ugeinfed ganrif.

Sylwer yn arbennig ar y cyfeiriadau at ferched yr Almaen yn colli eu rhyddid mor fuan wedi iddynt gael blas arno, a'r modd y mae hynny'n achosi pryder i Myfanwy Eames ac yn ennyn ei chydymdeimlad:

18 Chwefror 1933

*Beth Sydd Ar Y Byd?*

*Annwyl Ffrindiau,*

*SAWL merch, tybed, ag sy'n mwynhau'r 'Cymro', a ddarllenodd hanes cyfarfod ac araith Major Douglas ar bwnc arian?*

*Mi welaf y syndod ar wynebau rhai ohonoch. Ydyw, y mae yn bwnc pur sych, ac yr ydym wedi arfer ei adael i'r dynion. Ond o ddifrif, tybed na ddaeth yr amser i bob merch sy'n berchen pleidlais neu'n ennill ei byw ei hun edrych ar ôl cartref, i gofio bod ganddi hithau lais yn llywodraeth y wlad a'i harian?*

*Ychydig iawn a wnaethom o'r fraint hyd yn hyn, lawer ohonom, a llai fyth o geisio deall a dilyn pynciau'r dydd.*

*Gwir fod gwneud ein rhan yn y cartref yn bwysig, ond y mae'r un mor bwysig inni geisio deall pa ddylanwadau o'r tu allan sy'n effeithio ar fywyd a chysur y teulu.*

*Pobl Y Tŷ Nesaf*

*ONI fuom ni'n rhoddi'n holl sylw i'n cartref a'n cylch a'n capel ein hunain, ac anghofio cyflwr y wlad?*

*Heddiw ni allwn gau'r drwg allan o'n hardaloedd. Daeth tlodi i'n mysg, a gwelwn ein cymdogion, pobl y tŷ nesaf, aelodau o'r un eglwys, yn dioddef.*

*Nid y di-gymeriad a'r di-gychwyn sy'n methu cael gwaith, ond gwŷr a merched parchus, sy'n annedwydd hebddo, a bechgyn wedi cael addysg dda ac yn llawn awydd gweithio. Digon o egni a hoen ieuenctid yn wynebu bywyd, a dim un drws yn agor i'r bywyd hwnnw.*

*Sawl merch sy'n ceisio darganfod beth sydd o'i le? A faint ohonom fedr ddweud prun ai trefn natur ynte deddf senedd neu egwyddor arian sydd eisiau ei newid?*

*Rhaid holi a darllen, a darllen a holi drachefn. Felly y daw goleuni. Peidio â bodloni ar ryw friwsion o newyddion, neu bod hon a hon wedi priodi, gan feddwl am ddim ond ffasiwn, a gweu a Greta Garbo.*

1 Ebrill 1933

*Pe Bai Merched wrth Y Llyw*

*Annwyl Ffrindiau,*

*A fuoch chwi erioed yn dychmygu pa fath fyd fyddai arnom ni pe na welid dim ond merched yn rheoli yn y Senedd?*

*Gallaf glywed llawer ohonoch yn dweud na fyddai hi ddim gwaeth, 'ta beth. Y mae hynny'n ddigon gwir, ond a fyddai hi'n well?*

*Y mae ysgrifennydd yn un o'r papurau Saesneg wedi ceisio darlunio*

*ein Senedd o dan reolaeth merched. Dewisodd ddwy Gymraes i lenwi swyddi pwysig, sef Arglwyddes Rhondda yn Llywydd Bwrdd Masnach, a Miss Megan Lloyd George yn Weinidog Addysg.*

*Arglwyddes Astor ydyw'r Prif Weinidog, a Mrs. Sidney Webb (Arglwyddes Passfield) ydyw'r Ysgrifennydd Tramor. Miss Margaret Bondfield sydd wedi ei dewis yn Bost-Feistres Cyffredinol (un a fu'n Weinidog Llafur eisoes), ac Arglwyddes Warwick i ofalu am y Llynges (er mai un sy'n caru heddwch ydyw hi).*

*Miss Helena Mormanton y ferch gyntaf i fod yn far-gyfreithiwr sy'n cael ei dewis yn Arglwydd Ganghellydd, Miss Amy Johnson (Mrs. Mollison) i ofalu am y llongau awyr, a Miss Susan Lawrence (oedd yn Is-Weinidog Addysg o'r blaen) yn Ganghellydd y Trysorlys. Mrs. Baldwin ydyw'r Gweinidog Iechyd, yn cael ei chynorthwyo gan Dr. Stella Churchill, a Mrs. Marion French yn rheolydd Banc Llundain.*

### *A Gytunent?*

*RHAID cymryd yn ganiataol i gychwyn y cytunant ar bolisi!*

*Dirwest, wrth gwrs, yw pwnc mawr Lady Astor, ond nid gwaharddiad ar unwaith, er y chwenychai hi gymryd gwerthu diod o law'r bragwyr ar unwaith.*

*Gellid disgwyl i Miss Megan godi oed gadael yr ysgol i bymtheg, ac fe fyddai'r holl Gabinet tu ôl iddi yn y penderfyniad i wneud addysg merched yr un mor bwysig a thrwyadl at bob pwrpas ag eiddo'r bechgyn.*

*Gwaith mawr y Bwrdd Iechyd fuasai gofalu am y mamau, yn enwedig adeg geni a meithrin plant. Fe geid ond odid sefydlu clinics nid yn unig er mwyn mamau, ond i hyfforddi'r tadau hefyd - mae llawer ohonynt ei eisiau.*

### *Cosbi*

*YN y Swyddfa Gartrefol, drachefn, gellid disgwyl i Miss Pankhurst gymryd golwg newydd ar drosedd a chosbi; nid anfon troseddwyr i garchar ond i sanatoria, a chwilio prun ai tlawd ydynt, ynteu gwan eu meddwl, ynteu rhai wedi ildio i demtasiwn sydyn. Yna eu gwella a'u cynorthwyo i fod yn bobl onest, a throi'r carcharau i fod yn lleoedd i ddysgu crefftau, etc.*

*Yn olaf gellir disgwyl i'r Trysorlys a Banc Lloegr dan reolaeth merched ystyried buddiannau nid pobl y pres, ond y wlad yn gyffredinol.*

*Dyna ddefnydd polisi cenedlaethol a greai chwyldro. Pa bryd y cawn ni ddechrau arno?*

## 29 Ebrill 1933

### *"Miss Jones Yn Flin"*

*Mi fwynheais y stori am yr athraw ysgol yn cwyno wrth ei wraig, pan ofynnodd hi iddo paham yr edrychai mor drist, "fod Miss Jones wedi bod yn flin wrtho."*

*Miss Jones oedd y brifathrawes ar yr ysgol gymysg lle gofalai'r athraw am un o'r dosbarthiadau.*

*Adroddwyd y stori mewn cynhadledd o ysgolfeistri fel enghraifft o'r anfantais o roddi merched i reoli ysgolion cymysg. Mae'n debyg pe buasai cymwysterau Miss Jones wedi ei gwneud hi yn athrawes dosbarth yn yr ysgol honno, a'i gymwysterau yntau wedi ei wneud yn brif-athro, y buasai ef wedi gallu bod yn flin wrth Miss Jones, a chaniatáu ei bod ar*

*fai, heb dybio bod hynny'n diraddio nac yn amharchu dim arni hi!*

*Mae gan y Saeson ddihareb, "What is sauce for the goose is sauce for the gander," a dyletswydd pob merch, yn fy marn i, ydyw cefnogi'r syniad yma o fynnu'r un hawliau i ferched ag a ganiateir i'r gŵr, hynny yw, os bydd y cymwysterau a'r amgylchiadau yn gyfartal.*

### *Hen Syniadau*

*GOFYNNWYD - beth am wraig yr athraw dan sylw? A all hi dalu'r un parch i'w gŵr ac yntau dan awdurdod merch arall?*

*Yr wyf i fy hun yn methu gweled pam! Os bod dan awdurdod yw ei ran, nes y dêl ei dro yntau, ni waeth pwy fyddo mewn awdurdod, ac y mae lle i'w wraig ymfalchïo fod merched yn gallu llanw swyddi cyfrifol fel hyn.*

*Mewn oes pryd y mae merched yn cael eu hyfforddi ac yn eu cyfaddasu eu hunain i'r naill alwedigaeth ar ôl y llall a gyfrifid gynt yn bethau i ddynion yn unig, ac yn gallu dal eu tir gyda'r gorau, mae'n rhyfedd fel yr erys hen syniadau o ddechrau oes Victoria ym meddyliau dynion.*

## 6 Mai 1933

### *Rhaid Gwylio*

*OS yw'n gwlad ni ar fin rhyw newid mawr - rhyw chwyldro - y mae'n bryd i ni'r merched feddwl am ein safle ni.*

*Mae llawer mwy o ferched yn awr yn annibynnol, yn ennill eu bywoliaeth, yn dal swyddi pwysig mewn addysg, etc., yn aelodau o gynghorau a phwyllgorau cyhoeddus, ac yn cael eu lle ar y fainc ynadon ac yn y Senedd. Beth a ddigwyddai i'r breintiau hyn dan drefn newydd?*

*"Swydd merch ydyw difyrru oriau hamdden y milwr lluddedig," meddai Hitler. Ac yn Rwsia, lle bu chwyldro Comiwnaidd, y fraint o gyfranogi mewn llafur a phrinder a gafodd y merched hyd yn hyn.*

*Rhaid inni fod yn wyliadwrus. Eisoes ym Mhrydain mae lle i ofni fod rhywfaint o deimlad yn erbyn merched am eu bod yn dysgu byw yn annibynnol ac esgyn i swyddi o anrhydedd. Fel y dywed Mrs. Pethick Lawrence, llywydd y 'Women's Freedom League', mae'r teimlad yn erbyn merched, yn enwedig y rhai priod mewn swyddi, yn galed a didostur. Maent yn tueddu i gael eu gwasgu'n ôl i safle ddibynnol eto.*

## 15 Gorffennaf 1933

### *Gwneud y Gŵr yn Ben!*

*Y MAE merched goleuedig pob gwlad yn gwylio gyda llawer o bryder y newid yn stad merched yn yr Almaen dan yr oruchwyliaeth newydd, - y Nazis. Y maent yn colli pob rhyddid a braint a enillwyd ganddynt, ac yn syrthio'n ôl i'r hen gaethwasiaeth deuluaidd.*

*Cofiaf fel y byddai'r hen Gaisar, chwarter canrif yn ôl, yn gosod y plant a'r gegin a'r capel ("Kinder, Küche, Kirche") fel yr unig dri pheth y dylai gwraig rinweddol boeni yn eu cylch, ac y mae Dr. Goebbels - rhaglaw Hitler yn hyn o beth - fel pe bai am atgyfodi'r delfryd hwn i ferched.*

*Y gŵr yn ben, a'r ferch i weini arno yw nod yr oruchwyliaeth newydd. Troir merched priod o bob swyddi, ac ni chânt ymddangos ar y fainc ustusiaid. Y mae'r colegau am gau eu drysau yn erbyn pob merch, ac fe godir rhwystrau ar ffordd eu cyflogi mewn swyddfeydd a siopau.*

*Gwaith tŷ fydd yr unig fodd i ferch Almaenaidd fedru ennill bywoliaeth toc.*

*Fel ymhob gwlad y mae'r merched yma wedi dysgu yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf i fyw yn annibynnol ac i wisgo a'u harddu eu hunain yn null ffasiwn y byd. Y mae pobl Hitler am newid hyn a chreu delfryd newydd - dim ffasiynau o Baris a Llundain, dim lliw ar yr wyneb, a dim mygu.*

*Yn fy marn i mae Hitler yn anturio cryn dipyn. Un peth yw gorthrymu'r Iddewon a'r Pabyddion, ond peth arall, mwy peryglus efallai, yw dodi llaw ar ryddid merched.*

## 5 Awst 1933

### *Torri'r Cadwyni*

*MAE safle merched, ac agwedd dynion tuag atynt, gryn dipyn yn wahanol yng ngwledydd y byd, ond hyd yn oed yn India a Thwrci y mae'r ferch yn ymddiosg o'i chadwyni.*

*Nid caethferch na thegan i ddyn ydyw hi mwyach. Yn Rwsia, lle mae'r arbraw cymdeithasol mwyaf mewn hanes yn digwydd ar hyn o bryd, mae'r ferch heb lyffethair o gwbl, ac yn hollol ar yr un tir â dynion ymhob ystyr.*

*Mae chwyldro gwahanol wedi digwydd yn yr Eidal ac yn ddiweddar yn yr Almaen, ac yn hwn y mae'r gwŷr wedi rhoddi'r merched yn ôl yn y gegin. Hyd yn hyn distaw ydynt, ond fe gawn weled. Ym Mhrydain a'r America mae'r ferch wedi ennill ei rhyddid i gystadlu a'i brodyr bron ymhob cylch. Profodd ei gallu yn y Senedd fel yn y cae chwarae; gall lywio aeroplên neu redeg busnes.*

### *Merched Cymru*

*HYD yn oed yng Nghymru mae mwy o ferched yn mynd yn feddygon, athrawon coleg, etc., ac yn ennill bri ar gynghorau a'r fainc ynadol. Mwy na hynny y mae'r eneth ifanc yn cael cyfle i feddwl a barnu drosti ei hun beth sydd yn wir ac yn brydferth mewn bywyd. Mae addysg a diwylliant yn peri iddi beidio derbyn unrhyw draddodiad heb brofi ei rin.*

*Mae hi yn tueddu i amau tybed ai gwareiddiad dynion, y gwareiddiad sydd wedi gyrru'r byd yn ben-ben a'i wneud yn fyd mor anodd byw ynddo, ydyw'r gorau y gall dynoliaeth ei lunio. A thra cydnebydd mai yn y cartref y mae prif ddyletswydd merch gyda dwyn i fyny genhedlaeth iach ac eofn, y mae hi am fynnu rhan helaeth hefyd yn y gwaith o wneud y byd yn lle teilwng i'r genhedlaeth newydd fyw ynddo.*

*Efallai mai dyma lle mae cyfrinach osgo meddwl yr oes newydd.*

## 2 Medi 1933

### *Yr Hyn A Enillwyd*

*FE ofynnwyd cwestiwn diddorol gan 'Neb o Bwys' yn 'Y Cymro' diwethaf.*

*'A yw merched wedi newid ar ôl y rhyfel,' meddai; 'a ydynt wedi colli rhywbeth oedd yn hynod ym merched y dyddiau gynt?'*

*Nid wyf i yn meddwl fod merched wedi colli dim, yn hytrach y maent wedi ennill llawer. Am eu breintiau dinesig a chael bod yn gydradd â dynion, i fy meddwl i nid oes ryw lawer yn hynny i ymfalchïo ynddo. Y peth pwysicaf a enillwyd gennym ydyw'r ymdeimlad ein bod yn fodau*

*annibynnol.*

*Gall merch heddiw benderfynu drosti ei hun y modd y dewis dreulio ei dyddiau. Gynt nid oedd siawns iddi wneud enw iddi ei hun ond mewn cysylltiad â dynion. Yng nghysgod a chyda chaniatâd rhyw ddyn neu'i gilydd y tynghedid hi i wasanaethu ei chenhedlaeth, neu ymarfer ei doniau a'i thalentau.*

*Byddaf yn meddwl yn aml na sylweddolodd merched Cymru sawl milltir ymlaen yr ydym o'i gymharu â'r dyddiau gynt, na pha faint mwy o gyfrifoldeb sydd yn gorffwys arnom o'r herwydd.*

Yr oedd M.E. yn gryf o blaid cydraddoldeb swyddi a chredai y dylai merched modern gyflawni swyddi yn y gymdeithas yr arferid eu gwneud gan ddynion yn unig; fel y gwelir o'r enghreifftiau canlynol, ymfalchïai pe penodid merched i swyddi o bwys:

4 Chwefror 1933

*Merched Fel Meddygon*

*Annwyl Ffrindiau,*

*PA nifer o ferched sydd gennym yn feddygon yng Nghymru? Nid rhyfedd ein bod yn cael mwy fel y ceir rhagor o gyfleusterau addysg.*

*Am y tro cyntaf yn hanes y sir, y mae Sir Gaerfyrddin wedi penodi merch yn Feddyg Cynorthwyol yr Ysgolion, sef Dr. Gladys M. Herbert, Llwynon, Rhydaman. Cafodd hi brofiad helaeth eisoes, er nad ydyw ond 28 oed, mewn ysbytai yn Llundain a threfi eraill yn Lloegr.*

*Mae chwaer iddi yn feddyg hefyd, sef Dr. Eirene Herbert, ac wedi ennill ei diploma M.R.C.S. ac hefyd L.R.C.P.*

*Clywaf am lwyddiant meddyg ifanc arall hefyd yn Nyffryn Aman, sef Dr. Nellie Jones, merch Mr. a Mrs. Joseph Jones, Maesderi, Glanaman. Enillodd hithau'r diploma M.R.C.S. ac L.R.C.P.*

*Fe gymerodd ei gradd i gychwyn yng Ngholeg Caerdydd, ac aeth i Lundain i orffen ei chwrs.*

*Yr oedd Dr. Jones yn adnabyddus i bawb yn Nyffryn Aman am ei dawn adrodd. Enillodd gannoedd o wobrwyon, ac fe'i cadeiriwyd mewn eisteddfodau fwy nag unwaith.*

*Offrymodd ei thalentau bellach ar allor iechyd, ac mi hoffwn i weled rhagor o'i thebyg hi a Dr. Herbert ymysg genethod amryddawn Cymru yn eu rhoddi eu hunain i'r gwaith hwn - nid yn unig i leddfu poen ac osgoi peryglon ond i godi safon iechyd a nerth y genedl. Mae'r maes yn barod a'r medelwyr yn brin.*

11 Chwefror 1933

*Merch Yn Weinidog*

*Annwyl Ffrindiau,*

*ANGHYNEFIN o hyd yw merch mewn pulpud. Y mae gennym ambell Rosina Davies, mae'n wir, ond ni chlywir byth sôn am ferched ifanc yn ymgeisio am y weinidogaeth, ac y mae'n debyg y câi gwŷr mawr y Sasiwn a'r Undeb*

*wasgfa ped awgrymai rhywun fod dichon i hynny fod.*

*Geiriau Paul, yr hen lanc, sy'n llywodraethu o hyd: "Nid wyf yn cenhadu i wraig athrawiaethu, eithr bod mewn distawrwydd."*

*Ond ni chredodd Annibynwyr Scotland mo hyn. Y mae ganddynt hwy ferch wedi bod yn weinidog ar eglwys yn Partick ers pedair blynedd. Ac yn ôl yr hanes, mi fu'n dda a phoblogaidd. Ond merch yw hi wedi'r cwbl, ac y mae hi'n mynd i briodi!*

*Gŵr busnes yn Glasgow ydyw ef, Mr. Colin Kenmure. Fe'u priodir hwy gan Brifathro'r Coleg Annibynnol yn ei heglwys hi ei hun, ac ar fore ym mis Mawrth pan ddaw hi at yr allor, fe'i gwelir mewn gown gwyn fel unrhyw briodferch arall, â choron o flodau ar ei phen, 'veil' yn disgyn dros ei hysgwyddau, a phedair morwyn deg yn osgordd iddi.*

*Wedi priodi llawer cwpwl, a'u cynghori, fe gaiff hithau am unwaith gofio geiriau'r Apostol: "Dysged gwraig mewn distawrwydd, gyda phob gostyngeiddrwydd."*

*Ond y mae'r Parchedig Vera Findlay (dyna'i henw) yn debyg o aros yn weinidog ei heglwys ar ôl priodi. Mae ei darpar ŵr yn fodlon.*

## 1 Gorffennaf 1933

### *Penodi Merch*

*NID llawer o ferched a godwyd i fod yn arolygwyr ysgolion yng Nghymru dan y Bwrdd Addysg, ac yr oedd yn bleser gweled am benodiad merch ifanc o Gonwy i'r swydd. Miss Mair Parry yw hi, merch Mr. a Mrs. Hugh Parry, teulu uchel eu bri yn yr hen fwrdeisdref. Bu ei thad yn glerc y dref am flynyddoedd, ac y mae'n flaenllaw gyda'r 'Regional Planning Movement'.*

*I ysgol sir Llandudno yr anfonir genethod addawol Conwy, ac yno yr aeth Mair, yna i Goleg y Brifysgol ym Mangor, lle y cafodd ei gradd. Cafodd anrhydedd gyda'r Ffrangeg, ac fe aeth yn athrawes mewn ysgol yn Ffrainc dan gyd-drefniant awdurdodau addysg Ffrainc a Llundain. Wedi hynny bu'n athrawes Ffrangeg yn ysgol sir y genethod yn Totnes, Dyfneint.*

*Yr wyf yn sicr y byddwn i gyd yn gwylio camrau pellach Miss Parry gyda diddordeb neilltuol.*

## 28 Ebrill 1934

### *Barnwraig*

*SONIWYD eisoes yn y golofn hon am benodiad Mrs. Ruth Bryan Owen yn Llysgennad yr America yn Nenmarc, ac am benodiad Miss Florence Perkins yn Weinidog Llafur dan yr Arlywydd Roosevelt. Dyma newydd heddiw fod yr Arlywydd wedi penodi merch i swydd uchel arall, sef yn Farnwraig yn Uchel-Lys Apêl.*

*Nid wyf yn cofio clywed sôn am Farnwraig mewn hanes o'r blaen, ond yr oedd Miss Florence Allen, oherwydd dyma ei henw, yn llenwi swydd barnwr neu farnwraig yn llys Ohio cyn hyn. Mae hi wedi bod yn dilyn y gyfraith ers 30 mlynedd. Pa bryd y daw ein bar-gyfraith-wragedd ni ym Mhrydain i safle pryd y gellir disgwyl iddynt gael eu penodi'n rheolaidd i fainc y barnwyr?*

*Ond mae'r wlad yn dechrau cynefino â gweled merched yn traddodi cyfiawnder ac yn cyhoeddi dedfrydau fel ustusiaid, ac o dipyn i beth fe wreiddia'r syniad fod gan ferch gystal barn a synnwyr tegwch ag sydd gan ddyn, ond iddi gael hamdden a chyfle i'w haddasu ei hun i waith*

*felly.*

Yn ogystal â siarad yn gryf dros gydraddoldeb a thegwch i ferched, siaradai M.E. yn gryf hefyd dros Gymreigrwydd a thegwch i'r iaith Gymraeg. Mae'r enghraifft gyntaf isod yn dangos mor falch yw M.E. o'i Chymreictod wrth iddi ymfalchïo yng ngorchestion rhai o wragedd amlycaf Cymru; mae'r ddwy enghraifft arall yn dangos mor gadarn yw ei safiad dros yr iaith Gymraeg a'r diwylliant a'r traddodiad Cymreig:

14 Ionawr 1933

*Ein Merched Ni*

*Annwyl Ffrindiau,*

*MI ddarllenais fwy nag un ysgrif Saesneg am ferched a wnaeth enw iddynt eu hunain yn 1932, heb weled crybwyll am neb o Gymru.*

*Mae'n wir nad oes gennym ni'r un Amy Johnson - na Chymraes a all hedeg o gwbl, hyd y gwn i, - ac araf yw ein genethod i ddangos unrhyw allu hynod gyda chwarae golff, neu hoci, neu dennis.*

*Mewn cylchoedd mwy distaw, modd bynnag, mae gennym liaws o ferched sy'n ennill edmygedd eu chwiorydd am y gwaith da a wnânt.*

*Efallai mai enw Mrs. Ifan ab Owen Edwards fydd amlaf ar wefusau'r oes sy'n codi. Prin y bu gan unrhyw ferch erioed yng Nghymru gylch o ddylanwad mor eang, ac y mae yn un o fendithion "Cymru Fydd" fod ei phersonoliaeth fonheddig a'i sêl dros yr iaith a'r traddodiad yn offrwm gwirfodd ar allor yr Urdd.*

*Mrs. Silyn Roberts*

*Y MAE rhoi a chadw pethau mewn trefn yn dyfod yn naturiol i Gymraes, ac y mae gennym amryw sy'n amlwg yn y gangen hon o wasanaeth.*

*Dyna Mrs. Silyn Roberts, er enghraifft, trefnydd addysg pobl mewn oed yn y Gogledd, a Miss Gwenllian Morris-Jones, merch y diweddar Syr John Morris-Jones, sy'n edrych ar ôl ochr Gymreig Sefydliadau'r Merched.*

*Gallem hefyd nodi gwaith Miss Mai Roberts ynglŷn â dwyn prynwyr brethyn yn Lloegr i gyffyrddiad â gwneuthurwyr brethyn Cymreig.*

*Wrth sôn am eisteddfod a chystadlu, gwelais fod merched nid yn unig yn arwain corau, fel Awen Mai, Caergybi, ond yn torri tir newydd fel beirniaid cerddoriaeth.*

*Gwelais hanes amryw yn gweithredu felly yn ddiweddar, ac yn eu mysg Madame Ceridwen Lloyd Davies, Bangor, sy'n ennill cryn enw iddi ei hun yn y Gogledd.*

*Mae gennym hefyd ein darlithwyr tra derbyniol megis Miss Magdalen Morgan, o Goleg Abertawe, a Dr. Gwenan Jones, o Goleg Aberystwyth.*

*Miss Kate Roberts*

*DARLLENAIS stori fer gan Miss Kate Roberts yn ddiweddar yn dangos bod ei hathrylith mor fyw ag erioed; ac fe gafwyd llyfrau yn ystod y*

*flwyddyn, y gallwn fel merched ymfalchïo ynddynt, gan Mrs. Gwenda Gruffydd a Moelona.*

*Dyna lyfrau Mrs. Peters-Roberts hefyd, wedi eu cyfieithu o'r Eidaleg - 'Savonarola' a 'The Mystics of Sienna'. Un o Gaergybi ydoedd hi gynt, merch y Parch. Owen Hughes, Kingsland. Rhaid i mi grybwyll mwy nag un stori addawol o waith merch a ddarllenais i yn 'Y Ford Gron' yn ystod y flwyddyn - un gan Miss Dyfnallt Owen; a phwy na fwynhâ benillion pert Miss Marian Williams ar dudalen plant 'Y Cymro'?*

### *Y Ddrama a Miss Megan*

*YM myd y ddrama yr ydym oll yn disgwyl llawer oddi wrth ymdrechion Miss Evelyn Bowen a Mrs. C. P. Williams i sefydlu theatr Genedlaethol.*

*Pwy a amheua fedr y Cymry fel actorion wedi gweled Miss Edith Evans, a Miss Gwen Ffrancon Davies? Mae gennym bellach enwau Miss Diana Morgan, Miss Kathleen Nesbit, a Miss Jane Vaughan i'w hychwanegu at y cwmni o Gymry sy'n cael clod ar lwyfannau Llundain.*

*Ac mewn dosbarth ar ei phen ei hun mae gennym Miss Megan Lloyd George, yr un mor gartrefol yn areithio ar Owain Glyn Dŵr ddydd y coffa yng Nglyn Dyfrdwy ag yn amddiffyn hawliau pobl y tir ar lawr Tŷ'r Cyffredin.*

*Fe'i penodwyd hi'n aelod o bwyllgor y Radio, ac fe ellir gobeithio felly y bydd y rhaglenni newydd yn fwy Cymreig eu lliw nag a fuont.*

## 4 Mawrth 1933

### *Y Merched A'r Gymraeg*

*GWELAF fod Undeb y Cymdeithasau Cymreig yn gofyn i Sefydliadau'r Merched beidio ag anghofio'r iaith ynglŷn â'u gwaith.*

*Efallai fod y ffaith mai dan yr enw 'Women's Institutes' yr adnabyddir hwy yn arwydd go dda o le'r mudiad hwn ym mywyd merched Cymru.*

*Ni fynnwn i am y byd ddibrisio eu dylanwad da mewn llawer cyfeiriad. Mewn llawer ardal fe ddaethant â'r merched i gydnabyddiaeth gymdogol â'i gilydd, heb wahaniaeth plaid nac enwad. Fe agorodd ddrysau newydd i ddwylo celfydd, a dangos i lawer merch ei gallu ei hun. Bu hefyd yn fantais i lawer o ferched ymgydnabyddu â'r Saesneg, oherwydd er mwyn hunan-ymddiried, rhaid bod yn hyddysg yn y ddwy iaith heddiw.*

*Ond oni ddylai arweinwyr y mudiad gofio, wedi'r cwbl, mai yng Nghymru ac nid yn Lloegr y maent, a bod yr un mor foesgar â merched Cymru ynglŷn â siarad y ddwy iaith?*

*Pe buasent wedi digwydd myned i Ffrainc i fyw a dymuno gwneud gwaith tebyg, buasent wedi dysgu iaith y wlad honno heb feddwl ddwywaith am y peth.*

*Pe canfyddid tuedd yn y merched Seisnig yn unrhyw ardal i wfftio'r syniad o ddysgu Cymraeg fe ddylid gwrthwynebu'r mudiad. Gresyn fyddai i waith da'r Sefydliadau gael ei luddias felly.*

## 15 Ebrill 1933

### *"Welsh Week" Tref Lan Môr*

*Annwyl Ffrindiau,*

*FE wyddwn fod Bae Colwyn, y dref lan-môr yn y Gogledd, wedi myned yn dref bur Seisnigaidd, ond ni thybiais ei bod wedi Seisnigo cymaint ag i gael "Welsh Week" ym mis Mehefin fel atyniad!*

*Meddyliwch am Blackpool neu Brighton yn cael "wythnos Seisnig"! Yr un fath o fympwy wirion sy'n peri agor "Ye Olde Englishe Tea-shoppe" mewn ambell le yn Lloegr.*

*'Rwy'n gobeithio na rydd Cymry Colwyn Bay ddim o'u cefnogaeth na'u cynhorthwy i'r syniad o gael "Welsh Week" yn eu hardal brydferth hwy.*

*Mae pob wythnos, haf a gaeaf, yn wythnos Gymreig lle mae'r iaith a'r traddodiad yn cael eu harddel a'u parchu. Y diffyg ar drefi'r glannau môr ydyw eu bod yn hanner cuddio'r bywyd naturiol Cymreig dan feddwl eu bod yn plesio ymwelwyr trwy wneud hynny!*

*'Dyw pobl Ffrainc a'r Yswisdir ddim yn celu dim ar eu bywyd a'u hiaith. Fe wyddant fod hynny yn atyniad ynddi ei hun i'r miloedd dieithriaid fydd yn ymweled â'r gwledydd hynny. Byddant yn mwynhau gweled a chlywed rhywbeth gwahanol i'r hyn a welant ac a glywant gartref.*

*Fe dynnid llawer o ymwelwyr nid yn unig o Loegr ond o wledydd eraill i Gymru pe bai'r bywyd naturiol Cymreig yn fwy amlwg.*

*Ond peth arall hollol ydyw gwneud sioe am un wythnos o'r bywyd Cymreig fel pe bai yn rhywbeth od neu ddigrif, fel syrcas neu "Punch and Judy".*

*Gwrthun i bob Cymraes dwymgalon ydyw gwneud hen ddefodau ac arferion annwyl yn bethau i'w gwamal, a rhoi cyfle i'r papurau Seisnig sôn yn wawdlyd am "Wales going native".*

*Fe all merched Bae Colwyn rwystro'r anfri hwn os mynnant.*

Yn ei cholofn yn Y Cymro 16 Rhagfyr 1933 gofynnodd M.E. i'w darllenwyr ystyried y cwestiwn, 'Pwy yw'r Ugain Merch Fwyaf Diddorol?', a hynny'n dilyn cyhoeddi llyfr newydd, A Gallery of Women, cronicl o ferched diddorol ac adnabyddus Prydain, a gynhwysai ddim ond un wraig o Gymru, sef Arglwyddes Rhondda. Gofynnodd i bobl anfon ati restr o ugain o'r merched mwyaf diddorol ym Mhrydain gan sicrhau fod o leiaf bump ohonynt yn Gymry, a byddai'r sawl a fyddai yn ei barn hi'n anfon y rhestr orau'n cael dewis gwerth coron o lyfrau fel gwobr. Dyma'r canlyniadau fel yr ymddangosent yn Y Cymro 13 Ionawr 1934:

*Y Gystadleuaeth Enwi Merched Diddorol*

*Annwyl Ffrindiau,*

*CEFAIS bleser digymysg wrth fynd trwy'r llu atebion i'r cwestiwn a roddais y mis diwethaf, sef, "Pwy yw'r ugain merch mwyaf diddorol ym Mhrydain Fawr, yn cynnwys pump o Gymry?"*

*Fe ddaeth atebion o bob parth o Gymru (ond Sir Fôn!) ac o'r tu allan, a braint oedd cael edrych megis trwy res o ffenestri newyddion i mewn i feddyliau cynifer o ferched Cymru heddiw.*

*Enwi Dros 140*

*FE aeth amryw o'r ymgeiswyr allan o'r gystadleuaeth trwy ddwyn i mewn*

*enwau merched a fu feirw, neu enwau pobl fel Helen Keller, Mary Pickford, sydd heb fod yn perthyn i Brydain.*

*Rhoddodd rhai enw Arglwyddes Rhondda ymysg y Saeson ac eraill ymysg y pum Cymraes, a bu raid imi benderfynu mai'r dosbarth cyntaf oedd yn iawn, gan fod y wraig hon wedi ymddieithrio bron yn llwyr oddi wrth Gymru.*

*Rhwng pawb fe awgrymwyd agos i ddeugain o ferched Cymreig a thros ddwbl hynny o Saeson sydd yn teilyngu anrhydedd. Er mwyn fy modloni fy hun ar y farn "boblogaidd", fe gyfrifais y pleidleisiau, a dyma'r ugain a ddaeth yn flaenaf, gan ddechrau gyda'r Frenhines a rhoddi'r pum Cymraes yn olaf:-*

*Y Frenhines.*
*Y Dywysoges Mary.*
*Duces Yorc.*
*Arglwyddes Oxford.*
*Arglwyddes Astor, A.S.*
*Arglwyddes Snowden.*
*Arglwyddes Rhondda.*
*Miss Maude Royden.*
*Miss Ellen Wilkinson.*
*Miss M. Bondfield.*
*Miss S. Lawrence.*
*Dame Sybil Thorndike.*
*Mrs. Amy Mollison.*
*Mrs. Rosita Forbes.*
*Miss Gracie Fields.*

*Miss Megan Lloyd George, A.S.*
*Dame Margaret Lloyd George.*
*Miss Kate Roberts.*
*Madame Leila Megane.*
*Dr. Gwenan Jones.*

## *Nofelyddion*

*FEL y gwelir, merched "enwog" sydd yn yr adran Saesneg, er bod llawer ohonynt yn eithaf "diddorol" o ran hynny. Y mae llawer o'r rhestrau a anfonwyd i mewn yn rhagori ar hon ac yn dangos ehangach chwaeth a diwylliant barn. Nid oes, er enghraifft, yn yr ugain a enwyd uchod yr un awdur Seisnig, ond y mae amryw o'r ymgeiswyr yn enwi Eethel Mannin, Sheila Kay Smith, V. Sackville West, ac Evelyn Underhill.*

*Cymharer drachefn y merched a gyflawnodd rywbeth ym myd celfyddyd, fel Lady Hilton Young, y cerflunydd; Miss Elizabeth Scott, y pensaer; ynghyd â'r merched a'u hynododd eu hunain gyda gwaith mewn rhyw adran o'r maes cymdeithasol megis Mrs. Sidney Webb, Miss Rathbone, Dr. Marie Stopes, Mrs. Cecil Chesterton, a'r Commander M. S. Allen - yr oedd yn dda gennyf weled eu henwau hwythau mewn mwy nag un o'r rhestrau.*

## *Cymry A Enwyd*

*YMYSG y Cymry yr oedd enw'r aelod anrhydeddus dros Sir Fôn yn naturiol ar bron bob rhestr, ac yn ychwanegol at yr enwau yn y rhestr uchod yr oedd yn bleser gennyf weled amryw bleidleisiau dros Miss Rosina Davies; Madame Clara Novello Davies; Mrs. Silyn Roberts; Moelona; Winnie Parry; Mair Ogwen; a Miss Edith Evans, yr actres.*

*Ymysg enwau eraill a awgrymwyd fel rhai teilwng i'w cynnwys yn y rhestr fe geid Miss Gwen Ffrancon-Davies, y brif-athrawes Ellen Evans,*

*Miss Magdalen Morgan, Ceridwen Peris, Megan Ellis, Mrs. Ifan ab Owen Edwards, Miss Margaret Lindsay Williams, Miss Ceridwen Gruffydd, Awen Mona, a Miss Nansi Richards (Telynores Maldwyn).*

*Danfonwyd rhestrau da iawn gan "Mirella", M.E. (Llanafan) a Mrs. Thomas, Liskeard, Cernyw (Cornwall). Nid oes yr un ohonynt yn hollol ddelfrydol, ond fe ddaw "Mirella" yn agosach na'r lleill, ac iddi hi y dyfernir y wobr. Danfoned "Mirella" ei henw llawn a'i chyfeiriad.*

*Ymgais Wreiddiol*

*ER ei bod allan o'r gystadleuaeth cefais fwynhad wrth ddarllen ymgais wreiddiol o Grove Park, Lerpwl. Mynnai hon gynnwys ymysg y merched mwyaf diddorol y rhai a ganlyn:-*

*Gwraig y glowr - "am fod ei waith mor beryglus"; gwraig y di-waith - "dim arian a dim gobaith"; gwraig gwas fferm - "gorfod cadw teulu ar 30/- i 35/- yr wythnos"; a geneth siop ddillad - "rhaid iddi ddangos popeth yn y siop ac wedyn ni fydd dim yn siwtio."*

*Ymysg y merched a enwir ganddi y mae Arglwyddes Yule, "am fod ganddi ddigon o bres i dalu £15,000 i gadw yacht"; "Lady Announcer" y B.B.C. "am mai merched fu yn achos i'w hanfon o'i swydd"; gwraig G.B.S. "mae'n debyg y gŵyr bob gair o'r 'Intelligent Woman's Guide to Socialism'"; ac Anne Grey, yr actres, "the best dressed woman in England."*

*Mae'n dda gennyf weled hefyd fod yr ymgeisydd o Grove Park yn rhoi yn uchel ar ei rhestr "Fy mam - yr orau yn y byd."*

Dyfynnwyd uchod enghreifftiau o ddarllenwyr yn anfon at M.E. i gael ei chyngor ar ryw fater neu'i gilydd, a hithau'n eu hateb ar ddiwedd y golofn 'Oddi wrth Ferch at Ferch' yn wythnosol. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'n benodol at un llythyr arbennig a gyhoeddwyd ar dudalen y merched o'r Cymro 12 Mai 1934 gan ei fod efallai yr un cyntaf o'i fath yn yr iaith Gymraeg; llythyr ydyw gan ferch a adwaenai ei hun fel 'Gretta' yn ymwneud â mater hynod bersonol iddi, ac wrth gloi ei llythyr erfynia ar i M.E. ei chynorthwyo i wneud y penderfyniad cywir:

*Annwyl M.E. - Hoffwn gael eich cyngor ar fater sy'n pwyso'n drwm arnaf. Yr wyf yn 23 mlwydd oed, yn ferch i weithiwr, ond drwy gael ysgoloriaeth wedi cael mantais addysg coleg ac wedi cyfaddasu fy hun i fod yn athrawes ieithoedd. Dywed fy nrych fy mod nid yn anolygus fy ngwedd, ac yr wyf yn 'boblogaidd', fel y dywedir, ymhlith dynion.*

*Yn wir, y mae un ohonynt yn arbennig eisiau fy mhriodi, ac y mae mewn safle dda, yn berchen busnes llwyddiannus, ac yn gallu fforddio cadw motor, etc. Ond mae yna fachgen arall, ac i hwnnw y rhoddais fy serch, ers blwyddyn neu ragor. Yr oeddym yn gyd-efrydwyr, a syrthio mewn cariad â'n gilydd - yr oedd yn rhamant gwirioneddol. Fedra i ddim mynegi i chwi y cyfaredd a ddygodd hyn i fy mywyd.*

*Ond nid oes olwg am briodi am y rhawg. Mae ef yn uchelgeisiol ac am wneud enw iddo ei hun yn y gyfraith, fel bargyfreithiwr. Golyga hyn efallai saith neu wyth mlynedd o baratoi ac o weithio cyn y gall feddwl am briodi. Ac erbyn hynny byddaf fi dros fy neg-ar-hugain, ac er fy mod yn siŵr o fy nghalon fy hun, ac yn parhau yn ffyddlon, ac aros, beth pe*

*collai ef ei serch ataf yn y cyfamser, a gweled rhywun arall?*

*Yn awr chwi welwch fy anhawster. Dyma gennyf gyfle i setlo i lawr a chael gŵr caredig a chartref a phob cysur ar unwaith, a rhaid imi gyfaddef fod y pethau hyn yn gryn atyniad. Ar y llaw arall fe olygai hynny ffarwelio ag unig serch fy mywyd a chau'r ffenestr am byth ar oleuni'r haul, mewn un ffordd. Beth gynghorech chwi imi wneud? Mae gennyf eisiau bod yn deg at bawb, ac ataf fy hun hefyd. Ond mae'r galon yn tynnu un ffordd a'r pen yn tynnu ffordd arall, nes yr wyf bron drysu. Gobeithiaf yn fawr y gallwch ddangos pen y ffordd iawn imi. -*

*Yr eiddoch, etc.,*

*GRETTA.*

Yr hyn sy'n ddiddorol am y llythyr hwn yw fod 'Gretta' yn amlwg yn gweld M.E. fel modryb ofidiau: yr 'agony aunt' sydd mor gyffredin yn ein papurau a'n cylchgronau erbyn heddiw ond a oedd yn ffenomenon gymharol newydd ym mlynyddoedd cynnar y 30au, ac yn sicr felly yn y Wasg Gymraeg; dyma enghraifft felly o'r Cymro yn arloesi mewn maes nad ymdriniodd yr iaith Gymraeg ag ef yn flaenorol. Wrth gwrs, diniwed iawn yw'r llythyr hwn o'i gymharu â'r holl lythyrau yr ydym wedi hen arfer eu darllen yn y wasg (Saesneg ar y cyfan) bellach, llythyrau sy'n trafod materion rhywiol a meddygol â manylion graffig nad ydynt yn gadael dim i'r dychymyg; nid yw hynny fodd bynnag yn newid y pwynt sylfaenol bod M.E. a'r Cymro'n cynnig rhywbeth newydd i'r gynulleidfa Gymraeg. Ynglŷn â'i hateb i'r llythyr, meddai Myfanwy:

*Wel, dyna'r broblem, ac yr wyf yn sicr y bydd y lliaws, fel finnau, yn cydymdeimlo â "Gretta" - nid nad ydyw y cwrs priodol iddi yn hollol eglur yn ôl fel yr edrychaf fi ar fywyd heddiw. Ond yr wyf am wahodd fy ffrindiau i ddweud eu barn yn gyntaf. Yn awr byddwch yn rhydd, a dywedwch mewn llythyr ataf beth a wnaech chwi pe yn lle "Gretta".*

*M.E.*

Gwelir felly bod M.E. yn llwyddo i osgoi ateb y llythyr yn uniongyrchol wedi'r cwbl, er ei bod serch hynny'n rhoi awgrym o'r hyn y byddai hi ei hunan yn ei wneud pe bai yn sefyllfa 'Gretta'! Yn ystod yr wythnosau dilynol ymddangosodd sawl llythyr, yn cynnwys rhai gan ddynion, yn y colofnau 'Oddi wrth Ferch at Ferch' yn cynnig gwahanol gynghorion iddi, rhai'n gryf dros iddi briodi ar unwaith ac eraill yr un mor benderfynol y dylai aros a phriodi ei gwir serch. Ys gwn i beth benderfynodd 'Gretta' ei wneud yn y diwedd?!

Daeth y golofn 'Oddi wrth Ferch at Ferch' i ben yn Y Cymro 30 Mehefin 1934 gyda'r nodyn byr hwn:

*Diolch i'm Ffrindiau*

*YR wythnos hon yr wyf yn ffarwelio am ryw hyd â fy ffrindiau yn Nhudalen y Merched. Cefais hyfrydwch o'u hadnabod, ac yr wyf yn diolch i'r lliaws sydd wedi ysgrifennu mor fwyn ataf yn ystod y deunaw mis y buom yn cyfeillachu drwy'r Ddalen.*

*Rhoddwyd imi lawer cipolwg newydd ar feddyliau a dyheadau merched ifanc Cymru, a byddaf yn dilyn cwrs eu datblygiad gyda diddordeb mwy nag erioed.*

*M.E.*

Gadawodd 'Oddi wrth Ferch at Ferch' fwlch mawr ar ei hôl yn Y Cymro wedi hynny gan y buasai, mi dybiaf, wedi profi'n boblogaidd iawn ymysg darllenwyr Y Cymro. Credaf fod tri rheswm am hyn:

(1) Oherwydd bod Myfanwy Eames yn trin a thrafod materion a fyddai o wir ddiddordeb i ferched y cyfnod, yn rhoi gwybodaeth iddynt ynglŷn â'r dillad a'r ffasiynau diweddaraf, ryseitiau bwydydd, cynghorion ymarferol ynglŷn â'r tŷ, ynglŷn ag afiechydon ac ati: hynny yw, y cynnwys 'arferol' sydd wedi llenwi'r tudalennau merched ar hyd y blynyddoedd.

(2) Oherwydd bod y golofn yn adlewyrchu'r 'gymdeithas newydd' yr oedd merched yr oes yn byw ynddi. Cyfeirir uchod at y ffaith bod Myfanwy Eames yn ymwybodol iawn bod yr hinsawdd gymdeithasol yn newid yn sylweddol, wrth i ferched ennill mwy o gydraddoldeb a mwy o annibyniaeth nag erioed o'r blaen; adlewyrchwyd hynny yn ei cholofn gan y rhoddai sylw rheolaidd i gyraeddiadau diweddaraf y ferch a'i statws newydd mewn cymdeithas ac nid oes amheuaeth na fyddai darllenwyr benywaidd Y Cymro wedi bod yn falch iawn o ddarllen am y newid hwn y buont mor hir yn disgwyl amdano.

(3) Yn bwysicach na dim, oherwydd bod Myfanwy Eames wedi llwyddo i lunio tudalen wythnosol a oedd yn gyfeillgar a chartrefol ac a wnâi i'r darllenwyr unigol deimlo'n rhan o un 'teulu' mawr: byddai'n eu cyfarch yn wythnosol ag 'Annwyl Ffrindiau', a dyma oedd naws gweddill y dudalen. Yr un mor bwysig oedd y ffaith bod Myfanwy Eames yn trin ei chyd-wragedd fel darllenwyr deallus ac aeddfed a allai benderfynu drostynt eu

hunain: nid oedd yma unrhyw arlliw o fod yn nawddoglyd.

*'Papur y Plant'*
*gan Gwyn ap Nudd ac Elidyr*

Un o dudalennau mwyaf cofiadwy Y Cymro yw'r un a neilltuwyd yn wythnosol ar gyfer y plant ac a elwid yn syml yn 'Papur y Plant', tudalen debyg o ran ei ffurf i 'Chums' League' y Wrexham Leader. Meredydd Roberts oedd yn gyfrifol amdani ond ysgrifennai dan y ffugenw 'Gwyn ap Nudd'; meddai yn ei lythyr cyntaf o 'Bapur y Plant' 3 Rhagfyr 1932:

> *Annwyl Ffrindiau,*
>
> *HYFRYD i mi yw ysgrifennu gair atoch chwi, blant Cymru.*
> *Yr ydym am gael tudalen gyfan o'r 'Cymro' i ni'n hunain, a bydd yn dda gennyf os anfonwch ataf i ddweud eich anawsterau, ac am y pethau hoffech chwi eu gweld, a byddaf yn falch iawn o'ch helpu.*
> *Bydd rhai o'r llythyrau hyn yn cael eu hargraffu ar y tudalen hwn. Gyda'n gilydd, fe wnawn dudalen da, oni wnawn ni?*
> *Bydd gennym gystadleuaeth yn aml. I gychwyn, rhoddaf lyfr am y map gorau o Gymru, oddeutu chwech i wyth modfedd o hyd, yn dangos y siroedd, y prif drefi, a'r afonydd. Ond rhaid i chwi fod dan 11 oed i gystadlu yn y gystadleuaeth hon. Anfonwch y map i mi, yn Swyddfa'r 'Cymro', Wrecsam, erbyn dydd Sadwrn, Rhagfyr 10.*
> *Yn awr, pob hwyl i chwi i sgrifennu llythyr ac i dynnu llun y map.*
>
> *Yn ddiffuant,*
> *GWYN AP NUDD.*

Gwelir ar unwaith felly bod pwyslais cryf ar i'r plant eu hunain gyfrannu at eu tudalen yn Y Cymro, rhywbeth pwysig i'w cael i deimlo'n rhan ohoni ac i feddwl mai eu tudalen arbennig hwy oedd 'Papur y Plant'; yn fwy na hynny dibynnai holl lwyddiant y dudalen ar ymateb y plant iddi ac felly yr oedd hi'n hanfodol bwysig bod y dudalen nid yn unig yn ddigon difyr i apelio atynt yn y lle cyntaf, ond ei bod yn gwneud hynny mewn modd cartrefol a chyfeillgar ac a fyddai'n eu hysgogi i anfon eu cyfraniadau tuag ati.

O ran cynnwys, yr oedd 'Papur y Plant' yn gorfod difyrru plant o bob oedran, ond yn ogystal â hynny ceisiai eu haddysgu ac ehangu eu gwybodaeth a'u gorwelion. Llwyddai i gyfuno'r ddau beth yn effeithiol iawn ac mae'n siŵr bod llawer o ddarllenwyr ieuainc y dudalen nid yn unig wedi cael eu difyrru a'u diddanu'n wythnosol ond hefyd wedi dysgu llawer heb hyd yn oed sylweddoli hynny! Cynhwysid amrywiaeth helaeth o eitemau o wythnos i wythnos, nifer ohonynt gan y darllenwyr eu hunain, megis llythyrau, jôcs, dychmygion, posau, rhigymau, hwiangerddi,

penillion, diarhebion, priod-ddulliau, anagramau, 'tongue-twisters', geiriau mwys, eitemau bychain 'A Wyddoch Chwi?', stribedi cartŵn, cyfieithiadau o'r Ffrangeg i'r Gymraeg, a phob math o straeon amrywiol yn cynnwys chwedlau, damhegion, straeon hanesyddol, straeon o'r Beibl, straeon o fyd natur, straeon o'r Mabinogi, straeon clasurol, straeon dychmygol, straeon digrif, heb sôn am luniau, diagramau, mapiau ac ati.

Ym 'Mhapur y Plant' 15 Medi 1934, â Gwyn ap Nudd ar ei wyliau, ceir **Gair Personol at Blant 'Y Cymro'** gan y golygydd yn apelio arnynt i 'barhau'n ffyddlon i'r Gymraeg' ac i arfer darllen yr iaith yn rheolaidd. Dywed mor bwysig oedd cyfraniad y plant ym mrwydr yr iaith ac eglura fel yr oedd Y Cymro ei hunan yn gwneud ei ran yn y frwydr trwy 'geisio gwneud darllen Cymraeg yn beth hawdd'. Gwelir felly nad unig nod 'Papur y Plant' oedd cael Cymry ieuainc i ymddiddori yn y dudalen ac o dipyn i beth yn nhudalennau eraill Y Cymro; yn ogystal â hynny teimlai'r golygydd fod gan y papur ddyletswydd pwysig i ofalu am ddyfodol yr iaith Gymraeg a gwneud yn siŵr bod Cymry ieuainc yn gwneud eu rhan i'w gwarchod. Yn y gair personol hwn at blant Y Cymro fe soniodd y golygydd hefyd am y cynlluniau cyffrous oedd ar droed i sefydlu clwb iddynt:

> *Annwyl Ffrindiau,*
>
> *Y MAE Gwyn ap Nudd ar ei wyliau, ac yr ydym ninnau yn ceisio gwneud rhan o'i waith drwy gyflwyno tudalen ddiddorol i blant 'Y Cymro'.*
>
> *Y mae'n debyg bod eich gwyliau chwi ar ben; bydd llawer ohonoch yn gadael yr ysgol, a llawer eraill yn mynd o'r ysgolion elfennol i'r ysgolion canolradd.*
>
> *Wrth ddymuno'n dda i chwi ar ddechrau tymor newydd yn eich hanes, y mae gennym un cais i'w wneud - a wnewch chwi barhau'n ffyddlon i'r Gymraeg? Gall plant Cymru wneud llawer i gadw'r hen iaith yn fyw, ac y mae Cymru yn disgwyl i bob un ohonoch wneud ei ran yn ei gylch bach ei hun.*
>
> *Nid yw'n ddigon gallu siarad Cymraeg - fe ddylech arfer darllen Cymraeg yn rhwydd hefyd.*
>
> *Y mae'r 'Cymro' yn ceisio gwneud darllen Cymraeg yn beth hawdd.*
>
> *A wnewch chwi, blant 'Y Cymro', ofalu ei ddarllen bob wythnos yn gyson?*
>
> *Fe wn i fod gan Gwyn ap Nudd gynlluniau gwych ar gyfer misoedd y gaeaf. Cyn bo hir, fe sefydlir clwb i Blant 'Y Cymro' gyda thocynnau aelodaeth, a chyhoeddir cynhyrchion y plant a'u darluniau ar y dudalen arbennig hon.*
>
> *Y mae'r 'Cymro' yn awyddus i ddiddori plant Cymru, a gobeithiaf y byddwch yn barod i roi pob help i Gwyn ap Nudd pan ddaw yn ôl at ei*

*waith.*

*Y GOLYGYDD.*

Ar dudalen y plant 6 Hydref 1934, tair wythnos yn ddiweddarach, ceir gair arall gan olygydd Y Cymro yn rhoi mwy o fanylion ynghylch y clwb newydd. Sylwer bod ei aelodaeth yn agored i bawb dan 18 oed ar yr amod bod yr ymgeiswyr yn fodlon cadw at reolau'r clwb (er na chyhoeddwyd y rheolau hynny yr wythnos honno); sylwer hefyd y byddai pwyslais y clwb newydd, megis â'r hen 'Bapur y Plant', ar waith yr aelodau eu hunain:

*Annwyl Ffrindiau,*

*GYDA rhifyn nesaf 'Y Cymro' bwriedir ffurfio clwb o ddarllenwyr ieuainc a gwahoddir pob un o'r plant sy'n darllen 'Y Cymro' i ddod yn aelodau ohono.*

*Enw'r clwb fydd "Clwb Plant 'Y Cymro'".*

*Bydd aelodaeth o'r clwb yn agored i fechgyn a genethod dan 18 oed, os y byddant yn fodlon i gadw rheolau'r clwb.*

*Bydd cwpon yn cael ei gyhoeddi yn y dudalen hon yr wythnos nesaf yn gofyn am fanylion ymgeisydd am aelodaeth.*

*Bydd yn ofynnol ar i bob ymgeisydd ysgrifennu ei enw, a'i gyfeiriad, yn eglur ac hefyd roddi dyddiad ei ben blwydd, ei oedran, ac enw'r ysgol y mae'n ddisgybl ohoni, ar y cwpon.*

*Anfonir cerdyn aelodaeth prydferth i bob un a wna gais am aelodaeth ac a gytuna i gadw'r ymrwymiad.*

*Hefyd fe all pob aelod brynu am bris rhesymol iawn fotwm neu fedal i ddangos ei fod yn aelod o'r clwb.*

*Fe anfonir am ddarlun o'r ymgeisydd yn yr ugain llythyr cyntaf a agorir fore Mercher, Hydref 10 i'w gyhoeddi yn 'Y Cymro' a chyflwynir anrheg o bin ysgrifennu (fountain pen) i bob un o'r ugain hynny.*

*Trefnir hefyd i wneud y dudalen hon o'r 'Cymro' i fyny o waith yr aelodau eu hunain drwy gael cystadleuaethau diddorol yn y ffurf o draethodau, llythyrau, a darluniau o waith y plant eu hunain a chyhoeddi'r goreuon.*

*Nid yw yn ein bwriad i'r clwb hwn fynd ar draws unrhyw sefydliad plant arall yng Nghymru; yn hytrach bydd croeso calon i bawb, yn fechgyn a genethod, dan 18 oed sy'n awyddus i ymuno ac yn addo cadw'r ymrwymiad, i fod yn aelodau o'r clwb.*

*Bydd y Clwb hwn dan ofal Elidyr a than ei ofal ef y bydd y tudalen hwn o'r 'Cymro'. Y mae Elidyr wedi cael profiad helaeth o drefnu tudalen plant mewn papurau newydd a'i amcan gyda'r tudalen fydd gwneuthur popeth a all, drwy gydweithrediad y plant y hunain, i wneud "Clwb Plant 'Y Cymro'" yn gyfrwng diddordeb a difyrrwch i blant Cymru a Chymry ieuainc y byd i gyd.*

*Edrychwch am y tudalen hwn yr wythnos nesaf i weld manylion pellach, a dywedwch wrth eich cyfeillion i gyd am y cynlluniau hyn.*

*Y GOLYGYDD.*

Ar 13 Hydref 1934 felly fe ddiflannodd 'Papur y Plant' gan wneud lle i'r clwb newydd â'r arwyddair 'Er Budd Darllenwyr

Ieuainc 'Y Cymro''. Edwin Williams oedd yn gyfrifol am y clwb newydd, o dan y ffugenw 'Elidyr', ac yn ei nodyn cyntaf mae'n ymhelaethu ar eiriau blaenorol y golygydd gan egluro sut i ymuno â'r clwb ac mae hefyd yn rhoi syniad bras o'r cynlluniau oedd ar y gweill. Dywed mai nod y clwb fyddai 'ennyn diddordeb darllenwyr ieuainc yn 'Y Cymro'' ac eglura mor bwysig fyddai'r teimlad o undod yn y clwb fel bod pawb yn 'sefyll gyda'n gilydd, fel un, i wneud popeth a allwn dros ein gwlad a'n hiaith':

*F'annwyl Ffrindiau,*

*FE welsoch yn 'Y Cymro' yr wythnos ddiwethaf fod Clwb Plant 'Y Cymro' i'w ffurfio.*

*Bydd y Clwb hwn yn agored i fechgyn a genethod dan 18 oed drwy Gymru gyfan a thu allan i Gymru lle bo'r 'Cymro' yn cael ei ddarllen.*

*Gan mor eang y gall cylch y Clwb fod nid oes fodd cael unrhyw adeilad mewn safle cyfleus i ni gyfarfod ac adnabod ein gilydd. Felly fe edrychir ar y tudalen hwn o'r 'Cymro' fel man cyfarfod. Yma fe gawn newid ein syniadau a darllen beth a feddyliwn am wahanol bethau, a'r ffordd i wneud hynny yw i bawb o'r aelodau ysgrifennu eu hanes eu hunain a hanes yr ardaloedd lle y maent yn byw, a chymryd rhan yn y cystadleuaethau fydd yn cael eu trefnu o dro i dro yn 'Y Cymro'.*

*Deuwn felly i adnabod ein gilydd a sefyll gyda'n gilydd, fel un, i wneud popeth a allwn dros ein gwlad a'n hiaith.*

*Y ffordd i ddod yn aelod o'r clwb hwn yw arwyddo'r cwpon isod a'i anfon i "Elidyr", Swyddfa'r 'Cymro', Wrecsam.*

*Fe anfonir tystysgrifau aelodaeth hardd dau liw i bob aelod newydd ac fe ellir cael tlws bychan del i'w wisgo ar label y got i ddangos eich bod yn aelod o'r Clwb. Fe gewch y rhai hyn am bris rhad. Fe hysbysir eto pryd y gellir anfon am y tlws.*

*Yr ydym yn awyddus iawn i bawb ddeall nad amcan y Clwb hwn yw mynd ar draws gwaith unrhyw sefydliad plant arall yng Nghymru. Clwb yw hwn i ennyn diddordeb darllenwyr ieuainc yn 'Y Cymro', yr unig bapur newydd Cymraeg sy'n trefnu tudalen gyfan ar gyfair y plant.*

*Fe gedwir enwau'r aelodau fel y deuant i mewn i'w cael ar gof a chadw yn y swyddfa.*

*Fe anfonir rhodd o bin ysgrifennu (fountain pen) i ugain o'r rhai fydd yn ymuno â'r clwb yr wythnos hon. Cesglir yr amlenni fydd wedi dod i law erbyn bore Mercher nesaf, Hydref 17, a chyn eu hagor dewisir ugain o'r bwndel ac fe anfonir y pin ysgrifennu i bob un o'r ugain hyn.*

*Yn ystod yr wythnosau nesaf sy'n dilyn fe drefnwn gystadleuaethau i'r plant hyn ac fe roddir gwobr o dyweder set ysgrifennu yn gyntaf, pin ysgrifennu yn ail, a phensil yn drydydd, ac fel y daw'r atebion i'r cystadleuaethau i law a phenderfynu ar y goreuon fe fyddwn yn anfon at y rhai buddugol am eu lluniau a gofyn iddynt ysgrifennu eu hanes eu hunain megis faint o frodyr a chwiorydd sy ganddynt; pa waith y maent fwyaf hoff ohono yn yr ysgol; beth yw prif nodweddion yr ardal y maent yn byw ynddi, etc., a chyhoeddir y cyfryw gyda'r llun o'r aelod yn 'Y Cymro' fel bo'r cyfle.*

*Yr wyf yn gobeithio y byddwch i gyd yn dod yn aelodau o'r Clwb hwn ac yn dweud wrth eich cyfeillion amdano, a hefyd yn cymryd rhan yn y gwahanol gynlluniau sydd yn debyg o fod ynglŷn â Chlwb Plant 'Y Cymro'.*

*Yr eiddoch yn gywir iawn,*

*Elidyr.*

Ar yr un dudalen cyhoeddwyd y 'cwpon' i'r darllenwyr ieuainc gael gwneud cais i ymuno â Chlwb Plant Y Cymro, a diddorol yw'r ymrwymiad yr oedd yn rhaid iddynt addo ei gadw cyn y caent ddod yn aelodau ohono. Nid yw'n annhebyg i arwyddair enwog Yr Urdd, 'Byddaf ffyddlon i Gymru, i gyd-ddyn ac i Grist', ond er bod yr ymrwymiad isod yn ymwneud â Chymru ac â chyd-ddyn, am ryw reswm nid yw'n cyfeirio at Dduw na Christ, rhywbeth annisgwyl mewn oes lle rhoddid cymaint o bwyslais ar grefydd:

*CLWB PLANT 'Y CYMRO'.*

*CAIS AM AELODAETH.*

*At "ELIDYR", SWYDDFA'R 'CYMRO', WRECSAM.*

*Yr wyf yn dymuno bod yn aelod o Glwb Plant 'Y Cymro', ac yr wyf yn addo cadw'r ymrwymiad a ganlyn:*

*I garu fy ngwlad ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymhob modd.*
*I anrhydeddu fy rhieni ac i fod yn ufudd iddynt bob amser.*
*I barchu f'athrawon ac i wneud fy ngorau yn yr ysgol.*
*I fod yn garedig at bawb ac i fod yn dyner wrth anifeiliaid.*

*Enw* ..............................................................

*Cyfeiriad* ........................................................

*Oedran* ...........................................................

*Dydd Pen Blwydd* ..................................................

*Ysgol* ............................................................

..................................

Erbyn bore Mercher yr wythnos ganlynol derbyniwyd 254 o geisiadau aelodaeth o bob cwr o Gymru, ffigwr a argoelai'n dda iawn ar gyfer y dyfodol, er bod Elidyr yn ei lythyr yn Y Cymro yr wythnos honno'n apelio ar i fwy o blant o Dde Cymru ymuno â'r Clwb gan fod mwyafrif helaeth y set gyntaf o geisiadau wedi eu derbyn o siroedd y Gogledd. Rhoddodd Elidyr fanylion i'r plant hefyd ynghylch bathodyn aelodaeth y Clwb, sef 'botwm, brooch neu stud, del iawn, i ddangos eich bod yn aelod o'r Clwb', oedd ar gael am 2g. yr un gan bob aelod, ac arno'r cynllun trawiadol o

ddraig goch ac o'i hamgylch y geiriau 'CLWB PLANT 'Y CYMRO'. I GADW'R IAITH'.

Erbyn yr wythnos ganlynol yr oedd 360 o blant wedi ymuno â'r Clwb, dros 500 ymhen wythnos arall ac felly ymlaen megis caseg eira. Erbyn hyn yr oedd fformat y dudalen wedi dechrau ei sefydlu ei hun, gyda thudalen nodweddiadol yn cynnwys gair gan Elidyr, ambell i lythyr neu gyfraniadau eraill gan aelodau o'r Clwb, rhestr o'r aelodau diweddaraf i ymuno ynghyd ag ambell lun ohonynt, a rhestr o'r plant a ddathlai eu pen-blwydd yr wythnos honno. Byddai'r dudalen hefyd yn cynnwys y gystadleuaeth, a oedd yn bwysig iawn, ac yn wythnosol byddai Elidyr yn gosod 'Camp y Clwb' i'r aelodau gael ymgeisio arni: byddai'r enillwyr yn ei farn ef yn derbyn gwobrau megis setiau ysgrifennu, ysgrifbinau, pensilau ac ati, ac yn cael cyhoeddi eu gwaith yn Y Cymro. Ond er bod rhestr aelodau'r Clwb yn cynyddu'n ddyddiol, yn rhifyn 1 Rhagfyr 1934 mynegodd Elidyr siom ynglŷn â'r niferoedd siomedig a gystadlai ar y 'campau':

> *Ychydig sy'n cymryd rhan yn y campau. Carem weld ychwaneg o lawer iawn yn cymryd diddordeb yn yr ochr hon i waith y Clwb. Nid yw'n ddigon i chwi fod yn falch o'ch tystysgrifau a'r bathodynnau. Gobeithio nad yw'r aelodau hynny sy heb gynnig y campau yn tybio bod gwisgo'r bathodyn a chadw'r tystysgrif mewn lle amlwg yn y tŷ yn ddigon. Fe ddymunem ni weld ychwaneg yn cystadlu ac yn ysgrifennu atom.*

Ar y cyfan, fodd bynnag, cafodd y Clwb dderbyniad gwresog gan blant o bob oed; mae'r enghreifftiau isod o rifyn 8 Rhagfyr 1934 yn nodweddiadol o'r math o lythyrau a dderbyniai Elidyr yn Swyddfa'r Cymro:

*Gwynfryn,*
*Tregaron,*
*Ceredigion.*

*Annwyl Elidyr, - Dyma fi yn awr, fel aelod o Glwb Plant y 'Cymro', yn ysgrifennu atoch chwi, gyda thri arall i ymuno â 'Chlwb Plant y Cymro'. Hefyd yr wyf am i chwi ddanfon tri bathodyn o ffurf 'brooch', ac un o ffurf 'stud'.*

*Rwyf yn edrych ymlaen at bob dydd Sadwrn i gael darllen tudalen y plant yn y 'Cymro'. Dydd Sadwrn diwethaf gwelais nad oedd 'camp' arall i'w chael i'w threio. A ydynt wedi diweddu? Nid wyf wedi treio dim un o'r campiau eto, ond yr wyf yn meddwl treio o hyn allan.*

*Cyn y Nadolig yr wyf yn gobeithio y bydd dros fil wedi ymuno â'r Clwb. Dim ond tri yr wyf wedi eu cael i ymuno yr wythnos hon, ond*

*gobeithiaf y caf fwy yr wythos nesaf.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*BUDDUG GRIFFITHS.*

*Isfryn,*
*Garn Dolbenmaen.*

*Annwyl Elidyr, - Os gwelwch chwi yn dda, a gaf fi fathodyn Clwb y Cymro, os oes gennych rai ar ôl? Yr oeddwn wedi meddwl gyrru i ofyn yn gynt, ond dyma fi yn gwneud o'r diwedd.*

*Diolch i chwi am eich dymuniadau da i mi ar fy mhen blwydd. Byddaf yn bedair-ar-ddeg ddydd Mercher.*

*Y mae Garn yn ymyl Cwm Pennant, y mae'n debyg eich bod wedi clywed am y lle hwn. A fuoch chwi yno tybed? Yr wyf yn siwr y buasech yn ei hoffi.*

*Terfynaf yn awr.*

*Gyda'm cofion cynnes atoch,*
*Ydwyf,*
*MEGAN THOMAS.*

*Dyma werth dwy geiniog o stamps, ni wn beth ydynt yn Gymraeg, i dalu am y bathodyn.*

*Pantrug,*
*Llwyndafydd,*
*Cross Inn,*
*Ceredigion.*

*Annwyl Elidyr, - Os gwelwch fod yn dda, anfon i mi fathodyn "Clwb Plant y Cymro". Yr wyf wedi dywedyd wrth fy ffrindiau yn yr ysgol hanes y Clwb yma, ac y mae rhai ohonynt wedi addo uno hefyd.*

*Fy ngwaith bob dydd Sadwrn yw myned i nôl y Cymro o'r siop, ac yr wyf yn myned gartref ar frys i ddarllen "papur y plant". Y mae fy nhadcu yn ei ddarllen hefyd ac yn ei fwynhau yn fawr iawn.*

*Nid ydwyf yn byw nepell o draeth o'r enw "Cwmtydu" ac yno yr ydwyf yn yr haf, yn ymolchi a mwynhau yn y dŵr. Nid oes llawer o dywod ar y traeth hwn, ond yn yr haf y mae llawer o bobl yn cyrchu yma.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*SARAH JONES.*
*Rhif 91.*

Mynega Buddug Griffiths yn ei llythyr uchod y gobeithiai weld dros fil wedi ymuno â'r Clwb cyn y Nadolig ac ni chafodd ei siomi; meddai Elidyr yn Y Cymro 22 Rhagfyr 1934:

*F'annwyl Ffrindiau,*

*DYMA ni erbyn hyn wedi dod at drothwy'r Nadolig.*

*Bu rhai ohonoch yr wyf yn siwr yn disgwyl yn awyddus iawn amdano oblegid eich bod yn arfer cael rhoddion ac anrhegion ac yr wyf yn dymuno o galon y bydd i chwi oll gael yr hyn a ddymunwch.*

*Yng nghanol eich hwyl a'ch hyfrydwch yr wyf yn siŵr y byddwch yn cofio am y plant bach hynny sy'n llai ffodus na chwi. Felly y mwynhewch*

*chwi eich breintiau eich hunain yn well.*

*Yr wyf fi'n teimlo'n llawen iawn am un peth sef yw hwnnw ein bod wedi llwyddo i gael dros fil o blant Cymru i ymuno â Chlwb Plant y Cymro wythnos cyn yr amser a roddwyd. Erbyn hyn y mae'r nifer wedi cynyddu i dros 1,050. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb am ein cynorthwyo i ddwyn hyn oddi amgylch. Nid peth bach yw cael dros fil o blant i ymuno mewn amser cymharol fyr - tri mis. Yr wyf yn gobeithio y bydd i ni gael mil arall yn fuan iawn. Gobeithio gan ein bod wedi llwyddo i gael y mil cyntaf na fydd i chwi laesu dwylo a theimlo eich bod wedi gwneud yr hyn oll oeddym yn ei ddisgwyl gennych. Ond efallai mai gwell a fydd i ni adael hynyna y tro yma a'ch annog, os yw hynny'n angenrheidiol, i anghofio popeth am waith ysgol a gwaith y Clwb a'ch mwynhau eich hunain yn iawn yn ystod y Nadolig.*

*Y mae'r Parch. Watcyn M. Price, Wrecsam, wedi anfon llythyr i'w gyhoeddi yn Nhudalen y Plant yn sôn am y Nadolig. Yr wyf yn cyhoeddi hwnnw mewn colofn arall a dichon y bydd neges y llythyr hwnnw yn ddigon i ddwyn ger eich bron bwysigrwydd yr Ŵyl.*

*Felly terfynaf fy llythyr i gyda dymuno i chwi i gyd*

*NADOLIG LLAWEN IAWN.*

*Yr Eiddoch yn bur a gwlatgar,*
*Elidyr.*

Yn nhudalen y plant o'r Cymro 21 Medi 1935 cyhoeddwyd bod 2,000 o aelodau bellach wedi ymuno â'r Clwb, ffigwr y gellid bod yn falch ohono yn ôl Elidyr ar achlysur dathlu pen-blwydd cyntaf y Clwb bythefnos yn ddiweddarach, ond un braidd yn siomedig yn ôl y disgwyliadau cyntaf:

*F'annwyl Ffrindiau,*

*DYMA ni heddiw yn dathlu pen blwydd cyntaf Clwb Plant 'Y Cymro' ac yn llawenhau fod gennym dros 2,000 o aelodau yn perthyn i'r Clwb.*

*Ystyriwn i ni gael cynifer o aelodau mewn un flwyddyn yn waith da. Er hynny fe ddywed hen ddihareb Gymraeg "Nid da lle gellir gwell". Y mae'n rhaid i ni gyfaddef ein bod wedi disgwyl y buasai llawer yn ychwaneg wedi ymuno yn ystod blwyddyn ac yr ydym yn gobeithio, gan fod llawer iawn mwy na dwy fil o blant yng Nghymru yn unig, ar wahân i'r plant Cymraeg hynny sy'n byw mewn trefi ac mewn gwledydd y tu allan i Gymru, y bydd llawer iawn o aelodau newydd yn ymuno â'r clwb yn ystod yr ail flwyddyn. Yr ydym felly yn apelio at bob aelod i ymroi ati i gael aelod newydd yr un i ymuno â'r Clwb heb golli dim amser....*

Er gwaethaf apêl Elidyr, yn araf iawn yr ymunodd y mil nesaf: fe gymerodd hyd at fis Chwefror 1938 i gyrraedd y ffigwr o 3,000. Ond er mai araf oedd cyfradd yr ymaelodi, y peth pwysig oedd bod y gyfradd honno'n parhau'n weddol gyson ar hyd y blynyddoedd: ymunodd 4,000 erbyn Awst 1940, 5,000 erbyn Chwefror 1943 a 6,000 erbyn Rhagfyr 1944. Erbyn diwedd 1945 yr oedd bron i 7,000 o Gymry ieuainc yn aelodau o Glwb Plant Y Cymro.

Yr oedd tudalen y plant yn bwysig yn Y Cymro gan iddi sicrhau bod gan y papur gynulleidfa reolaidd o ddarllenwyr ieuainc na fyddent fel arall yn debygol iawn o gymryd llawer o ddiddordeb ynddo; yn bwysicach o safbwynt y wasg Gymraeg yn gyffredinol llwyddodd i gael plant i arfer darllen Cymraeg mewn papur newydd. Llwyddodd Gwyn ap Nudd yn arbennig, mi gredaf, i lunio tudalen fywiog, ddiddorol, addysgiadol a deniadol ar gyfer y plant, ac mae'r holl ymateb a gawsai gan y darllenwyr yn dyst i'w llwyddiant. Er, yn anffodus, nad wyf yn teimlo i Elidyr gael yr un hwyl ar lunio'r dudalen, yr oedd Clwb Plant Y Cymro'n syniad gwych a chynigiai identiti mawr ei angen i ieuenctid Cymru.

*'Y Byd Heddiw'*
*gan J. H. Howard*

Un o'r colofnau wythnosol gorau a ymddangosodd yn Y Cymro oedd 'Y Byd Heddiw' gan y Parchedig J. H. Howard, colofn a ddaeth o Ddolgellau i Wrecsam gan y bu'r Parch. Howard eisoes yn ysgrifennu'n gyson yn Y Cymro blaenorol. Ganed James Henry Howard yn Abertawe ym 1876 ond amddifadwyd ef o'i rieni pan oedd yn blentyn a magwyd ef gan deulu ei fam yn gyntaf, yna yn y 'Cottage Homes' yn y Cocyd ger Abertawe ac yna gan löwr a'i wraig. Bu am gyfnod yn löwr ei hun ond penderfynodd fynd i'r weinidogaeth ac wedi cyfnodau yn Ysgol y Gwynfryn, Rhydaman, academi Castellnewydd Emlyn, Coleg y Brifysgol, Caerdydd, a Choleg Trefeca, derbyniodd alwad i eglwys Bresbyteraidd yn Abertawe. Ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa'r Porth ym 1905 ac wedi hynny bu'n weinidog mewn eglwysi yng Nghwmafon, Penbedw, Bae Colwyn a Lerpwl, cyn dychwelyd i Fae Colwyn hyd ei ymddeoliad oherwydd afiechyd ym 1947.

Yr oedd ei ysgrifau'n sylweddol a safonol: yn ymdriniaeth dreiddgar a deallus o faterion cyfoes y dydd ac yn adlewyrchiad craff a threiddgar ar bob math o bynciau'n cynnwys cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, crefydd, moesoldeb, athroniaeth, hanes a Chymreictod; yr oedd yr iaith yr un mor rhagorol â'r cynnwys, er nad Cymraeg oedd ei iaith gyntaf. Yn y rhifyn cyntaf o'r Cymro (3 Rhagfyr 1932) eglura'r Parch. Howard sut y daeth i ysgrifennu yn y papur 'am yr ail dro' fel petai; eglura hefyd beth yw nod ei golofn:

*MOLI GORMOD AR Y DYDDIAU GYNT*

*BYDD miloedd darllenwyr yr hen wythnosolyn hyglod o Ddolgellau yn estyn croeso calonnog i'r 'Cymro' newydd; canys erys bwlch mawr mewn llenyddiaeth Gymreig, ac yn yr ymwybyddiaeth genedlaethol oddi ar ddistewi cenadwri arbennig Meirion, a fu, am flynyddoedd maith yn diddori ac yn ysbrydoli'n cenedl.*

*Nid enwadol, sectyddol ac eiddo dosbarth ydoedd y papur hwnnw.*

*Amcanai, a llwyddai, i fod yn wythnosolyn gwlad gyfan, ac apeliai at bob math a dosbarth.*

*Gwyddem am Gymry o aml enwad ac mewn llawer o wledydd yn ei ddarllen yn gyson; a phan aeth ar encil, cafodd yr ysgrifennydd hwn lawer o lythyrau yn datgan gofid ac yn crefu arno ef i ymgymryd â rhedeg colofn mewn rhyw gyhoeddiad Cymraeg arall. Ond newyddiaduron Saesneg sydd wedi derbyn ffrwyth ei ysgrifbin yn y cyfamser. Ymegyr drysau fyrdd i'r 'free-lance' y tu hwnt i Glawdd Offa.*

*Papur Byw*

*SERCH hynny, pan ddaeth cais Golygydd 'Y Cymro' newydd i law, methais yn lân â'i wrthod; ac ymgymeraf â'r golofn hon eto yn galonnog gan hyderu y byddaf, fel hyn yn cyfrannu rhywbeth at adeiladaeth a diddordeb fy nghydwladwyr.*

*Un peth sydd sicr, y mae i'r papur hwn ragolygon disglair a gobeithiol. Medd y Golygydd brofiad eang, aeddfed, ac amhrisiadwy. Cynorthwyir ef gan staff medrus a brwdfrydig, ac y mae adnoddau cwmni cyhoeddwyr cryfaf Cymru y tu ôl i'r anturiaeth. Gellir gwneud 'Y Cymro' newydd yn allu mawr.*

*Nid clebar cyfundebol, neu glecyddiaeth sectyddol, neu adroddiadau tra sych, a storïau plentynnaidd a ddisgwylir mewn wythnosolyn byw; ac nid hynny a geir yma, mi wn. Mentraf aralleirio rhagfynegiad ailadeiladydd arall:-*

*"Bydd mwy gogoniant 'Y Cymro' diwethaf hwn na'r cyntaf. Braenarwyd y tir yn dda; y mae cyhoedd awyddus ac enfawr yn ei aros; ac o drugaredd nid yw yn gaeth i hualau cyfundeb, nac yn ddarostyngedig i [GAIR ANEGLUR] golygyddol enwad."*

*Ein Dydd Ni*

*CEISIO deall ac esbonio mudiadau heddiw fydd gwaith y golofn hon. Nid diwybod hollol ynghylch Hanes yw'r ysgrifennydd. Bu Hanes yn nwyd ganddo er ei febyd. Yn nhudalennau Gibbon a Green, Momsen a Macaulay, Lecky a Lloyd y mae ef wedi darganfod rhamantau mwyaf amser; ac yno y try eto am gyfarwyddyd ac ysbrydiaeth "in the maddening maze of things" ys dywedai Whittier.*

*Ond y mae digon o chwilotwyr athrylithgar ar y maes hwnnw yng Nghymru. Hynafiaetheg yw arbenigrwydd llenyddiaeth Gymreig y cyfnod hwn. Byw ar draddodiad, dathlu canmlwyddiantau, moli'r gorffennol, yr ydym Sul, gŵyl a dydd gwaith.*

*Purion hyn yn gymhedrol; gall bedydd dros y meirw iachau ysbryd y byw; ac y mae codi colofnau a gwyngalchu beddau'r proffwydi yn gymorth i ymgysegriad gwylaidd wrth allorau cewri Ffydd.*

*Ond ofnwn weithiau i'r holl ynni, y brwdfrydedd, a'r sêl a dreulir yn y cyfeiriad hwn anghymhwyso'n cenhedlaeth ni i weld dwyfoldeb y cyfnod presennol. Y mae yn ein plith eto Un sydd fwy na Solomon a mwy na'i deml, a mwy na Moesen.*

*I Lawr At Ddynion*

*CARAI Sinclair Lewis, y nofelydd enwog, weld Hwn yn dod allan. Hanes tri amryliw y brif-eglwys, lawr i ganol miri dynion. Hoffem ninnau ddilyn ei gam Ef ym mywyd gwerin yn awr.*

*Heddiw yw dydd iachawdwriaeth i ni; am ein cyfnod yr ydym yn gyfrifol i ddyn ac i Dduw. Y mae deall arwyddion yr amseroedd yn fwy angenrheidiol na darllen yr wybren, a dathlu'r hyn a fu.*

*Wrth gwrs, bydd eisiau ffydd ac anturiaeth i wneud hyn; ac yr ydym yn debyg o wrthdaro yn erbyn elfennau a thueddiadau ceidwadol. Diddorol yw hynafiaethydd, ac nid yw yn tramwyddo neb; peryglus yw llwybr archwiliwr i'w gyfnod ei hun. Meddylier am y rhai fu'n dinoethi trais y ffatrïoedd a'r glofeydd, ac anfadwaith caethwasiaeth ffyrnicaf y Congo a Putemazo...! Y mae'r driniaeth gafodd E. T. Stead, G. R. Sims, E. D. Morel, etc., o fewn cof llawer iawn o ddarllenwyr 'Y Cymro'.*

*Serch hynny, nid ffyddlon y wasg i'w chenhedlaeth uchaf os metha yn y cyfeiriad hwn. Nid cyfnodolyn hynafiaethau fydd 'Y Cymro' newydd; goleuni hydreiddia i gonglau cymdeithas ydyw. Ceisir gweld a deall, ac esbonio ysgogiadau mawr y dydd.*

*Pwysig yw ffaith, ond egwyddor sydd fwy. Trwstfawr fydd digwyddiad;*

*nid yw ond megis damwain mewn mudiad. Colli brwydr ac ennill rhyfel; croeshoeliad ar y llwybr i orsedd y bydysawd; bedd yn ddrws i fywyd mwy - dyma ychydig o drawsddodiaid (antitheses) gorymdaith gwareiddiad.*

*Talleyrand*

*AMHOSIBL i ohebydd fod yn ddi-duedd. Medd pob dyn rywbeth ar angorfa enaid ac egwyddorion llywodraethol; a daw y rhai yma i'r golwg mewn osgo, a thuedd a phwyslais - bron yn ddiarwybod canys aethant yn rhan o bersonoliaeth. Afraid i mi felly addo bod yn amhleidiol yn y golofn hon mwy na mewn cysylltiadau eraill.*

*Daeth tri llyfr i'm llaw yn ddiweddar, sydd yn cyffwrdd â gogwydd ysbryd. Bywgraffiad newydd Talleyrand gan Duff Cooper yw'r cyntaf. Gwladweinydd mwyaf Ewrop am ddeugain mlynedd oedd y Ffrancwr hynod yma. Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Tramor o dan y Frenhiniaeth, yn ystod y chwyldroad; ac yn enw'r ymerodraeth. Efe roddodd ei gyfle i Napoleon; efe hefyd fu'n gyfrwng amlwg yn niorseddiad y gŵr oedd yn ddychryn i'r byd. Gweithiodd yn egnïol i sicrhau annibyniaeth Awstria, undod Poland, ac i ennill cyfeillgarwch a chyfathrach Prydain a Ffrainc.*

*Ei freuddwydion ef gan fwyaf a sylweddolwyd gan mlynedd yn ddiweddarach yng nghytundeb Versailles. Ond dyfarnai Talleyrand na ellir cysylltu moeseg a gwladweiniaeth. Credwn ni, ar y llaw arall, mai'r ysgariad yma sydd wedi achosi barbariaeth, anwareidd-dra a chreulonderau Hanes.*

*Bywyd Mr. Winston Churchill*

*'THOUGHTS and Adventures' Mr. Winston Churchill oedd yr ail lyfr; ac fel popeth o'i ysgrifbin ef, derllyn fel rhamant; canys bwrw dros ei yrfa gynhyrfus ei hun y mae: y milwr, y llenor, a'r gwleidydd sydd yn prancio o'n blaen.*

*Cyfeddyf ei gamsyniadau, ond diolch a wna am arbrawf bywyd sydd eto yn dal gobeithion disglair. Teyrngarwch i weledigaeth yr awr yw ei ddiffiniad o gysondeb (yr un fath ag Emerson).*

*Nid ymlyniad gwasaidd wrth y gorffennol sydd eisiau. Newidier plaid, eglwys a mudiad os bydd y weledigaeth yn galw. "Consistency is the last weakness of a noble mind." Bydd ffyddlon i weledigaeth heddiw, a gâd i'r meirwon gladdu'r meirw. Y mae newid barn mor naturiol â newid dillad weithiau.*

*'The Church and the World', gan Esgob Durham oedd y drydedd gyfrol. Byrdwn y llyfr ydyw gweriniaeth Gristnogol fel gobaith byd ac eglwys - gweriniaeth mewn bywyd a chymdeithas, addysg a gwladweiniaeth, llafur a chyfalaf. Delfrydau Crist yn cael eu gweithio allan ym mudiadau gwerin a rydd i ni wareiddiad iach a saif.*

*Moeseg efengylaidd a mudiadau'r cyfnod, gweledigaeth gymdeithasol yn y presennol, ynghyd â safbwynt gweriniaeth gristnogol a ddyry gyweirnod i'r golofn hon.*

Fel y gwelir o'r ychydig enghreifftiau isod, un peth sy'n nodedig ynglŷn â cholofn 'Y Byd Heddiw' yw ei bod, er yn ymdrin â phob math o faterion amrywiol, nifer ohonynt yn astrus a chymhleth, yn rhwydd i'w dilyn ac yn hynod ddarllenadwy. Hyd yn oed os yw'r Parch. Howard yn ymdrin â rhyw faterion gwleidyddol dwys, neu syniadau ac athroniaethau gwahanol bobl, anaml y mae'n

colli gafael ar y darllenydd cyffredin, rhywbeth sy'n deyrnged i'w ddawn ryfeddol fel ysgrifennydd. Mae'n amlwg yn ŵr eithriadol o alluog, a dysgedig iawn hefyd (sylwer mor aml y cyfeiria yn ei golofn at y llyfrau a ddarllenodd yn ystod yr wythnos a fu), ond er gwaethaf ei ysgolheictod mae hi'n parhau'n golofn a fyddai mi dybiaf wedi apelio at lawer o ddarllenwyr cyffredin Cymro'r oes, rhywbeth sydd mewn gwirionedd yn gymaint o deyrnged iddynt hwythau ag ydyw i Mr. Howard.

Yn wir, yr hyn sy'n anhygoel o ystyried patrymau darllen cyfoes yw y byddai colofn megis 'Y Byd Heddiw', a ystyrid yn drwm erbyn heddiw, wedi cael darlleniad brwd gan werin gyffredin y cyfnod a brynai newyddiaduron Cymraeg, gan ddangos mor ddiwylliedig a dwfn eu meddwl oedd llawer o'r bobl gyffredin. Mae'n rhaid wynebu'r ffaith syml amdani na fyddai colofn o'r fath yn apelio at lawer o ddarllenwyr cyffredin heddiw.

Oherwydd maint 'Y Byd Heddiw' nid yw'n ymarferol i mi ddyfynnu llawer ohonynt, trueni eithriadol gan eu bod oll wedi eu hysgrifennu mor gampus ac yn ymdrin mor dreiddgar â'r gwahanol bynciau. Fodd bynnag, gobeithio y bydd yr ychydig enghreifftiau isod, er na fyddant yn gwneud cyfiawnder â'r golofn, o leiaf yn rhoi rhyw flas ohoni gan ddangos mor eang oedd ei hystod, mor gampus y'i hysgrifennwyd, mor ddeallus oedd y Parch. Howard ac mor Gristnogol a dynol, yn yr ystyr orau, oedd ei safbwyntiau; mae'n werth sylwi hefyd ar y Cymraeg coeth, blodeuog, sy'n llifo o'i ysgrifbin. Mae'r dyfyniad cyntaf o'r Cymro 31 Rhagfyr 1932 yn enghraifft o ddawn ysgrifennu'r Parch. Howard ar ei gorau; medrai saernïo'i ysgrif yn y fath fodd fel bod llinyn cyswllt cyson yn rhedeg drwyddi ac yn cysylltu'i hagoriad a'i chlo:

*GWELED Y MÔR*

*MEWN hen draddodiad, neu chwedl, darllenwn i dywysog Dwyreinig anfon tri o'i feibion i ddringo mynydd uchaf ei wlad, a cheisiodd ganddynt gario rhyw brawf adre er mwyn dangos uched dringfa pob un.*

*Yn yr hwyrddydd cyntaf dychwelodd y mab hynaf â swp o flodau prydferth a phersawrus yn ei law. Awyrgylch y rhos, y lili, a'r grug oedd wedi ei ddenu a'i gadw. Gardd oedd y mynydd iddo ef, a pherarogl a lynai wrth ei wisg.*

*Y bore nesaf, croesawyd yr ail wron yn ôl. Dyrnaid o ddiamynt a meini gwerthfawr oedd yn ei law ef, canys dringodd uwchlaw cyhydedd y*

*llysieuol; bu ar lethrau serth nad adnabu rhosyn a thu hwnt i lwybrau grug; a, thrwy wrhydri, llafur, a dyfalbarhad, casglodd gyfoeth enfawr o fynwes yr hen fynydd.*

*Aeth wythnos heibio cyn i'r trydydd mab ymdreiglo dros drothwy'r palas. Gwelw oedd ei wedd, carpiog ei wisg, a gwelwyd gwaed ar ei ddwylo a'i draed. Nid oedd ganddo na blodeuyn na diamwnt i'w gynnig i'r tad; ond pelydrai goleuni dieithr yn ei lygad, a thrydan anarferol oedd yn ei lais crynedig, a bu'n hir cyn gallu cyfleu ei neges:-*

*"Fy Nhad! gwelais y môr! gwelais y môr! gwelais y môr!"*

*Dringodd heibio'r blodau, a'r cyfoeth, a'r meini drud; cafodd gip drem ar yr anfesurol, y dihysbydd, a'r aflonydd tragwyddol.*

*Dyn Mwyaf Y Byd?*

*YR wythnos hon bydd y meddylgar yn ymgyfrif â bywyd, yn mesur amser, ac yn wynebu cyraeddiadau oes.*

*Beth yw ffrwyth blynyddoedd o ddringo? Pa beth sydd yn ein llaw i gynnig i'r byd? Gwrandawn ar dri o ddringwyr mawr ein cyfnod.*

*Trigain ac wyth yw oed Gandhi - yr Indiad mwyaf yng nghwrs y canrifoedd, yn ôl barn llawer ohonom. Yn wir, dywed rhai mai efe yw'r bersonoliaeth fwyaf a welodd y byd ers oesoedd lawer.*

*Diddorol yw bywgraffiad newydd C. F. Andrew o'i gyfaill, os darllenir ef ynghyd â hunan-gofiant Gandhi ei hun. Ychydig dros 40 mlynedd sydd oddi ar bu Gandhi a Lenin yn astudio deddfwriaeth yn Llundain, - ill dau yno yr un pryd. Pwy ddychmygai ddyfodol y ddau yr adeg honno? Dychwelodd yr Indiad adre'n fargyfreithiwr i ennill cyfoeth enfawr yn ei wlad enedigol. Yna darllenodd y Testament Newydd, a gweithiau Tolstoi; hyn fu'n drobwynt i'w fywyd, ei foes, a'i athroniaeth. "Na wrthwynebwch ddrwg" yw cyfrinach ac esboniad ei hanes.*

*Rhamant oedd ei waith yn Neheudir Affrica pan yn dadlau dros ei gydwladwyr gwasaidd. Ympryd a charchar fu ei arfau yno, a gorfododd Brydain a Smuts i ildio iddo, - ac yntau yn garcharor! Ymrestrodd yn adran cadfeddygol Prydain adeg y rhyfel mawr, - a bu'n gyfaill calon i'r Ymerodraeth hyd adeg cythrwfl a chyflafan Amritzar; cynefin ein darllenwyr â'i hanes o hynny allan - ympryd a charchar, carchar ac ympryd, a thrwy'r cwbl efe sy'n gorchfygu.*

*Yr Olwyn Nyddu*

*Y MAE wedi newid cwrs yr Ymerodraeth, yn torri drwy ragfarn, dall-bleidiaeth, ofergoeliaeth, a gorthrwm crefydd, yn ysgubo i ffwrdd arferion a sefydliadau llwyd gan henaint....y cwbl heb erfyn yn ei law ond olwyn nyddu, a chalon yn llawn o ewyllys da.*

*Gandhi yw'r ddadl gryfaf fedd yr oes hon dros ddiarfogi'n llwyr. Dringodd greigiau serth, heibio'r blodau, y tu hwnt i gyfoeth daearol - ond y mae'r tlawd, yr hanner-noeth, a'r newynllyd yn sisial o'i gell: "Gwelais y môr!" ac y mae 60,000,000 o anghyffyrddadwy India yn clywed cri'r eigion rhydd yn eu clustiau o'i herwydd.*

*Cynhyrfu'r Bobl*

*HYNAFGWR 76 oed, trwm iawn ei glyw, tlawd ei amgylchiadau, ond anorchfygadwy ei galon, yw Tom Mann.*

*Yr oedd gan Laski ddarluniad hapus ohono yn y 'Daily Herald' ychydig wythnosau yn ôl. Tyfodd yng nghanol tlodion; profodd eisiau bwyd, eisiau cartref, ac eisiau gwaith. Aeth yr haearn i'w enaid pan yn fachgen, a chychwynnodd ei yrfa chwyldroadol pan oedd yn laslanc.*

*Uno ac undebu gweithwyr; cynllunio streic a threfnu cynnwrf yw ei*

*bolisi i sicrhau iawnderau dyn. Cwrddwn ag ef yn Iwerddon, yn Nhaleithiau Unedig America, yn Lloegr, Ysgotland, yng Nghymru, a Berlin. Bu dyddiau nodedig yn ei hanes; ac nid dibris ei wasanaeth i'w ddosbarth. Y mae i'w enw le pwysig yn hanes Llafur rhyngwladol. Trigodd mewn llawer carchar, a chafodd ei alltudio o amryw wledydd.*

*Mann, Ben Tillet, a John Burns, oedd trindod arswyd Llywodraeth Brydeinig am ysbaid hir. Aeth y tri i garchar ar ôl cythrwfl Trafalgar Square, oddeutu 1895. Bu Burns yn weinidog y Goron ar ôl hynny; a bûm gydag ef, yn ddiweddar, yn ei dŷ helaeth, ac yng nghanol ei lyfrgell ddrudfawr, lle mae'r hen wron cysetlyd yn mwynhau nawndydd bywyd uwchlaw pob pryder a gofid.*

*Nadolig Yng Ngharchar*

*CYMEDROLODD Ben Tillet yn fawr erbyn hyn; "diogel" ydyw, gofalus, a diniwed, ac nid oes ar neb ei ofn. Ond erys y tân oddaith yn enaid Tom Mann. Cythryblwr ydyw yn 76 oed; y mae ustusiaid Prydeinig yn ei ofni, ac yn ei roddi mewn carchar. Nid oherwydd ei fod wedi creu cynnwrf yn awr, ond rhag ofn i'w areithiau a'i ysgrifau godi anniddigrwydd ac aflonyddwch yn neiliaid y Deyrnas Gyfunol.*

*Gofynnant i'r henwr addo cadw heddwch ac i beidio creu cyffro. Buasai'n rhaid newid natur a chydwybod yr areithydd; ac y mae'n rhy onest i ragrithio. Gwell ganddo dreulio ei Nadolig mewn cell.*

*Rhyddid Llwyfan A Gwasg*

*HEN gyfraith dros gant oed a roddwyd mewn grym i ddistewi Mann a'i gymrawd, sydd, yn ôl ei enw, yn Gymro. Pell ydym o gytuno â chomiwnistiaeth a Syndicaliaeth Tom Mann. Yn bersonol, credwn mai aneffeithiol, a di-werth, a hunan-ddinistriol, yw streic a chythrwfl erbyn hyn. Buont yn wasanaethgar i werin pan nad oedd nac undebiaeth na phleidlais; afreidiol ydynt heddiw.*

*Ond gofidiwn am beryglu rhyddid y wasg a'r llwyfan. Ofnwn mai cais i lindagu gweriniaeth ydyw.*

*Buasai'n ddrwg iawn ar filoedd pe atgyfodid llawer o'r hen gyfreithiau yma.*

*Beth am garcharu pobl oherwydd peidio mynychu eglwys y plwy' ar y Sul, ac am fwyta cig ar ddydd Gwener?*

*Erys y cyfreithiau hyn, a'u cyffelyb ar ddeddf-lyfrau'r wlad, a gellid, pe mynnid, eu rhoddi mewn grym.*

*"Bradychu Cyfrinachau"*

*Y MAE Arglwydd Hailsham a'r Arglwydd Sankey wedi atgofio gwladweinwyr enwog eu bod yn agored i ddwy flynedd o garchar am fradychu cyfrinachau'r Cabinet, yr wythnos ddiwethaf. Wrth gwrs, yr oedd y ddau arglwydd hyglod yma yn anwybyddu'r gyfraith hon adeg yr etholiad gyffredinol pan geisient ddifrïo'u gwrthwynebwyr gwleidyddol. Carem glywed Mr. J. H. Thomas, Arglwydd Snowden, a'r Prif Weinidog, yn siarad ar ôl Arglwydd Hailsham.*

*Anodd gennym ddychmygu unrhyw Brydeiniwr yn gorfoleddu yng ngharchariad Tom Mann - y gwas fferm o 9 hyd 11 oed; y glowr o 11 hyd 14; y peiriannydd o 15 oed hyd 25; y Sosialydd o 1885 ymlaen; yr awdur, yr areithydd, y trefnydd, y tyneraf o gyffrowyr y byd. Bu Llafur yn ysgol i gyrraedd poblogrwydd, a chyfoeth, awdurdod a safle, i lawer. Ond nid swp o flodau a welir yn llaw Mann; nid meini drudfawr a leinw ei logell; o'i garchar clywer ef yn dweud wrth gaethion trafnid, ac ebyrth masnach: "Fy Nhad! gwelais y môr!"*

*Grym Gweledigaeth*

*YR wythnos ddiwethaf bu farw Edward Bernstein, yn 82 oed. Anodd gan Brydeinwyr sylweddoli lle yr awdur yma yn rhengoedd gweriniaeth y Cyfandir. Efe oedd cyfaill a beirniad mwyaf Karl Marx; ac erys ei draethawd feirniadol, 1897, yn safon hyd heddiw. Darfu i Lenin fanteisio'n fawr oddi wrthi.*

*Bernstein oedd etifedd llenyddol Engels hefyd: a bu ei gyfathrach, ei gyfeillgarwch, ac, yn ddiweddarach, ei gweryl â Karl Kantsky, yn foddion i greu cyfnod ym mudiad mawr yr Almaen. Cred rhai haneswyr, fel Beer a Stoddart, mai Bernstein oedd ymenydd mawr Sosialaeth y ganrif. Bu yntau, fel Marx, fyw am flynyddoedd ar encil o wlad ei enedigaeth, ac ym Mhrydain y cafodd ei gartref newydd. Yr oedd Bernstein bron yn Brydeiniwr cyn y diwedd; ac, os wyf yn cofio'n iawn, dinasyddiwyd mab iddo yn y wlad hon.*

*Ar fynydd gweriniaeth bu Bernstein yn dringo ar hyd ei oes. Beth gafodd e'? Nid swp o flodau oedd yn ei law; dieithr ydoedd i foeth a chyfoeth; alltudiaeth, unigedd, tlodi, ddisgynnodd i'w ran. Pan welodd ryfel yn agosáu, torrodd Bebel ei galon fawr; llofruddiwyd James gawraidd; suddodd Keir Hardie mewn anobaith, canys gwelwyd sylfeini gweriniaeth rhyngwladol yn symud a llafur oes yn mynd gyda'r dilyw. Cadwodd Bernstein ei ffydd, ei obaith, ei weledigaeth; a chafodd fyw i weld y byd newydd yn codi ar ôl y gyflafan.*

*"Fy Nhad! gwelais y môr!" "Gwelais y môr!"*

*Gwywo wna'r blodau prydferthaf a mwyaf persawrus; gall Midas newynnu yng nghanol aur dihysbydd, medr gweledigaeth godi'r canrifoedd i ucheldera u ffydd, gobaith a chariad. "Gwelais y môr" yw'r cyfraniad gorau i fywyd y byd.*

Yr oedd J. H. Howard yn sosialydd brwd: bu'n amlwg iawn gyda'r mudiad Llafur, yr oedd yn gyfaill personol i bobl megis Ramsay MacDonald, Philip Snowden, Arthur Henderson a George Lansbury, a bu'n ymgeisydd seneddol dros y Blaid Lafur yn sir Feirionnydd yn etholiad 1931. Mae nifer o'i ysgrifau'n adlewyrchu ei ddiddordeb brwd mewn pynciau cymdeithasol a'i gred mewn sosialaeth, megis ysgrif 'Y Byd Heddiw' o Gymro 11 Mawrth 1933 sy'n ymdrin â phwnc truenus y slymiau a'r modd y gorfodwyd cymaint o bobl i fyw mewn amgylchiadau nad oedd yn addas ar gyfer anifeiliaid heb sôn am deuluoedd cyfain.

Mae hi'n ysgrif eithriadol o bwerus ac yn un gofiadwy nid yn unig am ei chynnwys cignoeth ond hefyd oherwydd ei bod hi mor bersonol: mae'r ffaith bod y Parch. Howard yn siarad o'i brofiadau ei hun yn rhoi dilysrwydd a grym ychwanegol iddi. Sylwer ar ei gonsyrn tuag at drigolion y slymiau a'i gydymdeimlad â hwynt, i'r fath raddau fel nad yw'n gweld bai arnynt am geisio dianc o'u gofidiau trwy ddiota, er ei fod ef ei hunan yn llwyr ymwrthodwr; yn wir, cyfeddyf fod cyflwr y slymiau mor warthus fel

y buasai yn yr achos hwn yn fodlon gwneud eithriad gan anghofio'i egwyddorion a bod 'yn feddw ac yn wallgof fy hun bob cyfle a gawn', dweud mawr iawn i ŵr o'i argyhoeddiad ef:

## FY MHROFIAD YN Y SLYMIAU

*Y MAE'R cyfaill H. V. Morton wedi cynhyrfu gwersyll y landlordiaid y dyddiau hyn. Cyfres o ysgrifau yn disgrifio slymiau'r trefydd mawr yw'r achlysur.*

*Cwynai, ar y dechrau, nad oedd neb wedi cythruddo wrtho. Cafodd ugeiniau o lythyrau oddi wrth denantiaid, ond dim o law'r perchnogion. Synnai, yn siomedig, am hyn; ond, pe bai ganddo fwy o brofiad personol yn y bywyd cyhoeddus, gwelai mai nid difaterwch na dideimladrwydd oedd y tu ôl i'r distawrwydd.*

*Hysbysrwydd geidw gynnwrf yn fyw: bydd cyhoeddusrwydd mewn papur newydd yn fywyd ac yn nerth hyd yn oed i anfadwaith. Y mae ynfydion wedi llofruddio, cyn hyn, er mwyn sicrhau lle i'w henwau mewn Hanes.*

*Onid hyn a wnaed yn Ffrainc, y llynedd, gan y Rwsiad gwallgof a saethodd Arlywydd Dournier? Ac y mae Mr. Roosevelt, Arlywydd etholedig America, eisoes wedi dioddef ar law dau debyg.*

*Byddai llawer o bobl wedi eu hanghofio gan y wlad oni bai eu bod yn destunau beirniadaeth ddifrifol neu chwareus. Y mae gwladweinwyr yn arogli anfarwoldeb mewn 'cartoon' yn 'Punch'. Gwell mellt na mudandod; croesewir cyhoeddusrwydd beth bynnag bo'r draul.*

*Cofus gennyf gyd-bregethu gyda Joseph Jenkins mewn cyfres o gyfarfodydd yng Nghwm Rhondda, ac yr oedd yr hen wron yn chwyrnu siom a surni oherwydd canmoliaeth nawddogol y blaenoriaid. Ebr ef wrthyf, - "Dowch adref! 'Does yr un cythraul yn y cwm yma yn ein gweld yn werth i'n rhegi!"*

*Ie, gwae y rhai esmwyth arnynt yn Seion y dyddiau hyn. Yr ydym wedi peidio â chynhyrfu'r byd. Yr oedd yr apostolion yn troi y byd wyneb i waered: croeshoeliwyd y Crist am ei fod yn cyffroi y bobl.*

*Erlidiwyd Paul oherwydd ei fod yn peryglu masnach Effesus, ac yn lleihau llogau Demetrius a'i griw. Y mae rhyw ofn slafaidd wedi meddiannu'r pulpud; a chariad at esmwythyd yn parlysu'r eglwys. "Cyfod dy lef; gwaedda, nac arbed!"*

### *Agor Llygaid Y Wlad*

*YN y cyfamser, y mae Duw yn codi proffwydi o'r tu allan i ddadlennu drygau, ac i oleuo corneli caddugol cymdeithas, ac i arwain y byd i ryddid.*

*Newyddiaduraeth yw'r gallu mwyaf hydreiddiol mewn cymdeithas wâr heddiw. Nid ydym am arfer gormodiaith Beaverbrook yn 'The Press and Politicians'. Ond, yn sicr, medd y wasg ddylanwad a chyfrifoldeb anhygoel er da neu er drwg.*

*Ac y mae ysgrifau Morton wedi agor llygaid y wlad i'r budreddi, a'r tlodi, a chyflwr anifeilaidd miliynau o drigolion ein dinasoedd.*

*'Open sewer....A garbage heap that has been accumulating horror at compound interest for 100 years....Dunghill interests....The foulest dens in Britain.' Dyma ychydig o'i ddisgrifiadau o slymiau Lerpwl.*

*Gareti a seleri; corneli drewedig, lle na thywynna haul; ystafelloedd budr sy'n chwaraefwrdd a nythle drewbryf ('bugs') a chwilod ('beetles') afrifed; ac y mae dros 13,000 o fy nghyd-ddinasyddion yn preswylio mewn lleoedd fel hyn! Gwibdaith gafodd Morton i slymiau Lerpwl, Leeds, Sheffield, etc., ond y mae rhai ohonom yn eu*

*gweld bob dydd, ac yn gorfod dringo'r grisiau gwichiog, a mynd i lawr i'r seleri tywyll yn barhaus; a gallwn dystio i gymedroldeb darluniadau'r gohebydd.*

*"Gwneud Imi Gablu"*

*RHODDAF yma un enghraifft yn unig. Galwyd yr ysgrifennydd hwn i dŷ galar adeg y Nadolig diwethaf. Yr oedd gwraig y tŷ yn arfer mynychu'r gwasanaeth efengylaidd a gynhelir i'r tlawd yn Catherine Street bob nos Fawrth, a theimlai'r teulu, felly, eu bod yn perthyn i'r ofalaeth.*

*Noson cyn Nadolig ydoedd, a chyrhaeddodd y gweinidog yno tua 10.30 yr hwyr. Yn yr arch yr oedd corff y tad (36 oed) yn ymyl y tân. Mewn gwely, gwelwn yr hen nain yn wael gan ganser, ac yr oedd dau blentyn - 6 ac 8 - yn y gwely wrth ei hochr. Y weddw a bachgen - 12 oed (yn y darfodedigaeth), a merch 10 oed, yn pesychu'n ddrwg - newydd ddod adre' o 'sanatorium', - dyna'r teulu, ac yr oeddynt yn byw mewn un ystafell; yn bwyta, yn cysgu, yng ngolwg corff y tad - am dridiau!*

*Gwelais ugeiniau a channoedd o slymiau fel eu disgrifir gan Morton, ond dyma'r unig dro i mi gablu'n hyglyw, a chwydu fel dyn meddw dros y stryd.*

*Wrth gwrs, y mae llawer o ddiota a meddwi (lle y gellir) mewn lleoedd felly. Pe bai Duw (neu yn hytrach, y diafol) wedi fy ngosod i i fyw yno, - buaswn yn feddw neu yn wallgof fy hun bob cyfle a gawn.*

*Yr wyf yn ddirwestwr o argyhoeddiad heddiw; credaf mai drwg digymysg yw'r ddiod; ond pan welaf....methaf feio a chondemnio trigolion y cyrtau gor-boblog yma am ddianc i'r parlyrau cynnes, golau, a chysurus, sydd ar bob cornel o'r ystryd - i geisio boddi eu gofid mewn anghofrwydd!*

*Yn Y Wlad Hefyd*

*GOFYNNODD cyfaill i mi ai yn y trefydd yn unig y mae slymiau. Yma y gwelir eu hylldra, a'u lluosogrwydd; canys pentyrrwyd hwynt ar ei gilydd gan drafnidwyr y ganrif o'r blaen. Ond, credaf, fod slymiau yn y wlad hefyd.*

*Yr wyf wedi sylwi ar gutiau bychain, isel, cul, a thywyll, yn Sir Fôn! Buasai ymchwil fel eiddo Morton yn debyg o ddadlennu pethau brwnt a chywilyddus yn ein siroedd amaethyddol. Paham y mae'r darfodedigaeth mor drwm a thrajig ym Môn ac Aberteifi? Hwyrach y gwna rhai o ddarllenwyr 'Y Cymro' fy ateb, a dwyn ffeithiau allan o adroddiadau swyddogion iechyd y siroedd hyn.*

*Y mae bodolaeth y slymiau yn warth i'n hawdurdodau lleol a gwladwriaethol. Gwrthodwyd cynllun gwerthfawr Arthur Greenwood gan y Llywodraeth hon, ac, yn ôl yr arafwch presennol o symud y slymiau - cymerir 2,000 o flynyddoedd i'w hysgubo i ffwrdd o Brydain! Fel mater o ffaith, y mae slymiau newydd yn cael eu creu yn gyflymach nag y symudir yr hen.*

*Goleudai Yn y Môr*

*NID teg rhoddi'r bai ar y perchnogion; canys bu llawer o'r trigleoedd parchus yma yn dai parchus amser yn ôl; a rhaid cyfaddef fod ymdrechion rhai perchnogion cydwybodol i wella'r eiddo yn aflwyddiannus oherwydd musgrellni, bryntni, a distrywioldeb tenantiaid.*

*Llosgir y steiriau coed, a difethir drysau a ffenestri. Anobeithiol yw'r ymdrech i wneud llawer o'r tai yma yn weddus. Yn wir, symudwyd llawer o'r trigolion allan i dai newydd y Gorfforaeth; ac yr oeddynt wedi gwneuthur slymiau yno cyn pen blwyddyn! Bu raid newid llawer o'r*

*gwaith coed oherwydd y tyrfaoedd o ddrewbryf oedd y tu ôl iddo.*

*Rhaid symud y slym o'r dyn; onide fe garia'r slym gydag ef i bob man. Y mae di-slymio'r enaid mor hanfodol â di-slymio trigfod.*

*Ac yn y fan yma y gwelwn werth a gwasanaeth y cenadaethau bach sydd mor niferus yn y dinasoedd. Y maent yn fwy na goleudai yng nghanol môr tonnog bywyd, - ysbytai, ysgolion, efengyl gobaith ydynt i'r tlawd. A phan â graddedigion ein prifysgolion i fyw mewn 'university settlements' yng nghanol y slymiau, y maent ar y llwybr i ddi-slymu eneidiau a'u gwneud yn gymwys i amgylchedd gwell.*

*Cyfrifoldeb y Genedl*

*CWYN Morton, ac eraill, ydyw bod pobl yn derbyn budd ariannol o'r slymiau. Y mae 5/- neu 6/- yr wythnos am bob ystafell yn golygu llog o tua 25 y cant a mwy i rai landlordiaid. A dywedir fod awdurdodau eglwysig yn cymryd cymaint â £200,000 yn flynyddol oddi wrth slymiau!*

*Dyma'r anffawd, ie, yr anfoes, a'r annuwiaeth. Masnachu ar dlodi; pesgi ar reidrusrwydd; cynnal crefydd ar waed y truan. Pwysleisiwn ddwy egwyddor:*

*(1) Y mae di-slymio Prydain yn gyfrifoldeb cenedlaethol, ac nid i'w adael at drugaredd awdurdodau lleol. Problem i'r Wladwriaeth ydyw. Yr oeddis yn gallu codi trefydd cyfain ymhen ychydig o fisoedd adeg rhyfel; nid oedd prinder arian, na thir, na llafur. Bwriad y Llywodraeth ydyw taflu'r cyfrifoldeb ar adeiladwyr anturiaethus eto. Onid hwynt sydd wedi codi'r ystrydoedd culion, tywyll, afiachus, yn y gorffennol?*

*(2) Y mae symud y slymiau yn ddyletswydd gymdeithasol ar wahân i unrhyw ystyriaeth o elw ariannol. Pwy sonia am elw o ysbyty, neu sanatorium, neu ysgol elfennol, neu eglwys? Y mae symud slymiau, ac iachau ein poblogaeth, yn dod o dan yr un egwyddor.*

*Cofiwn mai tuedd slym yw ymledu ac ehangu. "The invasion of the slum" a welir yn amlwg iawn yn Lerpwl ar hyn o bryd; a dyma hanes pob porthladd a dinas.*

*Ffoi o flaen y slym fu polisi'r gorffennol. Onid yw yn bryd i droi ar yr ymlidydd afiach? Yn 'Les Miserables', dengys yr awdur fel y darfu i gamin - trigolion slyms Paris - slymio Paris i gyd. Y mae gan Dickens ddawn tebyg yn 'A Tale of Two Cities'. Erys 'The Middle Road' gan Gibbs yn rhybudd i Ewrop ôl-rhyfel.*

Ysgrif arall gofiadwy, ac un sy'n gwneud darllen yr un mor annymunol, yw'r un o rifyn 8 Ebrill 1933 sy'n sôn am yr Iddew, 'Gwyrth Hanes' yn ôl J. H. Howard, a'r modd y cafodd ei drin mor greulon ac annynol ar hyd y cenedlaethau. Cyplysir hynny â'r don newydd o wrth-Iddewiaeth a ysgubai dros Ewrop yn y cyfnod hwnnw a dyfynnir o rifyn diweddar o'r Telegraph yn disgrifio'r creulonderau a ddioddefai'r Iddewon dan law eu herlidwyr; ychydig a wyddai neb ar y pryd y byddai'r Iddewon ymhen rhai blynyddoedd yn dioddef rhai o'r erchyllterau gwaethaf yn holl hanes y ddynoliaeth. Unwaith eto felly dyma ysgrif bwerus eithriadol sy'n darlunio bryntni dyn ar ei waethaf un, ac ysgrif, megis yr enghraifft flaenorol, sy'n dangos Cristionogaeth yr awdur:

## *Crwydryn y Cenedlaethau*

*GWYRTH Hanes yw'r Iddew; crwydryn y cenedlaethau sy'n aros fel problem pobloedd, her gwledydd, gobaith a dychryn teyrnasoedd. Cafodd ei erlid ymhob gwlad; ei orthrymu gan bob cenedl, ac ato ef y try teyrnasoedd am ymwared.*

*Y mae'n holl-bresennol; cwrddwn ag ef yng ngwyll Hanes yn hydreiddio hen wareiddiau, cyn-fyd, - yn gyfrwng i'w codi, a'u dymchwel, ac yn geidwad yr hyn a fu'n anfarwol yn eu hanes. Y mae yn gaethwas ac yn deyrn; yn cael ei gasáu a'i ofni; ei orthrymu a'i goroni. Ymgymysga â phob cenedl, a cheidw ei waed yn bur, ei foes, a'i arbenigrwydd gwahaniaethol o hyd.*

*Effeithiodd ar grefyddau mwya'r ddynoliaeth, - efe a roddodd fod i Ddwy, - ond gwahanol ei addoliad ef i bawb arall. Unig yw'r byd-ddinesydd; di-gartref yw'r holl-bresennol, ac y mae'r un sy'n perthyn i bob gwlad yn aros fel alltud, ac ysgymun y ddynoliaeth.*

*Astudiaeth ramantus yw'r Iddew mewn Hanes; ac y mae llenorion fel Emerson, Carlyle, Renan, a Mark Twain, a Rabbi Ben-Ezra, wedi darganfod defnyddiau amhrisiadwy yn y maes yma.*

*Erys un ffaith yn amlwg i'r sylwedydd - llwybr i ddinistr yw erlid yr Iddew. "Ni lwydda un offeryn a lunir i'th erbyn", ebr y proffwyd Hebreig. Gallwn olrhain mawredd Prydain yn ôl i'r adeg y darfu i Cromwell estyn rhyddid i'r Iddewon. Dyma'r achlysur, os nad yr achos, i gyfodiad a chynnydd aruthrol dylanwad ein cenedl ar Ewrop.*

### *Ariannydd y Byd*

*Y MAE rhai yn credu bod gwlad a theyrnas yn codi neu yn syrthio yn unol â'r egwyddor yma, - sef ymddygiad tuag at had Abraham.*

*Beth bynnag am hynny, addysgiadol yw sylwi ar driniaeth yr Iddew mewn gwledydd gwahanol ar hyd y cyfnodau. 'Jew-baiting' oedd difyrrwch llawer o hen frenhinoedd y gorffennol. A byddai yn helwriaeth enillgar i fonedd gwlad. Shylock yn 'The Merchant of Venice', Shakespeare oedd yr hen safon glasurol i'r Iddew; ac erys felly eto ym meddwl llawer.*

*Y rheswm am hynny ydyw mai'r Iddew yw ariannydd mawr y byd; yn ei ddwylaw ef mae cyllid y gwledydd; ac aeth y genedl yn gyfystyr ym meddwl y byd i usurwr dideimlad yn byw ar anghenion y cenhedloedd.*

*Cydnebydd pawb mai'r Iddew yw athrylith mwya'r ddynoliaeth yng nghylchoedd arianneg; efe sydd, heddiw, yn cadw pwrs y gwledydd bron i gyd. Ond y mae hefyd mewn awdurdod a dylanwad ym myd gwyddoniaeth, athroniaeth a deddfwriaeth. Meddylier am enwau fel Spinoza, Einstein, Rothschild, Lenin, Marx! Neu, Disraeli, Herbert Samuel, Skinwell, a Sassoon, ym Mhrydain!*

### *Brwydr Hyd Angau*

*Y MAE ton o wrth-Iddewiaeth ('anti-Semitism') eto yn ysgubo dros gyfandir Ewrop; ac yn enwedig trwy'r Almaen.*

*Gelyn anghymodion yr Iddew yw Hitler; a brwydr hyd angau yw'r gwrthdrawiad presennol. Yr ydym yn barod i gredu bod peth gormodiaith yn cael ei harfer yn y wasg o'r ddeutu. Ond cyfeddyf pawb fod erledigaeth dost yn digwydd. Nid heb reswm y cyhoeddir boicot Iddewig ar nwyddau'r Almaen trwy'r Taleithiau Unedig, ac y mae peth tebyg wedi dechrau yn y wlad hon.*

*Clywn am gynadleddau pwysig o Gristnogion ac Iddewon yn cwrdd yn Llundain a Manceinion i brotestio i'r Llywodraeth yn erbyn yr anfadwaith; ac yr ydym yn sicr o glywed mwy yn y dyfodol agos.*

*Soniwyd am alw llysgennad yn ôl o Rwsia oherwydd prawf cyfreithiol*

*ar bedwar o Brydeinwyr. Ond dyma 60,000 o Iddewon mewn perygl einioes o dan Lywodraeth Hitler. Sut y medr Prydain aros yn ddistaw?*

*Rhesymau Blaenoriaid*

*COFIA rhai o'n darllenwyr hynaf am ymgyrch gynhyrfol Gladstone yn erbyn y 'Bulgarian atrocities'. Bu llawer ohonom yn protestio yn erbyn cyflafannau Armenia o dan law'r Twrc. Nid yw'r gydwybod Anghydffurfiol, beth bynnag, erioed wedi bod yn ddistaw ym mhresenoldeb erledigaethau cartrefol na thramor; ac amhosibl sefyll y naill du, heddiw, pan fod Iddewon yn cael eu poeni i farwolaeth gan Ffasciaeth Almaenig.*

*Yr ydym wedi cael cefnogaeth yn hyn mewn cylchoedd secularaidd a gwleidyddol. Ond, yr wythnos ddiwethaf, gwelsom Henaduriaeth Seisnig, yn perthyn i'r Hen Gorff, yn gwrthod gwneud protest am mai Iddewon oedd yn y pair! Nid adroddiad papur yw hyn; canys yr oeddwn i yn bresennol, ac yn cymryd rhan yn y ddadl.*

*Rheswm un gweinidog parchus dros wrthod protestio ydoedd fod erledigaethau eraill yn digwydd: yn yr Ukraine, er enghraifft!*

*Yr oedd blaenor pwysig yn erbyn pleidleisio oherwydd ei fod yn adnabod rhai Iddewon mewn busnes!*

*Ond y ddadl gryfaf a ddygwyd ymlaen gan frawd sydd yn frwdfrydig iawn o blaid y Genhadaeth Dramor, ydoedd bod Iddewon yn prynu gormod o dai yn Lerpwl!*

*Collwyd y cynnig o gydymdeimlad ag Iddewon gorthrymedig, a hynny mewn Henaduriaeth o Gristnogion, - cynrychiolwyr eglwys sy'n proffesu addoli Iddew Dwyfol! Yn wir, y mae pethau fel hyn yn peri i ddynion anobeithio am eglwysyddiaeth.*

*Eithriad, o drugaredd, yw yr un duedd geidwadol a 'reactionary' mewn perthynas â chwestiwn fel militariaeth. Y mae'r colegau a'r prifysgolion, bron i gyd, wedi mabwysiadu penderfyniad Rhydychen i wrthod rhyfela o dan bob amgylchiad.*

*Coleg diwinyddol Cymreig yw'r cyntaf i bleidleisio yn erbyn pasiffistiaeth lwyr! "O Mores! O Tempora!" dolefai'r hen athronydd.*

*Miloedd yn Diflannu*

*BETH sydd y tu ôl i atgasedd Hitler tuag at yr Iddew, tybed? Canys nid newydd-beth mohono, fel y myn rhai.*

*Yr ydym wedi darllen llawer o hen areithiau Ffasciaid yn ddiweddar; rhai wedu eu traddodi dros bedair blynedd yn ôl, ac y maent oll yn chwythu bygythion yn erbyn Iddewon a Chomiwnwyr.*

*Y rheswm syml ydyw fod yr Iddewon wedi gwrthod rhoi eu harian i Hitler a'i blaid. Dywed Paul Faure, - y seneddwr enwog o Ffrainc, - mai ffirmiau rhyngwladol offer rhyfel sydd wedi nawddogi Ffasciaeth yr Almaen o'r cychwyn; ac mai hwynthwy sy'n creu cynnwrf yn y gwledydd oll.*

*Heddwch yw dymuniad yr Iddew canys y mae ganddo frodyr ymhob cenedl; ac amhosibl masnachu'n llwyddiannus adeg rhyfel. Gwrthyd, felly, ymuno â byddinoedd y crys du a'r helmetiau dur, a dioddefa'n enbyd o ganlyniad.*

*Y mae newyddiaduron mor ffafriol i'r Eidal â'r 'Morning Post' (10/3/33) yn dweud bod miloedd o Iddewon, etc., yn diflannu yn barhaus:*

*'They are being tortured, and beaten with steel rods until they are unrecognisable, compelled to swallow castor oil; there is kidnapping and assassination. Many prisoners are being starved to death; and bodies are taken away every day from the River Spree and the Berlin canals. Fingers are being cut off; teeth knocked out, an orgy of*

*persecution rages. Men are flogged and driven out into the street barefoot and half naked' (gwêl 'Telegraph', 11/3/33).*

*Curo Wrth Y Drysau*

*A DYMA'R polisi a gynigir i achub gweriniaeth heddiw! Fel mater o ffaith y mae dau allu mawr yn curo wrth ddrysau pob gwlad ar hyn o bryd:- Comiwniaeth a Ffasciaeth, ac atgas y ddau i werinwr iach, canys grym y cledd, gallu bwystfilaidd yw apêl derfynol y ddau. Militariaeth sy'n eu hysgogi; chwyldro yw eu cyfrwng, a gormes eu system.*

*Ai gwir fod ein hawdurdodau yn tueddu i ffafrio Ffasciaeth ym Mhrydain? Carcherir Comiwnydd, os meiddia siarad ei athroniaeth yn gyhoeddus. Oni chafodd Oswald Moseley ddefnyddio'r radio yr wythnos cyn y ddiwethaf i ledaenu Ffasciaeth? Y mae ei llenyddiaeth yn ein hysgolion, a'n colegau; a hyd yn oed yn ein heglwysi. Ond nid oes neb yn gwneud protest!*

*Ac eto, credwn fod Ffasciaeth yn fwy peryglus i werin na Chomiwniaeth. Dyna'r paham y mae Llafur, heddiw, yn ceisio uno ei rhengoedd i'w hymladd.*

*Ffarwel i ryddid y wasg, y llwyfan, a'r deml, o dan Hitleriaeth!*

*Y Swyddog Yn Y Tŵr*

*CAFODD y wasg gopi eithriadol ym mhrawf swyddog y Tŵr yr wythnos ddiwethaf. Nid ydym, yma, yn proffesu medru dilyn yr achos o safbwynt cyfraith, na byddin. Ond, fel dinasyddion, y mae'r prawf wedi gadael argraffiadau ar ein meddyliau.*

*(1) Cadwyd y swyddog mewn dalfa am ddau fis cyn ei gyhuddo yn gyhoeddus. Onid nid rhyfedd hyn, ychwaith, pan gofiwn Brawf y Meerut sydd newydd orffen. Yn yr achos hwnnw cadwyd 30 o Brydeinwyr mewn carchar (gan wrthod meichnïaeth) am dair blynedd cyn eu dwyn i frawdlys; ac yna dedfrydwyd hwynt o un i bymtheng mlynedd ychwaneg o garchar. A fu'r fath annhegwch erioed?*

*Beth, felly, yw'r helbul yma yng nghylch y pedwar Prydeiniwr a garcharwyd am wythnos yn Rwsia? Methwn ddeall ysgrechiadau Snowden yn yr 'Express' y Sul wythnos cyn y diwethaf.*

*(2) Os euog y swyddog o werthu gwybodaeth filitaraidd i wledydd estronol, gofidiwn amdano ef a'i deulu; y mae'r gosb yn drom. Ond peidiwn synnu yn aruthrol, a chodi dwylo Phariseaidd, rhagrithiol, a digllon. Canys bydd pob Llywodraeth yn dilyn yr un moddion o ysbïo ar wledydd eraill.*

*Y mae'r gwasanaeth cudd yn rhan hanfodol o bob byddin. Gwron yw ysbïwr yn nhyb ei wlad ei hun; bradwr ydyw i'r estron, ac nid oes trugaredd i'r un a ddelir.*

*Aberth i system o dwyll a brad, cynllwyn a chelwydd, yw'r swyddog yma eto.*

*Ac y mae gan bob gwlad rai tebyg. Bydd ein hysbïwyr ni yn prynu gwybodaeth oddi wrth swyddogion a milwyr mewn gwledydd eraill yn barhaus. A cheisia cynrychiolwyr gwledydd tramor wneud yr un fath ym Mhrydain.*

*Os am weld sut y mae'r drefn yn gweithio, darllener llyfr diweddaraf Bruce Lockwood; neu ychydig o'r lluoedd atgofion llenyddol gyhoeddwyd ers y rhyfel. Aflerwch ac annhegwch militariaeth yw system ysbïo. Yr ydym yn temtio, ac yn prynu dynion, ac yna yn eu cosbi. O dan y drefn yma, bydd merched yn gwerthu eu cyrff, a dynion eu heneidiau, yn enw gwladgarwch! Condemniad system, nid cosb y swyddog, a erys ym meddwl a chof y wlad ar ôl y prawf poenus yma.*

Wythnos yn ddiweddarach ceir enghraifft ohono'n trafod rhyfela a milwriaeth, ac yn ôl y disgwyl dyma fater arall y safai'r Parch. J. H. Howard yn gwbl gadarn drosto. Fel y gwelir yn llawer o ysgrifau 'Y Byd Heddiw', yr oedd yn heddychwr i'r carn, a chas beth oedd rhyfel ganddo gan ei fod yn anghytuno'n llwyr â'i ddelfrydau Cristnogol; gwnaeth lawer dros wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Rhyfel Mawr. Er nad yw'r ysgrif isod yr enghraifft orau un efallai o ddyfnder ei argyhoeddiad yn erbyn rhyfel, fe'i dyfynnaf er mwyn dangos y modd y gallai ddefnyddio'i arbenigedd Beiblaidd i ddynodi ac i egluro rhyw safbwyntiau o'i eiddo. Y stori Feiblaidd a grybwyllir yn yr achos hwn yw un Abraham yn ufuddhau i orchymyn Duw i ladd ei fab, Isaac; mae'r stori'n un o'r rhai mwyaf adnabyddus yn yr Hen Destament ond mae'r modd y defnyddir hi gan y Parch. Howard i egluro'i safbwynt chwyldroadaol ar ryfela yn ddiddorol dros ben:

*SEFYLL YN ERBYN MILWRIO*

*YR oedd yn dda gan lawer ohonom ddarllen i Gymdeithasfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru basio penderfyniad cryf yn y Rhos, Sir Ddinbych, yr wythnos ddiwethaf, yn condemnio rhyfel fel peth hollol groes i ysbryd, meddwl a dysgeidiaeth Crist.*

*Y mae hyn yn help i ffrynt unol Cristnogaeth ar gwestiwn milwriaeth. Gwir nad oedd y geiriad agos mor gryf a phendant ag eiddo'r Bedyddwyr, er enghraifft, pan gwrddodd llys yr enwad hwnnw yn yr un gymdogaeth. A phell ydoedd datganiad myfyrwyr Aberystwyth oddi wrth pendantrwydd Rhydychen.*

*Ond canfyddwn law fy nghyfaill, y Parch. Wyre Lewis, ym mhenderfyniad y Bedyddwyr. Bu ef a minnau yn cydweithio yn erbyn rhyfel pan oedd llu mawr o bregethwyr yn derbyn anrhydeddau am recriwtio.*

*Pell ydym o roddi gormod o bwys ar ddatganiadau swyddogol fel hyn:- er, ar yr un pryd, yn eu croesawu fel rhyw fath o ddeffroad cydwybod.*

*Beth fyddai eu gwerth pe torrai rhyfel allan eto? A fyddai Sasiwn a chwrdd chwarter yn barod i bregethu yn erbyn rhyfel, ac i nawddogi gwrthwynebwyr cydwybodol, tybed?*

*Stori Am Barc Kinmel*

*ARWEINWYR ein llysoedd enwadol oedd y creaduriaid mwyaf rhyfelgar eu hysbryd a'u siarad yn 1914 - 1918. Ofnaf mai yr un fath y byddai eto mewn argyfwng tebyg. Ac eto, y mae'r datganiadau swyddogol yma yn hyfforddi ieuenctid ym mholisi'r gwrthwynebydd cydwybodol.*

*Cofiaf yn dda, pan oeddwn ar ymweliad â 'guard-room' Parc Kinmel yn 1916, glywed Cymro o wrthwynebwr cydwybodol yn dweud mai pregethau un o gewri pulpud Môn oedd wedi ei wneud ef yr hyn ydoedd.*

*"Ond," meddai, "y mae ef, heddiw, yn swyddog yn y fyddin, a minnau mewn carchar oherwydd ei bregethau ef."*

*Hyderwn fod y bobl sy'n siarad mor huawdl yn erbyn rhyfel heddiw yn sylweddoli ystyr a chanlyniadau eu datganiadau.*

*Yr Hen Gristnogion*

*AC eto, nid yw'r datganiad cryfaf a wneir yn y cyswllt hwn ond claear, a meddal, a phlentynnaidd, yn ymyl eiddo'r Eglwys Fore.*

*Dywed haneswyr fel Wilson, a Gibbon, fod Cristnogaeth yn hollol wrth-filwrol am ddau can mlynedd wedi geni Crist.*

*Gwir reswm ymerawdwyr goleuedig fel Aurelius, Diocletian, a Severus, dros erlid Cristnogion ydoedd fod dilynwyr Crist yn gwrthod rhyfela ac yn atal eraill rhag byddino. Pan ddelai milwr at Grist, gadawai'r fyddin. Byddai'r grefydd newydd, felly, yn gweithio o dan sail yr ymerodraeth,-*

*Codwm rhwng Crist a Cesar ydoedd*

*O 200 - 313, goddef rhyfel wnâi'r Cristion, - o dan brotest. Ni oddefid gwisg filwrol yn yr addoliad cyhoeddus; gorfodid milwr dychweledig i wneud pennyd cyn derbyn y cymun sanctaidd.*

*Wedi argyhoeddiad Cystennyn, gwnawd cyfaddawd â Cesar. Clymwyd cledd a chroes; a dyma anffawd fwyaf Hanes. Fe garcharodd Cystennyn y Crist mewn porffor ymerodrol; a drud i'r ddynoliaeth y draul. Aeth gwasanaethu Cesar yn fwy poblogaidd na dilyn y Crist.*

*Pennod Ddu Echrydus*

*AM oesoedd llusgwyd yr eglwys y tu ôl i gerbyd yr ymerodraeth, ac nid yw eto wedi ei ennill ei rhyddid llawn. Cafwyd esgobion i arwain byddinoedd a chroesgadau (fel Bernard), ac offeiriaid i frwydro, a Christnogion i ladd ei gilydd.*

*Pennod ddu echrydus ydyw - a hynny yn enw'r Crist!*

*Cawn eithriadau disglair mewn personau a sectau fel y Cathari, y Waldensiaid, Lollardiaid, Anabaptist, y Crynwyr, y Nazareniaid, y Doukhobours, etc. - codent eu llais o garcharau ac ystranciau, o alltudiaeth ac encil, yn erbyn cysylltiad cledd a chroes, a cheisient ail godi ffydd gyntefig dilynwyr y Crist yn nerth cariad a hunan-aberth.*

*Ond pan wawriodd Awst, 1914, - mor rannol, a distaw, ac anhyglyw, oedd cydwybod yr eglwys ar hyn! Yr oedd hyd yn oed y Crynwyr yn rhanedig!*

*Barn Yr Ieuainc*

*DIOLCHWN felly am ddeffroad newydd. Y mae'r byd wedi cael amser i feddwl y cwestiwn allan erbyn hyn, a thystia cydwybod y ddynoliaeth mai anynnol, afreidiol, a gwrth-Gristnogol yw rhyfel ymhob amgylchiad.*

*Yr elfen fwyaf calonogol ydyw mai ymhlith yr ieuainc y ceir hyn gryfaf. Wedi'r cyfan, yr ieuainc sydd bwysicaf yn y cyswllt hwn. Yr hen sy'n cyhoeddi rhyfeloedd, yr ieuainc a orfodir i'w hymladd - o fodd neu anfodd.*

*Nid wyf erioed wedi deall perthynas Isaac ac Abraham ar ben mynydd yr Aberth. Ffydd y tad a folir gan hanesydd a salmydd, proffwyd ac apostol. Ufudd-dod, meddalwch, gwaseidd-dra a mudandod y mab sydd wedi fy synnu i ganwaith.*

*Onid oedd gan Isaac air i'w ddweud ar y pwnc o'i fywyd ei hun?*

*Y mae Abraham wedi cael gormod o le mewn Hanes; tro Isaac ydyw bellach. Pa hawl sydd gan yr hen i aberthu'r ieuainc o hyd? A dywedyd y gwir, bydd yr anwar yn ymddwyn yn fwy naturiol na'r hwn elwir yn wâr. Aberthu'r hen er mwyn yr ieuainc a wna ef. Polisi arall sydd gennym ni.*

*Yn y rhyfel nesaf, cynigiwn ein bod yn cychwyn y pen arall i fywyd. Gyrrer yr hynaf i ymladd gyntaf oll. Y maent hwy wedi byw eu bywyd; ond nid yw'r ieuainc wedi cael cyfle. 'Conscription' yn dechrau gyda'r 65*

*oed dyweder, ac yna dod i lawr o gam i gam i'r deunaw oed! Yr ieuainc yn olaf ac nid yn flaenaf mewn trefn i'r lladdfa.*

*Pawb Gyda'i Gilydd*

*ONI ddaw'r gydwybod grefyddol allan yn erbyn rhyfel, y mae nerthoedd eraill yn sicr o wneud i filitariaeth ei dinistrio ei hun. Gwyddoniaeth, yr awyren, y radio, - fe wna'r rhai yma derfyn ar ryfel neu ynte ar wareiddiad. Ffrynt unol eglwys a choleg, fferyllfa ac ariandy, sydd eisiau y dyddiau hyn i roddi terfyn bythol ar anfadwaith yr oesoedd.*

*Ac oni ddylai apêl Syr Eric Drummond dros Gynghrair y Cenhedloedd ddeffro atsain yng nghalon pob carwr heddwch? Pell ydyw y cyfrwng o berffeithrwydd, a gwanhawyd ef gan ffrwgwd Japan a China, ac absenoldeb Rwsia a'r America o'r Bwrdd.*

*Serch hynny, dyma'r gallu, a'r drefn nesaf i obaith y ddynoliaeth ar y maes heddiw, a dylem oll amcanu at ei gryfhau. Yn bersonol, methaf weld gobaith i gynhadledd cyflafareddiad, serch ymyriad MacDonald; ac os yw'r 'Four-Power-Pact' i gystadlu â'r Cynghrair fel yr ofna'r Ffrancod, bydd cydwybod Prydain yn sefyll dros Gynghrair y Cenhedloedd.*

*Nid yw Ewrop am ddychwelyd at yr hen drefn Edwardaidd - 'Balance of Power' - arweiniodd y byd i'r rhyfel. Ffrynt unol dros y byd sydd eisiau i ladd draig milwriaeth.*

Yn Y Cymro 29 Gorffennaf 1933 ymdriniodd 'Y Byd Heddiw' â phentref unigryw Rhosllanerchrugog ger Wrecsam, ysgrif sy'n arbennig o ddiddorol erbyn heddiw gan ei bod yn rhoi darlun o gymdeithas ddiflanedig bellach:

*"Y RHOS" YN AROS EI THYNGED*

*NID yn aml y bydd cyfieithiad Saesneg, yn y Beibl, yn rhagori ar eiddo'r Gymraeg; canys y mae'n hiaith ni yn cadw'r arddunol a'r barddonol, y tlws a'r treiddgar a berthyn i ddrychfeddyliau creadigol yr ysgrifenwyr ysbrydoledig.*

*Cyfieithiad Saesneg Galatiad II, 6 ddaeth i'm meddwl ar ôl clywed am fethiant truenus y Gynhadledd Economeg:-*

*'Those who seemed to be somewhat in conference added nothing to me.'*

*Siom y Prif Weinidog*

*Y DYN mwyaf siomedig o bawb yn y busnes yw'r Prif Weinidog, Mr. Ramsay MacDonald. Yr oedd wedi adeiladu ar y gynhadledd hon oddi ar gychwyniad ei weinyddiaeth.*

*I'r rhai sydd wedi ei adnabod ar hyd y blynyddoedd, nid syn oedd ei or-hyder. Ond gwyddom oll ei fod yn cychwyn y gynhadledd o dan anfanteision, fyddent o angenrheidrwydd yn sicrhau methiant. Yr oedd wedi anwybyddu Llafur, ac aeth i mewn heb unrhyw bolisi clir a phendant. Nid oedd ganddo ef a'i gynghorwyr weledigaeth o gwbl, na chynllun i'w gyflwyno i'r byd. 'Lle na byddo gweledigaeth, derfydd am y bobl' - a chynhadledd.*

*Ofnaf mai anghysonderau Mr. Runciman a Mr. Ramsay Macdonald sy'n cyfrif ym marn Prydeinwyr am fethiant y gynhadledd, ac o safbwynt y di-waith, y mae datganiadau y ddau hyn yn anobeithiol.*

*Rhoi'r Di-Waith Ar Y Trethi*

*OND, chwarae teg, y mae nifer y di-waith yswiriedig wedi lleihau yn sylweddol yn ystod y mis diwethaf. Pwy na ddiolcha am hynny? Nid yn unig bydd llai yn derbyn y "dole", ond gwelir ychwaneg o bobl mewn gwaith, mwy neu lai cyson. Ysywaeth, y mae ochr arall i'r cwestiwn.*

*Neidiodd nifer y rhai di-waith sy'n derbyn tâl plwyf o 281,000 ym Medi 1931 i 602,000 ym Mawrth 1933. Rhaid cael £402,000 mwy o dreth y Tlodion yn Lerpwl eleni na'r llynedd.*

*Y mae Durham yn galw am £167,000 ychwaneg, a Leeds yn ceisio gan y trethdalwyr i dalu £65,000 mwy i gynnal y di-waith lleol.*

*Annheg ac anonest yw taflu'r di-waith ar y trethi. Cyfrifoldeb cenedlaethol ddylasai anghyflogaeth fod. Anghyfiawnder â threthdalwyr, a chreulondeb â'r di-waith yw rheidusio (pauperise) yr anghyflog.*

*Ond y mae Mr. Runciman wedi datgan polisi a phenderfyniad Llywodraeth Prydain Fawr i beidio darparu gwaith a chyfleusterau i'r miliynau sy'n disgwyl cyfle i ennill bara beunyddiol. Pan fydd eisiau dweud "na" i unrhyw beth o bwys, y cyn-Ryddfrydwr oer a chyfoethog hwn a gaiff y gorchwyl gan y Weinyddiaeth hon! Efe yn fwy na neb arall, sydd wedi canu cloch cynhebrwng y Gynhadledd Economeg. Efe gladdodd Fasnach Rydd, ac efe eto gauodd ddrws gobaith i'r di-waith. Taera ef a'i debyg mai cyfalafiaeth unigol sy'n gyfrifol am lwyddiant a buddiannau'r wladwriaeth.*

*Ni all ddychmygu system arall, a geilw ar ymadferthoedd ei ddosbarth i amddiffyn cyfundrefn a gondemnir gan ffaith a synnwyr. Canys yn y bôn, methiant cyfaddedig cyfalafiaeth a groniclir gerbron y byd yn aflwyddiant y Gynhadledd Economig.*

*Tro I'r "Rhos"*

*GWASGWYD hyn adre i'm meddwl yr wythnos ddiwethaf yn Rhosllanerchrugog, ger Wrecsam. Aeth chwarter canrif heibio oddi ar fy ymweliad o'r blaen â'r Capel Mawr a gwelais gyfnewidiadau mawr yn y cylch poblog.*

*Lleihad sydd yn nifer y bobl, a bu llawer o symud yn ôl a blaen i'r America yn ystod y dirwasgiad glofaol.*

*Ceir teip arbennig o weithwyr yno. Nid mor rhydd, ac agored, ac ysgeifn â glowyr y De. Llai eu hiwmor na gweithwyr Aberdâr; ond darllenwyr mawr ydynt; ac y maent yn 'modern' ymhob peth. Sylwais ar lyfrau diweddaraf Cymru mewn un tŷ, ac ar y bwrdd gwelais 'Y Cymro', 'Y Llenor' a'r 'New Statesman'. Yr oedd hyn yn nodweddiadol o lowyr y Rhos.*

*O gwmpas y capel a'r eglwys y try bywyd yno, ac y mae ganddynt gapeli lluosog, heirdd a llawnion. Petrusaf dderbyn ffigurau yn y cyfeiriad hwn. Ond credaf fod cyfaill yn gymhedrol pan ddywedodd fod fy nghynulleidfa nos Sul rywle o gwmpas 1,200.*

*Tebyg mai gan y Rhos y mae canu cryfaf a gorau y Gogledd. Hwy sydd debyca i'r De. Serch hynny, teimlais 'thrill' debyg yn Ffynnongroew, ac nid anghofiaf ganu Coedllai am yn hir.*

*Glowyr yw trigolion y canolfannau hyn; ac y mae greddf canu yn y bobl sy'n gweithio ym mherfeddion y ddaear. Hwyrach eu bod yn dod o hyd i gynghanedd calon y bydysawd, ac yn darganfod y gytsain goll yn nistawrwydd ac unigrwydd yr anwybod mawr.*

*Ymffrost Y Capeli*

*YMFFROST capeli'r Rhos yw yr Ysgol Sul. Ac amheuthun i greadur a dreulia ei fywyd yng nghanol Saeson oedd gweld Ysgol Sul Gymreig debyg i eiddo ei febyd yn Llansamlet.*

*Gwelais ysgolion mwy yn Lloegr. Cawn un yn Salford, er enghraifft, yn rhifo dros ddwy fil, a chofiaf un yn Nhonypandy yn cynnwys mil. Byddai ysgol capel y Cwm dros bum cant hefyd. Ychydig o dan bedwar cant oedd eiddo Capel Mawr y Sul y bûm i yno; ond sylwais ar bobl mewn oed, rhai dros 70 yno. Hynny oedd ddiddorol i mi.*

*Rhifais tua 60 dosbarth ar wahân i ysgol y plant bach. Casgliadau yr Ysgol Sul sy'n rhyfeddol i ymwelydd. Yr eglwys fydd yn cynorthwyo yr Ysgol fel rheol yn Lloegr, ond yr oedd Ysgol Sul y Capel Mawr wedi casglu ymhell dros £400 y llynedd i gynorthwyo'r eglwys! A hynny ar adeg o ddirwasgiad!*

*Y mae cannoedd lawer allan o waith yn y Rhos, a chyfartaledd cyflog y rhai sydd mewn gwaith yn ddwy bunt yr wythnos; ac eto, casglwyd dros £1,200 yn yr eglwys hon y flwyddyn ddiwethaf!*

*Ffeithiau fel hyn sy'n ennyn edmygedd a pharch dyn i'r glöwr o hyd. Pa ryfedd bod cewri'r pulpud Cymreig fel Dr. Wynn Davies, Wyre Lewis, Edryd Jones, Powell-Griffith, etc., yn glynu wrthynt mor hir! Buasai'n hawdd i'r gweinidogion athrylithgar o bob enwad ag sydd yno heddiw, gael tlysach trigle a bywoliaeth frasach a mwy ysgafn. Ond amhosibl ffeindio mwy o deyrngarwch a chydymdeimlad a chydweithrediad mewn unrhyw gwr o'r wlad.*

## *Gwahanol i Bob Man Arall*

*Y MAE'R Rhos yn fyd ynddo'i hun, ac yn wahanol i bob man arall. Di-gynllun hollol oedd y pentref cyntefig; adeiladwyd yr hen dai rywle a rhywsut, fel yng Nghwmafon gynt. Byddai gan bob tŷ dwlc moch ac ychydig o ieir; ac nid oedd yr un teulu heb berchennog tir ac ychydig arian yn y banc.*

*Unigoliaeth, annibyniaeth, hunan-ddigonolrwydd oedd nodweddion Rhoswr y gorffennol. Ond y mae yno ymgais i gynllun-dref, bellach, a chedwir golwg ar iechydaeth, prydferthwch a defnyddioldeb. Ymffrostiant yn eu hysgolion a throant allan rai o ysgolheigion gorau y Deyrnas Gyfunol.*

*Ni chefais hamdden i ymgyfarwyddo llawer â bywyd cymdeithasol y cylch, ond gwn fod yr arweddau addysgol, elusennol, a chorawl yn cael sylw mawr; ac nid yw'r ysbryd sectyddol yn farw, nac yn fud.*

*Byddwn yn arfer poeni ysbryd a thanio tymer fy hen gyfaill, Dr. Peter Price, pan weinidogaethai yn y Rhos, trwy ofyn iddo "Beth yw'r gwahaniaeth ym maint y 'Capel Mawr' a'r 'Capel Bychan'?"*

*Wrth gwrs, yr oedd yn amser rhedeg am drên cyn i huodledd eirias Peter ein doddeithio.*

## *Dibynnu Ar Un Pwll*

*CYMDOGAETH yn dibynnu ar un pwll yw y Rhos, ac yn hyn o beth y mae yn eithriad anhapus. Pwll yr Hafod sy'n cadw'r lle i fynd. Y mae tua 2,500 yn gweithio yno pan â y fasnach lo yn iawn; ond ar hyn o bryd 1,800 a gyflogir yno, yn rhannol, dridiau neu bedwar dydd yr wythnos. Gyda'r "dole" gwneir y cyflog i fyny i 35/- neu 40/- yr wythnos. Ond cedwir sylltau o hyn yn ôl i gwrdd â'r gofynion arferol am feddyg, ffederasiwn, etc.*

*Un cwmni sydd yn rhedeg yr Hafod ac erys tynged y gymdogaeth yn eu dwylaw hwynt. Fel mater o ffaith, y mae un bonheddwr yn goruwch lywodraethu popeth. Efe a'i gwmni hefyd biau dŵr y lle, ac, os cofiaf yn iawn, eiddynt y nwy hefyd. Nid wyf yn sicr am y trydan.*

*Nid oes neb all eu beio. Gwnaethant gymwynas i suddo eu cyfalaf yn y pethau hyn. Cymerasant 'risk' a rhoisant gyfle i 12,000 gael cynhaliaeth ac adeiladu bywyd cymdeithasol eang. Ond erys y ffaith fod*

*tynged 12,000 yn dibynnu ar ddyrnaid o unigolion. Maentumiwn fod y peth yn anfoesol, yn annynol ac anghyfiawn.*

*Nid oes yr un dyn na grŵp o ddynion yn gymwys i ddal y fath awdurdod a gallu.*

*Pan ysgrifennir y nodion hyn, cynhelir cyfarfod o randdalwyr yr Hafod, yn Llundain, i benderfynu dyfodol yr Hafod - a'r Rhos! A dyma'r drefn a amddiffynnir gan Mr. Runciman o flaen Cynhadledd Economig y byd! Pa hyd y goddefir y fath anhrefn tybed?*

Ymddangosodd ysgrif ragorol arall gan J. H. Howard yn Y Cymro 6 Hydref 1934, ychydig ddyddiau wedi tanchwa Gresford. Yn naturiol, mae'n cydymdeimlo â'r rhai a gollodd anwyliaid yn y drychineb ofnadwy, ond fel y dengys y Parch. Howard mor effeithiol isod, yr oedd holl fywyd glowyr yr oes yn drychineb mewn gwirionedd:

*Trychineb Gresford*

*SYFRDANWYD y wlad oll gan drychineb Gresford, ger Wrecsam, ac y mae Cymru gyfan mewn galar. Nid ydym yn cofio tanchwa mor ofnadwy yng Ngogledd Cymru, ond gŵyr y De am brofiadau o'r fath.*

*Aiff meddyliau rhai o'n darllenwyr yn ôl at y Morfa, Cilfynydd, yr Universal, y National, ac yn bennaf Senghennydd, pan gollwyd 439 o fywydau. Rhif I - y cwm, Mynwy, oedd yr olaf yn y De, sef yn 1927, pan gollwyd 52 o fywydau.*

*Cymru yw'r dioddefydd mwyaf ym myd trychinebau glo ar hyd y blynyddoedd, ac y mae'n hen bryd gofyn paham.*

*Am ychydig wythnosau, bellach, caiff y glowyr sylw'r genedl, ac yr ydym yn debyg o weld cronfa fawr yn cael ei chodi i gynorthwyo'r dioddefwyr. Cofiwn y gweddwon a'r amddifaid, a hyderwn nad anwybyddir y cannoedd o wroniaid a daflwyd allan o waith. Ai gormod yw disgwyl rhywbeth gwell na'r "dole" oddi wrth wladwriaeth syn? Canys yr oedd gwroldeb y rhai byw yn gymaint syndod i'r wlad â'r dychryn a ysgubodd 260 o ebyrth masnach i'r anwybod mawr.*

*Gwroniaeth Bob Dydd*

*RHYFEDD mor ddall yw'r byd i wroniaeth bywyd beunyddiol. Yn bersonol credaf fod y glowr yn perthyn i reng flaenaf gwroniaid byd. Cyflawnir cymaint o wrhydri a menter ym myd y glo ag a wneir ar faes y gad. Ac eto, nid oes ond ychydig o weddïo dros y glowr ag eithrio ar adeg fel hon. Yr ydym yn canu gweddïau dros y morwr sydd mewn perygl ar y don; a da hynny, canys*

*Mae'i gwch ef mor fychan*
*A'th fôr di mor fawr.*

*Ond, gwyddom fod gan forwr fywyd-fad, a chyfle i ddianc mewn llong-ddrylliad neu long ar dân. Cadwn oleudai a chlych-y-graig, a bwiau i'w gynorthwyo mewn argyfwng, ac un o gymdeithasau godidocaf dynolryw yw eiddo'r Bywydfad.*

*Druan o'r glowyr! Bedd yw ei bwll. Cleddir tri glowr bob dydd, a gwyrth yw ei atgyfodiad gyda min yr hwyr. Nid oes ganddo le i ffoi o flaen y fflam, neu gwymp y nen, neu awyr afiach.*

*Gall milwr daflu codwm â'i elyn, a cha'r un cyfle â'i wrthwynebydd. Ond beth fedr glowr wneud mewn tanchwa? Nid oes edrychydd i gofnodi'r*

*hanes; treiglir maen i ddrws y bedd o dân, ac, fel anifail nas digonwyd, torrodd y fflam trwy'r beddfaen i larpio un aberth yn ychwaneg yn Gresford.*

*Bywyd rhyfedd yw eiddo'r glowr - cymrawd beunyddiol i angau ydyw; ac y mae mewn perygl einioes bob munud; clyw a gwêl bethau yng ngolau ei lamp sydd anhysbys i bawb arall. Gŵyr am glefydau dieithr i'r rhelyw o'r ddynoliaeth a pherthyn i fyd na ŵyr trigolion ar y wyneb ddim amdano.*

*Dyn yr eithafion ydyw mewn daearyddiaeth, moes a chrefydd, ond fel rhyw Atlas, yr hwn sydd dan draed pawb a ddeil fasnach a gwareiddiad ar ei ysgwyddau. Y glowr a wnaeth long enfawr y 'Queen Mary' yn bosibl. Efe geidw weithiau alcan a dur, haearn a pheiriannau i fynd. Efe sy'n rhoi ager i'r rheilffordd a'r llongau. Efe sy'n pobi ein bara, yn cynhesu ein cartrefi, ein haddoldai, ac ysbytai.*

*Heb lo gallem gau'n ffatrïoedd, ein dociau a'r mwyafrif o'n diwydiannau a'n gwasanaethau cyhoeddus. Glo yw cyfoeth cartre Prydain. Yr estron a gynhyrcha olew - hyd yn hyn. Plentyn ieuanc yw trydan mewn diwydiant. Glo sydd wedi rhoddi'r flaenoriaeth i'r Ymerodraeth Brydeinig yng nghynghorau a galluoedd y byd.*

*Ond rhaid cael trychineb echrysion i wasgu'r ffeithiau hyn adre i'n meddyliau. Ac, ysywaeth, y glowr sy'n cael ei dalu waethaf o bob dosbarth ar hyn o bryd; ac efe yw'r mwyaf diamddiffyn ym myd diwydiant. Y mae ei fywyd, ei gysur, ei ragolygon at drugaredd y meistri.*

*Help I'r Rhai Sy'n Dioddef*

*DA yw clywed bod dros £40,000 wedi ei danysgrifio i gynorthwyo dioddefwyr Gresford. Ond, carem i'r genedl, ar ôl trychineb mor ofnadwy, roddi mwy o sylw i ddiogelwch a chysur y glowr.*

*Onid yw y rhuthr gwyllt sy'n nodweddu pyllau glo yn awr yn berygl i einioes? Pan oeddwn i yn gweithio o dan y ddaear yn Llansamlet, deg a deuddeg awr oedd hyd ein dydd gwaith. Chwyldro rhyfeddol oedd ymgyrch Mabon am "wyth awr o fanc i fanc". Gormod o lawer oedd hyd ein horiau ni; ond caem hamdden i fwyta a diogelu ein heinioes yr adeg honno; ac nid oedd chwarter y straen ar nerf a nwyf ag sydd yng nghanol sŵn peiriant a rhuthr pwll modern.*

*Y mae eisiau archwilwyr a fformyn wedi eu penodi gan y Llywodraeth, heb fod yn gyfrifol i'r meistri ym mhob pwll. Ar hyn o bryd, gweision y cwmni yw'r cyfryw, a rhaid iddynt ofalu am gynhyrchu glo yn anad dim. Hwy sy'n gyfrifol i'r cwmni am ddiogelwch y pwll hefyd. Ymwelwyr achlysurol ac annibynnol yw archwilwyr y Llywodraeth - fel hen arolygwyr yr ysgolion.*

*Gwaith Peryglus*

*COFIWN fod tua mil o lowyr yn colli eu bywydau yn y glofeydd bob blwyddyn; a thua pedair mil yn cael eu hanafu. Ail adroddir trychineb Gresford bedair gwaith y flwyddyn yn nifer y bywydau a gollir. Ond cleddir y ffigurau enbyd yma mewn llyfrau gleision.*

*Beth yw cyflog y glowr? Onid yw gweithiwr pen y rhewl yn well ei fyd nag ef? Y mae carthwyr Lerpwl yn derbyn 10/- yr wythnos mwy o gyflog na chyfartaledd glowyr Cymru. Nid achwyn ar faint tâl y carthydd yr ydym, ond gofidio am fychander derbyniadau y gŵr sy'n peryglu ei einioes beunydd i wresogi'n cartrefi. 7/4½c. yw lleiafswm tâl y glowr - ar gyfartaledd £2 yr wythnos lawn - pan gâ hynny.*

*Ei gais, a dyfarniad y Bwrdd Cenedlaethol ydyw am ychwanegiad o chwe cheiniog y dydd! Saif y meistri yn erbyn hyn. Glowyr Deheudir Cymru sy'n cael y tâl isaf ym myd glo Prydain. A phan gofir costau byw,*

*y mae'n is ei safon nag ydoedd yn 1914.*

*Yr Unig Feddyginiaeth*

*CREDAF mai'r unig feddyginiaeth derfynol yw cenedlaetholi glo, a gwneuthur y glowr a phob gweithiwr arall yn 'civil servant' - fel plisman, llythyrgludydd, athro, barnwyr a gweision y goron.*

*Yr ydym wedi gallu byw heb Brifweinidog a senedd am dri mis, ond beth ddeuai o'r genedl a'r Ymerodraeth heb lowyr ymhen hanner yr amser yna?*

*Caiff gwladweinydd bensiwn o filoedd o bunnau ar ôl ychydig flynyddoedd o dderbyn tâl anferth am wasanaeth. Gwn am lowyr yn derbyn elusen plwy ar ôl hanner can mlynedd o dorri glo.*

*Hyderaf y gwna fflam Gresford oleuo trasiedi bywyd beunyddiol byd y glo.*

Dyfynnwyd uchod ysgrif y Parch. Howard yn ysgrifennu am ei brofiadau yn nhrueni slymiau Lerpwl ac ymddangosodd ysgrif debyg yn Y Cymro 9 Mawrth 1935, y tro hwn yn adrodd am ei brofiadau gyda di-waith y ddinas. Unwaith eto, cryfder yr ysgrif yw ei phersonolyddiaeth: yn hytrach na defnyddio erthyglau papur newydd a ffynonellau eilradd eraill i ysgrifennu ei ysgrif, penderfynodd J. H. Howard (y cyfeirir ato yn Y Cymro bellach fel y Dr. Howard) dreulio diwrnod gyda dyn di-waith go iawn fel y gallai brofi drosto'i hun sut beth oedd bod yn anghyflogedig. Gwisgodd fel gŵr di-waith ac aeth oddi amgylch Lerpwl am y dydd gyda Gwyddel ifanc na chafodd waith na'r dôl ers blynyddoedd; yn ogystal defnyddiodd ffugenw am y dydd fel na fyddai neb yn gwybod ei wir enw na'i alwedigaeth. Cyn edrych ar yr ysgrif, diddorol iawn yw'r hyn a ddywed Derwyn Jones am J. H. Howard yn Y Bywgraffiadur Cymreig 1951 - 1970:

*....Yn ystod ei weinidogaeth, yn enwedig yn Lerpwl, gwnaeth lawer o waith cymdeithasol, ac fe'i hadweinid fel 'Down-and-out Jim' oherwydd fe'i gwelid yn fynych yn ymuno â chiw'r di-waith er mwyn cael cyfle i gasglu gwybodaeth am broblemau cymdeithasol....*

Gwelir o'r ysgrif bod ei brofiadau'n ysgytwol ac maent wedi eu mynegi yn ei arddull gref arferol:

*DIWRNOD GYDA'R DIOBAITH*

*YR ydym wedi clywed digon o ddilorni ar dlodi a rhyfel ac anghyflogaeth, yn gyffredinol, a hynny gan wleidyddwyr, economwyr a phregethwyr, ond mor wahanol yw iaith a dylanwad dioddefwyr oddi wrth y clefydau hyn.*

*Ar ôl darllen popeth oedd wrth law ar bwnc anghyflogaeth,*

*penderfynais fynd i gysylltiad uniongyrchol â byd a bywyd y diwaith, a threuliais ddiwrnod bythgofiadwy ymhlith ebyrth diwydiant.*

*Yr oeddwn wedi ceisio gan gapten (Cymro) ym Myddin yr Iachawdwriaeth i ffeindio 'genuine case' o ddyn diwaith i fy nghymryd mewn llaw am y dydd, a hynny heb wybod fy enw na'm galwedigaeth. "Tom" oedd ei enw ac iddo ef "Jim" oeddwn ac ydwyf innau.*

*Gwisgais mewn hen siwt, braidd yn garpiog, mwffler llwyd am fy ngwddf, hen gap am fy mhen, ac esgidiau llwydaidd am fy nhraed.*

*Cwrddais â'r Gwyddel, 29 oed, yn lled fore wrth ddrws noddfa'r Fyddin yng ngwaelod y ddinas yn bur agos i'r dociau. Nid oedd fy arweinydd wedi bod mewn gwaith cyson ers dros bum mlynedd. Gwrthodwyd y "dole" iddo, ac ni chafodd gymaint â chymorth trosiadol. Y tloty yn unig a gynigir i'w fath ef, canys ni enillodd "sefydliad", serch byw o gwmpas Lerpwl am bum mlynedd.*

*Pedwar Dosbarth*

*SYLWEDDOLAIS fod pedwar dosbarth ymhlith y diwaith sef:- (1) Y rhai sydd mewn budd yswiriol; (2) derbynwyr cymorth trosiadol; (3) tyrfa fawr ar drugaredd y cymorth cyhoeddus; (4) trueiniaid y gwyll sy'n drifftio yng ngwaelodion cymdeithas. Ni ŵyr neb nifer y dosbarth olaf yma - mynychwyr celloedd y crwydriaid (casual wards) a noddfeydd a'r parciau ydynt. Byd rhyfedd yw yr eiddynt hwy ac nid oes neb mor hysbys o'u hanes a'u profiadau â swyddogion Mudiad mawr William Booth.*

*Y mae 230 o welyau yn y noddfa lle y crwydrais gyda Tom fore dydd Mawrth, a llawnion ydynt bob nos o'r casgliad rhyfeddaf a berthyn i'r ddynoliaeth.*

*Gofynnais i Tom fy nghymryd gydag ef i'w deithiau arferol. Addewais dalu'r treuliau, ond yr oeddym i fwyta yr un fath, ac yn yr un lleoedd yn hollol ag a wnâi ef o ddydd i ddydd.*

*Nid oedd fy arweinydd yn diota nac yn ysmygu, ac ni ofynnodd i mi fynd i unrhyw dafarn o gwbl.*

*Ei fwriad oedd sicrhau wyth geiniog ar gyfer noson o lety a brecwast. Os nad allem gael y swm cyn dau o'r gloch byddai'n rhaid i ni droi i ganu ar y stryd - allan o olwg y plismyn.*

*Buom yn ymdroi am ychydig o gwmpas y Labour Exchange, ond pendefigaeth y diwaith oedd yno; a methai Tom aros am chwarter awr yn eu plith. "I ba beth?" meddai. "Gwastraff amser ydyw i'n bath ni'n dau."*

*Cerddasom ddwy filltir i "loches" arall lle roedd tua chant a hanner yn gorffen brecwast - bara, margarin a thê cryf. Dyma frecwast y mwyafrif o'r dosbarth yma ar hyd y flwyddyn. Dwy geiniog yw'r gost gan y Fyddin. Un o ryfeddodau'r oes i mi yw medr y Fyddin i ddarparu bwyd mor rhad i'r tlawd. Cewch ginio o gloron, cig a ffa am geiniog; a rhoddir dysglaid o botes gyda hynny yn rhad! Onid hyn yw un o wyrthiau coginiaeth y ganrif?*

*Trefnais i fodur-gerbyd y Fyddin gario llwyth o'r ciniawau ceiniog a'r potes rhad yma i'r strydoedd culion sydd rhwng Catherine Street a'r Brifeglwys.*

*I Garchar Dros Y Gaeaf*

*CWRDDAIS â chwech yn yr ail loches yma oedd heb weithio ers pymtheng mlynedd ag eithrio ychydig wythnosau adeg cynhaeaf. Trefnant fel rheol i dreulio tua tri mis oera'r gaeaf mewn carchar. Yr oedd dau ohonynt newydd ddod allan o Walton. Cywilydd. Dim perygl. Mater o drefn a darbodaeth ydyw i gannoedd lawer, meddent wrthyf. "Yr ydym yn sicr o fwyd da a digon ohono; gwely clyd; gwres, a noddfa." Ac er fod y*

*ddisgyblaeth yn fanwl a llym, llai creulon y carchar na'r 'casual ward'.*

*Awgrymiadol ac addysgiadol yw'r cysylttiad sydd rhwng troseddau ac anghyflogaeth. Torrodd un dyn ffenestr siop gemydd yma yr wythnos ddiwethaf a hynny ganol dydd pan yr oedd cannoedd o bobl yn ymyl. Wrth gwrs, daliwyd ef cyn pen dau funud, a haliwyd ef i orsaf yr heddlu. Onid o fwriad y trefnodd i gael ei ddal? Yr oedd heb waith ers dwy flynedd.*

*Yr oedd gennyf awr a hanner i aros trên ym Manceinion yn ddiweddar. Troais i mewn i'r frawdlys i wrando dyfarniadau barnwr pur adnabyddus. Yr oedd wyth o bob deg a gyhuddwyd o ladrad neu drais y prynhawn hwnnw yn ddynion a bechgyn allan o waith. Drud yw anghyflogaeth mewn moes dinasyddiaeth.*

### *Chwilio Am "Job"*

*BUOM mewn tair llyfrgell gyhoeddus. Gwelsom gannoedd yn darllen hysbyslenni swyddfa Llafur. Trist oedd eu gweld yn ysgrifennu'r cyfeiriadau a'r cyfarwyddiadau, a llawer ohonynt yn rhuthro allan i gael y blaen ar ymgeiswyr eraill.*

*Y mae mwyafrif mawr y diwaith yn y cylch hwn wedi suddo i gors anobaith. Llewygodd un Cymro yn Kensington pan gynigiwyd gwaith iddo gan fildar ar fy nghais.*

*Methais gael gan Tom i apelio am waith mewn ffatri, a warws a siop. Y mae wedi anobeithio'n llwyr a bodlona ar ddrifftio o gwmpas. Caria lwyth o lo i'r seler am chwe cheiniog; torri y berth; palu'r ardd; golchi grisiau; ysgubo'r eira. Os medr gardota chwe swllt, y mae'n prynu ychydig o ffrwythau i'w gwerthu o ferfa fenthyg. Yna, gorffwysa hyd nes y gwaria'r ddimai olaf. Dyna ei fywyd, ie a hanes miloedd o rai tebyg.*

### *Tom A'r Cinio*

*YR oeddym wedi trampio tuag wyth milltir erbyn dau o'r gloch; ac yr oedd pangfeydd newyn wedi gafael ynof. Torrais fy adduned. Gofynnais i fy arweinydd os carai i mi brynu cinio poeth iddo mewn tŷ bwyta oedd yn ymyl.*

*"Cinio poeth fel sydd ar y 'menu card' acw yn costio swllt?" ebai; "Na, dim diolch; nid wyf wedi cael cinio poeth fel yna ers blynyddoedd - ag eithrio dydd Nadolig gyda'r Fyddin, a bûm yn sâl ofnadwy ar ôl hwnnw!"*

*Gorfu i mi fodloni ar ginio arferol Tom - bara a margarin a thê cryf! Hyn yw ei frecwast, ei ginio a'i swper ef, ond pan fentra ar ginio ceiniog y Lloches.*

### *Lloches Y Morwyr*

*CAWSOM ein hunain yn noddfa'r morwyr. A dyma un o'r lleoedd rhyfeddaf y bûm ynddo erioed. Y 'Gordon Smith' y'i gelwir. Pobl ddiwaith o blith y deuddeng mil o forwyr diwaith Lerpwl sy'n cyrchu yma ddydd a nos.*

*Ymgymysgais â hwynt am dros ddwy awr, du a gwyn, capteiniaid a llongwyr cyffredin; pob dosbarth wedi ei lefelu gan anghyflogaeth a chyni, a'r mwyafrif heb obaith am long byth.*

*Yma cânt eu cynorthwyo â bwyd a dillad, a gwely, ac â chartref am ysbeidiau diwaith. Duw yn unig a ŵyr y gwasanaeth a wneir yn y sefydliad rhagorol yma i ddynoliaeth. Tua deugain y dydd yw cyfartaledd nifer y rhai a gynorthwyir yn sylweddol gyda swyddogion twymgalon. Gofalir am gyrff ac eneidiau, canys fel Byddin yr Iachawdwriaeth*

*crefydd yw sylfaen ac ysgogiad y sefydliad.*

*Ar Eu Pennau Eu Hunain*

*GOFYNNAIS i ddwsin o'r ymwelwyr rheidus diwaith a oeddynt yn adnabod rhywrai yn yr ystafell lawn. "Dim un" oedd ateb y dieithriaid; "ac nid wyf am adnabod neb ychwaith!"*

*Unigoliaeth eithafol sy'n hynodi plant y gwyll. Hwyrach mai hyn yw diogelwch cymdeithas wedi'r cyfan. Sut medr dynion newynog fel Tom basio ffenestri llawnion y siopau mawr heb eu dryllio er mwyn y bwydydd a ddangosir ynddynt?*

*Y mae dau reswm heblaw crefydd am hyn:- (1) Gwendid corfforol (prin y meddant ddigon o ynni a mentar i dorri ffenestr); (2) Methant ymuno mewn dim ond newyn a thrueni. Buasai undeb ymhlith y dosbarth yma yn ddychryn i wareiddiad. Y mae'r diwaith sydd mewn budd yswiriol a throsiadol wedi gallu undebu yn erbyn creulonderau'r Bwrdd Cynorthwy, ac enillasant gefnogaeth dosbarthiadau eraill nes y gorfu i'r Llywodraeth blygu. Ond nid oes ysbryd nac asbri yn haenau isaf anghyflogaeth i undebu o gwbl. Crystyn a gwely yw eu terfyngylch.*

*Cymry Yn Eu Plith*

*GWELAIS o leiaf ddwy fil o'r cyfryw. Ymgomiais â thros hanner cant; a dychwelais i'r noddfa wrth y docs i gymharu fy nodion gyda'r Capten hynaws. Ond nid oedd Tom ddim nes i gael gwaith ar derfyn y dydd nag yn y bore. Yr un fydd ei hanes ef yfory, a thrannoeth, ac o wythnos i wythnos.*

*Cymry? Do! gwelais rai o Arfon a sir Ddinbych a dwsinau o Ddeheudir Cymru fel dail ar ddylif colledigaeth. Y mae'r prawf-moddion wedi gyrru miloedd ar dramp.*

*Pan droais adref i dalu fy ngheiniog olaf ar y tram methwn â deall paham yr oedd pobl yn symud draw oddi wrthyf ac yn cuddio'u ffroenau - hyd nes i mi gofio fy siwt fratiog. Rhaid hefyd fy mod yn arogli'n drwm, ond nid persawrus erbyn hynny.*

*Y noson honno, perswadiais gyflogydd llafur pwysig yn Lerpwl i ddod gyda mi i weld drama Walter Greenwood:- 'Love on the dole'. Distaw ryfeddol ydoedd am y ddwy awr, a'r gair cyntaf a ddywedodd ar y ffordd adref ydoedd "Howard, it was damnable!" "My friend," oedd fy ateb, "it is damnable!"*

*Nid uffern dân Dante a Miltwn yw dychryn yr ugeinfed ganrif. Gratiau di-dân, a di-fflam, a di-wres sy'n poeni dwy filiwn a hanner o Brydeinwyr heddiw; ac y mae iddynt ugain miliwn o gymrodyr rheidus yn Ewrop. Y "dole" sydd wedi cadw Prydain rhag chwyldro hyd yn hyn. Ac onibae am ddyngarwch cymdeithasau dyngarol fel Byddin yr Iachawdwriaeth ac eraill sy'n gweithio gyda haenau isaf anghyflogaeth buasai dinasoedd mawr y wlad hon a gwledydd eraill wedi pydru'n gorfforol ac yn ysbrydol.*

Credaf mai un arall o ysgrifau 'Y Byd Heddiw' sy'n werth ei dyfynnu yw'r un a ymddangosodd yn Y Cymro 11 Ebrill 1936 yn trafod bwriad y Llywodraeth i sefydlu'r ysgol fomio yn Mhen Llŷn. Unwaith eto, gwelir ynddi mor deg yw'r Dr. Howard gan y gall weld dilysrwydd a rhesymeg mewn pob math o safbwyntiau: gall ddeall rhesymau'r awdurdodau dros ddewis Llŷn fel safle addas ar gyfer

yr ysgol, a gall ddeall y trueniaid di-waith yn gweiddi am gael yr ysgol fomio yn eu hardal er mwyn cael y cyfle i ennill rhyw fath o fywoliaeth, er wrth gwrs na all fel heddychwr pybyr gytuno ag egwyddor yr ysgol.

Yn yr un modd ni all weld fod dadl harddwch Llŷn yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthwynebu'r ysgol hon gan ei fod, er yn cydymdeimlo â hi, yn dweud yn gwbl rhesymegol mai hunanoldeb rhonc yw hyn mewn gwirionedd gan nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng ei hadeiladu yn Llŷn hardd ag yn 'Llansamlet fyglyd'. Ac nid yw dadl yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, er yn cydymdeimlo â hithau hefyd, yn ei ddarbwyllo ychwaith, fel yr eglura isod. Yn wir, yr unig dir y teimla'r Dr. Howard yn gwbl ddiogel i sefyll arno yn achos yr ysgol fomio yw'r un y saif arno yng nghynifer o ysgrifau 'Y Byd Heddiw', sef ar dir heddychiaeth gwbl ddigyfaddawd:

*<u>PROTEST PORTH NEIGWL</u>*

*UN o gwestiynau llosg Gogledd Cymru ar hyn o bryd ydyw bwriad y Llywodraeth i sefydlu ysgol fomio ym Mhorth Neigwl, ar lannau deheuol gwlad Llŷn. Y mae'r enwadau, yr eglwysi, cymdeithasau hanes, etc., yn protestio yn erbyn yr hyn a ystyriant yn fandaliaeth o'r fath waethaf. Ymddangosodd protest cryf yn 'Y Cymro' uwchben enwau a berchir yn fawr ledled Cymru.*

*Bûm mewn cyfarfod brwdfrydig o brotestwyr yn Lerpwl yma y noson o'r blaen, ac fe benderfynwyd anfon deiseb i'r Awdurdodau, yn enw Cymry alltud. Ofnaf, serch hynny, mai ychydig o effaith a gaiff mewn cylchoedd swyddogol.*

*Gorfu i mi ymadael o Gymdeithasfa Fflint cyn i'r cwestiwn gael ei drafod yno. Ysgrifennaf, felly, heb glywed rhesymau cynrychiolwyr Arfon yn erbyn yr ysgol fomio. Ond, os deallaf y safle yn iawn, tebyg ydynt i'r rhai a ddygwyd gerbron darllenwyr 'Y Cymro' eisoes, sef y perygl i andwyo prydferthwch y wlad, i ysbeilio lleoedd cysegredig, i niweidio diwylliant ac iaith Cymru, ac i Seisnigeiddio un o lecynnau mwyaf Cymreig Cymru.*

*Yn y cyfarfod y bûm ynddo, dywedwyd hefyd fod y brodorion yn ofni colli ymwelwyr haf i leoedd fel Abersoch, Nefyn, a Phwllheli. Heblaw hynny, maentumir y buasai Llŷn yn darged arbennig i ymosodiadau awyrol y gelyn.*

*<u>Sail Gryfaf Y Brotest</u>*

*PRIN y mae eisiau dweud fy mod mewn cydymdeimlad â phob un o'r rhesymau uchod, a hwyrach fod gan rai ohonom ddadleuon ychwanegol. Ond rhaid cyfaddef, serch hynny, mai nid argyhoeddiadol hollol yw'r gwrthwynebiadau hyn fel yr ymddengys pethau yn bresennol.*

*Hyd y gwelaf i, yr unig dir digonol i brotestio yn erbyn cael ysgol fomio i Llŷn yw eiddo'r heddychwr digyfaddawd. Bûm yn ddigon mentrus i*

*ofyn i'r protestwyr yn Lerpwl a oeddynt yn barod i ddiddymu Llu'r Awyr yn llwyr, a bodloni i Brydain wneud i ffwrdd yn gyfangwbl â'r arf hon. Hyd y cofiaf, un arall heblaw'r ysgrifennydd hwn oedd o blaid polisi felly.*

*Cofier mai ein gwlad ni sydd wedi sefyll gryfaf yn y Cynghrair ar Gynhadledd Diarfogi o blaid cadw awyrennau bomio a'u defnyddio. Gwir fod 80 y cant o Gymry wedi pleidleisio dros y Cynghrair a lleihad arfogaeth, ond pa faint ohonom a bleidleisiai dros ddiarfogiad llwyr? Onid yw ymddygiad Arglwydd Robert Cecil ynglŷn â'r Papur Gwyn yn enghraifft deg o bolisi mwyafrif llethol ein pobl? Parod ydyw i weithio dros heddwch a'r Cynghrair, ond cred mewn byddin Brydeinig a darpariaeth "ddigonol" ar gyfer rhyfel.*

## *Safbwynt Yr Awdurdodau*

*OS yw mwyafrif pobl gwlad Llŷn, ac Arfon, a Chymru oll yn benderfynol i gadw a chynnal Llu'r Awyr, ai teg yw gofyn i rannau eraill o'r deyrnas gymryd y cyfrifoldeb a'r perygl a'r anhwylustod i gyd?*

*O safbwynt yr awdurdodau y mae llawer iawn i'w ddweud o blaid dewis Llŷn i'r ysgol. Pell ydyw o'r canolfannau poblog, a'r diwydiannau hanfodol. Tenau ei phoblogaeth a gwasgaredig; yno ceir cyfleusterau môr a thir i ymarfer bomio, ac nid yw yn rhy agored i ysbïwyr.*

*Dywedai swyddog cyfrifol wrthyf nad oes yr un rhan o'r Deyrnas Gyfunol yn cynnig cymaint o gyfleusterau i ysgol fomio â Llŷn. Dyna'r farn swyddogol; a rhaid i honno edrych ar bopeth o safbwynt ymarferol. Os oes eisiau ysgol fomio rhaid ei rhoi mewn lle sy'n fanteisiol i'r gwaith.*

## *Prydferthwch A Diwylliant*

*BYDDAF, fel miloedd eraill, yn dotio ar brydferthwch, a thraddodiadau, a diwylliant Cymreig Llŷn. Ond, credaf fod pob llecyn yn gysegredig i rywrai. Y mae Llansamlet llawn mor gyforiog o hanes a thraddodiad i mi ag yw Llangian i fy nghyfaill George M. Ll. Davies. (Enwaf ef am fy mod yn gwybod mai pasiffist llwyr yw ef.)*

*Buasai'n hawdd bod yn huawdl am gysegredigrwydd pob darn o Gymru - a Lloegr hefyd.*

*Methaf weld fod yr iaith Gymraeg mewn mwy o berygl, ychwaith, oherwydd sefydlu ysgol fomio yn Llŷn. Bydd pobl Llŷn yn croesawu Saeson o ymwelwyr ac yn elwa oddi wrthynt, heb golli'r iaith. Os daw cannoedd o deuluoedd i fyw i'r orynys, onid cyfleustra fyddai hynny i waith cenhadol Cymreigwyr pybyr? Pa raid sydd wrth yr ysbryd cydnabod-methiant ('defeatist') pan ddown i gyffyrddiad â'r Saesneg? Onid yw'n pobl wedi dysgu gwers De'r Iwerddon eto?*

*Methaf gredu bod diogelwch yr iaith Gymraeg yn dibynnu ar gadw Saeson allan o Lŷn, canys y mae cannoedd o Gymreigwyr gorau ein cenedl wedi eu geni a'u magu mewn dinasoedd Seisnig. Os gall yr iaith ddal gorlif Llundain, Lerpwl, Manceinion, Birmingham, Pittsburg a Pretoria, prin y gwelaf ysgol fomio Llŷn yn ei lladd.*

*Onid gormodiaith yw dweud y "bydd sefydlu ysgol fomio yno yn gymaint o ddyrnod i'r diwylliant Cymreig, heddiw, ag oedd meddiannu Môn gan Edward I yn y 13 ganrif i annibyniaeth wleidyddol Cymru?" Anodd yw gweld y gyfatebiaeth. Hwyrach mai fy nallineb neu fy anwybodaeth sydd yn cyfrif am hyn.*

## *Ymladd Drwy Ddirprwywyr*

*OS mai gwahardd bomio yn llwyr yw bwriad y brotest, bydd pob heddychwr*

*yn cytuno, ond os mai taflu'r cyfrifoldeb ar rannau eraill o'r wlad i ddarparu cyfleusterau i ysgol fomio yw gwaith y gwrthdystiad, ychydig o gydymdeimlad a geir â hyrwyddwyr y ddeiseb. Gormod o frwydro trwy ddirprwywyr sydd wedi bod yn hanes y byd.*

*Cofiaf glywed y diweddar Farnwr Bryn Roberts yn syfrdanu cylch o gyfeillion, ynn 1915, trwy ddweud mai'r eroplên sydd i roi terfyn ar ryfel. Meddai'r sylwedydd llygad graff hwnnw, bydd yn amhosibl brwydro trwy ddirprwy pan berffeithir llu'r awyr.*

*Methem, y pryd hwnnw, gydweld â'r barnwr; ond deallwn rediad ei feddwl erbyn hyn. Daeth awyrgylch rhyfel i galon gwlad Llŷn, at lwybr y pererinion i Ynys Enlli. Gofynnir i frodorion cylch Aberdaron ddarparu cartref i ysgol fomio!*

*Agwedd Y Di-Waith*

*Y MAE'N amlwg bod rhai o'r trigolion yn hollol barod i gydffurfio. Pwy werthodd y tir i'r Llywodraeth? Onid Cymro neu Gymry?*

*A phwy all feio chwarelwyr Llithfaen os bydd i'r di-waith ohonynt groesawu cyfle i ennill eu bywoliaeth a dianc oddi ar y praw moddion? Hawdd i rai ohonom sydd mewn swydd neu oruchwyliaeth gyson a chysurus ensynio mai gwaith di-gynnyrch a dinistriol a wneir mewn ysgol fomio. Beth yw barn y gŵr a fu'n ddi-waith am bump neu wyth mlynedd pan egyr rhyw ddrws iddo ar drothwy ei ardal? A oes gennym ni sy'n protestio rywbeth i'w gynnig i'r di-waith yn Arfon? Buasai'n dda calon gennyf allu ateb yn gadarnhaol.*

*Nid da lle gellir gwell. Ond cynhyrchu'r gwell sydd yn anodd yn Llŷn ar hyn o bryd.*

*Dywedir bod rhannau eraill o Gymru yn gweiddi am ysgol fomio oherwydd y cyfle a geir ynddi i'r di-waith.*

*Ond bydd y ddeiseb leol a hyrwyddir gan aelodau o'r Blaid Genedlaethol yn ddiddorol ac addysgiadol.*

*Bomio Yn Abysinia*

*YN y cyfamser, y mae'r Eidal wrthi'n ddygn yn dangos i'r byd beth yw manteision a difrod bomio yn hen wlad Ethiopia. Gellid meddwl mai ysbytai yw'r targedi hoff a bod eglwysi yn cael sylw arbennig o'r awyr. Dywed y wasg i bedair mil o fomiau ddisgyn mewn un diwrnod yr wythnos hon, a bod tunelli lawer o dân-belenni yn aros i'w glawio ar bentrefwyr diamddiffyn.*

*Ofer i Abysinia brotestio yn erbyn y nwyon gwenwynig a dywelltir arnynt, canys y mae'r Cynghrair yn ddiymadferth hollol. Nid yw wedi gwarafun olew i'r ymosodwr. Ffiloreg hollol yw'r amodau gwasgu hyd yn hyn. Gall Mussolini chwerthin arnynt. Testun cellwair cyffredinol oedd cais Ffrainc am i'r Eidal ymuno â Phrydain, Belgium a hithau i arfer mesurau gwasgu ar yr Almaen ac anfon milwyr i gymdogaeth y Rhein yn unol â Chytundeb Locarno....*

*Yr Eidal sydd yn dysgu Ewrop beth yw gwir ystyr bomio poblogaeth ddiamddiffyn.*

*Stori arall fyddai i'r wlad allu bomio yn ôl. Pwy fedr ddychmygu sefyllfa o'r fath, tybed?*

*Diwedd Rhyfel A Gwareiddiad*

*FEL mater o ffaith, Bryn Roberts oedd yn iawn. Y mae bomio o'r awyr yn sicr o roddi terfyn ar ryfel a gwareiddiad - a'r hil ddynol os awn ymlaen ymhell yn y cyfeiriad hwn. Daeth erfyn newydd i fod. Wele allu sy'n medru anwybyddu môr a thir, llynges a byddin, caerau a mynyddoedd.*

*Diflannodd yr hen amddiffynfeydd a'r nerthoedd a ystyrrid yn anorchfygol. Pwy all ganu "Britannia rules the waves!" yn awr. Y mae tonnau'r awyr yn bwysicach nag ymchwydd y Werydd a chylchdon ynys Prydain. Tywysog llywodraeth yr awyr fedr herio galluoedd mwyaf y byd yn y dyddiau a ddaw.*

*Yr Unig Obaith*

*UNIG obaith ein byd felly yw dileu arf yr awyr; a bydd eisiau mwy na phrotest Llŷn i wneud hyn. Swynol yw traddodiad; annwyl yw iaith Gomer; gwerthfawr yw diwylliant y Celt; ac y mae cyfriniaeth ardaloedd a fu'n gyrchfan i bererinion y gwyll yn dreftadaeth hoff gan genedl.*

*Ond, pan gred teyrnas fod ei bodolaeth mewn perygl, parod ydyw i anwybyddu pob ystyriaeth arall. "Military necessity" yw'r esgys dros bob math o fandaliaeth ar werthoedd hen a newydd.*

*I symio i fyny, gobeithiaf na welir ysgol fomio yn Llŷn. Ond seiliaf fy ngobaith, nid ar ystyriaethau sentimentalaidd, ond oherwydd pasiffistiaeth digyfaddawd fy natur. Nid wyf am weld ysgol fomio mewn unrhyw ran o'r byd. Cysegr-ysbail yw militariaeth ym mhobman, a'i ddifrod mwyaf ydyw ar ddynion. Mwy gwerthfawr pobl Llŷn na gwlad Llŷn. A dywedaf eto, nad mwy cysegredig Llŷn na Llansamlet fyglyd i mi.*

Yr oedd J. H. Howard hefyd yn deithiwr brwd a byddai'n manteisio ar unrhyw gyfle i ymweld â lleoedd led-led Cymru a thu hwnt. Yr oedd hynny'n rhan annatod o'i waith fel pregethwr teithiol ond nid oes amheuaeth hefyd nad oedd teithio'n apelio'n naturiol at ŵr a gymerai ddiddordeb byw mewn ystod mor eang o bynciau gan ei fod y ffordd orau o ehangu gorwelion, gweld lleoedd newydd a chwrdd â phobl newydd. Rhaid ychwanegu hefyd y byddai'n fwriadol yn teithio'n flynyddol ym mis Awst (pan na fyddai'n ysgrifennu i'r Cymro) er mwyn dianc o sŵn a miri'r Eisteddfod Genedlaethol: yn wahanol iawn i'r rhelyw o'i gyd-weinidogion ni allai oddef y Brifwyl. Meddai yn ei golofn o rifyn 9 Medi 1933:

*Eisteddfod Yn Ddiflas I Mi*

*NADDO! Ni welais gip ar yr Eisteddfod. Gwn fod miloedd darllenwyr 'Y Cymro' yn eisteddfodwyr pybyr, brwd a thanllyd; ond, er fy nghywilydd, cyfaddefaf fod awyrgylch eisteddfod yn ddiflas hollol imi; a byddaf yn ffoi oddi wrtho bob amser.*

*Hoffaf hanner awr o sgwrsio ar y maes o gwmpas y babell; ond y mae chwarter awr o awyrgylch cystadleuaeth ac ymgiprys am wobrau, gorchestu, canu a barddoni am bethau cysegredig, etc., yn fy ngwneud yn sâl. Methaf ddeall swyn y pethau hyn i weinidogion. Ond gan fod mwyniant ynddynt rhaid mai rhyw goll yn fy natur Sacsonaidd sy'n cyfrif am fy nghasineb eisteddfodol.*

Ym Mis Mai 1936 cychwynnodd Dr. Howard ar daith i'r Unol Daleithiau ar fwrdd llong enfawr y 'Berengaria', llong Almaenig

53,000 tunnell a roddwyd fel iawndal rhyfel i Brydain, ac am y tair wythnos ar ddeg dilynol adroddodd ei hanes yn Y Cymro yn teithio i leoedd yn cynnwys Efrog Newydd, Philadelphia, Pennsylvania, Pittsberg, Washington, Detroit, Toronto yng Nghanada, Chicago, Minneapolis a Minnesota, yn gweld pob math o ryfeddodau anhygoel ac yn cyfarfod â phobl ddiddorol o bob lliw a llun. Maent yn ysgrifau eithriadol o ddifyr ac yn gofnod byw iawn o daith sy'n ymddangos yn un hynod ddiddorol, oll wedi'u hysgrifennu yn arddull fywiog Dr. Howard. Gellid yn hawdd ddyfynnu unrhyw un o'r ysgrifau gan mor ddiddorol a chynhwysfawr ydynt, ond rhaid bodloni ar ddyfynnu'r un olaf o'r Cymro 1 Awst 1936, ysgrif fwy myfyriol ac athronyddol ei naws na'r rhai blaenorol (ac o'r herwydd efallai ychydig yn drymach i'w darllen), wrth iddo gychwyn dehongli'r holl brofiadau newydd a gawsai:

*TROI'N ÔL O'R GORLLEWIN*

*AM ddeuddydd neu ychwaneg cysgu a bwyta, bwyta a chysgu oedd fy hanes ar yr 'Aquitania'. Ni wyddwn fy mod mor flinedig hyd onid ymollyngais yn llwyr. Cefais ddeng wythnos o ruthr a helbul, heb ddim ond ychydig iawn o gwsg yn America. Tarfwyd lludded i ffwrdd gan awydd gweld a phrofi y dieithr, y newydd, a'r cynhyrfus. Credaf i mi wasgu mwy i mewn i'r cyfnod byr hwn nag a brofais mewn blynyddoedd yn flaenorol.*

*Yn araf y deffroaf i ystyr pethau a'u harwyddocâd. Fe gymer amser mawr imi ddosrannu a threfnu, ac ystyried argraffiadau a helyntion. Ond gwn fy mod wedi cyfoethogi meddwl, lledu gorwelion a dyfnhau deall.*

*Ymdroi gydag ôl-lewych hudol felly yr wyf ar fwrdd llong wrth ysgrifennu'r nodiadau hyn. Gwn fod pobl bwysig o fy nghwmpas. Dacw Lysgennad America ar ei ffordd i Brydain. Eisteddaf wrth yr un bwrdd â phrifathro un o golegau mawr India, 'Anglo-Indian' ydyw yn crefu arnaf adolygu llyfr newydd o'i eiddo ar broblem fawr y cymysg-liw. Dacw drafnidydd enwog o Pittsberg; golygydd papur dyddiol o Galiffornia; swyddog o fyddin Japan; athronydd yn dychwelyd i China....Ond, rhaid cyfaddef nad oes arnaf chwant siarad â neb, nac am ddim. Syrthiaf i gysgu ar ganol sgwrs; gorweddian yn yr haul, neu ar wely, yr wyf ddydd a nos, ag eithrio prydau bwyd.*

*Ymson Ar Fwrdd Llong*

*GODDEFER ymson hyglyw felly oddi ar yr 'Aquitania', cyn glanio yn Southampton.*

*Effaith yr Eang sydd ar ysbryd ymwelydd â'r Unol Daleithiau. Y mae popeth yno mor fawr, mor lydan, mor ddi-ben-draw! Bychan yr edrych Prydain ar y map! Twmpathog fydd yr Wyddfa ar ôl hyn! 'Gwelant y tir pell', ebr Eseia. Cyfieithiad Moffat ydyw, 'The land of far horizons' - gorwelion pellennig. Dyna'r disgrifiad gorau o America. Hud yr anfesurol ydyw y gwastadeddau diddiwedd, y mynyddoedd sy'n ymgolli mewn niwl, y llynnoedd nas gellir eu plymio, y dinasoedd enfawr, (Chicago yn 250 milltir ysgwâr), yr adeiladau mor herfeiddiol â thŵr Babel, ac*

*amrywiol fel dail y coed.*

*Y mae popeth yn fawr, a themtir dyn i faddau, os nad esgusodi, ymffrost Americanwyr ar grwydr. Onid yw robin goch America yn fwy o lawer na cheiliogod ffermydd Llanrwst? Anodd i bobl sydd wedi ymdroi gyda'r eang, y mawr a'r diderfyn ymfodloni ar y bychan a'r cul.*

*Rhywbeth fel hyn yw cefndir athrawiaeth Monroe. Mawredd a digonolrwydd sydd y tu ôl i amharodrwydd America i ymyrryd yn helyntion Ewrop. Mor ddibwys yr edrych Belgium â Los Angeles! Braidd nad yw'n amhosibl i ddyn ymsefydlu yng Nghymru ar ôl byw am flynyddoedd yn America. Y mae cynefindra â'r mawr yn ei anghymhwyso i fyw gyda'r llai. Dywedai un o wŷr yr Alpau wrthyf ei fod yn teimlo fel yn methu anadlu ar ystrydoedd Paris. Gŵr yr ucheldерau ydoedd allan o'i fyd mewn cylch cyfyng. Na, nid ehwyddiaith ddisylwedd yw ansoddeiriau Americanaidd. Canfas mawr yw'r cefndir.*

## *Popeth Yn Arbrawf*

*ANNIDDIGRWYDD Arbrawf yw bywyd y Taleithiau Unedig. Araf yw Ewrop, canys cyrhaeddodd sefydlogrwydd cymharol - mor bell ag y gall bywyd fod yn sefydlog a llonydd. Ar ei hynt y mae dyn yn bersonol, ym mhob man, lle ac ansawdd. Ond llonyddwch henaint, llwydni canrifoedd a welir ac a deimlir yn yr hen fyd. Dyna werth a hynodrwydd yr hyn a ddangosir i ymwelydd ar y Cyfandir. Gwerthfawrogwn yr hen a oroesodd gyfnewidiadau y canrifoedd.*

*Ond ieuengrwydd America sydd yn taro dyn. Synnant at bopeth sydd yn ganrif oed, a chynigiant grogbris am rywbeth ag arogl henaint arno. Newydd yw America; ymdeimlad o'r amrwd sydd yno. Arbrawf sydd yn nodweddiadol ym mhob cyfeiriad. Nid ofnant newid rheolau dinesig ar ôl wythnos o brawf (er, ar yr un pryd, yn glynu wrth bob llythyren yn y Cyfansoddiad Ffederal!).*

*Arbrawf yw undebaeth, eglwysyddiaeth, dinasyddiaeth, yn y Gorllewin. Nid oes dim yn derfynol nac yn barhaol. Chwilio am wir America y mae Americanwyr hyd yn hyn. Mewn cyflwr o gyfnewid a thraws-symud y bydd am hir. Pa sawl arbrawf wnaeth Arlywydd Roosevelt? Os cofiaf yn iawn, y mae 14 i'w enw erbyn hyn, ac un ar ddeg o'r cyfryw wedi eu cyhoeddi'n "anghyfansoddiadol".*

*Yr oeddwn yn gwneud astudiaeth o ddull America o ddelio ag anghyflogaeth. Ond newidiant ym mhob Talaith, a bron yn wythnosol. Nid yw unffurfiaeth na chysondeb yn apelio at America. Unigoliaeth ymosodol sy'n nodweddiadol trwy'r Cyfandir.*

## *Amrywiaeth Sefydliadau*

*Y MAE cyfundrefn ac atdrefnu yn nwyd trwy'r Gorllewin. Credaf tod tua phedwar ugain o Gymdeithasau heddwch yno - mewn cydymgais â'i gilydd yn barhaus. Blodeua dros ddau gant o sectau eglwysig yn America. Cyd-drawiad rhwng moderniaeth a ffwndamentaliaeth a nodwedda'r oll ohonynt.*

*Hawdd yw cychwyn mudiad neu enwad newydd yn y wlad. Anwylant arbrawf.*

*Teimlir yr un peth yn y sefydliadau. Bûm mewn cymaint o garcharau, bron, â chapeli; a gwelais fwy o dlotai nag amgueddfeydd. Eithafion y newydd a'r hen, ochr wrth ochr, yw arbenigrwydd yr oll.*

*Y mae America yn gweithio ei ffordd i gyfeiriad y newydd. Angerdd yr arbrawf sydd ar waith. Dyna'r swyn a'r anobaith i sylwedydd. Canys aiff adroddiad yn or-hen ymhen mis o amser. Bydd pethau wedi newid bron cyn sychu'r inc.*

*Onid arbrawf yw'r America i gyd mewn gweriniaeth a chyfansoddiad? Cyn Chwyldro Rwsia credwn mai America oedd arbrawf cymdeithasol mwyaf*

*hanes; mwy hyd yn oed na Chwyldro Ffrainc. Ymollyngiad hen gyfundrefn oedd achlysur cyfodiad gwerin-lywodraeth gwlad Robespieirre, Phoenix yn codi o losg-lwch y Bourbon ydoedd. Ond arbrawf mewn cyfandir newydd, di-dras, di-draddodiad ydoedd, ac ydyw America. Ac nid anghofiaf ddychlam enaid wrth edrych ar femrwn gwreiddiol y 'Declaration of Independence' yn Llyfrfa Washington.*

*Dim Ofn Methiant*

*NID yw Americanwr yn ofni arbrawf mewn bywyd na masnach. Os metha Sais neu Gymro, ei duedd yw ymollwng mewn anobaith a digalondid. Teimla rywbeth fel cywilydd a gwarth. Ofna fethiant yn fwy nag uffern.*

*Nid felly gŵr y Gorllewin. Try i gyfeiriad newydd; cred fod gwlad addewid yng ngodre'r enfys. Ni ŵyr am 'defeatism' na snobyddiaeth. Ffeindia ei gyfle newydd o hyd. "Cloddio ni allaf, a chardota sydd gas gennyf," ebe gŵr dameg y methiant. Diwedd y ddameg yn unig sydd yn apelio at bobl America. "Mi a wn pa beth a wnaf...." Ail-ddechrau yw polisi y Gorllewin.*

*Cyfuniad Y Cymysg*

*CYFUNIAD y cymysg yw un o ryfeddodau mawr America. Pa beth yw'r gallu fedr doddi'r cenhedloedd amryliw yn gyfansawdd newydd. Y mae'r drydedd ran o Iddewon yr holl fyd yn byw yn America - sef pedair miliwn a hanner. Ceir 2,000,000 ohonynt yn Efrog Newydd; 350,000 yn Chicago; a 270,000 yn Philadelphia. Ond y bobl gul, ynysol, annibynnol yma sydd ymhlith yr Americanwyr cryfaf a mwyaf teyrngar trwy'r Taleithiau oll.*

*Yr un yw hanes y 12,000,000 Almaenwyr, yr Italiaid, y Slofaciaid, etc. Deuant yno heb ddeall iaith gyffredinol y wlad, yn sur eu hysbryd oherwydd erledigaeth neu fethiant gartref. Bydd llawer ohonynt yn ffoaduriaid, yn lleiddiaid, yn gyffrowyr, etc. Ac eto, ymhen ychydig o amser, datblygant yn Americanwyr brwdfrydig ac ymosodol. Beth yw'r dirgelwch, tybed?*

*Yr un fath gyda'r lliwiau - y du a'r melyn a'r gwyn. Americaniaid ydynt yn gyntaf oll. Salwtiant faner y wlad a chanant ei cherddi tra'n ymfalchïo yn ei nerth.*

*Yn y cychwyn, goreuon gwledydd Ewrop a ymfudent i'r America - y Tadau Pererin, y Piwritaniaid, cefnogwyr rhyddid cydwybod a rhyddid i addoli. Hwynthwy a osodasant sylfeini'r weriniaeth fawr.*

*Yn ddiweddarach, menter ac ymchwil am gyfoeth oedd yn swyno dynion i gyfeiriad y Gorllewin. Dyna'r dosbarth adeiladodd weriniaeth a dinasyddiaeth. Pobl yr antur a'r arbrawf oeddynt.*

*Ond, am rai blynyddoedd, bu gwehilion Ewrop a methiannau'r gwledydd yn dylifo i mewn i gartre rhyddid. Dyna'r elfennau gwyllt ac anwar a dynnodd warth ar ddarganfyddiad Penn, Franklin, a Lincoln.*

*Ond y syndod i hanesydd ydyw fod yna ryw allu cyfriniol ar waith i droi'r gymysgedd oll yn genedl gref, fywus, a dymunol. Cynghrair cenhedloedd yw America mewn gwirionedd yn byw mewn cytgord na welwyd ei debyg ar y ddaear. Breuddwyd Briand ydyw mewn ffaith sy'n gwireddu ffydd Henry Richards a Tom Paine. Onid yw'n batrwm i'r byd?*

*Gwŷr Mawr America*

*YN Efrog Newydd, gofynnwyd i mi roddi'r argraffiadau a adawyd arnaf yn America. Siaredais am awr gron am y personau a ystyriaf yn fawr a gwrddais yno. Dyma hwynt: Vladeck, yr Iddew athrylithgar sydd yn golygu 'Forward'; J. L. Lewis, Cymro, arweinydd presennol y glowyr; Charles Evan Hughes, Prif Farnwr y Llys Uchaf; Bovah, y seneddwr cyfriniol nad*

*oes neb yn ei ddeall ond pawb yn cydnabod ei swyn a'i fedr; Mrs. Perkins, ysgrifennydd Llafur; y seneddwr James Davis; a'r mwyaf ohonynt oll, yn fy marn i, Edgar Hoover.*

*Cwrddais ag ugeiniau eraill, yn farnwyr, yn drafnidwyr, yn faerod ac yn weinidogion, ond dyna'r rhai adawodd fwyaf o argraff arnaf.*

*Y mae mwy o ddynion ieuainc yn y bywyd cyhoeddus yno nag sydd yn ein gwlad ni.*

*Gwleidyddiaeth Afiach*

*OND rhaid cyfaddef nad iach yw awyrgylch gwleidyddiaeth America. Buasai'n annoeth i ymwelydd droi'n ddogmatig. Ond cwrddais ag ôl llaw fudr mewn llawer cyfeiriad. Yr oedd ofn ar rai i ateb cwestiwn rhag i hynny ymddangos mewn print....*

*Nid dymunol awyrgylch y llysoedd. Sut y gellir disgwyl hynny tra y dibynna barnwyr ar bleidleisiau torwyr y gyfraith? Bydd etholiad yn costio'n ddrud i ymgeisydd, ac y mae pawb yn gwybod hynny. Rhaid prynu pleidlais, a'r uchaf ei bris sy'n ennill. Am y misoedd nesaf gwenwynir bywyd cyhoeddus y wlad gan ysbryd yr etholiad arlywyddol sy'n digwydd yn Nhachwedd. Anhygoel i Brydeiniwr yw tôn y wasg ddyddiol, iaith y llwyfan, ymddygiad y Pleidiau.*

*Dychwelaf o America yn fwy o fonarchydd nag erioed. Mwy pleidiol ydwyf i frenhiniaeth gyfansoddiadol nag oeddwn dri mis yn ôl, a diolchaf am lysoedd cyfraith annibynnol, rhydd a di-blaid.*

*Ond diolchaf byth am gipdrem ar fyd newydd, a chymdeithas yn cario nodau ieuenctid, a gwlad gobaith.*

Cyhoeddwyd ysgrif olaf 'Y Byd Heddiw', a oedd yn bythefnosol ers rhai misoedd yn flaenorol, yn Y Cymro 6 Chwefror 1937 ac ni chafwyd unrhyw eglurhad am ei diflaniad. Bu'r golofn yn gaffaeliad mawr i'r papur: nid yn unig yr oedd hi'n safonol o ran iaith a chynnwys; yr oedd hi hefyd bob amser yn ddifyr ac yn hawdd iawn ei darllen. Yr oedd J. H. Howard yn amlwg yn ŵr deallus a dysgedig, yn Gristion o argyhoeddiad ac yr oedd yn ysgrifennwr rhagorol a oedd â dawn naturiol i lunio ysgrifau cynhwysfawr a darllenadwy; trueni iddynt ddiweddu mor ddisymwth.

*'O Fyd y Werin'*
*gan T. E. Nicholas*

Ar 25 Medi 1937 ymddangosodd colofn wythnosol newydd yn Y Cymro o dan y teitl 'O Fyd Y Werin', wedi'i hysgrifennu gan y pregethwr a'r bardd unigryw Thomas Evan Nicholas, neu Niclas y Glais fel y'i gelwid ar lafar gwlad. Ganed ef ym 1878 yn Llanfyrnach, Penfro, i deulu o amaethwyr, ac wedi'i ordeinio bu'n gwasanaethu yn y weinidogaeth Gynulleidfaol yn Dodgeville yn yr Unol Daleithiau, Y Glais, Cwm Tawe, Llangybi a Llanddewibrefi. Dysgodd ef a'i wraig grefft deintyddiaeth a bu'n ddeintydd ym Mhontardawe yn gyntaf ac yna yn Aberystwyth lle yr arhosodd am weddill ei oes; cyhoeddodd nifer o gyfrolau o farddoniaeth.

Comiwnydd oedd T. E. Nicholas ac yr oedd yn un o sefydlwyr y Blaid Gomiwnyddol ym Mhrydain. Datblygodd ei syniadau gwleidyddol yn wreiddiol wrth gyfathrachu â gweithwyr Y Glais a thrwy ei gyfeillgarwch â Keir Hardie, arweinydd y glowyr a sefydlodd y Blaid Lafur Annibynnol ac a etholwyd yn Aelod Seneddol Sosialaidd cyntaf Cymru ym 1900. Dylanwadwyd ymhellach ar Nicholas gan weithiau Sosialaidd R. J. Derfel a Robert Owen ac atgyfnerthwyd ei syniadau gan y Chwyldro Bolsheficaidd yn Hydref 1917; wedi hynny bu'n gefnogwr brwd i'r gyfundrefn Rwsiaidd a rhwng 1917 a 1945 traddododd dros fil o ddarlithoedd ar yr Undeb Sofietaidd.

Yr oedd 'O Fyd y Werin' yn golofn wahanol iawn i bob un arall a ymddangosodd yn Y Cymro gan ei bod yn gwbl wleidyddol ei naws a'i chynnwys ac mewn gwirionedd yn bropaganda noeth ar ran Comiwnyddiaeth, gwleidyddiaeth a ystyrir gan lawer yn gwbl eithafol ac afresymol. Buasai perchenogion a golygydd Y Cymro wedi gorfod ystyried yn ddwys ac yn ofalus cyn mentro cyhoeddi colofn o'r fath gan y byddai 'O Fyd y Werin', oherwydd ei natur eithafol, yn ennyn ymateb cryf ymysg y darllenwyr; nid yw'n syndod felly gweld y nodyn clir isod gan olygydd Y Cymro ar ddechrau'r golofn gyntaf yn pwysleisio nad yw'r papur o reidrwydd yn cytuno â geiriau Nicholas, ffordd gwrtais mewn gwirionedd o ddatgysylltu ei hun oddi wrthynt. Ond sylwer hefyd ar y modd y mae'n cyfiawnhau cynnwys y golofn trwy ddweud bod y papur â pholisi pendant o drin pob plaid yn gyfartal; hynny yw, mae'n gweld Y Cymro fel rhyw fath o 'fforwm agored' i bawb gael lleisio'i farn ynddo:

*Yn unol â'i bolisi o roddi'r un cyfle i bob Plaid, y mae'r 'Cymro' heddiw yn agor ei dudalennau i gyfres o ysgrifau ar Fudiadau'r Werin. Nid yw'r 'Cymro', o angenrheidrwydd, yn cytuno â sylwadau awdur yr ysgrifau hyn eithr croesawir hwynt am eu bod yn rhoddi gerbron y darllenwyr agwedd cylch arbennig o Gymdeithas at wahanol bynciau.'*

Ar dudalen 2 o'r un rhifyn ymddangosodd y nodyn canlynol gan gyhoeddwyr Y Cymro yn talu teyrnged uchel i lawer o nodweddion T. E. Nicholas fel dyn ond ar yr un pryd yn ategu geiriau'r Golygydd uchod; yn wir, ânt ymhellach nag ef hyd yn oed trwy ddweud yn blaen '[na] chytuna llu o ddarllenwyr Y CYMRO chwaith â Mr. Nicholas ar hyd y ffordd', cryn gyfaddefiad gan gyhoeddwyr unrhyw bapur newydd. Yr hyn sy'n dod yn amlwg o'r nodyn yw eu bod yn amlwg yn ei gweld hi'n bwysig bod rhywun yn rhywle yn 'siarad yn blaen ar bethau' a chorddi'r dyfroedd; fe wahoddir y darllenwyr i 'sefyll yn hir uwchben [y] broddegau', nid yn gymaint er mwyn cytuno â hwy ond yn hytrach er mwyn medru meithrin barn annibynnol gref ar y pynciau a drafodir gan Nicholas:

*Ysgrifau Byw ar Fyd y Werin*

*YN y rhifyn hwn o'r CYMRO cyhoeddir y gyntaf o gyfres o ysgrifau gan Mr. T. E. Nicholas, Aberystwyth, 'O Fyd y Werin'. Gŵr amryddawn yw Mr. Nicholas. Cofir drwy Gymru am ei bregethu real cyn ac yn ystod y Rhyfel; am y nodyn onest, eglur, yn 'Salmau'r Werin'; ac yn y blynyddoedd diwethaf hyn am ei ddiddordeb di-ball yn ecsodus gwerinoedd y gwledydd, yn Rwsia ac ym Mhrydain, o gaethiwed hen hualau'r "mawrion" i ryddid hawliau dyn ar bum cyfandir. Dywed y Golygydd yn ei nodiad ar ddechrau'r ysgrif nad 'yw'r CYMRO, o angen rheidrwydd, yn cytuno â sylwadau awdur yr ysgrifau hyn', ond yr egyr ei dudalennau i'r gyfres yn unol â'i bolisi o roddi cyfle i bob plaid draethu ei golygiadau yn blaen a diragfarn. Ni chytuna llu o ddarllenwyr Y CYMRO chwaith â Mr. Nicholas ar hyd y ffordd, ond ni all neb amau ei onestrwydd, na bwrw anfri ar ei wybodaeth eang o bynciau'r dydd a'i farn effro ac annibynnol arnynt.*

*Daeth yr awr i siarad yn blaen ar bethau, ym myd crefydd a gwleidyddiaeth. Ni ellir cadw i fyny ffugfoesgarwch a gweniaith dwyllodrus pan fo'r byd ar ymyl y dibyn, a heddwch yn crynu ar fin rasal. Fel y dywed Mr. Nicholas yn yr ysgrif gyntaf hon, y mae clymbleidiau bach ond cryf yng ngwledydd y byd i gyd a gais arwain y werin i ddinistr rhyfel a rhwyg a thlodi, er mwyn eu mantais hunanol a'u budr-elw eu hunain. Yr arf gorau i ymladd â'r cyfryw yw gwybodaeth, ac oni chytunwn â phopeth a draetha Mr. Nicholas, croesawn oll bob gwybodaeth a all gyfrannu inni ar y werin a'i phroblemau.*

*Gwahoddwn ein darllenwyr i sefyll yn hir uwchben broddegau awgrymog fel y rhai hyn. 'Codid y gri am 'genedlgarwch', fel petae hynny yn amhosibl heb ryfel.' 'Erbyn hyn y mae radio wedi dod yn was mawr a llwyddiannus i'r mawrion, a'r un dosbarth sydd yn dal yr awenau ym myd crefydd.' 'Y mae'r peiriant crefyddol yn gwbl at wasanaeth y llywodraethwyr sydd yn gwneud rhyfeloedd ac yn tragwyddoli tlodi'r miliynau.' 'Y mae clybiau yfed wedi cael mwy o sylw yng nghynadleddau'r*

*enwadau crefyddol yr haf hwn na Sbaen ac Abysinia a China.'*

*Ceir her i feddwl o ddifrif mewn geiriau fel hyn; ac o feddwl felly ceir barn olau, gyffredinol, na all hoced y twyllwyr ei hudo i'r gors.*

Mae'r golofn ei hunan yr enghraifft gyntaf o ddwsinau a oedd i ddilyn o efengyl unigryw T. E. Nicholas:

*RHWYSTRO UNDEB YM MYSG Y GWEITHWYR*
*"Y Dall yn Arwain y Rhai Sy'n Gweled"*

*"MEWN undeb y mae nerth" sydd wir ym mhob cylch. Y mae'n fwy gwir am y dosbarth gweithiol nac am neb. Pob rhyddid a ffyniant sydd gan y gweithiwr heddiw, fe a'i cafwyd drwy undeb. Gallu gwan yn erbyn gormes yw gwerin ranedig. Un o frwydrau mawr cymwynaswyr y werin oedd dod â'r gweithwyr at ei gilydd.*

*Yr oedd llu o bethau yn rhwystro undeb; bu enwadaeth yn allu mawr i dorri rhengau'r gweithwyr. Yng nghof y rhan fwyaf ohonom sydd tua'r canol oed, dyna'r prif gyfrwng i rannu. Gweithia dynion o bob enwad gyda'i gilydd tan y ddaear neu ar y ddaear, ac ni ddeuai ymryson i gylch eu gwaith. Trinient bynciau'r dydd mewn tangnefedd, ond pan ddeuai etholiad, wele hwynt yn rhannu ar unwaith. Dyna gyfnod brwd y datgysylltiad a'r dadwaddoliad. Enillwyd llawer etholiad gan y gormeswyr drwy rannu'r gweithwyr ar bwnc hollol ddiwerth iddynt hwy. Codai sêl eglwysig ac ymneilltuol yn uchel iawn, a chwerw fu llawer brwydr oherwydd rhannu'r gweithwyr. Yr unig rai a enillai ddim o'r rhannu hwnnw oedd y mawrion.*

*Cwerylon Crefyddol*

*Drwy lafur caled arweinwyr y gweithwyr, daeth y mwyafrif ohonynt i weld ffoledd y cwerylon crefyddol. Deallodd y werin nad oedd gwahaniaeth rhwng y pleidiau gwleidyddol; fod pob plaid allan i ysbeilio'r gweithwyr. Cymerodd amser hir i weld hynny. Pan unwyd y gweithwyr, bu gorfod ar y mawrion uno hefyd.*

*A daeth dydd tranc rhyddfrydiaeth fel gallu gwleidyddol am fod yr angen am ddwy blaid wedi peidio â bod yn gymorth i'r cyfalafwyr.*

*Pan ddechreuwyd gweithio am undebau llafur bu rhywrai yn dioddef o'r herwydd. Carcharwyd ac alltudiwyd llawer o ddynion gorau'r wlad oherwydd iddynt bregethu undeb i'r gweithwyr. Araf iawn y tyfodd yr undeb hwn. Yr oedd gan y mawrion foddion i rannu'r gweithwyr o hyd. Deuai rhyfel, rhyfel sanctaidd, rhyfel i roddi terfyn ar ryfel, rhyfel dros hawliau cenhedloedd bychain, a chymerai'r gweithwyr blaid y rhyfelwyr ac anghofient mai eu gelynion hwy oedd y rhyfelwyr. Codid y gri am "genedlgarwch", fel petae hynny yn amhosibl heb ryfel. Gallu'r mawrion i dwyllo'r werin dro ar ôl tro gyda'r un celwyddau yw un o ryfeddodau mwyaf hanes. Y mae cyfryngau twyll yn ei dwylo wrth gwrs. Mawrion segur y byd sydd yn llywodraethu ym myd addysg; yr hyn a ewyllysir ganddynt a ddysgir i'r gweithwyr. Hanes rhyfeloedd a brenhinoedd oedd holl hanes gwlad pan oeddwn i yn yr ysgol. Codi gwladgarwyr na allant ddangos eu gwladgarwch ond ar faes y gad, dyna brif amcan addysg.*

*Llywodraethir y wasg gan yr un dynion, a phapurau newydd y wlad sydd yn rhoi syniadau gwleidyddol i'r mwyafrif. Dilyn y wasg fel deillion a wna'r werin fel rheol. Gall y wasg greu brwdfrydedd o blaid diwygiad crefyddol neu ryfel neu gwffiwr pryd y mynno.*

*Brwydr Y Clybiau*

*Erbyn hyn y mae radio wedi dod yn was mawr a llwyddiannus i'r mawrion, a'r un dosbarth sydd yn dal yr awenau ym myd crefydd. Y mae clybiau yfed wedi cael mwy o sylw yng nghynadleddau'r enwadau crefyddol yr haf hwn, na Sbaen ac Abysinia a China. Y mae gweld dinistrydd mawr yn y tafarnwr a gweld cymwynaswr mawr yn y rhyfelwr a'r dyn sy'n byw yn fras ar arfau rhyfel a nwy gwenwynig yn dangos dibrisiad ar werthoedd pethau.*

*Am y grefydd sefydledig, crefydd y mawrion ydyw honno. Nid oes unrhyw anghyfiawnder na chefnogir gan Archesgobion yn rhinwedd eu swydd. Wrth ddweud hyn, nid wyf yn taflu unrhyw anfri ar gymeriadau personol aelodau o'r eglwys sefydledig, ond dangos bod y peiriant crefyddol hwn yn gwbl at wasanaeth y llywodraethwyr sydd yn gwneud rhyfeloedd ac yn tragwyddoli tlodi'r miliynau.*

*Rhwng yr holl bethau hyn y mae'n anodd uno gweithwyr. Y mae'r frwydr fawr yn erbyn undeb wedi dod yn y gorffennol o gyfeiriad y rhai sydd yn byw ar y gweithwyr. Ond y mae galluoedd economaidd y wlad wedi troi wynebau'r gweithwyr at ei gilydd erbyn hyn. A syndod sôn, fe ddaw'r gwyrthwynebiad i undeb gweithwyr o fan annisgwyliadwy iawn, o gyfeiriad arweinwyr y gweithwyr eu hunain. Pan orchfygwyd y cynigiad o blaid undeb yr holl bleidiau gwleidyddol a sydd yn gweithio dros heddwch a chyfianwder cymdeithasol, torrodd banllefau mawr o gymeradwyaeth allan yng nghynghrair yr Undebau Llafur.*

*Wrth weld perygl gweithwyr y byd oddi wrth ryfel ac ysbail, anodd deall hyn. Ond digwyddodd yr un peth yn yr Almaen. Gweithiodd Plaid Llafur a'r Undebau Llafur yno yn erbyn undeb y pleidiau gwleidyddol, a bu rhai o'r arweinwyr a fu'n rhoi uchel gymeradwyaeth i'r polisi hwnnw farw dan fwyall Hitler. Gall Bevin a Citrine gwrdd â'r un dynged. Nid am fod y mawrion yn eu caru fel arweinwyr cymhedrol y clodforir hwynt yn y wasg, ond am eu bod yn rhannu'r gweithwyr.*

*"Gwae chwi pan ddywedodd pob dyn yn dda amdanoch."*

*"Rhywbeth O'i Le"*

*Y mae i arweinwyr gwerin gael cymeradwyaeth gan ormeswyr y tlawd yn awgrymu bod rhywbeth allan o'i le. Pan fydd un o bapurau'r gweithwyr yn cefnogi rhaniadau ymysg y werin, y mae'n bryd i'r gweithwyr edrych i mewn i bethau. Sonnir yn rhywle am y "dall yn arwain y dall", gyda chanlyniadau go annymunol.*

*Ond y mae pethau yn waeth pan fo'r dall yn arwain dynion sydd yn gweld.*

*Dyna gyflwr pethau heddiw ym myd yr undebau llafur. Gwêl y gweithwyr yr angen a'r anghenraid am undeb, ond cedwir hwynt ar wahân. Bu'r un peth yn China am ddeng mlynedd, gwerin China yn ymladd â'i gilydd. Llwyddodd Japan i weithio ei ffordd i mewn i'r wlad yn y cyfnod hwnnw. Erbyn hyn, y mae China yn un; a gobaith am China newydd, oni wna Prydain, yn ôl ei harfer ymyrryd o blaid Japan, drwy wrthod gwerthu nwyddau i China.*

*Pa bryd y dysgir gan arweinwyr gwerin nad oes obaith ond drwy undeb? Buasai Sbaen a Ffrainc wedi mynd yn aberth i orthrymder Ffasistaidd oni bai am y graddau o undeb a wnaed yno.*

*Nid damwain ydyw bod arweinwyr yr undebau llafur ac arweinwyr politicaidd y Blaid Lafur yn gweithio yn erbyn undeb. Gwnânt hyn am bod yn well ganddynt i'r cyfalafwyr lywodraethu na'r werin.*

*Y mae amser enbyd o flaen y byd, ac oni byddo'r gweithwyr yn unol, bydd yn anodd drysu cynlluniau'r rhyfelwyr.*

*Yn un peth, rhaid i weithwyr gadw llygad manwl iawn ar y*

*Llywodraeth hon ym Môr y Canoldir; oblegid nid oes ganddynt yr un bwriad i gynorthwyo'r Llywodraeth yn Sbaen.*

*Llwch i lanw llygaid gwerin ddigofus yw'r cytundebau a wneir. Y mae digofaint y wlad wedi codi yn lled uchel yn erbyn polisi'r Llywodraeth Genedlaethol, a rhaid gwneud rhywbeth i ddangos bod gan Brydain lynges. Ond ofer disgwyl iddynt wneud dim ond cario allan bopeth yn ffafr yr Eidal a'r Almaen.*

*Gwaith y mudiadau gwerinol yw gorfodi'r Llywodraeth i gario allan ddymuniadau'r wlad, a rhoddi cymorth i Sbaen. Derfydd y rhyfel ar unwaith pan wneir hynny.*

*Wrth feddwl am ran waradwyddus arweinwyr yr undebau llafur, daw geiriau'r proffwyd i'm cof, "Gwae y bugeiliaid y rhai sydd yn gwasgaru ac yn difetha defaid fy mhorfa."*

Hyd yn oed o'r golofn gyntaf hon caiff y darllenydd syniad pur dda o syniadaeth T. E. Nicholas a sut yr oedd ei feddwl yn gweithio, ac er wrth gwrs na chwmpasir ei syniadau i gyd yn yr un golofn uchod, fe welir o'i golofnau eraill mai'r un oedd y cywair ynddynt oll. Yr hyn sy'n rhyfeddol, os nad yn anhygoel bron, ynglŷn â T. E. Nicholas yw ei fod yn llwyddo i ailadrodd yr union yr un neges Gomiwnyddol mewn colofn ar ôl colofn, wythnos ar ôl wythnos a mis ar ôl mis, a hynny am bron i ddwy flynedd lawn. Er, wrth reswm, ei fod yn aralleirio'i neges bob tro ac yn canolbwyntio ar rai agweddau ohoni'n fwy penodol mewn ambell wythnos na'i gilydd, yr un fyddai craidd y golofn yn ddieithriad a'r un fyddai ei fformiwla elfennol; yn wir, wedi darllen y colofnau cyntaf prin bod angen darllen mwy ohonynt gan bod ei neges ganolog mor debyg drwyddynt oll!

Serch hynny, er gwaethaf yr ailadrodd parhaus hwn, credaf y buasai darllenwyr y cyfnod o'r farn gyffredinol nad oedd hi'n golofn ddiflas i'w darllen yn wythnosol gan ei bod mor unigryw ac yn sicr o ennyn eu hymateb mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Gallasent gytuno â'i wleidyddiaeth a'i syniadau Comiwnyddol ac edmygu'r ffordd y safai dros hawliau'r werin a'r gweithwyr neu gallasent wylltio'n lân ag ef am fod mor gwbl eithafol a digyfaddawd; gallasent edmygu arddull ymfflamychol, rebelgar Nicholas a'r modd yr oedd mor ddi-flewyn-ar-dafod am faterion na chytunai â hwynt neu gallasent anobeithio'n lân â gŵr a oedd mor benstiff ac ystyfnig ei natur; a gallasent hyd yn oed chwerthin ynddynt eu hunain a'i gymryd yn ddigon ysgafn oherwydd y ffordd unigryw y llwyddai i aralleirio ei neges ym mhob un golofn, un ar ôl y llall, a'r modd y gwthiai ei bropaganda, heb unrhyw ymdrech i'w

chuddio, ar y darllenydd bob wythnos.

Credaf fod un pwynt arall hanfodol bwysig ynglŷn â'r colofnau 'O Fyd Y Werin', sef bod rhywbeth hynod o gynhesol ynddynt er gwaethaf y cyfan. Hyd yn oed pan âi Nicholas ar gefn ei geffyl yn y modd mwyaf ymfflamychol bosibl a phan ddadleuai ryw bwynt yn fwy digyfaddawd nag erioed, ni ddeuai unrhyw wenwyn o'i ysgrifbin ac yr oedd bob amser yn gwrtais ag unrhyw ohebydd a ysgrifennai ato i anghytuno ag ef. Ac o ochr y darllenwyr, dim ots pa mor gryf yr anghytunent ag ef a pha mor hurt y gallai ei safbwyntiau ymddangos iddynt, eto yr oedd yn llwyddo i ennyn edmygedd pawb rhywsut yn ei ffordd unigryw ei hunan: yr oedd ganddo'r ddawn ryfeddol honno i wylltio cymaint o bobl gyda'i syniadau eithafol a'i arddull ymfflamychol ond eto ni allai rhywun ei gasáu.

Ond ymhlith llawer o bobl fe gydnabyddid fod "rhen Niclas" yn dweud "lot o wir" ac yr oedd parch a hoffter mawr tuag ato. Mae'n wir mai ychydig iawn a oedd yn barod i'w ddilyn bob cam i Foscow ond y farn gyffredinol amdano oedd bod "ei galon yn y lle iawn." Yn y bôn nid oedd T. E. Nicholas yn ffigwr dadleuol, er mor galed yr ymdrechai: ni lwyddai i gynhyrfu gwrthwynebiad fel Saunders Lewis, er enghraifft.

Mae ei ysgrif agoriadol uchod yn rhoi rhyw gymaint o flas o'i gyfraniad wythnosol i'r Cymro ond ni cheir darlun llawnach o'r colofnau 'O Fyd Y Werin' heb ddyfynnu'n helaethach ohonynt. Mae'r ysgrif ganlynol o rifyn 6 Tachwedd 1937 yn enghraifft ragorol o'r modd yr oedd T. E. Nicholas yn eilun-addoli Rwsia, y 'Brawd Mawr' Comiwnyddol, bron i'r graddau na allai'r wlad wneud unrhyw beth yn anghywir iddo. Sylwer isod mor hael yw ei ganmoliaeth o bob agwedd ar fywyd Rwsia, er ei fod yn dweud '[nad] gosod Rwsia allan fel gwlad berffaith yw fy amcan':

*UNIG WERINIAETH Y GWEITHWYR*
*Ugain Mlynedd O Lwydd Gwyrthiol*

*PAN sefydlwyd y Sofiet ugain mlynedd yn ôl, credai arweinwyr gwleidyddol Prydain mai rhyw dair wythnos a fyddai cyn syrthio. Aeth blwyddyn, - a dwy, - a deg, heibio a gobeithion yr ysbeilwyr heb eu sylweddoli. Bellach, dyma ugain mlynedd wedi mynd, a'r Sofiet yn*

*gadarnach nag erioed. Beth sydd yn cyfrif am lwyddiant a chadernid y math yma o lywodraeth? Y mae gwreiddiau'r Sofiet yn y werin a'r miloedd.*

*Y mae Gweriniaeth yno. Yn wir, yn y wlad honno yn unig y mae Gweriniaeth. Er i ni ddeall ein gilydd rhoddaf ddarnodiad o Weriniaeth. Os gall rhai o'r darllenwyr roddi i mi ddarnodiad llawnach a hwyrach, byddaf ddiolchgar, a derbyniaf ef yn llawen. Beth yw Gweriniaeth? Llywodraeth gwlad yn adlewyrchu ewyllys a dymuniadau gwlad. Dim gwrth-drawiad rhwng gwlad a'i llywodraethwyr. O dderbyn y diffiniad hwn o weriniaeth, hawdd gweld pam y dywedaf nad oes gwlad werinol yn y byd ond Rwsia.*

*Y mae gwrth-drawiad rhwng gwerin gwlad a llywodraeth gwlad ym Mhrydain ar bron bob pwnc o bwys. Gellid nodi cannoedd o bethau, ond bydd enwi Sbaen, Abysinia, a China yn ddigon. Rhyfel a heddwch yw pethau pwysicaf y byd heddiw, ac nid yw'r llywodraeth yn adlewyrchu ewyllys gwerin gwlad yn y pethau hyn. Y mae'r deddfau a osodir ar y wlad yn cael eu cario allan drwy rym arfau, nid drwy ewyllys barod y miloedd.*

*Y mae sôn am weriniaeth Brydeinig yn jôc fawr. Nid yw'r llywodraeth byth yn rhoi i'r wlad y pethau a addewir ganddi adeg etholiad. Wedi ennill etholiad ar raglen neillduol ni sonnir rhagor am y rhaglen honno. Enghreifftiau o hynny yw etholiad Crogi'r Caisar, etholiad cadw'r bunt i fyny yn ei gwerth, ac etholiad arbed Abysinia. Ni chadwyd yr un o'r addewidion hyn. Felly yr wyf yn dal nad yw llywodraeth Prydain yn adlewyrchu ewyllys Prydeinwyr, felly nid yw yn Werinol.*

## *Heb Ddatrys Y Broblem*

*Nid yw pob problem wedi ei datrys yn Rwsia. Nid gosod Rwsia allan fel gwlad berffaith yw fy amcan, ond dangos ymgais deg i ddatrys problemau cymdeithasol ar linellau rhesymol a gwyddonol. Pe bae Rwsia wedi cael help i ddechrau byw yn 1917 buasai stori arall am dani. Yn lle help cafodd bob gwrthwynebiad oddi wrth bob gwlad fawr yn y byd, a hynny am flynyddoedd. Bu naw o fyddinoedd estron yn ymladd ar ei thir am bedair blynedd. Aeth drwy'r peth yr â Sbaen drwyddo yn awr. Rhaid cofio hefyd bod yn agos i bedair blynedd o'r rhyfel mawr wedi gwanhau Rwsia yn fawr cyn ei brwydr â chenhedloedd mawr wedi'r chwyldro. Nid oedd yno fwyd nac arfau na ffatrïoedd. Daeth newyn a sychder ar ben hynny, a 'blockade' Prydain Fawr am flynyddoedd. Pe bae gwledydd mawr y byd wedi cynorthwyo Rwsia fel y cynorthwyid Hitler, buasai ei chynnydd yn llawer cynt. Daeth arian bancwyr Prydain i helpu Hitler, trodd yntau'r arian yn fwledi ar gyfer Prydain rhyw dro, yn lle yn fwyd i'r tlodion yn yr Almaen. Heb gymorth oddi wrth unrhyw wlad fawr, dringodd Rwsia o ris i ris, nes dod i reng flaenaf cenhedloedd y byd.*

*Aeth cyflogau yn uwch o flwyddyn i flwyddyn, daeth costau byw i lawr yn gyson. Nid oes derfyn bron i'r cysuron materol a ddaw i'r gweithwyr yno. Yn ychwanegol at gysuron materol daeth i ran y gweithwyr yno wrtaith meddyliol o'r radd flaenaf. Adeiladwyd mwy o ysgolion mewn deng mlynedd gan y Sofiet nag a adeiladwyd mewn dau gant o flynyddoedd dan yr hen drefn. Rhyw bum neu chwech y cant a fedrai ddarllen ac ysgrifennu, erbyn hyn y mae bron bawb o fewn y wlad, hen wŷr a hen wragedd, yn ogystal â'r plant, yn darllen ac ysgrifennu rhywfaint. Yr oedd yno bump ar hugain o genhedloedd heb un math o iaith ysgrifenedig, ac heb wyddor. Bellach y mae i'r rhai hynny wyddor, ac iaith ysgrifenedig, a llyfrau yn iaith y bobl. Y mae hefyd staff fawr o bobl yn casglu hen farddoniaeth a llên gwerin, a chanu gwerin, pethau a ddaeth i lawr o dad i fam am oesau, ac yn eu trosi i ieithoedd eraill Rwsia, er i bob cenedl yn y wlad fwynhau gwrtaith llenyddol ei gilydd.*

*Y mae pob ysgol, a phob prif-ysgol, a phob llys gwladol yn iaith y bobl.*

*Gwrthun Ac Afresymol*

*Pe dywedem wrth ddynion ifanc Rwsia nad yw'r barnwyr sy'n dod i Gymru i weinyddu cyfiawnder yn deall iaith y bobl, ni chredent ni. Y mae'r peth mor wrthun o afresymol iddynt hwy sydd wedi rhoddi i genhedloedd bychain ryddid gwir. Y mae yn Rwsia gant a hanner o ieithoedd, cant a phedwar ugain o genhedloedd, a chant a phedwar ugain o filiynau o boblogaeth. Cynnwys tir y wlad un ran o chwech o holl arwynebedd y ddaear. Yn y wlad fawr hon y mae pob addysg yn rhad, a thelir cyflogau sylweddol i bob myfyriwr yn y prif-ysgolion.*

*Y mae pob gwasanaeth meddygol, megis ffisig, 'operation', sanitoriwm a gwestai gorffwys yn rhydd i bawb o'r dydd y genir ef hyd y dydd y byddo farw. Golyga hynny lawer i'r gweithwyr. Y mae oriau gwaith wedi eu tynnu i lawr i'r hanner, a'r wythnos wedi ei thynnu i lawr i chwe diwrnod yn lle saith. Y mae gwyliau â thâl llawn yn rhan gyfiawn i bob un drwy'r wlad. Y mae'r cynnydd mewn gwenith yn fawr iawn. Yr oedd y cynnydd eleni yn gymaint â hanner yr holl gynnyrch y llynedd. Yr oedd y cynnydd yn ddigon i roi digon o fwyd i bawb yn Rwsia. Y mae allforio gwenith wedi mynd i lawr i rhyw ddeg y cant o'r peth ydoedd yn 1913. Beth sydd yn dod o'r gweddill? Y gweithwyr sy'n ei fwyta wrth gwrs. Nid oes un o elynion Rwsia wedi awgrymu erioed i'r Sofiet losgi gwenith a gadael i blant newynnu.*

*Gwneir hynny yn America a mannau eraill gan elynion y gweithwyr. Y dydd o'r blaen, yn Lerpwl, ffurfiwyd "cylch" gan gyfalafwyr i brynu holl wenith y wlad er mwyn gyrru prisiau i fyny; gwerthodd Rwsia wenith am bris rhesymol i rai o'r tu allan i'r "cylch", a dryswyd cynllwyn yr ysbeilwyr. Yn lle ennill ar y gwenith, collodd y "cylch" arian mawr, a bu cnydau mawr Rwsia yn fendith i weithwyr Cymru. Pan wnaeth gwledydd sy'n tyfu gwenith apêl am gynhyrchu llai o wenith er mwyn cadw'r pris i fyny, gwrthododd Rwsia uno, a da i'r byd yw hynny erbyn hyn. Telir amaethwyr America gan y llywodraeth am ddinistrio gwenith, a miliynau o blant y dosbarth gweithiol yn brin o fwyd yno. Pa un o'r ddwy ffordd yw'r orau a'r mwyaf moesol? Y mae rhoi bara'r plant i'r cŵn yn ddrwg, ond y mae rhoi bara'r plant i'r tân yn waeth. Ni soniaf am y gwaith materol annirnad a gwblhawyd ganddynt, camlesydd, rheilffyrdd, terfynau newyddion, gweithiau trydan, tai, ac yn y blaen. Nid oes ar wyneb y ddaear wlad arall a all ddangos y fath gynnydd mewn amser mor fyr.*

*Poenir llawer gan bwnc crefydd yn Rwsia. Y dynion sy'n treulio'u Sabothau i chwarae golff sy'n perswadio'r gweithwyr bod crefydd yn cael cam yn Rwsia. Ni raid i neb bryderu. Popeth sydd o werth mewn crefydd fe'i corfforwyd yng nghyfundrefn newydd Rwsia. Dyma farn Scorpion (Parch. T. Roberts, Llanrwst) ar hen grefydd Rwsia:-*

*"Yn Rwsia, fel ymhob ymerodraeth a theyrnas orthrymus arall, y mae'r offeiriaid o wasanaeth nid bychan i dreisio'r bobl o iawnder, a mathru cwynion yn y llaid gyda difaterwch. Hwynthwy sydd gan bob gormesdeyrn i sancteiddio ei aflendid, a gwisgo'i holl gabledd â chrefydd. Buont yn felltith i bob oes ac yn bla marwol i'r byd. Epil ffals a diegwyddor ydynt o waed, ac ofer disgwyl am nag iawnder, na gwirionedd, na llonyddwch i'r byd, tra y byddont â'u traed o'i fewn."*

*Dyna farn Scorpion. Onid cymwynas â'r byd oedd gwneud i ffwrdd â'r math yna o grefydd? Oni fydd y byd yn well wedi ei ryddhau ei hun oddi wrth grefydd fel yna? Nid enw ar ormes yw crefydd. Ni all crefydd sefydledig wrthwynebu pechodau'r llywodraeth. Ni all archesgob wrthwynebu rhyfeloedd a garia'r llywodraeth ymlaen. Ni allai'r Pab ond bendithio dinistr Abysinia. A yw'r grefydd a fendithiodd y rhyfel mawr,*

*a'r grefydd a fendithiodd anfadwaith Itali yn werth ei chadw? A fendithid gorthrymwyr India gan yr Iesu? A ellir synied am yr Iesu'n bendithio llongau rhyfel Prydain, y llongau sydd wedi, ac yn mygu rhyddid dros yr holl ddaear? Do, dinistriwyd rhyw fath ar grefydd yn Rwsia, a phe dinistrid y grefydd sydd yr un fath â hi yn y wlad hon, deuai gwell byd i'r werin.*

*Am y tro cyntaf yn hanes Rwsia, a'r tro cyntaf yn hanes y byd, sefydlwyd Rhyddid Crefyddol hollol gan y Sofietau. Byw byth fyddo unig weriniaeth y gweithwyr.*

Yn rhifyn 19 Mawrth 1938 o'r Cymro ymddangosodd atebion T. E. Nicholas i Ddeuddeg Cwestiwn y papur a osodwyd bedair wythnos yn flaenorol gyda'r bwriad o ganfod barn cynifer o'r darllenwyr ag oedd yn bosibl ar faterion yn ymwneud â Chymru a'r Gymraeg. Yr oedd hyn yn dilyn cyfres o bump o ysgrifau yn y papur o dan y teitl 'Cyfeirio Egnïon Cenedl' a ysgrifennwyd gan D. J. Williams, William Eames, Robert Richards, A.S. Wrecsam, John Eilian, golygydd cyntaf Y Cymro, a'r Athro W. J. Gruffydd, yn amlinellu eu gweledigaeth bersonol hwy o ddyfodol Cymru a'r byd, ac meddai'r Golygydd yn rhifyn 19 Chwefror 1938 ar ddiwedd y gyfres ac wrth osod y deuddeg cwestiwn:

*....Bwriadwn ddilyn ymlaen, ar derfyn y gyfres hon, â pholisi pendant, a'i gadw mor ymarferol ag y gallwn. Ac yn eich parodrwydd chwi i gydweithio â ni, drwy ddwyn eich cyfraniad personol i drysorfa syniadau, y dibynna llwyddiant ein hymgyrch i raddau helaeth iawn.*

*A wnewch chwi gytuno? Anfonwch yr hanner-dalen isod yn ôl wedi ei llanw yn feddylgar. Nid dibwys na di-fudd yw hyn o lawer; nid ar dir y pôs geiriau y mae. Dyma gyfle i gael rhyw syniad beth a feddwl Cymry'r byd heddiw, yn sir Fôn a sir Fynwy, yn Aberystwyth a Lerpwl, yn Llundain a De Affrig a'r America. Anfonwch, os gwelwch yn dda, wrth y dwsinau a'r cannoedd. Llefwch o bedwar ban y byd....*

Yn ôl T. E. Nicholas 'rhoddodd Y Cymro faes digon eang i lyfr, ac ni ellir ateb y cwestiynau heb ofod llawer helaethach nag un tudalen'; serch hynny fe lwyddodd i groniclo ei atebion i mewn i ddwy o golofnau dilynol 'O Fyd y Werin' gyda manylder a thrylwyredd nodweddiadol. Oherwydd meithder ei atebion dyfynnaf y golofn gyntaf yn unig, sy'n cynnwys atebion i'r saith cwestiwn cyntaf ac sy'n ddadlennol a diddorol tu hwnt gan eu bod yn rhoi goleuni pellach ar feddylfryd a syniadau Nicholas. Sylwer isod ar y pwyntiau canlynol:

(1) y modd y llwydda i amlygu ei syniadau Comiwnyddol a chrybwyll enw Rwsia droeon, hyd yn oed wrth ateb cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru;

(2) mor glinigol yw ei ddadansoddiad o gyfraniad a gwerth Cymru a'r iaith Gymraeg i weriniaeth a gweithwyr y byd;

(3) y modd nad yw'n gallu uniaethu ag unrhyw un o'r prif bleidiau gwleidyddol; iddo ef 'dosbarth' ac nid 'plaid' sy'n bwysig:

### *Y MAE DYFODOL Y WLAD YN NWYLO'R GWEITHWYR*

1. A oes gan bob cenedl ei chyfraniad at bwrpas y byd?

*DIBYNNA hynny ar y defnydd a wneir o genedl. Gall fod yn ddi-amcan. 'Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn, megis blodeuyn y maes, felly y blodeua efe; canys y gwynt a â drosto, ac ni bydd mwy ohono; a'i le nid edwyn ddim ohono ef mwy.' Bu un cnwd o laswellt farw i roi lle a bywyd i gnwd arall am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Nid oes i'r glaswelltyn "fwriad" hyd oni ddêl meddwl dyn i drefnu, a gwybodaeth dyn i ddefnyddio a throi cnwd y maes yn gysur a gwasanaeth i fywyd uwch. Dyna fu hanes y cenhedloedd; byw a marw, a rhoi bod i genedlaethau eraill i wneud yr un peth. Yn raddol daeth rheswm a gwybodaeth i roddi i bob cenedl bwrpas. Manteisiodd yr ychydig cryf a gwybodus ar hyn i droi bywyd ac egni cenhedloedd i'w hamcanion hunanol. Unig bwrpas cenhedloedd fu cynhyrchu cyfoeth diderfyn i'r ychydig fyw yn foethus. Pwrpas cenedl yw byw yn rhydd, hapus a dibryder: a rhoi amser da i ddatblygu'r elfennau dynol a berthyn iddi. Cynhyrchu bwyd oedd unig bwrpas bywyd gynt; bu raid ymladd ag elfennau creulon natur, a dwyn oddi ar y ddaear drwy drais foddion byw. Nid oedd amser i feddwl am ddim arall. Prin oedd gwybodaeth dyn o ddeddfau natur ac elfennol oedd ei arfau. Bellach datryswyd problem cynhyrchu bwyd. Cyfyd prinder heddiw nid o analluu i gynhyrchu digon, ond o drawsfeddiannu'r cynnyrch gan ysbeilwyr. Y mae ein brwydr nid yn erbyn natur ond yn erbyn trawster dynion. Amcan cenedl a dyn yw bod yn ddedwydd a chyfrannu dedwyddwch. Golyga dedwyddwch gyflwr rhydd, gwybodus, di-ofn, a di-dlodi. Hyn yw amcan bywyd a bod cenedl a dyn.*

2. A wnaeth Cymru gyfraniad? Pa beth yn bennaf?

*Gwnaeth Cymru ei rhan o dan anfanteision mawr. Er pob ysbail a gwasgu a fu, cyfrannodd Cymru rywbeth i'r byd sydd o werth bythol. Ni fu ei chyfraniad yn fawr i'r byd mewn llenyddiaeth a chelfyddyd. Cyfyngder iaith a'i cadwodd rhag cyfrannu'r pethau hyn. Ni fu ei chyfraniad crefyddol yn fawr. Trosglwyddo crefydd a gafodd o fan arall a wnaeth. Nid Cymru a gyfrannodd i'r byd y syniad "mai'r Deyrnas Ysbrydol yw'r unig Deyrnas", fel y dywedai yr Athro Levi; syniad a gafodd gan genhedloedd eraill oedd hwnnw. Cafodd Cymru ei chrefydd a'i brenhinoedd gan genhedloedd eraill. Credaf mai prif gyfraniad Cymru i'r byd oedd y "Mudiad Cydweithredol". Dyna freuddwyd mawr ac anfarwol Robert Owen o'r Drenewydd. Nid yw'r ffaith i'r Mudiad fynd yn rhan o gyfundrefn cyfalaf yn tynnu oddi wrth ei werth. Arweinwyr di-weledigaeth sy'n gyfrifol am hynny; megis y llygrwyd crefydd Iesu gan y Babaeth a chan Eglwysyddiaeth. Ni thyn y bradychu a fu ar y ddau Fudiad oddi wrth eu gwerth cynhenid. Pan roddwyd i'r byd y drychfeddwl am Fudiad Cyd-weithredol rhoddwyd mwy na hawl i weithwyr i brynu a gwerthu nwyddau iddynt hwy eu hunain, rhoddwyd i'r cenhedloedd syniad am fyd newydd, heb dirfeddianwyr na budr-elw, heb ryfeloedd nac ysbail. Gwreiddiodd y Mudiad ym mhob gwlad oleuedig, ac fe'i corfforwyd ym mywyd gwlad o gant a phedwar ugain o filiynau o drigolion, a thros un ran o chwech o wyneb*

*y ddaear. Y mae aelodau'r Mudiad yn Rwsia yn agos i gan miliwn. Bu'r egwyddorion a gymer ffurf yn Rwsia heddiw yn freuddwydion yng nghalon Robert Owen. Troi gweledigaeth Cymro yn sylweddau a wneir yno. Y mae enw Robert Owen yn fwy adnabyddus ac yn fwy parchus yn Rwsia nag yn ei wlad ei hun. Y mae cnewyllyn o'i ddelfrydau ym mhob gwlad, a rhywdro tyf yn beth mawr ac anorchfygol. Dyna gyfraniad mwyaf Cymru i'r byd, ac ni raid i ni gywilyddio o'i blegid. Drwy Henry Richard, Richard Price ac S.R. rhoddwyd i'r byd syniad am Gynghrair y Cenhedloedd; a ffordd well na rhyfel i benderfynu cwerylon rhyng-wladol. Rhoddodd Cymru i'r byd ryfelwyr ac ymladdwyr a chicwyr pêl; codwyd cofgolofnau i ryfelwyr mewn llawer ardal. Credaf mai'r cyfraniad mwyaf i'r byd oedd y syniad am Fudiad Cyd-weithredol, a'r syniad y gellir penderfynu tynged y byd heb ryfel.*

3. Beth a all Cymru gyfrannu heddiw?

*Y mae gan Gymru lawer i'w gyfrannu heddiw. Ar y cyfan credaf fod gwerin Cymru yn fwy meddylgar a mwy sicr o'i safiad na gwerin Lloegr. Pan ysgubir y wlad weithiau mewn etholiad i gyfeiriad amheus, saif Cymru yn yr unfan. Cydnebydd y byd fod glowyr y De ar y blaen i bawb mewn gwybodaeth o gwestiynau cymdeithasol. Y maent yn weddol iach ar bob pwnc mawr, ac yn barod i sefyll dros egwyddorion, oni cham-arweinir hwynt gan ddynion uchelgeisiol i foddio'r bendefigaeth Seisnig. Y mae Saeson yn arweinwyr yn y De; ond Saeson ffyddlon i'r dosbarth gweithiol ydynt. Profodd y Cymry a fu'n arwain yno yn fwy o gynffonwyr i'r Saeson o lawer. Nid yw iaith a chenedl yn cyfrif yn y rhyfel dosbarth. Prif gyfraniad Cymru heddiw yw heddwch, gweriniaeth, a safiad pendant yn erbyn galluoedd peryglus y byd.*

4. A yw'r Gymraeg yn anhepgorol i Gymru gadw ei hunaniaeth?

*Nid yw cadw'r iaith yn anhepgorol. Gall iaith fod yn rhwystr ac yn gyfyngiad. Cyfyd hyn o gyfeiriad ymerodrol; ni wneir un ymgais i roddi i'r byd feddyliau'r Cymry unieithog. Y mae cylch dylanwad Cymro uniaith yn fach. Nid oes i'r Cymro ddrws agored i'r byd. Weithiau egyr drws ym myd celfyddyd a cherddoriaeth; ond ni fynegir yn llawn bersonoliaeth y Cymro drwy'r cyfryngau hyn. Gellir cadw hunaniaeth cenedl heb iaith, oblegid rhoddir bod i feddyliau gan unigolion. Damwain yw'r iaith sy'n cario'r meddyliau i'r byd. Y mae'r bardd yn mynegi ei bersonoliaeth ddynol yn ei farddoniaeth, ac nid agweddau cenedlaethol a Chymreig y bersonoliaeth honno. Y mae gan bob cenedl feirdd; damwain yw iaith, a chyfrwng mynegiant rhywbeth sy'n ddyfnach na gwaed.*

*Credaf er hynny mai anfantais fyddai colli'r iaith. Collir hi rhywdro yn sicr ddigon. Nid yw hynny yn torri fy nghalon; y mae yn fy nhristáu yn fawr. Gall gormeswyr siarad Cymraeg, a gormeswyr sy'n gwneud bywyd yn galed i unigolion cenedl. Nid yw rhoi hawl i ddyn gardota'i fara yn iaith ei fam yn gymwynas fawr. Nid yw derbyn "dole" o law un a fedr Gymraeg yn achos llawenydd mawr i'r di-waith. Diffyg synnwyr cyffredin sy'n cyfrif am atal dynion i siarad iaith eu gwlad mewn ysgol ac mewn llys. Drwy drugaredd anaml iawn y rhaid i'r mwyafrif ohonom fynd i lys barn. Pe bawn ar brawf yn Llundain am losgi'r Ysgol Fomio, ceisiwn siarad dipyn o Saesneg anniben er mwyn i'm rhesymau dros y llosgi gyrraedd cylch eang. Yr oedd prif bapurau'r byd yno i gofnodi'r areithiau; a chredaf i Gymru golli cyfle mawr i roi gwybod i'r byd paham y llosgwyd yr Ysgol Fomio. Siglodd areithiau Dimitrof y byd. Rhoddodd ar ddeall i'r byd ei safiad a'i ddelfryd. Iaith fratiog oedd ganddo; ond mentrodd mewn iaith estron sefyll i fyny yn wyneb pwerau creulonaf y byd, a choncrodd hefyd.*

*Ar bwnc yr iaith a'i defnydd rhaid defnyddio synnwyr cyffredin, gan mai cyfrwng i fynegi cenadwri yw iaith ar y gorau.*

5. A ydych yn fodlon ar safle bresennol Cymru?

*Rhaid i ni fodloni ar safle Cymru fel rhan o Brydain Fawr. Ni all hyd yn oed y Blaid Genedlaethol newid safle Cymru, a'i symud i rywle arall. Nid safle Cymru, ond ei chyflwr sy'n bwysig.*

*Nid wyf yn fodlon ar gyflwr Cymru; nid ei safle na'i chysylltiad daearyddol ac economaidd â Lloegr sy'n gwneud ei chyflwr mor ddrwg, eithr y Gyfundrefn Gyfalaf. Rhydd y gyfundrefn honno hawl i'r ychydig i ysbeilio'r miloedd. Y mae gweithwyr Lloegr yn dioddef fel ninnau ac am yr un rhesymau. Nid oes y fath beth â "Thlodi Cymreig", neu "Dlodi Seisnig". Y mae'r dosbarth gweithiol yn dlawd yn y ddwy wlad. Cystal cydnabod ar unwaith nad oes gorthrwm gwleidyddol ar Gymru. Ni chedwir Cymro allan o un swydd yng Nghymru na Lloegr am ei fod yn Gymro. Bu'r swyddi uchaf yn Iwerddon yng nghau i Wyddelod; y mae'r swyddi uchaf yn India yng nghau i'r brodorion hyd heddiw. Dyna orthrwm gwleidyddol. Gall Cymro, os bydd ganddo'r cymwysterau, ddringo i gadeiriau Prifysgolion Lloegr; a bu Cymro yn Brif Weinidog Prydain Fawr. Gorthrwm economaidd sydd ar Gymru. Nid yw'n fath arbennig o orthrwm; nid gorthrwm Cyfalaf Seisnig ydyw, ond Gorthrwm Cyfalaf. Gorthrymir gweithwyr Lloegr gan Saeson; gorthrymir gweithwyr Cymru gan Gymry. Nid peth i'w ddatrys drwy symud Senedd o un dref i dref arall ydyw; nis datrysir tra pery'r Gyfundrefn Gyfalaf.*

*Perygl ysbryd Cenedlaethol yw llithro'n ôl i ysbryd plwyfol. Digwyddodd hynny eisoes yn y Blaid Genedlaethol. Protestiodd honno yn erbyn yr Ysgol Fomio yn Llŷn, a da y gwnaeth. Y mae daear Llŷn yn gysegredig oherwydd ei llên a'i chrefydd i gannoedd. Bodlona'r Blaid ar ail-agor dociau'r Llynges ym Mhenfro ('Y Ddraig Goch', Mawrth 1929).*

*Dyna syniad plwyfol am Gymru; Llŷn yn rhy gysegredig, ond gellir defnyddio glennydd Penfro. Y mae Penfro yn annwyl i rywrai. Dyna sir Dewi Sant a Gerallt Gymro; sir y Prifathro Thomas Rees, Llawdden a Chaleb Morris, prif bregethwr Llundain yn ei ddydd; dyna ardal Gruffydd Jones, Llanddowror, a Hywel Dda; ac yno y mae bedd fy nhad a'm mam. Y mae bodloni i fomio ym Mhenfro yn gam â darn o Gymru sydd yn annwyl i lawer. Nid tynnu i mewn ond lledu allan yw neges cariad at wlad; a lledu yn y diwedd nes protestio yn erbyn Ysgol Fomio yn Lloegr ac Uchel -diroedd yr Alban. Nid iaith na chenedl sy'n gorthrymu, ond dynion o bob iaith a chenedl wedi meddiannu'r peiriant cymdeithasol, a'i droi yn beiriant ysbail.*

*Ein gwaith cyntaf yw rhyddhau gweithwyr Cymru a Lloegr oddi wrth felltithion Cyfalaf; a mynd ati gyda'n gilydd i greu byd newydd lle gall Cymru fyw ei bywyd ei hun mewn rhyddid a llawnder.*

6. P'run a gefnogwch, - Ymreolaeth, Senedd Daleithiol, Cyngor Cenedlaethol, neu Ysgrifennydd i Gymru?

*Dim un, os mai'r pwrpas yw rhyddhau gwerin Cymru. Gofynnaf am Weriniaeth y Cymry; golyga hynny hawl Cymru i benderfynu ffurf ei llywodraeth. Credaf wrth gwrs mewn cymryd y gallu o Lundain; ni chredaf mewn rhoddi'r gallu i griw arall tebyg yng Nghaerdydd neu Gaernarfon. Rhoi'r gallu yn ôl i'r gweithwyr, dyna'm delfryd. Gweithwyr Cymru sydd yn gwneud holl waith y wlad, hwy sydd yn talu am bopeth; i ba beth y rhoddir hawl i lunio cyfreithiau'r wlad i arall? Rhaid i weithwyr Lloegr a Chymru ddod at ei gilydd i ddymchwel y gyfundrefn sy'n melltithio'r ddwy wlad. Ni fydd anhawster wedyn i greu bywyd cyd-weithredol rhwng unigolion a chenhedloedd. Dosbarth sy'n gormesu nid*

*cenedl. Nid gorthrwm un genedl ar genedl arall sydd yn ein blino, ond gorthrwm un dosbarth ar ddosbarth arall. Y mae perffaith undod rhwng cyfoethogion Lloegr a Chymru i wasgu gweithwyr y ddwy wlad.*

*Y mae hunan-lywodraeth yn Lloegr, America, Ffrainc a Norwy, a llawer gwlad arall; yn yr holl wledydd hyn y mae cyflwr y dosbarth gweithiol cynddrwg â chyflwr dosbarth gweithiol Cymru. Y mae meddwl y gall Ysgrifennydd dros Gymru newid pethau er gwell yn jôc dorcalonnus yn erbyn y gweithwyr.*

7. Ym mha blaid wleidyddol y mae gobaith i Gymru?

*Naturiol i bob un gredu bod gobaith Cymru yn ei blaid ef. Ni fydd ateb nad oes obaith i Gymru oddi wrth un o'r pleidiau a enwir yn ddigon; rhaid dangos paham na ellir achub Cymru drwyddynt. Cymerer Rhyddfrydiaeth yn gyntaf. Y mae'r Athro Levi yn gystal dehonglwr o Ryddfrydiaeth â neb yn y wlad. Nid oes i Ryddfrydiaeth egwyddorion sefydlog. Gŵyr yr Athro hynny yn dda. Nid yw pob Rhyddfrydwr yn dal yr un syniadau am yr un pethau. Nid yw Rhyddfrydiaeth yn golygu yr un peth ym mhob etholiad. Nid oes seiliau gwyddonol i ddysgeidiaeth y blaid. Nid oes y fath beth â Rhyddfrydiaeth i'w gael; y mae Rhyddfrydwyr, a'u rhaglen yn newid o un cyfnod i'r llall. Nid yw Ymreolaeth i Gymru yn rhan o raglen Rhyddfrydiaeth. Bu mewn swydd a gallu am lawer cyfnod hir, ni roddodd Ymreolaeth i Iwerddon na Chymru na India. Felly nid yw ail-ddyfodiad Rhyddfrydiaeth yn golygu Ymreolaeth i Gymru. Gall estyn mesur o ryddid i Gymru rhywdro, ond nid yw hynny yn rhan hanfodol o'i rhaglen.*

*Ni raid mynd i'r drafferth i ddweud na cheir Ymreolaeth i Gymru drwy Geidwadaeth. Gorthrymu ac ysbeilio cenhedloedd gwan y byd fu ei hanes erioed. Gwastraff ar amser fydd disgwyl dim oddi wrthi. Ni all Plaid Lafur wneud ond a orchmynnir iddi gan ei meistri. Ni freuddwydiai'r blaid am gario allan raglen y gweithwyr. Transport House a'r Banciau sy'n llunio ei pholisi hi. Gweithio'r peiriant cyfalaf o dan lygad manwl y Banciau, dyna'n unig a ganiateir iddi hi. Try at y mawrion am swyddogion pwysicaf i'w gweinyddiaeth; a chilia ei harweinwyr i freichiau'r meistri pan dyr ystorm y gweithwyr arnynt. Ofer danfon Plaid Lafur i'r senedd oni fodlona hi ar gario allan raglen wleidyddol y gweithwyr. Ni welaf un argoel y daw hon yn blaid werinol tra bydd dyrnaid o ddynion yn penderfynu popeth yn erbyn ewyllys y rhengoedd isaf.*

*Y Blaid Genedlaethol eto. Ni ellir ond ceisio amgyffred beth a wnâi honno pe mewn awdurdod. Y mae ei rhaglen hyd yma yn ben-agored, a dweud y lleiaf. Ni wnaeth Ymreolaeth lawer dros y Gwyddelod tlawd. Ni ddatryswyd problem tlodi a'r di-waith yno. Ni fu'r Blaid Genedlaethol mewn awdurdod, ac ni ellir felly ei beio am beidio gwneud rhywbeth. Pan â rhyw weithiwr meddylgar i mewn i'r Blaid i dynnu allan raglen economaidd, dichon y cawn wybod dros beth y saif. Y mae arweinwyr y Blaid wedi methu hyd yn hyn â gosod unrhyw gynllun gerbron y wlad a all symud melltithion cyfalaf oddi ar y gweithwyr.*

*Nid yw gwrthod y pleidiau hyn yn gwneud Cymru yn ddi-obaith. Y mae ffordd gwaredigaeth i Gymru, ond nid drwy "Blaid"; y mae pob "Plaid" yn cynrychioli buddiannau dosbarthiadau cyfoethog. Rhaid troi oddi wrth "Blaid" at "Ddosbarth". Gall y Dosbarth Gweithiol ddwyn rhyddid i Gymru. Yn hyn yr wyf ar dir sicrach na'r Athro Levi a'r Athro Bebb. Ni all yr un ohonynt hwy gyfeirio at wlad a gafodd ryddid i'w gweithwyr drwy eu pleidiau. Gallaf fi ddangos, gyda balchder, i'r Dosbarth Gweithiol ddatrys achos y Cenhedloedd Bychain dros un ran o chwech o'r byd.*

*Yn Rwsia y mae cant a phedwar ugain o genhedloedd; cant a hanner o*

*ieithoedd, a phob cenedl yn rhydd. Y mae rhyddid gwleidyddol a rhyddid economaidd a rhyddid crefyddol wedi eu sicrhau i gant a phedwar ugain o filiynau. Ni chlywais awgrymu bod gorthrymu ar genhedloedd bychain yn Rwsia er pan ddaeth y Dosbarth Gweithiol i ddeddfu. Y mae'r ysgolion, y prifysgolion a'r llysoedd barn, yn iaith y bobl. Cyhoeddir papurau dyddiol, a holl bapurau swyddogol y wlad yn iaith y bobl. Y mae'r chwaraedai a'r swyddogion gwladol yn siarad iaith y genedl. Trefnir tai a chynnyrch bwyd ac addysg a chwaraeon gan y bobl; ac y mae holl adnoddau y cenhedloedd mawr at wasanaeth y genedl ddistadlaf yn y wlad. Megis y cyd-weithia teulu i drin meysydd a chasglu cynhaeaf, felly y cydweithia holl genhedloedd Rwsia i lunio gwlad a gwareiddiad teilwng o'r ddynolryw. Yr oedd yno bump ar hugain o genhedloedd heb iaith ysgrifenedig ac heb wyddor. Lluniwyd iaith i bob un. Cesglir hen lenyddiaeth draddodiadol a hen gerddi gwerin a berthynai iddynt, a throsir hwy i ieithoedd eraill; a rhoddir iddynt lenyddiaeth llawer gwlad yn eu hiaith eu hunain. Drwy hyn manteisia'r holl genhedloedd ar wrtaith meddyliol ei gilydd. Nid dychymyg yw hyn ond ffaith hanesyddol. A digwyddodd y cwbl mewn ugain mlynedd. Y mae llawer o dda ym mhob plaid, a bodlonaf i weithio gyda phob un ar bynciau manteisiol i werin gwlad. Ond cyn y ceir rhyddid llawn i genedl rhaid diddymu'r gyfundrefn ysbail, a throsglwyddo llywodraeth gwlad i ddwylo'r dosbarth sy'n cynnal gwlad â'u llafur caled.*

Yn <u>Y Cymro</u> 16 Ebrill 1938 cafwyd colofn arall gwbl nodweddiadol gan T. E. Nicholas o dan bennawd yr un mor gyfarwydd yn dweud mai trwy weriniaeth a thrwy rym y gweithwyr yn unig y gellid datrys problemau'r byd. Sylwer arno'n cymharu Neville Chamberlain, Prif Weinidog Prydain, â Hitler, unben yr Almaen, a sylwer hefyd ar ei frawddeg olaf arwyddocaol a deifiol:

### *FFORDD I SICRHAU RHYDDID A DIOGELWCH*
### *Troi At Y Gweithwyr Am Weledigaeth*

*MOR hawdd y gall dyn ei dwyllo ei hun! Dyma fi wedi bod wrthi am rai misoedd yn beirniadu cyfundrefnau gwladol, ac wrth wneud yn meddwl rhoddi cyfeiriad i werin gwlad tua'r byd newydd.*

*Methais yn ôl llythyr Mr. Jesse Roberts, Penygroes. O ail ddarllen ac ail feddwl, gwelaf na feirniedais neb heb gynnig rhywbeth yn lle'r hyn a gondemniaf. Wedi dod i lawr yn o drwm ar y Prif Weinidog, ceisiais ddangos ffordd arall i werin gwlad sicrhau diogelwch a rhyddid. Ond i Mr. Jesse Roberts ail-ddarllen credaf y gwêl yntau mai nid dinistrio yn unig a fu yn fy ysgrifau ond dangos ffordd dra rhagorol i weithwyr y byd allan o'u helyntion. Er mwyn pwysleisio hyn yn fwy pendant, adroddaf yn fras yr egwyddorion a all achub y byd.*

*Amlwg erbyn hyn i gynlluniau arweinwyr gwleidyddol fethu. Beiddgarwch a fyddai dweud i Chamberlain fod yn llwyddiant yn y byd rhyngwladol. Prysurodd lwyddiant gorthrymwyr Ewrob, a dug ddydd Ffasgaeth gam yn nes. Metha E. G. Jones, Llandysul, â gweld y bydd mynediad Hitler i Awstria yn beth drwg. Nid yw'n beth drwg i un a gred fod polisi Chamberlain yn un da. Meddwl am weithwyr Awstria y byddaf fi, a'r dioddefiadau y rhaid iddynt fynd drwyddo. Bu dwrn Hitler yn drwm ar ei wlad ei hun; yn sicr bydd yn drymach ar genedl arall. A chofied Mr. Jones mai Chamberlain a wnaeth Gynghrair y Cenhedloedd yn ddiwerth a dirym.*

*Y Maen Praw*

*Llwyddiant gwerin gwlad yw'r maen praw i mi ar bopeth. Nid yw miliynau gweddill y Cyllid yn achos llawenydd i mi. Daeth y gweddill hyn o dlodi'r dosbarth gweithiol. Buasai i dad ymffrostio bod ganddo weddill mawr yn y banc ar ddiwedd blwyddyn wedi newynu ei deulu am ddeuddeng mis yn arwydd sicr o wallgofrwydd neu o ddrygedd cymeriad.*

*Gwerth gwaed yw'r "gweddill" sydd yn nwylo'r Llywodraeth.*

*Y mae'n amlwg erbyn hyn fod gweriniaeth ar drai drwy'r byd. Y mae'r un mor amlwg fod polisi tramor Prydain yn cynorthwyo'r galluoedd sydd yn mygu gweriniaeth. Rhaid i Mr. Roberts faddau i mi am fod yn unochrog. Ni phroffesaf fod yn amhleidiol. O blaid y werin yn unig y codaf fy llais. Beirniadaf bob gweithred o eiddo'r Llywodraeth yn y golau hwn. Methaf â gweld dim yng ngweithredoedd na geiriau'r Prif Weinidog a rydd gysur i weithwyr. Ofer disgwyl i wlad fodloni ar bethau fel y maent. Deil rhywrai o hyd i ddadlau dros bethau newydd, a da hynny. Yn yr ogofâu y byddem heddiw oni bai am ddynion anfodlon. Pwy sydd fodlon ar bethau fel y maent heddiw? Tlodi, rhyfeloedd, gorthrwm, ysbail, gelyniaeth a thrais, dyrnaid o gyfoethogion yn unig sy'n fodlon ar y pethau hyn. Rhaid i werin gwlad ymladd ac ymdrechu hyd oni ddelo gallu i'w dwylo i greu byd cysurus a newydd. Gwthir gwerinoedd y byd yn ddyfnach i'r pydew; tlodi yw unig etifeddiaeth y dosbarth gweithiol drwy'r byd. Sonnir am dlodi yn y De; sonnir am dlodi yn y Gogledd yn yr ymchwil i'r Pla Gwyn; daw'r newydd am ddinistr cenhedloedd bychain, Abysinia wedi mynd; China a Sbaen dan eu croes; Awstria wedi diflannu, a'r byd yn disgwyl ergyd arall bob munud awr.*

*A yw'r sefyllfa yn un i'w chwennych? Gwaith pwy yw symud y pethau hyn? Dywaid rhai am ymddiried yn y Prif Weinidog; meddwl hynny yw ymddiried yn Hitler a'r Arglwyddes Astor. Hwy sydd ar hyn o bryd yn penderfynu tynged Prydain a'r byd. Camgymeriad yw credu bod gan y bobl air yn helyntion y byd. Nid yw'r Prif Weinidog yn cario allan ewyllys y bobl. A ddisgwylir i ni sy'n credu mewn gwell byd aros yn dawel? Y mae difaterwch y mwyafrif yn fawr, a rhaid dal ati i'w deffro hyd oni ddelo dydd heddwch a rhyddid.*

*Ffordd Allan*

*A oes ffordd allan? Oes, drwy weriniaeth. Os gall rhywun ddangos ffordd allan bydd yn bleser gennyf ei dangos i ddarllenwyr 'Y Cymro'. Rhoddi, neu fynnu gallu i weithwyr y wlad i benderfynu eu tynged, dyna'r ffordd allan cyn belled ag y gwelaf ar hyn o bryd. Troi at y gweithwyr am waredigaeth yw'r ffordd i heddwch. Try arweinwyr y gweithwyr at y cyfalafwyr am arweiniad. Cyn i'r arweinwyr benderfynu beth i'w wneud, gohiriwyd eu cynhadledd am ddeuddydd i weld beth a ddywedai Chamberlain! A oes dyn a gred y gall efe roddi arweiniad teg i'r byd? Onid dyletswydd arweinwyr Llafur yw troi at y gweithwyr am weledigaeth ac ysbrydoliaeth? Trefnu a chalonogi gweithwyr i ymgyrch aruthrol yn erbyn y pwerau sy'n peryglu'r byd yw ein gwaith.*

*Pwnc heddwch yw'r pwysicaf ar hyn o bryd. Gellid cael heddwch yn o hawdd rai misoedd yn ôl. Galw llywodraethau heddychol y byd at ei gilydd i ffurfio undod bendant yn erbyn ymosodwyr oedd yr unig beth rhesymol i'w wneud. Ceisiodd Rwsia wneud hynny drwy'r blynyddoedd. Bu llwyddiant ar ei gwaith. Taflodd Prydain ei dylanwad yn erbyn y cytundebau heddychol a wnaeth, a datrysodd lawer ar y "ffrynt unol" a wnaeth Rwsia dros heddwch. Ymgais bennaf Prydain ar hyn o bryd yw torri rhwng Rwsia a Ffrainc. Credaf mai'r cytundeb rhwng y ddwy wlad yw'r gwrthglawdd olaf yn erbyn rhyfel. Honnir gan Mwsolini a Hitler a Chamberlain mai gweithio dros heddwch a wnânt. Edrycher ar Abysinia,*

*Sbaen a China, a phwy a all gredu'r stori? Dywedaf eto y gall Prydain a Ffrainc a Rwsia sicrhau heddwch y byd ar yr unfed awr ar ddeg. Deuai dylanwad America o'u plaid. Rhwystro hyn yw gwaith bywyd Chamberlain. Gadawyd Sbaen at drugaredd Hitler a Mwsolini. Gwrthodwyd gwerthu arfau iddynt. Yno y mae gweithwyr di-arfau yn wynebu peiriannau rhyfel effeithiol heb ddim i'w hamddiffyn eu hunain. Y mae brwydr gweriniaeth a rhyddid yn mynd ymlaen yn Sbaen, a gweithwyr Prydain yn cadw cynhorthwy rhesymol oddi wrthynt. Nid oes gan Brydain wrthwynebiad i werthu arfau rhyfel. Yn ystod y tair blynedd diwethaf gwerthodd dros fil a hanner o longau awyr i wledydd eraill. Dywedir byth a beunydd fod rhaglen "amddiffynnol" Prydain ar ôl; eto gwerthir awyr-longau rhyfel i wledydd eraill. Pwy oedd y prynwyr? Nid Rwsia, nid America, nid Sbaen, nid Abysinia, nid Awstria, nid China chwaith. Dyna'r gwledydd sy'n dymuno heddwch, ac yn dioddef oherwydd rhyfel. Gellid meddwl mai i'r rhain er eu hamddiffyn eu hunain y gwerthid arfau. Fel arall y bu. Prynwyd yr awyr-longau gan wledydd milwrol i gario allan ddinistr gwledydd bychain, ac ysgubo, os gellir, unig weriniaeth y byd yn ôl i'r hen orthrymder. Hynny sydd wedi digwydd, ac wedi digwydd trwy gydsyniad Prydain. A yw ymddygiadau fel hyn uwchlaw beirniadaeth? Ni ddigwyddodd pethau'n hollol foddhaol i ryfelwyr. Parodd safiad Sbaen syndod nid bychan i'r byd. Dynion heb ddysgu'r grefft o ymladd, heb arfau, heb arian ac heb fwyd, yn sefyll hyd eto yn erbyn dau o alluoedd milwrol cryfaf y byd. Y bwriad oedd i Sbaen syrthio ar unwaith. Y mae China hefyd wedi gwneud safiad gogoneddus iawn. Wedi'r llwgr-wobrwyo a'r bradychu a fu yno, daeth safiad China yn syndod i'r rhyfelwyr. Credodd Japan mai gwaith hawdd a fyddai ysgubo China o'i blaen. Cydweithiai'r Almaen â Japan, un yn y Dwyrain Pell a'r llall yn Ewrob.*

## *Nod Hitler*

*Darostwng cenhedloedd bychain Ewrob bob yn un, ac mewn amser byr yw nod Hitler, a pharatoi i'w fyddinoedd ac i fyddinoedd y gwledydd a goncrir ganddo, i gerdded tuag at Rwsia. Darostwng China ar un ergyd oedd bwriad Japan, a gyrru ei byddinoedd, a gorfodi gweithwyr China yr un pryd, tuag at Rwsia.*

*Drylliodd safiad y gweithwyr yno y cynlluniau hyn bob un. Y mae'n bosibl i China, onis bradychir hi gan arweinwyr uchelgeisiol, ddod allan yn fuddugol, a dyna'r gobaith am Rwsia wedi mynd.*

*Y mae'n amlwg bellach na cheir gwaredigaeth o gyfeiriad Prydain. Beth yw'r cam nesaf? Galw gwerinoedd y byd at ei gilydd. Danfonwyd apêl allan gan Rwsia; gwrthodwyd yr apêl gan Brydain. Bellach nid oes gennym ond y gweithwyr.*

*Nid eiriol ar Hitler a Mwsolini a Chamberlain, ond troi at weithwyr y gwledydd. Pe gallem sicrhau gweithwyr yr Eidal a'r Almaen fod gweithwyr Prydain o'r tu ôl iddynt, buan y deuai'r mudiad heddwch yn gryf yno. Yn y diwedd ni all ond gweithwyr goncro galluoedd Ffasgaidd y byd. Pe bai gweithwyr Prydain wedi gwneud eu rhan dros Sbaen ac Abysinia buasai hanes y ddwy wlad yn wahanol. Gorffwys y bai am hyn ar arweinwyr Llafur. Dengys helyntion y blynyddoedd diwethaf eu bod yn ddiweld iawn a dweud y lleiaf. Tlodi meddyliol a diffyg ffydd yn y gweithwyr yw'r ddwy elfen bwysicaf yn eu harweinyddiaeth. Wrth ddweud hyn dadlau dros heddwch a wnaf. Y mae polisi'r Llywodraeth yn arwain ar ei union i ryfel, ac yn gwanhau pob cenedl sy'n dymuno heddwch.*

## *Concro Ffasgaeth*

*Gellir diorseddu rhyfelwyr heddiw heb daro ergyd; arian, petrol, glo, dur, dyna'r pethau y rhaid eu cael cyn cario rhyfel ymlaen. Ni*

*allai Japan fynd yn ei blaen ond am ychydig wythnosau heb betrol. Arian Prydain fu'n ail-arfogi Hitler. Oni wêl gweithwyr oferedd ymddiried yn y dynion hyn? Gweithwyr y byd yn un a all goncro Ffasgaeth. Cedwir hwynt ar wahân, dywedir celwyddau am weithwyr un wlad wrth weithwyr gwlad arall.*

*Pa bryd y defnyddia'r Undebau Llafur eu grym i hawlio darlledu eu hewyllys da i weithwyr y byd? Y mae'r radio'n gyfleus, ac os oes gennym weriniaeth fel yr ymffrostia rhywrai, beth sy'n lluddias i ni, weithwyr Prydain, anfon ein neges o heddwch i weithwyr y byd?*

*Ym Mexico y mae'r gweithwyr mewn brwydr farwol â chyfalafwyr Prydain ac America. Gŵyr y gweithwyr yno mai ofer pob apêl am gyfiawnder atynt hwy; felly gyrrwyd neges gan y gweithwyr at weithwyr yr holl fyd i ddefnyddio'u dylanwad yn erbyn rhaib cyfalafwyr Mexico. Beth fydd yr ateb, tybed? Gwn beth fydd ateb arweinwyr yr Undebau Llafur, ond daw'r apêl nid atynt hwy, ond at y gweithwyr eu hunain. Dyna lwybr gwaredigaeth byd, dwyn gweithwyr pob gwlad at ei gilydd i ddrysu cynllwynion rhyfelwyr. Bydd yn rhaid "dinistrio" rhyw bethau cyn y daw hyn i ben.*

*Gyda llaw, y mae Mexico wedi penderfynu peidio gwerthu petrol i Japan, yr Eidal a'r Almaen, cenhedloedd ymosodol y byd.*

*Dyna raddau o foesoldeb mewn gwleidyddiaeth, er i hynny fod yn golled ariannol go fawr. Y mae'r Eglwys wedi ei datgysylltu yno.*

Ymddangosodd ysgrif 'O Fyd Y Werin' ddiddorol yn rhifyn 27 Awst 1938 o'r Cymro lle y gwelir T. E. Nicholas yn ateb honiadau amdano mewn rhifyn blaenorol o'r papur gan ŵr a ddefnyddiai'r ffugenw 'Creuddynwr'. Mae neges ganolog yr ysgrif hon, unwaith eto, yn dilyn yr un trywydd arferol, ond credaf ei bod yn werth ei dyfynnu er mwyn dangos yr arddull gref a ddefnyddiai Nicholas i ateb ei feirniaid:

*UNDEB GWERINOEDD YW ANGEN PENNAF Y BYD*
*Ateb Llythyr 'Creuddynwr'*

*DA gennyf fod cynheddfau meddyliol 'Creuddynwr' yn gweithio mor dda. Yn 'Y Cymro' rhoddodd i ni ei adwaith meddyliol i bethau mawr y byd. Rhoddodd i ni hefyd dri phen yn destun hyn o ysgrif.*

*Dywed yng nghwrs ei lythyr iddo 'Ddychmygu', 'Ofni' a 'Hyderu'. Diddorol fydd sylwi ar y pethau a ddug feddwl mor glir i deimlo mor ddwys. Y mae un darn o'i feddwl heb ddechrau gweithredu ac ni soniodd amdano yn ei ysgrif, sef ei Reswm. Peth gwerthfawr yw'r gallu i ddychmygu ac ofni a hyderu, peth gwell o lawer yw'r gallu i resymu dipyn ar brydiau. Dyna fan gwan ei ysgrif. Hyderaf y tro nesaf y rhydd y gell fach honno yn ei feddwl, lle cymerir yn ganiataol y trig ei Reswm, mewn gweithrediad. Mantais yw dwyn cynheddfau segur y meddwl i weithio ambell dro. Da fydd sylwi ar deimladau'r brawd hwn yn eu gwaith; sylwaf arnynt yn "nhrefn eu teilyngdod", chwedl y beirniaid.*

*1. 'Dychymyg.' Dyma ei eiriau:- 'Yr wyf yn dychmygu gweld Mr. Nicholas yn ysgrifennu yn brysur, yn eistedd mewn cadair freichiau gyfforddus, wedi ei gosod mewn ystafell hardd perthynol i 'villa' dlos, yn un o drefi mwyaf dymunol Cymru.'*

*Dyna ddarlun tlws. Perthyn yr awdur i'r ysgol ramantaidd. Nid yw'r 'villa' ond tŷ dwy ystafell fechan ar y llawr; digon i bob amcan i mi,*

ond bod y muriau braidd yn brin i gymryd y llyfrau a garwn ddarllen. Gall y cred ef ac eraill mai ysgrifennwr proffesedig wyf fi, a digon o amser a hamdden i wneud hynny. Nid anniddorol i 'Creuddynwr' ac eraill fydd gair o eglurhad ar yr "amodau" sydd yn gefndir i'r ysgrifau hyn.

Gweithiaf bob dydd o ddeg i ddeuddeg awr, a hynny oddi cartref, heb hamdden na chyfle i ddarllen nac ysgrifennu. Hynny bob dydd o'r wythnos, a phob wythnos o'r flwyddyn. Wedi dod adref yn yr hwyr a dechrau darllen neu ysgrifennu gelwir arnaf hanner dwsin o weithiau i adael fy llyfr a'm hysgrif, a mynd at fy ngwaith. Yn aml ni fydd gennyf amser i ail-ddarllen ysgrif cyn ei danfon i'r wasg; ni all y darllenwyr ddisgwyl llawer o raen llenyddol ar fy mhethau. Ceisiaf wneud fy meddwl yn glir a'm safiad ar bynciau'r dydd yn eglur, a dyna i gyd. Nid rhyw lawer o amser a gaf yn y gadair freichiau esmwyth. Da fyddai pe deuai 'dychymyg' 'Creuddynwr' yn ffaith.

Yn ystod y gaeaf diwethaf darlithiais yn agos i hanner cant o weithiau; wyth gwaith mewn wyth niwrnod ddiwedd mis Mawrth; a theithio deuddeg cant o filltiroedd, a gwneud fy ngwaith arferol. Fe wêl y cyfaill nad rhyw lawer o amser sydd i mi rhwng breichiau'r gadair esmwyth nac yn y 'villa' chwaith. Ychydig iawn yw'r oriau sydd gennyf at ysgrifennu, er gwneud yn fawr o bob munud rhydd.

## 'Dychymyg' Yn Methu

Daw ei 'ddychymyg' at ei waith eto. 'Yr wyf yn dychmygu ei weld yn chwifio baner goch gyda'r esgyrn croes arno, ac yn uno i ganu 'Y Faner Goch' wrth ymdeithio o Aberystwyth i ymosod ar Gaernarfon, Bangor, a Llandudno; gan losgi tai mawr a phlastai perthynol i Arglwydd Londonderry ac eraill.'

Methodd ei 'ddychymyg' eto. Nid yw llosgi tai a godwyd gan werin gwlad hyd yn oed i segurwyr ar raglen y gweithwyr. Ychydig o losgi a fu yn Rwsia; milwyr Prydain losgodd fwyaf yno. Dyna ffordd y gwŷr mawr yn Rwsia gynt o ddial ar y gweithwyr; llosgi pentrefi a llosgi dinasoedd. Ni wyddai gweithwyr ar y pryd am ffordd arall o ymladd. Bu peth llosgi am rai dyddiau; buan y dysgwyd y gweithwyr gan Lenin ac eraill, mai peth ffôl oedd llosgi, am fod y tai a'r eiddo bellach yn eiddo'r gweithwyr. Darfu'r llosgi gan weithwyr Rwsia ar un waith; bu llosgi am flynyddoedd gan fyddinoedd estron. Polisi Hitler a Mwsolini a Chamberlain yw'r llosgi hwn. Dyna fu, a dyna yw eu hanes ymhob man. Llosgodd Hitler Senedd-dy'r Almaen yn gyntaf peth. Ceisiodd daflu'r bai ar eraill, a thorrodd ben hogyn gwallgof i guddio'i drosedd ei hun. Llosgodd lyfrau a darluniau a cherddoriaeth fwya'r byd yn un pentwr. Llosgodd ffrwyth ugeiniau o flynyddoedd o ymchwil gwyddonwyr. Llosgodd byddinoedd Ffrainc a Phrydain chwe chant o longau ar y Volga cyn dianc am eu heinioes o flaen gwerinwyr Rwsia; rhoddasant fforestydd a gwenith ar dân; llosgasant ffynhonnau olew gwerthfawr. Chwythwyd gan yr estroniaid hyn filoedd o bontydd i'r awyr, a dinistriwyd peiriannau gwerthfawr a ffatrïoedd prin. Yna, wedi cario allan ddinistr di-alw-am-dano, gorfu arnynt ffoi allan o'r wlad. Peth ddigwyddodd yn fy amser i oedd llosgi'r ffatrïoedd a chartrefi yn Iwerddon gan y Black and Tans. Llosgir yn barhaus yn India, a theflir tân-belenni ar weithwyr yn eu gwlad eu hunain gan awyr longau Prydain. Nid wyf wedi anghofio'r llosgi a'r lladd yn Irak wrth ladrata'r ffynhonnau olew oddi ar y brodorion. Clywsom i gyd am losgi yn Abysinia, yn China ac yn Sbaen.

## Pwy Sy'n Llosgi?

Nid Stalin sy'n llosgi ond ffrindiau calon 'Creuddynwr'. Clywsom am "losgi'r Ysgol Fomio" yn Llŷn hefyd; nid "adain aswy" y mudiad gwerinol

*a wnaeth hynny. Nid "ffrwyth dychymyg" yw'r llosgi a fu ymhob gwlad gan gyfalafwyr; pethau a ddigwyddodd yn ein cyfnod ni, a phethau o fewn cylch ein profiad a'n gwybodaeth. Y mae'n groes i egwyddor gweriniaeth i losgi eiddo'r bobl, er i'r eiddo hwnnw fod am y tro yn nwylo'r gelynion. Deil 'Creuddynwr' fi yn gyfrifol am bethau a wnaed gan Hitler a Chamberlain. Deud â'i ffeithiau ymlaen, a rhodded enghreifftiau o "losgi" eiddo gan werinwyr yn yr "adain aswy". Dyna fi wedi rhoddi enghreifftiau i gychwyn; rhoddaf eto ugeiniau o ffeithiau tebyg os bydd galw.*

*Af heibio i blas Arglwydd Londonderry hanner dwsin o weithiau bob wythnos; ni theimlais awydd erioed i'w losgi. Y mae'n wag ers dros ddeuddeng mlynedd. Teimlais mai da o beth fyddai gwneud rhyw ddefnydd ohono; ei droi yn sanatorium i'r gweithwyr; neu'n fangre gwyliau, neu'n amgueddfa, neu'n gartrefi i ddynion sy'n byw mewn tai sâl. A gytuna 'Creuddynwr' mai gwastraff yw ei gadw'n wag? A yw'n drefniant rhesymol i gadw plant y gymdogaeth, lawer ohonynt, mewn cytiau; a rhoddi'r Plas yn drigfan i lygod mawr? Methaf â gweld rheswm mewn peth felly; er hynny ni theimlais awydd erioed i'w losgi. Rhywdro daw'r plasau hyn yn eiddo'r werin, a throir hwynt i bwrpas cymdeithasol. Buasai'r plas yr un faint o werth i gymdeithas pe troid ef yn lludw; ni cha'r dref gyfan at y dreth na dim arall oddi wrtho fel y mae ar hyn o bryd. Nid rhan o'n polisi ni, er hynny, yw llosgi adeilad a godwyd drwy chwys a llafur gweithwyr.*

*2. 'Ofn'. Dyna'r ail ben. Dywaid: 'Y mae arnaf OFN bod Mr. Nicholas yn cam-arwain llawer o'n gweithwyr diwaith.'*

*Os cam-arweiniaf y gweithwyr, peth rhyfedd na roddai 'Creuddynwr' ei fys ar rywbeth sylweddol. Dangosed i'r wlad ymha beth y camarweiniwyd gweithwyr gennyf. Cred llawer fod y darlun a dynnaf o Rwsia yn rhy olau. Gall fod; ond y mae priodoli i mi osod Rwsia allan fel Paradwys Ddaearol yn gam-osodiad. Dangos fod y wlad yn nwylo'r gweithwyr i wneud a fynnont â hi yw fy mhrif amcan. Rhaid wrth gwrs, ddangos y pethau a wnaed yno eisoes. Wrth y gwaith o greu byd newydd y maent ar hyn o bryd. Nid yw'r problemau a ddaeth yn etifeddiaeth iddynt o'r hen fyd wedi eu symud. Wrth y gwaith o'u symud y maent yn awr. Daw â'r hen ddadl ddifudd o ofyn paham na symudaf fi ac eraill i fyw yno. Tra bydd dynion o'i gyflwr meddyliol ef yn aros yn y wlad hon bydd digon o waith i ni yma am amser go hir. Rhodded her i weithwyr i fynd yno fel y gwnaeth yr Arglwyddes Astor mewn cyfarfod cyhoeddus. Dywedodd y talai dreuliau unrhyw rai a hoffai fynd i Rwsia. Cyn pen deuddydd daeth ceisiadau oddi wrth gannoedd. Tynnodd yr Arglwyddes ei chynnig yn ôl, ond bodlonodd ar dalu treuliau un teulu yno. Aeth Jim Morton allan, a'i deulu. Bu'n ddiwaith am flynyddoedd, ac yn wael ei iechyd. Methai gael triniaeth feddygol briodol oherwydd ei dlodi. Aeth allan a chymerwyd ef ar ei union i'r ysbyty. Bu yno nes adfer ei iechyd i raddau, a chafodd waith ysgafn. Bu farw; a rhoddir i'w weddw flwydd-dal sylweddol am ei hoes; gyrrir ei blant yn rhad drwy'r prifysgolion; a pharatoir gwaith iddynt ar ddiwedd eu cwrs. Rhoddir iddynt yr un driniaeth a roddir i bob teulu yn Rwsia. Iechyd i galon 'Creuddynwr' fuasai gwrando ar Mrs. Morton yn darlledu o Moscow i'r holl fyd beth amser yn ôl; cawsai felly rywbeth i fyw arno heblaw ei 'ddychymyg'.*

*Eisiau Gweithwyr*

*Y mae eisiau gweithwyr yn Rwsia; da fyddai ganddi agor y drws i filoedd o bob gwlad. Ni adewir llawer i mewn am fod yno brinder tai. Nid oes yno ddigon o dai i'r gweithwyr fel y mae pethau. Ni wrthodir yno yr un ffoadur gwleidyddol o unrhyw wlad. Y mae yno filoedd o bobl o wledydd eraill yn cael noddfa ar hyn o bryd. Yno ca'r Iddewon loches*

*rhag cynddaredd Hitler; ond ar ei waethaf yr ânt yno. Nid yw rhwystro dynion i fynd allan o wlad yn beth arbennig i Rwsia. Rhwystrwyd tystion pwysig i fynd o'r wlad yma i India i roddi tystiolaeth o blaid carcharorion Meerut. Gwrthodwyd i Saclatfala, Aelod Seneddol, fynd i India, ei wlad enedigol. Gwrthodir rhyddid i W. Gallacher, Aelod Seneddol ar hyn o bryd, i fynd i wledydd eraill i gynadleddau'r gweithwyr. Paham y beir Rwsia am wneud yn hollol y pethau a wneir ymhob gwlad arall?*

*Os gall y cyfaill berswadio Rwsia i agor drysau i ymfudwyr, bydd yn bleser gennyf roddi iddo gyfeiriadau miloedd o weithwyr awyddus i fynd yno ar unwaith.*

*3. 'Hyder'. Dyna'r trydydd pen. Dyma ei eiriau: 'Hyderaf y deil 'Cymro Ifanc' a Mr. Leonard Hugh ati i ysgrifennu yn eich newyddiadur poblogaidd.' Hyderaf innau yr un peth yn hollol. Fel mater o ffaith, disgwyliaf ers tro am atebiad 'Cymro Ifanc' i gwestiynau a roddwyd iddo rai wythnosau yn ol. Wedi i ateb iddynt ddod, bydd gennyf air bach i'w ddweud wrtho. Peth go ryfedd yw i 'Hen Gymro', 'Esgob Mynwy' a 'Chymro Ifanc' adael pob cwestiwn heb ateb. Unwaith y gofynnir iddynt ddatguddio'n bendant eu safle ar faterion dan sylw, tarewir hwynt â mudandod. Cadwed 'Creuddynwr' lygad manwl ar 'Cymro Ifanc'; credaf y gwêl iddo ef 'gam-arwain' mwy ar weithwyr Cymru na mi. Wedi iddo ateb dau neu dri o'r cwestiynau a yrrwyd iddo drwy'r 'Cymro', bydd gennyf air go bwysig i'w ddweud am ei 'fethod' i gamarwain.*

## *Heddwch A Rhyfel*

*Beth oedd amcan 'Creuddynwr' wrth ysgrifennu fel y gwnaeth? Ni ŵyr neb ei safle ar helynt Sbaen na China. Ni all dewin ddweud beth yw ei farn ar heddwch a rhyfel. Polisi Ffranco a Hitler a Mwsolini a gefnogir ganddo, ynteu gweriniaeth Sbaen? A garai weld dymchwel y Sofiet a'i darostwng gan Japan a Hitler? A yw'n fodlon ar bolisi'r Llywodraeth Genedlaethol gartref ac yn y byd rhyngwladol? A gred fod erlid yr Iddewon yn beth da? A yw'n cefnogi polisi'r Ffasgiaid? Dichon, pe bai gennyf ddigon o amser, y gallwn innau hefyd guddio'n llwyr fy safiad a'm safle ar y pynciau hyn, a chael hamdden i eistedd mewn cadair freichiau, a derbyn cefnogaeth gwŷr y plasau. Y mae sefyllfa'r byd a pherygl gweithwyr yn rhy fawr ac yn rhy agos i neb fod yn amhendant. 'Dychymyg', 'Ofn', 'Hyder'; pethau go sâl mewn argyfyngau. Treied y cyfaill "Reswm" y tro nesaf. Oni fydd y newid yn rhy fawr gall y deillia lles iddo ef ac i ddarllenwyr 'Y Cymro'. Dynion yn dal syniadau niwlog fel efe sy'n peri dryswch i'r gweithwyr. Gwn yn dda, fel y dwedai Mr. George M. Ll. Davies yn ei lythyr, am y cwerylon sydd rhwng gweithwyr yr "adain aswy" a'r "adain dde". Cwerylon gwneud ydynt. Megis y bu gweithwyr yr Almaen a gweithwyr Prydain yn ymladd ei gilydd ar orchymyn penaethiaid y ddwy wlad; felly y mae gweithwyr yn ymladd heddiw oherwydd gorchymyn yr arweinwyr.*

*Y mae'r ffrynt unol yn bosibl hediw ond rhoddi arweiniad iawn i'r werin. Oni chred 'Creuddynwr' mai gwell galw gweithwyr o bob plaid a gwlad at ei gilydd, na chreu rhaniadau a drwgdybiaeth rhyngddynt? Ni phroffesaf fi fod yn "amhleidiol". Safaf bob tro dros hawliau gwerin gwlad.*

*A oes gweithiwr yng Nghymru heddiw a gred fod Stalin yn gymaint perygl i'r byd â Hitler? Ni chredir hynny hyd yn oed gan ffrindiau Hitler yn y wlad hon. Gwyddant o'r gorau fod perygl rhyfel o gyfeiriad yr Almaen. A yw rhyfel yn beth da i weithwyr y byd? Ai bendith fyddai arwain miliynau gweithwyr y ddaear i'r lladdfa unwaith eto? Ni wn beth yw amcan llythyrau fel eiddo 'Creuddynwr' os nad perswadio gweithwyr fod polisi Hitler yn well na'r eiddo Stalin. Yn Sieco-Slofacia y mae*

*pryder y gweithwyr yn fawr a'u hofnau yn wastadol; daw'r ofn o gyfeiriad Hitler. Yn Llundain paratoir "mygydau nwy" wrth y miliynau, a threfnir celloedd tanddaearol i rywrai guddio rhag y nwy a'r tân-belenni. Oni ŵyr pawb drwy'r wlad mai ofn Hitler sydd wrth wraidd y darparu hyn? Ni awgrymodd yr un Tori yn y Senedd fod galw am y darpariadau hyn oherwydd bygythion Stalin. A all 'dychymyg' 'Creuddynwr' ei berswadio am Rwsia yn danfon byddinoedd i ddinistrio Llundain? Gŵyr yn dda nad oes berygl o gwbl. Gŵyr hefyd fod perygl o gyfeiriad Hitler. I ba beth y cymer ei ysgrifbin i daflu llwch meddyliol i lygaid y wlad, a pherswadio gweithwyr fod credu mewn gweriniaeth yn beth drwg? Oni thwyllir hwynt, arweinir gweithwyr yn eu greddf i bleidio tangnefeddwyr y byd yn erbyn rhyfelwyr. Undeb gwerinoedd y ddaear yn erbyn rhyfelwyr yw'r angen pennaf ar hyn o bryd.*

Wrth ateb Creuddynwr uchod dywed T. E. Nicholas fod 'priodoli i mi osod Rwsia allan fel Paradwys Ddaearol yn gam-osodiad' ac ychwanega mai 'dangos fod y wlad yn nwylo'r gweithwyr i wneud a fynnont â hi yw fy mhrif amcan'. Fodd bynnag, i'r darllenydd niwtral mae darlun Nicholas o Rwsia i'w weld yn un hynod o ffafriol - yn afreal felly - a phrin y ceir unrhyw frawddeg ganddo, os o gwbl, sy'n beirniadu Rwsia mewn unrhyw fodd; wele ysgrif ganmoliaethus arall o'r Cymro 26 Tachwedd 1938, un mlynedd ar hugain ar ôl y Chwyldro yn Rwsia:

*DATHLU BUDDUGOLIAETHAU'R SOFIET*
*Trefnu Ar Gyfer Y Dyfodol*

*DATHLWYD dyfodiad y Sofiet i'w oed yng nghanol gorfoledd cyffredinol drwy holl derfynau Rwsia. Hyd y Dwyrain pell casglodd y gweithwyr at ei gilydd, nid i hawlio gwelliannau, eithr i ddathlu buddugoliaethau'r gorffennol, ac i drefnu ar gyfer dyfodol gwell.*

*Symia Pat Sloan waith y gorffennol i fyny yn ei lyfr. Cam mawr oedd difodi'r diwaith. Drwy drefniant gwyddonol o holl fywyd economaidd y wlad rhoddwyd i bob dyn a dynes waith. Dyna un o broblemau mawr gwledydd cyfalaf y byd. Er ceisio methwyd hyd yma â datrys pwnc y diwaith. Ni ellir gwneud hynny o dan ein cyfundrefn ni; rhaid i gyfalaf gadw nifer fawr o weithwyr ar y farchnad. Ceidw hyn gyflogau gweithwyr i lawr.*

*Amcan ein cyfundrefn yw sicrhau elw i'r ychydig, nid sicrhau cysur i bawb. Tra deil pethau felly, ofer disgwyl datrys pwnc y diwaith. Llwyddodd gweithwyr Rwsia a gallant wir lawenhau oherwydd hynny. Sicrheir i bob dyn a dynes drwy'r wlad o leiaf bythefnos o wyliau, a thâl llawn amdano. Tynnwyd y dydd gwaith i lawr i saith awr; dyna'r hwyaf; mewn rhai galwedigaethau annymunol a pheryglus, y mae'n chwech a phump awr. Tynnwyd yr wythnos waith i lawr o chwe niwrnod i bum niwrnod. Y mae i'r gweithwyr felly ddydd o orffwys bob chwe niwrnod yn lle bob saith fel yn y gwledydd cyfalaf. Y mae hyn yn golygu gwell iechyd i'r gweithwyr, a chyfle iddynt i'w mwynhau eu hunain.*

*Sicrhawyd i ferch yr un hawliau â'r bachgen. Telir yr un faint o gyflog iddi am yr un gwaith; estynnir iddi yr un cyfle i'w diwyllio ei hun yn feddyliol, ac y mae holl oruchwylion a swyddi'r wlad yn agored*

*iddi. Ni cheir hyn mewn un wlad arall. Safle is-raddol sydd i'r ferch yn yr holl wledydd cyfalaf. Telir iddi lai o gyflog, er gwneud yr un gwaith, â bachgen. Defnyddir y ferch i gadw cyflogau'r bechgyn yn isel. Nid rhyfedd i ferched Rwsia gael hwyl anghyffredin wrth ddathlu dyfodiad y Sofiet i'w oed.*

*Cenhedloedd Yn Gydradd*

*Estynwyd cydraddoldeb rhwng bachgen a merch, - a rhwng cenedl a chenedl. Y gyfundrefn sy'n darostwng y ferch a ddarostwng hefyd genhedloedd bychain. O gael gweriniaeth lwyr, daeth rhyddid i bob cenedl fach yn Rwsia. Ni chyfrif lliw ac iaith yno o gwbl. Bu fel arall. Bu'r un gorthrwm ar yr Iddewon yno ag sydd yn yr Almaen heddiw. Stori waedlyd yw stori erlid yr Iddewon a'r Armeniaid. Bu Rwsia yn hir cyn datrys rhai problemau pwysig, ond un o ddatganiadau cyntaf Lenin oedd perffaith gydraddoldeb rhwng pob cenedl. Darfu erlid y genedl wan y dydd y daeth Lenin yn ben yno. Gellir dirnad llawenydd yr Iddewon sy'n byw yn Rwsia o gofio'r waredigaeth a ddaeth iddynt drwy'r Chwyldro. Yn Rwsia y mae Cymdeithas o Genhedloedd; rhai yn fawr, eraill yn fach. Nid oes i'r genedl fawr hawl na gallu i ysbeilio na gorthrymu cenedl fach.*

*Siaredir cant a hanner o ieithoedd yno; ac y mae nifer y cenhedloedd yn gant a phedwar ugain. Iaith y genedl yw'r iaith swyddogol mewn ysgol a llys a phrifysgol. Cyhoeddir llyfrau wrth y miliynau yn yr holl ieithoedd hyn. Gall cynrychiolwyr y cenhedloedd bychain yn y Brif-Sofiet ym Moscow, siarad yn eu hiaith eu hunain; a chyfieithir eu hareithiau i wahanol ieithoedd. Beth a ddigwyddai yn Senedd Prydain pe codai dyn i siarad Cymraeg? Chwerthin mawr wrth gwrs, a galw'r siaradwr i drefn ar unwaith.*

*Nid oes gan un genedl gwyn nad ellir ei wella. Gwlad fawr, a'r holl genhedloedd yn ffurfio brawdoliaeth o genhedloedd yw Rwsia. Da fydd i ni fel aelodau o genedl fechan, gofio bod diogelwch y cenhedloedd bychain hyn yn eu hundeb â'i gilydd ac â Rwsia. Pe dymunai un ohonynt dorri i ffwrdd oddi wrth y fam-wlad, dyna hi ar unwaith at drugaredd cenhedloedd eraill y byd. Megis y mae diogelwch New Zealand ac Awstralia, rhag ymosod o gyfeiriad Japan, yn eu perthynas â'r Ymerodraeth Brydeinig, felly y mae perthynas pob gwlad fach â Rwsia ac â gwledydd bychain eraill, yn sicrhau diogelwch. Diffyg undeb rhwng cenhedloedd gwerinol sydd yn cyfrif i gynifer ohonynt golli eu rhyddid. Gellid arbed Sieco-Slofacia heb daro ergyd drwy undeb.*

*Gwers O Poland*

*Dydd blin i Poland oedd cefnu ar Rwsia yn 1918; cefnodd, nid am i weithwyr Poland ewyllysio hynny, eithr am i fyddinoedd Ffrainc a Phrydain gefnogi gelynion y gweithwyr, a thorri i ffwrdd. O gymharu safon byw gweithwyr y ddwy wlad, gwelir nad oedd gan weithwyr Poland ddim i'w ddathlu ar ben un mlynedd ar hugain o "annibyniaeth". Tlodi, diweithdra, carcharau llawn, dwrn dur y llywodraethwyr ar yr Iddewon, a chyfartaledd mawr o'r plant heb unrhyw fath ar addysg gwerth sôn amdano. Heblaw hynny, y mae Poland yn agored i gael ei darostwng gan Hitler. Pe bai Poland wedi aros ochr yn ochr â Rwsia yn 1918, byddai safon bywyd yn uwch, a chyflwr gweithwyr yn fwy hapus, a pherygl ymosod Hitler wedi ei symud. Beth yw'r wers i ni? Fod ein diogelwch mewn undeb a chydweithrediad â gwledydd bychain i weithio allan eu hiachawdwriaeth. Ysgwn i a oes genedlaetholwr mewn unrhyw wlad heddiw yn llawenhau am gyplysu'r Seudan â'r Almaen? Prin y credaf hynny. Bydd cyflwr y gweithwyr gryn dipyn yn is nag ydoedd, a rhyddid y wlad yn*

*llai.*

*Methaf â dirnad sut y gall un dyn sy'n caru ei gyd-ddyn ewyllysio trosglwyddo brodorion y trefedigaethau i Hitler; ni fu yn hanes y byd y fath erlid ag sydd yn yr Almaen heddiw. O gymharu'r hyn a ddigwydd yno â thriniaeth cenhedloedd bychain Rwsia, onid llawenydd i bob Cymro yw cofio ei bod yn bosibl sefydlu cyfundrefn a rydd i Gymru ryddid gwladol ac economaidd?*

## *Trefn Addysg Foddhaol*

*Crybwyll Pat Sloan un peth pwysig yn ei lyfr. Bu'n athro yng Ngholeg y Brifysgol Bangor am beth amser; bu'n paratoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau. Ei brofiad oedd hyn: bechgyn hollol Gymreig wedi arfer siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg wrth eistedd arholiad mewn iaith estron, yn methu gwneud cyfiawnder gyda'u papurau oherwydd anhawster yr iaith. Methai bachgen â'i wybodaeth yn helaeth am ei bwnc, ei fynegi ei hun yn Saesneg. Bu Pat Sloan yn athro yn Rwsia, a bu'n arolygu arholiadau yno. Gallai pob myfyriwr ysgrifennu ei bapur yn yr iaith hawddaf iddo ef ei fynegi ei hun ynddi. Gwelodd Pat Sloan y fantais ar unwaith, a rhydd air caredig am y drefn yno. Wedi gweld ffordd Rwsia dywed i'w gydymdeimlad â'r Cymro mewn arholiad ddyfnhau yn fawr. Ei ddadl ef yw y dylid gwneud iaith y myfyriwr yn sylfaen i'w haddysg, a dysgu Saesneg wrth gwrs er mwyn galluogi'r Cymro fwynhau llenyddiaeth a theithio yn ddilyffethair. Dylai iaith estron fod yn ail iaith mewn addysg. Dyna ydyw yn Rwsia; ni ellir cael hynny ond mewn gwlad â gweithwyr yn ben. Nid rhyfedd i gant a phedwar ugain o genhedloedd, bob un yn eu hiaith, droi allan i ddathlu cyfundrefn a roddodd iddynt ryddid cenedlaethol a rhyddid economaidd ugain mlynedd yn ôl.*

*Y mae natur yr addysg a chylch yr addysg yn wahanol wedi'r Chwyldro. Yn 1913 rhyw saith miliwn o blant oedd yn yr ysgolion. Nid oedd yr ysgolion fawr o beth. Yr oedd y rhan fwyaf o addysg y wlad yn nwylo'r offeiriaid. Dysgu'r plant i ddarllen dipyn bach ac i ysgrifennu eu henwau, dyna oedd ystyr addysg i'r gweithwyr. Yna troi allan i'r byd i weithio yn ifanc. Erbyn heddiw y mae deuddeng miliwn ar hugain o blant yn ysgolion y wlad; a chyfrennir iddynt addysg ar y llinellau mwyaf modern. Nid oes yno ddigon o ysgolion, na digon o athrawon eto, ond gweithiant ddydd a nos i wneud y diffyg i fyny. Tynnwyd addysg y plant o ddwylo'r offeiriaid; yr oedd hynny ynddo'i hun yn gam pwysig. Diwylliant meddyliol i bawb yw nod y Sofiet. Rhyw gan mil oedd myfyrwyr y prifysgolion cyn y Chwyldro; heddiw y mae pum can mil yn derbyn addysg uwchradd. Telir cyflogau i'r myfyrwyr, fechgyn a merched, wrth ddilyn eu cwrs. Troir llyfrau allan ar raddfa eang. Cyn y Chwyldro rhyw dri ugain miliwn o lyfrau oedd cynnyrch y wasg; heddiw troir allan chwe chan miliwn o lyfrau bob blwyddyn, mewn gwahanol ieithoedd. Ni allwn ddirnad gwanc y gweithwyr am lyfrau. Y mae gan genhedloedd bach, llawer llai na Chymru, bapurau dyddiol yn eu hiaith, a'u cylchrediad yn fawr.*

## *Chwennych Diwylliant*

*Dysgir gweithwyr i chwennych diwylliant meddyliol. Yn 1917 nifer aelodau'r Undebau Llafur oedd dwy filiwn, heddiw y mae'r Undebwyr yn dair miliwn ar hugain. Yno nid oes feistri na pherchnogion; gwaith yr Undebau Llafur yw trefnu bywyd y gweithwyr, sef edrych ar ôl tai, ac addysg, a gwyliau, ac ysbytai, a threfnu amodau cysurus i waith dyddiol dynion. Teg yw nodi wrth fynd heibio i benaethiaid Undebau Llafur Prydain gadw Undebau Rwsia allan o'r Gymdeithas Ryngwladol o Undebau Llafur, - rhannu gweithwyr, a chadw allan yr unig wlad sydd wedi sefydlu Sosialaeth. Daw'r dynion hyn atom yn yr etholiad nesaf i ofyn*

*am bleidleisiau Sosialwyr, wedi gwrthod cydweithio â'r unig wlad sydd yn gyfangwbl ym meddiant a than lywodraeth y gweithwyr. Da fydd cadw llygad craff ar bolisi arweinwyr Llafur yn ein gwlad ein hunain. Yn nyddiau'r dathlu mawr, bu diwylliant meddyliol y gweithwyr yn destun llawenydd ac ymffrost.*

*O droi at bethau materol bywyd, gwelir nad yw'r Sofiet ar ôl yn y pethau sydd yn bwysig i gysur gweithwyr, megis bwyd, dillad, tai, ac iechyd. Ers dros ddeuddeng mlynedd cododd cyflogau a safon byw, a daeth costau byw yn is bob blwyddyn. Ni all un wlad arall yn y byd ymffrostio yn y peth hwn ond Rwsia. Rhaid cofio na fu Rwsia yn rhydd o berygl rhyfel am ddim amser yn ystod yr un mlynedd ar hugain. Bu bygwth Japan yn gyson, a bu bygwth Ffrainc a Phrydain hefyd. Cefnogwyd pob mudiad gwrth-werinol o'r tu mewn i'r wlad gan y gwledydd hyn. Bu'n rhydd o fygwth rhyfel o gyfeiriad yr Almaen am rai blynyddoedd. Yr oedd yr Almaen ar lyfrau du Prydain yr adeg honno; ac ni orffwysodd nes gorseddu yn yr Almaen ddynion gelyniaethus i Rwsia. Heddiw y mae'r perygl gymaint ag erioed. Ni ellir atal y perygl ond drwy i werinoedd y gwledydd ddod at ei gilydd a deall ei gilydd. Er hyn i gyd aeth cyflogau i fyny, a daeth costau byw i lawr yn gyson. Ymhob gwlad arall y mae gwario ar arfau yn tlodi gweithwyr; "Gynnau neu fenyn" ydyw arwyddair yr Almaen. Gwir yw hynny am Brydain hefyd. Yn Rwsia rhoddir i'r gweithwyr "Fenyn a Gynnau". Wrth gwrs, byddai cynnydd y wlad yn llawer cyflymach ac yn llawer mwy oni bai am y rheidrwydd i baratoi rhag ymosodwyr.*

*Wrth farnu safon bywyd yno rhaid cofio llawer o bethau. Hawdd dangos pethau na wnaethpwyd yn Rwsia hyd eto. Gŵyr gweithwyr y wlad yn well na neb faint o bethau sydd heb eu gwneuthur. Ni ellir esbonio Rwsia drwy ddweud bod y peth a'r peth yn brin neu heb ei gyflawni yno. Dangos y pethau sydd wedi eu cyflawni yno yw ein gwaith ni fel gwerinwyr. Nid oes gan un wlad yn y byd gynifer o bethau i ymffrostio ynddynt. Ni chyflawnwyd gan un wlad arall gynifer o bethau mawr mewn cyn lleied o amser.*

*Nid peth bach oedd trefnu addysg i wlad mor fawr; codi ysgolion, paratoi athrawon, codi prifysgolion i gwrdd â'r cynnydd mewn myfyrwyr, a dysgu hen bobl i ddarllen ac ysgrifennu. Nid oes diwedd ar wario ar addysg yno. Beth bynnag yw gofynion y fyddin a'r llynges a'r awyrlu, nid oes brinder gwario ar addysg. O flwyddyn i flwyddyn gwerir symiau mwy; ac allan o'r gwario a'r dysgu a'r darllen, cyfyd cenedl newydd yn Rwsia, hollol wahanol i'r hyn ydoedd un flynedd ar hugain yn ôl; a hollol wahanol i unrhyw genedl arall yn yr holl fyd. Nid addysg i greu nifer fach o "arbenigwyr" sydd yno, eithr addysg i godi safon diwylliant pob dyn a dynes drwy'r wlad. Amcan addysg i Rwsia yw nid cymhwyso dyn i lanw swydd ac ennill cyflog, ond gwneud dyn yn ddyn gwell, a'i alluogi i fwynhau pethau mawr celfyddyd a llên a cherdd. Wedi disgyblu meddyliau myfyrwyr ag addysg, trefnir iddynt gylch ar unwaith i wneud defnydd o'u haddysg, a'i gyfrannu i eraill. Nid oes o fewn terfynau Rwsia blentyn yn rhy dlawd i gael yr addysg orau yn y wlad; na chylch o wasanaeth nad yw o fewn cyrraedd holl fechgyn a merched y wlad. Ni chyfrif lliw na gwaed ddim yno; rhoddir gwerth ar ddyn, a phenderfynir ei safle yn y wlad, gan ei wasanaeth i'w gyd-ddynion.*

Os yw'r uchod yn enghraifft o ganmol a moli diddiwedd, mae'r dyfyniad isod yn enghraifft o ba mor feirniadol a di-flewyn-ar-dafod y gallai Nicholas fod; unwaith eto, Chamberlain yw'r gwrthrych a feirniedir, a hynny'n gwbl ddidrugaredd, a rhwng dwy

ysgrif gwelir bod yr awdur wedi mynd o un eithaf i'r llall. Mewn gwirionedd, mae'r ysgrif hon o rifyn 25 Chwefror 1939 yn ymylu ar fod yn enllibus gan mor feirniadol ydyw o Chamberlain, ac aiff Nicholas mor bell â'i gyhuddo nid yn unig o dwyll a chynllunio rhyfel, ond hefyd o fod 'y dyn sy'n fwyaf o berygl i'r byd yn awr':

*RHAID SYMUD CHAMBERLAIN A'I GRIW*
*Eisiau Ffrynt Unol Ar Unwaith*

*DAETH yn amser i bob un ohonom ystyried y ffordd orau i amddiffyn ein gwlad. Y mae'r perygl wedi dod yn agos atom, a daw gam yn nes bob dydd. Nid oes gennym un gobaith wrth edrych ymlaen, dim ond ofni'r gwaethaf o hyd.*

*Ni ddaeth tawelwch meddwl i'r byd o addewidion Chamberlain am heddwch i wlad. Deil afael ar y Llywodraeth am fod nifer o ddynion yn ei bleidio ar bynciau bach. Golygfa go ddigalon yw gwaith heddychwyr yn ei bleidio. Pleidiant ef am iddo drwy gytundeb Munich, medde nhw, osgoi rhyfel. Pan gofir nad oedd perygl rhyfel ar y pryd, a bod y bradychu wedi cymryd lle ers tro, gwelir mor ddisail yw'r ddadl hon. Rhaid oedd iddo estyn lledrith heddwch i'r byd er mwyn sicrhau cefnogaeth y dynion hyn, a chael llaw rydd i gario allan gynllwynion eraill sydd yn berygl i'r holl fyd. Ni ellir rhannu Chamberlain, a dweud fod gweithred yma ac acw yn dda. Y mae i'w bolisi undod ac amcan pendant.*

*Polisi Camarweiniol*

*Rhan o'r polisi oedd celwydd Munich. Drwy'r celwydd hwnnw enillodd gefnogaeth dynion sydd yn ewyllysio heddwch yn fwy na dim. Rhan o'r un polisi oedd addo tiroedd na pherthyn iddo i Mussolini a Hitler; rhan o'r polisi yw dinistr Sbaen, rhan o'r polisi yw cydnabod Ffranco fel llywodraethwr Sbaen, rhan o'r polisi yw'r gwasanaeth cenedlaethol.*

*I bob pwrpas y mae Ffranco wedi ei gydnabod. Cydnabyddwyd ef y dydd cyntaf o'r rhyfel gan Brydain. Y mae De Valera wedi ei gydnabod eisoes yn agored. Gŵyr y gŵr hwnnw yn dda am orthrwm cenedl estron yn ei wlad ac ar ei genedl; eto, y mae'n cydnabod Ffranco, ac yn pleidio ymyriad Hitler a Mussolini yn Sbaen. Dyna beth yw polisi annibyniaeth wleidyddol o dan y gyfundrefn ysbail; a gwelir yn y cwbl ddylanwad distaw'r Babaeth, a fu er y cychwyn yn bleidiol i Ffranco.*

*Y mae Chamberlain yntau yn paratoi meddwl y wlad i gydnabod Ffranco. Fel arfer, y mae perygl iddo lwyddo yn ei amcan. Fel arfer, daw ei lwyddiant drwy dwyll. Gesyd argraff ar feddwl y wlad hon, ond cydnabod Ffranco, y bydd i Mussolini a Hitler glirio allan o Sbaen. A oes un dyn yn y wlad yn ddigon diniwed i gredu hyn? A yw Chamberlain yn credu hyn? Nid oes gennyf syniadau uchel iawn am ei alluoedd meddyliol, ond os yw'n credu y bydd i Hitler a Mussolini fynd allan o Sbaen wedi ymladd yno am ddwy flynedd a hanner, rhaid i mi gredu ei fod yn ddiniwed iawn. Nid oes bwriad gan yr un ohonynt i fynd oddi yno. Mwy na hynny, gŵyr Chamberlain yn dda nad oes bwriad ganddynt i fynd allan o'r wlad. Ond y mae'n rhaid rhoddi argraff ar y wlad mai dyna fydd canlyniad cydnabod Ffranco. Ochr dorcalonnus yr holl drafodaeth yw llwyddiant eithriadol y Prifweinidog i dwyllo'r wlad dro ar ôl tro, a chael i'w gefnogi ddynion sydd â'u bryd ar heddwch. Ni all Chamberlain wneud heddwch, dyna'r peth cyntaf i weithwyr ei gofio. Mwy na hynny, ni*

*all Chamberlain wneud rhyfel chwaith. Erbyn hyn gwyddom yn sicr fod y trefniadau milwrol yn anniben dros ben a dweud y lleiaf. Nid oedd fawr o ynnau yn Gibraltar; rhyw bedwar i gwrdd ag ymosodiad o'r awyr. Beth sydd yn digwydd i'r holl arian a werir ar arfau? A yw'r dynion sydd yn edrych ar ôl peiriant milwrol y wlad yn gwneud eu gwaith yn foddhaol? A oes i ni i'n hamddiffyn arfau rywbeth yn ateb i'r arian a wariwyd ar arfau? Ofnaf nad oes, am fod y bobl hyn yn hollol ddiallu i wario'r arian i'r fantais orau.*

*Chwyddo enillion cwmnïau arian yw'r peth pennaf yn eu golwg ac nid creu amddiffyniad i wlad. Beth o'r gynnau a ddylai fod yn Gibraltar? Credaf y gallai Ffranco ateb y cwestiynau yn weddol hawdd. Beth bynnag, erys y ffaith fawr nad oedd cyfryngau amddiffyn wrth law yn yr "argyfwng" dychmygol ym mis Medi.*

## *Pleidio'r Ymosodwyr*

*Bu caredigion heddwch yn y wlad hon yn gofyn am i ddylanwad Prydain achub Sieco-Slofacia, Abysinia, China a Sbaen. Ym mhob un o'r amgylchiadau hyn aeth dylanwad ein gwlad o blaid yr ymosodwyr. Bellach y mae'r gwledydd hyn wedi eu haberthu'n llwyr; ein pwnc bellach yw amddiffyn ein gwlad rhag pethau tebyg. Daeth i hynny erbyn hyn; y mae Prydain Fawr mewn perygl, ac mewn perygl mawr ac agos. Nid yw ein gallu i'n hamddiffyn ein hunain hanner cymaint ag ydoedd flwyddyn yn ôl. Tynnodd Chamberlain dan sylfeini diogelwch Prydain. Trosglwyddodd wledydd cyfain a nwyddau crai, a sefyllfaoedd milwrol manteisiol, drosodd i'n gelynion. Saif Prydain heddiw heb ffrindiau.*

*Daeth yr adeg i bob un holi beth a ellir ei wneud ar hyn o bryd i achub Prydain rhag mynd drwy'r un helynt â Sbaen? Y peth cyntaf yw hyn, clirio Chamberlain allan o awdurdod a rhoddi terfyn ar ei bolisi peryglus. Ni ellir gwneud hynny ar linellau'r hen bleidiau politicaidd. Erbyn heddiw y mae gallu'r wasg a'r diwifr at wasanaeth y llywodraeth genedlaethol; y mae hefyd yn y pleidiau gwerinol ddynion sy'n anffyddlon i'w plaid ac yn cydweithio â pholisi rhyfelgar ein llywodraethwyr; ac y mae dylanwad heddychwyr ar hyn o bryd yn cadarnhau Chamberlain yn ei holl waith. Dyna rannu effeithiol iawn ar alluoedd a allai symud y llywodraeth genedlaethol. Rhennir dynion heddiw ar linellau plaid yn fwy nag ar egwyddorion. Felly, ein gwaith cyntaf fydd casglu pob dyn, o bob plaid, at ei gilydd mewn ffrynt unol, i ddymchwel polisi Chamberlain. Dyna'r cam cyntaf ac ni ellir dwyn hynny i ben heb undeb. Pan wêl gweithwyr mai Chamberlain a'i bolisi yw'r dyn mwyaf peryglus yn y byd heddiw, a dod at ei gilydd o bob plaid, gellir ei symud. Heb gefnogaeth Chamberlain y mae Hitler a Mussolini a Ffranco yn hollol ddiallu. Arian Prydain fu'n ailarfogi yr Almaen. Llongau Prydain sy'n cario nwyddau crai i Japan; olew a glo Prydain fu'n tywallt tân ar Abysinia. Mewn gair, y mae polisi'r wlad hon wedi cynorthwyo ymosodwyr y byd yn eu gwaith. Ac wedi gwneud hynny yn enw heddwch, a thrwy hynny wedi sicrhau cefnogaeth heddychwyr. Pa bryd y gwêl gweithwyr fod siarad yn enw heddwch yn rhan o'r polisi? Y cam cyntaf i weithwyr y wlad hon yw symud o awdurdod y dyn sy'n fwyaf o berygl i'r byd yn awr.*

## *Diogelu Gweriniaeth*

*Yr ail gam yw dwyn gweithwyr a llywodraethwyr pob gwlad heddychol at ei gilydd, a ffurfio cymdeithas o genhedloedd â'u bryd ar ddiogelu gweriniaeth a heddwch. Y mae hyn yn bosibl eto, ar yr unfed awr ar ddeg. Ond rhaid i weithwyr wneud hynny eu hunain; ofer disgwyl i Chamberlain wneud hynny. Daw'r alwad fawr o America bron bob dydd. Dangosir yno awydd i achub gweriniaeth Ewrob.*

*Yn 1918 daeth America i'r adwy. Pan oedd byddinoedd Ffrainc a Phrydain â'u cefnau ar y mur, a swyddogion milwrol y ddwy wlad yn hollol anghymwys i gario rhyfel ymlaen yn llwyddiannus, daeth America i'r adwy, a chafwyd rhyw fath o fuddugoliaeth filwrol drwy dwyll. Twyllwyd yr Almaen nad oedd ei gelynion yn chwennych troedfedd o'i thir; dywedwyd yn bendant na fyddai un math o ddial yn dilyn y rhyfel. Rhoddodd byddin yr Almaen ei harfau i lawr, a phwyso ar yr addewid o heddwch ar "bedwar pwynt ar ddeg Wilson." Wedi rhoddi ei harfau i lawr, ni chadwyd yr un addewid, ac aeth pwyntiau Wilson i'r gwynt. Ond am y tro achubwyd Prydain a Ffrainc. Cadwodd America allan o helyntion Ewrob yn hir, a gwrthod cymryd rhan yng Nghymdeithas y Cenhedloedd. Erbyn hyn sylweddola hithau'r perygl, a denfyn neges allan yn gyson ei bod yn fodlon cymryd rhan yn amddiffyn y gweddill o weriniaeth yn Ewrob. A yw Prydain yn croesawu ei chynhorthwy? Dim o'r fath beth. Troi clust fyddar i bob apêl a wneir gan ein llywodraeth.*

*<u>Gwrthod Cydweithio</u>*

*Ar yr ochr arall i'r byd y mae gallu mawr arall, Rwsia. Dro ar ôl tro gwnaeth y wlad honno yn hysbys i'r byd ei pharodrwydd i gyd-weithio dros heddwch a gweriniaeth. Heddiw Rwsia yw'r gallu milwrol mwyaf yn y byd. Y mae ei llongau tan-forawl a'i hawyrlu a'i thanciau a'i byddin y peiriant milwrol cryfaf yn y byd. A yw Prydain yn chwennych cyd-weithio â hi? Gwrthyd Chamberlain ei fachu ei hun wrth y ddwy wlad gryfaf yn y byd. Pam? Am y rheswm syml fod y dynion sy'n llywodraethu Chamberlain yn elynion marwol i weriniaeth. Felly daw'n ddyletswydd ar weithwyr y wlad i gymryd pethau mewn llaw. Y mae cynllunio mawr ar waith, a pharatoi gan Hitler a Mussolini i daro eto a tharo ar unwaith. A gellir dweud fod Chamberlain yn gwneud popeth i hwyluso'r taro nesaf. Gartref ym Mhrydain, y mae pethau yn mynd yn waeth bob dydd. Byddin y diwaith yn chwyddo er yr holl weithio ar arfau. Daw hynny i ben rhywdro, rhyfel neu beidio. Teflir tyrau allan o waith. Collir ein marchnadoedd pwysicaf drwy'r byd i'r gwledydd Ffasgaidd. Gwesgir y dosbarth gweithiol yn is i dlodi, a chedwir hwynt mewn ofn rhyfel yn barhaus.*

*Felly, rhaid mynd ati i amddiffyn y wlad; yr amddiffyniad gorau ar hyn o bryd fydd symud Chamberlain a'i griw, a'n bachu ein hunain wrth wledydd heddychol y byd. Y mae llaw Rwsia a llaw America allan yn cynnig cynhorthwy i weithwyr Prydain a gweithwyr Ewrob; a ninnau'n cymryd ein twyllo mai Chamberlain yw ffrind heddwch. Ffrynt unol ar un waith yw'r angen pennaf, a defnyddio'r ffrynt unol i ysgubo allan o awdurdod ddynion sydd â'u bryd ar werthu gweriniaeth a heddwch.*

Yn rhifyn 2 Medi 1939 o'r <u>Cymro</u>, ychydig ddyddiau cyn toriad yr Ail Ryfel Byd, ymddangosodd nodyn diddorol ac arwyddocaol gan y Golygydd yn egluro'i resymau dros dynnu ysgrif Nicholas yn ôl yr wythnos honno. Dywed y Golygydd na chytunai ag ef bod Rwsia wedi 'taro'r ergyd gryfaf dros heddwch a drawyd ers chwarter canrif' ac na allai gyhoeddi ysgrif a oedd â rhannau ohoni 'heb fod yn rhan o....ddadl gyffredinol' Nicholas. Mae'r paragraff olaf yn ddadlennol tu hwnt:

*<u>TYNNU YSGRIF YN ÔL</u>*
*<u>Eglurhad Gol. 'Y Cymro'</u>*

*OHERWYDD y bu raid inni dynnu allan rannau arbennig o ysgrif Mr. T. E. Nicholas, yr wythnos hon, oedd, yn ein barn ni, heb fod yn rhan o'i ddadl gyffredinol, anfonasom broflen ohoni i Mr. Nicholas a phenderfynodd yntau dynnu'r ysgrif yn ôl.*

*Rhoddwn y datganiad a ganlyn o eiddo Mr. Nicholas:*

*'Blin gennyf siomi'r cyfeillion a yrrodd ataf yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn gofyn i mi drafod Cyfamod Rwsia â'r Almaen. Addewais wneud hynny yn 'Y Cymro' yr wythnos hon. Teimla'r 'Cymro' na allant gyhoeddi fy ysgrif. Bydd yn bleser gennyf anfon yn gyfrinachol at fy ngohebwyr sy'n chwennych manylion. Credaf i Rwsia daro'r ergyd gryfaf dros heddwch a drawyd ers chwarter canrif. Rhoddais fy rhesymau dros gredu hynny yn yr ysgrif, a dangos dyletswydd caredigion heddwch y byd.'*

*Gobeithiwn yn fawr fod Mr. Nicholas yn iawn yn ei gred fod Rwsia drwy wneuthur cytundeb â'r Almaen wedi 'trawo'r ergyd drymaf dros heddwch a drawyd ers chwarter canrif.'*

*Y mae darlleniad cywir o'r cytundeb hwn wedi peri penbleth i'r cenhedloedd ond cyn belled ag y mae a wnelo â'r Almaen y mae'n amlwg, ac addefir yn swyddogol ei bod yn angenrheidiol cadw Rwsia allan o'r Ffrynt Heddwch a orfododd y cytundeb. Pa un a lwyddodd yn ei hamcan neu os yw'r crynhoi milwyr gan Rwsia yn debyg o gael ei ddeall yn ffafriol neu'n anffafriol i Bwyl y mae'n amhosibl dweud. Y cwbl a allwn ni ei ddweud yw fod gan Rwsia allu i roi atalfa ar yr Almaen yn ei bwriad i ymosod ar ffiniau gwlad fach. Amser a ddengys pa un a yw'r hyn a wnaeth yn erbyn gor-awydd yr Almaen neu'n foddion i sicrhau Heddwch Byd. Os yr olaf fe ymddengys gallu Rwsia mewn golau newydd.*

*Prif amcan diplomatiaeth yr Almaen y mae'n eglur oedd ffurfio cytundeb a fyddai'n offeryn effeithiol yn y rhyfel nerfau y mae hi mor fedrus yn ei chreu yn erbyn y gweriniaethau. Methodd hyn fel y dangosodd llywodraethau Ffrainc a Phrydain yn glir eu penderfyniad i sefyll wrth eu hymrwymiadau i Bwyl.*

*Teimlwn yn sicr mai Mr. Nicholas a fydd y cyntaf i gydnabod ein bod wedi rhoddi iddo'n ddiofn ryddid i ddatgan ei olygiadau am ffurf o lywodraeth na chredwn ni ddim ynddi ac yn awr gan fod argyfwng ar ein gwlad ystyriwn na fyddem yn gwneud ein dyletswydd drwy estyn iddo'r un cyfleusterau pan fo undeb yn hanfodol.*

Mewn geiriau plaen felly fe gafodd Nicholas y sac, a hynny oherwydd bod <u>Y Cymro</u> o'r farn bod undeb barn bellach yn hanfodol mewn gwlad a oedd ar fin mynd i ryfela yn erbyn Hitler. Cofier bod y papur bellach yn hollol gefnogol i Brydain weithredu'n filwrol yn erbyn yr Almaen ac yr oedd y Golygydd yn amlwg yn credu bod sylwadau Nicholas yn rhy beryglus i'w cyhoeddi ar adeg o 'argyfwng ar ein gwlad'.

Diddorol iawn yw sylwi ar y modd y pwysleisia'r Golygydd na chytunai staff <u>Y Cymro</u> â syniadau Nicholas am ei ffurf o lywodraeth ond eu bod wedi 'rhoddi iddo'n ddiofn ryddid i ddatgan ei olygiadau' ynglŷn â'r ffurf honno; dyma ddangos felly bod y papur yn gweithredu ei bolisi o 'rhydd i bawb ei farn' cyn toriad y rhyfel ond ei fod yn amlwg yn credu na ellid ei weithredu wedi

hynny.

Rhwng misoedd Tachwedd 1939 a Ionawr 1940 ymddangosodd cyfres o lythyrau agored rhwng T. E. Nicholas a Golygydd Y Cymro yn mynegi'r gwahaniaethau barn sylfaenol rhyngddynt; rhoddir sylw manwl i'r llythyrau hyn ym mhennod y Tudalennau Blaen.

Ym mis Gorffennaf 1940 carcharwyd T. E. Nicholas a'i fab Islwyn ar gyhuddiadau ffug, am eu bod yn Gomiwnyddion ac felly ym marn y wlad yn beryglus i'r ymdrech ryfel. Fe'u rhyddhawyd wedi tri mis wedi iddynt dreulio cyfnodau yng ngharchardai Abertawe a Brixton, a hynny wedi ymgyrch rymus ar eu rhan gan y mudiad Llafur. Dyma sut y torrwyd y newydd am eu carchariad i ddarllenwyr Y Cymro mewn is-adroddiad ar flaen rhifyn 20 Gorffennaf 1940:

T. E. Nicholas A'i Fab Yn Y Ddalfa

*CYMERWYD y Parch. T. E. Nicholas, Aberystwyth, a'i fab, T. Islwyn Nicholas (36), i'r ddalfa ddiwedd yr wythnos ddiwethaf dan y Deddfau Amddiffyn. Ymwelwyd â'u cartref yn Elm Tree Avenue, Aberystwyth, gan heddgeidwaid yn gweithredu drwy orchymyn Prif Gwnstabl Ceredigion, Cadben J. J. Lloyd Williams, a chymerwyd meddiant o bapurau ar ôl archwiliad manwl o'r tŷ.*

*Y mae Mr. Nicholas yn adnabyddus fel ysgrifennydd ar gwestiynau Sosialaidd, a hefyd fel bardd. Cyn gadael y weinidogaeth bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Glais ac yn Llangybi. Symudodd i Aberystwyth tua ugain mlynedd yn ôl a sefydlodd yno fusnes fel deintydd.*

*Adnabyddir y mab fel awdur nifer o lyfrau hanesyddol.*

Diddorol eithriadol yw'r ysgrif flaen CYMRU - A RHYDDID o rifyn 24 Awst 1940 lle gwelir unwaith eto mor ddwfn oedd casineb Y Cymro at Gomiwnyddiaeth ac fel y teimla iddo roi '[g]ormod o raff' i T. E. Nicholas fynegi ei syniadau yn amser heddwch; mae'r papur hefyd yn ymhelaethu ar y mathau eraill o wleidyddiaeth yr oedd yn eu casáu, sef Naziaeth a Ffasgaeth, ac yn ei frawddeg glo awgrymir yn gryf bod Cenedlaetholdeb Cymreig hefyd yn dod i'r categori hwn! Ond mae'r papur, yn ôl ei degwch arferol ar faterion o'r fath, hefyd yn pwysleisio ei fod yn gofidio 'yn ddwfn iawn' fod T. E. ac Islwyn Nicholas wedi eu cymryd i'r ddalfa:

*CLYWODD Cymru ru bomwyr yr Almaen a theimlo effeithiau dinistriol bomiau Hitler. Er hynny erys ysbryd y bobl yn ddigyffro; ac er ei bod yn rhaid inni ddisgwyl gwaeth eto y mae'n eglur ddigon fod Hitler wedi cael atalfa a hefyd ddogn o'i gyffur ei hun sydd hefyd yn braw iddo o nerth cynyddol a diymwad Prydain a'r Ymerodraeth. Ni wyddom am genedl ar wyneb daear a gasâ ryfel ac a gâr heddwch yn fwy na Chymru.*

*Y mae pobl, fodd bynnag, yng ngwlad y gân a chymdogaeth dda, dan gysgod y cyfiawnder a feithrinir gan ddelfrydau democrataidd, a ddymuna arnom roi cyhoeddusrwydd i'r penderfyniad yma a'r datganiad acw. Y diweddaraf o'r ceisiadau hyn yw'r un a ddaeth oddi wrth ysgrifennydd trefnu Plaid Gomiwnaidd Prydain Fawr (Adran Gogledd Cymru) yn gofyn inni 'yn enw cyfiawnder i gyhoeddi penderfyniad yn protestio yn erbyn carcharu Mr. T. E. Nicholas a'i fab gan yr awdurdodau' ac yn diolch inni ymlaen llaw am gyhoeddi mater a haerant hwy 'sydd o'r pwysigrwydd mwyaf hanfodol i bob aelod o'r cyhoedd.'*

*Gallwn ni ddarbwyllo'r mudiad hunan bwysig hwn nad oes gan y cyhoedd yr un mymryn o ddiddordeb yn eu penderfyniad. Prif ddiddordeb y cyhoedd yn awr yw cael goruchafiaeth ar Hitler, ac y maent yn hollol abl i wylio'u hawliau eu hunain dan lywodraeth Ddemocrataidd.*

*Yr oedd Mr. T. E. Nicholas yn ysgrifennydd cyson i'r colofnau hyn. Yn amser heddwch rhoddasom iddo hynny o raff a fynnai i fynegi ei syniadau, onid yn wir ormod o raff.*

*Pan ddaeth rhyfel ac y datganodd Mr. Nicholas fod y cytundeb rhwng Rwsia a'r Almaen y cytundeb mwyaf dros heddwch a welodd y byd erioed fe wnaethom yn eglur na fynnai'r wlad hon ei thrywanu yn ei chefn gan unrhyw blaid a chyn belled ag yr oedd a wnelom ni â'r peth casáem Gomiwniaeth gymaint ag y casáwn Naziaeth neu Ffasgaeth.*

*Gall y wlad ddelio â'r Hitleriaid bach hyn i gyd yn ein gwlad yn ei ei hamser a'i ffordd ei hun ac fe all yn ddiatreg ddelio â Chomiwniaid sydd dan gysgod Rhyddid y Werin yn tanseilio ein cyfundrefn.*

*Credem bob amser, a chredwn yn awr, fod Mr. T. E. Nicholas yn hollol ddiffuant yn ei olygiadau, ond ei anfon i gynull-wersyll a gawsai yn yr Almaen am ddatgan opiniynau croes i Gymdeithasiaeth Nazïaidd ac mewn amser rhyfel ei saethu a gawsai. Yn Rwsia buasai'n cael ei anfon i Siberia neu os y dihangai fe'i herlidid i farwolaeth fel y cafodd Trotsky. Yn sicr ni fuasai wedi cael papur newydd yn yr Almaen, fel 'Y Cymro' i gyhoeddi ei ddaliadau ynddo.*

*Gofidiwn wrth gwrs, yn ddwfn iawn, fod Mr. Nicholas a'i fab wedi eu cymryd i'r ddalfa gan yr awdurdodau a'u rhoi yng ngharchar. Gofidiwn hefyd, fod llawer o gartrefi yng Nghymru wedi eu dinistrio gan fomiau'r Ellmyn a bywydau gwerthfawr wedi eu colli. Ffrwyth rhyfel yw'r ddau ofid hyn, ac oni enillir y rhyfel, - fel y mae'n sicr o gael ei ennill - fe gollir inni y rhyddid a'r cyfiawnder drwy yr hwn y caniatawyd i'r Comiwniaid flaguro, ac fe roddir yn ei le ormes a ddifoda fwhwman y pleidiau Cenedlaethol a Chomiwnaidd a'u gwasgu hwy yn llwch dan ei sawdl; a chollir inni ryddid a garwn yn llawer iawn mwy na golygiadau'r Blaid Gomiwnaidd na bytheirio'r Blaid Genedlaethol Gymreig.*

Pwysleisir gofid diffuant Y Cymro ynghylch carchariad T. E. Nicholas a'i fab yn ysgrif flaen rhifyn yr wythnos ganlynol, wedi i rai o ddarllenwyr yr ysgrif flaen uchod feddwl bod y papur yn ymhyfrydu yn y mater, ac unwaith yn rhagor gwelir cymaint o bwyslais a roddai'r papur ar ryddid yr unigolyn,

MR. T. E. NICHOLAS (31 Awst 1940)

*A BARNU oddi wrth rai o'r llythyrau, ond nid y cwbl, a anfonwyd inni oherwydd ein herthygl flaen yr wythnos ddiwethaf ymddengys fod yr argraff ar led ein bod yn ymhyfrydu am fod Mr. T. E. Nicholas wedi ei roi yng ngharchar heb brawf, a bod yr holl rai sy'n caru rhyddid yn y wlad hon wedi eu crynhoi i'r Blaid Gomiwnaidd ym Mhrydain, a'r Blaid Genedlaethol yn ail da iddynt.*

*Yn wir, fe'n hysbysir fod rhai newyddiadurwyr Cymreig yn Llundain, a rhai swyddogion o'r B.B.C., uwch ben cwpaned o goffi yn un o dai bwyta'r Brifddinas wedi teimlo mor chwyrn ar y mater nes penderfynu peidio cymryd 'Y Cymro' eto fel protest. Fe ddichon, ond ni wyddom i sicrwydd, wrth gwrs, mai prinder siwgr yn eu coffi y bore hwnnw a gododd y rhagfarn, ond os nad hynny oedd y rheswm fe geisiwn ddal yr ergyd o golli eu dwygeiniogau gyda goddefgarwch Cristnogol!*

*Fe dalasom deyrnged i Mr. Nicholas a datganasom ein gofid ei fod yng ngharchar. Y mae hwn yn deimlad dwfn gwirioneddol a diffuant. Nid oes Gymro yn unman a ddarllenodd farddoniaeth neu ysgrifau gwleidyddol Mr. Nicholas pa un a gytuna â'i olygiadau ai peidio nad yw'n wir ddrwg ganddo ei fod yng ngharchar heb sefyll ei brawf.*

*Fe ŵyr Mr. Nicholas ein bod yn anghytuno â'i olygiadau gwleidyddol a'n bod yn eu casáu gymaint ag y casáwn Nazïaeth neu Ffasgaeth, ond fe ŵyr hefyd fod ein cydymdeimlad ni ag ef yn ddiamheuol. Y mae wedi anfon inni drwy ffrind y nodyn a ganlyn a werthfawrogwn yn fawr iawn:*

*"Dymunaf ddiolch i chwi am eich erthygl yn 'Y Cymro'. Pan gaf fy rhyddhau, y llythyr cyntaf a 'sgrifennaf fydd atoch chwi i ddatgan fy niolchgarwch mewn ffordd mwy priodol."*

*Y mae'n naturiol i genedl, fel pobl unigol dan brofiad blin rhyfel, ac yn arbennig rhyfel ar ennill yr hwn a ddibynna rhyddid y ddynoliaeth am fil o flynyddoedd, wneud camgymeriadau chwerw, effeithiau y rhai a ddisgyn ar y bobl unigol. Un o'r amryw gamgymeriadau a wnaed yw'r un drwy yr hwn y caniataodd Mam y Seneddau awdurdod i'r Ysgrifennydd Cartref i garcharu unrhyw berson ar dir neilltuol heb sefyll ei brawf.*

*Dyma'r gwir bwynt, a bydd yn rhaid wrth ewyllys gref y wlad i ofalu bod hyn yn cael ei newid.*

*Y mae gennym air y Prif Weinidog y bydd yr holl hawliau hyn yn cael eu hadfer ar derfyn y rhyfel.*

*Gyda gofid dwfn y sylwn fod y camgymeriad hwn mewn polisi wedi disgyn yn drwm ar Mr. Nicholas a'i fab. Ni wyddom ni, wrth gwrs, ar ba dir y gweithredodd yr Ysgrifennydd Cartref, ac nid amheuwn nad oedd yr hawl hwnnw o fewn cylch yr awdurdod a roddwyd arno gan y Senedd.*

*Gesyd rhyfel doll ar hawliau'r person unigol; gesyd i lawr reolau sydd i bob golwg yn ffôl a niweidiol, y gweithredir arnynt efallai yn rhy frysiog a heb gymryd yr olwg eang sydd mor hanfodol dan amodau heddiw.*

*Ond rhaid i'r Comiwnwyr gytuno petae rhywun yn anghydsynio'n agored yn yr Almaen â Sosialaeth Genedlaethol mai ei saethu heb sefyll ei brawf a gawsai, ac er bod y Senedd yn ildio i hawl ddiamheuol y person unigol i brawf agored, nid yw wedi ildio bywydau'r dinasyddion i'r peiriant rhyfel. Fe ddylem, y mae'n debyg, fod yn ddiolchgar am bob bendith fach, ac ymwregysu'n ddewr i ofalu bod yr hawl hon fel rhan o'r rhyddid a garwn yn cael ei hadfer y cyfle cyntaf a ddaw.*

Mewn is-adroddiad ar flaen Y Cymro 26 Hydref 1940 adroddwyd am ryddhad y ddau:

Rhyddhau Mr. T. E. Nicholas

*RHYDDHAWYD Mr. T. E. Nicholas a'i fab Mr. Islwyn Nicholas, Aberystwyth, yr wythnos hon wedi bod yng ngharchar am bedwar mis.*

*Pasiwyd nifer o benderfyniadau gan gyrddau gwahanol enwadau yn gofyn ar ba gyhuddiad y carcharwyd hwy.*

*Aethpwyd â hwy o garchar Abertawe i Lundain gerbron Pwyllgor Ymgynghorol dan lywyddiaeth Mr. J. W. Morris, K.C. O ganlyniad i'r ymddangosiad yn Llundain hysbyswyd fod yr Ysgrifennydd Cartref, Mr. Herbert Morrison, wedi gorchymyn eu rhyddhau.*

*Nid oes gan Mr. Nicholas a'i fab un gwyn yn erbyn y driniaeth a gawsant yng ngharchar, a chawsant wrandawiad cwrtais gan y Pwyllgor. Teimlant yn dra diolchgar am yr ymdrechion a wnaed ar eu rhan gan yr Aelodau Seneddol Cymreig, cymdeithasau a chyfeillion a ddymunai weled eu cyfiawnhau.*

*Derbyniasom y nodyn a ganlyn oddi wrth y Parch. Robert Evans, Llanbrynmair, cyn i'r newydd ddod am eu rhyddhau:-*

*Dymuna'r Parch. T. E. Nicholas ddiolch o galon i'r dyrfa fawr a anfonodd i ddymuno'n dda iddo ar ei benblwydd. Derbyniodd dros fil o gardiau ac at hynny ddymuniadau oddi wrth gynadleddau, undebau llafur a phwyllgorau a gynrychiolai dros gan mil a hanner o bobl. Daethant o bob rhan o Gymru ac o wahanol rannau o Loegr a'r Alban. Daethant oddi wrth Aelodau Seneddol, oddi wrth wrthwynebwyr pybyr i syniadau gwleidyddol Mr. Nicholas ac wrth reswm, oddi wrth werin ei wlad.*

*Enfyn ei gofion anwylaf at ei gyfeillion a hydera y caiff eu gweld cyn bo hir.*

Yn ysgrif flaen yr un rhifyn mae parch Y Cymro at T. E. Nicholas, er gwaethaf eu daliadau gwleidyddol hollol wahanol, yn amlwg iawn:

MR. T. E. NICHOLAS

*BYDD ochenaid o ryddhad yn dod oddi wrth Gymry ymhobman oherwydd bod Mr. T. E. Nicholas a'i fab wedi eu rhyddhau.*

*Yr oedd ein datganiad o ofid oherwydd ei garcharu yn wirioneddol a diffuant ac y mae ein llawenydd oherwydd ei ryddhau yr un mor llawn.*

*Fe ŵyr Mr. Nicholas ymhle y safwn ni ar ei syniadau gwleidyddol; fe ŵyr hefyd yr edrychem ar ei garcharu heb brawf yn ddyrnod i'r rhyddid hwnnw yr ymladdwn drosto.*

*Ni ŵyr y cyhoedd eto beth oedd y cyhuddiadau, os oedd rhai o gwbl yn erbyn y ddau Gymro hyn. Y cwbl a wyddys yw cyn gynted ag y cyflwynwyd adroddiad ar eu hachos i'r Pwyllgor Ymgynghorol gorchmynodd yr Ysgrifennydd Cartref eu rhyddhau ar unwaith. Dangosir cymeriad Mr. T. Nicholas gan y deyrnged a dâl i garedigrwydd ei garcharwyr tra y bu yng ngharchar, a'i sonedau a ganodd a'u cadw ar gof gan na châi bapur i'w hysgrifennu arno.*

*Gobeithiwn a chredwn na fydd i'r anghyfiawnder hwn adael archoll rhy ddofn ar Mr. Nicholas a'i fab. Buont yng ngharchar am dri mis yn Abertawe, lle, er mor garedig y gwylwyr, y gallai haearn y gell yn hawdd fod wedi creu mewn dyn cyffredin chwerwder na allai neb ei feio amdano, ond fe gododd Mr. Nicholas, fel y dengys ei gerddi yng ngharchar, uwchlaw hynny.*

*Efallai mai'r ffaith fwyaf arwyddocaol a gyfyd o'r rhyddhau yw fod Mr. Herbert Morrison wedi dod yn Ysgrifennydd Cartref ar Hydref 1. Daeth achos Mr. Nicholas o flaen y Pwyllgor Ymgynghorol ar Hydref 10 a rhyddhawyd y tad a'r mab ddydd Mawrth, Hydref 22.*

*Yr oedd gennym amheuaeth fawr parthed yr hyn yr ymladdem drosto pan osodid ein hawl ddigyfaddawd i brawf cyn carcharu dan lywodraeth un dyn, yn enwedig Syr John Anderson, ac y mae megis awel iach i deimlo bod y rhyddhau wedi ei orchymyn gan werinwr o rym personol Mr. Morrison.*

*Ni ofidiem o gwbl oherwydd ymneilltuad Mr. Chamberlain. Ein gofid yw fod y gŵr a ddefnyddiodd ddwrn haearn awdurdod yn erbyn pob tramorwr cyfeillgar at Brydain ac yn erbyn Prydeinwyr heb eu rhoi ar eu prawf, a wrthododd gynlluniau i gael llochesfeydd eang dan y ddaear rhag y bomiau, wedi ei wneud yn Arglwydd Lywydd y Cyngor a bod Syr Kingsley Wood ac eraill o'r hen giang eto mewn safleoedd o awdurdod.*

*Ni allwn ond teimlo'n ddiolchgar fod gwerinwyr gwir fel Mr. Morrison a Mr. Bevin mewn safleoedd cadarn, a bod y rhyddhad uniongyrchol hwn o Mr. Nicholas yn arwyddo i ba gyfeiriad y mae'r gwynt yn chwythu. Y mae'r rhagolwg democrataidd a'r penderfyniad dioedi mor werthfawr yn y dyddiau tywyll hyn o ryfel a thristwch.*

*Nid oes gennym amheuaeth na hawlir y clod am y rhyddhau hwn gan rai adrannau o bobl y wlad fel buddugoliaeth am weiddi'n groch. Credwn ei fod yn fuddugoliaeth Ysgrifennydd Cartref gwir werinol o ganlyniad i ddadansoddiad pwyllog o'r holl ffeithiau.*

Oherwydd barn gref T. E. Nicholas, eithafol yn ôl amryw, ar faterion gwleidyddol a chymdeithasol, yr oedd yn anorfod yn mynd i ennyn ymateb cryf ymhlith darllenwyr Y Cymro. Dyfynnaf yn gyntaf lythyr a ymddangosodd ar 'Dudalen Pawb' rhifyn 9 Medi 1939, wythnos wedi i'r Golygydd dynnu ysgrif Nicholas yn ôl, gan ddarllenwr a oedd yn amlwg â meddwl uchel iawn ohono ef a'i ysgrifau:

*Yr wyf fi a llu mawr o ddarllenwyr 'Y Cymro' yn teimlo'n ofidus iawn am fod y gŵr dawnus ac athrylithgar o Lasynys wedi gorfod tewi.*

*Yr ydym yn y dyddiau yma yn wynebu un o'r erchyllterau mwyaf a welodd ein byd erioed. Proffwydwyd hynny gan T. E. Nicholas yn ei ysgrifau gafaelgar yn y gorffennol. Digon gwir yr hen ddihareb onide, 'Ni chaiff proffwyd anrhydedd yn ei wlad ei hun', a dywedaf heb rithyn o ofn na chafodd T.E.N. yr hyn ddylasai ei gael gan y werin. Y mae'n wir fod llawer yn cydfynd â'r pethau a ddywedodd, ond y mae llawer eraill wedi ceisio'i ddifrïo.*

*Fel gwerinwr cyffredin dymunaf ddiolch i T.E.N. am ei ysgrifau gafaelgar, a hefyd i berchenogion Y Cymro am eu hanturiaeth yn eu cyhoeddi. Dyna hanes ein byd erioed, y rhai sy'n ceisio dwyn trefn well ar bethau sy'n dioddef croes, erledigaeth a gwawd. Y mae T.E.N. yn gallu sefyll ar ei sodlau ei hun heddiw yn yr hyn a ddywedodd er i rai rhagfarnllyd geisio dweud mai celwydd noeth a ysgrifennodd. Deued y dydd yn fuan pryd y caiff y gwerinwr trwyadl ddod yn ôl i'r Cymro i fynegi ei farn, ac i oleuo'r werin sydd mor barod i gredu popeth a ddywed y wasg Seisnig. "Hawdd hynt a deau helynt iddo."*

*GLYN LEWIS.*

*Llanbrynmair.*

Mae'r enghreifftiau ychwanegol isod o 'Dudalen Pawb' yn dangos fel yr oedd Nicholas yn arwr i rai darllenwyr ond yn fwgan i eraill:

> *GAN mai gweithwyr gwlad sy'n gyfrifol am ei llwyddiant, onid hwy, fel y dadleua Mr. T. E. Nicholas, a ddylai ei llywodraethu? Diolch i Mr. Nicholas am ei ddadansoddiad gwyddonol o broblemau'r dydd. Y mae ganddo afael sicr ar egwyddorion ac ystyriaf hwynt yng ngoleuni digwyddiadau'r gorffennol. Ar fy rhan fy hun a llu o'm cyfeillion, carwn longyfarch 'Y Cymro' ar gyhoeddi'r erthyglau hyn a rhoddi inni wybodaeth eang Mr. Nicholas.*
>
> *D. HANDEL HARRIS.*
>
> *Coleg y Brifysgol,*
> *Aberystwyth.*

> *BYDDAF yn darllen 'Y Cymro' yn gyson a bûm yn meddwl ysgrifennu at Mr. T. E. Nicholas lawer tro cyn hyn, i alw sylw at yr anghymwynas ddifrifol a wna â'i gyd-genedl drwy ysgrifau o'r math a welais i o dan ei enw.*
>
> *Y mae'n amlwg i bawb fod yr ysgrifau hyn wedi eu hysgrifennu o safbwynt Comiwnydd. Credaf fi mai Comiwniaeth - gyda Ffasgaeth - yw un o fawr-ddrygau ein hoes. Yn wir, pe byddai T. E. Nicholas Gomiwnydd uniongred byddai'r anghymwynas a'r perygl yn llawer llai.*
>
> *Nid wyf yn honni meddu gwybodaeth arbennig o Gomiwniaeth, ond heriaf T.E.N. i brofi y gall unrhyw Gomiwnydd uniongred, sy'n cefnogi'r Undeb Sofietaidd a'r Trydydd 'Internationale' fod yn un o'r pethau yr honna ef fod - yn Gristion, neu yn basiffist. Y mae dynion fel Mr. Middleton Murry, a'u geilw eu hunain yn Gomiwnyddion Cristnogol, ond gwadant hwy rai o egwyddorion cyntaf Marxiaeth. Pe bai ysgrifau T.E.N. yn fwy sylfaenol o ychydig, gwelid ymdrech ynddynt i ymwadu dro â'r brwmstan parod ac arwynebol sydd mor gyffredin ynddynt - rhwng y tameidiau duwiolfrydig a rydd wasanaeth gwefus i Gristnogaeth - er mwyn dangos pa fodd y gellir cysoni materoliaeth ronc Marxiaeth ag unrhyw ran o Gristnogaeth. Byddaf yn meddwl weithiau mai rhan o dechneg y Comiwnyddion proselytaidd yw honni eu bod yn Gristnogion er mwyn llithio eu 'brodyr' yn y ffydd. Dyna yw tystiolaeth dynion fel y Parch. R. J. Barker, a ymladdodd yn rhengau blaenaf y crwsâd Cristnogol yn erbyn Comiwniaeth. Nid yw'r Comiwnyddion yn gwahardd yn bendant bob cysylltiad â Christnogaeth. Onid oes modd y bydd y cysylltiad hwnnw yn lles er lledaeniad Marxiaeth? Ni bu unrhyw Jesuit erioed mor gyfrwys yn ei gynlluniau dros Rufain ag ydyw ambell Gomiwnydd dros achos Moscow. Rhoddaf her agored i T.E.N.: profed i'r werin Gymreig fod unrhyw erthygl o'r ffydd Gomiwnaidd yn un y gall Cristion cydwybodol ei derbyn. <u>Peidied ag anghofio sôn am yr esboniad materol o hanes, yr egwyddor mai economeg yw'r allwedd i fywyd yn ei grynswth; mai rhyfel y dosbarthiadau yw'r gwirionedd aruchelaf yn y byd heddiw, mai pethau i'w difodi yw pob cred yn y dwyfol a'r goruwchnaturiol, mai confensiynau ofergoelaidd yw priodas a theulu a magu plant i barchu tad a mam.</u>*
>
> *Y mae'n wir, am yr ail bwynt, nad yw T.E.N. yn barod i bwysleisio hwnnw yn y dyddiau hyn - y ffaith ei fod yn basiffist. <u>Amhosibl yw i'r gwir Gomiwnydd fod yn basiffist.</u> Dyna, yn bendifaddau, yw'r gwirionedd.*

*Rhyfel y dosbarthiadau fel proses parhaus a'r chwyldro gogoneddus Comiwnyddol i'w orffen, - onid hyn yw cred bwysicaf y Sofietydd cywir? Yn y dyddiau diwethaf hyn aeth Comiwnyddion pob gwlad yn fwy rhyfelgar byth oherwydd i'r gwledydd Ffasgaidd godi yn eu herbyn. Dywedant yn awr fod yn rhaid ymladd Ffasgaeth. Er bod Rwsia bob tamaid mor dotalitaraidd â'r Almaen - y mae awdurdodau diweddarach a ffyddlonach na'r Webbs yn honni hynny - y mae deiliaid y 'Trydydd Internationale' yn ceisio gwthio ar y byd y ffug a'r ffwlbri fod yn rhaid dewis rhwng Ffasgaeth a Chomiwniaeth. Y mae ganddynt y wyneb i alw Rwsia yn wlad "ddemocrataidd", a cheisio gwneud 'bloc' o'r gwledydd 'democrataidd' yn erbyn y gwledydd 'Ffasgaidd'.*

*Fe gydnebydd pob carwr heddwch mai o'r diafol y daeth y syniad rhyfelgar hwn. Gwaeddir am 'Ffrynt Unedig' yn erbyn Ffasgaeth, y gelyn cyffredinol. Dylai pawb, meddant, suddo eu gwahaniaethau yn yr ymgyrch sanctaidd hon! Eithr nid yw eu heangfrydedd newydd ond ymdrech i wthio Comiwniaeth ar wledydd na fynnodd mohoni hyd yn hyn. Ac yn yr ymdrech y mae polisi ac egwyddorion yn newid eu lliw yn rhyfedd. Y mae'r 'Daily Worker', a fu gynt yn edliw i Brydain ei hymerodraeth a'i harfau a'i chyfoeth, yn awr yn cynffona iddi yn y llwch, er mwyn ennill ei chymorth yn y rhyfel yn erbyn Ffasgaeth. A byddai'r rhyfel hwn ar raddfa aruthrol, wedi torri allan yn barod, pe cawsai'r Comiwnyddion eu ffordd. Y mae'r Blaid Lafur yn gweiddi sloganau, ac yn dechrau ysu am waed y Natsïaid a'r Ffasgiaid. Gyda'r Comwinyddion, troisant hwythau hefyd, gan gymaint gofynion yr ysbryd rhyfelgar newydd, yn ben-amddiffynwyr yr Ymerodraeth. Dywedodd Mr. Arthur Greenwood am y Prifweinidog, Mr. Chamberlain, "Although he is the son of a great British Imperialist, he has himself placed the Empire in jeopardy."*

*Fel canlyniad i'w propaganda hwy, ac efallai, i bropaganda tebyg i un T.E.N. aeth bechgyn o Gymru i Sbaen a chollasant eu bywydau yno, o blaid y delfrydau 'Rhyddid' a 'Democratiaeth'. Ni freuddwydiodd y rhai hyn godi bys bach o blaid y delfrydau hynny yng Nghymru, er bod Cymru yn gymaint ysbail i ormes imperialaidd ag un wlad arall yn Ewrob.*

*Y mae'n ddyletswydd ar T.E.N. yn wyneb hyn, i draethu'n glir yn 'Y Cymro' beth yw ei agwedd bresennol tuag at basiffistiaeth a thuag at y shiboleth ddieflig, "We must fight Fascism." Y mae'n ddyletswydd arno hefyd, yn unol â'm hawgrym arall, i sôn llai am Rwsia a mwy am Gymru. Os oes rhaid iddo sôn am Gomiwniaeth, sonied am waith y Bolshefiaid yng Nghymru, fel y maent yn ymladd â'u holl rym yn erbyn deffroad cenedlaethol yno, fel y maent yn gwthio ysbryd rhyfel ar y bobl, fel y mae'r frwydr rhwng Cristnogaeth a Chomiwniaeth yn cael ei hymladd mewn etholiadau yn Sir Forgannwg, lle y clywir bod 'Ymgeisydd Cristnogol' yn ymddangos mewn rhai ardaloedd, er mwyn gwrthweithio dylanwad yr Anghrist ar y cynghorau lleol. Yn bennaf dim, dyweded fel yr arswydodd y Comiwnyddion ag arswyd sanctaidd pan glywsant am losgi ysgol fomio Llŷn. Mewn cynhadledd yng Nghaerdydd bu'r bobl hyn mor hy â datgan "that we deprecate the action of the Welsh Nationalists with its extreme resort to violence" - y bobl hyn sy'n ymarfogi ar gyfer cataclysm tanllyd y chwyldro gwaedlyd.*

*Os yw Rwsia'n baradwys, y mae'n baradwys bell ac annelwig, ac y mae Cymru heddiw ac yn awr yn troi'n anialwch hagr, yn ysglyfaeth i Ddiweithdra a Rhyfel. Y mae eisiau canu utgorn yng Nghymru heddiw - nid mingorn milwriaethus Moscow, ond clarion clir cenedlaetholdeb Cristionogol.*

*CYMRO IFANC.*

*CREDAF mai ffolineb dybryd yw oedi yn hwy cyn ysgrifennu atoch a diolch*

*i chwi am ei gwneud hi'n bosibl i erthyglau gwych Mr. T. E. Nicholas ymddangos yn 'Y Cymro' o wythnos i wythnos.*

*Nid oes modd mesur i ba raddau y dylanwada'r 'Cymro' ar fywyd ein gwlad, ac nid oes unrhyw amheuaeth o'i werth a'i wasanaeth aruchel. Credwch fi fod llawer iawn o ddisgwyl ymlaen amdano yn y cylch hwn a hawlia sylw mawr, ynghyda darlleniad eang.*

*Ac, yn sicr, nid y lleiaf o'i atyniadau lluosog i'm tyb i yw ydyw erthyglau o eiddo T. E. Nicholas. Cyflawna ef gymwynas ddifesur i weriniaeth gwlad mewn adeg pan y mae cryn dipyn o ladd arni, ac oherwydd hyn y mae'r 'Cymro', er cystal yw, yn llawer iawn gwell wedi i Nicholas y Glais gyflwyno'i gyfraniad cyfoethog iddo.*

*Pob rhwyddineb a hwyl iddo ef ac i'r 'Cymro' yn eu gwaith dyrchafol.*

*TOM THOMAS.*

*Pontardawe.*

*GODDEFWCH imi ysgrifennu atoch parthed cwrdd yn Nefyn pryd y cafwyd darlith gan Mr. T. E. Nicholas ar y testun "Dinas Cain a Dinas Duw."*

*Cafwyd cynulliad da iawn, y neuadd yn llawn, ac nis gellid disgwyl ei ragorach, pawb yn gwrando yn astud ac yn barod gyda'u cymeradwyaeth. O ganlyniad yr oedd y darlithydd yn ei hwyliau gorau ac yn rymus iawn gyda'i arfau miniog. Credaf ein bod yn ddyledus i'r 'Cymro' am ran helaeth yn llwyddiant y cyfarfod gan nad oes amheuaeth mai darllenwyr 'Y Cymro' oeddynt gan mwyaf wedi dod o'r cylchoedd.*

*Y mae'n sicr fod Mr. T. E. Nicholas drwy ei ysgrifau yn 'Y Cymro' wedi ennill lle cynnes ym meddwl a chalon llu o ddarllenwyr 'Y Cymro'. Credaf fy mod yn datgan teimladau cyffredinol lliaws o'r rhai oedd yn y cwrdd wrth fynegi ein diolch i'r 'Cymro' am gyfle bob wythnos i gael ei farn ar faterion sydd o bwys i'r werin yn y dyddiau blin a digalon yr ydym yn myned drwyddynt. Yn wir y mae eich papur yn ychwanegiad helaeth i'r Wasg Gymreig tuag at gyfoethogi ac amlhau cyfle i ryddid barn, a chan adael i farn gael ei llafar.*

*JOHN HUGHES.*

*Rhydyclafdy.*

*Y mae amcan da mewn arfer sebon meddal, a hyderaf y bydd i'ch gohebydd o Rhydyclafdy gyrraedd ei amcan drwy ei lythyr; ond druan ohono o gredu fod i ysgrifau'r Comiwnydd Nicholas le uchel ym marn ac edmygedd nifer fawr o ddarllenwyr 'Y Cymro'. I lawer ohonyt mae ebychiadau wythnosol y cyn-weinidog efengylaidd yn sarhad ar eich colofnau. Cofiaf i Mr. J. C. Roberts, Southport ddatgan mewn darlith yn Bootle y gallai'n hawdd brofi anwir pob datganiad o eiddo T.E.N. Wythnos ar ôl wythnos croniclir yn ei araith gyfeiriadau hollol gamarweiniol ynglŷn â'i dduw, llywodraeth Rwsia, ac nid anghofiaf ei lith cibddall a gwenwynig - teilwng o ddinasydd "Dinas Cain" - ar anrhydedd a chymeriad Ramsay Macdonald.*

*Yn ei ysgrif heddiw nid oes egwyddor yn pethyn i lywodraeth ein gwlad yn ei hymwneud â China a chrochlefara mai twyll yw holl weithrediadau'r Prifweinidog, (ie, mwy, twyll y gwyddai y proffwyd Nicholas ymlaen llaw), ac mae'n amlwg i bawb fod holl ddirgelion meddwl Hitler a Chamberlain yn llyfr agored iddo ef! A diwedd ei neges yw 'cytundeb â Rwsia ar delerau Rwsia ei hun.' Ac apelia yn ei ddull trofaus at weithwyr y byd mewn brawddegau 'o gam dystiolaeth yn erbyn cymydog' heb rithyn o ymresymiad na ffaith, ond yn unig ei holl*

*wybodaeth unbenaethol rhagfarnllyd ei hun. Yn ôl ei arfer cyflwyna addoliad unllygeidiog i'r Cristion diymhongar Stalin; dyna ei 'Amen'!*

*MATH R. HUGHES.*

*Huddersfield.*

*CANIATEWCH fodfedd neu ddwy i ddweud fy mod innau yn gwrando ar T.E.N. yn Bootle a dymunaf ategu popeth a ddywed T.E.N. yn ei lythyr atoch Gorffennaf 29. Gofynnwyd i J. C. Roberts, Southport, enwi y pethau a oedd yn anghywir yn y ddarlith a gwahoddwyd ef hefyd i wyntyllio'r pwnc yn 'Y Brython' ond nis gwnaeth.*

*Caniatewch i mi hefyd longyfarch 'Y Cymro' ar feddu gŵr o ddoniau T.E.N. i 'sgrifennu i'w golofnau bob wythnos. Clywais amryw y rhof dipyn o bwys ar eu barn yn tystio mai 'O Fyd Y Werin' gan T.E.N. yw'r peth gorau yn 'Y Cymro'. Â'r farn yna cytunaf innau. Yn ddiddadl gwêl T.E.N. yn gliriach na nemawr neb i dwyll a rhagrith yr arweinwyr politicaidd y sydd heddiw. Hawdd hynt a deau helynt a fo iddo i oleuo'r werin druan sydd mor barod i goelio pob dim a geir yn y wasg Saesneg. Na ddigalonned T.E.N.; mae tyrfa'n darllen ei ysgrifau a chryn nifer yn dechrau gweld dynion megis prennau yn rhodio.*

*COLLWYN.*

*Lerpwl.*

Yn amlwg, yr oedd T. E. Nicholas yn ennyn ymateb yn narllenwyr Y Cymro ac yr oedd ei golofn 'O Fyd y Werin' mor unigryw fel nad hawdd ei hanwybyddu: mae'r llythyrau uchod yn profi hynny. Gallai rhywun fod ei gefnogwr mwyaf brwd neu ei wrthwynebydd mwyaf ond mae'n rhaid pwysleisio eto na fedrid ei gasáu: 'Niclas y Glais' ydoedd wedi'r cyfan ac yr oedd yn gymeriad mor hoffus yn y bôn fel nad oedd yn ennyn casineb gan neb dim ots pa mor gryf y gallai gorddi pobl â'i ddaliadau gwleidyddol. I lawer o bobl a gytunai â Nicholas, yr oedd yn arwr gwirioneddol a oedd yn ddewr iawn am siarad drostynt, ond hyd yn oed i bobl na chytunai ag ef, mae'n debyg mai eu barn nodweddiadol fyddai: 'Tipyn yn ecsentrig ac yn eithafol, ond mae calon 'rhen Niclas yn y lle iawn.'

*'Tywallt y Ffa'*
*a 'Rhyngom Ni a'n Gilydd'*
*gan John Aelod Jones*

Ar 17 Mehefin 1939 ymddangosodd colofn newydd yn Y Cymro gan 'John Aelod Jones', enw a fenthycwyd gan gymeriad a oedd yn 'gysfennu i'r Wasg' yn nofel gyntaf Daniel Owen, Y Dreflan, ei Phobl a'i Phethau (1881). John Roberts Williams oedd John Aelod Jones, gŵr a aned ym 1914 yn Llangybi yn Arfon a oedd yn newyddiadurwr ac ysgrifennwr ifanc iawn ar y pryd, ond gŵr a ddatblygodd i fod yn un o ffigyrau newyddiadurol mwyaf Cymru yn ddiweddarach a'r gŵr a eisteddodd yng nghadair Golygydd Y Cymro yn ystod ei gyfnod mwyaf llewyrchus yn y blynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd.

Fel yr awgryma'r teitl dychanol, 'Tywallt y Ffa', yr oedd naws y golofn yn hollol wahanol i unrhyw un a ymddangosodd yn y papur yn flaenorol gan ei bod yn dra mentrus o ran cynnwys ac mor uniongyrchol o ran arddull, dau beth nad oedd darllenwyr papurau Cymraeg yr oes wedi arfer â hwynt; yn wir, mae'n debyg y buasai darllen y golofn hon wedi bod yn dipyn o 'sioc diwylliannol' i nifer o'r darllenwyr, i minnau hefyd gael cyfieithu idiom Saesneg!

Mae ei golofn gyntaf un, o dan y teitl rhyfedd **Ysgrifennaf Gofiant i Mi fy Hun**, yn gosod y cywair ar gyfer y rhai dilynol ac mae'n tynnu sylw'r darllenydd ar unwaith gyda'i chynnwys dadleuol sy'n trafod un o'r pynciau mwyaf tabŵ, sef marwolaeth, mewn modd digon ysgafn, a hynny yn steil ddi-flewyn-ar-dafod, ddigywilydd bron, John Aelod Jones. Cyfeddyf yn y paragraff olaf 'y bydd rhai [o'r darllenwyr] yn anghydweld yn ffyrnig iawn' â'i golofn newydd ond nid oedd hynny am rwystro John Aelod Jones rhag dweud ei farn yn blaen, yn union fel nad oedd am rwystro John Roberts Williams rhag dweud ei farn yn blaen ar hyd ei yrfa fel newyddiadurwr a darlledwr:

*Ysgrifennaf Gofiant i Mi fy Hun*

*RYW dro pan oeddwn i'n hogyn - neu ryw bymtheg mlynedd yn ôl i fod yn gysact - yr oedd yna gofiant trwchus i un John Jones o Dalysarn yn llyfrgell y capel acw. Yr oedd yna gannoedd os nad miloedd o dudalennau iddo, yr oedd ganddo gas du atdyniadol fel casus Beiblau'r Feibl Gymdeithas, ac yr oedd lliw ac arogl tamp ar y cas a'r tudalennau.*

*Anogwyd fi i ddarllen y llyfr hwnnw. Hysbyswyd fi y buasai hynny yn sicr o fod yn fendith i mi. Rhoddodd ysgolheigion ac athrawon colegau ar ddeall i mi ar ôl hynny na ellid cyfrif neb yn Gymro nac yn*

*ysgolhaig gwerth yr enw os na feistrolodd gynnwys y llyfr hwnnw.*

*Ac felly yr wyf o dan felltith, ni ellir fy nghyfrif yn Gymro ac nid wyf yn ysgolhaig. Canys ni ddarllenais un gair o'r gyfrol drwchus erioed.*

*Efallai y gwnaf ryw dro ac efallai na wnaf fi ddim. Ar hyn o bryd, ni theimlaf fel edifarhau oherwydd fy nghamwedd nac fel ymffrostio yn fy anwybodaeth. Yn hytrach mi deimlaf fel ysgrifennu cofiant - i mi fy hun. Canys y mae'n berffaith sicr na wnaiff neb arall mo hynny.*

*YR wyf yn beryglus o ifanc, welais i fawr ddim ar y byd, wnes i ddim byd erioed i greu sôn amdanaf ar wahân i ddwyn afalau a rhyw fanion cyffelyb a gellir olrhain fy nheulu yn ôl hyd at Adda heb gael yr un a allai bwyntio'i fys at ffesant a dweud, "Fy ffesant i yw hwnna, ac ar geirch fy nhenantiaid i y mae'n byw."*

*Felly chwi welwch nad oes gennyf hawl i hunangofiant na gobaith o gofiant, ond cofiant papur newydd. Ac at hynny yr wyf yn ceisio dod.*

*Bob wythnos y mae hyn a hyn o bobl yn marw. Ac yn ardaloedd gwledig a phentrefi a threfi bychain Cymru fe ymddengys cofiant i bob un ohonynt yn eu tro bob wythnos yn y papur lleol - ac nid wyf yn eithrio'r 'Cymro'.*

*Ond hyn sy'n rhyfedd. Nid yw'r brodyr a'r chwiorydd hyn byth yn marw. Na, "cael eu symud o'n plith", "gwywo'n gynnar", "ehedeg o'r ysbryd", "ymadael â'r byd hwn" a "huno" y maent bob amser. Dyna yw dymuniad y gohebydd. Ond marw a wnânt er y cwbl i gyd.*

*Yn rhyfedd iawn ni symudwyd o'u plith yr un dyn drwg erioed. Daeth y gwych a'r gwachul, y pechadur a'r sant i'r un lefel o'r diwedd. Pawb yn "uchel eu parch", pawb yn "aelodau ffyddlon", pawb yn "gymwynasgar a phoblogaidd" a phob ardal wedi cael "colled fawr". Mwy na hynny, aeth pob un a ddigwyddai fod wedi arbenigo'r mymryn lleiaf mewn unrhyw beth, hyd yn oed pe na bai'n feistr ar ddim ond cau gwrych, yn "enwog". Aeth hyd yn oed deuluoedd y mwyafrif yn "enwog". Mewn gair, gwlad yw Cymru yn llawn o seintiau enwog marw.*

*PEIDIWCH â meddwl fy mod yn ddiystyrllyd o'r meirw. Byddaf farw fy hun ryw ddiwrnod, a marw ac nid "huno" a wnaf. A rhag i unrhyw ohebydd brwdfrydig fanteisio ar fy nhranc i flodeuo allan yn fardd ar garreg fy medd mi ddinoethaf fy ninodedd i chwi fy hunan.*

*Ac os y teimlwch fy mod braidd yn wirion a rhyfygus - wel, chwiliwch am hanes cynhebrwng bach blasus yn rhywle a dysgwch o ar dafod leferydd. Ac anghofiwch ddagrau'r teulu wrth ymlafnio yn arddull ein gohebydd.*

*Ni fwriadaf grwydro ymhell iawn yn ôl yn fy hanes. Digon yw dweud i mi gael fy ngeni ryw dro. Yr oeddwn yn ifanc iawn ar y pryd ac nid wyf yn cofio dim o gwbl am y digwyddiad. Cofiaf ormod o lawer o hanes fy llencyndod ond nid wyf fi'n ddigon o ddyn i fanylu dim ar yr hanes hwnnw.*

*"Dyna fardd mawr fuasai hwnnw a ddywedai'r gwir i gyd" clywais y gŵr mwyna'n fyw, Mr. R. Williams Parry, yn ei ddweud unwaith. Nid fy nymuniad yw bod yn fardd mawr.*

*GADAWAF lonydd i ddyddiau ysgol a choleg hefyd, am y tro ac mi ddechreuaf yn ddigywilydd fodern yng nghanol 1938. Mi roddaf ychydig o argraffiadau'r to sy'n codi i chwi cyn i'r tŷ ddod i lawr ar fy nghefn. Ac mi gymeraf yn destun ac yn dri phen ran gyntaf yr emyn hwnnw rhif - yn llyfr emynau y - (gadawaf y rhif a'r enwad ac / neu sect i'ch dychymyg rhag i chwi fy nghyhuddo o ragfarn enwadol yn y dechrau un). Ta waeth dyma ni:*

Am wirionedd boed fy llafur

Am wirionedd boed fy llef;
Ni saif dim ond y gwirionedd.

*A holl gwmpawd fy mywyd bach a chynnwys y cofiant "enwog" hwn a fydd blwyddyn gwta o newyddiadura ac agor fy llygad ar fyd a phobl ryfedd ac ofnadwy ac ar wallgofrwydd cyffredinol a elwir yn wareiddiad, gyda llygedyn o ddynoliaeth yn codi i'r wyneb yma ac acw.*

*Gwn y dylaswn aros hyd nes dod yn hen a pharchus ond fe flinais fy enaid ar bethau hen a pharchus. Chwi a glywsoch yr hen a'r doeth yn siarad. Chwi a glywch yr ifanc a'r ffôl am dro. Canys pan freuddwydia'r henwyr eu breuddwydion, y gwŷr ieuanc a welant weledigaethau. Efallai nad ydynt ond gweledigaethau'r teithiwr diddeall yn yr anialwch a wêl ddyffrynnoedd breision lle nad oes dim ond tywod - ac ambell i grastir anial lle'r honnid fod y dyfroedd byw. Pwy a ŵyr? A pha waeth?*

*MI a geisiaf ail grwydro drwy'r flwyddyn yna ac ail edrych, ail wrando, ail siarad, ail ddwyn i gof a hel fy argraffiadau ynghyd. Mae cenhedlaeth o ddynion a merched newydd yn codi ac aeth oes y locsyn clust a'r pinau het drosodd. Felly, gyda chaniatâd caredig Cynan:*

Pan fwyf yn hogyn gwirion
Heb arian yn fy nghod,
A'r holl feirniadu'n dechrau
A neb yn canu nghlod,
Mi brynaf Air Raid Shelter
Heb ddim o flaen ei ddôr,
Ond merched main paentiedig
A dynion mewn plys ffôr.

*Bywyd diddorol ac ymhell o fod yn undonog yw bywyd newyddiadurwr ac wedi rhagymadroddi cymaint waeth i mi heb â dechrau heddiw o ddifrif, ond mi roddaf ryw fras syniad o'r gwahanol bethau a ddaeth i fy rhan.*

*Bydd yn rhaid i rai ohonoch gael hanes y bobl fawr, wrth gwrs. Buasech yn meddwl nad oes dim ond pobl fawr a llifogydd yn yr America mewn bod wrth edrych ar y newyddion a roddir yn y darlundai y dyddiau hyn. Wel, i gadw'r bobl hynny'n ddistaw mi a roddaf hanes cyfarfyddiadau a sgyrsiau gyda Dug a Duges Caint, Mr. Lloyd George a Major Attlee. Dyna i chwi bedwar pysgodyn go lew mewn blwyddyn.*

*BYDD hanes cynghorau a chynghorwyr; cwêst neu ddau; canfed pen blwydd hen wraig; achosion mewn llys barn; ar gae'r bêl-droed; mewn eisteddfod; cyfarfod misol a chwrdd chwarter; hen gymeriadau diddorol, ac felly ymlaen.*

*Ac fe ddywedaf finnau sut argraff a gefais ar y pethau hyn oll yn fy niniweidrwydd anwybodus. Efallai fy mod yn methu mewn llawer lle, ond gwn y bydd rhai yn anghydweld yn ffyrnig iawn. Nid er mwyn seboni sefydliadau a phobl yr ysgrifennaf fy nghofiant fy hun, ac y "tywalltaf y ffa", chwedl yr Americanwyr. A pheidiwch â disgwyl am bennod bob wythnos ychwaith.*

Ond os yw ysgrif gyntaf John Aelod Jones yn ymddangos yn fentrus ac yn rhyfygus, cymharol ddof yw hi o gymharu â'i ail ysgrif, Platiad o Ham a Phregeth, sy'n ymosod ar y sefydliad Cymreig mwyaf cysegredig hwnnw, y capel, mewn modd cwbl ddigyfaddawd, ysgrif feiddgar iawn o ystyried achau crefyddol Y Cymro, ac un fwy beiddgar byth o gofio bod y capel yn rhan mor ganolog o fywydau cymaint o Gymry Cymraeg yr oes. Hyd yn oed yn

yr oes seciwlar hon buasai'r ysgrif isod yn codi ambell i ael, os nad ambell i wrychyn, ym mysg yr ychydig bellach sy'n parhau i fynychu'r capeli, ond yn sicr buasai wedi ennyn cryn ymateb ym 1939 pan gyhoeddwyd hi am y tro cyntaf.

Mae'n amlwg o'r ysgrif hon bod John Aelod Jones wedi mynd o'i ffordd i or-ddweud ac i fod yn ddramatig fel ei fod yn siŵr o gorddi'r dyfroedd crefyddol i'r eithaf a thrwy hynny ennyn ymateb cryf ymysg y darllenwyr. Ond er bod naws yr ysgrif yn fwriadol ymfflamychol a dros-ben-llestri, mae'n bwysig nodi nad ffwlbri celwyddog yw hi ond yn hytrach ysgrif ddifrifol sy'n mynegi llawer iawn o wirionedd ynghylch gwendidau'r capeli a rhagrith a hunangyfiawnder llawer o'u mynychwyr, ac ymgais wirioneddol i geisio cael arweinwyr crefyddol i sylweddoli bod pobl ieuainc yn dyheu am eglwysi a chapeli perthnasol i'w bywydau dyddiol. Sylwer bod John Aelod yn pwysleisio nad yw 'capel a chrefydd yn golygu'r un peth' ac nad oes ganddo ddim byd yn erbyn yr egwyddor o addoli; yn wir, er mwyn profi beth oedd gwir farn John Aelod Jones, dyfynnaf yn gyntaf y geiriau isod o'i ysgrif yn Y Cymro 8 Chwefror 1941:

> *....Bwyllgor cydenwadol yr Ysgol Sul, os gwelwch chi'n dda, gwnewch rywbeth; unrhyw beth - thal hi ddim fel hyn. Y mae'r Ysgol Sul yn marw dan ein dwylo. Nid eich beio a wnawn, ieuenctid Cymru, ond erfyn arnoch.*
>
> *Ein crefydd, fwy na dim, a'n cadwodd yn genedl. Cadwer y tân ar yr aelwydydd....*

Mae'n siŵr bod sawl darllenydd pan ddarllenasant 'Platiad o Ham a Phregeth' am y tro cyntaf wedi cael ei syfrdanu gan ei chynnwys a'i harddull ond yng ngeiriau John Aelod ei hunan, 'derbyniwch neu gwrthodwch y truth - gallaf fi ddweud ei fod yn onest beth bynnag':

### *Platiad o Ham a Phregeth*

> *RHAG ofn i chwi gael eich siomi a rhag i chwi gwyno fy mod mewn unrhyw fodd wedi gwastraffu eich amser, gadewch i mi egluro yn awr nad oes unrhyw wers yn unrhyw un o'r ysgribliadau hyn. Y mae hen griw sych-dduwiol wedi bod yn pwnio hanesion a straeon a gwersi ynddynt mor hir a dyfal i'n pennau pan oeddem ni'n blant nes mynd ohonom yn ofnus o bob truth a stori wedi i ni dyfu i fyny dipyn bach.*
>
> *Nid oes gennyf ddim byd pwysicach na Chyfarfod Misol o dan sylw heddiw. Nid wyf yn awdurdod ar y peth cofiwch, rhag ofn i chwi feddwl*

*fy mod yn un o'r ysgrifennwyr cyson hynny sydd wedi mynd yn awdurdod ar bob peth yn eu hysgrifau, ond a gyfrifir yn llai na dim ymysg y bobl sy'n gwybod.*

*Soniaf am gyfarfod misol, nid am ei fod yn un o sefydliadau'r Methodistiaid Calfinaidd, ond am ei fod yn nodweddiadol o swae enwadol Gymreig lle mae'r dillad duon angladdol a'r crefyddwyr mewn iwnifform yn ymgynnull.*

*A phan es i gyntaf i riportio cyfarfod misol wyddwn i ddim mwy na mwyafrif o aelodau'r capel acw be' ar wyneb y ddaear a gymerai le ynddo. Gwyddwn mai blaenoriaid a phregethwyr yn unig a allai ymlwybro yno unwaith yn y mis, a chlywais mai bwyta ham oer a wnaent am gyfran o'r amser. Ni ddeallais, hyd yn ddiweddarach mai dyna brif bwrpas y cyfarfod. Ac arnaf fi yr oedd y bai na fuaswn wedi sylweddoli hynny yng nghynt.*

*Gadewch i mi osod y mater o'ch blaen fel hyn, frodyr a chwiorydd enwadol. Yr ydych chwi yn aelodau eglwysig ers hyn a hyn o flynyddau, ac y mae hyn a hyn o gyfarfodydd misol, cyrddau chwarter, etc., wedi bod yn ystod y blynyddoedd yna. A gofiwch chwi ryw newid sylweddol ym mywyd ysbrydol y capel yn ystod yr amser yna? A oedd y Sul ar ôl y cyfarfod misol, etc., yn fwy gwlithog na'r Sul cynt? Efallai fod pwyslais arbennig yn cael ei roi ar gasgliad arbennig - ond i beth, gyfeillion annwyl, i beth? Dal i grwydro y mae'r defaid, dal i waghau y mae'r gorlan, a dal i fynd ymlaen y mae'r cyrddau enwadol.*

*Fel y canodd y bardd mor bêr:*

O'r holl gyfarfodydd sychlyd
    Cwrdd sychaf y cyrddau yw;
Cynefin gweinidog a 'sgethwr,
    A hendref y blaenor a'i ryw.
Ni feddaf le het yn ei byrth o
    Na chymaint â sgleisen o'i borc,
Ond mynych bitiaf fin nos wrth fy nhân
    Arglwyddi y gyllell a'r fforc.

*ER i mi droi i archwilio hen adroddiadau a chrafu fy mhen, methu yn fy myw a wnes â gweld pwrpas yn y cyrddau "platiad-o-ham-a-phregeth" yma. Ond y mae'n rhaid eu bod yn gwneud rhywbeth, meddech. Na gyfeillion hoff ac annwyl, nid ydynt yn gwneud dim ond gofalu fod cyfarfod misol arall yn dilyn ymhen y mis.*

*Ond beth am yr holl benderfyniadau a basir? Y mae rhai i'r llywodraeth.*

*Oes siŵr, gwaetha'r modd. Cymerwch hanes trip un Neville Chamberlain i Munich, fel enghraifft. Bûm mewn cwrdd chwarter a anfonodd neges i'r brawd yn ei longyfarch ar ei ddychweliad diogel yn ôl. Heddiw, fe gondemnia'r eglwysi hynny orfodaeth filwrol a esgorodd Munich arno. Yr oedd yr eglwys yn rong - yr eglwys sydd â'i seiliau ar y graig a'i hegwyddorion yr un ac yn dragywydd.*

*Unwaith fe erlidiai Eglwys Rhufain y rhai hynny a wadai fod yr haul yn symud o gwmpas y ddaear. Pan ddaeth yr offeiriaid i ddeall peth amgen fe eglurwyd mai anffaeledig ar gwestiynau ysbrydol yn unig y mae'r eglwys. Y mae'n bryd i enwadau Cymru ddysgu'r wers. Ac fe ddaeth yr amser i weinidog Methodist achub y byd drwy egluro o'i fawr ddoethineb i'r llywodraeth ac i'r werin beth a ddigwydd i'r wlad hon os na wneir hyn a hyn gyda golwg ar yr Almaen wedi iddo achub ei braidd ei hunan o'u trueni yn gyntaf.*

*A buasai'n creu effaith ffafriol ar wŷr ifanc fel fy hunan pe dechreuid y gwaith cenhadol ymysg arweinwyr yr eglwys yn y cyfarfod misol ei hun.*

*A fuoch chwi mewn cwrdd derbyn dynion i'r swydd bwysig o flaenor*

*erioed? Naddo mae'n debyg, a chlywsoch chwi ddim o'r holi ychwaith mae'n sicr. Dyna'r tri chwarter awr mwyaf anghyffyrddus yn fy mywyd oedd honno mewn capel bach yn y wlad pan haliwyd dyrnaid o flaenoriaid newydd o flaen eu gwell. Yr oedd rhai yn llithrig eu tafodau ac yn medru ateb i drwch y blewyn "sut mae'ch henaid chwi?" Ond am y gweddill, yr oeddynt fel defaid o flaen y blaidd heb wybod ple i droi, ac yn amlwg argyhoeddedig mai y ffordd i brofi eu duwioldeb oedd hanner-crio drabiau o emynau a sôn am lanw a thrai yr ysbryd a themtasiynau'r hen sarff. A hwythau drueiniaid yn methu â chael geiriau eu ffrindiau mwyaf talentog.*

*Clywais un hen wladwr yn disgrifio'i deimladau drwy ddweud ei fod "fel potel". Do, ac er ei gywilydd, clywais weinidog "parchus" yn ychwanegu wrth ei gyfaill Mici Mowsaidd - ie, fel potel Corona! Os na all gweinidogion barchu blaenoriaid, nid oes ryfedd fod y werin yn amheus o flaenoriaid a phregethwyr.*

*CHLYWAIS i erioed weinidog yn gofyn i flaenor newydd sut yr oedd hi rhyngddo ef a'r plant gartref a beth a feddyliai o'i gymdogion. Chlywais i erioed flaenor yn gorfod dweud pa oriau a weithiai ei wasanaethyddion a pha faint o arian a dalai iddynt ac o dan ba amgylchiadau yr oeddynt yn gweithio.*

*Ni ddisgwyliais glywed hyn. Yr oeddwn yn adnabod y gweinidogion yn rhy dda. Aeth pob Parch. yn "barchus" ac yr oedd dillad y pechaduriaid yn rhy fudron iddynt gael dod at eu brethyn du da hwy. Pregethu i seti gweigion. Rhynnu yn y seiat. Mynd o gwmpas tai'r bobl fawr pan ddaw'r gowt i'r teulu. Pa gydymdeimlad a ellir ei ddisgwyl at y meddwyn, y lleidr a'r gŵr sy'n curo ei wraig gan rai a rodiant y ddaear gan geisio plesio pawb, gan argyhoeddi neb?*

*Aeth crefydd yn rhywbeth academig, yn rhywbeth i grefyddwyr, fel yr aeth dirwest yn rhywbeth i ddirwestwyr.*

*Efallai fy mod yn methu, ffrindiau, ond y mae gennyf gof byr am Hen Lyfr yn rhywle a sonia rywbeth am adnabod pobl wrth eu gweithredoedd. Mi geisiais innau wneud hynny yn fy machgendod ffôl. Anfonwyd fi i'r capel a'r Ysgol Sul yn hogyn ac aeth yn beth croes i'r graen i aros gartref ar y Saboth. Aeth blynyddoedd heibio, deuthum i adnabod gweinidogion, blaenoriaid a chapelwyr selog yn well; gwelais fechgyn yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth mewn ffyrdd na chlywir sôn amdanynt yn y Rhodd Mam a'r Cyffes Ffydd. Gofynnais i mi fy hun - pam yr af i'r capel? Methais â chael ateb, a phallodd fy niddordeb mewn tair canrif o Ymneilltuaeth.*

*Y MAE'N gyffes ddifrifol i fachgen ifanc ei gwneud. Ac yn anffodus y mae'n dod yn gyffes mwy a mwy o fechgyn ifanc bob dydd. Mae cannoedd wedi gadael y capeli, miloedd yn ddifraw, a miloedd a addefai mai mynd i'r capel i gadw'n rispectacl a wnânt.*

*Y mae bai ar yr ifanc neu ar y capeli. Gyda phob dyledus barch i bawb honnaf mai ar y capeli y mae'r bai. Nid ar yr efengyl y mae'r bai yn sicr ac na feddylied neb fod capel a chrefydd yn golygu'r un peth.*

*Cyn y gellir disgwyl i'r ifanc heddiw gefnogi'r capel y mae'n rhaid i'r capel gefnogi'r ifanc. Mae'n rhaid i'r capelwyr ddod at y bobl cyn y daw'r bobl at y capel. Mae Byddin yr Iechydwriaeth yn mynd i'r dafarn, i'r slyms, i'r stryd. Ac ni wna'r capelwr ddim ond ymosod ar y pethau hyn yn eu capelau glwth. Ni bu gweinidog erioed â braich digon hir ganddo i gau drws y dafarn o gornel y sêt fawr.*

*A dyma orfodaeth filwrol ar ein cefnau heddiw. Beth a wnawn? Ewch, ebe un awdurdod ar wleidyddiaeth gydwladol, ewch fy mhraidd i ddysgu trin bidog a gwn i ladd eich brodyr. Mae Prydain Fawr yn gofyn i chwi gasáu eich gilydd felly, cásewch a lladdwch.*

*A RHYW Hen Lyfr digon rhyfedd yn dal i ddweud (os wyf fi'n cofio'n iawn) am i ni garu ein gelynion. Ond efallai mai hen argraffiad a welais i, ac efallai nad yw crefydd yn ddim ond peth i siarad amdano ar y Sul wedi'r cwbl.*

*Yma ac acw fe welais weinidog a blaenor gwerth yr enw a thynnaf fy nghap i'r rheini. Ar wahân iddynt hwy fuaswn i ddim yn aelod eglwysig hyd yn oed heddiw. Ni fu amryw o fy nghyfeillion mor lwcus, a chefnasant hwy yn llwyr. A bydd yn rhaid wrth rywbeth mwy na geiriau i'w cael hwy'n ôl.*

*Nid fy mwriad wrth ddechrau sgrifennu oedd bod yn gâs. Ond derbyniwch neu gwrthodwch y truth - gallaf fi ddweud ei fod yn onest beth bynnag. Ac nid yw o un iws i chwi ymosod arnaf yn y wasg ychwaith. Nid yw geiriau yn mynd i berswadio'r ifanc ar gwestiynau fel hyn.*

*Ers talwm yr oedd yna lo aur. Heddiw, y mae yna lo aur a mochyn tew. A'r hyn a ofynnais i mi fy hun oedd hyn - a yw'n rhyfedd fod gweinidogion yn pesgi gyda'r holl gyflogau a gânt a'r holl ham oer a fwytânt?*

*Fel y canodd un o'ch poetau chwi eich hunain:-*

Ddoe mewn Cyfarfod Misol ar lith ariannol sych,
Gwelais ryw afon loyw a llawer meindwr gwych...
Daeth llef yr ystadegydd fel cri colledig wynt:
"Daw'r gronfa hon eleni â phedwar ugain punt."
O! f'enaid, onid harddach pêd aethit tithau'n rhydd
O ganol Yr Anturiaeth Fawr heb bylu gwawr dy ffydd
Fel enaid llawer cymrawd gwir
I Fynwes Duw o Fonastîr?

Yn ddiddorol iawn, mae'r Golygydd wedi nodi 'nad yw'r 'Cymro', o angenrheidrwydd, yn cytuno â'r cwbl o'r syniadau [hyn]', sy'n dangos ei fod yn amlwg yn ymwybodol y gallai cyhoeddi'r ysgrif arbennig hon achosi cryn gynnwrf. Ond yn unol â pholisi'r papur yn gyffredinol, ei chyhoeddi a wnaed, a disgwyl wedyn am unrhyw ymateb a allai ddilyn. Fodd bynnag, yn rhyfeddol, dim ond un llythyr a ymddangosodd yn rhifynnau dilynol Y Cymro yn condemnio **Platiad o Ham a Phregeth**, a hynny â llawer o gydymdeimlad â safbwyntiau John Aelod Jones, a thri a gefnogai'r ysgrif yn fwy penodol, sy'n dangos o bosibl bod John Aelod yn fwy â'i fys ar bŷls curiad calon y bobl gyffredin nag oedd arweinwyr y capeli. Wele'r llythyr sy'n anghytuno â thôn gyffredinol yr ysgrif, yna un o'r tri llythyr a gytunai'n helaeth â'r hyn a ddywedai:

*CYTUNAF â llawer o'r hyn a ddywed "John Aelod Jones" a chydymdeimlaf â'i benbleth. Yr un pryd ystyriaf ei ysgrif yn un wan parthed ei mater a'i hysbryd a'i harddull. Pa ddiben ceisio tynnu gwawd-lun o Gyfarfod Misol neu Gyfarfod Chwarter?*

*Y mae'n debyg y tybia John Aelod Jones ei fod yn hynod o ddeifiol ac effeithiol wrth ddweud mai "bwyta ham oer" yw "prif bwrpas y cyfarfod." A oes angen egluro mai ugain munud (dyweder) sydd yn angenrheidiol i fwyta ham oer a'r gweddill o'r ymborth a baratoir mor*

*garedig gan chwiorydd yr eglwys lle y cyferfydd y Cyfarfod Misol? Rhaid i hyd yn oed weinidogion a blaenoriaid gael "peth i'w fwyta" (chwedl Iesu Grist), oblegid dechreua y C. M. yng Nghymru tua deg o'r gloch a pharha hyd bedwar; ond nid oes berygl i "weinidogion besgi" ar blatiad o ham unwaith y mis.*

*Rhaid i'r gwahanol enwadau gynnal eu cyfarfodydd i drafod a dwyn ymlaen eu busnes. A glywodd John Aelod Jones erioed am gymdeithas heb ei swyddogion a'i phwyllgorau? Ac y mae'n debyg mai tynged swyddogion pob cymdeithas yw cael eu beirniadu, yn enwedig gan yr ifanc anffaeledig, ond "nid oes neb yn anffaeledig, hyd yn oed yr ieuengaf." Fe feirniedir y Cyfrin-gyngor a'r Senedd, ac fe feirniedir yr Eglwys Gristnogol a'i chynadleddau amrywiol. Sonia John Aelod Jones lawer am "gapeli" yn ei ysgrif, ond dymunwn ei atgoffa mai adeilad (o gerrig fel rheol) yw capel; y term priodol yw "eglwys".*

*Nid yw "John Aelod Jones" yn ddigon hen i gofio John Williams, Brynsiencyn, a'i bregeth fawr ar Balaam yn yr hon y cyfeiriodd gyda grym ysgubol at y pechod o "regi eglwys Dduw". "Pa fodd y rhegaf yr hwn (neu'r hon) ni regodd Duw?" Y mae'r Eglwys Gristnogol yn amherffaith iawn, ond a ŵyr "John Aelod Jones" am gymdeithas well? Rhan o'r Eglwys yw Byddin yr Iechydwriaeth yr hon a edmyga "John Aelod Jones". Gan ei fod yn anfodlon ar y "capeli" onid gwell fyddai iddo ymuno â'r Fyddin honno?*

*"Y mae bai ar yr ifanc neu ar y capeli", meddai. Y gwir yw bod bai ar y ddau: mae'r eglwysi (adeilad yw capel meddaf eto) yn rhy hoff o bleser a heb ddiddordeb yn y pethau sydd ynglŷn wrth iechydwriaeth. Cydnebydd "John Aelod Jones" iddo weled "yma ac acw weinidog a blaenor gwerth yr enw"; beth os yw y rheiny yn amlach nag a feddyliodd ond bod ei brofiad ef a'i gylch yn gyfyng? Ni ddylid coll-farnu gweinidog a blaenor, modd bynnag, am beidio gwrthod platiad o ham. Fel yr heneiddia "John Aelod Jones" gwêl bethau'n wahanol, daw'n fwy goddefgar, a chawn lith amgenach ganddo pan fydd, fel ei gyfenw yn "Y Dreflan", yn "gysfennu i'r Wasg".*

*H. P. ROBERTS.*

*Wallasey.*

*Y NEFI fawr be' sy' ar "John Aelod" yn stido a starnu pobol "dda" y capeli; ydi o ddim yn gw'bod ffasiwn le fuasai 'ma onibae am danyn 'nhw - pobol y pulpud a'r sêt fawr.*

*Y nhw sy'n cadw trefn ar bobl y lle. Y nhw sy'n gwneud troion "da" â'u cymdogion, ac yn siarad yn neis yn eu cefn. Gwragedd y rhain sy'n arwain mewn ffasiwn; ma' nhw mor ffasiynol nes codi awydd ar genod y stryd i berthyn i'r capel.*

*Y nhw sy'n helpu siopwrs y lle i "fyw", trwy anfon i ffwrdd am bob peth, ond cadach llestri.*

*Be' sy' haru John Aelod yn wir? Mae'n siarad fel tasa fo 'rioed wedi bod mewn capel.*

*Be' sy' haru o wir! Ond yn 'i nabod nhw mae o - yr arweinwyr hyn.*

*Gorau po gyntaf y deëllir gan yr "arweinwyr" hyn mai nid yn hir y goddefir y chwarae hwn ynglŷn ag achos y Gwaredwr Mawr. 'Does dim achos drwy'r byd i gyd yn cael cymaint cam â hwn. Dealled y bobl hyn fod pwerau yn ymsymud, fyn chwarae teg maes o law i'r Deyrnas hon nad yw o'r byd hwn.*

*Os mai eglwysi ydynt, ac nid capeli, ys dywed "H. P. Roberts, Wallasey", yna gwaeth fyth.*

*"HAM OER."*

*Sir Fôn.*

*O. N. - Diolchwn, fel "J. A. J." fod eithriadau i'w cael.*

Yn rhifyn 12 Awst 1939 o'r Cymro ymddangosodd ysgrif ddadleuol arall gan John Aelod Jones, y tro hwn yn codi cwestiynau difrifol ynghylch dewis yr Athro Daniel yn llywydd newydd y Blaid Genedlaethol. Fel y gwelir isod, mae'r ysgrif hon yn union fel pe bai wedi ymddangos yn un o rifynnau'r Lol modern, gan fod John Aelod Jones nid yn unig yn datgelu 'sgandal' honedig ynghylch rhyw agwedd ar y bywyd Cymreig, ond yn gwneud hynny wedi iddo 'glywed' tystiolaeth gan bobl (nad enwir wrth gwrs) sydd i fod yn 'dal cysylltiad swyddogol â'r Blaid'. Sylwer hefyd ar y rhestr o gwestiynau rhethregol ar ddiwedd yr ysgrif, sydd unwaith eto'n nodweddiadol o arddull y papur dychanol:

*Pan Ddewiswyd Olynydd I Saunders Lewis*

*DAETH ac fe aeth Ysgol Haf y Blaid Genedlaethol ac y mae'r gweithrediadau yn hen hanes bellach. Ond y mae un neu ddau o bethau na ddywedwyd mohonynt ar goedd hyd yma, er y bu cryn dipyn o siarad o'r tu ôl i'r drysau, megis.*

*Y mae un peth yn dod yn fwy amlwg flwyddyn ar ôl blwyddyn, sef fod y gagendor rhwng yr arweinyddion ac adran o'r aelodau cyffredin yn mynd yn fwy bob dydd.*

*Yn fyr, dyma ddwy ran sy'n dod i amlygrwydd yn rhengoedd y Blaid.*

*Y rhan a gynnwys y prif arweinyddion, sydd mor bendant yn erbyn Sosialaeth ag ydynt yn erbyn Lloegr. Fe aeth rhai nad ydynt yn perthyn i'r Blaid mor bell â galw'r rhain yn Ffasgaidd.*

*Yn gwrthryfela'n ddistaw yn erbyn y rhain y mae adran fwy Sosialaidd (neu fwy gwerinol, os yw'n golygu'r un peth).*

*Rhag i neb amau'r gosodiadau hyn, egluraf i mi adnabod am flynyddoedd nifer helaeth o aelodau'r Blaid sy'n Sosialwyr yn y gwraidd. Aeth y rhai mwyaf beiddgar ohonynt fel Mr. Harri Gwyn Jones yn ôl i gorlan Llafur yn gyhoeddus. Llithrodd y lleill yn dawel at eu cariad cyntaf, ac yr oedd y tri brawd a fu'n genedlaetholwyr gweithgar yn y Blaid ddwy flynedd yn ôl yn dweud wrthyf y tu allan i'r Ysgol Haf ei hun fore Sadwrn eu bod wedi ymuno â'r blaid Gomiwnistaidd.*

*Ond yr oedd Sosialwyr eraill, mae'n amlwg, yn parhau yn aelodau o'r Blaid, ac yr oedd eu sylwadau hwy, a'r rhai a oedd mewn cydymdeimlad â hwy ar ddewisiad y llywydd newydd yn ddiddorol dros ben.*

*Ymddengys oddi wrth yr hyn a glywais gan aelodau o'r Blaid wedyn fod mwy nag a ymddengys ar y wyneb yn y ffaith i'r cwestiwn gael ei hanner godi yn y gynhadledd fore Sadwrn, a oedd yn rhaid i'r Llywydd fod yn Llywydd am bedair blynedd.*

*Dyma sylwedd yr hyn a glywais wedi i'r Athro Daniel gael ei ddewis:*

*(a) Ei fod wedi cael ei wthio ar y Blaid.*

*(b) Fod penaethiaid y Blaid wedi rhagweld y dewisiad newydd mor bell yn ôl â 1937 pan basiwyd yn Ysgol Haf y Blaid yn Llandysul fod y llywydd i barhau mewn swydd am bedair blynedd.*

*(c) Nad yw'r Blaid yn gryno o'r tu ôl i'r Athro Daniel.*

*Gallaf sicrhau'n bendant fod (c) yn ffaith. Ac ychwanegaf i wŷr sy'n dal cysylltiad swyddogol â'r Blaid ddweud eu bod hwy'n bendant fod (a) beth bynnag am (b) yn ffaith.*

*Hynod ddiddorol a fuasai cael ateb i'r cwestiynau isod hefyd (os oes angen ateb):*

*Onid yw'n ffaith i Mr. Saunders Lewis gadw'r ffaith ei fod am ymddiswyddo yn gyfrinach hyd y funud olaf?*

*Onid yw'n ffaith na wyddai'r canghennau ddim am y peth hyd nes yr anfonodd Mr. Saunders Lewis gylchlythyr iddynt ddau ddiwrnod cyn y dydd olaf i anfon enwau i mewn am Lywydd newydd?*

*Onid oedd yn amhosibl i'r canghennau gyfarfod ar y rhybudd byr yma i drafod y mater?*

*Onid un gangen yn unig a enwebodd y Llywydd newydd (yr Athro Daniel)?*

*Onid cangen Caernarfon oedd honno, ac onid oedd hon mewn safle i gael y wybodaeth ychydig o flaen y lleill gan mai yn y dref y mae Swyddfa'r Blaid?*

*Oni ddywedodd Mr. Saunders Lewis yn ei gylchlythyr ei bod yn amlwg pwy oedd y Llywydd newydd i fod?*

*Oni sylwodd canghennau fel Aberdâr yn bur anffafriol ar beth fel hyn?*

*Ac, yn olaf, onid personoliaeth, ac aberth, Mr. Saunders Lewis, a gadwodd y pethau hyn rhag cael eu gwyntyllu'n ormodol?*

Nid yn annisgwyl, ymddangosodd llythyr yn y rhifyn canlynol o'r Cymro yn ateb yr honiadau uchod, wedi ei ysgrifennu gan J. E. Jones, Trefnydd ac Ysgrifennydd y Blaid Genedlaethol yng Nghaernarfon, sy'n cloi â'r geiriau canlynol:

*....Na, syr, nid yw'r Blaid Genedlaethol mor ddiniwed ag y tybia "John Aelod Jones". Nis twyllir gan ymdrechion gwenwynllyd a chelwyddog i wneuthur niwed i'r Llywydd newydd (ac i'r Blaid Genedlaethol) trwy buteinio "personoliaeth ac aberth" yr hen.*

Gwelir felly bod y golofn 'Tywallt y Ffa' yn fwriadol yn ceisio corddi'r dyfroedd, ac yn llwyddo i wneud hynny.

Yn rhifyn 16 Medi 1939 newidwyd enw colofn John Aelod o 'Tywallt y Ffa' i 'Rhyngom Ni a'n Gilydd', newid bach iawn ar yr wyneb ond un a oedd i brofi'n arwyddocaol wrth edrych yn ôl ar ei ysgrifau gan y gwelir bod John Aelod ei hun hefyd wedi datblygu fel colofnydd wrth iddo ennill mwy o brofiad, a mwy o ddoethineb efallai. Dewisaf fy ngeiriau'n ofalus iawn yn y fan hon gan nad wyf am eiliad yn awgrymu bod John Aelod wedi colli dim o'i ddawn i adael argraff ar y darllenydd ('punch' ys dywed y Sais) ac nid yw ei ysgrifau ychwaith wedi colli dim o'u gonestrwydd noeth. Yn

wir, i'r gwrthwyneb gan y credaf bod yr ysgrifau 'Rhyngom Ni a'n Gilydd' yn fwy pwerus nag erioed am y rheswm syml eu bod bellach wedi eu hysgrifennu nid gan awdur ifanc rebelgar sy'n mynd allan o'i ffordd i bryfocio pawb a phopeth, ond yn hytrach gan ŵr hynod o graff a deallus sydd yn amlwg â greddf naturiol y newyddiadurwr ynddo ac sydd hefyd yn ysgrifennwr gwirioneddol ddawnus sy'n gwybod yn iawn pryd i adael marc ar y darllenydd.

Nid yn unig hynny, mae John Aelod yn amlwg yn ŵr o argyhoeddiad dwfn, yn Gymro i'r carn ac yn credu'n gryf yn y delfryd Sosialaidd o degwch i bawb, ac unwaith eto dyma gasgliad o ysgrifau gwirioneddol ragorol sy'n gaffaeliad mawr i'r Cymro. Oherwydd gwychder ei ysgrifau, buaswn yn medru dyfynnu dwsinau, os nad y cyfan ohonynt, i ddangos ysgrifennwr mor dda oedd 'John Aelod'; yn anffodus mae'n rhaid bodloni ar yr ychydig enghreifftiau isod nad ydynt yn gwneud cyfiawnder gwirioneddol ag ef. Mae'r ysgrif gyntaf o'r Cymro 9 Mawrth 1940 yn sôn am hanes gwarthus un o'r cwmnïau yswiriant mawrion yn trin un gŵr ifanc a alwyd i'r fyddin yn y modd mwyaf oeraidd ac annynol bosibl, ac mae geiriau olaf John Aelod Jones yn ysgytwol:

> *YR wyf newydd ddarganfod aderyn newydd - math arbennig o aderyn y mae'r amser presennol ym mywyd gweithwyr Prydain Fawr yn arbennig o addas i'w brifiant, fe ymddengys.*
>
> *Caniatewch i mi egluro fy nghyfeiriadau drwy osod o'ch blaen stori syml ond trist.*
>
> *Neithiwr daeth cyfaill tair ar hugain oed ataf. Seiniodd utgyrn rhyfel yn ei glustiau a galwyd arno i gofrestru fis yn ôl. Bellach bu dan archwiliad meddyg a phenderfynwyd fod yr esgeiriau cryfion a'r corff iach a ddatblygodd ar un o ffermydd y De yn ateb y pwrpas i'r dim. Gall galw fod arno unrhyw ddiwrnod yn awr.*
>
> *Ond ychydig ddyddiau'n ôl daeth dyn insiwrans ato i'w holi ynghylch ei dri pholisi a gododd ar ei fywyd dro'n ôl. Yr oedd y cwmni craff heb ollwng o gof ei fod mewn oed milwr a'i fod yn awr yn cael ei alw o'i waith i waith arall.*
>
> *Ac fe eglurwyd iddo y collai bob dimai a gyfrannodd at ei dri pholisi os na pharhai gyda'r taliadau tra byddai yn y fyddin, ac aed mor bell ag awgrymu y gallasai ei dad druan dalu'r cyfraniadau os na allai ef wneud hynny.*
>
> *Codwyd y tri pholisi cyn diwedd 1938. Yr oedd un i ddod â £35 i'r cyfaill ymhen deng mlynedd a thalai goron y mis tuag ato. Yr oedd y ddau arall i ddod â £300 iddo ymhen pum mlynedd ar hugain a thalai £2/10/- y chwarter ar gyfer pob un. Pan eglurwyd iddo y collai bopeth os na pharhai i dalu tra byddai yn y fyddin yr oedd wedi talu eisoes £35 - sef gwerth un polisi.*
>
> *Yn awr, mae nid yn unig ei dri pholisi, fe ymddengys, ond ei £35 hefyd yn mynd i afael y cwmni yswiriant. Cyflog cyffredin a gâi, ac nid*

*heb gryn ddarbodaeth y llwyddodd i dalu'r arian yma'n gyson, a ffolineb noeth yw awgrymu i'w deulu ymdrechgar eu talu ymlaen pan fydd y bachgen gyda'r fyddin.*

*Ei enillion wedi mynd, y sylfaen a osododd ar gyfer y dyfodol wedi mynd. Ac os daw'n ôl o ymladd dros y cwmni insiwrans hwn ac eraill bydd yn gorfod ail-ddechrau byw unwaith eto.*

*Y mae'r cwmni insiwrans yn un o'r rhai mwyaf yn y wlad. Ai dyna yw tynged y rhai a gododd bolisi ac na thalodd gyfraniadau atynt am ddwy flynedd lawn?*

*Y mae'r cyfaill wedi ysgrifennu at Aelod Seneddol ynglŷn â'r mater, a gobeithiaf y gwyntyllir ef yn llawn rhag ofn bod miloedd o rai eraill sy'n sicr o fod yn yr un safle.*

*Nid i'ch diddori, ond i'ch rhybuddio, yr adroddaf yr hanes hwn. Ymataliaf rhag gwneud unrhyw sylwadaeth ar y ffieiddbeth rhag i mi ferwino eich clustiau ag ymadroddion anhyfryd.*

*Ond rhaid i gwmnïau insiwrans fyw, medd un gŵr wrthyf pan adroddais y stori wrtho.*

*A raid? A RAID?*

*MAE'N RHAID I FECHGYN CYMRU FARW.*

Yn ei ysgrif gyntaf o'r flwyddyn 1941, a ymddangosodd yn Y Cymro 11 Ionawr, gwelir mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i John Aelod Jones wrth iddo'i dweud hi'n hallt iawn ynghylch safle druenus y gwasanaeth Cymraeg ar y radio; yn ôl ei arfer mae'n siarad yn gwbl blaen gan gyffelybu diffyg gweithrediad yr Aelodau Seneddol Cymreig ar y mater i'r anifeiliaid hynny sy'n cysgu dros y gaeaf. Sylwer arno yn yr ysgrif hon yn mynegi ei edmygedd o T. E. Nicholas a Saunders Lewis, er nad yw'n cytuno â gwleidyddiaeth yr un o'r ddau; sylwer hefyd ar ei hiwmor bachog, sy'n nodweddiadol ohono, yn rhan olaf yr ysgrif:

*BLWYDDYN NEWYDD WELL I CHWI I GYD - os nad wyf yn rhy hwyr yn eich cyfarch. Ond ni wna unrhyw gyfarchiad gennyf fi ddim gwahaniaeth i'ch blwyddyn chwi. Ac, o bosibl, yr ydych wedi hen ymgynefino â 1941 bellach ac wedi torri'r cwbwl o'r addunedau fil a wnaethoch ar ei dechreuad. Beth yw blwyddyn newydd wedi'r cwbwl? Dim ond parhad o'r hen a'i holl ofidiau, y tro yma beth bynnag.*

*Wn i ddim beth arbennig a fynnoch chwi ymdrechu i'w gael eleni - ond mwy o Gymraeg ar y radio, beth bynnag, a'm diddora i. Y mae pethau eraill, anhraethol bwysicach wrth gwrs. Ond y mae mwy o Gymraeg ar y radio yn rhywbeth y dylem ei gael, ac yn rhywbeth a gawn hefyd, mi gredaf, os oes digon o asgwrn cefn ynom i fynnu ei gael.*

*Y mae'r safle ar hyn o bryd yn warth ar genedl. Trinir ni fel plant, a chymerir ein chweugeiniau yn y fargen. Dau gan mil o bunnau yn y flwyddyn yr ydym yn eu talu mewn trwyddedau radio fel cenedl. Ar y mwyaf ni chawn bedair awr o Gymraeg yr wythnos amdanynt (llai na theirawr yn wir yn ddieithriad bron). Mil o bunnau yr awr yr ydym yn ei dalu am glywed ein hiaith ein hunain drwy gorn y weiarles - mil o bunnau, gydwladwyr dioddefgar.*

*A glywsoch chwi'r newyddion am bump weithiau? A ydych chwi ymhlith y gwynfydedigion hynny a orffennodd eich gwaith mewn pryd i'w clywed? Newyddion am bump? Ai cenedl yn byw mewn plys ffôrs ac yn cael cinio*

*gyda'r nos ydym ni? Newyddion am bump? I bwy, gyfeillion annwyl?*

*Os mai dyma'r amser delfrydol i newyddion - ac fe ddylai fod, gan mai dyma'r amser y rhoddir hwy i ni, a'r amser yna yn unig - a phob peth Cymraeg arall hefyd, paham na roddir newyddion yn Saenseg oddeutu'r amser yna hefyd? Dim tan chwech yn Saesneg. Dim cyfle i wrando cyn hynny gyda'r nos gan y Saeson.*

*Wel, deallwch hyn, - nid oes gennym ninnau amser i wrando ychwaith. Onid eglura rhywun i'r B.B.C.?*

*Gofynnodd gohebydd yn rhifyn diwethaf 'Y Cymro' pwy oedd y Saith Cysgadur. Gallaf ddweud wrtho - unrhyw saith a fynnoch o'r Aelodau Seneddol Cymreig. Pigwch hwy allan efo pin.*

*A phan gewch chwi gyfle i glywed y newyddion mewn Cymraeg rhyw b'nawn Sul rhyw dro, daliwch mewn cof eu bod yn costio rhyw gan punt y funud i chwi a'ch cyd-dalwyr trwyddedau o Gymry. Eithaf cyflog am gyfieithu.*

*NA feiwch y Cymry sydd ar y B.B.C. am brinder y rhaglenni Cymreig. Nid eu bai hwy ydyw. Diau eu bod mor anfodlon â chwithau ar yr amser. Fe wnânt hwy y gorau o'r gwaethaf, a phobl i gydymdeimlo â hwy ydynt. Gofalwch chwi am fwy o waith iddynt.*

*Ewch ati hi i anfon eich cwynion i'r wasg, i'r B.B.C., ac i'r Aelodau Seneddol hefyd. Fe ddeffry'r mwyafrif o'r cysgaduriaid rhyw dro, ac na anobeithiwch am y rhain ychwaith.*

*Dangoswyd dro yn ôl yn 'Y Cymro' nad oedd anawsterau technegol dros beidio â rhoddi rhaglenni i Gymry. Os gellir darlledu yn Saesneg gellir darlledu yn Gymraeg. Ac y mae'n rhaid i ni gael Cymraeg - y mae gennym hawl iddo. Yr ydym yn dechrau blino ar geisio chwerthin am ben pethau a gyfrifir yn ffraethebion Seisnig ac a ystyrir yn gymaint o hwyl gan y Saeson nes eu darlledu dro ar ôl tro gan wahanol bobl.*

*NEGES ddechrau blwyddyn papur lleol Saesneg a gyhoeddir yng Nghanolbarth Cymru oedd THERE'LL ALWAYS BE AN ENGLAND.*

*Nid oes yr un ohonom yn amau hynny. Yr hyn a amheuwn yw WILL THERE ALWAYS BE A WALES?*

*Ni chred rhai ohonoch mewn unrhyw fath o genedlaetholdeb. A chamddeallodd eraill ystyr y gair brawdoliaeth, gan gredu mai rhyw eangfrydedd ofnadwy yn eu natur yw rhedeg ar ôl Saeson a'u gwahodd i'w heisteddfodau a'u cyfarfodydd a'u clybiau.*

*Tueddai gohebydd yn 'Y Cymro' diwethaf (pethau gwych yw llythyrau i'r wasg, ac yr oedd llythyrau'r 'Cymro' yr wythnos ddiwethaf yn eithriadol ddiddorol) i gredu mai peth i'w basio heibio'n ddisylw yw'r ffaith i ŵr gael ei eni yn y wlad a'r wlad. Anghytunaf - ond pawb â'i farn.*

*Y mae hi'n rhyfel. Ar adeg o ryfel fel hyn, a ydych chwi'n barod i feddwl am Almaenwyr gyda'r un teimladau yn union ag y meddyliwch chwi am Saeson? Dyna'r maen prawf. Ie, ac ymhellach, a ydych chwi'n barod i ymddwyn yn union yr un fath ym mis Ionawr 1941 at Almaenwr ag at Sais? Dyna'r maen prawf arall. Gwaeddwch "brawdoliaeth" os y gellwch wneud hyn. A gwaeddwch "cynffona" os na allwch.*

*Peth cas bob amser yw rhagfarn. Ac y mae yna ragfarn yn erbyn cenedlaetholdeb Cymreig heddiw. (Y mae rhagfarn ofnadwy ym mhob awdurdod cyhoeddus a rhan helaeth o'r wlad yn erbyn y Blaid Genedlaethol, wrth gwrs). Peth ffiaidd yw rhagfarn. Peth sy'n dangos anwybodaeth - yn wir, anwybodaeth yw.*

*Comiwnydd yw Mr. T. E. Nicholas. Cenedlaetholwr yw Mr. Saunders Lewis. Pa sawl Cymro sydd yna â rhagfarn yn erbyn un neu'r ddau oherwydd eu daliadau gwleidyddol? Miloedd, yn sicr. Ond pa sawl Cymro sydd yna a fodlonodd ar aberthu cymaint dros eu daliadau gwleidyddol*

*hwy? Hanner dwsin?*

*Nid wyf fi na Chomiwnydd na Chenedlaetholwr, ond ni allaf ddiystyrru brawdoliaeth wir y naill a chenedlaetholdeb pur y llall. Neu buasai'n rhaid i mi wadu fy nghyfeillion a fy ngwlad. A diystyrru Cymru yw diystyrru Williams Pantycelyn a Cheiriog a chant a mil o bethau agos at galon creadur.*

*A diystyrru dyn yw - wel, fe ddylech wybod hynny y dyddiau hyn.*

*PRYNAIS bum llyfr yn ddiweddar na allaf beidio â chyfeirio atynt. Llyfrau'r Dryw yw dau ohonynt - Deg Pregeth a Catiau Cwta. Pris - swllt yr un.*

*Llongyfarchiadau i Aneirin ap Talfan ac Alun T. Davies ar eu hantur - canys antur yw. Yn wir, yr oeddynt am gyhoeddi'r llyfrau am chwech i gychwyn. Y mae pregethau ac epigramau yn apelio at Gymry, ac wedi gwneud am oesoedd.*

*Llyfr o ddetholiadau reit ffres yw Hwnt ac Yma (swllt) a dylid eu hanfon wrth y cannoedd i'r milwyr Cymreig.*

*A'r llyfr arall yw Llygad y Drws (2/6), sonedau'r carchar gan Mr. T. E. Nicholas a rhagymadrodd eithriadol dda gan Gwenallt Jones. Y mae fflachiadau llachar yn y llyfr ac ymdeimlad fyw â natur hefyd. Ei berygl yw syrthio rhwng dwy stôl - heb yn hollol gyrraedd y safon uchaf, a rhy dda i fod yn y trydydd dosbarth.*

*Eto, pe buasai Sais, yn gyfres yn y papur Sul yr ymddangosai ei fyfyrdodau carchar - ond nid am rai blynyddoedd!*

*A'r pumed llyfr yw fy Ration Book. Yn rhad ac am ddim - ond mwy gwerthfawr na'r oll.*

*Peth mawr yw cariad, ond peth mwy yw eisiau bwyd!*

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, yn Y Cymro 15 Mawrth 1941, gwelir ochr fwy dynol i John Aelod Jones wrth iddo gydymdeimlo yn y modd mwyaf diffuant bosibl â thrigolion Abertawe yn dilyn yr ymosodiad ar y ddinas o'r awyr. Nid yw'n ysgrif hir mewn cymhariaeth â rhai o'i ysgrifau eraill, ond oherwydd dawn ryfeddol John Aelod â'i ysgrifbin, a'i reddf naturiol i wybod lle'n union i roi'r pwyslais ar ryw air neu frawddeg, fe lwydda i adael argraff ddofn ar y darllenydd, prawf arall o'i athrylith fel ysgrifennwr:

*"AC wedi elwch, tawelwch fu." Tawelwch y bedd.*

*Meddyliais am bedwar o fechgyn (tri a minnau) yn cysgu yn yr un gwely ar noswaith damp ddigalon o ddechrau gaea' dair blynedd yn ôl. Nid noddedigion mohonom, er ein bod yn ddieithriaid perffaith i'r hotel hon a oedd orweddfa dreifars loris. Nid oedd pob hotel arall yn llawn ychwaith - mwy na'n pocedi ninnau.*

*Codasom drannoeth o'n ffeuau (neu, yn hytrach, o'n ffau) democrataidd i ymweld â theulu brenhinol. Yr oedd Prifysgol Cymru'n rhoi swydd uchel i dywysog a gradd uchel i'r dywysoges.*

*Ychydig a werthfawrogodd y stiwdants oedd yn Neuadd Brangwyn (gannoedd ohonynt) ar y seremoni. Er bod y Duc Caint yn frawd i frenin Lloegr, a'r Dduges (Marina) o deulu brenhinol Groeg, gwneud nadau digon hyll a wnaeth yr hogiau pan anrhydeddwyd y ddau.*

*Cafodd cwmni darluniau byw a droai gamra yno ar y pryd eu clodfori*

*gan Saeson wedyn am dynnu sylw anffafriol at y nadau hyn.*

*Ond rhyw feddwl am yr exams rhyngddynt hwy a'u bath â graddau'r Brifysgol a wnâi'r hogiau, a meddwl pa sawl cyfarfod brodyr a manijers miting oedd rhyngddynt hwy ag anrhydeddau'r byd.*

*Cefais fy hun, gyda thri arall (ond nid fy nghywely y noson cynt) gyfle i siarad ac i ysgwyd llaw â'r ddau frenhinol. (Clywais, ar ôl hynny, na olchodd un o'r cyfeillion ei law honno nes bu raid arno, o gywilydd, ymhen yr wythnos wedyn).*

*Cofiaf i'r Duc ein holi a fedrem siarad Cymraeg. Ac fe fedrai tri.*

*FE ddigwyddodd llawer er y dydd diweddar hwnnw yn Abertawe.*

*Bu'r elwch a'r tawelwch yn Abertawe.*

*Bu'r uffern nad all ond mudandod ei ddisgrifio yn Abertawe.*

*Bu'r tân ar Abertawe; ac nid oedd angen ei phuro.*

*Y mae hyd yn oed Aneirin ap Talfan gelfydd, athrylithgar yn gorfod distewi a mynd yn fud.*

*Ac yr ydym ninnau, Ogleddwyr a ystyrrir yn oeraidd gennych chwi, Ddeheuwyr, wedi'n synnu, wedi'n pensyfrdanu.*

*Gallaf yn dawel gymryd arnaf fy hun i anfon cydymdeimlad cannoedd o ddarllenwyr y golofn hon o'r Gogledd, atoch chwi bobl Abertawe. Nid ydym yn ddifeind o'ch dioddef. Ac nid yw ein cydymdeimlad mor wag â chydymdeimlad ein Haelodau Seneddol ychwaith; yr oedd ein cydymdeimlad ni gyda chwi a'n cydwladwyr dioddefgar yn y De er dechrau'r uffern hon.*

*A phan bleidiodd aml i Gymro dderbyn llochesiaid i Gymru o Loegr, cymerid yn ganiataol (gan <u>Gymry</u>) y gofelid am ein plant ein hunain yn gyntaf.*

*Fe ŵyr y byd a'r betws bellach fel y daliwyd plant bach Abertawe yn eu tref eu hunain heb allu ffoi.*

*Boneddigion hynaws a hoff (gan Saeson) sy'n "cynrychioli" Cymru yn Senedd Prydain Fawr, - y mae'ch dydd chwi ar ben, mei lads.*

*DAETH tro ar fyd arnaf finnau - do, rhwng dau ben ysgrif. Fel y sychai inc neithiwr ar y tudalen hon lleibiai amser y drachtiau olaf o'r gwaed coch cynnes Cymreig a gadwai fy nhaid yn ddyn.*

*Heddiw, sychodd y ffynhonnau. Y mae'r "blitz" a elwir bywyd ar ben. Tawelwch mwy. Tawelwch.*

*Tawelwch yr hwyr - nid tawelwch rhy fore Abertawe.*

*Wedi fy magu o fy nghrud ar ei aelwyd o dan ei olwg eryraidd, ychydig o bethau sydd gennyf nad wyf ddyledus iddo ef amdanynt. Pethau di-ildio a ddaeth o diroedd crintach Eifionydd. Ac nid ymddiheuraf i, a ofidiodd fel newyddiadurwr ar ôl llawer, am ladrata llinell neu ddwy i ofidio ei golli ef fel dyn.*

*Ni welaf ond un peth drwy niwl y funud heddiw. Gweld fel y goroesa amser amserau.*

*Canys goroesodd fy nhaid lawer o ryfeloedd Lloegr. Gwelodd ei synnwyr cyffredin gwladwr ar y funud y pethau a ddatguddiodd haneswyr synedig ychydig flwyddi wedi'r heldrinoedd.*

*Am bedwar ugain mlynedd a phedair gosododd ei galon yn erbyn pob tywallt gwaed - Transvaal, Ffrainc, etc., etc. Dilynodd ôl hanes heb yfed un propaganda. Do, hyd y diwedd.*

*A hyd yma, ni ddeilliodd daioni allan o ddrygioni.*

*Pum mlynedd arall....*

Cafwyd ysgrif gref arall gan John Aelod Jones yn <u>Y Cymro</u> 3 Mai 1941 yn trafod rhywbeth eironig ac anffodus, sef bod pobl dlotaf a mwyaf difreintiedig y gymdeithas yn llawer parotach na'r

bobl well eu byd i roi llety i'r noddedigion bychain adeg y rhyfel, ffaith sy'n dangos hunanoldeb dyn ar ei waethaf un. Yn yr ysgrif hon gwelir bod John Aelod, yn nodweddiadol, yn rhoi clod uchel 'i werin Cymru' ond mae'n llym iawn ei feirniadaeth o'r 'bobl fawr', gyfoethog hynny sy'n poeni mwy am gyflwr eu dodrefn a'u carpedi nag am les eu cyd-ddyn. Sylwer yn ail ran yr ysgrif ar y modd y mae John Aelod, yr un mor nodweddiadol, yn awyddus iawn i helpu'r tlodion trwy ddileu tlodi yn y lle cyntaf a chynnig iddynt 'dai ac addysg ac esiampl', gan ddangos mai Sosialydd ydyw sy'n teimlo'n gryf ynghylch annhegwch y gymdeithas. Ar nodyn gwahanol, sylwer ar ran olaf ei ysgrif sy'n trafod Seisnigrwydd y B.B.C. unwaith eto, a'i apêl i'r darllenwyr, neu'n hytrach y gwrandawyr, i weithredu mewn modd mwy uniongyrchol:

> *FFEINIO gwraig o Ilfracombe i £15 am wrthod derbyn dau blentyn i'w thŷ. A'r swyddog lletya wrth gyfeirio at dystysgrif meddygol a gyflwynwyd i gwyno ar iechyd y wraig yn dweud:-*
>
> *"Dealla'r byd a'r betws y rhuthra rhai pobl at y doctor pan glywsant fod llochesiaid ar y ffordd i'r dref a chael tystysgrif meddygol i ddweud nad ydynt yn ffit i'w cymryd."*
>
> *Y mae llawer "gwraig o Ilfracombe" yng Nghymru. Yn wir y mae anghyfartaledd mawr y dylai digllonedd y bobl gyffredin ac awdurdod y cynghorau lleol ei ysgubo ymaith.*
>
> *Pobl sy'n honni bod â'u calon yn y rhyfel yma am droi'r plant o'u drysau am eu bod yn fudron, yn drafferthus, neu'r ddau. Pobl â thai mawr ganddynt yn codi crogbris ar deuluoedd ar ffo am ystafelloedd rhag bod lle i'r plant.*
>
> *A'r tlawd druan, fel arfer, yn gorfod helpu'r tlawd - ac yn gwneud hynny hefyd. Yn ymgeleddu trueiniaid bach y slymiau. Rhoi dillad amdanynt a rhywbeth o dan eu hasennau.*
>
> *Clod i chwi, werin Cymru. Nid y chwi sy'n chwilio am dystysgrif meddyg. Nid y chwi sy'n ofni i blant faeddu eich carpedi llymion a difetha eich dodrefn prin.*
>
> *Daeth nifer o blant i dref Gymreig yn diweddar. Bu'r dref honno'n byw ar Saeson yn y gorffennol. Ond pan ddaeth y plant tlawd o Loegr yno am nodded fe brotestiodd 70 y cant o'r derbynwyr yn swyddogol rhag eu cadw. Caeodd plasau eu drysau.*
>
> *Fisoedd ynghynt bu swyddog drwy'r rhanbarth gwledig oddi amgylch yn chwilio am le i hen bobl o Lundain ddianc rhag y storm. Dyma a ddywedodd wrthyf:*
>
> *"Y mae'r werin dlawd Gymreig wedi bod yn anradlon o Gristnogol. Ond y bobl fawr a'r stiwardiaid yn gwarafun ac yn gwrthod, a chanfyddais wedyn bod llawer o'u hesgusodion yn anwireddus."*
>
> *Gellir rhoddi tri mis o garchar am wrthod plant. Mae'n bryd ei roi. Ac y mae'n bryd rhannu'r baich yn fwy cyfartal rhwng tlawd a chyfoethog hefyd - yn hen bryd.*
>
> *CWYNODD athro o ddinas arbennig fod y plant a lanhawyd yn y wlad yn mynd yn fudr yn ôl yn y dref mewn chwinciad. Beiai'r mamau.*

*Ffolineb. Bai'r amgylchedd, nid bai'r mamau yw. Ac nid yw'r ffaith fod sebon yn rhad yn profi dim. Paham, ynteu, y mae plant y tlawd yn fudr a phlant yr athrawon (dyweder) yn lân? Am na all y naill fforddio sebon?*

*Nage. Ond oherwydd rhoi addysg ym mhen a phres ym mhoced yr athrawon. Rhoi tai da, amgylchedd dda, traddodiad da iddynt. Rhaid i'r tlawd wrth hyn hefyd. Ac amser i gynefino â hwy. Amser, gyfeillion. Nid mewn noson y mae symud anobaith cenedlaethau - ie, canrifoedd. Pwyll.*

*Fe ddaw pethau'n well os helpwn ni'r tlawd trwy ddifodi'r tlodi, drwy dai ac addysg ac esiampl. Hyd yn oed os oes raid ysgubo cyfundrefn ymaith i wneud hynny.*

*Pa un yw'r gwaethaf - budreddi'r slyms ynteu crintachrwydd y tai mawr?*

*Ni anghofiaf blant y Deheudir ychwaith - ond un stori ar unwaith.*

*DAETH 'Cofion Cymru', cylchgrawn Cymraeg y Pwyllgor Diwylliant i Filwyr Cymru, i'm llaw. Dywedais o'r blaen bod pwyllgor a golygyddion y cylchgrawn yn O.K. Nid oes ond ychwanegu fod y cylchgrawn ei hun hefyd yn O.K. Ond disgwyliaf am farn yr hogia' serch hynny.*

*Y dyfyniadau, y doniolwch (yn enwedig y stori 'Bus Gwalchmai'), y myfyrdod crefyddol, y limrigau a'r englynion (er na hoffaf fi englyn Caledfryn - 'Mawryged gwir Gymreigydd', etc.), y stori fer a'r manion yn werinol ac yn wych.*

*Gwych iawn o ddechrau'n wir.*

*Ond - chwi eglwysi Cymru. Nid ydych yn gwneud eich rhan yn hyn o beth ychwaith. Da chwi, paham na anfonwch chwi, bob un ohonoch, at Mr. D. R. Hughes, Y Bwthyn, Min y Don, Old Colwyn, i ofyn am gopi ar gyfer pob bachgen a aeth o'r eglwys, ac anfon y cylchgrawn iddo? Y mae'n beth mor fach i'w ofyn. Onid e, mewn difrif? Ati'r Sul nesaf yma, ynte.*

*TRECHWYD y B.B.C. Seisnig ddwywaith yn ddiweddar. Diddymwyd ei waharddiad ar gerddorion, etc., i ddarlledu oherwydd eu gogwydd wleidyddol,a chyfarwyddyd y B.B.C. i ganolbwyntio ar ffeithiau yn y newyddion.*

*Fel protest yn erbyn y gwaharddiad ar yr arweinydd enwog, Syr Hugh Robertson, anfonodd Dr. Vaughan Williams at y B.B.C. i derfynu ei holl drefniadau ef gyda'r corff hwn gan ofyn am ei gerddoriaeth, etc., a oedd yn eu dwylo'n ôl. Golygai hyn golled ariannol sylweddol i'r cerddor Cymreig a haedda glod am ei ddewrder dihunan. Ymysg Saeson a brotestiodd yn gyffelyb yr oedd yr ysgrifenyddes adnabyddus Rose Macaulay.*

*Yng Nghymru terfynodd y Parch. John Owen, Morfa Nefyn, ei gytundeb yntau gyda'r B.B.C. gan iddynt ofyn iddo ef, fel pregethwyr Cymru, bregethu ar adeg pan byddai pobl yn hwylio i'r capel.*

*Dyna'r B.B.C. Pregeth amser capel; newyddion amser gwaith a fawr ddim arall. Tybed nad oes dim amdani ond ffordd ganmoladwy y Dr. a'r Parch? A ddeuai boicot â gwell trefn?*

*Ond dylai'r gwrandawyr wneud eu rhan hefyd. Pwyswyd o'r dechrau yn yr erthyglau hyn ar i wrandawyr ysgrifennu eu protestiadau i'r B.B.C.*

*Efallai na bu'r protestio'n ddigon cryf a chyson. Beth am Wythnos Brotest - a'r gwrandawyr Cymreig i gyd yn anfon i'r B.B.C. eu barn onest am y rhaglenni Cymreig, a hynny yn Gymraeg.*

*Pwy sydd o blaid?*

Er gwaethaf apêl John Aelod ni chafodd un llythyr yn cefnogi ei syniad ac meddai ar ddiwedd ei ysgrif ddilynol:

*GOFYNNAIS yn yr erthygl ddiwethaf pwy sydd o blaid Wythnos Brotest yn erbyn rhaglenni Cymraeg y B.B.C.*

*Yr ateb yw - neb.*

*Wyddwn i ddim o'r blaen y gellid bodloni cenedl ar gyn lleied o ddim. 'Does ryfedd ein bod mor gul.*

Ceir ysgrif wahanol iawn ei naws yn Y Cymro 20 Medi 1941 yn dilyn ymweliad John Aelod Jones â Chaban Cinio un o chwareli Blaenau Ffestiniog, a'r profiad gwefreiddiol a gafodd yno'n sylwi a gwrando ar 'Senedd' ddeallus a diwylliedig y chwarelwyr. Mewn oes mor ddigalon yr oedd ysgrif o'r fath yn chwa o awyr iach ond i ni heddiw mae hi o werth hanesyddol amhrisiadwy gan ei bod yn gofnod gwreiddiol o gymdeithas anghofiedig bellach. Mewn gwirionedd, mae'n anodd i rywun cyfoes amgyffred bod y chwarelwyr cyffredin hyn â chwaeth a safonau a diwylliant mor aruchel, yn enwedig o ystyried eu tlodi truenus a'u hamodau byw caled; pa ryfedd felly i John Aelod Jones ddweud 'Tynnaf fy het i'r chwarel':

*MI glywais galon Cymru'n curo y dydd o'r blaen; yn curo'n gryf a gwastad. A phe byddai'n arferiad gennyf siarad efo mi fy hun mi ddywedwn "y mae oes hir i'r hen wlad a'i thraddodiadau."*

*Es i Ffestiniog ar dipyn o fusnes, ac i borthi ychydig gywreinrwydd, dringais y gelltydd serth i chwarel Maenofferen gan gyrraedd yno'n ddigon chwyslyd erbyn yr awr ginio - neu'r hanner awr ginio i fod yn gysact.*

*Nid dyma'r tro cyntaf i mi fod yn Ffestiniog, ond dyma'r tro cyntaf i mi gael diwrnod o hindda yno. A'r tro cyntaf i mi ymweld ag un o'i chwareli. Y tro diwethaf y bûm yn y Blaenau yr oedd heddwch a dirwasgiad yno. Heddiw, rhyfel a phrysurdeb. Rhaid oedd cael drychiolaeth ofnadwy rhyfel i lanw cypyrddau'r chwarelwyr, mwya'r piti.*

*Rhyw drigain y cant o'r rhif llawn sy'n gweithio yno'n awr, a phrinder dynion yr unig reswm na buasai cant y cant. A'r cyflog yn weddol yn unig. Deuddeg a chwech y dydd a hanner hynny ar y Sadwrn. Dechrau am saith, cinio o hanner awr wedi unarddeg hyd ddeuddeg, gorffen am bedwar.*

*Gyda'r byw costus presennol, credaf y dylai'r cyflogau fod yn llawer iawn iawn uwch.*

*OND ynglŷn â'r awr ginio yna. Cyfarwyddwyd fi i'r Caban Newydd yn Chwarel Maenofferen gan swyddogion trwyadl Gymreig. (Ni chlywais air o ddim ond Cymraeg yn yr holl chwarel, gyda llaw).*

*Yr oedd y Caban Newydd yn neuadd helaeth, a dwymir yn dda yn y gaeaf, a thrydan i ferwi dŵr at ginio ynddi. Gofala'r oruchwyliaeth am y Caban ac y mae gofalwr iddi ganddynt.*

*Ac ar feinciau oddi amgylch y byrddau pren eisteddai'r gwŷr llychlyd a fu wrthi ers saith o'r gloch y bore yn troi'r cerrig yn fara. Tecell ar y bwrdd rhwng pedwar neu bump. Pawb â'i fwyd yn ei dun; ambell i domato yn gwrido y tu ôl i ambell frechdan; ychydig jam yn trwytho allan drwy'r bara; darn o gaws, mymryn o gig. Pawb â'i ddewis - os dewis hefyd ar y fath adeg. Hwn â'i de, hwn â'i ocso.*

*A dadwrdd y trin a'r trafod yn cyniwair o fwrdd i fwrdd.*

*Ond nid criw o ddynion yn cyfarfod i leibio'r bwyd a mân-siarad oedd yno, ond cymdeithas o chwarelwyr. Cymdeithas drefnus ddiwylliedig.*

*Yr oedd i'r caban ei reolau a'i swyddogion. Dewisid y swyddogion yn y modd mwyaf gwerinol posibl, ac yr oeddynt i barhau yn eu swydd am ddau fis. Fel hyn deuai cyfle i bawb.*

*CLYWYD llawer o sôn am y dadlau, etc., a fyddai ar awr ginio yn y chwarel yn yr hen amser. Awgrymwyd i bethau felly ddarfod bellach ac mai galifantio efo'r byd bondigrybwyll a wna'r chwarelwyr bellach.*

*Hanner munud. Sylwch ar reolau'r Caban. Dim iaith anweddus; dim cardiau ffwtbol i'w dangos na'u llenwi; parchu'r tŷ fel petai'r aelwyd gartref; penodi aelod o'r tŷ i ymweld ag aelod a fai'n wael bythefnos, ac ail ymweliad ymhen y mis. Dim smocio hyd nes y daw caniatâd y Llywydd. A phan sylwch ar y rheol a wahardda aelod i siarad fwy nag unwaith ar unrhyw bwnc, sylweddolwch ar unwaith eich bod mewn rhywle amgenach na thŷ bwyta hyd yn oed.*

*Dyma, yn wir, senedd y chwarelwr. Wedi trin a thrafod yma y caniatawyd mwy o de a siwgr i'r chwarelwr gael cinio desant ar ôl ei waith caled. A'r dyddiau hyn fe geisiant ddillad ychwanegol fel a ganiateir i weithwyr eraill.*

*Dylai eu cydwladwyr sylwi ar y cais hwn. Y mae chwarelyddiaeth yn sicr, yn oruchwyliaeth sy'n dweud cymaint, os nad mwy, ar ddillad ag unrhyw waith.*

*Gohiriodd y chwarelwyr eu trafodaeth ar gwestiwn y dillad y dydd pan elwais gan fod "gŵr diarth" yno, a'r hen letygarwch traddodiadol Cymreig a arhosai mor gryf yn eu gwaed am roi pob croeso iddo. Yn wir, mynnwyd i'r "gŵr diarth" ddweud gair. Gwnaeth hwnnw lanast ar bethau drwy geisio mwmblian rhywbeth am ddiwylliant y chwarel gwaethaf yn ei ddannedd. Gosododd chwarelwr ar ei ôl, pa fodd bynnag, y mater yn llawer cliriach - diolch byth.*

*Buasai'n llawer gwell gen i petai'r chwarelwyr wedi mynd ymlaen i drafod mater y dillad. Yr oedd yn anhraethol bwysicach ar y funud. Amodau byw priodol yn gyntaf; daw'r diwylliant wedyn. Digon ym moliau pobol, ac fe ddaw'r pen ato'i hun. Ac y mae diwylliant chwarelwyr Ffestiniog yn olreit, beth bynnag fo'r amgylchiadau.*

*Mr. Hugh Richard Roberts oedd y llywydd caredig a slei a'm gwthiodd ar fy nhraed. A chefais sgwrs ddiddorol gyda Mr. Lewis Moelwyn Jones, yr ysgrifennydd, wedyn. Y tro diwethaf y gwelais i ef oedd yn arwain eisteddfod Nadolig o bwys ac yn beirniadu adrodd ynddi. Dyna i chwi'r bywyd llawn.*

*Daw yr is-lywydd, Mr. William Morgan Williams, yn llywydd am y ddeufis nesaf, pan â defaid Hugh Richard yn ddefaid William Morgan am dro.*

*CHWI bobl sy'n cynadledda'n farwnadol uwchben y diwylliant Cymreig - i chwi y cyflwynaf yr erthygl hon. Ewch i'r chwareli am dro i weld sut y mae'r chwarelwyr yn byw eu diwylliant yn hytrach na siarad yn ei gylch.*

*Dim ond hanner awr gwta rhwng y caletwaith i fwyta ac i ddiwyllio ar unwaith. Pe baech yn y Caban Newydd ddiwrnod o fy mlaen, caech glywed chwarelwr llychlyd (Mr. J. W. Roberts) yn traddodi darlith ar ei ddewis bwnc - seryddiaeth, - pwnc na ŵyr dim mwy na rhyw ddyrnaid o'i gydwladwyr dysgedig unpeth yn ei gylch.*

*Pe galwech yno gefn trymder y gaeaf, caech wrando ar Eisteddfod, a honno'n para am bythefnos neu fwy. Tri neu bedwar amser cinio'n mynd i'r gystadleuaeth adrodd, ac amser hamddenol i'r cystadleuthau eraill i gyd. Dyna i chwi Gymry.*

*Ac y mae'r bywyd yma'n cyniwair drwy'r chwareli i gyd. Ni ddewisais*

*i'r Caban Newydd yn fwriadol - dim ond galw yn y lle agosaf i law yn Ffestiniog yn hollol ddi-rybudd. Ac ofn yn fy nghalon mai fy siomi a gawn; ofni'n ofer iawn.*

*Mewn chwarel gyfagos y mae Mr. J. W. Jones wrthi hi y funud yma. Heno, yn paratoi ei Fainc 'Sglodion, a miloedd lawer o ddarllenwyr 'Y Cymro' yn elwa mwy arni nag ar waith llawer o'n hathrawon colegau, a mwyafrif ein haneswyr "diwylliant".*

*Tynnaf fy het i'r chwarel.*

*Ac un awgrym i'r chwarelwyr. Defnyddiwch y wasg fel y defnyddiwch eich Caban i wyntyllio'ch problemau ac i hau eich diwylliant. Y mae colofnau'r papurau Cymraeg bob amser yn agored i chwi, a gallant fod o werth ymarferol iawn i chwi. Os na hidiwch am y bobl fawr sydd weithiau'n defnyddio'r wasg anfonwch i mi drwy Swyddfa'r 'Cymro', Croesoswallt. Nid oes a wnelo ni yma ag un o'r teulu.*

Ym 1943 bu'r ymgyrch fawr i gael Ysgrifennydd i Gymru ac fel y gellid disgwyl yr oedd John Aelod Jones yn ei chefnogi gant y cant. Dyma ran o'i ysgrif o rifyn 6 Tachwedd y flwyddyn honno sy'n nodweddiadol o nifer o ysgrifau ganddo'n trafod pwnc yr Ysgrifennydd:

*Gwir Gytundeb Yng Nghymru*

*Y MAE Cymru'n gytûn, y mae ei Haelodau Seneddol yn gytûn, ac os llywodraeth y bobl, gan y bobl, er mwyn y bobl yw gweriniaeth o hyd, fe ddylai'r cytundeb yma sicrhau Ysgrifennydd i Gymru y tro hwn.*

*Rhoddodd Cymru ei chalon yn yr ymgyrch ac ni chafodd yr un ohonom ni, blant y genhedlaeth bresennol a fagwyd i weld y locustiaid yn difa'r blynyddoedd, brofi o'r blaen y fath unoliaeth ymysg pob adran o'r genedl na gweld ychwaith arweinyddion pob cylch ar ein bywyd yn canolbwyntio ar un cwestiwn cenedlaethol mawr gyda'r difrifoldeb a'r diwyrni cyson hanfodol.*

*Y mae'r ffrynt oddeutu dwy fil o filltiroedd yn Rwsia ond nid yw Stalin yn lluchio ei filwyr yma ac acw yn ddigyswllt yn erbyn y rhan yma a'r rhan arall o bob milltir o'r dwy fil yna, eithr yn crynhoi ei adnoddau ar ran arbennig o'r ffrynt ac yn taro yno, ac yn torri drwodd.*

*Yng Nghymru ymosodasom ar ffrynt rhy eang, a phrin, o ganlyniad, y llwyddasom i fylchu'r ffrynt unwaith. Ond bellach rhaid i bobl Llanfairpwllgwyngyll ddysgu oddi wrth bobl Dnepropetrovsk.*

*Y MAE mwy na chri gwleidyddol ac economaidd y tu ôl i'r cais am Ysgrifennydd Cymru. Y mae yma gri o'r galon hefyd.*

*Heddiw y mae enaid y genedl mewn perygl ac y mae'n bosibl iddi beidio â bod yn genedl drwy i'r cysylltiadau â'i ceidw ynghyd ddirywio a darfod amdanynt. I'r graddau y digwydd hyn y lleiha nifer y bobl sy'n barod i ddweud "Cymro wyf fi" neu "I am a Welshman." A phan beidia'r bobl ag ymwybod â'u cenedlaetholdeb, yna fe beidia'r genedl â bod.*

*Yn ei waith mawr diweddar ar Ddyfodol India fe ddywed yr Athro Coupland: "If a people feels itself to be a nation, it is one." Tynnaf eich sylw difrifol at y disgrifiad syml a threiddgar yna o genedl.*

*Aeth y duwiau'n brin ac yn ddieithr yng Nghymru'n ddiweddar. Nid John Elias na Llew Llwyfo a lwyddodd i godi'r bobl ar flaenau eu traed yn y deng mlynedd a fu ond Tomi Farr a Bryn Jones. Ar gae'r bêl-droed yn unig bron y gellir clywed Cymry o bob sect a phlaid ac iaith yn cyd-*

*waeddi "Play up Wales."*

*Nodweddiadol o'r helfa am dduwiau yw'r cais am dduwies. Pan gollwyd Tywysog Cymru, teimlodd llawer bod colli'r teitl yn colli i Gymru un o'r sefydliadau a gydnabuai enw Cymru yn wyneb y byd.*

*O ganlyniad, a gyda'r gallu anhygoel sydd gan gynghorwyr i or-symleiddio problemau, gofynnir yn awr am Dywysoges Cymru.*

*Ond dylid cofio bod y cais am Ysgrifennydd hefyd yn gais am gydnabyddiaeth i Gymru ac fe ystyrrid gwrthod Ysgrifennydd yn wrthod cydnabod Cymru ac ni chyfyngid yr adwaith i un adran o'r boblogaeth.*

*Nid fel rhyw broffwyd a ddaw i ddatrys ein holl broblemau y soniaf am Ysgrifennydd. Ond yn sicr nid dyma'r adeg i chwilio i ffaeleddau ei swyddogaeth. Y dewis parhaus i ni yng Nghymru yw rhwng ychydig a dim, ac nid "taeogrwydd" a'n rhwystrodd cyhyd rhag cael yr ychydig ond diffyg synnwyr cyffredin i uno â'n gilydd pan hawliwn yn rhesymol.*

*Bydd sefydlu Swyddfa Gymreig, ar wahân i'r manteision materol sylweddol, yn cydnabod bod y fath bethau â phroblemau Cymreig. Bydd yn help i ni yng Nghymru osgoi ymosod ar ffrynt rhy eang pan geisiwn wella ein safle a'n byd yn y dyfodol. Bydd yn rhywbeth cyffredin y gall pob Cymro ei gymeradwyo, neu ei feirniadu. Fe helpa i dynnu'n meddyliau a chanolbwyntio'n hegnïon cenedlaethol ar bethau mwy sylweddol na bocsio a phêl-droed a'r duwiau dieithr a addolwyd am eu bod yn dduwiau o Gymru.*

*Nid bychan yw'r cyfrifoldeb a osodwyd ar y Prif Weinidog....*

Ymddangosodd ysgrif yn Y Cymro 11 Mawrth 1944 a oedd yn feirniadol iawn o'r Blaid Genedlaethol, a chyhuddir hi o fod yn chwerw a chenfigennus. Fe'i dyfynnaf am fod meddylfryd John Aelod Jones ynddi'n nodweddiadol o agwedd cynifer o bobl y cyfnod tuag at y Blaid Genedlaethol, pobl a ystyriai eu hunain yn Gymry i'r carn ond na allent yn eu byw uniaethu â hi:

*'CANASOM glodydd i furiau gwyngalch prydferth yr hen fythynnod Cymreig a chanasom 'O Fryniau Caersalem' wrth fedd tenant ar ôl tenant', meddai Mr. Huw T. Edwards mewn erthygl ar 'Beth a Fynnaf i Gymru' yn rhifyn diwethaf 'Wales' - cylchgrawn sy'n lledu ei adenydd ac yn gwella, a rhifyn sy'n well am hanner coron na'r ddau rifyn blaenorol am ddeunaw.*

*Ond nid dyma'r golofn i adolygu llyfrau ac ni allaf wneud mwy na thynnu sylw at ysgrif Mr. Edwards , sy'n Undebwr Llafur amlwg, yn ŵr sy'n dal i weithio'n galed ac nid yn gwbl ofer i sicrhau diwydiannau newydd arhosol yng Ngogledd Cymru ac yn aelod ffyddlon ond aflonydd o'r Blaid Lafur.*

*Fel Sosialydd geilw Mr. Edwards am hunan-lywodraeth i Gymru, ond am resymau gwahanol ac ar ffurf wahanol i hunan-lywodraeth y Cenedlaetholwyr, ac am Senedd â'i hiaith yn Saesneg i Gymru i reoli bywyd Cymru i gyd ar wahân i ddarpariaethau amddiffyn y wlad rhag gelynion. Ond gesyd y pwynt hwn yn anffodus o aneglur.*

*Geilw am Blaid Lafur Gymreig a gysylltir â'r Blaid Seisnig, a geilw ar radicaliaid Cymru o bob gradd i uno.*

*Hoffai weld cau tri chwarter ein lleoedd addoldai neu eu defnyddio mewn dull mwy effeithiol. Mae gormod o seddi gweigion mewn gormod o gapeli, meddai, ac y maent yn tynnu gormod oddi ar adnoddau materol y gymdeithas. A 'hoffwn weld fy nghenedl yn cael gwared o'r rhagrith sy'n gysylltiedig â'i bywyd crefyddol', ysgrifenna.*

*Hoffai weld symud yn orfodol chwarter poblogaeth cymoedd y Rhondda*

*i froydd newydd fel y ceir bywoliaeth i'r bobl.*

*Hoffai weld rhedeg y diwydiant ymwelwyr ar linellau Cymreig ac nid ar linellau Blackpool, gweld gorfodi dysgu'r iaith Gymraeg yn yr ysgolion, gweld arweinydd ac ysbryd newydd yn y wlad.*

*WRTH ddarllen y pwyntiau uchod yn ystyriol - pwyntiau sy'n ddigon dewr a didwyll i godi ambell i wrychyn yn ogystal ag ambell i galon - holwch eich hunain, beth a gafodd Cymru'n fantais wleidyddol neu economaidd arbennig iddi ei hun yn ystod y chwarter canrif diwethaf.*

*Yn y blynyddoedd diffrwyth a'r byd yn carlamu tua dirwasgiad cyffredinol sefydlwyd y Blaid Genedlaethol i geisio hoelio sylw ar broblemau Cymru, fan leiaf, ac i'w hachub, os gellid.*

*Ni chollfarnwyd y Blaid hon ar y cychwyn a rhyw dro neu'i gilydd bu cyfran helaeth iawn - onid yr helaethaf - o wŷr amlwg y bywyd Cymreig yn aelodau ohoni. Yn wir, fe synnech pe gwelsech pwy sydd mewn darluniau a dynnwyd o Ysgolion Haf y Blaid Genedlaethol yn y blynyddoedd bore.*

*Pe arhosai pob aelod o'r "Blaid" yn y cyflwr hwnnw, buasai ei haelodaeth a'i chynnydd yn fwy nag y cred hyd yn oed Mr. Huw T. Edwards ei fod. Ond rhyw fynd a dod diderfyn yw hanes y Blaid Genedlaethol, a'i chyn aelodau'n ddigon cryf ers tro i ffurfio Gwrthblaid, os nad y Llywodraeth, yn Senedd Gymreig y dyfodol.*

*Ymunodd llawer o Gymry â'r Blaid Genedlaethol am eu bod yn Gymry da, ac heb fawr "grap ar lythrenne" gwleidyddiaeth. Aethant i'w hystyried yn fudiad Cymreig yn hytrach nag ymgyrch wleidyddol, ac yr un mor sanctaidd ac uwchlaw pob beirniadaeth â mudiadau Cymreig yn gyffredinol.*

*Ceir llawer o bobl tebyg i fyfyrwyr yn y categori hwn. Wedi gadael y coleg, pa fodd bynnag, a wynebu'r byd fe'i ca rhai o'r rhain hi'n hwylusach i'w swydd neu fusnes adael y Cenedlaetholwyr. Fe â eraill gonestach i'r Blaid Lafur a'r Blaid Gomiwnyddol; fe barha nifer fach (yn enwedig gweinidogion a gafodd alwad) i gefnogi'r Blaid fel mudiad; ac fe â'r ychydig bach, bach dethol i mewn i gyfrinachau'r meistr fel y dônt yn feistri eu hunain gyda llaw.*

*Gadawodd llawer o aelodau blaenllaw a chyffredin y "Blaid" oherwydd ei chlicyddiaeth damniol, oherwydd ei harwr-addoliaeth ac oherwydd ei han-oddefgarwch.*

*A chollodd rai o'i haelodau mwyaf sylweddol am ei bod yn blaid geidwadol - yn adweithiol. Nis dallwyd y rhain gan y gorchuddion trymion a roddwyd dros y geidwadaeth yma, canys ceidwadaeth yw ceidwadaeth, er y gall fod yn geidwadaeth "oleuedig" debyg i un y propagandydd Druker a lygad-dynnodd gymaint o Gymry, ond a adnabuwyd yn unionsyth gan y Saeson.*

*YN awr, wedi ugain mlynedd o'r Blaid Genedlaethol, beth yw'r cynhaeaf? Mewn un gair - chwerwedd. Chwerwedd dim mwy.*

*Yng Nghaernarfon, Aberystwyth, Caerdydd - chwerwedd.*

*Ac ymddengys ei bod yn well gan fwyafrif Cymru drengi yn yr anialwch na dilyn Moses y Blaid Genedlaethol i unrhyw fath o Wlad yr Addewid a all fod y tu draw.*

*Nid yw safle fel hyn yn beth i neb ymffrostio ynddo.*

*Y mae tri dewis - ymuno â'r Blaid Genedlaethol; ffurfio plaid newydd; cael y gwleidyddwyr (sylwer) presennol sydd yng Nghymru i ymffurfio'n Bleidiau Cymreig - Llafur (fel yr awgryma Mr. Edwards), Rhyddfrydol, Ceidwadol a Chomiwnyddol hefyd, os mynnwch.*

*Ni all pawb ymuno â'r "Blaid", ac nid yw'n beth democrataidd gweld pawb mewn gwlad yn yr un blaid - fel y cytuna'r "Blaid". A lledrith anghyraeddadwy, yw undeb gwleidyddol mewn gwlad fel hon. Ymuned y rhai*

*sy'n dewis polisi'r Blaid Genedlaethol - ac yn ei ddeall - â'r Blaid honno.*

*Yn bersonol amheuaf ddoethineb sefydlu plaid newydd. Nid yw'r proffwyd a allai ei chenhedlu fel y buasai ganddi apêl glir a chref i'r werin yma eto. Mae gormod o genfigen yma. Y Blaid Genedlaethol yn unig a groesawai blaid o'r fath - gwelai ynddi wanychu'r hen bleidiau sy'n elynion iddi hi yn hytrach na phlaid a'i gwanhai hi, a gwyddai na pharhai'r blaid newydd ac y deuai'r aelodau ati hi cyn dychwelyd i'r hen gorlannau.*

*Ond pe gellid rhoi grym yn y trydydd awgrym, deuai gobaith. Dyna awgrym Mr. Edwards i'w bleidwyr ef - ac nid yw'n awgrym newydd na dwl.*

*Os yw Cymru i'w hachub yn wleidyddol, gwleidyddwyr a all wneud hynny - nid gweinidogion ac athrawon a llenorion.*

*Chwi gofiwch efallai y llythyr a arwyddwyd gan nifer o Gymry amlwg yn protestio yn erbyn codi gwersyll gwyliau yn Eifionydd a anfonwyd i'r 'Cymro' yn ddiweddar. Argymhellai'n ddigon synhwyrol i'r awdurdodau lleol gymryd pwyll, ond ychwanegwyd ato dipyn o "ddiwylliant" a thipyn o sentimentaliti am yr hyn y dywed Gerallt Gymro i hen ŵr o Bencader ei ddweud wrth frenin Lloegr.*

*Ni wnaeth y llythyr ddim lles. Sylwyd i aelodau o'r "Blaid" ei arwyddo ac ymosodwyd yn agored yng Nghyngor Sir Arfon ar weinidogion yr Efengyl a Chymry digon gonest eraill a'u henwau dano. "Meindiwch eich busnes eich hun" oedd ateb y Cyngor.*

*Mae llawer o ragfarnau yn y wlad - cofier.*

*Ond pe ceid arweinwyr y tair plaid fawr bresennol i gysylltu hawliau Cymru â'u hegwyddorion pleidiol eu hunain, diflannai'r rhagfarnau hyn i raddau helaeth.*

*Efallai na buasai'r un o'r tair plaid yn pledio llawer i Gymru ar y cychwyn - ond buasent yn pledio rhywbeth a fuasai'n rhyw gychwyn. Ni buasai'n golygu i sosialwyr, rhyddfrydwyr a cheidwadwyr dorri cysylltiad â'u cymheiriaid Prydeinig na cholli dim o'u manteision presennol, ond buasai'n rhoddi maes newydd iddynt ei drin a'i ddatblygu mewn dull na ellir ei ddisgwyl oddi ar law'r Blaid Seneddol Gymreig symudliw.*

*Breuddwyd gwrach? Efallai. Ond a allasech chwi feddwl am ddull arall i gael sosialwyr y De, fel enghraifft, sy'n morio pob storm ar eu plaid i drafod Cymru o ddifri. Gymaint a allasai'n Haelodau Seneddol - sydd, fel unigolion, ymhlith y mwyaf athrylithgar sydd yn y Senedd, ei wneud i Gymru pe byddai'r symbyliad yn sicrach.*

*Fel y mae hi - dyma ni wrthi'n straffaglio ers misoedd i geisio cael dim ond Ysgrifennydd i Gymru, ac heb gael hwnnw.*

*Gwared ni.*

*GADAWAF i chwi ddyfalu pwy oedd y Cymro poblogaidd ac adnabyddus a glywais mewn cyfarfod yn ddiweddar yn rhoi'r cyngor cryno hwn i Gymru:-*

*"Rhaid i ni waeddi tipyn mwy - a rhegi tipyn mwy."*

Ysgrif ragorol arall yw'r un a ymddangosodd yn Y Cymro 16 Chwefror 1945 yn dilyn marwolaeth E. Prosser Rhys, golygydd Baner ac Amserau Cymru. Ynddi dengys John Aelod bwysigrwydd y Wasg Gymraeg i Gymru a sylwer ar arwyddocâd pennawd yr ysgrif:

*Y Werin Sy'n Gefn I'r Wasg Gymraeg*

*AR ddyddiau mor golledus ac ar adeg pan ddaeth angau'n gymydog a*

*distryw'n gydymdeithydd, aeth y pethau a fuasai'n drychinebau cenedlaethol cyn 1939 i ymladd am eu lle'n itemau bychain yn y papurau newydd.*

*Ond pan hysbyswyd wythnos yn ôl am farw Mr. Prosser Rhys, golygydd 'Baner ac Amserau Cymru', yn ŵr cymharol ifanc, cafodd Cymru un o'r colledion hynny na allai ei fforddio.*

*Pe bai hynny o ryw wahaniaeth, yr wyf fi'n un o'r rheini na welai lygad yn llygad â Mr. Prosser Rhys ar amryw o faterion a godwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond er gwaethaf gormod o wahaniaethau di-alw-amdanynt sydd yng Nghymru buasai'n lle rhyfedd yma pe buasai pawb yn unfryd unfarn ar bopeth.*

*Yr oedd yn fardd ac yn llenor medrus dros ben hefyd.*

*Fe erys llawer bardd a llenor yng Nghymru a pharheir i gyhoeddi yn Gymraeg. Nid i dynnu dim oddi ar bwysigrwydd Mr. Prosser Rhys yn y tri chyfeiriad yna y nodaf hyn, eithr i ofyn y cwestiwn hwn: beth am y newyddiadurwyr?*

*Un o'r nwyddau mwyaf darfodedig yw newyddiadurwaith. Erys cân ac ysgrif a stori lenyddol; erys llyfr. Ond papur newydd - y fflamau a'i llysg yng ngratiau'r wlad bob bore, bob wythnos. Mae mor gyffredin, mor rad. Nid yw un darllenydd o bob mil yn meddwl am y llafur a'r blinder a olyga pob rhifyn; yn meddwl bod pob llythyren yn gorfod dod oddi wrth rywun yn rhywle; yn meddwl bod rhywun yn gorfod dethol a threfnu a meddwl ymlaen llaw a gofalu ei fod yn barod yn ei bryd bob amser heb i un hanner modfedd ohono fod heb ei lanw.*

*Cymerir papur newydd a'i olygydd a'i ohebwyr a'i weithwyr yn ganiataol.*

*Ond os collir nifer fechan iawn, iawn o bobl tebyg i Mr. Prosser Rhys, trwy groesi'r wal ddiadlam neu trwy groesi'r ffin i Loegr, yna nid yw'r dydd ymhell pan ofynnwch am bapur newydd Cymraeg heb ei gael.*

*Y MAE'R wasg yn bendant yn un o sefydliadau pwysicaf Cymru. Y wasg yn fwy na dim sy'n gofalu bod digon o bobl yn darllen Cymraeg yn gyson, ac heb ddarllenwyr Cymraeg cyson ofer yw cyhoeddi llyfrau. Lle mae'r dirywiad yn dechrau yng Nghymru Gymreig yw lle mae'r bobl yn medru gwrando ar Gymraeg a'i siarad hyd yn oed ond heb fedru ei darllen.*

*Y bobl gyffredin sy'n cynnal y wasg Gymraeg. Buasai wedi marw ar ran y dysgedigion. Pan gynhyrchir papur ar eu cyfer hwy nid yw'n gwerthu digon i'w gadw ei hun yn fyw. Weithiau, yn eu doethineb, byddaf yn clywed hanes ambell un ohonynt yn ceisio dysgu'r ffordd i'r wasg. Y mae gennyf gyngor iddynt hwy - chwiliwch am job eich hun ar bapur newydd, ac fe gawn eich clywed ymhellach ymhen rhyw ddwy neu dair blynedd - os byddwch byw.*

*Credaf mai un ar bymtheg o bapurau Cymraeg wythnosol sydd yna (ymddiheuraf os gadawaf un allan o gwbl).*

*Y mae pump yn bapurau crefyddol - 'Goleuad', 'Tyst', 'Gwyliedydd Newydd', 'Seren Cymru', a'r 'Llan'.*

*Y mae chwech o bapurau i wahanol drefi a'r cylch o gwmpas 'Seren Cyfnod' (Bala), 'Atsain' (Corwen), 'Dydd' (Dolgellau), 'Rhedegydd' (Ffestiniog), ac 'Udgorn' (Pwllheli).*

*Y mae dau bapur lleol eang eu cylch a'u dylanwad - 'Herald Cymraeg' (Caernarfon) a'r 'Clorianydd' (Môn).*

*Y mae un papur mewn dosbarth ar ei ben ei hun - 'Papur Pawb' (Caernarfon).*

*Y mae dau bapur a elwir yn genedlaethol - 'Baner ac Amserau Cymru' a'r 'Cymro'.*

*Fel mae'n digwydd, mae gennyf syniad eithriadol o dda beth yw cylchrediad pob un o'r rhain, ond nid fy lle i yw dadlennu hynny. Gallaf ddweud mai gan 'Y Cymro' y mae'r cylchrediad mwyaf o gryn dipyn,*

*ond y mae lle i werthu cymaint bedair gwaith o bapurau Cymraeg ag a wneir. Ond rhaid cael y newyddiadurwyr.*

*Y mae gormod o bapurau Cymraeg yn "codi" eu newyddion o bapurau eraill ac y mae gormod o'r papurau lleiaf yn cael eu rhedeg heb newyddiadurwyr profiadol ar eu cyfyl. Fe gred rhai sefydliadau y gwna'r tro i rywun ofalu am bapur newydd, a dyna sy'n cyfri am yr olwg sydd ar ambell bapur.*

*BELLACH bydd yn rhaid i'r wasg Gymraeg gyflogi mwy o newyddiadurwyr a gohebwyr amser-llawn. Rhaid i'r darllenwyr gael gwerth eu pres.*

*Rhaid cael bechgyn a genethod ifanc anturus sy'n barod i wynebu bywyd ar bapurau Cymru ac aros yng Nghymru. Y mae rhai sy'n gwneud hyn - rhai sy'n mynnu aros yng Nghymru i wneud eu gwaith - rhai ohonynt yn gweithio ar bapurau Saesneg mawr, ond yn gweithio yng Nghymru.*

*Aros yng Nghymru a wnaeth Mr. Prosser Rhys. Efallai y gwnaethai fwy o bres yn Lloegr ond buasai'n amhosibl iddo wneud yr un gwasanaeth, na chael yr un pleser yn ei waith, 'rwyf bron yn siŵr. I bobl fel ef a ddechreuodd, fel y dechreuodd cymaint o newyddiadurwyr, yn swyddfa'r 'Herald' yng Nghaernarfon, y mae'r diolch ei bod yn bosibl cyhoeddi papur Cymraeg o gwbl heddiw.*

*UN o'r pethau sy'n parhau i flino llawer yw'r cyfeiriadau diystyrllyd y mae rhai o bapurau dyddiol Lloegr yn barod bob amser i'w gwneud at Gymry.*

*Yn ddiweddar ymddangosodd un o'r cyfeiriadau achlysurol hyn mewn papur dyddiol y cefais achos i gwyno yn ei gylch fwy nag unwaith yn y golofn hon.*

*Aeth copi o'r papur hwnnw i Ynys yr Iâ i fangre arbennig lle mae dau Gymro gyda chwmni o Saeson. Ceisiodd y Saeson wneud môr a mynydd o'r hyn a ddywedai'r papur, a'r diwedd a fu ymladdfa fawr rhwng y ddau Gymro a'r gweddill oherwydd y peth.*

*A raid i bapurau dyddiol o Loegr ar adeg fel hyn achosi rhyfeloedd preifat ychwanegol?*

*ADOLYGWYD llyfr o waith E. H. Francis Thomas - 'Rhyw Ystyr Hud' - yn 'Y Cymro' yr wythnos diwethaf. Y mae canmoliaeth cyffredinol i'r llyfr hwn sy'n taro tant llenyddol pur newydd er bod cymaint o "straeon sibrydion" ar lafar yng Nghymru.*

*Ond y mae'r awdur lawn mor ddiddorol â'r llyfr ei hun. Prin y buaswn yn ei adnabod oddi wrth y darlun Edwardaidd sydd ar glawr y llyfr er i mi ei weld yn gymharol ddiweddar. Dywedir iddo hwylio i Ogledd India yn 1938 a diflannu, ond ychwanegir peth nad yw'n syndod personol o gwbl i mi:*

*"Dyfala'r sawl a wyddai'n dda am ddiddordeb dwfn Mr. Thomas yn yr ocwlt, y gall ei fod wedi croesi'r ffin i Tibet."*

*Tibet - tybed?*

*YN y rhew a'r eira mawr diweddar cysur llawer o bobl oedd hyn - mi fydd yn haf da eleni.*

*Yn y blynyddoedd diwethaf, pa fodd bynnag, ofnaf i bron bob hen gred ynglŷn â'r tywydd fynd efo'r gwynt.*

*Ym Medi, 1939, yr oedd mwy o aeron ar griafol a chelyn nag a welais i erioed. Gaeaf caled i ddod a digon o fwyd i'r adar yn barod, meddai'r proffwydi. Ond gaeaf tyner wnaeth hi.*

*Y llynedd, mwy o flodau eithin nag a welais i erioed o'r blaen; pob perth yn fflam dân. A'r coed derw wedi deilio ymhell o flaen yr ynn. Haf sych ofnadwy, meddai pawb. Ond haf gwlyb oedd hi yn y diwedd.*

*Paratowch, felly, am haf gwlyb eleni eto, - ac archebwch gwch*

*heddiw.*

Yn olaf, dyfynnaf ysgrif John Aelod Jones o'r Cymro 31 Awst 1945 yn dilyn gollwng y bomiau atomig ar ddinasoedd Hiroshima a Nagasaki, a dywed nad oes ond dau ddewis i lywodraethau'r byd, sef cydweithrediad neu ddifodiant. Sylwer ar ei frawddeg drawiadol sy'n dweud i ni gael ein gorchfygu 'gan y peth lleiaf sydd yng nghreadigaeth Iôr - yr atom'; sylwer hefyd ar y modd clyfar iawn y llwydda John Aelod i gysylltu pwnc y bomiau â phwnc Ysgrifennydd i Gymru trwy ddefnyddio'r gair 'atom' yn ei ystyr arall:

*Cydweithrediad Neu Ddifodiant*

*AETH y byd hwnnw a boenai Williams Pantycelyn - "byd lle mae taranau, mellt a chenllysg, daeargryn" - yn rhywbeth di-ddychryn iawn bellach; bron nad aeth yn fyd addfwyn, dymunadwy.*

*Dyma'r byd lle mae'r bom atomig.*

*Cynhyrfwyd y bobloedd gan bob dyfais a darganfyddiad gwyddonol mawr. Mewn cyfnod byr, diweddar fe'n cynhyrfwyd gan beiriant stêm, gan lamp drydan, gan fodur, gan eroplên, gan set radio.*

*A gofiwch chwi hafau gwlyb rhyw hanner canrif yn ôl y tyngai amaethwyr a achosid gan yr hen bolion weiarles yna?*

*A gofiwch chwi dymhorau gwlypach diweddarach y melltithid yr hen eroplenau yna am eu hachosi?*

*A welsoch chwi luniau o ddynion yn cerdded o flaen y modur bore gan gario fflag coch?*

*A ddarllenasoch chwi hanes am y bobl a welodd y trên cyntaf ar y rheiliau?*

*Neu'r hanes am y syndod a achosodd y goits fawr bedair olwyn hyd yn oed? (Dywedir y byddai pobl Aberdaron yn dilyn y goits bob cam i Bwllheli i weld tybed a fuasai'r olwyn ôl fawr yn dal yr olwyn flaen bach).*

*A phwy sy'n cofio am effeithiau syniad Darwin am ddatblygiad bywyd ar Ymneilltuwyr uniongred Cymru a welai eu hunain - fel Disraeli - yn debycach i ddisgynyddion angylion na mwncïod?*

*Ond daeth y syniadau a'r dyfeisiadau a'r darganfyddiadau hyn i gyd yn bethau derbyniol.*

*NI or-arswydwyd oherwydd rhai o ddyfeisiadau mwyaf arswydus y rhyfel hwn hyd yn oed. Wynebgaledodd pobl nes cynefino eu hunain i sôn am fomiau deg tunnell a phethau o'r fath fel pe na baent yn ddim ond megis rhyw gam ar y ffordd i sicrhau bomiau ugain a deugain tunnell.*

*(Parhaodd yr arswyd rhag nwy gwenwynig, nas defnyddiwyd, o drugaredd).*

*Ond y bom atomig - dyna beth arall.*

*Mae'n agor cyfnod gwyddonol newydd - cywir. Nid yw'n ddim ond gwneud defnydd o rym naturiol a oedd yna bob amser - cywir. Fe ddaw'r grym, pan harneisir ef, â bendithion a chyfleusterau rif y gwlith i ddynoliaeth - cywir.*

*Eto, fe erys hyn - gallasai unrhyw wlad gynhyrchu bomiau atomig rhyw ddydd. Gyda'r rhain gallasai wastadhau teyrnasoedd mwya'r ddaear*

*mewn noson. (Eisoes daw'r newydd anhygoel am gronfa'n cael ei sefydlu yn Poland i hyrwyddo'r ymdrech i gael bomiau atomig yno).*

*Ar drothwy heddwch, ar derfyn rhyfel ofnadwy rhoddwyd sialens i lywodraethau nad ydynt yn dysgu dim nac yn anghofio dim. Y sialens yw - cydweithrediad neu ddifodiant.*

*Ni thyciodd na chariad brawdol na dynoliaeth na Christionogaeth i arglwyddiaethu ar gysylltiad dyn na dyn.*

*Yn awr fe'n gorchfygwyd gan y peth lleiaf sydd yng nghreadigaeth Iôr - yr atom.*

*Nid Prydain, nid America, nid Rwsia, eithr -*
*Yr atom sy'n llywodraethu; cryned y bobloedd.*

*I FYND at fater sydd, ar y funud, yn nes "atom" - Ysgrifennydd i Gymru.*

*Ni chollwyd amser i godi cwestiwn Cymru yn y Senedd newydd. Siaradwyd dros Gymru eisoes gan aelod o bob plaid a ddychwelwyd o Gymru i'r Senedd - Mr. George Thomas (Llafur), Mr. Emrys O. Roberts (Rhyddfrydwr), Syr Henry Morris-Jones (Rhyddfrydwr Cenedlaethol) a Mr. D. Price White (Ceidwadwr).*

*Dyna arwydd sicr a phendant i'r Llywodraeth o'r unfrydedd sydd yng Nghymru.*

*Boddhad o weld enw Cymru yn Araith y Brenin gan y golyga hynny bod y Llywodraeth yn ymwybodol bod problemau Cymreig i'w setlo.*

*Boddhad bod yr Aelodau Cymreig yn meddwl o ddifri am Gymru.*

*Boddhad bod Aelodau Llafur Cymru yn pwyso achos Cymru ar Lywodraeth y mae wyth Llafurwr Cymreig ynddi. Er mai Mr. George Thomas, Caerdydd, a fu'n ffodus i ddal llygad y Llefarydd gyntaf, yr oedd y Llafurwyr Cymreig wedi dewis tri arall hefyd i geisio cael eu pig i mewn ar fater Cymru - Mr. Goronwy O. Roberts, Mr. Dai Grenfell a Mr. Robert Richards.*

*Gallasai rhai o'r tri hyn osod yr achos yn gryfach byth pe daethai'r cyfle i'w rhan hwy - ond gwnaeth Mr. George Thomas yn dda ar ei araith Seneddol gyntaf un.*

*Gwyliadwrus oedd ateb Mr. Attlee i'r cwestiwn a gafodd ynglŷn ag Ysgrifennydd. Ond nid oedd yn ddi-gydymdeimlad, a hynny sy'n bwysig.*

*Sylweddolir yng Nghymru pa mor drymlwythog yw rhaglen y Llywodraeth ar hyn o bryd. Ond buasai er mantais pawb pe gellid gwneud awgrymiad buan beth a fwriada'r Llywodraeth ei roddi i Gymru.*

*AM y tro cyntaf erioed y mae llawer o Gymry y dyddiau hyn yn gweld rhai o'r bobl yr ymladdwyd am chwe blynedd yn eu herbyn - Almaenwyr.*

*Ac y mae llawer ffermwr a ddysgodd Eidaleg eisoes yn cael crap ar lythrenne'r Almaeneg heddiw. (Fe ddysgodd llawer o'r Eidalwyr, hwythau, Gymraeg.)*

*Siaradwn heddiw ag amaethwr a fu'n anffodus yn ei "dramorwyr". Ni bu'r un o'r amryw Eidalwyr a gafodd i weithio iddo yn dda i fawr ddim, ac yn awr y mae wedi cael dau Almaenwr sy'n dda i lai fyth.*

*Gan mai Almaenwyr uniaith hollol ydynt nid mater bach yw eu rhoi ar ben y ffordd.*

*Yr oeddynt yn rhwymo yd ("cynnull" yw'r gair) y dydd o'r blaen.*

*"A methais yn lân â rhoi ar ddeall i'r German sut i glymu'r ysgub" meddai'r amaethwr. "Yr oedd yn trin yr ysgub fel pe bae'n barsel mewn siop ac yn gwastraffu ei amser i roi dau gwlwm - cwlwm gwlwm - ar bob ysgub."*

*Pawb â'i ddull - ddyliwn.*

I gloi, yr oedd 'Rhyngom Ni A'n Gilydd' yn gyfres ragorol o ysgrifau, a hynny ar sawl ystyr. Credaf fod tri pheth i'w gweld

yn amlwg ynddynt:

(1) bod John Aelod Jones yn amlwg â greddf a chynneddf naturiol y newyddiadurwr ac â'i fys ar bŷls pob digwyddiad a datblygiad o bwys yng Nghymru, ym Mhrydain a thrwy'r byd;

(2) ei fod yn ysgrifennwr gwych, yn gwybod yn union sut i ddylanwadu ar y darllenydd, yn medru bod yn ddifrifol neu'n ysmala, ac yn medru cysylltu nifer o bynciau gwahanol mewn un ysgrif mor ddidrafferth gan roi undod gorffenedig iddi;

(3) ei fod yn gwbl onest a di-flewyn-ar-dafod, a ddim yn ceisio seboni na chuddio'i wir safbwynt.

Efallai na fyddai'r darllenydd yn cytuno â John Aelod ar bob pwnc dan haul ond yr oedd hi y math o golofn bron iawn yr oedd yn rhaid i rywun ei darllen bob wythnos, rhywbeth sy'n gaffaeliad mawr i unrhyw bapur newydd. Hyd yn oed ym more oes ei yrfa felly, yr oedd eisoes wedi cychwyn sefydlu ei hunan fel un o brif ysgrifenwyr newyddiadurol ei genedl.

*'Y Fainc 'Sglodion'*

*gan J. W. Jones*

Colofn wythnosol hynod o boblogaidd yn Y Cymro, ac un a roddai bleser a mwynhad i lawer o ddarllenwyr y papur, oedd 'Y Fainc 'Sglodion' gan John William Jones: llenor, cyhoeddwr, bardd gwlad a chyfrannwr i nifer o newyddiaduron a chylchgronau ei gyfnod ymysg pethau eraill, a aned yn Nhanygrisiau ym 1883 ac a fu'n gweithio yn chwarel Oakley am 53 mlynedd. Yr oedd J. W. Jones, neu 'Joni Bardd' fel y'i cydnebid yn ei fro, yn cynrychioli math arbennig o gymeriad sydd, yn anffodus, wedi diflannu erbyn heddiw, sef y chwarelwr gwerinol, diwylliedig Cymraeg, a weithiai'n eithriadol o galed yn y chwarel lechi ond a oedd serch hynny â bywyd hynod gyfoethog ac â rhychwant eang o ddiddordebau. I'r bobl hyn, y chwarel, yn naturiol, oedd prif ganolbwynt eu bywydau ond yr un mor bwysig iddynt oedd y capel a'r ysgol Sul, ac ar ôl gweithio'n galed yn ystod y dydd edrychent ymlaen i gyfarfod bron yn nosweithiol yn y capel ar gyfer seiat, cyfarfod gweddi, ymarfer côr ac ati (heb sôn am y Saboth ei hunan a olygai dri chyfarfod arall fel arfer).

Yn rhyfeddol, er bod chwarelwyr o'r fath yn gymeriadau hollol werinol a chyffredin, yr oedd llawer ohonynt yn ddiwylliedig a dysgedig ac yn cymryd diddordeb brwd mewn barddoniaeth, llenyddiaeth, cerddoriaeth, crefydd, gwleidyddiaeth, athroniaeth, gwyddoniaeth, byd natur ac ati, ac am oriau lawer wrth gerdded yn ôl ac ymlaen o'u cartrefi ac yn 'Senedd y Chwarelwyr' amser cinio caent drafodaethau a dadleuon mawr am bob pwnc dan haul. Mae J. W. Jones yn ei gyflwyniad i'w gyfrol Y Fainc 'Sglodion yn rhoi syniad i ni o'r diwylliant cyfoethog hwn:

> *....Tri lle phwysig gan yr hen weithwyr gynt oedd y Cartref, Yr Ysgol Sul, a'r Capel. Yr oeddynt am i'w plant gael Crefydd ac Addysg. Cofgolofnau i'w haberth ydyw'r capelau, a'r ysgolion ardderchog a welir yn ein henfro.*
>
> *Dringodd llawer o blant gweithwyr y fro i safleoedd uchel, mewn byd ac eglwys.*
>
> *Yn ei awdl ar 'Hunanaberth' dywedodd Elfed:*
>
> *'Llawer bachgen talentog - a ddringodd*
> *I rengau'r bydenwog;*
> *A'r hen bobol wrol lin,*
> *O'u cyni'n gwasgu ceiniog.'*
>
> *Deuai llawer o ddynion o wahanol leoedd i weithio i'r chwarelau flynyddoedd yn ôl, ac arhosent ar nosweithiau yr wythnos mewn baricsod, a dychwelent i'w cartrefi ar brynhawn Sadyrnau.*

*Yr oedd amryw ohonynt yn ddynion talentog, ac wedi eu diwyllio'u hunain mewn gwahanol feysydd o wybodaeth yn eu horiau hamdden.*

*Meddylier am y manteision sydd heddiw ar gyfer pobl ifainc, y mae'n berygl i ormod o fanteision droi yn anfantais wedi'r cwbl.*

*Yr oedd hen Farics Chwarel y Rhosydd yn hysbys i bawb, oherwydd y dynion talentog oedd ynddo.*

*Cynhaliwyd Eisteddfodau gan rai o weithwyr y gwahanol chwarelau yn y blynyddoedd gynt. Bu bri mawr ar Eisteddfod y Rhosydd, a Chwmorthin, a Holland, a'r Llechwedd ac eraill.*

*Byddai'r beirdd, a'r llenorion, a'r cerddorion yn paratoi yn ddyfal ar eu cyfer. Cyhoeddwyd rhai o'r Cyfansoddiadau Buddugol yn llyfrau bychain....*

Cyhoeddwyd 'Y Fainc 'Sglodion' yn Y Cymro am y tro cyntaf yn rhifyn 6 Ebrill 1940 ond beth yn union oedd arwyddocâd y teitl? Meddai J. W. Jones wrth agor ei golofn:

*GŴYR pob chwarelwr yn dda am y Fainc 'Sglodion. Wrth hollti y llechau dodir hwy gan yr holltwr ar y fainc hon yn barod i gael eu naddu gan y naddwr.*

*Ceir ar y fainc rai sglodion da, eraill ddim cystal. Mae pob un yn help i'r chwarelwr wneud cyflog ohonynt.*

Ond am eglurhad gwell trof at 'Y Fainc 'Sglodion' 23 Tachwedd 1940:

*DERBYNIWN amryw o lythyrau o dro i dro oddi wrth wahanol bersonau yn sôn am gynnwys yr uchod. Credant mai "mainc y saer" ydyw! Y mae'r "sglodion" a ddisgyn oddi wrth fainc y saer yn ddiwerth - dim ond i'w bwrw yn y tân. Am gynnwys 'fainc 'sglodion' pob chwarelwr y mae yn werthfawr yn ei olwg, ac yn dibynnu am ei damaid bara ar yr hyn a roddir arni.*

*Ar ôl llifio clytiau ar y bwrdd llifio yn y felin ar bonc y chwarel, holltir hwy fel dalennau o lyfr (ond ddim mor denau wrth gwrs) yna dodir hwy ar y fainc yn barod i gael eu naddu â pheiriant i wahanol fesuriadau. Cyn eu naddu gelwir hwy yn "sglodion".*

*Ai'r un enw sydd gan chwarelwyr Bethesda, Llanberis, Aberllefenni a Chorris, etc., ar y fainc?*

Ac am eglurhad gwell fyth dychwelaf at gyflwyniad J. W. Jones i'w gyfrol Y Fainc 'Sglodion:

*RAI blynyddoedd yn ôl bûm yn ysgrifennu ychydig o wahanol nodiadau i'r 'Cymro' dan y teitl 'Y Fainc 'Sglodion'. Y mae 'Mainc 'Sglodion' y chwarelwr yn wahanol i 'Fainc 'Sglodion' y saer. Cesglir ysglodion y saer a'u bwrw yn y tân, ond ar yr hyn a rydd y chwarelwr ar ei Fainc y dibynna ef ar wneuthur ei gyflog. Wedi llifio'r cerrig ar y bwrdd, fe'u trinir yn glytiau i wahanol faintioli, a gosodir hwynt yn bentwr yn barod i'w hollti. Wedi hollti'r clytiau â chŷn a gordd, gelwir hwynt yn "sglodion" a gosodir hwynt ar fainc yn barod i'w naddu i wahanol faintioli. Ceir rhai mawrion am 'Princess' a 'Dutchess', ac eraill llai*

*yn eu mysg, ond y mae gwerth ym mhob un at wneuthur llechen. Gorau yn y byd i'r chwarelwr ydyw cael digon o 'sglodion da i wneuthur peiliau o lechau....*

Tasg anodd, os nad amhosibl, yw ceisio rhoi argraff o'r Fainc mewn ychydig dudalennau fel hyn, cymaint oedd ei hamrywiaeth a chymaint oedd ei chyfoeth, ac yn anffodus rhaid yw bodloni ar ddewis a dethol pigion byrion yma ac acw, pigion nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfiawnder â'r Fainc mewn gwirionedd ond o leiaf sy'n rhoi syniad ohoni. Dyfynnaf yn gyntaf un Fainc gyflawn, hirach nag arfer, o'r Cymro 4 Mai 1940:

*CLYWODD cyfaill i mi y llinellau hyn gan hen ffarmwr oedrannus.*

*"Os bydd bwyd ar y mynydd*
*A dim yn y pant,*
*Ni fydd ond newyn*
*Yn disgwyl y plant."*

*Pwy o ddarllenwyr 'Y Cymro' a rydd eglurhad arnynt iddo?*

* * * *

*Clywsom fod y gôg yn canu yn Nolwyddelen bythefnos yn ôl. Bu hen draddodiad gynt yn dweud fod pobl Dolwyddelen yn cadw'r gôg yn y Castell dros y gaeaf.*

*Clywsom aml i glaf yn dymuno "cael byw i glywed y gôg."*

*"Y flwyddyn nesaf, pwy a'i clyw?" oedd gofyniad un bardd.*

*"----er ei thôn undonog*
*Gwlad a gâr glywed y gog."*

*Meddai Ceiriog.*

* * * *

*Cawsom yr englynion hyn gan Ioan Brothen dro yn ôl. Un o werinwyr syml y bryniau ydyw ef. Diwylliodd ei hun yn ei oriau hamdden, a gŵyr Cymru amdano heddiw fel englynwr penigamp.*

*I DORROG SWYDDOG O SAIS.*

*I gannoedd sy'n ei gynnal, - ei ormes*
*Bair wermod di-gordial;*
*Heb wneud dim ond derbyn tâl,*
*Dyma 'Lord' amal ardal.*

*EIN DUWIAU.*

*Awn ni yn llwyd deneuon, - trwy wasaidd*
*Gynnal treiswyr hyfion;*
*Dyna brudd! rhoi gwaed ein bron*
*I'n duwiau fynd yn dewion.*

* * * *

*Bardd ac englynwr gwych y gwyddom am ei waith ers blynyddoedd lawer yw Cenin o Roslan.*

*Bu'n wael yn Ysbyty Bangor yn ddiweddar, ond dychwelyd yn ôl i'w gartref yn well yw yr hanes diwethaf amdano. Gobeithiwn y daw haul yr haf â meddyginiaeth yn ei esgyll iddo.*

* * * *

*Nid oes ball ar y ganmoliaeth a roddwyd i Mr. Bob Davies (Notts Forest) am chwarae y bêl droed gyda'r Cymry yn erbyn y Saeson yn Wembley.*

*Gwnaeth ei ran yn ardderchog a dylifodd llythyrau i'w longyfarch iddo ef a'i dad oddi wrth nifer fawr o edmygwyr o bob rhan o Gymru a Lloegr. Efe oedd y 'seren' y dydd hwnnw.*

*Dywed cyfaill imi mewn llythyr o Plymouth:*

*"Anodd oedd medru dal heb roddi bloeddiadau wrth weled darlun o 'Bob Davies o Stiniog' ar y 'films' yn y darlundy yma ar ôl iddo wneud marc mor dda gyda'r bêl droed."*

*Bu cannoedd o bobl ieuanc gydag ef eisiau ei lofnod mewn albwm. Dalied i wneud ei farc.*

*"Un o blant 'brilliant' ein bro"*
*ydyw a mab i Mr. a Mrs. John Davies (Ioan y Foelas) yr adroddwr enwog.*

* * * *

*Golygfa brudd oedd yn ein hardal yn y dyddiau diwethaf. Ataliwyd tua thri ugain o weithwyr yn Gloddfa Ganol (rhan o chwarel fawr yr Oakleys). Gwnaed pob ymgais i roddi gwaith yn ôl i gymaint ag oedd bosibl.*

*Gweithiwyd yn gyson ar hyd y blynyddoedd yn y chwarel hon.*

*Ar y bonc hon bu Myrddin Fardd yn gweithio â "Glanystwyth" a Dr. Grimaldi Davies, a Gwilym Deudraeth yn dechrau rybela, a lluoedd o enwogion eraill a wnaethant waith mawr dros Gymru.*

*Gresyn na bae rhywun yn ysgrifennu hanes chwarelau Ffestiniog - hanes pob un yn unigol.*

* * * *

*Gweithiai un hen gymeriad parod ei atebiad hefo'r wagen yn un o chwarelau'r fro. Daeth stiward heibio a safodd yn ôl gerllaw iddo.*

*Ymhen ysbaid gofynnodd i'r labrwr, "be' sydd gennyt ti i'w ddweud heddiw, W----?" "Dim llawer o ddim", meddai yntau - ond "fedrwch chwi chwarae 'drafts' deudwch?" "Medraf", meddai'r Stiward. "Wel eich tro chwi ydi symud rŵan", meddai'r labrwr wrtho.*

*Ymaith ag ef wedyn dan chwerthin yn braf.*

* * * *

*Wrth siarad hefo hen wreigan blaen a hen ffasiwn yn ddiweddar dywedodd ei bod wedi clywed mai dim ond dwy siop oedd yn agored yn Llundain, o achos yr hen Hitler yna meddai. "Pe cawswn i afael ynddo", meddai, "mi fuaswn yn ei gnocio hefo'r procer!"*

*Dyma ei phrofiad mewn pedair llinell:-*

*Pe cawn i afael ar yr Hitler*
*Mi a'i cnociwn hefo'r procer;*
*Ac os gwnâi efe hir nadu*
*Gorfoleddaf wrth ei dagu!*

* * * *

*Clywir beunydd heddiw am gadw ein diwylliant fel cenedl yn fyw. Gwaith pwysig ydyw hefyd. Cynhelir pwyllgorau a chynadleddau a gweithir yn galed gan ddynion da o blaid pethau gorau Cymru. Ceir dosbarth arall yn siarad am godi Cymru, a chadw y diwylliant yn fyw, ond esgeulusant*

*hyn ar eu haelwydydd eu hunain. Gwyddom am blant i bregethwyr, athrawon, etc., na siaradant yr un gair o Gymraeg!*

*Mae eisiau mwy o undeb rhyngom â'n gilydd cyn y daw iachawdwriaeth i'n gwlad.*

*Ar lwybr crefydd trwy y Beibl y gwaredir Cymru. Nid oes yr un ffordd arall amdani.*

* * * *

*Gwelsom briodoli englyn 'Ffair y Borth', o waith William Griffith, Hen Barc i fardd arall yr wythnosau diwethaf.*

*Ffair frwd ei ffrigwd, ffair wegi - rhandir*
*India Roc a chelfi;*
*Och a rhêg, dyrnod a chri,*
*Haid o ffyliaid a pheli.*

* * * *

*Siaradem y dydd o'r blaen gyda naturiaethwr craff. Preswyliai ynghanol mynyddoedd Sir Feirionydd. Gwyddai hanes y llwynog a'i dylwyth i drwch y blewyn. Dyma un o'i sylwadau am yr ysgyfarnog.*

*"Cyn noswylio", meddai, "bydd yn rhedeg am tua chanllath ar lwybr unionsyth ac yn ôl ar hyd-ddo yn union o'r lle y cychwynnodd.*

*Wedi cyrraedd yno bydd yn neidio, rhyw deirllath, a theirllath wedyn - yna rhydd ei ben i lawr i noswylio." Gwna y llwynog yn groes i hyn cyn noswylio.*

*Gwelodd y cyfaill ugeiniau o bennau ŵyn mewn ffeuau llwynogod, ac unwaith gwelodd globen o neidr fawr.*

* * * *

*Dywedir fod cannoedd o ŵyn wedi cael eu difa eleni gan lwynogod.*

*Tro annheg yw gorfodi ffermwyr i dalu trwyddedau am gadw daeargwn at eu difa.*

*Rhoddent eu gwasanaeth yn rhad drwy eu hela.*

*Gymaint o golledion o flwyddyn i flwyddyn a achosir gan lwynogod.*

* * * *

*Dyma benillion canadwy a gyfansoddodd Gwilym Deudraeth i'r Mul!*

*Hen linellau llafar gwlad yw y ddwy gyntaf.*

*Gwnaeth Gwilym ddefnydd ohonynt a galwodd yr 'Hen Ful' yn 'Geffyl Dall'!*

*Cyfansoddwyd hwy dros ddeugain mlynedd yn ôl a bu llawer o ganu arnynt.*

*BONNIE DUNDEE.*
*(Hen Alaw).*

*'Roedd Emwnt y Felin a'i hen geffyl dall,*
*Yn cario blawd afiach i hwn ac i'r llall,*
*'Roedd Emwnt ei hunan yn hynod o lew*
*Ei geffyl yn deneu ac yntau yn dew!*
*Yr oedd yr hen geffyl yn hawdd iawn i'w drin,*
*Ac Emwnt yn fodlon waeth sut byddo'r hin.*
*Wrth lenwi ei getyn chwibanai yn ffri,*
*A'r unig gân feddai oedd 'Bonnie Dundee'.*

*Fe fyddai'r hen geffyl heb fwyd yn ei fol,*
*Yn debyg i ysbryd rhwng llorpiau y drol,*

*Ni welid ei waelach yn teithio y tir,*
*Anfynych y byddai mewn harnis mae'n wir.*
*Wel, druan ohono yr hen geffyl dall*
*A'r pwn yn ei flino'r naill ochor neu'r llall,*
*Wrth ddringo y mynydd neu groesi y lli',*
*Rhoi mynd yn ei garnau wnâi 'Bonnie Dundee'.*

*Tra Emwnt yn twyllo'i gwsmeriaid bob un,*
*Bu farw'r hen geffyl un bore dydd Llun,*
*A chladdwyd o'n dawel yng ngwaelod yr allt,*
*O dan y 'Drefn Newydd' yn ôl wyf yn dallt;*
*Fe blannwyd ei goesau'n y gwter is law,*
*A chuddiwyd ei gorpws dan domen o faw.*
*I bruddaidd atgoffa'r hen geffyl i mi,*
*Ni raid ond chwibanu 'My Bonnie Dundee'!*

* * * *

*Cymeriad nobl, rhadlon braf, oedd Mr. John Edwards, Sofl y Mynydd (Cefn Bychan gynt). Bu farw ar ôl dioddef cystudd blin ers misoedd lawer. Yr oedd yn ŵr tawel, parchus o bawb, ac wedi ei wreiddio ym mhethau gorau crefydd.*

*Wedi gweithio'n y chwarel*
*Ac amaethu yn hir, -*
*Mae heddiw yn dawel*
*Mewn "dwylath o dir".*

* * * *

*Ddydd Mercher diwethaf cyrhaeddodd ein hen bartner yn y chwarel, sef Mr. Edward Roberts, Trawsfynydd ei 80 oed.*

*Ymneilltuodd o'r chwarel ers rhai blynyddoedd. Creigiwr medrus ac un o'r dynion gonestaf gyda'i ddiwrnod gwaith ydoedd. Bu yn athro ar Hedd Wyn yn yr Ysgol Sul, a meddyliai'r bardd y byd ohono.*

Gwelir felly mai gwahanol bytiau amrywiol oedd colofn y Fainc 'Sglodion gan J. W. Jones, a gwelir mor addas oedd ei theitl: yn union fel yr oedd ysglodion y chwarelwyr yn amrywio i'w gilydd, a phob un ohonynt yn unigryw, felly hefyd yr oedd ysglodion y Fainc, gyda rhai'n hirach na'i gilydd, rhai'n fwy doniol na'i gilydd, rhai'n fwy hanesyddol na'i gilydd, rhai'n fwy personol na'i gilydd, ac ati, ond pob un yn werthfawr iawn i ddarllenwyr y golofn a oedd yn mwynhau'r ysglodion hyn, fel yr oedd ysglodion go iawn y llechi yn werthfawr i'r chwarelwyr.

Mae'r un Fainc 'Sglodion uchod yn rhoi syniad o'r hyn oedd yn y golofn ond yn naturiol, oherwydd ei hamrywiaeth eang, mae'n rhaid edrych ar ddwsinau lawer o enghreifftiau o'r Fainc i gael blas gwirioneddol ohoni. Anodd iawn mewn ychydig frawddegau fel hyn yw diffinio cynnwys wythnosol y Fainc ond yn gyffredinol

gellir dweud ei bod yn cynnwys englynion, telynegion a phob math o gerddi eraill, pytiau'n ymwneud â hanes, llenyddiaeth, crefydd, cerddoriaeth, garddio a byd natur, hen ryseitiau bwyd a ffisigau, hen arferion ac ofergoelion, llên gwerin, diarhebion, doethinebau, straeon ysgafn digrif, moeswersi, dyfyniadau o bregethau, adnodau ac emynau, pytiau o ddyddiaduron, teyrngedau; gellid mynd ymlaen ac ymlaen. Wele rai enghreifftiau o ysglodion y Fainc o bymtheng mis cyntaf y golofn sydd, pwysleisiaf eto, yn methu gwneud cyfiawnder â hi ond sy'n rhoi ei blas:

<u>18 Mai 1940</u>

*SYFRDANWYD pawb ddiwedd yr wythnos ddiwethaf pan ddaeth y newydd am ymosodiad creulon yr Almaenwyr ar Holland a Belgium. Am "help Prydain" y gwaeddai y gwledydd bychain. Newidiodd llawer eu tôn a'u barn am achos y rhyfel ar ôl gweled hyn. Gwir yw geiriau Eifion Wyn:*
*'Gwell rhyfel nag i elyn*
*Herio Duw a mathru dyn.'*

* * * *

*Golwg brysur a gafwyd yn ddiweddar ar amaethwyr. Gweddnewidiwyd wyneb y tir ganddynt. Golygfa gwerth sylwi arni ydyw "dyn wrthi yn aredig" yn y maes. Dyma ddarlun o un ohonynt gan Owen Rhun:*
*'Llanc mewn siaced las yn gyrru'r wedd,*
*A chwysi union yn ei ddilyn;*
*Cawod hygar o wylanod teg*
*Ar gwysi coch y cae yn disgyn.'*

* * * *

*Gofynnir gan ŵr o Ddeheudir Cymru i mi gyhoeddi englyn beddargraff Elis o'r Nant. Ei awdur ydyw y Parch. J. T. Job:*
*'Oedd ddyn na wyddai weniaith, - rhoes ei lef*
*Dros ei wlad a'i famiaith;*
*A bedd fu diwedd y daith*
*I'r da wladwr diledIaith.'*
*Gwnaeth ef wasanaeth mawr yn ei ddydd fel llyfrwerthwr crwydrol. Talai ymweliad â'r chwareli y Llun ar ôl tâl a gwerthai lawer o lyfrau. Ni lanwyd ei le gan neb ar ei ôl.*

* * * *

*Deil y gôg i ganu drwy y dydd yn ein bro. Cofir gan lawer am un yn canu "tri" nodyn yng nghoed Plasweunydd. Cyfansoddwyd yr englynion hyn i'r gôg gan Ddewi Mai o Feirion. Clywodd hi yn canu ar Fwlch y Gwynt ar nos Sul, Mai 6, 1977:*
*Glaniodd y gôg eleni - a'i deunod*
*Annwyl i'n sirioli;*
*Gloyw gân ar glogwyni*
*Hyd oriau hwyr dery hi.*

*Drwy symud awr siomwyd hon - ond deil*
*Hyd y wlad yn ffyddlon;*
*A mwynhau oriau hwyrion*
*Un nos Sul yw hanes hon.*

* * * *

## 15 Mehefin 1940

*DYMA sgwrs ar Hiwmor mewn Hen Seiadau ym Mlaenau Ffestiniog a ddarlledwyd o Stiwdio Bangor, Rhagfyr 1, 1939 (cyhoeddir drwy ganiatâd y B.B.C.).*

*Y cyfarfod pwysicaf a gynhelid yn ein hardal gynt oedd y Seiat.*

*Caeai'r masnachwyr eu siopau yn gynnar ar noson seiat. Deuai'r gweithwyr yn finteioedd yn eu dillad gwaith o farics y chwarelau yno.*

*Am bynciau y seiat y sonnid yn aml gan hen chwarelwyr ar bonc y chwarel. Edrychent ar weithwyr na fynychent y seiat fel "adar duon"!*

*Deuai'r hen saint i'r seiat i adrodd eu profiadau am ddaioni Duw i'w heneidiau. Camfarnwyd hwy gan lawer fel pobl "wyneb hir" a "sych dduwiol". Caed hiwmor iach mewn llawer o seiadau gwlithog ar lawer adeg.*

*Un tro diarddelwyd merch ifanc o'r seiat yn un o eglwysi ein bro.*

*Drannoeth aeth ei mam at un o hen flaenoriaid duwiol y capel gan ddweud wrtho "hen bobol ddrwg sydd gennych yn eich capel!"*

*"Hitia di befo 'ngeneth i mae gennym lai o un yno ar ôl neithiwr weldi!"*

* * * *

*Cofiem am hen weinidog yn cerdded yn urddasol i ganol llawr y capel ar noson seiat. Holai am air o brofiad gan hwn a'r llall. Gofynnodd i eneth o forwyn - radlon braf. "Ann oes gennyt ti adnod ar dy feddwl?"*

*"Oes, - 'Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisiau arnaf. Efe a wna i mi gysgu mewn porfeydd gwelltog" -*

*"Cysgu wir," meddai ef wrthi, "y peth gorau fedri wneud ynte Ann! Dysga yr adnod yn gywir erbyn y tro nesaf."*

*Ymhen y mis gofynnodd iddi am adnod newydd.*

*"Mi a orweddais, ac a gysgais ac a <u>ddeffroais</u>."*

*"Wel, mae'n dda gennyf Ann dy fod wedi deffro", meddai.*

* * * *

*"Wel, Siân, balch ydym o'th weled yn dod i'r seiat mor selog, a thithau ddim yn clywed yn dda, pa beth sydd yn myned ymlaen yma. Pa beth wyt ti yn gael yn y moddion dywed?"*

*"O! Mistar Owen, teimlaf fy hun yn cynhesu wrth rwbio yng ngwlân defaid Iesu Grist."*

* * * *

*Mewn seiat ar nos Sul yn Nhanygrisiau lawer blwyddyn yn ôl, gofynnai gweinidog a bregethai yno, "i bawb a fwriadent fynd i'r nefoedd godi ar eu traed."*

*Gwnaeth pawb hynny ond un hen frawd plaen a brwd.*

*"Gwell i chwi godi", meddai gŵr o'r sêt o'r tu ôl iddo.*

*"Gad lonydd imi," meddai yntau yn uchel, "wyt ti'n meddwl mai hefo*

*ryw sgyrsion fel hyn yr ydw i am fynd i'r nefoedd dwad?"*

*    *    *    *

22 Mehefin 1940

*    *    *    *

*Ar ôl sôn fel hyn am y Seiat credwn y buasai llawer yn falch o gael copi o'r penillion canlynol o waith y Parch. R. R. Morris. Cawsom hwynt ganddo lawer blwyddyn yn ôl.*

*SEIAT NOSON WAITH*

*Wrth gario'r groes a'i chodi*
*Mae'r ysgwydd weithiau'n flin,*
*Ac ambell groes yn arw*
*Ond anhawdd iawn ei thrin;*
*Ond pa fo dryma'r coesau*
*Ar lethrau'r mynydd maith,*
*Rhyw Seimon yn yr anial*
*Yw Seiat Noson Waith.*

*Mae'r teithiwr mewn anialwch*
*Yn brefu fel yr hydd,*
*A'i enaid yn sychedig*
*Ym mhoethder gwres y dydd;*
*Ond pan fo'r pererinion*
*Yn llethu gan y daith*
*Rhyw ffynnon yn yr anial*
*Yw Seiat Noson Waith.*

*Mae calon sant ar brydiau*
*Yn llesg a phrudd ei lliw,*
*Mae rhodio dyffryn galar*
*Yn gwneud y fron yn friw;*
*Ond pan fo gruddiau Seion*
*Yn llwydion ac yn llaith,*
*Rhyw swp o ffrwyth y Gerddi*
*Yw Seiat Noson Waith.*

*Medelwyr difyr ydym*
*Yn torri cnwd y tir,*
*A hwyl y fraich yn pallu*
*Wrth dorri gwanaf hir;*
*Wrth fedi'r yd ysgatfydd*
*Caiff min y cryman graith,*
*Rhyw saib ar faes i'w finio*
*Yw Seiat Noson Waith.*

*Os na ddaw i'r cyfarfod*
*Fodrwyau aur y fro,*
*Yn sefyll yn y canol*
*Mae'r Brenin ambell dro;*
*Pa lwybyr gwell i'r ieuainc*
*At ddysgu'r ddwyfol iaith*
*Na'i gwrando'n cael ei siarad*
*Ar Seiat Noson Waith.*

* * * *

3 Awst 1940

*WRTH sôn am Athroniaeth ac Athronwyr y dydd o'r blaen, cyfeiriodd gŵr athrylithgar at Dr. Llugwy Owen. Canmolai y cyfrolau a gyhoeddodd "ond ni welwyd eu gwerth eto" meddai. Clywsom Silyn yn dweud bron yr un geiriau. Cyhoeddodd lyfr o emynau ond yn ein barn ni "caneuon ysgrythurol" ydynt. Fel ymladdwr dros addysg i blant y werin y cofir am dano pan oedd yn sir Fflint.*

*Mewn un cyfarfod brwdfrydig yno dywedodd wrth Syr Watcyn, o Wynnstay, "Nid oes gennyf fi yr un gynffon, a phe buasai gennyf un, ysgydwn i mohoni heno, nac unrhyw bryd arall, hyd yn oed pe cawn Wynnstay am wneud hynny. Parchaf bawb, ac anrhydeddaf y Frenhines, ond fy Nuw yn unig a addolaf." Costiodd addysg plant y werin yn ddrud i'n tadau. Medwn heddiw o ffrwyth eu llafur caled heb inni wybod fawr ddim am eu haberth. Cofiwn am eiriau Elfed:*

*Llawer bachgen talentog - a ddringodd*
*I rengau'r byd enwog,*
*A'r hen bobol wrol lin*
*O'u cyni'n gwasgu ceiniog.*

* * * *

*Englynwr campus yn ei ddydd oedd Ap Cledwen. Un o werinwyr syml y bryniau ydoedd. Ei daid, William Davies, a gyfansoddodd y pennill adnabyddus hwn:*

*'Os uffern fydd fy nghartref*
*Rwy'n penderfynu hyn,*
*Nad af fi ar fy union*
*I'r fath losgedig lyn;*
*Af heibio i Galfaria*
*Ac yno wrth y Groes,*
*Mi lefaf am fy mywyd*
*Tra pery dyddiau f'oes.'*

*Enillodd Ap Cledwen ugeiniau o wobrwyon am wneud englynion. Efe aeth â'r wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1896, gyda'r englyn hwn i'r 'Drych':*

*Gwenydd o flaen ein gwyneb - yw y Drych -*
*I'r drem mae'n cyfateb;*
*Ac o'n delw gwneud eileb*
*All hwn yn wir, gwell na neb.*

*Nid un o'i englynion gorau ydyw. Dyma dri arall o'i eiddo.*

*YR EIDDEW.*

*Godidog ei gydiadau - yw'r eiddew*
*Am fawreddog brennau;*
*A'i hardd glog fytholwerdd glau*
*Rydd wir fawredd ar furiau.*

*Y BRADWR.*

*Y Bradwr yw'r gŵr a gawn - yn gwenu*
*Gydag wyneb rhadlawn;*
*Dyn ffieiddlyd anffyddlawn*
*Na wêl neb ei liw iawn.*

*Un tro anfonodd ryw lanc i gyrchu ffisig iddo at feddyg. Wrth ddychwelyd yn ôl torrodd hwnnw y botel trwy ryw amryfusedd. Anfonwyd y llanc yn ôl at y meddyg gyda'r cais hwn.*

*Am hyn yr wy'n dymuno - Ŵr hyddysg*
*Wnewch chwi roddi'n gryno,*
*I luman gwael main o'i go'*
*Botel gyffelyb eto.*

*Bu y gŵr hoff farw Mai 20, 1903, yn 44 oed. Huna ym mynwent Gwytherin. Dyma ei feddargraff o'i eiddo ei hun.*

*Dyma fy olaf wely, - huno'n hir*
*Mewn hedd a gaf obry;*
*Dihunaf wedi hynny,*
*Ar lef Iôn, i'r wyl fry.*

* * * *

## 21 Medi 1940

*DA gennym fel ardalwyr yn 'Stiniog ydyw croesawu Dr. W. M. Jones a'i briod garedig i'n plith. Adweinir ef gan y chwarelwyr fel "Yr Hen Llansantffraid". Cofia'r gweithwyr am lawer o'i bregethau efengylaidd. Soniwyd yn hir am un a bregethodd yn yr ardal ar yr adnod 'Pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw.'*

*"Lle mae Duw yn y blynyddoedd hyn? Dyna gwestiwn a ofynnir yn aml a chan bobl go dda hefyd. Ynghanol helyntion a thrybestod y byd - pa le mae? Bu'r diafol yn pwysleisio y cwestiwn gynt, "a oedd Duw yn bod?" Rhoddodd heibio i'w ofyn heddiw. Perswadio pobl y mae yn awr i gredu ei fod yn Dduw pell draw - Un anadnabyddus a di-ddiddordeb. Nid amheua neb fod Duw. Cred rhai hefyd mai rhyw Dduw iddo'i hun ar ffiniau y greadigaeth ydyw. Waeth i ni heb Dduw felly. Duw agos, - Duw yn ein hymyl ydyw ein Duw ni. Angen pennaf ein hoes ydyw sylweddoli agosrwydd Duw. Teimlo bod ei lygad arnom a'i law ar ein hysgwydd. Pa le mae Duw? Yn ei le ac yn llond ei le. Pe peidiai â bod yn ei le fe beidia â bod. Mae hyn yn sicrwydd y daw popeth i'w le. Ceisiai llawer gael y byd i'w le, mewn byd masnach, addysg, &c., ond methant. Methu y maent am nad ydynt wedi dechrau arnynt eu hunain. Mae Duw yn ei le, a rhydd bopeth arall yn ei le. Pa beth y mae yn ei wneud yn ei le? Gweithio yn ddistaw a meistrolgar y mae. Nid oes neb yn gweithio mor ddistaw â Duw, nac mor brysur chwaith. "Mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn", &c. Gyda'i waith y mae heddiw, ac ni rydd heibio ddim nes ei orffen. Gan fod Duw yn ei le mae popeth arall yn gweithio er daioni i'r rhai a'i carant."*

* * * *

## 9 Tachwedd 1940

*WRTH siarad y dydd o'r blaen gyda boneddigion o Lundain, ymhlith pethau eraill, dywedasant na welsant erioed bobl mor hoff o dê â phobl 'Stiniog!*

*Credaf eu bod yn dweud y gwir amdanom hefyd. Ni waeth beth yw barn y meddygon am hyn, credwn fod yfed te yn iachach na dim. Dyma gyngor Dewi Hafesp.*

*Gadewch y pot a'r diota - yfwch*
*Hufen ddail yr India;*
*Tair cwpaned o dê da*
*Yn gynnes a'ch digona!*

*Bu gŵr bonheddig a'i briod o'r Amerig ar ymweliad â'r ardal hon rai blynyddoedd yn ôl. Eu henwau oedd Mr. a Mrs. Evan O. Roberts, Jackson,*

*Ohio. Yn ei gyfres ddifyr 'Characters of Penmachno' dywed Mr. Roberts:*
*'Mrs. Roberts had quit drinking tea for six months before leaving America, but upon her arrival at Ffestiniog she broke her pledge the first day.*
*To convince you that "te yr Hen Wlad" (the Old Country tea) proved beneficial to both of us is the fact that I gained 11 pounds and Mrs. Roberts 5½ pounds during our sojourn of two months in Wales.'*
*Ar wahân i yfed te y mae pobl 'Stiniog yn hoff o yfed ffisyg. Pan fydd ambell un wedi cael mymryn o annwyd rhaid mynd am botelaid fach o ffisyg. Mewn amryw o dai gwelir y botel ffisyg wrth law. Rai blynyddoedd yn ôl dywedodd meddyg wrth gyfaill inni nad oedd arno ef ddim angen ffisyg mwyach! Torrodd ei galon ac aeth i'w wely. Rhoddwyd iddo botelaid o ffisyg yn cynnwys dŵr a 'bi-carbonate of soda'. Cododd a gwellhaodd ar ei union!!*

* * * *

## 21 Rhagfyr 1940

*GWELSOM y frawddeg hon mewn cyfrol Saesneg rai dyddiau yn ôl, 'Eating rotten apples is a sin.' Yn y gyfrol gampus o 'Hunangofiant Robert Roberts' ("Y Sgolor Mawr") tudalen 15 ceir rhywbeth tebyg. Holodd y Parch. Henry Rees ef ynghylch rhyw faterion, a soniodd am y Parch. John Elias o Fôn. Am yr olaf dywedodd fel hyn: "I remember his finding me eating a rotten apple, and taking it from me, saying "He must not take to eating rotten apples and forbidden fruit, or he is undone." Ah, there is a moral to that parable my boy. It's eating rotten apples, that has ruined many a promising youth; rotten fruit of sin, and not the fruit of the tree of life. I will be glad if you remember the warning, and I hope that you will profit by it."*

* * * *

*Hola Carneddog am enw awdur yr englyn hwn.*
*NODWEDDION YR HYDREF.*
*'Barrug awchus, gwellt yn brig-gothi, - gwig*
*Heb ei gwallt, niwl trosti;*
*Hin iasoer, buan nosi,*
*A chil haul ac uchel li.'*
*RHYDDFRYN a'i gwnaeth.*

* * * *

*Mae llawer o chwarelwyr yn hoffi'r hobi o fagu ieir, cŵn, cwningod, a cholomenod, etc. Arferant ganmol eu rhinweddau y naill wrth y llall ambell waith. Canmolai un ei golomenod mewn caban bwyta yn y chwarel un tro! Dywedodd ef fel yr ehedai ei 'Homers' ef yn gyflym adref o wahanol leoedd.*
*"Twt, twt," meddai un gwrandawr, "mi fûm i yn berchennog ar golomen, ond digwyddodd rhywbeth i'w hadain, ac er ei bod wedi torri ei choes, mi gerddodd adref bob cam o Lerpwl i 'Stiniog mewn ychydig funudau!"*

* * * *

*Un noson yn ddiweddar, yr oedd gwraig oedrannus yn ein bro yn edrych ar eroplên yn hofran uwchben.*

*"Ewch i'r tŷ mewn munud rhag ofn mai llong awyr y gelyn ydyw hi" meddai cymdoges wrthi.*

*"Wel," meddai'r hen wraig, "ni wnânt fy adnabod i yn y dillad duon yma!"*

* * * *

## 8 Chwefror 1941

* * * *

*Ymadawodd nifer fawr o chwarelwyr ieuanc o'n bro rai misoedd yn ôl, i drefi mawr Lloegr. Prentisiodd amryw ohonynt eu hunain fel 'fitters' a pheirianwyr. Clywsom rai ohonynt yn mynegi yn eu llythyrau, eu bod mewn lleoedd da ac yn ennill cyflogau campus. Dywed un o'r hogiau fod y Saeson sydd yn yr un fan ag ef yn ddynion caredig. 'Heddiw' yw eu gair mawr hwy, ni faliant ddim am ddoe, nac am yfory a'i ganlyniadau. Digon o waith a digon o gyflog am ei gyflawni yw eu nod.*

* * * *

*Gwnaeth gnwd mawr o eira yn ein bro yn ddiweddar. Holwyd ni gan lawer am y flwyddyn y bu'r rhew mawr byth-gofiadwy yn ein gwlad. Credwn fod y cofnodiad canlynol a wnaed gan Ioan Brothen yn werth ei gyhoeddi heddiw.*

*HANES RHEW MAWR 1895.*

*Ni chafwyd tywydd mor fawr ag a gafwyd yn Ionawr, 1895. Dechreuodd fwrw eira a barhaodd yn hir ar nos Iau, Ionawr 24. Arswydus oedd y lluwchfeydd drannoeth a thradwy (dydd Gwener a dydd Sadwrn). Tua'r 28 neu 29 dechreuodd rewi bob nos a phob dydd bron hyd fore Gwener 22 o Chwefror, pryd y claearodd ychydig, a bwriodd law mawr nawn Sadwrn a'r Sul dilynol. Trwchus oedd yr eira ar wastadedd ac yr oedd lluwchfeydd yn chwech ac wyth llath o ddyfnder mewn rhai lleoedd. Bu holl chwarelau Ffestiniog yn segur o Ionawr 24 hyd Chwefror 25, pryd y dechreuasant weithio oddigerth y Graigddu, y Diffwys, a'r Rhosydd. Bu'r Graigddu heb weithio am tua saith wythnos, y Diffwys bum wythnos, a'r Rhosydd o ddydd Gwener, Ionawr 25 hyd ddydd Mawrth y pumed o fis Mawrth - dros bum wythnos. Rhewodd llyn y Bala i gyd, ac aeth cerbyd a phâr o geffylau drosto. Tynnwyd darlun ohonynt i goffhau yr amgylchiad. Aeth cerbyd dros lyn Llanberis hefyd tua'r un adeg, a thynnwyd darlun o hwnnw. Dywedir na rewodd llyn y Bala drosto o'r blaen er y blynyddoedd 1855 a 1839. Rhewodd holl lynnoedd ac afonydd Cymru, - yn fawr a bach, y Ddyfrdwy, y Glwyd, y Laslyn, etc. Ar afon Dwyryd (oddi wrth bont Briwfad hyd yn agos i Faentwrog) y gwelais yr olygfa harddaf a welais erioed ar rew. Wrth i'r llanw ddod i fyny yno torrai'r rhew (a ymffurfiai ar yr afon ar drai) yn chwilfriw gan ei gario i fyny ar ei war yn bentyrrau mawrion. Rhewai hwnnw yn haenau ar ei gilydd drachefn, nes aeth fel creigiau neu feini aruthrol o fawr. Wrth syllu arno bron na thybiwn mai yn un o wledydd rhewllyd Pegwn y Gogledd yr oeddwn.*

*Torrwyd rhew oedd ar lyn yn un o chwarelau Ffestiniog a mesurwyd ef, a chaed ei fod yn ddwy droedfedd ac wyth modfedd o drwch. Fe ddeifiodd y rhew mawr y glaswellt oedd dan eira nes yr oedd yn goch. Gwnaeth holl eithin a grug y wlad fel pe buasent wedi eu torri, a'u llosgi gan wres yr haul. Bu rhai yn ysglefrio ar lyn sydd ar ben Aran Benllyn ddydd Llun y Pasc, Ebrill 15. Gwelsom rew yn rhai o agorydd (chambers) Chwarel y Rhosydd yng nghanol mis Mai. Ar Garnedd Llewelyn*

*ar y 19 o Fehefin mesurwyd lluwchfeydd, ac yr oedd un yn 35 llath o hyd, 15 llath o led a 10 troedfedd o dryfesur, er y gwres mawr a wnaed drwy Ebrill, Mai a Mehefin. Tebyg ei fod yno yn hir ar ôl y dyddiad uchod.*

*Bu cannoedd o adar a gwahanol greaduriaid farw o newyn ac oerfel. Gwelwyd llawer o adar dieithr yma hefyd wedi eu gyrru gan yr oerni o wledydd eraill gan ei bod yn gynhesach yma. Daliwyd aderyn o'r enw 'Uria briennichi', a gartrefa yn ynysoedd Môr y Gogledd, mewn tref yn Lloegr, ac aderyn o'r enw 'Little Auk', hefyd.*

## 29 Mawrth 1941

*PAN oedd un o enwogion Cymru yn darlithio yn ein hardal un tro, lletyai ar aelwyd chwarelwr. Daeth bachgen ifanc i'r tŷ yn ei ddillad gwaith, ac meddai'r darlithydd wrtho, "credaf mai gweithio yn y chwarel yr ydych chwi." "Ie," meddai yntau, "rybela yr wyf yno!"*

*"Ni wn i beth yw hynny", meddai'r gŵr.*

*"Wel, enw arall ar 'fegera'" meddai'r bachgen.*

* * * *

*Gwaith rybelwr bach yn y dyddiau gynt oedd helpu bargeinwyr, trwy newid y llif a lifiai glytiau ar y bwrdd llifio. Gwnâi lwythi o rwbel naddu hefyd a llawer o fân swyddi eraill.*

*Rhoddai'r bargeiniwr ddefnydd llechi iddo yntau am ei wasanaeth.*

*Byddai ambell un yn fwy hael na'i gilydd hefyd. Am fargeiniwr crintachlyd dywedodd Moelwynfardd fel hyn un tro:-*

*"Rybela bo'r gŵr bawlyd*
*Ddydd barn ar ddiwedd y byd."*

* * * *

*Rybelwyr Siawns y gelwid dosbarth neilltuol o rybelwyr. Nid oedd ganddynt le arbennig i gael defnydd llechi. Cerddent ar hyd y felin gan fyw ar "ewyllys da" hwn a'r llall. Byddai ambell un ohonynt yn deall y natur ddynol yn dda.*

*Pan fyddai blaenor mewn cerrig da, clywem am un hen frawd yn rybela ac yn myned ato i geisio cael clytiau. Canmolai ef fel dyn duwiol, ac fel "cefn" i'r Achos Mawr. "Hwde glwt am Brincen" meddai'r bargeiniwr!*

*Wrth un hoff o'i lasiad dywedai yr un rybelwr "Peint fuasai yn dda rwan, Dickson!!"*

*"Clwt am Brincen" wedyn!*

*Wrth rai hoff o bysgota, soniai am wahanol blu "Marsh Brown", Coch y Fonddu, Ceiliog Hwyaden, etc. Gwyddai yr hen rybelwr pa fodd i drin plu wrth bysgota ac wrth rybela. Ni ŵyr rybelwyr heddiw ddim byd amdani!!*

* * * *

*Wrth sôn gyda chyfaill dro yn ôl am ofergoelion, etc., dywedodd ei fod yn credu o ddifrif "mai peth anlwcus oedd gwisgo tei neu ddilledyn gwyrdd." Wrth adrodd yr hanes wrth un o siopwyr y Blaenau, dywedodd yntau fod llawer o rai tebyg iddo. "Wrth werthu papur i roddi ar furiau annedd-dai," meddai, "mi wn am lawer na chymerant ddim â 'gwyrdd' arno!" Gweler gyfeiriad at hyn yn y 'Bye-Gones', Mawrth 5, 1902. Cyfeirir at farwolaeth boneddiges o'r Abermaw yn Llundain. Dywedodd gŵr*

*neilltuol "I knew there would be a death in the family as Miss ---- (the relative) had on a green dress the other day. On the look-out for superstitions, I asked what a green dress had to do with the death: and was told in reply that if a woman wore a green dress a relative of the family would be sure to die soon!!"*

* * * *

## 26 Ebrill 1941

*AR ôl crybwyll am rai wedi bod yn cael cymorth o'r plwy gynt, cawsom amryw o lythyrau oddi wrth wahanol bersonau, yn sôn am galedi y blynyddoedd gynt.*

*Dywedodd cyfaill wrthym am wraig lân, gynnil, ond tlawd, yn cael arian o'r plwy. Un prynhawn gwnaeth deisen ar radell ar y tân, gan roddi ychydig o gyraens ynddi. Pan oedd gyda'r gorchwyl, ymwelodd person y plwy â hi. Dechreuodd ei thafodi, ac achwynodd amdani wrth y gwarcheidwaid a gostyngwyd ei thâl wythnosol.*

* * * *

*Yr oedd bardd enwog, ac yntau yn ddall, yn derbyn cymorth o'r plwy gynt. Ar ôl iddo ennill gwobr mewn eisteddfod un tro, gostyngodd y gwarcheidwaid ei dâl o bedwar swllt, i dri swllt yn yr wythnos. Gwnaeth Eifion Wyn gerdd yn llawn o watwareg finiog iddynt.*

*'Ca'dd y dall 'agoriad llygaid'*
*Drwy eich gwyrth drugarog chwi,*
*Ac ar ôl yr oruchwyliaeth*
*Gwelodd bedwar swllt yn dri!*
*Pan eistedda Brawd y Tlodion,*
*Gyda'r memrwn ger Ei fron,*
*Dyna dd'wed - 'I mi y gwnaethoch*
*Y gymwynas deilwng hon!''*

* * * *

*Ddydd Sul, Ebrill 13, clywodd amryw y gog yn canu am y tro cyntaf eleni. Darluniodd Ceiriog hi fel hyn un tro.*

*'Aderyn dau nodyn ydyw*
*Greulon ei chalon i'w chyw,*
*Ond ar ei thôn undonnog*
*Gwlad a gâr glywed y gôg!*

* * * *

## 28 Mehefin 1941

*RAI misoedd yn ôl rhoddwyd ychydig o gofnodion o ddyddiaduron Ioan Brothen yn ein colofn. Dyma ddyfyniadau o ddyddiadur Ap Alun Mabon, y bardd ifanc swynol:-*

*Rhagfyr 6. - Yn ennill cadair ar awdl ar 'Gyfrinach' yn 'Steddfod Llanllechid.*

*Mawrth 5, 1936. - Trip i Ddeheudir Cymru i sefydlu'r Parch. R. E. Edwards.*

*Mawrth 6. - Drama yn Llangefni.*

*Mawrth 14. - Streic chwarelwyr ein hardal.*
*Mai, 1936. - Clywed y gôg yn canu ger y Neuadd Ddu.*
*Ennill ar gân i 'Dywydd 'Stiniog' yn 'Steddfod y Llan.*
*Mai 16. - Diwedd y streic.*
*Mai 28. - Yn gweithio ar bafiliwn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.*
*Mehefin 21, 3.15 a.m. - Ystorm fawr o fellt a tharanau. Yn ail ddechrau tua chwech yn yr hwyr. Mellt i'w cofio.*
*Gorffennaf 2. - Dechrau gweithio yn chwarel Fotty a Bowydd.*
*Yr hyn a enillais mewn Eisteddfodau o Tachwedd 1921 hyd Tachwedd 1922:- Englyn yn Amlwch; ar ateb cwestiynau mewn arholiad yn Parc; arholiad yn Eisteddfod Môn Llungwyn, £1 10/- o wobr; englyn, ac ail am y gadair yn Arwest Bro Dyfrydog, Môn; 10/6 am draethawd yn Eisteddfod Amlwch.*

* * * *

*Gwaith difyr yw rhoddi tro trwy hen ddyddiaduron a Llyfrau Cofnodion. Cadwodd gweithiwr o'r Manod gofnodion diddorol am wahanol ddigwyddiadau yn chwarel y Llechwedd tua 50 mlynedd yn ôl. Gwneir y gwaith difyr hwn gan aml i chwarelwr heddiw. Byddant o werth i rai a gymer at y gwaith o ysgrifennu hanes chwarelau Ffestiniog.*

* * * *

*Wrth sôn am chwarelau, bu nifer o hen chwarelwyr diddan yn sôn am yr hen weithwyr a swyddogion y chwarel pan oeddent hwy yn dechrau gweithio tua 50 mlynedd yn ôl. Y maent hwythau erbyn hyn wedi mynd at y "mwyafrif mawr". Credai rhai ohonynt y buasai'r chwarel yn gorffen ar ôl eu dydd hwy. Gweithiasant yn galed a diarbed o'u cyrff, a chafodd llawer ohonynt fedd cynnar.*

* * * *

*Gwyddom am un gŵr a adawodd enw da ar ei ôl ar bonc y chwarel ac yn ein tref. "William Jones, Bryn Awel", ydoedd, gŵr bonheddig mewn melfared. Dyn tal, urddasol, yn cerdded yn syth, siriol ei drem a mawr ei ddylanwad. Bu yn garedig wrth lawer rybelwr bach di-gefn, ac ymladdodd yn ddewr dros chwarae teg i'r gweithwyr. Nid sôn am grefydd byth a hefyd wnâi William Jones ond ei "byw". Nid dyn crefyddol ydoedd ond dyn duwiol. Cyfrannodd y gweithwyr swm da at gael darlun mawr ohono ar fur ein llyfrgell drefol.*

* * * *

Mae'r enghreifftiau hyn o'r Fainc 'Sglodion o bymtheng mis cyntaf y golofn yn rhoi syniad eithaf o'i chynnwys ar hyd y blynyddoedd, ond lawn cyn bwysiced â hynny, os nad yn bwysicach erbyn heddiw, maent yn cyfleu i ni naws unigryw y Fainc ac yn rhoi i ni 'deimlad' ohoni, rhywbeth sy'n amhrisiadwy yn y cyd-destun hanesyddol gan ei bod yn cynrychioli cymdeithas a bywyd sydd bellach yn ddiflanedig.

I gyffredinoli'n llwyr, gellir dweud tri pheth ynghylch y

Fainc 'Sglodion:

(1) Yn naturiol, oherwydd holl hanfod y golofn, mae naws y chwarel yn drwm iawn ar y Fainc, gyda straeon digrif y chwarelwyr, cyfeiriadau at hen gymeriadau'r chwarel, hen dermau chwarelyddol ac ati, yn 'sglodion' cyffredin iawn ynddi;

(2) Mae crefydd yn ganolog iawn yn y Fainc, gyda'r 'sglodion' yn cyfeirio'n fynych at y capel, yr ysgol Sul a'r Seiat, ynghyd â dyfyniadau o bregethau, emynau ac ati;

(3) Mae 'blas y pridd' yn drwm iawn ar y Fainc, a chyfeirir yn aml iawn ynddi at arferion amaethyddol yr oes, arferion adar ac anifeiliad gwyllt, pa bryd y byddai pobl yn clywed y gog yn canu am y tro cyntaf yn y gwanwyn, hen gredoau yn ymwneud â'r tywydd ac ati.

Felly pa fath o bobl oedd yn darllen y Fainc 'Sglodion ac yn ei mwynhau? Yn gyntaf, mae'n sefyll i reswm bod llawer o ddarllenwyr y golofn yn chwarelwyr: wedi'r cyfan, yr oedd holl hanfod y Fainc wedi'i wreiddio'n ddwfn ym mywyd y chwarel ac yr oedd J. W. Jones, fel chwarelwr ar hyd ei oes, yn gwybod yn well na neb beth fyddai'n apelio atynt. Er mai ardal Ffestiniog yn benodol, pentrefi megis Blaenau Ffestiniog, Llan Ffestiniog, Manod a Thanygrisiau, sef 'milltir sgwâr' J. W. Jones, oedd canolbwynt daearyddol y Fainc, yr un oedd natur unrhyw bentref chwarelyddol Cymraeg mewn gwirionedd ac nid oes amheuaeth na fyddai arlwy wythnosol y Fainc 'Sglodion wedi apelio at y chwarelwr Cymraeg pa le bynnag yr oedd.

Fodd bynnag, nid oes amheuaeth ychwaith na fyddai'r Fainc wedi apelio at bob math o ddarllenwyr Y Cymro ac yn sicr nid dim ond y chwarelwyr yn unig fyddai'n edrych ymlaen yn eiddgar amdani bob wythnos; meddai J. W. Jones yn rhifyn 25 Gorffennaf 1942 o'r Fainc:

> *Y MAE dros ddwy flynedd er pan ddechreuais ysgrifennu o dan y pennawd uchod, ar eich cais, Mr. Golygydd. Ni choeliech chwi byth gymaint o garedigrwydd a dderbyniais oddi ar law cyfeillion caredig - yn enwedig gwŷr ifanc talentog. Diolchaf iddynt i gyd. Chwarelwyr, myfyrwyr a gweision ffermydd yw y rhan fwyaf ohonynt. Gresyn na bae modd trefnu i gwrdd mewn man canolog a chael seiat lenyddol.*

Dyna J. W. Jones felly yn enwi dau fath arall o bobl heblaw y chwarelwyr a oedd yn ddilynwyr brwd o'r Fainc 'Sglodion ond mewn gwirionedd yr oedd hi'n golofn a apeliai at drawsdoriad eang iawn o ddarllenwyr y papur boed hwynt yn ffermwyr, yn lowyr, yn athrawon, yn weinidogion, yn wragedd tŷ ac ati, h.y. pob math o ddarllenwyr; gwyddys, er enghraifft, bod llawer o filwyr Cymraeg a wasanaethai oddi cartref yn dilyn y Fainc yn rheolaidd:

<u>10 Hydref 1942</u>

> *GAN inni dderbyn pedwar o lythyrau oddi wrth filwyr oddi cartref yn diolch am ddyfyniadau o'r llyfr 'Patrwm y Gwir Gristion', dodwn ambell ddarn arall ohono ambell dro....*

<u>27 Tachwedd 1943</u>

> *DAW llawer apêl atom o dro i dro oddi wrth filwyr o'r gwledydd pell am inni gyhoeddi caneuon, englynion, etc., yn ein colofn. Ceisiwn ufuddhau i gais pob un. Yr wythnos o'r blaen gofynnodd milwr o'r India am inni gyhoeddi "geiriau olaf Mari Lewis dduwiol oddi wrth Rhys ei mab". Credaf eu bod yn werth eu hail gyhoeddi heddiw....*

<u>25 Mawrth 1944</u>

> *GOFYNNA milwr o Loegr i mi, "a wyddem am benillion o waith Eifion Wyn, 'Croesaw i chwi fechgyn annwyl'". Erfynia arnom eu cyhoeddi yn ein colofn er mwyn amryw o filwyr o Ogledd Cymru sydd yn yr un lle ag ef. Cawsom gopi ohonynt gan y bardd ei hun ar ôl iddo eu cyfansoddi, ar ddiwedd y Rhyfel Mawr diwethaf....*

Mae'n amlwg felly bod y Fainc 'Sglodion yn eang iawn ei hapêl, a chredaf fod nifer o resymau am hyn:

(1) Yr oedd hi'n amrywiol iawn ei chynnwys, yn ymdrin â phob math o wahanol bynciau: 'sglodion' oeddynt yng ngwir ystyr y gair;

(2) Yr oedd hi'n medru bod yn ysmala eithriadol, a'r ysmaldod hwnnw yr union fath o hiwmor a apeliai at bobl yr oes: hiwmor glân, iach, hiwmor diniwed na frifai neb. Yn aml byddai'r hiwmor hwn yn y ffurf o straeon digrif yn ymwneud â 'bywyd go iawn' y darllenwyr, sef y chwarel, y capel ac ati, ac yr oedd felly yn hiwmor y gallai pobl uniaethu ag ef. Mewn oes oedd mor eithriadol o galed i'r bobl gyffredin, gyda Dirwasgiad mawr a Rhyfel Byd yn pwyso'n drwm arnynt, yr oedd deunydd darllen megis y Fainc 'Sglodion yn ddihangfa iddynt ac yn

dod ag ychydig o ysgafnder mawr-alw-amdano i'w bywydau;

(3) Er ei hysgafnder, nid dyna'n unig oedd y Fainc 'Sglodion, o bell ffordd; yr oedd hi hefyd yn ddiwylliedig iawn ac yn stôr o wybodaeth gyfoethog am bob pwnc dan haul ac yn ei ffordd unigryw ei hun yn addysgiadol iawn;

(4) Yr oedd hi'n golofn eithriadol o gartrefol, gyda J. W. Jones, gwerinwr hollol gyffredin, yn ysgrifennu mewn ffordd wresog, hwyliog a difyr; oherwydd hyn yr oedd darllenwyr y Fainc 'Sglodion yn teimlo'n 'un teulu mawr cytûn'.

Gwir apêl y Fainc 'Sglodion i ddarllenwyr Cymro yr oes felly oedd y ffaith ei bod yn golofn y gallai llawer ohonynt uniaethu â hi. Cofier bod carfan sylweddol o gymdeithas Gymraeg yr oes yn hollol wahanol i'r gymdeithas Gymraeg nodweddiadol heddiw, gyda bywydau'r Cymry cyffredin hyn, ac anghofio am eiliad am eu gwaith bob dydd, yn troi'n gyfan gwbl o amgylch y capel a'r 'pethe' Cymraeg. Yr oeddynt felly'n bobl grefyddol iawn, yn bobl ddiwylliedig a gwybodus, yn ddarllenwyr brwd, yn gerddorion da, yn eisteddfodwyr pybyr ac ati, ac er eu bod yn gweithio oriau maith ar hyd yr wythnos (soniaf yma am bob carfan o weithwyr), yn rhyfeddol yr oeddynt yn llwyddo i gadw a chynnal bywydau llawer mwy cyfoethog na bywydau llawer ohonom ni heddiw, nid yn yr ystyr ariannol ond ym mhob ystyr arall. Wrth reswm, nid pawb o'r werin Gymraeg oedd fel hyn, gan fod carfan sylweddol arall o'r gymdeithas a fyddai wedi diwrnod caled o waith yn llawer mwy tebygol o fynd i'r dafarn nag i'r capel, ond y pwynt sylfaenol yw bod digon o Gymry Cymraeg yr oes a fedrai gynnal y bywyd a groniclir mor naturiol ym Mainc 'Sglodion J. W. Jones.

I gloi, dyfynnaf eiriau Dr. Meredydd Evans i'w gyfaill agos J. W. Jones yn y gyfrol Y Bywgraffiadur Cymreig 1951 - 1970, gan ei fod yn yr un frawddeg isod yn cwmpasu ei gymeriad i'r dim:

> *....Yr oedd yn esiampl nodedig o werinwr diwylliedig, parod ei gymwynas, a'i ofal am 'y pethe' yn ysgogi ei holl weithgarwch.*